Historian's Office Library

The Church of Jesus Christ
of Latter-day Saints

Vault
M205.5
U19WE
v.7
1854

Rare
Call M205.5
No. U19W
v.7
1854

Historical

403

Digitized by the Internet Archive
in 2011 with funding from
Corporation of the Presiding Bishop, The Church of Jesus Christ of Latter-day Saints

http://www.archive.org/details/udgornseionneuse02unse

# UDGORN SEION,

NEU

# SEREN Y SAINT;

YN CYNNWYS

EGWYDDORION "GORUCHWYLIAETH CYFLAWNDER YR AMSEROEDD,"

MEWN

TRAETHODAU, LLYTHYRON, HANESION, PRYDYDDIAETH, &c.

"A mi a osodais wylwyr arnoch chwi, gan ddywedyd, Gwrandewch ar sain yr udgorn."—JER. VI, 17.

"Holl drigolion y byd, a phreswylwyr y ddaear, gwelwch pan gyfodo efe faner ar y mynyddoedd, a chlywch pan udgano ag udgorn."—ESA. XVIII, 3.

CYFROL VII.

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD, CYHOEDDWYD, AC AR WERTH GAN D. JONES.

1854.

4

# RHAGYMADRODD.

---

Tra y geilw *Udgyrn* gwledydd ddewrion byd i chwareulawr rhyfel, ac y boddir ei filoedd mewn Malstrom o waed dynion, geilw Udgorn Seion y "seithfed tro," ac ar hyd y Seithfed gyfrol hon i wlad lle triga pawb ynghyd mewn hedd yn y gorllewin fyd. Tra mai ein dyledswydd yw croniclo gwaith yr haint a'r plâ yn medi pobloedd y byd megys gwellt â phladuriau, gan eu gyru wrth y miloedd i ddarllen cyfrolau gwaith eu hoes mewn byd arall, ein braint a'n pleser ni fydd gwahodd drwy gyfrol arall o ein Hudgorn, y sawl a wrandawo ar ein llais i ffoi i heddychol ddyffrynoedd Ephraim, lle na chwyna na chlâf na chlwyfus braidd o fewn ei gororau. Tra y gwelir yn nrych y gyfrol hon sêr cynffonog ein hawyrgylch moesol yn sugn-dynu braidd draian eu lleuadau blith-drafflith ar eu hol, yn sefydlog saif "Seren y Saint" ar ei chyhydedd uwch preseb a magwrfa gwir Gristionogaeth, ac adlewyrcha oleuni "Sêr y boreu" draw o Seion, nes gwneuthur ein cyfrol olaf hon yn danbaid gan fwy o'u hynodion hwy, teilwng o gronicliad cyd-oesol—*eurgrawn* yw o berlau y nef, yn anrheg rhodder hi i'r oes a ddêl.

I'r ysbrydol-ddyn a ddealla ei fod eisoes yn anadlu awyrgylch "tragywyddoldeb," ac yn ffurfio cymmeriad a theyrnas ddiddiwedd, nid ymddengys cronicliad presennol ei weith-

redoedd yn rhôl y llyfrau a ddarllenir gan ei achau yn mhen oesoedd a ddêl o nemawr lai pwysigrwydd nâ'r cyflawniad o'r unrhyw yn nheyrnas Dduw, a dylai sel rhiaint i roddi cyfrolau Croniel eu Heglwys yn nwylaw eu plant fod yn gyferbyniol i'w hawydd am iddynt gael iawn gyfarwyddyd i gyrhaedd hefyd y gamp uchel ar eu hol hwy: yn arweinyddion i'r oes a ddêl ar hyd llwybrau eu tadau, i gyd-fwynhau "Coronau anniflanedig," caffer y seithfed gyda y chwech cyfrol arall o UDGORN SEION, ynghyd â eu rhagflaenydd anturus, sef "PROPHWYD Y JUBILI" yn llyfr-gell pob Cymro a gâr ei âch.

Tra y diolchwn i'r Hwn a deilynga, am bob argoelion a welwn fod ein llais, cymmysgedig â dylanwad grymus ein gohebwyr, wedi llesoli ein derbynwyr, crefwn yn daerach am gefnogaeth yr oll i ledaenu cylchrediad a llanw tudalenau ein Cyfrol nesaf â mwy-fwy o hynodion argoelus yr oes olaf hon, fel yr *Udganom* ar yn ail wythnos o leiaf, yn ddifyrus i bawb, ac yn glodfawr i'r Hwn a'n pïa ni a'n HUDGORN, yr hyn yw amcan eich

GOLYGYDD.

# CYNNWYSIAD.


Aberthiad ... .. .. 219
Amlygrwydd Crefydd Crist .. .. ... 95
Amrywiaethau 36, 68, 84, 99, 116, 148, 164, 180, 196, 211, 228
260, 292, 324, 340, 372, 403, 420, 500, 516, 532, 547, 580
596, 612
Annerchiad Llywyddol 9, 24, 298, 341, 363, 375
Annerchiad y Brif Llywyddiaeth at y Cenadon o Utah 597
Annerchiad y Llywydd Spencer ... .. 483
Ansawdd yr achos yn y Gogledd .. .. 591
Apwyntiadau .. 19, 284, 301, 445, 461
Araeth y Llywydd Brigham Young .. .. 453
Araeth y Llywydd Jones ar y Gymdeithas Genadol 485
Arddangosiad Babanod .. .. .. 587
Arwyddion yr Amserau 34, 49, 83, 98, 162, 195, 321, 353, 368
Barddoniaeth,—
" Caru y Gwir .. ... .. 133
" Blodau .. .. ... 291
" Effaith profi Sant .. .. .. 115
" Cwymp Lusiffer .. .. .. 528
" Galarnad .. ... .. 466
" Cwyn y Sant yn Babilon .. .. 322
" Am Seion .. .. .. 36
" Hiraeth am Seion .. .. 259, 499
" Pe byddwn yn llais .. .. .. 355
" Udgorn Seion ... .. 9, 562
" Y Dyfnder Mawr .. .. .. 218
" Yr Hen Grefydd Newydd ... ... 308
" Cariad Brawdol .. .. .. 611
" Y Saint yn Babilon .. ... 515
" Emyn Seion .. .. .. 610
Barnedigaethau Duw ar y Taleithiau .. .. 576
Bedyddiad Pregethwyr ... .. .. 191
Casgliadau Eglwysig .. .. ... 291
Casgliad y Saint .. .. .. 584
Cenadiaeth Penrhyn Gobaith Da .. ... 176
Cenfigen .. .. ... 154

Creulondeb at weision Duw .. .. 570
Cyfaddefiad o gamgyhuddiadau yn erbyn Capt. Jones 451
Cyfarchiad Golygyddol .. ... ... 5
Cymmanfa Merthyr 27, 48, 78, 90, 106, 121, 214, 430, 437, 462 497, 498, 522, 542
" Gyffredinol Dinas y Llyn Halen Mawr 32, 42, 55 74
Cynghor Cynnadleddol .. ... .. 160
Dammeg y Boneddwr a'i Fab .. .. 53
" Siarad plant .. ... .. 113
" Etto .. .. .. 183
Darlith ar yr Adgyfodiad Cyntaf ... .. 549
Darpariaeth Ymfudwyr i gychwyn .. ... 45
Degfed Epistol Cyffredinol .. .. 13, 21
Degymiad ... .. .. 67
Deongliad .. .. .. 217
Deongliad i Ddammeg etto .. .. 112
Deongliad i Ddammeg "Siarad Plant" ... 153
Deongliad Dammeg y Mochyn .. .. 376
Deongliad i Ddammeg yr "Ieuddewon a'r Mochyn" 327
Desgrifiad o'r Deml .. .. .. 520
Difyrwch .. .. .. 245
Doniau Ysbrydol ... .. .. 37
Dyfyniad o Lythyr at y Llywydd Brigham Young 583
Dyfyniad o Lythyr y Chwaer Jones .. .. 618
Dyfyniad o'r "Hen Grefydd Newydd" ... .. 309
Dyfyniad o Sylwadau F. D. Richards .. 466
Dygwyddiad Hynod .. ... .. 227
Dyledion am Lyfrau .. .. .. 52
Dyledswyddau Llywyddion Cangenau .. 313
Dywedyd yn ddrwg .. .. .. 197
Effeithiau Tybaco 329, 351, 367, 425, 604
Egwyddorion Gwirionedd ... .. .. 229
Eisteddfod Cynnadledd Orllewinol Morganwg .. 559
Enllib, Enllibo, a'r Enllibwr .. .. 165
Etholiad F. D. Richards .. .. .. 373
Etholiad Llywydd yr Eglwys Gymreig .. 7
Ffrwythlondeb tir Seion .. .. ... 510
Gair at yr holl Saint ... .. .. 17
Gair Doethineb .. ... ... 271
Gallu yr Offeiriadaeth .. .. .. 501
Gofyniad ac atebiad .. .. .. 194
Golygyddiaeth 29, 44, 61.—Yr Ymfudiad 77.—Ymfudwyr mynedol 93.—Llwyddiant y Deyrnas 100.—Doniau Ysbrydol 124.—India Ddwyreiniol—Ymfudwyr i Awstralia—Etholiad i'r Offeiriadaeth—Y Duw a addolir—Yr Arweinydd i Seion 140.—Cynnadleddau Cymreig—Taliadau am Lyfrau 157.—Y Dirywiad Anghristaidd, &c. 173.—Y gwaith yn Nghymru 188,

220.—Lledaeniad achos y Gwaredwr 226.—Eglwys Dduw yw Goleuad y byd 269.—Newidiad y Llywyddiaeth Brydeinig.—Yr Ymfudiad eleni 284.—Y Gymdeithas Ymfudol 284.—Gair Doethineb 301.—Y ffordd i ddedwyddwch 316.—Marwolaeth Dr. Richards 333.—At ddosparthwyr 348.—Mormoniaeth 365.—Dosparthu Traethodau 381.—Cynghor yn Llundain—Y "Star"—Yr "Udgorn"—Dyled am Lyfrau—Yr Ymfudiad 397.—Yr Epistol Cyffredinol 413.—Llwyddiant yr efengyl 420.—Teyrnas Dduw 204.—Ymweliad D. Spencer—Yr "Udgorn" 480, 493.—At Lywyddion—Dyled am lyfrau—Creulondeb yr Ellmyniaid—Y Tafieni Cyfrifiadol 509.—Ymfudiaeth 524.—Traethodu—Gair at Ymfudwyr 540, 556.—Llwyddiant yr efengyl yn Nghymru—D. Y. Barhaus—Yr "Udgorn" dyfodol—Y ffordd oreu i draethodu—Llywyddiaeth Utah—Y Cynnrychioliad Hanner Blynyddol—At y Llywyddion 588—Yr Ymfndiad—Y Degwm 605.—Y Flwyddyn Fynedol 616.

Grâs Cadwedigol—Pa beth yw? ... .. 565
Gwahoddiad .. .. .. 506
Gweddi y'ffydd y iachâu y claf .. .. 209
Gwirfoddoliaid .. .. .. 301
Gwobr am werthu llyfrau .. ... .. 388
Hanes y Mocwis .. .. 208
Hanes y Saint yn rhyfel Sebastopol .. .. 509
Hysbysiadau .. ... .. 20
Hysbysiad i ymfudwyr .. .. .. 505
Iachâd drwy'r efengyl .. .. .. 304
Iachâd mud a byddar .. .. .. 254
Iachâd o'r Cholera .. .. .. 563
Iachâd o'r Cryd a'r Mwyth .. .. .. 450
Iachâd trwy allu Duw ... ... .. 493
Llenyddiaeth y Llyn Halen Mawr .. ... 186
Llythyr W. S. Phillips .. .. .. 8
„ At y Golygydd . .. .. 72
„ John Parry ... .. 192, 508
„ J. Davis o Orleans Newydd .. ... 94
„ At y Llywydd D. Jones .. . 273
„ O Ddinas y Llyn Halen Mawr ... .. 320
„ O Ddinas Manti .. ... .. 328
„ J. Davis Meirionydd .. .. .. 307
„ O'r America .. .. .. 330
„ Y Llywydd Daniels .. .. 331, 495
„ O'r Gogledd .. .. .. 402
„ Y Llywydd Jeremy .. .. 417, 431
„ D. E. Jones .. .. 385, 447
„ O Swydd Haiarn .. .. .. 419

„ O Ddinas Cedrwydd .. .. .. 490
„ H. C. Kimball at ei fab ... .. 517
„ John Richards .. .. .. 585
„ O Diriogaeth Utah .. .. 303, 600
Marwolaeth y Patriarch John Smith .. .. 460
Mormoniaid yn yr Unol Daleithiau .. .. 613
Mormoniaeth yn y Senedd-dŷ .. .. 371
Newyddion Eglwysig Cartrefol 64, 97, 115, 129, 237, 269, 301 316, 544
Newyddion o Dd. Ll. H. Mawr 16, 176, 387, 499, 514
Newyddion o Wersyll y Saint .. .. .. 476
Newyddion o'r Dyffryn .. .. .. 595
Newyddion Tramor 65, 98, 148, 253, 269, 333, 381, 477, 524, 544
Pa fodd i gynnorthwyo yr Henuriaid ar genadaeth 615
Paham y cerir y gwirionedd ... 261, 325
Preswylwyr y "Great Basin" .. .. 178
Rhag-ofal y Llywydd Young dros yr Ymfudwyr 546
Santeiddhâd ... .. 581
Sylw ar ymryson Dwyreiniol .. .. .. 187
Syllarem ar y byd a'i "Gristionogaeth .. .. 364
Teml yr Arglwydd .. .. .. 584
Tiriad yr Ymfudwyr Cymreig yn Orleans Newydd 222
Tynged Syr John Franklin .. .. .. 586
Udgorn Seion .. .. .. 19
Unoliaeth Dyben .. .. .. 252
Y Dirywiad Anghristaidd .. 110, 126, 149, 170
Y Duw a Addolir,—Pwy yw .. 69, 85, 101, 117, 133
Y Genadaeth yn Ynysoedd Sandwich .. .. 266
Y Geri farwol a'i ffeddyginiaeth .. .. 533
Ymadiriedi .. .. .. 181
Y "Mormoniaid" .. .. 201, 274, 434
Yr "Arweinydd i Seion .. .. .. 18
Yr Etholiad i'r Offeiriadaeth .. .. .. 143
Yr "Eurgrawn Ysgrythyrol"—gostyngiad ei bris 100, 508
Y Rhyfel fyd .. .. 529, 578
Yr Indiaid *versus* Cenadon Sectyddol .. .. 365
Yr Unfed Epistol ar ddeg .. .. 389, 405, 421
Ysbryd Anghrist .. .. .. 469
Y Sectau yn cael Dadguddiadau .. .. .. 193

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 1.] IONAWR 7, 1854. [CYF. VII.

### CYFARCHIAD GOLYGYDDOL.

HYBARCH DDARLLENYDD,—Wedi bod yn absennol o'r cylch Golygyddol am bump o flwyddi, dyma ni etto yn hyderus anturio iddo, gan ddymuno o'n calon i chwi "*flwyddyn newydd dda.*" Mewn amrywiol gylchoedd cyfarchasom amrywiol ieithoedd, tu yma a thu draw i foroedd yn y blwyddi mynedol; eithr mil gwell genym ddychwelyd i gyfarch yn wythnosol, ein brodyr unwaed yn iaith ein mam; ac hyderwn fod genym loffion a'u llesola, serch bod yn mhell dros fryniau creiglyd, hyd ddyffrynoedd y mynyddoedd yn eu hymofyn. Teg yw cyfaddef ar y dechreu, nad Golygydd hunan-wneuthurol y'm, ond wediein hwthio i'r cylch-dro hwn. Gan na wyddom well nag ufyddhau i'n gosodwyr doethach, yn hyn fel yn mhob peth arall, deuwn i'ch plith heb nemawr ymffrost, pa beth a wnawn, na pha bethau ar ni ddywedwn wrthych o wythnos bwy gilydd.

Oes y rhyfeddodau—dydd yr hynodion a welir yn argraffedig ar bob peth o'n hamgylch ni; a wado wyrthiau, edrych ed a gweled "gryddion a chobleriaid," yn tori allan yn dduwinyddion campus—"glowyr a mwnwyr" yn synu "gwlad oleu," ac yn hudo torfeydd o ddysgedigion i redeg ar eu hol—y "teiliwr a'r tincier," fel eu gelwir, yn swyno torfeydd o bob gradd â chyssondeb eu cyfundrefn newydd! Gan fod y gôf yn gadael ei forthwyl a'i eingion, a'r saer ei fwyall a'i lif, i gyhoeddi yr oruchwyliaeth ryfedd; a chan fod y pysgodwyr hwythau *unwaith etto*, yn oes y byd, yn gadael y rhwydau, ac yn rhedeg

i bysgota dynion yn eu rhwyd fawr ddwyfol; gan fod rhai fel hyn, meddwn, yn gallu gosod y byd ar dân, ac yn hudo ei drigolion o bob cwr, wrth yr ugeiniau o filoedd i ffoi i'w Seion waredigol wrth oleuni ei wreichion, er gwaethaf llysnafedd ei liaws *D. D's.*, ei *Rev's.*, ei *B. A's.*, a'i *A. B's*, a'i rifres gauathrawon yn mron llesmeirio gan gynddeiriogrwydd, o herwydd na allant eu rhwystro! Yn nghanol y fath hynodion, pa syndod pe y morwr yntau a adawai ei long a'i oll, i lanw y *Drama*. Pan y mae yr holl fyd yn y crochan berwedig, a'i offeiriaid yn ffaglu eu drain o dano, pa ryfedd fyddai clywed un o feibion *Neptune* yn ysgrechian drwy ei UDGORN. Gan mai prif nodwedd yr oes yw i grytiaid dreio eu dawn drwy udganu am "Formoniaeth," ni siomid llawer, efallai, pe dysgem ninnau ambell dôn soniarus ryw bryd; o leiaf, addawwn wneyd ein goreu: ni fenir ni am beidio gwneyd yn well nâ hyny. Gwyddoch chwi ddarfod i'r UDGORN, yn llaw udganwr da, swnio yn uchel a soniarus, ac hysbyswn fod yn arosol etto, rai o brif udganwyr Cymru, a'u bod hefyd yn addaw chwythu drwy yr UDGORN yn y gyfrol hon, a gwneyd eu goreu i'ch boddio a'ch llesoli, fel trwy yr oll, hyderwn, na chwyna neb na chaiff ei *Geiniogwerth*.

O blith y lluaws hynodion, mwy na thebyg y ceir eryn amrywiaeth testunau; ymdrechwn ddethol y *gwirionedd* a geir, ac ymffrostiwn dipyn hefyd na chynnygiwn i chwi ond *gwirionedd* yn wybodus i ni. Yr y'm dipyn rhy gydwybodol hefyd i fegian yn daer arw arnoch ei chwalu yn mhlith eich cymmydogion, hyd nes y cewch arddeall beth a fydd ynddo; wedi ei weled, os hoffwch ef eich hun, tra thebyg yr hoffwch i bawb a garwch gael yr un pleser trwyddo. Wel, ymddygwch ato yn ol ei haeddiant, a boddlonir pawb—ni cheisir chwaneg Ac er na wyddom ninnau yn iawn beth fydd ynddo, er hyny y mae genym ddigon o ffydd i gyhoeddi cwpwl o filoedd o hono i ddechreu. Tra yr ymrwyma ei dderbynydd i dalu ei geiniog yn brydlawn am dano, ymrwymwn ninnau y caiff werth mwy na'i geiniog, ond ufyddhau i'r cynghor lleiaf a roddir ynddo; yn mhellach etto, ymrwymwn i fod yn atebol hyd a allwn, am y canlyniadau o ufyddhau iddo. O fewn cyffiniau Cymru ni wyddom am arall a addawa hyna, ond

EICH GOL.

## LLYTHYR ETHOLIAD.

15, Wilton Street, Liverpool, Rhagfyr 9fed, 1853.

Yr Henuriad Dan Jones,—Anwyl Frawd,—Wrth hyn gwyb-yddwch eich bod wedi eich ethol yn ddilyniedydd i'r Henuriad W. S. Phillips, yn Llywyddiaeth y Cynnadleddau Cymreig. Eich dyledswydd a fydd gwylied drostynt gyda gofal tadol; cydymgynghori ac hyfforddi y Bugeiliaid a'r Llywyddion Cynnadleddau, yn mhob materion a ymddangoso i chwi yn anghenrheidiol, er llwyddo achos Cyfiawnder a Gwirionedd; ac yn enwedigol i edrych fod yr hyfforddiadau a ddeuant allan drwy y *Star* o bryd i bryd, yn cael eu dwyn i weithrediad cywir a chyflawn, yn mysg Cangenau y Cynnadleddau cyfeiriedig: megys ethol a neilldno y dynion ffyddlonaf ac addasaf i addysgu ac hyfforddi yr eglwysi; galw ac ordeinio dynion i bregethu yr Efengyl, ac i agoryd lleoedd newyddion i'w phregethu; i wylied na fyddo unrhyw athrawiaethau yn cael eu dysgu yn mhlith yr eglwysi, oddieithr y cyfryw ar a or-chymyna dadguddiadau yr Athrawiaeth a Chyfammodau i gael eu dysgu, trwy Epistolau y Brif Lywyddiaeth, a chyfarwydd-iadau Llywyddiaeth yr Eglwysi Prydeinig o bryd bwy gilydd.

Dysgwylir hefyd i chwi wneyd eich hun yn hysbys â dos-parthiad y Llyfrau a'r *Star*, trwy y Cynnadleddau uchod, ac edrych na fyddo Dosparthwyr y Cangenau yn gwerthu llyfrau, oddieithr y rhai y caffont dâl ar law am danynt; ar fod y Cynnaddleddau, a'r Cangenau yn dosparthu y *Star* ag sydd yn ngweddill ar law; ar fod y Cymdeithasau Traethodau, os oes rhai, yn talu am y llyfrau a brynasant; ac ar fod y mesurau goreu yn cael eu mabwysiadu, pa un bynag ai trwy offerynol-iaeth Cymdeithasau Traethodau, neu Glubiau Llyfrau, er dos-parthu yr Argraffedig Air; ac, yn enwedigol, ar fod yr arian a dderbynir oddiwrth y Cyhoeddiadau yn treiglo i'r Swyddfa yn brydlawn, fel na fyddo amgylchiadau y dosparth cyhoeddiadol yn llesgâu o'r herwydd; i ddysgu pawb ag sydd a meddiannau ganddynt i dalu eu Degwm; i gymhell cyfraniadau i'r Gym-deithas Ymfudol Barhaus; ac i ddysgu Llywyddion y Cynnad-leddau, a'r Cangenau, yn mhob peth a gynnydda eu defnydd-ioldeb, ac a'u galluoga i adeiladu Eglwys Crist, mewn purdeb a nerth.

Na chaniatewch i unrhyw ddysgeidiaeth nac esiamplau anfoesol fod yn eglwys y Saint; eithr bydded i'r cyfryw a wrthodo rodio yn deilwng o'r alwedigaeth santaidd, ac o'u proffes, ar ol cael eu dysgu a'u rhybyddio yn ffyddlawn, gael eu tori ymaith o blith y cyfiawn, fel y byddo Eglwys Crist yn bur, ac yn cyn nyddu mewn gwybodaeth o Dduw, trwy ddawn yr Ysbryd Glân.

Dymunir arnoch hefyd i gymmeryd arolygiad y dosparth Golygyddol a Chyhoeddiadol, a'i wneyd yn mhob peth yn wasanaethyddol i ledaeniad ac adeiladaeth gwaith yr Arglwydd yn y Dywysogaeth.

Gweddiwn ar fod Ysbryd a gallu Duw yn gorphwys yn nerthol arnoch chwi, fel y llanwer eich calon a'ch meddwl â geiriau y bywyd; a chynghorion y Santaidd Un a fyddo gyda chwi yn wastadol, fel y galluoger chwi i borthi y praidd, i feithrin yr ŵyn, ac i weinyddu iachawdwriaeth i'r bobloedd.

Cynghorir Llywyddion a phobloedd y Cynnadleddau Cymreig i'ch derbyn, i gyfranu o'u heiddo a'u gwasanaeth er eich cynnaliaeth a'ch cysur, ac ar rodio o honynt yn ol eich cynghorion; wrth wneuthur yr hyn bethau, gorphwysa bendithion y Goruchaf Dduw ar eu personau, ac ar yr oll a berthyn iddynt, trwy ein Harglwydd Iesu Grist.

S. W. Richards. { *Llywydd Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, yn yr Ynysoedd Prydeinig.*

Daniel Spencer, *Cynghorydd.*

---

## LLYTHYR ODDIWRTH Y LLYWYDD WILLIAM S. PHILLIPS, AT Y SAINT YN NGHYMRU.

*Merthyr-Tydfil, Rhag.* 31, 1853.

Anwyl Saint,—Wele ystod y Llywyddiaeth a ddodwyd arnaf y dydd cyntaf o'r flwyddyn 1849, wedi dyfod i ben; a chan y bwriadaf fyned i Seion, yn nechreu y flwyddyn sydd yn ymyl gwawrio, yr ydwyf yn unol â'r apwyntiad blaenorol, yn darfod â'r Lywyddiaeth ar hyn o bryd. Fy neisyfiad yw i'r Eglwysi dderbyn fy olynydd â'u parodrwydd cysefin; oblegid mai hysbys i mi, trwy bum mlynedd o brofiad, y perthyn i'r swydd ddifrifol hon oruchwylion pwysig, y fath ag y sydd yn gofyn llawer o bwyll, ystyriaeth, doethineb, ac arweiniad diball yr Ysbryd Glân. Erfyniaf arnoch, anwyl Saint, gyd-ymdrechu

ar ei ran ef, mewn gweddiau fíyddiog, ac ymbiliau taerion; gan ymegnïo o honoch hefyd i'w gynnal ef yn mhob ffordd ddyledus, fel y byddo ei lywyddiaeth ef arnoch, yn gysur iddo ei hun, yn fendithiol i chwithau, ac yn ogoniant annherfynol i'r Arglwydd Dduw, yr Hwn a bïa y gwaith.

Gwaith Duw yw y gwaith hwn, a rhaid iddo lwyddo; ond y mae ein Tad nefol mor dirion â chaniatâu i chwi a minnau y fraint fawr o gynnorthwyo y llwyddiant mawreddog, trwy ein cyfraniadau haelionus, a'n gweddiau calonog: gan hyny, perchwch lywyddiaeth yr Eglwys hon, fel eich bywyd tragywyddol; canys rhaid yw i bob dyn a anmharcho lywyddiaeth yr Eglwys hon, ddyoddef cosp oddiwrth Dduw, o herwydd nid oes awdurdod ond a osododd Efe yneddi hi.

Caf eich anerch trwy yr Udgorn, o leiaf unwaith etto, cyn fy myned tua Dyffryn y Mynyddoedd: nid wyf yma namyn rhoddi y llywyddiaeth i fyny; a chan ewyllysio i chwi "ffwyddyn newydd dda," a phob lles a ddichon i mi ei ddymuno i'm hunan. Y mae fy ngweddi ddidwyll am i Dduw, y Tad tragywyddol, fendithio fy olynydd, gyda phob bendith ag sydd yn drysoredig yn Nghrist Iesu ein Harglwydd. Felly y byddo. Amen.

Er peth dolur,—mynych gysur
Oedd i'm llafur. Seintiau llon;
Colli cysgu'n ceisio'ch llesu,
A wnai 'mrathu dan fy mron:
Ond o'r diwedd, mewn tangnefedd,
Af i'r ryfedd Seion rwydd;
A chaf yno, ag iach fynwes,
Ochri'ch lles a charu'ch llwydd.

Gadael mwynion iawn gyfeillion,
Sydd i'r galon heddyw'n gŵyn;
Ond troi'n ddiddig i'r Amerig,
Rydd arbenig fiwsig fwyn:
Gwir dduwiolion, yn un galon,
Draw yn Seion dirion sydd,
A chewch chwithau, megys finnau,
Ddod cyn hir o'ch rhwymau'n rhydd.

Ydwyf, gan eich caru mewn daioni,
Eich cywir frawd yn y Cyfammad Newydd,
W. S. Phillips.

---

## ANERCHIAD LLYWYDDOL.

Anwyliaid yn Eglwys Iesu Gr st.—Dwys ystyriaeth o bwysigrwydd dyledswyddau y cylch ein gelwir iddo yn awr, trwy y llythyr blaenorol, a lanwa ein henaid. Yn gwybod ein dyfrifoldeb i'r Duw hwnw a'ch pïa chwi, ac mai yn ol y dylan-

wad a gaiff ein dysgeidiaeth ar ei hufyddion, ein barnir, o flaen brawdle yr hwn a bwysa ein hysbrydoedd, ac a ddynoetha ddirgelion ein calonau, pa ysgrifell na chryna pan ei crafangir gan fysedd o gnawd ffaeledig? Pan yn gwybod tuhwnt i ddadl, fod eich dedwyddwch, eich gogoniant—eich tragywyddol öll yn dibynu ar gael eich dysgu yn ol cynghor Duw—yn gwybod am eich parodrwydd, a'ch ewyllysgarwch anghymharol i ufyddhau, ac y dysgwyliwch i'n hysgrifell gerfio ger eich gwydd eiriau y bywyd; o dan ddwys ystyriaeth, meddwn, o'r ffeithiau gwybodus hyn, pwy na arswydai? Pwy na theimlai i ddiosg ei *hunan* oddi am dano, ac i waeddi "Pwy sydd ddigonol i lanw y cylch hwn?" Pe caniateid i ni ymgynghori â'n teimladau ein hun, "atolwg i ti, cymmer ni yn esgusodol," fyddai greddfol iaith ein henaid; ac nid dim llai na'r ffaith o'n *cyfreithlon* osodiad yn y cylch hwn,—y ffaith wybodus o fod doethineb, medrusrwydd, cyfadlasrwydd, a chymhwysderau anghenrheidiol yn cael eu cyfranu, ynghyd ag ysbryd y swydd yn cael ei râd-roddi hefyd, o'r ffynnonell ddihysbydd o bob bendithion, gogyfer â'n anghen; ynghyd a'r grediniaeth sydd ynom y taer weddiwch chwithau gyda ni am y nerth gofynol, y cymhorth wrth raid, hoed y galwad â fyddo, a'n gwrola i wisgo y wisg ryfelawg hon am danom unwaith etto yn ein gwlad, ac i sefyll yn saeth nôd etto i bicellau y gwrthfyddinoedd.

Un o brif egwyddorion eglwys Crist, yw fod dwyfol alwad, cyfreithlon ordeiniad, a didwylledd calon, fel rhaff dair caingc, yn alluog i godi i'r làn yr oll a hongiant wrthi; y gallwn ninnau gyflawni dyledswyddau pwysig y cylch hwn, nid trwy ddoethineb ddynol, na medrusrwydd personol yn annibynol ar râs Duw, ond y gallwn wneyd yr oll a ddysgwylir genym trwy Grist, yr hwn sydd yn ein nerthu, yw ein hyder.

Gwir ddymuniad ein calon—awydd ein henaid, yw achub ein hun, a chyfarwyddo ereill i achubiaeth yn nheyrnas Dduw. Diflas yw gwario ein hamser gwerthfawr yn ngwasanaeth y byd, gogoniant yr hwn a ddiflana; ei weniaith sydd dwyllodrus, ei harddwch sydd wrthuni, ei gyfeillach sydd fradwrus, a'i wobrwyon ydynt ddiwerth. Amser a dreulir yn ngwasanaeth Duw, yn unig a ddwg i ddyn wir bleser, gorfoledd parhaus, golud anchwiliadwy, a bywyd tragywyddol i'w mwynhau. Yn foddlon, ynte, ïe, yn orfoleddus ymroddwn i ewyllys yr Arglwydd, drwy ei Offeiriadaeth santaidd. Pan yn ddiddysgwyl, tra dros gan milltir oddiwrth ein teulu, nag unrhyw ddarpariaeth gyda ni, y galwyd arnom i fyned tuag wyth mil o filltiroedd, ar wythnos o rybydd, i ddyfod yma i'ch gwasanaethu chwi; gwir y teimlai llinynau ein calon mor dyned â thannau telyn, wedi ymgylymu am anwyl wraig ac anwyliaid ein hymysgaroedd,—a gwir hefyd y gelwid ni i'w gadael yn amgylchynedig gan farbariaid, ac i fod heb eu gweled am fwy o flwyddi, ond odid, nag a gawsom o ddyddiau o rybydd i'w gadael: ond

yr oedd mor wir â hyny [hefyd, mai "Wele fi, danfon fi, yma neu acw, yn awr neu yn y man, i wneyd hyn neu hyna, neu beth a fynot, fel y mynot." oedd gwreiddiol iaith ein henaid; ni wybuom wrthddylanwad. Ac y mae mor sier â hyna oll, mai yr un yw ein penderfyniad wedi dyfod yma. Mai ein hunig amcan fydd gwneuthur ewyllys yr hwn a'n danfonodd, gwged a wgo, ffromed a firomo, gwêned a wêno, ein harwyddair diysgog fydd, "Dy ewyllys di o Dad o wneler." Gan na ddaethom cyn belled â hyn i wneyd ein hewyllys ein hun, dealler hefyd, nad eiddom ni y gyfraith a weinyddir, yr egwyddorion a ddysgir, na'r effeithiau a ddygir; ac felly ni feuir ni am amcanu gwneyd cyfiawnder didderbyn wyneb â phob un, Sant a phechadur, aelod a swyddog, gwrryw a benyw, boneddig a gwreng;—"yr enaid a becho hwnw a fydd marw." sydd gystal gwirionedd ag ydyw y bydd "y cyfiawn i fyw yn ol y cyfiawnder a wnaiff." Melys odiaeth i'r teimlad ydyw gweinyddu *trugaredd* i bawb o hyd; etto, chwerwder y wermod a ddrachtia yr hwn a'i gwnelo ar gost *cyfiawnder*, pan ei gelwir i yfed gwaddod ei gwpan ei hun. Pan yn dechreu ein gyrfa filwriaethus yn y cylch hwn, yr ydym yn awyddus i bawb ddeall hyn; mai tra y rhoddo ein Meistr ynom anadl i lefaru, a nerth i ysgifenu, ac hawl i weinidogaethu, ein penderfyniad yw bod yn elyn anghymmodol i elyn a phoenydiwr dyn, sef pechod ac anghyfiawnder, byddant lle y byddont, i mewn neu allan, aelod neu swyddog, tra yr Arglwydd fydd ini yn nerth, cyfiawnder fydd ein safon. Gan nad ydym hyd yn hyn wedi deall am un ffordd i achub pobl *yn* eu pechodau, gwelir mai yr *unig ffordd* i lesoli praidd ein gofal, a adawyd i ni, yw ymdrechu eu gwaredu *oddiwrth* eu pechodau, neu ysgaru eu pechodau oddiwrthynt hwy. Hyn gaiff fod ein prif amcan—maentynfa i'n holl ymdrechiadau. Frodyr, pan yn llefaru mor blaen â hyn, teimlwn nad ydym yn unigol yn y penderfyniad hwn; eithr credwn, ïe, *hyderwn*, nid heb seiliau, fod adleisiadau calonau cannoedd, os nid miloedd o honoch chwithau, yn uchel floeddio "Amen" yn hyn. Gwyddom oll, ar a wyddom ryw beth, mai hon yw yr unig ffordd i ddiogelwch, ac mai hyn yn unig a gorona ein llafur â'r llwyddiant a ddymunem. Gwyddom fod ein dedwyddwch yn gyferbyniol i'n purdeb a'n santeiddrwydd; a gwyddom hefyd, yn dda ddigon, fod ein perffeithiad yn y priodoleddau dwyfol hyn, yn gyferbyniol i'n diwydrwydd yn ein hymarferiad â hwy. Wel, a ni yn *gwrybod* hyn oll, pa fath ryw, ddynion a ddylem ni fod, mewn santaidd ymarweddiad a duwioldeb!

Caniatêwch i'ch cyd-was yn y winllan ddiweddaf hon, gyffroi eich meddyliau puraidd, i ddeall, i *gofio* beth yw, ac i GYFLAWNI y dyledswyddau arbenig arnom i'r byd, i'r Saint, i'n hunain, ac i'n Duw! Mae cyssylltiad anwahanol rhyngom â'r oll, a thragywyddol ganlyniadau i'n gweithredoedd, byddont dda byddont ddrwg. Y glorian yn yr hon eu pwysir, a'r gyfraith

wrth yr hon eu penderfynir, yw yr *efengyl*, yr hon a râd roddwyd i ni.

Gan ein bod ni yn gwybod fod goruchwyliaeth yr efengyl wedi ei hymddiried i ni, ynghyd a chyfran o'r offeiriadaeth santaidd i iawn weinyddu yn ei hordinhadau; a chan ein bod ni yn *gwybod* mai trwy ufydd-dod iddynt y derbyniasom ni bob bendithion, ac fod y cyfryw yn gyrhaeddadwy i'n cyd-ddynion, trwy y cyfflelyb ufydd-dod; gan ein bod ni yn *gwybod* fod yr efengyl a bregethir genym, yn allu Duw er *iachawdwriaeth* i'w hufyddion; a'i bod hi, mor sier â hyny, yn allu Duw er *condemniad* i'w hanufyddion. Gan hyny, gorfodir ni i WYBOD hefyd, nad bychain na distadl yw dyledswyddau na chyfrifoldeb y Saint. Dwys ystyriaeth o'n cyfrifoldeb a'n cymhello, ynte, i'r iawn gyflawniad o'n dyledswydd i ddysgu i'n cydddynion y gwirioneddau dwyfol a ymddiriedwyd i ni. Etto, nid y tafod yn unig yw y dysgawdwr effeithiolaf, nid digon ein geiriau, pe cynnwysent ddoethineb angylaidd, i achub na chondemnio ein hunain na'r byd; canys nid ar air yn unig y bydd byw dyn. *Esiamplau* cydfynedol â'r ddysgeidiaeth yw yr ysgol feistr galluocaf. Anhebgorol er llesâu ein hunain a'n gwrandawyr, yw fod yr olaf yn ffeithiau cydgordiol i brofi geirwiredd, ac i beri fod grym yn y blaenaf. Os na wnawn *ni* yn ol ein dysgeidiaeth ein hunain, pa fodd y dysgwyliwn i ereill wneyd hyny? Os nad oes digon o rym ynddi i'n gorfodi ni i'w gwneyd hi, pa fodd y dichon fod ynddi allu digonol i gael yr effaith ddymunol ar ereill? Fel efydd yn tincian yn nghlustiau ereill, fydd dysgeidiaeth yr hwn nas gwnelo ei hunan, yn ddiau.

Mor sier â bod ffydd yn cael ei chenedlu yn y gwrandawwr trwy glywed gair Duw o enau ei weision,—mor sier ag mai ei heffeithiau yw edifeirwch dwys o herwydd eu pechodau,—mor sier ag mai trwy iawn fedyddiad y ceir maddeuant pechodau, —ac mor sier ag mai trwy arddodiad dwylaw y derbynir yr Ysbryd Glân; y mae mor ddiddadl â hyny hefyd, mai trwy ufydd-dod i *bob gair* a DDAW allan o enau yr Arglwydd trwy ei weision,—mai yn yr ymwrthodiad â phob drwg, pob pechod, anwiredd ac anghyfiawnder, a phob peth ag sydd yn groes i'w ei ewyllys, yr *arosa* y Dyddanydd hwnw gyda ni, ac y cynnydda yn ei ddylanwadau santeiddiawl. Mor rhesymol ag y dysgwyliwn ni gael ein perffeithio trwyddo, i fod yn addas i fwynhau cymdeithas y nefol lu yn y nefolion leoedd; mor resymol â hyny y dysgwylia ein cymmydogion ninnau, a'r byd, a'r nefoedd hefyd, fod effeithiau purawl yn awr yn arddangosiadol iddynt hwy, yn holl weithredoedd y Saint! A gânt hwy eu siomi genym Saint? Os siomir hwy yn ein gweithredoedd, oferwaith iddynt yr ymddangosa ein geiriau hefyd, cofiwn! Mae cysondeb, rhesymoldeb, ysgrythyroldeb, a dwyfoldeb ein hegwyddorion yn anwrthwynebol, ac yn anorchfygol i holl ddoethineb ddynol yr oes; nid oes a'i lluddia, nac a ladd ei

dylanwad, ond ymddygiadau anghydffurfiol ei phroffeswyr. A fydd i'r rhai a dderbyniasant yr oruchwyliaeth ogoneddusa—oraclau y nefoedd—allweddau iachawdwriaeth ein cyd-oeswyr, i'w cam-ddefnyddio a'u dibrisio trwy ein hanghydffurfiad â hwy? Na ato y Duw grasol a'i rhoes i ni! *Esiamplau*, ynte, gyfeillion anwyl a fyddo, ein tystion—GWEITHREDOEDD duwiol a fyddo ein nodweddau, a'n BUCHEDDAU a bregetho yn uchel mai plant y goleuni ydym! Pregethwn fwy, addawwn fwy bendithion, a phroffeswn fwy rhoddion nag a wna neb ereill drwy y byd; ac felly dylai fod, ïe, gwae ni os na fydd ein duwioldeb yn rhagori ar yr eiddo pawb ereill. Yn lle bod ofnau ar yr henuriaid, pan safont uwch ben dynion i dystiolaethu am y bendithion mawrion, a'r rhagorfreintiau a fwynheir yn ein heglwys, i'r byd ddannod iddynt frychau mewn cymmeriadau, ac edliw iddynt feiau y Saint, dylai santeiddrwydd a dihalogrwydd, sêl a diwydrwydd y Saint, fod yn nerth iddynt,—yn *nodau* at ba rai y gallant gyfeirio golygon y byd—FFEITHIAU i brofi eu gwirionedd, ac i herio efelychiad a chystadledd. Credwn yn ddiysgog, nad oes ond un peth yn rhwystro i'n crefydd anwyl redeg a llwyddo trwy ein gwlad, a bod yn anorchfygol i'r byd ac uffern hefyd, a'r un peth hwnw, mewn gair, yw, na bai y Saint yn byw—*gwneyd*, a GWEITHIO eu crefydd i sylw eu cymmydogion lle byddont! Gwyddoch eich dyledswyddau, Saint anwyl! wel, a gawn ni genych eu cofio, a'u *gweuthur*, pob un drosto ei hun? Beth yw eich atebiad? croniclir ef yn y nef! Ein penderfyniad ni yw eu gwneyd, tra y nefoedd a'n galluoga; a'n penderfyniad yw hefyd, ac nid y ni yn unig, ond gobeithiwn mai penderfyniad diysgog ein holl frodyr yn yr offeiriadaeth yw, nad oes na rhan na chyfran, aelodaeth na chyssylltiad â ni i neb, ond i'r sawl a ymdrechant gadw gorchymynion Duw,—y sawl a WEITHIANT allan eu proffes yn ddiragrith. *(I'w barhau.)*

---

## DEGFED EPISTOL CYFFREDINOL

*Llywyddiaeth Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, at y Saint gwasgaredig ar led trwy y byd;* YN ANERCH:—

GARIADUS FRODYR,—Anfonwn yr Epistol hwn yn awr atoch, trwy dystiolaethu ein bod yn eich dal bob amser mewn bywiog goffadwriaeth yn ein calonau, ac o flaen gorseddfainc ein Tad yn y nef, gan gydnabod yn ostyngedig, fod daioni ein Duw etto yn parhau i ymhelaethu tuag at ei Israel ymgasgliedig, yn ffrwythlondeb y tymmorau a aethant heibio, ynghyd â llawer cadarnhad i ffydd y cyfryw ag a ddyfal gadwant ei orchymynion yn ddianwadal.

Llawer a werthfawrogant y fraint o'u mabwysiad i deyrnas ogoneddus ein Pryniawdwr, ac hefyd o gyfammodau yr addewid trwy yr hon y gwneir y rhai ffyddlon yn gyfranogion o'r ddwyfol natur; eu heddwch, gan hyny, sydd ehelaeth, a'u llwybr sydd eisoes yn llewyrchu yn ddysglaerach yn mhob cam dilynol o'u taith hyfrydlawn, ac etto neillduol. Gan ymdrechu cyd-fyned ag arwyddion dadguddiadol yr amserau, a rhoddi benthyg ein clustiau i wrandaw sibrwd yr Ysbryd Glân, a chyda llygaid wedi eu sefydlu yn wyliadwrus ar bob symudiadau, a ddichon mewn unrhyw ffordd gynnorthwyo i ddiongli amcanion ein Tad, mewn perthynas i waith mawr y Dyddiau Diweddaf. llawenheir ein calonau yn fynych, gyda gwawr a dysglaerdeb cynnyddol y dydd a hir addawyd, er adferiad gweddillion Jacob, a chyflawn orpheniad Tŷ yr Arglwydd yn mhen y mynyddoedd.

Cyfarchwylwyr y boreuol oleuni, yn gyffredin a orweddant yn dra isel, fel nad allo unrhyw wrthddrych canfyddadwy uwchlaw iddynt, yn hawdd ddianc ymchwiliad eu llygaid gwyliadwrus. Yr addfwyn a'r gostyngedig o galon, ydynt bob amser yn ffyddlon. Iddynt *hwy* mae ymdeithiad gwaith y Tad yn eithaf digon cyflym. Iddynt hwy nis gellid gwellhau y gwaith, er iddo fod yn gyflymach neu yn arafach. Paham? O herwydd eu bod hwy yn byw trwy eu ffydd yn mhob gair sydd yn dyfod allan o enau Duw. Ymwadasant hwy â'u cyfiawnderau eu hunain, gan wybod nas gallent hwy o honynt eu hunain, ragolygu y diwedd o'r dechreuad, ac o ganlyniad farnu am bethau Duw, oddigerth trwy Ysbryd Duw. Nid yw y byd trwy ddoethineb yn adnabod Duw; ond y mae y Sant addfwyn, trwy Ysbryd Duw, yn barnu pob peth. Pwy a ddichon fynegi heb Ysbryd Duw, neu ddadguddiadau uniongyrchol oddi uchod, pa bryd a pha le y mae yn amser i adeiladu ac i blanu, a pha un o ddau neu lawer o bethau a lwydda? Pwy a all adrodd pa mor agos y dichon afiechyd anrheithiedig fod, neu newyn gwasgedig, neu ymraniadau mawrion y cenedloedd mewn rhyfel? Yr atebiad gwirioneddol i'r gofyniadau hyn ydyw, mai Efe yn unig, yr Hwn sydd yn gwybod y diwedd er y dechreuad, a'r cyfryw ag a apwyntir ganddo Ef, i dderbyn amlygiadau o'u ewyllys Ef. Mae teyrnas Dduw yn dyfod heb ddysgwyliad.

Ar yr 20fed o Ebrill diweddaf, ymwelodd y Llywodraethwr â rhai o'r sefydliadau dehenol, aeth heibio i Palmyra, tref newydd a darddodd i fyny yn yr ystod byr o ychydig wythnosau, ac arosodd yn Payson a Nephi yn ei daith.

Ar y 26ain o'r un mis, cychwynodd ein brodyr, A. Lyman a C. C. Rich, i San Bernardino.

Ar y 27ain, rhybyddiwyd y brodyr yn sefydliad Allred i adeiladu amddiffynfa a gwarchgae anifeiliaid, a phrofodd y dygwyddiadau canlynol yr anghenrheidrwydd o'r rhybudd.

Er na ddychwelodd y Llywyddiaeth adref hyd yr 2il yn Mai, etto cyflawnwyd y daith trwy ystod cryn lawer o rew. cenllysg, ac eira; ac yn *Spanish Fork*, gorlifodd y dyfroedd eu terfynau arferol i'r fath raddau, fel mai rhaid oedd cymmeryd y y pedrolfeni dros y llif gan ddwylaw y brodyr. Rhuthrodd y dyfroedd i lawr y mynyddoedd, yn ystod y tymmor a aeth heibio, gyda mwy cyflawnder nag mewn unrhyw flwyddyn flaenorol, er ys pan yr ymsefydlodd y Saint yn y dyffryn.

Ar y 7fed yn Mai, cafodd y lleng milwyr Nauvoo ymddangosfa gyffredinol; ac mor ddiweddar â'r 16eg o'r mis, yr oedd y rhew yn ddigon tost i ladd y cloron a'r gwinwydd. Ar y 29ain, cyrhaeddodd y Dirprwywr i'r gymmanfa seneddol. yr Anrhydeddus J. M. Bernhisel, Ddinas y Llyn Halen Fawr, yn siriol a bendithiol.

Ar y 1af o Fehefin, cadwodd llywodraeth deddfroddol Utah ei gwyl flynyddol, yr hwn a ddygwyddodd fod yn ddydd genedigaeth y Llywydd B. Young, trwy Ddawnsfa seneddol; ac aethant i eisteddfod gyhoeddus ar yr 2il a'r 3ydd. Yn yr ystod hwnw, y dyfroedd a ddaethant yn dra uchel, gan waethygu pethau mewn llawer o leoedd yn y ddinas

Ar y 12fed, cyrhaeddodd yr orymdaith ymfudol gyntaf o'r Missouri, tra yr ydoedd dyfroedd y dyffryn yn hynod o uchel, yn gwneyd niwed mawr, gan achosi gwneyd porthfa ar draws afon yr Iorddonen, yn herwydd colli y brif bont. Cottonwood fawr a wnaed yn anhyffordd yn yr un amser, tra yr oedd yr eira yn bymtheg troedfedd ei ddyfnder yn *North Kanyon*; ac er mor ddyeithr y dichon hyny ymddangos, i breswylwyr rhai gwledydd, cynauafwyd cae o wenith ar yr 28ain, a braidd yn nghymmydogaeth uniongyrchol y fath faintiolaeth aruthrol o eira mynyddig. Ond ni bu i eira mynyddig, na rhyferthwy

dychrynllyd o ddwfr, gyda tharanau a chenllysg yn profi eu ffyrnigrwydd ar yr ymfudwyr yn y mynyddoedd, gan ysgubo ymaith eu hanifeiliaid cludo beichiau, allu etto rwystro yr ymfudydd aur-geisiol, rhag dilyn ei hoff eilun drwy anhawsderau yn Ngwanwyn y flwyddyn, ag ydynt yn fwy rhwystrau yn aml, ac yn fwy peryglus i iechyd a llwyddiant, nâ'r hyn a brawf y Saint yn mis Hydref.

Cafodd ein pobl ein hunain brofi colled am rai anifeiliaid, a'r anghyfleusdra o nosweithiau oerllyd, ac weithiau o fyr ymborth, cyn y gellid cludo digonolrwydd iddynt ar y gwastadedd; er hyny, ni ellir braidd cyfrif eu palliant fel yn ddyeithr, nag hyd y nod yn dost. Yn y cyffredin, gwellasant yn fawr o ran iechyd, heb y caethwasanaeth poenus o gymmeryd moddion meddygol, neu dalu gofyn-ysgrif meddyg. Ac yn y cyffredin dysgasant trwy y daith i ddodi ymaith y gloddesta a'r gormodedd, y gofynir mewn rhai gwledydd ac amgylchiadau, fywyd o gaethwasanaeth i'w diwallu.

Cyrhaeddodd y mwyafrif o'n hymfydwyr yma dros y gwastadedd; y mae y cwmni olaf dan ofal y Cadben John Brown, o fewn ychydig filltiroedd i'r ddinas. Canfyddasant y daith ardirol yn dra iachus, ac ni chyfarfuasant ag unrhyw rwystrau difrifol ar eu hynt.

*(I'w orphen yn ein nesaf.)*

*Cyf.* ROBYN DDU.

---

## NEWYDDION O DDINAS Y LLYN HALEN.

WEDI i'r rhan flaenorol o'r UDGORN fyned i'r wasg, rhoddodd ein caredig frawd Thomas Jeremy y *Deseret News*, dyddiedig Hyd. 15, 1853, yn ein llaw; o hono lloffwn ychydig dywysenau o rawn rhagorol, yn unig y tro hwn. Ni ddysgwylir i ni ddweyd llawer wedi derbyn y pethau cyfeiriedig. Nid oes ynom ni hyd yn hyn, ddigon o hunanoldeb i gredu y gallwn roddi gwell amrywiaeth i'n darllenwyr, nâ'r hyn a geir gan y Brif Lywyddiaeth. Darllener yr Epistol yn eglwysi y Saint, a gwneler yn ei ol. I ni archwaetha mor flasus ag yw dwfr oer i enaid sychedig. Heblaw y newyddion dyddorol a gynnwysa, tystia Ysbryd y gwirionedd i ni, mai gwneuthur ewyllys Duw

yw ewyllys ein llywyddion, ac mai eu hawydd penaf hwy, fel ninnau, yw cael gan yr holl rai a broffesant fod yn Saint, i WEITHIO ALLAN EU PROFFES!

Dywed Gol. y "News" iddo dderbyn gan H. M. Alexander, un *squash*, tebyg i bwmpkin, yn pwyso 105 pwys; gan D. H. Miller, o Swydd Davis, bump o gloron *(pytatws)* yn pwyso 20½ pwys. Cosyn o gaws yn anrheg gan y chwiorydd o Ddinas MANTI, yn pwyso tua 85 pwys, yngbyd ag amrywiaeth o *beaches*, a ffrwythau addfed ereill. Parhaodd y tywydd yn hyfryd, heb ddim rhew yn y Ddinas, hyd y dyddiad uchod. Yr oedd yr oll o'r ymfudwyr wedi cyrhaedd pen eu taith pryd hyny, oddieithr osgordd neu ddwy ag oeddynt yn gyfagos, ac wedi cael rhwyddineb rhagorol. MURIAU Y DEML arddechog a fyddant ar lán yn gyflym; a'r mur oddiamgylch y Ddinas oedd ddigon amlwg i'w weled o bell. Y mae undeb a chyd-weithrediad hynod yn mhlith yr holl Saint, a phenderfyniad unfrydol i gario pob cynghor i weithrediad effeithiol.

---

## GAIR AT YR HOLL SAINT.

CREFWN sylw manwl pawb at, a chyd-ymegnïad ein cyd-weithwyr, i gario i weithrediad effeithiol, yr holl ddyledswyddau a osodir arnom yn y llythyr apwyntiad, yn nechreu y rhifyn hwn! Na foddloned neb o honom ar lai nâ hollol gyd-ymffurfiad ag ef.

Hefyd, gyda phleser coffhawn y Saint, yn enwedig y Llywyddion, o barthed i'w dyledswyddau, a'u braint, tuag at ein Hybarch gyn-lywydd. Am amryw flynyddau weithian, â'i holl amser gwasanaethodd chwi, tra ereill lawer, a ennillasant ddigon i'w cludo i Seion er ys llawer dydd. Dyma yr amser dedwydd iddo ef wrth y drws, pan y caiff ei enaid yntau deimlo yn rhydd o gaethiwed Babel. Nid oes ond amser byr etto, i chwi gyfranu at ei ymfudiaeth ef a'i deulu. Gwnewch frys, ynte, frodyr, gan gofio mai â pha fesur y mesuroch yr adfesurir i chwithau. Eich haelioni yn hyn a deilyngo i chwi fendithion y nef, a llawenydd calon, ar ymadawiad eich parchus Lywydd ymadawedig, ac hyd byth bythoedd.

## "YR ARWEINYDD I SEION."

Dyna yw enw Traethawd, a fwriadwn ei gael allan o'r wasg, cyn y cychwyna yr ymfudwyr Cymreig eleni, os ceir digon o gefnogaeth.

Cynnwysa bob cyfarwyddiadau a ystyria ei Awdwr yn anghenrheidiol, o'r darpariadau cyntaf, yn Nghymru, hyd i ben y daith yn Seion. Dosparthir yr Ymfudwyr yn *dri* dosparth; sef yn gyntaf, y cyfoethogion; yn ail, y cwmpeini £13; ac yn drydydd, y rhai a ânt gyda y Gymdeithas Ymfudol. Caiff pob dosparth gyfarwyddyd ynddo, o barthed i ddillad gwrryw, benyw, a phlant, o'r coryn i'r sawdl;—celfi, llestri, &c., &c. Rhoddir ynddo gynghorion hefyd i wahanol grefftwyr, yn eu darpariadau:—pa fwydydd i'w darparu, a'r lleoedd goreu i'w prynu; y modd i ymddwyn yn Liverpool, a pha bethau a ddylid eu prynu yno at wasanaeth ar y fordaith ac yn mhellach. Pa fodd i ymddwyn yn y llong ar hyd y fordaith;—bwyta, gwisgo, &c., &c. Cynghorion anghenrheidiol pan gyrhaedder *New Orleans*, ac yn yr agerfadau ar hyd yr afonydd Americanaidd. Y modd i ymddwyn yn St. Louis, yn ngwyneb afiechyd, lladron, a gwaeth, sef gwrthgilwyr twyllodrus! Pa bethau i brynu yno, gogyfer â'r daith yn y blaen, ac i fod o ddefnydd wedi cyrhaedd y Dyffryn. Y modd i adnabod yr arian Americanaidd, ynghyd â chyfarwyddiadau manwl i ddewis anifeiliaid corniog, a wageni,—y ffordd oreu i ddysgu iddo y blaenaf, a'u dofi at wasanaeth, a'r dull goreu i'w gyru ar hyd y daith: faint o bwysau sydd weddus i bob pâr o ychain,—pa fodd i ddeall pan fyddo yr iau neu y ddôl yn rhy fach neu yn rhy fawr, ac i'w gwella:—adnabyddiad o, a gwellhad yr *Hollow Horn*, y *Fouls*, a chlefydau ereill, cyffredin i'r anifeiliaid ar y daith;—pa fodd i wylied y gwersyll a'r anifeiliaid yn y nos, rhag yr Indiaid,—y *Stampedes*, a'r modd yw rhagflaenu;—pa fodd i wneyd *correl* o'r wageni, neu wersyllu;—tân ar y *praires*, y perygl o hono, a'r modd i'w ochelyd;—pob cyfarwyddiadau i helwyr,—y drylliau goreu, a'r lle eu ceir,—y *powder*, &c., &c., a'r modd goreu at gadw yr helwriaeth yn ddilwgr. Y modd i yru a gofalu am geffylau ar y daith: desgrifiad o "glefyd y chwip," a'i feddyginiaeth sicr! A llawer yn ychwaneg na hyn yna, a ddyweda yr "*Arweinydd*" wrthych; hysbysa chwi hefyd pa le y cewch

ddwfr, porfa, a thanwydd i wersyllu bob dydd, os gwrandewch arno;—hefyd pa le nad oes y cyfryw bethau, fel na'ch siomer pan ddelo y nos arnoch. O ba fanau y dylech gârio dwfr gyda chwi;—pa le y mae dyfroedd gwenwynig, &c., &c. Hysbysa i chwi hefyd y pellder, i'r filltir, sydd o Council Bluffs i'r fan lle byddoch, a pha sawl milltir a fydd rhyngoch a phen eich taith o'r manau hyny. Yn fyr, ateba yr *Arweinydd* bob gofyniad braidd ag y bydd anghen am ei ateb; ac arweinia ei ufyddion i Seion, yn waredigol o'r amrywiol ddygwyddiadau, ag ydynt annocheladwy i'r anmhrofiadol.—*Ei bris*, ymdrechwn hyd y byddo yn bosibl, iddo beidio bod dros *chwe cheiniog*. Anfoner am dano drwy Ddosparthwyr y Cynnadleddau yn ddioed, gan na fwriadwn argraffu ond ychydig nifer.

---

## APWYNTIADAU.

Bydded hysbys i'r Saint yn Nghymru ein bod ni wedi rhyddhau yr Henuriaid Thomas Jeremy a Daniel Daniels, o fod yn Fugeiliaid, ac wedi eu dewis yn gynghorwyr i ni yn y Brif Lywyddiaeth Gymreig; ac fel y cyfryw, dymunwn ar y Saint eu derbyn, ufyddhau i'w cynghorion, a'u bendithio hwythau trwy eu ffydd a'u gweddiau, a thrwy ddiwallu eu hanghenrheidiau. Yr Arglwydd a'u cynnysgaetho ag Ysbryd eu swydd, a'u bendithio, ac a'u gwnelont yn fendithiol i bawb lle yr elont.

Hefyd, dewiswyd yr Henuriad William Sims, i fod yn Brif Ddosparthwr llyfrau Cymraeg a Saesneg, yn Nghynnadledd Ddwyreiniol Morganwg. Cyfarwydder i 14, *Castle Street, Merthyr.*

D. Jones.

Llywydd Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf yn Nghymru.

---

## UDGORN SEION.

Dos Udgorn, dewis adgan—i frodyr
Dy hyfrydol amcan;
Rhinwedd addysg rho'n ddyddan,
I deulu Duw,—o law Dan.

CADBEN JONES, union seinied—ei deg iaith,
Trwy dy gorn, i'w glywed;
A mawr lwydd fo mwy ar led,
Yn ei iawngraff uniongred.

Yn ddwysgall un addysga—y werin,
Mewn gwiredd llawn mwyndra:—
Blwyddyn newydd, dydd nawdd da,—dwg weithion,
I lon drigolion daear gwalia. ROBYN DDU, ERYRI.

## HYSBYSIADAU, &c.

O DDIFFYG lle, rhaid i ni adael Hanes Cymmanfa Gyffredinol Dinas y Llyn Halen, ynghyd a Chofnodion Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg, hyd y rhifyn nesaf.

DYSGWYLIR y Cynnrychioliad hanner blynyddol i mewn yn ddioed. Hysbysir yn brydlawn pa bryd bydd yr ymfudiad Cymreig.

### DYLEDION AM LYFRAU ODDIWRTH Y CYNNADLEDDAU, AM Y CHWARTER YN TERFYNU RHAGFYR 31, 1853.

SIR Fynwy, £26 7s 9¾c; Sir Frycheiniog, £1 2s 8c; Gorllewin Morganwg, £83 2s 9½c; Llanelli, £20 18s 5c; Caerfyrddin, £7 4s 5¼c; Sir Aberteifi, £7 13s 4¾c; Sir Feirionydd, £6 19s 4c; Sir Fflint, £16 3s 2½c; Dyffryn Conwy, £3 16s 7¾c; Sir Ddinbych, £11 12s 8¼c; Penfro Ogleddol, £4 13s 10c; Sir Fôn, £11 18s 6¼c; Cangen Gymreig Liverpool, £2 6s 11c; Morganwg Ddwyr., £122 2s 8¾c.—Cyfanswm, £332 12s 10¾c.

TALIADAU O ION. 2 HYD ION. 5.—Sir Fflint, £1 5s 6c; Morganwg Ddwyreiniol, £38 18s 8c.—Cyfanswm, £40 4s 2.

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau, i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street*, *Merthyr-Tydfil*.

### CYNNWYSIAD.


| | TUD |
|---|---|
| Cyfarchiad Golygyddol | 5 |
| Llythyr Etholiad | 7 |
| Llythyr y Llywydd W. S. Phillips at y Saint yn Nghymru | 8 |
| Anerchiad Llywyddol | 9 |
| Degfed Epistol Cyffrediol, &c | 13 |
| Newyddion o Ddinas y Llyn Halen | 16 |
| Gair at yr holl Saint | 17 |
| Yr "Arweinydd i Seion" | 18 |
| Apwyntiadau | 19 |
| Udgorn Seion | 19 |
| Hysbysiadau, &c. | 20 |


MERTHYR-TYDFIL:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

RHIF. 2.] IONAWR 14, 1854. [CYF. VII.


## DEGFED EPISTOL CYFFREDINOL

*Llywyddiaeth Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, at y Saint gwasgaredig ar led trwy y byd.*

[Parhad o dud. 16.]

CYFLAWNWYD peth difrodaeth ar ein dinasoedd, gan y gyfran fwyaf aflywodraethol o'r Indiaid, yr hyn obeithir a attalir heb unrhyw alanastra difrifol ar ran preswylwyr Tiriogaeth Utah. Ar y 19eg yn Ngorphenaf, saethwyd y brawd Creel, tra yn sefyll gwarchodfa yn Payson, gan Indiad perthynol i fintai Walker; er yr amser hwnw, lladdwyd ychydig ereill gan yr Indiaid; saethwyd dau tra yn marchogaeth brys-genadwri o ddinas Filmore. Ond frodyr, na adawer i'n sylw archolli ein meddyliau trwy y toriadau allan hyn, a gyflawnir gan y gwedd illion anwar a'n hamgylchynant. Mae gan yr Arglwydd, ein Prynwr, ryw ddyben i'w wasanaethu trwy yr hir ddiraddiad, â'r rhai a fawr gamdrinir yn fynych, ddisgynyddion hyn i Abraham, a phan y dysgo y Saint i wneyd cystadl â Laman, mewn cyfartalwch i'w gwybodaeth, a'u hir brofiad, gallwn yn resymol ddysgwyl ychydig lai o anhawsdra o'r ffynnonell hono.

Dichon y cerydd hwn oddiwrth ein gelynion, brofi yn amserol rybudd a lles i lawer, i ymddeffroi o'u hun-glwyf a'u hesgeulusdod o gynghor *pendant* ac *amserol*, tra nad yw aberthau uniongyrchol, ac efallai didrosedd eu creulondeb wedi cwympo i'r ddaear heb sylw ein Nefol Dad. Dichon i'r ddys-

gyblaeth rymus, yr hon y caniateir i'n gelynion ei bwrw ar y Saint, megys corff, am esgeulusdod o'u hiachawdwriaeth, weithiau gyfranu at eu cadw hwynt oddiwrth gyfeiliornadau, ag ydynt lawer mwy i'w harswydo, nâ'r ceryddon a amcanwyd i'w rhag-rybuddio hwynt. Ni ddichon addewidion Duw, mewn perthynas i adferiad Israel ballu, ac ni ddylai dim droi ein ffydd a'n gweddiau oddiwrth ddysgwyliad parhaus am eu cyflawniad.

Chwi a ganfyddwch trwy gyfeirio at gofnodion ein Cymmanfa Gyffredinol ddiweddaf, fod yr amser wedi dyfod i surdoes iachawdwriaeth gael ei gynnyg i'r gweddillion a breswyliant gyfandir yr America. Tra mae Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiaf Diweddaf, yn cludo yr Efengyl i bob cyfran bwysig a phell o breswylwyr y ddaear, heb eithrio unrhyw genedl, pa mor bell bynag, nis gallwn selio i fyny ein tystiolaeth mewn perthynas i feibion difreiniad Abraham, ar ein cyffiniau uniongyrchol, heb gynnyg iddynt hwy yr unrhyw Efenyl ogoneddus, i'r hon yr ufyddhaodd eu tadau mor addfwyn ac ardderchog yn nydd eu hymweliad: ond na fydded i'r henuriaid ar led laesu eu dwylaw oblegid hyn, canys os erlidiant chwi mewn un genedl, a'ch taflu allan, ewch i'r drws cyntaf a ymagoro yn y genedl nesaf a'ch derbynio chwi; ac na arbedwch eich ymdrechiadau, o godiad i fachludiad haul, hyd nes i bob clust gaffael y cyfleusdra o glywed efengyl yr iachawdwriâeth.

Parotöadau cyffrous ydynt yn awr mewn gweithrediad i furio i mewn y dinasoedd, ynghyd a'r holl sefydliadau o bwys trwy y Diriogaeth. Y deuddeg Apostolion, gydag ychydig eithriad, a dderbyniasant yn ddiweddar benodiadau pwysig, i gymmeryd gofal o ddosparthiadau go fawrion o'r Diriogaeth, ac a ânt i faes eu cenadiaethau mor fuan ag y bydd yn gyfleus. A chynnyddir y rhwyddineb i addysgu, i'r holl ddinasoedd a'r sefydliadau yn yr holl Diriogaeth, trwy i'r Deuddeg weinyddu yn bersonol yn mhlith y bobl a breswyliant yn y gwahanol sefydliadau.

Bwriedir gwneyd ymegnïadau cynnyddol at gasglu y Saint o diroedd pellenig: a thra y gellir ac y bydd i ryw foddion gartref, gael eu hebgor at gynnorthwyo Saint pellenig i ymgasglu i'r lleoedd apwyntiedig am ddiogelwch, dros ac uwch law y draul o'r ymegniadau a wneir at adeiladu a rhagfurio

dinasoedd a threfydd, ac anfon allan nifer fwy o genadon, nyni etto a ddygwn ar gof i'r Saint yn Lloegr a lleoedd ereill, ag y sydd ganddynt oruchwyliaeth dros gyfran o drysorau daearol, nai yn awr y gallant fwynhau y fraint o gynnorthwyo y cyfryw ar na allant gynnorthwyo eu hunain, ïe, tlodion yr Arglwydd, a derbyn eu gwobr yn adgyfodiad y cyfiawnion.

Yn ddiweddaf, frodyr, na laeswch eich dwylaw, eithr byddwch ddyfal i wneyd gyda'ch gallu, waith da yn mhob galwedigaeth gyfiawn a chanmoladwy, a phrofwch eich hunain, trwy gofleidio pob cyfleusdra i fod yn ddefnyddiol, a mawrhewch eich galwedigaethau, fel eich cyfrifer yn deilwng o fywyd tragywyddol. Byddwch fyw eich crefydd mor amlwg ac anammhenol, fel y galloch chwi deimlo ei gwirioneddau heddychlawn a phuredig, a'i nerth hi, rhag gafaelyd o demtasiynau arnoch chwi, na fyddo genych allu i'w gwrthsefyll, ac y colloch yr hyn yr ymddangosid i chwi ei ennill. Na adewch i'ch bywydau fod y fath ag y dichon i'ch calonau eich hunain eich condemnio, rhag iddo Ef, yr Hwn sydd fwy nâ'ch calonau, ddwyn cyhuddiadau yn eich erbyn, a fyddo yn llawer lliosocach, a mwy nag a dybiodd meddwl niwliog a thywyll.

Cofiwch yn feunyddiol, anwyl frodyr, os dymunwch fod yn gyfiawn, fel eich Tad nefol, fod ei gyfiawnder ef yn dyfod trwy DDADGUDDIAD, trwy eich ffydd chwi. Na fyddwch foddlon gyda dim yn fyr o ewyllys ddadguddiedig eich nefol Dad; o fod wedi eich adeiladu ar y sylfaen hon; ac ni fydd y dylifoedd o gyfeiliornad a themtasiwn sydd raid eu dyfod ar yr holl rai hyny a breswyliant ar y ddaear, yn alluog i'ch dadymchwelyd chwi.

Cofiwch addysgiadau eich Prophwydi Joseph a Brigham, ac ufyddhewch iddynt hwy. Meddyliwch am addysgiadau cofnodion y Gymmanfa a ddeuant gyda'r Epistol hwn. Rhodiwch yn ostyngedig gerbron eich Tad nefol, a gwnewch ei ewyllys Ef. Os oes gan lywyddiaeth yr amrywiol gangenau yn y gwahanol genedloedd, y cyfleusdra o anfon y Saint yn mlaen o'r trofanau poethion i San Pedro, neu San Diego, Cal., anfonwch hwynt; gadawer iddynt fyned yn uniongyrchol at y llywyddion Amasa Lyman a Charles C. Rich, San Bernardino, a chymmeryd eu cynghor, a bydd i Dduw, ein Tad nefol, roddi i chwi ddoethineb yn mhob pethau, henuriaid, chwiorydd a chyf-

eillion, fel y byddo i chwi ein cyfarfod ni yn y deyrnas nefol, ydyw gweddi eich brodyr,

BRIGHAM YOUNG.
HEBER C. KIMBALL.
W. RICHARDS.

Dinas y Llyn Halen Fawr, Hydref 13, 1853

[A gyfieithwyd gan Robyn Ddu, Eryri.]

---

## ANERCHIAD LLYWYDDOL.

[Parhad o dud. 13.]

EGLWYS DDUW a ddylai fod y *faniar* gyhoeddus i'r byd,—arddangosiadol o fawreddog amcanion y nef, a'r FFAITH argyhoeddiadol i bawb o'i dwyfoldeb; ei haelodau a ddylent fod yn arwyddion a rhyfeddodau eglurhaol i'r byd, o fawr allu eu crefydd; mwy gwyrthiol yn eu heffeithiau ar eu gweithredoedd, eu cariad, eu haddfwynder, gostyngeiddrwydd, cymmwynasgarwch, gonestrwydd, cyfiawnder, sêl, a phob rhinwedd arall, nag a fu un math o wyrthiau ereill erioed. Gwyrthiol i fyd llygredig ac anwybodus a ddylai fod holl ymddygiadau proffeswyr crefydd wyrthiol! Esiamplau annheilwng o efelychiad a andwyodd y byd er holl ymffrost doethineb dynol draddodiadau. Esiamplau teilwng o efelychiad gan y Saint, a'i hadfera yn ol er gwaethaf pob gwrthwynebydd. Pe patrwm fyddem, megys y dylem fod i'r byd, mewn gwisg, mewn bwyd, mewn byw, mewn gair a gweithred, mewn gwylio a gweddio, mewn cariad a ffyddlondeb, mewn gweithredoedd yn gystal a ffydd, pregethem i'r byd ddarlith anghymarol, i'r ymchwiliwr esiampl, ac i wlad Gristionogol wers well nag a allodd holl ddoethineb colegawl a hyawdledd holl bwlpudau, er ymgais oesawl, ei dysgu! At y gorchwyl, ynte, O Saint, yn fwy penderfynol nag erioed, a llwyddo wnawn, mae nerth yn ol y dydd i ni i'w gael; gwyddom hyn, a gwyddom mai nyni a ddylai fod goleuni y byd. Goleuo wnelo ein goleuadau nes swyno serch a denu golygon gonestion byd i rodio wrth oleu dydd yr efengyl hon, nes mwynhau cyfiawnder goleuni tanbeidiawl HAUL Y CYFIAWNDER, pan dewyno ar ei gyhydedd ei hun! Duwioldeb ymarferol y Saint yw testun ein llawenydd parhaus; rhagoroldeb eu rhinweddau canfyddadwy ar yr eiddo pawb ereill, yw ein had-daliad am yr oll a wnawn iddynt; etto tra y mae cymmaint o le i welliadau ynddynt, tra y gellir yn rhesymol ddysgwyl cynnyddiant cyflymach, attalia yr ystyriaeth alarus ni rhag y gorfoledd a ddymunem fwynhau. Paham nad yw mor ddyledus arbenig ar *bob* un i ogoneddu ei grefydd, trwy ei holl weithredoedd cyd-ymffurfiol yn ol ei gylch, ag ydyw felly, ar *unrhyw un?* Paham nad arswyda *pob* un

ynte, rhag y canlyniadau o warthruddo y grefydd a ystyria ei frodyr yn werthfawrocach nâ'r byd a'i drysorau, trwy eu hanghydffurfiad?

Frodyr Llywyddol ar Gynnadleddau,—Cyd-ymdrechwch yn y fyddin filwriaethus, orchfygol ddiamheuol i fod. I chwithau yr ymddiriedwyd llawer; genych y rhesymol ddysgwylir llawer; ïe, llawer o ddoethineb i iawn drefnu, llawer o ddylanwad i gario y mesurau i weithrediad effeithiol; llawer o addfwynder a gostyngeiddrwydd; llawer o daerineb i berswadio y cyndyn i ufydd-dod; llawer o benderfyniad i anrhydeddu y rheolau dyscyblaethol a roddwyd i chwi; llawer o sêl a ffyddlondeb i adeiladu Teyrnas Dduw yn eich cylchoedd, ac i addurno praidd eich gofal â phob rhinweddau dewisol gan y Prif Fugail. Frodyr, dim llai nâ gwerth eneidiau anfarwol a ymddiriedwyd i chwi! Eich holl esiamplau a deilyngo efelychiad gan bob un? Cariad! *cariad* eich Meistr dwyfol fyddo achos cynhyrfiol pob ysgogiad o'ch eiddo tuag at ei braidd Ef. A rhaffau cariad tynwch hwynt, nes y cyflym redant ar eich hol ar hyd llwybrau uniondeb, cyfiawnder, purdeb, a duwioldeb. CARIAD at eneidiau dynion fyddo y ffynnonell o'r hon y tardda pob gair o bob pregeth i'r byd; pob rhybydd, cerydd, cysur, a chynghor i bawb yr un modd; ac felly, pan agorwch eich safnau, Duw y cariad a'u llanwa â geiriau doethineb a deall, ac Ysbryd y gwirionedd a'u hargraffa ar galonau y rhai a'u clywont. Cam-ddealltwriaeth yw synied mai trwy eu cymenu a'u diraddio, yr argyhoeddir y byd coel-grefyddol o anghyssondeb eu traddodiadau. Mor afresymol fyddai beio y dall ganedig am ei ddallineb corfforol, ag a fyddai beio y rhai a aned i'r byd yn ddall ysbrydol, megys ninnau, am beidio canfod goleuni ein hefengyl, hyd nes y dangoswn ni iddynt hwy ei goleuni drwy ymresymiadau eglur, tystiolaethau amyneddgar, ac *ymarweddiadau* dyngarol, fel ag y gwnaeth ereill i ni. Argyhoedder cyn y ceryddder, ac felly nid byth y cnoir y wialen. Fflangeller hyd y nod y ci. ac efe a ysgyrnyga ddannedd; llawer mwy y casâ dyn ei gyfaill a'i ceryddo hyd nes y gwelo ei fai. Eli llygaid fyddo ein gwialen gyntaf, ac o hyd, nes y ceir profion mai dall a fyn fod. Os na wyddoch ffordd well, hyderwn y cyd-ymffurfiwch chwi â'n cais hwn, drwy ddysgu yr holl Saint, yn neillduol yr *offeiriadaeth* dan eich gofal, mai i'r graddau yr argyhoeddant eu gwrandawwyr, o'u cariad atynt, yr ennillant eu hymddiried a'u hufydd-dod; Llwyaid o fêl a ddalia fwy o glêr na chwart o finiger, sydd gyffelybiaeth gyfattebol. Ai gwnelo a brofa ei grym!

*Trefnusrwydd* sydd un o brif nodweddau ein heglwys,—rhagoroldeb ein cyfundrefn; ac y mae yn hanfodol yn mhob cylch er cynnyddiant yr oll. Nid nyni a'i gwnaeth, nid nyni a'i pïa, nid ein hawl ni, nid hawl dynoliaeth yw cyfnewid un iot o honi. Fel y derbyniasom hi y mae yn iawn, wrth fodd ei Hawdwr; ac felly yn unig y bendithia Efe ein gweinyddiad

o honi. Gan hyny. mae o bwys mawr i chwi, *ei gweinyddwyr*, ei hiawn ddeall yn ei holl orchymynion, ei hordinhadau, ei swyddau, a'i haddewidion. Mae Llyfr Mormon a'r Athrawiaeth a Chyfammodau genych yn eich iaith eich hun, ynghyd a'r ysgrythyrau; o bryd bwy gilydd, cawsoch lawer o addysgiadau ar hyn gan weision Duw. Chwiliwch yr oll, a thrysorwch yn eich cof y fath yw Teyrnas Dduw yn ei holl gyssylltiadau, ac felly Ysbryd Duw a ddyga y pethau anghenrheidiol i'r cof pan y bydd ei hanghen. Os bydd rhyw amgylchiad ar nad yw wybodus ei ddeddf yn dygwydd i chwi, os gwyddom fwy. gofynwch, ein pleser fydd ei gyflwyno. Mae llwyddiant Cynnadledd yn dibynu llawer ar ei hiawn reoleiddiad; canys os nad rheolaidd y mesurau, pa fodd y gellir dysgwyl cynnorthwy Ysbryd Duw i'w dwyn i weithrediad. Dywenydd mawr oedd genym wrth ymweled â hwynt yn ystod y tymmor blaenorol, gael cynnifer o'r Cynnadleddoedd mor reolaidd ag y maent; ond y mae lle i welliadau. Hyderwn yr ymhyfryda pob Llywydd yn iawn drefnu ei Gynnadledd, ynghylch pob materion perthynol, megys y gwna tad ffyddlon ei deulu Yn neilldiol dymunem eich sylw at ddosparth y llyfrau, na fydded dyledion yn rhedeg yn y blaen a ellid hebgor; na fydded eich Cynnadleddau yn suddo i unrhyw ddyledion i neb, a ellir oddiwrtho, ond y y ddyled o garu bawb eich gilydd. Crefwn eich sylw at "*Llyfr yr Eglwys*," ar fod pob cofnodau gofynol yn eglur yn hwnw, a'r cyfnewidiadau a wneir yn cael eu manwl gofnodi. Mae hyn o bwys mawr, ac ni ddylai un aelod ymfoddloni heb ddeall fod ei gofnodion yno i'w cael pan eu ceisir. Daw y dydd pan en hystyrir yn werthfawrocach nag aur. Yr amser presennol yw y goreu oll i gofnodi y cyfryw bethau.

O barthed i'r Drysorfa Ymfudol, ceisiwn eich unol ymdrechiadau hefyd. Cymdeithas deilwng o ymddiried pawb yw hon; ei dybenion dyngarol ydynt glodfawr,--ei galluoedd cyn hir a ystyrir yn wyrthiol i'r byd, pan yn cludo ei charedigion ar adenydd yr awelon dwyreiniol "fel colomenod i'w ffenestri" i'w hamddiffynfeydd yn mhlith y mynyddau tragywyddol, lle yn unig y ceir y waredigaeth ddymunol. *Frodyr*, yr oll a allweh gwnewch er hon; ei swyddogion ydynt gyfiawnion, a'i Llywyddion a deilyngant bob ymddiried am eu gonestrwydd, eu doethineb, a phob galluoedd, dan nawdd y nef, i ddwyn oddiamgylch drwyddi fawrion amcanion Duw, ac i gasglu tlodion blant Seion adref wrth y miloedd. Llwyddiant iddi yw gwir awydd y nef a rhai rhagorol y ddaear. Er yn olaf, etto, nid lleiaf ein dyled a'n braint i gofio am, ac i gynnorthwyo adeiladu Teml Dduw, *i ni ein hunain*, yn Seion; yn ol eu gallu, hyderwn na fydd neb yn ol yn hyn, mwy nag y carant fod yn ol o'r bendithion a addewir ynddi.

## CYMMANFA MERTHYR.

CRYNODEB O'R HYN A WNAED AC A DDYWEDWYD YN Y GYMMANFA UCHOD.

*Boreu Sul, Rhagfyr* 25, 1853,—Gwelwyd y stafell eang y Saint yn Merthyr, wedi ei gorlenwi â phobl; ac yn mhlith y lliaws, yr oedd amryw frodyr o beli ffordd. Dechreuwyd yr addoliad, oddeutu hanner awr wedi 10 o'r gloch yn y boreu, trwy ganu a gweddio; y naill oedd yn fawl hyfrydlais, a'r llall yn erfyniadau taerion am ddylanwadau yr Ysbryd Glân, ar oruchwylion santaidd y dydd, gan bobl Dduw.

Cyfododd Llywydd y Gynnadledd, yr Henuriad D. Jones, ar ei draed, a llygaid y dorf yn ymsefydlu arno; ac yn mhlith pethau ereill, galwodd sylw y gwrandawyr at ledneisrwydd y drefn Eglwysig, sydd gan Saint y Dyddiau Diweddaf: na ddeuwyd yno i *osod*, nac i *wella* trefn; eithr i ddwyn yn mlaen yr *un hono* a osododd Duw yn ei Eglwys. Wedi annog y dorf i roddi gwrandawiad i'r hyn a lefarid gan y Llywydd S. W. Richards, o Liverpool, ac ychwanegu amryw gyfarwyddiadau yn Saesnaeg, dywedodd y cawsent gyfleusdra i ddangos eu parodrwydd i ddilyn trefn ddwyfol yr Eglwys, trwy godi eu deheulaw, megys arwydd o'u penderfyniad unfrydol, i gynnal y fath drefn werthfawr gyda'u gweddiau a'u cyfraniadau.

Penodwyd yr Henuriad Robert Parry *(Robyn Ddu, Eryri)*, yn Ysgrifenydd y Gymmanfa; a'r Henuriad Richard Morris, i fod yn gynnorthwywr i'r Henuriad Wm. Sims, gyda'r cyfrifon.

Penderfynwyd cynnal, fel yr annogwyd, y Brif Lywyddiaeth, Brigham Young a'i ddau Gynghorydd. Dywedai y Llywydd D. Jones, fod y cyffelyb yn Eglwys Dduw yn mhob oes, a bod dyledswydd dyn yn fraint iddo, ac y caiff ei fendithio gan Dduw yn nghyflawniad ei ddyledswydd, tra nad yw yr Arglwydd yn bendithio y rhai a esgeulusant wneuthur eu dyledswyddau. Moses ydoedd y llywydd yn Israel: tra y daliai ei freichiau i fyny, llwyddai yr Arglwydd ei ddymuniadau; pan y diffygiai, y gelynion oeddynt drechaf; eithr ei ddau gynghorydd, Aaron a Hur, a ddaliasant ei freichiau i'r lan, gan ei gynnorthwyo; bendithiodd yr Arglwydd eu cyflawniad o'u dyledswydd hono; a gyrwyd lluoedd y gelynion i gilio a ffoi, yn unig tra y gwnelent hyny.

Penderfynwyd, yn yr un modd, i gynnal y Deuddeg Apostolion; y Deg-a-thrugeiniau; y Llywyddiaeth yn yr Ynysoedd Prydeinig, sef S. W. Richards, a'i ddau Gynghorydd, Daniel Spencer a John Van Cott; ac yna, gan ddywedyd y deuai yn nes adref, cynnygiodd y Llywydd Jones, i'r cyffelyb benderfyniad gael ei wneyd mewn perthynas i'r Lywyddiaeth yn Nghymru, sef W. S. Phillips, heb enwi ond un o'i Gynghorwyr, sef John Davis: yr hyn a wnaed yn unfrydol. Wedi iddo grybwyll mai un Eglwys, yw Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, trwy yr holl fyd, er dan amrywiol lywyddion, a bod yr oll yn gallu galw Duw, "*Ein Harglwydd ni;*" yn nghyd a dywedyd ei fod yn llawn diolchgarwch i'r Enw mwyaf mawr, o herwydd fod cymmaint nifer yn wyddfodol, wedi eu hennill i gydsynio yn undeb y ffydd, a chwlwm tangnefedd, cododd y Llywydd W. S. Phillips ar ei draed, a chynnygiodd ar fod i'r Saint benderfynu cynnal, yn eu gweddiau a'u cyfraniadau, ei Gynghorydd Dan Jones; yr hwn yn fuan, sydd i gymmeryd arno fawr ofal y Llywyddiaeth yn Nghymru: yr hyn a wnaed trwy godiad deheulaw pob un yn y dyrfa liosog.

Y Llywydd Jones wedi hyny, a nododd y fendith annhraethol sydd yn meddiant y Saint. o *wybod* fod Ysbryd Duw i'w gael, yn yr oes ddiweddaf hon, megys ag yn nyddiau Paul, a'i gyd apostolion; ac awgrymodd, nad oes na dawn, na dysg, na chred, na thalentau mawrion, a all dycio i ddyn, os yn amddifad o ddylanwadau yr Ysbryd Glân. Yna, galwodd am sylw y Saint at amgylchiadau gwellhaol y Gynnadledd, ac annogodd bawb i gyd benderfynu ag ef i fyned yn mlaen, gan ymgyrhaedd o dda i well, trwy ymdrechu byw a gwneyd yn well-well o hyd, ac yn barhaus; ei fod ef yn teimlo, nid yn unig bob parch a chariad at y rhai sydd uwch eu swyddau nag ef ei hun, ond hefyd at y rhai sydd îs, oddiwrtho ei hun hyd i waered, fel na fyddo i neb, o fewn cylch y gadwen undeb Eglwysig, feddwl na theimlo ei fod ar ei ben ei hunan, eithr yn aelod cyflawn yn Nghorff Crist. Erfyniodd ar i bawb feddiannu teimladau daionus; fod swm eu cyfraniadau arianol yn ymddibynu yn hollol, ar eu hewyllys da eu hunain; mai gwirfoddol yw eu holl roddion, heb arnynt un math o orfodaeth; ac, o ganlyniad, mai rhesymol yw gofyn am fod ganddynt *deimladau daionus* o leiaf; fod y gwaith pwysig yn perthyn i

bob un o honynt, wrtho ei hunan, y naill fel y llall; ond er hyny, ddarfod iddynt oll wneyd mor rhagorol o dda, fel nas gallasai lai na theimlo yn dra diolchgar iddynt am a wnaethant; yr un fath a phe na pherthynai y gwaith i neb ond iddo ei hunan, yn bersonol. Ar ol llefaru yn serchog, yn ddeallgar, ac yn wresog, gofynodd i'r Cymry uniaith fod yn hynaws a thawel, tra y traddodid anerchiad yn Seisnaeg i'r dorf.

*(I'w barhau.)*

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

DYDD SADWRN, IONAWR 14, 1854.

Gan fod amryw gyfnewidiadau yn cymmeryd lle yn y cylchoedd llywyddol, yn yr Eglwys yn Nghymru, ar ddechreu y flwyddyn hon, hyderwn y bydd pob llywydd ymadawedig mor foddlon i drosglwyddo pob cyfrifon, llyfrau, cynghorion, a phob dealltwriaeth a fedda, ynghyd a'r oll a ennillodd trwy brofiad blaenorol, ag sydd yn anghenrheidiol er iawn ddeall a chyflawni dyledswyddau y cyfryw gylch, ag a ddylai ei olynydd fod i'w cael.

Dylai Llywydd Cynnadledd fod yn deall sefyllfa ac ansawdd pob Cangen hyd y gellir, megys ag y dylai tad tyner ddeall anghenion a theimladau teulu ei ofal, mewn pethau tymmorol. Gan mai praidd ei ofal ef ydynt oll, gweddus fod ei ofal drostynt oll, a'r oll a ddalia gyssylltiad eglwysig â hwynt. Nid cyfreithlon yw bod Cynnadledd na Changhen yn gyfrifol am unrhyw arian o hyn allan, oddieithr fod y Llywyddiaeth a'r Cynghor perthynol yn gwybod am eu *ceisiad* a'u *treuliad.* O barthed i'r ddyled am lyfrau, ynghyd a phob gofyniad eglwysig oddiwrth y Brif Lywyddiaeth, pa rai y bydd ein pleser neilldiol ni i'w gwneyd mor anfynych ac ysgafn, ag y caniatâ yr anghenion, ar ba rai y dibyna llesiant a llwyddiant gwaith yr Arglwydd, Llywyddion y Cynnadleddau yn uniongyrchol a ystyrir genym ni yr unig bersonau cyfrifol; o ganlyniad,

arnynt hwy y dibyna golygiad dros y Cangenau, nid yn unig am eu bod wedi eu hiawn reoleiddio ar ran y gwahanol swyddau, a bod y rhai hyny yn llanw eu cylchoedd, yn iawn borthi praidd ein Bugail, ag iachus athrawiaeth ac esiamplau, ynghyd a chynghorion dyddorol; eithr hefyd, na fyddont yn newid unrhyw lywydd Cangen, heb iddo gyflwyno iddynt holl gyfrifon ac eiddo y Gangen, ynghyd â chynnrychioliad eglur o'u holl sefyllfa hi. Arbeda hyny lawer o darfferth ac anfanteision i'w olynydd, os nad colled hefyd i'r Saint. Dylai pob Cangen hyd y gellir fod ond, fel olwyn fechan oddifewn i, etto ar yr un batrwm o'r, olwyn Gynnadleddol, a'r holl olwyni cynnadleddol yr un fath, ond o ran eu maintioli, â'r olwynion a'u cylchdroant hwythau; ac felly, olwyn o fewn olwyn yn cyd-weithio, er cyflawni amcanion perffeithiawl ei Awdwr, yn yr oll o'i beiriant, ar y ddaear, yn y nef, ac arall fanau hefyd. Un yw yr oll, ac un yw dyledswydd llywydd pob cylch, i berffeithio undeb a chydweithrediad yn yr oll. Gan fod pob Cangen yn ymrwymo i dalu diffygiadau eu dosparthwr, a chan fod y Gymmanfa yn ymrwymo i feichnïo y prif ddosparthwr, o dan arolygiaeth y Llywydd, gobeithiwn na fydd iddynt, dan unrhyw amgylchiad, fradychu yr ymddiried mawr hwnw, a niweidio eu dylanwad ar y cyfryw, drwy esgeuluso gofalu fod pob dosparthwr yn cadw ei gyfrifon yn eglur a chywir; fod ganddo ddigon o lyfrau ar law, i ateb dyledion ar ben pob chwarter. Mae gan bob aelod hawl i ddysgwyl hyn oddiar law ei Lywydd; eu pleser fyddo ei wneuthur, ynte. Ni allwn lai na dadgan ein syndod, pan yn darllen y rhestr o ddyledion i'r swyddfa Gymreig yn unig, yr hwn a welir yn y rhifyn blaenorol! Os oes camsynied, na oeder ei hysbysu i'n rhagflaenydd cyn yr elo ymaith, bydd yn rhy ddiweddar ar ol hyny. Os nad oes hyny, hyderwn na orphwysa unrhyw lywydd, nes y byddo ei Gynnadledd yn rhydd unwaith etto, o'r dyled hwn, ac o bob dyledion ereill; ac yna nid yw ond hawdd eu cadw allan o ddyled.

Nid yw ddoeth i brynu llyfrau personol megys y *Seer*, a'r *Journal of Discourses*, &c., nad pa mor dda bynag y byddont, ar gost cylchrediad cyhoeddiadau eglwysig, megys y *Star* a'r UDGORN, canys yr olaf ydynt gyfryngau er trosglwyddo cynghorion, a phob adeiladadaeth, oddiwrth y Brif Lywyddiaeth

drwy holl gylchoedd yr Eglwys, fel eu caffer er cynnaliaeth ac arweiniad pob aelod. Os lleiheir cylchrediad yr olaf, bydd rhaid codi eu prisiau yn gyferbyniol; o ganlyniad, cymhella hunan les pa fodd i ymddwyn yn hyn; i ni, nid yw wahaniaeth amgen. Hyderir na foddlona ein brodyr Cymreig, ag ydynt mewn cangenau Saesneg, heb yr UDGORN, canys pa fodd amgen y deallant ein cynghorion iddynt? Ac heb hyny, pa fodd y dichon iddynt gyd-weithio, na bod yn yr undeb a ddymunir â'u brodyr yn y Dywysogaeth? Er nad oes wahaniaeth personol rhwng breintiau, o herwydd iaith na chenedl, yn ein golwg ni, etto gorfoda amgylchiadau lleawl yr undeb hwn yn yr oll er eu llesoli.

Wrth ddechreu ein dyledswyddau Golygyddol, dysgwyliwn yn hyderus am gynnorthwy parhaus ein cyd-weithwyr, *Llywyddol* yn enwedig, yn nghyfraniadau eu gohebiaethau ar wahanol destunau, a dueddant i lesoli ein darllenwyr. Diau mad oes waith mwy pleserus i chwi fwy nag i ninnau, nâ bod yn llafurio yn mhob dull, er achubiaeth dynolion; gwahodda yr UDGORN chwi oll i chwythu trwyddo, o ffrwyth eich myfyrdodau athrawiaethol,—eich tystiolaethau profiadol o ddwyfoldeb eich crefydd,—ansawdd eich Cynnadleddau, bedyddiadau, ynghyd a'r argoelion a feddwch. Teilwng yw i Dduw, y Meddyg anffaeledig, gael y clod,—i'r Saint gael cyd-lawenhau yn, ac i'r byd gael clywed am fwynhâd y Saint o'r "*ddawn iachâu*." Gan ein bod yn ei mwynhau yn yr Eglwys, ac yn tystio hyny i'r byd, gwneler cyfiawnder â'r naill a'r llall, drwy anfon i'r UDGORN dystiolaethau plaen, syml, a diwrthbrawf, ynghyd a hanes manwl am y gwelliadau mwyaf nodedig a gymmerant le yn mhlith y Saint. Gwir na ddysgwyliwn am bob gwelliadau a gaiff y Saint drwy Ysbryd Duw, onide llenwid ein tudalenau byrion; etto detholion hynotaf o'r amrywiaeth fydd ddymunol; y gwir i gyd i oleu haul am v cyfryw, a dim ond y gwir a geisiwn.

O'n rhan ni, ein penderfyniad yw gwneyd i'n darllenwyr weled wrth oleuni y "*Seren*" fach hon, ag y cawn y fraint o'u golygu, faint yw ein gofal drosti a'n cariad ati; ac hyderwn na adawa ei charedigion hi mo honom yn anwybodus o'r defnyddiau a dueddant i'w gwneyd yn *oleuad* digonol i arwain y SAINT, ar hyd llwybrau y goleuni. Dyddorol iawn, a newydd-

ion da gan yr holl Saint, debygwn, fydd cael crynodeb byr o hanes pob Cymmanfa, a'i chofnodion; a dilëa hyny y dyeithrwch a achosa anwybodaeth y naill o'r Cynnadleddau ereill, a ffyniant a lliosogiad y naill a'r llall, a fyddant destunau i gyd-lawenhau o'r oll yn iachawdwriaeth Duw i'w blant. Tymmor ffrwythlon fyddo y dyfodol ar winllan y Beirdd, gwlith y nef a îreiddio eu hawen—fel haul gwneled i'n SEREN fach oleuo, a'n HUDGORN fel *clarion* angylaidd eu sain a swnio ar led! Yr hanesion a dderbyniwn gan ein cyfeillion o Seion drwy lythyrau, fyddant ddyddorol ar dudalenau yr UDGORN, fel y deallo y Saint fath wlad yw eu Seion ddymunol; ac felly, dealla y byd y sefyllfa y gadawsom ein "truenus gaethion" cyd-deithiol, ac ansawdd y caethiwed i'r hwn y "gwerthasom" hwynt!

Anfoner gwybodaeth i ni pa le i gyfarwyddo llythyrau at Lywyddion, lle y mae cyfnewidiadau wedi cymmeryd lle. Ymdrecher gael y ffordd rwyddaf a rhataf i anfon llyfrau i'r Cynnadleddau, a hysbyser ni o hyny os ceir gwelliant. Danfoned y neb a gafodd fwy na'i rif o'r 14eg rhifyn o'r UDGORN, cyf. vi, y gweddill yn ol. Dysgwylir i bob un a dderbynia y rhifyn cyntaf o'r UDGORN, neu o'r *Star*, dalu am y Gyfrol.

---

## COFNODION CYMMANFA GYFFREDINOL

*Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, a gynnaliwyd yn y Tabernacl, Dinas y Llyn Halen Fawr, gan ddechreu Hydref* 6, 1853, *am* 10 *o'r gloch yn y boreu. Y Llywydd* BRIGHAM YOUNG *yn llywyddu.*

[Difyniadau o rai areithiau a draddodwyd yno.]

YR oedd y Brif Lywyddiaeth, ynghyd ag amryw o'r Apostolion, o'r Deg-a-thrugeiniau, o'r Archoffeiriaid a'r Esgobion, o lywyddion yr estynfeydd, ac ysgrifenydd y Gymmanfa, ac ysgrifenydd yr areithiau, yn bresennol; ac wedi i'r côr ganu emyn, ynghyd a gweddi gan yr Henuriad George A. Smith, a chanu yr Henuriad Hyde a agorodd y Gymmanfa, trwy adolygu dyfodiad y Saint yn y tymmor hwn, y terfysg Indiaidd, a chynghori y Saint i gadw golwg ar y goleuni gwyldwrol, yr hwn sydd yn ein harwain i fod yn etifeddion pob peth, yn y nef ac ar y ddaear; ac y dylem fod yn ddiolchgar am y meddiannwn y fraint o ddilyn y fath arweinydd.

Pan benodir dyn i fod yn arweinydd, prawf hyny iddo fyned trwy gyfyngderau a phrofedigaethau, ac iddo gael ei brofi yn deilwng o fod yn arweinydd; ac iddo ennill hyny trwy uniondeb ei ymddygiad, a'i fod yn cael ei gynnal trwy ewyllys da y Saint.

Pe byddai i Dduw ei hun ddisgyn oddiar yr orsedd, a thraethu gwirioneddau i syrthiedig ddyn, llawer a fyddent ag arnynt eisieu i ryw angel ddyfod, a dwyn tystiolaeth mai efe mewn gwirionedd yw Duw. Esgynodd ein Tad nefel i'w orsedd Ff, trwy lawer o brofedigaethau a dyoddefiadau, tebygol i lawer o'r Saint; ac am hyny Efe a all gyd-ymdeimlo â'n gwendidau ni, a gall anfon allan gymhorth i'n cynnorthwyo; o ganlyniad, Efe a anfonodd ei anwyl Fab, fel y byddai i'r *hwn* a wrandawodd ac a ufyddhaodd iddo Ef, wrando ar ac ufyddhau i'r Tad; a phan oedd y Mab hwnw yn gyfyng arno yn ngardd Gethsemane, Efe a anfonodd angel i'w gysuro ef yn ei brofedigaeth. Y rhai na ufyddhäont i'r Mab, nis ufyddhant i'r Tad a'i hanfonodd Ef.

Mae person a fyddo yn myned allan i'r byd, yn myned i ddwyn cernodion dynolryw, a chyda theimlad i ennill coron o wobr. Yr angylion ydynt fel nyni, y maent yn anewyllysgar i ddyfod yma, oddigerth eu hanfon; hwy megys ninnau ydynt rhy ewyllysgar i aros gartref. Pan oedd y brawd Kimball a mi yn Lloegr, teimlai y brawd K. i gymmeryd ymaith ei het, a bendithio y bobl a bendithio y tir, oblegid yr oedd yno ysbryd heddychlawn, a llawer o eneidiau yn ewyllysgar i dderbyn y gwirionedd; ond yr amser a ddaw pan y cymmerir heddwch ymaith oddiar y ddaear. Y Saint ydynt y rhai sydd yn myned i farnu y byd o dan arolygiad yr Hollalluog. Dyledswydd y Saint ydyw cynnyddu a lliosogi; a bydd yn ddyledswydd iddynt roddi dedfryd ar yr ysbrydion syrthiedig, oblegid byddant hwy yn dystion o'u herlidigaeth eu hunain, a phera hyny i'r pechaduriaid lefain am i'r creigiau a'r mynyddoedd syrthio arnynt, a'u cuddio oddiwrth ddigofaint Duw. Pan gymmerir y felldith oddiar y ddaear, rhoddir hi i'r Saint, ac ni fydd nos yno, ond yr oll a fydd oleuni, a gogoniant Duw a'i hamgylchyna hi. Bydd yno le i bawb, a'r rhai hyny a garant dywyllwch yn hytrach na goleuni, gant fyd yn rholio yn dragywyddol mewn tywyllwch.

Yr Henuriad F. D. Richards a gyd-lawenychai â llawer o'r Saint, yn eu dyfodiad yma y tymmor hwn, wedi gorphen eu hymgasgliad. Cynghorodd hwy i fyw yn iawn, fel y caffont ffafr Duw yn barhaus, ac i beidio teimlo yn brudd, o herwydd i'r rhai a ddaethant yn flaenorol gael y sefyllfaoedd goreu yn y y ddinas, eithr yn hytrach llawenhau, fod iddynt hwy enw yn y lle hwn. Byddwch ofalus a deliwch afael yn Ysbryd Duw, rhag cael o honoch ysbryd grwgnach ac achwyn, a syrthio ymaith o'r Eglwys. Gan fod y chwiorydd yn arferyd dylanwad mawr ar y genedlaeth sydd yn codi, cynghorwyf chwi i beidio cadw cymdeithas unrhyw berson a ddywed yn ddrwg am yr awdurdodau, eithr yn hytrach cymdeithaswch â'r rhai hyny ag ydynt yn tueddu at berffeithrwydd. Ni fywiasoch erioed mewn gwlad lle mae personau yn siarad yr hyn a feddyliant, cyn eich dyfod i hon. Frodyr, dylech fod bob amser yn *barod*, ac yna nis daw dim o'i le, hyd y nod pan eich galwer i ddwyn newyddion da i genedloedd nad adwaenant Dduw: oblegid yr Arglwydd Dduw a dywallt allan ei Ysbryd ar holl Israel, fel yr achuber hwynt; a gallwch ddwyn tystiolaeth y bu i'r Ysbryd gael ei dywallt allan mewn cyflawnder mwy goludog o fewn yr ychydig ddyddiau a aethant heibio, nag er pan dderbyniodd y brodyr eu bendithion yn y deml yn Nauvoo, ac yn y lle hwn.

*(I'w barhau.)*

---

## ARWYDDION YR AMSERAU.

Colledd amryw eu bywydau yn yr eira, a llosgwyd llawer o dai ac eiddo, yn Llundain a lleoedd ereill yn ddiweddar. Clefydau a phläau a ddifrodant ddynion mewn amryw wledydd. Teimlwyd daeargryn llym yn yr *Alps*, ger *Val d' Illiez*, ac yn *Sion*, ger *Valais*, ar y 3ydd a'r 4ydd o Ragfyr diweddaf. Mae y rhyfel rhwng Twrci a Rwsia yn berwi y byd; cyhoeddodd Persia ryfel yn erbyn Lloegr. Cynhyrfir Algiers yn erbyn Ffrainc. Anfonir llynges gan Rwsia i'r dwyrain, i godi cythrwfl yn yr India. Dênir Penaeth Affghanistan i wrthwynebu Lloegr. Bradwrus ydyw ymddygiadau Awstria, i'r cyfundeb beddwch. Blinder i Loegr, yn awr, yw iddi golli cyfeilgarwch

*Dos Mahomed*, trwy brynu ffafr *Runjeet Singh*, bymtheg mlynedd yn ol. Poland a Hungary, a wyliant am gyfleusdra i ymryddhau o grafangau eu gormeswyr. Lombardy hefyd sydd yn hiraethu am ddryllio cadwynau ei gorthrechydd. Ceir gwell gwybodaeth, y Gwanwyn, am fwriadau Rwsia; eithr ymddengys yn awr, ei bod am fynu ei hamcanion dechreuol i ben, er gorfod tori trwy bob ymgais heddychol o eiddo Lloegr a Ffrainc, wrth wneyd hyny. Y chwildroad yn China sydd ar gynnydd yn barhaus; dywedir i'r gwrthryfelwyr allu meddiannu Pekin, prif ddinas China; ac nid oes ammheuaeth nad y bwriad ydyw difodi eilun-addoliaeth yn llwyr o'r wlad, a sefydlu ynddi Gristionogaeth; rhydd hyn fantais i Genadon y Saint, sydd yno, fyned a phregethu y Gristionogaeth wreiddiol i'r trigolion, y rhai a gynnwysant y drydedd ran o boblogaeth y byd.

Mae yn Lloegr a Chymru 37 o sectariaid, a ystyrir gan y llywodraeth wladol yn ymgorfforedig, heblaw lliaws nad ystyrir felly. Nifer y bobl mewn lleoedd addoliad, o fewn Cymru a Lloegr, ar y Sul, Mawrth 30, 1831, oedd chwe miliwn, tri chant ac un ar bymtheg a deugain o filoedd, a dau gant a dau ar hugain; tra yr oedd poblogaeth y wlad y pryd hwnw, yn ddwy filiwn ar bymtheg, naw cant a saith ar hugain o filoedd, a chwe chant a naw!—Mae cyllid yr Eglwys wladol dros *bump miliwn* o bunnoedd y flwyddyn! ac er hyny, ac er trymhau cosp y rhai a gamdriniant eu gwragedd, parhau i anmharchu, curo, newynu, a lladd eu gwragedd y mae yr anghenfilod o ddynion, yn y deyrnas *Gristionogol (?)* hon; heblaw cael a lladd llawer oedd o blant; tra yn Utah, a ystyrir gan y Sectariaid megys yn le *Anghristionogol*, y perchir, y mynwesir, y meithrinir, ac y cofleidir y gwragedd a'r plant, y rhai ydynt oll yn gyfreithlon, ac y collai eu gwyr a'u tadau eu bywydau er eu mwyn.—Canfyddwyd hen ddinasoedd o fewn y ddaear yn yr America, yn gwirio Llyfr Mormon. Mae y Saint yn cynnyddu yn gyflym, mewn rhinwedd a rhifedi, yn mhob gwlad; a channoedd o honynt sydd ar fyned i Seion, y Gwanwyn hwn, o Switzerland, Italy, a llawer man arall, megys ag o'r Ynysoedd Prydeinig. Diau y canfyddir canlyniadau trwy yr holl bethau hyn, yn fath ag a brofant nad pell oddiwrthym yw cyflawniad llawer o'r prophwydoliaethau.

## AM SEION.

Mawr yw twrf y môr bob ennyd,—Ar nos a dydd,
Chwern yw'r gyflym fellten danllyd,—Ar nos a dydd.
Mawr yw serch y bardd yn gysson,
At ei fun lygad-las ffyddlon,—
Mwy, yw'm hiraeth i am Seion,—Ar nos a dydd.

Gwlad y Deml, wyf am fyn'd iddi,—Ar nos a dydd,
Lle câ'r ordinhadau'u gweini,—Ar nos a dydd :
Gwlad y goreu deulu dedwydd,
Gwlad yr iachus ddwfr a dolydd,
Gwlad y canaf iddi beunydd,—Ar nos a dydd.

*Llanelli.* Dewi Elfed.

## AMRYWIAETHAU, &c.

Geiriau Salw.—Prawf yr arferiad o eiriau salw, yn mysg y rhai ag ydynt barchus o grefydd, fod dynion a elwir yn gall wedi dysgu mwy yn nghyfeillach pobl ffol, nag a ddysg pobl ffol yn nghyfeillach dynion call.

Grym Synwyr.—Myned a gwneyd daioni, yn ddystaw, gyda nerth y meddwl ; fel yr aeth Samson, heb ddywedyd gair wrth ei dad na'i fam, gyda chryfder ei gorff.

ENGLYN.

Morwr, yn ddysgwr a ddaeth—ar y byd;
Trwy bur *Dduwinyddiaeth*
Ac un ffresg ei egni ffraeth,
Yw y Morwr am araeth. R. Ddu, Eryri.

Taliadau o Ionawr. 6 hyd Ionawr. 12.—Dwyreiniol Morganwg, £4.

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau, i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street, Merthyr-Tydfil.*

CYNNWYSIAD.


| | TUD |
|---|---|
| Degfed Epistol Cyffredinol, &c | 21 |
| Anerchiad Llywyddol | 24 |
| Cymmanfa Merthyr | 27 |
| Golygyddiaeth | 29 |
| Cofnodion Cymmanfa Gyffredinol, &c | 32 |
| Arwyddion yr Amserau | 34 |
| Am Seion | 36 |
| Amrywiaethau, &c | 36 |


MERTHYR-TYDFIL :

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

RHIF. 3.] IONAWR 21, 1854. [CYF. VII.


## DONIAU YSBRYDOL.

NID ein hamcan yn y sylwadau canlynol, yw manylu ar natur na pharhad, "ymadawiad," nac adferiad y doniau ysbrydol; gwnaethom hyny yn helaeth a diwrthbrawf, debygwn, yn yr "*Eurgrawn Ysgrythyrol*," &c., a chrefwn sylw aml yno. Taer ddymunwn ystyriaethau y Saint ar a ganlyn hefyd. Nid oes anghen i ni brofi na dweyd fod yr amrywiol ddoniau ysbrydol ag oedd yn addawedig gan Dduw i'w eglwys, yn amser y saint cyntefig, yn gyrhaeddadwy i Saint y Dyddiau Diweddaf yn awr; canys trwy *fwynhad* o honynt o bryd bwy gilydd, daeth hyn yn ffaith wybodus i chwi; etto, y mae rhyw fath o *Saint*, ag y dymunem ddweyd gair neu ddau wrthynt ar y pen hwn; sef y rhai hyny a ymfoddlonant i fyw, a bod yn yr Eglwys heb fwynhau y doniau rhag-grybwylledig *eu hunain*, ac heb lawer neu nemawr o awydd eu cael. Hyfryd ganddynt, mae yn wir, yw clywed eu brodyr a'u chwiorydd yn y cyfarfodydd yn llefaru â thafodau dyeithr, a chlywed ereill yn cyfieithu; ereill yn prophwydo, yn canu trwy yr Ysbryd, &c. Ond o'u rhan hwy gallant wneyd hebddynt yn byrion. Cam-ddealltwriaeth o'r doniau a'u dybenion yw hyna. Mae yn *ddyledswydd arbenig* ar *bob un* o'r Saint i geisio y doniau drosto ac iddo ei hun. "Deisyfwch ddoniau ysbrydol; ond yn hytrach fel y prophwydoch" (1 Cor. xiv, 1), sydd ysgrythyr orchymynedig; ni ellir ei hesgeuluso heb fod yn troseddu gorchymyn dwyfol drwy hyny. "Deisyfwch;" cynnwysir yr oll o'r Saint yn y gorchymyn

hwn. Nid deisyfed rhyw rai neilldnol o honoch; nid *gofynwch* yn unig ychwaith, heb fod nemawr wahaniaeth pa un a gewch ai peidio; nage, ond *deisyfwch* yn daer, yn *barhaus*, yn AWYDDUS, hyd nes eu cael, a ddylid. Gwir mai Duw yn unig a ddichon gyflwyno y Doniau Ysbrydol; mai dylanwadau ei Ysbryd Ef ydynt; yna dylid gweddio arno Ef am danynt, a gweddio yn daer, gweddio yn fynych, a gweddio yn *ffyddiog* HYD NES Y LLWYDDIR. Pa fodd yr esgusoda neb ei hun rhag gweddio am y naill fendith addawedig, ag sydd yn orchymynedig, mwy nag y boddlona ei gydwybod, tra na weddia am unrhyw fendithion ereill ag y *gorchymynir* i ni weddio am danynt?

*Deisyfwch* ddoniau ysbrydol ynte, chwi Saint, a'ch holl egni, ac hyd nes eu cael; eiddoch chwi ydynt ar yr ammod o'u ceisio. "Mi a fynwn petaech *chwi oll* yn llefaru â thafodau dyeithr; ond yn hytrach brophwydo o honoch," ebe Paul, ac felly y dywedwn ninnau, ac felly y parhawn i ddweyd hyd nes y gorchymyno y cyfranwr o honynt i ni dewi; serch gwaeddi o holl ddoethineb ddynol byd "eu bod wedi darfod, ac nad oes eu heisieu," uwch, uwch, gwaeddwn ninnau, "*Deisyfwch* ddoniau ysbrydol." Dyweded pawb a fynont am y doniau, gwawdient, cablent, gwadent hwy neu tawent â sôn; pa wiw, pa waeth; ein cenadwri orchymynedig ni yw, cyhoeddi yr addewid o'r doniau ysbrydol i'r Saint, dangos y ffordd i'w cael a'u cymhell hwythau i gyflawni eu dyledswyddau o eu ceisio.

"Am hyny, frodyr, byddwch AWYDDUS i brophwydo; ac na waherddwch lefaru â thafodau dyeithr." Nid digon i'r pregethwr, nid digon oedd gan yr Apostol hwn eu mheddu ei hun; ac ni allai efe—ni all neb, eu cyflwyno ond Duw; yna dyledus—*anghenrhaid* yw i bob un eu ceisio drosto ei hun. Pa fodd yn ngwyneb y fath orchymynion pendant, y dichon neb o'r Saint feddwl y gallant hwy ryngu bodd Duw heb eu ceisio, ni allwn ddirnad! Pa fodd y dysgwyliant gymmeradwyaeth gyda Duw, na llawer o fendithion ereill, os yn byw ac yn parhau yn y trosedd—ai gormod yw dweyd y PECHOD hwn, o *anufydd-dod* i orchymyn ag sydd mor *eglur*—mor BENDANT? Gorchymyn, yw cyfraith Duw. Gan mai anghyfraith neu croes i gyfraith yw pechod, paham nad pechod yw yr esgeulusdod hwn yn mhawb o'r rhai ag y mae y doniau yn addawedig iddynt?

Gwir fod pechodau gweithredol a phechodau o esgeulusdod. Am fawredd y pechod olaf, ystyrir ef wrth ei ganlyniadau. Pe "argyhoeddi y byd," fel y dywed y cyffredinolrwydd o dduwinyddion ein hoes, oedd dybenion y doniau cyntefig yn yr eglwys apostolaidd; a chan fod mawr anghen i argyhoeddi dynion yn awr, yna dylent hwy ymdrechu am y moddion i hyny! ac felly cyhuddant eu hunain o fawrddrwg drwy eu gwadu na'u hanghen! Etto, yr ydym ni yn ystyried dybenion y doniau yn dra goruwch i hyna; ac o ganlyniad, fawr ddrwg yr esgeulusdod o eu ceisio yn gyferbyniol fwy. Argyhoeddir ni drwy ddwyfol orchymynion, a deallwn trwy brofiadau hunan-eglur, mai dyben y doniau yw cr lleshâd ac adeiladaeth eglwys Dduw, eu bod wedi cael eu gosod ganddo Ef yn ei eglwys yn bwrpasol i'r dyben pwysig a mawreddog hyny. Gan fod cadwedigaeth pob un yn yr eglwys yn dibynu ar gael ei adeiladu yn y santeiddiaf ffydd; ar gael ei buro a'i berffeithio i wrthsefyll pob drwg, ac i gyflawni holl waith Duw; yna gwelir yn eglur yr ystyriai Duw y doniau yn anhebgorol er ateb y dybenion canmoladwy hyny; neu ynte, ddarfod iddo osod cyfryngau afreidiol yn ei eglwys! Mae mor eglur â'r gosodiad blaenaf hefyd, bod yr hwn a esgeuluso eu ceisio yn atebol, wrth beidio adeiladu yr eglwys yn y ffordd hyn, am y canlyniadau; a pheth amgen yw esgeuluso y rhai'n na cheisio adeiladu yr eglwys trwy ffordd groes i gynghor Duw? A pha wahaniaeth sydd rhwng hyny â Sectariaeth neu "Gristionogaeth *newydd*" yr oes hon? Anmhosibl ufyddhau i holl orchymynion Duw ac esgeuluso "deisyf y doniau ysbrydol." Anmhosibl ynte, yw rhyngu bodd Duw heb eu ceisio. Gwir nad *llywyddu* yr eglwys yw dyben y doniau; gosododd Duw yr offeiriadaeth yn meddiant ei weision i'r dyben hyny, ac annoga hwy i ofalu ar fod yr oll, yn ol eu gosodiadau, yn cyflawni eu dyledswyddau eu hunain; ac y mae y naill mor anhebgorol yn ei gylch ac i'w ddyben priodol, ag yw y llall, neu unrhyw yn ei gylch, ac i'r dyben priodol o'i ddwyfol osodiad yntau.

*Gweler*, COFIER ynte, fod yr hwn a esgeulusa geisio y doniau ysbrydol yn yr eglwys, nid yn unig yn droseddwr gorchymyn dwyfol, yn tueddu hyd ei ddylanwad i farweiddio, ac i rwysto ireidd-dra holl gangenau y pren dwyfol, ond ei fod hefyd yn gwrthod y maeth cynnaliaethol—yn crino ac yn ym-

barotoi, er efallai, yn raddol, etto yn sicr i dân!—Nid yw y ffaith o fod rhai yn yr eglwys apostolaidd heb feddu y doniau cyfeiriedig, yn esgus i neb beidio eu "deisyf" hwynt. *Deisyfwn*, oll yn daer nes eu cael ynte, ac yna gwelir pob cangen fel y pren almon yn blodeuo ganddynt, ac yn dwyn ffwythau nefolaidd er clod i Dduw, ac er llawenhau calonau ac adeiladu yr holl eglwys yn mhob santeiddrwydd: uchel a chydgordiol fyddai moliant y Saint i Dduw, am na fyddent hwythau yn ol mewn un ddawn ysbrydol.

Ond, ebe rhywun, ysgatfydd, yr wyf wedi bod yn gweddio cryn lawer, am y ddawn o lefaru â thafodau, ac heb ei chael hyd yn hyn; ac felly credaf nad wyf i ei chael." Wel, dichon mai rhyw ddawn arall a fyddai yn fwyaf llesol, ac felly a fuasai yn fwyaf dewisol gan Dduw ei chyfranu y pryd hyny. Nid y derbynydd, eithr y cyfranwr doethach, sydd i ddewis pa ddawn; dylai fod digon o ffydd i ymddiried yn ei gyfraniad Ef, megys ag y gwna y plentyn da a'i rieni. Y ffordd debycaf i lwyddo i gael y doniau yw, fel gyda phob gweddi arall, "O Dad, cyfrana di i mi y ddawn a ewyllysi di." Hefyd, wrth weddio am y doniau, dylem gadw y dyben cywir mewn golwg, sef "adeiladu yr eglwys," ac nid adeiladu ein hun yn unig, nac er mwyn hunan glod. Efallai fod gan rai le i wella yn hyn!

Yn mhellach, meddwn, nid gweddio yn daer yw yr oll ag sydd ofynol er cael y doniau, heb gariad at Dduw a'u gilydd; na hyny chwaith, heb fuchedd lân, cydwybod ddirwystr, ffyddlondeb yn y cyflawniad o bob dyledswydd arall, ofer dysgwyl y doniau ysbrydol. Ysbryd pur yw ysbryd y doniau, a lle na bo teml lân ni phreswylia yn hir os na fydd ymdrech am ymsanteiddio. Oni wyddoch chwi mai temlau ydych i Ysbryd Duw breswylio ynoch? Ac nad faint sydd yn methu yn eu cais am y doniau trwy y camsyniadau blaenorol a nodwyd, mae lle i ofni mai yn y peth hyn y mae y perygl mwyaf o aflwyddiant. Oni wyddom fod yn anghenrheidiol ein bedyddio ni er maddeuant o'n pechodau gweithredol, ar sail ein ffydd a'n hedifeirwch, cyn y gallem ni fod yn addas i dderbyn dawn yr Ysbryd Glân? Ac onid yw yr un mor amlwg, yr anghenrheidrwydd sydd am *gadw oddiwrth* bechod, a phob halogrwydd cnawd a buchedd, a phob peth croes i santeiddrwydd, er i'r Ysbryd

hwnw, nid yn unig cyflwyno i ni ei ddoniau, ond hefyd er iddo *breswylio* ynom oll?

Ar i'r sylwadau hyn dynu sylw, cydsyniad a chyd-weithrediad ein brodyr ar Gynnadleddau, ar Gangenau, Dosparthiadau, a phob teuiu ac aelod o'r eglwys yn Nghymru, hyd nes y cyd-lawenhaom oll, yn y mwynhad o nefoleidd-dra yr holl ddoniau ysbrydol addawedig i ni, taflwn ein hysgrifell yn awr, a thaer weddiwn!

---

## COFNODION CYMMANFA GYFFREDINOL

*Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, a gynnaliwyd yn y Tabernacl, Dinas y Llyn Halen Fawr, gan ddechreu Hydref* 6, 1853, *am* 10 *o'r gloch yn y boreu. Y Llywydd* BRIGHAM YOUNG *yn llywyddu.*

[Parhad o dud. 34.]

Y LLYWYDD BRIGHAM YOUNG a ddywedodd, Yr wyf yn ewyllysio galw sylw y Gymmanfa hon at wahoddiad a roddaf iddynt, ac ewyllysiwyf ei estyn i'r Saint yn y Dyffryn hwn, ac mewn ereill leoedd. Cyfeiriwyf at ymgasgliad y Saint tlodion.

Mae llawer o honom ni yn gyfarwydd ag amgylchiadau y Saint pan y daethant hwy i'r Dyffryn hwn chwech mlynedd yn ol, ac hefyd bump a phedair blynedd yn ol. Pe byddai i ni fyned trwy y werin hon a chwilio allan y dynion a'r gwraged a phlant a ddaethant yma ar eu cymhorthiadau eu hunain, a'r rhai hyny a gynnorthwywyd yma gan y Drysorfa Ymfudol Barhaus, a chan wahanol bersonau, canfyddid i gyfran fawr o'r werin gael eu dwyn yma trwy gynnorthwy rhai ereill. Ni ddywedaf i'r fwyafrif ddyfod yma o dan yr amgylchiadau hyny, ond y mae yna filoedd a ddaethant. Miloedd o ddynion, menywod, a phlant a gynnorthwywyd yma gan y Drysorfa Ymfudol Barhaus.

Hyn yw y testun at yr hwn yr ewyllysiwyf alw sylw y Gymmanfa, a'r werin yn gyffredinol. Ewyllysiwyf i bawb wrandaw arno, adfeddylio arno, a'i ddwys ystyried yn ddifrifol.

Galwyf ar y rhai hyny na roddasant allan eu dwylaw hyd yn hyn i gynnorthwyo at gasglu y tlodion; i roddi i ni eu henwau, a'u moddion, yn ystod y Gymmanfa hon, fel y codom

ychydig filoedd o ddolars i'w cymhwyso at hyn o ddyben. Tybier y cynnygiem godi cymmaint ag a wnaethom bedair blynedd yn ol, pan oeddem yn nghanol ein tlodi a'n cyfyngder mwyaf; yr oeddem newydd gyrhaedd yma, ac heb genym ond prin ddigon i gynnal bywyd. Eithr er yr amgylchiadau cyfyngol hyn yn adeg y Gymmanfa gyntaf a gynnaliasom yn yr hen Dabernacl, cynhyrfiwyd yr achos hwn, a chodwyd ac anfonwyd 5,700 dolar at gasglu i mewn y tlodion. A feiddiaf fi anturio i wenieithio i'm hunan y gallwn godi 5 neu 6,000 doleri y Gymmanfa hon, i'w cymhwyso at yr unrhyw ddyben daionus? Mae yr holl bobl yn alluocach i godi 50,000 doleri yn awr, nag a oeddynt i godi 5,000 y pryd hyny. Tybier i ni godi 15 neu 20,000 doleri i'w hanfon i'n brodyr tlodion, a'n chwiorydd, y rhai a hiraethant am fod yma gan gymmaint ag ag y darfu i neb o honoch chwi, cyn i'ch ffordd gael ei hagor. Gellir codi y swm hwn yn awr, heb ymegnïad anarferol.

Gallem ofyn i chwi adfeddylio ar y dyddiau a dreuliasoch yn y tir pellenig acw, lle nas gallasech rodio yr heolydd, neu fyned i fasgnachdŷ fel dinasydd arall, heb i fys dirmyg fod yn gyfeiriedig atoch; heb ddyoddef gwatwaredd a chellwair drwganianol yr annuwiol, er mwyn eich crefydd. Gadawer i mi gyfeirio eich meddyliau at yr amser y cyflwynwyd yr efengyl i chwi gyntaf, ac yr ymagorodd ei goleuni a'i gogoniant ar eich dealltwriaethau; pan yr adlewyrchodd tragywyddoldeb a thragywyddol bethau ar eich meddyliau dyryslyd, ac y cyffröwyd eich amgyffrediadau i ganfod pethau fel yr oeddynt, fel y maent, ac fel y byddant hwy. Pa fath oeddynt eich teimladau, a'ch mwyfyrdodau, pan yr ymdorodd Seion a'i gogoniant ar eich golygon? Pan yr ymddangosodd pobl Dduw i chwi, wedi ymgynnull ynghyd, yn ddarpariadol i ddyfodiad Mab y Dyn? Etto, pa fath oeddynt eich teimladau, pan yn mhob cyfeiriad y troech eich llygaid y cyfarfyddent ag ymddangosiadau o ddrygioni ac y cyfarchid eich clustiau gyda chableddau dyfnliwiedig o bob darluniad? A oedd yno neb yn ofni yr Arglwydd? Nac oedd. Nis gallasai y mwyaf crefyddol wneyd dim yn rhagor nag a wnaeth rhai yn nyddiau yr Apostolion; gallent gyfodi delw i'r Duw nad adwaenir, ac addoli rhywun, neu rhywbeth, eithr nis gwyddent pa beth. Pa fath oeddynt eich teimladau a'ch hystyriaethau, dan y cyfryw amgylchiadau

pan y clywsoch gyntaf am waith y Dyddiau Diweddaf? am yr Efengyl yn ei chyflawnder? pan y dysgasoch gyntaf fod gan yr Arglwydd brophwyd, ac apostolion, y rhai a ddaliant eiriau y bywyd i'r bobl? Pa beth oedd yna nad aberthasech yn y fynyd am y fraint o ymgynnull gyda'r Saint, o gymmysgu eich lleisiau a'ch ymddyddanion gyda'r eiddynt hwy, ddydd ar ol dydd? o ymweled, teithio, gwneyd gorchwylion, llafurio, a threulio eich bywydau gyda y rhai hyny a adwaenant ac a garant yr Arglwydd, ac a'i gwasanaethant Ef? A oes yna unrhyw beth nad aberthasech? Yn wir, nid oes!

Yna os medrwch gofio eich teimladau eich hunain, chwi a fedrwch wybod pa fodd y teimla ereill; chwi a fedrwch wirioneddu pa fodd y teimla miloedd, ac ugeiniau o filoedd, yn y fynyd bresennol. Nid oes yna galedi y nacäent fyned dano, na pherygl nad ymdrechent ei orchfygu, pe y gallent ymgynnull gyda ni yma, y dydd hwn. Ni fyddai un brofedigaeth yn rhy lem ganddynt hwy, nid oes yna un aberth nas gwnelant hwy yn barodol ac ewyllysgar am y fraint a fwynhewch chwi y dydd hwn. Frodyr a chwiorydd, a ellwch chwi sylwedd- oli hyn?

Gadawer i ni yn awr ddarllen pennod ar yr ochr arall i'r ddalen, a chanfyddwn galonau dynion, a menywod, trwy groesi y cefnfôr, trwy deithio ychydig wythnosau neu fisoedd, ar ddwfr a thir, yn ymddangos mewn rhan wedi eu cauad i fyny, ac y maent yn colli golwg ar wrthddrych eu herlyniad. Ymddengys fel pe byddai y caledi yr aethant trwyddo, wrth ddyfod i'r tir hwn, wedi alltudio agos bob mymryn o oleuni Crist allan o'u meddyliau.

Os chwennychasoch ar eich taith, gyda dylanwad yr Ysbryd Glân yn cynnesu eich calonau, pwy â'ch rhwystrodd chwi rhag ei gadw bob dydd o'ch bywyd? Dichon i chwi ddywedyd mai y diafol a'ch hyspeiliodd o hono. Ond pa orchwyl oedd genych chwi gyda'r diafol? A oedd yna unrhyw angenrheidrwydd a barai i chwi fyned i gyfeillach ag ef, neu i gyfranogaeth gyda gweithredoedd y tywyllwch? Yr ydych yn ateb, Nad oedd; "Gadawais ef ac oll o'm hen gymdeithion a theimladau, a rhoddais fy hunan i'r Arglwydd, cofleidiais ei efengyl Ef, ac aethym allan i adeiladu ei deyrnas Ef, ac ewyllysiais ymgasglu gyda'r Saint yn y lle ymgasgliedig.

Tybier fod y diafol yn eich temtio chwi, a raid i chwi o anghenrheidrwydd fyned i gydgyfranogaeth etto gydag ef, i agoryd eich drysau, a rhoddi iddo roesawiad i'ch tai, a dywedyd wrtho i deyrnasu yno? Paham nad adfeddyliech a dywedyd wrth meistr diafol, ynghyd a'i holl gymdeithion a'i eppiledd, am fyned ymaith, gan deimlo i chwi ei wasanaethu ef ddigon hir.

Ebe un, "Nis gwyddwn i mai posibl y gallaswn ddyfod yma gydag anifeiliaid aflywodraethus, heb fy mod yn gamweddus yn fy nheimladau;" neu, "gwnaeth y brawd hwn yn gamweddus ac anafodd fy nheimladau; yr oeddwn wedi fy anfoddogi, a dyrysodd gofalon y daith fy meddwl, a niweidiodd fi fel nad wyf fi mewn gwirionedd yn gwybod pa un a ddaethym i'r He y cychwynais iddo, ai peidio; y mae pethau yn fwy gwahaniaethol yma nac y dysgwyliais i eu canfod hwy," &c.

*(I'w barhau.)*

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

### DYDD SADWRN, IONAWR 21, 1854.

Doniau Ysbrydol.—Cymhellwn y traethawd blaenorol i sylw neillduol ein darllenwyr, ac hyderwn na foddlona unrhyw Lywydd Cynnadledd na Changen, swyddog nac aelod, hyd nes y byddo, nid yn unig pob eglwys, eithr hefyd pob aelod yn *mhob* eglwys yn gorfoleddu yn y mwynhâd o'r doniau Ysbrydol, yn mynych gymdeithasu â'r nef a'i dedwydd drigolion, ac yn pêr lewygu gan ddysglaerdeb ei gogoniant, fel Paul ac ereill, mewn gweledigaethau. Hynaws Saint, na foddloner chwi ar lai nâ gwleddoedd parhaus o "fara y plant," nes brashau eich eneidiau yn ngwybodaeth eich Tad, ac yn tebygoli iddo, yr hyn yw ei ddaionus amcaniad yn nghyfraniad ei ysbrydol ddoniau i'w blant ynmhob oes a gwlad. Eiddoch chwi ydynt. Ceisiwch hwynt. Na oddefwch omeddiad.

Dyledion am Lyfrau.—Hyderwn y ceir sylw buan Llyw-

yddion Cangenau Cynnadledd Ddwyreiniol Morganwg at y rhifres dyledion am lyfrau ag sydd gogyfer â'u henwau yn y daflen ar ddiwedd y rhifyn hwn. Frodyr, a ydyw y pethau hyn felly? Os ydynt, Paham? sydd gwestiynau a ddymunwn i chwi edrych i mewn iddynt, ac egluro i ni. Os oes camsyniaeth yn un man hysbyser i'r cyn brif ddosbarthwyr yn ddioed, cyn yr elont ymaith. A oes gwerth £162 12s 8c o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar law? Os nad oes, Pa le y maent? sydd ofyniad a ddylai fod ei ateb yn barodol gan bob Llywydd Cangen i'r sawl a ofyn iddo; o leiaf, ar ben pob chwarter dysgwylir hyn ganddo. Manwl graffer ar ddosparth y llyfrau yn fynych, frodyr, ac fe wêl y Saint eich bod yn teilyngu eu hymddiried yn hyn fel yn mhob peth arall.

YR ARWEINYDD I SEION.—Difynwyd yr hyn sydd yn y rhifyn hwn er cyfleusdra i'r rhai a ymfudant eleni, fel y gallant ddarparu yn gyferbyniol. Mae y llyfr yn y wasg, a gweithir wrtho nos a dydd braidd; ac nid ydym wedi anobeithio ei gael yn barod oll erbyn y cychwyno yr ymfudiaeth eleni, neu gynnifer, o leiaf, ag a fydd eisiau ar yr ymfudwyr.

---

## DARPARIAETH YMFUDWYR CYN CYCHWYN O GYMRU.

Allan o'r "Arweinydd i Seion."

YN GYNTAF, talwch eich dyledion cyfiawn i bawb, neu mynwch hynawsedd eich gofynwyr i naill ai yn rhâd faddeu neu i adael i chwi gael amser fel y taloch yn ol iddynt o ben eich taith, heb wneyd y naill neu y llall ni chynghorem neb i ymfydo tua Seion.

*Yn ail*, ymdrechwch fod wedi ymryddhau yn eich cydwybodau trwy rybyddio yr oll o'ch cyd-ddynion a alloch, yn neillduol eich perthynasau, gan eu hannog i ufyddhau i'r efengyl a ffoi i'r Seion waredol mewn pryd. Eich ymddygiadau fo yn gwneyd eich coffadwriaeth yn fendigedig.

*Yn drydedd*, chwiliwch am hanes, enwau, genedigaethau, priodasau a marwolaethau eich henafiaid hyd y galloch, ynghyd a'u perthynasau byw. Deallir y pwysigrwydd o hyn wrth ei ganlyniadau dyfodol yn well nag y gallwn ei hysbysu yn awr.

Cymmaint a byna o gynghorion cyffredinol, pa rai y dylai y tlawd fel y boneddwr eu gwneuthur. I'r dyben o hyfforddi

pawb yn y darpariadau a ddymunem o barthed i ddilladau a phob math o nwyfau, dosparthwn ein hymfudwyr yn yn dri dosparth; sef, 1. Y rhai arianog a allant ac a fwriadant fyned yn eu waggeni eu hunain dros y *plains* 2. Y rhai a ânt gyda y cwmnioedd £13 yr un. 3. Y rhai a ânt gyda y "Gymdeithas Ymfudol Barhaus."

1. Annogwn y dosparth cyfoethog o'n hymfudwyr i dalu eu degwm! O barthed i ddilladau, fel rheol gyffredin dywedwn mai doeth fyddai iddynt ddarparu digonedd iddynt eu hunain a'u teuluoedd am ddwy flynedd, Nid rhaid eu bod yn wahanol i'r dilladau a wisgir gartref. Cymerir y cyffelyb gyfartalwch ag yma o ddillad hâf a gauaf. Lle ceir tywydd twymach neu oerach gellir ymddwyn yn gyferbyniol trwy leihau neu ychwanegu y dillad a feddir. Pethau anhawdd eu cludo yw hetiau a bonnets. *Cotiau*, brethyn ynghyd a rhai velvet neu moleskins i'w gwisgo ar y ffordd ac at waith; hefyd cot o ddefnydd ysgafn at dywydd twymn. *Trowseri*, o ddefnydd cryf na rwyga'r drain yn hawdd yw goreu ar y ffordd o leiaf, ffustian neu moleskin a'r cyffelyb. Hefyd rhai brethynau, neu fel a wisgir yma. *Crysau*, llawnder o grysau sydd dda, yn lle lliain, gwell cotton (factory) o herwydd pan chwysir effeithia i fraeo y blaenaf yn fwy na'r olaf, oddieithr y colerau a'r fronts o liain. Cyfleus fyddai crysau check lliwiol ar y ffordd, ac at rhai gorchwylion wedi cyrhaedd draw. *Dillad isaf*—o wlanen—digon am flwyddyn—a defnydd i wneyd y cyfryw o ddull arall, a gwell, wedi cyrhaedd Seion. *Esgidiau a Botasau*—Nid rhy gryfion, na'r hoelion mawr a welir, yn gyffredin. Mae lledr y wlad hon yn well nâ'r lledr Americanaidd, gan hyny goreu fod tri neu bedwar pâr yr un. Gwisger yr hynaf ar y môr, a chadwer y lleill yn ddiogel rhag dwfr ac awel y môr, canys pydra y lledr a'r gwnïad. Felly dillad hefyd, hyd y gellir. Mae lledr yn bur ddrud yn y Dyffryn; a chan na chaniata y gyfraith ond digon at anghenrheidiau presennol o'r wlad hon i New Orleans, doetha fyddai i'r rhai a allont fyned â lledr o St. Louis gyda hwynt. Nid ydym yn meddwl mai tro ffol a fyddai cymmeryd y *Gutta Percha* i'r Dyffryn, gan fod gwaith y cryddion yn gostus yno. *Hosanau* gwlan cartref, yn brif; am rai *worsted* a chotwm, prynir hwynt yn rhad yn St. Louis. Y blaenaf, a weuir yn Nghymru, ydynt y rhai goreu a welsom yn unman. Amryw bârau ar gyfer pob un a fyddai yn

ddefnyddlol, gan na fydd cyfle i gyweirio, efallai, fel sy gartref. Heblaw hyn, byddai yn dda iawn gan y cyfeillion sydd draw, os nad oes *berthynasau*, brynu genych ambell bilyn fel yr uchod. Cofier am danynt !

### DANPARIADAU BENYWAIDD Y DOSPARTH HWN.

Da a fyddai cwpl o ŵnau gwlanen, neu stwff cryf o waith cartref, a pheisiau cartref a rhai gwlanen, er na byddai eu heisiau bob amser; etto, gan y bydd y shop yn go bell, gwell eu bod wrth law pan y bydd eu heisiau. Dillad isaf yn debyg i'r rhai gartref, ond mwy o amrywiaeth, o herwydd anghyfleusderau teithio. Hosanau ac esgidiau yn ol y cyfarwyddiadau uchod i'r dynion. Nid annefnyddiol a fydd *Umbrellas* a *Parasols* erbyn yr eir i wlad dwymnach. Os am gydweddu â boneddigesau Seion, gwell darparu cwpl o ŵnau go *stylish*; etto nid yn anweddaidd; nid hynod a fyddai gwnau sidan a *satin* yno, heblaw gwnau cotwm da ar y ffordd. Darparwch hefyd ribanau, canys y maent yn ddrud yno. Da a fyddai amrywiaeth i'r plant o bob peth. Cynghorem fenywod hefyd i ddarparu lliain main; tua deg llath yr un erbyn y delont yno—deallant ei werth. Dillad gwelyau yn helaeth i'r rhai a feddant fodd i'w cludo. Pethau esmwyth iawn i gysgu arnynt ar y môr, ar yr afonydd, dros y *plains*, ac hefyd wedi cyrhaedd draw, fydd gwelyau plû; a haera rhai eu bod yn esmwythach i farw arnynt hefyd! O leiaf, os eir â hwynt, gwnïer dwy gynfes, am danynt rhag eu diwyno, a chadwer hwynt yn sych. Cymerer helaethrwydd o nodwyddau, pinau, edafedd llîn, cotton balls, edef wlân, llygaid a bachau, botymau, *tapes*, siswrnau, cyllill a ffircs, llwyau, a'r pethau cyffelyb a feddylioch; nid am nad yw y pethau hyn yno, ond o herwydd bod eu cludiad mor hawdd, ac yn llawer rhatach yma. Gwell bod y mwyrif o'r dillad gwedi eu gwneuthur neu eu torri cyn cyrhaeddir New Orleans, rhag y drwgdybir chwi o fod yn bwriadu eu gwerthu, ac felly en colli.

### DODREFN TY, &c.

Yn hytrach nâ rhoi y pethau canlynol, na'u gwerthu am hanner pris, gwell eu cymmeryd gyda chwi: crochan neu ddau, tea-kettle, saucepan, fryingpan, a llestri china da, neu blates a basynau, i'w defnyddio ar y môr, er mai mwy cyfleus fydd rhai tin: haiarnau tân, os da fyddant, a chanwyllbrenau prês a fyddant yn

ddefnyddiol wedi cyrhaedd yno, i'r rhai a feddant fodd i'w cludo. Doeth a fyddai amgylchu y cistau y tu fewn â *sheets tin* da, er cadw gwlybaniaeth draw, ac yna gellir gwneuthur llestri o hono ar ben y siwrnai.

WRTH Y RHAI A ANT YN Y CWMPEINI £13.

Dywedwn na chaniatâ rheolau yr ymfudiaeth iddynt hwy gael cario yn y wageni dros y tir ond cant pwys yr un, heblaw eu lluniaeth; o ganlyniad galluogir hwy, yn ol yr uchod, i ddetholi y dillad mwyaf defnyddiol i wneyd i fynu y pwysau hyny. Ni chynghorem y dosparth hwn i fyned â chistau, oddieithr rhyw un mewn teulu; canys gallant gludo eu pwysau o ddillad, neu rywbeth arall a ddewisant. Ceir cydau o liain wedi eu paentio, neu eu hoilio, a gadwant wlybaniaeth allan. Ni raid i ni yma ymhel aethu ar ammodau y Gymdeithas ragorol hon, na'i manteision; ceir hyny yn yr UDGORN, cyfiethedig o'r *Star*. Da a fyddai i bawb ymfudwyr fyned ag ychydig o fara ceirch gyda hwynt, a phickles, a rhyw fwydydd ffansiol ereill yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir iddynt yn y llong.

---

## CYMMANFA MERTHYR.

### CRYNODEB O'R HYN A WNAED AC A DDYWEDWYD YN Y GYMMANFA UCHOD.

[Parhad o dud. 29]

Y LLYWYDD Jones a alwodd ar y Llywydd Richards, o Liverpool, i gyfodi; yr hwn, yn mysg llawer o bethau da ereill, a ddywedodd hefyd a ganlyn:—"Da genyf gael y cyfleusdra hwn, a'r fraint hon, o'ch anerch chwi, anwyl Saint, yn Nghymru fynyddig. Amryw a arferant ddywedyd eu bod yn dymuno "Nadolig llawen" y naill y llall; ond yr wyf fi yn dymuno Nadolig da i chwi, Saint, oddiar deimladau uwch ac ardderchocach nag arferiad neu ddefod, gan ewyllysio i chwi Nadolig llawen—y llawenydd sydd yn yr Ysbryd Glân. Teimlwyf yn llawen am a aeth heibio—am yr hyn a wnaed ac a gyflawnwyd gan Dduw ynoch a thrwoch; a theimlwyf hefyd yn ddiolchgar i Dduw am fod i mi sail dda i ddysgwyl daioni mawr i ddyfod. Mae yr Arglwydd yn cyfranu i ni fendithion nefol ac arbenig; a dylai hyny gael dylanwad nefol ac arbenig ar ein holl deimladau a'n hymddygiadau yn nghyflawniad ein ham-

rywiol ddyledswyddau, Nid am ein bod yn well nâ phobl ereill y cyfranodd Duw i ni y fath dystiolaethau o'i foddlonrwydd ag a dderbyniasom, eithr ei raslonrwydd Ef, a thiriondeb ei dru garedd Ef ydyw cyflawni ei addewidion yn Nghrist Iesu ein Harglwydd i'r rhai oll a ufyddhaont i'w orchymynion, i'w efengyl, ac i holl air ei wirionedd. Trwy ufyddhau i'r gwirionedd caiff y gwirionedd ddylanwad bendithiol a graslawn ar ein holl deimladau, a bydd iddo ein hennill i'w garu; a dylem garu y gwirionedd er ei fwyn ei hun; nid am y gorfoda ef ein gelynion i gwympo a gorwedd wrth wadnau ein traed, ond am mai gwirionedd yw, am ei fod yn allŵog i achub ein gelynion, ac i fod yn iechydwriaeth i ni, i'n perthynasau, i'n cymmydogion i'n cyfeillion, i'n gelynion, ac i bawb; y mae genym achos i fod yn llawen, ac yn llawen iawn, oblegid y ceir yn ein meddiant y fath allu grymus i fedru gwneuthur daioni i'r teulu dynol, trwy ein hargymhell i ymdrechu llesoli pob dyn a ddichon i ni gymdeithasu ag ef, mewn unrhyw gwrr, ac yn mhob cwrr o'r byd mawr eang oll; a phan y cyfarfyddom â dyn y byddo ei feddwl yn ddiragfarn, a'i galon yn onest ac agored i dderbyn y gwirionedd pan ei ceir, nis gellir amgyffred y llawenydd a ddeilliai i ni trwy gael y cyfleusdra hyfryd i arddangos y gwirionedd i'r dyn gonest hwnnw; a'r llawenydd hwn, rhodd Duw ydyw. Gan hyny, dylai fod genym ffydd, ffydd gyfan, ffydd gadarn i gredu'n berffaith y bod gan Dduw hawl gyfreithlon i'r gwirionedd, a bod ganddo hefyd hawl gyfreithlon i'w ddadguddio, i'w wasgaru trwy ein hymdrechiadau dyngarol ni; ac i gredu, heb amheu dim, y bydd i Dduw ein bendithio ni yn ein hymgais daionus at lesu dyn.

*(I'w barhau.)*

---

## ARWYDDION YR AMSERAU.

Ystyrir fod golud Lloegr a Chymru oddeutu 4124 o filiwnau punnoedd. Treiglir yn fasgnachyddol, *bob dydd*, yn Llundain, tros 4 miliwn; ac yn yr holl deyrnas tros 122 miliwn. Pe rhifid yr arian a dreiglir mewn *un dimrnod*, yn unol â 60 punt yr awr am bob awr y dydd, cymmerid oddeutu 8 mlynedd o amser. Mae cost yr holl lwythau coed, cyn dechreu adeiladu

rhyfel, o'r radd gyntaf, yn 15,000 o bunnau. Telir yn flynyddol at gynnal milwyr, llyngeswyr, a magnelwyr, tros 16 miliwn, ac o lôg am arian a fenthycwyd yn amser rhyfel, 28 miliwn: tra miloedd o weithwyr medrus a diwyd yn ffaelu cael cyflogau digonol at gynnal eu teuluoedd yn gysurus, a miloedd ereill allan o waith. Eithr yn Utah, Tiriogaeth Saint y Dyddiau Diweddaf, ceir digon o waith, cyflog, ac ymborth, ynghyd â phob anghenrheidiau ereill, heb orfodi neb i gynnal rhwysgfawredd pendefigion. Telir i'r Eglwys Wladol dros 5 miliwn y flwyddyn, ac i'r parchedigion ereill dros 3 miliwn; tra nad yw holl lanau a chapeli ein teyrnas ond llai nag 20 mil i fwy nâ 18 miliwn o bobl, nad oes eu hanner yn ceisio myned iddynt; ac heb ond un plentyn o bob 14 mewn ysgol ddyddiol; eithr yn Utah yr adeiledir ac y llenwir y lleoedd addoli gan y bobl yn wirfoddol, ac y mwynheir pob cangen o ddysgeidiaeth gan blant pawb fel eu gilydd.—Rhagfyr 19. Ennillodd y Tyrciaid fuddugoliaeth fawr ar y Rwssiaid yn agos i Khalafat, er fod nifer y Rwssiaid yn 30 mil, ac felly yn llawer lliosocach nâ'r Tyrciaid. Dywedir i drigolion Wallachia Leiaf droi yn erbyn y Rwssiaid, a darfod i'r oruchafiaeth sicrhau pleidiaeth y rhanau hyny o'r wlad ag oeddynt yn petruso ymuno: perodd hyn orfoledd penfrwd yn Constantinople, nes braidd anghofio llosgiad y llongau yn Sinope. Ennillasant amryw frwydrau yn Sistown, ac ar y Danube, gyferbyn â Ischatchka a Matschin.—Rhagfyr 29. Daeth eirchion fod i'r llyngesau, Lloegr a Ffrainc, fyned i'r Môr Dû yn ddiattreg; ac erbyn machludiad haul nid oedd ond un llong o bob llynges yn y Bosphorus. Anfonwyd cyfarwyddiadau, heb oedi, fod i'r Câdlywyddion Tyrcaidd ddwyn y rhyfel yn mlaen gyda phob egni yn eu gallu o fewn Ewrop ac Asia. Os dygwydd i Luders, y cadfridog Rwssiaidd drosi y Danube yn Matschin, syrth y Tyrciaid yn ôl ar walfur Trajan, gan ymestyn o Czernavoda i Kostendjii.—Ionawr 6. Ymosododd dosparth Tyrcaidd, yn 15 mil eu nerth, gyda 15 darn o fagnelau, ar sefyllfa warchaeol Citale, nid pell o Kalafat, a chymmerwyd hi. Collodd y Rwssiaid 2,500 o wŷr yno; ac er anfon 18,000 o Karaul i gyfnerthu ŷ lleill, gorfuwyd hwy i gilio, gyda cholli 250 o wŷr. Pan gynnygiodd y galluoedd cyngreiriol am adnewyddu ammodau heddwch rhwng Twrci â Rwssia, cefnogodd blaenor y grefydd Mahomedanaidd hyny, gan ddywedyd,

"Yr ydym yn addoli Allah, un Duw. pen y gyfraith. Y Cristionogion, hwythau, ydynt yn addoli un Duw, yr hwn yw ein Allah ni. Gan hyny dylem eu hystyried fel ein brodyr, am na ddylid, medd y Koran, ddodi yr enw anffyddiwr ond ar y personau hyny nad addolant yr Unig Dduw."—Wedi Rhagfyr 29, bu 40,000 o wŷr y Rwssiaid yn Walachia. Parotôant ddwy weryllfa o wŷr meirch, yn cynnwys 10,000 o wŷr bob un. Y magnelwyr, mewn un lle a feddant 100, ac mewn lle arall 120 o fagnelau. Symudiadau y Rwssiaid ydynt fawreddog; ymdaith y catrodau tan Osten Sacken sydd yn mlaen trwy ganol rhew: y rhai yn Walachia Leiaf a ymdeithiant yn dair colofn; a'r rhai sydd i weithredu yn erbyn Khalafat yn 22,000.—Terfysg sydd yn yr India; mae gan un penaeth, ger Meaday, 10,000 o wŷr, a chan un arall rym mawr o wŷr ger Pegu. Mynegir fod gan y terfysgwyr Burmesaidd gasgliad o 140,000 o wŷr arfog. Bu'r gweithrediadau yn erbyn yr Afredees, rhwng Peshawur a Kohat, yn llwyddiannus. Mae lluoedd y fyddin yn chwyddo: y gwŷr traed Ewropaidd a genedigol yn 9,800; a'r gwŷr meirch, 2,459: meirch a thraed fagnelwyr ydynt 1,100 o wŷr, 48 magnelau; a 100 o flaen-ddrylliwyr, yn gwneyd 13,250 o wŷr, a 48 magnel: yr hyn, fel y bernir, sydd ddigon i ysgubo Affghanistan o'r Khyber i Khorassan, ac yn ol drachefn. Yn y dygwyddiad o ryfel â Rwssia, mwyheir catrodau Peshawur, a'u dodi dan lywyddiaeth Arglwydd Frederick Fitzclarence. Moddion eu mwyhau ydynt wrth law, trwy fod eisioes 60,000 o wŷr meirch yn Punjaub.—Yn China, hefyd, y mae terfysgoedd mawrion; ymladdir, fel arfer, yn Amoy a Shanghai, a'r terfysgwyr, yn y lle olaf, a gawsant afael ar lawer o drysorau a guddiwyd gan yr awdurdodau diweddar: yr oeddynt yn ei ddefnyddio trwy logi ac arfogi llongau Ewropaidd, fel y mae yn awr lyngesau masgnachol o'r ddwy ochr. Un Mr. Reynolds a ddaliwyd yn ddiweddar gan bleidwyr yr amherawdwr, tra yn cludo moddion rhyfel i'r teyfysgwyr; torfynyglwyd ei ddyn- ion, a chawsai yntau dori ei ben, oni bai i'r morwyr Ewropaidd yn ngwasanaeth yr amherawdwr fygwth ymadael oll oddigerth ei ryddhau; a chaniatawyd iddo ddychwelyd i Shanghai. Mae Canton yn llonydd; eithr anfonwyd llu o filwyr i Tongkoon, lle cyfagos, am fod yno wrthwynebiad egniol i'r llywodraeth, a cheir trafferth i'w tawelu. Y terfysgwyr a lenwant

Hopih e'lwaith, gwedi lladd llaweroedd ; y maent yn Oonan hefyd, er i'r lle eu gwrthsefyll gynt.—Llawenyched y Saint am fod ganddynt le tawel i ddianc iddo rhag y dinystr sydd ar ddyfod. Mawr y gweddio sydd am lwyddiant ar eirf gwrthbleidiau ymladdgar; ac er lleied rheswm a ddichon fod gan yr Indiaid a'r Chiniaid tros weddio ar eu gwahanol dduwiau, llai fyth sydd gan bobl Twrci a Rwssia tros weddio am i'r un Duw eu llwyddo i ladd eu gilydd, er yn wahaniaethol eu crefydd: ond mewn perthynas i Ffrainc a Lloegr â Rwssia, rhaid y byddai rhyfel rhwng Mair y Forwyn, Iesu Grist, a'r Tad, cyn y gellid en llwyddo oll. Gweddi y Saint sydd am lwyddiant ar yr arfau nad ydynt gnawdol; yn cangu ystafell y weddi gyfled â'r byd, gan gofleidio pawb ac ewyllysio yn dda i bawb yn gyfanswm, fel y gogonedder Duw yn achubiaeth bywydau dynion yn awr ac am byth bythoedd.

---

DYLEDION CANGENAU CYNNADLEDD DDWYREINIOL MORGANWG AM LYFRAU, HYD RHAGFYR 13, 1853.

Y swm gyntaf ar ol enw pob Cangen sydd am lyfrau Cymraeg, a'r ail swm am lyfrau Saesneg.—Pendeulwyn, 1s; Twynyrodyn, 1s. Eglwysnewydd, 2s;—£2 5s 10¾c. Pontfaen, 13s 11c;—£1 16s 7¼c. Caerdyf, £5 18s 6c;—£5 18s 10c. Pontytypridd, £2 14s 2c;—£2 13s 1½c. Llanfabon, 13s 0½c;—6s 5½c. Aberdâr (Cymreig), £14 11s 2c;—£3 1s 4½c. Aberamman, £6 11s 0½c;—£6 11s 9c. Cap Coch, £1 1s 1c;—6s 10½c. Dowlais, £8 9s 8½c;—£1 7s 1c. Hirwaen, £1 6s 6½c;—£2 19s 1c. Cwmnedd, 16s 4c. Rymni, 8½c. Georgetown, 15s 5c. Merthyr, £9 1s 4½c;—£6 15s 2c. Pendaren, £6 11s 4c;—£2 15s 6c. Cefn, £3 15s 11c;—£2 7s 6c. Gwernllwyn, £2 14s 5c;—6s 11c. Ffynnon-Tydfil, £3 18s 9½c;—£2 2s 8½c. Troedyrhiw, £1 2 0½c;—13s 9½c. Cwmbach, £3 5 9½c;—£2 18s 4c. Twyncarno, 1s 5c Llandaf, 19s 7c;—18s 3c. Ynysgau, £1 3s 6½c;—£6 18s 7c. Rymni (Saes.), 12s 11c;—£5 9s 8½c. Gellifaelog, £2 2s 2c;—£8 10s 3c. Aberdâr (Saes.), £1 13s 5c;—£11 14s 4c. Llanilltyd, £0 0s 0s;—17s 6¼c. Gog, £0 0s 0c;—17s 8½c.—Cyfanswm, £89 18s 3¾c;—£80 14s 4¼c.

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Doniau Ysbrydol | 37 |
| Cofnodion Cymmanfa Gyffredinol, &c | 41 |
| Golygyddiaeth | 44 |
| Darpariaeth Ymfudwyr cyn cychwyn o Gymru | 45 |
| Cymmanfa Merthyr | 48 |
| Arwyddion yr Amserau | 49 |
| Dyledion, &c | 52 |


---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

RHIF. 4.] IONAWR 28, 1854. [CYF. VII.


## DAMMEG Y BONEDDWR A'I FAB.

AR foreu goleu, hyfryd a nefolaidd, cyn tewynu o'r haul, lloer na sêr, boneddwr cyfoethog a duwiol a ymwelodd â'i fab, yr hwn pan ei canfyddodd a redodd i'w gyfarfod, ac a'i croesawodd yn anwylaidd i'w balas.

*Tad.*—Fy ngofal am danat ti a'th deulu, o herwydd y berthynas anwylaidd sydd rhyngom, a'm cymhellodd i dalu ymweliad â thydi fy mab; ac yn awr galw dy holl deulu ger fy mron, fel eu gwelwyf ac y gwnelwyf iddynt ddaioni.

*Mab.*—Gyda llawenydd mawr yr ufyddhaf i'ch arch yn hyn, fy anwyl dad, a diau mai pleser mawr a fydd ganddynt hwythau oll eich cyfeillach, am yr anrhydeddant chwychwi megys fy hunan.

*Tad.*—Wele, canfyddaf y bod dy deulu wedi lliosogi yn fawr, nid oes le cyfleus i gynnifer yn dy gyffiniau; heblaw y dylit ddarparu iddynt, fel teilwng wrthddrychau dy ofal, bob dysgeidiaeth ac ystadau erbyn y tyfant i oedran, y dewisant hwythau ymbriodi a lliosogi eu heppil; canys yn gwneyd hyny mae eu dedwyddwch yn gynnwysedig.

*Mab.*—Gyda theimladau dyledus i'm hanwylaidd deulu cydnabyddaf hyn oll, a gwnaethym hyd y mae defnyddiau genyf.

*Tad.*—Dy anghenion hyn, fy Mab, ni ddiangasant rhag treiddiad golygon gofalus dy Dad; eithr mewn pryd daethym i wneuthur i fyny dy anghenion, trwy gyflwyno i ti ac i'th had y *freintlen* haelionus a ddaliaf yn fy llaw, yr hon sydd gyffelyb

fr un a roddwyd i mi gan fy Nhad; wrth yr hon y deallir fy mod yn rhoddi i ti ac i'th blant, yr holl wlad hono ag sydd yn eiddof fi tu draw i'r môr mawr. Y mae hi yn awr yn anialwch afluniaidd, ond trwy fyned yno a'i darostwng, gellir ei gwneyd yn ystadau gwychion, a digon eang i'th blant i eppilio eu rhywogaeth a fynont. Gan fod dy blant yn awr yn rhy ieuainc i oddef cyfnewidiad y tywydd a throsglwyddiad mor bell, gâd hwy yma gyda mi, a myfi a fyddaf yn Dad iddynt yn dy absennoldeb, a'u dysgaf ac a'u parotoaf erbyn dy ddychweliad, ar yr ammod mai os trosglwyddi di ammodau y freintlen hon, ac anghofio dy deulu, eiddof fi a fyddant.

*Mab.*—Llawenychech fy nghalon drwy eich hymweliadau blaenorol, fy haelionus Dad, eithr eich ymweliad olaf hwn a ddyrchafa y guddlen o'm blaen, nes para y golygfeydd ffyddiog o'r darpariadau gogoneddus a gynnygiwch i mi ac i'm had orfoleddu wrth wrando ar eich geiriau, a pharod wyf i fyned yn ol eich gorchymyn.

Boddiodd y cynnygion hyn yr holl deulu mor fawr, fel y cydganasant gan orfoledd. Wedi i adleisiadau eu lleisiau ar uchel furiau y palas ddystewi, ychwanegodd y Tad, gan ddywedyd :—

*Tad.*—Os bydd i ti, fy Mab, gael dy oddiweddyd gan demtasiynau y wlad newydd yr ai di iddi, fel i droseddu yn fy erbyn, rhoddaf i ti y cynnyg i ymadferyd. Os dy etifedd di, *yr hwn fydd eiddof fi ar ol* dy droseddiad di, os efe a ddaw i'r wlad hon ar dy ol di, ac a gyflawn ufyddha i'r oll a gynnwysir yn ammodau y freintlen hon; yna wedi yr ufyddhäo felly, ac y cwblhäo yr holl waith, myfi a adferaf i ti ac i'th hâd, er ei fwyn ef, yr oll a addewir yn y freintlen.

Y Mab wedi gorchymyn ei deulu i ofal ei Dad, a'u hannog oll i ufyddhau iddo megys ag iddo ef ei hun, a gymmerth ei wraig gydag ef, a fordwyodd dros y môr mawr, ac a diriodd yn ddiangol yn y wlad bell. Wedi bod yno dalm o ddyddiau, effeithiodd ffrwythau y wlad ar eu cyfansoddiadau nes achosi iddynt anghofio eu cartref a'u teulu ynghyd, a'r dyben o'u dyfodiad i'r wlad bell: ac wedi crwydro o honynt yno yn hir, aeth eu Tad yno i chwilio am danynt, eithr hwy gan na chofient ef, a ddychrynasant ac a ymguddiasant; yntau a floeddiodd arnynt o bell, gan ddywedyd, beth a achosodd y dyeithrwch hyn

ynoch? Er hyny dychwelwch, y mae genyf etto newyddion da i chwi; sef, os gwnewch chwi fel y ceisiwyf, ac ar yr ammod o fod fy etifedd i, fy mab hynaf a berthyna i'r teulu a fwriadaf fudo i'r wlad hon atoch, yn gwneyd pob peth yn ol a geisiaf ganddo; er ei fwyn ef adferir chwithau hefyd i feddiant parhaus o honi, ac i'ch hâd. Gwn trwy adnabyddiaeth bersonol ag ef, mai bachgen cywir galon ac ufydd yw efe, ac ni ddaw efe yma o dan gymmaint anhawsdra ag y daethoch chwi: gan hyny, dychwelwch yma, a gwnaf i fwy lles ddyfod o hyn nâ phe nas dygwyddasai. Hyn a'n calonogodd i ymsefydlu yn ol y cyfarwyddiadau a gaent o bryd bwy gilydd, ac i fyw mewn gobaith o'r addewidion a roddid iddynt.

Yn awr, y ddamneg sydd wirionedd, a phwy a'i dehongla?

Gofyniad 1af. Pwy yw y personau cyfeiriedig ynddi?

2il. Pa le oedd y palas lle y cyfarfuant, a phwy y gwyddfodolion?

3ydd. Ai priodol i'r person cyntaf alw mab y llall yn fab *iddo ef ei hun?*

4ydd. Pa fan yw y "wlad bell," a pha fodd yr effeithiodd eu ffrwythau felly arnynt, ydynt gwestiynau pwysig, pwy a'u hatebant trwy yr UDGORN?

---

## COFNODION CYMMANFA GYFFREDINOL

*Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, a gynnaliwyd yn y Tabernacl, Dinas y Llyn Halen Fawr, gan ddechreu Hydref* 6, 1853, *am* 10 *o'r gloch yn y boreu. Y Llywydd* BRIGHAM YOUNG *yn llywyddu.*

[Parhad o dud. 44.]

HYN sydd arddangosiadol o deimladau rhai a groesasant y gwastadedd y tymmor hwn. Fy nghynghor i chwi ydyw, Ewch a bedyddier chwi er maddeuant pechodau, a chychwynwch o'r newydd, fel na orchfygo temtasiynau chwi etto; gorphwyswch ac ystyriwch, fel na orchfyger chwi gan yr un drwg yn ddiarwybod.

Yn y lle cyntaf, os adfedyddir chwi er maddeuant pechodau, ysgatfydd y gellwch dderbyn etto ysbryd yr efengyl yn ei ogoniant, ei oleuni, a'i brydferthwch; ond os yw eich calonau wedi eu brashau o'r fath yn mhethau y byd hwn fel nad ydych chwi yn gwybod a oes arnoch angen eich adfedyddio ai peidio,

gwell a fyddai i chwi gau eich hunain i fyny mewn rhyw warchae neu gell auedig, i edifarhau am eich pechodau, a galw ar enw yr Arglwydd, hyd nes y caffoch ei Ysbryd ef, a'i oleuni perthynol i adlewyrchu arnoch, fel y gwybyddoch natur eich camweddau, a'ch gwir sefyllfa ; fel y galloch sylweddoli a gwerthfawrogi y fendith a fwynhewch o fod yma gyda Saint y Goruchaf.

Gadawer i mi arwain eich meddyliau ychydig yn mhellach. Ewyllysiwyf d ywedyd i chwi rywbeth y dichon eich bod chwi efallai yn ei wybod gystadl a myfi, eithr y dichon hefyd na bu i chwi ei sylweddoli. Pan fyddo yr Arglwydd Hollalluog yn agor gweledigaeth meddwl dyn, y mae ef yn dangos iddo bethau yr ysbryd ; pethau i fod. Os cafodd neb o honoch weledigaeth o Seion, dangoswyd hi i chwi yn ei phrydferthwch a'i gogoniant, fel y bydd pan fyddo Satan yn rhwym. Os adfeddyliasoch ar ymgasgliad y Saint, ysbryd yr ymgasgliad oedd a'ch goleuodd chwi ; a phan oedd eich meddyliau wedi eu hagoryd mewn gweledigaeth i weled gogoniant ac ardderchawgrwydd yr efengyl, nis gwelsoch y weledigaeth o yru anifeiliaid ar draws y gwastadoedd, a'r lle y caffech eich lleidio yn y twll cleilyd hwn neu acw. Ni welsoch y *stampedes* yn mhlith yr anifeiliaid, a hyny o waeth cymmeriad yn mysg y bobl ; ond chwi a welsoch brydferthwch a gogoniant Seion, er eich annogaeth i'ch parotoi i gyfarfod cystuddiau, cwynion a siomedigaethau y bywyd marwol hwn, a'u gorchfygu hwynt, a chael eich gwneyd yn barod i fwynhau gogoniant yr Arglwydd megys ag ei dadguddiwyd i chwi. Rhoddwyd hyny i chwi er eich annogaeth.

COFIWCH HYN YNA.

Chwi a gofiwch fy nghynghor i'r rhai hyny sydd a chanddynt foddion ; y mae arnom eisiau iddynt roddi codiad i'r Drysorfa Ymfudol Barhaus. Dygwch i mewn eich degymau a'ch offrymau, a ni a gynnorthwywn lawer iawn yn ychwaneg i'r lle hwn yn yr amser dyfodol, nag a wnaethom y flwyddyn hon. Yr ydym yn ewyllysio dyblu ein diwydrwydd, a mwyhau torf yr ymfudwyr yn driphlyg trwy y Drysorfa hon.

Ewyllysiwyf ddangos i chwi ychydig o philosophyddiaeth y natur ddynol yn ei sefyllfa syrthiedig a diraddiol ; gellwch ei ystyried yn yr efengyl neu allan o honi ; yn ngoleuni yr Ysbryd Glân, neu hebddo, fel y byddo foddhäol genych. Phi-

losophyddiaeth dynolryw, yn eu galwedigaethau dyddiol, a ellwch oll ei wybod i chwi eich hunain, trwy eich sylwadau a'ch un ymarferiad eich hunain. Ewyllysiwyf grybwyll y gyfran o hono a ddaeth o dan fy sylw i. Gallwn grybwyll enwau, eithr boddlonaf fy hun gydag enwi amgylchiadau.

Ni a bigwn i fyny, dyweder 200 o bersonau yn Lloegr, a chludwn hwy tros y dwfr a thros y gwastedoedd, gan eu dodi i lawr yn y dyffryn hwn. Dechreuant ymsefydlu, ac mewn ychydig amser gwnant eu hunain yn gysurus, Gallant yn fuan gael digon o'r fath oreu o daliad am eu llafur, megys bara, (ffon bywyd) ymenyn, caws a llysieufwyd. Pan gaffo dyn y pethau hyn, heb y coegfelus ddantcithion y mae yn gwneyd yn dda.

Tybier ein bod yn pigo i fyny gwmni o'r Saint tlodion hyn yn Lloegr, y rhai sydd a'u gwynebau yn welw, a'r rhai nas gallant ond prin droedio eu ffordd trwy yr heolydd o eisieu ffon bywyd ; gellwch eu gweled wedi eu crymu i lawr o wir wendid, gyda eu breichiau ar draws eu cylla, yn myned at ac oddiwrth eu gwaith; nas gall y rhan amlaf o honynt gael tamaid o gig ychwaneg nag unwaith yn y mis: ac ar gyfartalwch heb ond oddeutu un llonaid llwy fwrdd o flawd y dydd, i bob person mewn teulu. heb ymenyn na chaws, er gweithio 16 o oriau allan o'r 24 ; a phan elont at eu gwaith neu y dychwelont oddiwrtho, y maent mewn angen ffon i bwyso arni. Ni a ddygwn 200 o honynt ym, ac yn lle eu bod yn rhwymedig i weithio am ddwy neu dair ceiniog y dydd, gallant gael dolar neu ddolar a hanner y dydd. Gyda chyflog un dydd gallant brynu digon o flawd a chig a llysieu-fwyd i barhau wythnos i deulu o nifer gyffredin.

* * * * * * * *

Yn awr, mae arnom eisieu i'r goludog droi i mewn eu moddion, fel y gallo'r tlodion, y tlodion *gonest*, gael eu gwaredu. Dichon i rai o honoch ymholi a ydym yn ewyllysio anfon y moddion i Loegr yn awr? Ydym! y mae arnom eisieu y moddion yn awr ; yr hyn a ellir ei ddefnyddio y tymmor nesaf. Y mae arnom ni eisiau rhoddi codiad pwysfawr i ymfudiad y tlodion, y tymmor nesaf. Nyni a ddygasom allan nifer go fawr y tymmor hwn, eithr prin y maent yn ddechreuad, i'r hyn yr ewyllysiem eu bod i'w dwyn allan y tymmor nesaf.

Dyledswydd gyntaf y rhai hyny a gawsant eu dwyn allan

gan y Drysorfa Ymfudol Barhaus, ydyw talu yn ol yr hyn a dderbyniasant o honi, ar y cyfleusdra cyntaf, fel y gallo ereill dderbyn yr unrhyw gymmwynas ag a gawsant hwy. Ewyllysio yr ydym, yn y lle blaenaf, i chwi gael rhywbeth i'w fwyta, i'w yfed. ac i'w wisgo; eithr pan y byddoch mewn unrhyw ffordd yn gysurus, ewyllysiwn i chwi dalu y ddyled yna y peth nesaf a wneloch, ac adlenwi y Drysorfa.

Y mae hi wedi ei hadeiladu ar egwyddor, os ei dygir allan yn briodol, a'r dyledion eu had-dalu yn fanwl, y bydd iddi gynnyddu mewn cyfoeth. Buasai y 5,000 doleri a anfonwyd i'r tlodion bedair blynedd yn ol, pe buasai pob dyn wedi bod mewn parodrwydd i dalu i mewn yr hyn a dderbyniodd, wedi eu cynnyddu i 20,000, o ddoleri.

Nyni ydym y rhag-fasgnachyddion mwyaf yn y byd. Mae genym ar law y rhagfasgnach fwyaf a ellir ei chael ar yr holl ddaear. Ni wadais i erioed fy mod yn rhagfasgnachydd. Ni wadais i erioed fy mod yn gybydd, neu yn teimlo awydd am oludoedd; ond rhai dynion a erlyniant bum mil o filltiroedd ar ol chwe' cheiniog, pryd na byddai i mi droi o'm hamgylch am dano, ac etto yr ydym bregethwyr yr unrhyw efengyl, a brodyr yn yr unrhyw deyrnas Duw. Dichon i chwi ystyried fod hyn ychydig yn gryf; ond y rhagfasgnach yr wyf fi ar ei hol, ydyw i gyfnewid y byd yma, yr hwn yn ei gyflwr presennol sy'n myned heibio, am fyd sydd yn dragywyddol ac yn anghyfnewidiol, am fyd wedi ei ogoneddu a'i gyflenwi gyda goludoedd tragywyddol, ac am fyd a wnaed yn etifeddiaeth i Dduwiau tragywyddoldeb.

Mae y cynllun am wneyd i bob peth blygu i ddadguddiadau Duw; gwrthrych ein hoffeiriadaeth ydyw dwyn i ymofyniad bob peth da, a gwneyd iddo gyd-ymddwyn er cyflawniad y prif bwynt sy genym mewn golwg; a phan y bydd i ni fyned trwodd, ni a gawn fedi o wobr y cyflawnion, a chael yr oll a all ein calonau ddysgwyl neu ddymuno. Gosod cynlluniadau er cyrhaeddyd hyn, sy lawn mor anghenrheidiol ag ydyw i fasgnachydd osod cynlluniadau at gaffael golud daearol, trwy brynu a gwerthu masgnach. I ni y mae gosod cynlluniadau at sicrhau i ni ein hunain fywydau tragywyddol, yr hyn sy lawn mor anghenrheidiol ag ydyw i'r cybydd osod cynlluniadau

at bentyru swm mawr o aur ar y ddaear; ac y mae genym i ymrwymo ynddo wrth reol a threfn.

Dywedyd yr wyf wrth y tlodion, TALWCH EICH DYLEDION I'R DRYSORFA YMFUDOL BARHAUS; ac wrth y rhai goludog, CYNNORTHWYWCH Y TLODION; a bydd i hyn ddwyn cyfoeth a nerth gan bob un, yn gyfunol â'i allu, ei alwad, a'i foddion, trwy gynnorthwyo yn mhob pwynt a lle yn y rhagfasgnach fawr hon am deyrnasoedd, gorseddau, tywysogaethau, a galluoedd. Dywedir fod undeb yn nerth, a hyny sy ddigon; os cawn hwnw, ni a gawn allu. Hwn yw y cynllun i ni weithio wrtho, ac ewyllysio yr wyf i'r brodyr sibrwd hyn oddiamgylch yn mysg eu cymmydogion pan yr elont allan o'r Tabernacle hwn, a dywedyd, pa beth a allwn ni ei roddi i'r Drysorfa Ymfudol Barhaus? A allwn ni roddi unrhyw beth y tymmor hwn? Ni bydd i ni wrthod cymhorth gan y chwiorydd. A ydych yn gofyn pa mor fychan y swm a gymmerwn? Nyni a gymmerwn o bin fach hyd i frwynyn gwely; ond byddwch chwi sicr, pan y dygoch bin, nad oes genych lawer o bethau eraill yn eich cistiau a fyddent ddefnyddiol, yn ychwaneg nag y sydd arnoch yn bresennol eu hangen; canys os pin a ddygwch o dan y fath amgylchiadau, nis gellwch dderbyn y fendith, na'r wobr sy gan ddoch hawl iddo. Os y dillad a wisgwch bob dydd yw yr oll sy genych, ac arnoch anghen benthyca gwddflen i fyned allan ynddi, ac heb genych ond pin i anrhegu, dygwch hono, a chwi a dderbyniwch fendith.

Yr ydym yn meddwl nad yw yn anghenrheidiol rhoddi i chwi adroddiad y Drysorfa Ymfudol Barhaus yn y Gymmanfa hon. Y mae yn gwneyd yn dda; eithr y mae arnom eisieu iddi wneyd llawer iawn yn well. Mae arnom eisieu chwyddo y gweithrediad, a dwyn tlodion oddiwrth y cenedloedd wrth yr ugeiniau o filoedd yn lle o gannoedd. Cynnwys hyn a ewyllysiwyf ei osod ger bron y Gymmanfa ar y pwnc hwn.

Cyn terfynir y Gymmanfa nyni a gawn alw am gryn nifer o henuriaid. Dysgwyliwyd y galwasid ein cenadon yn Nghymmanfa Awst y flwyddyn hon; ond nyni a alwn nifer go fawr y Gymmanfa bresennol. Nid oes anghen i chwi ymofyn i ba le y mae arnom eisieu i chwi fyned, oblegid y dywedir hyny wrthych pan y byddoch barod.

Parotowch eich meddwl a'ch amgylchiadau erbyn yr amser hwnw; canys ni a ewyllysiwn anfon yr efengyl i Israel.

Bydded i'r Arglwydd eich bendithio. Amen.

Y Llywydd H. C. Kimball, a nododd y teimlai ef yn ddiolchgar am i ni gael byw i weled y dydd a fwynhawn yn awr. Bendithiwyd ni uwchlaw holl drigolion y ddaear; yr oll sydd anghen arnom, yw gwrteithio y ddaear, ac os gwnawn *fyw ein erefydd*, a bod yn ddarostyngedig i lywodraeth Duw, newidir yr elfenau er ein daioni. Pe gwnelai yr holl Saint gystadl ag y maent yn gwybod, byddai i'r Ysbryd Glân orphwys ar henuriaid Israel mewn gallu dengwaith mwy; ac ni chymmerai ond ychydig flynyddoedd hyd oni ddelai "y diwedd." Y mae i mi wasanaethu Duw, a chadw ei orchymynion; ac os na bydd i berson gyflawni ei gyfammodau yn y byd *hwn*, bydd i Dduw *wneyd i'r person hwnw* gyflawni ei gyfammod yn y *nesaf*.. Pan gyrhaeddodd y cyn weithwyr i'r dyffryn hwn ni furmurasant, ac ni furmurasant chwaith pan ladratawyd hanner eu ceffylau gan yr Indiaid, gerllaw y *South Pass*. Llon genyf y bu i chwi y fraint o gael profiad gystadl ag y cawsom ninnau. Fy ewyllys ydyw byw yma, hyd nes y cymiatäo yr Arglwydd i mi ddychwelyd i *Jackson County;* eithr nis gellwch chwi fyned yno, oddigerth y deuwch fel un gwr, a gwneyd fel y dywedir wrthych. Dywedyd yr wyf yn ëofn, ger bron Duw ac angelion, fod genyf fwy cariad tuag at y Brawd Brigham, a llawer ereill o ddynion da, nag a feddiannwyf at unrhyw fenyw ar y ddaear. Aethym gydag ef heb na chôd nag ysgrepan, ac aethym er yn newynog, yn glaf, troednoeth, ac yn amddifad o gysuron bywyd, i bregethu efengyl yr iechydwriaeth, i genedloedd y ddaear. Foneddigion, bydd i chwi gael myned trwy yr unrhyw, neu ynte nis gellwch eistedd i lawr a gwerthfawrogi yr hyn ag yr aethom ni a'r hynaf Saint trwyddo.

Mae gan bob un o honoch i gynnorthwyo y Drysorfa Ymfudol Barhaus gyda'ch cynnaliaeth, yr hon sydd un o'r bendithion mwyaf i'r tlodion, a sefydlodd yr Arglwydd erioed.

Gwedi penodi nifer o genadon i'w hanfon i amrywiol fannau, aeth y Llywydd H. C. Kimball, yn mlaen a chrybwyllodd: yr wyf yn awr oddeutu cyfiwyno i chwi awdurdodau yr Eglwys, i weled a wnewch chwi eu cynnal yn eu swyddi ai peidio; ac nid ydym yn ewyllysio i chwi eu pleidio, oddigerth y teim-

lwch i'w cynnal hwy. Dyma y Llywydd Brigham Young, myfi a'i cyflwynaf ger eich bron megys ein Llywydd, Gweledydd a Phrophwyd, yr hwn sydd yn sefyll wrth ben yr oruchwyliaeth hon, ac i'r hwn y mae yn ddyledswydd arnom roddi ymwrandawiad, gan aros wrth ei gynghor yn mhobpeth megys Hais Duw tuag atom ni; ac nid chwarae gyda'i eiriau a'i deimladau. Buom ni oll yn arferol a chael ein ffordd ein hunain, pa un bynag ai cam ai uniawn; eithr yn awr y mae genym ni ein llywodraethu gan gynghor Duw, a gadael ein ffordd ein hunain; a hyn ydyw y rhyddid perffeithiaf, am nas gellir cyrhaeddyd rhyddid ond trwy ufudd-dod i gyfreithiau Duw. Gan hyny na phleidleiswch trosto ef, na thros neb o'r dynion hyn, oddigerth y gellwch ei gynnal ef a hwynt, trwy aros wrth ei gynghor.

*(I'w barhau.)*

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

DYDD SADWRN, IONAWR 28, 1854.

Y Gymdeithas Ymfudol Barhaus.—Cynlluniwyd, corffolwyd, a llywodraethir y Gymdeithas ddaionus hon, gan gyfarwyddiadau yr Ysbryd Glân i'r Offeiriadaeth Santaidd yn Seion; —ei llwyddiant anhygoel hyd yn hyn, er yn ei babandod, ac o dan lawer o anfanteision, a brofa ei bod yn gyfrwng yn llaw y Duw cadarn i gasglu ei blant gwasgaredig. gyda chyflymdra annysgwyliadwy, gan hyd y nod ei sefydlwyr anturus; a dyma sail gadarn i holl gwynfanus a gorthrymedig blant Seion trwy y byd i ddyrchafu eu penau, a sychu eu dagrau hiraethus, ac i lawenhau yn y gobaith o gael eu cludo ganddi i wlad o ryddid, i wlad iachus, i wlad ffrwythlon, ac i wlad a gynnyrcha iddynt yr oll a ddymuna eu calonau, ac i'w heppil ar eu hol, yn dymmorol ac yn ysbrydol. Eisoes y mae golygon treiddgar a ffyddiog y Saint yn canfod, er o hirbell, etto yn ei bryd, eu gwaredigaeth yn sicr trwy y Gymdeithas hon. Hon yw

'seren foreu" y ffyddiog; ei gyflwr anghenog,—lliosogrwydd ei ymddibyniaeth a'i ofal, ynghyd a'r anobaith o bob cwr, a'i gorfoda i lanhau ei yspienddrych yn fynych, ac i syllu drwy y niwl ar y Seren ddysclaer hon gyda gorfoledd. Cerbyd iachawdwriaeth, y priodol enwir hon, yn ymweled mewn trugaredd â thrigfanau yr anghenog, ac yn cludo ei miloedd i gartref cysurus. Hysbysir ni fod y Gymdeithas hon yn cludo amryw gannoedd o Frydain; yn mhlith parthau ereill, danfonir deugain o Gymru eleni; ac nid ydym yn meddwl fod nyn ond braidd megys ei dechreuad. Mae gallu y Gymdeithas hon yn gynnyddol o hyd, trwy fod y rhai a ânt yno arni yn talu yn ol; fel yn yr ail flwyddyn wed'yn y bydd ereill yn myned ar yr un arian, heblaw ei chynnyddiad trwy gyfraniadau parhaus yr eglwys yn mhob cwr o'r byd. Mae y Saint Cymreig yn deilwng o ganmoliaeth am eu haelionus gyfraniadau iddi y llynedd, ac hyderwn yn ffyddiog y profa chwyddiad eu cyfraniadau yn y tymmor hwn, eu bod yn eu hiawn brisio, ac yn darparu i ymfudo i Seion drwyddi. Mae sêl a phenderfyniad ei swyddwyr yn Seion, fel y deallir wrth hanes y Gymmanfa Gyffredinol ddiweddaf yno, yn deilwng o efelychiad pob Sant trwy yr eglwys, a phob dyngarwr trwy y byd; ymegnïwn, hynaws Saint, hyd y gallwn gyda'r Gymdeithas hon.

Mae y Saint Cymreig yn Seion, yn deffroi i'r gwaith canmoladwy o anfon am eu perthynasau a'u cyfeillion o Gymru i ddyfod ar eu hol, yr hyn a brofa welliant eu cyflyrau eu hunain drwy yr ymfudiaeth, ynghyd a'u hawydd am i'w caredigion fwynhau yr unrhyw freintiau yn Seion. Mae y mwyafrif o'r Cymry a aethant yno y blynyddoedd cyntaf, a gallai yr oll gyda diwydrwydd fod, yn feddiannol ar dai a thiroedd, ŷd ac anifeiliaid, a moddion, fel y gallant anfon am eu perthynasau megys ag y gwnaeth ereill eisoes; coffhaer hwynt yn fynych o hyn drwy lythyrau; ac ysgrifenwch yn daer a mynych, ïe, na pheidiwch hyd oni lwyddwch. Yn lle fod un o'r Saint yma yn digaloni, o herwydd fod ereill yn cael anfon am danynt o'u blaen hwy; dylent yn hytrach, lawenhau wrth ganfod y rhai hyny a ânt yn talu yn ol i'r Gymdeithas, ac felly yn nesâu eu hymwared hwythau; ac ymdrecher o hyny taerach gyda eich ffryndiau sydd yno.

Nid oes eisieu ond iawn ddeall rheoleiddiad y gymdeithas, er

canfod y rhesymoldeb o ymfudo yn gyntaf y rhai a anfonir am danynt o'r Dyffryn. Gan Lywydd y Gymdeithas y mae yr hawl i benodi pwy a gaiff ymfudo, a chaniatâ ef i'r gweddill o'r arian a gesglir yma, i ymfudo y rhai a ystyrir deilyngaf o'r fraint. Hyderwn y dewisa y Llywyddion mewn doethineb, pwy sydd deilwng, ac na fydd un ystyriaeth ond gwir deilyngdod yn ymfudo neb. Mae rhai a feddant gyfran o'r arian, yn ddynion defnyddiol i adeiladu gwlad newydd fel yw y dyffryn; etto, na aberther teilyngdod crefyddol er mwyn hyn. Gan mai *cyfraniadau* ewyllysgar yw eiddo yr oll i'r Drysorfa, afresymol a fyddai unrhyw honiadau o'r herwydd. Lleshâd yr oll, serch bod ar gost hunan-ymadawiad rhai, yw prif arwyddair Mormoniaeth yn mhob peth.

Mae genym air neu ddau o annogaeth i y rhai a ymfudant gyntaf; a hyny yw, chwi waredigion Seion, nac angofiwch eich teimladau eich hunain, tra yr oeddech yn nghaethiwed Babilon; nac anghofiwch ddyfuder y ffos y cloddiwyd chwi o honi; yr ystyriaeth o'ch hiraeth am fyned eich hunain, a'ch coffhäo o'r lluoedd brodyr a'r chwiorydd ag ydynt ar ol, ac mor awyddus am ymfudo ag oeddech ch eithau. Yr ydych yn myned i wlad lle y gallwch eu cynnorthwyo drwy y Gymdeithas hon. Megys y dymunech i ereill wneuthur i chwi felly gwnewch i'r rhai ni allant helpu eu hunain.

Mae cyfle rhagorol i'r neb a ddymuno i ereill gredu ei fod yn teimlo drostynt, i *brofi* hyny drwy ymrwymo i'r Gymdeithas y tala yn ol ei gludiad yn llawn pan gyrhaedda y Dyffryn, serch ei fod wedi talu cyfran o hono, neu yr oll yn flaenorol Nid yw hyn ond peth bach iawn i'w wneyd mewn gwlad fel yw Seion. Ni fydd hyn yn oedi eich ymfudiad un dydd. Deallwn fod y Saint yn Lloegr braidd oll, y rhai a ânt gyda y cwmpeini £13, a'r rhai £10, yn ymrwymo i gyfranu y cyfan i'r Gymdeithas ar ol cyrhaedd drwodd. Pe gwnelai y Cymry oll felly, gellid dysgwyl i'r un nifer ddwywaith ymfudo, drwyddynt hwy yn unig, yn mhen dwy flynedd. Ychwaneger at hyn ddychweliad cludiad y rhai blaenorol a'r cyfraniadau parhaus, a pha deulu mor lliosog neu dlawd, ar na lawenychai yn y gobaith a lewyrcha arnoch yn y meddylddrych hwn! Yn mlaen yr elom, ynte, â'n holl egni i lanw coffrau y

Gymdeithas Ymfudol, a buan y delo y dydd yn yr hwn y dygir yr olaf deulu o wasgaredigion Seion adref yn ei chôl.

---

## NEWYDDION EGLWYSIG CARTREFOL.

Cyn. Ddwyr. Morganwg.—Dywenydd genym hysbysu fod y Gynnadledd hon ar ei chynnydd. Fod bedyddiadau yn fwy cyffredinol, yn enwedig yn y cwr deheuol o honi. Yn nosparth Caerdyf yn enwedig, ystyrir fod rhyw beth anarferol o le, os na fydd amryw fedyddiadau bob wythnos. Mae eu Neuadd yn rhy fach o'r hanner i gynnwys eu cynnulleidfaoedd ar y suliau, ac argoelion da mewn amryw gangenau ereill. Gwelir ymegniad adnewyddol yn gyffredinol i fyw yn ffyddlon; a'r canlyniad rhesymol yw fod Duw yn tywallt ei Ysbryd Glân ar led yn nghalonau y cyfryw rai, yn ei amrywiol ddoniau, yn ol ei addewid. Mae cyrddau blasus, a sêl a chariad yn cynnyddu yn gyferbyniol.

Mynwy.—Newyddion cysurlawn a glywir oddiyma hefyd, gan y Llywydd Daniels, yr hwn sydd newydd ddychwelyd o ymweliad trwyadl â'r Gynnadledd. Mae degau wedi eu bedyddio yn amser. ei ymweliad ef â hwy; a gwell nâ hyny, mae undeb yn parhau, a chariad yn cynnyddu yn mhlith y Saint anwyl, yr hyn yw prif faen tynfa lliosogiad bob amser. Helaethrwydd o'r Ysbryd dwyfol ag sydd yn sugn dynu serch ei garwyr i ufyddhau i'r gwirionedd, a nertho y Saint oll i i gynnorthwyo ei ddylanwadau, trwy eu hesiamplau teilwng o efelychiad pawb.

Gor. Morganwg.—Mae y Llywydd Robert Evans yn ymgalonogi yn barhaus mewn gobeithion, ebe fe, ac yn caru praidd ei ofal fwy fwy, po fwyaf yr ufyddhant i'w ddysgeidaeth, a chanddo argoelion fod y Saint yn ei garu yntau fwy fwy yn ol. Nid yw hyn hynod, ond treied a ammheuo, a chaiff brofion digonol fod y Saint yn caru eu Llywydd, yn gyferbyniol i'w gariad ymddangosiadol ef atynt hwy, fel yr ydym oll yn caru Duw, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni. Y mae cariad tu hwnt i gariad gwragedd, na chariad at wlad na pherthynasau, sef cariad at Seion a'i chyfreithiau; y cariad

hwn, ebe y Llywydd, sydd wedi siglo ei Gynnadledd hyd ei seiliau, ac achosi i ugeiniau ffoi yno eleni, o'i flaen. Cafwyd Cymmanfa ragorol yn Abertawe Sul cyn yr olaf, a gwnaed yr holl fusnes yno heb gymmaint ag un croes lais na chroes feddwl, ar a welsom argoel.

Llanelli.—Cymmaliwyd Cymmanfa yno y Sul diweddaf, lle y cawsom y pleser o wrando y Llywydd D. E. Jones, yn cynrychioli yr oll mewn sefyllfa dda. ac mewn undeb a chydweithrediad cyffredinol. A barnu wrth wynebau siriol y dorf liosog yn gwrando ar gynghorion buddiol y Llywydd Daniel Spencer, gellid barnu eu bod oll yn Saeson; eithr effaith sylwadau dyddorol yr Henuriad W. S. Phillips, ar ei ymadawiad â hwynt, a brofai eu bod oll yn Gymry hefyd, ac yn hoffi egwyddorion yr efengyl. Os sigla ysbryd yr ymfudiad y Gynnadledd gyfagos, gellid meddwl fod y Gynnadledd hon bron a myned yn llaprau, trwy ymfudo yn grynswth. Credem fod rhai yn aros tymmor etto, wrth eu dagrau hiraethog pan yn sôn am Seion, o herwydd eu hanallu i fyned yno gyda'r ugeiniau a gychwynant eleni.

Gogledd.—Ysgrifena y Bugail J. Parry fod pob peth yn llwyddianus, er yn arafaidd wrth yr hyn a ddymunent ei fod. Rhai bedyddiadau mewn manau yn ddiweddar, ac addaw ychwaneg yn fuan. Pleser genym glywed y Llywyddion a'r Saint yn prophwydo mor eofn ac unfrydol, y bod llwyddiant mawr ar achos y Gwaredwr wrth y drysau—eu bod yn dysgwyl am dano yn gyffredinol a diattreg. Yr Arglwydd a roddo iddynt allu yn gystadl â dymuniad i gyflawni y brophwydoliaeth hon, drwy eu diwydrwydd yn tystiolaethu, a'u dylanwad ymfudcheddol ar y gonest galon.

Ysgrifena yr Henuriad John Davies hefyd, fod ansawdd y Cynnadleddau gogleddol ereill yn graddol wellau, bod yr Offeiriadaeth yn cyd-ymdrechu, a'r Saint yn cyd lawenhau yn mreintiau eglwys y Duw byw.

---

## NEWYDDION EGLWYSIG TRAMOR.

Yn Geneva, y 25 o Ragfyr diweddaf, cynnaliwyd y Gymmanfa gyntaf gan y Saint yn Switzerland. Dangosodd y rhan *gyfyddol* o'r bobl gryn wrthwynebiad; anfonodd pregethwr

ddeiseb, wedi ei llaw-nodi gan oddeutu deg a thrugain o'i bobl at yr ynadon, yn deisyf rhwystro taeniad Mormoniaeth yn y taleithiau; ond y rhai hyny a ddywedasant, "Pe byddai y Mormoniaid yn euog o ryw droseddiadau, y mae eu gelynion yn ddigon gwyliadwrus i'w dadguddio, ac i'w llusgo ger bron yr heddgeidwaid lleol." Ac yn absenoldeb cyhuddiad o gamymddygiad i'w herbyn, dyryswyd amcanion y Parchedig erlidiwr a'i blaid.

DENMARK, sydd yn wlad lled helaeth ei rhyddid crefyddol, fel ei gelwir; a llwyddiant sy'n dilyn ymdrechiadau y Saint o'i mewn. Ceir yno rai dynion ffol yn casglu at ddrysau y lleoedd addoli, gan gadw sŵn; eithr effaith hyny ydyw casglu pobl i ymholi pa beth yw yr achos o'r cythrwfl, i wybod am y Saint a'u lle addoli, i wrandaw arnynt yn pregethu, ac i gymeryd en bedyddio.

Yn NORWAY, nid oes namyn dirwy a charchar am ddarllen y Bibl, am ddysgu unrhyw grefydd wahanol oddiwrth eiddo y wlad, ac am ond enwi y gair "Mormoniaeth."

Yn SWEDEN, mae'r gwaith yn llwyddo er gwaethaf pob gwrthwynebiad o eiddo awdurdodau y wlad. Gwedi symud y cennadon, a'n hanfon i Copenhagen, llwyddiant sy'n dilyn hyfforddiadau y Saint. Rhwystrir i'r Henuriaid deithio ar hyd y wlad, a chyfyngir rhai o honynt yn y dref o dan lygaid chwilgar yr heddgeidwaid; a phe eu dalid yn dysgu y bobl, dirwyid hwy i 25 dolar, am bob tro yr addysgent, neu ynte, bwrid hwy i garchar chwe' diwrnod ar ugain ar fara a dwfr, a gwnaed hyn â rhai; ac ystyrir wyth niwrnod ar ugain felly, yn gyfartal i farwolaeth. Ymfudodd 678 o'r Saint o *Sweden*, y tymmor hwn. Yn yr Idal, er manwl wyliadwriaeth yr heddgeidwaid, pregethir yr Efengyl dragwyddol ar greigiau yr *Alps* i'r Waldensiaid, y rhai a ymddangosant yn gyfran o dy Israel; ac aeth nifer o honynt tua Seion.

YNYSOEDD SANDWICH—Mae yma lawer o Saint, a llawer yn cael eu bedyddio; yn mhlith y rhai a fedyddiwyd ar un ynys, y mae Ynad, ac un Penaeth: a bedyddiodd yr ynad bedwar ar bymtheg ar ugain, yn fuan wedi ei ordeinio yn Henuriad; eithr mewn rhai lleoedd yno, erlidir y Saint gan offeiriaid crefydd y wlad, o herwydd iachau lliaws o gleifion trwy arddodiad dwylaw Henuriaid Crefydd Crist. Cynnyddodd nifer y Saint, yn yr

ynysoedd hyn, i ychwanegiad o agos i fil o aelodau, rhwng Ebrill 6, a Gorphenaf 26. Lladdwyd tros ddwy fil o bobl gan y frech wen; ond y Saint a iacheid gan Dduw trwy weddiau. Dirwywyd ynad heddwch i 12 dolar, o herwydd iddo gefnogi rhai i guro Henuriaid tra y gweinyddent i ddyn clâf. Mae Llyfr Mormon yn barod i'r wasg yn iaith *Hawaiian;* ac y mae yno argraffwyr genedigol yn perthyn i'r eglwys. Gwrandawer y sibrwd o'r wlad a fynom, y mae "swn tyrfa yn dyfod."

---

## DEGYMIAD.

(Allan o'r Star, Rhagfyr 24. 1853.

Mae cyfraith y Degymiad yn rhwymedig ar yr holl Saint, a hyn sydd wybodus ŵddynt yn gyffredin. Sylwyd ar y testun hwn ei fod yn cyfansoddi un o'r dyledswyddau pwysicaf a berthyn i Saint y Dyddiau Diweddaf trwy yr holl fyd; yn Nadguddiadau Duw i Joseph Smith, yn Epistolau y Brif Lywyddiaeth at ŷ Saint gwasgaredig ar led, ac yn hyfforddiadau yr Henuriaid i'r bobl.

Yr amser addas i dalu eu Degymiad gan y rhai hyny a gofleidiant yr efengyl, ac a hawliant ei bendithion, yw pan y deuant gyntaf i'r Eglwys; a phan na chydsynir â'r ddyledswydd hon, nid yw cyfraith Duw yn cael ei hanhydeddu yn ddyladwy. Mae'r Brif Lywyddiaeth, yn eu chweched Epistol Cyffredinol, yn priodoli yr anhawsdra a gawsant wrth ddwyn yn mlaen leshâd cyhoeddus yr Eglwys, i esgeulusdod y brodyr, gartref ac oddicartref, i dalu eu Degymiad.

Yr ydym yn dymuno dwyn y testun hwn, ger bron y Saint ar hyn o bryd, ac yn neillduol y rhai na chyflawnasant hyd yma eu dyledswydd mewn perthynas i hyn. Mae yna lawer a chanddynt eiddo, ac yn aros, os ydynt yn teimlo y lles o ddwyn yn mlaen waith yr Arglwydd, y gelwir yn uchel arnynt i gyflawni y ddyledsydd hon gyda'u holl galonau. Yr ydym yn dymuno derbyn ychydig filoedd o bunnau yn Ddegwm, oddiwrth ein brodyr goludog yn uniongyrchol, fel y cynnorthwyom yr ymfudiad gydag ef y gauaf hwn. Gwnaeth y Brif Lywyddiaeth yn Seion drefniadau i ni ddefnyddio y Degymiad a dderbyniasom y flwyddyn hon oddiwrth y brodyr, at chwyddo yr ymfudiad, fel y gellir cyfeirio llafur y rhai hyny a gynnorthwyir ganddo i adeiladu y Deml, a'r gweithfeydd cyhoeddus ereill, wedi eu mynediad i'r Dyffryn. Llafur dynion daionus a ffyddlon sydd yn ofynol at adeiladu i fyny Seion a'i llesoldeb cyhoeddus, a thrwy y callineb hwn gellir troi y Degymiad a delir yma i lafur trwy anfon adref y Saint ffyddlon, y rhai sydd yn aros yn

awyddus am gael gweithio tros lwyddiant Seion. Degymiad eiddo y rhai hyny y sydd ganddynt foddion digonol at ymfudo ar ol ei dalu, yw yr hyn y gelwir genym am dano, yn annibynol o gyfraniadau a wnaed at Offrwm Trysorfa y Deml; ac yr ydym yn dymuno am i'r holl fath frodyr, a'r Llywyddion, dyledswydd y rhai yw cynghori a dwyn y mesurau hyn yn mlaen, adrodd i ni mor fuan ag y byddo modd ynghylch yr hyn a allwn ni ymddibynu ar ei dderbyn, cyn neu yn fuan wedi dibenu y tymmor ymfudol, fel y byddo i ni estyn ein gweithrediadau yn gyferbyniol.

Dichon na pharheir y fraint o gasglu y Saint gydag arian Degymiad, pan y delo rhoddiad arian yn ofynol at orphen y gweithfeydd &c., yr hyn yn fuan a fydd yr achos; a daw defnyddiau ereill yn anghenrheidiol yn lle llafur; gan hyny yr ydym yn ymddiried y caiff pob ymdrech clodadwy ei wneyd y gauaf hwn gan y brodyr at dalu Degymiad eu heiddo yn llawn, fel y byddo iddynt deimlo eu hunain wedi cael gollyngdod, mewn perthynas i hyn, ger bron Duw a cher bron eu brodyr.

## AMRYWIAETHAU, &c.

Llongddrylliad.—Hwyliodd y llong *Sir John Tayleur*, 2200, tunelli, o Liverpool, gyda 670, o bobl ar ei bwrdd, rhwng morwyr, gan feddwl cloddio am *aur*, yn *Australia:* ond dydd Llun diweddaf cododd gryn wynt, a'r llong a aeth ar greigiau ger *Lamb's Island*, arfordir Dublin Iwerddon, a drylliwyd hi yno. Tybir i 420 foddi, ac achubwyd 250.

Yr "Arweinydd i Seion."—Mae y rhan gyntaf o hono wedi dyfod o'r wasg, cynnifer ag a ddymuna yr ymfudwyr eleni, a drwg genym ddweyd i ni fethu dyfod ag ychwaneg o hono. Wrth y rhai a arosant ar ol, dywedwn, byddwch amyneddgar, a daw allan yn ei bryd i chwi.

Taliadau o Ion. 21 hyd Ion. 28.—Dwyr. Morganwg, £1 15s.

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau, i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street*, *Merthyr-Tydfil.*

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Dammeg y Boneddwr a'i Fab | 53 |
| Cofnodion Cymmanfa Gyffredinol, &c | 55 |
| Golygyddiaeth | 61 |
| Newyddion Eglwysig Cartefol | 64 |
| Newyddion Eglwysig Tramor | 65 |
| Degymiad | 67 |
| Amrywiaethau, &c. | 68 |


MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D JONES, 14 CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

RHIF. 5.] CHWEFROR 4, 1854. [CYF. VII.

## Y DUW A ADDOLIR!—PWY YW?

Y PWYSIGRWYDD o iawn ddeall yr athrawiaeth a gyhoeddir yn y *Millennial Star*, cyf. xv, rhif. 48, a'n cymhell i wneyd y sylwadau canlynol, yn ychwanegol at y llawer a gyhoeddwyd eisoes yn yr UDGORN, o waith O. Pratt, ynghyd â llawer o fanau ereill, ar *wrthddrych* ein addoliad.

Yn ol a ddarllenwn ni, cyd-dystia holl ddadguddiadau yr oruchwyliaeth ddiweddaf hon, a'r oll a ddarllenwn yn ysgrythyrau yr Hen a'r Newydd Destamentau, mai DUW yw yr UNIG wir a theilwng wrthddrych addoliad pob creadur, yn y nefoedd ac ar y ddaear; a chadarnheir hyn yn yr athrawiaeth gyfeiriedig uchod gan Brigham Young. Hyd yn hyn, ynte, nid oes wahaniaeth ynghylch pwy yw gwrthddrych eu haddoliad, rhwng Saint a sectariaid o bob math, mwy nag y sydd rhyngddynt hwythau â'r Pabyddion, y Mahometaniaid, a'r Paganiaid oll ar a welsom. Cyfaddefant oll mai *Duw* a geisiant ei addoli. Eithr ynghylch pwy neu fath yw Duw, ceir llawer o wahanol dybiau, pa rai a ymddangosant yn groes i'w gilydd. Creda y mwyrif o'r Protestaniaid, fel y dywed yr *Athenesian creed*, nad oes i Dduw "gorff, rhanau na nwydau." Eithr haera y Saint y bod Duw, ïe, "Duwiau lawer," ac i bob un o honynt ei "gorff, a rhanau o gorff," a "nwydau" hefyd. O herwydd y grediniaeth hon, cyhuddir y Saint o fod yn addoli person neu bersonau, a'u bod yn diraddio Duw i "fod ar lun dyn llygredig;" gelwir hyn yn "gabledd," er mai dyfyniad ysgrythyrol yw; a

haerir ein bod yn gwadu holl-bresenoldeb, hollwybodaeth, ac hollalluogrwydd Duw, &c. Eithr ymdrechwn brofi mai camgyhuddiadau hollol ddisail yw yr oll o'r uchod. serch y byddwn wrth wneyd hyny, yn profi yn gelwyddog lawer o gymmeriadau a theitlau, a honant gryn anffaeledigrwydd am eu gwirionedd; megys, "Offeiriaid," "Parchedigion," "Golygyddion," ac "Awduron."

Yn y lle cyntaf, haerwn ein bod ni yn credu ac yn addoli un Duw, a dim ond un, a bod hwnw yn hollbresennol. yn hollwybodol, "yr unig wir a'r bywiol Dduw," yr hwn oedd er pob tragywyddoldeb, ac a fydd hyd byth bythoedd, yn ddiddechreu ac yn ddiddiwedd, yn anghyfnewidiol ynddo ei hunan, creawdwr a chynnaliwr pawb a phob peth; y Duw anweledig sydd yn llanw pob man a hyny bob amser. Dyma y fath Dduw a addola y Saint!

Yn y lle nesaf, credwn fod Duwiau lawer, ac Arglwyddi lawer, fel y dywed Paul, a chredwn yr oll o honynt, pe hyd y nod yn ddirif, yn bersonau a sylweddau, fod Iesu Grist yn un o honynt, ac fod yn anhebgorol er bod yn Dduw, gael corff anllygredig, "fel ei gorff gogoneddus ef;" nid yn unig corff ysbrydol, ond hefyd "corff nefol," sef corff o gnawd ac esgyrn, fel y corff hwnw a adgyfododd o'r bedd, a deimlwyd gan ei ddyscyblion, a gerddodd i ben Mynydd yr Olewydd, ac a welwyd yn esgyn i'r nef mewn cwmwl. Credwn mai yr un corff fydd ganddo pan y dychwela, ac y senga yr un traed anfarwol ettó ar ben yr un mynydd, canys dywed Zach. xiv, yr adnabyddir ef wrth y gweliau, neu ôl yr hoelion yn ei draed a'i ddwylaw. Os cyfaddefir Iesu Grist yn Dduw, ac y bod ganddo ef gorff, dyna gyfaddef personoliaeth neu gorffolaeth un Duw, ac heb ymhelaethu am ereill, caniateir y gall ereill feddu cyrff cyffelyb a bod yn Dduwiau, o herwydd y ffaith yna. Gallwn ni nid yn unig gredu personoliaeth *llawer* o Dduwiau, ac addoli "Yr UNIG wir Dduw;" ond credwn hefyd yr anmhosiblrwydd sydd i'r un o'r personau hyny serch bod yn Dduwiau, fod mewn ychwaneg nag un man ar yr un pryd; na ddichon i ddau o honynt fod yn yr un man ar unwaith, neu ar yr un amser; eithr fod yn rhaid i bob un, bob amser, gael lle i'w berson mewn gwagder; ac etto addolwn Dduw ag y sydd yn llanw pob man a phob amser. Ac i ni nid ymddengys dim yn wrthdar-

awiadol i'w gilydd, yn yr oll a gredwn ar y pen hwn ychwaith; mae yr oll yn ysgrythyrol. Dywedir "Duw, cariad yw;" dywedir hefyd mai "gwirionedd yw Duw;" etto nid dau Dduw. Yn mhellach dywedir mai "goleuni yw Duw," nid y trydydd Duw yw hwna, ond un Duw, a hyny o herwydd y gelwir y cyflawnder o briodoliaethau y Duwdod, megys goleuni, cariad, gwybodaeth, cyfiawnder, &c., yn Dduw. Y Duw hwn a addolwn, am y Duw hwn dealler i ni fod yn cyfeirio, pan yn sôn am "hollbresennol Dduw." Yn yr ystyr hyn, ynte, gellir credu y bod holl gredo y Saint am Dduw yn gysson, tra ereill a gamddeallant yr ysgrythyr "*Unig* wir Dduw," "Myfi wyf wir Dduw, aç nid oes Dduw arall ond myfi," a'r cyffelyb i wadu personoliaeth Duwiau, fel y gellir cyfaddef iddo hollbresennoldeb yr hyn sydd anmhosibl i bersonoliaeth. Ond hawdd y gallwn ni ddirnad y posiblrwydd i'r holl briodoliaethau hyn breswylio mewn amryw bersonau, ac y gwnai y "Duwdod" hyn hwy yn Dduwiau o ran eu personau, o herwydd eu bod yn breswylfa i Dduw; er hyny, nid y personau a addolir, ond y perffeithderau ag y sydd yn eu gwneyd hwy yn Dduwiau. Pe caniateid y posiblrwydd o fod "Duw Dad," yn amddifad o gariad, neu o gyfiawnder, yna ni fyddai yn wrthddrych teilwng i'w addoli; eithr o herwydd ei fod yn berffaith yn mhob peth, yna "ni wna gam â gwr yn ei fatter," ac y mae yn drugarog a graslawn; ac yn "*llawn* gras a gwirionedd." Nid yw fod un person yn meddu y perffeithrwydd hwn, yn rhwystro i arall feddu cyflawnder o'r unrhyw briodoliaethau ynddo yntau, mwy nag y mae fod y naill yn gweled goleuni yr haul yn lleihau y goleuni a wela arall; neu i fod mwynhad y naill ddyn o unrhyw wirionedd yn rhwystr i arall, ïe, ereill lawer i fwynhau yr unrhyw wirionedd. Os gall dau berson daearol ar yr un pryd feddu yr un gwirionedd, goleuni, gwybodaeth, a chariad, a'u gilydd, a'r naill heb wrthweithio i'r llall eu cael; ac os gallant felly oll gynnyddu yn mhob un, paham ar nad all yr holl briodoliaethau hyn, yn y cyflawnder o honynt, breswylio mewn ychwaneg nag mewn un person nefol ar yr un pryd? Os felly, gan mai y cyflawnder hwn yw Duw, dyna "Dduwiau lawer." Megys nad yw gwirionedd yn amryw, o herwydd ei fod mewn amryw demlau, ond yn un gwirionedd, pe preswyliai mewn miliynau o fanau; felly Duw un yw, er ei fod yn mhob

peth, trwy bob peth, a chyn pob peth; ac er mai ynddo ef y mae pob peth yn bodoli. Gelwir y person yn Dduw, nid o herwydd ei sylwedd, ei lun na'i faintioli, ond o herwydd perffeithrwydd y sylwedd hwnw. Y person yw y babell, a *Gwirionedd* yw y Duw a breswylia y babell hono. Yr un mor hawdd ag y o gellir amgyffred y gall gwirionedd fod yn meddiant miliynau o bobl ar yr un pryd, y gellir amgyffred y posiblrwydd i'r cyflawnder o bob gwirionedd breswylio mewn miliynau o bersonau perffaith, ac etto fod ond nn gwirionedd. Gan y dichon gwirionedd fod yn hollbresennol, yna y mae Duw yr hwn sydd wirionedd yn holl bresennol. Gan y dichon un person perffaith wybod pob peth, yna gall arall fod yn hollwybodol, pan yn gwybod yr *un* "pob peth;" ac felly y gall personau dirif wybod yr "un pethau," heb leihau gwybodaeth eu gilydd, ac felly mor bell o fod amryw bersonau yn meddu y cyflawnder o Dduwdod yn gwneyd mwy nag un Duw;—hollol groes yw'r ffaith: canys gan mai un yw gwirionedd, nad oes fwy nag un goleuni, un cariad perffaith, un cyfiawnder. &c., yna nid oes ond un Duw. Am fod y Duw hwn yn preswylio mewn amryw demlau llefara wrthym fel pe bai amryw Dduwiau; gwir hyn gyda golwg ar amrywiaeth ei drigfanau, neu demlau, neu bersonau ag y preswylia ynddynt; eithr ni ddichon fod mewn un ystyr arall. Lle bynag y ceir cyflawnder o'r priodoliathau hyn yn bodoli mewn person, dyna Dduw; ac er fod miliynau o honynt, etto y maent oll yn ogyfuwch mewn gallu a'u gilydd, nid oblegid eu bod rhyngddynt oll yn hollalluog, ond y bod pob un o honynt yn hollalluog. Maent yn ogyfuwch mewn gwybodaeth, nid am eu bod rhyngddynt oll yn gwybod pob peth, ond o herwydd fod *pob un* yn gwybod *pob peth* a wyr y llall a'r oll, a phob peth a ellir ei wybod. Gan hyny etto, meddwn, un Duw ydynt oll, o herwydd mai un yw yr holl briodoliaethau hyn. *(I'w barhau.)*

---

## LLYTHYR AT Y GOLYGYDD.

*Pyle, Ionawr* 26, 1854.

ANWYL FRAWD JONES,—Crefaf eich caniatâd i osod y llinellau canlynol mewn rhyw gongl o'ch UDGORN soniarus, gan obeithio

y bydd yn fendith i'r gonest eu calonau yn mhlith y Bedyddwyr; a'r achos i mi gyfeirio atynt hwy ydyw i mi grefydda gyda hwynt, am yn agos i wyth mlynedd, gan ymdrechu ymdrech deg am y bendithion sydd addawedig yn y Testament Newydd, ond y cyfan yn ofer; ac felly y mae gyda yr oll a adwaen i o honynt.

Wedi i mi broffesu am yr amser crybwylledig, clywais Saint y Dyddian Diweddaf yn pregethu, ac yn addaw y derbyniwn dystiolaeth o'm cymmeradwyaeth gyda Duw, os ufyddhawn i orchymynion Iesu Grist. Gwnaethym felly gyda y dyben o gael prawf ai gwir eu hawddewid; ac yn awr. yr wyf yn diolch i'r Arglwydd am y fraint a gefais.

Bellach, ymdrechaf ddangos i'm hen frodyr a'm chwiorydd, a phawb, y gwahaniaeth sydd rhwng crefydd y Bedyddwyr ag eiddo Saint y Dyddiau Diweddaf.—Pan gyda y Bedyddwyr, yr oeddwn yn *ofni* nad oedd neb o honom yn iawn gredu yn Iesu Grist, fel y dylasem; ond gyda y Saint, yr ydym yn GWYBOD, o herwydd i ni dderbyn yr addewidion yn ol ei air. Pan gyda y Bedyddwyr, yr oeddem yn gofidio rhag ofn ein bod heb edifarhau am ein pechodau, a hyny am nad oedd genym un prawf o'n cymmeradwyaeth ger bron Duw; ond gyda y Saint, gwyddom hynny a gallwn ddywedyd Abba, Dad. Pan gyda y Bedyddwyr, trwmlwythog oeddym yn barhaus, am fod ein pechodau yn aros heb nn gair o gysur gan neb, o'r Gweinidog hyd i'r aelod gwanaf yn y frawdoliaeth; angeu, y bedd, a'r farn a gyhoeddid o hyd, yn ddychryn ac yn arswyd i bawb; ond gyda y Saint, gwyddom fod ein pechodan wedi eu maddeu, a hyny trwy i ni ufyddhau i'r ordinhâd o fedydd er maddeuant, yn cael ei gweinyddu gan was i Dduw, a'r offeiriadaeth santaidd yn ei feddiant. Pan gyda y Bedyddwyr, yr oeddem yn dymuno am yr Ysbryd Glân; ond gyda y Saint, gwyddom ein bod wedi ei dderbyn, yn ei wahanol ddoniau, trwy arddodiad dwylaw Henuriaid Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf. Pan gyda y Bedyddwyr, credem mai y Bibl yw yr Efengyl; ond gyda y Saint, gwyddom nad yw yr "Efengyl mewn gair yn unig, eithr hefyd mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glân, ac mewn sicrwydd mawr." Gyda y Bedyddwyr yr oeddym yn meddwl ac yn gobeithio y bod genym grefydd yn ein meddiant, gan ofni nad oedd genym ddim; ond gyda y Saint,

gwyddom ein bod wedi cael gafael ar drysor y trysorau, ar y perl anmhrisiadwy, ac ar y trysor mewn llestri pridd, yr hwn sydd yn dwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni, yn ein hoes a'n dydd ni. Pan gyda y Bedyddwyr, yr oeddem yn credu mai anfon dynion i'r ysgolion a'r colegau oedd ofynol i'r dyben o gael pregethwyr; ond gyda y Saint, gwyddom nad yw neb i gymmeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, heb ei alw gan Dduw, megys Aaron. Pan gyda y Bedyddwyr, ac yn gweddio am lwyddiant yr Efengyl, dywedem "O Arglwydd gwawrio a wnelo y boreu, pan y byddo i'r angel ehedeg ynghanol y nef, a'r Efengyl dragywyddol ganddo, i Efengylu i'r rhai sydd yn trigo ar y ddaear;" ond gyda y Saint, gwyddom fod yr angel hwnw wedi ehedeg ac efengylu i Joseph Smith, ar Gyfandir America: a gallaf finnau *dystio* y caiff pob dyn wybodaeth o'r pethau uchod iddo ei hun, os bydd iddo wneyd fel y gwnaethym i fy hunan; a gallaf dystio hefyd, y bod dynion yn awr, yn mhlith cenedl y Cymry, ac awdurdod ganddynt o'r uef i weinyddu ordinhadau yr efengyl:—sef pregethwyr Saint y Ddddiau Diweddaf. Yr wyf fi yn un o'r Saint, er ys yn agos i saith mlynedd; ond yn lle teimlo yn flin i mi fyned atynt, blin ydwyf na buaswn yn myned atynt yn gynt, fel y buasai i mi felly gael y fraint, o wneyd mwy tros Dduw a'i Eglwys. Llawer o bethau yn ychwaneg a allwn eu dywedyd, eithr pallai amser i mi fynegi am yr holl fendithion a dderbyniais er pen ddaethym i'r eglwys hon; a dymunaf ar i bawb beidio a churo yr awyr mwy, ond dyfod i'r fan y mae goleuni gwybodaeth i'w gael.

Yr eiddoch &c.,

JOHN BOWEN.

---

## COFNODION CYMMANFA GYFFREDINOL

*Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, a gynnaliwyd yn y Tabernacl, Dinas y Llyn Halen Fawr, gan ddechreu Hydref* 6, 1853, *am* 10 *o'r gloch yn y boreu. Y Llywydd* BRIGHAM YOUNG *yn llywyddu.*

[Parhad o dud. 44.]

PAN alwyd am y pleidlais, cytunwyd yn unfrydol i gynnal y Brif Lywyddiaeth, ynghyd ag holl Gorwmau yr Eglwys; ac

etholwyd John Young, o Ddinas y Llyn Halen Fawr, Enos Curtis o Hobble Creek, Samuel Alger o Ddinas y Llyn Halen Fawr, James Lake o Ogden, William Cazier o Nephi, Elisha H. Groves o Cedar, ac Emer Harris o Provo, oll i fod yn Batriarchiaid yn Eglwys Crist. Darllenwyd enwau pedwar ar bymtheg ar hugain i ffurfio sefydliad ar lanau yr afon Green, a phleidleisiwyd iddynt gyflawni y genadwri hono; a darllenwyd wyth a phedwar ugain o enwau y rhai a neillduwyd i fyned ar amrywiol genadiaethau, o dan gyfarwyddyd yr Henuriad Parley P. Pratt.

Yr Henuriad John Taylor a eglurodd fod Mormoniaeth yn cynnwys pob peth da, yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw. Yr ydym yn dechreu canfod allan ein bod yn ddaearol, o'r ddaear y daethom, mae ein teimladau yn glynu wrthi, ni a ddychwelwn i'r ddaear pan y byddom feirw, a phan y deuwn allan yn yr adgyfodiad, bydd hyny megys bodau anfarwol i breswylio ar ddaear nefol; hi a gaiff ei hadnewyddu, ac felly y caiff y bobl a breswyliant arni. Y mae yn ddymuniad naturiol i ni feddiannu y ddaear, ac am hyn dodwyd miloedd o bersonau yn isel, mewn trefn i ennill meddiant o honi, ond yr Iachawdwr a addawodd mai y rhai addfwyn a'i hetifeddant.

Os nad yw Duw yn anrhegu bendithion ar ddynion, eu dysgwyliadau ydynt ofer; ac oferedd yw yr anrhydedd a gaiff dynion ei gasglu iddynt eu hunain. A oes yna unrhyw berson a all nodi allan i mi yn mha le neu yn mha fan y cyfarfuasant erioed gyda dosparth o bersonau a fedrent draethu egwyddorion cyntaf yr Efengyl, er iddynt eu darllen yn y Beibl? Dim un, hyd nes i'r henuriaid eu mynegi iddynt.

Yr Offeiriadaeth ydyw yr unig reolaeth gyfreithlawn ar y ddaear, a'r holl genedloedd a gânt etto ymddarostwng iddi, oblegid y mae i deyrnas Dduw gael ei hestyn dros yr oll o honi; nid trwy gleddyf, neu dywallt gwaed, eithr gyda doethineb, gwybodaeth, egwyddorion y gwirionedd, y dadguddiadau o'r bydoedd tragywyddol, a gallu yr offeiriadaeth.

Dyma lle mae pen ffynnonell dealltwriaeth, a'r personau a wyddant y modd i hyfforddi cenedlaeth, neu deyrnas er eu lles. Yn awr mae y drws yn agored fel y gallo rhai o'r cenedlaethau gael eu llesoli a'u cyfarwyddo, a phan y cawn fyned trwy y gwaith o anrhegu cymmwynasau i drigolion y ddaear, ni a

gawn fyned i gysgu at ddechreu ar ddyledswyddau eangach o lawer, a chawn arglwyddiaeth fwy pan yr adnewyddir y ddaear.

Llawer o bersonau sydd nad ydynt foddlon gyda'r sefyllfa y maent ynddi, ac yn dymuno cael bod rywbeth yn uwch: gadawer i mi eich hysbysu, y mae offeiriad neu athraw ag y sydd yn mawrhau ei alwad, yn llawer gwell nag apostol nad yw yn ei mawrhau, &c., &c.

Y Llywydd Young, ar ddiwedd y Gymmanfa a lefarodd, yn mhlith addysgiadau ereill, a ganlyn:—

Bwyllysiwyf i Saint y Dyddiau Diweddaf wrandaw ar y cynghor a dderbyniasant o amser i amser, ac yn neillduol ar y cynghor a roddaf yn awr i holl Saint y Dyddiau Diweddaf yn y tŷ hwn, yn nyffrynoedd y mynyddoedd, ac i'r oll ag ydynt yn wasgaredig yn mhlith cenedloedd y ddaear; yr wyf yn gofyn un peth oddiar eich dwylaw, a hyny ydyw, i fyw eich crefydd dydd wrth ddydd.

Y grefydd a broffeswn ydyw crefydd yr Arglwydd Iesu Grist; crefydd o ddadguddiad, gweinidogaeth angylion, a gallu Duw ar y bobl, trwy ordinhadau Duw. Fy nghynghor i'r holl Saint ydyw, I FYW EU CREFYDD. ' Os gwnant, byddant fyw yn wyliadwrus, yn llawn gweddi, ac yn ostyngedig ; a bydd i'w calonau gael eu cyflenwi gyda thosturi y naill un tuag at y llall, a hwy a geisiant wneyd daioni trwy holl ddyddiau eu bywydau; a phan y byddo i ddrwg gael ei gyflwyno iddynt, hwy a ochelant y drwg hwnw, ac a lynant wrth yr hyn sydd yn uniawn gerbron yr Arglwydd; os amgen hwy a ddygant warth arnynt eu hunain, a dianrhydeddant eu crefydd. Hyn ydyw fy nghynghor i'r holl Saint; ac yr wyf yn ewyllysio i chwi ei gludo o'r Gymmanfa hon i'ch cymmydogion, a'i wasgaru ar led trwy holl Eglwysi y Saint, ar wyneb yr holl ddaear. BYDDWCH FYW Y GREFYDD A BROFFESWCH.

Nid wyf yn gweled anghen myned trwy ffurf neillduol, neu ddefod, wrth ddwyn y Gymmanfa hon i derfyniad ; a dywedaf, gohirir y Gymmanfa hon hyd y 10fed dydd yn Ebrill, 1854.

Bendithiwyd gan y Llywydd Young.

THOS. BULLOCK, *Ysgrifenydd y Gymmanfa.*

*Cyf.* ROBYN DDU.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

DYDD SADWRN, CHWEFROR 4, 1854.

Yr Ymfudiad Pressenol.—Calonogodd Iesu Grist ei ddysgyblon, pan yn bruddion oblegid ei fod yn eu gadael, gan ddywedyd mai buddiol iddynt hwy oedd ei fyned ef ymaith, am nad allai roddi iddynt ei bresennoldeb personol mewn mwy nag un lle, ar yr unrhyw enyd; hefyd, am yr anfonai ef y Dyddanydd atynt, wedi ei esgyniad, a bod gyda hwynt felly, lle bynag yr ymgynnullai ond dau neu dri yn ei enw; ac am y parotoai efe le iddynt hwy, ar ol ei fyned at y Tad.

Anwyl Saint, buddiol i chwithau ydyw i'ch cyfeillion, eich perthynasau, eich brodyr, a'ch chwiorydd fyned tua Seion, am y parotoant le i chwi; ac am y bydd yn eu gallu i gyfranu mwy yno, nag yma, o'u heiddo at gludo y rhai tlodion o honoch attynt i'r wlad lle yr aeth eich bryd iddi er ys llawer o amser cyn hyn. Na thristaer chwi yn herwydd colli cymdeithas eich anwylion tros dro, a chwi yn gwybod ddarfod i'r Iesu ddywedyd gwirionedd wrth ei ddyscyblion; canys y mae y Dyddanydd gyda ni yn Nghymru, megys a chyda y Saint ereill, yn mhob man, o amgylch ogylch byd o ddynion.

Na ymollynged eich meddyliau i drallod, wrth fyfyrio am y tywydd a'r tymhestloedd a ddichon gyfarfod, neu a ddichon beidio cyfarfod y Saint sydd yn ymfudo eleni. Gwr boneddig, wrth weled ei ferch ieuange yn gwenu, ac yntau yn curo yr awyr gyda chleddyf, yn yr un ystafell a hi, a ofynodd ai nad oedd arni ofn:—hithau a'i hatebodd nad oedd, gan ychwanegu, "Ond yn llaw fy *nhad* mae y cleddyf!" Cofiwch, Saint, fod yr holl elfenau tan reolaeth llaw eich Tad chwi: nid oes megys Duw y Saint, yr hwn sydd yn marchogaeth y nefoedd yn gymhorth i chwi, a'r wybrenau yn ei fawredd: eich noddfa yw Duw tragywyddol, ac oddi tanodd y mae y breichiau tragywyddol.

Casgliadau arianol y sectariaid sydd gan amlaf, i dalu cyflogau eu pregethwyr; eithr eich cyfraniadau chwi a wneir er lles

cyffredinol yr holl eglwys, fel y caffo yr hen, yr amddifad, a'r methiedeg fyned i Seion, trwy gynnorthwy eich haelioni, a mwynhau yno gysuron y duwioldeb a fedd addewid o'r bywyd y sydd yr awrhon, ac o'r hwn a fydd.

---

## CYMMANFA MERTHYR.

### CRYNODEB O'R HYN A WNAED AC A DDYWEDWYD YN Y GYMMANFA UCHOD.

[Parhad o dud. 49]

Ar ol i'r Llywydd D. Jones annog y gwrandawyr i gadw yn eu cof y sylwadau a gynnygiwyd i'w hystyriaeth, gan y Llywydd S. W. Richards, o Liverpool. Pleidleisiwyd yr Henuriaid Wm. Jones, a John Jones, yn Gynghorwyr i'r Llywydd D. Jones; yr Henuriad William Sims, yn Ysgrifenydd; a'r Henuriad Robert Parry, yn Henuriad Teithiol, y Gynnadledd hon. Yna, galwyd ar i'r Ysgrifenydd adrodd nifer y swyddogion a'r aelodau a berthynant i'r Gynnadledd hon; a chafwyd eu bod yn 1930, ac arwyddion amlwg y bod cynnydd mawr gerllaw.

Y Llywydd D. Jones, a annogodd y Saint i ymdrechu am gael bob un ei ddau o bersonau i'w bedyddio gyferbyn a'r Gymmanfa nesaf a gynnelir yn Merthyr. Cynghorai hwynt i fyw bob amser yn yr Ysbryd; nid dyfod i'r cyfarfodydd i chwilio am Ysbryd Duw, eithr dyfod i'r cyfryw a'r Ysbryd Glân gyda hwynt; ac am i bob un ddyfod i bob oedfa yn gyfan, a'i galon gydag ef, fel y byddo pob cwrdd, a phob calon sant yn y cwrdd, wedi eu llenwi a chariad gwresog a thanllyd yn mhlaid y gwirionedd, gan rodio yr un ffordd santaidd, yr hon sy'n arwain ufyddion yr Iesu i'r bywyd tragywyddol.

Wedi eu cymhell i ddiwyd ymdrechu tros ëangu cylchrediad y *Star*, yr UDGORN, a'r llyfrau ereill ag ydynt yn perthyn i'r Eglwys; terfynwyd y cyfarfod boreuol, gyda bendithiad gan y Llywydd W. S. Phillips.

Dechreuwyd y cyfarfod prydnawnol am hanner awr gwedi dau o'r gloch, trwy ganu, a gweddi gan yr Henuriad Thomas Giles, Tredegar.

Y Llywydd D. Jones, a ddeisyfodd ar i'r Saint ymdrechu byw yn unol a'u crefydd; i ni oll ymdrechu ystyried am yr hyn

a fuom, yn ein cynfodoldeb yn myd yr ysbrydoedd; am yr hyn ydym yn awr, megys plant i Dduw, trwy fabwysiad, yn ganlynol i'r utydd-dod a roddasom, ac a roddir genym i'r efengyl, yn ei hordinhadau, ac yn mha bethau bynag a orchymynodd Crist i ni eu cadw; ac am yr hyn a fyddwn, trwy ras Duw, ond i ni barhau yn ffyddlon, gan ymdrechu cyrhaedd i fod yn Dduwiau gogoneddus mewn gwynfyd tragywyddol.

Y trysor goreu, yn fwy ei werth na'r oll o bethau daear i gyd yn un, ydyw y gwirionedd; cyflawnder y gwirionedd yw yr hyn y dylem ymegnio yn ddiwyd a pharhaus am ei gael, o herwydd mai dyna yw y peth a'n gwna, trwy gynnyddu mewn daioni, yn dduwiau, yn Dduw debyg, am byth bythoedd: gan hyny, y gwirionedd a ddylai fod prif wrthrych ein hymchwiliad, prif nod ein hymgais, a chyfoeth penaf ein dewisiad, a'i addoli hefyd, oblegid mai *y gwirionedd*, mewn pob anfeidrol berffeithderau yn un, yw y gwir a'r bywiol Dduw.

Carwn Dduw, am mai Duw y gwirionedd ydyw ef; a charwn ein gilydd,nid yn herwydd ein personau na'n meddiannau, eithr yn herwydd ein tebygolrwydd i Dduw, perchenogydd pob anfeidrol berffeithrwydd y gwirionedd. Hyderwyf i chwi ddyfod yma oll i'r dyben o wrando, cofio, myfyrio, ddeall, a gwneyd yr hyn a gais y gwirionedd genym. Yr ydym yn marchnadfa y gwirionedd, ac ond i ni farchnata yn gall, trwy ymgyrhaedd at y gwirionedd, a'i roddi mewn grymus weithrediad, nyni a awn oddi yma ar ein hennill. I'r dyben o ennill llesoldeb y gwirionedd, nyni a ddylem ymlid ymaith bob malais, cenfigen, a chaledwch yn erbyn personau, a phob peth, gan roddi o honom bob lle i dderbyn y gwirionedd, yn ysbryd y gwirionedd; ac yr elom yn mlaen, yn nerth y gwirionedd, o ffydd i ffydd, o ras i ras, o nerth i nerth, ac o lawenydd a gorfoledd, hyd i lawenydd a gorfoledd annherfynol; pryd y cawn, nid yn unig dderbyn llawenydd, ond myned yn mhellach bellach i mewn, yn, ac i orlawnderoedd y llawenydd di eithafoedd.

Yr Henuriad James Linforth, o Liverpool, a ddywedodd, Da yw genyf weled y Saint, yn Merthyr, unwaith yn ychwaneg; eithr cyfyngaf fy sylwadau i gylch bychan. Dylai yr Henuriaid deimlo yn dra diolchgar am y goleuni sydd ynddynt, gan ymdrechu dwyn y goleuni, mewn ysbryd cariad, at y rhai sydd hyd yn hyn mewn tywyllwch, a bod yn ofalus am beidio tynu

tai y sectariaid ar eu penau hwynt, hyd nes dangos iddynt adeilad well eglwys Iesu Grist, o Saint y Dyddiau Diweddaf. Dylynwn ein braint o alw ar Dduw am ei fendithion y rhai y gwyddom ein bod yn eu derbyn, yn y cyflawniad o'n dyledswyddau; a phwy sydd a chanddynt gan gryfed annogaethau i ddyfal barhau, mewn gweddi a ni? Canys yr ydym ni yn gwybod mai arferiad Duw ydyw gwrando ac ateb ein gweddiau.

Mae yr Eglwys yn amlwg gynnyddu mewn pob gras a dyledswydd; fel mai mawr yw prydferthwch doniau yr Ysbryd Glan yn ein plith, mewn ychwanegiadau o fendithion yn feunyddiol. Daethym i'r eglwys hon bedair blynedd-ar-ddeg yn ol; a'r cynnydd sydd eglur er gwell, bob blwyddyn yn olynol. Mae ein breintiau yn lliosogi mewn nifer a grymusderau, a lliosogant hefyd gyda chynnydd yn dragywyddol; gan hyny, gweddai y bod ein hymdrechiadau ninnau ar eu cynnydd yn wastadol am oleuni gwybodaeth, ac am ryddhau caethion tyw yllwch anwybodaeth trwy y byd cyfoll; gan brysur ymgyrhaedd at yr amser, y bydd gwybodaeth o'r Arglwydd yn llanw y ddaear, fel y tŏa y dyfroedd y môr.

Y Llywydd D. Jones, a ddymunodd am i'r Saint oll ystyried yr anghenrheidrwydd sydd o undeb, gyda gwaith Duw: fod anghen, nid yn unig o undeb cariad at ein gilydd, ac undeb i gyd weithredu yr hyn a weithredom, ond hefyd o ddeall mai *unoliaeth* ydyw yr oll o waith Duw o'n hamgylch, ac ynom, a thrwyddom ni. Ystyriai yr apostol, fod rhoddi arian heibio, ar y dydd cyntaf o'r wythnos at wneyd daioni, yn beth mor anghenrheidiol â rhyw ddyledswydd grefyddol arall. Rhyw eiriau arferol gan ddynion, er gwahaniaethu rhwng y pethau y soniant am danynt ydyw tymmorol ac ysbrydol, anianol a moesol: gyda Duw nid oes pethau anianol a phethau moesol, nag iachawdwriaeth dymmorol ac iachawdwriaeth ysbrydol: canys un ydyw ei iachawdwriaeth ef; ac felly, er y gwahanol enwau sydd ar y pethau a geisir genym, y gweddai i ninnau ddwyn ein holl amrywiol ddyledswyddau i undeb siriol mewn llawn gweithrediad. Gan hyny, na feier arnom am ddywedyd y dylem fod yn fywiog o blaid cynnorthwyon arianol teyrnas Iesu Grist: eithr goddefer i ni eich annog i bob diwydrwydd at gefnogi y Gymdeithas Ymfudol Barhaus. Yn ein cyssylltiad a'r Gymdeithas hon, ni ddylai teimladau personol na lleol gael cin dylanwadu. Ein

cyfraniadau ydynt roddion gwirfoddol at ymfudo y Saint oll allan o Babel i fyned tua Seion: Prif Lywydd yr Eglwys ydyw Llywydd y Gymdeithas Ymfudol Barhaus; ac yn ei ddwylaw ef, a'i gyd swyddogion y byddai yn oreu i ni adael ei rheoleiddiad; ynghyd a'r dull addasaf o ddwyn effeithiau ei gweithrediadau oddiamgylch, gan bennodi pwy sydd i gael myned yn awr ac etto Daioni cyffredinol, a gwneyd lles, er. iachawdwriaeth i'r holl Saint, heb esgeuluso cymmaint ag un yn pen draw ydyw ei holl amcan; gan hyny, rhesymol ydyw i ni oll gydweithio a'n gilydd er buddioli ein gilydd oll ynghyd.

Y Saint ydynt dra haelionus yn Seion, i'r dyben o'n cael atynt; a bydded i ninnau fod yn dra haelionus yma, er mwyn ein myned yno, i fwynhau eu cymdeithas, ac i brofi y rhyddid a'r bendithion sydd yno ganddynt hwy yn ein haros ni. Cludodd haelionusrwydd y Gymdeithas Ymfudol gannoedd o Saint tlodion, a'r rhai hyny yn dyblu eu nifer i fyned tua Seion, bob yn ail flwyddyn. Mae goleuni wedi gwawrio yn y gorllewin! Ymddeffrown ninnau; canys y mae'r Gymdeithas famol hon am ein cymmeryd yno oll yn ei chol gynnes.

Edryched llywyddion canghenau y Gynnadledd hon, eu bod yn cyflawni eu dyledswyddau at y byd. Gan eich bod yn *gwybod* y gwirionedd, tystiolaethwch y gwirionedd er annog ereill i ufyddhau, fel y caffont hwythau afael ar y gyffelyb wybodaeth. Chwilier am leoedd i bregethu; a thueddwch y bobl, trwy eich ymddygiadau caruaidd, i gredu mai chwi ydych eu cyfeillion goreu; a gwneled pawb o honoch eich goreu tros ledaeniad a derbyniad llyfrau yr eglwys, y *Star* a'r UDGORN: po lliosocaf eu derbynir, rhataf eu ceir: bydded i ni oll gyd-ymdrechu fel y mwyhäer ac yr amlhäer offerynau goleuni gwybodaeth gogoniant Duw, yngwyneb Iesu Grist, trwy bregethu a darllen, ac ennill ereill i wneyd hyny hefyd yn olynol. Byddwn fyw a'n cydwybodau yn lân, a gwnawn ein dyledswyddau fel y cyfawner gweddi Crist, "Gwneler dy ewyllys, megys yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.

Y Llywydd John Davis,—Tebygol mai dyma y tro olaf i mi gael dywedyd gair wrthych, mewn Cymmanfa yn Nghymru. Buom gyda chwi yn y swydd sy genyf, oddeutu pum mlynedd; yr wyf yn ceisio edrych yn ol i sylwi ar a wnaethym, a chanfyddaf yr ymdrechais o blaid eich lles, heb dderbyn wyneb

undyn. Gwnaethym a ellais i ddywedyd ac i ysgrifenu pethau da; ac ymdrechais hefyd i roddi esiampl dda o'ch blaen, mewn bucheddu, yr un fath ag mewn addysgu ar air ac ysgrifen. Yr wyf yn awr, ar fyned i Seion; a dymunwn, cyn ymadael, eich annog i gofio am y tlodion, ac i wneuthur holl ewyllys yr Arglwydd, gan ufyddhau o honoch i gynghorion daionus ei weision ef. Ai nid yw cofio am a fwynhasom yn ennyn llawenydd ynom; ac onid yw hyny yn ein cymhell i fyned yn mlaen, gyda mwy diwydrwydd nag erioed? Mae anmherfeithderau yn mhawb, ac yn y goreu o honom; eithr rhoddwn ein hymddiried yn yr offeiriadaeth, ac yn yr Ysbryd Glân; fel y cymmero bywyd adnewyddol le, y byddom un, ac y byddom nas gellir ein gwahanu; ond a'n cariad at ein gilydd, ac at Dduw, ar ei gynnydd, hyd nes ein casgler oll at ein gilydd i Seion. Yr wyf fi ar ddystewi—y mae fy nghalon yn hollol ddi-elyniaeth tuag at bob dyn—nid wyf yn gwybod am un gelyn—ac yr ydwyf yn ewyllysio i chwi bob lles o hyn allan hyd byth. Yr ydym yn blant i'r un Tad—brodyr a chwiorydd ydym—dichon y cawn weled ein gilydd etto yn Seion. Bendithier chwi Saint—gwasanaethwch yr Arglwydd, mewn ffyddlondeb; a pharhewch frodyr a chwiorydd hyd y diwedd. Ai ni chawsoch o Ysbryd yr Arglwydd, ai ni chawsoch o'i ddoniau annhraethol ef?—Do; gan hyny parhewch i ddylyn pob cynghor a phob gwaith da; a pharhau ydyw fy mhenderfyniad innau.

Dichon, frodyr, y buom yn drwsgl; eithr buom yn ddidwyll. Dymunaf am i chwi gael o Ysbryd yr Arglwydd yn chelaeth, a chyffröer ac adfywier chwi mewn pob rhinwedd. Bydded Blwyddyn Newydd dda, i chwi Saint, a phob blwyddyn yn well-well o hyd. Edrychwch yn mlaen; ac os rhaid dyoddef ychydig, cofiwch y dwg ein Tad tragywyddol bob gweithred i'r amlwg.

Yr Arglwydd a'ch bendithio chwi oll.—Yn iach Saint.—Gweddiwch troswyf; a minnau a weddiaf hefyd trosoch chwi. Gwnaf; gweddiaf tros yr holl Saint. Yr Ysbryd Glân a fyddo ynoch a'i dangnefedd arnom ni oll. Ffarwell frodyr: a Duw a fyddo gyda chwi a minnau, trwy Iesu Grist. Amen.

Y Llywydd Jones, a grybwyllodd ddarfod iddo yntau ganu yn iach, a dychwelyd yma yn ol; a dichon, pan yr â etto oddi yma y bydd rhai o'r Saint sydd yn myned i Seion y tro hyn,

yn ei gyfarfod ef ar y ffordd, gan ddychwelyd, hwythau hefyd, i lafurio llafur cariad yn ngwlad eu genedigaeth.

*(Pw barhau.)*

---

## ARWYDDION YR AMSERAU.

Talwyd miloedd o bunnau am adeiladu Gweithdai i'r tlodion yn y deyrnas hon; a thelir miloedd o bunnau, yn flynnyddol, i arolygwyr, ysgrifenyddion, a dirprwywyr, am broffesu edrych ar fod y tlodion yn cael ymgeledd ac ymborth; er hyny, marw o newyn y mae llawer; a chyhoeddwyd yn y Papyrau newyddion diweddar, i rai drengu o eisiau bwyd, hyd yn oed ar riniog ty a godwyd i'w diogelu rhag newyn! Yn Utah, mae gan y Saint lawnderau o ddanteithion; a'r weddw, yr amddifad, a'r methedig yn cael cystadl cynnaliaeth oddiwrth y Degwm, ag a fwynheir gan y rhai sydd yn talu y cyfryw.—Mae yn y wlad hon brinder cyflog, sefyll allan am fwy cyflog mewn rhai manau, a phrinder gwaith mewn lleoedd ereill; tra yn Utah ceir digon o waith a chyflog, ond prinder gweithwyr; tiroedd ydynt yma brinion a drudfawr, ac yno helaethion a rhâd: Utah sy gyfaneddle heddwch, iechyd, a chysur; ond Ewrop sydd yn llawn rhyfel danllyd, clefydau, a 'pheryglon. Rwssia sydd hyd hyn yn gwrthod y cynnygiadau am heddwch; a thebygol yr ystyrir mynediad llyngesau Lloegr a Ffrainc i'r Môr Du yn weithred elyniaethus; cynnwys ei Phapyrau newyddion frawddegau ffyrnig yn erbyn Lloegr. Dyoddefodd Rwssia ddyrnod drom yn y frwydr a ymladdwyd gerllaw tref, yn cynnwys 2000 o dai, o'r enw Kalafat: lladdwyd yr oll o un catrawd y Rhych-ddrylliau; ac ni ddiangodd ond 465 o un catrawd y gwaywffyn heb eu lladd. Twrci, er yn llai ei manteision yw y trechaf hyd yn hyn; a daeth catrawd o *cossacks*, o gymmydogaeth y Môr Gwŷn i'w cynnorthwyo yn ddiweddar. Gorthrechir Poland, gan Rwssia, trwy ei gorfod i anfon ei meibion o 18 hyd i 40 eu hoedran i wisgo arfau rhyfel. Cynnygiodd y Mohammed, Twrci, bob tegwch unol ag anrhydedd cenedl at gael heddwch, gwrthododd (y Cristion?) Rwssia, bob cynnyg, gan ymgynddeiriogi fel blaidd yn erbyn pawb a feiddiant anghytuno a'i ormes, ei drais, a'i gamwri; modd bynag, collodd Rwssia 5000 o wyr, mewn brwydr a ymladdwyd yr 8fed o'r mis

diweddaf: a chollodd luoedd yn mrwydrau y 6, 7, 9, a 10 o'r mis; a throes tros 500 o filwyr Wallachia at y Tyrciaid.—Bu i amryw offeiriaid eglwys Groeg, yn Walachia, fod mor eofn a thynu enw Nicholas, Amerawdwr Rwssia o'u Llyfr gweddi, a dodi enw y Sultan Abdul Medjid, Amerawdwr Twrci, yn ei le.

## AMRYWIAETHAU, &c.

Cymmanfaoedd y Gogledd.—Cynnelir Cymmanfa Sir Fflint, ar y 12fed o Chwefror; Sir Ddinbych, ar y 19eg; Dyffryn Conwy a Sir Fon, ar y 26ain; Sir Feirionydd, ar y 5med o Fawrth.—Gyda phleser dealled ein hanwyl frodyr yn y Gogledd wrth hyn, y gallant ddysgwyl ymweliad gan y Llywydd Jeremy yn y Cymmanfaoedd uchod. Ysbryd yr Arglwydd Dduw a ddelo gydag ef yn nerthol, nes y cydlawenhao yr holl Saiut yn iachawdwriaeth fawr ein Duw yn y Dyddiau Diweddaf, yw ein dymuniad.

Tiriad y Cymry yn Ninas y Llyn Halen.—Cyrhaeddodd yr holl Gymry a ymfudasant dros y plains, yn iach a liwyddiannus yn Ninas y Llyn Halen Fawr; a chyd-dystia amryw lythyrau a anfonwyd yn ol i'w perthynasau eu bod yn cael eu llwyr foddloni yn y wlad, yn ei manteision tymmorol a a chrefyddol, ac yn neillduol yngharedgrwydd, haelioni, a chrefyddolrwydd ei thrigolion; a'u bod yn clodfori enw yr Hwn a'u gwaredodd o gaethiwed Babilon i ryddid a iawnderau Seion.

### Y GWIRIONEDD.

Un, trwy gofiant tragyfyth,—yw anian
*Y Gwirionedd* dilyth;
Yn ei ansawdd unionsyth,
Nid all ef fod yn dwyll fyth. R. Ddu, Eryri.

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau, i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street*, *Merthyr-Tydfil*.

### CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Y Duw a Addolir?—Pwy yw | 69 |
| Llythyr at y Golygydd | 72 |
| Cofnodion Cymmanfa Gyffredinol, &c | 74 |
| Golygyddiaeth | 77 |
| Cymmanfa Methyr | 79 |
| Arwyddion yr Amserau | 83 |
| Amrywiaethau, &c. | 84 |


MERTHYR-TYDFIL:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14 CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

Rhif. 6.] CHWEFROR 11, 1854. [Cyf. VII.


## Y DUW A ADDOLIR!—PWY YW?

[Parhad o dud. 72.]

I'n Duw hwn nid oes na "chorff na rhanau na nwydau," ac nid yw yn sylweddol. Na ddealler i ni awgrymu fod y priodoliaethau hyn yn *sylweddau*; canys byddai mor hollol anmhosibl i unrhyw sylwedd, pe bae yn ronynau lleiaf, fod yn hollbresennol—ni ddichon i ddau ronyn lleiaf o sylwedd, pe bae yn sylwedd ysbrydol, fodoli yn yr un lle a'u gilydd ar yr un pryd —ag a fyddai i ddau neu fwy o bersonau sylweddol, ysbrydol, nefol, neu ddaearol lanw yr un gwagder ar yr un amser.

Effeithiau, neu briodoliaethau (yr hyn sydd gyfystyr), yw yr uchod, perthynol i, a tharddiadol o sylwedd; ac y mae eu grym yn gyferbyniol i berffeithrwydd y sylweddau a'u hachosa. Lle nad oes sylwedd i garu nid oes gariad; etto, nid sylwedd yw cariad. Heb sylwedd i ddeall nid oes gwybodaeth, fwy nag y dichon y bod gallu heb sylwedd i'w arddangos. Ysgogiad, nid yw sylwedd, ond effaith sylwedd ymsymmudol. O herwydd y bod sylwedd ysbrydol yn y perffeithrwydd o hono, effeithiau yr hwn yw yr uchod, yn bodoli yn mhob man, er tragywyddoldeb, yn hunan-ymfodol ac anghyfnewidiol, y mae Duw yn yr ystyr hwn yn mhob man a phob amser, canys Duw yw hwn. Profa Crist hyn pan y dywed, "Ysbryd yw Duw, a rhaid i'r rhai a'i haddolant Ef, ei addoli mewn ysbryd ac mewn gwirionedd" (Ioan iv, 24.) Yn yr adnod flaenorol, dywed yr Iesu mai ei Dad, gyda golwg ar ei Dduwdod yn *bersonol*, yw gwrth-

ddrych addoliad y gwir addolwyr. Yma gwelir prawf o'r egwyddor y bod sylwedd ysbrydol, priodoliaethau yr hwn a elwir yn Dduw; ac o herwydd fod y cyflawnder o'r perffeithrwydd hwn yn ei Dad, y mae yn Dduw. Nid addoli person y Tad a ddywed, ond ei addoli, o herwydd fod yn ei berson ef gyflawnder y Duw a eilw yn "Ysbryd." Nid yw efe yn dweyd y bod yr Ysbryd hwn a eilw yn Dduw yn *fôd* neu *berson* o hono ei hun; ac nid yw yn awgrymu nad yw Ysbryd yn sylwedd. Sylwedd yw yr Ysbryd hwn, yr hwn yn fynych a elwir yn "Ysbryd Duw," "Ysbryd Glân," "Dyddanydd," &c. Mae hwn yn ddiddechreu, yn fân ronynau gwybodus, drwy yr holl cangder, yr hwn sydd yn cynnal, a'r hwn yw *bywyd* pob peth. Nid yw bywyd yn sylwedd, ond priodoledd perthynol i'r sylwedd hwn. Nid yw y ffaith o'i fod yn cael ei bersonoli, megys "Efe," ac "Ef," yn fynych, yn profi ei fod yn berson corfforol, megys ag y mae y Tad, a'r Mab, a phawb ag y preswylia yr Ysbryd hwn ynddynt yn bersonau; canys dywedir am y Saint, mai temlau ydynt i Ysbryd Duw breswylio ynddynt. Pe person sylweddol meddwn etto, ni allai lanw ond un man ar yr un waith; ond am Dduw, sef yr Ysbryd hwn, dywedir ei fod yn llanw pob man ar yr un waith. At hwn y cyfeiriai y Salmydd pan y dywedai, "Pa le yr âf oddiwrth dy *Ysbryd*, ac i ba le y ffôaf o'th wydd," &c. Anmhosibl addoli Duw yn iawn heb feddu yr Ysbryd hwn yn ei ddylanwadau ar ein hysbryd ni, o herwydd heb hyny ni fydd yn addoliad gwirioneddol; canys hwn yw ysbryd y gwirionedd; "mewn ysbryd ac mewn *gwirionedd*," ebe Crist. Rhaid fod yr Ysbryd hwn yn sylweddol, cyn y gallai ddylanwadu neu achosi effaith, sef gwirionedd ar ein hysbryd ni. I'r graddau ag y dylanwada, y dyga ein hysbryd ni i'w ddelw ef, yr hyn yw tebygoli i Dduw; ac felly cymhella blant Duw i lefain "Abba Dad," a hyny o herwydd mai, "yr hwn sydd yn santeiddio, a'r rhai a santeiddir, o'r un [Duw] y maent." Am eu bod yn blant y tywalltodd Efe ei Ysbryd, [nid yn bersonol, ond] ar led yn eu calonau Digon yw hyn i'r pwrpas presennol, i brofi hollbresennoldeb ac anmhersonoliaeth Ysbryd Duw. Yr hwn ni ddigonir ar yr allwedd hon, ymchwilied i'r UDGORN lle y nodwyd ar y dechreu.

Rhag na ddeallwyd ni ynghylch personoliaeth a hollbresennoldeb Duw Dad; a chan y bod o fawr bwys i ni oll iawn

ddeall gwrthddrych ein haddoliad, a pha fodd i'w addoli, ychwanegwn o ddadguddiadau a roddwyd i Joseph Smith, yr hwn y dywedir ei fod yn gwadu hollbresennoldeb a thragywyddoldeb Duw; a dadguddiadau y Testament Newydd ar y mater hwn; os cydgordiant hwy, dyna ddigon i brofi ei gyhuddwyr, naill ai yn anwireddwyr gwybodus neu anwybodus; ac os yr olaf, y bod eu hanwybodaeth am Dduw yn eu gwneyd heb Dduw yn y byd, ac nid yn unig yn analluog farnwyr ereill, ond hefyd yn amddifad o fywyd tragywyddol; canys "hyn yw y bywyd tragywyddol iddynt dy *adnabod* di yr unig wir Ddnw, a'r hwn a anfonaist ti Iesu Grist." Yn y dyfyniad blaenorol, profodd Crist y bod ei Dad yn berson, ac hefyd y bod Duw yn Ysbryd yr hwn sydd yn hollbresennol. Yn nesaf, profwn ei fod yntau, sef Mab Duw, fel ei Dad yn Dduw personol, ac etto yn hollbresennol yn yr un ystyr a'i Dad. Dadguddiwyd i Joseph y Gweledydd fel y canlyn:—"Gwrandewch ar lais Iesu Grist, eich Pryniawdwr, yr YDWYF Mawr; yr hwn y mae braich ei drugaredd wedi gwneyd lawn dros eich pechodau chwi;"

* * * "ond i mi nid oes DIWEDD ar fy ngweithredoedd, na DECHREUAD chwaith" (Ath. a Chyf., dos. x, gwa. 1—8. Etto drwy yr un:—"Gwrandewch ar lais yr Arglwydd eich Duw, sef Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, yr hwn y mae ei ystod yn un cylchdro tragywyddol, yr un heddyw a ddoe, ac yn dragywydd. Myfi wyf Iesu Grist, Mab Duw, yr hwn a groeshoeliwyd am bechodau y byd, sef cynnifer a gredant yn fy enw i, fel y delont yn feibion i Dduw, ïe, yn un ynof fi, fel yr wyf fi yn y Tad, megys y mae y Tad yn un ynof fi, fel y byddom yn un." Ni allai iaith brofi yn eglurach nad oedd dechreu i Iesu Grist. Anmhosibl bod dechreu na diwedd iddo Ef, gan nad oedd dechreu ac na fydd diwedd i'w weithredoedd Ef. Ni bu amser yn yr hwn y dechreuodd Ef ei waith. Ni fu y fath beth â'r weithred *gyntaf* iddo Ef. I "gylch tragywyddol" nid oes dechreu! Pwy a ddichon ddirnad dechreu na diwedd i fodrwy? A hyn cyd-dystia Paul yn Col. i. Wedi diolch i'r Tad yn adn. 12, am ei symmud i deyrnas y Mab, yn adn. 16, dywed mai "trwyddo Ef [y Mab] y crewyd pob dim a'r sydd yn y nefoedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig ac anweledig; pa un bynag ai thronau, ai arglwyddiaethau, ai meddiannau; pob dim a grewyd trwyddo Ef ac erddo Ef" (adn. 17). "Ac y

mae efe [y Mab] CYN pob peth, ac YNDDO ef y mae pob peth yn cyd-sefyll" (adn. 18. "Ac Efe yw pen corff yr Eglwys, Efe yr hwn yw y DECHREUAD, y *Cyntaf-anedig* oddiwrth y meirw." Tystia Paul yma y bod Iesu Grist yn Gyntaf-anedig oddiwrth y meirw, yr hyn ni allasai fod oni fuasai ei *bersonoliaeth.* Yn adn. 15, dywed am yr un person,—"Yr hwn yw delw y Duw anweledig, *Cyntaf-anedig* pob creadur. Fel "creadur" ganedig, nid oedd efe "cyn pob peth ac yn mhob peth;" etto yr un "person ganedig" hwn, ebe efe "oedd cyn pob peth;" yna os ei berson a feddylia, ac os yw "pob peth" yn awgrymu nad oedd dim heb fod yn gynnwysedig, yna yr oedd efe cyn yr hwn y ganwyd Ef o hono; yr hyn fyddai yn anmhosibl i fod yn wir! Gwadu dwyfol bersonoliaeth Iesu Grist yw gwadu ei Dduwdod hefyd; eithr i'r hwn a gyfaddefa sylweddoldeb ei berson, rhaid iddynt yngwyneb yr uchod, gyfaddef ei hollbresennoldeb ar yr un pryd; cyn y gallai pob peth YNDDO Ef gydsefyll! Mae Paul yn yr un amryfysedd â Joseph Smith, gan y doethion dynol yn awr! Mewn un man dywed fod Iesu Grist yn "gyntaf ANEDIG pob creadur," sef o ran ei Ysbryd yn y nefoedd, ac felly bod *dechreuad* wedi bod iddo; ar yr un pryd dysga ei fod Ef "CYN pob peth," yn y nefoedd ac ar y ddaear! Gwna ef yn Dduw ac yn ddyn,—fod iddo ddechrenad, ac etto yn ddiddechreu, yn greadur ac yn Greawdwr pob peth gweledig ac anweledig! Onid yw hyn yn wrthddywediad, meddir? Ydyw, yn cael ei ystyried felly pan ei dywedir gan "Formoniad," fel Joseph Smith; eithr yn hollol gydgordiol, pan ei dywedir gan ei frawd ef drwy yr un Ysbryd, sef gan Paul! Ac ni ellir eu cyssoni fyth, nac ugeiniau o ddadguddiadau cyffelyb, ond yn unig drwy gredu credo y Saint am bersonoliaeth, ac etto hollbresennoldeb Duw, ïe, pob Duw! Daw Paul a'r pwnc yn amlwg wrth ddweyd "Oblegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o BOB CYFLAWNDER ynddo ef." Dyma allwedd y cyfan, sef, y bod person Iesu Grist wedi derbyn y cyflawnder o wirionedd a feddai ei Dad; y cyflawnder o gariad, o oleuni, gwybodaeth a phob priodoledd a feddai ei Dad; yr hwn yw y Duw di-ddechreu, yr hwn a greodd bob peth ag sydd yn mhob peth. Ar yr un pryd dywed fod dechreu i'w *berson;* iddo gael ei eni yn yr Ysbryd o Dad yr ysbrydoedd "yn gyntaf anedig yn mhlith brodyr lawer," cyn bod y byd hwn: ei fod wedi ei eni o ran y

cnawd o'i Dad hefyd, ac o Mair. Felly yr oedd dechreuad i reoleiddiad ei berson ysbrydol, a dechreuad i'w gorff daearol, tra yr oedd y sylweddau o ba rai ei gwnaed yn dragywyddol cyn bod ei Dad ef; felly hefyd yr oedd yr holl briodoliaethau a'u cynysgaethent ef â Duwdod yn bodoli cyn pob peth ac yn mhob peth. Pan ei ganwyd ef i'r byd ni allasai efe honi ei fod cyn pob peth, nac mai efe a greodd bob peth, canys y pryd hyny nid allasai restru ei hun yn mhlith y Duwiau, am na feddai y cyflawnder o wirionedd, yr hyn yn unig, a'i gwnai yn Dduw. "Gelwir ef y Mab, o herwydd na dderbyniasai y cyflawnder ar y dechreu," ebe dadguddiad. "Rhyngodd bodd i Dduw *berffeithio* Tywysog ein hiachawdwriaeth ni trwy ddyoddefiadau," ebe arall etto. Wedi i'r Iesu dderbyn yr Ysbryd Glân, yn ol tystiolaeth Ioan, y daeth efe i ddeall yn gywir o barthed i pwy oedd efe wedi bod, a diben ei ddyfodiad presennol i'r byd; canys dywedir, "Yn ei ddarostyngiad, ei farn a gymmerwyd oddiarno," sef, ei gofiant am ei gartref nefol; ac yn fuan wed'yn, clywwn ef yn eofn yn cyhoeddi ei hun yn Fab Duw; ïe, dyweyd, yr hwn a'm gwelodd i, a welodd y Tad, canys myfi a'r Tad un ydym. Mynych y dywedai fod y Tad ynddo ef ac yntau yn y Tad: sef, y bod y priodolaethau ag oedd yn gwneyd ei Dad yn Dduw ynddo yntau; a phe meddai miliynau dirif yr unrhyw gyflawnder o *wirionedd* ag a'u gwnaeth hwy yn dduwiau, a'r rhai hyn y ar filiynau o fydoedd, etto ni byddai ond un Duw, a'r un hwnw yn hollbresennol.

Profa Iesu Grist, nid yn unig ei fod wedi bod yn bodoli yn yr Ysbryd yn berson cenedledig, ond ei fod wedi dyfod i ddeall hyny trwy wybodaeth ddatguddiedig iddo trwy yr Ysbryd Glân yn ei weddi ar ei Dad; "Gogonedda di fyfi â'r gogoniant oedd i mi gyda thi cyn bod y byd," ebe efe. Yn ei ddarostyngiad cyn cael amlygiad o'r nef, a chyn mwynhau "pob cyflawnder," neu cyn "rhyngu bodd i Dduw breswylio o holl gyflawnder y Duwdod ynddo ef yn gorfforol;" ni allasai efe alw ei hun yn "Alpha ac Omega," yn Dduw hollbresennol, a hollwybodol, na hollalluog; eithr wedi ymbersonoli o'r cyflawnder o briodoliaethau y Duwdod ynddo ef, yr oedd mor briodol iddo ef, alw ei hun yn hollalluog Dduw ag oedd i un Duw arall alw ei hunan felly, o herwydd cyd-stad y'nt oll a'u gilydd yn mhob priodoledd. Oll

yn berffaith ddiwall, heb le i welliant yn un; eithr *un Duw* yn oll a thrwy oll. *(I'w barhau).*

---

## CYMMANFA MERTHYR.

CRYNODEB O'R HYN A WNAED AC A DDYWEDWYD YN Y GYMMANFA UCHOD.

[Parhad o dud. 83]

Y Llywydd W. S. Phillips:—Anwyl Saint, teimlwyf yn ddyledswydd arnaf eich annerch, ac adrodd fy nheimladau wrthych y tro hwn, am nad ydwyf yn gwybod a gaf fi eich annerch, yn y fan hon, byth mwy ai peidio. Buom gyda chwi am lawer blwyddyn galed, yngwyneb llawer o erlidiau, mewn llawer o drallodion, ac mewn amgylchiadau lled gyfyng weithiau; a chefais y fraint o gyfarfod gyda chwi yn mhob Cymmanfa o Saint a gynnaliwyd yn y lle hwn: eithr dyma y tro olaf wedi dyfod, a hyny, fe ddichon am byth yn y lle a'r agwedd ein gwelir yn awr; ac yr wyf yn dymuno cael rhan yn eich gweddiau.

Cofus genyf am bum mlynedd i'r adeg hon, pan y teimlais yn ddwys fy niffyg doethineb a gallu i gymmeryd arnaf y llywyddiaeth yn Nghymru. Yr oeddwn yn teimlo; eithr trwy y nerth a gyfranodd yr Arglwydd i mi, sefais hyd y dydd hwn. Derbynais nerth a gallu, trwy wrandaw ar, ac ufyddhau i weision Duw; a chefais fynych deimlo y bod yr Arglwydd yn cyflawni ei addewidion i'r rhai a alwant arno mewn ffydd, heb ammheu dim.

Mae fy nghalon yn eich caru. Os ydwyf yn adnabod fy nghalon, gallaf ddywedyd, Pa deimlad bynag a ddichon fod mewn arall tuag ataf fi, nad oes ynwyf fi ond cariad tuag at bawb, heb ddim yn erbyn neb. Yr wyf heddyw yn mhlith y bobl a gerais yn orcu o bawb erioed; yr ydwyf yn mysg y rhai anwylaf genyf yn y byd: eithr dyma fi ar roddi i chwi ffarwel. Dichon mai dyma y tro olaf, i mi eich annerch yn Merthyr-Tydfil, am byth; yr wyf yn eich gadael i ofal yr Arglwydd, tan lywyddiaeth y Brawd Jones; un a chanddo fwy doethineb ac ymarferiad na mi yn y swydd; yr wyf hefyd yn eich gadael yn ngofal y dynion da sydd i gynnorthwyo y brawd

Jones; sef, y brodyr Thomas Jeremy, a Daniel Daniels. Yr wyf yn hiraethu am eich llwyddiant, ac yn eich gadael i ofal Duw.

Frodyr,—mae fy nghalon yn llawn—yn llawn dymuniadau da—yn llawn bendithion—yn llawn cariad atoch. Llywyddion y cynnadleddau, a llywyddion y cangenau; O Henuriaid ac ereill yn yr Eglwys, cofiwch am eich dyledswyddau; gwnewch, fel y mae yn ddyledus arnoch at y llywyddiaeth a appwyntiwyd i fod arnoch:—y neb a gyfodo yn erbyn y Llywydd Jones a'i Gynghorwyr, wedi eu gosoder arnoch, ni lwydda; yr wyf yn *gwybod* na lwydda y neb a wrthryfelo yn ei erbyn ef a'i gynghorwyr. Brysiwch i Seion, a bydded eich bryd ar fyned yno. Ffarwel i chwi frodyr oll—Yr Arglwydd Dduw Hollalluog a'ch bendithio trwy Iesu Grist. Amen.

Y Llywydd Jones,—Annogaf chwi oll i wneyd dymuniad y Llywydd Phillips, trwy weddio trosto, a rhoddi a alloch o'ch cynnorthwyon tuag at ei anfon ef, a'i anwyl deulu, yn gysurus i Seion. Ystyriwch mai dyledus ydyw arnoch wneyd felly, i un a aberthodd ei holl amser, tros gynnifer o flynyddoedd i'ch gwasanaethu, mewn llafur cariad, yn yr Arglwydd. Ystyriwn mai braint i ni yw hyn, a chyfrifwn yn hyfrydwch wneyd hyn iddo: ac y mae fy nymuniad am i'r Arglwydd fendithio y brawd Phillips, a'i deulu, a'r brawd Davis, a'i deulu gyda'r hyn oll a ddymuno eu calonau er eu cyflawn ddedwyddwch.

Bendithiad, gan y bugail Thomas Jeremy.

Am hanner awr wedi 6 o'r gloch, yn yr hwyr, dechreuwyd trwy ganu, a gweddi gan y bugail Daniel Daniels.

Y Llywydd Jones,—Diammheu y cydlawenhewch oll â mi, o herwydd i ni wybod ein bod yn Eglwys Iesu Grist, am ein bod yn frodyr a chwiorydd i'n gilydd, ac am mai cydymdrechu yr ydym yn mhlaid y ffydd, trwy ein gwybodaeth o'n bod ni yn blant i Dduw. Gallwn lawenhau oblegid y bendithion a'r breintiau a berthynant i ni, megys aelodau yn yr Eglwys hon; sef, caffael bod yn etifeddion o'r addewidion dwyfol, o ffydd, gwirionedd, cariad a gwybodaeth; yn etifeddion o'r hyn a dderbyniodd Crist yn rhoddion i ddynion: derbyniasom yr offeiriadaeth trwy ddwyfol alwad a chyfreithlon ordeiniad, yn holl amrywiol swyddogion Eglwys Crist.

Dyledswydd holl swyddogion cyhoeddus yr eglwys ydyw, nid

yn unig gweddio ac ymdrechu am y rhoddion a'r doniau ysbrydol addawedig i ni ein hunain, eithr ymdrechu am ennill ereill hefyd i'w derbyn a'u mwynhau; o'r un feddwl, o'r un galon, a chyda yr unrhyw benderfyniad calonog, gan dalu pob ufyddod i bob gorchymyn, fel y delo bendithion i waered na byddo digon o le i'w derbyn; ac y tuedder y byd i orfod dywedyd, "Eich eglwys chwi, a gaiff fod yn Eglwys i ni; a'ch breintiau chwi, ein breintiau ninnau." Ymdrechwn am gyrhaeddyd yn mlaen, hyd nes cael gafael ar y gwirioneddau a'n deil i fyny, pan fyddo y byd yn ymddattod, a'r bobl heb wybod pa le i gael dihangfa. Bendithier ni oll gydag etifeddu nerth Duw.

Y Llywydd S. W. Richards, o Liverpool,—Tybiaf, mai nid yn unig o fewn fy nghalon fy hun y teimlir dylanwadau hyfryd, ond hefyd ynghalon pob un ar a ddaeth i'r cyfarfod dyddorol hwn. Canfyddais eich bod yn mwynhau dylanwadau daionus oddi uchod, tra eich anerchid, gan y brodyr, yn eich iaith eich hunain. Minnau hefyd, a deimlaf duedd i lawenhau am fy mod yn gwybod mai ymadroddion a lafarwyd wrth-ych, o'r fath ag y sydd yn dwyn iachawdwriaeth i ddynolryw.

Dymunaf ar y rhai a lafuriant yn y gorchwyl o addysgu y Saint fyned a lledaenu y gwirioneddau a glywsant yma, fel y byddo i'r flwyddyn sy gerllaw ddwyn cynnyrch toreithiog, yn Nghymru, oddiar lafur y flwyddyn sydd agos a therfynu, megys ag yn yr holl ynysoedd Prydeinig; ac hyderaf mai felly y bydd; ac y dwg yr ofeiriadaeth santaidd les mawr i ddynion, er gogoniant i'r Arglwydd

Y Llywyddiaeth Gymreig sydd yn ymyl cael ei throsglwyddo i ofal brodyr ereill; ond gan belled y mae a wnelo y llywyddiaeth ynddi ei hun, nid yw hi yn newid dim yn ei natur, nag ar y pethau da sy sefydliedig yn mhlith y Saint. Mae gwaith mawr wedi ei wneuthur, yn ystod llawer o flynyddoedd, trwy lafur diflin y Llywydd Phillips; llafuriodd ef, i'w anrhydedd ei hun ac i ogoniant Duw yn yr Efengyl. Difyr ydyw genyf allu dwyn tystiolaeth o barch iddo ef, ac i holl weision Crist—yn yr Eglwys, trwy Gymru: gwaith mawr a rhyfeddol a wnaed yn y blynyddoedd a aethant heibio, ac yr wyf yn llawenhau o herwydd hyny. Hyderaf y bydd i'r holl frodyr, a'r chwiorydd barhau i wneyd daioni mawr, er lles a chysur iddynt eu hunain

er cyflelyb iachawdwriaeth i ereill, ac er gogoniant i Dduw, yr hwn a biau y gwaith.

Sicr ydwyf, os y teimla yr holl frodyr a'r chwiorydd presen nol, ynghyda'r holl Saint yn Nghymru, mai eu dyledswydd a'u braint i'w iddynt oll gynnorthwyo y Llywydd Phillips, yn unol a'u galluoedd, i fyned yn gysurus i Seion. y bydd i'r Arglwydd eich bendithio oll. Braint i'r Llywydd Phillips, ydyw myned i Seion; a braint i ninnau ydyw cyfranu yn unol a'n galluoedd tuag at ei anfon ef yno yn gysurus.

(*Pw barhau.*)

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, CHWEFROR 11, 1854.

Yr ymfudwyr mynedol:—Hwyliodd dau gant a phedwar a thrugain o Saint Cymreig, o Lynlleifiad, ar fwrdd y llong *Golconda*, nos Iau yr 2il o'r mis hwn, rhwymedig tuag Orleans Newydd. Angorasant yngolwg y porthladd hyd boreu Sadwrn y 5med, pryd y lledasant eu hwyliau mawrion i'r dwyreinwynt, yr hwn a'u cipiodd ar frys o'n golwg ni i'r eigion gorllewinol. Pleser genym yw dweyd fod ymddygiadau yr holl gwmpeini ar hyd y ffordd i, ac yn Llynlleifiaid, yn hynod o foneddigaidd, cywir, caredig, a duwiolfrydig—heb eithriad. Cawsom y pleser o'u cyfarwyddo i'r llong yn hwylus, a'u nwyfau yn brydlawn a digolled,—o'u sefydlu yn eu lleoedd yno, ac o'u cyfarwyddo tra yno i fwynhad o'r oll a ddymunent erbyn y fordaith. Ymffrost genym yw dweyd na chlywsom air croes rhwng neb o honynt,—na welsom wg ar wêdd neb yn y llong, ac ni allwn ganmol mwy ar y chwiorydd anwyl, nag a deilynga eu hamynedd diderfyn, a'u sêl didrai dan bob amgylchiad. Ni welsom namyn undeb a chydweithrediad dieithriad i'r oll a geisid. Tra yn y llong ar yr afon hyd o fewn ychydig i'w hwyliad, pleser oedd bod yn eu plith, a gweled eu siriolded; methasom gael gan un, er perswadio yn daer, i droi yn ol i

Gymru gyda ni; eu hateb oedd, tosturio wrth ein colled ni o fethu myned gyda hwy; ac hawdd deall mai dyna oedd eu teimladau. Pan yn troi yn ol i'r lan y waith olaf, ni ellir desgrifio yr olygfa, y ffarwelo, y siglo dwylaw, a'r cofio at berthynasau a chyfeillion, yr wylo dagrau o garedigrwydd; ac fel yr hwyliai yr agerfad yn bwyllog draw, dringent oll i'r olygfa olaf, eu hetiau a'u cadachau oll yn faneri a chwifient uwch eu penau; eu llcisiau hoff a'u hofferynau cerdd a suddent oll i'r dyfnder draw oedd rhyngom. Ein gweddi barhaus fo ar i Dduw eu Tad o'i ddwrn ddihidlo dwyreinwynt teg a hyfryd ar eu hol, nes cyrhaedd y porthladd dymunol.

Heblaw y nifer uchod o Saint Cymreig, y mae ar y bwrdd braidd gynnifer o Saint o Loegr, oll o tan Lywyddiaeth Dorr P. Curtis, dyn deallus, profiadol a duwiol: ei Gynghorwyr yw yr Henuriaid, Squires a W. S. Phillips, ein ddiweddar Lywydd o Gymru. Yr oedd yn y cwmpeini hefyd amryw Lywyddion ereill, a gweision ffyddlon i Dduw, rhai ag y bydd cofiant hir a melys am eu henwau, a chofiant diolchgar am y daioni a wnaethant i laweroedd. Ffrwyth llafur arosol dyn yw y golud goreu a all adael ar ei ol, yn goffadwriaeth i'w olynwyr. Doeth y dywedai Crist "Yr wyf fi yn eich danfon chwi fel yr eloch ac y dygoch ffrwyth ag yr aroso eich ffrwyth—yr aroso y rhai a ddygasoch i'w deyrnas, yn ei gyfiawnder ef, ar yr arosont yn dragywydd yn ei deyrnas nefol; fel yr aroso eich gweithredoedd da ar gof ereill i deilyngu efelychiad; ac felly, bydded coffadwriaeth y brodyr ffyddlon a'n gadawsant ar fwrdd y *Golconda*, yn symbylu eu cydnabod i'w dilyn yn mhob daioni ac i brysuro ar eu hôl. Cynnaliwyd cyfarfodydd bob hwyr ar fwrdd y llong, a hawdd oedd canfod dylanwadau ysbryd y cariad yn mhlith yr ymfudwyr. Mewn cydsyniad a'n dymuniad arnynt, addawsant yn gyffredinol, nag anghofiant eu brodyr a'u chwiorydd a adawsant ar ol ynghaethiwed Babilon; eithr y gwnant a allant wedi cyrhaedd pen eu taith i anfon am danynt, drwy dalu i'r Gymdeithas Ymfudol yno arian eu clydiad; a boddlonwyd ni yn fawr wrth weled cynnifer a allai yn ymrwymo i hyny cyn cychwyn, drwy offrymu i'r Drysorfa gost eu cludiad presennol. Calonoga y newyddion hyn y Saint tlodion yn Nghymru i ddysgwyl eu hymwared yn fwy gobeithiol nag oll; ac etto meddwn wrth yr rhai sydd ganddynt berthynasau

neu gydnabod ar y ffordd yn myned, neu wedi cyrhaedd Seion, ysgrifenwch ar eu hôl, na adewch iddynt eich hanghofio, a llwyddiant y "weddw daer," hono a ganmola ein Harglwydd am ei thaerineb a gorono eich ymdrechiadau.

Cawsant wynt teg a hyfryd ddydd Sadwrn a dydd Sul i ddechreu eu mordaith, ac hyderir eu bod wedi cyrhaedd yn ddiangol i'r cefnfor.

---

## AMLYGRWYDD EGLWYS CRIST I'R BYD.

GOLEUNI sydd amlwg, yn hunan-eglurhäol, ac yn arddangos yr hyn oll a ddichon fod o fewn cylch ei gofleidiad: fel mai hawdd i bob perchen llygad yw gweled y dydd, ynghyd a'r gweithredoedd a wneir ynddo, mor bell a chyrhaeddiad ei olwg, pa un bynag ai da ai drwg ei gymmeriad.

Er nad oes ond y rhai a farchnatäont yn gwybod gwerth a rhinwedd y nwyddau a geir mewn masgnachdy, etto dichon y dyeithr a'r anghenog, na arferasant a marchnata yno, wybod mai masgnachdy ydyw, am fod y nwyddau, a'r arwydd uwch ben ei ddrws, yn dangos hyny iddynt mewn modd eglur ac anwadadwy.

Bwriadodd Crist i'w Eglwys fod yn amlwg; nid yn unig i'w ddysgyblion, ond hefyd i'r byd. "*Chwi yw goleuni y byd. Dinas a osodir ar fryn ni ellir ei chuddio. Ac ni oleuant ganwyll, a'i dodi dan lestr, ond mewn canwyllbren; a hi a oleua i bawb sydd yn y tŷ. Llewyrched* FELLY *eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.* Tra y bu Crist a'i apostolion ar y ddaear, yr oedd ei Eglwys ef yn eithaf amlwg; hyd nes oedd yr angrhedadyn a'r erlidiwr yn gwybod am ei swyddogion a'i haelodau, mor rwydd a'r credadyn a'r brawd. Gwaghau yr Eglwys o'i nwyddau priodol, trwy gludo iddi yn raddol draddodiadau dynion llygredig eu meddyliau, a achosodd lygredigaethau ac ymraniadau, a pheri na fedrai y byd ddirnad yn mha le y ceid gafael ar Eglwys Iesu Grist; eithr y mae bod lluoedd wedi derbyn doniau yr Ysbryd Glân yn ein hoes ni, a bod lluoedd ereill yn ymffyrnigo i'w herlid, yn brofion y deuodd yr Eglwys i'r amlwg unwaith yn ychwaneg, fel y gwypo y byd ei bodolaeth.

Mae yr Eglwys i fod yn amlwg i'r byd, yn ei SWYDDOGION.

Wedi eu galw a'u hanfon fel y galwyd ac yr anfonwyd Grist, gan Dduw, yn ol urdd Milchisedec; heb na phwrs, na chôd, nac esgidiau, ac i bregethu yr Efengyl, "Er tystiolaeth i'r byd:" y maent hefyd i weinyddu yn yr *holl* ordinhadau a sefydlodd Crist yn yr Eglwys; gan annog dynion i gredu yn Nghrist, i edifarhau am eu pechodau, i gymmeryd eu bedyddio er maddeuant pechodau i gael arddodiad dwylaw yr Henuriaid, ac i addaw i'r rhai a ufyddhäont ddawn yr Ysbryd Glân; gofynol yw fod pob un o honynt fel Ioan, yr hwn oedd *brophwyd* ac yn *bedyddio*; ac hefyd fel Paul, a'i gyd lafurwyr, "Yn canmol eu hunain wrth *bob cydwybod dynion* yngolwg Duw."

Mae yr Eglwys i fod yn amlwg i'r byd, yn ei *Haelodau*. Adnabyddir hwy wrth eu ffrwythau; y maent i flaenori mewn gweithredoedd da, fel y gwelo y byd y cyfryw mor amlwg ag y gwelir canwyll oleu ar fwrdd, mor arddangosiadol a dinas ar fryn, ac mor hunaneglur a goleuni ymëangol yr haul. Y maent i ragori mewn maddeu i'w gilydd hyd i bedwar cant a deg a phedwar ugain o weithiau y dydd; ac hefyd i fod yn amlwg eu Hunoliaeth. Dysgodd Crist undeb, mewn egwyddor; "Teyrnas wedi ymranu a anghyfaneddir, a thŷ wedi ymranu yn ei erbyn ei hun ni saif; trwy gydmariaethau; megys, cangenau y winwydden—pren, rhwyd, surdoes, teyrnas, corff, praidd, un gorlan ac un bugail; a dysgodd Crist unoliaeth yn ei weddi ar eu rhan; "Fel y byddont oll yn un; megys yr wyt ti, y Tad ynof fi, a minnau ynot ti; fel y byddont hwythau un ynom ni; *fel y credo y byd* mai tydi a'm hanfonaist i." Yn olaf y mae i'r Eglwys fod yn amlwg i'r byd yn ei HEFFEITHIAU. Gwyrthiau wrthynt eu hunain, fel gan swynwyr yr Aifft, ni phrofant ddynion yn feddiannol ar yr offeiriadaeth santaidd, ond mewn cyssylltiad ag athrawiaeth bur, a buchedd dduwiol, y maent yn profi cyflawniad o addewid Crist i'w Eglwys; "Yr arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant." Breintiau er adeiladaeth i'r Eglwys yw amryw ddoniau yr Ysbryd Glân; eithr dywedodd yr Apostol Paul, "Os prophwyda pawb, a dyfod o *un digred neu annysgedig* i mewn, efe a arghoeddir gan bawb, a fernir gan bawb; ac felly gwneir dirgelion ei galon ef yn amlwg; ac felly gan syrthio ar ei wyneb, efe a addola Dduw, gan ddywedyd fod Duw yn wir ynoch."

Saint! Nid digon dywedyd y gwyddom ni ein bod yn

Eglwys Iesu Grist; eithr dylai y byd wybod, trwy ein gweithredoedd da, ein maddeugarwch, ein hunoliaeth, a'n mwynhâd o amryw ddoniau yr Ysbryd Glân ein bod yn blant Duw. Dylem fod yn halen y ddaear, a'n hanian i fod yn flasus; megys y mêl, yn hawdd genym fod yn felus; ac fel Crist, yr hwn a ddywedodd, "Tra yr ydwyf yn y byd, goleuni y byd ydwyf."

Mae cenedlaeth ddrwg yn ceisio arwydd yn fynych, o'r fath ag na roddir iddi; ond y mae arwyddion y dylai hyd y nod cenedlaeth ddrwg eu cael; sef, "Plant yr Arglwydd, yn arwyddion a rhyfeddodau, oddiwrth Arglwydd y lluoedd," yn eu bucheddau ger bron y byd. Diammheuol ydyw y tueddir pobl wrth weled ein hymddygiadau santaidd, i naill ai cydymffurfio a ni, trwy ufyddhau i'r Efengyl a'i hordinhadau, gan gymmeryd eu dysgu i gadw pob peth a orchymynodd Iesu Grist eu cadw, neu ynte i droi a'n herlid :—Y neb a ewyllysiont fyw yn dduwiol yn Nghrist Iesu a erlidir; a byddant yn ddrych i'r byd. Taflu gemau o flaen moch, a fyddai ceisio hilio gwleddoedd yr Eglwys o flaen y byd; nid oes i'w gosod ger bron y byd namyn annogaethau at ufyddhau i'r Efengyl, trwy ddysgu i'r bobl yr egwyddorion cyntaf, a dangos iddynt ôl y fagwraeth nefol a geir yn yr Eglwys, trwy ymwadu a phob budreddi annuwioldeb a chwantau bydol, gan ymdrechu byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awrhon. Ac os erlidir ni, cawn ein dysgu a'n perffeithio trwy ddyoddefiadau.

Cwpan felus yw y cwpan cyntaf wrth geisio byw yn dduwiol; sef, parch. Yr ail sydd chwerw,—anmharch: a'r trydydd sydd chwerw hefyd,—anghlod; ond,—os awn trwy y tri, parch, anmharch, ac anghlod, nyni a gawn gwpan felus iawn yn y diwedd; sef clod nad eir drwyddo byth, "Da was da a ffyddlon—dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd."—Ac hyd y nod y pryd hyny, mewn llawenydd, fel Abraham i'r gwr goludog, nyni a fyddwn, er ein gwynfyd, yn amlwg hollol i'r byd ac efe mewn poenau.

ROBYN DDU, ERYRI.

---

## NEWYDDION EGLWYSIG CARTREFOL.

CAERFYRDDIN.—Mae argoelion llwyddiant yn y Gynnadledd hon, ac hynod ddymunol oeddynt y teimladau da a lywodraethent yr holl Saint a'r gwrandawyr, ar y Sul a'r Llun, 29 a'r 30

o'r mis diweddaf, yr oedd presennoldeb yr Ysbryd Glân yn fendithiol ac yn amlwg; cafodd yr Henuriaid hwylusdod a goleuni mawr i lafaru; tystiolaethai yr holl lywyddion cangenau mai llesol ydoedd iddynt hwy fod yno; ac ar ddiwedd y cyfarfod nos Lun, a'r mwyafrif o'r gwrandawyr lliosog heb fod yn Saint, yr olwg oedd yn hyfryd; cyd safodd, a chyd ganodd y dorf, ac ni syflodd un o'r bobl hyd nes wedi eu gollwng ymaith trwy weddi a bendithiad Llywydd y Gynnadledd.

---

## NEWYDDION EGLWYSIG TRAMOR.

Calcutta.—Y gwrandawiad sy liosog, ar gwrandawyr yn amlach nag erioed tra y traddodid Darlithiau iddynt yn mis Rhagfyr diweddaf. Ymddangosai llawer eu bod yn credu, ac ychwanegwyd tri trwy fedydd.

Yn Rangoon, ymddengys fod y gwaith yn myned rhagddo; bedyddiwyd rhai, ac y mae amryw yn credu.

Ceir newyddion cysurus o bob cwr, Cartrefol a Thramor, ac iachawdwriaeth Duw sydd o amgylch ei bobl fel mur o dân i'w gwaredu ac i'w puro, rhag gelynion allanol ac oddiwrth bob anmherffeithrwydd mewnol

---

## ARWYDDION YR AMSERAU.

Nifer pobl y byd sydd ddeg can miliwn: llefarant oddeutu tair mil a phedair a thrugain o wahanol ieithoedd; proffesant tros fil o grefyddau gwahaniaethol; ac ymranant i rifedi mor liosog a nod y bwystfil, o bleidiau anghytunol, tan yr enw Cristionogaeth! Eglwys Iesu Grist sydd Un; a mawr, ond byr waith a wna yr Arglwydd ar y ddaear. Cyflawnir prophwydoliaethau, hen a diweddar, ger bron ein llygaid, gydag amlygrwydd anwadadwy; ac amser ydyw i ddynion feddwl yn ddifrifol am ufyddhau i'r Efengyl, ynghydag ani gadw holl orchymynion Duw. Mae gwaedgwn rhyfel yn udo; bualgorn brwydro oedd ar enau ein brenines, a phob areithiwr, yn ymgasgliad dau dŷ y Senedd, ddydd Mawrth, y 31 o'r mis diweddaf; ac arth grafangog Rwssia ydyw gwrthrych camp yr helwriaeth waedlyd. Enfyn Ffrainc ddeugain mil o arfogion, ac ychwanega Lloegr ddeng mil o wyr traed, deng mil o lyngesau-

wyr, a thair mil o forfilwyr, at y miloedd sy ganddi eisioes o'r cyfryw, i'r dyben o gynnorthwyo Twrci. Arfogir dynion gan Sweden gyda phrysurdeb, heb sicrwydd gan neb o'i bwriad, heblaw y tybir mai yn milaid Rwssia y trydd; eithr ceir argoelion y saif Awstria, Prwssia, a Denmarc, gyda Lloegr a Ffrainc. Rhwng un a dau o'r gloch, boreu Gwener, 13 o'r mis diweddaf, yn ystod dudew dywyllwch, a'r holl drigolion yn cysgu, bu daeargryn arswydus, yn Ffinana, Almeria, Yspaen. Ysgydwyd a thröwyd y tir yn ddisymmwth, gan rês o sigliadau cynhyrfiol yn dilyn eu gilydd gydag ymhyrddiadau cyflym; a'u swn ymestynol oedd fel twrf taranau yn ymrolio trwy yr eangderau. Holltwyd y ddaear yn agenau anferth; darniwyd rhan o hên gastell Alcazaba yn chwilfriw; drylliwyd nifer o dai yn gyrbibion: achoswyd yn yr heolydd wagleoedd erchyll; ac anafwyd llawer o ddynion yn ofnadwy. Pläau a heintiau angheuol sy'n cyniwair trwy amrywiol wledydd; ac y mae marwolaeth feunyddiol yn llyngcu pobl wrth y nifer o un-fil-ar-ddeg a phedwar-ugain, wyth gant a phedwar ar hugain y dydd; sef, tair mil saith gant a deg-ar-hugain yr awr, neu dri-ugain bob mynyd! Er y cyfan, cynnyddu y mae rhinweddau a nifer Saint y Dyddiau Diweddaf; Ymfudodd cannoedd o honynt eleni tua Seion; a miloedd sydd etto yn ol, mewn awydd hiraethlawn am fyned yno. Yn amser rhyfel rhwng Prydain a Ffrainc, cymmerwyd amryw o wyr Lloegr yn garcharorion, ac yn eu plith dabyrddwr ieuanc; ond pan ganfyddwyd byddin Lloegr yn ennill yr oruchafiaeth, deisyfodd un o swyddogion y gelyn ar i'r bachgen dabyrddu "*Enciliad. Pa beth yw hyny?*" gofynai yntau; atebwyd mai curo y tabwrdd i alw y milwyr i gilio a ffoi. Ac ebe y bachgen, "Ni ddysgais i erioed y fath beth; ond *Awn yn mlaen* a ddysgwyd i mi!" Saint! Na ddysged neb o honom y ffordd i droi yn ol; ond *Awn yn mlaen*, ac etifeddwn fywyd tragywyddol.

## AMRYWIAETHAU, &c.

Cwestiwn.—Paham y dywedir yn rhifyn 5med o'r *Star*, mai W. S Phillips yw Llywydd yr Eglwys Gymreig, pan y dywedir yn yr Udgorn, rhifyn 1af, mai yr Henuriad D. Jones yw y Llywydd ar yr Eglwys Gymreig? Eglurhâd a foddha amryw heblaw fy hunan.—T. H. D.

ATEB.—Gwelir mai y cynnrychioliad hanner blynyddol oedd yn terfynu Rhagfyr 31,ain 1853, sydd yn y *Star*: a'r achos o'i ohiriad hyd y 5med rhifyn, oedd o herwydd esgeulusdod rhai Llywyddion Cynnadleddau i anfon eu cyfrifon i Lynlleifiaid. O'r amser uchod mae y Llywyddiaeth wedi newid, fel y dywed yr UDGORN a'r *Star* yn eglur.—GOL.

YR EURGRAWN YSGRYTHYROL,—GOSTYNGIAD EI BR:S!—Ni wyddom am well Llyfr i'w gymhell i sylw a manwl ymchwiliad Saint a byd, na'r *Eurgrawn* o tan yr amgylchiadau presennol. I'e arall fuasai ei Awdwr esgusodid ni am roddi taerach cymhelliad o'i blaid; eithr fel y mae, dywedwn ei fod y goreu a allasem ei wneyd gogyfer â'r anghenion; ac ychwanegwn ein bod yn cael mawr bleser wrth chwilio ei dudalenau; ac er fod ein manteision yn Seion, a phrofiad rhai blynyddau wedi cynnyddu ein gwybodaeth am rai pethau, etto nid oes neb anystyriol o'r pwysigrwydd o iawn gyfarwyddo y meddwl dynol tua'i dragywyddol dynghedfen, a iawn brisia deimladau yr awdwr pan fetha a chael allan, er manwl chwilio, *un cyfeiliornad* na lle i welliant yn yr *Eurgrawn*. Hyderwn y bydd Llywyddion Cynnadleddau yn awyddus i gael ei gynnorthwy i ddysgu y Saint eu dyledswyddau ac na welir teulu nag aelod heb ei feddu, a'i ystyried yn gyfaill mynwesol, yr hyn a deilynga fod. Ei bris sydd fel y canlyn:—

Mewn croen dafad, neu hanner croen llo. i'r Cynnadleddau 3s 6c; i'r Cangenau, 3s 8c; i'r cyhoedd, 3s 9c. Etto, hanner croen dafad, i'r Cyn., 3s; i'r Cang. 3s 2c; i'r cyhoedd, 3s 3c. Y neb a ewyllysio sicrhau yr "Eurgrawn" am y prisiau uchod, gwell iddynt anfon ar frys, rhag eu siomi; ac nid tebyg y daw ail argraffiad yn fuan.—GOL.

---

DERBYNIADAU O ION. 28 HYD CHWEF. 9.—Dwyr. Morganwg, £1 8c 6; Liverpool (Cym.), £1.—Cyfanswm, £2 8s 6c.

☞ Bydded ein gohebwyr yn amyneddgar.—O ddiffyg lle, gorfuwyd arnom adael amryw bethau allan y tro hwn.

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau, i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street*, *Merthyr-Tydfil*.

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Y Duw a Addolir—Pwy yw?..... | 85 |
| Cymmanfa Methyr..... | 90 |
| Golygyddiaeth..... | 93 |
| Amlygrwydd Crefydd Crist..... | 95 |
| Newyddion Eglwysig Cartrefol..... | 97 |
| Newyddion Eglwysig Tramor..... | 98 |
| Arwyddion yr Amseroedd..... | 98 |
| Amrywiaethau, &c..... | 99 |


---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14 CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 7.] CHWEFROR 18, 1854. [CYF. VII.

### Y DUW A ADDOLIR!—PWY YW?

[Parhad o dud. 90.]

MAE digon wedi ei egluro, er profi yn ddiammheuol y bod Duw Dad yn feddiannol ar gorff, rhanau, a nwydau, ac ei fod yn wrthrych addoliad; ac hefyd y bod Duw y Mab yn feddiannol ar gorff, rhanau, a nwydau, ac etto eu bod hwy yn hollbresennol, o herwydd y cyflawnder o'r Duw "Ysbryd" ag sydd ynddynt hwy; y fod y naill a'r llall yn hollwybodol, o herwydd yr *hollwybodaeth* ag sydd yn yr Ysbryd hollwybodol a feddant; eu bod yn hollalluog trwy yr hollalluogrwydd ag sydd yn y sylwedd ysbrydol hwn. O herwydd y deallant eu ddeddfau yr ufyddha iddynt yn mhob peth; megys, er enghraifft, pan yr ymsymmudodd ar wyneb y dyfnder yn y dechreuad, ac yr ymreoleiddiodd yr holl elfenau drwyddo, canys "y mae efe yn mhob peth, a thrwy bob peth," nes y cyhoeddodd y Gorchymynwr, bob peth "yn dda iawn." Fel hyn y "cynnalia efe bob peth trwy air ei nerth." Felly, pe byddai miliynau o fodau yn Dduwiau oll, gellid addoli yr oll heb addoli ond un Duw. Mae ein gosodiad blaenorol o gredu personoliaeth a hollbresennoldeb Duw, wedi ei brofi yn modoldeb y ddau Dduwiau unol hyn; a gwelir fod y Saint yn addoli y gwir a'r bywiol Dduw, tra yr addola eu gwrthwynebwyr "yr hyn ni wyddant," neu "y Duw nid adwaenir."

Yn nesaf, anturiwn brofi mai tynghedfen holl feibion daearol Duw, pa rai ydynt ddynion yn gwisgo cnawd llygredig, yw

cyrhaedd yn Dduwiau perffaith, hollalluog a hollwybodol. Ymresymir mai anmhosibl i hyny fod, o herwydd mai "galluoedd meidrol" sydd gan ddyn, meddir, ac nad all meidroldeb byth gyrhaedd anfeidroldeb. Eithr ni chaniatawn mai meidrol yw galluoedd dyn. Pwy a welodd ddyn a allodd gredu un gwirionedd, heb allu credu yr ail, a'r trydydd, a'r pedwarydd. Nid yw yr anhawsderau ag sydd ar y ffordd i gredu ychwaneg yn profi ei analluogrwydd; canys symmuder y rhwystrau, ac efe a greda fwyfwy o hyd. Os oes gallu dynol ynddo, yr hyn a brofir drwy iddo gredu y gwirionedd cyntaf, ni ddirnadwn paham nad alla gynnyddu o wirionedd i wirionedd, nes y cyrhaedda yr oll ag sydd gan unrhyw fôd. Pwy a all gofio cyfnod neu amgylchiad arno ei hun, pryd nad allasai gredu un peth yn rhagor? Pwy a ddywed pa bryd, neu dan ba amgylchiad, y dichon iddo fod, fel nas gall dderbyn unrhyw wybodaeth ychwanegol, tu yma i gyrhaedd y cyflawnder o bob gwybodaeth a fedda Duw? Gweler, ynte, nad y *galluoedd* sydd yn feidrol, ond y *wybodaeth* a feddwn meidrol yw, etto yn cynnyddu tuag at anfeidroldeb bob ychwanegiad ati. Y grediniaeth o feidroldeb y galluoedd dynol a achosa i ddiwinyddion ddysgu mai anmhosibl i ddyn byth gyrhaedd cyflawnder gwybaeth, nac o ganlyniad, y gall byth ddyfod yn Dduw; eithr gwelir y fod galluoedd dyn, nid yn unig yn dragywyddol ac anfeidrol, a'i fod yn alluog i dderbyn pob gwybodaeth a ddysgir iddo, eithr hefyd ei fod yn gyfryw na ddigonir byth mo hono, hyd nes eu diwallir â hollwybodaeth. Profasom eisoes mai cynnyddol oedd gwybodaeth Mab Duw, o wirionedd i wirionedd, yn llin ar lin, nes y "cyflawnwyd ef â holl gyflawnder Duw;" dyna brawf o gynnyddiant un galluoedd meidrol hyd anfeidroldeb. Yn nesaf ceir profion ysgrythyrol, nid yn unig y dichon meidroldeb pob dyn gyrhaedd anfeidroldeb; ond trwy y dywediadau canlynol deallir fod Duw, naill ai wedi creu galluoedd mewn dyn yn bwrpasol, a bwriadol iddo gyrhaedd anfeidroldeb ryw bryd, neu y fod gweddiau Iesu Grist ar ei Dad yn ofer, pan yn dymuno ar fod ei holl frodyr a gredent ynddo ef, yn un ynddo ef, *megys* yr oedd efe yn y Tad, sef mewn gwybodaeth a gallu; fel y byddont hwythau OLL yn UN ynddo ef mewn pob cyflawnder a feddai Efe. Os nad yw y Saint i gynnyddu hyd hollwybodaeth, gallu, a pherffeithrwydd

Duw, gofynwn i ba beth y bwriadwyd crefydd? Beth amgen yw dyben trefn yr iachawdwriaeth? Pa fodd y dichon i Dduw fod yn achubydd dyn, hyd nes y perffeithia Efe ef yn gyffelyb iddo ei hun yn mhob peth. Gan mai Efe yw y safon o berffeithrwydd—mai ei ddiben a'i amcan yn yr oll yw gwneyd ei blant yn berffaith—mai ei Ysbryd Glân yw y perffeithydd neu y santeiddydd; a chan y gorchymyna Iesu Grist iddynt fod yn berffaith, megys y mae eu Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith; yna, yr hwn a wada y posiblrwydd i allu meidrol presennol ei blant gynnyddu hyd anfeidroldeb, a gyhudda Dduw o fod yn eu gorchymyn i ufyddhau i anmhosiblrwydd creadigol o'i waith ei hun. Os nad yw y cynnyddiant dynol i anfeidroldeb yn bosibl, yna gweddiai Paul i'r Ephesiaid dderbyn anmhosiblrwydd, pan y dywed yn mhen. iii, 18, 19,—"Fel y galloch, wedi eich gwreiddio a'ch selio mewn cariad, amgyffred gyda'r holl saint, beth yw y lled, a'r hyd, a'r dyfnder, a'r uchder; a gwybod cariad Crist, yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth, fel y'ch cyflawner â holl gyflawnder Duw." Oni fyddant mor anfeidrol ag unrhyw bersonau dwyfol ereill, pan y byddant "wedi eu cyflawni â holl gyflawnder Duw?" Yna byddant yn anfeidrol, serch mai gallucedd dynol a feddent tra yn y cnawd. Y Duw hwn yw y cyflawnder o berffeithrwydd y priodoliaethau ag y soniasom am dano eisoes. A phan y preswylia hwn yn y Saint, nad faint fydd o honynt, bydd pob un yn gwybod pob peth a wyr y Tad a'r Mab. Ni fydd un dim a wyr un na'r oll o'r Duwiau yn ei wybod, ar na fydd pob un o'r Saint wedi dyfod i wybodaeth o hono hefyd. Cyd-dystia Ioan â ni yn hyn yn eglur, yn 1 Ioan iii, 2,—"Anwylyd, yr awrhon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd etto beth a fyddwn: eithr ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo; oblegid ni a gawn ei weled Ef megys ag y mae." Nid "yn gyffelyb iddo" o ran ein cyrff yn unig, ond hefyd ein gwybodaeth a'n gallu; canys dywedir yn Phil. iii, 21,—"Yr hwn a gyfnewidia ein corff marwol ni, fel y gwneler ef yr un ffurf a'i gorff gogoneddus ef, yn ol y nerthol weithrediad trwy yr hwn y dichon efe, ïe, ddarostwng pob peth iddo ei hun." Y pryd hyn y byddant berffaith, megys y mae eu Tad yn berffaith, yn hur fel efe; yna yr adnabyddant megys eu hadnabyddir, gan y bydddant oll yn hollwybodol; y gwelant megys eu gwelir

canys byddant hollbresennol, yn feddiannol ar bob peth, canys dywedir yn Rhuf. viii, 16, 17, 30,—"Y mae yr Ysbryd hwn yn cyd-dystioliaethu â'n hysbryd ni, ein bod ni yn blant i Dduw. Ac os plant, etifeddion hefyd; sef etifeddion i Dduw, a chyd-eitfeddion â Christ: os ydym yn cyd-ddyoddef gydag ef, fel ein cyd ogonedder hefyd. A'r rhai a ragluniodd efe, y rhai hyny hefyd a alwodd efe; a'r rhai a alwodd efe, y rhai hyny hefyd a gyfiawnhâodd efe; a'r rhai a gyfiawnhâodd efe, y rhai hyny hefyd a ogoneddodd efe." Hefyd, dywedir "y mae pob peth yn eiddo chwi, a chwithau yn eiddo Crist, a Christ yn eiddo Duw." Nid cyn y cynnydda eu galluoedd meidrol hwy, megys y cynnyddodd galluoedd meidrol eu brawd hynaf i gyfiawnder anfeidroldeb y Duwdod, y bydd pob peth yn eiddynt hwy. Ni welwn ni ddim mwy anmhriodoldeb i gredu fod galluoedd y brodyr ieuengaf i gynnyddu i anfeidroldeb, nag oedd i'r brawd hynaf; na dim mwy anghysson i'r naill o'i blant, wedi dyfod yn Dduwiau, feddu pob peth, fwy nag i'r un o'r lleill a gyrhaeddasant y cyflawnder o'r Duwdod o'u blaen hwy, feddu pob peth; canys, yr oedd yr oll yn gwneyd pob peth ac yn mhob peth, yn yr un ystyr, ac felly hwy a bïa bob peth.

Y pryd hyny, mor briodol y gall yr holl Saint ddweyd eu bod hwy "cyn pob peth," o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb heb ddechreu na diwedd iddynt hwy na'u gweithredoedd, ag yw i Iesu Grist, y Tad, neu un Duw arall ddweyd hyny. Y pryd hyny, dywed y naill wrth y llall, Yr wyf fi ynot ti, a thithau ynof finnau, mor briodol ag y dywedodd Iesu Grist hyny wrth ei Dad; ac nid gwir na phosibl hyn fel personau; ond o ran y Duwdod ag sydd ynddynt, mae mor briodol i'r naill ag i'r llall, pe llall hefyd; canys un *Duw* fyddant, er yn wahanol *bersonau.* Yn 2 Cor. iii, 18,—"Eithr nyni oll, ag wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megys mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoninnt, megys gan Ysbryd yr Arglwydd." Erbyn y delo "Ysbryd yr Arglwydd" a hwy oll "i'r unrhyw ddelw," yna mwynhant yr un gogoniant ag Ef, ac â'u gilydd.

Wedi geni dynion o Dduw drwy ddwfr a'r Ysbryd, y mae cyfran o'r Duwdod yn cael ei blanu ynddynt, yr hyn yw "dawn yr Ysbryd Glân;" dysgwylia Duw y cynnyddiant o

hwn ynddynt yn barhaus trwy ymwrthodiad â'r drwg, ac ufydd-dod iddo Ef, hyd nes eu perffeithio drwyddo, a chael o honynt deml, anllygredig yn yr adgyfodiad cyntaf. Etto, nid y pryd hyny chwaith, oddieithr y fod cyfran o'r Duwdod yn preswylio ynddynt yma; canys dywedir yn 1 Ioan iv, 12, 13,— "Ni welodd neb Dduw erioed. Os carwn ni ein gilydd, y mae Duw yn trigo ynom, ac y mae ei gariad ef yn berffeith ynom. Wrth hyn y gwyddom ein bod yn trigo ynddo Ef, ac yntau ynom ninnau, am ddarfod iddo roddi i ni o'i Ysbryd." Yr Ysbryd hwn a breswylia ynddynt nes eu dwyn ar ddelw eu Tad, fel y dywed Paul,—"Os ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu oddiwrth y meirw sydd yn trigo ynoch, yr hwn a gyfododd Grist oddiwrth y meirw, a fywioca hefyd eich cyrff marwol chwi trwy ei Ysbryd yr hwn sydd ynoch chwi." Profasom hefyd eu bod nid yn unig ar ei ddelw gorfforol, ond yn feddiannol ar ei holl berffeithrwydd ef yn mhob dull, ac y cyd-etifeddant bob peth ag ef; ac felly cyd-deyrnasant ag ef mewn gogoniant. Yna bydd eu llywodraeth dros bob peth, o herwydd bydd pob peth wedi ei ddarostwng iddynt, a byddant fwy na choncwerwyr ar bob peth. Byddant yn "Freninoedd ac yn Offeiriaid i Dduw, a theyrnasant gydag ef ar y ddaear." Bydd y gair DUW yn weledig ar dalcen pob un o'r dyrfa liosog; ac nid i arwyddo yr hyn NI fyddant, ond pawb a adwaenant eu bod yn teilyngu yr ENW a fydd arnynt, canys Duwiau a fyddant, yn meddu y cyflawnder o'r DUWDOD. O ddedwyddolion! Pwy na ystyria y mwynhad sylweddol, ac nid ffugiol nac "ansylweddol," o'r perffeithrwydd, y gogoniant a'r gallu hwn, yn werth dyoddef pob peth er ei fwyn? Nid rhyfedd i blant Duw gynt ddiystyru golud y byd, mewn cyferbyniad i'r anchwiliadwy olud hwn. Cymhwys y gallasant ddibrisio gorsedd-feingciau dacarol ac amserol, wedi cael cipolwg ar y rhai tragywyddol a nefol hyn. Pwy a'i hiawn ystyria, ar nad ymdrecha, i ymberffeithio drwy santeiddiad Ysbryd Duw, i fod yn addas i'r oruchel gwmniaeth hyn? Cofier nad â i mewn i'r gogoniant hwn ddim aflan na halogedig! Braint anmhrisiadwy yw cael dyfod yn blant mabwysiadol i Dduw; canys i gynnifer a'i derbyniasant ef, "efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw." Mawr yw dyled y rhai a gawsant yr oruchel fraint o gael eu geni o'r Duwdod hwn, i wylied a gweddio, rhag tristâu ei Ysbryd ef

oddiwrthynt mewn un modd; canys hebddo gweler na ddeuant byth yn debyg i'w Tad. Saint anwyl, magwn, a meithrinwn y ddwyfol anian hon hyd y cyflawnder.

*(I'w barhau.)*

---

## CYMMANFA MERTHYR.

### CRYNODEB O'R HYN A WNAED AC A DDYWEDWYD YN Y GYMMANFA UCHOD.

[Parhad o dud. 93]

Mae i bawb, yn yr Eglwys hon, eu hamrywiol freintiau; ac wrth i bob un gyflawni ei ddyledswyddau, a phawb oll i gynnorthwyo eu gilydd ynghyflawniad eu dyledswyddau, eu bendithir gan Dduw. Mae pob egwyddor a phob athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb yn dda; ac ni ddylai neb eiddigeddu, ond tros ogoniant Duw. Difoder o'n plith bob eiddigedd am gael swydd, ac am gael a deimlwn yn hawliau i ni yn y peth hyn a'r peth arall: eithr ein eiddigedd ni oll a fyddo tros gynnal i fyny y rhai sy mewn swyddau, fel ein cynnalier ninnau yn ein gwahanol gylchoedd; a gofalwn fod yr oll a wnelom, yn tueddu at anrhydeddu Arglwydd y lluoedd, canys pob swydd a phob dylanwad a feddwn, sydd eiddo yr Arglwydd.

Gofalwn ddywedyd yn dda ac yn barchus am weision Duw; a'r dull goreu i'n cymhell at hyny, ydyw peidio a llochesu ammheuon a theimladau anymunol am danynt na thuag attynt. Gweddiwn tros y rhai sy'n myned i Seion. Y neb a iselo, neu a gefnogo ereill yn eu cais at iselu cymmeriad y Llywydd Phillips, wedi yr elo ymaith, a iselir, ac a arweiniant eu gilydd i uffern; canys a pha fesur y mesuroch, yr adfesurir i chwithau.

Nyni a dderbyniasom yr unrhyw brynedigaeth; yr ydym yn yr unrhyw gyfammod newydd; cawsom ein bedyddio i'r un ffydd, trwy yr unrhyw fedydd, er maddeuant pechodau; ac yr ydym yn un Eglwys Iesu Grist, a sefydlwyd gan yr un Arglwydd Dduw, er iachawdwriaeth dynion. Derbyniasom, ac am hyny cadwn a chofleidiwn egwyddorion y Gwirionedd,—egwyddorion y bywyd tragywyddol, ac yna nis gall y byd ein hyspeilio. Dëallwn a gwnawn ein holl ddyledswyddau, a bydd

i Dduw ein bendithio, ein cynnal, a'n cadw yn dragywydd. Y dyn goreu, yw y dyn sydd yn deall ac yn gwneyd ei ddyledswyddau oreu.

Anfonwyd ataf, mewn perthynas i'r "Drysorfa Ymfudol Barhaus." Trysorfa ydyw hon a ffurfiwyd ac a gyfansoddwyd yn unol a chyfraith y tir. Anfonir yr arian i'r llywyddiaeth yn Liverpool, ac oddi yno i ddwylaw yr awdurdodau yr ochr draw i'r môr, yn Seion: dodir yr arian mewn gweithrediad i gynnyddu, fel eu llïosoger at anfon cantoedd a miloedd o Saint i Seion yn awr, ac mewn amseroedd dyfodol; nid oes un sail nag achos i neb personau ammheu nac ofni y gwneir cam a hwynt, mewn un modd; a chaiff pawb, o dro i dro, y fraint o fyned adref i Seion. Rhoddir yn awr fenthyg tair pynt, i bob un a dalo ddeg pynt at ymfudo; bydd i'r rhai a gymmerant y benthyg, dalu hyny ol, wrth eu gallu; ac ychwanegir y cyfryw daliadau at y swmiau, yn y Drysorfa Ymfudol: ac felly, galluogir lluoedd rhagllaw i fyned hefyd tuag adref. Mae'r cynllun, fel pob peth arall sy'n perthyn i Formoniaeth, yn garedigol, yn nerthol, ac yn gynnyddol er daioni i'r holl Saint, ac nid oes yma un pleidgarwch i neb mwy na'u gilydd; ond pawb oll i gyfranu, yn wirfoddol, ac yn ol eu gallu; a phawb oll i fwynhau yn gyfartal o'r cysuron annhraethol sydd yn ein haros.

Dichon mai hwn ydyw y tro olaf i mi gael eich cyfarch yn Merthyr: o leiaf, yr wyf yn gobeithio hyny, am fod i mi berthynasau ac anwylion yn fy aros draw. Bendithied Duw ni a nerth i allu myned trwy holl amryw olygfeydd y bywyd hwn, nes ein myned oll i fwynhau cysuron Seion, ynghyd a chysuron di ball y bywyd tragywyddol. Nid wyf yn adwaen nemawr yn Nghymru, wrth eu henwau; ond yr wyf yn mawr lawenhau yn yr hyn a wnaed ynoch, ganddoch, a thrwyddoch, yn yr amser a aeth heibio: yr wyf, hefyd, yn mawr lawenhau yn y gobeithiadau sydd o'n blaen, ac wrth feddwl am yr amser y caf gydgymdeithasu ag Apostolion, prophwydi, ac ereill o weision Duw yn Seion. Yr wyf yn llawenhau, gan eich annog, i bob ffyddlondeb, diwydrwydd, a dyfal barhad, gyda phenderfyniadau cywir, yn y gwaith a'r llafur cariad gogoneddus, ag y sydd yn dwyn cymmaint lles i ddynion, cymmaint dedwyddwch i'r Saint, a chymmaint testunau rhoddi mawl annherfynol a gogoneddus, i'r Hollalluog Dduw, trwy Iesu Grist. Amen.

Canwyd unsain, gan y brawd William Jones, a chydgor, yn ardderchog iawn.

Y Llywydd Jones,—Meddyliwyf fod yma bawb yn teimlo eu hunain yn gysurus a thra dedwydd; a bod yma rai yn dechreu ymholi. "Pa fodd i gadw a dal gafael ar y mwynhâd cysurus hwn?" Fy atteb, ydyw mai trwy wneyd yr hyn a gais yr Arglwydd genym. Mae y Llywydd Richards, yn llawenhau wrth *weled* yr arwyddion dymunol, er na ddeall ef yr iaith a lafarwn; ond yr un yw Duw, i'r Cymry, i'r Saeson, ac i bob ieithoedd a phobloedd ag a alwant arno; mae'r Duw hwnw yn Dduw y Cariad; dysgwn ninnau ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni; a charwn ein gilydd, yn ac o herwydd ein tybygolrwydd iddo ef. Y bobl sydd yn caru, a arferant ddweyd yn dda wrth ereill am eu gilydd; cariad a guddia liaws o bechodau, a charwn ninnau fel y dysgom lafaru yn dda y naill am y llall bob amser. Mor deg yw traed y rhai sydd yn efengylu tangnefedd, ac yn cyhoeddi heddwch! Llafarwn ddaioni, fel y byddo yn dda gan bobl glywed swn ein cerddediad a'n gweled yn dyfod i'w tai. Nid oes genyf fi *amser* i fyned ac amddiffyn fy nghymmeriad; i'w ofal ac i'w gadwraeth anffaeledig Ef y gadawaf hyny.

Y Bugail Thomas Jeremy,—Gan i mi gael y fraint o ufyddhau i'r Efengyl, a mwynhau tystiolaeth o wirionedd y Grefydd hon, difyr ydyw genyf gael dywedyd gair, gyda theimladau diolchgar, am y ddysgeidiaeth a gefais yma heddyw. ar hyd y dydd; y mae yr addysg i mi fel y mêl. Gadawais deulu anwyl, o wraig a phlant, yn Seion; i gyhoeddi yr Efengyl, ac i annog y Saint, yngeiriau Paul, "Meddyliwch am eich blaenoriaid, yn yr Eglwys, ffydd y rhai dylynwch." Mae ffydd y blaenoriaid, yn yr Eglwys hon. fel ffydd y Patriarchiaid; fel ffydd Moses, ar prophwydi; ac fel ffydd yr Apostolion, yn nyddiau Crist; sef, ffydd er iechydwriaeth, ffydd yngweinidogaeth angylion, a ffydd yngwahaniaethol ddoniau yr Ysbryd Glân. Ymdrechwn ddylyn yr un ffydd a hwynt, fel y mwynhäom yr un fath wybodaeth ag a fwynhasant hwy; dylynwn yr un ffydd, fel y derbyniom yr un cyffelyb fendithion, ynghyd a'r un bywyd tragywyddol ag a dderbyniasant hwy.

Pe gwnelai rhyw wr cyfoethog ei ewyllys, a gadael ei holl eiddo i'w berthynasau, ni byddai gobaith i mi, os heb wybod fy

mod yn un o'i berthynasau; nid oes gobaith chwaith, am fwynhâu o'r breintiau sy gan blant Duw, ond i'r rhai a ufyddhant i Efengyl Duw; gan hyny, mynwn gael gwybod ein bod ni yn blant iddo ef, ac yn etifeddion yr addewidion mawr iawn a gwerthfawr, a drysorodd efe i'w blant, yn Nghrist Iesu ein Harglwydd, Amen.

Canwyd gan y côr.

*(Pw barhau.)*

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, CHWEFROR 18, 1854.

NEWYDDION da ag sydd yn peri llawenydd mawr i holl garwyr Duw,—i wir gyfeillion Iesu Grist, yw yr hyn y mae yn fraint i ni ei gyhoeddi drwy ein cyhoeddiad bychan; sef y fod ei deyrnas ef yn myned ar gynnydd—fod ei gyfraith Ef yn rhedeg drwy'r byd mor gyflym ag y mae, ac yn ennill ufyddion iddi ei hun: llawenydd yw genym gyhoeddi ei llwyddiant yn ein gwlad ein hunain; gan ein bod ni yn gwybod fod y Duw hollalluog wrth y llyw yn mhob peth, ein hymddiried disigl fydd ynddo Ef, a thrwyddo Ef yn ein gilydd, fel cydweithwyr Duw. Yr arwyddion egluraf o lwyddiant yr efengyl yw duwioldeb buchedd, a chynnyddiant doethineb a chariad ei phroffeswyr. Testunau newyddion o lawenydd rhodded y Saint i'w gilydd, ac i'w Llywyddion yn barhaus, trwy arddanghosiadau amlycach o gynnyddiant y Duw-DOD i'w calonau, profadwy yn eu gweithredoedd. Duw-DEBYG a gerfier ar bob gweithred o'u heiddo mor amlwg i'r byd, ag y bydd amlygrwydd yr "enw newydd," hwnw, sef "Duw," ar dalcenau ei holl blant yn y dydd a ddaw. Pleser genym ganfod argoelion o hyn yn ohebiaethau ein gohebwyr, wrth law, y rhai y caiff ereill y pleser o'u darllen hefyd, gynted y b'o lle; caffed amynedd ei pherffaith waith fel y cawn ninnau ei pherchenogion yn barhaus.

## Y DIRYWIAD ANGHRISTAIDD.

GAN ROBYN DDU, ERYRI.

Rhoddodd Duw, i ddynion amrywiol Oruchwyliaethau, gan addaw "Goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd;" ac o herwydd ei fod yn perchen pob perffeithrwydd, ni ddadguddiodd ef ond un drefn achub pechadur, ac ni chydnabyddodd ef ond *un Eglwys* i gyhoeddi yr unrhyw drefn, yn yr holl amrywiol Oruchwyliaethau.

Gan y ceir, yn ein dydd a'n gwlad, liaws o wrthbleidiau yn arddelwi crefydd, a phob plaid yn haeru mai ei hunan, ac nid arall, sydd Eglwys i Grist, nyni a chwiliwn am yr *Achos* dechreuol o'u hymbleidiaeth, gan osod y cyfreswm canlynol yn sail i'n hymofyniad: sef, "I bob effaith, mae achos: mae effaith a'i hachos, bob amser yr un natur a'u gilydd: ac o ganlyniad, y mae yn rhaid i unoliaeth yr Eglwys, a'i dirywiad ymraniadol, fod wedi tarddu oddiar achosion, mor wahaniaethol y naill oddiwrth llall, ag ydyw y gwahaniaeth sy rhwng yr undeb a'r ymraniad a effeithir ganddynt.

Rhwyddhäwn ein ffordd, trwy gyferbynu Goruchwyliaeth Moses ag eiddo Crist. Yn hanes y naill, ceir fod Duw yn dadguddio ac yn dangos ei gyfrinach i'w weision y prophwydi; fod yr Eglwys mewn undeb, yn cadw y gorchymynion a ddadguddiai yr Arglwydd iddi yn barhaus trwy ei weision, a'i bod yn mwynhau gweinidogaeth angylion, prophwydi, ac amryw swyddogion yr offeiriadaeth santaidd, a bod gwyrthiau yn ei chanlyn.

Yn hanes y llall, ceir i'r Ysbryd Glân lenwi dyscyblion Crist; y derbyniasant eu cennadwri trwy ddadguddiad; fod yr Eglwys yn *un* a chytun, gan gadw pob peth a orchymynodd Iesu Grist eu cadw; a'i bod yn mwynhau gweinidogaeth angylion, prophwydi, apostolion, athrawon, a bugeiliaid; a bod gwyrthiau yn canlyn y rhai oll a gredasant yr Efengyl gan ufyddhau i'w *holl* ordinhadau.

Yn y naill, canfyddir etto i'r bobl ymlygru a lladd gweision Duw; iddynt fyned i gaethiwed, ac y dychwelasant heb ganddynt nag arch y cyfammod, na dim o'i ddodrefn; a'u bod, o ganlyniad, wedi eu hamddifadu o'r dadguddiadau dwyfol; fel, oblegid hyny, yr aethant i dywyllwch mawr, ac yr ymran-

asant i lawer o sectau; megys, Libertiniaid Gaulonitiaid, Herodianiaid, Epicureaid, Stoiciaid, Gnosticiaid, Nicoleaid, Nazarëaid, Zelotiaid, amryw sectau o Phariseaid, Saducëaid, Samariaid, a llawer ereill.

Yn y llall, gwelir etto i'r bobl ymlygru a lladd gweision Duw; ac, o ganlyniad, yr anddifadwyd hwythau o'r dadguddiadau dwyfol; fel, oblegid hyny, yr aethant yn yr un modd a'r Iuddewon gynt, i dywyllwch mawr, ac yr ymranasant i liaws o sectau; yr hyn, yn ol yr Hanes Eglwysig, gan Mosheim, Gahan, ac ereill, a ddechreuodd yn raddol, fel y canlyn:—

*O.C.*

100. mlynedd:—Yr oedd yr holl Apostolion, oddigerth Ioan wedi eu lladd: daeth Ioan o ynys Patmos, yn y fl-98.

200. Taenellwyd dyn claf yn ei wely, am y credent fod bedydd yn angenrheidiol er maddeuant pechodau; eithr wedi ei iachâd, ni dderbynient ef yn aelod Eglwysig, am yr ammheuent nad iawn eu dull o feddyddio trwy daenelliad. Gahan.

300. Dechreuwyd taenellu babanod, y waith gyntaf erioed. Mosheim, Vol 2. t. d. 69. Gahan. 93.

323. Unwyd yr Eglwys wrth y wladwriaeth; gan Gystenyn Fawr.

325. Cynnaliwyd Cymmanfa, a mabwysiadwyd cyfeiliornadau Nice.

570. Diflanodd yr holl ddoniau gwyrthiol o'r Eglwys. Mosheim.

606. Rhoddwyd y titl Pab, y tro cyntaf, i Boniface y trydydd.

608. Cododd Mohammed, a chrefydd yr Alcoran, o ogof Mecca.

900. *Ymranodd* Eglwys Groeg allan o Eglwys Rhufain, a sefydlodd ei hun yn Constantinople, a'r ddwy yn lladd a llosgi a allont o anghydffurfwyr.

1200. *Ymranodd* y Waldensiaid, dan Peter Waldo, masgnachwr o Lyons: a'r Albigeniaid, y dyfethwyd lliaws o honynt yn Piedmont, gan filwyr y Pab Pius. iii.

1483. *Ymranodd* y Lutheriaid, dan Martin Luther.

1523. *Ymranodd* Eglwys Loegr, dan Harri yr wythfed.

1536. *Ymranodd* y Bedyddwyr, dan Simon Menno; cyn

offeiriad Pabaidd, ganedig o Friesland. Buck's Theological Dictionary, t. d. 35.

1600. *Ymranodd* y Presbyteriaid, dan John Knox; dyscybl i Calvin.

1700. *Ymranodd* y Crynwyr, dan George Fox; rheoleiddiwyd hwy gan William Pen, a Barclay.

1729. *Ymranodd* y Wesleaid, dan John Wesley; yr hwn ag ef yn bresbyter yn Eglwys Loegr, a ordeiniodd ddyn o'r enw Thomas Coke yn esgob!

1746. *Ymranodd* y diwygiad o Eglwys Allmaen, dan Michael Schlatter; a chyd rhwng y Trefnyddion Calfinaidd, yr unarddeg ymraniadau Wesleaidd, yr Annibynwyr, yr amryw ymraniadau Presbyteraidd, yr Undodiaid, y Sandimaniaid, yr Ariaid, y Swedenborgiaid, y Sabeliaid, a'r holl ymraniadau rhy liosog i'w henwi, mae gan y flwyddyn 1854 sectau a'u henw yn lleng.

Mae yr hanesyddiaeth flaenorol yn amlygu, mai cael a derbyn Dadguddiadau oddiwrth Dduw, trwy ei weision, oedd yr achos o'r Undeb a'r bendithion a fwynheid yn yr Eglwys dan y ddwy Oruchwyliaeth; ac mai y llygredd, a barodd lladd y gweision hyny, yw yr achos o'r holl ymraniadau, a gymmerasant le cyn a gwedi dyddiau Crist a'i apostolion. Mae hyn yn ein harwain, gyda gorfodaeth, i benderfyniad pwysig: sef, fel y mae y dadguddiadau dwyfol, a'r undeb perthynol i'r Eglwys, yn achos ac effaith dda; felly, y mae y llygredigaeth a barodd yr amddifadrwydd o'r cyfryw ddadguddiadau, ynghyd a'r ymraniadau gwrthbleidiol a ddylynodd hyny, yn achos ac effaith ddrwg: a chan na all achos drwg ddwyn effaith dda, mwy nag y dichon i achos da ddwyn effaith ddrwg, nis gall chwaith yr ymraniadau sectyddol, mwy na'r llygredd a'u hachosodd, fod yn eiddo Crist.

*(I'w barhau.)*

---

## CAIS AT DDEHONGLIAD Y DDAMMEG,

*Yr hon a ymddangosodd yn rhifyn 3ydd o* UDGORN SEION.

SYR,—Wedi gweled Dammeg y Boneddwr a'i Fab yn yr UDGORN, a'r gofyniadau ar ei hol, cynnygiaf yn fyr fy meddyliau drych am dani.

Y gofyniad cyntaf,—Pwy yw y personau cyfeiriedig, sef y Tad, y Mab, a'r etifedd?

*Ateb*: Y Tad yw Duw y Nefoedd; sef y byd wedi ei Nefoleiddio, ei berffeithio, a'i ogoneddu. Y Mab yw Adda, a'r *Etifedd* yw Iesu Grist.

Yr ail ofyniad,—Y Palas a'r gwyddfodolion?

*Ateb:* Y Palas yw Cartrefle y Mab, neu Adda yn y byd nefol. Y Gwyddfodolion yw hiliogaeth Adda, sef yr ysbrydion cenedledig, y rhai oeddynt braidd wedi llenwi ei etifeddiaeth yn y byd nefol.

Y trydydd gofyniad,—sef, "Ai Priodol," &c?

*Ateb:* Ië, priodol yn ol fel y dywed y Ddammeg am yr addauned a wnaed, a boddlonodd, nid yn unig y Mab i'w trosglwyddo i ofal ei Dad am amser, ond hefyd cydsyniasant oll fel teulu mawr, a chanasant mewn llawenydd am y cynnygiad; nid yn unig hyny, ond hefyd i fyned yn eiddo i'w Taid, yn gymmaint ag os byddai i'w Tad eu hangofio, a throseddu ammodau y freintlen, yr hyn yn sicr a fu; ond er hyn oll, trwy gyfryngoliaeth yr Etifedd, adferir hwy oll i'w Tad a'i cenedlodd.

Y gofyniad olaf,—Y "Wlad bell."?

*Ateb*: Y wlad bell yw y Ddaear hon. Y modd yr effeithiodd y ffrwythau oedd, wedi iddynt breswylio yn y "wlad bell" (y Ddaear) am ysbaid o amser, yr oedd yn fath gyfnewidiad, hyd nes yr oeddynt yn cael eu troi yn raddol yn ddaearol, yr hyn oedd yn diswyddo y côf am bethau a fu, ac a oedd i fod, &c. Ac hefyd, trwy fwyta o'r ffrwyth gwaharddedig.

*Dyffryn Conwy.* WILLIAM DAVIES, Ieu.

[Cyhoeddasom y dehongliad blaenorol o blith lliaws o ddehongliadau a gynnygiwyd; yn un peth, o herwydd ei fyrdra i'n tudalenau bychain. Os na foddloner, anfoner ei wallau a'i welliant.—Gwel *Perl o Fawr Bris*, tud. 2.—GOL.]

---

## DAMMEG ARALL.

GAN fod ein gohebwyr mor barod i ddysgu egwyddorion pwysig trwy ddammegion, porthwn hwynt â'r hyn a wna iddynt fawr les ei ddeall a'i ddehongli, sef:—

SIARAD PLANT.

"O Deio, wyddost ti beth! tyr'd yma ar frys, rhed," ebe

crotyn bach yn ei bais, dan redeg heibio ein penelin un boreu, a'i damaid yn ei law, "mi fetia i ddimeu â ti, nad elli di ddim gesio pwy sydd wedi dod i'n tŷ ni; yn awr dywed os gelli." "Gallaf mi wrantaf," ebe Deio, canys yr oedd efe eisoes wedi clywed y newydd. "Wel, dyma'r ddimeu os dywedi," ebe Moses bach, yr hwn oedd newydd ei chael am fyned allan i chwarae. "Babi bach sydd yna," ebe Deio, "dyro i mi y ddimeu yn awr." Deallid wrth wynebpryd Moses, fod rhyfel yn ei feddwl, pa un ai colli ei ddimeu ai colli ei eirwiredd a wnai, eithr dewisodd y blaenaf, gan ddweyd, "Wel Deio, gan i ti ennill y ddimeu, betia etto." "Gwnaf," ebe Deio yn eofn, "beth nesaf." "Mi fetia ni elli ddweyd pa un ai bachgen ai geneth yw." "Geneth, at y fenter," ebe Deio yn wrol. "Nage yn wir, bachgen ydi o, dyro fy nimeu yn ol," ebe Moses. "Wel Deio, gan i ti fod mor onest, mi fetia i â ti etto." "Beth a feti nesa' Mo's." "Wel, mi fetia na wyddost ti ddim o ba le y daeth y babi; yn awr Deio, dyna bwsl i ti." "O gwn o'r goreu, onid dy fam a'i ganodd yr un dwl, o ble arall y doi ef?" "Nage wir, Deio, dyna'th di wedi cholli hi etto, o Lundain y daeth e ar y *goach* neithiwr, mi glywais i mam yn dweyd." "Taw, taw, dweyd rhywbeth yr oedd dy fam, am na ewyllysiai i ti ddeall yn awr o ba le y daeth." "Mae'n ddigon gwir," ebe Moses yn frawychus, am i Deio ammeu geirwiredd ei fam. "Ië, o Lundain y daeth e hefyd, mi glywes y nhad yn dweyd hefyd; ac mi weles i y doctor yn y tŷ yr hwn a'i dygodd i ni." "Paid taeru Mo's, stori plentyn yw hona, gan nad wyt ti ddigon hen i ddeall o ble y daeth." "Beth, wyt ti yn meddwl y buasai fy nhad a mam yn dweyd anwiredd wrtha i, dywed? na, dywedant well gwir nâ thydi mi wn." Daeth Deio a'i holl resymau dros ei bwnc fel cyfreithiwr, er mawr ddifyrwch ac argyhoeddiad y gwrandawwyr oll, ond Moses bach, yr hwn a fynai gredu ei dad a'i fam, yn hytrach nâ'r holl fyd i'r gwrthwyneb; ac ymaith ag ef dan lefain yn frawychus, o herwydd i neb ei ammeu ef.

Pwy a ddehongla y Ddammeg? Cynnwysa gyfnod hynod yn hanes pob dyn byw, a'r man y daeth o hono! Ai Deio ynte Moses a ennillodd y pwnc, a pheth yw yr egwyddor a ddysga?

## NEWYDDION EGLWYSIG CARTREFOL.

Dwyr. Morganwg.—Newyddion cysurol—arwyddion bywiocaol, a glywir ac a welir yn mhob cwr o'r Gynnadledd hon o hyd, a phawb yn penderfynu, ar a wyddom, i fyw yn ffyddlonach nag erioed.

Sir Aberteifi.—Cynnaliwyd Cymmanfa y Gynnadledd hon yn Aberystwyth, Sul y 5med o'r mis hwn; ymgynnullodd y Saint cylchynol, a llawer o'r byd yn brydlon a threfnus;—gwrandawiad astud drwy yr holl oedfäon;—Ysbryd Duw yn nerthol ar ei bobl, yn llawenhau eu calonau ac yn llanw geneuau ei weision â doethineb;—argoelion gobeithiol am liosogiad a chynnyddiant sêl a duwioldeb. Cyfanrif, 105; dau wedi eu bedyddio, a'r doniau ysbrydol yn nerthol yn y gwahanol gangenau. Ymfudodd amryw o'r Gynnadledd hon eleni, a chyrhaeddasant oll yn iach ar fwrdd y llong *Golconda*, tra yr oedd hi yn yr afon, a hwyliasant yn llwyddiannus gyda y lleill o'r Cymry.

Brycheiniog.—Tystiai swyddwyr y Gynnadledd hon eu bod hwy a'r holl Saint mewn gwell teimladau nag y buont er's blynyddau yn y mwynhâd o'u cariad cyntaf;—y brodyr yn ddiwyd a phenderfynol yn dosparthu traethodau i'r byd; a hysbysa y Llywydd ni, nad oes neb yn dewis bod yn segur, o herwydd mai yr hyn a *adeiladant* o deyrnas Dduw a *fwynhant* o honi. Rhai wedi cael eu bedyddio yn ddiweddar, a galwad i fedyddio amryw ereill; mae amryw drefydd yn galw am bregethu heb ddigon o bregethwyr i'w diwallu. Arglwydd y winllan a anfono lawer etto o weision ffyddlon i'w winllan, fel y casgler y gwenith i'w ysgubor, cyn dyfod y dyddiau blin.

---

## EFFAITH PROFI SANT.

Poenus iawn yw cwpan sur,—a miniog
Ydyw mynych ddolur:
Ond os poen,—daw i was pur,
O ddygasedd ei gysur.

Mae aur i'w drîn am hir dro,—yn y pair,
Yn ddarn poeth, nes toddo:—
I'w droi'n frwd, rho'ir *drain* y fro
*Dàn* y pair,—a Duw'n puro.

Ysgwrir prês ac arian—ychydig,
Gyda *chadach* bychan:—
Wedi 'sgwrio,—dasg eirian,—
Ceir pwy deifl y *carp* i dân.

Möab hynod, i'm poeni,—er iechyd,
Sydd yn Grochan golchi;
Hoff rai Ior, yn ei phair hi,
A fydd lân, i'w fyddloni.

ROBYN DDU, ERYRI.

## AMRYWIAETHAU, &c.

GWIRIONEDD.—Tŵr caerog yw gwirionedd. Er ergydio o holl fagnelau y fall arno, ni syflir maen o hono. Er chwythu o holl gyrn hyrddod saith tragywyddolfyd o'i amgylch,—ac er troi y moroedd yn wlybwr du, yr wybren yn bapyr ysgrifenu, holl laswellt y ddaear yn blyf, a'i bobl i gyd yn eu gyru i gamddarlunio GWIRIONEDD; etto saif mynwes ei feddiannydd mor dawel â môr gwydr tragywyddolfyd, heb chwâ o'u pla yn crychu ei wyneb siriol.

OFN.—Aden wrth sawdl yr euog haerllug, i ffoi rhag ei ddal; a hoel trwy draed yr euog brawychus, yn ei luddias rhag ffoi.

CYNNYDD Y SAINT.

O ogoniant ac awenydd,—i gàn
Ogoniant tragywydd,
Mewn gogoniant, pob SANT sydd,
Trwy ogoniant ar gynnydd. ROBYN DDU.

DERBYNIADAU O CHWEF. 9 HYD CHWEF. 14.—Dwyr. Morganwg, £1 10s.

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau, i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street, Merthyr-Tydfil.*

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Y Duw a Addolir—Pwy yw? | 107 |
| Cymmanfa Merthyr | 108 |
| Golygyddiaeth | 109 |
| Y Dirywiad Anghristaidd | 110 |
| Cais at Ddehongliad y Ddammeg | 112 |
| Dammeg Arall | 113 |
| Newyddion Eglwysig Cartrefol | 115 |
| Effaith Profi Saint | 115 |
| Amrywiaethau, &c | 116 |


MERTHYR-TYDFIL:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14 CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 8.] CHWEFROR 25, 1854. [CYF. VII.


### Y DUW A ADDOLIR!—PWY YW?

[Parhad o dud. 106.]

AMLWG yw weithan ryngu bodd y Duwiau tragywyddol, ar fod dynion wedi eu cynnysgaeddu a galluoedd cyfaddas i gynnyddiant hyd anfeidroldeb—nad llai dyben oedd ganddynt yngreadigaeth dynion na'u gwneyd yn Dduwiau, i fod yn ogyfuwch a'u hunain yn ngyflawnder y Duwdod; yn nesaf, ceisiwn brofi, PA FODD Y GWNEIR DYNION YN DDUWIAU! Rhoed rhydd ewyllys i bob dyn, i bob creadur, ac i bob sylwedd bywydol; eu hufydd-dod gwirfoddol i'r iawn gyfarwyddiadau a roddir iddynt, yn unig a duedda i berffeithio a dedwyddoli y naill a'r llall a'r oll o bob peth gweledig ac anweledig, drwy holl greadigaethau y Duw a lywydda yr oll. Gosododd eu deddfau priodol i'r haul, y lloer, a'r planedau; i'r môr a'i bysg, i'r awyr a'i ehediaid, y ddaear ai hymlysgiaid, ac i ddyn hefyd: amrywia deddfau yr oll yn gyferbyniol i'w galluoedd, a'u deall i'w cadw. Perffeithiad yr oll, neu gael mwy o'r Duwdod ynddynt yw y dyben; a neshâd at Dduw fydd y canlyniad o ufydd-dod pob un, yn mhob cylch; megys, o'r ochr arall, pellhâd oddiwrth Dduw, sef bod llai o briodoliaethau y Duwdod ynddynt, fydd y canlyniad o bob anufydd-dod. O barthed i holl hîl Adda, dywedir "nad oes enw arall wedi ei roddi yn mhlith dynion, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio." Ufydd-dod i'w orchymynion Ef yn mhob peth, a ddyga ei ufyddion yn feddiannol ar ei holl

gyflawnder ef, megys ag y cyflawnwyd yntau â holl gyflawnder ei Dad, trwy ei ufydd-dod perffaith i'w holl orchymynion Ef. Hyd yma, eglur yw y ffordd i ddod yn Duwiau; ond y mae gofyniad pwysig yn dyfod i'r meddwl yn awr; sef, beth yw y gorchymynion a'r dyledswyddau, arbenig, a pha fodd y deallir hwynt? Atebwn fod Duw wedi gwneyd hyn yn eglur yn mhob cenadwr a afonodd i'r byd. Dysgodd ei *weision* ac yna anfonodd hwynt i *ddysgu* ereill o tan y goruchwyliaethau blaenorol; ac yn nghyflawnder yr amser, anfonodd ei Fab i hysbysu hyn; dysgodd yntau yr un pethau ag a glywodd gan ei Dad, i'w frodyr a'i chwiorydd ieuengach; o'u plith cymhwysodd rai i ddysgu ereill, fel, trwy holl ymddygiadau Duw, gweler, mai dyben y nail Dduw personol yw ymddarostwng i ddysgu ereill, pa fodd i gyrhaedd ei wybodaeth ef, tra y dysga yntau gan ei ddoethach; ac felly o hyd nes y cyflawnir y naill ar ol y llall, trwy eu hufydd-dod i'w gilydd, â holl gyflawnder Duw; a chyfrifir pob ufydd-dod iddynt yn ufydd-dod i'r "Unig Ddoeth Dduw," a phob ufydd-dod a gyfrifir iddynt yn gyflawnder; a mwynhant fwy o Ysbryd Duw, i'w galluogi i ufyddhau i bethau mwy. Geilw Paul y cyfryngau neu y personau hyn dan wahanol enwau, yr hyn a arwydda yn unig y gwahanol gylchoedd y troant ynddynt, ond mai yr un Ysbryd sydd ganddynt oll, ac mai yr un dyben sydd mewn golwg, sef dwyn yr oll i "undeb y ffydd." Cyn y gellir dyfod yn Dduwiau, gwelir mai anhebgorol eu bod hwy oll yn credu yr un pethau, yn cydsynied yn mhob peth; onide, byddai perygl o anghydfod, neu fod y naill drwy gamsyniad yn dadwneyd gwaith neu yn croesi y llall. Er hollol ddedwyddwch, anhebgorol yw hollol gydweithrediad, yr hyn ni ellir fod oddieithr, fod hollwybodaeth gan bob un Mor werthfawr yw yr holl wahanol swyddau eglwsyig ynte—a goruchel eu hamcanion! Eglurir hyn yn mhellach yn Ephesiaid iv, 10, 11, 12, 13—"Yr hwn a ddisgynodd, yw yr hwn hefyd a esgynodd goruwch yr holl nefoedd fel y cyflawnai bob peth. Ac efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon; i berffeithio y Saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist: hyd oni ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist: " Mae y ffaith o ddwyfol osodiad y swyddau

uchod i *berffeithio* y Saint, yn profi eu bod yn anhebgorol. Gan mai dyben Crist yn gosod y swyddau hyn i ddysgu ei blant oedd, fel y cyrhaeddont oll, iê, y gwanaf o honynt, rywbryd i wybod pob peth a wyddai Efe, pa fodd y dysgwylir cyrhaedd yr amcan gogoneddus hwnw, heb ei arweiniad Ef drwy y cyffelyb gyfryngau yn awr? Na ddealler ni i fod yn awgrymu mai y *personau* hyn sydd yn dwyn eu brodyr, i wybodaeth Mab Duw, ond yn unig mai cyfryngau ydynt hwy yn ei law Ef; yr offeiriadaeth—y ddwyfol alwad, addasiad a danfoniad a gawsant hwy ganddo Ef i ddysgu i ereill yr hyn a ddysga Efe drwy ei Ysbryd—ei angylion,—ei Hunan, ac amryw ffyrdd ereill, yw yr effeithiolaf er cynnyddiant; yr hyn a ddangosa yr anghenrheidrwydd sydd am ddadguddiadau oddiwrtho ef hyd oni chyrhaedda y lleiaf hollwybodaeth. Megys ag y mae perffeithiad yr *aelodau* yn dibynu ar eu hufydd-dod i ddysgeidiaeth Duw iddynt drwy y swyddau iselaf, y mae perffeithiad pob *swyddog* yn dibynu ar ei ufydd-dod ef i'w *uwch swyddog* yntau; ac felly, hyd yr uchaf daearol yn yr Eglwys, a hwnw i gynnyddu drwy ei gyssylltiad â "Phen yr Eglwys," yr hwn sydd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch leoedd, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd. O ryfedd a mawr amryw ddoethineb Duw yn trefnu ffordd anffaeledig i'r aelod gwanaf a ufyddha i Dduw drwy ddysgeidiaeth, pe hyd y nod y swyddog distadlaf o'i eiddo i gyrhaedd holl gyflawnder ei Dad nefol, a'i "Frawd hynaf!" Pwy na orfoledda yn y fath ryfedd ddoethineb, y fath drefnuswydd? Pwy mor anystyriol o'i leshâd ei hun, ar na ymdrecha â'i holl alluoedd i ufyddhau i bob gair a ddaw o enau yr Arglwydd drwy ei weision, gan fod mor amlwg mai hunan les, yw y prif amcan yn mhob peth! Nid ufyddhau i ddynion yw hyn; ond ufyddhau i Dduw yw ufydd-dod iddo drwy bob un o'i weision, megys yr ufyddheir iddo *Ef* drwy ufyddhau i orchymynion *Iesu Grist*. Ac nid yn unig ufyddhau i'r Tad a'r Mab yw ufydd-dod i'r offeiriadaeth, ond hefyd ufydddod i, a rhyngu bodd yr holl Dduwiau dirifedi ag sydd yn un ynddynt hwy.

Amlwg yw, ynte, nad oes wahaniaeth pwy yw y person neu y personau a'n dysga neu a lywydda arnom yn yr Arglwydd, tra mai Duw a'u gosododd yn y cylch hwnw; ein perffeithiad ni yw y dyben a'r defnyddioldeb o honynt. Nid oes neb a

wrthoda Iesu Grist i fod yn Iachawdwr iddo *o herwydd* nad oedd ganddo ef lais neu ddewisiad yn ei osodiad; nid anheilwng o fod yn Dduw i ni yw ei Dad Ef, *o herwydd* nad nyni a'i gosododd Ef yn y cylch uchel hwnw; ac nid mwy rhesymol na hyny a fyddai gwrthod un o'i weision Ef, mewn unrhyw gylch, o herwydd mai Efe, ac nid nyni a'i gosododd Ef yno. Nid gwerin-lywodraeth yw llywodraeth Duw, ac nid llywodraeth y werin a wna y werin byth yn Dduwiau. Nid "llais y bobl yw llais Duw," yn ol yr hen arwydd-air Rhufeinig, ond hollol groes; —llais Duw a ddylai fod llais y bobl, canys ufydd-dod i'w lais Ef a'n gwna yn ddoeth i iachawdwriaeth.

Mynych y gelwir y swyddwyr a osoda Duw yn ei eglwys yn "Dduwiau," tra yn y cnawd, a hyny o herwydd y Duwdod sydd ynddynt, a'r cyssylltiad o ddwyfoli y Saint. Gosododd Duw Moses yn Dduw i Pharaoh. Sylwer, Duw a'i *gosododd*, er nad oedd efe wedi cyrhaedd cyflawnder y Duwdod ei hunan. Pe ufyddhasai Pharaoh i holl orchymynion Duw drwy Moses, daethai yn Dduw ei hunan ryw bryd. Dysgir ni gan Grist yn Ioan x, 34, 35,—"Yr Iesu a atebodd iddynt, Onid yw yn ysgrifenedig yn eich cyfraith chwi, Mi a ddywedais, Duwiau ydych? Os galwodd efe hwy yn dduwiau, at y rhai y daeth gair Duw, a'r ysgrythyr, nis gellir ei thori." "Os GALWODD EFE," sylwer! ganddo Ef yr oedd yr hawl i'w *galw* fel y mynai, naill ai yn apostolion, prophwydi, bugeiliaid, ai *Duwiau*, ynte beth arall. Ein pwnc yw, eglur bellach, mai trwy ufydd-dod i'r Duw-*dod* a fydd yn eu gilydd, y cyflawnir y naill â chyflawnder gwybodaeth y llall, a hwnw gan ei Dduw yntau, ac yn y blaen, hyd oni ddeuant "oll yn un" yn y Duwdod.

Mae gan bob un o'r bodau dwyfol ei waith ei hun i'w wneuthur, megys creu neu reoleiddio byd yn breswylfod i'r rhai a genedlodd yn yr ysbryd, fel y caent gyrff daearol fel a fu ganddo ef, —trefnu ffordd i iachawdwriaeth i'r oll a ufyddhant iddo, fel y caffent adgyfodiad mewn cyrff anllygredig,—eistedd mewn barn ar, a chospi yr anufyddion, a phuro neu berffeithio y ddaear halogedig oddiwrth effeithiau pob camwedd, a'i gwneyd yn "newydd," yn nefol ac anghyfnewidiol, fel y byddai yn addas i'w blant anllygredig i breswylio arni gydag ef. Ar y Tad y dibyna hyn oll, ac heb hyn ni ddichon iddo ddwyn meibion lawer i ogoniant;" mwy nag y byddai tad naturiol yn cyf-

lawni ei ddyledswyddau at ei blant, hyd nes ar ol eu cenedlu, y magai, y dysgai, ac y gosodai efe hwynt mewn sefyllfa yn y byd i gynnal eu hunain, i eppilio eu rhywiogaeth, fel y gallent ymddwyn atynt hwythau yn yr un modd. Y tad yw yr oll i'r plant, arno ef y dysgwyliant am gynnaliaeth, ac am gynghorion, ac efe a'u barna ac a'i cerydda pan y teilyngant hyny. Nid yw naturiaeth byth yn terfynu amser rhyddhad mab oddiwrth ei gyfrifoldeb i'w dad; cyfreithiau dynol sydd yn dweyd fod y mab yn rhydd o gyfrifoldeb i'w dad, pan yn un ar hugain oed, a hyny o herwydd fod cyfraith y wlad yn ei honi yn ddeiliad o honi hi y pryd hyny; eithr pe ei dad a luniasai y cyfreithiau hyny, a phe byddai ganddo deyrnas ei hunan, a byw byth, a neb yn ddeiliaid o honi ond ei blant cenedledig, yna buasent hyd byth o dan ei awdurdod ef yn mhob ystyriaeth. Efe a fuasai eu brenin, eu cynnaliwr, eu deddfroddwr, eu patriarch, ac mewn gair, efe a fuasai eu Duw. Ni wybuasent un arall goruwch iddo ef yn y berthynas hon, er y gallasai ereill lawer fodoli, etto, â'u tad yn unig y buasai eu holl gyssylltiadau hwy. Fel hyn y dysga ymddygiadau y patriarchiaid ni, a'u cenedlaethau ar eu hol; —fel hyn y dysgodd holl iaith ac esiamplau Iesu Grist ni.—"Dy ewyllys di O Dad a wneler," oedd awyddfryd ei galon o hyd. Nid yw sefydliadau Duw ar y ddaear ond patrwm o bethau nefol.

*(Pw barhau.)*

---

## CYMMANFA MERTHYR.

CRYNODEB O'R HYN A WNAED AC A DDYWEDWYD YN Y GYMMANFA UCHOD.

[Parhad o dud. 109.]

Y Bugail Daniel Daniels,—Cysurus ydwyf, wedi y daith bell o Seion, yn herwydd gweled cymmaint nifer o'm hanwyl gydgenedl, yn penderfynu myned yn mlaen mewn gwaith mor dda, mor bur, ac mor santaidd. Mawr ydyw fy llawenydd am fod yr offeiriadaeth wedi ei rhoddi, i drigolion daear, yn y Dyddiau Diweddaf hyn, ac am ei mwynheir hi, yn mysg cenedl y Cymmry, yngwlad fy ngenedigaeth. Lloni yr ydwyf yn herwydd y llawer a fedyddiwyd i'r Eglwys, yn y dyddiau a aethant heibio; mae newyddion da yn awr, ac hyderaf y ceir newyddion gwell etto, erbyn y Gymmanfa nesaf. Mae mawr awydd

bedyddio i'w ganfod yn yr holl wahanol swyddogion, a'r Saint, yn mhob cangen o'r Eglwys, trwy y wlad; a'r cyfan a'u bryd ar fyned i Seion. Dyma dro rhai i fyned yno wedi dyfod, a daw ein tro ni oll cyn y byddo hir. Cydweithwyr ydym ni yma, i'r rhai sydd yn Seion. Buom yno, arosais beth amser yno; gadawais fy anwyl deulu yno i'r dyben o fy nyfod yma i annog fy nghydgenedl i fyned yno, a gallaf dystio mai lle da, mai y lle goreu a wn am dano dan haul ydyw Seion, ac nad oes ei fath ar y ddaear; a chan i ni, a fu yno, gael y fath hyfrydwch pan yno, rhaid ydyw, fod ein hawydd ni, am fyned yno etto, yn llawer iawn cryfach, nag y dichon i'ch awydd chwi fod, y rhai na fuoch yno hyd yn hyn; a ni a gadwn ein hawydd a'n penderfyniadau daionus. Hiraethu am weled y gwaith wedi eu gwyblhau yr ydym; a merwino yr ydym hefyd, fod llawer o'n cyd-genedl ac ereill yn parhau mewn anghrediniaeth, yn aros mewn anufydd-dod, ac yn agored i'r gawod drom sydd ar ddyfod, a hwythau heb ddihangfa i'w cuddio, tra yn aros mewn anghrediniaeth. Daliwn at y gwaith o rybuddio pob dyn; dymunaf ar fod bendith Duw ar bob cynnadledd, ar bob swyddog, ac ar bob aelod o fewn i'r Eglwys hon; am gweddi ffyddiog sydd am i lwyddiant ganlyn ein hymdrechiadau, i ddwyn y gwaith mawr yn mlaen, gwedi yr elom bawb i'w gwahanol leoedd o'r Gymmanfa hon; fel y tyner i lawr bob pechod, gormes, tra awdurdod a thrais, ac y cyfoder i fyny bob rhinwedd, rhyddid, haelfrydedd, a duwioldeb llawn cysuron, yn mhlith holl blant dynion, yn mhob man a lle, ar a allom fyned iddo. Tangnefedd Duw a fyddo arnoch oll, o hyn allan byth trwy Iesu Grist. Amen.

Y Llywydd Jones,—Tybiwyf eich bod oll yn teimlo awydd am fyned i Seion; ac am hyny, dylem, oll ofalu am gael calon bur, am wneyd yn gyfiawn a phawb, ac a holl greaduriaid Duw; canys cyfiawnder a weithredir yn Seion, a chyfiawnder sydd yn cartrefu yno. Dylem ofalu gael ysbryd tangnefeddus, o herwydd y cartrefa heddwch a thangnefedd yn Seion. Cariad hefyd at Dduw a'i bobl, sydd angenrheidiol i fyned yno, oblegid cariad sy'n llywyddu yn Seion. Nis gellir gobeithio am deimladau gwell yn Seion nag yma, oddigerth i ni ymwroli at feithrin pob teimladau da yn awr a phob amser. Ni wna myned yn mhell, ddyn balch yn ostyngedig, na'r dyn

fladronllyd yn onest, heb fod ynddo blanniad egwyddorion da yn y lle yr aroso neu yr elo iddo. Nid oes lles o newid y cartrefle, os heb newid anian y dyn; gan hyny, cyflawnwn ein holl ddyledswyddau yma, a chawn gysur yn Seion; gofalwn am gael ein cydwybodau yn ddirwystr yma, fel na byddo lle i ni ofidio wedi ein myned oddi yma, na buasem yn fwy diwyd i fyw yn dduwiol, i annog ereill i fyw felly, ac i dystiolaethu wrth ereill am y gwirionedd, tra yr oeddym yma gyda hwynt.

Bendith a fyddo ar yr oll a ddywedyd yn y Gymmanfa hon; a bendith a fyddo ar yr oll a ddaeth yma, fel ein galluoger oll i gyflawni ein holl ddyledswyddau, trwy Iesu Grist. Amen.

Nos Lun, Rhagfyr 26, Cynnaliwyd cyngor am 11 o'r gloch; ac yn yr hwyr cariad wledd, canwyd; a gweddiodd yr Henuriad John Evans, Aberteifi.

Yr Henuriad Robert Evans, Abertawy, a etholwyd i lywyddu y cyfarfod; a sylwodd mai angenrheidiol, yn gyfanol a'r weddi flaenorol, ydyw cael cydymdeimlad. a gwneyd pob peth oll, o dan ddylanwad Ysbryd Duw; mai angenrheidiol yw bwyta ac yfed, ynghyd a chanu ac areithio a'r Ysbryd ac a'r deall: ac y dylai, hyd y nod, Digrifwch fod felly; "Ar dy ddeheulaw y mae digonolrwydd llawenydd a digrifwch yn dragywydd."

Canwyd, yn foddhäol hynod gan y brodyr John Richards, ac Evan Richards.

Annerchwyd y cyfarfod yn fywiog, gan yr Henuriad T. C. Martill; a sylwodd, mai fel y dychymyga un ei fod yn gweled pethau yn y tywyll ag a wna iddo ryfeddu at ei gamolygiadau wedi y toro'r wawr, y mae dynion yn dychrynu rhag egwyddorion da, pan eu gwelent gyntaf, eithr addeuant i'w caru, gan ryfeddu at eu ffolineb eu hunain, wedi y dealler hwy ganddynt.

Y brodyr David Williams, Sir Benfro, a Daniel Thomas, Rhumey, a gánasant yn Saesneg—a'r brawd William Roberts, Aberdare, yn Gymraeg; ac annerchwyd y cyfarfod yn Saesneg gan yr Henuriad, Sykes, Sir Benfro, yna, canwyd gan y brawd John Richards.

Gyda hyn, yr oedd lliaws o frodyr yn prysur gludo bara melus i'r dyrfa fawr; a digonedd o ddwfr glân gloyw at ddisychedu y rhai oll a ewyllysient yfed; a'r olwg ar y gynnulleidfa yd-oedd hyfryd i'w rhyfeddu; a chanwyd yn gampus gan y côr.

Annerchodd yr Henuriad Robert Parry, Robyn Ddu, Eryri, y dyrfa, gan sylwi, y dichon i ddynion da weled drygau lawer yn dinystrio y bobl; ond mai yr Arglwydd sydd yn galw, cymhwyso, a dangos ei weision appwyntiedig at darfu y drygau; ac mai tebyg yw yn awr, i'r amser y dywedodd un o'r prophwydi, "Mi a *welais* bedwar corn;—a'r Arglwydd a *ddanghosodd* i mi bedwar saer hefyd." Mai fel yr oedd yr un faint nifer y seiri a nifer y cyrn y mae yn awr i bob swyddog, yn Eglwys Iesu Grist, ei waith priodol ei hun. Crybwyllodd y perygyl o ymyraeth tuag at geisio newid trefn Duw; yr enbydrwydd o beidio gwrando ar ei weision, a'r bendithion ag ydynt yn sicr i'w cael, ac i'w mwynhau, i'r rhai hyny oll ar a ufyddhäont i'r Efengyl, gan gadw yr hyn oll a orchymynodd Iesu Grist, i'w ddysgyblion eu cadw.

Rhoddodd y brawd French, Newport, ychydig annerchiad a chân, yn Saesneg; ac ar ei ol, annerchodd yr Henuriad Dewi Elfed Jones, y dyrfa liosog, yn sylweddol, difyrus ac addysgiadol. A gwedi annerchiad bywiog gan y Llywydd Richards, y Llywydd Jones, a Llywydd y cyfarfod, ynghydag adlais cân gan y côr pereiddiol, dybenwyd y cyfarfod, a'r Gymmanfa fawr hon, gyda gweddi daer tros y llywyddion newydd, tros yr Henuriaid, tros yr holl amryw lywyddion a Saint, gan y Llywydd W. S. Phillips; a diammheuol mai iaith pob gonest ei galon ag oedd yno, oedd "*Da oedd i mi fod yno.*"

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, CHWEFROR 25, 1854.

Doniau Ysbrydol.—Nad beth a ddywed y byd a'i holl ddoethineb, y mae yn ffaith ddwyfol brofedig, mai braint y Saint yw mwynhau gweledigaethau, breuddwydion, dadguddiadau, tafodiaeth, cyfieithad, ynghyd a phrophwydoliaeth; mai cyfryngau ydynt i drosglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r nef, er perffeithio y Saint yn yr holl rasusau anhebgorol er eu

dedwyddwch presennol, a chynnyddiant ar ddelw eu Duw. Pwy erioed a ddarllenodd addewidion Duw i'w blant yn yr ysgrythyrau, heb hiraethu am fwynhad o'r cyffelyb ei hun?—heb dristâu pan y dywedai esbonwyr a phregethwyr wrtho, fod y cyfryw wedi darfod gyda'r apostolion, ac nad oes mwyach eu heisieu? Pwy na ocheneidiai yn ei galon, "O! na fuaswn byw pan yr oedd gan Dduw eglwys ar y ddaear yn mwynhau ei feddwl a'i ewyllys, ei gysur a'i gynghor, yngwyneb pob amgylchiad; pan yr arllwysid yr Ysbryd Glan ar y Saint, nes y gorfoleddent yn eu breintiau, ac y pêr lewygent gan ddysclaerdeb gogoniant iachawdwriaeth yr Arglwydd ar eu rhan mewn gweledigaethau, pan yn cystadlu y mynedol, presennol, â'r dyfodol?" Pwy yw y dedwyddolion a iawn brisiant y rhagorfreintiau hyny, wedi eu hadferyd i blith dynion? Nid neb ag ydynt yn eu dibrisio a'u gwrthod. Nid neb ychwaith o hyd y nod y Saint ar nad ydynt yn gweddio yn daer am danynt; nid yn unig mewn geiriau, ond hefyd drwy bob diwydrwydd i *ymfucheddu* wrth fodd eu Cyfranwr.

Pwy a hiraetha am ollyngiad o'i gaethiwed daearol, ac a chwennycha wawrio o'r cyfnod dedwydd, pan ei enaid hiraethog a eheda i'r trigfanau tragywyddol i blith myrddiwn o angylion, ac i wyddfod ei Bryniawdwr bendigaid, ar na iawn brisia y gwahanol ffyrdd hyn o gymdeithasu â'i drigolion dedwyddol,—i gael adnabyddiaeth gywirach o'i ogoniant, ac i barotoi erbyn ei ddyfodiad arosol yno? Hyn oedd testun ymffrost a gorfoledd yr hollbrophwydi, apostolion, a'r Saint cyntefig; ac ni ddylai neb Saint a ddysgwyliant gyd-fwynhau yr un gogoniant a hwythau yn yr amser dyfodol, fod ronyn llai eu hawydd a'u hymroad i'w cael yn awr. Gwir fod y doniau cyfeiriedig yn dwyn bendithion goruwch i'r hyn yr ymgeisia dynion am danynt yn gyffredin: etto, nid doeth boddloni ar lai nâ chyflawniad o addewidion pendant Duw i ni. Mae yn wir hefyd fod y gelyn yn dwyn ei demtasiynau yn gyferbyniol i fawredd y bendithion a fwynheir; a thrwy hyny, a dyben dwbl ganddo, sef, nid yn unig i'n hamddifadu ni, ond i ddiraddio y fendith drwy gam-arferiad o honi, neu trwy ffaeleddau y cyfrwng a'i mwynhâ; er hyny oll, yn lle llaesu dwylaw, dylid dyblu y diwydrwydd i orchfygu a mwynhau y doniau fwy fwy, er ei waethaf ef.

Hyderwn y creda y Saint ein bod o ddifrif, ac yn benderfynol i'w hannog i fwynhau mêr a brasder eu crefydd cyn hir, drwy ein mynych goffâu hwynt o honynt; o leiaf, credant hyny cyn y peidiwn. Dywenydd mawr genym yw hysbysu, fod yr argoelion daionus a geir eisoes mewn llawer man, yn profi nad ofer ein llafur yn hyn, yn yr Arglwydd. Mai trwy bob dyfal barhau, neu drwy barhau yn ddyfal yn *mhob peth*, y llwyddir i hollol fuddygoliaeth, yw y gredo a ddysgir i ni. Y mae genym un tyst o'r newydd wrth law, i brofi hyny, yr hwn sydd yn henuriad ffyddlon, ac wedi parhau felly am wyth mlynedd, gan ddyfal weddio am y doniau ysbrydol, ac ni atebwyd ei weddi hyd o fewn ychydig ddyddiau yn ol, pan y derbyniodd y ddawn o lefaru â thafodau, a chyfieithad trwy yr Ysbryd; a dywedai iddo gael tâl da am ei amynedd: calonoged y ffaith hon efelychiad.

Mewn cydsyniad â chais llawer o'n darllenwyr, cyhoeddwn y "*Dùw a addolir! Pwy yw?*" yn draethawd, ei bris fydd *tair ceiniog*; rhoddir yr elw arferol i ddosparthwyr. Ni raid dweyd dim am dano, barned pob un wrth â welodd o hono, ond mai yr iawn ystyriaeth o bwysigrwydd dealltwriaeth gywir o wrthddrych ein haddoliad yn unig â ddangosa yr angen am dano; ac nid neb yn fwy nâ'r "gwir addolwyr," a ddeallant fawr angen y lleill o hono. Cywir ddeall ei destun a gywira ei ganlyniadau, ac a adfera addoliadau i'w hysbrydolrwydd cyssefin yn gyferbyniol. Chwaler ef lle y mae mwyaf o gyfeilliorni ar y mater pwysig hwn; a'r Duw a ddesgrifia a roddo iddo rwydd hynt i wneyd mawr les, fel y gogonedder ei enw teilwng.

---

## Y DIRYWIAD ANGHRISTAIDD.

GAN ROBYN DDU, ERYRI.

[Parhad o dud. 112]

Gwedi diflaniad y doniau ysbrydol o'r Eglwys, yn y flwyddyn 570, a'r holl lywodraeth, gwladol ac eglwysig, ynghrafanc yr unrhyw ormesydd, er y flwyddyn 606, daeth y dirywiad i rym a gallu anwrthlwynebol mewn trais a gorthrech: canys cyssylltwyd yr haeriad anwireddus o anffaeledigrwydd *personol* y Pab, wrth wirionedd y dadguddiad o anffaeledigrwydd yr

Offeiriadaeth dragywyddol; a hawliwyd cydsyniad y bobl yn mhlaid yr haeriad, heb ganiatau iddynt ymholi pa un ai gwir ai gau y cyfryw haerllugrwydd. Gosodwyd cyfraith, nad oedd i'r llên na'r lleyg feiddio gwrth-ddweyd y cyfeiliornad, dan boen marwolaeth o'r fath erchyllaf; ac o'r cyssegr-lywod-ddysg lygredig yna, gordöwyd y bobl a thywyllwch y fagddu dros ystod hirfaith o flynyddoedd; ac ni allai y gwyr a'i teimlai, lyfasu ymofyn am oleuni, gan ofn i greulonderau y gyfraith drawsfeddianol eu goddiweddyd. Rhydai allweddau gwybodaeth, yn ystafelloedd y mynachod; argauwyd ogylch cyfryngau addysg, yn llyfrgelloedd y Cardinaliaid; Cymmysgwyd y gwirioneddau dwyfol, gyda thwyll y traddodiadau dynol; ac hawliwyd, i Arch-esgob Rhufain, gyfartal awdurdod a Duw y nefoedd!

Ymhyfhäodd y Waldensiaid Selog, yn y flwyddyn 1200, ac ymddihanodd Luther gadarn yn y flwyddyn 1483, megys ereill ar eu hol, i ymgynnyg am ddiwygiad, yn oreu y medrent dori trwy lyfetheiriau y credöau eu magwyd ynddynt; ond y bobl wedi deall y meiddient feddwl a barnu trostynt eu hunain a ymddyrysasant, ac a ymranasant oddiwrth eu gilydd; ac aeth rhai, o herwydd canfod twyll yr haeriad o anffaeledigrwydd personol y Penadur eglwysig, i lwyr ddibrisio gwirioneddau yr impiwyd cyfeiliornadau arnynt, fel na chredent y bu na dadguddiad, nag offeiriadaeth o ddwyfol awdurdod erioed: eithr ereill, o herwydd eu cynnefindod a rhoddi ufydd-dod hygoel a diymchwil i'r oll a ddywedai y mynachod, ac oblegid y deallent fod rhai pengraddolion, megys Frederick fawr, yn pleidio eu hymryddhad o gaethiwed y Pab, a roddasant yr un fath ymostyngiad gwasaidd i'r Diwygwyr; a chan y proffesai Luther fod pob anffaeledigrwydd yn y Bibl, ac nad oes ychwaneg a ddadguddiadau i'w dysgwyl oddiwrth Dduw, nag a gynnwys y gyfran hyny a ddewisodd ef o'r ysgrythyr, ystyriodd y bobl athrawiaeth Luther yn anffaeledig; ac yn mhen ychydig flynyddoedd, llawn mor beryglus i ddynion oedd ammheu dywediadau y Diwygiwr, a phe, cyn hyny, yr ammheuasent haeriadau y Pab.

O dro i dro, cyfododd dynion meddylgar mewn amryw wledydd, a ffurfiasant farnau mor wahanol i'w gilydd, ag a ydoedd o wahaniaeth yngraddau eu deall a'u dychymmygion;

enillodd rhai o honynt gefnogaeth breninoedd, tra y merthyrid y lleill am adrodd eu golygiadau: newidiwyd crefydd Lloegr, yn nheyrnasiad Harri, viii, Edward, vi. Mari waedlyd, ac Elizabeth erlidgar; yr hon oedd chwaer i Mary, o ran eu tad, ac o ran eu harferion. Pan welwyd fod merthyru yn amddifadu y wlad o drigolion, llacäwyd yr ormes yn erbyn barn bersonol; a chan gynted ag y dechreuodd casglwyr pleidiau frwydro a'n gilydd trwy i'r naill geisio dynoethi cyfeiliornad y llall, caniatäodd y llywodraeth gyflawn ryddid i bawb bregethu a fynont, am mai hawdd canfod nad oedd achos ofni i'r Sectau ymuno i wrthryfela yn erbyn y goron tra yr amlygai un blaid y fath elyniaeth tuagat blaid arall: eithr i sicrhau diogelwch gorfodwyd pob plaid i dalu am drwydded i bregethu, gan gymmeryd llw o ffyddlondeb i'r llywodraeth; a chau yr ofnid y pabyddion, o herwydd eu nifer a'u hundeb, dodwyd yn llw, a dyfeisiwyd pob math o anwireddau, yn gymmysg a gwir, gael gan y sectau gydymladd yn erbyn eu gelyn cyffredinol o leiaf.

Glynodd y bobl oll yn ystyfnig wrth eu hamryw flaenoriaid sectyddol: eithr rhag i'r bobl gael eu siglo yn eu golygiadau ymdrechodd pob sect yn hynod o ddiwyd i lunio enw drwg ar sect arall; bu Eglwys Loegr, yn llawn mor ymdrechgar i lysenwi y sectau oll; ac o ganlyniad, dychrynai pawb rhag myned yn agos i'r blaid eu dysgwyd i'w hystyried yn heresiaidd: ond gan y llyncodd yr holl sefydlwyr sectau farn Luther, mewn perthynas i beidio dysgwyl unrhyw ddadguddiad, ond a gafwyd yn y Bibl, anhawdd ydyw cael gan y werin ymadael a'u hen dybiaeth; oblegid, y mae hir arferiad yn magu rhagfarn yn erbyn pob cyfnewidiad, hyd y nod mewn dynion lled synwyrol, gan osod rhwystrau ar ffordd credu gwirionedd na arferwyd ei glywed; fel nad oes ond diwydrwydd dyngarol, a maith amser, a ddichon symud y rhwystrau ymaith, oddigerth i fendith yr Arglwydd gyd fyned a'r llafur mewn modd neilltuol o rymus.

Pan yr ymddengys rhwystrau ar ffordd derbyn unrhyw athrawiaeth, neu dystiolaeth, yr unig ddull teg ydyw ystyried, pa un ai yn erbyn cymmeradwyo ai yn erbyn gwrthod y cyfryw, y saif mwyaf o rwystrau: er enghraifft, cafwyd cyfraith Moses mewn oes dywyll; a'r Aipht, gwlad ddysgedicaf y byd pryd hyny wedi ymoliwng i eilunaddoliaeth o'r fath wrthunaf;

er hyny, po mwyaf a gywirwyd ar gyfreithiau gwledydd gwareiddiedig yr oes hon, agosach o hyd y daethant at berffeithrwyddd y ddeddf Fosenaidd; a chan y cydnabyddir felly, i Moses gael mwy doethineb, na holl synwyrau ymgynnulledig dysgedigion y senedd-dai enwocaf, dylai yr anffyddwyr ystyried, pa un ai yn erbyn credu i Moses gael y gyfraith trwy ddadguddiad, ai yn erbyn gwadu hyny, a haeru iddo ei chael trwy gynnorthwy y byd paganaidd y ceir mwyaf o rwystrau: yna, deuent i ddirnad mai haws credu mewn dadguddiad, na phrofi fod oes dywyll yn alluog i lunio cyfraith, o'r fath ag y mae ei phurdeb perffaith yn peri syndod i brif ddysgawdwyr gwladwriaethol yr oes oleu hon. Gan hyny, buddiol i'r rhai a gredant yn nadguddiad y ddeddf i Moses, a fyddai ystyried, pa un hawsaf, ai credu y miloedd tystion byw, sydd yn dywedyd y bod Duw yn dadguddio ei gyfrinach i'w weision yn awr, fel o Adda hyd i'r apostolion, ai ynte profi fod yr Arglwydd naill ai heb Eglwys ar y ddaear, neu ei fod yn gyfnewidiol ei ymddygiadau tuag at y cyfryw. Ystyrier, meddaf pa un sydd fwyaf rhesymol i Gristion, ai credu gair yr Iesu, "Yr arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant," ynte gwadu yr arwyddion, gan geisio dangos Crist fel pe yn euog o anwiredd twyllodrus; myfyrier yn ddwys, pa un sydd agosaf i sicrwydd gobaith plentyn y nefoedd, ai perchen ffydd yn ymadrodd y Messiah, "Nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair *a ddaw* allan o enau Duw; ynte meddu hygoeledd yn haeriad esbonwyr; sef, y bydd dyn fyw trwy bob gair *a ddaeth* yn yr oesoedd cyntefig.

Nid oes ond Saint y Dyddiau Diweddaf, yn *proffesu* mwynhad o gyflawniad addewidion Crist am y doniau ysbrydol canys y mae y sectau oll yn gwadu yr angeurheidrwydd o'u cyflawniad: gan hyny, y Saint yn unig sydd yn cyffesu eu hunain yn dystion byw, o eirwiredd yr un na chafwyd twyll yn ei enau; a rhaid felly; nad yw sectariaeth ond darnau holltog o'r Dirywiad Anghristaidd. *(I'w barhau.)*

---

## NEWYDDION EGLWYSIG CARTREFOL.

Deheudir.—"Amserodd yr adferiad," eisoes a ddaeth i raddau, ac a barha i ddyfod yn hynod o gyflym yn y parthau

hyn; nid yn unig yn mhlith y Saint y mae cynnyddiant cariad a duwioldeb; ond tel "colomenod i'w ffenestri,"—fel milwyr glew yn llu y dychwela afradloniaid, ac yr ymadnewydda yr anffyddloniaid wrth y chwech, wyth, deg, a mwy na hyny yn yr un cwrdd; ac ychwaneg etto ar ddod. Y Duw grasol a hir-ymarous a'u nertho i gadw ei orchymynion hyd y diwedd. Nid rhyfedd i'r Tad hwnw ladd y llo pasgedig ar ddychweliad ei afradlon-fab; erioed o'r blaen ni theimlem mor awyddus i'w efelychu; erioed cyn hyn ni wybuom mor eglur felysder y pleser a gâ ein Tad ni oll, yn chwilio am le i drugarhau, a'r teimlad grasol yw cael lle i faddeu yn rhad—yn llwyr! Wrth gyferbynu y teimladau gofidus a fegir ynom, wrth weled brawd anwyl yn cefnu ar eglwys Dduw, dan gyffesu a thystio ei fod yn gwybod yn ddiammheuol mai unig wir eglwys Dduw yw hi—yn fforffetio ei holl fendithion gwerthfawr hi, a'r anwyliaid a fuont gu gan ei galon; yn cefnu ar Dduw, ac ar bob pleser sydd yn werth ei gael; ar wirioneddau, ac ar y nefoedd ei hunan; a'r teimladau gorfoleddus a achosa dychweliad edifeiriol y cyfryw yn ol i'r eglwys, braidd na chydsyniem â'r gair a ddywed fod "pob peth yn dda ag sydd yn diweddu yn dda." Etto, nid neb llai na'r Duw a bia y gwaith hwn a ddichon oruwch-lywyddu esiamplau drwg gwrthgilwyr i fod er lleshad i'r rhai a dramgwyddasent wrthynt: er hyny, gwna efe "i gynddaredd dyn ei ganmol;" ac fel bugail da dychwela a'r gyfr-golledig adref ar ei ysgwyddau ei hun yn llawen. Parchedig ofn i'r fath dirion Dad a warchaeo o'n hamgylch ni, yn gadarnach tŵr nag y gall holl fleiddiaid byd, ac uffern hefyd, ein gyru na'n swyno o hono. Ei hir-amynedd Ef a ddychwelo yn ol y gweddill, oll, o'i blant crwydredig i'w dŷ i wledda ar seigiau nefol—flasus fwyd—bara y blant, fel y cynnyddont ar ei ddelw, cyn y caio y drws, ac y dywed "GAD IDDO.

GWYNEDD.—Mae argoelion cynnydd yn destunau llawenhau gan ein brodyr gogleddol hefyd! Mwynhawyd amser hyfryd yn Nghymmanfa Sir Fflint, yr hon a gynnaliwyd yn Brymbo, y Sul diweddaf, ebe llythyr dyddorol ein Cynghorydd. Dyfyniad o lythyr yr Henuriad Thomas Jeremy, yr hwn sydd yno yn bresennol, a ddangosa sefyllfa yr achos yn Sir Fflint fel y canlyn:—"Y mae y brawd J. Parry a minnau wedi ymweled â'r Saint mewn amryw gangenau eisoes, ac yr ydym yn ym-

drechu â'n holl egni i adeiladu y Saint, a'u hannog i fod yn awyddus i ddonian ysbrydol, ac ymsanteiddio eu hunain gerbron yr Arglydd. Cawsom gyfarfod da iawn iawn neithiwr yn Nglân-yrafon, dosparth o gangen New-market; ni theimlais i ddim mwy o Ysbryd yr Arglwydd er ys llawer dydd: daeth yr Ysbryd yno fel gwynt nerthol, ac a lanwodd yr holl dŷ,—llefarwyd â thafodau dyeithr, cyfleithwyd a phrophwydwyd; nis gallwn lai nag wylo dagrau o lawenydd, gan y fath deimladau hyfrydlawn oedd yno. Gadawaf i chwi dychymmygu am weddill ein cwrdd, ond yn unig y dywedaf ei fod yn debyg i'r amser da hyny ar lofft Glantren Fawr, er ys llawer dydd. Yr wyf wedi bod naill ai mewn cyfarfodydd Saint, neu yn pregethu i'r byd, bob nos braidd er pan wyf yn y Gogledd. Y mae tua chwech wedi addaw cymmeryd eu bedyddio er pan yr wyf yma, a gwrandawiad da mewn rhai manau. Cewch hanes Cymmanfa y Sir hon genyf etto, yr hon a fydd yn Abergele y Sul nesaf."

---

## ARWYDDION YR AMSERAU.

Prawf Cyfrifiad poblogaeth y byd bob deng mlynedd, gan y gwahanol lywodraethau gwladwriaethol, mai gwirionedd ydyw fod diwedd pob peth yn agoshau. Cyfartalwch y bywyd dynol sydd oddeutu 33 mlynedd. Mae un ran o bedair y bobl yn marw cyn cyrhaedd eu 7 mlwydd, eu haner yn marw cyn gweled 17 mlynedd; a gwelir felly fod yr holl rai a gyrhaeddant dros yr oedran 17, yn mwynhau yr hyn a naceir i haner y rhywogaeth ddynol. O bob 1,000 o bersonau, nid oes ond 1 person yn cael byw 100 o flynyddoedd, o bob 100, nid oes ond 6 yn cael byw 65; ac nid oes ond 1 o 500 yn byw i weled ei oedran yn 80. Mae y bobl priodasol yn mwynhau bywyd hwy na y rhai sengyl; ac uwchlaw y cwbl, y rhai a gadwant eu hunain yn sobr a diwyd sydd hwyaf eu heinioes. Mae pobl dàl gan amlaf yn byw mwy o flynyddoedd na phobl fyrion eu cyrff. Priodasau ydynt fynychaf ar ol cyhydedd dydd a nos: sef, yn ystod y misoedd Mehefin a Rhagfyr. Mae y rhai a enir yn y Gwanwyn yn gryfach dynion, yn y cyffredin, nag ereill; ac amlach ydyw genedigaethau a marwolaethau yn y nos na'r dydd. Ystyrir fod y rhai galluog i gludo arfau milwriaeth yn cynnwys oddeutu un rhan o bedair y boblogaeth; ac y mae bod Lloegr, Ffrainc, a gwledydd ereill yn anfon milwyr i dori palfau Arth Rwisia, yn dangos fod yr un ran o bedair i gael eu chwynu y mis nesaf, a'r misoedd canlynol, ar finion yr afon Danŭbe, a lleoedd ereill. Ymadawodd cennadon Rwssia o Lun-

dain ac o Paris; mae'r Danube yn ymchwyddo gan feiriol ei rhew, a byddin Twrci yn gorfod arafu ei hymdaith tua maes y brwydro. Anfonir llynges o Loegr, yn nechreu mis Mawrth, ynghyd ag amryw gatrodau byddinol; bwriedir cau am Rwssia fel nas gall anfon milwyr allan, na derbyn unrhyw gymhorth i mewn. Adeiladodd Lloegr, yn y chwe mis diweddaf longau mwy eu maint, eu nerth, a'u cymhwysderau, nag a fu ganddi erioed o'r blaen; a thebygol y dirwasgant hwy longau bychain Rwssia, yr un fath a llethu cynnifer o wyau nofiedig, tra y dodir dynion, ar for ac ar dir, yn nodau o flaen pelenau plwm magnelau rhyfel: onid dedwydd y Saint a hwyliasant tua chyfaneddle heddwch Seion Duw? Clywsom am wr tâl ei gorff yn perthyn i fllwyr dinasyddaidd, yr hwn pan archwyd iddo ddal ei ben i fyny, gan swyddog byr ei gorff, a ofynodd ai rhaid oedd iddo ddal ei ben i fyny o hyd; a phan ei hysbyswyd mai rhaid, dywedodd, "*Ffarwel Sir, ni welaf fi mo honoch byth mwy?*" Hawdd i'r Saint a gychwynasant tu a Dyffryn y mynyddoedd, yw dywedyd "*Ffarwel* Ormeswyr; *ffarwel* ymladdwyr, a *ffarwel* erlidwyr plant yr Arglwydd; ni welwn ni byth mo honoch chwi mwyach. Mae cyffröad gwrthbabaidd, yn cynhyrfu pobl Unol Daleithiau America: yn Cincinnati llosgwyd eilun gwellt o Bedini, cennadwr, y Pab; gan faint y cythrwfl a barai ei fwriad i ymweled ag Orleans Newydd, yn nhrigolion y lle hwnw, a chan y cyffröwyd pobl Efrog Newydd, Wheeling, Baltimore a lleoedd ereill i losgi ei lun, dywedir y dychwel i Ewrop, heb geisio tramwyo yr Amerig, rhag y digwydd ei losgi yntau! Cisiodd Offeiriaid Eglwys Loegr, gynnal Cymmanfa ddadleuol;—eithr y llywodraeth wladol sydd wrthwynebus tra mae y Saint yn gallu gweled llygad yn llygad ac oll yn llygad eu lle.

---

Derbyniadau o Chwef. 14 hyd Chwef. 21.—Dwyr. Morganwg, £2 11s; Sir Fynwy, £2 10s; Gorllewin Morganwg, £3 10s; Penfro Orllewinol, £1 4s 3c; Sir Fôn, 6s.—Cyfanswm, £10 1s 3c.

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau, i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street, Merthyr-Tydfil.*

---

CYNNWYSIAD.

TUD.
Y Duw a addolir—Pwy yw? ..... 117
Cymmanfa Merthyr ..... 121
Golygyddiaeth ..... 124
Y Dirywiad Anghristaidd ..... 126
Newyddion Eglwysig Cartrefol ..... 129
Arwyddion yr Amserau ..... 138

---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14 CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 9.] MAWRTH 4, 1854. [CYF. VII.


### Y DUW A ADDOLIR!—PWY YW?

[Parhad o dud. 121.]

ER ymresymu llawer, etto, ni allwn ni ddirnad am un hawl goruwch i hawl y tad a genedlodd ei blant; efe a'u pïa, os na fforffetiodd yr hawl hono drwy droseddiadau; felly ni wyddom am hawl nac offeiriadaeth goruwch yr un Batriarchaidd tra yr ymddygant hwy yn unol â, a darostyngedig i'w Patriarchiaid hwythau, ac felly yn olynol. A pheth a gaem ni ar ddechreuad yr hîl ddynol? Caffem mai Adda i'w prif batriarch y greadigaeth hon, efe yw y cyntaf, yr *hynaf mewn dyddiau*, ac o herwydd hyny, gelwir ef yn "HENDDIHENYDD," yn yr ysgrythyrau. Efe a gafodd y gorchymyn mawr cyntaf i ddechreu eppilio a llanw y ddaear a'i hiliogaeth; ac nid hyny yn unig, ond hefyd i'w darostwng hi ac *arglwyddiaethu* arni. Pa fodd y gallai arglwyddiaethu heb ei fod yn *Arglwydd*? Dim modd iddo. Ei Dad a roddes iddo yr hawl oruchel a thragywyddol hon; canys ni ddywedodd wrtho am arglwyddiaethu hyd angau, ond y mae y gorchymyn yn ddiderfyn. Ond meddir, efe a gollodd ei hawl trwy bechod. Am ei bechod y mae mwy o waith amddiffyn ar gymmeriad ein cyn batriarch rhag camgyhuddiadau ei blant llygredig, nag a allwn ei wneyd yn y man hyn; ein pleser a fydd gwneyd hyny etto. Oeder y ddedfryd arno nes y caiff dreial teg o flaen brawdle y gwirionedd o leiaf. Eithr pe fforffetiodd ei hawl, oni chaed iawn? A pha iawn a allasai fod, oddieithr iddo symmud y canlyniad a dwyn adferiad? Os felly ynte,

Adda a osodwyd gan ei Dad i fod yn Brif, yn ben Arglwydd ar y byd a'i holl drigolion. Er fod yn gysson â'r uchod, meddir, a bod ei hawl batriarchaidd yn gyfiawn, anghenrheidiol ei fod Ef yn dad ein hysbrydoedd ni, heblaw tad ein cyrff! Cydnabydda ei holl hiliogaeth yn rhwydd mai "plant Adda" ydym ni oll; ond Duw yw tad ein hysbrydoedd, meddir! Pa fodd y cyssonir croeshaeriadau fel hyn, meddir? Wel, gan bwyll, efallai y diflana y gwyrni tybiol. Beth pe treiem fel hyn: Pwy yw y Duw hwnw a alwn yn dad ein hysbrydoedd? Atebwn, mai y Duw hwnw sydd etto i'n barnu yn y dydd a ddaw. Dywed Paul mai Tad ein Harglwydd Iesu Grist yw efe, 1 Cor. xv, 24,—28, —"Yna y bydd y diwedd, wedi y rhoddo efe y deyrnas i Dduw a'r Tad; wedi iddo ddileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth. Canys rhaid iddo deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed. Y gelyn diweddaf a ddinystrir yw yr angau. Canys efe a ddarostyngodd bob peth dan ei draed ef. Eithr pan yw yn dywedyd fod pob peth wedi eu darostwng, amlwg yw mai oddieithr yr hwn a ddarostyngodd bob peth iddo. A phan y darostynger pob peth iddo, yna y Mab ei hun hefyd a ddarostyngir i'r hwn a ddarostyngodd bob peth iddo ef, fel y byddo *Duw oll yn oll*." Iesu Grist, gweler, fydd yn cario gwaith y Tad yn mlaen, megys y gweddai i bob mab hynaf dros ei dad, hyd nes y cyflawna yr hyn a roddes ei Dad iddo i'w wneuthur; yma gweler fod yn rhaid iddo deyrnasu ar y ddaear hon, hyd oni osodo ei elynion tan ei draed. Efe a fydd frenin breninoedd, pan y delo holl deyrnasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef. Iddo ef y cyffesa pob tafod, ac y plyga pob glin. Etto nid yw hyna oll yn arddangos mai efe fydd prif "Arglwydd" Llywyddol y byd hwn, ond arall yn ol y cyfammod cyntaf.

Wedi y gwnelo y Mab yr holl waith a rodded iddo, yna efe a ddyry ei hunan, a'r oll a wnaeth i fyny i Dduw a'r Tad, sef ei Dad ef a'n Tad ninnau; yr un person yw efe ag a elwir uchod yn *Dduw*. Drwy gyflwyniad ei oruchwyliaeth i fyny iddo Ef, cydnabydda y Mab ei oruchel hawl i'r oll. "Y Mab ei hun hefyd a *ddarostyngir*," i'r Duw Dad hwn, sylwer; ac felly y "bydd *Duw oll* YN *oll*." Mewn geiriau creill, bydd cyflawnder y Duwdod, sef hollwybodaeth, hollalluogrwydd, y cyflawnder o wirionedd a'r perffeithrwydd o gariad, yn mhob un o'r dyrfa

liosog yn y deyrnas; a'r pryd hyny y meddianant y priodoleddau hyn, a elwir y "Duwdod," neu Duw *ynddynt oll* a'r oll ynddo Ef; sef yn y Duw hollbresennol hwn. Gwelir oddiwrth weledigaeth Ioan, mai y Duw hwn a fydd a'r yr orsedd farnol, pan y dygir yr holl feirw ger ei fron. Dad. xx, 11—15,—"Ac mi a welais orsedd-fainc wen fawr, a'r hwn oedd yn eistedd arni, oddi wrth wyneb yr hwn y ffodd y ddaear a'r nef: a lle ni chafwyd iddynt. Ac mi a welais y meirw, fychain a mawrion, yn sefyll ger bron Duw; a'r llyfrau a agorwyd: a llyfr arall a agorwyd, yr hwn yw llyfr y bywyd: a barnwyd y meirw wrth y pethau oedd wedi eu hysgrifenu yn y llyfrau, yn ol eu gweithredoedd. A rhoddodd y môr i fyny y meirw oedd ynddo; a marwolaeth ac uffern a roddasant i fyny y meirw oedd ynddynt hwythau: a hwy a farnwyd bob un yn ol eu gweithredoedd. A marwolaeth ac uffern a fwriwyd i'r llyn o dân. Hon yw yr ail farwolaeth. A phwy bynag ni chafwyd wedi ei ysgrifenu yn llyfr y bywyd, bwriwyd ef i'r llyn o dân." Cyferbynier hyn, â'r hyn a ddywed Daniel yn pen. vii, 9, 10, 13, 14,—"Edrychais hyd oni fwriwyd i lawr y gorseddfeydd, a'r Hen ddihenydd a eisteddodd: ei wisg oedd cyn wynned a'r eira, a gwallt ei ben fel gwlan pur; ei orseddfa yn fflam dân a'r olwynion yn dân poeth. Afon danllyd oedd yn rhedeg, ac yn dyfod allan oddi ger ei fron ef: mil o filoedd a'i gwasanaethent, a myrdd fyrddiwn a safent ger ei fron: y farn a eisteddodd, ac agorwyd y llyfrau. Mi a welwn mewn gweledigaethau nos, ac wele, megys Mab y dyn oedd yn dyfod gydâ chymmylau y nefoedd; ac at yr Hen ddihenydd y daeth, a hwy a'i dygasant ger ei fron ef. Ac efe a roddes iddo lywodraeth, a gogoniant, a brenhiniaeth, fel y byddai i'r holl bobloedd, cenedloedd, a ieithoedd, ei wasnaethu ef: ei lywodraeth sydd lywodraeth dragywyddol, yr hon nid â ymaith, a'i freniniaeth ni ddyfethir."

Yr un person gogoneddus a elwir gan Ioan yn Dduw, gan y Mab yn ol a ddyfynwyd uchod, yn "Dduw a'r Tad," a elwir yma yn "*Hen ddihenydd.*" Mae y gwaith mawr a wna, sef barnu y byd, yn profi mai yr un cyfnod y cyfeirir ato gan y naill a'r llall; hefyd, y ffaith na bydd ond "un dydd barn," yn profi mai yr un a fydd y barnwr serch y gelwir ef gan ynaill yn "Dduw Dad," a chan arall "yr hen ddihenydd." Hefyd profa cyffelyb ymddarostyngiad y Mab i'r "Hen-ddihenydd,"

yn ol gweledigaeth Daniel, ag yw yn ol Paul, i "Dduw a'i Dad," mai at yr un person y cyfeiriai y ddau. Hunanieithir hefyd drwy gyffelybrwydd y "llywodraeth" a'r dyrchafiad a dderbyniai y Mab yn ol y ddwy weledigaeth. Cyd wela y ddau danbeidrwydd yr orsedd,—lliosogrwydd y gwyddfodolion, a hynodrwydd y cymmeriadau a fernir, sef y "bwystfilod" fel eu gelwir; heblaw fod unigolrwydd y "dydd barn," y fuddugoliaeth a sicrheir, a thragywyddol fwynhad o'r deyrnas i'w theilwng etifeddion; oll, yn profi mai yr un cyfnod y cyfeirir ato; acfelly mai yr un person barnol a lanwa yr un orsedd ogoneddus, er dan wahanol enwau. Eithr rhag yr arosa ammheuaeth yn hwy, ai yr un yw yr "Hen-ddihenydd" a'r Duw a eilw Iesu Grist yn "Dad," sylwer ar ddywediad yr angel Gabriel wrth Mair ei fam Ef, yn Luc i. 32, 33,—"Hwn fydd mawr, ac a elwir yn Fab y Goruchaf; ac iddo rhydd yr Arglwydd Dduw orseddfa ei dad Dafydd. Ac efe a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd; ac ar ei freniniaeth ni bydd diwedd." Dyma dystiolaeth yr angel mwyaf ond un a feddai y nefoedd, i brofi mai y "Goruchaf" a goronai ei Fab Iesu â'r deyrnas dragywyddol, ac â'r llywodraeth ddiderfyn; a chawsom dystiolaeth Daniel, yr hon a gafodd, yn dra thebygol, gan yr un Gabriel, yr hwn a fuasai gydag ef amryw weithiau, yn profi mai yr "Hen-ddihenydd" a roddai yr un "llywodraeth" iddo; ac felly mwy na thebyg nad oedd yr "Hen-ddihenydd" ond enw arall ar y "Goruchaf," ei "Dad," &c. Wedi ei sefydlu ar y ffaith ysgrythyrol o ddwyfol genedliad y Mab o ran ei Ysbryd o Dduw yn y nefoedd, y gwelir cyssondeb cenedliad ei gorff o'r un Tad yn mrû y Forwyn Gan fod Iesu yn cael ei ystyried yn frawd i ni, oni orfoda y berthynas agos hono ei fod yn *anedig* o'r un Tad â ninnau; er y dichon y Tad hwnw fod yn Dduw ac yn ddyn; yn Dduw neu yn ddyn ar genedliad y naill neu y llall? Os gwir ein gosodiad, mai y "Goruchaf," perthynol i'r byd hwn; sef Tad Iesu Grist yw Tad ein hysbrydoedd,—os profasom mai yr un yw efe a'r hen "Ddihenydd," yna yr "Henddihenydd" yw Tad ein hysbrydoedd ni oll. Rhag ein bod heb brofi yn ddigon eglur, mai yr un person yw yr hwn a elwir yn "Hen-ddihenydd' ag a elwir yn "Adda," ychwanegwn fod hyny wedi ei ddadguddio i Joseph y Gweledydd; os felly, yr un Tad sydd i'n cyrff daearol yn ddechreuol, ag oedd

i'n hysbrydoedd ni; ac mai ein Tad ysbrydol a chorfforol ni, a'n "brawd hynaf," fydd ein barnwr cyfiawn a grasol ni oll, yn y dydd a ddaw. Onid cyssonach hyny nâ'r meddylddrych poblogaidd mai y naill yw Tad ein hysbrydoedd, ac arall yw ein Tad daearol dechreuol? Hefyd, pe felly y mae, gofynwn pa un o'r ddau fyddai ein Tad, os cawn y fraint o gael rhan o "ogoniant meibion Duw," sef "adgyfodiad y corff?" ynte, a honna dau dad ni yn blaut i bob un o honynt? neu a dybir na fydd gan holl feibion Duw eu tad, fel y cyfaddefir y bydd gan y "Mab hynaf?"

Efallai yr arswydir rhag athrawiaeth a ymddengys mor newydd a rhyfedd, ag yw ein testun i lawer; er hyny, ni allwn ni wrth ganlyniadau anocheladwy gwirioneddau a welir yn yr ysgrythyrau; ac ni ddirnadwn pa wrthwynebrwydd sydd gan undyn i'r hwn a ystyrir yn ddigon da i fod yn dad daearol i ni, i fod hefyd yn dad ein hysbrydoedd ni, tra yn Dduw yn y nefoedd;—na phaham nad yw mor addas batriarch, neu Dduw, ag yw i'r un o'r ddwy berthynas flaenorol. Yn mhellach, ymresymwn ar y gosodiad hwn fel y canlyn:—sef, gan nad ystyrir neb o blant Adda mewn sefyllfa o gadwedigaeth berffaith, hyd oni chaffont adgyfodiad eu cyrff yn anllygredig, a bod "yn wyr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist;" pa fodd y cwblhasai Tad ein hysbrydoedd ein hiachawdwriaeth, heb ddyfod yn dad i'n cyrff daearol? Ai o herwydd y mawrheir cymmaint o'r pwlpudau am "gamwedd Adda," yr ystyrir ef yn anheilwng o'r oruchel gylch ag y ceisiwn ddangos sydd yn ei gyfreithlawn hawl? Eithr cofier nad yw efe fwy na ninnau yn euog o bob cyhuddiad a ddygir i'w erbyn o'r pwlpudau, nac, o ganlyniad, yn atebol i'w brawdlys hwy. Os gwaethyga cymmeriad Adda gymmaint am chwe mil o flwyddi etto, ag a wnaethpwyd iddo yn y mynedol, ni wyddom pa le y caiff ei blant rhith dduwiol le ddigon poenus i'w gospi: y mae yn waeth o lawer yn awr nag oedd yn amser Paul, canys dywedai efe "nid Adda a bechodd, ond y wraig." Ac nid yw efe, ar a wyddom ni, wedi ei brofi yn euog o bechod bwriadol, o flaen unrhyw frawdle gyfiawn, er ei fod wedi caru tipyn gormod ar ei wraig efallai, yn anfwriadol; eithr ychwaneg ar hyn etto. Os oedd y Duw hwn ddigon da o wrthddrych addoliad gan Iesu Grist, paham nad yw yn ddigon teilwng o ymddiried ei holl

blant felly? Etto, nid ei berson ond ei Dduwdod, fel y soniasom eisoes; tra y mae yntau mewn undeb hollol â'i Dad ef. Er fod "arglwyddi lawer," paham nad efe yw prif Arglwydd ei deulu ei hun ar y byd hwn? a chan "nad oes *i ni* ond un Duw," paham nad hwn yw efe? Gan y dysgwylia holl feibion Duw gyrhaedd y "gamp uchel" hon; gan mai Adda a bïa y llywodraeth batriarchyddol, drwy iddo ein cenedlu, ac o herwydd i'w Dduw ei osod i "arglwyddiaethu" ar y ddaear hon yn ddiderfyn, paham nad yw efe wedi cyrhaedd y Duwdod yn ol, o'u blaen hwy oll? Er dyfod filiynau o'i hil ef yr un modd, ni byddant mwy anymddibynol arno ef, nag yw yntau ar yr *Eloheim* mawr. Cyn y gwneir ewyllys Duw ar y ddaear, megys ei gweir yn y nef, fel y gweddiodd Crist, rhaid fod pob teulu mewn perffaith ufydd-dod i'w Patriach, yn ol cynllun y nef, a'n tad cyntaf ni oll yn arch-batriarch hollalluog ar yr oll, heb neb yn tynu yn groes. Pe felly, ni fyddai anghen *cyfnewiad* namyn *perffeithiad* yr aelodau, er gwneyd daear yn nefoedd, —a'r hil ddynol yn hil ddwyfol o ran egwyddor. Tra yr ufyddhao i'w Dduw, ei hawl hanfodol i'w llywyddu ar ei eiddo, yn nghyd ag ar y rhai a'i dewisant ef yn dad iddynt; nid oes ond ei droseddau ei hun a'i hamddifada o hyny, ac iddo ef y maent yn gyfrifol, yn ol trefn Duw am yr oll a wnaht.

Hysbysa Joseph y Gweledydd ni, nad yw yr "Hen-ddihenydd," "Michael" ac "Adda," ond gwahanol enwau perthynol i'r un person, ag y dywed yr ysgrythyr gymmaint am eu fawredd a'i ogoniant; dro arall gelwir ef "Michael y tywysog PENAF," a galwai Gabriel ef, "Michael eich tywysog CHWI.' Profir uchafiaeth yr olaf ar Gabriel, yr hwn yw Noah, er ei fod yn ben ar y byd ol-ddiluwiol, fel yr oedd y llall yn y byd cyn-ddiluwiol, drwy iddo ei ryddhau ar ei hynt o afaelion galluog angel "tywysog Persia," yr hwn a'i cadwasai yn garcharor, debygid, am "un niwrnod ar hugain." Y Michael hwn a gawn yn Brif yn y cynghor boreu,—yn ei erbyn ef y rhyfelai Lusiffer; ac Efe a'i fyddinoedd a'i halltudiodd o'r nef; efe a'i rhwyma a'r "gadwen fawr," ac a'i gyra ef a'r "bwystfilod" a'i haddolant, i'r "ail farwolaeth." Os nad Michael oedd Tad yr ysbrydoedd yn y gwrthryfel hwnw, pwy oedd eu tad, a pha ham na sonir am dano, neu na fuasai efe yn pleidio ei blant ufydd yn erbyn gormes y teyrnfradwr? Cawn trwy ddadgudd-

iadau, i'r Tad ofyn i'r ysbrydoedd yn y cynghor boreu, pwy a elai i roddi ei fywyd dros ei frodyr? Atebodd ei Fab hynaf, "Wele fi, danfon fi." Ebe yr ail fab, "anfon fi." Myfi a anfonaf y cyntaf, ebe y Tad, a'r ail a ddigiodd, a'r "pryd hyny y dechreuodd fyned yn Satan." Yn ol hyn, dau frawd oedd Iesu a Lusiffer, yr un oedd eu Tad,—pwy oedd hwnw? Os profasom mai yr un yw yr "Hen-ddihenydd" a'r hwn a alwai Iesu yn "Dad," ac mai yr un yw hwnw a Michael, yna cyfaddefa yr Iesu mai Michael oedd ei Dad; os yn dad iddo ef, ac yntau yn frawd i ni, paham nad y Michael hwnw yw Tad a Duw yr *holl ysbrydoedd*, ïe, tad Lusiffer hefyd? Ai rhyfedd ynte, fyddai iddo fod yn addas farnwr y naill, ac yn Dduw i'r lleill a ufyddhasant iddo? Os Duw i'r ysbrydion, paham nad addas Dduw iddynt tra yn ddynion?

Teilwng o efelychiad yn hytrach nag o gondemniad, pe eu hiawn ystyrid, yw holl ymddygiadau ein Pen-cyfammodwr" at ei deulu a gynrychiolai; ei ofal cyntaf drostynt a welid yn cenedlu cyrff iddynt, heb y cyfryw ni allent bythoedd ddyfod yn Dduwiau, fel efe ei hun; yn nesaf, dysgodd iddynt ffordd yr iachawdwriaeth, trwy eiriau ac esiamplau; cyflwynodd iddynt yr Offeiriadaeth, a galluogodd y rhai a fynent o honynt fel Enoch, i "RODIO GYDA DUW dri chan mlynedd." Er na enwir y Duw hwnw, etto hysbys fod Enoch yn cyd-oesi ag Adda! Nid yn unig dangosodd ei fawr ofal dros wrthddrychau ei "ARGLWYDDIAETH" tra yr oedd yn myd yr ysbrydoedd, ac ar y ddaear gyda hwynt; ond ar ol ei ymadawiad nid oedd ei ofal lai, os efe yw Michael: mynych yr anfonai orchwyliaethau dilynol i ddystrywiad y rhai blaenorol gan ei wrthnysig blant, achubiaeth,—llesâd presennol, a gogoniant tragywyddol y rhai oedd ei amcan yn yr oll. Y naill genad ar ol y llall ag ammodau hedd,—anfonai, drwy y miloedd blynyddau mynedol, ei gedyrn a'i ddewrion yn yr ymgyrch boreuol, megys Abraham, Moses, Elias, a'r holl brophwydi; ac yn yr amser rhagderfynedig, anfonodd ei anwyl Fab,—yr Oen a laddwyd (mewn addewid) er cyn seiliad y byd, er mwyn achub ei frodyr a'i chwiorydd ieuengach,—ei fywyd yn aberth rhoes ar gais ei Dad, yr hyn a'i "llwyr foddlonodd." Yntau a anfonodd ei weision â'r un ammodau heddwch â chynt, ond i gyfarfod â'r cyffelyb arw driniaeth a'u rhagflaenwyr, a chan y rhai a geisient lesoli fwy-

af. Yn olaf oll i'n plith ni, ar ba rai y daeth diwedd y byd eisoes braidd, anfonodd ei weision Joseph a Hyrum, ac ereill lu o ddewrion, megys cynt, ac adferiad yr un ammodau heddwch byth,—"goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd,"—yr "efengyl dragywyddol," drwy yr hon y dygir bywyd ac anllygredigaeth i oleuni. Gwerth eu bywydau hwythau oedd cyhoeddi y genadwri rasol, ac, fel braidd yr oll o'u blaen, seliasant ei gwirionedd â'u gwaed yn ewyllysgar. Pa beth yn ychwaneg a allasai un Tad wneyd er achubiaeth ei blant, nag a wnaeth Efe? Yna yr ymddyscleiria ei gyfiawnder yn ogoneddus, yn nghollfarniad gwrthodwyr a diystyrwyr y fath ragofalon tadol ar eu rhan; ac felly, mawrygir ei raslonrwydd yn achubiaeth ei ufyddion i wynfyd a bywyd tragywyddol.

O! ryfedd ddoethineb arddangosiadol yn nhrefniad cynllun mor ogoneddus, trwy yr hwn y gall olyniad diderfyn o blant Adda ddyfod yn dadau—yn *batriarchiaid*—yn Dduwiau!—oll, yn hollol anymddibynol yn eu cylch,—oll, mewn undeb a hedd, —oll, yn Freninoedd, ac oll yn ddeiliaid, yn teyrnasu mewn gogoniant a pherffaith ddedwyddwch bythol!

Anwyl ddarllenydd, cyd-lawenha â'r awdwr yn y fath fraint —gorfoleddwn yn mhob ufydd-dod i'n cyfreithlawn reolwr fel ein derbynier i'w ogoniant Ef, pan ddelo ar ei orsedd danbaid i farnu byw a meirw, yn ol tystiolaeth yr efengyl hon.

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, MAWRTH 4, 1854.

India Ddwyreiniol.—Ysgrifena yr Henuriad S. A. Wooley, o Kurnaul, dyddiedig, Rhag. 9, 1853, ei fod ef a'r Henuriad Fotheringham, wedi cyrhaedd y lle uchod, ar eu taith trwy yr India uchaf i bregethu yr efengyl; eu bod er ys tua phedwar mis yn teithio, gan bregethu yr efengyl lle y caffent wrandawiad; a'u bod y pryd hyny tua mil o filltiroedd o Calcutta, lle y cychwynasant o hono. Cawsant garedigrwydd mawr gan yr

Indiaid fynychaf, yn neillduol yn Belaspoor, lle yr oedd yr Henuriad Willis yn llafurio yn llwyddiannus. Cyd-dystia y cenadon ffyddlon hyn o anfoniad Duw â holl weision gwirioneddol yr Iesu yn Ynysoedd Môr y Dê, Australia, Cape of Good Hope, a holl barthau y byd lle yr ëir a'r efengyl dragywyddol hon, mai y rhai a broffesant eu hunain yn offeiriaid Cristionogaeth, ac yn "genadon dros Iesu," yw eu gelynion a'u herlidwyr creulonaf hwy. Oddigerth ambell eithriad anrhydeddus, ymosoda y cenadon erlidgar yn waeth na'r dibroffes; mewn gwledydd pellenig y mae ganddynt gryn ddylanwad, o herwydd cynnelir hwy fel *nabobs* yn ngolwg'y werin, trwy gyfraniadau eu hudolion cartrefol, a'r mwyafrif o'r rhai hyny o ddimeuau a cheiniogau y tlodion, y rhai ydynt yn sefyll mewn mwy o'u hanghen eu hunain o lawer.

Blynyddau lawer o adnabyddiaeth â'r gwahanol orsafau cenadol drwy ran fawr o'r byd, a ddarlunia yn awr o flaen ein meddwl, gyda theimladau gofidus dros ein brodyr, beth a ddyoddefant oddiwrth y fath hunanol feilchion coel-grefyddol; ac hawdd genym ni ddeall yr achos o'u gwrthwynebrwydd, canys ofnant golli eu parch a'u ceiniogau; a phe ufyddhäai y trigolion i'r efengyl ni fyddai eu heisieu hwy yno; heblaw eu gelyniaeth at wirioneddau dwyfol. Ystoriau anwireddus y newyddiaduron yw yr oll a ymofynant hwy, a'r oll a goeliant; ac ar hyny gwrthodant wirionedd gwrthbrofiadol. O! y fath greulondeb at ddynoliaeth, yw diystyru eu cyd-ddyn o'r un gwaed a chenedl â'u hunain, ynghanol paganiaid,—filoedd o filltiroedd o bob gwlad waraidd; tra y mae digon o le i'r oll wneyd daioni, pe eu hawydd fyddai achub dynion! Yn awr y mae iddynt hwy eu dydd, a'r dyoddefyddion eu hadfyd; ond buan y daw y dydd pan gyda y goludog hwnw y deallant, mai gwell pe nas ganasid hwy,—mai gwell i'r cyfranwyr atynt i borthi eu tlodion newynog cartrefol, nâ gyru y fath ddynion i wyrdroi paganiaid, moesol mewn cymhariaeth, i fod yn saith waeth blant uffern nag o'r blaen. Ffeithiau a welsom, meddwn, a achosa i ni siarad mor blaen, a'r dyfyniad canlynol o'u llythyr hwy yn y rhyfyn hwn a barai braidd i gerryg siarad yn erbyn y fath Grist'nogaeth greulawn ag a geir yn ei chenadon yn yr India, a llawer o fanau ereill, a ffeithiau a brofant hefyd nad oes ond cadarn fraich cyfraith wladol, yn rhwystro i'w hoffeir-

iaid ddangos y cyffelyb sêl dderwyddol at y Saint yn Nghymru heddyw. Gweddiau ffyddiog y Saint a symudo y rhwystrau o ffordd yr efengyl.

YMFUDWYR I AUSTRALIA.—Trwy lythyr a dderbyniasom yn ddiweddar oddiwrth Wm. Howells, gynt o gwm Aberdâr, deallwn ei fod ef a'i deulu, ynghyd a'r Cymry ereill a gyd-gychwynasant, wedi cyrhaedd pen eu taith yn Castell Newydd, Australia, yn nechren mis Hydref. Cwyna gryn lawer rhag yr erlidigaeth grefyddol a ddyoddefa yn mhob man: desgrifia y temtasiynau ag sydd ar ffordd y Saint i fyw yn dduwiol yn y wlad hono, braidd yn annorchfygol. Ni amcana aros yno ddim yn hwy nag y gall ennill digon i dalu ei ddyledion, ac i ymfudo oddiyno i Seion, lle y dymunasai yn fawr fod wedi myned.

Ysgrifena yr Hennriad Wm. Hyde, cenadwr arosol yno, ei fod ef wedi gweled y teuluoedd Cymreig yn fuan wedi eu tiriad i'r wlad, a dywed eu bod, gan mwyaf, wedi bod drwy gynnifer o brofedigaethau, nes yr oeddynt wedi colli Ysbryd Duw. Dyfynwn a ganlyn o'i lythyr, gan obeithio y bydd yn iachâd hollol i'r rhai sydd yn dyoddef arteithiau y "clefyd melyn," sef chwant aur!—"Os oes penau teuluoedd yn mhlith y Saint yn Nghymru, yn awyddus arw i'w meibion a'u merched fyned i uffern y ffordd agosaf, cynghoraf hwynt i barhau dyfod yn deuluoedd i Australia; a mwy na thebyg y cant y cysur cyn y diwedd o gael eu hunain wedi eu tirio yn yr hinsawdd boeth hono, fel gwobr am eu hannoethineb a'u hanufydd-dod."

Cynghora y Llywydd S. W. Richards, yn benderfynol, i'r Saint beidio myned y ffordd hono; eithr nid dim yn fwy felly nag yr ydym ninnau wedi ei ddweyd cyn hyn, ac hyderwn na fydd raid dweyd ychwaneg wrth neb o'r Saint, mai y ffordd i ddystryw ac nid y ffordd i Seion yw y ffordd yna.

YR ETHOLIAD I'R OFFEIRIADAETH.—Y pwnc hwn a ystyrir mor ddyddorol ag yw bwysig, yn neillduol gan y rhai a feddant gyfran o honi. Nid ei deimladau ei hun a ddywed ein medrus Lywydd—awdwr y traethawd; eithr cyrhaedda deimladau ei holl gyd-weision profiadol, debygwn. Ni cheisiwn ychwanegu ato, ond crefu sylw arno, a chyd-weithrediad â'r egwyddor a ddysga.

Y DUW A ADDOLIR.—Ymbwylled ein dosparthwyr ronyn, a chant a fynont o hono, gyda yr UDGORN nesaf, os bydd bosibl.

YR ARWEINYDD I SEION.—Oedir ef, o herwydd i ni glywed y gwneir peth cyfnewidiad yn y daith dros y plains; dysgwyliwn fanylrwydd o hyny oddiwrth y ffordd fesurydd yn ol ei addewid; a gofalwn ei ddyfod allan yn brydlawn i'r ymfudwyr.

---

## ETHOLIAD I'R OFFEIRIADAETH A'I BWYSIGRWYDD.

GAN Y LLYWYDD, S. W. RICHARDS.

[Allan o'r "Star."]

YN y tymmor hwn o'r flwyddyn, o herwydd yr Ymfudiad, gelwir llawer, ag y sydd i fesur mawr yn anghynnefin, i gymmeryd dyfnach gafael yn gwaith Duw, ac i ddwyn mwy cyfrifoldeb, nag y buont yn arferol a'i ddwyn. Yn yr holl alwadau hyn, y dynion hyny y dylid ymofyn ar eu hol, sydd a'r gwaith yn agos at eu calon, y rhai ydynt ddynion o gywirdeb a ffydd, a'r rhai ydynt yn gymhwys i'r gwaith at yr hwn eu gelwir. Ni ddylai y fath beth fod yn adnabyddus o fewn Eglwys Duw, a'r hyn a gyfenwir "ffafriaeth," yn y byd. Dylai ef y sydd ganddo awdurdod i alw ereill i swyddau, ymdrechu bob amser am ddewis y rhai hyny ag y dywedir wrtho gan ei farn a'i gydwybod eu bod yn gyfaddasaf i lenwi y sefyllfäoedd eu dewiswyd iddynt. Bydd i'r hwn sydd ostyngedig a ffyddlon gael Ysbryd Duw arno yn barhaus, i'w alluogi at ddirnad, mewn gradd, ysbrydoedd y rhai hyny y llywydda ef drostynt, ac i wybod i fesur eu cymhwysderau a'u doniau. Y mae yn hollol annheilwng o ddyn i gyflwyno swyddau, trwy ffafriaeth, ar y personau hyny ag ydynt yn anghyfaddas, tra y mae ereill wrth law ag ydynt yn llawer dewisach i, yn llawer galluocach at, ac yn llawer teilyngach o, y swyddau. Ni ddylai hyn byth gael ei wneyd ar unrhyw gyfrif. Buan y llygrai y fath ffordd unrhyw gyfundrefn hyd i'w gwir fywun. Gellir gweled digon o effeithiau y fath ddull yn y byd, i attal unrhyw un yn dal yr Offeiriadaeth rhag ei thrafnidio; oblegid nid yw ei chyfranu i rai a hoffir yn annheilwng yn ddim llai na'i thrafnidio. Gadawer i swydd-logiad a rhagfasgnachiad pleidiol gael ei gyfyngu i drefniadau beius y byd, i'r rhai y perthyn y fath ymddygiadau gwarthus yn naturiol. Dylent fod oll ynghyd yn anadnabyddus yn yr Offeiriadaeth santaidd,

ac yn nghyfansoddiad Eglwys Crist. Nid ydym yn gwybod fod yr Offeiriadaeth dan ein gofal gwyliadwrus ni yn euog mewn un modd o berthynas i hyn, eithr dichon na fydd gair o gynghor yn anmhriodol, a dichon ysgatfydd y prawf yn air mewn pryd.

Dylai y rhai a elwir i swydd ddyfod i'r cyfryw yn nerth yr Hollalluog, gyda llawn benderfyniad i wneyd yr oll yn eu gallu at fawrhau eu galwad. Diammheuol y galwyd llawer yn rhai nâ ddysgwyliasant hyny ac yn rhai a feddyliant eu bod yn gwbl anaddas i ddwyn y cyfrifoldeb a osodwyd arnynt, ac yn hollol analluog i fawrhau eu galwad. Na fydded i'r cyfryw wangaloni. Mae lle i bob dyn yn Eglwys Duw, ac ni ddylai un dyn ymgilio oddiwrth unrhyw sefyllfa ei gelwir iddi, cyn iddo brofi pa un a all ef ei llenwi ai peidio. Ni wyr dyn pa sefyllfa a all ef ei chynnal, na pha gifrifoldeb a all ef ei ddwyn, hyd nes wedi profi ei hun, dan ddylanwad Ysbryd Duw. Ebe Paul—"Myfi a allaf wneuthur pob peth, trwy Crist yr hwn sydd yn fy nerthu i." Pe b'ai gan y Saint yr hyder hwn, ni byddai ond ychydig o gilio yn ol.

Dichon i Sant ddywedyd y teimla ef ei hun yn wanaf o fewn teyrnas Duw, ar annaddasaf i'w alw i unrhyw swydd o gyfrifoldeb. Digon tebyg mai hyn a all fod yr achos. Ac os oes dyn yn nheyrnas Duw ar y ddaear, yr hwn na theimlodd ei wendid a'i analluogrwydd ei hun, mae y dyn hwnw yn gweinyddu nid trwy allu yr Ysbryd Glân, ond trwy ei allu a'i nerth ei hunan; ac y mae gweinyddiadau y fath ddyn yn ddiallu er lles. A ydyw y Saint oll yn adgofio nad yw gwaith Duw yn cael ei ddwyn yn mlaen trwy allu a doethineb dyn, eithr trwy allu a doethineb ac Ysbryd Duw? "Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy ysbryd i, medd Arglwydd y lluoedd."

Mae y byd yn yr amser presennol yn enghraifft nodedig o wirionedd yr egwyddor hon. Am ddeunaw can mlynedd yr ymrwymodd gallu, dysgeidiaeth, talentau, ac hyawdledd y mwyaf o feibion dynion mewn cynnyg i bregethu yr Efengyl, adeiladu i fyny deyrnas Duw, a sefydlu cyfiawnder ar y ddaear. Gyda pha lwyddiant? Ah! Pa yn wir! Mwy cyfeiliornad, mwy dyryswch, a mwy drygioni. Yn y gwrthwyneb pa peth a gyflawnwyd gan yr Arglwydd, trwy ei was gwan a dirmygedig, Joseph, a'i ganlynwyr, yn ystod byr o dair ar hugain

mlynedd? Ah! dyma wrthgyferbyniad. Mwy goleuni, mwy Efengyl, mwy cariad, mwy undeb a chyssondeb yn mhlith pobl Duw. Dadguddiwyd llawer o egwyddorion gogoneddus, cyfranwyd llawer o wybodaeth i ddyn, adferwyd yr Efengyl i'r ddaear, a chyhoeddwyd hi i brif genedloedd dynolryw, a llawer o eneidiau a lawenychasant yn y goleuni, y doniau a'r bendithion perthynol iddi, ac ymgasglasant eu hunain oddiwrth y cenedloedd, i borotoi at ddyfodiad y Pryniawdwr mawr.

Y dynion a elwir i'r offeiriadaeth santaidd, ac a gynnelir gan ffydd ac hyder y bobl, ydynt yn llawer tebycach i weinyddu yngallu a nerth yr Ysbryd Glân, a bydd i'r bobl dderbyn llawer mwy bendithion dan eu gweinidogaeth, na phan y byddo yr achos fel arall. Mae y Saint yn gwybod eu dyledswydd mewn perthynas i hyn, ac yr ydym yn ymddiried mai eu huchelgais byth a fydd cynnal eu swyddogion, fel y caffo eu dwylaw eu cadarnhau, a'u gwneyd yn rymus i adeiladu i fyny y deyrnas, oblegid gwas Duw ydyw bywyd ac iachawdwriaeth y bobl os y derbyniant ei air a'i gynnal ef: megys y dywedodd yr Iesu am Ioan y Bedyddiwr,—"Os *chwychwi a'i* derbyniwch, hwn yw Elias, yr hwn oedd ar ddyfod."

Os y gelwir dyn, gellir ei olygu fel tystiolaeth, ddarfod i'r rhai sy drosto ei ystyried ef yn alluog i ddwyn cyfrifoldeb ei alwad. Pa ham yr ymgilia oddiwrthi? Ei ddyledswydd, yn gystadl a'i les, ydyw dal i fyny dan y baich, a'r Arglwydd Dduw yn ei nerthu. Ei unig wrthrych yw dwyn allan hyfforddiadau y rhai a leolwyd drosto ef, gyda symlrwydd calon. Ac y mae hyn yn beth haws nag a dybia llawer, pan ei dygir oddiamgylch mewn iawn ysbryd. Mae'r ffordd yn ymagor ar ddeheulaw, ac ar law aswy, o flaen yr anghynnefin, mae rhwystrau erchyll yn ymollwng gyda pharodrwydd, caniateir nerth yn mhob mynyd profedigaethus, a sicrheir llwyddiant o'r diwedd, pan fyddo y llygad yn sengl at ogoniant Duw. Pwy felly a betrusai? Neb, os parhant yn ddiwyd, yn llawn gweddi, ac yn wyliadwrus. Gan hyny gwneled pob dyn ei ddyledswydd, a safed yn y sefyllfa ei gosodir ynddi o amser i amser gan ymddiried ar nerth addawedig yr Hallalluog, a bydd yr oll yn wych, a'r Eglwys yn yr ynysoedd Prydeinig a gynnyddir mewn nifer, ffydd, a phob rhodd dda a pherffaith.

*Cyf.* Robyn Ddu, Eryri.

## NEWYDDION EGLWYSIG TRAMOR.

*Dyfyniad o lythyr yr Henuriad S. A. Wooley, cenadwr yn yr India ddwyreinol.*

"Gan gynted ag y peidiodd y gwlaw, canys dechreuodd ar y boreu yr aethom i Marat, a pharhaodd am dri diwrnod heb beidio, dechreuasom ein gorchwyl, yr hyn oedd ceisio ffurfio rhyw gydnabyddiaeth, a chael tŷ i bregethu ynddo. Gwnaethom gydnabyddiaeth gyda rhai o'r gwyr anrhydeddus y sefyllfa, (gwladwyr), heblaw talu pob moesgarwch i'r swyddogion milwraidd a lywodraethant yma; llwyddasom i gael neuadd helaeth yn Ngwesty Marat: cyhoeddasom y dechreuem ein darlithiau ar brydnhawn penodol; ac hefyd, i brysuro y gorchwyl, galwasom ar uchgadben y fyddin, Waterfield, i gael dodi ein rhybydd yn Lyfr yr eirchion. Dywedai na welai ef un rheswm pa ham nad ellid ei wneyd, ond yr ysgrifenai at y milwriad Hathwaite, C. B. yr hwn yw y llywyddwr presennol, ac y cawsem wybod y prydnhawn. Yr oedd hyn ar y 13, o Hydref.

Daeth yr ateb yn gyfunol, nid yn unig dywedai na chaffai ein rhybydd ei ddodi ar Lyfr yr eirchion, ond na chanateid i ni bregethu yn y Gwesty, nag yn un lle o fewn y gwarchae, eithr cyfeiriodd ni at y swyddog Scott, C. B. yr hwn a ddechreuai lywyddu yma, ddydd Sadwrn, 15ed.

Gan fod genym drefniad i, ac wedi rhoddi cyhoeddusrwydd o ddarlith y prydnhawn hwnw, aethom yn bersonol, ar foreu 14eg, at y milwriad Hathwaite, i weled a ganiateid i ni ddarlithio yr un tro hwnw, pan ein hysbysodd, mewn dull tra afrywiog, na wnai ef ganiatau.

Gan nad oedd tŷ a allem ei gael yr ochr allan i'r gwarchgau, gorfuwyd ni i adael y peth hyd nes y deuai y swyddog Scott, yn ol. Ymwelasom ag ef ar foreu yr 17, o'r mis hwn. Yr oedd hytrach yn fwy moesgar na'r milwriad Hathwaite, eithr dywedodd na ellid caniatau i ni ddarlithio o fewn y dalaeth, "oblegid," ebe fe, "ni ystyriwn mai cyfiawn at ein gweinidogion, a fyddai gadael i chwi bregethu yma, o herwydd talir iddynt hwy gan y llywodraeth i bregethu yn y dalaeth hon." Dywedodd hefyd i'r Esgob ysgrifenu ato i beidio gadael i ni bregethu mewn unrhyw sefydliad filwraidd; os cawsem dy yr

ochr allan, a phregethu dim yn anmharchus o'i olygiadau ef, yr erlidiai ef ni ymaith wrth flaen y bidogau; os gwelid ni yn siarad gyda neb o'r milwyr yn yr heolydd, y mynnai ein gyru allan, ac na chaniateid i ni fyrddio o fewn y lle; ac os clywai ef unrhyw beth yn ein herbyn, y mynnai ein gyru allan ar unwaith gyda gosgordd o anrhydedd. Gofynasom ganiatâd i ddyfod ger ei fron, fel y gallai glywed pob ochr, am mai dichon y dywedid celwyddau am danom. Dywedodd yntau na wnai hyny ddim gwahaniaeth, y mynnai ef ein herlid allan.

Yna gwnaethom ein goreu i gael ty yr ochr allan i'r lle, ond ni allem. Arosasom bump wythnos yno, ac aethom o dy i dy; eithr yr oedd pawb yn rhy brysur i allu gwrando arnom; dywedasant yn eglur nad oedd ganddynt hwy amser i siarad am unrhyw grefydd, ac nad oeddynt yn ewyllysio clywed; o ganlyniad yr unig beth arall i ni oedd, fel y dywedai y brodorion, *Juldy joo*, myned yn gyflym. Ym mhlith ereill ymwelasom a'r gweinidogion Mr. Tuson a Rottan. Dywedodd Mr. Tuson yn eglur yr arferai ef yr holl ddylanwad a feddai yn ein herbyn, ei fod ef wedi ei benodi a'i dalu gan lywodraeth Lloegr, am ddwyn eneidiau at Grist, ei fod yn wrthwynebus i unrhyw gymdeithas arall bregethu yno, ond dywedai nad oedd ganddo amser i siarad a ni, am ei fod yn rhy brysur, ac mewm ffaith nad oedd arno ef eisiau siarad a ni o gwbl.

Penododd Mr. Rottan, brydnhawn i ni fyned i'w dŷ a gweled ein gilydd. Da oedd genym y cyfleustra, nyni a aethom, a chawsom amser tra difyrus. Cydnabyddodd na wyddai ef ei alw gan Dduw, nag ei fod yn pregethu Efengyl Iesu Grist, ai peidio, ond credai ei fod mor agos ag anghenrheidiol, am y tybiai fod y doniau wedi darfod. Yr oedd ef yn rhesymol, a chan amlygu ysbryd da, penododd brydnhawn arall i ymddyddan yn mhellach.

Aethom trachefn yn yr amser penodedig, ond nid oedd gartref. Gan ein bod ar ymadael tranoeth, ac wedi rhoddi iddo fenthyg fy "*Voice of Warning*," yr oedd genym i alw arno y boreu nesaf. Dywedodd wrthym y pryd hyny iddo weled Mr. Wilkins, cennadwr, er pan welodd ni o'r blaen, yr hwn a'i hysbysodd pwy oedd Joseph Smith, a bod yr hyn a ddywedais i wrtho ef, (Mr. Rottan,) heb fod yn iawn (er fy mod yn adnabyddus a Joseph yn bersonol,) a rhybyddiodd ni i beidio a

phregethu yn ychwaneg. Dywedasom wrtho y gwyddom ni ein gorchwyl, yr adwaenem Joseph y Prophwyd, a'm bod i yn bersonol adnabyddus ag ef, ac y gwyddwn ei fod yn ddyn Duw. Hysbysodd Mr. Rottan, pan ei gwelsom y waith gyntaf, y fod Mr. Tuson wedi rhybyddio y Cadfridog Scott, os efe a ganiatai i ni bregethu y caffai drwbl. Offeiriaid Eglwys Loegr, yw y ddau hyn. Crynai gliniau Mr. Tuson, fel yr eiddo Belsassar gynt, gan ofn neu gynddaredd, tra y tystiolaethem wrtho ddwyfoldeb ein cenadwri, wrth ymadael."

## AMRYWIAETHAU, &c.

YMFUDIAD.—Hwyliodd y llong "*Windermere*," o Llynlleifiad ac ar ei bwrdd 482 o Saint ar eu ffordd i Seion: oll o tan arolygiaeth, yr Henuriad Daniel Carn, diweddar Lywydd y Gennadaeth Ellmynaidd, a chyd ag ef, yr oedd saith o Lywyddion Cynnadleddau Prydeinig yn dychwelyd yn fuddygoliaethus o faesydd eu llafur, gan gludo eu hysgubau i'r ysgubor, cyn y delo y gawod ddrycin i lawr. Yr Henuriad George C. Riser, yw yr olynydd llywyddol i'r Henuriad Carn, ac y mae gobeithion calonus o'i flaen.

☞ Hyderwn y caiff ein gohebydd B. J. y goleuni a ymofyna yn y traethawd "*Y Duw a addôlir*," yr hwn sydd yn yr UDGORN. Cyd dystia Llyfr Mormon yn y manau a noda â'r hyn a ddywed Paul, mai o herwydd ei Dduwdod ac nid o ran ei berson, y mae y Mab yn cael ei hunaniaethu a'r Tad—dau personau ond un Duw yw Efe a'i Dad; y Swedenborgers a gredant mai yr un person yw y ddau, yr hyn a ystyrir genym ni yn anmhosiblrwydd: tra mai gwahanol personau yn un Duw ydynt, a orfodir ar ein crediniaeth ni.

☞ Atebwn ofyniad ein gohebydd DIENW, drwy ddweyd mai gyda golwg ar Dduwdod ei Dad y gelwir Iesu Grist yn "Uniganedig Fab Duw, "yn ol y cnawd. "Myfi heddyw â'th GENEDLAIS," ebe Duw; tra mai mewn cylch arall, a than amgylchiadau hollol wahanol, ac o sylweddau gwahanol y cenedlwyd Cain, Abel, &c.

CYNNWYSIAD.

TUD.
Y Duw a addolir—Pwy yw? ..... 133
Golygyddiaeth.—India ddwyreiniol—Ymfudwyr i Australia—Yr Etholiad i'r Offeiriadaeth—Y Duw a addolir—Yr Atweinydd i Seion .... 140
Yr Etholiad i'r Offeiriadaeth &c ..... 143
Newyddion Eglwysig Tramor ..... 146
Amrywiaethau &c ..... 148

MERTHYR-TYDFIL:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14 CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

RHIF. 10.] MAWRTH 11, 1854. [CYF. VII.


## Y DIRYWIAD ANGHRISTAIDD.

GAN ROBYN DDU, ERYRI.

[Parhad o dud. 129]

RHWYSTR mawr, ar ffordd derbyn unrhyw wiredd dyeithr i'r meddwl, ydyw yr anhawsdra sydd mewn ceisio ymwrthod a hen dyb draddodiadol yr ymgynnefinwyd a hi, tra mai hawdd yw digio wrth y rhai a feiddiant ei gwrthsefyll; a dyna pa ham y cospwyd Galilëo am ddywedyd fod y ddaear yn belen ymdroellog yn yr ëangder; a dyna oedd y cyffröad a barodd i'r bobl ladd Crist a'i apostolion, o herwydd pregethu mai Mab y Dyn yw y Messiah. Gwell gan rai, na chydnabod y dichon iddynt hwy gam ddeall unrhyw bwnc, yw ymffyrnigo yn hunanol fel Saint y byd yn nyddiau gweinidogaeth ein Hiachawdwr: y mae eu dysgeidiaeth hwy mor lawn o esboniad a thraddodiad, fel mai tirionach yw ymddygiad publicanod a phechaduriaid, na'r athrawon a ofynant a ydym yn eu dysgu *hwy*. Maethir a chwyddir eu coegfalchder, gan liaws eu dyscyblion, heb gofio mai y cyffelyb riaintyddiaeth sydd i'w poblogrwydd hwy ag i eiddo offeiriaid y gwledydd paganaidd, sef, dylyn dull eu tadau: ac ni ystyriant mai anwybodaeth y werin, am natur gynnyddol y deall dynol, sydd yn peri fod y bobl yn dïystyru gwr oblegid ei newidiad barn trwy dderbyn ychwaneg o addysg; mae penderfyniad barn am beth yn brawf, bob amser, y bod ei pherchenog naill ai yn *gwybod* y peth, neu, ynte, ei fod yn rhy ffol i gymmeryd ei hyfforddi mewn perthynas iddo.

Mae poblogrwydd rhai baldarddwyr, yn dwyn arian i'w llogell-au, trwy eu diwydrwydd i wneyd masgnach o air Duw. Pan ddywedodd dyn, wrth bleidiwr cymdeithasau elusengar, na allai weled buddioldeb y cyfryw sefydliadau, dodedd y dyngarwr ddarn aur ar adnod, gan ofyn i'r dyn ei darllen; ond ni fedrai o herwydd fod y darn aur yn ei rwystro: a chan nad oes tâl blynyddol i'w gael am bregethu gyda y Saint, dichon fod y darnau aur, a geir mewn lleoedd ereill, yn dallu rhai gweision cyflog fel na fynant weled y gwirionedd sydd o fewn llawer adnod werthfawr. Tramgwyddir gwŷr y colegau, gan wladeiddrwydd y gweithwyr gonest, a bregethant yn debyg i'r pysgotwyr a fu gynt ar lan môr Galilëa: ond ni allant hwy ddirnad y dichon tystiolaeth yr Ysbryd, trwy enau yr annysgedig, beri i wladwr, mor afrosgo a gên asyn îr, fod yn ddigon miniog, yn llaw cryfder, i ladd mil o Philistiaid, yn bentwr ar bentwr, chwedl y CADBEN JONES.

Mae dynion yngafaelion hen dybiau cynnefinol, fel rhai wedi eu geni a'u dwyn i fyny mewn carchardŷ; y rhai er clywed y geiriau *allan tref, gwlad*, a *theyrnas*, ni wyddant eu hystyr, mwy nag y deall un a anwyd yn ddall, ystyr y gair lliw *gwyn*; eithr gan y dywedant eu bod yn gydwybodol, cymmwynas eu hysbysu, mai mor wir a bod dyn dan reolaeth cydwybod ydyw y bod cydwybod pob dyn o dan rëolaeth y peth a ystyrir ganddo ef yn uwch awdurdod na'i gydwybod. Hen awdurdod rymus, yn rheoleiddio cydwybod dyn, yw barn y werin, pe mor gyfeiliornus a thyb yr Ephesiaid am eu Diana. Gwyddir nad yw dilledyn mewn cŵd, a'r cŵd yn llaw pregethwr, yn un gronyn mwy pechadurus, na phe y cŵd yn llogell y pregethwr, a'r dilledyn ar ei fraich; er hyny, ar ei fraich y dewisiai ef y naill ac yn ei logell y llall ar y Sul, o herwydd barn y werin yw mai pechod iddo gludo sypyn ar y dydd hwnw; a barn y werin yw y rhwystr penaf, sydd yn attal i ddynion gredu mewn dadguddiad mor barhaus a pharhâd anghyfnewidioldeb y Duwdod tuag at ei Eglwys. Awdurdod nerthol arall, yn tarddu oddiar farn y blaid alluocaf mewn gwlad, ydyw cyfraith y tir; ac oblegid hyn y teimlai herw-helwr euogrwydd; er pe heb i gyfraith y tir ei wahardd, na feddyliasai ef druan fod un trosedd mewn lladd ysgyfarnog wyllt, heb unrhyw nôd perchenogneilduol ar ei chorff na'i chlustiau. Mae yr uwchawdurdodau

hyn, yn peri fod y wraig Indiaidd yn cymmeryd ei llosgi gyda chorff marw ei gwr, mor gydwybodol ag y ceidw Mohammed neu Babydd ei ympryd; yn peri fod y sect fanylaf yn erlid, mor gydwybodol ag y pregethai yr apostolion; ac yn peri fod pleidiau ymraniadol yr oes hon, yn gwadu adferiad y doniau ysbrydol, mor gydwybodol ag y dywed y Saint eu mwynheir ganddynt. Bellach, os ewyllysir i'r gydwybod gael ei rhëoleiddio mewn cywirdeb, ac nid yn y sêl nad yw yn ol gwybodaeth, y mae yn rhaid ei dwyn dan reoleiddiad goruwch-awdurdod cyfraith Duw; ond cyn y gellir hyny, rhaid credu ei rhoddwyd trwy ddadguddiad, oddiwrth y Bod sydd yn dangos ei gyfrinach i'w weision yn mhob oes, ac o dan bob goruchwyliaeth.

Fel na allai yr Apostolion, wneyd gwaith Duw yn eu hoes hwy, heb ddadguddiad o'i ewyllys, mwy nag y gallasâi y patriarch a'r prophwydi ei wneyd, yn eu gwahanol oes hwythau; ac fel na all gweision presennol boneddwr, gyflawni ei waith ef, heb wybod ei ddymuniad, mwy nag y gallasai y gweision gynt ei gyflawni; felly, ni all neb ar y ddaear wneyd gwaith yr Arglwydd yn awr, os heb ddadguddiad o'i ewyllys mewn perthynas i'r genedlaeth hon, mwy nag y gallasai yr apostolion ei wneyd, heb ddadguddiad, yn eu hamser hwythau. Yr oedd gwybod cais y Meistr yn oleuni, ond y mae pob ymdrech, heb deall, yn dywyllwch nosawl; a'r Iesu, yn rhagweled y dirywiad, a ddywedodd, "Rhaid yw i mi weithio tra y mae yn ddydd; canys y mae y nos yn dyfod, yn yr hon ni ddichon neb weithio." Hauodd Ef had da yn ei faes, wrth oleuni dydd; eithr daeth ei elyn Ef, i hau efrau cyfeiliornadau yn y nos a'r dynion yn cysgu. Daeth yr amser na ddyoddefir athrawiaeth iachus, am fod clustiau dynion yn merwino: eithr yn ol eu chwantau, y pentyrant iddynt eu hunain athrawon; a'r rhai hyny bob amser yn dysgu, heb allu un amser ddyfod i *wybodaeth* o'r gwirioneddau; y maent a'u serch arnynt eu hunain, yn ddiserch i'r rhai da, yn caru meluschwant yn fwy nag yn caru Duw, yn enllibaidd, a chanddynt rith duwioldeb, eithr wedi gwadu ei grym hi.

Rhagwelodd Crist yr adferiad presennol hefyd, pan y dywedodd, "Gwyn eu byd y gweision hyny, y rhai a gaiff eu Harglwydd, pan ddel, yn neffro," ac yr ydym yn dywedyd y bod goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd wedi dyfod, oblegid y gwelir genym gyflawni yr addewid "Ar fy ngweision, ac ar fy

llawforwynion y tywalltaf o'm Hysbryd yn y dyddiau hyny: a hwy a prophwydant," &c., &c.

Dywedir yn Dat. xii. 5, 6. Y Cymmerwyd yr Offeiriadaeth santaidd i fyny at Dduw, ac y ffodd yr Eglwys i'r diffaethwch, lle maent yn ei phorthi, 1260, o ddyddiau. Deall holl ddysgedigion y sectau fod dydd y brophwydoliaeth yn gyfartal i flwyddyn Galdeaidd, 30 dydd y mis; a chan gyssylltu 606, blwyddyn rhoddiad y titl Pab, wrth nifer dyddiau ffoad yr Eglwys i'r diffaethwch, ysgrifenasant y dechreuir difodi Llywodraeth y Pab yn 1866. Dywedai John Wesley, ac ereill, y diflanodd y doniau gwyrthiol yn y flwyddyn 567; a chan ychwanegu hyny at 1260, coelient yr adferid hwy yn 1827, eithr y mwyafrif o'r duwinyddion a ddywedant mai yn 570, y diflanasant; ac felly, mai yn 1830 y dychwelid hwy yn ol, ac y dechreuai ymgasgliad yr Eglwys y flwyddyn hono. Yn awr, onid rhyfedd mai yn y flwyddyn 1827, y dywedai bachgen pymtheng mlwydd ei oedran, ynghoedwigoedd America, i angel ehedeg ynghanol y nef, a'r Efengyl dragywyddol ganddo? Ac nid llai rhyfedd chwaith, mai yn 1830. ar y 6 dydd yn mis Ebrill, y sefydlwyd Eglwys Iesu Grist, o Saint y Dyddiau Diweddaf, trwy i ddynion gael y cyffelyb weledigaeth; i ereill eu credu; ac i'r credinwyr, o'r dydd hwnw hyd heddyw, ddyfod i wybod fod y bachgen Americanaidd yn broffwyd i'r Goruchaf, o herwydd y derbyniasant y bendithion hyny, yr addawodd efe eu derbynid gan yr oll a ufyddhäont i'r Efengyl. Pa fodd y dichon i'r sectau fod yn unol a hwy eu hunain, a gwadu adferiad y doniau hyn, megys ag y dywedasant ar gyhoedd, sydd fwy nag a allant ei esbonio byth, er campused ydynt yn y gelfyddyd ariangeisiol.

Dr. Palley, yn ei *Evidence of Christianity*, sydd yn dywedyd fod llythyrau Paul, at y Saint yn Corinth, yn profi fod y doniau ganddynt yno; pe amgen, y buasai ei gyfeiriad pendant at y doniau, yn y cyfryw Lythyrau, yn dangos iddynt nad oedd waeth ganddo beth a ddywedai, ac y dodasai ef ei hun felly yn yn eu gallu, i'w gyhoeddi ef yn llythyrwr celwyddog. Pe y cyhoeddasai y Saint, trwy Gymru, fod y doniau ysbrydol mor bell a'r America, cawsid rhyw esgus tros gymmeryd pwyll cyn eu credu: ond gan yr Argraffwn, yngwyddfod y wlad, y mwynheir y doniau hyn yn mhob lle a Saint ynddo yn Nghymru,

fel yn y gwledydd ereill; a chan fod rhai o'r Saint wrth law, i'w holi ac i'w croesholi am y gwirionedd o fod y doniau Ysbrydol i'w teimlo, i'w clywed, ac i'w gweled yn ein plith yn feunyddiol, rhaid yw i hyd y nod ein gelynion gyfaddef, fod hyn naill ai yn dangos yr ynfydrwydd o roddi yn ngallu y miloedd Saint i gyfodi a chyhoeddi mai anwiredd y cyfan, neu ynte, y teimlir nerth i argraffu a lledaenu y gwirionedd, oblegid llïosogrwydd y tystion byw a pharod i gadarnhau y dywediad. Ac heblaw hynyna, mae yr Ysgrifenydd yn addaw, a hyny yn enw yr Arglwydd, i'r holl rai a ufyddhäont i'r Efengyl, ac y gweinydder ei *holl* ordinhadau iddynt gan weision awdurdodedig Duw yn yr Eglwys hon, y caiff pob gonest ei galon o honynt, trwy gadw holl orchymynion yr Arglwydd, *wybod* y gwirionedd, megys ag y cafodd yntau: canys, y mae yr achos a'r effaith, y dadguddiadau dwyfol a'r unoliaeth eglwysig, yn gyfryw y gellir dywedyd mor gadarnhäol yn awr, ag yn nyddiau Peter, Iago, ac Ioan, mai hon ydyw Eglwys Iesu Grist.

*(I'w barhau.)*

---

## CAIS I DDEONGLI Y DDAMMEG O "SIARAD PLANT,"

*Yr hon a ymddangosodd yn y 7fed Rifyn, tud.* 113.

DEALLWN wrth yr ymrafael rhwng Moses a Deio, fod yr olaf wedi cyrhaedd oedran i allu amgyffred y pwnc yn wirioneddol; tra nad oedd Moses ond dan draddodiad ei rieni, a'r rhai hyny megys yn oedi egluro y pwnc, o herwydd ei fod yn analluog i ddeall yr egwyddor, yr hyn a ymddengys yn ddoethach na phe buasent yn egluro cyfran iddo y pryd hyny; ette, gwyddent yn eithaf da y deuai i wybod. Credaf mai Deio a ennillodd, a chaniatâu i Moses fyw i oedran megys Deio; a'r pryd hyny gallai ddweyd yr wyf yn gwybod mai Deio sydd yn iawn. Nid oedd hyny yn peri iddo golli ei ymddiried yn ei rieni, ond yn hytrach fel arall, gan gydnabod eu bod wedi ymddwyn yn ddoeth yn hyny.

Dysgwn oddiwrth hyn, fod Duw yn llefaru wrth ei blant yn gyffelyb i fel y gwna rhieni Moses bach ag yntau, tra y byddent dan oedran i ddeall y gwirionedd ynghylch rhyw egwyddorion. Rhai a feddyliant fod egwyddorion yr eglwys yn yr amser pre-

sennol, ychydig yn wahanol i'r hyn a feddyliasent eu bod; megys, mewn perthynas i gynfodoldeb Dyn, cyn sylfaenu y byd; am ei genedliad o Dad, a'i eni o fam yn y nefoedd; anhawdd yw i resymau cadarn dros y pwnc orchfygu hen draddodiad. Felly y mae mewn perthynas i greadigaeth Dyn o bridd y ddaear hefyd. Ond, feallai fod "siarad plant," wedi bod gyda y pethau hyn, ag fod Duw yn yr oruchwyliaeth ddiweddaf yn llefaru yn fwy eglurhaol, gan ei fod yn "adferyd pob peth;" os nad felly, paham yr ewyllysiodd llawer o'r hen brophwydi fyw ynddi?

Os na tharawais yr hoel ar ei chlopa cymmered arall y mwrthwyl a threied ei law, yw dymuniad

Eich gohebydd,

*Dyffryn Conwy.* WILLIAM DAVIES.

---

CYNNYG ARALL.

Mr Golygydd,—Ar ol hir bwslo fy mhen am ddeongliad i eich Dammeg o "Siarad Plant," yn nhud.113 o'r UDGORN, fel yr oeddwn yn darllen yr ail bennod o lyfr Genesis, ac yn neillduol y 7fed adnod, sibrwdodd rhywbeth yn fy nghlust:—dyna, dyna i ti allwedd y ddammeg "siarad plant!" Darllenais hi drachefn, ac wed'yn, a chymharais y naill wrth y llall, ac yn fy myw ni allaf wella yr allwedd: os camsynied wyf, da chwi argyhoeddwch chwi neu rai o'ch gohebwyr fi drwy yr UDGORN,

Yw dymuniad ewyllysiwr da i'ch HUDGORN,

J. D. J.

---

## CENFIGEN.

GAN JOHN JAQUES.

"At genfigen y mae chwant yr ysbryd a gartrefa ynom ni." IAGO iv, 5.

NI lefarwyd erioed eiriau mwy gwirioneddol na'r uchod. Prawf ymarferiad bob dydd, mai un o'r gorchwylion anhawddaf a berthyn i hunan-lywodraeth ydyw cadw y galon yn rhydd oddiwrth deimladau cenfigenllyd. Bydded i gydnabyddiaeth, cymmydog, neu hyd y nôd i gyfaill dyn, ennill elw, ffafr, neu fendith, a bydd i deimladau o genfigen ymdrechu effeithio mynedfa i fonwes y dyn hwnw yn uniongyrchol. Y mae yn rhyfeddu pa ham na ffafriwyd yntau, os nad yn lle, o leiaf gystadl a'i gydymaith; pa

ham y dewiswyd arall ac nid ei hunan, nis gall amgyffred. Ac oddigerth i un sefyll yn benderfynol a chyda chyflymdra yn erbyn y teimladau hyn, nid yw eu canlyniadau o'r fath hyfrydaf. A dynion ag ydynt mewn modd arall yn dra daionus, a'i canfyddant yn beth anhawddaf, cynnal meddwl tawel dan y fath amgylchiadau.

Nid yw y teimladau cenfigenllyd hyn at lwyddiant arall ychwaith yn neillduol i'r bydol-ddyn. Ymwthiant ar dro i blith y Saint, a rhy fynych eu llochesir ac eu hannogir, yn lle eu bod yn ddiattreg ac heb ddefod yn eu bwrw allan. Yn wir, gallai un feddwl weithiau fod cenfigen yn fwy ar ei oruchafiaeth yn mhlith llawer o Saint nag ydyw yn y byd. Ni ddylai fod felly, oblegid y mae hyn yn cloddio dan sylfaen pob teimlad daionus, ac yn dinystrio y cyssondeb a'r undeb hwnw a ddylai bob amser nodweddu Saint Duw. Paham y teimlai unrhyw sant yn ddrwg, neu y mueddiannai ef y teimlad caled lleiaf yn codi o'i fewn, o herwydd i'w frawd gyrhaedd sefyllfa ennillfawr, neu y penodwyd ef i swydd o gyfrifoldeb yn yr Eglwys? Oni ddylai y Sant yn hytrach lawenhau gyda'i frawd yn ei ddyrchafiad i anrhydedd? Byddai hyn yn debycach i ddwyn yn mlaen gynghor y cyn apostol—"mewn addfwynder meddwl bydded i bob un ystyried arall yn well na'i hunan." A yw sant mewn colled tuwy lwyddiant ei frawd? Nag ydyw yn sier, mae colled ellan o'r gofyniad. Ennill i un sant gwirioneddol, sydd ennill i'r holl Saint gwirioneddol, canys y maent oll yn aelodau o un corff, a dylent oll dderbyn o un ysbryd.

Digwydd yn achlysurol fod pobl yn y byd yn gallu gwneyd gorchwyl-drefniant tra llwyddiannus, ac nid oes sylw yn cael ei gymmeryd o hyny gan y Saint, tra os cyferfydd brawd gydag ond un bedwaredd ran o lwyddiant y bydol ddynion, nid y pethau pertiaf a gylchanfonir o barthed iddo, gan ei frodyr a'i chwiorydd hefyd. Pa fodd yr edrych hyn yngoleuni yr Efengyl? Nid canmoladwy mewn un modd, bid sicraf. Y Saint a roddant eu ffordd i'r fath deimladau anghlodfawr, ac anghristionogol, nid ydynt yn arddangos ysbryd yr Efengyl, ond y goleuni ag y sydd yn y fath Saint a ddaw gyda brys yn dywyllwch, oddigerth iddynt edifarhau, a gwellhau eu ffyrdd.

Teimla un brawd ei hun oll yn wyrdraws, o herwydd y dewiswyd teulu penodol yn ei Gangen i ymfudo gan Drysorfa y

Gymdeithas Ymfudol Barhaus, tra yr ystyria ef deulu arall y medrai ef ei enwi, yn llawer mwy dewisol a theilwng. Pe byddai ganddo ef ddosparthiad y Drysorfa, neu ddewisiad o'r Ymfudwyr, ymddygai ef yn hollol wrthwyneb i fel yr ymddygodd ei frodyr mewn gallu. Diammheuol y gwnelai. Y mae yn ffaith hynod y bodola bob amser ddosparth o ddynion a fedrant drefnu pethau yn ddiderfyn well nag y gwna y rhai hyny ag y sydd mewn swydd. Ac y mae yn ffaith ganlynol fod y trefnwyr hyfedr hyn bob amser allan o swydd. Ond nid y rhai hyn ydynt y drygau gwaethaf. Mae y grwgnachwyr yma yn dinystrio hyder, a phan ddistrywir ymddiriediad palla yr undeb ymdrech mewn gradd gyfatebol, ac fel hyn tyf y drwg yn ddyfnach ac ëangach. Ni byddai y tu allan i'r gwir, ddywedyd, fod dylanwad un grwgnachwr a'i duedd i wneyd mwy ddengwaith o niwed nag ydyw y cyfeiliornad mewn barn, a wneir yn esgus tros rwgnach, a chaniatau fod ynddo y cyfryw gyfeiliornad.

Yn lle cenfigenu wrth frawd, neu ymfoddhau mewn athrodi ar ei draul, llawer adderchocach a fyddai ceisio ei lesoli, trwy gydlawenhau ag ef yn ei lwyddiant, a chydymdeimlo ag ef yn ei ffaeledd. Byddai y fath agwedd ddengmil o weithiau yn well na rhoddi ffordd i deimladau cenfigenllyd, ac i oerni a diffyg ymddiried canlynol o hyny. Dylid gwarchod yn erbyn y pethau hyn gyda phob dyfalwch. Dylai dysgwyliadau a hawddfyd ein brawd fod an anwylaidd genym ni, dylid gofalu am beidio gwneyd unrhyw beth i'w hanafu, a dylid bob amser wrthwynebu unrhyw deimladau o genfigen a ddichon godi yn ein monwesau; oblegid, "o flaen cenfigen pwy a saif?" Pan ganfyddiom ysbryd o'r rhywogaeth yma, dylem yn uniongyrchol ei ddodi o dan ein traed.

Pan yr achoso llwyddiant brawd i genfigen godi yn monwesant, byddai yn burion iddo chwilio ei hun, a dwyn ei feddwl i siriol ymddarostwng i gyfyngder cyfatebol ac uniongyrchol. Os gall ef wneyd hyn, ni bydd ef mewn cymmaint perygl oddiwrth genfigen ynddo ei hunan. Eithr os na symudir ei deimladau cenfigenllyd gan y dull yna, efe a all ymdrechu gwneyd rhyw ddaioni pendant i'w frawd llwyddiannus, gan fod yn benderfynol i siarad yn dda am dano, ac felly barhau mewn gwneyd daioni, hyd nes i feddyliau da, gweithrediadau da, a theimladau da ennill y fuddugoliaeth.

# UDGORN SEION,

AC

# Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MAWRTH 11, 1854.

Dywenydd genym allu difyru ein darllenwyr, ynghyd a holl ewyllyswyr da i grefydd Crist, drwy udganiad wythnosol ein Hudgorn, yn dynodi ei buddugoliaethau campus;—ein llais y tro hwn hefyd yw,—yn mlaen, yn mlaen, gyd-filwyr i'r frwydr;—yn mlaen mae ein Hudgorn etto yn galw; yn mlaen, ebe llu o ddewr filwyr Iesu sydd ar y maes yn ennill tir o gam i gam yn mhob cwr o'r byd. Yn mlaen mae y Brenin ei hunan! yn mlaen fyddo arwyddair yr oll a ddysgwyliant gydag Ef deyrnasu! Er echrysloned rhuthr yr wrthblaid—er eu rhif; ie, pe deuent fel cenfaint o wlad annwn, y mae mwy o'n plaid, a buddugoliaeth yn ddiammheuol. Tra y mae sôn am ryfeloedd, trwst arfau, a lleisiad udgyrn pob gwlad, yn galw ei thrigolion i ryfel dur, pylor, a phlwm; a thra y britha y banerau eu llygaid wrth arwain eu miloedd yn mlaen, a thra y darperir i waghau ein byd o'i drigolion; anamserol yw i filwyr Iesu hepian na digaloni: eu hannog, eu *cymhell*, eu symbylu i fwy diwyd-rwydd a ddylai yr holl ffeithiau cythryblus hyn ei wneyd.

Arfau milwriaeth y Saint nid ydynt gnawdol, ond ysbrydol a nerthol trwy arddeliad eu Duw, i wneyd pob campwaith a ddymunant. Arfau y byd i ddinystrio eu gilydd, angeuol ydynt; eu harfau yn erbyn teyrnas ein Duw, anwireddau y'nt, wedi eu plethu, eu gwau, a'u clymu yn areithiau, caneuon, traethodau, ac yn mhob dull a allant ddyfeisio; ac o bob tŵr ergydiant eu sacthau; ond, rhyfedd mor ddirym! Tra i'w gwrthsefyll, pe lloned byd o honynt, a phob un yn Goliath, fel Dafydd a'i ffon dafl, y Saint, yn galonog a ânt, wedi ymwisgo â tharian y wir ffydd—helm yr iachawdwriaeth fawr,—cleddyf dau finiog yr Ysbryd Hollalluog. Tra yn ffyddiog filwrio o blaid ei deyrnas Ef, nid oes a'u lluddias; er y—

Geilw'r gelyn am ei athrod,
Galwed ef, ac am ei dân;

Tra mae Brenin nef yn galw,
Rhaid i'r Sant yw myn'd yn mla'n.

Tra yn *byw* eu crefydd, anffaeledig ydynt; tra na all eu gelynion edliw iddynt eu *pechodau eu hunain*, yn ofer yr edliwiant bob peth arall. Yr hwn sydd yn caru gweled llwyddiant ein crefydd, dangosa hyny po fwyaf yr ymdrecha i gael gan ei phroffeswyr gydymffurfio â'i gofyniadau dwyfol hi. Ei ffyddlon ufyddion yn unig a lesolir gan Idi, tra ei phroffeswyr anufydd, hi a'u condemnia. Nid lliosogrwydd nifer, ond lliosogrwydd gweithredoedd da—nid pa nifer a fedyddiwyd yn unig, ond pa nifer a ennillwyd i gadw holl gyfraith Duw, yw testun ein hymffrost parhaus; y sawl ni wnant yr olaf, nid oes ganddynt hawl i, ac o ganlyniad, na fydded iddynt aelodaeth ddim hwy nag y profant hyny. Tra y llawenhawn yn fawr yn nychweliad y cyfrgolledig ag ydynt wrth y degau yn dyfod mewn rhai manau, etto mwy llawen genym weled argoelion o'u hymroad i ryngu bodd Duw trwy eu duwioldeb:—tra y dymunem argraffu y pwysigrwydd o achub pob enaid a ddymuna achub ei hun, ar feddyliau y Llywyddion yn enwedigol; etto, ni fynem iddynt anghofio cyfiawnder Duw, nac i adael i'w reolau dyscyblaethol Ef gael eu sathru o dan eu traed. Mae penderfyniad Llywyddion y Gynnadledd hon, i ymweled â'r holl rai llesg o dan eu gofal, a'u gosod yn ddiesgus y naill ffordd neu y llall, erbyn y Gymmanfa nesaf, yn ganmoladwy ac yn deilwng o efelychiad. Chwyner y cangenau, nid *cyn* ond mor fuan ag y gwybyddir eu bod *wedi* cwbl farw, ac na fynant ymfywhau; ac felly, bydd gwlith bendith y nefoedd yn gawodydd mwyneiddiol yn gwyrddlasu ein pren dwyfol, a'i addasu i ddwyn ffrwythau mor anfarwol ag eiddo "Pren y Bywyd."

---

Newyddion Cartrefol.—Dwyreiniol Morganwg—Dyddorol yr ystyria ein cyd-weision yn y winllan, y newyddion a'r penderfyniad a ddarllenir yn hanes y "Cynghor Cynnadleddol" yn Merthyr, yn y rhifyn hwn, ac hyderwn y gellir dweyd yn gyffelyb am bob Cynnadledd cyn hir. Mawr a diwyd yw llafur ein cymmodol Gynghorydd Daniels, i gymmodi a bywiogi yn y Gynnadledd hon; mawr rwymau sydd ar y Saint i ddiolch i Dduw am fendithio ei ymdrechiadau diflino,—mwy-law o nerth a gaffo efe, a'n hanwyl gyd-weithwyr ereill: gwir

awydd calon y rhai yw llesiant pawb, a llwyddiant gwaith y Gwaredwr.

Cyn. Caerfyrddin.—Ysgrifena y Llywydd eu bod hwy oll yn unfrydol i wneyd eu goreu i gario gwaith Duw yn mlaen; a bod y fath fawr syched arnynt i fwynhau mwy o effeithiau melysaidd eu crefydd, fel y cydunasant i ymprydio a dyfal weddio, heblaw byw yn deilwng o'u galwedigaeth nefol i'r dyben hyny, ac i fwynhau mwy o'r doniau ysbrydol yn eu plith. Y Cyfranwr grasol a'u diwallo;—efelycher hwynt; ac oddiar sail ei gyfraniad o'r doniau nefo'aidd i amryw gangenau ereill, fel tâl am y cyffelyb daerineb, calonogwn y Saint obeithio yn ffyddlog am y cyffelyb fendithion.

Penfro Dóeheuol.—Bu Cymmanfa y Gynnadledd hon yn Monkton, Chwefror 19. Cafwyd y cynnrychioliad fel y canlyn:—Rhif y Cangenau, 13; Hen. 28; Off. 6; Ath. 6; Diac. 8; Aelodau, 150.—Cyfanrif, 228. Bed. 6; Ymf. 7. Da genym ddeall drwy lythyr y Llywydd Price, fod y fath undeb, cariad, a llawenydd yn mhlith y Saint, ac hyderwn y bydd eu hufydd-dod i'r cynghorion a'r ddysgeidiaeth a gawsant, gynnyddu eu teimladau dedwyddol, ac y cyd-weithiant oll i fyned â thraethodau oddiamgylch, fel eu dysgwyd, ac hyderwn y cawn sylw buan a theilwng holl Lywyddion Cynnadleddau drwy y Dywysogaeth, at y ffordd ragorol hon o ledaenu yr "argraffedig air."

Gwynedd.—Ysgrifena yr Henuriad Jeremy, o Landdoged, Chwefror 25, lawer o newyddion da am lwyddiant yr efengyl—amryw fedyddiadau mewn gwahanol fanau, ac Ysbryd yr Arglwydd yn nerthol weithio yn y Saint i dduwioldeb, ac yn y Cymmanfaoedd yn neillduol, i orfoleddu yn eu breintiau;—addunedau aml, ac argoelion gobeithiol am y tymmor dyfodol.

---

Y Taliadau am Lyfrau.—Na phared ymdrechiadau teilwng y Llywyddion o barthed i adfywiad y Saint, na lledaeniad yr efengyl, na dim arall, iddynt esgeuluso nac anghofio talu am y llyfrau yn hollol. Nid oeddem yn meddwl hyd yn hyn y buasai eisieu dweyd wrthynt fod argraffu llyfrau yn costio arian! credasom yn y misoedd mynedol y buasent yn cofio wrth weled rhifynau o'r Udgorn yn dyfod allan heb ddangosiad o dderbyniad ceiniog o arian o unrhyw fan yn y

cyfamser; do, credasom y buasai gweled cyn lleied o dderbyniadau yn y rhifynau ereill, ac yn enwedig dan yr ystyriaeth mai *dechreu* gorchwyl costfawr, o dan anfantesion mawrion yr y'm, yn ddigon i gywilyddio pawb ag y perthyna, i sylwi mwy ar y gwall hwn ac i'w *wella* heb hyn o awgrymiad; eithr wedi dyoddef cyhyd, gwelwn ein siomi. Yngwyneb yr ystyriaeth o'r hen ddyled sydd yn sefyll ar y mwyrif o'r Cynnadleddau er y llynedd, ac yn ol fel y dechreuir eleni, oni arswyda rhai rhag gweled eu dyledion yn ngoleu haul cyn diwedd y flwyddyn. Yn awr yw'r amser i'w wylied ynte, cyn yr elo yn anfeddyginiaethol, nag yn faich. Yngwyneb y gyfraith sefydlog, sef "nad yw y llyfrau i'w gwerthu ond am arian parod," methwn a dirnad yn mha Fank y cedwir yr arian llyfrau, a ddylent dreiglo ffordd hyn bellach! Ni wyddom am neb o Fenni i Fôn sydd a mwy o'u hanghen, nac yn deilyngach o honynt nag y'm NI fach! Frodyr, beth yw'r mater? paham na ddo'nt? Beth meddwch yngwyneb y ffaith y fod gwerth yn agos i £70 wedi myned o'r Swyddfa hon eleni, heb ond tuag £20 o arian wedi cael eu talu am dauynt o Gymru i gyd!! Mae hyn yn ddiffygiol o tua £50 mewn dau fis! Yn ol hyn cynnyddai y ddyled am lyfrau tua £300 erbyn diwedd y flwyddyn hon! Gato pawb, ymswyner rhag y meddylddrych!

---

## CYNGHOR CYNNADLEDDOL.

*Nos Fawrth, Chwefror* 12, 1854.

LLYWYDDWYD, gan y Llywydd D. Jones; ac wedi canu Hymn, gweddiodd yr Henuriad Daniel Daniels.

Y Llywydd, wedi iddo grybwyll am y teimladau dymunol a roddai hyfrydwch iddo pan yn cyfarfod a brodyr a chyd-swyddogion mewn Cynghor, a dywedyd fod ymadroddion y brodyr a'r offeiriadaeth ganddynt, wrth amlygu eu teimladau mewn cyfarfodydd o'r natur yma, yn rhagori ar a geir mewn un man arall, a alwodd ar Lywyddion y gwahanol Gangenau i fynegi ansawdd eu sefyllfaoedd, gan obeithio y bod yr oll a ddaethant ynghyd yn teimlo pwysigrwydd gwaith yr Arglwydd.

*Cangen Merthyr.* Henuriad Thomas Rees, a hysbysai fod y Gangen hon ar gynnydd a gwelliant mewn pob ystyriaeth; dychwelodd 22, a bedyddiwyd un, er amser y cynghor blaenorol; a cheir braidd yr oll o'r aelodau mewn teimladau daionus.

*Georgetown.* Henuriad Thomas Evans, a fynegodd fod adfyw-

iad yma; ac at y rhai a ddychwelasant yn flaenorol, ddarfod i un swyddog, a 17 aelodau ddychwelyd er y cynghor cyn hwn; mawr yw ei lawewydd ef, fel yr oll yn y cyfarfod, yn herwydd yr argoelion dymunol sydd o lwyddiant ar y gwaith o achub eneidiau anfarwol.

*Ffynon Tydfil.* Henuriad David John, a deimlai yn llawen am fod, oddigerth un neu ddau, yr oll mewn undeb cariad a chydweithrediad. Dychwelodd rhai yn ol yma.

*Ynysgau.* Henuriad John Andrews, a ddywedai fod yr oll o'r Saint a'r swyddogion mewn ysbryd rhagorol, ac yn dyfod i'r cyfarfodydd yn llawer lliosocach a chyssonach nag y buont arferol a dyfod er ys gryn amser; y bod hefyd amryw ddyeithriaid yn rhoddi eu presennoldeb ynghyfarfodydd y Saint, megys ag yn y cyfarfodydd pregethu.

*Cefn-coed-cymmer.* Henuriad Edward Williams, a deimlai yn siriol, am fod y swyddogion a'r Saint yn byw mor agos i'w lle; dychwelodd 3, er y cynghor o'r bluen, ac yr oedd un i gael ei fedyddio y noswaith hono.

*Pendaren.*—Henuriad David Morgan, oedd fel y brodyr oll, yn llawenhau o herwydd yr arwyddion daionus a geir yn y gangen hon; mae y llesg yn ymgryfhau, y Saint yn eu lle, a'r doniau ysbrydol ganddynt i'w mwynhau,

*Gwernllwyn.*—Henuriad Evan Thomas, a ddywedai fod 2 wedi eu hadferyd, y swyddogion sydd yn eu lle ydynt dda hynod, a'r oll mewn undeb bywiog a serchog.

*Dowlais.*—Henuriad Thomas Davies, a deimlai yn llon o herwydd yr adfywiad sydd trwy y dosparthiadau, ac oblegid yr undeb brawdol sy rhwng y Saint.

*Rhumney Cymraeg.*—HenuriadThomas Paynter, a hysbysai eu bod yn hyfryd yno.

*Twyn Carno.*—Henuriad Jeremiah Price, mae yr oll yn eu lle, a phregethir allan yn ddiwyd.

*Rhumney Saesneg.*—Henuriad George Adams, mae yma undeb cariad a bedyddiwyd un, er y cynghor blaenorol.

*Troedyrhiw.*—Henuriad Thomas Owen, y swyddogion a'r Saint yn eu lle oll, cyfarfodydd hyfryd, argoelion amlwg o lwyddiant, a 7 wedi eu badferu er y cyngor o'r blaen a fu yma.

*Y Llywydd D. Jones.*—Diammheuol fod y newyddion yn enyn llawenydd yn mhawb o honom. Mae ynwyf flys troi yn brydydd, neu wella gwaith hen brydydd, fel hyn:—

> "Sôn am *wella* glywir yma,
> Sôn am *wella* glywir draw,—
> Sôn am *wella* fydd yn mhobman,
> Fel yn Merthyr maes o law."

Ac, ond cael pob peth i'w le yma, gellir dysgwyl am adfywiad ac adferiad trwy Gymru oll yn fuan; mae llawer yn ymddibynu ar ein buchedd a'n diwydrwydd ni, tuag at ddwyn adferiad cyffredinol oddiamgylch; eithr i Dduw y byddo yr holl ddiolch am y

daioni mawr a wnaeth Ef ynom a thrwyddom eisioes. Mae llawer o le i ni weithio, a bydded i ni gydymdrechu am lwyddiant yn yr amser dyfodol: ac i'r dyben hyny, gofalwn am i ni, bob un droi yn ei gylch ei hunan, gan feddiannu cariad, undeb, a chydweithrediad o lwyr fryd calon.

Ymegnïwn am gael y cangenau oll i'w lle; ac, ond i ni gael yr holl swyddogion a Saint i'w lle, bydd genym fan addas i'r byd ddyfod i fewn iddo. Ein mawr ymdrech a fyddo am gael i mewn y rhai sydd wedi myned allan; y mae ganddynt fwy cyfrifoldeb i'w ateb, na y rhai na dderbyniasant y rhodd nefol; ac o ganlyniad, dylem deimlo yn ddwysach o'u herwydd, mewn cyferbyniad i echryslonrwydd eu sefyllfa.

Ymegnïwu hefyd, mewn cyssylltiad a'r gwahanol gasgliadau sydd eisoes wedi eu gosod ger ein bron.

Yr ydym am gael cylch pregethu, ac y mae angen swyddogion i'w lenwi. Na adawer lle i rwgnach drwy i'r llywyddion cangenau gymmeryd i fyny yr amser a ddylid ei roddi i'r brodyr yn y cylch i siarad; ymdrecher am ganiatau cyfleustra i'r brodyr.

Yma, arwyddodd y brodyr yn unfrydol eu boddlonrwydd i fyned i'r cylch pregethu,

Dywedai y Llywydd yn mhellach, fod y llywodraeth wladol, tra yn curo i fyny am wirfoddiaid i'r fyddin a thra yn danfon miwyr i ryfel, yn gofalu hefyd am warchodwyr cartrefol; ac mai yn yr un modd y dylem ninnau, osod y Dysgawdwyr a'r Diaconiaid, i edrych ar ol y cangenau eglwysig, tra yr Henuriaid allan yn pregethu, oddigerth yr Henuriaid a fyddont gartref o herwydd eu henaint a'u methiantrwydd. Fel y mae newid ymborth yn lles i gyrff, felly y bydd newid doniau swyddogion i feddyliau dynion: ac ond i ni fyned allan wedi ein gwisgo yn holl arfogaeth Duw, troir y fuddugoliaeth i ni yn sicr. Eithr rhag bod un dyryswch, gwell i naill a'i llywydd, neu ynte Gynghorwr, yn mhob cangen gael ei ryddhau o'r cylch pregethu, ac aros gartref i gadw pob peth mewn trefn.

---

## ARWYDDION YR AMSERAU.

Parhau i guro i fyny am wyr i'r fyddin, a chofrestru morwyr i'r llynges sydd trwy y deyrnas gyfunol. Cychwynodd amryw gatrodau o arfogion eisioes tua Twrci, ynghanol bonllefau trigolion Llundain, a llawen floedd pobl y lleoedd ereill yr ymdeithiasant trwyddynt. Bydd oddeutu 20,000 o wyr wedi eu danfon i faes y lladdfa, erbyn canol y mis presennol; a thybir na bydd ond brwydro trwyadl ar dir a dwfr y pryd hyny. Teithiodd milwyr trwy Ferthyr, i gymmeryd lle y rhai a fordwyid o Penfro i'r rhyfel.—Cododd y Frenines, Tywysog Cymru, a'r Tywysog Albert yn foreu, i weled catrodau yn myned heibio y Palas yn Llundain; a mawr y canu a'r bloeddio yr oedd y lluoedd gwerinol, tra offerynau cerdd y milwyr yn gogleisio clustiau y torfäoedd llawen.

Amgauir Rwssia i mewn gyda muriau o ddur angheuol. Unodd Awstria a Prwssia yn ei herbyn. Enfyn Lloegr 50, a Ffraioc 39 o longau rhyfel i'w gwrthwynebu; a dyna lynges na welwyd erioed o'r blaen ei chyffelyb. Boddir, gan gyffroad y llawenydd, bob meddwl am nifer y lladdedigion a fydd yn gordoi maesydd cyfandir Ewrop—Torcalonus a fydd y gwragedd a'r plant a adawir yn ol, gan y milwyr a'r morwyr, i fyw ar drugaredd y wlad Tra y llyncir lleoedd gan ddaeargryn, a thra yr ysglyfaethir bywydau lawer gan glefydau, llyncir hefyd bob meddwl gan y brwdfrydedd sydd yn mhlaid y rhyfelgyrch presennol.—Terfysglyd yw y llywodraeth babaidd, dyrysiyd hynod yw y byd dwyreiniol drwyddo oll, ac nid yw y byd gorllewinol nemawr well. Lleddir 40 yeh y dydd yn lluniaeth-dŷ Plymouth, a degau o anifeiliaid, yn ddyddiol, mewn portbladdoedd ereill at borthi y llyngeswyr; ac er y dysgwylir gweled muriau coed a cherryg. Rwrsia yn ysgyrion, rhwng Lloegr a Ffrainc, teimlir y drudaniaeth a achoswyd gan y cythrwfl trwy holl wledydd Ewrop; a dirwasgir y tlodion yn arswydus gan eisiau bwyd. Pwy, wrth feddwl am y Saint yn Utah, na ddywedai mewn gweldi, "Gwyn eu byd preswylwyr dy dŷ, yn wastad y'th foliannant."

---

## CARU Y GWIR.

Wyf hoff o'r dydd,—fel yr heulwen sydd
Yn euro eiliau'r wawr,
Tra'r ffrydiau glân, gyda'r adar mân,
Yn sïo'r bryniau 'nawr;
Ond hoffach fyrdd—na'r dydd yn ei urdd,
Neu sain y ffrydlif glîr,
Neu gathlau cu yr asgellog lu
Yw caru—caru'r GWIR.

Wyf hoff o'r nawn—pan yn hafaidd iawn,
I rodio'r tewfrig lwyn,
Pan blo lau'r fro, yn rhoi sawŷr fo
Ar edyn awel fwyn;
Ond gwell o hyd, nag yw'r hafaidd bryd,
Neu lwyn yn gwychu'r Sîr,
Neu sawyr gardd yn ei hamwisg hardd,
Yw caru—caru'r GWIR.

Wyf hoff o'r hwyr, gyda'i lloer gàn lwyr,
A'r blodau'n yfed gwlith,
Wrth bistyll serth, ar y clogwyn certh,
A'r sêr trwy'r nef yn frith;
Ond canmil gwell, pan yn nhref neu'n mhell,
Na thegwch nen a thir,
Tra'r galon hon yn dwymn yn fy mron,
Yw caru—caru'r GWIR. ROBYN DDU ERYRI.

## AMRYWIAETHAU, &c.

NEWYDD DDYFOD O'R WASG!—"PWY YW DUW Y SAINT," yn 24 tudalen, i'w werthu am dair ceiniog:—rhoddir yr elw arferol i Ddosparthwyr a alwant am danynt yn fuan!

☞ Y modd i gyfarwyddo llythyrau i ddyffrynoedd y mynyddoedd yw, ysgrifenu enw y person ar wyneb y llythyr, ac enw y dref, y ddinas, neu y sefydliad y mae, os gwyddis, yn nghyd a *Great Salt Lake City, Utah Territory, U. S. America;* a digon hyny, os digon rhywfaint er eu harwain yno. Cyhoeddir enwau y personau na alwant am eu llythyrau, yn y Newyddiadur, yr hwn sydd yn myned i'r holl sefydliadau; fel, os nad ydynt yn y ddinas, y gwelant ac yr anfonant am eu llythyrau i'r man y maent. Pris y llythyrau o dan hanner ŵns yw swllt.

☞ Dymuna y Llywydd John Price, hysbysu fod dyn o'r enw Thomas Rogers, perthynol gynt i Gynnadledd Penfro Ddeheuol, wedi cael ei esgymmuno o'r eglwys.

Rhybuddier y Llywyddion drwy yr esiampl hon rhag ymddiried arian perthynol i'r Gymdeithas Ymfudol heb ddigonol feichiau; ac ymocheled y Saint rhag ymollwng i drachwantu yr angeu melyn a berthyn i ereill, rhag eu marw hwy o'r *clefyd melyn.*

☞ Dymuna Dafydd Rees, Llywydd Penfro Ogleddol, hysbysu drwy yr UDGORN eu bod hwythau wedi esgymmuno dyn o'r enw Thomas Owens, *Hawker*, o'r eglwys, o herwydd rhedeg i ddyled eu gymmydogion, a chilio yn ddiarwybod i'r rhai oedd yn ei ofyn. Hyderwn na adewir anghyfiawnion yn un man i warthruddo crefydd Crist yn hir, os nad edifarhant a gwneuthur cyfiawnder â'r byd ac â phawb.

☞ Cynnelir Cymmanfa Ddwyr. Morganwg, yn Merthyr, Sul a Llun y 26 a'r 27 o Fawrth. Cyhoeddir y lleill yn ein nesaf.

DERBYNIWYD AM LYFRAU O CHWEF. 21 HYD MAWRTH 6,—Dwyreiniol Morganwg, £2 2s 6.

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Y Dirywiad Anghristaidd | 149 |
| Cais i ddeongli y Ddammeg o Siarad Plant | 153 |
| Cenfigen | 154 |
| Golygyddiaeth—Newyddion Cartrefol—Dwyreiniol Morganwg—Cynnadledd Caerfyrddin—Penfro Ddeheuol—Gwynedd. Y Taliadau am Lyfrau | 157 |
| Cynghor Cynnadleddol | 160 |
| Arwyddion yr Amserau | 162 |
| Caru y Gwir | 133 |
| Amrywiaethau &c | 164 |


---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14 CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

Rhif. 11.] MAWRTH 18, 1854. [Cyf. VII.

## ENLLIB, ENLLIBIO, A'R ENLLIBIWR.

O bob llysnafedd a ddylifa oddiar flaen y tafod dynol, nid oes mwy cyfartalwch o wenwyn mewn dim nag sydd mewn *enllib*; fel dyferinion o saig gwasgedig ffrwyth y "pren *upas*" angeuol, —fel defnynau glasaidd lysnafedd oddiar dafod y wyber yw; ac fel sawyr pla ei haroglir gan fyd. O bob defnydd a wneir o unrhyw dafod, dyn na benyw, anifel nac ymlusgiad, pysg nac ehediaid, seraph na diafol; heriwn yr oll i'w gamddefnyddio i fwy niwed nag wrth *enllibio!* Ni chaed enllib erioed ond o erchyll bwll, calon hell, yr olaf a'r blaenaf: o ganlyniad, rhaid mai y diafol yw awdwr enllib, efe yw gweithiwr y nwyf, a'i was isclaf wasaidd yw yr enllib-ŵr. Enllibodd Lusifer ei Dad a'i cenedlodd; enllibodd fab henaf ei fam, a dau o bob tri o'i frodyr drwy yr holl deulu o leiaf, os nad pob un yn ei dro: yn enllibwyr dysga ei holl blant; ar i fyny grisiau enllib, dena hwynt i binaclau gweniaith ar gost eu gilydd; ac, enllib eu gwisg freiniol, addawa iddynt deyrnasu ar, a llywodraethu trwy enllib, bob un ei fyd fel y teyrnasa yntau—tad yr enllibwyr, ar y byd enllibaidd hwn! Tra mewn ufydd-dod i arch eu tad, ac enllib y *fatchen*, enllibio y gwreichion, y gosoda yr enllibwyr y byd yn golcierth o dan eu traed, wrth oleu eu fflamau gweled plant y goleuni ei annedwyddol effeithiau: gryddfanau ei druenus drancedigion hunan-ddinystriol a arswydo bob un o ddedwydd "deulu y caru,"—y rhai a ddysgwyliant gyda'u gilydd byth deyrnasu mewn cariad a hedd, rhag chwarae ag

enllib mwy, nag â cholyn angeu; ond ymswyno rhagddo, fel rhag pyrth marwolaeth.

Gan fod enllib mor beryglus, enllibio mor niweidiol i bawb, a da i ddim, i neb un amser, na than unrhyw amgylchiad; a chan fod y Saint ynghanol byd sydd yn fyw o enllibwyr, ac yn marw, yn foesol, dan effeithiau enllib, nid anfuddiol fyddai i ni helaethu tipyn o'n teimladau ar y testun hwn; nid cymmaint am a wyddom o'i anghen presennol, ag i fod yn *ocheliad* rhag byth roi lle i'r fath anghenfil tafod-fforchog â hwn yn eu plith.

Er mor gyffredinol yw yr arferiad hwn yn y byd, ni cheir nemawr mewn unrhyw gylch, yn neillduol y crefyddol a'r uchelradd, a'i cyfiawnhâ; ond o'r ochr arall, anmhoblogaidd yw yr enllibwr a'r enllibwraig gan bawb braidd. Nid oes nemawr a hoffa gwmnïaeth—a greda air, nag a ymddirieda ei gymmeriad i'r enllibwr; gochelir rhagddynt a diflasir ar eu clecs cyn hir, gan bob un a iawn brisia ei gymmeriad ei hun; "y ci a ddwg asgwrn a'i caria hefyd," ebe hen ddiareb; felly y neb a ddwg enllib a enlliba y gwrandawwr enllib yn ei dro. Cywion y colomenod weithiau a grwydrant yn mhell, ond dychwelant adref i glwydo yn y nos fynychaf; felly y "clecs" ar ben y cleciwr. Mor hawdd ag y dilynir llwybr y folwaden wrth y llysnafedd a edy ar ei hol, yr adwaenir lle y bu cleciwr wrth yr effaith gâs a adawa ar bob teulu lle yr elo!

Anfynych y ceir enllibwr heb fod yn ragrithiwr hefyd; o herwydd, tra â'i dafod blaen llymog y trywana enw da ei gymmydog, haera nad yw yn bwriadu ei niweidio, ond fod yn ddrwg ganddo drosto fe neu hi; ac am beidio dweyd y gyfrinach wrth neb er dim; gŵyr yr enllibwr mai dyna y ffordd gyflymaf i'w ledaenu. Mae hyn yn chwanegu rhagrith at enllib, a chelwydd at ragrith, ac yn dangos naill ai ffolineb ynddo ei hun, neu sarhâd ar synwyrau y gwrandawwr wrth geisio ganddo gredu y fath anhygoeledd.

Gan fod enllib yn lysieuyn mor angeuol yn nghrochan cawl y byd, pwy na chanfydda ei anghyfaddasrwydd i gylla nag i chwaeth teulu Duw? Deallwn wrth yr hanesyddiaeth eglwysig yn yr oesoedd mynedol, eu bod hwy o oes i oes wedi mynych dreio y llysieuyn hwn yn eu cawl, a phob tro cwynent rhag eu chwerwder. Yn amser Dafydd, yr oedd enllibwyr i'w cael, a rhestrid hwynt yn mhlith y lladron a'r godinebwyr,

a mwy niweidiol i'r cyhoedd na hyny. Haeddiannol o gosp ddwyfol yr ystyriai efe yr hwn a agorai ei safn i ddrygioni, a'i dafod i gyd-blethu dichell, "a ddywedai yn erbyn ei frawd, ac a roddai enllib i fab ei fam." "Na rodia yn athrodwr yn mysg dy bobl," ebe cyfraith Moses. Dywed y Salmydd mai y rhai a breswyliant yn mynydd ei santeiddrwydd, fydd y rhai hyny yn unig a fyddent "heb absennu â'u tafod, heb wneuthur drwg i'w cymmydog, ac heb DDERBYN enllib yn erbyn eu cymmydog." Gan na welir derbyniwr enllib yn Seion Duw, pa le yr ymguddia y *rhoddwr* enllib?

Nid oedd y llysieuyn ysgallog hwn wedi colli dim o'i bigau na'i chwerder cyntefig yn nyddiau Pedr na Phaul: y blaenaf a'i rhestrai yn mhlith llofruddiaeth, lladrad, a drwg-weithredoedd echryslon; yr olaf a'i gosodai yn mhlith rhifres o arwyddion dirywiad oddiwrth burdeb yr efengyl. Mae Iago hefyd wedi cael iawn olwg ar effeithiau andwyol yr ysgall o enllib, debygid, —"Od oes neb o honoch yn cymmeryd arno fod yn grefyddol," ebe efe, "heb attal ei dafod, ond twyllo ei galon ei hun, ofer yw crefydd hwnw." Hawddach oedd i'r llyw bychan droi y llong fwyaf yn nghanol y dymestl aruthrol—i'r march gwylltaf gael ei orchfygu â ffrwyn fechan; hawddach troi y byd â throsol, nag oedd diffodd â holl ddyfroedd y moroodd, y tân a gyneuai tafod yr enllibwr: tân yw a osoda fyd yn wenfflam—troell yw a faluria ddedwyddwch byd fel malu ewyn—a mwy aflywodraethol na gwylltaf-nwyd gwylltfilod gwylltaf môr na thir. Nid rhyfedd yw condemniad y rhai hyn oll ar dafod yr enllibwr; canys methasant hwy oll erioed a'i ddofi; eithr cyfaddefasant mai marworyn o'r golcierth anniffoddadwy o'r pwll dihysbydd yw; pwy a'i cymmeradwya? Etto meddwn, nid yw yr Arglwydd am i'r ysgallyn drwg hwn dyfu yn ei ardd yn awr fwy nâ chynt, o herwydd dywed wrthym drwy Joseph y Gweledydd,—"Na ddywed yn ddrwg am dy gymmydog, ac na wna iddo ddim niwed * * * yr hwn a'i gwnelo ac nid edifarhao a deflir allan." Nid oes neb a greda y bydd enllibio yn y nefoedd, debygwn, os gwelir byth yr enllib-*wr* edifeiriol yno; canys torwyd yr holl enllibwyr allan oddiyno er ys llawer dydd bellach; pa reswm, gan hyny, yw goddef yn eglwys Dduw ar y ddaear, yr hyn na fydd byth yn addas i'r nefoedd, ddim hwy nag y gwelir argoelion edifeiriol? Hyderir na ad-

ewir lle yn hir yn un gongl o eglwys Dduw i'r enllib-wr neu'r enllib-wraig anedifeiriol, os oes rhai yn llechu ynddi hefyd. Anhygoel i ni yw fod neb a oleuwyd gan Ysbryd y cariad hwnw ddewisia yn hytrach "guddio lliaws o bechodau," yn euog o gynllunio anwireddau maleisus pwrpasol, i ddrygu cymmeriad ei frodyr a chwiorydd anwyl; ïe, anwyl blant diniwed Duw! Pe felly, pa fodd y cyd fwytant ac y cyd yfant â hwynt wrth fwrdd yr Arglwydd; yn yr hyn y mae barnedigaeth am wneyd, ond lle y byddo undeb a chariad yn teyrnasu yn mhob mynwes? Er fod pob *clecs* i'w tadogi ar rywun, etto hawddach credu mai amlach *adroddwyr* na *dyfeiswyr* y cyfryw: er hyny nid yw yr olaf i'w gyfiawnhau am ledaenu enllib. Ni chreda rhai fod taenu y gwir yn enllibio; eithr ni wyddom wahaniaeth, os creda yr enllibwr y peth am wir, ond gwaeth ef o'r ddau os cyhoedda anwireddau gwybodus. Gŵyr y Saint am ffordd lawer gwell i ddiwygio dynion o'u ffaeleddau nâ chyhoeddi y cyfryw i'r cyhoedd: dysga Duw ni, "o phecha dy frawd neu dy chwaer yn dy erbyn, argyhoedda ef rhyngot ti ag ef ei hun; os na wrandawa, cymmer arall gyda thi." Nid yw enllibio yr enllibwr ond rhoi tanwydd ar dân; ni wna dan ddrwg byth un da; eithr "gorchfyger ddrygioni trwy ddaioni." Efelychwn ein Meistr,—"yr hwn pan ddifenwyd ni ddifenwodd drachefn." Diau y tywyllir calon y neb a ollynga ei dafod i adrodd enllib; a'i gwnelo, a golla ymddiried ei frodyr, cymmeriad difrycheulyd pa rai a ddylai fod yn destun ymffrost gan wir ddyscyblion Iesu Grist. Os dolurir teimladau gan ereill, gwell o lawer yw gwneyd fel ein cyfarwyddir gan ddyscybliaeth ein heglwys mewn tiriondeb, nag ymollwng i ddial trwy syrthio i'r un pwll. Eithr dichon mwy o enllibio fod, o herwydd ymollyngiad i arferiad lygredig, anystyriol, ac anfoneddigaidd y byd, a dweyd er mwyn dweyd rhywbeth, a chynllunio enllib er dangos mwy gwybodaeth nag ereill am eu cymmydogion a'u matterion; fe ddylai y cyfryw ymdrechu dysgu a chofio y "*Mormon Creed*," sef, "i bob un i feindio ei fusness ei hun."

Os pecha brawd neu chwaer drwy enllibio neu un modd arall, myned atynt mewn cariad ac addfwynder i'w hargyhoeddi, yw dyledswydd y dyoddefydd; os gwrandawant arno, efe "a droes bechadur o gyfeilliorni ei ffordd, a waredodd enaid rhag angeu, ac a guddiodd liaws o bechodau," pa rai, pe'd olrheiniasid

hwynt o flaen brawdlysoedd cyhoeddus a fagasent fwy digasedd, yr hwn a chwiliasai am le i ddïal: "ateb arafedd a ddettry lid," cofier, eithr "gair garw a gyffry gynnen." Etto, ni raid i neb oddef anghyfiawnder na chamgyhuddiad; canys os nad edifarha y troseddwr, neu os nad ellir ei argyhoeddi, eler â'r athraw ato, a bydded ef yn dyst dros yr eglwys; os efe ni wrendy arno yntau, rhybuddier ef y dygir cyhuddiad yn ei erbyn yr amser penodol o flaen cynghor y gangen, a hysbyser ef pa le y bydd, a gwahodder ef yno, a'i dystion os bydd rhai. Da rhagorol yw pwyll gyda'r cyfryw: ei *adferiad* fyddo gorchestwaith yr oll; canys nid yw nemawr camp ei ddigio a'i yru i fwy tywyllwch, ac efallai allan o'r eglwys,—gallai erwt wneyd hyny. *Ackub*, ADFERYD, a llesoli fyddo ymgais y Saint bob amser, megys y dymunent i ereill wneyd â hwy. Os meddylia ei fod yn cael cam yn y cynghor hwnw, y mae ganddo hawl i dreial o flaen llys y Gynnadledd, ac yna i'r prif lys, ac oddiyno cyfarwyddir yn uwch, os bydd yn ddoethach gwneyd felly. Gan hyny nid oes berygl i anghyfiawnder na gormes, nag enllib na châs nychu neb os gwna yn iawn ei hun. Dyma oedd, a dyma yw dyscyblaeth eglwys Iesu Grist, ebe dadguddiadau i ni,—yr hwn a wnelo ryw ffordd arall a ddrwgdybir gan y Saint o fod yn angrhedadyn, yn ceisio gwella trefn Duw, neu yn ceisio dïal ar, yn lle ceisio lle i faddeu i'w frawd neu chwaer. Nid yw enllib y naill yn cyfiawnhau arall am enllibio, mwy nag y gwna dau gelwydd un gwirionedd. Ymocheler rhag enllib, ynte, er dim.

---

ENLLIB.

"Ti ellyll lygadgoch! i b'le mae dy daith,
Yr awrhon i osod dy wenwyn ar waith?
Trugaredd anfono'i hangylion o'th flaen,
I ddweyd fod y dalaeth yn myned ar dân.

Y dager daufiniog wrth dy ystlys yn nghrog,
Er d'ymgais i'w chuddio a welaf drwy'th glôg;
Duw'n gymhorth i'r adyn raid odde'n ei fron,
Heb wybod pwy'i brathodd effeithiau hyll hon."

---

## Y DIRYWIAD ANGHRISTAIDD

### GAN ROBYN DDU, ERYRI.

[Parhad o dud 153]

Gellir canfod, trwy hanesyddiaeth y diwygiad Allmaenaidd, y rheswm paham y daeth y Bibl i gael ei ystyried yn ddiweddglo ar yr holl ddadguddiadau dwyfol: sef, gan mai yn hysbys i'r bobl oedd, y bu doniau gwyrthiol yn Eglwys Crist, a chan mai gwybodus i'r Pab, a'i fynachod, oedd eu hamddifadrwydd hwy eu hunain o'r cyfryw ddoniau, dychymmygwyd a lluniwyd ffug bethau, gan eu galw yn wyrthiau: er enghraifft, dodwyd delw ar groesbren uchel gydag yspwng llawn gwaed mewn twll yn ei hystlys, a llinyn yn cyrhaedd o'r yspwng hyd i allor yr offeren; a thra y dorf ar ei gliniau yn llygadu ar y ddelw, tynid yn y llinyn gan yr offeiriad, gwasgid felly yr yspwng o fewn y twll ystlysog, dylifai y gwaed tros gorph yr eilun, a'r bobl gan dybiad iddynt weled gwyrth, a goelient fod yr eglwys apostolaidd yn parhau, ac yn derbyn dadguddiadau. Rhoddwyd i'r mynachod Agustaidd y fraint o werthu llythyrau maddeuant i'r bobl, a dygai hyny elw mawr i'r frawdoliaeth a phan y dygwyddodd i'r mynachod Dominic gael y fraint ennillfawr hono, yn lle y lleill, digiodd yr Augustiaid yn aflawen, ac yn eu mysg ffyrnigwyd Martin Luther; a'r canlyniad a fu i Luther, Melanethon, ac ereill o'r brodyr, fyned a dynoethi twyll y ffug wyrthiau, gan ymddïal ar y Pab trwy godi plaid wrthryfelgar yn ei erbyn: a phan aeth y berw gwrthryfelgar yn gryf, troes llawer o bobl yn anffyddwyr trwyadl, a haerasant na bu y fath beth a gwyrth erioed; eithr ereill a gredent y bu gwyrthiau, au bod etto yn canlyn Luther. Parodd yr ymrafael yna, i Luther deimlo ei wendid; gan hyny, ymdrechodd i gael gan y pleidiau gredu y bu gwyrthiau, ond mai eu hunig ddyben oedd i ddechreu a chyflawni y Llyfr, Bibl: a chan fod y Llyfr wedi ei gyflawni, nad oes i'r fath beth a gwyrth gymmeryd lle byth mwy: a chan haeru, fel y Waldensiaid o'i flaen sierhäodd Luther i'w ganlynwyr nad allai neb fod yn gadwedig heb y Bibl, yn ei feddiant, megys ei unig rëol ffydd a buchedd: ac wedi cyfieithu ac esbonio darnau o'r Llyfrau, lledaenodd hwy am arian yn mhlith y werin. Y canlyniad o hyny, a fu i'r werinos ddarllen yr ysgrythyrau: ac fel yr oedd gwahan-

naeth yngraddau eu dealltwriaethau, ffurfiasant hefyd farnau gwahaniaethol; a phan adroddasant eu golygiadau i'w gilydd buan y canfyddwyd na cheid nemor ddau yn cyttuno, oddigerth yn y pwnc mawr o fod y Bibl yn derfyn ar bob dadgudd-iad: eithr, y mae yn amlwg, tra y naill ddosparth mor *amddi-fad* a'r llall o'r Ysbryd Glân, na allent hwy oll yn amgen na chyttuno a'u gilydd yn y pwnc newydd hwnw! Modd bynag dechreuodd y bobl ddadleu yn ffyrnig am bynciau ereill: ymranasant yn fân bleidiau ymrysongar, erlidiasant eu gilydd, yn elyniaethus, a lladdwyd llaweroedd o honynt mewn penboethni cyfartal i wallgofrwydd cythreulig: ac o ganlyniad hawdd y gwelir yma nad cymmaint y gwelliant diwygiadol, ag y ddych-ymmyg y rhai na ddarllenasant ei hanes: eithr i'r llygredd a barodd golli y doniau gwyrthiol, ymwreiddio er ys blynydd oedd cyn hyny, hyd nes mai gormod gorchwyl i fraich Luther oedd gallu ei symud. Gwelir hefyd yn eglur, mai yr Arglwydd oedd yn meithrin yr eglwys, trwy ei weision, yn nydd goleu y dadguddiadau; ond y bod rhyw lawer yn ei phorthi yn nos y diffaethwch; eithr y daw etto amser, na bydd ond un Arglwydd, a'i enw yn un, yn myddin fawreddog y Saint.

Yngoleuni y dadguddiad, estynai y nefoedd gymhorth i'r eglwys dan erlidigaeth; ond yn nhywyllwch y dirywiad, y ddaear a gynnorthwyodd y wraig yngwyneb chwythiad afon danllyd y sarph ar ei hol. Bu Duw, yn llywodraethu dynion trwy gyfraith yr eglwys; ond daeth dyn i lywodraethu yr eglwys trwy gyfraith y byd; ac y mae Duw, yn yr oes hon, yn dychwelyd i'w le a'i etifeddiaeth ei hun. Pan oedd gan Dduw lywodraeth yn yr eglwys, yspeiliwyd yr Aifft, darostyngwyd Og a Bashan, ymaflwyd ynghonglau Möab, etifeddwyd Palestina, a gorfodwyd llu oedd y cenedloedd i gilio ac i ffoi; wedi dyfod llywodraeth brenin annuwiol i'r eglwys, difäwyd ei chryfder, pallodd y dadguddiadau, llygrwyd ei hathrawiaethau, halog-wyd ei llestri, lladdwyd ei gwrolion a daeth y genedl Iudd-ewig yn orweddog dan wadnau traed y rhai dienwaededig a chyrff ei phlant yn feddiannol gan lengau o gythreuliaid. Ond yn nydd Crist, ymwelodd Duw a'i bobl, megys a chodiad haul o'r uchelder, wedi nos hirfaith a niwliog; a thra yr Ysbryd Glân, yn yr eglwys, a'r Apostolion yn fyw, yr oedd llais gweddi yn siglo carchardŷ, a phin ysgrifenu Paul yn awch-

lymach na chleddyf Ceasar: ond wedi colli amryw ddoniau yr ysbryd, a dyfod y Pab i deyrnasu, yr oedd llais y chwil-lys yn dystewi cyfeillion y gwirionedd a bwyall merthyrdod yn attal i bleidwyr dynoliaeth lefaru. Gyda dadguddiadau dwyfol, yr oedd yr eglwys dan erlidigaeth fel perth yn llosgi heb ei difa; ond gyda thraddodiadau dynol, goddeithiwyd y cedrwydd, a gwasgarwyd y lludw yn fân sectau lawer ar hyd y byd. Gyda'r naill, porthid y defaid yngolwg y blaidd, eithr gyda'r llall, daeth bwystfilod gwancus i ddifwyno maesydd y perlysiau. Newidiwyd y doniau nefol am greiriau tan-ddaearol: a chyfnewidiwyd galw ar Dduw am weddio ar Mair!

Hyd y cadwodd Israel orchymynion yr Arglwydd, addolasant y Mawrhydi anfeidrol; ond pan aethant ar ol gorchymyn Jeroböam, addolasant loi aur. Ac hyd y cadwodd y Cristionogion orchymynion yr Iesu, yr oeddynt yn gweddio ar Dad yr ysbrydoedd; eithr pan y gwrthgiliasant, gan fyned ar ol gorchymyn esgob Anghrist, cafwyd dynion llygredig eu meddyliau yn gweddio ar ysbrydion y meirw; yr hyn beth a dröwyd gan brotestaniad yn wyliau seintyddol.

Dull satan yn hudoliaethu pobl yr Arglwydd, a gynnwys rybydd difrifol i'r holl rai a broffesant grefydd ein Harglwydd Iesu Grist. Ni allodd Balaam regi Israel, mwy nag a gallodd y Philistiaid rwymo Samson; ond medrodd y dewin ddenu y bobl, trwy ymgofleidiad merched Möab; a medrodd y dagoniaid dynu llygaid y cawr, trwy ei gael i gysgu ar liniau Dalilah. Ni allodd croeshoelio y Blaenor, ladd cristionogaeth, ond gallodd ei phriodi a'r byd ei llygru a'i gwanhâu; ac nid oes enbydrwydd i ninnau yngŵg y byd, eithr y mae yn ei wên beryglon dinystriol. Erlidied yr annuwiol, a cheir gan y Saint weddio: ond na atto y nefoedd i neb o honom ymhoffi ynghyfeddach na chyfeillach dynion sydd yn gâs ganddynt Dduw.

Llawenyched y Saint, mewn llais moliant; a bydded orfoleddus blant y Cyfammod Newydd! Y mae genym y prawf cadarnaf o ddïanwadalwch yr addewidion dwyfol, canys gwelir eu cyflawni ger bron ein llygaid Mae Duw ynghynnulleidfäoedd ei bobl; Efe ydyw Brenin y Saint! Achyn hir, gwelir y byd mor ddwfn gor îs yr Eglwys, ag a fyddai y ddaear islaw gwraig wedi ei gwisgo a'r haul, a'r *lleuad dan ei thraed,* ac ar ei phen goron o ddeuddeg Seren. Cyfodwn, a gwisgwn ein nerth

oddiuchod; esboniad sydd wasanaeth dyn o'r ddaear, eithr dad-guddiad sy gannadwri angel o'r nef; nid yw sectyddiaeth namyn dychymyg dynol, ond y mae yr eglwys yn ffaith,—a'r Efengyl, gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth i bob un a'r sydd yn credu.

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, MAWRTH 18, 1854.

Rhyfeloedd, sôn am ychwaneg o ryfeloedd, a darparu i ryfela, yw prif bwnc y byd yn awr. Sôn am heddwch—argoelion mwy heddychol a phenderfyniad i ymheddychu â'u gilydd yw prif ymffrost yr eglwys. Casineb, cynnen, ac eiddigedd yw elfenau llywodraethol y naill, tra mai cariad sydd yn cynnyddu, undeb yn ymeangu, a heddwch yn teyrnasu yw cân a mawl y lleill.

Nid ar faesydd Twrci a Rwssia, nag ar faes y frwydr yn unig y mae rhyfel, ond rhaid ei fod wedi dechreu yn nes adref. Nid rhuad magnelau, trwst arfau, sain udgyrn, nag ymfyddiniad pobloedd, yw unig arwydd-nodau rhyfel ehwaith; nid arddanghosach o ryfel yw gweled pleidiau, gledd yn nghledd, yn ymdrechu â'u cledd drywanu eu gilydd, nag yw rhyfel ysgrifellau yn brwydro am gymmeriadau y gwrth-bleidiau. Nid ffrwythau cywirach o ryfel calon yw dau filwr mewn cotiau cochion ar eu mheirch dysglaerwych, nag yw dau ddyn, nad beth eu teitlau, mewn cotiau duon a chadachau gwynion, o ddau bwlpud yn brwydro yn eu ffyrdd hwythau; ac nid mwy rhyfelawg hwynt, nâ'r seneddwyr croesbleidiol a ryfelant trwy eiriau, o barthed i'r byddinoedd a anfonant allan i ryfela trwy ddur, ac arfau tân. Calonau dynolion yw y ffynnonau dihysbydd, o'r rhai y dylifa ffrydiau o waed dynion i foddi trigolion byd:—hwn yw y *Volcano* hunan ymgynhyrfiol, afonydd tanllyd yr hwn a ddifa bob blodeuyn a glaswelltwyn yn

nghyraedd ei gynddeiriog donau tanawg;—ie, dyma tad y drwg, a rhyfel yw'r wers a ddysga; rhyfelawg yw efe, â holl ryfeloedd byd, nad pa fodd y cymmerant le, na phwy a'i gwnant, nid ydynt ond gorlifiad calon dyn dros ei cheulanau, yr hon a ddiluwia'r byd â gwaed yn gyferbyniol i nerth ei fraich neu rym ei arfau. O ganlyniad, dyma'r fan iawn i rwystro rhyfel. Chwi wladgarwyr, a'ch hedd gymdeithasau, dyma'r fan i daro eich ergyd fel ag i roi clwyf marwol i ddinystrydd dynol-ryw -symmudwch y natur ryfelawg o galon dyn, ac ni ryfela yn dragywydd; amddiffynydd ar y gwaethaf gall fod, a hyny ond, hyd nes y cynheswch galon ei ymosodwr â'r cariad a deilynga cydgreadur ei Dduw oddiar ei law. Pa fodd y gwneir hyny, sydd gwestiwn anatebadwy i holl ddoethion ein cyfandir ni; nid yw y rhyfeloedd cyffredinol sydd yn arswydo'r byd, ond ffeithiau mor amlwg o'u hanallu cymmodol hwynt oll, ag yw ymraniadau crefyddol a chroes bleidiau ein byd. Po fwyaf yr ymdrechiadau a wnant am undeb, po amrywiaf yr ysgerbibion a ymchwalant o'r defnyddiau. Pa fodd ynte, y rhoi'r diwedd ar ryfel drwy'r byd? Atebwn, mai drwy yn gyntaf, ladd yr anian ryfelawg sydd yn nghalon dyn - lladded pob un y wreichionen yn ei galon ei hunan, ac yna ni welir colcierth rhyfel yn y byd. Eithr dyn o hono ei hun ni all wneyd hyn, meddir:—o ganlyniad, mewn pryd cynnygiwn feddyginiaeth anffaeledig i'r byd, yr hwn a'u cynnorthwya i wneyd yr oll a ddymunant. Nid llai ein dyledswydd na'n pleser i gyfarwyddo y neb a ewyllysia ddeall y dirgelwch hwn; - ein cenadiaeth yw dysgu trigolion byd i fyw yn heddychol, ymbarotoadol i sefyllfa dragywyddol o hedd, lle y teyrnasa yr oll mewn cariad undebol dieithriad. Mor anhebgorol yw dysgu tra yma, y modd i fyw felly yno; i'r dyben hyny, anhebgorol yw Ysbryd Duw yn ei ddylanwadau heddychol: er undeb, anhebgorol yw cydweledigiad; yr hyn sydd effaith cywir ddysgeidiaeth; yr hyn a geir yn unig drwy air Duw. Danfonodd Duw ei air drwy ei weision ynte, crediniaeth yn, ac ufydd-dod i'r hwn, a ddyga ddyn drwy ddyfroedd bedydd i fwynhau "Dawn yr Ysbryd Glân;" yr hwn a wna i'w feddiannydd garu ei gyd-ddyn â chariad cyffelyb i gariad Crist, ac au dysga hwythau i wneyd fel y gwnaeth yntau, sef, i roddi eu bywydau dros eu gilydd, yn hytrach na rhyfela a'u gilydd. Dyma heddychwr diffael—meddyginiaeth an-

ffaeledig; a thragywyddol ddiwedd pob rhyfel ysgrifellau, geiriau, magnelau, a phob arfau; a phan lywodraethir pob un gan hwn y "troir y cleddyfau yn sychau, a'r gwaewffyn yn bladuriau." Pryd "na ddysga dynion ryfel mwyach." Henffych i'r dedwydd ddydd, pwy na hiraetha am dano? Nid neb a wrthoda yr Ysbryd tragywyddol, yr hwn yn unig a'i dyg oddiamgylch.

---

Y "Diwygiad Anghristaidd;"—O waith Robyn Ddu, a ddiwedda yn y rhifyn hwn, sydd ddrych eglur i arddangos gwir sefyllfa y byd, er ei ymffrost grefyddol, yn yr hwn dylai yr oll a broffesant grefydda drwy ddoethineb ddynol weled eu hunain, ac arswydo rhag tynghed yr holl oesau mynedol, y rhai ydynt er esiamplau i ni o ddigofaint Duw yn erbyn gwadwyr dadguddiadau cyd-oesol; hyderwn y gwela ei gyfeillion diweddar, eu sefyllfa wrth edrych ynddo; ac y bydd i'r rhai hyny a broffesant gredu unrhyw ddadguddiadau ysgrythyrol gredu ei dystiolaeth ef, a'r eiddom ninnau a dyfod fel y daeth yntau, i wir eglwys y Duw byw. Ile y cânt hwythau wybod y ffaith benderfynol, sef y fod dadguddiadau parhaus oddiwrth Dduw nid yn unig yn sylfaen a phegwn i bob gwir eglwys flaenorol, ac mai hon yw y "graig" ar ba un yn unig yr adeilada y dwyfol adeiladydd hi—a gwybod ei fod yn dadguddio ei air a'i gynghor i'w Saint yn awr, drwy dderbyn yr un pethau yn ddiammheuol iddynt eu hunain.

---

Hanesion Tramor.—Yr hanes o *Penrhyn Gobaith Da* a fydd yn ddyddorol iawn gan y Saint Cymreig, o herwydd iddynt gael y fraint o gyfranu eu harian i dalu cost y brodyr ffyddlon hyny yno; cofus gan Saint Methyr, a'r cylchoedd, i'r Brawd Walker ymweled â hwy, a thestun diolch i Dduw fydd ganddynt glywed iddo fendithio eu llafur eisoes, i achub braidd gynnifer o eneidiau a gyfranasant hwy o bunnoedd; ac fod yr efengyl drwyddynt hwy wedi cael ei sefydlu am y tro cyntaf ar gyfandir Affrica: ein gweddiau a fyddo am ei lledaeniad hi o gwr i gwr o hono, ac ar iddi ddwyn miliynau dirif o bob llwyth ac iaith Affricanaidd, ynghyd ag ereill o blant yr un Tad, i'w glodfori yn dragywyddol.

## NEWYDDION O DDYFFRYN Y LLYN HALEN.

Derbyniasom lythyrau o Ddyffryn y Llyn Halen Mawr, hyd i Dachwedd 30, gyda y *Deseret News* am Dachwedd 12, a Rhagfyr 1; attaliwyd y llythyr gerbyd fis yn y mynyddoedd. Cadarnheir cyflafan Cadben J. W. Gunnison a saith o'i ddynion gan yr Indiaid. Dygwyddodd y tro prudd hwn gerllaw corsydd yr afon Sevier, 20 milltir o Lyn Sevier, Medi 26, am 6 o'r gloch y prydnawn. Yr oedd y gwyr-lythyrydd Caben Morris, a'r holl gwmni wedi cyrhaedd Dinas y Llyn Halen Mawr. Ni chollwyd ond ychydig o nodiadau neu offerynau y tir fesuriad, ond yr oedd ychydig anifeiliaid, nifer o eirf, gryn dipyn o arlwy rhyfel yn ngholl. Amryw geffylau, mulod, drylliau, llawddrylliau, &c., a adgafwyd. Y gyflafan oedd weithred o ymddïal, o herwydd lladd un Indiad Pauvan, a chlwyfo dau ereill, gan blaid o ymfudwyr i Galifornia. Agorodd Llys uchaf yr Unol Daleithiau am Diriogaeth Utah, ei eisteddfod yn y Tŷ Tiriogaethol, Dinas y Llyn Halen Mawr, Tachwedd 29. Bu y tywydd yn dra theg yn gyffredin. Cafodd ysgoldy newydd a chyfleus, a adeiladwyd gan drigolion y ddeuddegfed Geidwadaeth Dinas y Llyn Halen Mawr, ei gyssegru gan yr Henuriad Lorenzo Snow, Tachwedd 27. Yr oedd yr Ysgoldy wedi ei orphen yn hardd, ac am gyfleusdra, yn rhagori ar bob un arall yn y ddinas. Yr oedd Esgob Allred, ac aelodau ereill y cyfeisteddwyr o San Pete, yn diwyd gasglu y 150 teuluoedd i fyned i Manti. Yr oedd i'r teuluoedd hyn i gael eu lleoli yn hollol o fewn Dinas Manti am yr amser hyny. Y rhai na allent gynnysgaethu eu hunain gyda gweddau anghenrheidiol a gawssant eu diwallu gan y cyfeisteddfod. Siaradid am ffordd newydd, yn orllewinol o Ddinas y Llyn Halen Mawr, i Galifornia, yn ferach o 250 milltir na'r llall.

---

## CENADIAETH PENRHYN Y GOBAITH DA.

*Bedyddiad pump a deugain—Dwy Gangen ac un Gynnadledd wedi eu corffoli.*

Chwe milltir o Cape Town, Ionawr 20, 1854.

Y Llywydd S. W. Richards,—Anwyl Frawd—Daeth eich Llythyr Tachwedd 8, i law Rhagfyr 27, teimlwyf yn wir ddiolchgar am y newyddion y roddasoch.

Daeth y cistiad llyfrau a ddanfonasoch gyda'r llong *Conheath*, i law Hydref 24. Pan ysgrifenais fy llythyr olaf, yn galw am lawer o lyfrau, &c., yr oedd yma gyffröad mawr, a galwad parhaus am lyfrau, yn enwedig y Llyfr Mormon. Deuodd y tywydd poeth yn fuan, fel nad allem wneyd ychwaneg na chymmeryd gofael o'r rhai a fedyddiasom.

Mae y brodyr Walker a John Wesley wedi myned i Graham's Town, a chymmeiasant amryw o'r llyfrau gyda hwynt. Ordeiniwyd y brawd Wesley yn Ddysgawdwr.

Tebygol y bydd i'r brawd Smith gychwyn i Port Elizabeth mor fuan ag y delo yn ychydig oerach, a chymmeryd gan mwyaf o'r llyfrau sydd ar law gydag ef, fel pan ddaw y cistiad nesaf, y bydd arnaf eu heisiau.

Yr wyf yn awr wedi cychwyn casgliadau rheolaidd yn mhlith y Saint, trwy yr hyn y gobeithiaf allu talu yr holl ddyled sydd arnom, ynghyd a gallu cyfarfod pob ychydig draul a ddichon ddigwydd rhagllaw. Y Saint ydynt dlodion yma, ond yn ewyllysgar i wneyd yr oll a allont.

Fel y dywedais, bu yn rhaid i ni aros yn llonydd braidd, er pan ddechreuodd y tywydd poeth. Cerddais a theithiais yngwres haul a thywod yr hinsawdd dwymn hon, nes y canfyddais fod genyf naill ai i aros hyd nes y byddai y tymmor poeth drosodd, neu wneyd i fyny fy meddwl i wisgo fy hunan ymaith y tymmor cyntaf yn y wlad hon; i wneyd yr olaf, ni feddyliais fod yr Arglwydd yn ei ofyn genyf. Pan ddelo y tywydd yn oerach, gobeithiaf y cymmer y gwaith gychwyniad arall.

Yr wyf yn anfon i chwi hanes gwledd ddifyrus, a gynnaliwyd gan y Saint yn y wlad hon, Ionawr 2. Gwell y gallwch chwi ddirnad ein teimladau nag y gallaf fi eu darlunio. Ychydig fisoedd yn ol, tiriasom yma yn ddigartref, heb gyfaill, ac heb geiniog. Yn awr gwelwn yn ymgynnulledig o'n hamgylch ychydig gyfeillion cywir galon, yn ewyllysgar i gymmeryd eu harwain gan offeiriadaeth santaidd Duw, ac i wneyd a allant at beri y bod gweision Duw yn gysurus mewn gwlad estronol.

Yr ydym yn awr wedi bedyddio pump a deugain. Corffolasom ddwy Gangen, ac un Gannadledd, gan ei galw Cynnadledd y Penrhyn. Ordeiniasom chwech o Ddysgawdwyr, a dau o Ddiaconiaid. Mae nifer yn credu, a chymmerent eu bedyddio pe na byddai o herwydd colli eu henwau da.

Llafuriwn dan betb anghyfleustra, heb ddeall iaith y Dutch, oblegid y mae llawer yn y drefedigaeth hon yn siarad Dutch, ac na allant siarad Saesonaeg. Mae ychydig o'r rhai a fedyddiasom yn medru siarad Dutch, un dyn yn neillduol, yr hwn a ordeiniwyd yn Offeiriad. Pe byddai ef ond mewn sefyllfa i allu gadael cartref, byddai yn gynnorthwy mawr i ni.

Mae gwr boneddig, a brynodd un o bob llyfr a feddwn, yn yn bwriadu cymmeryd y *Star* a'r *Seer*, ac yn ewyllysio gweled pob peth a gyhoeddwn. Cymmerai ei wraig ei bedyddio pe byddai ef yn foddlon. Y mae ef yn ddyn o ddysgeidiaeth rhagorol. Bu ef yn garedig a chyfeillgar i ni, er pan ydym yn y drefedigaeth, a chredaf y cofleidiai ef y gwirionedd oni bai ei bohlogrwydd. Pe y bedyddid ef, yr wyf yn meddwl y gwnelai llawer a ystyriant eu hunain yn hytrach uwchlaw y cyffredin ei ganlyn. Ond y gwaith sydd eiddo yr Arglwydd, ac os na bydd iddo Ef weithio, trwy ei Ysbryd, ar galonau y bobl, ein llafur sydd ofer.

Teimlwn i ddiolch i'r Arglwydd am ei gymmwynasgarwch i ni. Dymuna y brawd Smith ei gofio attoch chwi, rhoddi i chwi ddoethineb i wybod y modd i reoli y cyfrifoldeb pwysig a orphwys arnoch yn llywyddu tros gantoedd o Henuriad a miloedd o Saint.

Ydwyf yn parhau eich brawd yn y cyfammod Newydd a Thragywyddol. JESSE HAVEN.

---

## PRESWYLWYR RHYFEDD BASIN MAWR GOGLEDD AMERICA.

CYNNYSGAETHODD Cabden Walker, y mynyddwr, Newyddiadur a elwir "*Y Sacramento Herald*," gyda hanes hiliogaeth hynod o bobl, a fywiolaethant yn y Basin Mawr. Dywedir mai ef yw y dyn gwyn cyntaf a ymwelodd a hwynt.

Trwy gywir ganol y Basin Mawr y rhed y Rio Colerado Chiquitio, neu yr Afon Goch Fach. Cymmer ei tharddiad yn y mynyddoedd sydd yn ymylu poncyn deheuol y Rio Grande. Llif yn holloll orllewinol braidd, ac arllwys ei hun mewn pegwn ar yr un lledred cyfochrog a *Walker's Pass*. Oddeutu cant milltir i'r gogleddol i hyn, ac yn rhedeg yn gyfochrog braidd a hi, y mae afon *San Juan*. Mae pob un o'r ffrydiau hyn oddeutu dau gant a deg a deugain milltir eu hyd. Rhyngddynt yr ymestyn bwrdddir aruthrol, a dorir yn achlysurol gan gwmoedd nad ydynt hirion

fawn, y rhai a ymsaethant i fyny rhwng y ddwy anfonydd, a haner y ffordd yn yr anialwch rhwng y Colorado ar Rio Grande, y mae gwlad y Mocwis. O ganol y gwastad tir hwn, cyfyd yn serthaidd ar bob ochr bentan o uchder go fawr, pen yr hwn sy mor llethog a phe ryw allu mawr wedi tafellu ymaith ei gopa. I ffwrdd at i fyny yma, mae y Mocwis wedi adeiladu tri pentref helaeth, lle gorphwysant y nos, yn hollol ddiogel oddiwrth ymosodiadau y llwythau ffyrnig a fywiant i'r gogledd a'r dwyrain iddynt. Mae ochreu y mynydd fwrdd hwn yn glogwyni unionserth braidd, ac ni ellir cyrhaedd y crib ond ar hyd rhes o risiau llethrog, a dorwyd yn y graig galed. Mae gwastadedd o dir âr amgylch ei fonsang, yr hwn a feithrin y Mocwis gyda diwydrwydd mawr.

Codant yma bob rywogaeth o yd, melwn, a llysiau. Mae ganddynt nifer o berllanau hefyd, wedi eu llenwi ag amryw fath o goed ffrwythau. Y peatys a godant ydyw rywiog neillduol. Mae ganddynt ddiadellau mawrion o ddefaid a geifr eithr ychydig iawn o anifeiliaid cludo neu wartheg. Maent yn Eppil diniwed a didramgwydd; yn garuaidd a chroesawus i ddyeithriaid ac ychydig a wnant o wrthwynebiad pan ymosodir arnynt. Mae y Navajos rhyfelgar, a breswyliant yn y mynyddoedd, i'r gogledd ddwyrain iddynt, yn arfer ysgubo i lawr arnynt hwy bob dwy neu dair blynedd, a gyru ymaith eu hanifeiliaid. Ar y fath amserau easglant i fyny yr oll sy symudadwy o'u tyddynod, a ffoant am noddfa i'w cadarn loches fynyddig. Yma ni all eu gelynion lyfasu eu dilyn hwynt. Pan agoshäo un dyeithr, ymddangosant ar benau y creigiau a'r tai yn gwylio eu symmudiadau. Mae un o'u pentrefi, yn yr hwn yr arosodd Cabden Walker amryw ddyddiau, dros chwe chant o latheni ei hyd. Adeiladwyd gan amlaf o'r tai o gerryg ac amrwd; a rhai o briddfeini. Maent yn dra chryno a chysurus, ac amryw o honynt sydd ddau, ac hyd y nod dri uchder llofft.

Y trigolion ydynt gryn dipyn yn mlaen mewn llawer o'r celfyddydau, a llawweithiant frethyn gwlan rhagorol, gwrthbanau, lledr, basged-waith, a phriddlestri. Heb fod fel gan amlaf o'r llwythau Indiaidd yn y wlad hon, y gwragedd a weithiant o fewn eu tai, y dynion sydd yn cyflawni holl lafur y tyddyn ac allan. Megys hiliogaeth y maent yn wynach eu lliw nag Indiaid California; yn wir, y mae'r benywod yn dra glandeg, o herwydd nad

ydynt mor agored i'r haul. Y Mocwis a amaethyddant yn y gwastadedd y dydd, ac enciliant i'w pentrefydd yn y mynydd y nos. Dyfrhant eu tiroedd trwy foddion y ffrydiau bychain a redant allan o'r mynydd. Weithau, pan heb fwrw eira ar y mynyddoedd y gauaf, eu cnydau ydynt ddrwg. Am y rheswm hwn cadwant yn feunyddiol, luniaeth dwy neu dair blynedd wedi ei grynhoi, rhag ofn newyn. Y maent yn bobl, o'r mwyaf anghyffredin yn gyfangwbl, yn mhell yn mlaen ar bob cynfrodorion ereill a ganfyddwyd hyd yn hyn ar y cyfandir yma. Ni chawsant erioed gyd-gyfeillach gyda'r bobl wynion, ac o orfod dechreuodd eu gwareiddiad gyda eu hunain.

## AMRYWIAETHAU, &c.

Yn awr yn y Wasg.—Daw allan yn fuan "Dadl rhwng Bedyddiwr ac Anffyddiwr;" traethawd yn 16 tud., am ddwy geiniog.

Yr "Eurgrawn."—Oes y mae genym rai copïau ar law, eithr ni wyddis pa hyd y gellir dweyd hyny! Ceir ef yn awr wedi ei rwymo am y prisiau a nodasom yn y 6fed rhifyn o'r Udgorn. Oes y mae rhai heb eu rhwymo, a gellir cael rhifynau, neu yr oll i'w rhwymo fel y dymunir, os gwneir brys!

Dosparthwyr!—Mae y *Post Master* yn gomedd i ni ddanfon yr *invoice* gyda eich llyfrau drwy y *Post* yn hwy, o herwydd, ebe fe, fod hyny yn groes i gyfraith. Gyda phwyll cewch hwynt ryw ffordd arall.

Cymanfaoedd.—Cynnelir Cymanfa Sir Frycheiniog, Ebrill 2il; Sir Fynwy, ar y 9fed; Gorllewin Morganwg, ar yr 16eg; Llanelli, ar y 23ain; Caerfyrddin, ar y 30ain; Aberteifi, ar y 7fed o Fai; Penfro Ogleddol, ar y 14eg; a Phenfro Ddeheuol, ar yr 21ain.

Derbyniwyd am Lyfrau o'r 7 hyd 15 o Fawrth,—Gorllewin Morganwg, £3 10s; Mynwy, £2 10s; Dyffryn Conwy, £2.

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Enllib, Enllibio a'r Enllibiwr | 165 |
| Y Diwyiad Anghristaidd | 170 |
| Golygyddiaeth—Y Diwyiad Anghristaidd—Hanesion Tramor | 173 |
| Newyddion o Ddyffryn y Llyn Halen | 176 |
| Cenadiaeth Penrhyn y Gobaith Da | 176 |
| Preswylwyr Rhyfedd Basin Mawr Gogledd America | 178 |
| Amrywiaethau &c | 164 |


MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D JONES, 14-CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 12.] MAWRTH 25, 1854. [CYF. VII.


## YMDDIRIED.

GAN Y LLYWYDD BRIGHAM YOUNG.

YMDDIRIED, frodyr, *Ymddiried*,—yn ein Duw, ac yn y naill y llall, yw y testun a roddais i'r Deuddeg ac i bawb ereill a bregethasant y Sabbath diweddaf, i lafaru arno. Derbyniodd y Deuddeg Gennadaeth i bregethu i'r bobl o fewn y dyffrynoedd hyn yn eu hamryw Sefydliadau, y Gynnadledd ddiweddaf; a chredwyf y buont yn iawndda ffyddlon dan gyfarwyddiadau Llywydd eu corwm, y brawd Hyde. Bydded iddynt yn awr bregethu oddiar y testun hwn, *Ymddiried;* a bydded i'r cyfan o'r bobl weithredu oddiar ei egwyddorion, a sylwi pa bryd ac yn mha le y bydd iddo ddechreu a diweddu, a gweled os na sefydlwn y cyfryw ymddiried yn y wladwriaeth hon, ac yn mysg y bobl hyn, na fu erioed, ac na fodola byth ar y ddaear ei fath, mewn unrhyw wladwriaeth o bobl ond Saint. Dichon i mi ddywedyd ei fod genym eisioes; ond yr wyf yn meddwl y byddai cynnyddiad ffydd yn ein Duw, ac ymddiried yn ein gilydd yn dra dymunol. Pe y gallem gyrhaeddyd y ffydd a'r hyder hwnw yn ein gilydd, ac yn ein Duw, fel pan y gofynom ffafr y medrom wneyd felly gyda llawn sicrwydd a gwybodaeth y bydd i ni dderbyn, onid ydych yn canfod y byddai i hyny ein harwain ni yn uniongyrchol i wneyd fel yr ewyllysiem i arall wneyd i ninnau, yn mhob cyflawniad ac amgylchiad bywyd. Cyffröai hyn ni i wneyd, nid yn unig cymmaint ag a ddymunid, ond ychwaneg. Os y deisyfai

brawd i chwi fyned gydag ef filltir, chwi a elech ddwy ; os y gwysiai chwi am eich pais, chwychwi a roddech iddo eich cochl hefyd. Mae yr egwyddor hon yn ein cynnorthwyo i wneyd yr oll a allwn i ddwyn yn mlaen leshad ein gilydd, achos Duw ar y ddaear, a pha beth bynag a ddymuno yr Arglwydd i ni ei wneuthur; gan ein gwneyd yn barod ac ewyllysgar i'w gyflawni ar unwaith. Mae eisiau iaith angylion i adrodd ein meddyliddrychau, at ymddyddan a'n gilydd mewn modd y gellid ein deall yn berffaith. Pan y gwelom ac yr amgyffredom bethau yn yr Ysbryd, aml y gwir deimlwn hollol analluogrwydd i'w cyfuno a'u hadrodd yn ein hiaith ni i ereill; er y dichon i ni dderbyn egwyddorion, a throsglwyddo yr unrhyw i ereill, i ryw helaethder. Byddai yn gysur mawr i mi, yn gymmaint a bod ffydd yn dyfod trwy glywed gair Duw, pe y meddiannwn iaith i adrodd fy nheimladau. Ni all un dyn draethu yr oll a ddichon iddo ei weled yn yr Ysbryd, pan y byddo gweledigaeth yr Ysbryd arno. Efe a fedr weled a deall yn yr Ysbryd yn unig. Nis gall ei draethu, er hyny gellir rhoddi llawer o bethau mewn rhan i ereill.

Yr oeddwn yn meddwl, tra y llafarai un o'r brodyr ar egwyddorion penodol, mor brydferth, ac mor foddlongar a fuasai i'r Saint, pe y gallent ymddyddan mewn iaith bur; pe y gallent gael iaith angylion i ymgyfranogi a'u gilydd yneddi. Myfi a ddwys ystyriais yr egwyddorion a berthynant i iachawdwriaeth—yr egwyddorion y buom yn ceisio eu gosod o'ch blaen chwi: sef, gweithrediadau dynion, a'r modd y dylid eu trefnu ger bron eu Duw. Myfi a ddywedaf yn syml, mai rhaid yw i ni dalu sylw i'r dyledswyddau a osodwyd arnom, cyn y gallwn fwynhau ein breintiau.

---

## DAMMEG!

O GAM i gam i lawr grisiau tryloew gymylau y nen, dau fôd gogoneddus a gydgerddent yn mlaen; yr un lliw oedd eu gwisgoedd â gwlith y wawr; ac adlewyrchiad tanbeidiol eu dysglaer goronau, fel mellt ehedegog, a oleuai eu hawyrgylch o'u blaen. Yn unig yn y dyfrfyd pell, ánial, megys seren fach unigol a fa'i alltud yn eigion yr entrych glas, rhyw ynys fach werdd a welid yn tawel hepian ar ei fron ;—at hon cyfeirient eu

camrau. Ar ol sengu o'u gwadnau uwch-ddynol ar ei gwyrddlas garpet godidog hi, adleisiad eu hanthemau addoliadol yngororau yr ynys a greai y fath fwynber fiwsig, nes y meddylid fod holl delynau y nef yn cadw gwyl eu tiriad i'r lle, —holl fwyn gantorion y coedwigoedd cylchynol a gymmysgent eu lleisiau a phob peth hyfrydol o fewn y lle,—i roesawu y dyeithriaid i'w paradwys newydd. "Fy anwylyd brydferth dlôs," ebe y naill, dan siriol wenu ar a chofleidio y llall, "crwydrasom yn mhell bell o'n cartref; nad sawl myrdd o ardderchocaf ogoniant ein rhyw mewn bydoedd ereill a welais, eirioed ar âel bryn mewn unrhyw fyd ni fu dy ardderchocach—nad faint fy nghariad atat oedd, tra mewn cylchoedd uwch y troais, am i ti fy nilyn yma yn awr cei gadw allwedd y nghalon byth mwyach: er hardded lliwiau y plyfod mân, diswyn eu lliw i'r llygaid pan syllaf ar dy rudd;—eu mhwynei ddiaf gân i'm clystiau i nid miwsig yw—dy lais a swyna f'enaid; tyr'd etto cân fy anwyles lon, gan ganu a gawn ni yma ein hoes o ganu? Er mai unig ydym ar yr ynys hyn, llonaid byd i mi yw'th gwmni. Pe hebot ti gwagedd yr oll—tydi yna yr oll fydd genyf;—yn baradwys troi y fan lle y byddi, a gwledd byth mwy fydd dy gwmni." Yr wylaidd un, pan edrychai i lawr cywilyddiai y *rose* a'r *lily*;—ei llygaid llon, pan eu troes i'r lan, i syllu ar ei hanwylyd,—a siriol wên ei gwynebpryd hardd! ïe, yn siwr, gwir a ddywed mai gwledd i'r enaid yw syllu arni! Hithau, fel pe heb glywed gair a ddywed, nac ystyried ei hymfodol harddwch, a ynganodd;"—Fy Arglwydd fy Iôr! fy ngwr wyt ti; a gaf fi yma byth mwy dy gwmni? Pleser fy enaid yw dy garu, un addaned etto rho, byth mwy ni cheisiaf ychwaneg; sef, a gaf fi yma aros ger dy fron a mwynhau dy gwmni yn oesol? Cei, ti gei, fy anwyl wraig fod yn *un* a mi yn dragywyddol; tyred gyda fi yn awr i weled prydferthwch yr ynys."

Rhyfeddodau y lle a'u boddiodd yn fawr, tra y rhodianent o amgylch,—adar y lle a'r plyfog lû yn asgordd a'u canlynent: y friallen a'r rhosyn a'r holl flodau ynghyd yn esmwyth tan eu gwadnau, a'r glaswellt o'u blaen a ymgryment;—holl anifeiliaid y lle, o'u hamgylch gan falchder a prancient. Cangau y coed dan or-lwyth o bob ffrwyth a ostyngent eu penau i lawr, a chymhellent eu hunain i'w eu Mhawrhydi. Yn orfoleddus

cyrhaeddodd yr oll ororau gogleddol yr ynys; oddi yma yr olygfa oedd hardd! yn yr eithafion ni welid ond y ffurfafen lâs a byd o ddwfr yn cyfarfod; o'tanynt crogai creigiau danneddog a ryfelent â chynddeiriog donnau yr oesoedd, o bob rhuthr rhuai taran—drych oedd i adlewyrchu ser y nen—yr enfys yn yr ewyn a ymddysglaeriai. Dychrynai yr osgordd rhag y rhuferthwy; y ddeuben yn unig a feutrasant i'r olygfa—ar glogwyn, tyfai pren, ei gangau a hongient uwch ben y môr, ar ba rai tyfai ffrwyth tecach na'r oll i'r golwg; estynodd ei llaw i'w gyrhaedd, eithr y geulan yn fradwrus dan ei thraed a'i gollyngodd i lawr i'r dyfnder! "Och fi; fy ngwraig, fy anwylaf un! paham, paham y'th ollyngais!" dolefai ei phriod mewn ing calon tra yn rhythu dros y clogwyn. Gyneu, y dedwyddaf un, yn awr y truenusaf; beth a wnaf? ai bod yma fy hun, byth yn ddigynydd! O, na, neidiaf ar ei hôl canys diflas yw yr oll o'm hamgylch mwyach; O! y mae hi wedi boddi! Ond ust, beth a glywais? Ust yr awel, paid a thrwstio yn nail y coed; ust, adar oll a'ch hysgrechau, credaf i mi glywed ei llais o'r dyfnder," ebe yr anedwydd un, tra yr estynai ei wddf i rythu dros y clogwyn; hyd dreng braidd, attaliai ei anadl i wrandaw. "Ie, dacw hi ar frig y don. Drwy'r ewyn oll mi a'i gwelaf; i lawr, i'r lan—a'i freichiau ar led, am fywyd ymwinga. O! llyfna'th wyneb egr fôr, neu cynnal hi ar dy donau. Adleisiad ei gwaedd sydd ar fy nghlust! O! fy anwylyd ymdrecha am foment yn hwy, byw neu foddi wele fi gyda thi;" ac ar hyny neidiodd ar ei hol! Yn awr, mi a'i gwelaf ar y wyneb; *anon*, y don a orchuddia ei ben, a phob ton a'i lluchia yn nes atti. Ei gwenwisg yn awr a leda i'r don—ei llaeswallt a orchuddia ei gwyneb! Un ymdrech etto gwna—un pranc rho, O! dyma efe wedi ei chyrhaedd! Côl ynghôl yn awr y maent, eithr beth well er hyny; canys y glanau haiarnaidd serth, yn greulon a fygythiant eu dynesiad: ni allant eu dringo chwaith pe caffent. I'r dwyrain ymnofiant ynghyd,—ha! ar bwys gwelant lan isel fanteisiol—i hon yn wyrthiol diangant. Unwaith etto eu traed ar dîr, ymgeleddant eu gilydd oreu a allent. Hir nychnod a ddilynodd y dygwyddiad anffodus i'r wraig, yr hwn a droes yn gryd dyddiol. Yr oedd y parth hwn o'r ynys yn wahanol i'r fan y cwympasant o hono;—yn llawn dyrysni ac afluniiddwch. Bwystfilod yma oeddynt elyniaethus, a'r seirph

a fygythient eu gwenwyno. Eu hawyrgylch yn awr a wisgodd gymylau dudew yn arlarwisg, a'u ffurfafen a arllwysai ei dagrau yn hidl am eu penau. Teithiasant o amgylch ogylch y lle i chwilio am fynedfa i'r ardd yn ol, ond yn ofer; canys, yn mhob cŵr, uchel greigiau fel muriau anferth a'u rhwystrent. Rhag i'r drain a'r mieri rwygo eu crwyn, lladdasant anifail a gwnaethant ddillad o'i groen; o'r diwedd sefydlasant yn y fan oreu a gawsant; adeiladodd y gwr fwthyn, a bwytasant lysiau, a'r hyn a gaffent nes y codasant gynyrch o'r ddaear: dofasant anifeiliaid at eu gwasanaeth. Yn mhen amser magasant deulu lliosog, a daethant i fywoliaeth weddol gysurus; oddieithr bod yr holl blant yn cael y cryd oddiwrth eu mham, yr hyn a'u gwanychai yn eu byd; er hyny ni ellid iachau yr un o honynt. Cyn i'w penllwydni syrthio i'r bedd, gwelodd yr hen bobl blant eu plant yn eppilio eu rhywogaeth hwythau; hyd oni phoblogwyd y rhan hono o'r ynys a hiliogaeth liosog o *grynwyr*.

O dad i fab dysgwyd mai effeithiau cwympiad eu cyndad i'r môr oedd eu hafiechyd; a grwgnechid yn gyffredinol i'w erbyn, gan rai tra y crynent fel dail aspien; a chan ereill pan godent eu penau wrth eu caledwaith i sychu y chwys oddiar eu gwynebau. Cofient oll am yr ardd oddiog lle na buasai orfod gweithio byth. Ar rhyw ddydd gwyl blynyddol o'u tlriad ar yr ynys eu brenin, canys yr henaf o'u hil a deyrnasent yn olynol, a'u cyfarchodd fel hyn;—Blin genyf glywed eich grwgnachrwydd yn erbyn ein cyn-dad; oni ddeallwch mai cariad at, ac awydd i achub bywyd ein cyn-fam a barodd iddo neidio dros y clogwyn ar ei hol; am y gwyddai na allasai hi ei hachub ei hun. Pwy o honoch ar na wnaethai yr un modd dan y cyffelyb amgylchiad? Hefyd deallwch nad oedd gwraig arall a allasai gael; o ganlyniad, pe na achubasai efe hi, parhausai yn y cyflwr digynydd ac annedwydd hwn hyd ei ddiwedd; ac ni buasem ninau, neb o honom, wedi ein geni! Nid ei fai ef oedd iddi hi gwympo; o herwydd yr oedd ganddi hithau ewyllys ei hunan fel person unigol; ac nid allaf ei beio hithau gymaint, gan mai dyben da oedd ganddi, ond felly llithrodd y geulan; ef allai ei bod hi dipyn yn rhy drachwantus; a phe felly nid yw boddio y llygaid ond greddfol yn y rhyw yn ol a welais i ynoch chwithau. Bellach fy mhlant rhoddaf derfyn ar y grwgnachrwydd hwn fel y caulyn; dewiswch i chwi y

gŵr goreu a feddwch o'ch plith a deued gyda fi. "Ac efe a gymerth yr hwn a ddewisasant yn gynrychiolwr ac a'i cauodd mewn ystafell ac a gyfammododd i'w gadw ef a'i deulu rhag effeithiau y cwymp, os efe ni chyffyrddai a'r ddysgl oedd wyneb i waered ar y ford o'i flaen hyd oni ddychwelai efe. Y trachwantwr wedi ei fyned allan a fethodd orchfygu ei drachwant; eithr wedi yspio o'i amgylch nes boddloni ei hun nad allai neb ei weled, a phenderfynu na chyffyrddai a dim oedd oni tanodd, ond ei weled yn unig a gododd ymyl y ddysgl yn ofalus; ac er ei syndod neidiodd llygoden fach allan, ac ymaith a hi i'w thwll. Deallodd yntau ei bod ar ben, ac arhosai y canlyniad. Ar gais y Brenin, adroddodd yr oll o flaen y dorf, a chydsynasant hwythau a'u cynrychiolwr fod y demtasiwn yn orfodol ar eu nhatur. "Felly yr ydych chwithau oll cynddrwg â'ch cyn-dad." ebe yr hen batriarch. "am hyny na feiwch arno mwyach." Bu hyny yn feddyginiaeth i bobl yr ynys byth mwy.

Wele y ddammeg sydd wirionedd! Pwy a'i deongla? Y mae egwyddor yn mhob gosodiad, yn dwyn cyssylltiad a holl lûl Adda; beth ydynt, pwy a'u mynega?

---

## LLENYDDIAETH Y LLYN HALEN.

(Allan o "Democratic Press," Chicago America)

Mae gan bobl y Llyn Halen neilldnolrwydd nodweddiad eryf. Ceir y bod eu sefydliadau teulnaidd, cymdeithasol. a gwladwriaethol, yn gystadl a'u sefydliad crefyddol. yn gwahaniaethu oddiwrth yr oll ereill sydd gan y byd wybodaeth am danynt, Mae yr amgylchiadau a'u hamgylchodd yn flaenorol i'w ffbadigaeth o Nauvoo, a'r rhai eu lleolir danynt yn awr, yn tueddu i'w gwneyd mewn llawer ystyr yn bobl sy genedl wrthi ei hunan. Meddyliant yn wahanol, siaradant yn wahanol, ac ysgrifenant yn wahanol oddiwrth bobl ereill. Gwneir hwynt yn wneuthurwyr gan angheurhaid, a galwodd byny allan y meddyliau mwyaf ymarferol yn eu plith i gymmeryd yr arweiniad yn eu gorchwylion. Mae Brigham Young yn ddyn nodedig. Prawf ei hun yn gyfartal i boh achos pwysfawr. Mae yndde ef ffrwythlondeb o ddyfais nad yw byth yn ffaelu, grym a'i dwg yn fuddugoliaethus trwy ei holl anturiaethau, a phenderfyniad ag y sydd yn symud yn mlaen heb ei frawychu gan anffawdd nen rwystrau; yr hyn a ymddengys

anorfod. Mae rhai o'i gydswyddogion yn rhyfeddol fel yntau, mewn perthynas i'r pethau hyn; eithr efe yw ysbryd symudol a hëoleiddiol Utah.

Ond yr hyn y bwriadasom gyfeirio ato yn awr, ydyw neillduolrwydd y Llenyddiaeth Formonaidd. Y mae yn gyfaddas i'r bobl ac i'w hamgylchiadau. Yn ëofn, yn egnïol, yn hyderus, ac yn gryf yn ei thalaeth, hi a gymmer afael ar feddyliau y rhai a anerchir ganddi, a hi a wna bob un dyn megys llu. Nid oes yno wastraffu geiriau, dim ymgais ar ol addurn, dim cynnyg at lyfnhau, bychan y gofal am reolau areithyddol, neu hyd y nod gramadegol; ond y mae pob brawddeg yn arwyddocau rhywbeth, a chanddi fêr, gewyn, ac asgwrn cefn cryf. Rhoddasom ychydig yn ol i'n darllenwyr ddyfyniad hir o gyhoeddiad diweddar Brigham Young, gyda golwg ar fygythiad gelyniaethus yr Indiaid yn Utah. Bydd i bob un a'i darlleno, ac a wyr unrhyw beth ynghylch y bobl a edrychant at Young fel eu pen, ddywedyd ei fod yn gywir y peth. Yn gywir y peth i anadlu hyder ynddynt eu hunain a'u Llywodraethwr, ac i greu dygasedd at yr Indiaid. Yn gywir y peth i gyffroi pobl drwsgl i weithrediad, ac i wneyd pob un dyn yn arwr.

---

## SYLW AR YR AMRYSON DWYREINIOL.

Pa beth yw'r cwmwl erchyll du
Sy'n codi yn y dwyrain draw,
Gan lwyr gynhyrfu'n daear gu,
Trwy nerth ei chwäon oddi draw?

Clywch, *clywch* y twrf dychrynllyd sydd,
O lenydd pell y Ddanube fawr;
A'r grochlef âch ei dyfnder rydd
Ei hadsain drwy ororau'r llawr.

Och! clywir yno chwerw gri,
Y dewr yn trengu ar y ma's,
A gwaed ei galon red yn lli',
Gan droi yn wrid y borfa las!

Clywch dwrf magnelau yn y wlad,
Lle bu llonyddwch heddwch hir;
Gweryrau'r meirch a bloedd y gâd,
Sy'n aflonyddu ar ei thir.

Trwst carnau'r meirch gynhyrfa'r byd,
Darpara i ryfel lawer gwlad;

A'r mawr fagnelau drystia'n nghyd,
Gan gyflym dramwy tua'r gâd.

O heddwch têr flodeuyn nef,
A wyt ar fyn'd o'r byd y ma's,
A yrwyd di gan ormes gref,
Heb le i roi'th ben dan awyr las.

Yn fuan gwelir tywallt gwaed,
Mewn gwlad na rydd it' deilwng barch
A'r tir na f'o yn safle'th draed
A sethrir gan y brwydrog farch.

*O ban i ban* dros wyneb byd,
'Does ond amryson broch a brad;
Y celwydd goelir braidd o hyd,
A'r gwir wrthodir yn mhob gwlad.

Am hyn, â'r cerwynt yn ei fla'n,
A'r dymhestl gyfyd yn ei nerth;
Holl bleidwyr twyll a drenga'n lân,
A'r chwâ a'u gyr i uffern gerth.

Can's odd y gogledd cym'rwyd cledd,
Yn gosp ar annuw am ei ddrwg;
Ac odd y byd cymmerwyd hedd,
Gan Ddnw'n gyfnewid am ei ŵg.

NATHAN DDU O LYWEL.

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, MAWRTH 25, 1854.

CYNNADLEDD DDWYR. MORGANWG,—Mae yn dda genym ddweyd ei bod yn gwella yn gyffredinol a pharhaus drwy y cylchoedd hyn; llawer ydynt yn derbyn y doniau ysbrydol yn ddiweddar, a weddiasant flynyddau am danynt; cariad ac undeb yn cynnyddu, a sêl adnewyddol yn y swyddogion am achub eu cyd-ddynion; amryw fedyddiadau, a phregethwyr yn mhlith ereill, ac argoelion daionus yn cynnyddu.

GORLLEWIN MORGANWG.—Argoelion gwella ac ymfywhau a glywir oddiyma, a'r hen gariad yn ymadnewyddu yn gyferbyn-

iol i ymdrechiadau y Saint i ymsanteiddio, a gwneyd eu crefydd; swn bedyddio mynych a glywir, eithr ni hysbysodd y Llywydd ni y rhif yn ddiweddar.

Mynwy.—Bedyddiwyd yma dros ddeugain er y Gymmanfa, a llwyddiant cyfartal mewn doniau a phob daioni; undeb cyffredinol, a hyder gref fod llu wrth y drws. Buan y delont.

Llanelli.—Ymffrostia y Llywydd fod mwy o gariad a ffyddlondeb, yn y Gynnadledd hon, nag a welodd er ys blynyddau;—bedyddiadau mynych, a'r swyddogion fel yntau yn penderfynu ymryddhau oddiwrth eu cyfrifoldeb i'w cyd-ddynion, drwy dystiolaethu yn effeithiol mewn geiriau ac ymarweddiad, a thrwy ymdrechu ymryddhau o'u dyledion mor gynted ag y gellir. Efelycher hwynt.

Caerfyrddin.—Hysbysir ni fod rhyw gyffroad adnewyddol yn y Gynnadledd hon er yn ddiweddar, a phenderfyniad cadarnach yn y Saint i fyw yn unol â'u proffes bwysig, yr hyn danfendith eu Duw, yw y pregethwr grymusaf i bob carwr y gwir. Ychydig ddyddiau yn ol, bedyddiwyd efrydwr o Athrofa y dref uchod, a mawr y cynhwrf a achosodd hyny! Cymherth ei Dad y drafferth o ddangos ei sêl yn erbyn efengyl Mab Duw, trwy ddyfod o bell ffordd yn bwrpasol i argyhoeddi ei fab o'r gwallgofrwydd, heb wybod beth oedd, amgen na chredu cam-ddarluniadau y pregethwyr a ddelent heibio iddo, debygwn, pa rai fynychaf a gariant lonaid eu *saddle bags* o fweci bo. i ddychryn dynionach rhag ufyddhau i genadwri y nefoedd drwy ei weision Ef. Wedi methu llwyddo i beri i'w fab gredu mai twyll y dystiolaeth a dderbyniasai eisoes gan Dduw o ddwyfoldeb y grefydd, treiodd beth a wnai ei fygythion: esgymmunodd ef o'i dy ac o'r Athrofa, a diarddelodd ef o'r berthynas anwyliaidd! Oll, o herwydd dylanwad anwireddus yn ddiau: canys amheuwn yn fawr a ocs undyn synwyrol a ymddygai felly o herwydd unrhyw egwyddor a broffeswn. O, na, o herwydd yr hyn *nid* ydym ein beir bob amser braidd. Ymgysured ein brawd newydd yn y Duw graslawn a roddes iddo ef dystiolaeth megys ag i ninnau, a gwybydded yn ddiau mai tra yr ufyddhäo i'r grefydd a ddysgir gan y Saint, nad yw efe amddifad o Dad; ond ei fod wedi cael Tad can mil gwell na'r hwn a'i gwadodd o herwydd arferyd ei ryddid, yn gydwybodol tuag at ei Dduw. Ysbryd y gwirionedd a'i dilyno, ynghyd a'i gyfoedion cywir

galon, ac a'i gwnelo yn fendith i'w dad a'i deulu, fel Joseph gynt, ac i luoedd ereill.

Penfro Ddeheuol.—Ysgrifena y Llywydd Price na fu cyfnod, pan y rhoddodd y swyddogion a'r Saint fwy o brawfiadau o'u hawydd i ddiwiol fucheddu ac achub eneidiau, nac a arddengys eu sêl frwdfrydig bresennol. Ysbryd yr Arglwydd a fyddo yn dywalltedig ar eu holl gyfarfodydd, nes y mawr lawenhaont yn mendithion yr efengyl.

Ymchwiliad i mewn i'r egwyddorion gan y byd sydd yno, fel yn gyffredin, yn cynhyrfu meddyliau puraidd gau athrawon y wlad. Tamueidiau melys yw rhyw awgrymiadau, oddiwrth wrthgiliwr neu o'r Dyffryn, a dueddant i beri casawyr yr efengyl orfoleddu; dengys hyny eu chwaeth, ac a'r cyffelyb egwyddor a archwaethant oreu yma, eu porthir eu gwala yn y byd a ddaw:—eithr y mae gormod cwmwl o dystion geirwir am y Dyffryn i gyfiawnhau unrhyw ddyn am gredu anwireddau gwrthgilwyr, hyd y nod oddiyno; heblaw fod Ysbryd y gwirionedd yn cyd-dystio a'r blaenaf.

Sir y Fflint.—Cynnaliwyd y Gymmanfa hon yn Brynbo, Chwef. 12: y cynrychioliad oedd fel y canlyn: 19 Henuriaid, 4 Offeiriaid, 4 Athrawon, Cyfanrif, 100. Undeb dyben ac ymdrech cyffredinol drwy y cangenau yn cynyddu. Dysgwylir yn obeithiol weled ffrwyth mawr oddiar lafur ychwanegol y Gynnadledd fach hon pan gynheso gwres haul y nef eu gwythienau; yr hwn, fel pelydrau haul y boreu, a gyrhaeddo bob calon.

---

## BEDYDDIAD PREGETHWYR.

Yr Hybarch Lywydd Jones,—Buom 40 mlynedd yn aelod gyda'r Bedyddwyr; a phan glywais am y Saint, penderfynais eu gwrthwynebu gan belled ag yn fy ngallu. Bwriadais dori pen y Saint a'u cleddyf eu hunain; ac i'r dyben hyny, olrheiniais eu Hyfrau: ond po mwyaf y chwiliwn i'w hegwyddorion athrawiaethol, pellaf o hyd yr awn gyda hwynt, gan gredu y gwirioneddd, a chymmerais fy medyddio.

Gwedi cael o honwyf y dystiolaeth addawedig, gan yr Arglwydd, dechreuais bregethu mawr allu Duw, i'm cyd ddynion; a deallais yn fuan mai gwirionedd y dywediad, "Y neb a ewyllysio

fyw yn dduwiol yn Nghrist Iesu, a erlidir." Dioddefais lawer triniaeth chwerw yn fy nheulu, na ddymunwn ei harddangos i'r wlad ar hyn o bryd, o herwydd agosrwydd y berthynas; tarawyd fi yn fy mhen a maen, gan wr, oblegid i mi gyflawni fy swydd trwy fedyddio un a ddymunai hyny; a throes fy hen gyfeillion crefyddol i'm difrïo, heb i mi wneyd yn waeth na thystiolaethu wrthynt ddarfod i mi gael gafael ar y grefydd Apostolaidd, ac y mwynheir doniau yr Ysbryd Glân, ynghyda holl freintiau yr eglwys gyntefig, gan Saint y Dyddiau Diweddaf.

Modd bynag cynnorthwyodd yr Arglwydd fi hyd yma: os cefais orthrymder, cefais orfoledd hefyd, gan ddwyn gofid a chael cysur, y naill ar gyfer y llall. Llwyddodd fy Nuw fi yn rhyfedd; ac wrth edrych yn ôl, gwelaf i'r oll gyd weithio er daioni, ac y cydgymmysgwyd y gwahanol amgylchiadau cyffrous a'm cyfarfuont megys i nn gwpan felus odiaeth.

Cefais y fraint fawr o fedyddio amryw; a chan y dygwyddodd mi fedyddio rhai gwyr cyhoeddus, dichon y caniatewch i mi eu henwi, fel y gallo darllen eu henwau dueddu at ddwyn ereill, o'u cyffelyb, i ystyried a chanfod ychydig o werthfawrogrwydd crefydd Mab Duw.

Un a fedyddiais yw y brawd, a elwid, "Y Parchedig David Davies," Porth Cawl, Gweinidog gyda yr Annibynwyr, Cafodd ef dystiolaeth, a llawer o'i erlid yn herwydd cyhoeddi hyny.

Nos Sadwrn, 19eg o'r mis hwn, bedyddiais y Parch John James, Gweinidog y Bedyddwyr, yn Cefn Coed y Cymmer, ynghyda phregethwr Ieuanc perthynol i'r unrhyw addoldy.

Cyfarfyddodd y brawd J. James, a'r bobl, yn Nghapel y Bedyddwyr, bore dranoeth, i'r dyben o derfynu eu rhwymedigaethau i'w gilydd; a daeth lliaws ynghyd y prydnhawn, i weled cadarnhau y ddau frawd. Fy ngweddi sy bellach ar Dduw, am iddynt gael a derbyn tystiolaeth gadarn iddynt eu hunain, fel y gallont alw ar eu holl hen gyfeillion i ddyfod a cheisio y cyffelyb fendith, ac i gydlawenhau a hwynt yn y gras mawr hwn.

Da genyf allu cich hysbysu i mi gael llythyr o Gaerfyrddin, yr wythnos ddiweddaf, i'm hysbysu ddarfod iddynt, wedi fy mynediad oddicartref, fedyddio Efrydwr ieuanc perthynol i'r Ysgol, lle y dysgir pregethwyr ynddi gan ddynion. Cadarnhäwyd ef ar lan y dwfr; ymroddodd i weddio yn daer; ac yn mhen wyth awr a deugain, cafodd dystiolaeth eglur; ond, o herwydd iddo ddy-

wedyd am yr hyn a wnaeth yr Arglwydd i'w enaid, cafodd ei droi o'r Ysgol, o'r Capel, ac o dŷ ei dad! Onid rhyfedd, fel y mae proffeswyr Cristionogaeth yn cashau crefydd Crist? Gan ddymuno achubiaeth pob dyn, ïe, hyd y nod yr erlidwyr crefyddol, ydwyf eich ffyddlon frawd.

*Caerfyrddin.* THOMAS JONES.

---

## LLYTHYR ODDIWRTH JOHN PARRY.

*Sant Sior, Mawrth* 13, 1854.

ANWYL LYWYDD JONES,—Yr wyf yn ysgrifenu atoch fyr hanes o sefyllfa bresennol Cynnadleddau y Gogledd. Yr wyf yn deall fod y Llywydd T. Jeremy, eisoes wedi anfon i chwi ychydig o hanes ansawdd Cynnadledd Sir Fflint. Cynnaliasom Gymmanfa Sir Ddinbych yn Abergele. Cawsom Gymmanfa dda, a phob un o Lywyddion y Cangenau yn dweyd fod y Saint mewn undeb da â'u gilydd, a golwg am lwyddiant yn yr amser dyfodol, trwy fod amryw yn credu, a rhai wedi addaw cymmeryd eu hedyddio bron yn mhob cangen. Bedyddiwyd un boreu Sul y Gymmanfa yn Abergele, a bedyddiwyd tri er y Gymmanfa mewn gwahanol gangenau. Mae amryw wedi addaw y cymmerant eu bedyddio; rhai yn mhob cangen o'r Cynnadledd. Mae gwell argoelion yma, yn bresennol nag a fu er ys amser; nid oes yma ddim un gangen yn amddifad o ddoniau yr Ysbryd Glân, ac yr ydym yn ymdrechu cael rhagor o honynt; ac nid ydym yn foddlon byw islaw ein breintiau, eithr y mae eich cynghorion da a buddiol trwy yr UDGORN, yn dwyn bendithion adnewyddol i'n plith, trwy i ni eu gweithredu.

Hefyd, ymweliad y Brawd T. Jeremy â ni fu yn llesol ac adeiladol, trwy ein bod wedi profi gallu yr Offeiriadaeth yn ei ddilyn, a'r Saint yn cael eu boddloni yn fawr trwy ei addysgiadau.

Cawsom Gymmanfa dda hefyd yn Llanrwst, Dyffryn Conwy. Yr oedd yr holl Swyddogion a'r Saint yn gadarn yn y ffydd, ac yn Tystiolaethu yn dda am eu cangenau. Mae tri neu bedwar wedi addaw cymmeryd eu bedyddio yn fuan. Aethym gyda'r brodyr Jeremy a Roberts trwy y gwahanol gangenau, a chawsom hwynt yn lled dda, sef Bethesda a Chaernarvon. Aethom oddi yno i Gymmanfa Sir Feirionydd, yr hon a gynnaliwyd yn Harlech; cawsom amser da yno gyda'r Henuriad J. Davies a'r

ewyddogion ereill; yr oedd pob peth yn cael ei gadw yn ol rheolau yr Eglwys, ond ychydig o lwyddiant; ettto, fe addawodd tri neu bedwar, gymmeryd eu bedyddio, a gobeithiaf mai felly y bydd yn fuan.

Yn debyg i'r uchod mae sefyllfa y Saint yn y Gogledd yn awr, eithr hyderaf y caf y fraint o yru hanes mwy o fedyddio y tro nesaf. Fy nghofion atoch yn garedig, ac at y Brodyr T. Jeremy a D. Daniels.

Ydwyf eich brawd yn yr Efengyl,

JOHN PARRY.

O. Y. Derbyniais lythyr o Ddyffryn y Llyn Halen Fawr, dyddiedig Rhagfyr 30, yn cynnwys newyddion da am Seion a'i phreswylwyr; sef, bod heddwch yn teyrnasu yno, a phawb yn gyffredin yn mwynhau iechyd: a chymbella yn fawr i ymdrechu dyfod yno Y mae hyny gyda phethau ereill, yn brawf eu bod mewn lle *da*; pe amgen, byddent yn waeth na'r uffernolion, oblegid nid ydynt hwy yn ewyllysio i'w brodyr ddyfod attynt i'r lle drwg.—J. P.

---

## Y SECTAU YN CAEL DADGUDDIADAU O'R DIWEDD.

Nos Lun. Ionawr 30. Y flwyddyn hon, wedi cyfarfod gwresog mewn Capel, yn Mhen y Cae, Sir Fynwy, gofynodd y Gweinidog i rai o'i bobl fyned gydag ef i ymofn a'u prophwyd; ac wedi eu mvned i dŷ pregethwr cynnorthwyol, bu iddynt hwy, ac un o'r *Wesleyan Reformers*, osod eu dwylaw ar fwrdd trithroed; a chyhoeddasant, iddynt holi y bwrdd, a chael ganddo yr atebion canlynol.

Gofynai y Gweinidog, A oedd ein cyfarfod yn lliosocach heno nag arferol.

*Ateb.* Oedd.

*G.*—Ai ysbryd da ydwyd ti?

*A.*—Ie, ysbryd da.

*G.*—A oedd ein addoliad yn gymmeradwy yn ynefoedd?

*A.*—Oedd.

*G.*—Pa hyd y bydd i'r rhyfel barhau?

*A.*—Hyd i fis Mai.

*G.*—Pwy a goll?

*A.*—Nicholas.

*G.*—Pa bryd y cwymp Anghrist?

*A.*—Yn mhen y ddeuddeng mlynedd.

*G.*—A yw ail briodas yn iawn?

*A.*—Ydyw.

*Gofynai y Diacon,*—A ddaw y parchedig o Gwm Amman atom nos efory?

*A.*—Daw.

*G.*—A ddaw Mr. Rees, hefyd?

*A.* Daw.

*Gofynai y "Wesleyan Reformer."* A yw yn iawn gwrthwynebu y Wesleyaid?

*A.*—Ydyw.

Er nad aeth Mr Rees, i Pen y Cae dranoeth, ac er iddo, drwy beidio, brofi nad gwir yr oll o ddywediadau yr "*ysbryd da,*" byrddiog, etto cred y crefyddolwyr swyngyfareddol hyn mai braint aunrhaetbadwy ydyw cael y fath ddadguddiadau! Ond hwy, gyda'u dewiniaeth, ydynt o nifer y rhai a erlidiant y Saint yn ffrom, o herwydd y dywedant fod Duw yn dadguddio ei gyfrinach i'w weision y prophwydi.

T. Mason.

---

## GOFYNIAD.

Mr. Gol,—Da fyddai genyf gael clywed trwy gyfrwng yr Udgorn, beth yw yr achos i fod y cwrw yn cael ei wahardd i'r Saint wneyd defnydd o hono. Ai am ei fod yn feddwol, neu a oes rhywbeth arall mewn golwg. Boddlona atebiad i'r uchod lawer heblaw

Lisbond.

---

### ATEB I'R UCHOD.

Nid yw yr Eglwys yn gorfodi, eithr yn cynghori y Saint i ymwrthod â gwlybyroedd meddwol, gan esgymmuno y rhai a feddwont, oddigerth iddynt edifarhau. Gallesid tybied fod synwyr cyffredin yn ddigon at arwain dynion i ystyried, mai llawnach bwyd-gistiau, taclusach cefnau, a siriolach teuluoedd a fyddai ganddynt trwy brynu, yn lle gwario; mai gwell iechyd a fwynheid, trwy fwyta ac yfed pethau glân, na thrwy draflyncu trwythion gwenwynig; ac mai mwy dylanwad, a thawelach mynwesau a feddiannai y rhai na seriwyd eu cydwybodau, trwy ym-

fucheddu yn santaidd, gan ymgadw oddiwrth lymeitian. Pan yfir y trwythion syfrdanllyd, bydd i berffeithrwydd sobrwydd golli graddau cyfartal i raddau yr effaith feddwol a deimlir oddiwrth eu hyfed; ac ni phreswylia yr Ysbryd Glân gydag ysbrydion aflan.

Mae gwyr sobr, cyfiawn, a duwiol, yn ennill dylanwad ar ereill, yn cynnyddu mewn ffafr gyda Duw a dynion, ac yn gwneyd daioni mawr bob ffordd; ond rhai, wedi ymollwng i ddiota, a gawsant deulu oedd grwgnachlyd, a chollasant eu dylanwad yn mhlith pobl dda: aethant yn withodedig gan yr eglwys, yn ddirmygedig gan y byd, yn fwrn ar eu perthynasu, ac yn geluneddau drewllyd, o dan ddigllawn farn Duw.

---

## ARWYDDION YR AMSERAU.

Mawr, ac ar ei gynnydd, ydyw gwallgofrwydd rhyfelgar amherawdwr Rwssia; ac er mai y grefydd Gristionogol a gymmer yn esgus tros ymladd, ni chaniata ef ryddid i unrhyw grefyddwyr bregethu a gwasgaru llyfrau, o fewn ei amherodraeth, ond i eiddo eglwys Groeg, pen yr hon eglwys ydyw ef ei hun; ond caniateir rhyddid yn Twrci i bob crefydd, ac ystyrir y Cristionogion yno yn gyfartal eu hawliau a'u breintiau gwladwriaethol i'r trigolion genedigol, er mai y grefydd Fahomedanaidd a broffesir gan y llywodraeth. Yr 11eg o'r mis hwn, cychwynodd Llynges Prydain o Portsmouth, i'r dyben o ddwyn archdeyrn Rwssia i'w bwyll: llywyddir hon gan Syr Charles Napier, ac arweiniwyd hi allan gan y Frenines Victoria, y Tywysog Albert, Tywysog Cymru, y Tywysog Alfred, a dwy o'r Tywysogesau breninol, ar fwrdd yr agerfad *Fairy*, yngolwg miloedd o edrychwyr gorlawen, yn cyd-floeddio a'r morwyr "*Duw a gadwo y Frenines!*" Ni welwyd y fath lynges o ran grym, prydferthwch, a medruswydd byddinol erioed o'r blaen. Yr oedd nifer menywod Prydain yn 512,361, tros ben nifer y gwrrywod eisoes: eithr gan na chaniateir ond pedair menyw i bob un catrawd o'r milwyr ymfudol, ychwanegir y mwyafrif menywod, yn gyfartal agos a nifer y gwrrywod a ddanfonir i ryfel. Cyd rhwng ymadawiad gwyr oddiwrth eu gwragedd, y gyfraith unwreigiaeth, ac ymfudiad meibion lawer i wledydd pellenig y byd, llaiheir poblogaerh Prydain gyda chyfymdra bellach. Mae y Geri marwol yn tori ymaith ei lucedd yn

Lloegr, yn Alban, ac yn Iwerddon y dyddiau hyn: cymmerwyd 31 o bobl Glasgow yn glaf mewn un dydd, a 30 tranoeth. Bu daeargryn arswydus yn *Calabria*, yn ddiweddar; difäwyd eiddo, werth miloedd o bunnau; taflwyd tai, yn bendramwnwgl; ymrolwyd creigiau, yn dibyndobyn; a lladdwyd tros 2000 o'r trigolion yn y galanastr aruthrol ac ofnadwy. Dirwasgir pobl gan eisiau bwyd, ar y cyfandir; a dyblir y dreth, a enwir "*Income Tax*," yn y deyrnas hon, o herwydd y rhaid cael yn agos i *dair miliwn o bunnau* yn ychwaneg y flwyddyn yma, na'r un flaenorol, o herwydd y liosogwyd nifer y milwyr a'r llyngeswyr mor fawr. Anhawdd yw dirnad y difrod a wneir ar ddynion, ac ni ellir dywedyd pa pryd na pha le y derfydd yr ymgyrch rhyfelog presennol. Hoffem fod gyda y Saint, yn Seion; eithr ewyllys yr Arglwydd a wneler; a thra yr ymddygom yn ol ei ewyllys santaidd Ef, bydd i bob peth gydweithio er ein daioni; canys gwna Efe i gynddaredd dyn ei foliannu, trwy ageryd ffordd, i fynedfa yr Efengyl dragywyddol, at holl wahanol bobloedd y byd i gyd.

---

## AMRYWIAETHAU, &c.

☞ Nac anghofied Llywyddion anfon eu cyfraniadau at y Cymdeithas Ymfudol Barhaus, a'u cyfraniadau at y Deml yn y chwarter hwn, mewn pryd i'w hanfon oddiyma i Lerpwl, Ebrill laf, yn gyd-fynedol â'r drefn sefydlog i hyny.

Derbyniadau o Chwef. 15 hyd Chwef. 22.—Dwyr. Morganwg, £1 19s 6c.

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau, i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street, Merthyr-Tydfil.*

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Ymddiried | 181 |
| Dammeg | 183 |
| Lleuyddiaeth y Llyn Halen | 186 |
| Sylw ar yr Amryson Dwyreiniol | 187 |
| Golygyddiaeth—Gorllewin Morganwg—Mynwy—Llanelli—Caerfyrddin—Sir y Fflint—Penfro | 188 |
| Bedyddiad Pegethwyr | 190 |
| Llythyr oddiwrth John Parry | 192 |
| Y Sectau yn cael Dadgudddiadau o'r diwedd | 193 |
| Gofyniad ac Atebiad | 194 |
| Arwyddion yr Amserau | 195 |
| Amrywiaethau &c | 196 |


---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14 CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 13.] EBRILL 8, 1854. [CYF. VII.

### DYWEDYD YN DDRWG.

GAN Y LLYWYDD S. W. RICHARDS.

DAETH yr arferiad o ddywedyd yn ddrwg mor gyffredin, yn mhlith agos i bob gradd o ddynion, ac mor gydwauedig a phob ystod mewn bywyd, fel na ddianc ond ychydig rhag yr euogrwydd sydd yn canlyn y fath arferiad. Dichon i'r drwg a wneir gan y cyfryw ag a ymhyfrydant yn y drygioni atgasaf hwn, ymddangos i rai megys gwegi; eithr nis gall felly, ond i'r rhai ag ydynt wedi ymgynnefino ag ef, fel nad allant ganfod ei dueddiad dinystriol. Efallai na chyflawnir unrhyw bechod yn fynychach, gan rai a broffesant eu bod yn Saint, na'r un o ddywedyd yn ddrwg; ymddangosant hyd yn hyn fel heb eu dysgu am y dylanwad grymus a ellir ei reoli gan y tafod, er dedwyddwch neu druenusrwydd dynolryw. Ymddangosant fel pe heb ystyried y bod un gair yn mynych ddistrywio yr ymddiried ag y sydd yn rhaid iddo gael teyrnasu yn benaf lle bodolo dedwyddwch, ac mai aml y mae yn cynnyrchu ëangach niwed, na braidd unrhyw weithred ddrwg arall a ellid ei chyflawni; ni ddysgasant etto wylio ar eu geiriau fel pe byddai pob gair yn offeryn bywyd neu angeu—yn fendith neu yn felldith, i'r rhai hyny a ddeuant o dan ei ddylanwad.

Mae cyfraith Duw yn dra manwl yn ei gofyniadau ar y pwnc hwn, yn gymmaint felly na all na gwrryw na benyw a ymhyfrydo yn y fath ddrygioni gael eu hachub, am ei fod yn drosedd gwarthus o'r gyfraith. Darparir swyddog gan gorfforiad yr

Offeiriadaeth santaidd, dyledswydd arbenig yr hwn i'w edrych na arferir dywedyd yn ddrwg yn mhlith y Saint, na chwaith y bodola yr enllib, na'r caledwch sy beunydd yn gyssylltiedig a'r arferiad. Byddai i gyfraith yr Offeiriadaeth Santaidd, ond ei gweinyddu yn fanwl, wahanu yr un euog o gamwedd mor wrthun oddiwrth gymdeithas y Saint; a phan weinyddo swyddogion teyrnas Dduw mewn perffeithrwydd ger bron yr Arglwydd, bydd i'r pechod hwn, a'i holl ganlyniadau drygionus beidio yn hollol. Dylai gochel y drwg hwn, fod yn fyfyrdod y Saint, yn mhob sefyllfa bywyd, yn neillduol os yn meddiannu ar sefyllfa amlwg ym mysg y bobl—neu un lle y dysgwylir i'w pob gweithred a gair fod yn bortread i'r bobl. Cawsom achlysuron i sylwi ar y pwysigrwydd o hyn, yn neillduol gyda Bugeiliaid a Llywyddion a elwid i ddilyn y naill y llall yn eu llafur gweinidogaethol. Dadorchuddir yr egwyddor yn ebrwydd pan y byddo i Henuriad, wrth ddilyn i le un arall, anghymeradwyo ffordd a llywodraethyddiaeth gyffredinol ei ragflaenydd, a gwneyd dinystriad y llywodraethyddiaeth sydd yn bodoli at ddwyn gorchwylion yn mlaen, yn orchwyl blaenaf, gan eu hanghymmeradwyo yn gyhoeddus, a sefydlu cynlluniau newyddion i weithredu yn ol ei olygiadau a'i dueddiadau neillduol ei hun.

Pan gymmerir y dull hwn, gwneir hyny yn gyssylltiedig a nodiadau a chrybwylliadau a dueddont i ddistrywio gwaith a dylanwad y rhai a fuont o'r blaen; er y dichon i'w hymdrechiadau fod yn fawr, i'w llafur fod yn ddi ball, ac i'w dybenion fod yn bur, yn unol a'r goleuni a'r gwybodaeth a feddianent, a chymmaint felly ysgatfydd ag unrhyw ddyn a allasai eu dilyn. Mae Duw yn sicr o gyflwyno gwobr gyfiawn ar yr holl fath lafurwyr ffyddlawn. Pan y galwer Henuriad i ddilyn un arall, gweddai ei fod yn fyfyrdod ganddo i warchod tros les a dylanwad y brawd hwnw, fel yr ewyllysiai yntau gael gwarchod ei eiddo ei hun dan y cyffelyb amgylchiadau. Ni ddylai un dyn dybied, am foment, nad yw y llywodraethyddiaeth a fabwysiadwyd gan arall yn un gyfiawn, yn unig am ei bod yn gwahaniaethu oddiwrth yr un hono a ddewisai ef. Dichon fod gwahaniaeth dull i weinyddu ac etto yr oll wedi eu hargymhell gan yr un Arglwydd, megys ag y mae amrywiaeth doniau trwy yr unrhyw Ysbryd. Hysbysir ni gan yr Apostol, "Y mae

amryw weithrediadau, ond yr un yw Duw, yr hwn sydd yn gweithredu pob peth yn mhawb." Yn awr os gwir yw hyn, pwy a fedr eistedd mewn barn ar ei frawd, o herwydd fod ganddo ei fodd neillduol o weithredu, ac anghymmeradwyo hyny, heb ddyfod dan gondemniad? Gwahaniaetha dynion yn eu tueddiadau, tymher, ac ysbryd, a Duw ydyw awdwr y gwahaniaeth hwnw; ac nid oes gan neb hawl i ddywedyd yn erbyn ei frawd, oblegid i Dduw ei ddonio fel hyn, tra y mae ei ddymuniadau a'i ymdrechiadau i gynnal cyfiawnder yn nghanol dynolryw, ac adeiladu teyrnas Duw. Er fod yr egwyddor hon yn wir, ac yn hanfodol i sylwi arni, nid yw yn ymyraeth mewn nn modd gyda'r cyfrifoldeb a orphwys ar bob un i gymmeryd dull cyfaddas at gywiro drygau lle bynag y bodolont; ond nid yw dull dyn i gynnyrchu drwg o anghenrheidrwydd, yn herwydd ei fod yn gwahaniaethu mewn rhyw bethau oddiwrth ddull un arall.

Pan ddysgo dyn y gwirionedd, bydd iddo wybod, os cymmer ef yr hyfdra i ddywedyd yn erbyn ei frawd, yr adfesurir yr unrhyw fesur iddo yntau yn ol, os yw Duw yn eirwir. Dichon i ddyn wneyd drwg, a'r weithred hono yn dra chyfyngol yn ei dylanwad, tra y dichon i arall ddywedyd am y drwg hwnw wrth rai nas gall fod ganddynt reolaeth drosto, a chynnyrchu cyfanswm o niwed cyhoeddus a phersonol ei natur a fyddo braidd yn annherfynol.

Mae yr amser wedi myned heibio, y dichon i ddynion hawlio perthynas gyda phobl Dduw, ac ymhyfrydu yn y fath arferiad heb eu dirmygu; a lle gwnelo Dysgawdwyr eu dyledswydd, bydd i'r fath bersonau, pa un bynag ai uchel ai isel, ganfod eu hunain mewn perygl o gael eu galw i gyfrif, ac, ysgatfydd, yr ymddygir atynt yn unol a chyfreithiau yr Eglwys; tra y bydd i'r rholl ag ydynt wybyddus o'r urdd uwch, ac o gyfammodau yr Offeiriadaeth santaidd, deimlo gradd o ddigofaint, na ddichon ond eu hunain fod yn alluog i'w deimlo.

Nid oes gan neb yn nheyrnas Dduw hawl i gyhoeddi ac i wneyd yn hysbys feiau ereill, ond yn unig i'r rhai sy ganddynt hawl i geryddu a chospi y troeseddwyr. Nis gall ond drwg darddu o unrhyw ffordd arall, ac ychwanegu drwg at ddrwg sy waith yr Un drygionus. Os cenfydd dyn ddrygioni yn ei frawd, a chanddo i'w gynghori a'i geryddu, ei ddyledswydd ydyw ym-

drechu a allo i ddywygio y brawd hwnw, wrtho ei hunan; os na lwydda, yna ei fraint ydyw hysbysu y ffeithiau yn yr achos wrth y Dysgawdwr, hawl yr hwn, trwy rinwedd ei swydd ydyw gweled na byddo drygioni yn yr Eglwys, a hwythau mewn undeb a allant ymdrechu achub y cyndyn; os na allant ynghyd lwyddo i droi yr euog oddiwrth ei drosedd, yna gellir ei ei ddwyn ger bron Cynghor yr Eglwys, ac ymddwyn ato yn gyfreithlawn. Hyd na chymmerer y dull hwn, nid oes gan neb hawl i gyhoeddi ac i areithio yn erbyn drygioni brawd. Gradd o noddeed rhag dynoethiad yw hyn, a drefnodd Duw yn ddoeth i'r oll ag ydynt yn ei deyrnas, fel y caffont gyfleustra i ddiwygio eu beiau cyn cael o honynt ddylanwad drwg ar ereill. Pan genfydd dyn ddrygioni neu gyndynrwydd mewn un nad oes ganddo allu i'w alw i gyfrif, ei fraint ydyw hysbysu hyny i un sy ganddo awdurdod yn yr achos, ac yna bydd ei odreuon ef yn lân, a'r pechod yn gorphwys gyda rhai y sy ganddynt allu i'w roddi ymaith, a chan y rhai y rhaid gwneyd iawn a'i gwared oddiwrth gyflawnder y gyfraith. Rhaid i'r Saint sylwi ar yr egwyddorion hyn yn eu holl gwsmeriaeth a'u gilydd, neu ni allant byth etifeddu bywydau tragywyddol.

Gwnaed llawer o gyfnewidiadau yn ddiweddar, a llawer o Henuriaid teithiol sydd yn cael eu galw, ac a elwir etto, i lenwi lleoedd y rhai a ymfudasant; a dywedem wrth yr oll o'r cyfryw, bendithiwch eich rhaflaenwyr, trwy gynnal eu dylanwad yn mhlith y bobl, ac na cheisiwch byth adeiladu eich hunain ar ddinystr rhai ereill. Os bendithiodd yr Arglwydd y rhai a fuont yn eich rhagflaenu, rhoddi iddynt galonau y bobl, trwy yr hyn y cawsant allu i wneyd daioni, na fyddwch eiddigeddus, ac ofni na rydd yr Arglwydd galonau y bobl i chwithau hefyd. Os ceisiwch iachawdwriaeth y bobl, a dymuno a'ch holl galon wneyd daioni iddynt, rhydd yr Arglwydd i chwi yr oll ag ydych deilwng o hono, a'r oll a alloch ei reoleiddio i'w ogoniant Ef. Os na rydd yr Arglwydd i chwi galonau y Saint am nad ydych deilwng o honynt, e'wi a geisiwch yn ofer am eu cael. Ni raid i un dyn fod yn eiddigeddus o'i awdurdod, dylanwad, na gallu. Os oes ganddo rywbeth gwerth ei feddiannu, efe a'i derbyniodd oddiwrth Dduw, ac erys gydag ef gyhyd ag y byddo deilwng o hono; ond os na bydd iddo ei anrhydeddu, ymâd oddiwrtho, ac yntau a gyhoedda ei ffolineb ei hun trwy

ddangos ysbryd eiddigeddus am yr hyn y teimla ei fod yn ei adael ef. Y dyn hwnw a werthfawroga ei fendithion fel yn dyfod oddiwrth ei Dduw, ac a deimla i gydnabod ei law Ef yn mhob peth, a ganfyddir bob amser yn llwybrau doethineb, a hwy ydynt heddwch. Darfydded pob ymddyddanion drwg o blith y Saint; y maent yn llygru ymddygiadau a moesau da, ac yn distrywio teimladau da hefyd. Byddwch ofalus am ddedwyddwch eich gilydd, carwch eich gilydd, a cheisiwch am iachawdwriaeth pawb; yna cewch ymddangos yn waredwyr ar Fynydd Seion, i fwynhau gwobr oludog y gwaredigion, a dyfod yn wasanaethwyr ein Duw am byth.

---

## "Y MORMONIAID."

"MAE y bobl resynus hyn yn prysuro o'u gwlad yn heidiau tua chymmydogaeth y Llyn Halen. I chwyddo y fyntai, ar yr 28ain o'r mis diweddaf, gwelid amryw o'r dref hon yn cychwyn ar fwrdd agerddlong i Le'rpwl, gyda bwriad o gyfeirio tua'r Ganaan ddychymmygol y tu draw i'r dwfr. Yn eu plith yr oedd hen wraig, 87 oed, yr hon a broffesai ei hyder cryf o weled ei hen wr (sydd wedi ei gladdu er's blynyddau) ar ol tirio yno, a'i anrhegu â hosanau cynhes, pa rai, er profi gwirionedd ei ffydd, yr oedd hi wedi ymdrafferthu i'w gwau, er cynhesu traed un oedd wedi oeri er's cymmaint o amser. Prin y gallwn ganmol ymddygiadau y bobl hyn, o herwydd os credant wirionedd eu crefydd, dylent, cyn bod yn deilwng o Ganaan, ymdrechu mwy nag a wnaethant ar ran eu cyd-ddynion, er eu goleuo am ddymunoldeb y fangre ddedwydd, yn lle troi eu cefnau ar unwaith, a'u gadael mor amddifad yn yr hen anialwch. Ow! Ow! yr ydym wedi synu drachefn a thrachefn fod neb yn ngwlad oleu yr ysgolion Sabbothol yn rhoi coel i'r fath drwyth o ynfydrwydd anysgrythyrol! Dengys fod genym waith mawr i'w wneyd etto, i oleuo a sefydlu y wlad yn egwyddorion syml ac anmhrisiadwy gwir Gristionogaeth."

Syned a syno, a ammheuodd na ammheued yn hwy, ond cy. wilyddied a berthyno, y mae yn rhy wir, fod hyd heddyw yn aros, mewn gwlad "Gristionogol!" yn "Ngbymru oleu!" yn Sir Aberteifi, ïe, yn nhref Aberystwyth, ŵr o Gymro, a feiddiodd gyhoeddi y twsw uchod mewn rhyw bapyryn a elwir yn "Wasg,"

ei hunan. Mr. Gol., a'i lluniodd, a'i hysgrifenodd, ac a'i cyhoeddodd;—drych yw, ynte, yn yr hwn ei gwelir ef o'i goryn i'w sawdl, ac aroglir allan sawyr anwireddus bwll ei galon erchyll ynddo. Myned â hosanau o Sir Aberteifi yn fwriadol i gynhesu traed ei gwr oedd wedi marw er's blynyddau, aie! A goeliwch chwi, hyd y nod eich hunan, Mr. Gol. fod y fenyw hono, na neb o'r Saint yn bwriadu dim o'r fath beth? Os gwnewch, y mae genych gryfach ffydd, *y* fath ag yw, nag sydd gan neb o'r Saint ar a wyddom. Os credwch hyny, paham na chwiliwch i mewn yn fanylach i'w daliadau a'u hargyhoeddi, nen gael eich argyhoeddi, drwy resymau argyhoeddiadol a charedig, yn lle cyhoeddi y fath *fwcci bw* â'r uchod? Onid mwyaf eich cywilydd chwi nad argyhoeddasoch hwynt, a hwythau yn gymmydogion agos i chwi; nid ydych chwi yn argyhoeddwr grymus, naill ai o ddiffyg gwirionedd i'w hargyhoeddi o hono, neu o ddiffyg ymdrech ynoch chwi. Pa un Mr. Gol.? Mae eich cwynfaniad, druan, yn cyfaddef, fod cryfach dylanwad gan y Mormoniaid nâ'r eiddych chwi; ai tybied nad cyfystyr hyny a chyfaddef mai ganddynt hwy y mae mwyaf o wirioneddau argyhoeddiadol, a'r cyfarfhiad uchod o'ch safn chwithau, yn profi paham y gwaeddodd y cadno hwnw "grawn surion!'

"Ow, ow!" Golygydd Newyddiadur Cymreig yn byw am flynyddau yn yr un wlad â, ie, ynghanol "heidiau o Formoniaid," ac heb ddeall mai anwiredd noeth, disail, a diachlysur iddo a gyhoedda, tra y gwyr pawb ereill fod ei ystori wedi ei chynlluniо o ddefnyddiau enllib, ei gwau a'i chordeddu bob edefyn o honi o garth garw athrod,—Mr. Gol., y gweudd, a'r "Wasg" o Aberystwyth yw y gwŷdd a'i gweua. Rhaid ei fod yn baganaidd arw os na wyr well na hyn; ac o ganlyniad yn gyfrwng anheilwng i gyfarwyddo y "Wasg," "cyfrwng dysgeidiaeth yr oes." Os gŵyr well, yna rhaid ei fod yn gynlluniwr, ysgrifenwr, argraffwr, a chyhoeddwr anwiredd gwybodus! Y fod un sill o wirionedd yn ystori yr hosanau, beriwn ef na'r byd i'w brofi. Y gallai efe wybod hyny sydd eglur, o herwydd mai Saint oedd cynnifer o'i gymmydogion, y distadlaf o ba rai a brofasent hyny iddo yn y fan; o ganlyniad, y mae ei gyfaddefiad ef ei hun yn ei wneyd yn Olygydd celwyddog' ffordd bynag y troa; a gwaeth etto, celwyddau ar grefydd ei gymmydogion, y peth anwylaf a feddant, yr hyn a'i prawf yn amddifad o grefydd ei hunan, er nad faint e[illegible]

ymffrost o fod yn "ngwlad oleu yr ysgolion Sabbothol." Os dyma'r fath Olygyddion a droir allan o ysgolion Sabbothol Sir Aberteifi, Duw y gwirionedd a gadwo Lenyddiaeth ein gwlad allan o gyrhaedd sawyr andwyol eu hanadl hwynt. Canmoliaeth wael yw cyhuddiadau celwyddog ar grefydd eu cymmydogion, i gymmeriad ysgolion Sabbothol; etto dyma a geir gan eu canmolwr Golygyddol hwn. Onid gwell i'r athraw ysgol ei alw yn ol i ddysgu yr hen wersi da yn y catechism a ddywed,—"Na ddywed gelwydd yn erbyn dy gymmydog."

Beia y Mormoniaid am ymfudo mor fuan; etto ni ddywed pa hyd y bu rhai o honynt yn pregethu hyd heolydd a thai Aberystwyth, nad sawl blwyddyn y buont yn ymladd yn erbyn ei anwireddau ef ac ereill, gan gynnyg egwyddorion syml ac anmhrisiadwy gwir Gristionogoeth i'r Gol. hwn a'i gyfeillion; ond tebyg y dymunai fod yr hen wreigen 87 mlwydd oed yn aros yn hwy er iddo ef gael testunau "synu drachefn a thrachefn," wrth ei ystoriau dychymmygol ei hun, pan mai y syndod fyddai at ei ddwlni ei hun, pe yr ymholasai hyd y nod â'r "hen wraig," neu rai o'r Saint, ynghylch beth a gredent! Ymresyma hwn fod ymfudiad y Saint yn gwrthbroñ "GWIRIONEDD EU CREFYDD," o herwydd, ebe fe, "*Os credant* WIRIONEDD EU CREFYDD," ni ddylent ymfudo mor fuan, pan o'r ochr arall y mae eu hymfudiad hwy mewn ufydd dod i'w crefydd, yn ffaith amlycach nag a ddyry unrhyw broffeswyr yn y wlad eu bod yn credu gwirionedd eu crefydd. Ac felly, o chwith y gwel efe yma etto! Eithr, cyfaddefa ein cyfaill mai gwirionedd yw crefydd y Saint, gwelir, a dymuna ddeall ychwaneg o honi, debygid, ac ar yr un anadl geilw hi yn "*drwyth o ynfydrwydd anysgrythyrol!*" Gellid deall ei fod ef wedi dysgu digon o'r fath drwyth â hyny eisoes, yn yr ysgolion Sabbothol neu le arall, fel na raid i'r Mormoniaid aros yna i'w ddysgu ef. Ië, a'r Gol. croeshaeriadol, enllibus a gwyrgam hwu a ddywed, "Dengys hyn fod GENYM waith mawr i'w wneyd," sef y '*ni*' olygyddol, '*ni y gwir* gristionogion!' A chan ddecbreu ar y gwaith mawr, wele ei ergyd cyntaf efallai, sef cyhoeddi fod cymmydoges iddo ef ei hun wedi gwau hosanau yn bwrpasol i gynhesu traed ei gwr yn California, yr hwn oedd wedi marw er ys blynyddau yn Nghymru! O! ffei rhag y fath fawr waith, a'i fawreddog weithiwr, ynghyd ac ar yr hwn a'i gosododd ar y fath waith, sef tad y celwydd.

"Gwir Gristionogaeth" hollol ysgrythyrol a gredir gan y "Mormoniaid,"—eu harweinydd anffaeledig yw Ysbryd Duw, yr hwn a brawf wirionedd ein haeriad, i'r neb a ufyddhao i ofynion dwyfol ein crefydd, drwy gael ei fedyddio er maddeuant, ac efe a dderbyn "ddawn yr Ysbryd Glân," yr hwn a dystia iddo mai chwedlau disail yw "ystori yr hosanau," y "cerdded ar y dwfr," y "gwyrth y pastwn," fel y "brogau a'r pren pwdr," a'r mil ond un, neu fil ac un, o ystoriau ereill a gyhoedda Golygyddion, ac a bregetha duwinyddion yr oes am danom; a deallir yn eglur mai o herwydd y fod gan y Saint y "wir Gristionogaeth," ac y fod y gwir yn erbyn y gau ac yn erbyn y byd, y cynhyrfa hen nwyd pob gau grefydd i'w hymladd hi a hen gleddyfau rhydlyd enllib ac anwiredd.

---

# UDGORN SEION,

A

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, EBRILL 1, 1854.

Teyrnas Dduw.—Adeiladu Teyrnas Dduw yw dyledswydd flaenaf, benaf, a phwysicaf pob dyn; hyn a ddylai fod ei brif amcan, a dylai wneyd i bob peth a fedda, pob cyfleustra a gaiff, a phob talent o'i eiddo, fod yn wasanaethyddol i hyn. "Eithr yn gyntaf, ceisiwch deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef," oedd dysgeidiaeth ein Harglwydd i'w gyd-oeswyr, a phe sengai yr un traed dwyfol ar ororau Cymru yn awr, credwn mai ei floedd gyntaf a fyddai ar bob gradd, ac ar *bawb*, nad beth eu proffesiadau, deuwch i mewn i deyrnas Dduw! Mae y pwysigrwydd o fod yn nheyrnas Dduw mor hunan eglur i ni, fel na allwn feddwl am ddim i'w gystadlu ag ef. Bod yn ddeiliaid o deyrnas Dduw yw cael bod yn blant i Dduw; a bod yn blant yw bod yn etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â'n Harglwydd Iesu: yr hon etifeddiaeth a gynnwys ynddi bob bendith ysbrydol a daearol, presennol a thragywyddol; ïe, can mil mwy o bleserau, llawenydd, cyfiawnder a gogoniant, nag a ddaeth i

galon dyn erioed i'w ddychymmygu; yr hyn oll a addawa ein Harglwydd gyd-etifeddu a'i frodyr ffyddlon o'r un-dad dwyfol, pan sicrha yn ddios,—"A'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg." O'r ochr arall, mewn gwrthgyferbyniad, gwelir, mai colli pob peth sydd yn werth ei gael, yw peidio dyfod i Deyrnas Dduw, a chael, ond yr hyn y byddai yn elw i'w golli.

Ar yr iawn ystyriaeth o'r pwysigrwydd o adeiladu teyrnas Dduw, ymddengys y pwysigrwydd o iawn gyfarwyddyd i mewn iddi, o herwydd anmhosibl i neb adeiladu teyrnas Dduw tra y byddo oddiallan iddi ei hunan; eithr, gan ein bod yn cyfarch yn fwyaf neillduol ein brodyr a gawsant y fawr-fraint fel ninnau, o fod yn ddinasyddion o'r deyrnas hon, ni raid ymhelaethu wrthynt hwy; etto, nid digonol er cyflawni y gorchymyn dwyfol, yw ceisio nes cael y *ffordd i mewn*, a boddloni ar hyny; eithr dyledus i bob un wedi cael hyny, yw ceisio "*adeiladu*" y deyrnas.

Mae llawer yn ngallu pob aelod i'w wneyd er adeiladu teyrnas Dduw, a'r prif o'r cyfan yw byw yn ol ei broffes, a mwynhau cyflawniad o addewidion Duw i'w blant; nad beth arall a wna heb wneyd hyn, nid yw yn adeiladu teyrnas Dduw yn effeithiol. Gweithredu ei "gyfiawnder ef" yn amlwg i'r byd yw yr effeithiolaf i gael gan ereill wneyd hyny, a chael dyn i fyw yn gyfiawn ac yn dduwiol, yw adeiladu teyrnas Dduw; canys, nid yw teyrnas Dduw mewn bwyd a diod, eithr "cyfiawnder, tangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân."

Y ffordd y dylai y rhai a gawsant gyfran o offeiriadaeth y Brenin—a anfonwyd yn genadon drosto, ag yr ymddiriedwyd iddynt "air y cymmod," i adeiladu ei deyrnas, yw drwy *berswadio* ac nid trwy ddychrynu, na gorfodi, eithr drwy *berswadio* deiliaid teyrnas Arch-elyn ein Brenin i adael ei deyrnas ef a lliosogi rhifedi deiliaid y teilwng Frenin: i hyn yr anfonwyd hwynt, hyn a ddylai fod eu prif orchestwaith; er cyflawni hyn dylai pob peth fod yn wasanaethyddol. Gan ein bod ni wedi dyfod iddi ein hunain, gwyddom y ffordd i ereill ddyfod drwy yr un drws, gan nad oes ond un drws, ac i allwedd y drws hwnw gael ei hymddiried i ni, cofier nad i *gadw y drws yn nghlo* y rhoed ef i ni, ond i'r dyben o'i DDAD-GLOI mor fynych ag y ceir galwad i hyny. Gan fod ystorom ofnadwy ar oddiweddyd y rhai sydd oddi allan, a ninnau yn gwybod hyny, gwyliwn na

bo neb yn ein cyrhaedd a ewyllysia fyned i mewn, pe caffai wr yr allwedd i agor y drws iddo. Ein dyledswydd yw myned ar eu hol hwynt, eu chwilio allan, chwilio tai eu cymmydogion, chwilio y trefydd, y wlad, yn nhyllau y ddaear, ac ar greigiau a mynyddoedd ein gwlad; helwyr ydym, heliwn hwynt o bob plaid a diblaid; ni ddylem adael neb yn llonydd; canys, nid oes neb ond nyni a allant eu dwyn i mewn; o herwydd mai i ni yr ymddiriedwyd yr allwedd, ac o herwydd na wyr neb fel nyni y pwysigrwydd o'r peth.

Frodyr Llywyddol!—Cyd-weithwyr yn ngwinllan, a chydfilwyr yn myddin yr Iesu! Ymddeffrown, ac ymegnïwn â'n holl alluoedd i'r gwaith pwysig o ennill dynion i enlistio o dan faner ein Brenin; mae y byd drwyddo oll braidd, yn berwi fel crochan, cyfeiliornadau o bob rhyw, fel clindarddach drain, a boetha ei ager; gwaed dynion yr hylif, a'r gelyn diafol ei hun yn ffaglu o dano! Mae y frwydr fawr olaf yn agoshau, yn ol pob argoelion, y mae ein Brenin ninnau yn galw am ddewrion i'r frwydr ysbrydol; ac hyderwn na chollir un cyfleusdra, na esgeulusir un ddyledswydd, ac na fydd dim yn ol a allwn ei wneyd er "adeiladu teyrnas Dduw."

Pleser mawr yw deall am ymdrechiadau adnewyddol Llywyddion, ac y fod llwyddiant yn gyferbyniol i'w diwydrwydd; ac etto y mae lle;—oes y mae lle i wneyd ychwaneg, tra y bo un oddi fewn ein cyraedd heb gael pob cynnyg, a'i henoga am ei wrthod. Hyderwn na foddlona un Llywydd Cynnadledd ar lai na gweled pob canghen mewn iawn reoleiddiad ac undeb ffydd, a sel weledig drwy effeithiau yn cyd-adeiladu teyrnas Dduw yn mhob modd; na adawant na thref, ardal, ty na pherchen enaid heb gynnyg, heb *wahoddiad*, *cymhelliad*, a *thaer* erfyniad i ddyfod i'w deyrnas Ef. Hyderwn na foddlonir hwynt ar wneyd yr oll a allant eu hunain, heb gael pob swyddog ac aelod, y blaenaf yn enwedig, i'r un deimlad a sêl a hwy eu hunain; heb osod pob un yn y cylch cyfaddasaf i'w alluoedd, a rhoi iddo bob manteision a chefnogaeth er gwneyd pob daioni sydd ddichonadwy iddo wneyd, a bydd digon o le i ychwaneg wedi hyny. Hyderwn y gosodant bob Henuriad ac Offeiriad ar waith i lanw eu cylchoedd ac anrhydeddu eu swyddau gwerthfawr, na byddo un a broffesa y swyddau hyn, mewn un gangen o dan eu gofal yn esgeuluso ei dalent, nac yn

caèl y swydd heb ei chyflawni, oddieithr bod rhyw achosion digonol iddo beidio, ac y mae y cyfryw yn anhawdd eu cael. Os gwna Henuriad addasaeh Athraw; os henaint, amgylchiadau, neu nad beth a'i hanalluoga i weinyddu fel Henuriad gweinydded yn swydd athraw a bydded dad selog dros, ac awyddus i lesoli praidd Duw; y mae mawr anghen mwy o athrawon yn mhob cangen a welsom drwy'r wlad; crefwn sylw at hyny, llanwer y bylchau, lleihaer y dosparthiadau ac ychwaneger cryfhawyr y gliniau gweiniaid a meddygon y llesg; boed digon o rym i gario yr wyn yn mynwes yr eglwys, ac i goleddu y mammogiaid, fel na thristaer Ysbryd Duw o'ch plith o'r herwydd. Ni ddylai fod neb o'r Saint heb rhyw athraw yn ymweled ag ef neu hi yn wythnosol, a mynychach os esgeulusant eu dyledswyddau; onide, gwylier rhag y cyfrifoldeb os collir un enaid a allesid ei achub trwy fwy diwydrwydd!

Annogwn ein brodyr i chwilio oddiamgylch iddynt, beth yn ychwaneg a allant ei wneyd mewn unrhyw fodd er adeiladu teyrnas Dduw yn eu plith; i chwilio am fanau i bregethu; symud brodyr ffyddlon i fyw mewn lle nad oes Saint, ac ymeangu ar y ddê a'r aswy gyda sêl deilwng o'u "Brawd hynaf," bwyd a diod yr hwn oedd gwneuthur ewyllys ei Dad. Ymmhlith pethau ereill, cymhellwn eu sylw at y ffordd oreu i ledaenu yr *argraffedig air;* taener tracthodau o dŷ i dŷ; a chymmerer traethodau gyda hwynt lle y pregethant; canys, pregetha y rhai hyny wedi yr elont hwy ymaith. Effeithiol iawn a fyddai cymdeithas draethodau yn mhob cangen, i fod at wasanaeth yr aelodau a feddent sêl digonol dros deyrnas Dduw, i fyned â hwy o dŷ i dŷ, a'u newid ar gylch; gall y chwiorydd ffyddlon wneyd hyn yn gystadl os nad gwell na rhai brodyr, ni wrthwynebid hwynt gymmaint gan elynion, eithr eu tystiolaeth sobr a ffyddlon a reddfai ynghâlonau y caletaf debygwn, drwy Ysbryd y gwirionedd. Hynaws chwiorydd, a ganiatewch i ni eich gwahodd at y gwaith clodwiw o gynnorthwyo eich gwyr a'ch tadau i achub dynion yn y ffordd hon? Y wobr addawedig mai, "Y rhai a droant lawer i gyfiawnder a ddysgleiriant fel sêr y nefoedd mewn gogoniant," yn nghyd a chariad at leshad dynion a'u symbylo ni oll i ffyddlondeb a diwydrwydd yn hyn.

## HANES Y MOCWIS.

HYSBYSIAETH ODDIWRTH YR HENURIAD P. P. PRATT.

*Dinas Ll. H. M. Tachwedd* 21, 1853.

Mr. Golygydd,—Ar y 13, o'r mis hwn, daeth i'r ddinas hon, o Mexico Newydd, Senores Jose Damion Giron, Thomas Chocon, Bicinte Charoes ac ereill.

Mae ganddynt ar werth rai cantoedd o wthbanau gwlan neu "*Serapas*," rhai o honynt wedi eu gwneyd gan Indiaid Navijo. Fel dangoseg o'r celfyddydau yn mhlith y bobl hyny, ac fel dillad o wneuthuriad cartrefol, y maent yn deilwng o nodded.

Mae ganddynt nifer o geffylau a mulod ar werth hefyd.

Cymmerasant ystafell yn yr 2il. Warchodfa.

Buont bedwar dydd ar ddeg ar hugain ar y daith, a gyflawnasent ar rai gweithiau mewn un dydd ar bymtheg.

Preswyliant mewn tref feehan oddeutu 50 milltir i'r gogledd neu ogledd-orllewin i Sante Fe, ar ffrwd a elwir y Chama, un deyrngedol i'r afon Rio Grande del Norte.

Teithiasant yn ogledd-orllewinol o'u tref, croesasant yr afon St. John, teyrngedol i Colorado, yr hon a gyfyd yn y mynyddoedd sydd ogledd-orllewin i Sante Fe; a dilynasant ffordd deheuorllewinol, gan fyned i'r Colorado islaw ceg afon Grande. Yr oedd yr afon, yn y lle y croesasant hi, oddeutu maint yr Iorddonen gyferbyn a'n dinas ni.

Ar y deheu i'r ffordd hon y mae gwlad y Navijos; ac yn mhellach i lawr, ar yr un ochr, y mae pentrefydd y Moquis, wedi eu hadeiladu o *adobies*. Y maent yn saith eu nifer; y benaf o honynt a elwir Oriba.

Mae gwlad y Navijos a'r Moquis yn dir teg da, coediog, o hinsawdd fwynaidd, heb nemawr auaf, yn gyflawn o borfeydd, ac yn cynnyrchu nifer fawr o wartheg, ceffylau, mûlod, defaid, gwenith, gwenith yr India, peatys, a melwn &c. &c.

Dwfrheir y wlad ar yr ochr ogleddol i afon St. John yn dda, gan ffrydiau teyrngedol yr afon hono, y rhai a gwympant iddi o'r Gogledd, yn mysg y rhai y mae el Rio de los Peadras, (Afon o Gerryg) el Rio de los Pinos, (Afon o Binwydd) el Rio Floredo, (Afon o flodau) el Rio de los Anemos, (Afon o Ysbrydion) Rio de la Plata, (Afon o arian) yn cyfartalu maint Afon Provo yn Nyffryn Utah; a niferoedd o ffrydiau llai.

Wedi croesi St. John, parhäodd eu ffordd yn orllewinol ychydig i'r gogledd, gan groesi yr holl ffrydiau yna. Mae y wlad yn dra chymhwys at amaethyddiaeth; ceir digonedd o danwydd yn mhob man, ac mewn rhai lleoedd goed Pinwydd da; eithr uwchlaw y cyfan y mae yn gyflawn o borfeydd teg, a'u pellter mwyaf heb ddwfr yn ddeunaw milltir.

Croesasant yr Afon Grande ychydig islaw yr afon Dolores; yna daethant tros wastadedd diwerth oddeutu 25 milltir, i'r afon Green, yr hon a groesasant ychydig islaw ceg yr afon White, ac uwchlaw y San Raphael; yr oedd yr afonydd Grande a'r Green oddeutu hyd hanner ochrau eu hanifeiliaid. Mae dyffryn teg ar y pwynt hwnw i afon Green, oddeutu deg neu ddeuddeg milltir ei hyd, gyda thir da, ac wedi ei derfynu gan gorsydd i fyny ac i lawr.

Oddiwrth y ffrwd hon ar afon Green, daethant tros fwrdd-diroedd o gymmeriad diwerth, nes taraw wrth afon White, ffrydlif o faint y Cottonwood fawr, yr hon sydd yn mlaen ar yr ochr arall i'r mynyddoedd o Spanish Fork. Gan ganlyn i fyny afon White, croesasant y mynydd mewn mynedfa dda, a daethant i lawr y Spanish Fork i Ddyffryn Utah.

Mae yr holl ffordd wedi ei diwallu yn gyflawn a dwfr a phorfa mewn pellderau cyfaddas; ac nid oes gan y dyffrynoedd ond ychydig eira neu oerni y gauaf. Dywedir fod gwlawogydd y wlad Navijo, ac ar y St. John a'i ffrydiau teyrngedol, yn ddigonol at eu gwrteithio heb eu dyfrhau gan ddynion.

Y fath yna mewn rhan, yw yr hanes a allasom ei chasglu oddiwrth ymddyddan gyda'r masgnachwyr a enwyd uchod; yr hyn sydd at eich gwasanaeth.

Yn Barchus,

P. P. Pratt.

---

## GWEDDI Y FFYDD YN IACHAU Y CLAF.

Yr 8fed o'r mis hwn, oddeutu haner y dydd, dygwyddodd fod George Davies, plentyn fy chwaer, 4 blwydd ei oedran, yn cydrodio a mi, gan afael yn fy llaw; clafychodd yn ddisymwth, a pharhäodd yn glaf iawn hyd chwech o'r gloch y prydnawn.

Gan fod naed y bachgen wedi oeri, a'i wefasau wedi duo, tybid y buasai farw mewn ychydig amser: eithr anfonais am yr Hen-

uriaid Griffith Davies, John Davies, a William Morgan, y rhai a ddaethant, ac a weinyddiasant arno, trwy ei eneinio ag olew, a gweddio trosto dair gwaith; a daeth y bachgen yn hollol iach yn y fan.

Cymmerodd hyn le yn nhŷ John Lewis Rhif 43, y Dref Newydd, Penycae, Mynwy: ac heblaw tad y bachgen, a'r Henuriaid crybwylledig, yr oedd yno ddau nad ydynt yn Saint; sef, Samuel Harries, a Mary Harries. A chan fod hyn yn wirionedd, am y ddawn ysbrydol, yr ammheuir gan rai i Dduw ei rhoddi trwy Grist i'r Eglwys, yn yr oes hon, dymunwn weled y llinellau hyn yn argraffedig yn "UDGORN SEION."

Ydwyf, &c.

HANAH LEWIS.

---

## FFRWYTHLONDEB TIR SEION.

DYFYNWN a ganlyn o'r "*Deseret News*," o blith llawer o arddangosiadau o ffrwythlondeb y wlad hono; os yr ymddengys i drigolion tir uchel a diffrwyth Gwalia, yn anhygoel, nid llai y ffaith er hyny.—"Wyth erw a'r hugain o dir o eiddo W.S. Muir, yn swydd Davis, drwy ymdrech pedwar dyn, a gynnyrchodd, yn y tymmor diweddaf, 15 tunell o wair; 1500 lbs o wenith; 12 tunell o ŷd yr India; 900lbs o geirch; a 40 tunell o gloron, heblaw cyfartalwch o beets, carrots, maip, &c.; 5 tunell o wynwyn a chabage; 4 tunell o lin; 25 tunell o bwmcins squash a melwn; 25 tunell o borthiant heblaw hyny. Dechreuasant lafurio y 4 o Fawrth a gorffenasant Tachwedd 9.

Chwychwi dyddynwyr Cymru! Pa hyd y gwariwch eich amser gwerthfawr i wrteithio a gwneyd daear gynnyrchiol tra y mae dyffrynoedd breision drwy y byd heb drigianydd braidd? Paham y talwch y fath drethi a rhenti pan y gallwch gael, heb *arian* ac heb *werth*, gymmaint o'r dyffrynoedd breision hyny ag a allwch chwi a'ch plant, a phlant eich plant wneyd defnydd o hono? Pa hyd y magwch hiliogaeth o gardotwyr yma, tra y gallwch yno fagu meibion a merched *boneddigion?* Pa hyd y gwerthwch eich hiliogaeth i'r andwyol ddylanwad anfoesol, anwireddus, anghyddfurfiol, cableddus ac anuwiol sydd yma; yn lle myned a hwynt i Seion, lle y gallant dyfu fel helyg wrth ffrydiau dyfroedd ac ymgyfeillachu hyd heolydd dinasoedd llonydd, gydag ieuengctyd

moesol, geirwir, boneddigaidd, gonest a heddychol? Ië, pa hyd chwi ffermwyr Cymru y gwargrymwch yn mlodau eich dyddiau, ac y gwelir eich plant mewn carpiau er mwyn gwisgo eich gormeswyr, a'u teuluoedd mewn sŵdanau, ac i yru eu cerbydau drosoch ar hyd yr heolydd, os na neidiwch i ben y clawdd o'u ffordd; tra y gallwch wisgo eich teuluoedd eich hunain felly, a mwynhau ffrwyth eich llafur beb ormesydd yno? Ac yn olaf, gofynwn i resymol dyddynwyr ein gwlad! Pa fodd y gallwch, paham y gwnewch lynu wrth hen goel grefyddau a thraddodiadau ein tadau a'u galw yn grefydd, byd nes gwrthod gwir a dwyfol grefydd Iesu Grist yn ei grym a'i phurdeb gwreiddiol, yr hon a gymhellwn arnoch er ys blynyddau bellach, a chyflawnder ei bendithion tymmorol ac ysbrydol gyda hi? Beth yw'r atteb? A ammheuwch y dystiol, aeth am y lle uchod? Y mae canoedd o hyd y nod Cymry unwaed a'ch hunain yno yn mwynhau y ffeithiau hyn, ac wedi anfon eu tystiolaethau cydgordiol au gwahoddiad i chwithau eu dilyn. Yr awydd ddyledus i'ch plant dibynol, ac i achub eich heneidiau eich hunain cyn y bo rhy ddiweddar, a'ch gorfodo i dderbyn bendithion nef a daear a gynnygir i chwi.

---

## AMRYWIAETHAU, &c.

Newydd ddyfod allan o'r wasg, "Dadl *rhwng Bedyddiwr ac Anffyddiwr*!" Lle y gwelir yr olaf mewn 16 tud. yn dwyn Bibl a chrefydd y blaenaf, ac yn gwneyd iddo gyfaddef mai lladrad oeddynt iddo ef, ac yn cyfnewid enwau a'u gilydd; rhydd fwy na gwerth dwy geiniog o ddifyrwch i'r darllenydd, goeliwn ni!

Hefyd, daeth allan draethawd 8 tud., sef "*Anffyddiaeth Sectyddiaeth*;" lle y dilëir canolfur y gwahaniaeth tybiedig rhyngddynt, ac y ceir hwynt yn siglo dwylaw fel dwy chwaen undadol, am *ddim ond ceiniog!!*

☞ Atebwn ein gohebydd Wm. Thomas, Llwyni, na fydd gan blant rhiaint dwyfol gnawd ac esgyrn, eithr ysbrydion megys ag y buom ni oll: yn eu hail sefyllfa o fodoldeb yr ychwanegir atynt gorff o gig, gwaed, ac esgryn; ac yn eu trydydd sefyllfa, trwy adgyfodiad, os i ogoniant, y cant gyrff nefol: ac felly yn olynol hyd dragywyddoldeb, neu yrfa perffeithiad pob bydyssawd, eppiliant eu rhywogaeth, i rodio llwybrau eu tadau, i gynnyddu hyd gyflawnder, ac felly i lanw yn ddiddiwedd gylchdroadau, heb ddechreu na diwedd, fwy nag y sydd i fodrwy. I ni, hawdd yw amgyfired cynnyddiad hyd

gyflawnder y Duwdod, a chynnyddiad diderfyn hefyd. Pwy a brofa mai y byd bach hwn yw y cyntaf i'n Tad nefol ni ei greu a'l boblogi? Pwy ynte a ddywed mai hwn a fydd y diweddaf? Os nade, paham na chaniateir mai yr un fath y gwna bob un ag y gwnaeth hwn? Ystyriaethau cywir o'r cwestiynau hyn yn fyr, a foddlona ein cyfaill ond odid. Darlleniad manylach o sylwadau O. Pratt yn y *Seer*, a'i cynnorthwya i ddeall ein gosodiad blaenaf, a'r Llywydd B. Young a eglura ein holaf, yn ei sylwadau ar "*Natural Philosophy*," yn y *Journal of Discourses*, y rhai a fedda.

Pregethwr Dawnus.—Mae y gwr hwn, os heb *wybodaeth* o ddwyfoldeb ei grefydd, yn debyg i'r magien ar glawdd, mewn lle tywyll, yr hwn sydd a chanddo ddigonedd o oleuni at ddangos ei hunan; ond heb ddim a ddichon ddangos y ffordd a ddylai dyn ei rhodio.

---

DYLEDION AM LYFRAU ODDIWRTH Y CYNNADLEDDAU, AM Y CHWARTER YN TERFYNU MAWRTH 31, 1854.

Sir Fynwy, £37 2s 9½c; Sir Frycheiniog, £2 11s 8¾c; Gorllewin Morganwg, £95 12s 4c; Llanelli, £30 7s 11c Caerfyrddin, £11 5s 1c; Sir Aberteifi, £10 7s 9¾c; Sir Feirionydd, £8 11s 11¾c; Sir Fflint, £15 1s 0c¼; Dyffryn Conwy, £4 18s 11½c; Sir Ddinbych, £12 19s 1½c; Penfro Ogleddol, £3 8s 8½c; Sir Fôn, £12 0s 11¼c; Cangen Gymreig Liverpool, £2 1s 9½; Swyddfa Liverpool, 3s 9½c; Dwyreiniol Morganwg, £94 13s 0¼c.—*Mae y rhifyn hwn yn gynnwysedig yn yr uchod.*

Derbyniadau am Lyfrau o Fawrth 22 hyd 31.—Dwyreiniol Morganwg, £11 1s 6c; Sir Fôn, (gan J. W.) 10s; Penfro Ogleddol, £1 6s 10c; Brycheiniog, £1; Sir Ddinbych, £1; Sir Fflint, £2 3s.

☞ Crefwn sylw at y Dyled am lyfrau, ger eich gwydd yn y rhifyn hwn, yn enwedig y Cynnadleddau hyny na thalasant ddimeu yn y chwarter diweddaf!!!

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau, i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street*, *Merthyr-Tydfil*.

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Dywedyd yn Ddirwg | 197 |
| "Y Mormoniaid" | 201 |
| Golygyddiaeth—Teyrnas Dduw | 204 |
| Hanes y Moewis | 208 |
| Gweddi y ffydd yn iachau y claf | 209 |
| Ffrwythlondeb tir Seion | 510 |
| A mrywiaethau, &c. | 211 |


---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14 CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

Rhif. 14.] EBRILL 15, 1854. [Cyf. VII.


### ABERTHIAD.

GAN Y LLYWYDD BRIGHAM YOUNG.

Yn awr, chwi Henuriaid, y rhai ydych yn deall egwyddorion teyrnas Duw, pa beth na roddech, na wnelech, neu na aberthech, at gynnorthwyo mewn adeiladu i fyny ei deyrnas Ef ar y ddaear?—Ebe un, "Myfi a wnawn un peth yn fy ngallu, unrhyw beth y cynnorthwyo yr Arglwydd fi i'w wneyd, at adeiladu i fyny ei deyrnas." Ebe arall, "Myfi a aberthwn fy holl eiddo."—Rhyfeddol yn wir! Oni wyddoch fod y meddiant ar eich eiddo fel cysgod, neu fel gwlith y boreu o flaen haul y nawnddydd, na ddichon i chwi gael sicrwydd o'i reoli am un foment! Llaw anweledig Rhagluniaeth sydd yn ei reoli. Yn fyr, pa beth nad aberthech? Mae y Saint yn aberthu pob peth; ond a siarad yn fanwl, nid oes Aberthiad yn ei gylch. Pe y rhoddech *geiniog* am *filiwn o aur! Llonaid llaw o bridd* am *blaned! Tyddyn* amserol, wedi ei dreulio ymaith, am un gogoneddus, a wna fodoli, aros, a pharhau i gynnyddu trwy holl dragywyddoldeb nad yw byth i ddiweddu, *y fath aberth a fyddai hyny bid sier!*

Llawer, yn ddiammheu, a'i hystyrient yn aberth mawr i gael eu galw i fyned ar gennadaeth tros ychydig flynyddoedd: i adael gwraig, plant, cyfeillion, cartrefi cysurus, ac i deithio ef-allai ar eu traed, i ymdrafod a thymhestloedd ar y môr, i fod mewn perygl yn mhlith dirmygwyr ar dir, ac i gael eu cashau gan bawb. Gwir ydyw y gallwn ystyried hyn yn aberthiad

mawr; ac etto gwna dynion hyn oll ac ychwaneg—perygliant eu bywydau ar eu hantur i gael aur, ac i ddilyn hudoliaeth pleser. Ac oni ddylai Saint y Goruchaf Dduw fod yn fwy ewyllysgar, ac yn fwy awyddus i ddwyn yn mlaen achos eu santaidd grefydd, gan gyssegru eu hunain, eu dylanwad, eu heiddo, ac, os anghenrheidiol, eu bodolaeth, nag ymgyflwynwyr ffurf, diofrydwyr pleser, y rhai na ymgeisiant ond yn unig am fwynhad anianol, ac am wrthrychau amserol, megys ennill a dyrchafiad bydol? Yn wir meddaf i chwi, os nad ydych, neu os oes genych ysbryd i ymgais ar ol gwagedd pendrôedig, gwag, ac ynfyd y byd, pethau na pherthynant ond yn unig er boddhau teimladau presennol, nwydau, a dymuniadau hunanol, ac heb genych ysbryd gweddi a deisyfiadau, fel na allwch ac nad ydych yn teimlo i arfer ymgais uwchlaw yr oll yn achos y gwirionedd, fy nghynghor a'm hannogiad i bawb o'r cyfryw, yw iddynt fyned yn uniongyrchol i *fwn-gloddiau euraidd* California, ac ymgais am aur: canys, bid sier i chwi, y bydd i gymmaint ag y sydd ganddynt yr ysbryd hwn, redeg fel y paro neu yr archo eu teimladau anghyfiawn. Iê! Ewch i ardaloedd yr aur, a pheidiwch a dyfod i geisio fy nghynghor i yn ei gylch, pa un a ydwyf foddlon i chwi fyned a'i peidio, oblegid yr wyf fi, nid yn unig yn foddlon i chwi ymadael, ond yn awyddus am i chwi wneyd gan gynted ag y byddo modd.

Os nad ydych yn caru Duw, a'i achos Ef, yn well na phob peth arall, os na allwch gyda chalon ddaionus ac a llaw ewyllysgar, ei adeiladu i fyny ar y ddaear; os na edifarhewch am eich ffoledd, a chael Ysbryd y gwirionedd ynoch, fel ag i'w garu, a theimlo yn ewyllysgar i aberthu yr oll er ei fwyn, nis gallwch adeiladu i fyny teyrnas Duw.

---

## CYMMANFA DDWYREINIOL MORGANWG.

Dydd Sul, Mawrth 26ain., 1854, lleg o'r gloch, yn y boreu, llanwyd Neuadd y Saint, yn Merthyr, gan bobl awyddus am wrandaw geiriau y bywyd: tragywyddol: a gwedi dechreu y cyfarfod fel arferol, dywedodd,

Y Llywydd Jones.—Cariad plentyn Duw sydd ddiofid; a llawenydd, heb dristwch i'w ddilyn, yw llawenydd yn yr Ysbryd.

Glân, Mae ein goleuni yn llewyrchu yn gyfatebol i'n ffyddlondeb: gwella *ei hun* a wna dyn, wrth *fyw* ei grefydd, yn fwy nag y dichon iddo byth wella neb arall, a mwy niwed iddo ei hun nag i neb arall, a wna dyn wrth anufyddhau i Grefydd Iesu Grist.

Peth poblogaidd iawn ydyw crefydd yn ein gwlad; o ganlyniad, y rhai sydd a mwyaf o grefydd ganddynt a ddylent fod yn fwyaf poblogaidd. Er anamled ein rhifedi, ni wna hyny hir wahaniaeth, oblegid fod ynom ddefnydd a all ennill poblogrwydd. Gan y rhai sydd yn cydymffurfio a chrefydd Iesu Grist, y mae y grefydd oreu; a hono yw yr unig un a all ennill gwir boblogrwydd, o herwydd ei defnyddiau at wneyd hyny. Mor anmhosibl yw i grefyddau dirym a di sylwedd ennill poblogrwydd parhaus, ag ydyw iddynt wneyd diddymdra yn sylwedd. Nid i gydymffurfio a chrefydd o gynlluniad cyfeisteddfod gweinidogion y daethom yma heddyw; eithr i gydymffurfio a'r *un* grefydd ddigyfnewid a osododd Crist. Pawb a dybiant eu crefydd yn rhodd werthfawr a gawsant gan en duw hwynt; a'r Saint gan ystyried hyn, a ddaethant yma heddyw i amlygu eu boddlonrwydd i werthfawrogi, ac i ddal a chynnal y rhoddion gwerthfawr a roddodd Duw y nefoedd i ddynion; sef, yn gyntaf Apostolion, yn ail prophwydi, a bugeiliaid, ac athrawon. Nid y pabellau pridd a ystyriant, yn rhoddion, eithr y trysor a gynnwysant; yna, priodol yw dweyd i Dduw roddi yr apostoliaeth, y brophwydoliaeth, y fugeiliaeth, a'r athrawiaeth, yn rhoddion er perffeithio y Saint i waith y weinidogaeth, ac er adeilad corff, neu Eglwys Crist. Pa fodd y gallwn gynnwys yr Apostoliaeth, y brophwydoliaeth, a'r holl roddion ardderchog hyn, heb lestri pridd? Os dywedir fod apostolion a phrophwydi wedi darfod, dywedir felly fod yr apostoliaeth, y brophwydoliaeth, a pherffeithiad y Saint, ynghydag adeilad corff Crist wedi darfod hefyd.

Ein braint yw cael dangos, yma heddyw, ein cydymffurfiad a'n crefydd, trwy i ni ymgyfammodi i ddal i fyny, neu i gynnal a pharchu y llestri o herwydd eu bod yn cynnwys y rhoddion gogoneddus hyn. Y rhoddion a'r trysorau, yn yr Eglwys hon, ydynt annhraethadwy; y fath Eglwys gyfoethog a llawn o roddion sy genym! Ni chaniata amser i mi enwi yr oll o'r gwahanol swyddau a'r corwmau sydd ynddi, ar hyn o bryd: eithr cynnygiaf y bod i ni arwyddo ein penderfyniad i gynnal trwy ein

gweddiau a'n hymdrechiadau, y Llywydd Brigham Young, a'i ddau gynghorwyr.

Wedi eilio y cynnygiad yna, cynnygiwyd ac eilwyd, yr un modd am y Llywydd S. W. Richards, a'i gynghorydd; y Llywyddiaeth Gymreig, a Llywyddiaeth y gynnadledd hon; a chododd y Saint eu dwylaw yn unfrydol. Yna, y Llywydd a ddywedai. yr ydym yn dyfod yn nes i dref, yn adeilad corff Crist; ac yn awr, deuwn hyd at y cangenau trwy ein cynnadledd.

Y fath yw y cyssylltiad sy rhwng yr aelodau yn Nghorff Crist, fel na pherchir, ac na anmherchir unrhyw aelod heb i'r oll deimlo; mae gan Dduw gymmaint golwg ar ganghenau bychain yr Eglwys, ynghyrion unigol y wlad, ag y sy ganddo ar unrhyw ran arall o'r corff eglwysig; canys un ydynt i gyd. Fel y ceir tònau, rhai yn llai a rhai yn fwy na'u gilydd yn yr un môr, felly y Saint ydynt amryw a lliosog yn yr un môr o gariad, lle y nofiant mewn undeb oll ynghyd.

Y cynnrychioliad:—A. I; Hen. 269; Off. 95; Ath. 100; Dia. 63; Bed. 50; Ymf. 86.—Cyfanswm, 1796.

Y Llywydd, a sylwai yn mhellach,—Nid yw yr achos da wedi marw, fel y dymunai rhai; eithr, y mae yn fyw, ac yn llawer gwell na dysgwyliad rhai ag ydynt gyfeillion cywir. Nid ychwanegiad nifer yw yr unig lwyddiant a ddymunir, ond hefyd i'r Saint fucheddu mewn rhinwedd a ffyddlondeb, trwy ddwyn ffrwyth da, gan berffeithio eu hunain mewn santeiddrwydd, fel y sanfyddir eu bod yn holl wahanol gangenau y Gynnadledd hon.

Lle y mae llawer o gariad at Dduw, ceir llawer o gariad at wneyd gwaith Duw. Llawen ydwyf, o weled y cangenau yngwinllan Crist yn dwyn mwy ffrwyth y chwarter a aeth heibio nac o'r blaen; eithr ni erfynir i'r byd, oddiallan i'r murian, weled tu fewn i'r winllan, oddieithr ychydig ar yr ymylon. Ni ddylai un gwelthiwr, a swydd ganddo, fod yn segur yn y winllan, am fod digonedd o waith i ni oll y tu fewn a'r tu allan i'r murian. Os oes Henuriad neu Offeiriad yn teimlo llesgedd i weithio tu allan, gosoded llywyddion cangenau hwynt i weithio tu fewn, gyda y Saint, fel athrawon, ac na chaniataer i *neb* fod yn segur. Dylai eich gofal dros y Saint fod gymmaint, a *mwy* na'r gofal a all fod genych tros eich teuluoedd; ac na adawer hwy i newynu o eisiau swyddogion i'w porthi, nag i syrthio gan eisiau rhai i'w dal i fyny. Gweler yma bwysigrwydd swydd athraw, yr hwn sydd i

ddysgu y Saint *y mold i grefydda yn iawn*, i grefydda o galon, yn mhob màn, yn y dirgel ac yn y cyhoedd, gan roddi ar ddeall iddynt nad ymddangos yn y cyfarfodydd yn unig yw crefydda, ond y dylent ymwneyd a'u crefydd, fel yn yr ystafell wely, felly hyd y nod wrth ymdrin a masgnach; oblegid, rheol i fyw wrthi ydyw crefydd. Dylai yr athrawon fod yn ddynion tadol gan gynghori, dyddanu, cysuro, a chodi i fyny anwyliaidd blant y teulu nefol; ac o ganlyniad, gofal tadol yw eu gofal hwynt, gan arwain y Saint mewn crefydd. Gwelir wrth yr effeithiau fod prinder athrawon, gresyn i neb ddigaloni o eisiau dynion digon tadol i fyned ar eu hol, a gofalu am danynt. Gosoder dynion yn eu swyddau, mewn dull y gellir gofyn i'r naill fod yn gyfrifol am ymddygiad y llall, fel cyfrifoldeb tad tros ymddygiadau ei blant yn y teulu. Dylai pob Dysgawdwr fod yn deall ac yn gwneyd ei ddyledswyddau, fel y gallo gyfarwyddo ereill i wneyd yn yr un modd. Nid ydym yn meddwl fod dynion yn ddigonol i'r gwaith hwn heb fod ganddynt Ysbryd Duw. Gweddier llawer am y dylanwad hwn, fel y galler troi pechadur o gyfeiliorni ei ffordd, gwared enaid rhag angau, o chuddio lliaws o bechodau.

Duw yw awdwr y cyfan, a chan hyny llywodraethwr yr oll y sydd; Efe yw awdwr crefydd, a'i llywodraethwr hefyd. Ni wnaeth yr Arglwydd erioed beth anghrefyddol; pe amgen, byddai yn anghrefyddol ei hun! Crefyddol yw pob peth a wnaeth Duw; ac o ganlyniad, crefyddol yw pob peth da a wnelom ninnau. Os gwnawn ein holl bethau yn dda, blodeua ein cangenau yn adnewyddol; a thrwy i'r Saint beidio a gwneyd un weithred na byddo yn tarddu oddiar grefydd, ceir ffrwythau lawer ar eu hol. Yr Arglwydd a'n bendithio oll, gyda dylanwadau yr Ysbryd Glân, trwy Iesu Grist. Amen.

Trefynwyd, trwy fendithiad, gan yr Henuriad Robert Parry.

*(I'w barhau.)*

---

## CYNNYG I DDEONGLI Y DDAMMEG,

*Yr hon a ymddangosodd yn rhif.* 12*fed o'r* UDGORN, *tud.* 182.

MR. GOL.,—Wrth ddarllen yr UDGORN gwelais Ddammeg. Pan yn myfyrio am y ddau fôd gogoneddus, meddyliais am ddyfodiad cyntaf Adda ac Efa i'r ddaear hon. Pan yn myfyrio ar yr ŵyl

odidog a gynnaliwyd gan fwyn gantorion y goedwig, ar ddyfodiad y ddau fôd dyeithr i'r baradwys newydd, meddyliais fod yr holl greaduriaid yn gorfoleddu am fod eu Brenin a'u Brenines wedi dyfod atynt i'w llywodraethu. Pan yn myfyrio ar y siriol wênau, a'r cofleidio, a'r cyfammod tragywyddol oedd rhyngddynt, meddyliais am y briodas nefolaidd a gyssylltodd y gwr â'r wraig. Pan yn myfyrio ar y clogwyn lle tyfai y pren, meddyliais am y gorchymyn pendant, "Na fwytewch o hono rhag eich marw." Pan yn myfyrio am y dolefau a'r cwynfan oedd gan y gwr, meddyliais fod Adda yn gweled Efa wedi syrthio, ac iddo fyned o'i fodd i lawr ati i'r dyben o'i chyfodi o'r pwll y syrthiodd hi iddo; am hyny, Adda a gymmerodd o ffrwyth y pren gwaharddedig, fel y gallasai ddyfod i'r lan drachefn ag Efa gydag ef. Pan yn myfyrio am yr afiechyd a'r eryd a aeth arnynt hwy a'u hiliogaeth, o herwydd syrthio i'r môr, meddyliais am effaith y cwymp yn ngardd Eden, sef y pechod gwreiddiol, yr hwn sydd wedi cyrhaedd pob dyn byw. Pan yn myfyrio ar y lygoden o dan y ddysgl ar y ford, meddyliais fod Adda ac Efa wedi eu gosod mewn sefyllfa o brawf i gadw neu i dori y gorchymyn; ac nid yn unig hwy—ond fod pawb yn mhob goruchwyliaeth yn rhydd ewyllyswyr i dderbyn neu i wrthod cenadwri Duw drwy ei weision; am hyny, na fydded i neb feio Adda am wneuthur fel ag yr oedd ef yn ewyllysio, gan i ni ei ddewis yn ben cyfammodwr.

Os methais a'i deongli, treied rhywun gallucach.

Yr eiddoch yn serchog,

*Pyle.* JOHN BOWEN.

---

## Y DYFNDER MAWR.

MAE y dyfnder mawr yn hardd;—
Trwy gruglwyth crombil daear gudd,
Yn haen ar haen, trysorau sydd,
A throstynt wyrddlas gwrlid crwn,
A brithion flodau'n brodio hwn:—
Y cwrel cain, a gemau'n stôr
A drwsiant lwybrau pysg y môr,
A rhua'r chwyddfawr dònau 'n gras,
Fel llewod ar ysglyfaeth bras,
Mae y dyfnder mawr yn hardd!

Mae y dyfnder mawr yn hardd ;—
Caed dwyfol olud trefniant doeth
I godi dyn oedd elyn noeth ;—
A darostyngiad Israel fu
Yn godiad i'r cenedloedd lu :—
Gras Duw, at ddyn, tramwya 'n mawr,
Fel olwyn o fewn olwyn fawr,—
A nerth y pur wirionedd byw,
A ddwg wybodaeth lawn am Dduw,
Mae y dyfnder mawr yn hardd!

Mae y dyfnder mawr yn hardd ;—
Pechadur euog heddyw cawn,
Tan galon friw, yn credu'r lawn ;—
Ymorfoledda'r nefol rai,
Mae Duw, yn Nghrist, yn maddeu bai :—
O entrych trag'wyddoldeb maith,
Ceir gwel'd uniondeb dwfn y daith ;—
Pob cwpan chwerw yn felus fydd,
A'r dywyllaf nos yn danbaid ddydd,
Mae y dyfnder mawr yn hardd!

Robyn Ddu, Eryri.

---

## Y GWANWYN.

Yr haul sydd yn tramwy'n deg olwyn aur fry.
Ynghanol glâs wyneb ymfrodiog, mewn cnu ;
Trochionog a rholiog yw'r frigwyn dôn hardd,
A'r awel rhwng cangau'r coedwigoedd a chwardd :
Y ffrydiau ymlithrog, sisialant trwy'r naint,
A siriol, mewn gwenau anwylaidd, yw'r *Saint*.

Mae'r gloen byw'n dawnsio ar flodau, mewn gwyn,
A'r adar a gathlant, nes goglais pob bryn;
Yr wyn baeb a branciant, mae'r gwenyn fel clych,
Gan fywyd a llondid, holl anian sydd wych ;
Ond tecach na'r cyfan, yn mawredd eu braint,
A'r bodau llawenaf yn natur, yw'r *Saint!*

Robyn Ddu, Eryri.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, EBRILL 15, 1854.

LLEDAENIAD ACHOS Y GWAREDWR,—Yw prif destun y Saint ac yn neilduol y swyddwyr drwy Gymru; pa fodd i'w cangu ar y ddê a'r aswy,—i ennill sylw y gonest ei galon atto, ac i argyhoeddi eu cyd-ddynion o'r pwysigrwydd o hono yw yr oll a glywir gan Lywyddion Cynnadleddau, mewn Cymmanfaoedd, Cynghorau a phob man: y mae hyn fel y dylai fod, rhybuddio ein cymmydogion yw ein pwysicaf waith, gwerthfawrogrwydd eu heneidiau hwy a amlwg welir yn yr oll a fwyphawn drwy ein crefydd. Dirmyged Offeiriaid, gwawdied pregethwyr, a chwardded gau-athrawon y bobloedd am ein cyfeiliornadau tybiedig, gwyddom ni—gwyr y nefoedd hefyd y fod genym unig wir efengyl Iesu Grist; tra y mae y newyddiaduron a'r pwlpudau yn merwino clystiau yr oes â chamgyhuddiadau am danom ni a'n crefydd, ymddeffrown ninnau i fwy diwydrwydd i achub ambell i garwyr y gwir fel pentewynion o ganol y goelcierth.

Y peth nesaf i ymfucheddiad duwiolfrydig y Saint er llwyddiant yw, "iawn gyfraniad gair y gwirionedd" drwy ddosparthu pregethwyr i'r lleoedd mwyaf manteisiol i drosglwyddo gair y bywyd i'r bobl. Ymwasgarer i blith pob gradd, yn lle bod yn sengu ar sodlau eu gilydd mewn rhai manau, tra y mae prinder mewn manau ereill. Ymdreched pob Llywydd am ledaenu swyddwyr selog a diwyd hyd eithaf cyffiniau ei gylch, na adawer tref na chymmydogaeth, teulu nac enaid heb gael cynnyg ar yr iachawdwriaeth yn Nghrist, yr hon sydd yn gynwysedig yn ein goruchwyliaeth.

Gan i'r Arglwydd ein gosod yn wyliedydd yn y cylch bychan hwn o'r Dywysogaeth, a thra y gadawa Ef ni yn y cylch hwn, ein llais a fydd ar ein holl gydwyliedyddion;—rhybuddier *rhybuddier* yr oes o fod y cleddyf, y newyn, yr heintiau, y ffrewyllau, yn

nghyd ag ysgubellau y Jehofah ar wagâu ein gwlad o'i thrigolion drwy eu hymfudo, naill a'i i Seion waredol, neu i fyd yr ysbrydoedd ar frys; rhybuddier hwynt mai yn Nheyrnas Dduw yn unig y ceir bywyd a diogelwch presennol a thragywyddol; canys, yr ydym ni yn *gwybod* hyny, ac yn *gwybod* mai hon yw hi. Cofier fod y gwyliedydd a wêl y cleddyf yn dyfod ac ni rybuddia y bobl, yn euog o'u gwaed hwynt, yn ol cyfraith Duw.

Gofidus genym hysbysu fod rhai siroedd cyfan yn ein gwlad fach ni, megys, Môn a Maesyfed a rhanau mawrion o Drefaldwyn, Dinbych, Aberteifi ac Arfon, heb lais un o weision Duw i'w glywed braidd yn eu plith; ond distawrwydd y bedd, dan amdo o gaddug ysbrydol, a ordoa eu hardaloedd; tra y mae cannoedd o genadon Duw, achubwyr y byd—a gair y cymmod,—trysor dwyfol, yn eu llestri pridd, yn bentyrau ar eu gilydd braidd mewn ardaloedd ereill, ac yn cwyno eu bod heb gyfle i ddefnyddio eu talentau gwerthfawr! Beth meddwch, Frodyr, o'r ffaith o fod dros 300, o bregethwyr yn y Gynnadledd hon, a'r holl fanau uchod heb neb braidd? Ai cyfiawn hyn at eneidiau ein cyd-ddynion? Os nade, gwylier rhag y cyfrifoldeb,—taflwn ef oddiar ein ysgwyddau drwy eich gwahodd ac ymbil arnoch dros ein Mheistr trugarog i fyned a gair y bywyd i'w plith, gwnawn yr oll a allwn i hwyluso eich ffordd; y mae gwaith i gael yn yr holl fanau uchod; ïe, y mae genym lythyrau yn awr o'n blaen, ac o hyd yn eu derbyn, yn galw am gynnorthwy i wahanol fanau, ac yn cynnyg ffordd o fywioliaeth i'r rhai a ânt; mewn un man dywedir fod gwaith yn barod i 30, o bregethwyr y Saint pan y mynant! Chwi weision Duw, a gant hwy alw yn ofer? Beth yw yr atebiad? Cofier y gorphwys y canlyniad ar y rhai a'i hachosodd.

Mae canmoliaeth fawr yn deilwng i'r brodyr ffyddlon yn Sir Fynwy, am eu sêl a'u parodrwydd i waith yr Arglwydd; canys, cynnygiodd tua 35 o honynt eu hunain yn foddlon i fyned i'r manau y gwelai yr Arglwydd yn oreu! Do, dywedasant oll ar y galwad cyntaf, "Wele fi anfon fi:" yr Arglwydd grasol a'u bendithio, ïe, cfe a'u bendithia ac a ddangosa y gwaithaniaeth rhwng y rhai a'i gwasanaethasant ef a'r rhai a wasanaethasant eu hunain yn hytrach. Testun llawenydd mawr fydd y newydd hwn gan drigolion Sir Aberteifi,

Caerfyrddin, Penfro Ogleddol, y Gogledd &c: yn enwedig gan y brodyr sydd yno: darparwch ar eu cyfer ynte, Frodyr, y mae lu yn dyfod atoch ar fyrder; a daw ychwaneg ar eu hol hwythau mor gynted ag y gallwn lwyddo i'w cychwyn.

---

## TIRIAD YR YMFUDWYR CYMREIG YN ORLEANS NEWYDD.

*New Orleans, Mawrth* 18, 1854.

Yr Henuriaid Jones, Jeremy, a Daniels,—Anwyl Frodyr, —Wele fi yn cymmeryd yr adeg bresenol i anfon yr ychydig linellau hyn atoch, er rhoddi tipyn o hanes i chwi sut y mae, a sut y bu arnom hyd yn hyn. Yr ydym wedi gweled mawr allu Duw gyda ni, ac yr ydym yn teimlo yn ddiolchgar iawn iddo am ei ddaioni tuag atom. Mae yn hysbys i chwi ein bod wedi ein rheoleiddio yn Gynnadledd cyn cychwyn o'r *Docks* yn Llynlleifiad; ond wedi hyny darfu i ni ddosparthu y Gynnadledd yn 7 o Gangenau, a llywydd ar bob Cangen, 4 o ba rai oeddynt Gymry, sef John Davis, William D. Jones, Phillip Sykes, a Thomas C. Martill. Rhanwyd y Cangenau yn Ddosparthiadau, a llywydd ar bob Dosparth, a chyfarfod Saint yn mhob Cangen bob nos Fawrth a nos Iau, a gweddi deuluaidd bob nos cyn myned i'r gwely; ac ni fu gweddi yn yr hon ni choffasom am danoch chwi a'r holl Saint anwyl sydd ar ein hol yn Nghymru.

Oddeutu 11 o'r gloch boreu dydd Sadwrn, Chwefror 4, daeth yr agerfad, a rhoddodd dro oddiamgylch i'r "Golconda," yr hon oedd y pryd hyn yn gorwedd yn yr afon. Yna wedi hwylio yn gysurus am beth amser, cyfododd ychydig o ystorom oddeutu 5 o'r gloch y prydnawn hwnw, a dechreuodd y Saint yn gyffredin fyned yn glaf, ac felly y parhaodd trwy y nos. Darfu i ni gofio am y gorchymyn boreu dydd Sul, o gadw yn santaidd y dydd Sabboth, ond yn wahanol i bobl yn gyffredin, trwy fod y rhan fwyaf yn eu gwelyau. Parhauasom yn glaf hyd nos Lun, ac yna gorchymynwyd i bob Cangen gynnal cyrddau gweddi; a chyn 10 o'r gloch yr oedd y gwynt wedi troi a gostegu, a dyfod yn deg o'n plaid; a bu llawenydd mawr dranoeth yn mhlith y Saint, a phawb yn dweyd yn dda am enw yr Arglwydd.

Yna hwyliasom yn llwyddiannus iawn hyd nes y cyrhaeddas-

om y *Western Islands*, ar y 14eg o Chwefror, a'r rhan fwyaf yn iach. Yna parhausom i hwylio yn mlaen nes dyfod i olwg y *West India Islands*, a chawsom olygfa agos ac ardderchog ar Jamaica, ond ni welsom Cuba.

Ac wedi cyrhaedd hyd yma, dywedaf air wrth y Saint yn Nghymru. Yr oeddwn yn bwriadu eich anerch cyn ymadael, ond methais a chael amser gan amgylchiadau. Yr wyf yn awr yn ysgrifenu atoch fy nheimladau. Yr oll ag sydd genyf i ddweyd wrth y Saint ydyw, am iddynt fyw yn ddduwiol; gofalwch na fyddoch yn cymmeryd eich ffyrdd eich hunain, ond ufyddhewch a pharchwch drefn a llywodraeth Duw sydd yn eich plith, a chynnydded eich ffydd a'ch ymddiried yn barhaus yn y brodyr hyny sydd yn llywyddu arnoch.

Yr ydym ni wedi cael cyfarfodydd rhagorol o dda, ac y mae Ysbryd Duw yn helaeth iawn yn bresennol gyda ni, ac ni ddymunwn i fod yn mhlith gwell pobl nâ'r rhai hyn sydd yn ymfudo. Y maent yn wresog ac yn llawn o'r Ysbryd Glân. Wrth ddweyd fel hyn nid wyf yn ystyried fod pawb felly. Byddwch yn awyddns i ddyfod ar ein hol, a meddiannwch amymedd. Mae digonedd o fwyd da ar y llong yma, ond byddai yn ddoeth i bawb ag sydd a meddiannau ganddynt i ddyfod ag ychydig o flawd a rhyw *preserves* gyda hwy, hefyd ychydig o gig eidion sych, a ham, &c.

Y mae rhyw lwyddiant neillduol wedi bod o'n plaid hyd yn bresennol. Yr oeddem weithiau yn canfod ambell i long o'n blaen trwy y *telescope* yn y boreu, ac erbyn y nos wedi eu passio yn mhell; wrth hyny yr oeddem yn ystyried fod ein Tad yn ein bendithio. Ni ddygwyddodd dim marwolaethau ar ein taith, ond un pleutyn bach a anwyd yn Liverpool cyn cychwyn. Bu dwy briodas, sef David Davies ag Esther Williams, y ddau o Sir Gaerfyrddin; a Wm. Gillman, Blaenau, ag Ann Davies, Pendeulwyn; ac nid wyf yn meddwl fod mwy o ddyfyrwch erioed wedi bod ar fôr nac ar dir mewn priodas o'r blaen, nag a fu yn yr olaf, yr hon a gymmerodd le ar yr 11eg o'r mis hwn. Am 9 o'r gloch yr oedd dwy o *flags* wedi eu codi i fyny, a phawb yn chwilio am eu *boxes*, i'r dyben o gael allan eu gwisgoedd goreu, a chariwyd y briodas yn mlaen yn ol dull yr hen Gymry er ys llawer dydd.

Y mae yr hen chwaer, Esther Jones, o Sir Aberteifi, yn fyw

ac yn iach, ac wrth ei bodd. Mae hi yn awr yn 84 mlwydd oed, ac na fydded i neb o'r hen chwiorydd ofni cychwyn tua Seion o herwydd y môr; yr oedd yr hen chwaer hon yn rhodio yn ol ac yn mlaen ar y deck fel pe bae ar a tir, ac y mae hi allan heddyw.

Yr wyf fi am teulu yn awr, yn terfynu gyda danfon fy nghariad attoch chwi a'ch cynghorwyr, ynghyd a'r Llywyddion y Cynnadleddau, Robyn Ddu, John Jones, a Sims, a'r Saint oll trwy Gymru,—hefyd mae y brawd R. Morris ac Anna yn dymuno eu cofio atoch oll yr un modd. Nid wyf yn gwybod pa mor fuan y cychwynwn i fyny i'r afon.

Ydwyf eich brawd yn yr efengyl,

W. S. PHILLIPS.

---

## LLYTHYR O NEW ORLEAMS ODDIWRTH YR HEN OLYGYDD.

*New Orleans, Mawrth* 18, 1854.

ANWYL FRAWD JONES.—Pum mlynydd yn ol, yr hwn a ysgrifena atoch chwi yn awr, a ddysgwyliai glywed eich helynt chwithau yr amser hwnw, o'r un lle. Mor rhyfedd yw troion bhagluniaeth, a bywyd dyn yn y byd. Yr wyf finnan erbyn hyn wedi gweled pysgod yn hedfan, a'r byd i gyd yn ddwfr, heblaw rhyfeddodau ereill mawr eu maint. Yr wyf hefyd wedi dysgu mwy o amynedd a phwyll, gobeithiaf, nag a ddysgais er ys llawer dydd. Mae y mor yn gallu halltu pawb, a gwyn eu byd y rhai a allant gymmeryd ei haleu. Nis gallodd ei glefyd effeithio dim arnaf fi, er i mi gael rhan dda o'i drafferthion, o herwydd afiechyd fy ngwraig, a gwyllineb fy un fechan. Yr ydym yn awr wedi darfod â'r weilgi; yr afonydd fyddant y nesaf i'n treio. Mae hanes byr o'r fordaith yn cael ei ddanfon gan y brawd W. S. Phillips, o ganlyniad, ni wnaf fi fanylu ond ychydig a'r hyny, cawsom fordaith gysurus a llwyddiannus, a'r rhan fwyaf o'r Saint yn ymddangos wrth eu bodd ac yn lled ddigeintach Bu llawer o ddifyrwch o bob math yn ein plith; ond ar yr un pryd, nis anghofiwyd gweddio a gwylio, a dyledswyddau crefyddol ereill. Cofiasom yn fynych yn ein hymbiliau am y Saint Cymreig a'u llywyddion, a gobeithio y gwrandawir ni ar eu rhan.

Cawsom lawer o gyfarfodydd gwresog iawn ar fwrdd y llong, ac Ysbryd Duw yn bwerus yn ein plith, gan achosi llefaru â chanu mewn tafodau; yn gystadl â phrophwydo, &c. Ond dichon na thynodd dim fwy o sylw nâ phriodas a gymmerodd le rhwng W. Gillman o'r Blaenau, ag Ann David, Pendeulwyn; ar y 10fed o Fawrth.

Caf yn awr ddweyd gair wrth ymfudwyr dyfodol, yn ol fy ngwybodaeth a'm profiad fy hun. Mae yn anhawdd i bawb ddweyd yr un peth, ac i gytuno ynghylch yr hyn sydd oreu: ond gall pawb gynnyg eu barn, a gadael i ereill ddewis. Yn y lle cyntaf, doeth a fyddai parotoi persli, sych, ynghyd â lysiau ereill, at wneyd cawl blasus ar y môr, ac ar y gwastadedd; hefyd ychydig o ymenyn, *suet*, pubyr, halen, *currants*, *raisins*, *jam*, *pickles*, *ginger*, *nutmegs*, bara da am wythnos, (i'w gadw yn sych dan y gwely), *hams*, bara ceirch, ysgadan, pytatws am y daith, senna, caster oil, &c. Gellir gwneyd digon o sycan neu nwd o'r blawd ceirch a geir ar y llong, os bydd gogr i'w gael; gwna finegr ei suro, hyd nes y ceir tywydd twymn i wneyd hyny.

Da fyddai prynu *over shoes gutta percha* i wisgo y diwrnodau cyntaf ar y llong, gan ei bod yn lled wlyb ac oer; ond bydd raid eu rhoi heibio yn fuan, gan y gwresoga y tywydd yn barhaus. Nid doeth yw gwerthu llestri haiarn da yn Nghymru, gan y byddant yn well nâ *thin* ar y môr, yn neillduol tin Liverpool; a byddai cwpanau priddion yn ddymunol iawn i'r cleifion, ond gofalu eu dodi mewn lle na thoront. Mae yn ofynol sicrhau pob peth, rhag eu tori gan ysgydwad y llong; ac os cymmerir cynghor yn awr, ni fydd achos dysgu trwy brofiad. Mae yn rhaid hefyd gwylio ychydig yn fwy nâ gweddio ar y llong, gan fod llawer, nad ydynt Saint, yn gwneyd camsyniadau gwirfoddol.

Mae yn ofynol i'r ymfudwyr gael blychau o goed sychion, wedi eu gwneyd yn mlaenllaw, a gofalu fod pob peth a osodant ynddynt yn eithaf sych hefyd; canys gwelais lawer o bethau yn llwydo yn druenus yn y blychau ar y môr, yn enwedig esgidiau a chotiau melfed; *carpet bag*, yw y peth goreu i gario esgidiau dros y mor, os caiff ei gadw mewn lle sych wrth y gwely: Manteisiol iawn yw fod mwrthwyl a hoelion wrth law, ynghyd â *gimblets*, &c. Da yw cylchau haiarn ar ymyl cloriau y blychau.

Mae y dwfr yn dal yn bur yr holl ffordd, oddieithr fod ychydig o flas y *casks* arno; gellir tynu hyny ymaith trwy ddefnyddio

blawd ceirch yn y cwpan. Nid da yfed gormod o loewon sycan, am ei fod yn rhy sur i'r cylla Yr oedd pob bwyd a gawsom ni ar y mor, yn gystadll bwyd ag a ellid ei gael, serch fod ambell un yn barod i achwyn, a hyny yn anghyfiawn.

Terfynaf yn awr, gan ddanfon fy nymuniadau goreu atoch chwi, y brodyr Jeremy a Daniels, Llywyddion y Cynnadleddau, y brodyr Parry, Simms, a Thos. Harries; ynghyd â phawb a ddymunant fy nghofion atynt. Gweddiaf ar i Dduw eich bendithio oll, fel y llwyddo eich llafur, ac y derbynioch wobr fawr pan orphenoch eich gorchwylion. Dysgwyliaf lawer etto i'n canlyn o Gymru, a goreu po gyntaf y deuwch oll. Yr wyf yn awyddus i glywed eich helynt oll; ac am hyn, gobeithiaf glywed oddiwrthych yn St. Louis. Gweddiwch chwithau drosom ninnau ar gyrhaedd pen ein taith yn ddiangol. Cawsom ein bendithio yn rhyfedd hyd yma; ac y mae pawb yr awr hon yn fyw ac yn iach ac am hyny diolchwn i Dduw. Bellach, ffarwel, a Duw a'ch bendithio chwi a ninnau yn enw Crist, Amen,

Eich brawd yn yr efengyl

JOHN DAVIS.

---

## CYMMANFA BRYCHEINIOG.

CYNNALIWYD Cymmanfa y Gynnadledd hon yn y Waenhelygen, ar yr 2il o Ebrill. Cafwyd y cynnrychioliad fel y canlyn:—7 o Gangenau; 27 o Henuriaid; 8 o Offeiriaid; 6 o Athrawon; 11 o Ddiaconiaid; 9 wedi eu bedyddio; a'r cyfanswm yn 154. Cafwyd addysgiadau a chynghorion buddiol a llesol iawn yn ystod y dydd, gan ein parchus Lywyddion Jones, Jeremy, a Daniels. Yr oedd Ysbryd yr Arglwydd yn dywalltedig yn helaeth ar y gynnulleidfa, hyd nes y mae yr oll yn penderfynu treblu eu diwydrwydd yn ngwaith yr Arglwydd o hyn allan.

T. MORGAN.

---

## GWRTH-BROFIAD CAMGYHUDDIAD.

DARLLENWN yn y "Swansea Herald," dyddiedig Mawrth 29,—"Fod pobl Aberdâr yn rhyfeddu o herwydd amgylchiad a GYMMERODD le yn ddiweddar—y Parch. Mr. Jones, mwy adnabyddus wrth yr enw 'Jones, Llangollen,' wedi ei drochi gan un

o 'Apostolion Saint y Dyddiau Diweddaf.' Beth nesaf?" ebe yr hanesydd.

Atebwn ninnau mai anwiredd trwyadl—hollol ddisail, diachlysur, na dim hyd y nod esgus iddo, ond malais drygionus a barodd i neb gredu na chyhoeddi y fath beth. Dyna y "peth nesaf" i'r gwir Mr. Hanesydd, nad pwy ydych. Beiddiwn undyn i brofi y fod "Mr. Jones Llangollen" wedi ei drochi gan "Apostol," na chan neb arall o'r Saint; nis gellir gwneyd hyny, ac achos da paham, o herwydd na fedyddiwyd mo hono; a gellir rhoddi profion eglurhaol o hyn os oes ychwaneg yn eisieu, i'r sawl a alwo arnom! ïe, nid yn unig profion na fedyddiasom ni ef, ond profion digonol na fedyddiodd neb arall ef; ac os gwir yr oll a sicrheir i ni, rhaid mai y rhai a ddylasent fod yn gyfeillion crefyddol goreu iddo—y rhai a wasanaethodd ffyddlonaf, a ddyfeisiasant yr ystori hon arno i ddybenion drwg. Pe gwnaethai efe ein cynghor ni cymmerasai ei fedyddio er ys blynyddau, neu pe gwybuasai yr hyn oedd oreu er ei les; eithr gan na fedyddiwyd ef, a ni yn gwybod hyny, teilwng yw i hyd y nod y *tuenellwyr* gael deall y gwir, nad pa un a'u boddia ai ni wna; o leiaf, cyfarwydda hyny hwy i dadogi ffaeleddau tybiedig eu brodyr i anallu eu crefydd eu hunain. Os gallant brofi *anonestrwydd bwriadol* mewn dim a wnaeth eu hen was, yr hwn a fu ffyddlon i'w hachos hyd ei angeu braidd; yr ydym ni yn hollol anwybodus o hyny; a'r rhai a ymbleserant yn gwarthruddo ei gymmeriad o dan yr amgylchiadau presennol, a brofant i ni nad oes ganddynt nemawr barch i'w cymmeriadau eu hunain; canys y ffaeledd gwaelaf a allant ei wneyd yn ngolwg dynion call, yw beio crefydd pobl ereill am feiau eu brodyr eu hunain.

---

## DYGWYDDIAD HYNOD.

Bu i geffyl gwr cyfrifol yn Kendl, Sir Fynwy, fyned yn glâf a marw; ac yn mhen ychydig ddyddiau aeth caseg o'i eiddo yn glâf. Pan welodd y dyn ei gaseg yn ymgrynu ar lawr yr ystabl, dechreuodd ddywedyd. "O Arglwydd, pa beth a gefaist i'm herbyn, yn achos i ti ladd fy anifeiliaid fel hyn? Ni wn i am ddim, oddigerth i mi adael i'r Saint yna lettya yn fy nhŷ; ac os hyn yna yw yr achos, myfi a'u hanfonaf allan o'm tŷ nos efory." Ac ar derfyn ei weddi, ebe efe, neidiodd y gaseg yn iach ar ei

thraed! Bu y dynan yn ffyddlawn i gyflawni ei adduned, a chaffodd y saint fyned tros y drws, er y talent yn onest am eu lletty.

Argraffwyd aml i chwedl yn y Cronicl Cennadol, at ddangos mawr dywyllwch paganiaid Affrica, er y cynnwysent arddangosiad o gryfach synwyr nag eiddo pagan sectyddol Kendl!

## AMRYWIAETHAU, &c.

"Yr Hen Greefydd Newydd."—Y mae y traethawd defnyddiol hwn, a'r ddymuniad llaweroedd drwy Dde a Gwynedd, yn y Wasg, a daw yr ail Argraffiad allan yn fuan, am chwe cheiniog. Mae cannoedd o dystion o blaid y daioni a gawsent drwy y traethawd bychan hwn, a gweddiwn a'r i Ysbryd y gwirionedd a draetha ei fendithio i filoedd.

Derbyniadau am Lyfrau o Ebrill 1, hyd y 12,—Dwyr. Morganwg, £3; Mynwy, £6.

☞ Anfoner enwau cangenau ynghyd ag enwau Trysorwyr ar gyfer y swmiau a gyfrenir at y Gymdeithas Ymfudol Barhaus! Nac esgeuluser os gwelwch yn dda!

☞ Hir ddysgwyliasom am ddangosiad gan bob Llywydd Cangen o werth y llyfrau a'r law, a'r dyledion os oes rhai, yr hyn a ddylem ni fel y dylai pob Llywydd Cynnadledd gael bob chwarter! Frodyr, nac esgeuluser y rheol bendant hon yn hwy, eithr ymdrecher talu yr hen ddyledion yn lle myned i fwy fwy o ddyled.

☞ Dygwyddodd camsyniad yn ein rhifyn blaenorol, drwy hysbysu fod "tad y plentyn," a iachawyd yn Pen y Cae, yn bresennol, a galwn hyny yn ol.

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Aberthiad | 213 |
| Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg | 214 |
| Cynnyg y ddehongli y Ddammeg | 217 |
| Y Dyfnder Mawr | 218 |
| Y Gwaiwyn | 219 |
| Golygyddiaeth—Llwyddiant achos y Gwaredwr | 220 |
| Tiriad yr Ymfudwyr Gymreig yn Orleans Newydd | 222 |
| Llythyr a New Orleans oddiwrth yr Hen Olygydd | 224 |
| Cymmanfa Brycheiniog | 226 |
| Gwrth brofiad Camgyhuddiad | 226 |
| Dygwyddiad Hynod | 227 |
| Amrywiaethau, &c. | 228 |


MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 11, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

RHIF. 15.] EBRILL 22, 1854. [CYF. VII.


## EGWYDDORION GWIRIONEDD.

GAN Y LLYWYDD BRIGHAM YOUNG.

MAE egwyddorion gwirionedd yn dragywyddol. Gofynai y meddwl ar unwaith, beth yw gwirionedd? Y mae yn unrhyw beth, yn egwyddor, ac yn ffaith a chanddi weithredol fodoliaeth. Os anwiredd, etto gwirionedd ydyw y bodola anwiredd. Mor wired ydyw y bodola diafliaid, ag y bodola Duw.

Dywedodd yr Iesu, "Myfi yw y *ffordd*, y *gwirionedd*, a'r *bywyd*. Dywed y diafol hefyd, "ydwyf, yr wyf yn bodoli;" ac o ganlyniad, trwy yr unrhyw reol, "*ydwyf Wirionedd*." Mor bell yw hyn yn fyr o'r hyn y mae yr Arglwydd yn ei ddadguddio trwy yr Ysbryd Glân. Mae Iesu Grist, ei Dad o'i flaen, a'r holl ffyddloniaid, Duwiau tragywyddoldeb, a'r holl elfenau cyd-drefnol, wedi eu cyd-drefnu i'r gwir ddyben o ddyrchafiad i dragywyddol gynnydd: neu tybier i mi ddywedyd, i wirionedd tragywyddol. A wnelai hyn drosglwyddo i'ch meddyliau y gallai y diafol, o herwydd mai gwirionedd yw y bodola, gyrhaedd i'r unrhyw allu a dyrchafiad? Tybier y caniatawn y meddylddrych y gwelwn yr amser pan y gallom gyduno a chyd-ddadansoddi elfenau, dwyn bydoedd i fodoliaeth, eu gwaredu, a'u dwyn i fyny i ogoniant tragywyddol, trwy ond yn unig ddywedyd—"*Yr ydwyf Wirionedd*." Fel y dyfynwyd o'r blaen, "Yr Iesu yw y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd." A gallem droi o amgylch a dywedyd—Satan yw y ffordd, yr anwiredd, a'r marwolaeth. A allwch chwi ddirnad y gwahaniaeth? Eithr

dywedyd mai Iesu Grist yw y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd, sy gyfwerth â dywedyd mai Efe yw yr unig fodolaeth barhäol a thragywyddol. Mae yr Arglwydd Iesu Grist yn gweithio ar y cynllun o dragywyddol gynnydd, o ddoethineb, dealltwriaeth, anrhydedd, ardderchawgrwydd, gallu, gogoniant, nerth, ac arglwyddiaeth, a'r priodoliaethau sydd yn llanw tragywyddoldeb. Ar ba egwyddor y gweithia y diafol? y mae i ddystrywio, i ddattod, dad-ddansoddi, ac i rwygo yn gyrbibion. Mae yr egwyddor o wahaniad, neu ddadgyssylltiad, yn gymmaint tragywyddol egwyddor, ac yn gymmaint gwirionedd a'r un o gyddrefniad. Bu a gwna y naill a'r llall fodoli. A allaf fi nodi allan i chwi y gwahaniaeth yn yr egwyddorion hyn, a dangos yn eglur a boddhaol y lles. y cyfaddasrwydd, a'r anghenrheidrwydd o weithredu oddiar y naill, yn hytrach nag oddiar y llall? Myfi a gynnygiaf fy ffordd fy hun, mor gryno ag a allaf. Y mae yn amlwg i mi, ond a allwch chwi ei ddeall?

Yn y lle cyntaf, defnydd sy dragywyddol. Yr egwyddor o ddiddymdra, o daro allan o fodoliaeth unrhyw beth a fodolodd, neu a gafodd fod, fel ag i adael y lle a feddiannid gan y peth hwnw yn gyfwng gwag, sydd anwireddus; canys nid oes y cyfryw egwyddor yn yr oll *dragywyddoldebau*. Beth sydd yn bodoli? Defnydd sydd dragywyddol. Yr ydym yn tyfu ein gwenith, ein ffrwythau, a'n hanifeiliaid. Yna cyd-drefnir hwynt, cynnyddant a thyfant; ond, wedi enyd, adfeiliant, ymddattodant, deuant yn ddadgyssylltiadol, a dychwelant i'w mam-ddaear. Nid yw o bwys trwy ba fynediad yn mlaen, y rhai hyn ydynt y chwyldroadau yr ânt tanynt; eithr elfenau y mymrynau o'r rhai eu cyfansoddwyd, ydynt o hyd, oeddynt bob amser, a byddant yn wastadol fodoli; a thrwy yr egwyddor hon o newidiad, y mae genym dragywyddol gynnydd.

Eithr gweithia Satan ar yr egwyddor wrthwynebol; efe a gais ddinystrio, a diddymai pe y gallai, ond ni wna heblaw dad-ddansoddi, a dadgyssylltu. Caniatewch i mi ymholi beth oedd ei felldith? Yr oedd, na fyddai iddo ef gynnyddu dim yn ychwaneg, eithr dyfod i ddiwedd.

Pan y deuais at ddrws y Tabernacl, y boreu hwn, clywais un o'r brodyr yn dywedyd i oddeutu un rhan o dair y llu nefol wrthgilio oddiwrth lywodraeth y Jehofah. Hyn oedd eu melldith—byth i gael tabernaclau i breswylio ynddynt. Bodol-

ant yn awr mewn ysbryd, ond ni chant byth gyrff, na'u dyrchafu: ni chant ychwanegiad pellach i'w bodolaeth, tra y gall y rhai na wrthryfelasant gael tabernaclau, a thrwy yr adgyfodiad, ddyfod yn bersonau o dabernacl yn y byd tragywyddol. Dyna fe, ar y naill law, ac ar y llall. Chwi a allwch yn awr weled y lles, a'r cyfaddasrwydd o ufyddhau i'r egwyddorion a arweiniant i fywydau tragywyddol, i ddyrchafiadau, ac i gynnyddiad; a phaham y mae y bod gan Iesu Grist fwy gallu o lawer na chan Satan. Mae gallu yr adgyfodiad yn tu hwnt i amgyffrediad dyn, yn ei ddichell gyfrwys, a'i fyrdd hudoliaethus i wenieithio ac i arwain ei hun i mewn i wladwriaeth, ac i berson unigol. Mae hyn, pe byddai modd, i gyrhaedd tabernacl, yr hwn, er nad yw ond un benthyg, sydd etto yn cynnyddu ei allu, gan hwyed ag y gall ei lywio i atgb ei ddybenion; ac os y metha yn hyn, ac mewn dewis i ddyrysu, yna, ei amcan sydd i ddad-ddansoddi, ac i ddystrywio, fel y byddo i'r gallu da, a'r dylanwad da, fel ei hunan, ddyfod yn amddifad o'r gallu perthynol i ysbryd ymgorfforol.

Mae yr Arglwydd yn gweithredu ar yr egwyddorion o barhau i gyd-drefnu, o ychwanegiad, o gasglu i fyny, o ddwyn yn mlaen, o gynnyddu ac o ehangu; a'r ledu tra nad yw y gallu gwrthwynebol felly. Dengys hyn natur ei wrthwynebiad i nodwedd neilldnol Cristionogaeth, a sylfaenydd ar yr egwyddorion o dragywyddol barhad, cynnydd, gallu, gogoniant, a dyrchafiad; a noda allan y gwahaniaeth sydd rhwng y ddau allu gwrthwynebus.

## CYMMANFA DDWYREINIOL MORGANWG.

[Parhad o dud. 217.]

*Dydd Sul*, Mawrth 26, 1854.—Llywydd, James, a dywedai:—Da yw genyf weled gymmaint ohonoch wedi ymgynnull yngh'd yn prydnawn hwn etto, i'r dybenion a gaed eu hysbysu i chwi yn flaenorol mewn crefydd. Nid i gael crefydd newydd, ond i ddysgu bywyd newydd. yn gyfunol a'r crefyddau sydd yn bod eisoes, y daethom yma. Mae yr hen grefydd bon wedi ei threfnu erbyn tragywyddoldeb, i ddwyn dyrchafiad a gogoniant i bob gyd-ymffurfiant a hi. Yr unrhyw destun a'r boreu sydd ar fy meddwl y prydnawn hwn etto.

Peth o bwys yw i ni ymdrechu am gael daioni y grefydd hon wedi ei ddwfn argraffu ar ein meddyliau, oblegid y mae yn llawn gwirionedd ; ac y mae y rhai a feddant gyfran o'r gwirionedd, yn awyddus am ychwaneg, fel y dymunant glywed ychwaneg am y pynciau perthynasol i grefydd Iesu Grist. Nis gwn pa leshad a ddichon crefydd ei wneyd i un dyn na wnelo fyw yn unol a'i gofynion; canys, prif ddyben gosodiad crefydd ydyw dysgu *dynion y modd i fyw.* Nid y modd i farw, fel y dysg rhai, ond y modd i fyw ydyw prif addysg crefydd. Bywyd yw crefydd, a'r neb a grefyddo gywiraf, a fydd byw oreu ; ac o ganlyniad, a fydd byw hwyaf, am ei bod yn arwain i fywyd tragywyddol. Y prif ddyben, gan Awdwr mawr crefydd, yw i ddynion, trwy ufyddhau iddi, fyw yn dragywyddol, er ei ogoniant ; o ganlyniad ni allasant gael bywyd tragywyddol heb grefydd ; neu, os gallasant gael bywyd tragywyddol hebddi, pa ham ei gosodwyd ?

Bywyd yw crefydd. Dywed yr ysgrythyr fod *bywyd ac anllygredigaeth* wedi ei ddwyn i oleuni trwy yr Efengyl. Canys, ymddangosodd gras Duw, yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn; gan ein dysgu ni i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awrhon; a chan ei bod yn dwyn bywyd, pwy a all ddweyd ei gwerth ? Dyry dyn bob peth am ei einioes; rhoddai pobl a feddont am gael byw ; cyfiwynai mawrion byd eu holl olud, breninoedd eu coronau, ac amherawdwyr eu teyrnasoedd am gael byw yn hwy ar y ddaear ; a chan fod crefydd yn fwy ei gwerth na'r byd ynghyd a'i holl gyflawnderau, gan fod crefydd yn beth a'n ceidw yn fyw trwy fywyd tragywyddol, iawn yw i mi feddwl y gwnai mwynhad o honi lesoli ein gwrandawwyr.

Efallai nad ydym yr un farn a rhai o'n cyd ddynion am yr hyn yw byw, na'r hyn yw marw ychwaith ; nid wyf yn ystyried mai darfod byw yw marw ; eithr mai dadgyssylltiad corff ac ysbryd ydyw. Nid yw y corff yn darfod byw, wedi i'r ysbryd fyned o hono, ond y mae yn ymddadgyssylltu ac yn ymgymmysgu a'r elfenau a'i cyfansoddodd, gan ddychwelyd i'r man y daeth o hono. Mae modd cael bywyd y ddau yn gyfunol efo, trwy ail gyssylltiad y corff a'r ysbryd a'u gilydd. Yma dir defnydd crefydd ; o herwydd trwyddi hi yn unig y unir bywyd diderfyn.

Idi hi y derbyn rhai dynion ernes o'r bywyd tragywyddol

sef, yr Ysbryd Glân: a gwybod iddynt gael eu geni o Dduw, ydyw derbyn cyfran o anfarwoldeb. Gosodwyd crefydd, nid yn unig i ni dderbyn cyfran o fywyd neu anfarwoldeb ac anllygredigaeth, ond at i ni gynnyddu hyd nes y deyrbyniom gyflawnder y bywyd tragywyddol. Nid oes un creadur na sylwedd yn aros yn llonydd, eithr y mae ysgogiad yn mhob peth; naill ai fel pren, yn tyfu; neu ynte fel un yn gwywo. Os nad â dyn yn mlaen at fywyd tragywyddol, rhaid yw yr ymgilia yn ol i farwolaeth: a chyn y dichon dyn ddyfod yn mlaen at fywyd, rhaid ydyw iddo ef *wneyd* y gweithredoedd sydd ofynol eu gwneyd cyn ei gael: os esgeulusa ef hyny, y mae yn rhwym o fyned yn ol a marw. Deil y pethau pwysig hyn gyssylltiad a phob perchen rheswm, am bob tragywyddoldeb. Ystyriwn ninnau y pwysigrwydd o gadw at ein dyledswyddau; oblegid ar yr ammod o'u gwneyd y mae bywyd i'w gael. Nid oes yma le i segurwyr i obeithio am fywyd, o herwydd y sawl a etifeddant fywyd, sydd yn rhaid iddynt ufyddhau i Dduw a gwneyd y gweithredoedd a gais Efe ganddynt eu gwneyd. Rhai dynion a feddyliant y ceir darfod a gweithio, darfod a bod yn ddiwyd, a darfod a chadw dyledswyddau, ar ol marw; dychymmygant am y nefoedd, ei bod yn lle i orphwys, ac y ceir gorphwysfa o ddiogi yndi: nid felly y dengys yr ysgrythyrau a'r dadguddiadau dwyfol, ond i'r gwrthwyneb. Ein gwaith yma yw ymdrechu am fywyd; mae gweithio yn reddf naturiol ynom; ond ai tebyg y newidir y reddf hon pan y bydd pob greddf a nwyd dda yn burach ac wedi eu perffeithio. Gan mai purach a pherffaith a fydd y reddf hon ynom, tebygol ydyw y bydd hefyd ynom *fwy* awydd a bywyd. Dywed yr Apostol y *bywioceir* ein cyrff; ai tybied yr ydym mai i *segura* ein *bywioceir?* Nage! ond i ddiwydrwydd, i wneyd daioni, i gynnyddu, i ymledaenu, i eppilio, ac i ymëangu ein bywioceir. Gosodwyd y reddf hon yn ein natur; ac o ganlyniad y mae hi yn anhebgorol anghenrheidiol er cael bywyd tragywyddol; pe amgen, pa ham ei dodi ynom, neu pa ham nad allem wneyd hebddi? Trwy iawn ddefnydd o honi yn unig, ynte, y mae yn ddichonadwy i ni gael bywyd.

Yn awr, gwelwn yr hyn a fydd ein hail gyflwr, wrth ein presenol, a deallwn mai ymestyn a fyddwn at liosogi bywydau diderfyn a thragywyddol: o ganlyniad, anghenrhediol yw i ni fod yn feddiannol ar fywyd tragywyddol ein hunain, cyn y gallom

wneyd hyny. Nid unig ddyben crefydd yw achub y dyn ei hun yn bersonol; ond hefyd ei ddwyn, trwy iddo iawn ddefnyddio crefydd, i allu ymledaenu, a lliosogi bywydau fel y gwnaeth Duw ei hun, gan fod yn offerynol i ddedwyddoli ereill hefyd. Gan nad oedd, ac nad yw Tad yr ysbrydoedd yn segur, pa fodd y byddwn ni ddilynwyr Crist, yn gydetifeddion a chyfranogion o'r un gogoniant ag Ef, yr hwn a ddywedodd "Nid wyf fi yn gwneuthur dim ar na welais fy Nhad yn ei wneuthur," os na fydd y bodau adgyfodedig yn gwneuthur yr un modd? Os na chenedlant fywydau tragywyddol ereill, nis gall fod bywyd tragywyddol yn ddynt eu hunain chwaith; oblegid natur bywyd ydyw lliosogiad bodau bywydol.

Wedi ein myned gan belled yn mlaen a hyn, i syllu ar y fath wynfyd a gogoniant, tynnwn ein golygon yn ol atom, yn mhwll llygredigaeth; ac edrychwn a ydym yn gwneyd y gweithredoedd a effeithiant i fwynhau y pethau ardderchog a gogoneddus hyn. Iawn ystyriaeth o honynt a'n cymhello, ie, a'n *gorfodo* i wneyd mwy etto, hyd nes y delom yn feddiannol ar, ac hefyd y gallom greu bywydau diderfyn ein hunain. Gobeithiaf ein bod yn ystyried yr hyn ydym yn ei wneyd, gan gofio am yr hyn a fydd canlyniadau ein gweithredoedd. A yw ein gweithredoedd yn awr, y fath y dymunem eu dilyn byth? A yw y canlyniadau, sy gyssylltiadol a'n gweithredoedd, y cyfryw y carem eu cael tros byth? Gwneyd ein dyledswyddau yn *awr*, a ennill nerth i ni allu eu gwneyd rhagllaw. Gobeithiaf i'r holl Saint, a ddaethant yma, ddyfod i dderbyn addysg at wneyd a byw eu crefydd, fel y mwynhaom oll dragywyddol fywyd, i gynnyddu, yn etifeddion bywyd annherfynol. Ystyriwn ein gweithredoedd a'u canlyniadau; sef nyni, y rhai ydym wedi cael gwybodaeth ein bod yn blant i Dduw, yn gyd-etifeddion a Christ, ac yn dechreu gwneyd y gweithredoedd sydd er ein dyrchafu o gylch i gylch, hyd nes yr elom heibio angylion, i blith y Duwiau fry, i fod yn ogyfuwch a Christ, a Christ yn ogyfuwch a Duw. Ac, a'r meddwl hwn yuom, wedi ei achosi gan yr ernes a dderbyniasom, yr hwn ernes sydd yn gofyn, ac yn teilyngu perffaith ufydd-dod genym, dangosir ein dyledswyddau tuag at ein gilydd, i fod fel ein Brawd hynaf, yr hwn a roddes ei fywyd i lawr drosom. Pe y gwnelid hyn, ni welid un brawd yn digio a chenfigenu wrth frawd arall; eithr aberthai pob brawd ei deimladau personol, a dioddefem yn

amyneddgar 'er lles ac adeiladaeth y naill y llall, byddem felly oll yn Un; fel mae y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân yn Un a'u gilydd, y byddem ninnau oll yn un ynddynt hwy.

Pe y deallem yr hyn yw bywyd, deallem hefyd fod yndde awydd i ddwyn bywyd i ereill; fel hyn yr oedd Mab Duw, yr hwn a ddywedodd, "Lle yr wyf fi, yr wyf yn ewyllysio fod e honynt hwythau hefyd." Nid yw Efe yn boddloni ar ei orsedd mewn gogoniant, yn mhlith archangylion, heb weddio, eiriol, ac ymdrechu cael ereill yno hefyd. Dyma yw natur y Duw a addolwn; sef, ewyllysio dyfod o bawb i *wybodaeth* o'r gwirionedd. Oni ddylem ninnau, y rhai a dderbyniasom yr Ysbryd Glan, ernes yr etifeddiaeth, a gwybodaeth o'r gwirionedd, ymdrechu ennill ereill i feddiant o'r un bywyd a ni ein hunain? Wrth ymdrechu ei hau a'i blannu, cawn weled dynion o'n hamgylch yn tyfu i fyny, yn blodeuo, ac yn dwyn ffrwyth i santeiddrwydd, a'u diwedd yn fywyd tragywyddol.

Oddieithr i ddynion wneyd y gweithredoedd hyn, a neshau at Dduw, hwy a ymbellhant oddiwrtho at farwolaeth; sef, at dynged yr annuwiol. Gwrthodiad o fywyd, a fydd yn farwolaeth i'r gwrthodwyr. Felly, bydd dau ddosparth o ddynion yn cael adgyfodiad; y naill i fywyd ac anllygredigaeth, ar llall i farn ac i'r ail farwolaeth, i farw eywbryd; nis dywedwn pa hyd y byddant yn y llyn o dân a brwmstan, cyn y byddont farw, barned y neb a ddeall gywirdeb cyfreithiau y dadansoddiad. Marwolaeth yw y gospedigaeth oddiwrth y Duw cyfiawn i'r annuwiolion a wrthodant fywyd. Nid wyf yn meddwl y darfyddant a bod yn sylweddau; eithr y darfyddant ag aros yn fodau corfforol. Hwy a ddaethant o rywle yn eu dechreuad; a dychwel yr elfenau, a gynnwys eu bodau corfforol, yn ol i'r un lle ar ol dioddef o honynt "gyflawn daledigaeth," am bob trosedd; ac felly, darfyddant ag aros yn fodau mwyach.

Frodyr yn yr Offeiriadaeth, ystyriwn fod allweddau bywyd a marwolaeth yn ein meddiant; ac na theimlwn yn esmwyth heb ymdrechu, yn ymroddgar, am gael dynion heblaw ein hunain i neshau at Ddnw, fel eu hachuber i fywyd tragywyddol. Mae yr Offeiriadaeth yn llywodraethu yr oll a fu, y sydd, ac a ddaw; am hyny, chwychwi sydd a'r Offeiriadaeth hon genych, amlygwch eich duwiol anian, trwy ymawyddu am gael pob dyn i wybodaeth o'r gwirionedd. Mae bywyd ac angau, un a'r bob llaw i ni; ac

fel y mae marw yn ddadgyssylltiad, lleihad, cwttogiad, ac ymgyf yngiad hyd nes ymwasgaru bodau corfforol i'w helfenau cyntefig, felly mae bywyd yn treiddio trwy, ac yn ymgylchynu a chynnal y bodau corfforol mewn cynnydd ac ymeangiad parhaus ac anherfynol. Y bywyd tragywyddol a fyddo ein rhan ni oll, trwy Iesu Grist. Amen.

Yr Henuriad Robert Evans, Abertawy.—Gan fod y gwaith hwn o Dduw, er gogoniant iddo Ef, a'n braint ninnau yw ei gynnorthwyo yn mlaen, gweddied y Saint am ddylanwad ei Ysbryd. Nid oedd genyf, yn y Gogledd, ond y Beibl, ac nis digiweb, a chwi yn gwybod mai gwirionedd ydyw, os cymmeraf hwn etto. Testun gwerthfawr yw y testun a roddodd y Llywydd Brigham Young, a welais yn yr Udgorn; sef, YMDDIRIED. Cyn y gellir ymddiried rhaid cael y gwrthrych yn teilyngu ymddiried—Ymddiried'a' Crist, yn y Tad, o herwydd, fel y dywed, "Fy Nhad i, sydd yn fwy na phawb,"—Dygodd amgylchiadau Pedr i golli ymddiried; ond pan adgenedlwyd ef i obaith bywiol, trwy adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw, rhoddodd ei holl ymddiried yn Nghrist; a'i reswm am hyny oedd, "Ti a wyddost bob peth." Mae gan blentyn ymddiried yn ei rieni; ac er myned i ffair, neu i chwarae, am ei gartref, a bod ynghyfeillach ei rieni y mae plentyn, ac yno teimla yn ddiogel; oblegid ystyria ef ei dad yn gefn, yn dŵr, ac yn gastell iddo. Yr oedd Crist, trwy ymddiried yn ei Dad, yn cynnyddu. Gan y gwyddai fod ei Dad yn fwy na phawb, nid oedd am addysg o un lle arall yn groes iddo. Yr oedd yn cael addysg gan y Tad; yr oedd yn gwneyd yn ol yr addysg hono; ac felly yn cynnyddu. Yr oedd Ef yn deall, fel yr oedd ei Dad yn deall; felly hefyd, y rhaid i ninnau gael pethau deallus, fel y gallom gyd ddeall a'r hwn sy'n arolygu trosom.—Ni siomwyd Crist gan y Tad; nid Crist a siomodd y dysgyblion; eithr eu meddylian eu hunain. "Yr oeddym ni yn meddwl mai Efe oedd yr hwn a waredai Israel." Nac ymddiried i'th ddeall dy hun. Daeth Crist i argyhoeddi y dysgyblion o'u diffyg ymddiriod—"A wyt ti yn fy nghara i?" a phan y cyfaddefodd "Ti a wyddost bob peth," daeth pob ymddiried i'w le. Honai Paul hawl yn ymddiried Eglwys Corinth, o herwydd iddo lafurio erddynt, a dysgu y gwirionedd iddynt, gan eu gofyn i'w ddilyn ef, fel yr oedd ef yn dilyn Crist.

Gwrthwynebodd Paul Pedr, am ei fod i'w feio; os oedd gwaith

Paul, yn beio Pedr, yn waith drwg. rhaid fod ymffrostio o hyny mewn llythyr yn fwy drwg; ac os ysgrifenwyd y llythyr dan lywodraeth ysbryd anmhriodol, ni ddylai ei fod yn y Beibl. Ond y gwir yw, dichon i ddyn mewn swydd santaidd litbro; er hyny mae yr Offeiriadaeth yn gywir. Beius oedd Pedr, mewn bwyta, —ond nid mewn athrawiaeth; o ganlyniad, y swyddogaeth yn ei gwirionedd sydd yn teilyngu ymddiried, ac nid y swyddwr yn yr oll a ddichon iddo fel dyn ffaeledig ei wneyd. Yr wyf fi yn ymddiried yn yr Eglwys hon, am fy mod yn gwybod mai Eglwys Crist, a'i Offeiriadaeth Ef ynddi yw hi. Yr hwn sydd yn diwalla y corff, a'ddiwalla yr Ysbryd; gofalodd Duw am danaf mewn bwyd a dillad; ac am hyny, yr wyf yn ymddiried yuddo am bob dawn ysbrydol yn yr Eglwys.

*(I'w barhau.)*

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, EBRILL 22, 1854.

Cynnyddiant Teyrnas Dduw yn Nghymru,—A'r ffordd oreu i wneyd hyny yw, udganiad ein Hudgorn yr wythnos hon etto; a dyna a fydd hefyd, â'i holl rym, hyd eithaf ei gylchrediad, tra yr ymddengys y pwysigrwydd o hyny mor hunan-eglur i ni ag yw yn bresennol; ac nid y'm yn teimlo un gradd o gyfnewidioldeb ynom am hyny hyd yn hyn; eithr o'r ochr arall, po fwyaf a fyfyriwn ar ogoniaut teyrnas Dduw—y lleshad o'i chael—y golled o'i cholli, a'r tragywyddol ganlyniadau o'r naill a'r llall: po fwyaf a welwn o effeithiau andwyol gan grefyddau ein gwlad ar foesau eu proffeswyr, a pho fwyaf o fendithion a welwn fod deiliaid ffyddlon y deyrnas hon yn fwynhau, mwyaf o awydd a achosa hyny oll am ei chynnyddiant.

Y grediniaeth a greïr ynom, drwy fawr sêl ac ymroadau proffeswyr crefyddau ein gwlad, mai eu hawydd am deyrnas

Dduw a achosa yr oll, a'r ffaith o'n sicrwydd mai hon yw hi, a'n cymhella ninnau i udganu yn fynych, yn uchel, ac yn barhaus, mai dyma hi, gyfeillion! dyma yr eglwys y chwiliwch am dani; deuwch i mewn iddi, a chewch fwynhad sylweddol, *diamnheuol*, o'r oll a ddysgwyliwch gael drwy ymgrefydda; cewch, a chanmil mwy nag a ddychymygasoch fod i'w fwynhau mewn crefydd. Addawwn hyn—sicrhawn mai gwir hyn oll, er dywedyd o holl offeiriaid gau grefyddau gwlad, a byd i'r gwrthwyneb,—y mae Duw gyda ni yn ol ei addewidion,—daw gyda chwithau os deuwch *chwi gyda ni* yn ei lwybrau Ef: ffeithiau anwrthwynebol fel hyn a'n gorfodant i waeddi â'n holl nerth, "Deuwch i deyrnas Dduw;" a phwy wedi gwybod hyn, a all dewi?

Nid genym ni yn unig y dylai fod y teimladau a'r awydd hwn; hyderwn fod y sêl deilwng o'r anrhydeddus deyrnas hon yn fywydol—ymegnïol, ac anwrthwynebol, yn nghalonau, gwythienau, mêr, ac esgyrn ein brodyr, yn enwedigol yn Llywyddion y Cynnadleddau, a Llywyddion y Cangenau, ac yn ein holl frodyr yn yr offeiriadaeth: oddiwrthynt hwy dysgwyliwn—*dysgwylia Duw*, a phob dynion da, fawr gymhorth er dwyn ereill i fwynhau bendithion y deyrnas hon. Rhesymol ddysgwylia y byd weled tanbeidrwydd ein sêl yn gyferbyniol i, ac yn brawfiadol o fawrogrwydd ein crefydd; a'u siomo, drwy ddifatterwch, diogi, neu anghydffurfiad, gwylied rhag y canlyniadau o rwystro cynnyddiant teyrnas Dduw. Rhesymol ddysgwylia holl wrthddrychau eu gofal hefyd, weled eu Llywyddion—eu blaenoriaid mewn pob daioni, ac yn mhob ymdrech i achub eu cyd-ddynion i deyrnas Dduw; pa fodd amgen eu beuïr hwy am ddifatterwch, nâ'r aflwyddiant canlynol?

Dangosa Llywydd ei sêl drwy, a'i ddoethineb yn gyferbyniol i'w gynlluniau a'i ymroadau i gael cyd-weithrediad ereill at y gwaith clodadwy hwn, yn fwy na phe ymdrechai hyd angeu ei hun, tra y gadawo ereill o'i amgylch yn hanner hepian, a'u dylanwad yn wrthdarawiadol i'w eiddo ef. Ni ddysgwylia y Cadfridog mai ar nerth ei fraich unigol, nac ar awch ei gleddyf ei hun y dibyna buddugoliaeth ar faes brwydr,—ni fwriadodd ein hollalluog Dduw wneyd yr oll ei Hunan, ac ni frwydrodd ein brenin Iesu yr oll fel nad oes ychwaneg a allwn ninnau wneyd, er sicrhau buddugoliaeth drwyadl iddo Ef, fel y mae y goreu i

ni; onide, pa fodd y gallasem ni ennill gwobr, ac anrhydedd i ni ac i'n heiddo yn ei deyrnas? O'r ochr arall, testun diolchgarwch a chymhelliad i ddiwydrwydd a ddylai y ffaith mai "*cyd*-weithwyr Duw ydym ni," ei fod ynom; ac mewn efelychiad o'i ymddygiad Ef atom oll y dylai pob Llywydd roddi pob cymhelliad i bob un o dan ei ofal, i fod yn "*gyd*-weithwyr" ag yntau yn y cylchoedd a'u gosoda. Cyd-weithrediad trwyadl yr oll a goronir â mawr fendith eu Duw; tra yr Henuriaid a'r Offeiriaid yn pregethu, yr Athrawon yn gofalu dros y gweiniaid a'r llesg, y Saint yn tystiolaethu wrth eu cymydogion, mai dyma grefydd Iesu Grist, a'u gwahodd i mewn i deyrnas Dduw; tra yntau a'i gynghorwyr, yn trefnu ac yn cylchdroi rhyw olwynion o'r peiriant dwyfol, i beri mwy bywyd, ac yn cadw yr oll a gaffont trwy nerth eu ffydd; tra rhai cymhwys i'r gorchwyl yn gwerthu neu yn lledaenu traethodau buddiol, i egluro egwyddorion ein crefydd i'r byd; tra y bo yr oll mewn cyd-weithrediad fel hyn, ni all teyrnas y tywyllwch sefyll o flaen milwyr ein Hiesu—y nefoedd o'n plaid, dan wenu, a roddai y fuddugoliaeth yn fuan i ni; gwelid lluoedd yn dylifo i'n plith o'r gonest galon a ymchwiliant am y gwir; gwelid y cangenau yn blodeuo fel y rhosyn, ac yn orlwythog o flasus ffrwythau,—doniau Ysbryd Duw, a gwelid miloedd ar fyrder yn prysuro i artrefu i'w gwaredfan yn mrig yr hwyr, megys "colomenod yn ehedeg i'w ffenestri," o flaen yr ystorom ddrycinog. Frodyr hynaws, Saint ein Ior! beth meddwch! a gymmeradwywch ein cymhelliad hwn? A ymddeffrown, ac a ymarfogwn ni oll dan arfau milwriaeth ein Brenin i frwydro ei frwydrau yn erbyn teyrn-fradwr—arch-elyn Duw a dyn? Ymchwilier am le i weithio,—ymdrecher llanw y cylch y gosodir ynddo gan yr hwn a bia trefnu, a gweddier llawer am gynnorthwyaeau Ysbryd y deyrnas ddwyfol hon i ddilyn ein cynghorion, a'u greddfu ar feddyliau ein gwrandawwyr, fel y dygont ffrwyth yn tarddu i fywyd tragywyddol. Oes, y mae gynym ffydd ddigonol i hyderu y cyd-ymffurfia yr holl Saint â'n ceisiadau yn hyn o herwydd, eu dyled i'w Duw ac i'w cyd-ddynion yw hyny; a hiraethog edrych am y llwyddiant cyfatebol i'w diwydrwydd.

Nid o herwydd y gwelwn yn ein brodyr ddiffyg teimlad dyledus at, na diffyg awydd am gynnyddiant teyrnas Dduw y

cymhellwn mor daer i ymroad—ni chaniatawn le i feddwl mor gul yn ein calon, eithr yr ystyriaeth o'r ffaith nad yw ein teimladau personol ni, pe ein calonau yn llosgi ynom, yn effeithio ar neb nac yn ateb y dyben o honynt, ond i'r graddau y prawf ein gweithredoedd cyssylltiadol hyny i ereill. Mud a byddar yw teimlad, ni fedd lais i alw neb i edifeirwch, ni all gymhell arall i unrhyw weithred; ac os na chymhella ei feddiannydd i brofi ei sêl drwy ei weithredoedd, i arall ni lesola; o ganlyniad, yr unig ffordd i ennill cyd-weithrediad ymegnïol ein brodyr yw, drwy eu herrio i efelychu ein mawreddog ymroadau ein hunain; ac felly, Paul-debyg, beiddiwn hwynt "i'n dilyn ni, fel yr ydym ni yn dilyn Crist."

Gorfodir ni gan bob ffaith gyssylltiedig i adnabod dwyfoldeb ein cenadwri—gorfo la ei *dwyfoldeb* i addef ei *hunigolrwydd*, ac o ganlyniad gorfoda ffeithiau dim llai na dwyfol y pwysigrwydd o'i hiawn draddodi;—dyben ein danfoniad yw achubiaeth dynion trwy ufyddhau i'n cenadwri; dibyna llawer ar y modd ei cyhoeddwn; mae gwahaniaeth mawr rhwng cyhoeddi dedryd ein cenadwri ar ei hanufyddion a pherswadio ein gwrandawwyr i ufydd-dod iddi; yr olaf a ddylai fod ein hamcan blaenaf, yr hwn a'n danfonodd a wna y llall yn effeithiol ddigon, wedi y metha ein hymdrechiadau taer, teilwng a chariadus ni a chael yr effeithiau dymmunol. *Achubiaeth*, nid *condemniad* ein gwrandawyr a ddylai fod ein hunig amcan,— *teimladau* o hyny a gynhyrfa daerineb cyferbyniol: rhybudd y byrbwyll-ddyn ac nid ffordd Duw yw "bygythiad ac ergyd, a'r ergyd ynmlaenaf,"—hollol groes i hyny a ddylai fod dull cenhadon Duw,— *achubwyr*, nid *dienyddwyr* dynion: *cymmodi* â Duw, ac nid peri ymrafael â hwy, a ddylai "gweinidogion y cymmod,"—ymddygiadau cymmodol a charuaidd a ddylent brofi i'r byd i bwy yr ymddiriedwyd "gair y cymmod," y trysor hwn mewn llestri pridd. Iawn brisiad o'r bendithion a fwynhawn ein hunain—iawn ystyriaeth o'n dyled i'n Duw am danynt—iawn ddeall o'r golled o fod hebddynt, ac iawn awydd i ryngu bodd ein Duw a'n cymhella i iawn draddodi ein cenadwri; ac "iawn gyfraniad gair y gwirionedd" a fendithir ar ei ganfed; am hyny, byddwn ddoeth, byddwn fywiog, gostyngiedig, ac etto yn wrol, yn ddiniwed, etto yn gall; ïe, byddwn bob peth, fel Paul gynt, i bawb heb wyro trwch blewyn ar egwyddor, athrawiaeth, nag

un iot o'n cenadwri na threfn ein Duw, fel yr *achuber*, goreu po fwyaf, o'n gwrandawwyr. Y sawl a elo allan yn enw ei Dduw ac a wnel felly a fendithir i fod o fawr fendith i laweroedd. Etto, dymunem argraffu ar gôf ein brodyr, mai i ddysgu y byd, ac nid i gael eu dysgu ganddynt eu danfonir—i ddysgu yr hyn a ddysgwyd iddynt gan yr hwn a'u danfonodd, ac nid i gael eu dysgu gan yr ysgolheigion, at y rhai eu danfonwyd i'w dysgu, ac i dystiolaethu mewn sobrwydd, yr hyn a wyddant eu hunain nid yr hyn a gredant neu a obeithiant yn unig; mae ein hoes a'n gwlad wedi cael merwino eu clustiau, a syfrdanu eu synwyrau braidd, trwy bregethu "cred a gobaith" yn unig, yn lle "tystiolaeth," ac ammheuaeth ac ofn, yn lle "sicrwydd mawr yn yr Ysbryd Glân;" dinystrio ac nid achub byd a wna hyn, fel y mae ffeithiau galarus yn profi i ni y fod hyny eisoes wedi gyru ein gwlad rhy ddwl i gredu *ffaith ddwyfol brofedig*.

---

Newyddion Cartrefol.—Cymmafa chwarterol Gorllewinol Morganwg, a gynnaliwyd y Sul diweddaf yn Abertawy; ymgasgliad cyffredinol y Saint o'r gwahanol gangenau—siroldeb a chariad ynghyd ag ymddygiadau boneddigaidd yr oll a awgryment fod llwyddiant achos y Gwaredwr o ddyddordeb mawr yn eu golwg; a phrofai cynnrychioliad y cangenau yn y cwrdd boreuol, a'r pleidleisiad unfrydol, dieithriad, i'r holl fesurau a gynnygiwyd i'w cyd-weithrediad yn y chwarter dyfodol, y fod teyrnas Dduw ar ei chynnydd yn nghalonau ei haelodau, yn lliosogiad eu rhifedi, ac mewn sêl gynnyddol. Boddhaol iawn oedd clywed ymroadau y Saint yn mhob cangen i werthu traethodau, ac i dalu am lyfrau; eithr mwy pleserus genym oedd clywed yr holl gynnrychiolwyr yn cyd-dystio fod yr Arglwydd yn arddel eu llafur drwy gyflwyno mwy-fwy o fendithion,—doniau yr Ysbryd Glân, undeb a chariad y mhob mau yn gyferbyniol i'w diwydrwydd: cymhella hyn i fwy diwydrwydd, a chryfha y ffydd yn gyferbyniol i'r prawfiadau a geir o gymeradwyaeth Duw.

Gorphwysai Ysbryd Duw yn nerthol ar y gwahanol Lywyddion a'r holl rai a bregethasant yn y cyfarfodydd drwy y dydd. Amlwg y gwelid amcanion daionus y Llywydd a'i gyd-weithwyr, nid yn unig yn eu hymdrechiadau i iawn reoleiddiad ac i dalu eu hen ddyledion ond hefyd yn eu penderfyniadau i lod

aenu y gwaith hwn i fanau lle nad yw; nid boddlon ydynt hwy, mwy na'r brodyr ffyddlon yn Sir Fynwy, i gyfyngu eu llafur o fewn cyffiniau eu siroedd; eithr, y Llywydd yn gyntaf, fel milwr dewr, a gynnygiodd ei hun i fyned a'r genadiaeth hyd gyffiniau Cymru lle y mae mwyaf o anghen am ei lafur, a thaer erfyniai ar ei frodyr i efelychu ei esiampl drwy ddyfod gydag ef; teilwng iawn o efelychiad yw hyn, a gobeithiwn y llwydda i gael llawer o frodyr ffyddlon, y rhai a allant lywodraethu eu hamgylchiadau teuluaidd fel ag i symud i weithio i fanau lle nad oes pregethu; ac y caiff lawer o'r swyddwyr, nad oes ereill yn dibynu arnynt, i fyned gydag ef i'r Gogledd; a thra y bydd ef yno bydd yn fanteisiol iawn iddynt hwythau. Cydunwyd i'r cangenau gynnorthwyo y rhai a allant fyned i bregethu drwy eu hanrhegu a thraethodau &c.—Cynghorodd y Llywydd fod cyfarfod bob nos Lun cyntaf o bob mis yn mhob cangen i gyd weddio am fendith ar lafur y cenhadon hyn, ac i gyfranu arian i brynu traethodau i anfon iddynt; a chan nad oes llyfrau yn cael eu gorfodi a'r unrhyw Gynnadledd heb eu hymofyn, buddiol i bob Llywydd cangen anfon drwy y prif ddosparthwr am ddigonedd o bob math o draethodau i fod ar law erbyn y cychwyna y brodyr. Penderfynwyd hefyd fod "Cariad Wledd," i fod nos Lun ar ol y Gymmanfa nesaf, ennill yr hon a fydd er cynnorthwyo lledaeniad y gwaith mewn lleoedd newydd. Pan y gwelwn ymroadau fel hyn gallwn ddysgwyl yn hyderus am lwyddiant cyferbyniol, yr hyn yw ein taer weddi barhaus.

---

## LYFRAU YN EISIEU.

I'R dyben o wneuthur Cyfrolau o'r "*Millenial Star*," "Udgorn," "Llyfr Mormon," a'r "Ath. a Chyf.," dymunir i Lywyddion Cangenau Cynnadledd Dwyreiniol Morganwg, gyfnewid a ni y rhifynau a feddant a'r law yn ol y dablen ganlynol; neu eu ceisio gan ereill a'u meddant yn eu cangenau mor gynted ag y gallent, a chynnorthwywn hwythau i wneyd cyfrolau cyfain drwy roddi iddynt yr un rhif o rai ereill yn eu lle. Cofier fod y lythyren E. yn y dablen, uwchben y nifer sydd yn ***Eisiau*** o'r gwahanol rifynau.

| Star, Cyf, 13. | | Etto 14. | | Ud. Cyf. 3. | | Etto 4 | | Ll. Mor. | | Ath. a Chyf. | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif. | E. | Rhif | E. | Rhif. | E. | Rhif. | E. | Rhif. | E. | Rhif. | E |
| 1 | 37 | 1 | 34 | 1 | 65 | 1 | 77 | 1 | 27 | 1 | 49 |
| 2 | 38 | 2 | 23 | 2 | 65 | 2 | 76 | 2 | 31 | 2 | 48 |
| 3 | 33 | 3 | 30 | 3 | 65 | 3 | 70 | 3 | 31 | 3 | 46 |
| 4 | 34 | 4 | 34 | 4 | 64 | 4 | 75 | 4 | 30 | 4 | 45 |
| 5 | 34 | 5 | 22 | 5 | 33 | 5 | 60 | 5 | 28 | 5 | 43 |
| 6 | 35 | 6 | 25 | 6 | 52 | 6 | 41 | 6 | 21 | 6 | 47 |
| 7 | 32 | 7 | 31 | 7 | 62 | 7 | 35 | 7 | 24 | 7 | 48 |
| 8 | 30 | 8 | 29 | 8 | 64 | 8 | 56 | 8 | 16 | 8 | 45 |
| 9 | 31 | 10 | 21 | 9 | 61 | 9 | 29 | 9 | 27 | 9 | 46 |
| 10 | 28 | 11 | 16 | 10 | 38 | 10 | 6 | 10 | 17 | 10 | 41 |
| 11 | 34 | 12 | 10 | 11 | 2 | 12 | 32 | 11 | 16 | 11 | 37 |
| 12 | 17 | 13 | 1 | 12 | 56 | 13 | 26 | 12 | 16 | 12 | 37 |
| 13 | 32 | 15 | 17 | 13 | 62 | 14 | 110 | 13 | 13 | 13 | 38 |
| 14 | 19 | 16 | 10 | 14 | 34 | 15 | 96 | 14 | 12 | 14 | 8 |
| 15 | 18 | 17 | 5 | 15 | 2 | 16 | 95 | 15 | 13 | 15 | 32 |
| 16 | 19 | 18 | 20 | 16 | 11 | 17 | 121 | 16 | 12 | 16 | 30 |
| 17 | 19 | 19 | 48 | 17 | 20 | 18 | 101 | 17 | 11 | 18 | 4 |
| 18 | 9 | 20 | 44 | | | 19 | 109 | 18 | 13 | 19 | 4 |
| 19 | 18 | 21 | 44 | | | 20 | 120 | 19 | 6 | | |
| 20 | 21 | 22 | 44 | | | 21 | 120 | 20 | 2 | | |
| 21 | 19 | 23 | 44 | | | 22 | 121 | 21 | 4 | | |
| 22 | 13 | 24 | 41 | | | 23 | 121 | 22 | 3 | | |
| 23 | 19 | 25 | 42 | | | 24 | 121 | 23 | 3 | | |
| | | 26 | 42 | | | 25 | 120 | 24 | 2 | | |
| | | 27 | 41 | | | 26 | 121 | 25 | 9 | | |
| | | 28 | 45 | | | | | 26 | 4 | | |
| | | 29 | 46 | | | | | 27 | 11 | | |
| | | 30 | 46 | | | | | 28 | 2 | | |
| | | 31 | 44 | | | | | 29 | 2 | | |
| | | 32 | 44 | | | | | 30 | 2 | | |
| | | 33 | 43 | | | | | | | | |
| | | 34 | 44 | | | | | | | | |
| | | 35 | 43 | | | | | | | | |
| | | 36 | 43 | | | | | | | | |
| | | 37* | 41 | | | | | | | | |

---

Hyderwn yr ymdrecha Llywyddiaeth pob cangen i'n cynorthwyo yn y gorchwyl o gyfroli y cyhoeddiadau hyn, o herwydd bydd hyny, nid yn unig yn eu cadw rhag difrodi, ond yn cyfoethogi y cangenau yn yr amser a ddêl; a bydd y rhai a gaffom ni yn eiddo i'r Gynnadledd. Dysgwyliwn y bydd y llwyddiant mawr sydd eisoes megys wrth y drws yn gwneyd marchnadfa dda i'r cyfrolau oll, a da eu cael. Hysbys yw mai cynnyddu eu gwerth y mae holl Lyfrau, yn enwedig cyhoeddiadau y Saint wrth y galwad parhaus, ond ofer, sydd am ol rif-

* O'r 37 byd yr olaf y mae eisieu 43 o bob un.

ynau " Prophwyd y Jubili," ac ol gyfrolau y " *Star*," y " *Times & Seasons*," &c. Mae cynnyddiant y gwaith hwn yn ei wneyd yn fwy dyddorol, ac y mae ei dragywyddol ganlyniadau yn gwneyd ei hanes boreuol yn fwy gwerthfawr o hyd. Yn mhen ychydig flynyddau etto, bydd y cyfrolau a feddwn yn awr yn anmhosibl i'w prynu am arian braidd; o ganlyniad, dysged profiad ni yn y mynedol i sicrhau i'n plant ar ein hol, yr hyn ni allant hwy gael iddynt eu hunain. Bwriadwn ddarparu i rwymo llyfrau cyn hir yn rhatach nag y gellir eu cael yn awr, am hyn ceir hysbysiad etto. Er mai ar gangenau y Gynnadledd non y galwn yn awr i lanw y dablen flaenorol; etto, crefwn syiw pob Llywydd Cynnadledd i'n hefelychu yn y gwahanol gangenau o'u cynnadleddoedd; lle y mae rhifynau *odd*, nac esgeuluser eu gwneyd yn gyfrolau. Sylw buan at hyn a'n boddhâ yn fawr.

## HYSBYSIAD, &c.

GWYNEDD.—Udganwn yn uchel a'r drigolion y Gogledd hyd eithafion eu cyffiniau i ymddeffroi i frwydr boethach na brwydr Armaggedon, neu i roddi eu harfau i lawr fel dynion gonest; ac wrth lywyddion a Saint dywedwn ymbarotowch i frwydr—gwisgwch holl arfogaeth yr efengyl; canys, y mae cedyrn yr Arglwydd a chleddyf dauiniog yr ysbryd yn dyfod i'ch cynnorthwyo a'r fyrder. Y mae Llywyddion Cynnadleddau, a Llywyddion Cangenau, a Henuriaid teithiol a'r oll o ddewrion y deau a allwn hebgor, yn galw am *Volunteers* yn awr, nid yn erbyn Nicholas ond yn erbyn cryfach a chasach gelyn—sef, ei feistr ef; a Duw y nef o'u plaid a ddyry iddynt fuddugoliaeth. Dysgwylir y bydd y Llywydd Robert Evans, a'r dosparth cyntaf o'i gatrawd, ynghyd a'r Henuriad Robert Parry, a chyfran o'i gatrawd yntau, nad beth am Gadfridogion Ysbrydol ereill, i ymweled a chwi erbyn y Cymmanfaoedd nesaf.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O EBRILL 12, HYD Y 11.—Sir Ddinbych, £1; Dwyr. Morganwg, £2 4s 7c; Sir Aberteifi, £2.

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Egwyddorion Gwirioneddol | 229 |
| Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg | 211 |
| Golygyddiaeth—Cynnyddiant Teyrnas Dduw yn Nghymru—Newyddion Cartrefol | 237 |
| Llyfran yn Eisieu | 242 |
| Hysbysiad, &c. | 244 |


MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A GHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 16.] EBRILL 29, 1854. [CYF. VII.


## DIFYRWCH.

GAN Y PRIF LYWYDD BRIGHAM YOUNG.

PAN yr eloch i ddifyru, neu i adfywiogi eich hunain mewn unrhyw dull pa bynag, os na allwch fwynhau Ysbryd yr Arglwydd y pryd hyny ac yno, fel y gwnelech pe mewn cyfarfod gweddio, gadewch y lle hwnw; ac na ddychwelwch i'r fath ddifyrwch neu adloniad, hyd nes y cyrhaeddoch feistrolaeth trosoch eich hunain, ac hyd nes y galloch reoli y dylanwadau sydd o'ch amgylch, fel y galloch gael Ysbryd yr Arglwydd mewn unrhyw sefyllfa y dichon i chwi gael eich lleoli ynddi. Y pryd hyny, ac nid hyd hyny, y daw yn weddus i'ch braint chwi, i'r eiddof fi, neu i eiddo unrhyw un arall o'r Saint, i ymuno yn y llawenydd a fwriadodd y Creawdwr er ein hadfywiogi. Dymunwn ar i chwi gofio hyn; ac fel y gwneloch, yr wyf yn ail-adrodd nad eich braint gyfreithlawn ydyw ymollwng i unrhyw beth mewn dull o ddifyrwch, *hyd nes y byddoch wedi cyflawni eich dyledswydd, a chyrhaedd gallu Duw* i'ch nerthu chwi at wrthsefyll a gwrthwynebu pob ysbrydion halogedig a ddichon ymosod arnoch, a'ch arwain ar gyfeiliorn; hyd nes y caffoch awdurdod trostynt, a thrwy eich ffydd, a gawsoch yn atebol i'ch gweddi a'ch deisyfiadau, y caffoch fendithion yr Ysbryd Glân, y gorphwyso arnoch, ac yr aroso ef gyda chwi yn barhaus.

Nis gallwch chwi byth gael fy nghydsyniad, i gyfuno mewn difyrwch ac adloniad hyd nes y byddoch yn y sefyllfa hon, hyd

nes y byddoch wedi eich arfer a'ch dylanwadu gan Ysbryd yr Arglwydd ein Duw. *Clywch hyn, chwi holl Saint y Dyddiau Diweddaf! A wnewch chwi wario amser eich prawf am ddim, ac ynfydu ymaith eich hanfodiad a'ch bodolaeth?* Cawsoch eich cyfansoddi, a'ch dwyn i fodolaeth i'r dyben o barhau yn dragywydd, os cyflawnwch fesur eich creadigaeth, gan ddilyn y llwybr uniawn, sylwi ar ofyniadau y gyfraith nefolaidd, ac ufyddhau i orchymynion ein Duw. Y pryd hyny, a'r pryd hyny yn unig, y gallwch ddysgwyl y bydd i fendith y bywydau tragywyddol gael eu cyflwyno arnoch. Nis gellir ei chyrhaedd ar unrhyw egwyddor arall. A ydych yn deall y bydd i chwi beidio a bodoli, y deuwch i *lawn ddiwedd,* trwy ddilyn y ffordd wrthwynebol?

Breintiau a bendithion Saint y Goruchaf Dduw ydynt lawer. Iël Yr oll ag y sydd yn y nef, ac ar y ddaear—teyrnasoedd, gorseddau, tywysogaethau, galluoedd, uchelderau, dyfnderau, pethau presennol, a phethau i ddyfod, gyda yr oll a allwch ei weled, ei glywed, neu feddwl am dano, ei sylweddoli, neu ei synied. Mae pob peth yn y nef, ar y ddaear, neu yn Uffern, er eich gogoniant, dyrchafiad, ac ardderchawgrwydd, os yn eich bywydau yr anrhydeddwch chwi yr Offeiriadaeth a gyflwynwyd arnoch; ac, yn yr amser cyfaddas, daw yr oll yn iswasanaethyddol i chwi, ond nid cyn hyny. Eithr os yr ymddarostyngwch i wasanaethu eich teimladau eich hunain, ac os na ddymunwch adeiladu teyrnas Duw, a santeiddio eich calonau, hwy a'ch arweiniant i lawr, a byddwch yn ddarostyngedig iddynt yn dragywyddol yn ddarostyngedig i'r gallu a'ch cystuddia ac a'ch poenydia chwi, ac a'ch dwg o'r diwedd i ddinystr; tra, os dilynwch y ffordd wrthwynebol, daw y teimladau a'r nwydau hyn yn ddarostyngedig i chwi; galluogir chwi i'w llywodraethu a'u rheoli hwynt, a pheri iddynt eich gwasanaethu chwi, ac iswasanaethu y gwrthrych a'r amcan oblegid y rhai eu planwyd yn eich monwesau.

Mynych yr edrychais ar bersonau yn myned heibio yn ol ac yn mlaen trwy ein Tiriogaeth, a'u clywed yn dywedyd. "Y rhai hyn ydynt y Mormoniaid hoenus; y rhai hyn ydynt y Mormoniaid llawen, ni welais i erioed y fath Gymdeithas!" Pa ham y mae hyn? Yn unig oblegid y mwynhant eu hunain, oblegid y cymmerant gymmaint cysur,

A yw dyn yn Sant, pan y delo i Eglwys Duw o dan y fath ddylanwadau, heb ond yn unig o herwydd yr ymddengys y Saint iddo ef yn ddedwydd? Na, nid yw ef ddim. Nis dichon i un person fod yn Sant, oddigerth iddo dderbyn yr Efengyl santaidd, a hyny o herwydd ei phurdeb, ei chyfiawnder, ei santeiddrwydd, a'i thragywyddol barhad. Gogwydda pob peth arall at ddarfodedigaeth, didoliad, a diddymdra; na, nid diddymdra, yn ol fel yr arferir y gair gan rai; canys nid oes y fath egwyddor a hyn, ond ymddattodiad neu ddadansoddiad, ac ymollyngiad i'r elfenau cyntefig.

---

## CYMMANFA DDWYREINIOL MORGANWG.

[Parhad o dud. 217]

Pa les son am fyw yn Seion, heb geisio byw fel y dylem yma? Pa ennill sôn am fyw mewn gorfoledd, heb ymdrechu byw wrth ewyllys Duw mewn gorthrymderau? Am gael dangos ei nerth mewn gwendid y mae Duw.—Rhoddwn, Saint, ein holl ymddiried yn yr Arglwydd, am fwyd a dillad, am gwsg a bod yn effro, am ddoniau yr Ysbryd, ac am fywyd tragywyddol. Boddlonir Saint Cynnadledd Abertawy gan yr Udgorn; y maent yn deall llais eu bugail ac yn ymddiried ynddo. Llwyddiant mawr sydd yno; a'r llywyddion ac ereill yn derbyn y doniau ysbrydol. Y maent hwy, fel finnau, ac ymddiried yn ein Llywydd. Rhoddwn ein hunain yn eiddo i'r Arglwydd, gan fwyta, yfed, a gwneyd yr oll a wnelom er ei ogoniant. Efe a ofala yn un a'i addewid. Ein hymdrech a fyddo am fyned yn mlaen ar gynnydd mewn santeiddrwydd, gan fwrw ein holl ofal arno, a chan roddi ein holl ymddiried yn yr Arglwydd am ei Ysbryd, trwy Iesu Grist. Amen.

Y Llywydd Jones,—Gwir ymddiried a gynnwys ufyddhau i'r gwirionedd, o gariad atto, am mai gwell genym gael gwneyd ein dyledswyddau na pheidio. Gan mai diammheuol genym y cyflawna Duw ei addewidion, a chan fod difyrwch, lles, a bendith wrth wneyd ei ewyllys, dylai hyny ein tueddu i ymddiried ynddo Ef, trwy beidio a gadael i ffaeleddau personau attal ein hymddiried yn Offeiriadaeth Crist, yr hon sydd yn berffaith ddi lwgr. Rhyfedd i blant *Banker* ofni tlodi, a *cheek* yn eu meddiant? Pen *Banker* y byd yw ein y Tad ni. Dylai fod genym ymddiried yn

ein gilydd, gan ymdrechu lleshau ein gilydd. *Rhyfedd a fyddai* i filwr, ddywedyd wrth y llywodraeth wladol, neu i angel amgen ymu a Duw, a gofyn ai nid fel a'r fel a fyddai oreu! Ryddai hyny yn sarhad ar y synwyr a'u hanfonodd i weinyddu. Gan fod y milwyr yn ufyddhau trwy ymddiried i synwyr y llywodraeth wladol, wrth fyned i'r frwydr yn erbyn Rwssia, a gaiff plant y byd hwn fod yn gallach yn eu cenedlaeth na phlant y goleuni?

Os ydym am gyd-fwynhau yn Seion, ymdrechwn gynnorthwyo yr ymfudiad tuag yno; a thalwn ddyled ein Cynnadledd. Daeth cenadon o Seion, gan ymddiried yn y llywyddiaeth; cynnorthwywyd hwy yma i fyned i Benrhyn y Gobaith Da; a mawr fel y llwyddodd yr Arglwydd hwynt, er achubiaeth dynion yn y lle hwnw. Gan i'r Arglwydd gyflawni ei addewid, ac ymddiried i'n haddewidion ni, a thalu llog hefyd, a gaiff ein haddewidion, at y genadaeth hono, aros heb eu cyflawni? Cofiwch am y llyfrau: da a fyddai genyf weled ceiniog wedi eu thalu, am bob tair ceiniog sydd ddyledus—Ymdrecher talu am y llyfrau sydd ar law; ac yn lle eu gadael i wëodd y pryf copyn, neu yn fwyd i lygod, taler am danynt, a gwasgarer hwyut yn ymborth eneidiau: gwesgarer y traethodau, gan brofi yr ystyriwn ni yr Arglwydd yn deilwng o'n holl ymddiried—Rhodder pob moddion da mewn gweithrediad; gan ofalu yn ddyfal am fod dan fendith yr Ysbryd Glân, yn ymddirìed yn yr Arglwydd, mewn cwbl ddiwydrwydd mewn pob gwaith da, trwy Iesu Grist. Amen.

Terfynwyd, gyda bendithiad gan yr Henuriad Thomas Giles, Tredegar, a chanodd y Côr yn gampus hynod.

*Hanner awr wedi chwech.*—Canodd y Côr, "yn gyntaf ceisiwch deyrnas Dduw." Gweddiodd y Llywydd Daniels, a chanwyd "chwi etholedig bobl Dduw."

Gwedi i'r Llywydd Jones, gryhwyll ei obaith mai dyben pob un ydyw cael a derbyn lleshad, trwy wrandaw credu. a gwneyd y pethau da a ddysgir iddynt,

Y Llywydd Jeremy, a roddodd hanes ei daith yn Nglogledd Cymru, dull y bobl yn ymddwyn tuag ato, agwedd y Saint, ac annogaeth i'r brodyr a allont, ymweled a'r Gogledd, a phregethu yno yr Efengyl.

Adroddodd hanes ei ddychweliad. trwy offerynoliaeth y Llywydd Jones, at y Saint; a chan fynegi y fath oedd ei brofiad ar yr amser hwnw, dywedodd bethau tueddol i lesoli proffeswyr

ieuainc; a mawr y daioni a wnaeth i lawer trwy hyny. Dywedai am yr erlid a gafodd; ac hefyd, ei fod o'r dydd y bendithiodd yr Arglwydd Ef, trwy ei Ysbryd, hyd heddyw, yn gwybod mai Eglwys Iesu Grist yw hon.

Canodd y Côr yn odidog.

Y Llywydd Jones.—Ymddengys yma bawb yn ddifyrus, a chlywsom yn fanwl iawn am y ffordd sydd yn dechreu rhai yn Nghrist, gan y brawd Jeremy. Gwers dda, oedd clywed am y modd yr erlidid un oedd ieuanc yn yr Eglwys; ond y wers bwysicaf, oedd un yn taro ar y testun y meddyliais ddywedyd ychydig arno; sef, y wers i'r swyddogion, am iddynt ymdrechu myned i'r gogledd, a phregethu yno yr Efengyl. A yw ein hiraeth, am i ereill fwynhau bendithion yr Efengyl, mor rymus a'n hiraeth am y gobaith a osodwyd o'n blaen ni; sef, bywyd tragywyddol? Nid ydym, fel y syiwais o'r blaen, i fod yn segur. Ystyriwn werthfawrogrwydd eneidiau anfarwol. Pe na buaswn yn Llanybydder, buasai y rhai gonest a gredasant heb glywed hyd yn hyn, heb i rywun arall fyned. Mae yma frodyr, a chanddynt y trysor mewn llestri pridd, wrth yr ugeiniau ar cannoedd. A allwn ni sefyll yn y farn, a dywedyd i ni wneyd yr oll a allasem tu ag at achub eneidiau? A yw pregethu wedi darfod? Bu llythyru ataf fod trefi, plwyfi, a siroedd yn Nghymru, heb bregethu o'u mewn, ac eisiau pregethwyr ynddynt. A gawn ni segura, gan beidio ymdrechu anfon yr Efengyl at y lluoedd sydd ochr yn ochr a'u gilydd, oddi yma hyd i Gaergybi, heb un i lywyddu arnynt? Pwy a aiff? Pwy a wna ateb, "Wele fi, anfon fi?" Pwy a ddywed, "Myfi a âf?" Haerir gan rai nas gallant, am eu bod yn gweithio; a'u bod er gweithio yn galed, yn myned dlotach dlotach o hyd. Pa ryfedd eu bod yn myned dlotach dlotach, a hwythau, trwy ymdrafferthu am arian, yn anufyddhau i Dduw, gan beidio a phregethu yr Efengyl i'r bobl? Dywed ereill nas gallant, am eu bod yn myned i briodi: nid wyf yn erbyn i ddynion briodi, ond dymunwn sibrwd yn ynghlustiau y menywod, am iddynt beidio myned a dynion ysydd a'r Dduw eu heisiau. Prioded dyn pan fyddo ganddo amser; eithr gwnaed waith yr Arglwydd yn gyntaf. Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder Ef, a phob peth arall a roddir i chwi yn ychwaneg Nis gallaf adrodd fy nheimladau wrthych am y peth hyn; yr ydych yn gwybod, am fod Duw wedi rhoddi gwybod i

chwi mai hon ydyw Eglwys Iesu Grist; gan hyny, onid yw yn ddyledus arnom fyned a phregethu gair yr iachawdwriaeth hon i ereill? Mae yma ddigonedd o bregethwyr ar yn ail a'u gilydd: ymwasgarer fel na chlywom lais ein gilydd yn pregethu, canys y mae Duw yn dywedyd EWCH. Ystyriwn nad digon yw a wnelom hyd nes y cyflawnom ein dyledswyddau tuag at yr Arglwydd. Ceir cymhorth, ond myned yn enw yr Arglwydd; na ddyweder "Myfi a awn pe byddai genyf fodd;" daeth rhai wyth mil o filltiroedd tuag yma, i blith dyeithriaid, ac o blith dyeithriaid gwledydd ereill; ond ai tybied yr ydym nas gallwn ni fyned, a phregethu, yn mhlith ein cydgenedl? Ai tybied yr ydym nas gallwn fyw a chael gwrandawiad yn mhlith ein pobl ein hunain y Cymry? Yr wyf yn cynnyg fod i bob llywydd cangen feddwl am ei ddyledswydd, a chymmeryd y peth hyn at ei ystyriaeth. Y mae fy nghalon yn teimlo wrth glywed galwadau taerion am bregethwyr i ddynion. Pwy a drydd yn wirfoddol i fyned a phregethu i'r bobl? Os ydym am wobr pobl fawr, gwnawn waith pobl fawr. Beth yw llais Duw at y rhai a gyflogodd i'w winllan a hwythau yn cymmeryd ei amser Ef, i wasanaethu eu teimladau eu hunain? Yr wyf yn gobeithio y caiff fy nghymhelliadau hyn eu priodol effaith, ac y daw swyddogian i godi a myned a gweithio gwaith Duw, trwy lafur cariad. Trwy ddiwydrwydd rhai gweision Duw y sefydlwyd cangen, a changenau, fel y bu i gynnadleddau ddyrchafu o honynt. Felly, trwy ddiwydrwydd a ffyddlondeb eu cyffelyb, y mae gwneyd a llwyddo etto. Mewn difrif, onid syndod yw fod dynion a gawsant gretydd, fod dynion a gawsant dystiolaeth sydd ddigon grymus i'w tueddu i ymadael a chyfeillion, a pherthynasau, ac a gwlad eu genedigaeth, gan fyned filoedd o filltiroedd o ffordd; onid syndod meddaf, yw fod dynion felly heb ystyried y cyfryw dystiolaeth yn werth myned gyda hi a'i chyhoeddi yn mhob cwr o'u gwlad, i'r dyben o geisio dwyn ereill o'u cyd-genedl i fwynhau y cyffelyb fendithion anmhrisiadwy? Y bugeiliaid hyny, ag ydynt yn gweled y bobl yn eistedd yn mro tywyllwch a chysgod angau, ac heb rybuddio y bobl, sy fugeiliaid y bydd i Dduw ofyn gwaed y bobl oddiar eu dwylaw. Pwy a all fod yn ddifraw? Pwy a ddichon fod yn ddi awydd am ryddhau ei hunan o'r perygl o glywed Duw yn gofyn gwaed y bobl oddiar ei ddwylaw.

Hyfryd yw cyfarfod a'n gilydd, mewn Cymmanfa fel hon, a

gweled gwynebau Offeiriaid, a Henuriaid Eglwys Ddnw. Hyfryd iawn a fydd cael cyfarfod etto yn Seion, a dywedyd yno yr hanes fel y bu arnom yn Babilon. Frodyr, Gwyliwch! Gwyliwch i glywed yno na phregethasoch i'r rhai y gallasech bregethu iddynt fod megys angau yn y crochan i chwi! Mae cael bendith gan Dduw yn ymddibynu ar i ddyn rodio llwybr ei ddyledswydd. Nid oes genym hawl ar ein hamser, ein hiechyd, ein heiddo, na'n hunain; Duw a'n pia ni a'r oll sy genym; gan hyny gofalwn am roddi iddo Ef ei eiddo ei Hun! A yw ein tafodau yn barod i ddywedyd ein bod yn myned,—yn myned a phregethu i'r bebl? Mae yma bregethwyr mor liosog, nas gwyr eu llywydd pwy i'w alw i sefyll, rhag digio arall! Mae lleoedd ereill a rhy ychydig o bregethwyr yndoynt, ac y mae lleoedd hefyd heb un! Ceir mewn rhai manau ormod o lyfrau; gwasgarer hwy i leoedd nad oes ynddynt lyfrau, a gwasgarer y pregethwyr i leoedl y byddai yn fendith eu cael a'u clywed. Mae y byd yn brwydro, a dynion yn ymfyddino wrth y miloedd i ladd eu cyd-greaduriaid; ymfyddinwn, ac ymrestrwn ninnau i achub, i fywhau, ac i alw dynion at Dduw fel y caffont fywyd tragywyddol.

Yr wyf yn cynnyg fod cariad wledd i gael ei chadw yma, ar ddiwedd ein cyfarfod Cynnadleddol nesaf, a'r arian a fyddo tros ben y draul i'w rhoddi at gynnorthwyo y rhai a ânt i bregethu trwy y wlad: egyr yr Arglwydd ffordd; gofala Ef am danom; a deffroer ni oll at ein dyledswyddau, a gwneyd fel y gallom roddi cyfrif yn llawen. Y Tad tragywyddol a'n bendithio a chflawnder o'r Ysbryd Glân, trwy Iesu Grist. Amen.

Y Llywydd Daniels.—Hyderai fod pawb yn awyddus i wneyd gwaith y cynhauaf mawr; gwybyddus iddo fod anghen llafurwyr: ac wedi llafaru yn fywiog a serchus, er annogaeth i bregethu trwy y wlad, crybwyllodd fod gwaredigaeth yr holl rai ffyddlon yn agoshau; ac mai ein braint yw boddloni i gyd ymffurfio ag ewyllys dadguddiedig Duw. Llawenhai yn herwydd yr arwyddion fod pob ymddiried gan y Saint yn y swyddogion: erfyniai ar y rhai a allont, fyned a galw dynion o dywyllwch i oleuni; a bod yn henderfynol o'r newydd i wneyd yr oll a allont, tan arweiniad yr Ysbryd santaidd, er gogoniant y Tad, trwy y Mab, Iesu Grist. Amen.

Canodd y Côr yn rhyfeddol.

Yr Henuriad Thomas Giles, Tredegar, a ddywededd ychydig o

hanes ei ddecreuad gyda yr achos goreu: crybwyllodd rai amgylchiadau a'i cyfarfyddodd, a mynegodd lawer o bethau difyrus ac adeiladol, gan ddilyn annogaethau i fyned a phregethu, yn gyffelyb i fel y gwaeth y Llywyddion Jones, Jeremy, a Daniels.

Yr Henuriad Dewi Elfed Jones.—Mynegodd fod Cynnadledd Llanelli mewn teimladau da, yn gwellhau, ac yn mwynhau mwy nag arferol o Ysbryd Duw. Y bod gwrandawiad da gan y byd, a rhai o'r byd yn dangos eu caredigrwydd trwy roddi cynnorthwyon ond ei fod yntau hefyd yn teimlo yn ddwys tros y cyfryw garedigion, ac mai ei ddymuniad ydyw eu gweled yn dyfod i mewn i'r Eglwys, trwy gredu yn Nghrist, edifarhau am eu pechodau, cymeryd eu bedyddio er maddeuant pechodau, cael arddodiad dwylaw yr Henuriaid, derbyn o bonynt yr Ysbryd Glân, a dyfalbarhau hyd nes cyrhaedd gafael ar y bywyd tragywyddol mewn dedwyddwch.

Y Llywydd Jones.—Llanwyd ein llestri yn dda heddyw. Dymunwn i'r henuriaid fod bob amser yn ymdrechgar am lenwi meddyliau eu gwrandawwyr a phethau da Pe eu llenwid a phob math o bethau, byddai perygl i'r naill beth redeg trosodd, a'r llall, na fyddai gystadl, yn aros i mewn. Gobeithiaf yr a pob Henuriad ac offeiriad allan mewn ufydd-dod i'r alwad ddwyfol, i ymdrechu achub y dynion sy mewn tywyllwch, yn myned tua cholledigaeth. Pwysigrwydd y gwaith a orphwyso ar ein meddylian, gyda difrifoldeb, gan fod yn awyddus i gyflawni holl ewyllys Duw, tan arweiniad yr Ysbryd Glân, trwy Iesu Grist. Amen.

Canodd y Côr "Mae'r boreu'n agoshau, &c.," gyda nerth bywiog, medrusrwydd peroriaethol, ac effeithiau dymunol anghyffredin.

Terfynwyd, gyda bendithiad, gan yr Henuriad John Evans, Aberteifi.

---

## UNOLIAETH DYBEN.

Un Dyben, da ei wybod,—yw cwlwm
Calon y bydysod:
Sef, rhoi glân gynnwysfawr glod
Gorodidawg, i'r Duwdod!

Robyn Ddu, Eryri.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

DYDD SADWRN, EBRILL 29, 1854.

HANESION EGLWYSIG CARTREFOL.—*Llu o Offeiriaid a Pharchedigion, yn pregethu Mormoniaeth.* Swn mwy hoff a sain mwy hyfryd am fedyddiadau, cynnyddiant doniau, ac ymroadau i ymgrefydda, a gyrhaedda ein clustiau yn barhaus o wahanol ddosparthiadau yr eglwys Gymreig; cyd-dystia ymroadau adnewyddol pregethwyr gau grefyddau ein gwlad "i ddarlithio" fel y dywedant hwy, eithr i gamgyhuddo meddwn ninnau, yr hyn a alwant yn Formoniaeth, yngbyd ag ymddeffroad y diafol o'i gysgadrwydd i feddiannu pobl etto, y fod teyrnas Dduw ar ei chynnydd yn ein plith Er's ychydig yn ol y swn a glywid gan bregethwyr oedd, "gadewch lonydd i'r 'Mormoniaid,' peidiwch a'u herlid y maent yn marw o honynt eu hunain yn gyflym, rhwng y rhai sydd yn ymfudo i California, a'r rhai sydd yn troi yn ol, buan y cawn lonydd ganddynt oll, na thrwblwch o'u herwydd." Ac felly nid oes llawer o ddarlithio wedi bod i'w herbyn er ys amser, oddieithr ambell bwt o ystori drwy y cyhoeddiadau, er cael gwaith chwerthin, ac ystoriau anllad a dwl yr "Offeiriaid" yn draethodau a baledi; ond pwy mor ddwl a chaelio dim a ddywed "Offeiriaid?" Hawyr! a oes rhywun mor anwybodus oddiyma i ben mynydd Epynt a bod heb wybod mai Offeiriaid, iselaf wasaidd ydynt i dad y celwydd, a'r unig wahaniaeth sydd rhwng eu celwyddau hwynt â'r eiddo y meddwyn a'r canwr baledi, neu eu tad eu hunain yw, fod tipyn mwy o sawyr *colegawl* ar eu hanadl hwynt; yr hyn, yn amser teyrnasiad y *bwcci bw* Revrendaidd ar synwyrau y werin. oedd yn gryn lysnafedd oddiamgylch cnwbyn o gelwydd go erchyll, a thrwy ei seimio â thipyn o rith duwioldeb hwthid i lawr gyddfau eu hudoledigion yn brysur; eithr nid felly yn awr; y mae pobl yn gwybod yr anghen o ddefnyddio eu trwynau eu hunain, a gwyddant wahaniaeth

rhwng sawyr pwll tomenau Offeiriaid a gwely pwsiau y gwirionedd; gwelant yn eglur pan edrychant drwy eu llygaid naturiol eu hunain, y rhai a roddes y Creawdwr yn eu penau, mai *spectol* yr Offeiriaid a wnai i bob peth edrych mor ddychrynllyd rhagor yw; y mae *magnifying powers*, neu *magicial force* y *spectol* Offeiriadyddol yn dyfod fwy i'r amlwg bob ymdrech a wnant i'w gelu. Pwy ond Offeiriaid duwiolfrydig y "*brif dywysogaeth*" sydd yn deilwng o gael "*Aladins lamp*" yr oes,—pwy a allai wneyd mwy o ddefnydd o honi i ddangos pob peth y peth nad yw, ac i ddangos y gwir yn gelwydd, a'r celwydd yn wir, y tywyllwch yn oleuni a'r goleuni yn dywyllwch, nag a allant hwy? Gan bwy y mae cymmaint o amser segur i ddweyd ac ysgrifenu celwyddau am grefydd eu cymmydogion, a phwy sydd yn cael cymmaint o arian am rwystro y werin i glywed a derbyn efengyl Crist ag yw Offeiriaid Babel, ac nid yw eu sel ronyn llai teilwng o'u cenadaeth, nag oedd sêl eu brodyr Baalaidd gynt; ac felly, paham ar nad hwy a deilyngant y *Lamp* ddefnyddiol hon, ag sydd bob amser yn dangos pob gwir yn gau, a da yn ddrwg. Ond beth am hyny? Dim, ond tipyn o hynt i'r Offeiriaid i wneyd eu gwaethaf, druain, nad yw Mormoniaeth yn hidio ddim mwy am danynt oll nag oedd Elias am gau-brophwydi Baal gynt. Ysgrechant, gwaeant, cordeddant eu celwyddau mor deg eu lliw â'u crysau gwynion, etto ni allant wneyd un niwed i Formoniaeth: y mae hi allan o'u gafael, a gwnant eu gwaethaf, ni fydd gwaeth iddi.

Ond i ddychwelyd oddiwrth yr Offeiriaid hyd nes y bo "y carth wedi tyfu;" yr oeddem yn bwriadu dweyd bod yr Offeiriaid yn cael help yn awr i bregethu Mormoniaeth; canys deallwn fod rhyw weinidog Wesleyaidd yn pregethu Mormoniaeth yn Llanymddyfri yn brysur iawn; methodd a chael neb i'w rwyd Wesleyaidd, a threia y rhwyd Formonaidd i ddal pysgod; *wel done*, Mormoniaeth! y mae hi yn fwy poblogaidd na Wesleyaeth, onide ni buasai y Wesley yn taflu ei hen rwyd gandrill ei hun i lawr, ac yn codi Mormoniaeth yn ei lle! Ond, i ddychwelyd at ein hanes; ust, do anghofiasom gyhoeddi y fod un arall yn pregethu Mormoniaeth y Llyn Halen; yn darlunio yr elephant, ei gyrn a'i garnau o'i goryn i'w sawdl yn Aberystwyth yn fuan; ow, ow, pa fodd yr anghofiasom udganu hyn, a'r gwr wedi bod yn California ei hunan! bydd yn siwr,

o ddweyd y gwir am y seintiau, canys y mae efe yn *elyn parod* iddynt; siwr y ceir y gwir gan y cyfryw, heblaw y mae efe yn *Wetleyad* hefyd; wedi bod yn addoli ac yn dilyn y Duw *melyn* hyd i California; ac yno yn deall iddo fyned i'r cerbyd go chwith yn ei gwsg, a chyn hanner deffro dianc yn ol i'w ei addoli ef yn Nghymru, yn hytrach dan yr enw o Formoniaeth. Pwy fuasai yn meddwl mewn difrif fod Mormoniaeth yn fwy poblogaidd na mwngloddiau nac California; mae y fod un Wesley, *bach* na *mawr*, mor selog dros Formoniaeth a dyfod yr holl ffordd oddiyno i Aberystwyth, i'w phregethu hi, pan y gallasai wrth aros yno lanw ei boccedau ag aur! O dyma ŵr ffyddlon, pwy nad el i wrandaw hwn a chredu pob peth a ddywed? Bid siwr, y gellir credu pob gair a ddywed hwn, o herwydd *gelyn yw* er y fod amryw o Formoniaid wedi dyfod o'r Dyffryn, a fuasent fyw flynyddau yno, ac yn awr yn Nghymru; ond ni allant hwy druain ddweyd y gwir cystal ag y gall y Wesley, tra na chafodd ond cip olwg ar y lle wrth fyned heibio. Ond beth am hyny? Dim yn y byd, lliwia ei ystori â'i frwsh a'i baent llawn cystal a phe gwir, a hawddach ei llyngcu.

Ond i geisio dychwelyd unwaith etto; yr hyn a geisiem ddweyd o hyd yw y fod y Parch. Mr. Jones, [*nid o Langollen* ond o] Capel Seion, Merthyr." Gweinidog parchus gyda y Bedyddwyr yn pregethu Mormoniaeth yn gampus iawn yn ol a glywsom! trueni fod ar Mr. Jones, gywilydd pregethu Mormoniaeth yn ei gartref. ond dianc mor belled â Llanelli Brych-einiog i w pbregethu; bid siwr, y buasai yn dda genym ni ei glywed yn pregethu Mormoniaeth, a ninnau yn ceisio a'n holl egni ei phregethu er's blynyddau bellach! Pa ham nad ym-ffrostiwn o gael cymhorth enwogion fel hyn i bregethu Mormoniaeth? Goreu po fwyaf a ddel; gan i ni gael y flaenoriaeth yn hyn, a digwydd bod yn gyntaf braidd i godi ein llais o'i phlaid, credwn fod i ni ryw fath a hawl i wahodd ereill at y gwaith, a gwahoddwn holl *Beirch* y wlad o bob sect, anffyddwyr a chref-yddwyr meddwon i'w rhegi, a'r deillion i ganu baledi iddi! Rhyw *interlute* bertiach nac a wnaeth "Twm o'r Nant" erioed a chwareua holl bregethwyr Mormoniaeth yn ein gwlad ni! Nid oes neb yn *edrychwyr* braidd, *chwareuwyr* yw pawb! Onid yw Mormoniaeth yn beth swynol hynod? Beth geir yn gys-tadl a hi i dynu sylw, a hithau yn beth bach "mor ddistadl a

disylw" hefyd! Wel, ni ddylai neb fod yn segur na diogyd pan y mae cymmaint perygl mewn Mormoniaeth ag i lusgo Mr. Jones, ar ei ffyn baglau yr holl ffordd bell hyd Llanelli i'w phregethu! Gyfeillion synwch, ymddeffrowch ar frys a deuwch yn mlaen i bregethu Mormoniaeth i gyd, fawr a man, o bob plaid a diblaid, y mae yn llawn bryd pan y mae cripples yn ymlusgo draws y byd i'r ymgyrch clodadwy! Ni raid i neb ddigaloni, gall pawb wneyd rhyw beth; ac nad beth a fo, gwell hyny na dim. Mae *Mormoniaeth*, yn air bir—fawr gynhwysfawr ac yn ddigon o destun i y nifer a fynoch o bregethau i chwi oll; ni raid fod byth allan o ddefnyddiau; y mae hi fel yr *India Rubber* yn stretchio o hyd po fwyaf a dynwch wrthi. Onid cofus yr holl ddarlithiau a fu drwy Gymru oll o Gaerdyf i Ddowlais, Rymni, pw, ïe, pob man a Chaergybi hefyd: ac nid yw hi fymryn llai o swm yn awr, na chyn iddynt oll ddechreu. Ymgalonogwn oll dyma ddigon o bwnc i ni oll; ïe, pwnc a bery yn newydd o hyd er fod pob un yn ei dro yn ei orphen—cath a naw gwaith bywyd mam cathau byd ynddi yw hon na arosa byth yn farw ar ol cael ei lladd a'i chladdu, ni fu eirioed greadures mor anfarwol a hon rhwng gewinedd na than ddannedd Offeiriaid, l'eirch. na Bel. ei hun! Mae yr oll yn ei lladd o hyd ac y mae hi yn fwy byw po fwyaf a leddir arni bob tro! Wel. pwy raid fod heb ddigon o waith ynte? Neb tra byw fo Mormoniaeth. Deuwch un, deuwch oll, deued holl uffernolion hefyd; pa wiw, pa waeth, deuwch yn nes gyfeillion, a gadewch i ni whispro gair bach i'ch clystiau; *ust*, gwrandewch, "*labour in vain*," coeliwch ddyn dwl yn dweyd rheswm; neu, rhag nad ydych yn deall Saesoneg, ac felly colli y *secret* hon, cyfiaethwn hi i chwi fel hyn; gwir Efengyl Iesu Grist yw Mormoniaeth, dywedwch chwi a fynoch, ac yr ydym yn ni gwybod hyny. Mae Duw o'n plaid ni a Mormoniaeth yn eich erbyn chwi a'ch gau-gristionogaeth dyfais eich tad, tad pob erlidigaeth a fu ar wir grefydd; ac yr ydych chwithau yn rhy ddwl i ddim os na welwch hyny bellach! Beth arall o ddifrif, meddwch chwi yw yr achos nad allech rhyngoch oll er treio eich gwaethaf ei lladd hi? Beth arali ond y Duwdod sydd ynddi a achosai iddi gipio yn ei chol y gonest galon o'ch ymyl, o'ch societies, o'ch setau o dan y pwlpudau; ïe, yn nes fyth; ani bai fod gwirioneedd yn ei chalon, a feiddiai hi fod mor eofn a

dringo i'ch pwlpudau yn awr ac eilwaith, a chwympo eich cewri heb eich cenad. Ac yn y man, yn lle eu dilyn fel y dylech, wbanwch "hoo-di-hoo" ar ei hol! Beth ond dwyfoldeb Mormoniaeth a ddaliai ei gafael yr y cyfryw drwy bob gwawd hyd angeu? O chwi, ddeillion ac ynfydion, a'i chwychwi a allwch ladd Mormoniaeth? Y symbwl caletaf ag y gwingasoch i'w erbyn yw; ac, hi a symbyla ei gwrthwynebwyr nes eu symbylu oll ynghyd at eu tad i gonglau pellaf gwlad annwn, a chant yno le ac amser i edifarhau am eu dwlni yn ceisio pregethu Mormoniaeth cyn deall beth oedd hi! Eithr unwaith etto dychwelwn o'n crwydriadau, a pha beth am yr holl ddwlni yna, ebe y darllenydd? Dim ond tipyn o ddifyrwch i lanw tudalenau yr UDGORN, heb allu cofio dim arall, efallai; doethach na Paul i'w y dyn na siarado beth dwlni weithiau; addawsom ninnau chwareu ambell *dune* ar boblogrwydd yr oes, drwy ein HUDGORN, ac ni wyddom am ddim mwy poblogaidd na Mormoniaeth: eithr crefwn gennad i adael ei phregethwyr sectyddol am ennyd i wrandaw ystoriau ei phregethwyr gwirioneddol hi, a barner wedi hyny pa rai yw y goreu.

Wel, y mae yr olaf wrthi hi â'u holl egni y ffordd y cerddwn, yn pregethu yn ol yr ysgrythyrau, ac yn bedyddio pobl gan eu hannog i fyw yn gyflawn a duwiol; tra y mae y lleill yn pregethu esboniadau a chredoau croes-ysgrythyrol, a chroes i'w gilydd, dan wban fel y *jackals* fod bendithion Eglwys Crist wedi darfod, ac nad oes eu heisieu. Etto, nid yw waeth beth, Mormoniaeth sydd drech, rhaid addef; ac yn lle marw, y mae mwy o fywyd yn eu gwythienau yn awr nag erioed; ac os na chyfaddefir hyny cyn diwedd y tymmor hwn, ni waeth genym gael ein galw yn gau brophwyd na pheidio.

Y mae rhai Llywyddion Cynnadleddau ar hyd y *South* yma, a rhai yn fwy gogleddol hefyd, rhy brysur yn bedyddio i ysgrifenu atom ni byth braidd i ddweyd yr hanes, a dim cofio ceisio gan eu hysgrifenwyr anfon hanes eu Cymmanfaoedd, na dim arall a geisiwn braidd. Wel, yn mlaen a hi, bedyddier yr oll a allwch, a phan gewch gyfle, gadewch i ni glywed a fyddwch wedi lladd eich hunain ai peidio!

Y mae galwadau parhaus am bregethwyr i wahanol siroedd, ac ambell un yn ymbarotoi i fyned rywbryd. Hysbysa yr Henuriad Jeremy fod argoelion da, ac amryw addewidion i

gymmeryd eu bedyddio yn Sir Frycheiniog; mae gwrandawiad ar y Saint, a chyffroad yn rhai o gapeli y Bedyddwyr o herwydd fod y Saint yn mwynhau y doniau ysbrydol, a hwy eu hunain yn amddifaid o honynt! Cryn wahaniaeth yw hyna hefyd! Mae yn werth chwilio i mewn iddo; er hyny, ni cheir mo honynt i y fath yna o Fedyddwyr pe ceisid hwynt hyd ddydd eu tranc; canys nid gwir, fond gau fedyddwyr ydynt. Dywedwn yn hyf, canys gwir yw, ac y mae y nefoedd drwy omedd iddynt y doniau, yn profi na hawliodd hwynt i fedyddio nac i ddim arall yn ei enw, ac ni waeth iddynt guro ei penau yn erbyn ei gilydd, neu yn erbyn post y drws, na cheisio gwir grefydd gyda hwy; ac achos da paham, o herwydd nad yw hi yno i'w chael iddynt eu hunain nac i neb arall.

Dywed yr Henuriad Jeremy, fod trefydd poblogaidd fel Aberhonddu, Talgarth, &c., &c., yn galw am bregethwyr yno, ac yn cynnyg gwaith i'r sawl a ddeuai yno. Frodyr, a gânt hwy alw yn ofer?

Hysbysa yr Henuriad D. Price y fod galwadau aml arno yn nghylchoedd Llanymddyfri, a thaer ddymuna am i ereill ddyfod i'w gynnorthwyo; y mae ef wedi dechreu bedyddio, ac addewion lawer; ac amryw Saint gwasgaredig yn taer erfyn am fugeiliaid i'w porthi, tra y mae traed cannoedd wedi rhewi yn rhosydd lleidiog y Gynnadledd hon, nes y mae lle i ofni nad oes ond ffrewyllau *Colera*, neu rywbeth tebyg, a ddichon eu fflangellu i'r manau y dymuna Duw eu cael. Rhynggdynt hwy ag ef am hyny. Tybiwn fod yn llawn bryd iddynt hwy ddefnyddio at y gorchwyl, pan y mae Offeiriaid a Pheirch, a'r diafol ei hun yn pregethu Mormoniaeth mor selog, rhag ofn yr aiff y lleill a'u gwobr; canys rhaid iddi gael ei phregethu gan rywrai hyd nes y byddo y gonest yn ei chofleidio, a'i gwrthodwyr yn ddiesgus.

Hanesion Eglwysig Tramor.—Ymddengys fod cyffroad adnewyddol drwy wersyll y Saint yn Lloegr a Scotland —ymdrechiadau mwy selog, bedyddiadau mynychach a mwy o fendithion yn cael eu mwynhau nag oedd er ys amser yn ol, yr hyn a ddyry fawr lawenydd yn eu plith; ac yn gyferbyniol i'w ffyddlondeb hwy y mae diwydrwydd Pregethwyr a Golygyddion i roddi cyhoeddusrwydd i'w cenadwri. Dyry llythyrau yr Henuriad Tramor, banes ddifyrus am hynt yr eglwys yn Ya-

ysoedd Sandwich; ysgrifena yr Henuriad R. Ballantyne, o Madras, lle y mae ganddynt er gwaethaf y cenhadon sectyddol, bedwar o leoedd i bregethu. Mae y dyhirod hyn, gweision y fall, wedi anfon yr holl ffordd i "wlad y beiblau," nid am feiblau ond am faledi a phob *hen ystoriau* am "Joe Smith, a Mormoniaeth," y rhai a brysur daenant yn mhlith Hindoos a Bengalees duon yr India, i'w rhywstro rhag credu y grefydd a ddesgrifia y Beibl; a mawr eu sêl i'w lledaenu a'u gwirio. A rhyfedd mor debyg eu chwaeth ydynt i'w brodyr sectyddol yn y wlad hon; yr un arfau, ac yn yr un fyddin y maent; ac mor sier a diammheuol yw i ni mai gweision Babel y'nt, ag yw hunaneglur i ni mai Efengyl Iesu yw y Formoniaeth a wrthwynebant; ac y mae hyny tu hwnt i ddadl er gwaethaf holl genhadon y ———. Bygythir y rhan hono o'r byd a newyn trwm o ddiffyg gwlaw; gwaith llawer rheitiach i Brophwydi Baal yw ymroi fel y rhai hyny gynt am dano er eu cadw o waith drygioni.

---

## HIRAETH AM SEION.

O Seion, Seion, hiraeth sydd
Am gael dy etifeddu,
Gan Saint yr Arglwydd nos a dydd,
Trwy holl ardaloedd Cymru;
Dynion ynfyd sydd i'n herlid,
Yma 'ngafael gwlad y gofid,
Llafur caled, newyn, syched,
A rydd Babel, a chaethiwed,
Ond gobaith llon a dwymn ein bron,
Y ceir o hon ymwared.

O Seion, Seion, gwlad y Saint,
Dyffrynoedd eppil Abra'm,
Lle ceir hyd fedd dda hedd ddi haint,
O dan Llywyddiaeth Brigham:
Melus foli beb byth ofni,
Y mae'r Saint yn mhlith prophwydi,
Nid oes erlid, poen, na blinfyd,
O fewn hoywfro Seion hyfryd,
Ond o dan nôd y nef mewn clod,
Ceir yno ganfod gwynfyd.

O Seion, Seion, câf cyn hir
Deyrnasu gyda'm Brenin,
Dros fil o flwyddi ar dy dir,
Yn mhell o gyrhaedd drycin:
Y T'wysog Michael a fydd uchel,
Gyda'r Saint yn Seion dawel,
Caiff hen Satan ôrwnt aflawen
Ei lwyr rwymo yn y gadwen,
A throi'r ei lu i dwyllwch du,
Am wrthod Crist i'w perchen.

O Seion, Seion, pryd caf fyw,
O fewn dy iachus gaerau?
Mae ynot wrandaw geiriau Duw
A rhodio ffordd ei ddeddfau:
Câf mewn temlau ordinhadau,
Ac augylaidd weinyddiadau,
Gweision Iesu a wnant ddysgu,
Pawb i berffaith glwm un teulu,
Yr wyf yn brudd bob nos a dydd,
Am gael ei rhydd feddiannu.

*Cwmbach.* DAVID S. HARRIS.

## CYMMANFAOEDD Y GOGLEDD, &c.

SIR Fflint, Mai 14eg; Sir Ddinbych, ar yr 21ain; Dyffryn Conwy, ar yr 28ain; a Sir Feirionydd, ar y 4ydd o Fehefin.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O EBRILL 18 HYD 25.—Morganwg Orllewinol, £3; Dwyreiniol Morganwg, £1 17s 3c; Llanelli, £7 0s 6c.

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau, i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street, Merthyr-Tydfil.*

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Difyrwch | 245 |
| Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg | 247 |
| Undeb | 252 |
| Golygyddiaeth—Hanesion Eglwysig Cartrefol—Hanesion Eglwysig Tramor | 253 |
| Hiraeth am Seion | 259 |
| Amrywiaethau, &c. | 260 |


MERTHYR-TYDFIL:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

Rhif. 17.] MAI 6, 1854. [Cyf. VII.


### PAHAM Y CERIR Y GWIRIONEDD?

GAN Y PRIF LYWYDD BRIGHAM YOUNG.

Am ba beth y cerwch y gwirionedd? A ydyw oblegid y medrwch ddarganfod prydferthwch yndo, ac am ei fod yn gydrywiol i chwi; neu ynte o achos y meddyliwch y gwna chwi yn reolwyr, neu yn Arglwyddi? Os y syniwch y cyrhaeddwch i allu ar y fath ddyben, yr ydych yn camgymmeryd yn fawr. Ystranc yw hyn o eiddo y gallu anweledig, y sydd ar led yn mhlith trigolion y ddaear, yn eu harwain ar gyfeiliorn, yn rhwymo eu meddyliau, ac yn gwyrdroi eu dealltwriaeth.

Tybiwch fod ein Tad yn y nef, ein brawd hynaf, y Prynlawdwr adgyfodedig, Iachawdwr y byd, neu rai o Dduwiau tragywyddoldeb, yn gweithredu ar yr egwyddor hon, i garu gwirionedd, gwybodaeth, a doethineb, am eu bod oll yn alluog, a thrwy y gallu hwn y medrent ddanfon diafliaid i uffern, poeni pobl y ddaear, arfer penaduriaeth drostynt hwy, a'u gwneyd yn druenus wrth eu pleser; hwy a beidient a bod yn Dduwiau; ac mor fuan ag y mabwysiadent ac y gweithredent ar y fath egwyddorion, hwy a ddeuent yn ddiafliaid, a chaent eu taflu i lawr mewn amrantiad llygad; peidia eangiad eu teyrnas, a deuai eu Duwdod i ddiweddiad.

Iaith, i drosglwyddo yr oll o'r gwirionedd, nid yw yn bodoli. Hyd y nod yn y Beibl, ac yn yr holl lyfrau a ddadguddiwyd o'r nef i ddyn, mae yr iaith yn fethiedig i drosglwyddo yr holl wir

fel y mae. Bodola gwirionedd, doethineb, gallu, gogoniant, goleuni, a dealltwriaeth ar eu rhinwedd eu hunain. Nid ydynt, ac ychwaith nis gallant, fodoli ar unrhyw egwyddor arall. Gwirionedd sydd gydnaws a'i hunan, ac y mae goleuni yn glynu wrtho ei hunan, y mae yn ymgeisio ar ol ei hunan, ac yn ymlynu wrtho. Yr un fath yw gyda gwybodaeth, a rhinwedd, a'r holl briodoleathau tragywyddol; y maent yn dilyn ar ol ac yn tynu eu gilydd. Trugaredd a lyn wrth drugaredd, o herwydd mai trugaredd ydyw; goleuni wrth oleuni, am ei fod yn oleuni, ac nid oes yna ddim tywyllwch, ddim hocced nac anwiredd ynddo. Gwirionedd a lyn wrth wirionedd, oblegid ei fod yn wirionedd, ac y mae yn bodoli, o herwydd ei fod yn briodoledd o Dduw, o herwydd ei ardderchawgrwydd, ac oblegid ei hunan. Ar yr egwyddor hon y mae i'r egwyddorion hyn gael ei dal, eu parchu, a'u harferyd. Unrhyw bersonau, meibion neu fenywod, nad ydynt yn derbyn yr egwyddorion hyn oblegid y cariad a ddygant tuag atynt, o herwydd eu prydferthwch, eu hardderchawgrwydd, a'u gogoniant; ac oblegid eu bod yn gydnaws a'u teimladau ar 'yr egwyddor hon, nid ydynt yn Saint! Hwy a fodolant ar eu bonsang eu hunain, ac ymorphwysant ar eu sylfaen eu hunain. Ni all tragywyddol gyfiawnder, trugaredd, cariad, a gwirionedd byth gael eu symud; y maent yn briodoliaethau ag ydynt yn gyfatebol ac yn gydrywiol a'u gilydd: y maent yn dyrchafu y naill y llall, yn amgaeru y nefoedd, a Duwiau, a'r hyn a feddiannir gan y Duwiau.

Yn awr, edrycher ar yr ochr wrth gyferbyniol i'r egwyddorion hyn. Tybier y dywedech, "Nyni a roddwn i fyny ddilyniadau ein crefydd santaidd. 'Nid ydym yn Saint y Dyddiau Diweddaf. Gadewch i ni fyned a cheisio ar ol pethau y byd, rhagfasgnachu, ceisio i ni ein hunain oludoedd, troi ymaith oddiwrth ein dyledswyddau, esgeuluso y pethau perthynol i ein hiachawdwriaeth, myned gyda y penchwiban, y gwael, a chyda cheiswyr ar ol aur, i California, Awstralia, neu ryw le arall, i'r dyben o gaffael cyfoeth." Dywedaf wrthych y canlyniad o'r yrfa yna. Chwi a beidiech a chynnyddu, yn holl briodoliaethau adderchawgrwydd, gogoniant, a thragywyddol barhad, o'r foment benodol hono. Gan gynted ac y byddai i chwi ymddwyn ar y fath feddyliddrychau, hwy a gant sail o'ch mewn yn barod i'w maethu hwynt, a dygai allan eu heffeithiau

arswydus; ac o'r foment hono, chwi a beidiech a chynnyddu. Ymafaelai yr egwyddor wrthwynebol ynoch, ymsicrai ei hun arnoch chwi, a byddai i chwi ymdreulio, lleihau, ymgwttogi, adfeilio, ac ymddihoeni ymaith mewn ansawdd, ardderchawgrwydd, a nerth, hyd nes y delai eich cyd-drefniad yn ddiffoddol; cbargofiant a'ch gordöai chwi, symudid eich enwau ymaith o Lyfr y Bywyd, o'r nefoedd, o'r ddaear, ac o odditan y ddaear, a dychwelech, a soddi i'ch elfenau naturiol, y rhai na ellir eu dinystrio; ac er i lawer ddarllen y Beibl fel yn trosglwyddo y fath feddylddrych etto nid yw.

Yr egwyddor wrthwynebol i'r un o dragywyddol gynnydd o'r dechreuad, a arwain i lawr hyd uffern; mae y person yn lleihau, yn colli ei wybodaeth, teimlad, talent, ac o'r diwedd mewn ystod byr o amser, y mae yn golledig; efe a ddychwel i'w fam ddaear, a'i enw wedi ei anghofio. Eithr yn mha le? O! yn mha le y mae ei Ysbryd? Ni chymmeraf yn awr yr amser i ddilyn ei dyngedfen; ond gellid arfer iaith gref yma, canys pan y dadguddir yr Arglwydd Iesu, wedi terfyniad y gorphwyso am y mil blynyddoedd, bydd iddo wysio byddinoedd y y nef i'r ymdrechfa, efe a ddaw allan mewn tân fflamllyd, efe a ddisgyn i gwblhau eirchion Duw llidiog, ac, ynghanol taranau digofaint Hollalluawgrwydd, bydd iddo ef rolio y nefoedd fel memrwn, a dinystrio marwolaeth, a'r hwn y mae ei allu ganddo. Teflir y rhai gwrthryfelgar yn ol i'w helfenau cyntefig, yno i aros fyrddiynau o flynyddoedd cyn yr adfywir eu llwch, a chyn eu hail ad-drefnir. Dichon i rai ddadleu y byddai i'r egwyddor yma arwain i ail ddad-drefniad Satan, a'r holl ddiafliaid. Nid wyf fi yn dywedyd dim ynghylch hyn, heblaw a ddywed yr Arglwydd—mai pan y delo, "y bydd iddo ddinystrio marwolaeth, a'r hwn sydd a'i nerth ganddo." Nis gellir ei ddiddymu; ni fedrwch ddiddymu defnydd. Pe y gallech, profai fod cyfwng gwag. Pe gallai athronwyr ddiddymu y swm leiaf a ddichon i un ei ddirnad o ddefnydd, medrent wedi hyny brofi y bod yna y gwagder manylaf, neu gyfwng gwag; ond nid oes hyd y nod hyny, ac y mae y tu hwnt i allu dyn brofi y bod yna unrhyw.

## IACHAD DYN MUD A BYDDAR.

*(Dyfyniad o Lythyr at y Llywydd S. W. Richards.)*

ADRODDAF yn awr amgylchiad dyddorol, a ddaeth gyda'm gweinyddiad fy hunan ar brawd Dille, ychydig amser yn ol, a'i adael i chwi wneyd ag ef yn unol a'ch callineb.

Gadewais Manchester, ar y 28ain o Fawrth, i lenwi penodiad yn Rochdale. Cyflwynodd pedwar o bersonau eu hunain y prydnhawn hwnw am fedydd; y rhai hyn oeddynt Mrs. Howarth, gweddw, merch iddi oddeutu un mlwydd ar bymtheg ei hoedran, a mab deng-mlwydd, hefyd brawd i Mrs. Howarth, Halsden Marsden, bachgen deunaw mlwydd ei oedran, yr hwn a anwyd yn fud a byddar.

Cefais beth ymddyddan a Mrs. Howarth, am a oedd y bachgen wedi ei hyfforddi yn addas mewn perthynas i'r ordinhad o fedydd. Mynegodd ddarfod iddi ei hyfforddi, y gallai ef ddarllen yn dda ynghyd ag ymddyddan yn rhwydd trwy iaith y llaw. Modd bynag, cymmerodd y brawd Dille, lachen ac ysgrifenodd arni y gofyniad canlynol, "A oes arnoch eisiau eich bedyddio er gollyngiad o bechodau? Os oes, byddwch mor dda ag ateb." Gofynodd y bachgen i'w chwaer am ystyr gollyngiad. Atebodd hithau mai maddeuant. Yna, efe a ysgrifenodd ar y garreg y gair, 'Oes," yn ateb, ac a'i rhoddodd i'r brawd Dille. Argraffwyd arnom ar unwaith y derbyniai y dyn ieuanc ei glyw a'i leferydd, a dywedasom felly wrth ein gilydd.

Aethom yn awr tua lle arferol bedydd, a bedyddiodd y brawd Dille hwynt. Yna dychwelasom i dy y brawd Rigg, lle y cadarnhasom hwynt. Gweinyddais i ynghadarnhad y dyn ieuanc. Teimlais i ofyn, tra ein dwylaw ar ben y dyn ieuanc, am iddo gael ei wneyd i glywed ac i siarad. Yna dywedasom wrth ei chwaer, os y deuai hi etto gyda ei brawd yn y boreu, yr eneiniem ef i'r dyben iddo gael ei glyw.

Yn y boreu, ceisiasom beth olew, a chyssegrasom y cyfryw, a phan ddaethant hwy, aethym yn mlaen i weinyddu yr olew. Rhoddais iddo ychydig o'i fewn, fel y cyffyrddai a'i dafod; cymhwysais beth hefyd oddeutu ei glustiau, a dyferais beth iddynt, yn enw yr Arglwydd, gan weddio ar fod i'r dyn ieuanc gael ei fendithio a chlyw ac a lleferydd. Gweinyddodd y brawd Dille yn nesaf, fel y dodem ein dwylaw ar ei ben ef, ond ni bu i'r brawd

Dille siarad gyda yr hyder hwnw ag y sydd heb ammheuaeth—mi ddywedodd ef ddim yn gadarnhaol.

Teimlais wedi fy siomi ychydig yn fy ysbryd, ac ar ol ystyried am ychydig fynudau, digwyddodd i mi feddwl y dylem weithredu yn ein cymhwysderau swyddol, "fel dynion a chanddynt awdurdod," oblegid i'r dyben hwn yn galwyd ac ein hanfonwyd; ac mewn lleoedd na byddo neb drosom mewn awdurdod, y rhaid i ni weinyddu dros ac yn lle Duw ar y ddaear. Mynegais fy nheimladau, a dywedais fy mod yn meddwl y dylem orchymyn i bob rhwystr i'w glyw a'i leferydd ymadael oddiwrtho, yn enw yr Arglwydd. Cydsyniodd y brawd Dille. Felly dodasom ein dwylaw trachefn ar yr ieuanc, a cheryddais bob rhwystr i'w glyw a'i leferydd, yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, a gorchymynais yr unrhyw i ymadael ag ef, fel y caffai efy gallu o lefaru a chlywed i'w roddi iddo, a dywedais, mai hyn a fyddai ei fendith, os byddai iddo ei derbyn mewn ffydd, er tystiolaeth iddo, ac i bawb ag oeddynt adnabyddus ag ef.

Mynegodd ei chwaer iddo yn awr yr hyn a seliasom arno, os byddai iddo ef gredu. Llawenhaodd yn fawr, ac ymddangosai i bawb fod yr ysbryd yn gorphwys arno yn rymus. Dywedodd ei fod yn credu, trwy droi ei fawd i fyny, yr hyn a arwyddai unpeth ag oedd dda. Mynegodd hefyd ein bod ni yn ddynion Duw. Agorodd y Beibl ar y hennod olaf o St Marc, a phwyntiodd at eiriau yr Iachawdwr wrth yr Apostolion, a'r addewid i'r rhai hyny a gredant ac a fedyddir, y byddai i'r arwyddion hyn eu canlyn.

Yn awr aethom i dy ei chwaer, a chytunasom yn fuan mewn ymddyddanion pwysig mewn perthynas iddo. Canfyddais, oddeutu awr wedi gweinyddiad yr olew, y dangosai ef arwyddion clywed. Symmudais o'i glustiau y cotwm a ddodais ynddynt ar ol yr olew, a dymunais ar i'w chwaer ddarllen yr egwyddor iddo ar y llaw, ac ar yr un pryd i lefaru y llythyrenau. Dymunwyd arno sylwi ar symudiadau ei gwefusau ai thafod, a'i dynwared yn y sain. Canfyddasom y pryd hyny, er ein mawr lawenydd, y gallai ef glywed mewn gwirionedd, ac fel ei cyfarwyddwyd, canlynodd ei chwaer yn seinio pob llythyren yn yr ewyddor a llawer o honynt yn eglur.

Canfyddasom yn awr, feddylddrych na feddyliasom am dano o'r blaen, fod ganddo i ddysgu ystyr pob sain neu air, oblegid fod

pob sain fel eu gilydd yn newydd iddo ef, adroddodd y geiriau tad, mam, brawd, chwaer; ei enw ei hun, enw y brawd Dille, fy enw fy hun, ac amryw ereill. Yr oedd ef yn hynod foddhaol gyda y medrusrwydd a wnaeth. Ymddangosai fod ei glyw yn dyfod yn eglurach yn raddol, fel y daeth i glywed i foddlonrwydd eiriau a lafarid gyda nerth arferol y llais, pan eu cyfeiriwyd yn groyw ato. Arferasom ef hyd nes y gwnaeth i ni ddeall fod ei ysgyfaint yn blino. Gwelsom, wrth ystyried fod hyn yn resymol, o herwydd yr oedd yn wers gyntaf a gafodd erioed o'r fath. O ganlyniad gollyngasom ef ymaith y pryd hyny.

Hyfforddais ef chwaer i roddi iddo wersi mynych, ond nid i'w ddiffygio ef, oblegid er fod ganddo synwyroldeb dyn, rhaid iddo, fel plentyn, ddysgu cymhwysiad pob sain, a thrwy arferiad, ddysgu defnydd a gallu y tafod.

Yr oedd ei frawd, agosaf yn iau nag ef, wedi synu yn fawr. Dywedai na siaradodd ei frawd erioed o'r blaen, ac yn awr gwyddai fod yr hyn a bregethid genym yn eithaf gwirionedd, a'i fod ef yn barod i ufyddhau i'r Efengyl a chymmeryd ei fedyddio. Felly bedyddiasom ef yr awr hono. A llawenychasom oll yn fawr yn yr Arglwydd ein Duw.

Rhoddais i chwi hanes o braidd hir, ond tra manylaidd a ffyddlon o'r amgylchiadau a ddilynasant fedydd y dyn ieuanc hwn, gan gredu y bydd yn fwy boddhaol fel hyn, na phe wedi ei dalfyru yn ychwaneg, ydwyf, anwyl frawd, yr eiddoch, mewn gwirionedd yn y cyfammod newydd a thragywyddol.

JOHN S. FULLMER.

Gwedi bod mewn cyssylltiad am dynodi gyda yr amgylchiadau a adroddwyd uchod, yr wyf yn cymmeryd hyfrydwch mawr mewn tystiolaethu am danynt eu bod oll yn wirionedd.

DAVID B DILLE.

---

## Y GENADAETH YN YNYSOEDD SANDWICH.

*(O'r "Deseret News," Rhagfyr 15, 1853.)*

Honolulu Medi 9, 1853.

ANWYL FRAWD CAMPBELL.—Cyd rhwng y "Mormoniaid," a'r frech wen, mawr a fu y dymchweliad yn y lle hwn er pan y cyrhaeddasom, canys daeth y naill a'r llall i'r porthladd oddeutu yr un amser.

Pan ganfyddasom yr elai yn araf y gorchwyl o ddysgu iaith, o leiaf i rai o honom, bu i ni fabwysiadu y callineb o ordeinio pob brodor a feddyliasom y gwnelai unrhyw ddaioni, ac hyfforddiasom hwynt, gan eu gosod mewn gwaith yn Honolulu ac yn y wlad oddiamgylch. Cawsom yn fuan gyffroad mawr yn mhlith y bobl. Meddyliodd y brodorion mai peth mawr yw cael bod yn genadon, a gwnaethant y goreu a wyddent, fel mai buan y cawsant heolydd Honolulu yn llawn brodorion ac estroniaid yn myned i weled y "Mormoniaid" yn bedyddio, oblegid na welsant erioed neb yn bedyddio drwy soddiad yn y deyrnas hon, Hawaii. Gwnaethai i chwi edrych yn ddifyrus ein gweled yn cerdded wrth ben mintai o ddeg ar hugain neu ddeugain o gydymgeiswyr, ac o fil a phump cant hyd i ddwy fil o edrychwyr yn dwyn i fyny yr olyddion o frodorion ac estroniaid, cenadon a'u meibion, a'r oll yn dilyn y "Mormoniaid." Dywedodd rhai o honynt na chaniateid hyn ar y sabboth, a deisebasant y llywodraeth i ffurfio cyfraith i'r dyben hyny, either methwyd.

Yr oedd pob drws ynghau yn erbyn pregethu i'r poblogaeth estronol. Cymmerodd y brawd Thomas Karren, a minnau frodor ieuanc a fedrai siarad ychydig Saesneg, a chychwynasom am yr ynys Hawaii. Yr oeddym wyth niwrnod yn gwneyd y fordaith tra na ddysgwyliem fod ond tridiau, a buom mewn chwythiad trwm, yr hyn a rwygodd ymaith ein hwyliau, fel nad allem fyned i'r lle a fwriadasom. Daeth y Llywydd atom am gynghor. Dywedasom am iddo redeg o flaen y gwynt i'r porthladd goreu, y boddiai hyny ni. Gwnaeth felly, ac yr oeddym mewn ychydig oriau yn ddiogel mewn porthladd; nid yn y lle a ddewisasom ni fyned iddo ond yn y lle y dewisodd yr Arglwydd yn cael ynddo. Dioddefasom lawer ar y fordaith hon; dywedai Karren na ddioddefodd ef hanner cymmaint yn ei holl daith yn y catrawd ag a wnaeth yn y naw dydd hyn. Ni fwytasom ond un pryd yn ystod y fordaith. Pan laniasom, ni allem braidd sefyll, ac nid oedd cyfle at gael unrhyw beth i'w fwyta am gryn amser. Yr oeddwn yn myned i ddywedyd rhywbeth am fwyta, either y mae yn rhy anfoesgar. Ni bydiwn ond peryglu fy ngair wrth ddywedyd dim am ein lluniaeth; ac nis gallwn wneyd cyfiawnder a'r testun pe y ceisiwn.

Modd bynag ni feddyliasom aros, ond hyd newidiad y gwynt either aethom i bregethu, a'r boreu nesaf cyn boreu-fwyd bedydd-

iasom bump ar hugain; a chyn ein bod yn barod i adael, yr oedd genym Gangen mor fawr fel nad allem ei gadael. Yr oeddym yn cyfansoddi cangen trugain o aelodau pan ddaeth y llong yn barod i hwylio. Pan glywodd y llonglywydd am y peth oeddym yn ei wneyd, dywedodd mai dyna y rheswm nad allodd ef fyned i Helo; fod ganddo ef dri Jonah ar y bwrdd, a bod ganddynt i'w glanio yno.

Ar ei ddychweliad galwodd ef a'i ddynion i'w bedyddio, eithr nid oeddem ni yno.

Pan wybu y Cenadwr, yn yr ardal hono, yr hyn ag oeddem yn ei wneyd, galwodd ei ddëadell ynghyd, a hysbysodd hwynt yr ofnai eu bod oll yn myned i'w adael ef a myned at y "Mormoniaid;" ond os nad elent, y gostyngai ef ei dreth arnynt ddwy ran o dair; gallai y rhai a dalasant iddo bymtheg dolar a thrugain, dalu ond pump dolar ar hugain, a'r rhai a dalasant ddeg dolar ar hugain, dalu ond deg dolar, &c. Felly mae yr oll drwy ei eglwys, ac y mae hyny yn ddiwygiad mawr iddo ef, bid sicr.

Glaniasom ar yr ynys hon y 9ed o Fehefin, a gadawsom ar y 23ain o Awst. Bedyddiasom ddau cant o Saint y mis diweddaf. Wedi i ni fedyddio oddeutu cant a deg a deugain, bu ein cyfleithydd farw, eithr ordeiniasom amryw yn ychwaneg yn ei le.

Cyhuddwyd ni wyth waith ger bron yr Ynad; a chanfod y gallai ein Henuriaid a'n Hoffeiriaid newyddion ddwyn y gwaith yn mlaen, gadawsom a daethom i'r lle hwn i geisio adgyweiriad yn y gyfraith, oddiwrth yr uwch awdurdodau. Nis gwyddom yn bresennol pa beth a allwn ei wneyd, ac nid ydym yn gofalu lawer os na ffafriant hwy ni, gwna yr Arglwydd.

Cafodd y brodyr Lewis a Farrar eu taro i lawr a'u curo yn llymdost tra yn y weithred o weinyddu i'r cleifion: a phan achwynwyd wrth y Sirydd, dywedodd na wnaethant ychwaneg nag y parodd ef iddynt ei wneyd, ac yr oedd yn tueddu i beidio a sylwi ar yr achwyniad; eithr cymmerodd y brawd B. F. Johnson yr achos i fyny gyda y fath rym fel na ellid ei ommedd. Dirwywyd y terfysgwyr i'r swm bychan o 12 dolar.

Cynnyddodd nifer y Saint i oddeutu 1500 er pan y cyrhaeddasom yma: a meddyliwn y gallwn dreiglo y gwaith yn mlaen yn awr os gweithia yr Arglwydd gyda ni—ac yr ydym yn meddwl y gwna Ef.

Pregethasom fod awr barn Duw ger llaw, a dygodd y frech wen

dystiolaeth ffyddlon i'r ffaith—tybir i hanner poblogaeth y ddinas hon farw er pan ddaethom yma—ac nad yw ond arafu o eisiau dynion. Mae yn ymledaenu tros yr holl ynysoedd, ac y mae lliosogrwydd y rhai a syrthiant yn ysglyfaeth iddo wedi gofidio ein calonau. Marwodd yn y ddinas hon o 50 i 60 y dydd. Gorfodwyd hwy i wneyd cyfraith yn rhwymo dynion i gladdu eu meirwon heb eu gwobrwyo. Cychwynodd amryw yn ingoedd marwolaeth, a marwasant yn yr heolydd, a bwytawyd hwynt gan y moch a'r cwn.

Marwodd rhai o'n Saint brodorol, a chafodd rhai o'n Henuriaid estronol ymosodiad ysgafn; eithr ni arswydwyd hwynt ganddo—y maent yn parhau i weinyddu.

NATHAN TANNER.

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

### DYDD SADWRN, MAI 6, 1854.

EGLWYS DDUW yw *Goleuad*,—nid Lloer ond *Haul* y byd moesol; defnyddiol yw goleuni y Lloer ar noson dywell ddrycinog; da yw doethineb ddynol yn absennoldeb gwell; eithr cyffelyb ag i ddoethineb ddynol geisio sefydlu ac arwain eglwys Dduw yn lle y llall, a fyddai i'r Lleuad daflu ei harffedog dros wyneb yr Haul i guddio ei oleuni; ac megys y rhagora goleuni tanbeidiol haul y canol-ddydd ar oleuni y lloer, y tra rhagora goleuni "Haul mawr y cyfiawnder" ar ddoethineb holl ddoethion byd, i arwain eglwys Dduw. Megys yr adlewyrcha goleuni y blaenaf o'r naill i'r llall o'r mymrynau anweledig a lanwant yr eangder, y trosglwyddir goleuni Ysbryd Duw ar lygaid yr ysbrydol-ddyn a oleuwyd ganddo; ac mor anghenrheidiol ag yw i ddyn agor ei amrantau corfforol i dderbyn goleuni y naill, ydyw i'r dyn ysbrydol ymagor ei feddwl a'i gàlon i dderbyn y llall, o herwydd ni orfoda y naill na'r llall eu goleuni ar neb; ac mor anhebgorol ag yw dyfed

allan a'r tywyllwch i oleuni yr haul er ei ganfod, yw dyfod i eglwys Dduw, lle yn unig y ceir y *gwir* oleuni, er ymlesoli drwyddo.

Mor hunan-eglur ag yw goleuni yr haul i ddynodi ei fodoldeb, y dylai goleuni eglwys Dduw ymddysglaerio ar lygaid pob ymchwiliwr gonest am y gwir. Megys y rhagora y mwynhâd diddiwedd o gyflawnder mwyniant nefoedd ar deganau amserol byd, y rhagora defnyddioldeb y naill oleuni ar y llall; o ganlyniad sêl ac ymroadau plant y goleuni i oleuo ereill yw y ffeithiau mwyaf argyhoeddiadol o werthfawrogrwydd eu goleuni dwyfol, ac yn gyferbyniol i rym y goleuni a feddant yr adlewyrcha yn amlwg i ereill. Mor anghenrheidiol ag yw rhodio lle y tewyna goleuni yr haul er ei fwynhau yw, i blant Duw rodio ar hyd llwybr eu dyledswyddau er mwynhau goleuni Ysbryd Duw, canys ni ddaw efe i un man arall ond o fewn cylch ei rodfeydd, sef yn ei *eglwys*, "yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn" ebe Crist.

Mor undebol ag yw holl belydrau goleuni yr haul i oleuo byd, y dylai bod holl dystiolaethau, bucheddau ac ymroadau plant y goleuni i arddangos eglwys Dduw i'r byd. Megys nad yw un pelydr o ddefnyddioldeb ond i'r graddau y goleua y byd, felly y Saint nid ydynt o fwy defnydd i oleuo byd ond i'r graddau y llewyrcha eu goleuni iddo, mwy nag yw halen o ddefnydd er halltu os bydd wedi colli ei flâs. Mor ddiddefnydd ag a fyddai cylchdroad yr haul drwy yr entrych heb oleuo y byd, yw cylchdroadau dyn yn y byd heb oleuo y ffordd y cerddo. Megys na ateb yr haul ddyben ei gread heb ddangos ei oleuni, felly y dyn a dderbyniodd oleuni gan Dduw ni lesola ond i'r graddau yr adlewyrcha y goleuni hwnw i ereill. Mor ffol ag a fyddai goleuo canwyll a'i dodi o dan lestr, fyddai i ddyn guddio y goleuni a'r hwn y goleuodd Duw ei Ysbryd, sef ei "ganwyll" Ef.

Mewn gair, swm a sylwedd yr hyn a geisiwn ddweyd yw, mai eglwys Dduw yw goleuad y byd, a'r aelodau yw y canwyllau—llewyrched ein goleuni ynte, rhag i'r Duw a gyflwynodd y goleuni inni "symmud ein canwyllbren o'i le;"—ein camrau a oleuo ffyrdd crefydd o flaen y byd—ein hoff-waith fyddo dangos ein goleuni a'n gorchest- waith unfrydol fo encinio llygaid y deillion â'r eli llygaid a roed i ni, ac agorwr llygaid y deillion ysbrydol, â phelydrau o ffynnonell ddihysbydd ei oleuni Ef

a ddilyno ein hymdrechiadau nes ymlid tywyllwch y ddu-nos a pheri gwawr ar eneidiau llawer drwy ein gwlad.

Dywenydd genym weled ymddeffroad parhaus yn mhlith ein brodyr i egluro goleuni i'r byd,—y mae pregethu allan a gwrandawiad mwy astud yn gyffredinol yn argoli mwy o awydd yn y Saint ymddysglaerio, ac yn y byd am fwynhau o'u goleuni. Mae y *Volunteers* yn ymfyddino yn barhaus, a'r holl Saint yn cynnyddu mewn doniau Ysbrydol a phob bendithion yn gyferbyniol i'w diwydrwydd i *fyw eu crefydd*,—y mae rhyw swn o'r newydd am sefydlu cymdeithasau traethodau yn mhob Cangen, a rhai eisoes wedi cydio yn y gorchwyl clodadwy gyda sêl frwdfrydig,—y dynion, yn enwedig y bechgyn ieuainc yn ymgasglu ar nos Sadwrn, nid i'r dafarn nac i wario eu tocyns am oferedd hyd y tafarndai a'r heolydd, ond i'r clwb llyfrau; tynir *lots* bob nos clwb am werth cyflawn y cyfraniadau i mewn, a mawr yw awydd rhai, ac nid y chwiorydd yw yr olaf na'r lleiaf eu sêl yn eu llafur cariad o ledaenu traethodau a geir felly, i dai eu cymmydogion. Efelychwr hwy, goreu po fwyaf, yn mhob man, a ni yn gwybod nad yw ein llafur ni yn ofer, ond bydd i ni wobr fawr iawn.

Dysgwyliwn glywed y bydd y cynllun hwn drwy gyd-weithrediad ffyddiog, o fawr les drwy y Dywysogaeth yn y tymhor hwn.

Diau y bydd "iachad rhyfeddol y mûd a byddar," yn ol hanes ein hybarch hen gyd-ymaith J. S. Fulmer, yn destun adnewyddol gan y Saint i Dduw am amlygu ei fawr allu mewn atebiad i weddi y ffydd ac yn brawf ychwanegol fod bendithion y nef a'r ddaear ynghyraedd y Saint a'r allwedd a'u datgloa yw eu ffyddiog weithredoedd hwynt. Caffed y mwynhad o bob adnewyddol fendith yr effaith ddymunol o symbylu pob un i gyflawni ei ddyledswyddau fel y caffo ein Duw le i gyflwyno mwyfwy oi anrhegion.

---

Hanesion Cartrefol.—*Cymnadledd Mynwy*,—Ysgrifena y Llywydd Giles y fod gwaith Duw ar ei gynnydd drwy y Gymnadledd, amryw fedyddiadau ac argoelion am ychwaneg yn fuan—y *Volunteers* yn lliosogi ac yn ymbarotoi, a rhai eisoes ar y maes, ereill yn eu dilyn yn fuan, a'r llywydd yn eu hannog oll i fyned os dewisant, yn Llywyddion ac oll, ac y cyfyd ef,

neu yn hytrach y cyfyd Duw o'r defnyddiau gweddilliol rai ereill gwell yn eu lle: dyma ffydd a sel ganmoladwy! Bedyddiwyd pedwar ar ol un cwrdd pan yr oedd ef yn Cwmteleri yr hyn a brawf fod Duw yn gwirio ei air ef drwy lanw yr adwyau a achoswyd gan y *Volunteers*. Frodyr profwch Ef, oni fydd y cyflawniad yn helaethach na'r addewid. Mae sel yn cynnyddu yma i ddosparthu traethodau, ac nid fel ambell Lywydd Cynnadledd yn anfon am o *un* i *hanner dwsin* o draethodau ceiniog neu ddwy y gwna efe, ond wrth y cant oedd o bob un a'r unwaith. Mawr les a wnelont ac a wnant lle eu dosperthir.

*Cynnadledd Llanelli*,—gweler wrth hanes eu cynlluniau y fod y brodyr hyn o ddifrif am oleuo y byd tra y mae hi yn ddydd, ac hyd y galler, efelychier eu manylrwydd dosparthiadol hwynt fel y caffo pawb gynnyg ar yr efengyl.

Dyddorol yw llythyr y Bugail J. Parry, o Wynedd, a mawr y llawenydd a grea y gobaith am gynnorthwy cedyrn y deau, yn y frwydr boeth a ymladda yr ychydig wroniaid hyny â'r mawr-lu a wrthwynebant eu cenadwri. Aed ychwaneg ar frys.

---

Newyddion Tramor.—Testun diolchgarwch i'r hwn a bia y gwaith dwyfol a geir yn Llythyr ein hynaws frawd Tanner o Ynysoedd Sandwich, am fod yr efengyl ar ei chynnydd yno er gwaethaf gwrthwynebiadau byd ac uffern hefyd, ac am fod Duw yn cyflawni ei addewidion i'r brodorion hyny yn ogystal ag i Negroaid duon Affrica, yn ol eu parodrwydd i ufyddhau i'w orchymynion drwy ei weision yn y dyddiau hyn megys cynt. Clod fo i'w enw.

*Yn Switzerland*—Llabyddiwyd hyd farw braidd, yr Henuriad Savage, a cherrig mewn tref wledig lle yr oedd yn bedyddio pump neu chwech o bobl. Y mae yr Henuriad Mayer newydd gael gollyngdod o garchar yn Twrich, lle y rhoddwyd ef am wyth niwrnod o herwydd pregethu yr efengyl. Pa grefydd, pa sect arall sydd a digon o ddwyfoldeb ynddi yn y dyddiau hyn i ddatgloi hen gloion yr oesoedd, ac i agoryd hen ddorau henarnaidd carcharau ar eu pegynau ag oeddent wedi rhydu er ys oesoedd cyntefig gwir grefydd? Gweler cyssylltiad effaith wrth ei achos priodol!

*Penryn Gobaith Da.*—Mae y rhagfarn yn cilio i'r graddau yr

ddnabyddir yr Henuriaid au cenadwri. Yr oedd yr Henuriad Walker, yn Fort Beaufort tua 700 o filltiroedd yn y wlad, ac wedi bedyddio chwech. Yr Henuriad Haven a Smith, oeddynt ddiwyd mewn manau ereill a gobeithion am lwyddiant. Yr oedd cryn gyffroad drwy y wlad o herwydd darganfod aur yn y wlad tua 600 o filltiroedd o'r Penrhyn, a dywed y trigolion "y fod aur lle bynag y rhodia y Mormoniaid." Dywed yr Henuriad Haven, "ymddengys fel pe bai yr Arglwydd am roddi eu dewis i'r oes hon pa un a ddewisant, ai yr *aur* neu yr efengyl!"

---

*Llywyddion Cynnadleddau!*—Erfyniwn gynrychioliad o'ch Cynnadleddau yn fanwl o bob Cymmanfa chwarterol, sef, rhif y swyddogion y cynnyddiant &c. Ynghyd a chyfrif o werth y llyfrau ar law, cynnyddiant *gwerthiad* yr *Udgorn* a'r *Star* er dechreu y flwyddyn a'r nifer a erys a'r law. Gobeithiwn hefyd yr anfonwch am draethodau yn brydlon i fod a'r law erbyn dyfodiad y fyddin rhag grybwylledig allan ac y cynnorthwya y Cynnadleddau Gogleddol oddiyma y brodyr a deithiant, â thraethodau yn y manau lle y galwant; ac na fydd dim yn eisieu, mewn cyd-weithrediad, a ellir wneyd i gyrhaedd yr amcan clodadwy o achub eneidiau ein cyd-genedl, neu eu gwneyd yn ddiesgus drwy wrthod cynnygion teilwng.

Gofynwn hefyd i'r Llywyddion ein hysbysu pa le y caiff dynion ffyddlon waith i gynnal eu teuluoedd, pa grefft &c., ac ymdrechwn gael y cyfryw i fyned atynt.

---

*Tiriad yr Ymfudwyr Cymreig yn St. Louis.*—Trwy amryw lythyrau a diriasant yn ddiweddar hysbysir ni i'r Saint a ymfudasant eleni ar y llong Golconda gyrhaedd St Louis, Mawrth 31. Galarus yw clywed bod y Cholera wedi cymmeryd ymaith rhai o'u plith rhwng Orleans a St. Louis, ond ychydig fel mae y goreu, a'i fod yn lleihau. Bwriadent gychwyn oddiyno yn mlaen i fynu y Missouri yn fuan. Yr oedd tua mil ar yr un bad yn dyfod i St. Louis, a'r oll yn benderfynol i adael cyffiniau Babylon tua Seion mor gynted y gallent, ac yn mawr lawenhau bod gwaredfan i'w chael rhag pläau a drygioni.

Yr oedd dwfr yr afonydd yn isel, yr hyn a wnai y cludiad iddynt hwy ac i'w nwyfau yn ddrudtach nac arferol.

## LLYTHYR AT Y LLYWYDD D. JONES.

*Saint George, Ebrill* 24, 1854.

Anwyl Lywydd D. Jones,—Yr wyf yn anfon hyn o lythyr atoch i'ch gwneuthur yn hysbys o'n sefyllfa yn y Gynnadledd hon. Cawsom Gynghor Cynnadledd rhagorol o dda bythefnos yn ol yn Rhyddlan; tystiai yr holl swyddogion na chawsent ddim o'i well erioed. Efelychasom eich dull chwi yna, trwy alw yr holl swyddogion i ddweyd eu teimladau a'u penderfyniadau, a chafwyd pawb yn meddu ar deimlad da a phenderfyniad diysgog i ymaflyd yn y gwaith. Penderfynasom ymprydio un waith y mis er cynnorthwyo Henuriaid Teithiol, ac *y* mae dau Henuriad Teithiol ar y maes.

Bedyddiasom bedwar er y Cynghor, ac y mae genym addewidion gan amryw ereill.

Fel hyn y mae yr olwynion yn troi yn araf, ond yr ydym yn llawenhau wrth feddwl am y milwyr sydd i ddyfod i'n cynnorthwyo; yr ydym yn gyffelyb hefyd i'r Twrciaid ar faes y frwydr o hyd, a ffydd gadarn am gael y fuddugoliaeth pan ddaw byddinoedd y Deau i'n cynnorthwyo. Am hyny dywedaf, Filwyr Iesu dewch yn mlaen, croesaw mawr a gewch i'n plith. Da fyddai genyf glywed fod y Llywydd Daniels yn dyfod i ymwe'ed â ni, ynghyd a'r brodyr ereill. Dymunaf roddi fy nghofion caredicaf at y Llywyd T. Jeremy, a'ch hunan yn neilldnol, gan hyderu y cawn y fraint o'ch gweled yn ein plith yn nghorff yr haf.

Ydwyf eich brawd yn yr efengyl dragywyddol,

John Parry.

---

## Y MORMONIAID.

*(Allan o'r "Brighton Guardian," Mawrth* 22.*)*

Y sefydliadau Mormonaidd ydynt amrywiol yn awr. rhwng y man y planasant eu hystacan *(Stake,)* gyntaf ynddo a'r llyn Utah Bach, oddeutu 40 milltir yn mhellach i lawr y dyffryn. Hynodir hwynt yn benaf gan yr argoelion cysur sydd yn treiddio trwyddynt. Os ydyw glanweithdra yn ddiledrith berthynas i ddduwioldeb, gellir ystyried am "Y Saint," eu bod yn Saint mewn

gwirionedd; canys, mor bell ag y mae cyfreithiau y wladwriaeth yn cyd ddwyn a chyflwr naturiaethol y bobl, rhaid yw cydnabod fod eu gweithrediadau yn ddoeth a llesol i'r graddau uchaf. Diammheuol mai llawer haws yw dechreu yn wych gyda'r fath achosion, gan sefydlu preswylfod ar fan y ceir ynddo bob hwylusdod er annog glendid, na thrwy osodiad unrhyw ddeddf pa bynag, allu gweithredu ar werin a bentyrwyd ynghyd mewn heolydd hen ddinas. Ond y rhyfeddod am y Mormoniaid, y rhaid yr ymfudodd miloedd o honynt o'r parthau mwyaf bawlyd yn ein trefi gweithfäol, ydyw y trowyd hwy i fod yn bobl gymenfalch mewn glanweithdra. Rhagofalodd cynllun eu dinas gyntaf yn Deseret mewn modd pendant am gadwraeth y croywder ar purdeb naturiol hwnw a fawrygid gan ei sylfaenwyr pan ddewiswyd y safle. Adeiladir y tai oll ychydig bellter oddiwrth eu gilydd; ac y mae dwfr yr afon a ddylifa drwy y dyffryn, wedi ei drosglwyddo i'r ddinas er iachusrwydd yn gystadl ag i ddybenion amaethyddol. Ni wyddir ond ychydig am anghymmedroldeb yn eu plith; nid oes diffyg cynhyrfiad yn eu mysg; ac etto, yn ystod ein hymdaith yn ninas y Llyn Halen Mawr, ni bu ond un achlysur y dodwyd gwlybyroedd meddwol ger bron y gwestwyr. Mae y Mormoniaid oll yn hoff o ddifyrwch, a gellir cael mwy hysbysiaeth mewn perthynas i'w harferion a'u hathrawiaethau yn mhlith dadwrdd cyfeillach prydnhawnol nag oddiar wefus eu Llywydd. Dichon i bob menyw na chyflewyd, trwy drefniadau cyfaddas, hawlio cael ei phriodi. Gan hyny, mae yno fath o fwyddyn naid barhaus, a hyny hefyd yn y synwyr manylaf o'r fraint y tybier ei bod yn berthynol i'r rhywogaeth deg ar y cyfnod hwnw.

---

## CYMMANFA LLANELLI.

Cynnaliwyd y Gymmanfa hon, dydd Sul, Ebrill 23, yn Nghapel y Saint yn y dref hon. Ymgynnullodd y Saint yn nghyd yn lled gyffredinol, ac arwyddion amlwg yn eu gwynebau oll bod eu bryd ar weithio gwaith Duw, eu calonau yn ysgafn, eu difyrwch penaf i adeiladu Eglwys Iesu Grist, ac yn hollol ddiargoel o fod yr un dim wedi lleddfu eu teimladau er ys amser maith. Pleidleisiwyd yn unfrydol a boddus galonog i yr holl gynnygiadau a osodwyd ger eu bron. Diwydrwydd, gwybodaeth, a sel y Saint, sydd a'r gynnydd parhaus; cariad yn lliosogi ynddynt fwy-fwy, ymroad awyddus y Llywyddion a'r swyddogion er lledaenu egwyddorion bywyd tragywyddol sydd yn gryfach gryfach bob dydd. Cymmer-

adwyaeth Duw o'n ymdrechiadau diflino, a eglurir yn ngwahanol ddoniau yr Ysbryd Glân o gyfrenir i'r Saint.

Y cynllun a osodwyd ger bron yn y cyngoran perthynol i'r Gynnadledd a ddygir i weithrediad manwl gan swyddogion y cangenau, sef yw hyny, *tystiolaethu yn bersonol unigol i bob dyn a dynes yn mhob bwthyn, Tŷ, Pentref, Tref, gwlad, a gorwlad,* trwy hyd a lled cylch y Gynnadledd hon, o Gaerfyrddin i Gaslwchwr, ac o Cidwch i gefn Arthau, Ystradffin, yn nghydiad Brycheiniog a Charedigion. Dosranwyd y cylchoedd perthynol i'r cangenau, a phenodwyd y gwahanol swyddogion i dystiolaethu a dosparthu llyfrau, traethodau &c., yn yr holl gylchoedd hyn. A'r gwaith rhagddo yn gyflym—a theimlir Ysbryd Duw yn fwy pwerus o herwydd hyn ddydd ar ol dydd. Y cynhauaf yn ddiau sy'n fawr, ar gweithwyr yma yn anaml, attolygwn arnoch anfon gweithwyr i'n cynnorthwyo. Gall ugeiniau gael gwaith da yn Mhontyberem, i ennill o tua deunaw Swllt i bunt yr wythnos, o herwydd fod yr hen waith fu yn aros am flynyddau, a'r gychwyn o newydd. Hefyd gellir cael lle a gwaith i amrai yn Nghwmaman—Cawsom addysgiadau a phregethau adeiladol iawn yn ystod y Gymmanfa. Gosodasant fywyd newydd yn mhawb o'r Saint, a phenderfyniad mwy nerthol ynddynt i gyflawni ewyllys Duw; penderfynir genym oll i fod yn rhydd a glân oddiwrth waed pob enaid byw trwy y Gynnadledd hon eleni. Yn nerth Duw, a than ddylanwad ei Ysbryd Ef gwnawn hyn, achanwn "Am Seion fy nghân yn felus a fydd," gyda dymuniad i fod yno yn fuan.

Y Cynnrychioliad sydd fel y canlyn:—Cang. 10. Hend. 57. Off. 15, Ath 7, Dia. 13, Ym. 32, Ysg 4, Bed. 17, Cyfanrif 306. Gobeithiwn oddiar sail dda y cawn fedyddio lluaws yn fuan. Penderfynir gwneyd yr oll a allwn i gynnorthwyo y rhai a anfonir allan i bregethu trwy wahanol siroedd Cymru. Yr ydym fel arferol, yn caru pawb, ac yn gwneuthur ein goreu i lesoli pawb, yn enwedig y Saint. Yr eiddoch yn ddidwyll, DEWI ELFED.

---

DERBYNIADAU AM LYFRAU O EBRILL 25 HYD MAI 6.—Dyffryn Conwy a Môn, £1; Dwyr. Morganwg, £1.

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Paham y cerir y Gwirionedd | 261 |
| Iachâd Dyn mud a byddar | 264 |
| Y Genadaeth yn Ynysoedd Sandwich | 266 |
| Golygyddiaeth—Eglwys Dduw—Hanesion Cartrefol—Cynnadledd Llanelli—Newyddion Tramor—Switzerland—Penryn Gobaith Da—Llywyddion Cynnadleddau—Tiriad yr Ymfadwyr Cymreig yn St. Louis | 269 |
| Llythyr at a Llywydd D. Jones | 273 |
| Y Mormoniaid | 274 |
| Cymmanfa Llanelli | 275 |


---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

RHIF. 18.] MAI 13, 1854. [CYF. VII.


## Y GAIR DOETHINEB.

GAN Y LLYWYDD S. W. RICHARDS.

*(Allan o'r "Star.")*

"FELLY chwithau hefyd, gwedi i chwi wneuthur y cwbl oll ag a orchymynwyd i chwi, dywedwch, Gweision anfuddiol ydym: oblegid yr hyn a ddylasem ei wneuthur, a wnaethom"—LUC XVII 10.

MAE y dywediad uchod o eiddo Mab Duw yn sylfaenedig a'r egwyddor ag sydd a chyssylltiad a'r holl Saint yn gyffredinol. Cyfeiria mor briodol a grymus at Saint a gweision Duw yn y dydd hwn ag y gwnelai pan ei llafarwyd ganddo wrth ei ddysgyblion yn y dyddiau cyntefig. Yn awr ni chredwn fod neb gwir Saint ar na ewylliasant gael eu gwaredu oddiwrth y gospedigaeth a'r hon y cospir y gweision anfuddiol, canys hwy a fwrir allan o bresennoldeb Duw i'r tywyllwch eithaf, lle y bydd wylofain a rhincian dannedd, ac a dderbyniant eu taledigaeth gyda y cŵn, y swyngyfareddwyr a'r putteinwyr. Gwir y dymuna pob un a iawn ystyria gyfiawnder Duw, ddianc rhag tynged mor arswydol. Os geilw yr Arglwydd y rhai hyny a ufyddhant i'w orchymynion, yn weision anfuddiol, cynnygia ymholiad pwysig i'r meddwl—Beth a wnawn ni er bod yn weision buddiol. Nid ymddengys bod ond un atebiad i'r ymholiad hwn, a hyny yw, gwneyd rhyw bethau *heblaw* a orchymynir i ni.

"Eithr," ebe un, "pa beth a allaf wneuthur, a fyddai foddhaol yngolwg Duw, ar na orchymynir i mi ei wneuthur?"

Atebwn, Cadwch y gair Doethineb. I'r dyben hyn ei rhoddwyd, nid drwy orchymyn na gorfodaeth, eithr drwy ddadguddiad, ac yn egluro ewyllys Duw. Honna fod wedi ei roddi "yn egwyddor gydag addewid." Yr egwyddor gyfeiriedig yw beth a ddylai y Saint ddeall, a dyma yw—A ufyddha y Saint i ewyllys Duw, pan ei heglurir iddynt drwy ddadguddiad, heb gael eu gorchymyn, neu oni wnant hwy ddim onid yr hyn y gorfoda ofn cosp cyfraith dorredig hwy i'w wneyd? Rhaid i bob Saint gael en profi ar yr egwyddor hon, a'r Gair Doethineb yw y maen prawf.

Dywedodd yr Arglwydd, mewn dadguddiad diweddar drwy Joseph Smith, mai gwas diog ac analluog i sefyll y cyfrifir yr hwn a arosa i gael ei orchymyn cyn y gwna. Cyduna hyn yn hollol a'r dyfyniad uchod o eiddo yr Iesu, a dengys yr anghenrheidrwydd anhebgorol o ufyddhau i gynghor yr Arglwydd drwy Ei weision mor ewyllysgar ac mor hyderus am wobr ag yr ufyddhai i unrhyw gyfraith adnabyddus. Ufyddhai y Saint hyny sydd a'u bwriad yn gywir ar wneuthur ewyllys Duw, mor ewyllysgar ped amlygid ei feddwl iddynt drwy air doethineb a phe deuai atynt drwy orchymyn, neu mewn ffurf o gyfraith orfodol yn ei gofynion.

Pan y dyry yr Arglwydd ei gyfraith i'w bobl, anghenrhaid iddynt ufyddhau i'r gyfraith hono neu oddef y canlyniad. Ufyddhai llawer ond odid, i'r gyfraith er mwyn arbed y gosp am anufydd-dod, yn hytrach nac o herwydd unrhyw leshad neu fendith a ddeilliau o herwydd eu hufydd-dod. Amcana yr Arglwydd ddadfeilio yr egwyddor hon o galonau y Saint. Ni hoffa y fath ufydd-dod a hyny, gwasanaeth anffyddlon ac angharedig wâs ydyw, ac a gaiff ei deilwng wobr.

Tybiwn ddau wâs yngwasanaeth yr un meistr daearol, y rhai a dalir yn gyfartal i'w gilydd am eu gwasanaeth yn ol amser ei gwasanaethiad. Pan y dirwin amser eu cyflogiad i ben a hwy wedi derbyn eu cyflogau, nid yw y meistr yn teimlo dan rwymau iddynt, canys ni ychwanegasant ei eiddo, ond cawsant dâl am eu gwasanaeth. Eithr pe buasai un o'r gweision hyny yn ofalus dros feddianau ei feistr, gan ymchwilio am bob cyfle i wneuthur mwy nac â orchymmynwyd, efe a ymhyfrydai yn y gwas buddiol hwnw ac ai cynnysgaeddai a gwerthfawroccach anrhegion ysgatfydd, nac oedd gwerth ei gyflog am wneyd a o'r

chymmynwyd iddo, os na chadwai ef yn ei dy gydag ef mwyach. Efelly yn gwir y mae Duw, yr Hwn, nid yn unig a ddyry orchymynion i'w weision, eithr a amlyga Ei ewyllys mewn amrywiol ffyrdd er profi a ydynt yn ofalus am lesiant ei waith ai eiddo yn mhob peth, ac os achubant bob cyfleustra i wneuthur daioni fel y gogonedder Duw. I'r cyfryw, cyfrana y goreuon oi fendithion yn ddifesur. Ni fwrir y cyfryw ymaith byth, eithr yr hwn yn unig a ufyddhai i'r *gorchymyn*—heb ond gwneyd ei *ddyledswydd*, a deilynga Ei anghymmeradwyaeth a gwobr gwas anffyddlon; yr addewid gyssylltiedig a chadw y Gair Doethineb sydd fawr iawn, a'r neb na sicrha y fendith hono drwy gadw y Gair Doethineb ni theilynga ffafr neillduol Duw, yn hytrach na'r cyffredinolrwydd o ddynolryw.

(*I'w barhau.*)

---

## CYNGHOR CYNNADLEDDOL YN MERTHYR.

*Crynodeb o'r hyn a wnaed ynNghynghor y Gynnadledd.*

*Dydd Llun*, Mawrth 27,—Cynnaliwyd Cynghor, i'r dyben o ymdrafod a gorchwylion na allwyd eu cwblhau yn y Gymmanfa. Wedi canu, gweddiwyd yn gyhoeddus gan yr Henuriad Thomas Jones, Caerfyrddin, a chanwyd trachefn gan y Côr.

Y Llywydd Jeremy,—a roddodd amryw gynghorion buddiol, anogodd y swyddogion i arfer tynerwch a challineb wrth bregethu yr Efengyl; am iddynt amlygu awydd achub, trwy ymdrechu mwy at ddangos rhagoroldeb yr hyn a wyddant ei fod yn wirioniedd, nag at ddangos drwg y crefyddau ereill, oblegid y duedd gref sy mewn dyn i ddigio yn herwydd ymosod ar ei opiniynau, er y medrir eu profi yn gyfeiliornus; fod cyfarwyddo teithiwr i'r ffordd iawn, yn cynnwys nad iawn unrhyw ffordd arall. Cymhellodd hwy i dystiolaethu am y bendithion a fwynheir genym, gan berswadio y gwrandawwyr i ddyfod a mwynhau yr unrhyw fendithion.

Y Llywydd Jones.- Wedi ymborthi ar y danteithion a gawsoch ddoe, mewn cyflawnder, gobeithiaf fod awydd ynoch, heddyw hefyd, am ychwaneg. Credaf y ceir yma ychydig friwfwyd i chwi, ac yr ymborthwch chwithau, gan beidio a gwastraffu, ar y gweddill a adawyd, sef, ar y briwsion sy genym. Y maent yn sicr o fod yn dda, o herwydd mai o ganol y dorth y daw briwsion;

sef, o'r man goreu ynddi. Rhoddaswn amryw o'r briwsion hyn i Lywyddion y Cangenau, pe y buasent yma i'w cael; eithr ymddengys iddynt ddiystyru y briwsion a gasglasom, heb gofio y perthynant i'r dorth, ac os pe hebddynt, y buasai ein torth i gyd yn grestenog, gydag ogof gafnog yn ei chanol.

Y mae pob addysg dda yn llesol i'w derbyn, ac hyderaf y ceir ynom awydd a diwydrwydd i gyflawni gwaith Duw, am y gwelwn yr anghen o byny. Nid oes un peth yn llonydd, ond naill ai yn ymgyssylltu, yn ymgorffori, yn ymfywiogi, yn ymgynnyddu, ac yn eppilio, neu ynte yn ymddatgyssylltu, yn ymddadansoddi, yn ymfarweddio, yn ymleihau, ac yn peidio a dwyn hiliogaeth y mae pob peth, fel y crybwyllais o'r blaen; os edrychir ar y byd, clywir trwst a gwelir galanastra rhyfeloedd echryslon, daeargrynfau dychrynllyd, pläau marwol, a heintiau dinystriol yn ei gynhyrfu trwyddo; a chanfyddir dynion yn ewyllysgaryddion rhyfelgar i roddi eu hunain, yn ymladdwyr brwydrau eu breninoedd, ac i aberthu eu bywydau i lawr, os bydd achos, er mwyn diogelwch eu gwlad ac anrhydedd eu coron; ond, os edrychir ar yr eglwys, ceir gormod tawelwch, a'r swyddogion fel yn sïo eu gilydd i hepian a chysgu! Pe y taranem air Duw i'r byd, megys ag y dylem, byddai yn rhaid i'r byd a'i drwst ymddystewi, gan wrandaw ar ei air nerthol Ef; yna, gallem ddywedyd, fel yr hen brophwyd gynt, "Llefarodd yr Arglwydd o'r nefoedd, gwrandawwed y ddaear;" ond cyn y ceir hyn, rhaid ydyw cael yr Eglwys i wrandaw yn gyntaf; ac O! na allwn gael gan bawb wrandaw arnaf. Pe bai genyf lais fel taran, bloeddiwn hyd nes y clywai pawb fy llef, ac yr ymddeffroent o'u cysgadrwydd, er hyny, nid felly y mae; ond yr ydwyf yn ymdrechu yr oll a allwyf yn y cylch y gwelwch fi ynddo; a'm dyledswydd ni oll yw chwilio am le i wneyd daioni, gan ymdebygu i'n Tad, yr hwn sydd yn chwilio am le i drugarhau. Yr wyf yn penderfynu na pheidiaf ag ymdrechu cyffroi fy mrodyr, hyd nes crygu o'm llais, fel nad allo lefaru, ac hyd nes gwywo fy mraich, fel nad allo ysgrifenu! Pa ham hyny? O herwydd y gwelaf ddinystr y cleddyf yn dyfod, a thrigolion y byd mewn cyfyngder, yn edrych am waredigaeth o rywle; dyna pa ham yr wyf yn penderfynu cael gan wyliedyddion muriau Seion goelio yr hyn a ddywedwyf. Hyfryd iawn yw genyf yr byn a wnaed, yn yr amser sydd wedi myned heibio; llawen wyf i'r Arglwydd ddodi ynghalonau fy mrodyr i wneyd

yr hyn a wnaethant; ac ystyriaf iddynt ei wneyd fel pe wedi gwneyd llawer troswyf fi. Gofid calon yw genyf weled neb yn esgeuluso eneidiau dynion trwy beidio a throi yn eu cylchoedd. Dymunwn i Ysbryd y gwirionedd argraffu yr hyn a lafarwyd neithiwr, am y peth yma, yn ddwfn ar feddyliau y rhai oll ag oeddynt yn clywed, i'w dwyn i iawn ystyried sefyllfa y byd a'u dyledswyddau eu hunain, hyd nes eu cyffroi at wneyd daioni yn eu dydd a'u tymmor, ac iddynt fyned allan fel gwyliedyddion Israel i rybuddio y bobl, i bregethu yr Efengyl i ddynion, ac i ennill eneidiau at Dduw.

Pe buaswn wr yn perchen cyfoeth daear, dywedaswn wrth y brodyr dyma i chwi arian at gynnal eich teuluoedd, neu dyma i chwi fwyd o'm Masgnachdy, ewch allan a phregethwch yr Efengyl i'r byd; a phe felly y buasai gyda mi, cawsech weled dynion yn carlamu allan gyda eu gwisgoedd duon a'u gwddf gadachau gwynion, pe gwell y rhai hyny i fyned allan a phregethu trwy y wlad yn rhwydd! Siarad ffol ydyw hyn onide? Pa ham y soniaf am fodd i gyfranu ymborth, gwisgoedd, ac arian? Onid ein Tad ni a biai y ddaear a'i chyflawnder, y byd ac a breswylia ynddo? Onid ydych yn frodyr i Iesu Grist, ac yn etifeddion pob peth? Onid yw ei air yn eiriol trosoch? Onid ein Tad yw *Pen Bancer* y bydoedd? Onid ein Brawd hynaf yw y prif geidwad arian? Onid oes genym dalebau a roddodd Efe i ni i'w cyfnewid am arian a phob peth? Ond, pa fodd ei gwelir yn fych? Gwelir plant y *Bancer* weithiau yn cerdded yr heolydd yn llymion eu dillad, yn weigion eu cylla, ac yn ofni na allant gael digon o anghenrheidiau bywyd, a'r talebau o'r *Banc* yn eu dwylaw, a'r Brawd hynaf yn y *Banc* gerllaw iddynt, a'r *Bancer* mawr yn barod i gyfranu pa bethau bynag a ofynont yn enw ei Fab Ef; ond, hwythau yn rhy anffyddlog i fyned a gofyn! Felly y mae gyda rhai o honoch chwi, frodyr, gwyddoch hyny! Ai ni allwn gael ychydig ychwaneg o ffydd am yr arian yna? "Canys heb ffydd, anmhosibl yw rhyngu bodd Duw." Ffydd sydd yn eisiau arnom; ac ond ei chael ni bydd a ofnwn wedi hyny.

Gwyddwn pan yr ymunais a'r Saint, y collwn sefyllfa dda yn y byd; eithr gwelais mai gwell colli arian daear na cholli enaid; mai gwell colli mwyniant y bywyd hwn na cholli dedwyddwch y bywyd tragywyddol. Croeshoeliais fy nheimladau yn hytrach

na gwneyd yn ol fy mympwy fy hunan. Gwnaethym gyfammod a'r nefoedd y gwnawn waith Duw, ac ar yr un pryd, gwnaeth y nefoedd gyfammod a minnau yr edrychai tros fy nheulu, y rhai nad ydynt hyd yn hyn wedi goddef eisiau. Gwariais, er y pryd hyny, gannoedd o bunnau, ac nid wyf heb ddim hyd yma; gwariais yr arian a gefais, at achos Duw, a gofalodd yntau am fy achos innau; a pho mwyaf a wariwn, cyfoethocach yr aethym o hyd; ac yn fy myw nis gallaf fi a myned yn dlawd! Ymddangoswyf fel un a fyddai ddibris a diofal am ei deulu, eithr nid wyf golledwr drwy hyny, o herwydd y mae fy Meistr yn gofalu am danynt; a phe yr esgeuluswn ei orchwyl Ef, a gwneuthur fy ngorchwylion personol, gwnelai yntau ei orchwyl ei Hun hefyd, a gadawai fy nu i ar ol!

Tra y gwelwyf fy hunan yn cynnyddu yn lle lleihau, daw i'm côf yr hen gyfammod a wnaethym pan ar ddyfroedd y Missisippi, cofiodd yr Arglwydd am danaf, danfonodd Ef ddynion ag arian i mi, cyn y bod arnaf eu heisiau braidd? Nid oes yn Nghymru rai a allant ddywedyd i mi fynu oddiarnynt un ddimai ar gam; nid oes galwad arnaf i'w gofyn, oblegid gwybyddus yw i mi fod Duw yn cyfranu digon o anghenrheidiau at ei waith, ac yn dylanwadu a'r galonau ereill i gyfranu.

Ai tybied a wneir frodyr, nad oes rhai o honoch chwithau yn gyfryw a allant wneyd cyfammod o'r fath yna gyda Duw, gan roddi eich hunain iddo, a gadael iddo Ef ofalu am eich gorchwylion? O! y fath deimladau drwg yw gormod rhag ofal am arian erbyn efory! Ond y mae Duw yn profi ei blant mewn amrywiol sefyllfaoedd, a cheir yma frodyr a gawsant brofiad mawr, er hyny, ni adawodd ef un o'i weision erioed ar ol, gyhyd ag y cyflawnant hwy ei orchwyl Ef. Deuodd amlun o wyr yr arian ataf i ofyn cynghor, ebe hwynt, a dywedent, "Frawd Jones, gwaith tlawd hynod sydd yn y man y danfonasoch ni iddo i bregethu neu i lywyddu, pa beth a feddyliech chwi pe yr elem i'r lle hyn, neu i le arall, y gallem ennill dwybunt yn ychwaneg y mis?" Dyna ofyn cynghor onide? Yn lle addoli eu Duw, gwell ganddynt fyned ag addoli i'r hen *docyns*!

Yr oedd pregethwr perthynol i'r Wesleyaid yn ymadael a lle yn yr America, i fyned a phregethu mewn lle arall, ag y cawsai ynddo oddeutu cant Dolar yn ychwaneg nag a roddid iddo yn hwnw, ac wrth bregethu ei "*Ffarwel Sermon*," a chwyno ei fawr ofid yn

herwydd gorfod gadael pobl ei ofal, dywedai na allasai dim ei ddenu ymaith oni bai fod yr Arglwydd yn galw arno. Yr Arglwydd oedd yn ei alw oddiyno, ebe efe ei hun. Ond hen Negro, a'i enw George, a ddywedai wrtho, na, na, Massa, y can Dolar sydd yn galw." Pan y delo brodyr a gofyn cynghor genyf, i fyned i'r lle y ceir mwyaf o *docyns* gwnant i mi feddwl am yr hen Negro George.

Dichon, wrth fy nghlywed yn dywedyd pethau fel hyn, y tybiwch mai gweision i mi ydych; nid felly, eithr teimlaf fawr awydd yn y gwaith santaidd, ac yr wyf yn adrodd y pethau hyn i'r dyben o'ch cyffroi a'ch cael i ganfod mai eich dyledswydd yw teimlo yr un sêl a minnau yn y gwaith, a dweyd yr un geiriau a minnau wrth ereill, a rhoddi o honoch eich bryd, nid i'm gwasanaethu i, ond *gwasanaethu Duw*.

Os oes rhai o honoch am fod yn fwy nag ereill, bydded mwy o weithredoedd da ynoch i brofi hyny. Y ganwyll a rydd fwyaf o oleuni yw y ganwyll oreu. Goleuni y byd ydych chwi, goleuwch hwynt; a'r hwn a'u goleuo fwyaf yw y ganwyll ddysgleiriaf. Nid y Saint yn unig, yn eu cyfarfodydd, sydd i'w goleuo; ond y mae eich eisiau i *Volunteerio*, a myned allan i filwrio tros deyrnas Dduw. Llaeodd o ddynion ein gwlad a ymroddant gan fyned i ryfel ac ymladd a dynion gwlad arall am hanner llonaid bola o fwyd, mewn peryglon lawer, ac aberthant eu bywydau os gelwir am hyny, dros deyrnasoedd darfodedig y byd. Yr oedd yma un y neithiwr a gynhyrfwyd gan y marwor tanllyd a arllwyswyd arno, a theimlai yn awyddus am *Volunteerio* a myned allan dros Dduw, a chynnygiodd ei hun i bregethu trwy y wlad; ond neidiodd gwraig ieuanc i fyny, a'i dwrn i'w ddanedd, a mynai ei gadw rhag ei fod yn ddefnyddiol i mi, nag yn fuddiol i'r Arglwydd.

Nid myned i ryfel at golli bywyd a geisir genych, eithr i ethfeddu bywyd tragywyddol, i gael dyrchafiad i fod yn freninoedd ac yn Offeiriaid i Dduw, i feddiannu gorseddau, a theyrnasu yn nheyrnas Dduw. Frodyr, a gaiff meddwon y byd ragori arnoch mewn ffyddlondeb trwy wirioddoli i ddyoddef caledi a thrinaethau chwerwon, mewn eisiau bwyd, gan fyned a lladd eu cyddynion, a cholli, rai miloedd o honynt, eu bywydau eu hunain, trwy frwydro tros deyrnas i ddarfod? A gaiff rhai di grefydd ragori arnom ni, Henuriaid Israel, o herwydd anmharodrwydd gnom i fyned yn wirioddol ac achub eneidiau dynion, a mwyn-

hau Ysbryd Duw, ac ennill anrhydedd a gogoniant i'n hunain gan Dduw? Mae y diafol yn trawsdlywodraethu planed ein Harglwydd ni a'i Grist Ef, ac y mae ef yn crynhoi ei holl fyddinoedd o bob man, hyd y nod o ganol carcharau uffern, i ollwng ei holl filwyr yn erbyn gweision y Goruchaf. Geilw ein Harglwydd ninnau am *Volunteers*, ac enfyn ei swyddogion allan, am y bod brwydr i gymmeryd lle, a'u harweinydd medrus yw yr Hen Ddihenydd, ac y mae Ef yn deall holl drefniadau, rhestrau, a chynlluniadau gwyddoriaeth *(science)* rhyfel y prif elyn; Efe yw y Blaenor buddugoliaethus, ac y mae Efe yn foddlon rhoddi doethineb o'r un rhyw a'i eiddo ei Hun i chwi, a danfon allan yr hwn a'i derbynio ar hyd gogledd Cymru i ladd y miloedd pechodau, ac i achub y miloedd pechaduriaid sy yno, i gadwedigaeth. Nid oes colli bywyd gwas Duw i fod yn y rhyfel hwn, pe y cwympid a maw, buddugoliaeth a fyddai hyny, a gollo ei einioes a'i caiff hi, a chynnygir cyfleustra yn awr i bob un o'r brodyr fyned ac ennill buddugoliaeth, a gogoniant, ac anfarwoldeb iddo ei hun mewn dedwyddwch tragywyddol,—*Pwy a aiff?* Pwy?

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, MAI 13, 1854.

Cynnyddiant gwaith Duw,—yw hoff destun ein Hudgorn yn barhaus;—oni addawsom mai felly y byddai? ac etto, cynnyddiant teyrnas Dduw a fydd ein cân. Da, nad nyni yn unig a deimla awydd am lwyddiant y gwaith hwn, eithr y fod awydd cyffredinol ac ymadnewyddiad, nid yn Nghymru yn unig, ond drwy y byd; mae y Saint ffordd hyn fel pe yn eredu fod yr Arglwydd o ddifrif pan yn eu rhybuddio o'r pläau, a'r heintiau, y rhyfeloedd a'r holl ddinystr sydd ar ddyfod ar warthaf yr anwir fyd. Mae amryw o'r brodyr ffyddlon yn ymofyn pa beth a fyn yr Arglwydd iddynt wneuthur er achubiaeth eu cyd-ddynion, dan ddwys ystyriaeth o'r ffaith y gofynir cyfrifoldeb am ein hymddygiad atynt.

Mae ein Hybarch Lywydd S. W. Richards hefyd yn teimlo dyddordeb y gwaith hwn yn fawr, ac yn dangos awydd am ei gynnyddiant, deilwng o efelychiad, fel y deallir wrth yr annogaethau taerion a ganlyn o'i eiddo yn y *Star*.—"Tywalltodd yr Hollalluog ei Ysbryd yn ei weithrediadau yn rymus ryfeddol yn y cyn oesoedd. Efe a addawa ei arllwys yn helaethach a mwy rhyfeddol etto yn y dyddiau diweddaf. Drwy brofiadau o'r mynedol dealla y Saint ei fod Ef yn bendithio ei blant â doniau ei Ysbryd ac a chysuron yr iachawdwriaeth, a deallwn drwy lythyrau mynych oddiwrth Fugeiliaid a Llywyddion Cynnadleddau fod y bendithion hyn ar eu cynnydd yn mhlith y Saint Prydeinig. Ac y mae ein Tad nefol yn barotach i gyfranu yn fwy-fwy o nerthol weithrediadau ei Ysbryd nag y mae y Saint yn gyffredinol yn awyddus i'w derbyn.

"Gan mai felly y mae, beth a luddias y gwaith yn Mhrydain i fyned yn mlaen gyda sel a chyflymdra deuplyg? Paham na orphwysa Ysbryd Duw yn nerthol ar holl gangenau ei eglwys yn ein gwlad? Paham na chyffroir Ysbryd ymofyngar yn mhlith y bobl, ynghyd ag awydd am ddeall gwirioneddau pwysig y genadwri olaf hon, yn mhlith miloedd o feibion a merched Brydain? Paham na thra ragora y flwyddyn 1854 mewn tywalltiadau helaethach o Ysbryd Duw ac mewn cynhenaf digyffelyb i achub eneidiau? Nid oes rwystr nac achos paham oddieithr anffyddlondeb y Saint. Os ymostynga y Saint Prydeinig eu hunain oll o unfryd calon ger bron yr Arglwydd, mewn edifeirwch am eu beiau, gan ddwblu eu diwydrwydd a'u ffyddlondeb, a gweddio yn daer arno Ef i dywallt o'i Ysbryd Glân yn helaeth arnynt hwy ac ar bobl Brydain, credwn y tywalltai fendithion i wared na byddai lle i'w derbyn —llanwid plant Duw a ei Ysbryd, hyd nes y byddai ei nerthol weithrediadau yn amlwg i bawb, a miloedd o eneidiau gonest a gofleidient y gwirionedd, er llawenydd i'r Saint a syndod i'r byd.

Etto gofynwn, beth a rwystra y fath gynnydd iant ar y gwaith? Ymddengys pob peth yn bleidiol. Mae y Saint wedi cynnyddu mewn doethineb, agorwyd maesydd newydd i'w myfyrdodau lle y gall eu meddyliau yn gyfreithlon ymgrwydro, cyfiawn weinyddiadau cyfraith Duw a'r gyflawnion ac ar anghyfiawnion a bortreadwyd ger bron eu llygaid. Mae barnedigaethau Duw a'r led drwy y byd. Difrodaeth rhyfel a haint a

gyd-dystiolaethant mai gwir yw cenadwri yr Henuriaid, ac nid yn hollol ddieffaith ychwaith. Hyd y nod yr athrawiaethau diweddaraf a lanwasant y Saint a gobaith a llawenydd, a'r byd a gelyniaeth ac arswyd adnewyddol, ac a gyd-brofir yn wirionedd-ol drwy y chwyldroadau sydd i oddiweddyd cenhedloedd y byd. Grymus-wyr a syrthiant yn y rhyfel, ïe, blodau dynoliaeth a aberthir yn ymborth i ryfel a haint. Yn eglurach, gwel y byd yr anghenrheidrwydd o ymfudo i Seion nid yn unig er dianc rhag dinystrau y byd, eithr, hefyd ymddengys doethineb ac ardderchawgrwydd egwyddorion sylfaenol y "nefol deuluoedd" yn gyferbyniol i dorriad ymaith gryfder y genedl gan y cleddyf a'r plâ, pan, y gonest galon a ymlawenha yn y gobaith a osodir o'i flaen yn yr Efengyl. Profodd llawer o feibion Brydain yn ddiweddar, drwy ffeithiau galarus, eu hanrheilyngdod i fwynhau, neu eu drygioni yn troseddu y parch a'r nodded a deilynga creaduriaid glanaf ein rhyw—yn awr gelwir y meibion hyny i wynebu y gwaedlyd faes rhyfelawg, a llawer o honynt ni ddychwelant.

A ni yn gweled fod yr holl bethau hyn yn gyd-weithredol er lledaenu gwaith yr Arglwydd yn Mrydain, oni ddylai yr holl Saint deimlo eu hunain dan rwymau i roîio olwynion y deyrnas yn mlaen, a choroni eu diwydrwydd a bendithion y nefoedd? Gadewch i ni weled oni wneir rhywbeth yn y flwyddon hon er lledaeniad y gwirionedd—rhyw beth a lanwa galonau yr holl Saint drwy y byd a llawenydd a mawl i'r Hwn Ydwyf, mawr. Ni ddylid anghofio fod bendithion yr Arglwydd yn cael eu cyf-lwyno mewn cyfartalwch cywir i ffyddlondeb y derbynydd. Dealled y Saint ynte, fod yn eu dwylaw eu hunain agoriadau eu bendithion.

Y cyfryw yw annogaethau ein Llywyddion, Frodyr! Yn mlaen ynmlaen i frwydr, i *ffyddygoliaeth, pwy a ddaw?* Nid pwy a *aiff*, eithr, *o flaen* ein byddin ddewr, er yn fechan, gwaeddwn Pwy a ddaw? Deued un, deued oll a fedda ofn Duw neu barch i ddyn—ufydd-dod i'r naill neu gariad at y llall, a'r neb a ewyllysio godi ei gleddyf daufiniog yn erbyn creulon-ach teyrnfradwr a gwaeth gelyn na *Nicholas* ei hun, yn awr yw'r cyfle, doed i'r alwad,—Duw o'i blaid yn darian a fydd.

---

Newidiad y Llywyddiaeth Frydeinig.—Hysbysir ni

gan ein parchus Lywydd S. W. Richards, fod y Brif Lywyddiaeth, ar ei ryddhau ef o'r cylch presennol, a gosod ei frawd, sef yr adnabyddus a'r anrhydeddus Franklin D. Richards o "Gworwm y deuddeg" i'w olynu, yr hwn sydd ar ei ffordd yma yn awr. Rhwydd hynt iddo, croesaw medd ein calon, ûr doeth, enau dros Dduw, a mawr arddeliad fo a'r ei lafur. Llawenycha ein darllenwyr hefyd, yn y gobaith o gydweithrediad y nef etto, a'r Lywyddiaeth newydd, megys ag ein bendithiwyd yn helaeth wrth ufyddhau i'w gynghorion yn y blynyddoedd y bu yma yn Llywyddu, sef yn 1850—1. Rhwydd hynt a mawr lwyddiant i'n hybarch a'n cariadus Lywydd ymadawedig pan yr elo, awelon y nef o'i blaid a fo, a mawr groesaw i fynwesau Seion gu, a theulu gorfoleddus—Duw eu dadau, am ei dda, a'i had-dalo fel na all arall, a'i deilwng ben a goroner â ffrwyth ei lafur mawr yn yr amser priod, yw awydd ei gyd-was hiraethog.

---

Yr Ymfudiad Ewropaidd eleni.—O'r 22ain o Ionawr hyd 24ain o Ebrill, hwyliodd naw o longau mawrion o borthladd Llynlleifiaid yn llwythog o Saint yn ymfudo tua Seion, pa rai a arolygwyd gan ein teilwng Lywydd S. W. Richards yn eu holl ddarpariadau cychwynol. O'r cyfanrif o 2702 yr oedd 58 o'r Genadiaeth *Swiss* a'r *Italian*, 678 o'r genadiaeth Ellmynaidd, ac oddeutu 300 o Gymru. Anfonwyd am 216 o'r Dyffryn gan eu perthynasau, ac aeth 8?7 ereill drwy gynnorthwy y Gymdeithas Ymfudol Barhaus. Costiodd yr ymfudiad hwn o £40,000 i £50,000. Ac wedi gorphen y mawr waith oll, sylwa y Llywydd—"Gyda mawr bleser y sylwasom ar y teimladau daionus, y cariad, undeb. a'r trefnusrwydd a ddynodai gymeriad y Saint ymfudol yn y tymmor mynedol, a'r hyn a ennillodd ganmoliaeth fawr gan fyd llygad-graff. Tra y parhâ y fath frawdgarwch bydd yr Arglwydd yn eu plith, i'w diogelu rhag pob niwed, ac i'w cynnysgaethu ag amynedd i barhau yn ffyddlon hyd ddiwedd eu taith."

---

Y Gymdeithas Ymfudol Barhaus.—Caniataer i ni yr hyfdra presennol i alw sylw y Saint yn fwy neillduol at y Gymdeithas ddaionus hon yn ychwanegol; canys, y mae yn deilwng o gefnogaeth. Hyderwn yr ymgalonoga y Saint at y gorchwyl pan edrychant dros yr hanes uchod, a gweled beth a wnaeth

hon eisoes. Yn gyferbyniol i'w hiraeth am Seion y llawenhânt am y ffordd o waredigaeth,—a phwy na ddywed nad dyma hi —hon yw'r fam a gipia ei phlant ffyddlon yn ei chôl i'w cartref ddymunol.

Yn y flwyddyn 1852 ymfudodd 250 drwy'r Gymdeithas hon. Yn 1853, cynnorthwyodd 403, ac erbyn eleni gweler y cynnyddiant mawreddog i 1073, y mwyafrif o ba rai oeddynt heb obaith, amgen, o waredigaeth o Babilon yn awr, os byth. Yma gweler eu bod hi wedi mwy na dyblu bob blwyddyn, a phan ystyrier hefyd, fod y rhai a aethant eleni wedi ymrwymo i gyfranu i'r Gymdeithas, heblaw eu cludiad, y swm o yn agos i £2000 i'w talu wedi y cyrhaeddont draw, pa rai, fel yn eu holl dreigliadau ereill a gynnyddant yn holl gylchdroadau y Gymdeithas hon: yn yr ystyriaethau hyn oll ymlawenhaed y Saint fod amser eu hymwared hwythau, er nad tlodi a phob rhwystrau, yn agoshau. Achosa y cyfraniadau am y chwarter mynedol i ni ofni fod y Saint yn colli golwg ar amcanion mawreddog y Gymdeithas hon, a chrefwn sylw yr holl Lywyddion at hyny.

Dywedasom o'r blaen wrth y Saint a feddant berthynasau neu gydnabod, neu nad pwy, yn Seion am ysgrifenu atynt i'w coffâu o'u dyledswyddau i anfon am danynt ar eu hol—ail annogwn i hyn, canys gwyddom mai hawdd yw iddynt hwy wneyd hyn—appelier at eu cofiant am eu hawydd blaenorol éu hunain, ac hysbyser iddynt fawr helbulon a pheryglon Babilon. Gwelsom lythyr yn ddiweddar oddiwrth gyfaill yn cynnyg talu costau dau berson o Gymru i'r Llyn Halen, a sierhauai mai CHWECH WYTHNOS o'i waith ef a dalai holl gostau y ddau yno! Pwy na ewyllysiai fod ganddo gyfaill yn Seion? Pa fodd y profir cyfeillgarwch yn well na thrwy eu hymofyn o gaethiwed i ryddid? Efelyeher y weddw daer hono ynte, a'i llwyddiant hi a gorono daerineb a'i gwnelo.

Heblaw yr uchod, cynnorthwyodd y Gymdeithas lawer o Denmarc a llaweroedd o'r Unol Daleithiau.

"Gyda yr hanes difyrus hyn am y mynedol," ebe y Llywydd Richards, "a gobeithion calonus am y dyfodol, hyderwn y blaenora y Saint ar ddim a wnaethant, drwy eu cyfraniadau mwy haelionus at y Gymdeithas hon, gan wybod eu bod hwy wrth hyny yn hwyluso gwaredigaeth pobl yr Arglwydd. Teilynga yr egwyddor hon sylw neillduol gan bob llenuriad yn yr

Ynysoedd Prydeinig, a chyd-weithrediad pob un o'r Saint; ac erfyniwn gael cyn diwedd y chwarter hwn, ffeithiau profadwy o'r cyd-weithrediad hwnw, drwy eu cyfraniadau haelionus."

Hyderwn ninnau na siomir ef yn ei ddysgwyliad, ond mai ffeithiau felly o bob cwr o'r Dywysogaeth hon a brofant fawr awydd y Saint am Seion.

---

Appwyntiadau.—Dymunir ar y Llywydd Jeremy ymweled a Chymmanfaoedd Sir Benfro, a chyd-drefnu a'r Llywyddion hyny, y mesurau doethaf er cynnyddiant y gwaith, a'r lleoedd mwyaf manteisiol yn Penfro Ogleddol a Chynnadledd Caerfyrddin i'r brodyr a ddaw i lawr i lafurio.

Da fyddai genym weled y Llywydd Daniels yma mor gynted y bo gyfleus iddo a'r ol trefnu pethau yn Nghynnadledd Aberteifi.

Aeth y Llywydd Robert Evans, Gorllewinol Morganwg, i'r Gogledd, lle y dymunir iddo gyd weithio a'r mesurau a gyd-drefnir ganddo ef a'r Bugail J. Parry, er adgyweirio Cynnadledd Sir Fon, ac ymweled a Dyffryn Conwy, &c.

Mae yr Henuriad R. Parry a J. J. Phillips, ar eu taith drwy y Gogledd ac at eu rhyddid i lafurio yno yn ol cyd-drefniad doeth yr awdurdodau parodol yno, hyd nes y ceir hysbysiad pellach ar y peth.

Aeth yr Henuriad Eunon o Rymney i Gynnadledd Aberteifi, Dafydd S. Harris o'r Cwmbach i Bont-y-Berem,—Henuriad Howell Parry, o Sir Fynwy, i lafurio y Nghynnadledd Meirionydd; a'r Henuriad Isaac Rees Cwm Celyn i'r un maes llafur.

Bydded hysbys fod John Davies, yr hwn gynt a lafuriai yn Nghynnadledd Meirionydd wedi ei ethol yn Llywyd ar y Gynnadledd hono.

Aeth yr Henuriad John Rees i Gynnadledd Sir Aberteifi i lafurio o tan Lywyddiaeth yr Henuriad J. Evans, wrth yr hwn dywedwn i ni fethu yn hollol er pob ymgais gael gŵr i'w bŵrpas i'r fan arall.

Na ddealler ni i fod yn awgrymu unrhyw gyfnewidiad yn awdurdodau na chynlluniau unrhyw Gynnadledd wrth anfon ereill yno, ond i gynnorthwyo y rhai sydd yno eisoes, a gobeithiwn yr ymeanga yr awdurdodau perthynol, eu llygaid a'u meddyliau yn llydain i gynllunio y ffyrdd ac i weled y lle-

oedd goreu i'r *Volunteers* sydd yn dyfod i'w plith a'r fyrder i wneyd dewr-waith mewn byr amser.

---

Newyddion Tramor.—Dyry y *Deseret News* i ni lawer o newyddion dyddorol o Ddyffrynoedd y Mynyddoedd, pa rai a gyd-dystiant am fawr ofal—aml fendithion a daionus fwriadau ein Duw i Seion;—cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ar yr achlysur o anfon deiseb i'r Senedd Americanaidd i wneyd y rheil ffordd o'r taleithiau i California drwy Ddyffryn Utah, yr hyn a'i dygai drwy ran fawr o'r ffordd a deithir yn awr dros y *Plains*—drwy wlad gyfoethog o lô a mŵn haiarn &c., ac a fyddai o werth mawr; ac nid ydym yn anobeithiol o'u llwyddiant nac o ganlyniad, o'r agorfa a barai hyny i filoedd o wasgaredigion Seion i allu ymgasglu tuag adref. Addawa y Llywodraeth Diriogaethol 400 o ddolars o wobr i'r sawl a gynnyrchai fwyaf o gawarch a llin ar y lleiaf o dir, eleni; arall, o fil o ddolars i unrhyw ddinasydd a agorai waith glo yn effeithiol o fewn 40 milltir i'r Ddinas; bu dan ystyriaeth y cynllun goreu i wneuthur Camlas o Lyn Utah i'r Llyn Halen Mawr. Y gweithiau haiarn yn Ninas y Cedrwydd, y rhai a ohirwyd am ysbaid i wneyd amddiffynfa, a ail gychwynwyd yn rymus. Y mur o amgylch y ddinas hono oedd yn agos a'i orphen; ysgoldy yn 60 wrth 25 troedfeddi a gwblhawyd er y gwyliau, pryd yr ymwelodd tua 300 o'r Indiaid cymmydogaethol a hwynt ag y pregethodd y Brodyr iddynt yn eu hiaith eu hunain ac anrhegasant hwynt ag ŷch tew, llysiau, blawd &c., er eu mawr lawenydd. Ymroad mawr ynmhlith y brodyr i ddysgu ieithoedd y brodorion. Heddwch cyffredinol wedi ei adferyd rhwng y Saint a'r Indiaid. Cant a hanner o deuluoedd wedi ymfudo i gryfhau amddiffynfa Dinas Manti, lle yr oedd caerau cadarn o'r newydd yn cael ei wneyd—a dysgwyliad am Lywydd Newydd i olynu y Patriarch Morley, a rydd-hawyd o'r mawr ofal dibynol ar y cylch hwnw. Amrywiol o'r Cymru wedi myned i Manti i wladychu, —ereill i Box Elder 60 i'r gogledd o Ddinas Llyn Halen, a thrwy amryw lythyrau a dderbyniodd eu perthynasau yn y wlad hon, a'r rhai a'n ffafriodd a chip-drem arnynt, yn mawr ganmol eu lle a'u breintiau—iechyd cyffredinol, digonedd o luniaeth, boddlonrwydd hollol i'w cyflwr a mawr alw ar eu cyfeillion eu dilyn i'r waredfan hono; ac pan y gollyngwn raff

Fn meddyliau i redeg yno yn ol, parod y'm i waeddi,—"Gwyn fyd preswylwyr dy dŷ yn wastad y'th foliannant," pob peth yn dda yno.

## CASGLIADAU EGLWYSIG.

Mewn atebiad i ofyniadau mynych ac amrywiol ar y pen hwn, dywedwn fod cyfreithiau sefydlog ein Heglwys yn dysgu pob un sydd a wnelo ag unrhyw arian eglwysig, i gadw cyfrifon eglur o'r swm a dala pob cyfranwr ar gyfer ei enw mewn llyfr coffadwriaeth, i'w arolygu gan ei Lywydd, ac i foddhau pob cyfranwr a ddymuna ei weled unrhyw bryd, a'u bod i'w trosglwyddo i gyfrifon y Gynnadledd, i'w cynrychioli ar gyhoedd yn y Gymmanfa, fel y deallo pob un yn gywir fod ei arian wedi cael eu defnyddio at y pwrpas eu cyfranwyd. Gan mai yn ol ei ewyllys y cyfrana pob un, dylai y rhai y perthyna y gorchwyl iddynt ddysgu y Saint eu dyledswyddau at bob casgliad drwy ddangos yr angen o hono, y lleshad a achosa a'r niwed o beidio gwneyd yr hyn sydd gyfiawn at bob peth yn ei le a'i amser priodol; eithr nid i fygwth na chaethiwo meddyliau na gosod swmiau penodol, oddieithr bod dyled eisoes a raid ei dalu erbyn amser nodedig.

Ni allwn ddirnad fod yn gyfiawn i neb, ar unrhyw ammodau, heb ganiatad y *cyfranwr*, i dreulio neu gyfiwyno ceiniog o'i gyfraniadau at ddim ond at yr hyn a amcanwyd gan y cyfranwr:—Ni fedda Llywydd, na Chynghor, na Chynnadledd, na neb hawl i roi cyfraniadau ond yn unig yn ol *dewisiad* y *cyfranwr*. Onite pa fodd y gwyddis pa faint a gyfranodd personau at un peth, pan agorir y llyfrau yn Seion;—nid cyfiawn fyddai, ac na wneler ef rhag rho'i lle i'r *gwr drwg!*

## BLODAU.

Y Blodau sydd hawddgar a pheraidd yn wir.
A'u hamwisg yn brydferth a brith;
Yn ddenol bwysiau, addurnant y tir,
A'u harddwch yn berlog gan wlith:—
Ond er ardderchoced, fel gem goruwch gem,
Ac er mor serch hudol y rhain,
Yn fuan ymwywant, yn waelaidd eu trem,
Ni welir o'u hol ond y drain.

Y bachgen glân tirion, yn dalgryf a hardd,
A'r wridog, fain, fywiog iawn ferch,
Rhagorant mewn tlysni ar oll yn yr ardd,
A'u tegwch hudolant bob serch;—
Ond er eu rhagoriaeth, heb dduwiol ddwyn ffrwyth,
Ni byddant o werth, ond i dân;
A chosp, i'w goddeithio, dan soriant yn llwyth,
A ddilyn euogrwydd rhai glân.

Fel nad oes gan flodau gwywedig o'u hôl,
Ond dreiniach i'w llosgi drwy'r tir,
Ieuenctyd nis gedwch, gan ymddwyn yn ffol,
Ond tanwydd eneidiol yn wir;
Y penaf brydferthwch yw rhinwedd y moes,
A ffrwythlawn santeiddrwydd hyd fedd,
Ac yna, nol darfod a'r freuol fêr oes,
Ceir cynnydd tragywydd mewn hedd.

ROBYN DDU, ERYRI.

## AMRYWIAETHAU, &c.

Y CHOLERA.—Mae yr ysgubell front hon etto ar waith mewn llaw rymus i lanhau heolydd Edinburgh, Glasgow,—yn nes na hyny,—yn Hamilton, Llynlleifiaid, os nad nes na hyny etto, o'u haflandid halogediccaf, sef, ymffrostgar blant "cristionogaeth" a lân luniwyd a'r ddelw Duw; gwir gristionogaeth a waredo ei hufyddion rhag ei rwysg.

LLONG DDRYLLIADAU,—Mynych a ddigwydda yn ddiweddar, un gyda cholled o dros 200 o fywydau ar ororau Brydain, arall yn mhellach i'r gorllewin a suddodd wedi braidd gael tuag 800 o ymfudwyr o honi ar fwrdd llong arall.

DERBYNIADAU AM LYFRAU.—£0,000,000,000,000,000,000 ! ! !

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau, i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street, Merthyr-Tydfil.*

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Gair Doethineb | 277 |
| Cynghor Cynnadleddol Dwyreiniol Morganwg | 272 |
| Golygyddiaeth—Cynnyddiant gwaith Duw—Newidiad y Llywyddiaeth Brydeinig—Yr Ymfudiad Ewropaidd eleni—Y Gymdeithas Ymfudol Barhaus—Apwyntiadau—Newyddion Tramor | 284 |
| Casgliadau Eglwysig | 291 |
| Blodau | 291 |
| Amrywiaethau, &c. | 292 |


MERTHYR-TYDFIL:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 19.] MAI 20, 1854. [CYF. VII.


### Y GAIR DOETHINEB.

GAN Y LLYWYDD S. W. RICHARDS.

[Parhad o dud. 279]

Ysgrifenwyd a phregethwyd llawer o barthed i'r Gair Doethineb, a gwnaeth rhai Henuriaid hyn yn rheol i brofi teilyngdod aelodaeth eglwysig, ac er hyn oll nid yw pawb yn ei ufyddhau; ereill a ufyddhasent iddo am ysbaid, a deimlant yn rhydd i ddychwelyd at eu harferiadau llygredig blaenorol, fel yr hwch wedi ei golchi yn dychwelyd i'r dom, o herwydd na orchymyna y dadguddiad yn bendant i'w ei gadw. Tybiwn na chadwodd y rhai a droisant oddiwrtho fel hyn, mo hono erioed er mwynhau ei fendithion, ond drwy ddyben annheilwng, naill a'i o herwydd y gorfodwyd arnynt, neu y fod ereill yn ei gadw, ac y byddai raid iddynt hwythau wneyd hyny neu gael eu hystyried yn wan yn y ffydd. Mae yr holl ddybenion hyn yn anghydweddol ag egwyddor y dadguddiad, canys ni roddwyd ef "drwy orchymyn na gorfodaeth," ac ufydd-dod gwirfoddol i ewyllys ddadguddiedig Duw yn y fath hyn, yw y dystiolaeth gadarnaf o gywirdeb y rhai a ymddarostyngasant i'w gyfreithiau Ef.

Nid doeth yr holl ymdrechiadau a wnaed er sefydlu yr egwyddor hon, onide buasai ei heffeithiau rhinweddol yn fwy cyffredinol a pharhaus.

Ped ufyddheid iddo oddiar iawn ddealltwriaeth o'i egwyddor sylfaenol, o lwyr fryd calon i anrhydeddu yr egwyddor ac i

fwynhau y fendith, byddai y fath ddyben mor sicr a pharhaus a'r egwyddor. Ac ni ddichon Saint weithredu yn ymwybodus ar sail egwyddor bur a thragywyddol heb deimlo eu bod yn troseddu yn eu herbyn eu hunain, yn erbyn yr egwyddor ai Hawdwr, os troant ymaith oddiwrthi; camgyhuddant eu bywyd felly, a thraddodant eu hunain i ddylanwad gau ysbryd, yr hwn a'u harweiniau i dywyllwch ac yn y diwedd i angau.

Honna y Gair Doethineb fod yn "ewyllys Duw," ac os felly, ni ddichon unrhyw Saint ei ddiystyru heb deimlo mwy neu lai o gondemniad. Ni ddichon unrhyw Saint weddio am i ewyllys Duw gael ei wneuthur ar y ddaear megys ei gwneir yn y nef tra yn troseddu y Gair Doethineb heb fod yn gwatwar Duw drwy hyny; o herwydd, cyn y daw yr amser gogoneddus hwnw, rhaid iddynt gadw, nid y Gair Doethineb yn unig, eithr hefyd bob ewyllys dadguddiedig y nef, pa un a'i trwy orchymyn neu gynghor.

Os na ufyddheir yn ewyllysgar i'r cyfryw ewyllys Duw, yn fuan daw iddynt yn orchymynedig ac yn fatter o anghenrhaid, a'r wobr am y fath ufydd-dod yw gwobr y gwas anfuddiol. Gymmaint mwy boddhaol yngolwg Duw yw fod Ei blant yn ymhyfrydu byw yn ol pob gair a amlyga Ei ewyllys o barthed iddynt, na eu bod heb wneyd dim ond yr hyn y gorfoda ofn cosp y troseddwr hwynt i'w wneuthur. Cyffelyb i'r plentyn anufydd, yr hwn a gynllwynai i dalu yr ufydd-dod a rwystrai i'w dad ei ddiarddel, felly y mae gormod o'r Saint, y rhai nid ymddengys bod ganddynt amcan pellach na sicrhau iddynt eu hunain aelodaeth Eglwysig mor ddidrafferth a digost ag y gallont. Amlygir yr egwyddor hon yn nodedig yn y rhai ni chadwant y Gair Doethineb, na chyd-ymffurfiant ag amryw gynghorion ereill o herwyddd nad ydynt yn orchymynedig. Nid ymhoffa Duw yn cyfranu bendithion y nef i'r cyfryw fwy nac y cyfranai tad ei drysorau i blentyn trofaus. Gwobr y cyfryw fydd gyfartal yn unig i gyfiawnder y gyfraith a gadwasant tra y rhai a fyddant byw yn ol pob gair a ddaw o enau Duw, a gyfoethog alluogir i wneuthur daioni, i adeiladu Seion, a hwy a gymmeradwyir ganddo fel na attal Efe ddim daioni oddiwrthynt, a'u gwobr a dra ragora ar ddim a ddychymygodd calon dyn. Diau nad allai fod gan yr Arglwydd ddyben amgen yn amlygu y Gair Doethineb nac i fendithio, dedwyddoli a dyrchafu ei blant;

i'r cyfryw ddiystyru y bendithion cynnygiedig a arddengys radd o sarhad a'r ffyrdd Duw na ddysgwylir oddiwrth ond y rhai ydynt hologiedig o galon neu rhy anwybodus i arwain eu hunain i ddedwyddwch, llawer llai addas i gael eu hymddiried ar eiddo ereill.

Oni bai yr hyn a welsom yn fynych yn mhlith y Saint ystyriwn fod yn gyfartal a chyhuddiad i'w cymhell i gadw y Gair Doethineb, heb son am yr anghenrheidrwydd o wneyd hyny. Ymddengys braidd yn anhygoel fod gwyr a gwragedd a ufyddhant i'r efengyl, a ymrwymant i ufyddhau i bob dadguddiadau, a phan lefara Duw wrthynt drwy lais doethineb, o'r braidd yn ei ystyried; o leiaf y mae yn anghysondeb, ac ni ddeil cywirdeb y fath broffes brawf y gwirionedd. Nid oes air, debygem, i'w gynnyg er dieuogi y fath drosedd o ewyllys Duw, er nad yw yn dyfod yn orchymynol; euogrwydd meddwn, o herwydd ysgrifenedig yw "Yr hwn a wybu feddwl ei Arglwydd ac nis gwnaeth a gurir a llawer o wialennodiau."

Wedi canfod yr anghenrheidrwydd o gadw y Gair Doethineb, y gofyniad nesaf yw—Mewn pa beth y mae yn gynnwysedig? neu, fel y gofynwyd ini, "Pa beth yw Gair Doethineb i'r Saint yn y wlad hon? Ai tê, coffi, cwrw, porter, whisky, &c., yw y diodydd poethion a waherddir, neu a all gwr neu wraig ddefnyddio y pethau hyny heb droseddu y Gair Doethineb? Nid yw cwestiwn fel hwn yn tarddu gymmaint o ddiffyg synwyr cyffredin yn mhob bod deallus i ateb yn foddhaol ei hunan, ag yw o herwydd y camwri a ddynoda ddysgeidiaeth y rhai oedd a'u gweithredoedd yn groes i hyny, a pha rai, pan y dysgwylid wrthynt am gyfarwyddiadau cywir, a roisant yr eglurhad a feddylient oreu i'w hesgusodi am droseddu ewyllys Duw, a boddio rhyw chwant a'u dygodd i gaethiwed. Nid oes braidd blentyn deuddeg mlwydd oed yn yr eglwys, a fedda Ysbryd Duw, ac a all ddarllen y Gair Doethineb heb iawn ddeall ei ystyr ai wir ddyben, nac heb ddeall pa fodd i gyfarwyddo ei fuchedd fel ag i deimlo yn hollol rydd a chymmeradwy ger bron Duw. Ni chredwn y dichon unrhyw Saint egwyddorol beidio cymmeradwyo y cynghorion a'r cyfarwyddiadau a gynnwysa, a bod yn abl i benderfynu beth yw ei ddyledswydd ei hun o barthed iddo, a thrwy ymddwyn yn ol y farn hono, ddyfod i wybod yn ddiammheuol iddo anrhydeddu y dadgudd-

iad a bod doethineb yn cael ei chyfiawnhau gan ei phlant ei hun.

Dywedodd yr Arglwydd fod y dadguddiad hwnw yn gyfaddas i bob rhai o'r Saint, yr hyn sydd ddywediad hollol afresymol os oes achos i'r ammheuaeth a ddangosa llawer am ystyr gwirioneddol y peth; arddengys y fath ammheuaeth os bodola, ddallineb nid bychan. Dywed yr Arglwydd nad doeth yn Ei olwg yw i'r Saint ddefnyddio diodydd cryfion, ar peth nesaf a glywwn yw,—"A gredweh chwi o ddifrif fod yr Arglwydd yn meddwl, whisky, cwrw, brandy, gin, porter, &c.?" oddiwrth wyr a gwragedd a honnant cryn gyfran o synwyr cyffredin, megys pe na welsent ac na chlywsent eu bod yn ddiodydd cryfion. Gellid gofyn gyda mwy o briodoldeb onid gwawdiaith oedd gofyn y fath gwestiwn, neu er dangos dirmyg ar air Duw. Os nad yw y Gair Doethineb yn cyfeirio at y pethau hyn, nid yw o nemawr ddefnydd yn ei gyssylltiadau ag arferiadau y Saint, ac ni pharai gymmaint syndod i ni pe clywem ryw un yn gofyn beth a feddylia os nad y pethau yna.

Etto, y rhai a ymarferant ag yfed tê,—brodyr a chwiorydd da a eisteddant uwchben cwpanaid boeth angerddol o dê fel pe bai un o brif ddanteithion daear, a rhyfeddant os yw y Gair Doethineb yn cyfeirio at dê a choffi pan y dywed, "nid yw diodydd poethion yn dda i'r corph nac i'r bol;" a phe gellid eu hargyhoeddi fod cwpanaid o dê poeth yn ddiod boeth pan ei hyfir yn boeth, penderfynant yn synwyrgall, adael iddo oeri tipyn, pan ar yr un pryd y mae ddigon cryf i gadw dyn anymarferol ag ef yn ddihun drwy y nos, megys y buom ni weithiau wedi cyd-ymffurfio a dymuniad ereill i'n hanghyfleustra ein hun. Yn wir, yn gymmaint nad oes anghen cyhyddwr ar gydwybod euog, gellid cael mil o resymau a chynnyg cynnifer esgusodion braidd er cadw yn fyw, os posibl hefyd, y gobaith trengiedig braidd o fod yn alluog i ddilyn yn mlaen yr ymarferiad o dê, coffi, whisky, rum, cwrw, a llawer o arferiadau ereill anfoesgar a niweidiol i'r cyfansoddiad ac i'r meddwl dynol. Ymgynefina llawer a'r arferiad yn lle ufyddhau i gymmelliadau doeth yr Ysbryd ynddynt, hyd oni serir eu cyd-wybodau rhag teimlad o gondemniad o herwydd ymchwantu yn y fath arferiadau llygredig.

Etto, ysgrifenwyd nad yw tobacco yn dda i ddyn eithr syn-

asom ni weithiau am i'r Arglwydd wneyd y fath gamsyniad, pan y gwelwn gynnifer o Saint a broffesant fod o dan arweiniad yr Ysbryd hwnw sydd yn arwain i bob gwirionedd yn glynu wrth y llysieuyn fel wrth fywyd, gan ei garu yn fwy nac y carant eiriau Duw. Diau fod y fath anghyssondeb arwynebol yn gofyn mwy o amddiffyniad nac a allwn ni ei roi, a chaniatawn i'r fath Saint amddiffyn eu hachos eu hunain, eithr nid heb eu rhybuddio, serch hyny, fod y dydd yn dyfod pan y gofynir iddynt gyssoni eu hymddygiadau a'r dadguddiad rhag grybwylledig.

Nid yw yn amser i'r Saint ymchwareu a dadguddiadau Duw megys y gwna llawer a'r Gair Doethineb, pryd y maent yn gweled yn feunyddiol y drygau dirif a achosir drwy yr ymarferiad a'r pethau a waherddir yngair Duw, ac y canfyddant y genllif o ddrygioni na ellir lluddias ei rhwysg nes bo y cenhedloedd wedi eu hanrheithio ganddynt a'u claddu yn y gyflafan. Dylent ymuniawni yn y fan a bod yn esiamplau i'r genedl sydd yn codi, er iddynt ymwrthod a gwâg arferiadau y Cenhedloedd a thyfu i fynu yn ddychryn i annuwioldeb. Delir y rhieni na wnant hyn yn atebol am bechodau eu plant, y rhai, amgen, â nerth mawr a yrasent yn ol y ffrwd o ddrygioni ag sydd yn cynhyrfu llidiawgrwydd yr Un Cyfiawn, ac yn enw Duw Israel sefydlasent gyfiawnder y nefoedd ar y ddaear. Dylai pob plentyn o oedran cyfaddas argraphu y Gair Doethineb ar ei gof, a chael ei ddysgu i'w ufyddhau; canys pe felly cymmorthwyai i ennill dylanwad ar eu rhieni i'w gadw yn hytrach na goddef y gwarth a ystyriai eu plant yn perthyn iddynt.

Gresynaf o bob gaethion yw y neb a gaethiwwyd gan ei chwantau cnawdol eu hunain, y rhai mae ganddynt allu, ac y bydd raid eu gorchfygu, cyn y mwynhant yr addewid yn y byd hwn na gogoniant y byd a ddaw. Gorphwysa cyfrifoldeb mawr ar rieni a feddant blant i'w hiawn ddysgu yn yr egwyddorion pwysig hyn. Dylanwad arosol a'r feddwl y plentyn yw esiampl ei rieni, a'r hyn a ffurfia brif nodweddau ei gymmeriad am ei oes, ond odid. Mor bwysig ynte yw, fod plant yn cael eu dwyn i fynu yn anarferiadol a'r perthau hyny ydynt mor dueddol i blannu hadau marwoldeb yn yr ieunctyd ag yw arferiadau y Cenhedloedd, pa rai a fyrhasant einioes dyn i annadliad braidd,

a'r hyn bethau a waherddir yn awr gan Dduw fel y byddo i'w blant gael byw. Mae o'r pwys mwyaf fod y genedl sydd yn codi yn cael eu harwain, megys cynnrycholwyr Duw—gwneuthurwyr Ei holl ewyllys yn mhlith dynion! eithr tra y parhao esiamplau rhieni yn groes i egwyddorion y nef, diffrwytha i raddau, ymdrechiadau yr Henuriaid. Dyry esiampl argraph effeithiol iawn a'r blant, a thra y bydd esiamplau felly o'u blaen, dihoena y byd yn mlaen mewn ffolineb, drygioni ac anwiredd, er gwaethaf ymdrechiadau Duw, angylion a dynion, hyd nes yr agora uffern i'w derbyn pan y trengant o flaen barnedigaethau Duw. Dylai yr addewid a ganlyn fod yn anogaeth ddigon cref i gymhell hen ac ieuanc i gadw y Gair Doethineb—"Ar holl Saint a gofiant i gadw a gwneuthur yr holl bethau hyn, gan rodio yn ufydd i'r gorchymynion a gant iechyd i'w bogail, mêr yn eu hesgyrn, ac a gant ddoethineb a thrysorau o wybodaeth, hyd y nod trysorau cuddiedig; rhedant ac ni flinant, rhodiant ac ni ddyffygiant; a myfi yr Arglwydd a roddaf iddynt addewid y bydd i angel y dinystrydd fyned ymaith heibio iddynt megys yr aeth heibio i blant Israel ac ni laddodd hwynt?

---

## ANNERCHIAD AT FUGEILIAID A LLYWYDDION.

Anwyl Frodyr.—Yn gymmaint y bod y cyfnod yn agoshau pan y trosglwyddir cyfrifon y Swyddfa hon i'n holynydd, crefwn eich sylw personol at oruchwylion pwysiccaf y Swyddfa a'r Eglwys yn gyffredinol.

Ni chynnorthwywyd ond ychydig a'r brif Drysorfâu yr Eglwys yn y chwarter mynedol, yn enwedigol Offrwm y Deml a'r Gymdeithas Ymfudol Barhaus, yr hyn ddiffygiadau a esgusodir i raddau o herwydd ei fod yn dymor yr Ymfudiad, yr hyn sydd yn galw am ymdrechiadau neilltuol at y gwaith hwnw. Y chwarter presennol yw y tymor yn yr hwn y dylai Llywyddion a swyddogion yn gyffredinol ymfywiogi o'r newydd i weithredu yr hyn bethau a ollyngwyd dros gof braidd am ennyd gan lawer o'r Saint, a diau y gofynir cryn ymdrech gan yr oll er galluogi y Cynnadleddau i anfon i mewn eu cyfraniadau hanner blynyddol mewn modd clodadwy iddynt eu hunain ac yn gyferbyniol a'n dysgwyliadau ninnau. Yr ydym yn hynod awyddus ar y matter

hwn, gan ein bod yn dymuno na byddo yr un o'r Trysorfau yn llai a'r ddiwedd ein goruchwyliaeth, yr hon a ddysgwylir i derfynu gyda y chwarter hwn.

Ymhysbysodd y Llywyddion hyny a ddechreuasant a'r eu galwedigaethau yn ddiweddar eu hunain yngofynion y cylchodd hyny ond odid, yn enwedig ynghylch y swmiau a erfynir oddiar eu Cynnadleddau yn anrheg i Deml yr Arglwydd, yr hon sydd eisoes yn cael ei hadeiladu gan y Saint yn Seion. Hyderwn na ddiffygia neb anfon hanner eu swm blynyddol cyn y terfyna yr hanner blwyddyn ynghyd ag anrheg dlws i'r Gymdeithas Ymfudol, yr hon sydd iddi gymmeradwyaeth gyffredinol y Saint.

Gwelir fod y gofres ddiweddaf a gyhoeddwyd o ddyled Cynnadleddau am lyfrau a'r *Stars*, yn dangos cryn gynnyddiad ar yr un flaenorol, ac yn yr amser presennol yn neillduol nid yw y taliadau yn ddigonol i gynnal y dosparth cyhoeddiadol megys ag y dymunir. Gofynwn i'r matter hwn y cyfran o gynnorthwy a deilynga, ac os cyflawna y Saint eu dyledswyddau personol, a'r dyledwyr dalu i'n dosparthwyr eu ol ddyledion, ni orfodir ni i drosglwyddo i'n Olynydd gofres mor fawr o ddyledion a'r hon a ymddanghosodd yn y chwarter presennol.

Taer erfyniwn gyd-weithrediad yr oll o blaid y matterion pwysig hyn y gweddill o'r chwarter hwn fel y galluogir ni ar ddechreu mis Gorphenaf, i drosglwyddo busnes yr Eglwys i'n Olynydd o dan amgylchiadau mwy gwenog.

Doeth fyddai i'n Trysorwyr a'r Dosparthwyr i sylwi ar ein cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd yn y *Star*, Cyf. xiv. tud 474 am ddealltwriaeth gyffredinol, a boed foddlon ganddynt edrych ar fod y taliadau at y gwahanol Gymdeithasau a'r Llyfrau am y chwarter hwn yn ein cyrhaedd ni *ar neu cyn y* 30 *o fis Mehefin dyfodol.* Mae hyn o bwys o herwydd na ellir derbyn unrhyw beth i'n llyfrau ar ol yr amseryddiad hwnw.

S. W. Richards.

Llynlleifiad Mai 5, 1854.

---

DALIER SYLW!!

Ychwanegwn ninnau hysbysu ein dymuniad fod Llywyddion y Cynnadleddau Cymreig yn dwyn y matterion cynnwysedig yn Annerchiad ein Llywydd uchod ger bron Saint eu gofal, ac yn defnyddio y cynlluniau a welo eu doethineb yn fwyaf effeithiol i

ddwyn oddiamgylch ganlyniadau a fo yn ganmoladwy iddynt hwy a lleisiol i'r achos dwyfol ag y mae eu braint a'u dyledswydd i arolygu dosparthiadau pwysig a chyfrifol o hono, gydag ystyriaeth ddyladwy o'r cyfrifoldeb hwnw a ddysgwyliant rodd i'w Awdwr ac i'r frawdlys a'u dalia hwynt yn atebol.

Mae manylrwydd a threfnusrwydd yn ganmoladwy os nad hanfodol i lwyddiant mewn cyfundrefn berffaith, ac er ennill na chadw yr ymddiried dyladwy rhwng arweinyddion ei gwahanol gylchoedd; tra, o'r ochr arall y mae esgeulusdod yn y pethau lleiaf yn bradychu ymddiried, yn arwain i esgeulusdod gyda phethau pwysiccach, yr hyn a bara ddyryswch cyferbyniol i'w raddau, os nad yw yn dynodi gwrthryfel calon a'i gwnelo: o leiaf dangnosa sarhad ar yr Offeiriadaeth a'i gorchymyna, awdwr a sylfaenwr yr hon yw Mab Duw. I bawb a deilynga gael ymddiriediad unrhyw lywyddiaeth mewn teyrnas a ofyna ufydd-dod trwyadl i'w holl ofyniadau, ac i'r doethion a deilyngant gadw allweddau iachawdwriaeth plant Duw, hyderwn fod yr *awgrymiad* prydlon hwn yn ddigonol i sicrhau eu cyd-weithrediad diffuant a'r uchod, yr hyn a brofir wrth faintioli ac amseryddiad dyfodiad y casgliadau uchod i'n llaw. I'r neb a esgeulusa anfon ei gynnrychioliad hanner blynyddol o'i Gynnadledd—ei gyfraniadau at y Cymdeithasau rhag grybwylledig, a'r llyfrau a cenwau y cangenau a'r Trysorwyr yma mewn pryd i ni eu hanfon oddiyma *ar yr* 28 *o'r mis nesaf, sef, Mehefin*! tua Llynlleifiad, bydd raid cyfaddef fod ein apel yn aneffeithiol; eithr credwn well, ie, ceiswn gredu mai un peth fydd ceisio a chael—gofyn a chael atebiad, ac mai ein pleser oll fydd gweled llygad yn llygad tra Ysbryd y goleuni a'n goleuo.

---

## PENNILL.

Chwi gedyrn Israel dewch i'r maes,
Am danoch gwisgwch arfau'r nef;
Mae'r gelyn du a'i fyddin gas
Am ddifa'r Saint mewn gwlad a thref:
Dau-finiog gleddyf Ysbryd Duw,
Ac helm yr iachawdwriaeth fawr,
Fo gyda'r Saint—rhai garant fyw,
A'r gelyn syrth o'i sedd i'r llawr.

*Tre Stor.* T. Harries.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MAI 20, 1854.

Y Gair Doethineb.—Diammheu y caiff ein darllenwyr foddlonrwydd mawr wrth ddarlien sylwadau ein Llywydd, yn terfynu yn y rhifyn hwn, ar y testun yma, ac yr ymdrecha pawb ymflaenori i weithredu pob peth ar yr egwyddor a ddangosa. *Ewyllysgarwch* a ddylai fod yr achos cymhelliadol i gyflawni ein holl ddyledswyddau crefyddol yn gymmaint a bod ein lleshad ein hunain yn dibynu ar wneyd yr oll, tra, y rhai a ufyddhant rhag ofn cosp am beidio a gwneyd, neu a gymhellir gan unrhyw egwyddor heblaw ewyllysgarwch, a gollant y wobr ogoneddusaf, ac yn ei lle a gant gyflog gwas anfuddiol.

Craffed y swyddwyr doniol a selog sydd wrth y cannoedd yn y Gynnadledd hon, tra y mae miloedd o'n cyd-genedl mewn parthau ereill heb glywed yr efengyl,—mai y *Volunteers* a'alwa Duw i'r dewr-waith o ennill byd llawn o berlau anfarwol o afael y teyrnfradwr, i ryddid a gogoniant. Pa ryfedd hyny, gan mai *Volunteer* oedd y Brenin ei hunan,—pryd y gofynodd ein Tad ni oll yn y cynghor boreu, "Pwy a aiff?" Efe a atebodd gyntaf, "*Wele fi, anfon fi:*" a phwy na ddywed nad gwirfoddiaid oeddym oll cyn dyfod i'r cylch hwn, mai ein hymrwymiadau yno a oruwchlywydda ein tynghed i gael y fraint o ddyfod i'r cyfle i'w gyflawni yma; os felly gwylier, nid rhag gwobr y gwas anfuddiol yn unig, ond hefyd rhag ein cair yn y dydd sydd yn dyfod yn dorwyr ammodau henach nâ'r byd hwn, ac y bydd y canlyniadau o hyny yn parhau yn hwy nag y parha y ddaear, er mwyn greuan llygredig yr hon eu torir.

Nid yw Duw yn oedi gwneuthur unrhyw ddaioni i ni hyd nes eu gorchymynir —nid oes a'i gorchymyna Ef; felly yr oll a gyrhaeddant gylch goruchel y Duwiau a lywodraethir gan yr un egwyddor ddwyfol, ac fel Efe "a *chwiliant* am le i drugarhau" wrth druenusion; a chan hyny onid yw yn llawn bryd i blant Duw, y rhai a ddysgwyliant gynnyddu yn eu tebygolrwydd

iddo Ef a'u Brawd hynaf, nes dyfod yn un ynddynt hwy, ymroddi yn *wirfoddiaid* i bob daioni, yn lle esgusodi eu hunain rhag gwneuthur yr hun a welant yn eu gallu o herwydd na orchymynwyd iddynt wneyd y cyfryw beth neu bethau?

Amlygiad o ewyllys yr Arglwydd a ddylai fod yn ddigonol gymhelliad i bob peth, yna ni orfodid gorchymyn o'i enau; a'r canlyniadau o'r fath ewyllysgarwch a fyddai gwobrwyon na ddychymygodd y galon am eu gogoneddusrwydd. O herwydd i Israel ddiystyru yr egwyddor auraidd hon "yr ychwanegwyd y ddeddf o herwydd troseddau," ebe Paul. Ysgolfeistr i'n dwyn ninnau yn ufyddion i'r un egwyddor o fod yn wirfoddiaid fel Crist, yw yr holl orchymynion a roddir. Ein parodrwydd a wnelo orchymynion yn afreidiol i ninnau, a mawr a fydd ein gwobr.

---

Newyddion Cartrefol,—Yn y Gynnadledd hon ydynt yn gwellhau a lliosogi yn raddol, amryw fedyddiadau yn neillduol yn y ddosran ddwyreiniol o honi, undeb a chariad yr efengyl yn cynnyddu, y doniau yn lliosogi ac amryw o'r swyddogion yn son am wirfoddoli i'r achos.

Mynwy.—Y mae cynnyddiant cyflymach yma rhaid cyfaddef, tuag 20 wedi cael eu bedyddio er y Gymmanfa, ac nid rhyfedd hyn pan ystyriom mai oddiyno y ceir y mwyafrif o wirfoddiaid i'r winllan o lawer; gwiria yr Arglwydd air eu Llywydd yn hyn, sef, "pe yr elai eu hanner o'r ffordd y bendithiai Duw lafur y gweddill yn fwy-fwyfyth." Pawb i'w le ei hun a fo ein harwyddair ni oll.

Cynnrychioliad yn y Gymmanfa ddiweddaf (newydd ddyfod i'n llaw) oedd fel y canlyn. Hend. 86, Off. 25, Ath. 30, Dia. 21, Cyfanrif 568, Bed. 57. Cylchrediad y Cyhoeddiadau yn cynnyddu fel nad oes ond ychydig yn aros a'r law, sêl adnewyddol am ddosparthu traethodau, ac amryw wirfoddiaid ar gychwyn.

Penfro Ogleddol.—Ceir gwrandawiad astud gan y byd a sêl frwdfrydig yn y Saint, yn cael eu henyn fwy-fwy gan Ysbryd Duw yn eu cynnulliadau drwy y doniau ysbrydol, a galwa y Llywydd yn daer ac yn uchel a'r fedelwyr Morganwg i ddyfod yno i'w gynnorthwyo, fel y geilw hen ffarmwr mewn gwewyr pan welo ystorom yn dyfod ac yn dihidlo ei holl gynhenaf addfed—unig obaith ei fywyd, i'r ddaear o anghen cyn-

heuafwyr. Cysurwn ef drwy hysbysu fod tri neu bedwar o ragredegwyr y fyddin o fedelwyr a ddaw, ar y ffordd yno yn awr a'u crymanau yn loewon ac awychus, ac ereill yn hogi.

*Appwyntiad.*—Dealler fod Dafydd Williams wedi ei ddewis yn mhrif Gynghor y Gynnadledd hon i fod yn Henuriad teithiol, a gweddiwn ar i'r Arglwydd ei fendithio ef a'r cymhwysderau gofynol i lanw yr uchel a phwysig gylch hwn—i roi ynghalonau a galluoedd y rhai a wasanaetha gynhaliaeth iddo ef a'i deulu, a mawr fendithio y rhai a'i bendithiant ac a ufyddhant i'w gynghorion. Llafuria yn bennaf yn y dosparthiadau dwyreiniol yn awr.

*Gwirfoddiaid.*—Mae un o'r hen wroniaid a ennillasant y brwydrau enwog yn Sir Fynwy er's talm, wedi chwifio ei faniar wirfoddol i'r awel etto, sef, Richard Williams, Llywydd Canghen Rhymni; ac y mae efe a thri o frodyr ffyddlon ereill, wedi rhoddi eu bryd yn ddidroi yn ol ar osod banerau teyrnas y Brenin Iesu i chwifio yn fuddygoliaethus a'r gestyll uchaf Llanidloes a'r cylchoedd a'r fyrder. Engyl nef o'u plaid a fo nes hollol lwyddo.

---

## LLYTHYR O DIRIOGAETH UTAH,

AT MR. ISAAC JONES, CAERFYRDDIN, ODDIWRTH EI FAB.

*Dinas Ogden, Rhagfyr* 18, 1854.

Anwyl Riaint,—Derbyniais eich llythyr caredig, dyddiedig Medi 23, ar y 14 o Ragfyr, a'i gynnwysiad a barodd i'm calon i lanw gan lawenydd wrth glywed eich bynt, ac eich bod mewn iechyd.

Yr ydym yma mewn cyflawnder o bob peth ag sydd yn dda ar les ein cyrff a'n hysbrydoedd; dyma'r fan lle yr ydym yn cael clywed ein Llywydd Brigham, y Deuddeg, ac awdurdodau yr Eglwys,—y fan lle y cawn ein dyrchafu yn nheyrnas Dduw os y byddwn yn ffyddlon. Yr ydym ni fel teulu yn mwynhau iechyd da, ac mewn amgylchiadau cysurus, ac yn byw yn Ogden Fort, yr hwn sydd oddeutu 50 milltir yn ogleddol o Ddinas y Llyn Halen Fawr. Yr wyf yn gweithio wrth fy nghrefft, yr hon yw y gelfyddyd oreu yn y Dyffryn; medraf ennill deg swllt yn y dydd. Yr wyf yn byw yn nghanol yr Americaniaid, ac nid oes yr un Cymro arall yn y ddinas hon.

Y mae Henry a'i dad, Capt. Thomas a Martha, William a Thomas Treharn a'i wraig, Abednego Jones, John Thomas o Cwmaman, David Williams, Gorslâs, a'i wraig, ac amryw Gymry ereill yn byw yn Box Elder, 16 milltir i'r gogledd o'r lle hwn. Y maent oll yn cofio atoch. Y mae Sarah Richards a Charlotte yn byw yn Ninas y Llyn Halen, ac y mae Sarah yn ennill 6 swllt yr wythnos a'i bwyd. Yr wyf wedi cymmeryd cyfran o dir (*lot*) i chwi yn y ddinas hon, i adeiladu tŷ, ac amgau gardd harddwych o'i gylch, lle y gellwch fyw yn gysurus heb neb i'ch niweidio. Yr wyf yn bwriadu adeiladu tŷ i chwi erbyn y dewch yma. Yr wyf yn meddwl am danoch yn barhaus, ac am y caethiwed yr ydych ynddo, ac yn gweddio am i'r Arglwydd eich gwaredu o'r caethiwed, a dyfod i'r fan lle mae rhyddid cyffredinol yn teyrnasu. Pân y byddwch yn dyfod, dewch a chymmaint o arfau y gwŷddd ynghyd a'r holl bethau ereill ag sydd yn perthyn i'ch crefft. Fe fyddai yn well i chwi adael pethau ereill ar ol, fel y galloch ddod ag ychwaneg o'ch *tools*.

Y mae ein tŷ yn llawn o waith heddyw, yr wyf wedi llogi gwŷdd a'r holl arfau perthynol, y tŷ a'r cwbl, am bedwar swllt yr wythnos, hyd oni chaf gyfle i adeiladu tŷ i'm hunan. Dewch a llyfrau Hymnau hefyd gyda chwi. Y mae Eliza Lloyd yn iach, ac yn anfon ei chofio at ei mam a Mary, Henry a'r teulu, D. Michael, Margaret, Mary Jane a'r teulu, Mrs. Lewis a'r cyfeillion oll. Dywedwch wrth bawb am wneuthur brys i ddyfod yma.

Eich caredig fab,

DAVID JONES.

---

## IACHAD DRWY YR EFENGYL.

*New-market, Ebrill*, 28, 1854.

MR. GOL.,—Yn y rhifyn 13eg o'r UDGORN, gwelais hanes am allu Duw yn cael ei amlygu trwy weinyddu yr ordinhad a osododd Efe, sef, eneinnio ag olew ac arddodiad dwylaw yr Henuriaid, gan fod eich cyhoeddiad yn agored i roddi hanes y pethau mae Duw yn ei wneyd trwy ei weision yn y dyddiau diweddaf hyn, achubaf y cyfleusdra hwn i yru i chwi yr hanes canlynol :—

Yr oedd un o'r enw Jane, gwraig Edward Williams o Blwyf Llanasa, swydd Fflint, i'r hon y ganwyd plentyn oddeutu tri mis yn ol. Nid oedd gauddi nemawr laeth yn ei bronau er cynnal-

iaeth ei phlentyn, ac yr oedd hyn yn peri iddi gryn ofid a thrallod nid bychan, trwy ei bod yn gorfod codi yn y nos i'w borthi; er hyny nid oedd y plentyn yn cynnyddu ond ychydig iawn, ac annogwyd hi i geisio olew i'w gyssegru i'r dyben o weinyddu iddi, sef arddodiad dwylaw yr Henuriaid, a gweddi y ffydd, yr hyn a wnaeth yn ddioed. Derbyniodd y fendith, sef cael digonedd o laeth yn ei bronau i feithrin ei phlentyn, nes y mae yn dyfod yn mlaen yn rhagorol o dda, a'r fam yn moli enw yr Arglwydd, am fod yr arwyddion yn canlyn y credinwyr yn y dyddiau hyn, ac nid yn y dyddiau gynt yn unig fel y dywed doethion yr oes hon. Mae gwr y wraig yn dyst o hyn, a'r Henuriaid canlynol oedd yn bresennol pan yn gweinyddu, sef, Hugh Evans, Robert Parry, Joseph Jones, John Parry, a William Jones.

Eich brawd yn yr efengyl,

HUGH EVANS.

---

## GOFYNIAD AC ATEBIAD.

MR. GOL.,—A ydyw Henuriad sydd yn esgeuluso darllen yr UDGORN a'r *Star* yn addas i lywyddu Cynnadledd, neu a all rhyw esgus fod yn ddigonol dros beidio, ond yn unig darllen un o bob chwech neu saith?—M. P.

---

*Atebwn*,—na wyddom ni, ac nad allwn ddyfeisio pa esgus a ddichon gyfiawnhau un Llywydd Cynnadledd, Cangen, Dosparth, na theulu, nac esgusodi un aelod a beidia ddarllen a *gwneyd* yn ol pob rhifyn, a phob peth a ddywedir am wneyd yn mhob rhifyn o'r UDGORN a'r *Star*. Os nad yw pob cynghor ynddynt yn deilwng o ufydd-dod, nid yw yn werth ei ysgrifenu, ei argraffu a'i brynu; ac os felly, argyhoedder ni o hyny, a da iawn a fyddai genym gael, drwy hyny, ein rhyddhau oddiwrth orchwyl pwysig, costus, a mwy trafferthus nag y gallai y ceiniogau a ddaw oddi wrtho, *pe deuent* i logell ei Olygydd, ein temtio i'w wneyd.

Cyfryngau eglwysig yw y ddau gyhoeddiad hyn, at wasanaeth a than arolygyddiaeth y rhai a osododd Duw i gyfarwyddo ei blant hyd lwybrau y gwirionedd tua bywyd; a chan ein bod wedi ymrwymo i fyw yn ol pob gair *a ddaw* allan o enau yr Arglwydd drwy ei weision, a chan mai y ffordd hyn y daw eu geiriau hwy i ni; canys ni allant fod yn hollbresennol, gweler mai

diystyru, a gwrthod en geiriau hwy a geiriau yr Hwn a'u danfonodd, yw peidio a darllen y cyhoeddiadau hyn. Ond fod *Llywydd* mewn unrhyw gylch, yn enwedig Llywydd Cynnadledd, yn esgeuluso darllen yr UDGORN, yw bod yn analluog i hyfforddi Saint ei ofal yn ol ein cynghorion ni; ac mewn gair ni allwn ddeall fod hyny lai nag esgeulusdod mawr, os nad yn ddirmyg arnom ninnau, ac os parha dichon y gorfodir ni i brofi ei fod yn wrthryfel annyoddefol!

---

## CYMMANFA CAERFYRDDIN.

ANWYL FRAWD CAPT. D. JONES,—Ar ddydd Sul, y 30ain o'r mis diweddaf, cynnaliwyd Cymmanfa gan y Saint yn Nghaerfyrddin, lle y cyfarfu llawer iawn o swyddogion a Saint yn nghyd, pryd y cafwyd ar ddeall fod y Gymmanfa hon mewn sefyllfa dda iawn. Hefyd lle y penderfynwyd yn unfrydol ar ein bod yn un ag oll i barhau i ddal i fyny awdurdodau yr eglwys, ynghyd a'r holl rai sydd yn llywyddu drosom. Cafwyd ar ddeall hefyd fod Mormoniaeth yn myned rhag ei blaen, ac ar gynnydd trwy y Gynnadledd, a bod y swyddogion a'r Saint yn mwynhau Ysbryd Duw yn nerthol iawn; ac y mae golwg dda iawn hefyd am gael cynhauaf toreithiog i mewn i'r eglwys yr hâf dyfodol. Cafwyd pregethau rhagorol y prydnawn a'r hwyr gan wahanol swyddogion, sef, Dewi Elfed Jones, Robert Parry, John Evans o Sir Aberteifi, David Evans o Llanymddyfri, David Davies o Gynnadledd Llanelli, a James Josiah Phillips, heblaw gan ein hanwyl Lywyddion Thomas Jeremy, Daniel Daniels, a Llywydd y Gynnadledd, sef Thomas Jones. Ac yr oedd dylanwad rhyfeddol o dda yn gydfynedol a'u haddysgiadau oll.

Penderfynwyd fod Cymmanfa etto i gael ei chynnal yn St. Claers ar y 14eg o'r mis hwn, pryd y dysgwylir Dewi Elfed Jones ac amryw ereill o Gymmafa Llanelli, heblaw swyddogion y Gynnadledd hon fod yno ar yr achlysur. Ac ar y Sul canlynol i hyny bydd Cymmanfa i gael ei chynnal yn Llanymddyfri, pryd y dysgwylir i Henuriaid y ddwy Gynnadledd i gyd-gyfarfod yno. Yr ydym wedi penderfynu ei gosod yn un daenfa rwydau o ynys y tair Sir, ger Castellnewydd yn Emlyn, i Ystrad ffun, lle y mae y tair Sir yn ymgysanu ynghyd, sef Caerfyrddin, Brycheiniog, ag Aberteifi. Hefyd yr ydym yn penderfynu myned o'r cyfarfod

hwnw i Cilycwm nos Lun canlynol, i gynnal cyfarfod pregethu. Bydd swn magnelau teyrnas yr Iesu yn swnio nes dychrynu teyrnas y diafol, fel y bydd i'r rhai hyny a'u clywo benderfynu lystio dan faniar yr Iesu, a thrwy hyny dderbyn tystiolaeth eu bod yn feibion ac yn ferched i Dduw, Hefyd, crefwn arnoch am anfon cymhorth atom i'r Gynnadledd hon, am fod eisieu llawer *iawn*, IAWN, i weithio yma. Ein serch atoch yn fawr.

Ydym yr eiddoch,

THOMAS JONES, *Llywydd*,
ISAAC JONES, *Ysgrifenydd*.

---

## LLYTHYR ODDIWRTH J. DAVIES, MEIRIONYDD.

ANWYL LYWYDD JONES,— Idd eich hysbysu o'n sefyllfa bresennol yn y Gynnadledd hon, ysgrifenaf y llinellau canlynol :—

Mae y mwyafrif o'r swyddogion a'r Saint fel fy hunan yn penderfynu, yn ol eich cymhelliadau taerion drwy yr UDGORN, i ddefnyddio eu holl nerth a'u dylanwad i achub eneidiau i fywyd tragywyddol. Teimlir Ysbryd Duw yn helaeth, ynghyd a'i ddoniau melysaidd, agos yn mhob cangen o'r Gynnadledd; ac hyderwn eu cael yn helaethach bob yn ychydig.

Clywwyd ein lleferydd yn pregethu allan mewn amryw leoedd eleni cyn canu o'r Gog, a bwriadwn *dunio* yn uchel ein cân pan y byddo ei thymmor hi wedi myned heibio. Yr ydym yn ymdrechu gwneyd i bob trigianydd o fewn ein cyffiniau glywed ein lleferydd rhybuddiol; ond er ein gofid, mae yn rhaid cyfaddef, nas gallwn gwblhau hyn i'r drydedd os nad y bedwaredd ran o honynt, o herwydd anamldra y cantorion. Y mae genym gymmaint o le i wasgaru drwy ddwy Sir, a rhan o'r trydydd, fel y gellid gosod dwsin neu ddau rhwng pob dau o honom, ac etto gwnai y pellder rhyngddynt herrio y naill i glywed lleferydd y llall.

Pe bai rhai brodyr ffyddlon yn aberthu eu hamser i wasanaeth yr Arglwydd am gyfnod, byddai yn hawdd i amryw o honynt gael gwaith yn y wlad hon yn bresennol; o herwydd fel y clywsoch, ond odid, mai AUR ydyw y gwrthddryeh y prysur chwilia pawb am dano; ac y maent wedi cael, feddyliwyf, amryw weithfaoedd gwerthfawr; a thrwy hyny, a phethau ereill, mae prinder gweithwyr yn ol a glywaf yn gyffredin.

Nid ydym heb deimlo eich crybwylliadau yn yr UDGORN am

arian y Llyfrau hefyd. Crefwn amynedd am ychydig bach, ac ni a ymdrechwn anfon swm o honynt i chwi; ond gwell hwyr na hwyrach, ni a frysiwn ati o hyn allan.

Mae y brawd David Roberts a'i deulu yn iach ac yn cofio atoch; mae efe wedi dechreu ysgrifenu llythyr atoch, ac ond odid na chewch ef ryw dro. Mae Jason Thomas a'i deulu yn debyg fel eu gwelsoch, ac yn cofio atoch yn garedig.

Dysgwyliaf fedyddio rhai cyn hir, yn ol yr argoelion presennol mewn lle neu ddau.

Ydwyf eich brawd yn Nghrist,

*Ffestiniog, Mai* 4. JOHN DAVIES.

---

## YR "HEN GREFYDD NEWYDD!!!"

"'RHEN GREFYDD NEWYDD" ddaw cyn hir,
Drwy Gymru oll—boed iddi barch;
Hi ddengys DEYRNAS DDUW yn bur,
*Fel y gwnaeth gynt*, trwy ddwyfol arch:—
'Nawr Saint, rho'wn glod, a chanwn beth,
Am fod ein Duw yn rhoddi 'r fraint,
I ni gael taenu hon heb feth,—
Hi ddwg, *fel gynt*, ryw lu yn Saint.

HEN SANT O DRE-SIOR.

---

DERBYNIADAU am lyfrau o Ebrill 25 hyd yn awr,—yr un swm ag a welir a'r glawr y rhifyn blaenorol yn gymhwys, sef dim digon i brynu yr hadau a fwyta yr *aderyn bach* a gana uwch ein pen? a raid i ni ei ollwng i chwilio am ei damaid.

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau, i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street, Merthyr-Tydfil.*

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Gair Doethineb | 203 |
| Annerchiad at Fugeiliaid a Llywyddion | 298 |
| Pennill | 300 |
| Golygyddiaeth—Y Gair Doethineb—Newyddion Cartrefol—Mynwy—Pen. f'o Ogleddol—Appwyntiad—Gwirfoddiaid | 301 |
| Llythyr o Diriogaeth Utah | 303 |
| Iachad drwy yr Efengyl | 304 |
| Gofyniad ac Atebiad | 305 |
| Cymmanfa Caerfyrddin | 306 |
| Llythyr oddiwrth J. Davies, Meirionydd | 307 |
| Yr "Hen Grefydd Newydd." | 308 |


---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

Rhif. 20.] MAI 27, 1854. [Cyf. VII.


### DYFYNIAD O'R "HEN GREFYDD NEWYDD."

Dweyd bod yr arwyddion neu y doniau wedi cael eu rhoddi er sefydlu Cristionogaeth, sydd gyfystyr, mewn ffaith, â dweyd fod Cristionogaeth wedi ei rhoddi gynt er ei sefydlu ei hun; ac haeru nad oes anghen yr unrhyw yn awr yw dweyd nad oes anghen y Gristionogaeth hono yn awr, yr hyn ni fyddai fawr gwell nag anffyddiaeth o dan gochl, a chyflawniad llythyrenol o'r brophwydoliaeth a ddywed,—"Daw yn y dyddiau diweddaf watwarwyr, a'u serch arnynt eu hunain," y "pentyrant iddynt *eu hunain* athrawon [anysbrydoledig, yn gwadu anghen yr arwyddion cyntefig,] a chanddynt rith duwioldeb, eithr wedi gwadu ei grym hi." Dynion analluog iawn i sefydlu gwir Gristionogaeth fyddai y cyfryw; ac mewn gwirionedd, ni all neb ond Duw sefydlu y Gristionogaeth wirioneddol, o herwydd bydd ei sefydlogrwydd hi yn gyfartal i'r sicrwydd a ddyry Efe, drwy yr arwyddion, canlynol i'w eu hufydd-dod i'w air drwy ei weision. Eu cristionogaeth eu hunain ac nid ei Gristionogaeth Ef a sefydlir hebddynt.

Digon bellach, rhag meithder gormodol, er profi yr afresymoldeb o ddweyd fod yr arwyddion yn rheidiol er sefydlu Cristionogaeth gynt, a bod yr un arwyddion yn afreidiol er sefydlu yr un Gristionogaeth yn awr. dywedir yn nesaf, os sefydlu cyfyndrefn ar y ddaear, sef ffurf heb ei grym a feddylir wrth sefydlu Cristionogaeth, dylai y rhai a haerant hyny brofi eu bod hwy yn cyd-ymffurfio â'r ffurf eglwysig hono a geir yn y

Testament Newydd ynte, cyn y gallant honni fod Cristionogaeth wedi ei sefydlu. A chan na all dwy ffurf groes i'w gilydd fod yn gywir, yna y mae yr oll o'r gwahanol ffurfiau a sectau a honnant fod yn Gristionogol, yn condemnio yr holl rai ereill ond eu hunain o fod yn anghristionogol, sef y fod Cristionogaeth heb gael ei sefydlu yn eu plith; yr hyn, yn ol eu cyfaddefiad eu hunain, o ddyben arwyddion er ei sefydlu, a brawf y dylent ymdrechu cael yr arwyddion er ei sefydlu yn mhlith y lleill, ac yn eu condemnio eu hunain am beidio eu ceisio i'r dyben hyny.

Etto, os sefydlu y grediniaeth o farwolaeth ac adgyfodiad Crist a feddylir yn sefydlu Cristionogaeth, a bod hyny wedi ei brofi gynt, gofynir paham nad oes yr un anghen i gael dynion i gredu hyny yn awr; ac os felly, paham na ddylent gael yr un arwyddion? Ebe yr anffyddiwr, gyda gradd o gyssondeb, yn ngwyneb yr haeriad mai dyna ddyben yr arwyddion; a dylai y rhai a ddywedant mai dyben yr arwyddion hyny, oedd er argyhoeddi y byd, wneyd gwyrthiau, neu beidio proffesu cymaint o sêl ac awydd i gael gan y byd gredu ynddo, cyn y byddant gysson â'u hunain. Eithr er fod wedi ymresymu fel hyn â "Christionogion," ar sail eu haeriadau eu hunain, o ddybenion yr "arwyddion," etto ni chaed argyhoeddiad mai dyna oedd *gwir* ddyben yr arwyddion na gwyrthiau Crist na'i olynwyr, onide, rhaid caniatâu hefyd iddynt gael eu siomi, yn gymmaint mai eu gwrthod a'u herlid a gaffent fwy fwy, yn gyferbyniol i fawredd a chyhoeddusrwydd yr arwyddion a welid, hyd nes i'n Harglwydd tirion waeddi unwaith ynghanol eawod o gerrig ei labyddwyr duwiolfrydig, "Am ba un o'r gweithredoedd nerthol a wnaethym yr ydych yn fy llabyddio i?" Hefyd, pan yr adgyfododd Laszarus o'r bedd, cynddeiriogodd kyny hwynt nes y gorfuwyd y ddau i ffoi am eu heinioes: rhyfedd fel y siomwyd yr Iesu os dysgwyliai i hyny argyhoeddi yr edrychwyr, o'i ddwyfoldeb! Ac er fod rhai wedi credu wrth weled yr arwyddion weithiau, ni phrofa hyny mai drwy ddangos arwyddion o flaen eu llygaid yw y *ffordd* a drefnodd Duw i argyhoeddi y byd. Profwyd eisioes mai i GANLYN y rhai a gredasent dystiolaeth gweision Crist eisoes, ac nid i anghredinwyr er eu dwyn i gredu, yr addawwyd yr arwyddion dwyfol. Mae ffydd yn *dyfod* trwy *glywed*, nid trwy weled, ond clywed gair Duw o eneuau ei weision; a *gair Duw* i bob oes a phobl yw y genadwri a anfona Efe atynt drwy ei weision, ufydd-dod i'r hon sydd anhebgorol, cyn y mae iddynt hawl i weled na mwynhau yr *arwyddion* hyny eu hunain.

Cynnysgaeth credinwyr ac nid pethau i anghredinwyr yw y doniau ysbrydol a'r gallu Duw; – *tu fewn* ac nid tu allan i'r eglwys y maent i'w cael. A thra yr ymddengys yn rhesymol, i'r rhai a ddywedant mai dyben gwyrthiau oedd sefydlu Cristionogaeth, wneyd gwyrthiau eu hunain er ei sefydlu; etto, hollol afresymol gofyn i ereill a gredant yn groes i hyny, am yr un

peth. Y rhai a gredant y Gristionogaeth a ddarlunia y traethawd hwn ni phroffesant allu gwyrthiol eu hunain; a chan i Dduw eu danfon i *bregethu* y genadwri a roddes iddynt, a'u bod hwythau, fel Paul gynt, yn gwybod mai "trwy ffolineb *pregethu* [nid gwneyd gwyrthiau] y gwel Duw yn dda gadw y rhai sydd yn credu" eu *geiriau*, ac nid eu gwyrthiau, yna afresymol yw gwrthod eu *geiriau* a gofyn am weled gwyrthiau cyn y credir eu cenadwri.

Yr wrthddadl olaf y caniatâ cyffiniau y traethawd bach hwn i sylwi arni, a'r un fwyaf poblogaidd, debygir, a gynnygir yn erbyn y grefydd hon yw,—fod yr holl ddadguddiadau ag a ellir ystyried yn anghenrheidiol er iachawdwriaeth dyn wedi eu rhoddi eisoes, eu bod yn gynnwysedig yn y Beibl; ac y fod yr oes hon mor oleu fel y mae ychwaneg yn afreidiol i ni.

Ni ellir dweyd ond ychydig yma, o'r llawer o wrthbrofion a feddir, i'r haeriad yma; yn unig sylwir mai drwy roddi dadguddiadau newyddion a pharhaus y sefydlodd ac yr arweiniodd Duw ei Eglwys ar y ddaear yn mhob oes a gwlad o honi,—nid oes o fewn yr ysgrythyrau air o son am Eglwys i Dduw yn gwadu yr anghen o, nac heb fwynhau dadguddiadau newyddion a pharhaus iddynt eu hunain; ac o ganlyniad priodol y gellid ystyried bodoldeb Eglwys i Dduw, heb iddi gael dadguddiadau newyddion, yn *wyrth* na cheir hanes ei chyffelyb gan Dduw yn holl oesau myuedol y byd. Dywed holl "Gristionogion" fel y galwant eu hunain, fod y Duw a roddai, a'r Iesu o addawai, ynghyd a'r Ysbryd Glân â gyfiwynai ddadguddiadau parhaus i'w Eglwys yn yr oesoedd cyntefig yn fyw yn awr, ac yn anghyfnewidiol, ac y fod cynnifer o angylion yn y nef yn awr ac a fu erioed, eu bod mor awyddus i achub dynion yn awr ac erioed; ac onid yw y grediniaeth yna yn gorfodi, yngwyneb cyssondeb, i gredu eu bod mor barod i wasanaethu lles ac i gyfiwyno goleuni i ddynion yn awr, pe y teilyngent hyny?

Ni wyddys am gymmaint ag un o weision Duw, dan unrhyw amgylchiad, a ddywedodd nad oedd anghen ychwaneg o ddadguddiadau; eithr o'r ochr arall, lleferydd yr anghrist ai weision y profwyd hyn bob amser; ni waeth ganddo ef pa mor rith dduwiol y bo dynion—pa fath, na pha nifer o eg lwysi fydd ganddynt—pa ordinhadau nac athrawiaethau, na pha mor aml a hir y rhith weddiant am y peidiant a chael dadguddiadau newyddion. Nid anesmwythodd un eglwys, amddifaid o swyddwyr ysbrydoledig, mo hono. Ni fu arno arswyd eglwys heb ddadguddiadau, ond chwardda yn ei lawes pan ganfydda holl eglwysi y byd, a llawenhâ uwch y miliynau sydd ynddynt wedi credu yr haeriad anysgrythyrol ac anghristaidd, sef, fod dadguddiadau newyddion yn afreidiol. Gŵyr mai tra hyny, y gall efe eu cylch arwain oddiamgylch i gyfeiliornadau.

Y gampwaith rymusaf a wnaeth Satan er sefydlu ei deyrnas oedd, ennill "y trydydd cynghor yn Carthage," tua diwedd y bedwaredd ganrif, i eistedd mewn barn ar y cynysgrifau a fedd-

ent o air Duw, crynhoisent a ddewisent yn gyfrol a gwrthodasant y gweddill, gan sefydlu cyfraith, na ychwanegid byth lyfrau na dadguddiadau at y "Gyfrol." Gorfododd hyn eu holl hudoledigion hwynt yn y canrifoedd dilynol i wrthod pob peth a broffesai fod yn ddadguddiad newydd, a gwyddai efe yn burion nad oedd berygl i ddynion ddeall ei ddichellion tra y cadwai y gorchudd hwn dros eu llygaid. Boddiwyd ef yn fawr wedi hyny, wrth weled Pabyddion yn troi yn Brotestaniaid ac yn lluosogi fel y gallai gymmwynasu pawb a'r grefydd a ddewisent, a phob peth er eu tawelu a'u boddio i wneyd heb ddadguddiadau newyddion. Eithr yn y fan y denfyn Duw ei angylion i'r ddaear, yr anfona ddynion ysbrydoledig i sefydiu Eglwys iddo ei Hun, ac y mwynheir dadguddiadau a doniau yr Ysbryd Glân, cynhyrfa yr holl gau grefyddau a fedda yn y byd i gydwrthryfela yn erbyn hono â phob dyfeisiadau, ac nid yr un dan sylw, sef afreidiolrwydd dadguddiadau newyddion, yw y lleiaf ei heffaith o'i blaid; eithr trwy hon, ynghyd ag ystoriau anwireddus am gymmeriadau gweision Duw, a sel dros grefyddau eu tadau, a'r Beibl, cynhyrfa ei fyddinoedd mwyaf crefyddol i'w herbyn; ac os na all eu lladd ni foddlonir ef heb dreio lladd eu dylanwad fel na chreder eu tystiolaeth; a'i unig ddyben yn yr oll yw, cadw ei ddeiliaid yn y tywyllwch, drwy wrthod dadguddiadau newyddion, a goleuni Ysbryd Duw drwy ei ddoniau ai nerthoedd. Dychryna ei brif filwyr, y rhai a focthwyd ganddo â bywioliaethau parchus ac ennillfawr, rhag i obaith en helw ballu pan y clywant am grefydd yn cael ei phregethu heb arian ac heb gôd, gwewyr a'u harswyda pan glywant am adferiad yr hen Grist'nogaeth ddwyfol a'i dadguddiadau, ei gweledigaethau, a nerth yr Ysbryd Glân; ofnant y denai goleuni y nefoedd a'u twyllwch a'u rhagrith hwy i'r goleuni, ac na chaffent gyflogau ond am bregethu credoau croes-bleidiol, dynol, a chyfeiliornus; a chan na ddysgwyliant wobr gan Dduw, byddai yr hyn a gaffent gan y rhai a'u hiawn adwaenau yn rhy fach yn eu golwg.

Ymffrostio a wneir fod hon yn "*oes oleu*," aïe! "Oes oleu yr efengyl," "Gwlad oleu y Beiblau," a "gardd olau Cristionogaeth," meddant! Ni bu oes dywyllach o barthed i oleuni crefyddol o'r nef, er pan y crewyd dyn ar y ddaear! Pa faint mwy tywyllwch y dichon dyn fod ynddo na'i fod yn credu am y goleuni mai tywyllwch yw, ac am y tywyllwch mai goleuni yw? A haeru hyny yw dweyd nad oes eisieu chwaneg o ddadguddiadau, o herwydd mai trwy ddadguddiad y daeth pob pelydr o wir oleuni a gafwyd i'n byd ni. Rhaid mai ar yr oes hon yr edrychai Esaias pan y dywedodd, "Tywyllwch a orchuddiodd y ddaear a'r fagddu y bobloedd;" ac oes tywyllwch y fagddu yw—caddug o ymglasgiad canrifoedd, drwy gyfeiliornadau gan Gristionogaeth, a gwrthodiad dadguddiadau. Caddug mor ddudew fel na threiddiodd un pelydr o wawl goleuni y nef drwyddo er ys oesoedd, hyd nes y tiriodd angel cadarn o'r entrych i'r

dyfnderoedd tywyll a dwyn y wir Gristionogaeth—efengyl y gallu Duw—dadguddiadau newyddion, a goleuni y nef i dywynu unwaith etto ar galonau y rhai a'i derbynia, eithr mor gynefinol y mae gau Gristionogion o dywyllwch nes na fynant weled y gwir oleuni, lawer o honynt, er ei fod yn tywynu yn eu plith.

Weithian ddarllenydd hynaws, cyflwynir y sylwadau hyn i'ch ystyriaeth ddyfrifol gan un sydd yn *gwybod* mai y Gristionogaeth a ddarlunir yma yw yr *unig* grefydd a ddichon achub yr enaid—mai drwy yr efengyl dragywyddol hon y mae bywyd ac anllygredigaeth yn dyfod i oleuni; a'r dystiolaeth hon sydd gywir,—sef, y fod Duw *wedi* sefydlu *yr Eglwys a ddarlunir yma yn* EIN GWLAD, a rhoddi ynddi yr holl swyddau, ordinhadau, doniau a bendithion a roddes yn ei Eglwys gynt. Sicrheir y ceir maddeuant pechodau gan bob un crediniol ac edifeiriol a fedyddir i'r Eglwys HON; a thros, ac yn awdurdod y Duw a'n danfonodd sicrhawn y derbynir dawn yr Ysbryd Glân megys cynt, ac y *profa* EFE mai chwedlau anwireddus yw yr hyn a ddywedir i'w herbyn hi, er rhwystro yr ymchwiliwr rhag ei chael. Eithr yr hyn a *wyddom* a dystiolaethwn,—ein dyledswydd a'n braint yw hyny, a saif pob iot o'r gwir hwn pan elo holl gau grefyddau y byd, a'r byd ei hunan heibio fel cysgod, a deuwn ni a'n tystiolaeth i wyneb y darllenydd etto, o flaen brawdle lle y caiff pawb y gwir, ac yno tystiwn mai *hon* yw Eglwys Crist, A'N BOD NI YN GWYBOD HYNY! !

---

## DYLEDSWYDDAU LLYWYDDION CANGENAU.

POB Llywydd Cangen a osodir gan Lywyddiaeth y Gynnadledd, yn unol a'r dadguddiadau, ac yn ol cyfarwyddyd yr Ysbryd Glân, ac fel y cyfryw y mae yn gyfrifol i'w Dduw ac i'w osodwr, am yr athrawiaeth a ddysgir, yr esiamplau a roddir, a'r ddysgyblaeth a weinyddir ar bawb.

1. Dylai pob Llywydd Cangen fod yn ddyn pur mewn athrawiaeth, cadarn yn y ffydd, selog dros waith ei Dduw, a pharch i'w orchymynion a'i gynghorion Ef yn fwyaf, ac yn flaenaf o bob peth, yn mhob man, a phob amser; yn ŵr bucheddol, yn ymarferyd duwioldeb gartref, yn cadw ei deulu mewn trefn, a'n hyfforddi yn ol cyfraith yr Arglwydd.

2. Dyfod i gynghor y Gynnadledd bob bythefnos, (neu bob wythnos os bydd) i dderbyn hyfforddiadau, yn athrawiaethol, dyledswyddol, a Llywyddol, a gofalu fod y cynghorion a gaiff yn cael eu dysgu i'w gyd-swyddwyr yn nghyngor ei gangen, dan ddylanwad yr un Ysbryd, ac yn yr un modd ag eu dysgwyd

yn ngynghor y Gynnadledd, ac arolygu fod holl Lywyddion y dosparthiadau yn deall ansawdd a natur yr hyn a ddysgir iddynt, fel y gallont fod yn selog drostynt, ac yn oleu i ddysgu y rhai sydd dan eu gofal, fel y bydd y dyledswyddau a gyflawnir yn effeithiau teimlad, ac ewyllysgarwch calon, a bendith yr Arglwydd yn eu canlyn.

3. Gofalu am gynghor ei ganghen bob tro os bydd yn bosibl, i ddysgu yr hyn a glywodd, a chlywed ansawdd y dosparthiadau, pwy sydd yn byw yn ffyddlon, (yn swyddwyr a Saint), ac os oes rhai heb fod felly, beth yw yr achos, pa un ai angrediniaeth yn egwyddorion cyffredinol yr Eglwys, neu wrthwynebiad i Lywyddiaeth yr Eglwys? Dyma dri pheth anghenrheidiol i'r holl swyddwyr a'r Saint i fod yn fanwl ynddynt, er bod yn feddiannol ar ddigon o Ysbryd Duw, ac i barhau yn wrol trwy bob anhawsderau a ddaw i'w cyfarfod yn yr Eglwys hon.

4. Gofalu hefyd, fod yr holl gyrddau cyhoeddus yn cael eu cadw yn eu lle a'u hamser priodol. ac fod trefnusrwydd yn y cyrddau, y siaradwr yn dysgu yn sobr a phwysig, a'r holl wrandawwyr yn siml, nid yn siarad a'u gilydd, nac yn darllen rhyw lyfrau, fel mewn ysgol. Dylai y brodyr sydd yn y cylch gael cyfleustra i bregethu a dysgu, yn ol gwahoddiad y Llywydd, a gofalu peidio bod yn rhy hir, na dweyd dim ond yr hyn maent yn ei ddeall, a pheidio dweyd y cyfan o hyny yn mhob man, yr egwyddorion cyntaf i'r byd, ac annogaethau i'r Saint i gredu a gwneyd y gorchymynion a'r dyledswyddau a roddir iddynt gan eu Llywyddion, y pwysfawrawgrwydd o hyny, y bendithion trwy wneyd hyny. a'r canlyniadau o beidio gwneyd hyny.

Dylai pob Llywydd cangen ddysgu hyn yn ei gynghor, a gofalu os bydd rhyw frawd wedi esgeuluso ei gylch, ei alw i rhoddi cyfrif am ei esgeulusdod, ac os achos cyfreithlon a'i rhwystrodd, wedi methu cael neb i fyned yn ei le, anfoned lythyr wedi ei ardystio gan Lywydd ei gangen, i brofi mai achos cyfreithlon a'i rhwystrodd.

5. Cadw trefn dda yn y cynghor, gan fod yn siml a sobr, nid yn ysgafn a ...ater mewn teimlad, gwedd, na gair, gofalu fod dysgyblaeth dda yn cael ei ...dw; o herwydd, os bydd esgeulusdod mewn gweinyddu dysgyblaeth ar yr Henuriaid a swyddwyr y cynghor, bydd pechodau yn sicr o lusgo i fewn i'r

gangen, a'r Llywydd a oddefo i ddysgyblaeth yr Eglwys hon gael ei sathru dan draed, a ystyrir yn fwy troseddwr na'r gwaethaf o fewn ei gangen; goddefiad bychan o'r natur hyn a achosa ryddid a difaterwch mawr.

Dylent ofalu fod yn ddidderbyn wyneb tuag at swyddwyr a Saint a thuag at *bob peth*, casgliadau arian fel dyledswyddau ereill gymmaint a dim, a mŷnu gwybod fod pob peth yn ei le, a'i amser, a'r holl Lywyddion dosparthiadau yn rhoddi dynion gofalus i gasglu, a chyfrif plaen a chywir i gael eu rhoddi o'r holl gasgliadau a'r ddiwedd pob chwarter; hefyd, mŷnu gwybod fod y ddyled a gyhoeddir ar yr UDGORN am Lyfrau, ar ddiwedd y chwarter, yn Lyfrau a'r law, ac yn ddyled allan, os bydd peth, hyn nid yw yn ganiatael, a gobeithio na fydd yn bod chwaith, ond os bydd, dyledswydd Llywydd y gangen yw mŷnu gwybod fod y dosparthwr yn ddyn gonest, fel y byddo ymddiried ynddo gan yr holl Saint.

6. Gofalu fod Llywyddion y dosparthiadau yn ddynion profiadol yn y ffydd, ac yn gwybod rheolau yr Eglwys yn dda, fod dysgawdwyr yn mhob dosparth yn ddynion mewn oed, (os gellir eu cael) yn llawn o amynedd, serchawgrwydd, pwyll a doethineb, yn deall eu gwaith, ac yn ei gyflawni, fel y gallo yr holl Henuriaid a'r Offeiriaid fyned allan i bregethu bob sul, ac yn yr wythnos i gyflawni eu dyledswyddau; yr Henuriaid i ymweled a'r cleifion, a gweinyddu ordinhadau er cael bendithion ysbrydol, a'r Offeiriaid oddiamgylch i ddysgu yr egwyddorion cyntaf, a phregethu yn mhob man lle y cânt, a gofalu fod yn lân a thrwsiadus eu cyrff, felly pob swyddwyr pan yn myned i ymwneyd a gwaith yr Arglwydd, y Diaconiaid yn ymweled a thai y Saint bob wythnos, yr un peth a'r swyddwyr ereill, a holi a fydd angen cymhorth ar y teulu, a'u hyfforddi mewn cyfiawnder a daioni, a'u hannogi gadw eu hunain o ddyledion, a phan fethont, dweyd eu hamgylchiadau wrth yr hwn y maent yn ddyledus iddo, fel na byddo yn diraddio crefydd y Saint, a'u rhoddi yn y Cwrt Bach, peri gwarth, a chael talu dwbl yr arian, a hyny i gyd yn achos esgeulusdod siarad a'r Masgnachwr y bu delio ag ef. Frodyr, edrychwn a'r ogoniant gwaith yr Arglwydd, a gwnawn bob peth yn gyfiawn, gweddaidd ac mewn trefn.

DANIEL DANIELS.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MAI 27, 1854.

Y FFORDD I DDEDWYDDWCH.—Cyrhaedd dedwyddwch yw amcan dyn yn mhob ysgogiad o'i eiddo, debygwn, ac mor amrywiol a'u hymgeisiadau ydyw eu barnau am natur dedwyddwch: meddylia llawer mai boddio chwantau y cnawd a ddyry iddynt fwyaf o ddedwyddwch, ereill yn hollol groes iddynt a geisiant ymddedwyddoli wrth groesi holl ddymuniadau natur braidd; nid ychydig yw y dosparth a gredant mai arian yw yr allwedd a ddadgloa gelloedd dedwyddwch, eithr y mwyafrif a gredant bod crefydd yn anhebgorol er mwynhau dedwyddwch. Ac y mae poblogrwydd y dywediad yna yn peri ymholiad yn mhellach, sef, pa fodd y dichon crefydd ddedwyddoli dynion? Sylwn mai rhaid fod crefydd yn sylwedd neu fod sylwedd mewn cyssylltiad a chrefydd cyn y dichon greu effaith ddedwyddol nac annedwyddol, canys os nad sylwedd, dùldim yw, ac effeithiau dim ni fyddant ond dim yn dragywydd. Ymddengys, ynte, bod dedwyddwch yn sefyllfa, ag sydd yn anhebgorol i gael sylwedd i'w achosi, neu i ddwyn dyn iddi, a rhaid bod y sylwedd hwnw o natur ddedwyddol ei hunan, cyn y dichon fod ei effeithiau yn ddedwyddol. Fod y sylwedd hwnw allan o gyrhaedd dyn, o hono ei hunan, a gyfaddefir yn ei waith yn crefydda er mwyn i gael. Tybir gan rai y gwna y naill beth hwy yn ddedwydd yn y fuchedd hon, ond y rhaid cael rhyw beth arall o natur wahanol er eu dedwyddoli yn y byd y ddaw; ac o ganlyniad nid yw yr awydd sydd am grefydd ond darpariad erbyn y byd arall; eithr gwelir y camsyniad o hyn yn y ffaith mai mwynhau o ffrwyth y gweithredoedd a wneir yma y byddys yn y byd a ddaw, "pa un bynag a fyddant ai da ai drwg:" hefyd, gan mai y sylwedd dedwyddol ag sydd mewn crefydd yw yr unig beth a achosa ddedwyddwch yn y byd a ddaw, gwelir y dedwyddola hwnw ei feddiannydd a'r un rhyw o ddedwyddwch yma ac yno; ac o ganlyniad mai y sylwedd hwnw yw yr

unig beth a ddug wir ddedwyddwch yma ac ar ol myned oddiyma.

Bellach amlwg yw mai yn y mwynhâd o'r sylwedd hwnw yn unig y mae gwir ddedwyddwch; ac y fod graddau y dedwyddwch a fwynheir yma ac yno yn dibynu ar, ac yn gyferbyniol i'r graddau a feddir o'r sylwedd hwnw, a brofir oddiwrth yr ysgrythyrau a brofant y bydd cyflawnder o bob dedwyddwch yn y nef, o herwydd y bydd pawb yn berffaith yno. Wrth hyn gwelir nad ymollyngiad i foddio chwantau nac i garu gwrthddrychau anmhur ond, ufydd-dod i'r sylwedd perffeithiawl hwn a grea wir ddedwyddwch yma nac yn y byd a ddaw; ac felly yr ymholiad pwysiccaf yngolwg dyn doeth yw, pa fodd i gael gafael ar y sylwedd hwnw, a pha fodd i'w gynnyddu? O herwydd gan mai cael y cyflawnder o ddedwyddwch yw y gamp uchaf —y cyfoeth mwyaf, a'r trysor goreu, yna yr hyn a'i dyry yn ein mheddiant sydd o gyd-bwys i'w gael.

Ni bydd yn newydd i'r Saint pan y dywedwn mai Ysbryd Duw yw y sylwedd perffeithiawl a dedwyddol hwn, efallai mai newydd da fydd i ambell ddarllenwr pan y sicrhawn fod hwn i'w gael yn awr drwy iddynt ufyddhau i ofynion Duw drwy ei weision, a chymmeryd eu bedyddio ac arddodiad eu dwylaw hwynt; a newyddion da o lawenydd mawr yw hyn gan bawb a wnaethant felly, ac hysbyswn mai ein dyben yn hyn o ymresymiad yw dwyn y rhai a deimlasant raddau o'r dedwyddwch hwn i ymresymu drostynt eu hunain, pa fodd y gallant gynnyddu y dedwyddwch hwnw fwy fwy. Yn gymmaint ag mai y blaenffrwyth o'r Ysbryd Glân a roddes iddynt yr hyn a feddant o wir ddedwyddwch, felly y cynnyddiant o hono yn unig a ddichon gynnyddu eu dedwyddwch; ac yn gymmaint ag mai drwy ufydd-dod i Dduw y derbyniasant raddau o hono, pwy na wêl mai yn yr ufydd-dod i holl orchymynion Duw y cynnydda. Fel, o'r ochr arall, nid yw yn destun syndod fod yr Ysbryd hwn yn cilio, a'i ddylanwadau dedwyddol yn cael eu gorchfygu gan annedwyddwch i'r graddau ag yr anufyddheir i'w orchymynion Ef.

Ni raid ychwanegu rhesymau a'r hyn, ac ni raid i neb o'r Saint ddyfod attom i ofyn beth a wnant i deimlo yn fwy dedwydd, mae y ffordd o'u blaen—yn eglur—yn rhydd, ac y mae pob dedwyddwch yn eu denu "i *redeg* yr yrfa" hon, ac nid i

*sefyll* ar ei chanol; a dylai yr annedwyddwch a'u llanwa drwy esgeulusdod, eu symbylu i ffyddlondeb gyda'r yr unig wir ddedwyddwch a ellir gael. Mae mor amlwg y fod cynnyddiant eu dedwyddwch yn ymddibynu a'r eu ffyddlondeb yn gwneyd, ag yw amlwg iddynt hwy, mai drwy wneyd yr hyn a wnaethant y cawsant yr hyn ddedwyddwch a deimlasant. Aros heb wneyd hyd nes y daw teimladau dedwyddol iddynt sydd yn gyffelyb i aros i oleuni yr Haul orfodi eu hamrantau i agoryd o'i flaen er eu gwaethaf;—peidio gwneyd daioni hyd nes y teimlir yn hapus, yw aros i Dduw eu bendithio am droseddu ei orchymynion, pan nad yw annedwyddwch ond effeithiau anffyddlondeb.

Dywenydd genym fod y swyddwyr sydd yn y cylchoedd hyn wedi agor eu llygaid ar yr egwyddor hon, ac yn lle beio arall na dysgwyl yn hwy, fel y cleifion hyny wrth lyn Siloam am gynhyrfiad y dwfr, eu bod yn penderfynu cynhyrfu y dyfroedd marw eu hunain—yn penderfynu "agor eu safnau" fel y gallo Duw gyflawni ei addewid drwy eu llanw â geiriau y bywyd. Wrth wneyd ei ddyledswydd o bregethu y mwynha y pregethwr ddedwyddwch—wrth adeiladu ac ymgeleddu y gweiniaid yr ymddedwyddola yr Athraw—wrth dystiolaethu, traethodu, a diwidl-fucheddu hyd lwybrau Duw y teimla yr aelodau yn ddedwydd, a thrwy ufyddhau i bob gair a ddaw allan o enau yr Arglwydd drwy ei weision y cynnydda gwir ddedwyddwch pob un o'r Saint:—ofer ceisio, nid oes reol arall,—hon, â dedwyddwch, bod heb hon yw, bod heb ddedwyddwch? Weithian, amlwg yw fod allweddau dedwyddwch pob swyddog ac aelod yn eu *dwylaw eu hunain*; a'i defnyddia, a brawf y ffaith; a *beidia, na faied ond ei* HUNAN!

---

CYNNADLEDD SIR ABERTEIFI.—Deallwn drwy lythyrau dyddorol oddiwrth y Llywydd Evans, Jeremy, Daniels a'r Henuriad Robert Parry, eu bod wedi cael Cymmanfa ragorol yn Ffair Rhos, Sul y 7fed. o'r mis hwn, yn cynnwys 5 cangen, 7 wedi eu bedyddio, cyfan 112. A chawsant amser dyfyrus yn Aberystwyth, yn y dyddiau canlynol,—bod ein Cynghorwyr wedi adolygu a gwrthbrofi cyhuddiadau anwireddus y Parch. Wesleyaidd a gafodd beth o'n sylw, ynghyd a'i Ddarlith, mewn rhifyn blaenorol o'r UDGORN, i hollol foddlonrwydd tyrfa liosog

o wrandawwyr astud a boneddigaidd a ymgasglasent i'r *Assembly Rooms* helaeth a chyfleus, yr hon drwy hynawsedd a boneddigeiddrwydd clodadwy Maer, a Bonedd ereill y dref, a ganiatawyd, ar yr achlysur, i'r Saint amddiffyn ac i'r Brawd Parry areithio a'r 'Formoniaeth;' a phan y boddlonodd y Brodyr deallus hyn eu hunain, y rhai a wyddant beth yw doethineb a gwirionedd, mor fawr ag y dywedant eu bod, credwn y dylai pawb ereill o garwyr gwirionedd hollol ymfoddloni.

Dywedodd y *Parch.* na fu efe yn sefydliad y 'Mormoniaid,' ac na wyddai amgen am danynt nac a glywodd gan eu gelynion, a diflasodd ei wrandawwyr drwy ferwino eu clystiau a'r hen chwedl o "gerdded ar y dwfr" dros afon y Missisippi, ar blanciau a asodasid ar bolion y nos o'r blaen, &c. Atebodd y Llywydd Daniels, y byddai gosod polion yn yr afon ile yr enwodd, sef a'r gyfer Nauvoo, gwaelod yr hon sydd graig yr holl ffordd o filltir a thri chwarter, ac mewn dwfr a rêd mor chwyrn a chewch milltir yn yr awr, yn fwy o wyrth nag a gredodd y Saint eu hunain ddarfod i Joseph Smith erioed amcanu ei gwneuthur!

Darllenodd y Llywydd Jeremy dystiolaethau yn y ddwy iaith, a gyhoeddwyd gan dystion diduedd, i ddieuogi *Deseret* a'i phreswylwyr o'r holl gamgyhuddiadau a ddygwyd i'w herbyn, i foddlonrwydd yr holl wrandawwyr yn ol pob argoelion, ac achosodd yr ymosodiad lawer o ymchwiliad i'r grefydd oedd rhy ddisylw yno a'r blaen, ac y mae argoelion gobeithiol y caiff yr ufydd-dod a deilynga gan ei hymchwilwyr gonest.

Clywsom fod y Brawd Parry, wedi areithio yn ddylanwadol iawn ar eu hôl a thystiolaethu yn nerthol wrth ei hen gofoidion, canoedd o y rhai a ddaethant i'w wrandaw, ei fod ef erbyn hyn wedi cael gafael yngwir Eglwys Dduw. Clywsom fod cyhoeddwr ystori "hosanau yr hen wreigen," wedi cuddio ei wyneb mewn cywilydd rhag y canoedd digofus olygon a rythent arno pan yr adgoffhaodd y Brawd Parry ef o'r fath gampwaith o "oleuo y wlad o dwyll Mormoniaeth," a chyhoeddi y fath chwedl.

Wedi yr oll, teimlwn fod Duw yn nerthu ei weision i amddiffyn y gwirionedd a'i fod yn goruwch-lywyddu holl gynddaredd dyn i'w hwylyso yn y blaen; felly parhaed y cydweddia holl blant Duw gyda ninnau.

Penfro Ogleddol.—Cynhaliwyd Cymmanfa yn Abergwaen Sul y 14fed o'r mis hwn, a hysbysir ni drwy lythyrau cysurlawn oddiwrth y Llywyddion Jeremy a Reese fod Ysbryd yr Arglwydd yn gorphwys yn nerthol ar y pregethwyr a'r Saint drwy yr holl gyfarfodydd, fod yr eglwysi yn mwynhau mwyfwy o'r doniau ysbrydol, undeb a chariad yn cynnyddu, a rhai pobl onest o blith gau grefyddau yn ymofyn am Dduw yn ei drefn ei Hun:—cyrhaeddasai amryw o'r gwirfoddiaid oddiyma yno, a mawr y llawenydd oedd gan y fyddin frwydrol, o gael eu cynnorthwy, a galwant am ychwaneg etto. Pwy a aiff?

---

## LLYTHYR O DDINAS Y LLYN HALEN MAWR.

*Dinas y Llyn Halen Mawr, Ion.* 22, 1854.

Anwyl Rieni,—Yr wyf yn defnyddio y cyfleusdra hwn idd eich hysbysu ein bod fel teulu wedi cyrhaedd y lle hwn er y 10 o fis Medi diweddaf, ac yr ydym oll wrth ein bodd yn y lle rhagorol hwn. Mae y lle o ran ei hinsawdd yn iachus, yr awyr a'r dwfr yn bur, tir brac a thoreithiog er cynnaliaeth dynion ac anifeiliaid, a digon o hono am ddim braidd ond cloddio o'i amgylch a'i lafurio; y mae yn dwyn o 30 i 50 bwshel yr erw o wenith neu unrhyw ŷd arall. Y mae yma bob peth yn tyfu ag sydd yna, a llawer iawn o bethau ereill na ellir eu codi yna heb *hot-houses* neu *hot-beds*, yn tyfu yma ddim ond eu planu yn y ddaear, heb ddim achles ra nemawr o dfiniaeth. Mewn gwirionedd mae y lle hwn yn gyfryw ag y gall dyn eithaf llawd ddyfod yn gyfoethog mewn tir ac anifeiliaid, a phob peth anghenrheidiol arall at ddedwyddwch dyn, mewn ychydig flynyddau. Bum yn gweithio peth gwaith melsiwn yma, neu *brick-layer*, os myuwch, ac yn ennill 3 dollar yn y dydd, a phe buaswn yn fwy cyfarwydd yn y gwaith hwnw mi a ennillaswn ychwaneg. Huriau gweithwyr yn y lle hwn yw fel y canlyn:- Crefftwyr, 3 dollar yn y dydd; gweithwyr cyffredin, o un a hanner i ddau ddollar yn y dydd. Pris y gwenith yn y cyffredin yw 2 ddollar y bwshel. Dymunwn ddweyd wrth Thomas fy mrawd am heidio digaloni oblegid ei dylodi, ond gwneled bob parotoad ag a allo i ddyfod i ffwrdd; yr wyf yn foddlon talu ei draul fel y byddo ei *bassage* yn rhydd erb yn y *spring* nesaf.

Y mae Wm. Richards, yr *Engineer*, a David Jones, Cwmbach a'i deulu, yn erchi eu cofio at Thomas Rees a'i deulu, gan eu hysbysbysu eu bod hwy yn gysurus ac wrth eu bodd. Y mae hwn yn le ag y gall dyn ddarparu mwy yr haf nai anghen erbyn y gauaf. Y mae David Jones yn hysbysu ei fod wedi ysgrifeuu at y merched, a dymunwn i chwi roddi gwybod yn eich llythyr os ydynt wedi ei dderbyn a'i peidio.

Anfonwch lythyr yn ol mor fuan ag y derbyniwch hwn.

Ydwyf, eich mab,

JOHN REES.

---

## ARWYDDION YR AMSERAU, AM ADFERIAD POB PETH.

„NEFOEDD newydd, *a daear newydd*, yr ydym ni, yn ol ei addewid ef, yn eu dysgwyl, yn y rhai y mae cyfiawnder yn cartrefu," yw lleferydd Henuriaid Eglwys Dduw ar y ddaear. 2 Pedr iii, 13.

"Teilwng wyt ti i gymmeryd y llyfr, ac i agoryd ei seliau ef, oblegid ti a laddwyd, ac a'n prynaist ni i Dduw, trwy dy waed, allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl; ac a'n gwnaethost ni i'n Duw ni yn freninoedd, ac yn Offeiriaid; *ac ni a deyrnaswn ar y ddaear*:"—yw cân yr Henuriaid yn y nef. Dat. v, 9, 10.

A dywediad Apostol, am yr Iesu ydyw, y "Rhaid i'r nef ei dderbyn, *hyd amseroedd adferiad pob peth.* Act iii, 19. 21.

Daeth y dyn cyntaf Adda i'r ddaear, fel yr aeth Enoc ac Elias o honi, heb ynddo lygredd na hadau marwolaeth; i lafurio yr ardd a'i chadw; i fyw i eppilio, i liosogi ei deulu, ac i lywodraethu ar holl greaduriaid y byd i gyd; ei wraig Efa, a ddaeth yn ymgeledd gymhwys, ac yn gydmares serchoglawn iddo; a'r ddau yn un oeddynt brydweddol mewn hawddgarwch, yn nefolaidd mewn santeiddrwydd, yn anwylaidd mewn gwynfyd, ac yn gariadlon mewn diniweidrwydd, heb iddynt wybod da a drwg.

Ymddangosai y greadigaeth o'u hamgylch yn balas mawr ardderchog ac addurniedig, i dderbyn y ddau breswylydd priodasol i'w chyfaneddle dawel a pharadwysaidd; sêr y nen yn fagad cylch bagad blith draphlith o gydser uwch cydser gorloywon, ac afrifed a dryfrithent yr wybren fwâog oll, megys lampau llewyrchus, dysglaer a thywynedig uwch eu penau y nos; y dyfroedd oeddynt gasgliedig yn yr un lle, ac arafaidd a hardd yr ymolwynai yr haul mawr dros eu hymylon terfyngylchog, gan hilio eu gwrymiau brigwynion a phelydr melynliw, ac ymdywynu yn hynaws ar y gwr a'r wraig ruddwridon yn debyg i lygad aur, trwy bur amrantau y boreu; y ddaear oedd lawrlen werdd a melfedaidd, yn ymfrodiog gan flodau am-

ryliw, dan draed gorwynion y ddau ddihalog; a'u cyrff, o liw'r glainfaen gwynaf ar aelodau prydferthach nag a ddichon i un byth eu cerfio mewn marmor, oeddynt angylaidd mewn lledneisrwydd a dynoldeb. Irllaes wallt modrwyog Efa, a chwarcuai gyda'r awel iachusol a wyntai ar ei gwar iforaidd a theg; llygaid y ddau oeddynt loywlan mewn iechyd dymunol; delw llywodraethwr oedd argraffedig yngwyneb serchiadol y gwr mawrfrydig; a physg y mor, anifeiliaid y maes, bwystfilod y tir, ac ednod yr awyr, a ymostyngent yn wirfoddol i hawl arglwyddiaeth yr un a luniwyd ar ddelw y Creawdwr; a grymus oedd cydgerdd felus telori adar, sisial ffrydiau, a chaniad y gwr a'r wraig i'r Ior a'u gwnaeth; tra gorddwfn ddystawrwydd y bydoedd dirifedi a gorfawreddog, wrth ymrolio a chwyrnellu trwy gyfwng ceudod yr eangderau dieithafoedd ac anamgyffredadwy yn cyd ardystio mai gwirionedd disyfl oedd y fawlgân gyntefig, "Wele da iawn ydoedd," pan y cydganodd ser y boreu, ac y gorfoleddodd holl feibion Duw.

Y wraig, mewn awydd am fod yn dduwies, "Yn gweled mai da oedd ffrwyth y pren yn fwyd, ac mai teg mewn golwg ydoedd, a'i fod yn bren dymunol i beri deall, hi a gymmerth o'i ffrwyth ef, ac a fwytaodd, ac a roddes i'w gwr hefyd gyda hi, ac efe a fwytaodd, a'u llygaid hwy ill dau a agorwyd:" ac o'r dydd hwnw hyd heddyw, mae llygaid dyn yn agored, i wybod da a drwg.

Troseddodd dyn gyfraith santeidddrwydd; pechodd, a daeth cyflog pechod i mewn; sef, marwolaeth. Troseddodd dynion ddeddfau natur, trwy ymollwng yn mhellach i lygredigaeth pechod, ac yn gosp ychwanegol, oblegid ychwanegiad, pechod, daeth afiechyd, clefydau, a heintiau i mewn, hyd nes cwtogi einioes, a pheri i farwolaeth afael a chymmeryd dynion ymaith a'r bob adeg, fel nad oes oedran o enedigaeth i henaint, na cheir rhai yn meirw.

Dyryswch a amganodd oddiamgylch dyn; melldigwyd y ddaear o dan ei draed; drain, ysgall a mieri a dâg dyfiant ffrwythau; efrau a ymgymmysgant â chnwd y maes; daeth y creadur ardderchog yn bechadur andwyol; nid oes neb cyfiawn, nac oes un; marwolaeth sydd yn teyrnasu, colyn angeu sydd yn llym, parod yw y bedd, uffern a egyr ei safn yn anferth, a chelledigaeth a erys y troseddwr euog, oi ran ei hun yn dragywydd.—(*I'w barhau.*) R. Ddu, Eryri.

---

## CWYN Y SANT.

Ton.—"Canaan hyfryd"

'Rwyf wedi blino byw
Yn ngwlad y cystudd,
O na chawn fyn'd i fyw
I Seion lonydd;

'Does yma ond llid a thrais,
A'r bobl yn drahaus,
A'u siarad yn barhaus
Yw sôn am ryfel.

Nis gallaf gael un man
Heb sôn am ryfel,
Fe lenwir tref a llan
A sôn am ryfel;
Mae Twrci a Rwssia yn awr,
Yn llenwi daear lawr,
A sôn am ryfel mawr
Sy'n llon'd y gwledydd.

Pa le? pa le? pa le?
Caf drigfa dawel,
Neu ardal dan y ne'
Heb sôn am ryfel;
Gwae, gwae, drigolion llawr,
Can's ysbryd Belial fawr,
Ddaeth ar freninoedd 'nawr
Yn ysbryd rhyfel.

Nid ydyw hyn i gyd,
Ond dechreu gofid,
I bob rhyw lwyth ac iaith
O fewn yr holl-fyd;
Arwyddion diwedd byd,
A ddaethant yn eu pryd,
A'r bobl sydd i gyd
Yn sôn am ryfel.

O na chawn drigo nghyd
A thangnefeddwyr,
Cyn dyfod ar y byd,
Y gwae fel gwewyr;
Fy ysbryd sydd yn brudd,
Mewn gofid nos a dydd,
Am gael dihangfa rydd
O swn rhyfeloedd.

O Seion, Seion gu,
P'ryd caf dy sengu?
Rhyfeloedd Babilon,
Sydd yn terfysgu:
O Ddnw trag'wyddol Dad,
Prysura fy rhyddhâd,
Fel gallwyf feddu gwlad
Heb sôn am ryfel.

*Flint.* T. CONWAY.

## NEWYDD DDYFOD O'R WASG.

Y MAE yr "*Hen Grefydd* [o'r] *Newydd*" wedi dyfod allan o'r diwedd, a gall y Dosparthwyr a ymofynant am dani ei chael pan y mynont. Cynnwysa tua dêg o dudalenau o ddarlleniad yn ychwanegol at yr hyn oedd yn yr Argraffiad cyntaf, etto nid yw ei phris ond *chwe' cheiniog;* mae mewn llythyren fanach fel y gwelir wrth yr enghraifft a ddyfynasom o'r Traethawd cyntaf yn y rhifyn hwn, a phapyr gwell.

Rhoddir yr elw arferol i Ddosparthwyr, i'r Gwirfoddiaid, ac i'r Cymdeithasau Traethodau!

## AMRYWIAETHAU, &c.

Y RHYFEL.—Dywedir fod y Llynges, dan Syr Charles Napier wedi darostwng amryw drefydd, a chymmeryd 1500 o Rwsiaid yn garcharorion yn agos i Gulfor Findland.—fod 18 o longau Brydeinig a Ffrengaeg dan y prif Lyngesydd Dundas, wedi dystrywio holl amddiffynfeydd a nwyfau rhyfel,—dau dŷ pylor, ac wedi nâill ai suddo ai llosgi 11 o longau rhyfel o eiddo y Rwsiaid, ac un llong ryfel o eiddo Awstria; a'u bod wedi cymmeryd 11 o longau Rwsia ag oeddynt yn llwythog o nwyfau rhyfel, heb golli ond 8, a chlywfo 18 o wyr, tra y bernir fod lladdedigion yr wrth fyddin yn lliosog iawn. Ennillodd byddin y Twrciaid o 70,000 o wyr, frwydr ar y Rwsiaid yn Silistria, ac un arall wed'yn yn Nicopolis, lle y lladdwyd 1,500 o'r Rwsiaid. Ac ar yr ail o'r mis hwn ennillasant frwdr arall yn Radova.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O MAI 6 HYD 26.—Mynwy, £2; Lerpwl Cymreig, £1 10s; Morganwg Orllewinol, £5; Morganwg Ddwyreiniol, £3 17s.

Ymddengys llythyrau cartrefol a thramor, a gohebiaethau dyddorol yn ein nesaf.

Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau, i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street, Merthyr-Tydfil.*

CYNNWYSIAD.


| | tud. |
|---|---|
| Dyfyniad o'r Hen Grefydd Newydd | 309 |
| Hyledswyddau Llywyddion Canghenau | 313 |
| Golygiddiaeth—Y ffordd i ddedwyddwch—Cynnadledd Sir Aberteifi—Penfro Ogleddol | 316 |
| Llythyr o Ddinas y Llyn Halen Mawr | 320 |
| Arwyddion yr Amseran am adferiad pob peth | 321 |
| Cwyn y Sant yn Babilon | 322 |
| Newydd ddyfod o'r Wasg | 324 |
| Amrywiaethau, &c | 324 |


MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

Rhif. 21.] MEHEFIN 3, 1854. [Cyf. VII.

## PAHAM Y CERIR Y GWIRIONEDD?

GAN Y LLYWYDD BRIGHAM YOUNG.

Frodyr, paham y carwch y gwirionedd. Ai am ei fod yn rhoddi i chwi y gallu, a'r awdurdod a berthyn i'r Offeiriadaeth? Ai o herwydd ei fod yn eich gwneyd yn reolwyr, breninoedd, ac Offeiriaid i'n Duw ni, gan roddi i chwi *allu mawr?* Mae yma ddynion yn proffesu bod yn Saint, hyd y nod yn y gynnulleidfa hon, o fewn sain fy llais, yn rhai sydd yn teimlo mor *hollalluog y daethant.* Hwy a'ch melldithiant, os na welwch yn addas *gydsynio a'u dymuniadau.* Mae gan lawer o bobl y byd deimladau yn eu calonau tuag at eu gwragedd, fel os na wnant yn *gymhwys* yr un fath ac y dymunant hwy gyflawni hyn neu hynyna, hwy a'u beiant. Y fath bethau rhyfeddol y maent hwy yn myned i'w gwneyd! "Os na fydd i chwi ufyddhau i *fy* llais i, *fy* nghyngor i, myfi a'ch anfonaf i uffern, a throf yr allweddau arnoch, fel na chaffoch *byth!* na *byth!* eich rhyddhau."

Chwiorydd, byddai gystadl i chwi ystyried clindarddach drain dan grochan, yr aderyn diofal ar ei fynedfa, neu gruglais garan, gan belled ag y mae eu Hoffeiriadaeth yn perthynu. Yr ydych yn ddiogel, os gwnant ond cadw eu dwylaw oddiwrthych; gadewch iddynt regi. Adgoffa hyn i mi ddihareb sydd gan yr Arabiaid, fod "Rhegfeydd sydd fel cywion ieuanc, hwy a ddeuant etto adref i glwydo."

Ai am *hyn*—ai o herwydd ei fod yn rhoddi i chwi y fath fawr

*allu* ac *awdurdod, y carwch chwi y Gwirionedd?* Ai am ei fod yn rhoddi i chwi allu i regi eich cymmydogion, plant eich cymmydogion, eu gwartheg, a phob peth, o'ch hamgylch chwi? Gadawer i'r oll o'r fath fyned ymaith i'w lle eu hunain, i California, trwy y ffordd ogleddol: nid i San Bernardino at sefydliad y brodyr Lyman a Rich, oblegid y mae ganddynt ddigon o ddynion drwg yno eisoes: eithr ewch i'r byd yn hollol ymaith oddiwrth y Saint, a goreu po gyntaf.

Dylai dynion weithredu oddiar yr egwyddor o gyfiawnder, o herwydd ei fod yn uniawn, a'i fod yn egwyddor y carant ei feithrin a gweled ei arferu gan bob dyn. Dylent garu trugaredd, oblegid ei garedigrwydd, tosturi, cariad, hynawsedd, a'r oll o'i briodoliaethau hawddgar, a bod wedi eu hysbrydoli ganddo i ymddwyn yn gyfiawn, yn deg, yn anrhydeddus, gan fesur allan i ereill eu haeddedigaethau cyfiawn.

Os hunanoldeb a'ch cymhell i gofleidio y gwirionedd, os ond i ddyrchafu eich hunain a'ch cyfeillion yr ymgyfammodasoch i wasanaethu eich Duw, a hyny eich unig ddyben, gwell a fyddai i chwi fyned heibio ar y ffordd ogleddol, oblegid nis gallwn ni wneyd i chwi unrhyw les os dysgwyliwch, neu aros gyda ni: nid am nad oes gan Dduw ofal amei blant, ond y mae Ef yn caru y rhai a garant holl egwyddorion cyfiawnder, o herwydd eu bod yn gyfiawn, a chanddynt hyfrydwch yn yr ymarferiad o egwyddorion pur, o rinwedd, o ragoriaeth a gwirionedd, o addfwynder, hirymaros, ac hunanymwadiad, trugaredd, a thosturi.

Gwybyddus yw i mi fod fy iaith yn ffaelu a throsglwyddo fy meddylddrychau i chwi fel y dymunwn * * * * eithr dywedaf, gweddiwch ar i'r Arglwydd ysbrydoli eich calonau. Gofynwch am ddoethineb a gwybodaeth. Eich dyledswydd yw ymgeisio ar ei ol. Gadawer i ni geisio, a bydd i ni gael; curwn, ac fe agorir i ni. Ond am ei ddyfod i lawr yma i dywallt ei Ysbryd arnoch chwi, tra yr ydych yn amcanu ar ol pethau gwag a dystadl y byd, yn ymfoddhau yn yr holl wagedd, ffoledd, a'r ynfydrwydd sydd yn eich hamgylchynu; yn yfed i mewn yr holl ffieidd-dra aflan, y dylid ei ddirmygu o bob gwladwriaeth ar y ddaear—mor hired ac y parhaoch chwi yr yrfa hon, gorphwyswch yn sicrhäol na ddaw Ef yn agos atoch.

Yr wyf yn gofyn i chwi adael heibio hyn; ymattaliwch, purwch, a santeiddiwch eich hunain ger bron eich Duw, a cheis-

iwch gymmaint o ysbryd y gwirionedd fel y llanwo chwi, y galloch floeddio yn uchel gyda eich holl allu i foliant Duw, a theimlo eich calonau yn oleu fel haul nawn y dydd. Yna gellwch ddawnsio, a gogoneddu Duw: ac fel y cewch aros yn y gwirionedd, bydd i Dduw eich cyfodi i fyny, ac ychwanegu at eich niferoedd, fel y byddo i'ch godreu lenwi y Deml santaidd, megys y dywedwyd am yr Arglwydd gan un yn yr hen amser. A bydded i'r Arglwydd eich bendithio.

---

## DAMMEG YR IUDDEWON A'R MOCHYN.

Rhyw gigydd (*butcher*) wedi bir golli cig moch yn ddirgelaidd a'i gigydd a gafodd o'r diwedd le i gredu mai yr Iuddewon cymydogaethol oedd yn ei ladrata yn y nos; wedi hir wylio yn ofer, a chan eu bod hwythau oll yn tystio fod bwyta cig moch yn groes i'w crefydd, a benderfynodd wneyd prawf o'r peth; ac, efe wedi lladd mochyn tew braf, a aeth ag ef i'r heol o flaen tai yr Iuddewon gan waeddi, "Cig moch am ddim, cig moch yn rhodd." Buan y gwelai eu penau yn y drysau, ac yn edrych yn flysig ac awyddys o weled rhywun yn torri rheffynau cydwybod; ac o'r diwedd mentrodd un yn mlaen, ac a ddywedodd, "Mochyn braf yn siwr, pe buaswn i yn bwyta cig moch dewiswn i y pen, ac yn siwr pa wiw colli cynnyg da er mwyn cydwybod, torwch y pen i mi, gwnaf *souce nice* iawn o hono, ac nid cig moch a fydd wed'yn, canys ni fwytawn i gig moch am unpeth." "Da iawn frawd," ebe un arall, "yr wyf fi o'r un farn a chwi, credaf fi mai bam a ddewisiwn i, pa wahaniaeth llindagu tipyn ar y gydwybod weithiau, etto coeliwch fi na fwytaf fi gig mochyn er dim." Aeth ereill a'r traed, ereill a'r asenau, ysgwyddau a'r oll, gan sicrhau na fyddent hwy gymmaint *infideliaid* a bwyta na chyffwrdd â mochyn. Y cigydd a waeddodd ar eu hol, pan elai pob un a'i ddarn ar ei ysgwydd dau lyfu ei weflau wrth feddwl am y *roast*; "Pa le mae fy mochyn rhyngddoch oll, dan wadu na fwytewch gig moch, nid oes dim o'r mochyn yn ngweddill. Chwi yw y lladron mi welaf yn eglur." Ac o hyny allan gofalodd rhagddynt. Pwy a ddehongla y ddammeg? Beth yw y mochyn a phwy yw yr Iuddewon? Pwy a wyr ac a ddywed?

## LLYTHYR O DDINAS MANTI.

*Dinas Manti, Chwefror*, 1854.

Anwyl Dad a Mam, Brodyr a Chwiorydd,—Yr ydym ni oll yn fyw ac iach a gobeithiwn eich bod chwithau felly. Buom ni yn dra llwyddiannus er pan y gadawsom St. Louis, a chroesasom y Mynyddoedd Creiglyd yn hawddach nag yr erfynasom. Da genym yw bod wedi dyfod i'r lle hwn; buom am yspaid yn gwneyd priddfeini *(adobies)*, tua deg milltir i'r gogledd i Ddinas y Llyn Halen Fawr, lle yr ennillwn tua 3 dollar y dydd (12s 6c), ac ennillwn 4 dolar y dydd (16s 8c) wrth en gwalio; gwelwch wrth hyn fod yma le da i weithiwr. Daethom i'r fan hon drwy gynghor y swyddogion, yn un o gant a hanner o deuluoedd, er lliosogi y sefydliad hwn, dysgu iaith a phregethu i'r Indiaid, o herwydd fod eu hamser hwy wedi dyfod i gael clywed yr efengyl. Teimlwn ein bod wedi dyfod i dref yn y lle hwn. Cawsom roesawiad mawr gan drigolion y lle hwn, yn neilldnol gan y Cymry sydd yma. Yr wyf yn adeiladu tŷ yn awr, ac yn troi yn ffermwr yn nesaf. Mae genyf ymborth i mi a'm teulu eisoes am fisoedd, ac os oes rhai o honoch wedi ufyddhau i'r efengyl, carwn eich cynnorthwyo i ddyfod i'r lle hwn. Carwn yn fawr pe rhoddech chwi bryd o dê a chroesaw i'r Capt. Jones cr mwyn y croesawiad mawr a roddodd ei wraig ef i ni yma.

Carwn glywed fod fy nhad ynghyfraith wedi dyfod at y Saint a charwn ei gynnorthwyo ef a Thomas fy mrawd i ddyfod yma y gwanwyn nesaf, ac os deuwch tuag yma neb o honoch, gwnaf fy ngoreu i barotoi ar eich cyfer.

Ydwyf yr eiddoch, &c.,

John Rees.

---

[Ni raid i ni ychwanegu ein sylwadau ar yr uchod o barthed i ffrwythlondeb a manteision Seion, dywedant drostynt eu hunain, a mwy grymus nag yw camddarluniadau gelynion o'r wlad hono, ond yn unig hyshyswn fod y rhieni wedi ufyddhau i ddymuniad eu mhab, a dyfod i'n gwahodd yn serchus; ac ni a aethom i'w tŷ, ac a fwynhasom ein hunan yn fawr yn eu caredigrwydd ar y pryd, ond nid cymmaint yn y danteithion, er eu bod yn dda, ag yn yr ystyriaeth mai ad-daliad oedd am garedigrwydd a wnaeth ein hanwyl wraig iddynt draw. Ac uwch ben y cwpanaid tê, cofid am yr hen ystoriau, ein bod yn myned a'r dynion i'w

gwerthu yn bwriadu eu hyspeilio o'u meddiannau, a llawer iawn o ddrwg ag y cyhuddid ni o fwriadu ei wneuthur; ond erbyn hyn, heb i ni drafferthu o'u plegid, mae y cyfan wedi eu profi yn hollol anwireddus, ac wele ninnau wedi cael byw ar ol llu o'n dyfeiswyr, i ddychwelyd i gael ein croesawu, nid am y pethau hyny, ond am garedigrwydd a wnaed, nid yma ond yno: mae hyn yn felys wedi y cyfan, a chredwn nad yw yr olwyn ond dechreu troi, ac ond i ni gael byw ychydig etto y dealla y werin mai eu hewyllysiwr da ydym, er gwaethaf ystoriau ein gelynion gau-grefyddol. Drwg y ceidw y d——l ei was,—"Mwrdwr a ddaw allan," felly y gwir a ymddengys yn ei amser. Hyderwn gael aml wledd garuaidd etto o'r un natur, ac adgofia yr hen chwedlau yn felys uwch eu penau, canys gwyddom mai felly y teimla pawb sydd yno.—GOL.]

---

## EFFEITHIAU TYBACO.

TYBACO, yn unol a threfniadaeth lysieuol, a berthyn i'r unrhyw ddosparth naturiol a *Atropa Belladonna*, neu gedawrach farwol, a *Datura Stramonium*, neu ddrain-afal gweinynig, y rhai ydynt yn mysg y galluocaf a'r mwyaf marwol o'r gwenwyn sur a chysbyd ag y sydd yn nheyrnas y llysiau; ac y mae olew hanfodol tybaco, fel hefyd dywalltiad o'i ddail, yn un o'r gwenwyn ffyrnicaf a wyddir am dano. "Mae yn eithaf hysbys fod llosg olew Tobaco yn wenwyn gweithgar, yn dwyn dirgryniad, gwahanboen, a marwolaeth," ebe Christison, yn ei waith ar wenwyn. Ceir amrywiol effeithiau ac awdurdodau ar y pethau hyn, a dyfynaf rai o honynt.

Yn unol â Dr. Waterhouse, lleolodd Linnæs, yn ei drefniadaeth naturiol, y tybaco yn nosparth Luridæ, yr hyn sy'n arwyddys gwelw, ellyllaidd, dulas, gresynol, ac angeuol. "I'r un dosparth drwg-argoelus," ebe ef, "y perthyn dail bysedd y cwn bela, y gedawrach farwol, a phlanhigion gwenwynig ereill, yn dwyn yr enw dychrynllyd, *Atropa*, un o'r ellyllon. Pan gymmerir tybaco i'r cylla y waith gyntaf, crea anlocsygiad a gwrthwynebedd atgas i'r eithaf. Os ei llyneir, enyna ddirgryniad gorthrechol yn y cylla a'r coluddion i fwrw allan y gwenwyn naill ai at i fyny neu at i lawr. Os na fwrir hyn allan yn fuan ac yn hollol, dwg anesmwythder mawr, pendro, llewygon, a syrthiad yr holl synwyrau; ac mewn rhai amgylchiadau can-lynodd marwolaeth.

Ychwanegodd, "Olew y planhigyn hwn sydd o'r gwenwyn llysieuol cryfaf, yn gymmaint ag na wyddom am unrhyw anifail a ddichon wrthwynebu ei effeithiau marwol. Dywed Dr. Waterhouse, yr hwn a gafodd ddigon o gyfleustra i sylwi, "Ni sylwais erioed i mi weled cynnifer o nodau dihoeniad iechyd, neu ni wybum erioed am gynnifer o arferion annyspeidiol, a nwydau nychol, ag yn y blynyddoedd diweddar; ac yr wyf yn olrhain yr ymosodiad brawychus hwn ar gyfansoddiadau ieuainc yn benaf i'r ddefod niweidiol o fygu gwefuslys (sigâr).

Y Dr. Wood, un o awduron y llyfr a elwir "*Dispensatory*," a ddywed am *nicolia nicotin*, neu *nicotina*, sef elfen wenwynig tybaco, "Y mae yn un o'r gwenwyn ffyrnicaf sydd yn hysbys; dyferyn o hono, mewn cyffwr o ddatodiad cyd-gyfarfodol, sydd ddigon i ddinystrio ci; a threngai adar bach herwydd agoshau pibell yn ei gynnwys atynt.

Nid anfynych yr analluogodd milwyr eu hunain oddiwrth ddyledswydd drwy gymhwyso dalen tybaco yn llaith at gamedd y fraich, yr hyn a achosa ymollyngiad mawr a chyfogiad, ac afiechyd ffyrnig ar ol bwyta.

Achoswyd ymollyngiad a ffieidd-dod, wrth ond dodi rhan o'r llaw am ychydig fynudau, mewn gwlych cryf o tybaco.

Dywed Orfila, ysgrifenydd Ffrancaidd enwog ar wenwyn, "Cymhwysodd gwraig at benau ei phlant, herwydd afiechyd y penglogau, îrad wedi ei barotoi gyda llwch tybaco ac ymenyn: yn fuan wedi hyny, teimlasant bendro, cyfogiad ffyrnig, a llewygon, yn gydfynedol a chwys traulfawr."

Gwybyddwyd lawer gwaith, am drwyth a wnaed o ychydig ronynau tybaco, a roddid at esmwythau cwlwm gwythi, iddo beri dinystrio bywyd.

*I'w barhau.)*

---

## LLYTHYR O'R AMERICA.

*Minersville, Mai,* 1, 1854.

ANRHYDEDDUS A PHARCHUS FRAWD CAPT. D. JONES,—Wedi hir oedi wele fi yn defnyddio yr adeg bresennol i ysgrifenu yr ychydig linnellau hyn atoch, er profi i chwi ychydig o'n helynt yn y lle hwn, gan daer erfyn a dymuno arnoch chwithau ateb yn

ol mor fuan ag y cewch gyfleusdra, canys y mae fy enaid yn sychedu am newyddion o blith y Saint yn mhob man, fel y sycheda yr hudd am afonydd dyfroedd, ac yn neillduol oddi wrthych chwi anwyl frawd Jones, ac o blith fy nghyd-genedl; canys chwi a fu yn offeryn yn llaw Duw i'm dwyn o dywyllwch i oleuni, o feddiant Satan at y gwir a'r bywiol Dduw, &c.

Dymunwn glywed pa faint o lwyddiant sydd ar y gwirionedd yn Nghymru yn y dyddiau presennol, ac am ddaioni a rhyfeddodau Duw yn eich plith fel Cenedl; cymmaint ag alloch o'ch helynt yn mhob ystyr, canys fel dwfr oer i enaid sychedig yw newyddion da o wlad bell genyf fi.

Yr wyf yn y lle hwn er ys 7 mis, ac yr wyf wedi sefydlu Cangen yma er y 6fed o Hydref, 1853. Yr ydym yn bresennol yn 15 o rifedi, a'r swyddogion ydynt 5 o henuriaid, a 2 o offeiriaid.

Hyd yma, nid ydym yn cael fawr ddrysau yn agored i bregethu, na chwaith fawr argoelion am lwyddiant ar yr ychydig ag ydym yn lafurio yn ein tai. Ond y mae Duw yn cyflawni ei addewid yn ein plith fel Saint, trwy gyfranu yn barhaus o'i Ysbryd Glân i raddau helaeth, yr hwn sydd yn ein hadeiladu, yn ein cynghori, ac yn ein cysuro, yn ngwyneb holl wg, gwawd, a dirmyg rhith-grefyddwyr yr ardal.

Y mae fy ngweddi ar Dduw yn barhaus am roddi i ni o'i Ysbryd Glân er ein cadw gyda'i waith o hyn hyd y diwedd, ac y gwelir ei holl Saint ar frys wedi ei cydgasglu ar fynydd Seion, lle y cânt eu gwaredu rhag y dystryw mawr a'r aflwydd a ddaw ar Babilon.

Yr eiddoch yn y Cyfammod Newydd,

THOMAS M. RICHARDS.

---

## LLYTHYR Y LLYWYDD DANIELS.

*Penlan Noeth, Mai* 13.

MR GOL.—Ar ol i'r frwydr fyned heibio yn Aberystwyth, dychwelais fy nghleddyf i'r wain, a daethym hyd yma, a chefais frwydr drachefn. Y newydd cyntaf a gefais braidd, oedd clywed am y llythyr a dderbyniodd David Davies, Crugerydd, gerllaw Talgareg, oddiwrth ei fab o New Orleans, yr hwn a ddarluniai ddull y Saint yn mhlith eu gilydd yn y llong wrth fyned ffwrdd

o'n gwlad. Dywedai eu bod mor gynted ag yr elont allan a olwg y tir, yn dattod priodasau Babilon, ac yn eu gwneyd o'r newydd yn ol meddwl y llywyddion; a'u bod yn gosod ben wr a merch ieuanc gyda'u gilydd, a mab ieuanc a hen wraig gyda'u gilydd, a bod y merched ar dori eu calonau wrth weled y fath beth, ond bod yn rhaid ufyddhau, a llawer hen wr yn cymmeryd dwy ferch, ac yntau yn y canol, gan ddweyd, "Mawr yw ein cariad ni y Seintiau at ein gilydd." Mae llawer o bethau gwarthus ereill yn y llythyr; dyweda mai merch o dref Aberystwyth a roddodd yr hanes yna i ldo ef, yr hon a gafodd y fraint fawr o ddianc trwy ei gymhorth ef a'r heddgeidwad i gael ei dillad.

Yr oedd y stori yna wedi cael ei chredu trwy yr ardal o'r bron, a'r bobl wedi myned i'r fath greulonder, nes cynllunio ladd y Saint a llosgi eu tai o'r bron, fel na allent dwyllo rhagor o bobl ddiniwed. Wedi gweled y fath eiddigedd, cychwynodd y brawd Evans a minnau yn foreu i Crugerydd, a phrofasom yn amlwg iddo mai lluniwr celwyddau oedd ei fab, a bod llythyr oddiwrth y ferch yn ddigon i brofi ei fod yn ddyn celwyddog, a gwnaethom iddo addaw i ddangos mai celwydd oedd. Yn y prydnawn yr oedd neithior yn y gymmydogaeth, aethom yno, ac eglurhasom y peth yn ngwydd torf. Trechwyd y celwydd yna drachefn.

Y mae y brawd Evans a minnau bob nos yn pregethu, ac o dŷ i dŷ ar hyd y dydd. Y mae gwell argoelion am fedyddio yma yn awr nag a fu o'r blaen; y mae tri wedi addaw ufyddhau nos Fercher, ac hyderwn y daw llawer yn fuan. Y mae galwad ar i mi fyned i Cellan nos Lun, a nos Fawrth i Llanybydder; yr wyf mewn ffydd gadarn i fedyddio rhai, ac i ddychwelyd ereill i ffordd Duw o achub. Byddaf tua Brachfa a Felingwm y Sul a bwriadaf fedyddio yno hefyd; mi a af oddiyno wed'yn i Gaerfyrddin.

Mae y brawd Evans a'i wraig yn uno gyda mi i gofio yn garedig iawn atoch, ac at eich teulu, a'r oll, ac y mae y Saint yn mhob man yn cofio atoch.

Yr eiddoch yn y gwir,

D. DANIELS.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MEHEFIN 3, 1854.


## MARWOLAETH EIN HANWYL FRAWD WILLARD RICHARDS.

Ein gorchwyl galarus yw hysbysu fod y gwron galluog Willard Richards wedi marw, yn ei annedd yn Ninas y Llyn Halen Mawr, o'r Dropsy, ar yr 11 o fis Mawrth diweddaf. Yr achlysur a'i galwodd o'i dy am y waith olaf oedd i gyflawni ei swydd bwysig fel Llywydd prif Gynghorfa y Wladwriaeth. Mynych y rhag draethai wrth ei gyfeillion fod ei ymddattodiad yn agoshau, ac yn ei ymegniad olaf i gyflawni ei swydd dywedodd, "myfi a af ac a gyflawnaf y ddyledswydd olaf hon, pe, fel John Q. Adams, y byddwn farw yn yr ymdrech." Yn ei gyfarchiad olaf i'r Cynghor dywedodd, "y mae angau yn syllu yn fy wyneb yn aros am ei ysglyfaeth." Y Palsy, yr hwn a'i dilynodd er pan y dechreuodd ei yrfa i chwilio i mewn i, ac i ddilyn llwybrau gwirioneddol ac ufyddhau i drefn Duw, o'r diwedd a gynnorthwywyd gan y Dropsy i ennill buddugoliaeth a thyrfynu gyrfa ddaearol un o brif gedyrn Israel, yn ngwyddfod tenlu caredig a lliosog, a lluaws o gyfeillion anwylaidd, â y rhai cydymdeimla yr Eglwys yn helaeth yn eu gofid megys ag y cyfranogant o'r golled ar ei ol, nid yn Utah yn unig ond yn mhlith holl genedloedd y byd, lle y cyrhaeddodd cyfraith Duw o Seion.

Ei gariad at, a'i ddirnadaeth gyflym o wirionedd a'i gorchfygodd i ymchwilio i egwyddorion yr efengyl—y cymhwysderau hyn a ynddysgl erient yn amlycach drwy ei oes, yn gyferbyniol i'w ymdrechiadau parhaus a'i ddewrder i amddiffyn gwirionedd a chyfiawnder yngwyneb pob peryglon a

godent i'w gyfarfod y rhai nid oeddynt ychydig nac anaml, fel y gwelir wrth yr hanesyddiaeth Eglwysig.

Ni allasai talentau mor fawrion, etto mor ostyngedig, a meddwl mor alluog a chynnwysfawr, yn y cyflwyniad ffyddlon a thrwyadl o honynt i adeiladu teyrnas Dduw, ddianc rhag craff olygon y Prophwyd merthyredig. Yr oedd efe yn gyfaill mynwesol i Joseph. Pleser yw adgofio ei ymdrechiadau i argyhoeddi y terfysglu o'r anwireddau a'u cynddeiriogent yn rhuthr olaf Carthage—cofus ei ymddyddanion yn y carchar gydag ef y noson olaf y bu byw ein hanwyl Brophwyd, tra ereill o honom yn gwylied y drws rhag rhuthriad llofruddion i mewn yn nghanol y nos, Willard Richards yn ddiwyd, a'i dalentau bywiog a ysgrifenai amddiffyniadau o'i fywyd diniwed, nes i'r ganwyll olaf a fe ddid ei adael yn y tywyllwch. Yn ddiddychryn dilynai ef trwy ganol terfysglu o filoedd a sychedent am ei waed; tra yn y carchar, fel yn mhob man, er mwyn yr Eglwys ac achos gwirioned ei ymgais oedd, nid rhyddhau ei hunan ond y Prophwyd. Pan aethom allan o'r carchar ar ei gais i hysbysu y Llywydd Ford, yn y boreu, fod brâd yn wybodus i ni yn erbyn ein bywydau ac y fod angen amddiffyniad—a phan wrth geisio myned yn ol y rhwystrodd y milwyr ni i fewn, yr oedd genym lythyr i'r brawd a gorfuwyd ef i ddyfod allan i'w ymofyn; cofir yn burion deimladau ei galon pan y deallodd nad oedd amddiffyniad iddynt gael—yn ddisyfl ymddiriedai yn Awdwr y gretydd a amddiffynai, a'i ddywediad oedd "achubwch eich bywyd eich hun gofala Duw drosom ni." Pan yn mhen ychydig oriau wedi hyny y cwympodd Joseph a Hyrum o tan gawod o fwledi, un deimyn o'i waed yn unig a gymmysgodd â gwaed eu calonau hwynt. Pan lifai gwaed merthyron Iesu yn gymmysgedig â gwaed y Brawd Taylor, yr hwn, heblaw ei hunan, yn unig a ddiangasant yn fyw, pan chwyrnellai y bwledi fel cenllysg o amgylch drwy y ffenestri, a phan y rhuai bonllefau cannoedd o anghenfilod a liwiasent eu gwynebau erbyn y gigyddfa, ynghyd a thrwst arfau a chleciad eu drylliau drwy y mûr, cafwyd yn Willard Richards grynodeb o alluoedd digonol i wynebu yr amgylchiad yn wrol,—i ymladd â ffon, ffroenau drylliau a enelent at ei galon; pan gwympodd ei gyfaill goreu drwy y ffenystr ar fidoganau ei elynion, ei ben yntau

a'i dilynai nes gweled diwedd yr hwn a garai mor fawr. Do, danghosodd ef y fath ragwelediad,—amynedd a doethineb anghydmarol drwy yr holl amgylchiad fel nad anghofir.

Cofus genym ymddygiad mawreddog y Dr. W. Richards wedi dychwelyd cyrff y merthyron i Nauvoo, a thra yr oedd miloedd yn cadw galar wyl nes yr ymnofiai y lle braidd mewn môr o ddagrau, a phan ymgeisiodd bradwyr anheilwng grafangu awenau y llywodraeth yn absenoldeb y denddeg; efe a dderchafai ei lais nes crynu torfeydd, megys wrth rnad llew yn y goedwig, a dychrynodd teyrnfradwriaeth rhag ei wydd. Adleisiai ei lais yn mysg bloedd y doethion a'r galluog nes synu torfeydd wrth ei ddoeth gynghorion, a llawenychai plant Seion drwy ei holl ddyffrynodd a'r byd yn ei dadol ofal am eu llesiant, pan ddarllenent golofnau y "Deseret News," o tan ei olygiaeth gampus. Eithr y mae ei lais wedi distewi yn awr ac hyd nes y mwynber gymmysga â llais telynorion yr adgyfodedigion,—gorphwysa gyda ei dadau, hyd nes gyda yr eiddynt hwythau yn nefolaidd lu, y dadebrant wrth floedd yr Archangel ac Udgorn Duw; ydyw, y mae y ffyddlon Frawd Willard, ar ol ymdrechfa ffyddlon, o chwaneg na 18 mlynedd o blaid achos Duw, yn yr hyn yr ennillodd goron aniflanedig, drwy yr holl erlidigaethau chwerwon, y llofruddiadau a'r alltudiadau gyda'r Eglwys yn Ohio, Missouri, Illinoes, &c., ac wedi megys rydio afonydd o waed, y mae ei draed heddyw wedi sengu gororau auraidd, lle yr hir ddysgwylid ef gan Joseph a Hyrum, a llu o ferthyron Iesu yn mhlith Eglwys y cyntaf anedig. Heddwch fo i'w lwch, ac anrhydedder ei goffawdwriaeth.

Llanwai Willard Richards amryw swyddau pwysig ac anrhydeddus. Yn 1848 dewiswyd ef yn ail gynghorydd i'r Brif Lywyddiaeth; 11 yn flaenorol dewisasid ef trwy ddadguddiad drwy Joseph y Gweledydd i gorwm y denddeg apostol. Enwogodd ei hun drwy ei fedrusrwydd fel Hanesydd Eglwysig am flynyddau. Llanwodd y swydd bwysig o brif Ysgrifenydd Talaeth Deseret, a dysgynodd y rhan fwyaf o oruwchwylion yr un swydd yn Nhiriogaeth Utah arno, a Llywyddai ar y Cyngor gwladol yn y cyfamser. Efe oedd Prif oruchwylydd llythyr swyddfa y Diriogaeth—Perchenog a Golygydd y *Deseret News*, galarwisg colofnau yr hwn a ddanghosant fod y llaw a'u hysgrifenent yn gorwedd yn y beddrod, fod eu hawdwr wedi

rhoddi ei le i arall; yr hyn a'n coffha ni oll mai ein gyrfa ninnau yw hi, a chaffer ni yn teilyngu yr un wobr a Willard pan y galwer arnom.

Ymdrechwn iawn brisio y Llywyddiaeth sydd yngweddill arnom ac anrhydeddu eu cynghorion megys y gwnaeth yntau yn ddieithriad,—ein llygaid ni, fel y bu yr eiddo yntau a fyddo yn edrych i fynu atynt, ac yn dilyn ol eu traed caffer ein camrau nes diweddu ein gyrfa; ac yna ni bydd perygl ar na chawn fwynhau eu cwmni hwy a holl ffyddlon weision Iesu yn ngwlad y gwawl, lle na bydd dolur, poen, na gwae, na neb yn tynu yn groes yn dragywydd, ond pawb o unfryd calon yn moli yr Oen a'n gwnaeth ni yn Freninoedd ac yn Offeiriaid i Dduw ac a roddes i ni gydag Ef deyrnasu AR Y DDAEAR!

---

NEWYDDION O DIRIOGAETH UTAH.—Y gledrffordd o'r Taleithiau i'r Mor Tawel yw un o brif destunau ymddyddanion drwy y wlad, cynnelir cyfarfodydd cyhoeddus, lle y danghosir y manteision a ddeilliau i'r Diriogaeth drwy hyny, ac y mae y gobeithion o lwyddiant i gael y gledrffordd drwy eu dyffrynoedd breision hwynt yn lloni calonau y trigolion. Mewn gobaith o hyn geilw y Llywydd Brigham Young ar holl drigolion y dyffrynoedd i ymroi codi yr holl lafur a allant o'r ddaear, ac i adeiladu ystordai i gadw eu gweddill erbyn y del y galwad mawr a ddysgwylia fydd am bob cynnyrch, oddiwrth weithwyr ar y rheilffordd newydd hon. Mae y mûr o amgylch y ddinas yn cynnyddu yn gyflym, pump rhan o chwech o hono wedi ei gwblhau mewn rhai dosbarthiadau; mwynheir iechyd da, undeb cyffredinol, heddwch a ffyniant tymhorol ac ysbrydol drwy yr holl ddyffrynoedd heddychlon hyny; gwyn fyd eu preswylwyr.

Mae amddiffynfeydd newydd a chryfion yn cael eu hadeiladu yn y sefydliadau deheuol; y gwaith haiarn yn llwyddiannus. Mae y Llywydd O. Hyde yn bur llwyddiannus yn gwneuthur sefydliad newydd ar yr Afon Werdd. Cafodd y Saint yn Parowan y fraint o achub bywydau y teithiwr enwog drwy y mynyddoedd creiglyd, sef Col Fremont a'i osgordd, rhag marw o newyn; yr oedd 8 o Americanaid gydag ef a thua yr un nifer o Indiaid, teithiasant dros fynyddoedd eirawg am dros 40 niwrnod heb ymborth amgen na'r mulod a drengent o tanynt, a'r rhai hyny mor brin fel cu gorfuwyd hwynt i wneyd

defnydd o bob rhan o'r anifail a llosgi yr esgyrn a bwyta eu lludw. Pan gyrhaeddasent i blith y Saint yr oedd rhai o honynt yn mron a marw ac ni allasent fyned yn mhellach; cawsant bob caredigrwydd ac ymgeledd, fel, yn mhen ychydig wythnosau gallnogwyd hwynt oll i fyned i'w ffordd yn llawen ac ymborth gyda hwynt, gyda theimladau diolchgar am garedigrwydd Mormonaidd. Amcan Mr. Fremont yw cael allan y ffordd oreu i wneyd y rheilffordd o'r Taleithiau i California.

---

Newyddion Caetrefol.—*Dwyreiniol Morganwg*,—Mae cyffroad adnewyddol drwy y Gynnadledd hon,—y brodyr yn awyddus a selog yn pregethu allan—torfeydd yn gwrandaw yn syml ac ymchwilgar, traethodau yn cael eu dosparthu y rhai sydd yn dwyn effaith ddaionus, ac amryw fedyddiadau heblaw addewidion am fedyddiadau cyhoeddus am Suliau yn mlaen llaw. Gwelir y Saint yn ymgasglu i'r cyfarfodydd yn fwy lliosog, a'r canlyniad yw fod Duw yn eu bendithio a'i ddoniau yn helaeth; ac y mae y cangenau yn lled gyffredinol yn rhoddi eu bryd ar adgyweirio y rhai llesg a chael pob aelod i un o ddau ddosbarth cyn y Gymmanfa ddyfodol. Hyderwn yr efelychir hwynt ac na adewir neb heb ymweled a hwynt, os esgeulusant eu dyledswyddau, a bendith fo ar eu hymweliadau.

*Gorllewin Morganwg.*—Hysbysir ni fod yr argoelion yma yn cynnyddu, ffydd y brodyr i bregethu a dosparthu traethodau ac y fod cynnydd cysson yn gyffredinol, yn enwedigol dywed yr Henuriad J. Bowen, o'r Pyle, fod y cylchoedd hyny wedi myned megys a'r dân o gŵr bwy gilydd, drwy ddiwydrwydd y swyddogion yn pregethu, a'r traethodau. Fel arferol, pan ddeffroir y gonest i ymchwilio am y gwir, gŷr y gelyn ei *bedlars* a lloned eu ffetanau o hen a newydd gelwyddau i ddiflasu y bobl a dirmygu plant Duw, felly yma; a'r offeryn a ddefnyddia y tro hyn yw un o Bregethwyr Methodistiaeth! A'r dyll y rhyfela yw drwy chwythu bygythion a chelaneddau yn erbyn y Saint a chyhoeddi eu bod tu hwnt i gael maddeuant byth,—aflonyddu eu cyrddau, &c. Druain o honynt, rhy ffol fyddai digio wrth eu bathau, ni wyddant beth maent yn ei wneuthur; nid oes nemawr flynyddau er pan oeddem mor ffoled ein hunain, a'r hen nwyd Fethodistaidd yn chwyddo ein gwythienau, rai o honom, hyd nes fel Saul o Tarsus gynt, tybiem mai

gwasanaeth i Dduw oedd erlid ei anwyl blant. Oddiar law eu dysgawdwyr y gofynir graddau helaeth o waed gwirion eu hudoledigion yn ddiau: er hyn oll bendithia Duw ei Saint â mwy-fwy o râs a nerth i dduwiol fucheddu, ac mae yn agoryd llygaid ereill i weled trefn yr achub er gwaethaf pob gwrthwynebiad.

*Penfro Ddeheuol.*—Cynnaliwyd y Gymmanfa hon, yn Mhenfro, Sul Mai 21. Cydunwyd yn unfrydol i gynnal holl awdurdodau yr Eglwys o Seion drwy ei holl gylchoedd perthynol. Cynnrychioliwyd Cang. 13, Hend. 30. Off. 6, Ath. 8, Dia. 8, Cyfan 208. Cafwyd addysgiadau dyddorol gan y Llywyddion Jeremy, Price. J. J. Phillips ac ereill, a mwynhawwyd amlygrwydd mawr o bresennoldeb Ysbryd yr Arglwydd er gorfoledd i'r Saint.

*Sir Fflint.*—Bu y Gymmanfa hon Sul y 14eg o Fai yn y Cefn Mawr, wedi arwyddo cymmeradwyaeth o'r Llywyddiaethau Eglwysig, cafwyd fod yno Cang. 5, Hend. 19, Off. 5, Ath. 5, Dia. 2, Bed. 6, Cyfan 113. Cafwyd gwrandawiad astud a lliosog i ddarlithau hyawdl gan y Bugail Parry, y Llywydd Evans, Jones, a'r Henuriad Robert Parry, yr hwn a groesawwyd yn fawr gan ei hen gydnabod. Hyderir fod effeithiau i ganlyn y Gymmanfa, a fydd yn bleserus gan y brodyr ffyddlon hyn eu mwynhau, a chan Dduw eu bendithio.

*Dyffryn Conwy.*—Mewn llythyr diweddar hysbysa y Llywydd R. Roberts ni, fod gwell argoelion drwy faes ei lafur, ar fyd ac Eglwys nac a welodd o'r blaen—undeb a chariad, a rhai oedd yn yr Eglwys er's blynyddau newydd dderbyn donian yr Ysbryd Glân. Bedyddiasid 4 yn ddiweddar ac amryw addewidion i ddod yn fuan—crefyddwyr ac ambell bregethwr yn cyfaddef nad ar devrnasoedd pellenig yn unig y tywalltwyd Ysbryd ond rhyfel ar y capeli hefyd ffordd hyny, nes oedd y rhai a broffesent frawdoliaeth grefyddol yn teimlo ddigon digofus i flaen-llymu cleddyfau at eu gilydd. Pa ryfedd eu bod yn ymladd yn erbyn y Saint yntc? Rhaid, y mae yn rhaid cael gwell crefyddau nag a feddant hwy cyn byth y dysgir hwy i guro eu cleddyfau yn sychau, ac fel na ddysgant ryfel mwyach; os na ddwg heddwch mewn lloned capel pa fodd y llanwa y byd a heddwch? O, na, ofer dysgwyl y dwg dim llai nag Ysbryd Duw, heddwch i amdoi y byd, yr hyn beth ni fedd unrhyw

ddosran o'r Gristionogaeth a'i gorlifa yn awr. Mae galwad mawr am y gwirfoddiaid o'r deau i gylchoedd Arfon gan y Saint, a'r wlad yn gyffredinol yn galw am bregethu, a cheir cyflogau uchel a digon o waith yn y cylchoedd hyny; croesawiad mawr i'r UDGORN gan amrai o'r byd a lledaeniad arno. Hysbysa y Llywydd y gallai gael gwaith i amryw pe baent yno yn awr, a mawr ymholi "Pa bryd y deuant?' Gobeithiwn y cariant eu hatebiad eu hunain a'r fyrder, yw y cywiraf a aliwn ddweyd yn awr.

---

NEWYDDION TRAMOR.—Yn Switzerland, er gwaethaf cynddeiriogrwydd y llywodraeth wladol ac eglwysig, y mae gwaith yr Arglwydd ar ei gynnydd yn y wlad goel grefyddol hon; ysgrifena yr Henuriad T. B. Stenhouse eu bod hwy wedi sefydlu cangen yn cynnwys 31 o aelodau yn nhref Turich ac wedi ordeinio amryw o ddynion gobeithiol i'r Offeiriadaeth. Canmola haelfrydigrwydd yr Anrhydeddus G. H. Goundi, Uchel-faer Americanaidd, yn fawr am ei hynawsedd yn ceisio rhyddhau yr Henuriad Mayer o'r carchar ei rhoddwyd ynddo am bregethu, a chynnyg ein cynnorthwyo ag arian; ac ychwanegwn ninnau, yr Arglwydd a ad-dalo iddo ar ei ganfed. Mae y Brawd Mayer etto yn rhydd ac wedi bedyd lio amryw mor gynted y daeth o'r carchar.

*Italy*—Sefydlwyd Eglwys i Dduw yn y wlad Babaidd hon yn ddiweddar, cynnwysedig o 19 o aelodau. a thywalltodd yr Arglwydd ei Ysbryd yn nerthol yn ei ddoniau arnynt nes peri i'w calonau fawr lawenhau yn yr efengyl. Ymdrecha yr Offeiriaid Pabyddol eu gwaethaf i'w rhwystro, ond er hyny oll y mae eryfach braich o'u plaid, a llwyddo y maent fwy-fwy.

*Ynysoedd Sandwich*—Mawr y cynnydd sydd ar yr achos goreu yn yr Ynysoedd hyn; mewn ychydig fisoedd wedi i'r Henuriaid landio ar Ynys Honolulu, lle y ffoisent rhag erlidigaeth a gynhyrfwyd i'w herbyn gan Genhadon Sectyddol, bedyddiasant 400 mewn un man, heblaw llawer mewn parthau creill o'r ynys.

A'r ynys Hawaii, bedyddiwyd dros 200 mewn daufis; yn ynysoedd Maui a Molokai y mae ychwanegiadau rhyfeddol at yr holl Eglwysi; er y Gymmanfa flaenorol cynnyddodd rhifedi y Saint dros 2000, ac argoelion fod llu wrth y drws. Mae Henur-

iaid yn awr a'r bob un o'r ynysoedd hyn, a'r Arglwydd yn cydweithio a hwynt yn rymus. Er mor ddwfn yr oedd eulunaddoliaeth wedi greddfu yn y trigolion hyn, y mae Ysbryd Duw, drwy nerthol weithrediadau ei ddoniau grasusol yn gallu ei ddiwreiddio ac yn planu ffydd nerthol yn eu calonau, fel nad oes nemawr neb o honynt yn ymofyn meddygon pan yn glaf, eithr drwy weinyddiad yr Henuriaid derbyniant iechyd yn rhyfeddol, hyd nes y mae son am hyny a gweled y gallu mawr dwyfol yn creu awydd yn y byd yn aml am i ni weinyddu arnynt.

---

## AMRYWIAETHAU, &c.

Cymmanfaoedd.—Cynnelir Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg ar y 25ain o Fehefin; Mynwy ar yr 2il o Orphenaf; Brycheiniog ar y 9fed; Gorllewin Morganwg ar yr 16eg; Llanelli ar y 23ain; Caerfyrddin ar y 30ain; Aberteifi ar y 6fed o Awst; Gogledd Penfro ar y 13eg; a Deheu Penfro ar yr 20fed.

☞ Coffhawn Lywyddion y Cynnadleddau Cymreig yn brydlon o barthed i'r Cynnrychioliad Hanner Blynyddol, ynghyd a'r cyfraniadau at y Deml a'r Gymdeithas Ymfudol Barhaus; cofier ein bod i'w hanfon oddiyma yr 28ain o'r mis hwn. Anfoner enwau y Cangenau a'r prif Drysorwyr ar gyfer y cyfraniadau at y G. Y. Barhaus, ac enwau Trysorwyr cyfraniadau at y Deml o bob Cynnadledd. Dymunwn atebiad i'n cais blaenorol hefyd o bob Cynnadledd, sef, pa sawl un o'r *Star* a'r Udgorn oedd ar law diwedd y flwyddyn, a pha sawl un sydd heb eu gwerthu yn awr?

Derbyniadau am Lyfrau o Mai 27 hyd Meh. 1.—Gogledd Penfro, £1 5s; Caerfyrddin, £1 8s; Llanelli, £2.—*Cangenau Dwyr. Morganwg*—Llanfabon, 7s 7c; Hirwain, 2s 5c; Georgetown, 4s 6c; Merthyr, 12s; Gwernllwyn, 8c; Troed-y-rhiw, 3s; Pontypridd, 10s.

---

## CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Paham y cerir y Gwirionedd | 325 |
| Dammeg yr Iuddewon a'r Mochyn | 327 |
| Llythyr o Ddinas Manti | 328 |
| Effeithian Tybaco | 329 |
| Llythyr o'r America | 330 |
| Llythyr y Llywydd Daniels | 331 |
| Golygyddiaeth—Marwolaeth ein hanwyl Frawd Willard Richards—Newyddion o Diriogaeth Utah—Newyddion Cartrefol—Newyddion Tramor | 333 |
| Amrywiaethau, &c | 349 |


---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

Rhif. 22.] MEHEFIN 10, 1854. [Cyf. VII.

## ANNERCHIAD

AT OFFEIRIAID, PARCHEDIGION, PREGETHWYR, A HOLL ATHRAWON CREFYDD YN NGHYMRU.

Barchus Foneddigion,—Dwys ystyriaeth o'r pwysigrwydd o addysgu y meddwl dynol mewn pethau a sefydlant ei dynghed dragywyddol, yngwyneb y ffaith y "dwg Duw bob gweithred i farn," ac mai yr hwn a drosedda un o orchymynion Crist, ac a ddysga i ereill wneyd felly, lleiaf y gelwir ef yn Nheyrnas nefoedd, ynghyd a mawr awydd i chwi ddeall y gwirioneddau dwyfol, llesiol a phwysig a wybyddir genym ni, a'n cymhellodd, ïe, a'n gorfododd i alw eich sylw at yr hyn a ganlyn:—

Y mae Duw wedi anfon cenadwri o'r nef i drigolion daear yn ein dyddiau ni. Na thaflwch y traethawd bach hwn o'ch llaw fel yn annheilwng o'ch sylw; canys y mae yn ffaith fod Duw wedi llefaru drwy anfon un o'i genadon angylaidd i'n daear a chenadwri rasol a phwysig oddiwrtho Ef; mae hyn yn wir, ac yr ydym ninnau yn *gwybod hyny*! Gwirionedd diwrthbrawf yw hyn, gwirionedd ag y dangosir yn y traethawd hwn y modd y gallwch chwithau ei *wybod* felly, drwy ffeithiau mor anwrthwynebol â'r rhai a'u profasant i ninnau.

Gwirionedd pwysig yw hefyd, y fod dedwyddwch presennol a thragywyddol pob un a glywo, neu a gaiff gyfle i glywed y genadwri hon, yn ymddibynu ar ei ufydd-dod iddi; ac mai yn ol el ymddygiad atti y sefydla ei Hawdwr dwyfol hi, dynghed yr oll a allant ei chlywed. Ar sail y ffaith o fod achubiaeth y

byd yn ymddibynu ar eu hufydd-dod i genadwri Duw drwy e genadon yn yr oesoedd a'r goruchwyliaethau mynedol, cyfaddefa rhesymeg gymhariaethol gyd-bwysigrwydd y genadwri hon a'r eiddynt hwythau, os gwir ein tystiolaeth, ac nid ydym yn anwybodus o'r anhawsderau sydd ar y ffordd i gredu dwyf oldeb ein cenadwri, eithr y ffaith a brawf nad mwy y gorchwyl nag y meiddiwn anturio arno. Anturiaeth deilwng o anturiwr galluocach mae'n wir, deilwng o holl dalentau dynol ac angylaidd; o'ch plith chwi ynte, ymdrechwn gael rhai i fwynhau tystiolaeth ddwyfol o'r ffaith hon, ac hyderwn y byddwch alluocach i argyhoeddi ereill, sylfaenir ein hyder am lwyddiant ar eich proffes chwi o onestrwydd egwyddor, cariad at wirionedd, a'ch awydd i ufyddhau i Dduw ac i achub dynion.

Proffesir mai lleshâd ereill sydd mewn golwg gan bob urdd, gradd ac enwad yn eu hymdrechiadau crefyddol, a thra y teimlwn barch i, â chariad at bob ymdrech o blaid daioni yn gyferbyniol i gydwybodolrwydd yr ymdrechwr, etto, y mae yn wir rhy eglur i'w guddio, mai gwaeth waeth y dirywia ein cenedl po fwyaf yr ymdrechiadau a wneir o blaid 'Crist'nogaeth' yn eu plith; a pho fwyaf a ennillir at y naill blaid lliosocach yw gelynion y blaid arall, yr hyn sydd mor andwyol yn ei ddylanwad hyd y cyrhaedda ag yw anfoesoldeb cyhoeddus a gwarthus y rhai ni phrosolytir at y naill na'r llall. Mae ffrwythau anghrefyddol crefyddau ein gwlad, ar ol rhai canrifoedd o gyfleusterau i'w profi, yn gorfodi miloedd i wawdio a diystyru crefydd yn hollol ac i haeru nad oes leshâd i'w gael drwyddi; ac onid casgliad naturiol, oddiwrth *gynnyddiant* y clefyd yw, aneffeithioldeb y cyffeiriau a weinyddir?

Caniataer mai awydd i lesoli eich gwrandawyr a'ch cymhella i'r oll a wnewch erddynt, eithr pa leshâd a allwch wneyd iddynt oni allwch eu cyfarwyddo i gael crefydd ddwyfol; na pha fodd y gallwch iawn gyfarwyddo ereill oddieithr eich bod yn mwynhau crefydd ddwyfol eich hunain? Mae *dwyfoldeb* crefydd yn profi unigolrwydd crefydd; mae unigolrwydd yr Awdwr yn profi naill a'i unigolrwydd crefydd neu Ei gyfnewidioldeb ei Hun. Os na chaniateir yr olaf, gorfodir i gyfaddef nad dwyfol, ond dynol, yw yr holl sectau a'r ffurfiau crefyddol drwy'r byd ond un. Gosodiad anmhoblogaidd yw hwn mae yn wir,—dywediad a ddyry ddiwedd a'r boblogrwydd

yr hwn a'i dywedo; etto, y mae yn hollol resymol ac ysgrythyrol, ac yn boblogaidd yn y nef, a chan holl weision anfonedig Duw ar y ddaear. Pa un o'r oll yw y grefydd ddwyfol, a fyddo yr ymholiad pwysig, a chaffed ymchwiliad trwyadl a didwyll. Prawf y gwahaniaeth barnau sydd yn parhâu ar ol cymmaint o ymddadleu, pregethu, ysgrifenu ac esponio, gan gynnifer o wyr dysgedig ar y pen hwn, nad ffordd anffaeledig yw hono i gael gafael a'r grefydd ddwyfol; etto, nid yw yr amrywiaethau sydd yn rhanu ein cenedl yn groes bleidiau, yn gwrthbrofi unigolrwydd crefydd, namyn ffeithiau galarus o aflwyddiant yn yr ymchwiliad am dani, ac yn ein cymhell ni i chwilio am dani ar hyd rhyw ffordd arall, yr hyn a wnawn fel y canlyn:—

Cyfaddefir y fod crefydd ddwyfol yn hunan brofiedydd yn yr oesoedd mynedol, addefir hefyd fod anghyfnewidioldeb Awdwr a dyben crefydd yn profi anghyfnewidioldeb crefydd, yr hyn a orfoda i addef bod ammheuaeth crefyddwr o ddwyfoldeb ei grefydd yn brawf nad yw hi ddwyfol: y grefydd na ddwg brawfiadau o'i dwyfoldeb nid yw ysgrythyrol, o herwydd ni cheir hanes ynddynt am unrhyw wir grefydd yn un oes o'r byd ond yr hon y profai ei Hawdwr ei dwyfoldeb hi, i bob un o'i hufyddion, drwy ffeithiau eglurhaol; o ganlyniad, rhesymeg wirioneddol yw, mai mwynhad presennol o'r cyffelyb ffeithiau, drwy ufydd-dod i'r cyffelyb ammodau, a fyddant brawfiadau mor gadarn o ddwyfoldeb y grefydd a'u dygant yn awr a'r pryd hyny; canys pe gau y grefydd ni chymmeradwyid hi gan yr Hwn yn unig a ddichon gyflwyno dwyfol brawfiadau gwir grefydd: ei gymmeradwyaeth Ef o honi, ac nid tybiau na barnau doethineb ddynol a fyddo ein safon i brofi pa un yw y wir grefydd, o'r oll a broffesant fod yn gyfryw.

Pa brofion a ystyrir yn ddigonol o ddwyfoldeb crefydd? A ofynir am weled gwyrth i'r dyben hyny? Y rhai hyny a haerant mai dyben gwyrthiau oedd argyhoeddi anghredinwyr, a ddylent, er bod yn gysson â'u hunain, wneyd gwyrthiau er argyhoeddi y byd o ddwyfoldeb eu gwahanol sectau croesbleidiol ac anysgrythyrol eu hunain; canys ni chaniatawn ni mai gwneuthur gwyrthiau o flaen y byd yw ffordd Duw o argyhoeddi dynion; ond, ffordd y diafol yw ceisio argyhoeddi drwy weled gwyrthiau, efe oedd y cyntaf un a ofynodd hyny gan ein Harglwydd;—"*Os* Mab Duw ydwyt arch i'r garreg hon fod yn

fara," ebe efe; eithr, "dôs o'm hôl i Satan," oedd atebiad ein Harglwydd iddo, er mor rhesymol yr ymddanghosai ei gais i'r byd yn mhob oes o hono. Nid oes hanes am neb yn gofyn am arwydd er profi crefydd ond y cymmeriadau a gondemnir gan eu cydoeswyr o fod yn ddynion drwg: "Cenedlaeth ddrwg a godinebus, sydd yn ceisio arwydd," ebe Crist, a chan na cheir un enghraifft o'i fod Ef na neb o'i weision wedi ufyddhau i Anghrist, y prif arwydd geisiwr, mor bell a gwneyd gwyrth i'w boddio; nid felly, ebe rhesymeg gymhariaethol, y profir dwyfoldeb crefydd yn awr. Gan mai a'r Dduw yr ymddibynir am y prawfiadau, rhesymol yw ceisio y prawfiadau hyny yn ol yr ammodau ar ba rai eu haddawir, a'r ffordd hono oedd "drwy ffolineb pregethu" cenadwri, [ac nid drwy roddi arwyddion] "y gwelodd Duw yn dda gadw y rhai sydd yn credu" yr hyn a *glywent*, ac nid credu yr hyn a *welent*. Mae ffydd yn anhebgorol er cadwedigaeth, heb ffydd anmhosibl yw rhyngu bodd Duw, a sierhâ yr ysgrythyrau y fod ffydd yn dyfod drwy *glywed* gair Duw, ac nid trwy *weled* gwyrthiau. Prophwydir yn yr ysgrythyrau y daw yr amser pan y gwna y diafol "arwyddion a rhyfeddodau mawrion," hyd y nod, y tŷn dân i lawr o'r nefoedd yngwydd dynion er profi mai gweision Duw yw ei weision ef, ac mai dwyfol yw eu cenadwri, yr hyn a brawf y gallai efe felly dwyllo y byd i gredu y gau yn wir, os gwneuthur gwyrthiau er arwyddion yw y ffordd i brofi dwyfoldeb crefydd. Eithr y mae mor eglur nad dyna y ffordd gywir, fel nad ymhelaethwn, ond cynnygiwn ffordd a ystyriwn yn hawddach, byrach ac eglurach o lawer, fel y canlyn:—Cyfaddefir gan holl Feibl-gredwyr, y mwynheid bendithion na allasai neb ond Duw eu cyflwyno, gan ufyddion y grefydd a addefir yn safon o wir grefydd gynt, a bod y bendithion hyny yn gyfryw ag na chaniataent i'w meddianuydd ammhen eu bodoldeb, ag na chaniatai ei reswm iddo ammheu dwyfoldeb y gyfyndrefn a'u rhoddodd yn ei feddiant; ac ni chaniatâ rheswm nac ysgrythyr i neb ammheu dwyfoldeb y grefydd a ddygai iddo yntau fwynhâd cyffelyb o'r cyffelyb fendithion yn awr.

Gan na anfoddlona neb a gredant yr ysgrythyrau,—a gredant anghyfnewidioldeb Awdwr crefydd, ynghyd a'r ffaith Philosophyddaidd, fod y deddfau disyfl a lywodraethant ei holl greadigaeth Ef, yn cyssylltu pob effaith wrth ei achos hanfodol, ni an-

foddlona y rhai hyny i benderfynu y pwnc pwysig hwn yn ol yr hyn a geir yn yr ysgrythyrau. Beth a ddywed yr ysgrythyrau oedd addewidion gwir grefydd? Ni raid dyfynu o honynt, yr hyn a raid fod mor hysbys i chwi ag yw yr addewidion gwerthfawr a lliosog ag a frithant eu tudalenau, ac ni ddysgwylir mewn llythyr mor fyr a hwn ond cyfeiriad atynt yn unig. Addawodd Awdwr mawr a Sefydlwr gwir grefydd y caffai ei ufyddion fwynhau dylanwadau ei Ysbryd Ef yn nerthol, effeithiau yr hwn a fyddai eu dwyn hwy oll i "undeb y ffydd," i gyd weled â'u gilydd mewn egwyddorion, ordinhadau, dyledswyddau a bendithion crefydd, drwy eu bod hwy oll yn cyd-weled ag Ef, y safon: achosai yr Ysbryd hwn hwy i garu eu gilydd â chariad dwyfol, o herwydd y cariad a fagai yn mhob un o honynt at wirionedd, a'r hwn a'u cymhellai oll i gyd ymdrechu â'u gilydd i ddwyn ereill i'r un Eglwys drwy wneyd yr un pethau, ac nid yn groes i'w gilydd i wahanol eglwysi, drwy wneyd pethau gwahanol; cyd-dystiai á'u hysbryd hwy eu bod yn blant i Dduw, drwy gyflwyno iddynt ddadgnddiadau o'i ewyllys Ef—drwy ei ddoniau a chyflawniad o'i addewidion i'w blant yn unig, yr hyn a symmudai bob ammheuaeth o'u meddyliau o barthed i eu perthynas â Duw, ac o ganlyniad a symmudai drwy hyny bob ammheuaeth o barthed i'r gyfyndrefn yr ufyddhasent iddi. Amrywiol oedd y ffyrdd y dylanwadai arnynt yn ol eu tystiolaethau eu hunain, eithr ei effeithiau yn mhob modd oedd eu tebygoli iddo Ef, yn gyfesur i rym y dylanwadau hyny; ar rai prydiau eu llygaid a welent olygfeydd ysplenydd o'r nefoedd a'i gogoniant, yr hyn ni allai llygaid anysbrydoledig eu gweled; portreadai ger eu gwydd bethau mynedol a dyfodol o barthed iddynt eu hunain, eu gilydd, teuluoedd, cennedloedd, oesau, a'r byd, yn hanesyddol, gwladwriaethol, a chrefyddol, yr hyn yw gweledigaethau. Oni fyddai mwynhâd o'r cyffelyb yn profi i chwithau mai dwyfol y grefydd a'u rhoddodd? Oni orfodid y galon i dystio, dyma grefydd ddwyfol, tra yr enaid yn pêr lewygu yn nysglaerdeb gogoniant y fath olygfeydd?

Gorlenwai yr Ysbryd hwn hwynt ar brydiau nes y defnyddiai eu tafodau i lefaru ieithoedd angylaidd, ac i draethu dirgeledigaethau yr Arglwydd, y rhai oeddynt anwybodus iddynt hwy heb hyny, yr hyn yw "llefaru á thafodau newyddion." Yr un Ysbryd a ddylanwadai ar arall i gyfleithu y llefariad hwnw yn

yr iaith ddeallus i'r gwyddfodolion, a thrwy hyny adeiledid hwy yn y ffydd—gorfoleddent yn y ddwyfol gymmeradwyaeth o honynt hwy a'u gwasanaeth drwy ymddarostyngiad en Tad i gyfrinachu â hwynt felly, a chreai ynddynt benderfyniad adnewyddol i ufyddhau i'r gorchymynion a gaffent drwy hyny yn llin ar lin, yma ychydig, ac mewn cyfarfod Eglwysig arall ychwaneg wed'yn, yr hyn yw "cyfeithiad tafodau." Pa fodd y dichon neb a fwynhauai y ffeithiau hyn ei hunan ammheu yr achos o honynt? Wel, dyma brawfiadau dwyfol o ddwyfoldeb crefydd. Byddai hyn yn ddadguddiadau uniongyrchol oddi wrth Dduw, i'w rhagrybuddio o beryglon a'u harosent, a'r dull i'w gochelyd, yn gysurol dan brofedigaethau, yn llawenhau eu calonau, yn cynnyddu eu cariad a'u gobeithion, ac yn cadarnhau eu tystiolaethau blaenorol, a'r oll yn eu santeiddio yn barhaus. Pan y byddent yn glaf, yr Ysbryd hwn, drwy eu hymarferiad hwynt â'r moddion ordeiniedig a'u hadferai i iechyd, oddieithr bod y cyfryw aficichyd i farwolaeth. Dyma oedd rhai o fendithion y grefydd a gyfaddefir yn ddwyfol ar sail ysgrythyrol; nid yw anwybodus i ni, yr ym ais a wnaed ac a wneir i argyhoeddi y byd o afreidiolrwydd y bendithion hyn yn awr, ac mai eu dyben y pryd hyny oedd "er sefydlu Cristionogaeth," yr hyn haeriadau a brofasom yn anysgrythyrol ac afresymol, mewn traethodau a elwir yr "*Hen Grefydd Newydd*," yr "*Eugrawn Ysgrythyrol*," a manau ereill, fel na raid ymhelaethu yma, ond dweyd y byddai y mwynhâd o'r bendithion hyn yn awr i chwi eich hunain yn ffeithiau mor anwadadwy o'r anghen o honynt, fel na chredech haeriadau holl ddynion byd eu bod yn afreidiol.

Foneddigion! Pwy yn eich plith, a fedd gariad at wirionedd —at hunan les, neu a fedd awydd am leshâd ereill ar na ddymunai â'i holl galon fwynhau y bendithion dwyfol hyn ei hunan, ar nad ymbleserai yn cyfarwyddo ei wrandawwyr i fwynhau yr unrhyw fendithion a'r unrhyw brofion o ddwyfoldeb eu crefydd? Pwy a ddichon feddwl fod ffurfiau heb y sylweddau hyn yn well yn awr? Na phwy a ddichon ddwys ystyried y pwysigrwydd o'r bendithion hyny a fwynheid gan y Saint cyntefig heb ocheneidio o'i galon i'r nef ei ddymuniad am eu cael? Argraffed Ysbryd y gwirionedd y dymuniad yna ar yr enaid fel na ddilër hyd nes ei chael; canys tystiolaethwn

mewn sobrwydd, a sicrhawn mewn gwirionedd fod y grefydd ddwyfol hono a ddygai y bendithion rhag-gyfeiriedig i'w hufyddion gynt wedi cael ei hadferyd o'r nef i ddynion yn ein dyddiau ni, ac y fod eu hufyddion hi yn mwynhau y cyflawniad o'i haddewidion yn awr megys y pryd hyny, a'n bod NI yn GWYBOD hyny! At y grefydd hon y crefwn am gael eich sylw manwl, eich hymchwiliad treiddgar iddi, a'ch cydymffurfiad â'i holl ofynion; yr hyn os gwnewch, tystiolaethwn yn ddyfrifol yn enw a thros ei Hawdwr dwyfol hi, y dyry Efe, ac nid nyni, dystiolaeth i chwithau megys ag y rhoddodd i ninnau, drwy ddim llai na mwynhâd o'r cyffelyb ddoniau, mai gwir Eglwys Dduw yw yr hon eich gwahoddwn yn serchus i ddyfod iddi. Dyma ffordd deg—ffordd râd a chyrhaeddadwy i bawb i brofi dwyfoldeb ein crefydd; ni ddywedodd neb erioed, ac ni ddywed neb rhesymol a fwynhaodd y doniau hyn, mai gweled gwyrthiau yw y ffordd oreu i argyhoeddi y byd o ddwyfoldeb cenadwri; am hyny, dywedwn hyn wrthych, un ac oll, deuwch a gwelwch fod doniau a ffrwythau gwir grefydd *yn awr i'w cael* YN Eglwys y Duw byw, ac nid *tu allan* i'w mhuriau. Nid yn unig deuwch a gwelwch, ond deuwch a *chlywwch*—deuwch a *theimlwch*—deuwch a chwi eich hunain a'u mwynhawch fel mai byw y Duw a'u haddawodd; ac fel mai byw yr Hwn a esgynodd i'r uchelder, ac a roddes y rhoddion hyn i'w Eglwys, y mae Efe yn eu cyfranu yn awr i'w blant. Pa wiw dadleu yn hwy—pa wiw ammheu gosodiad mor bendant, mor hawdd ei brofi trwy *ffeithiau*, yn wir neu yn gau. Nid gwiw dadlau o barthed i grefydd, canys nid dynol yw—eithr Duw sydd i brofi ei grefydd Ef yn wir yn mhob oes; ni bu yn ngallu dyn erioed i'w phrofi i'w gyd-ddyn, nac yn ngallu dyn na diafol erioed ei phrofi hi yn gau. Os ammheu wch ein tystiolaeth dewch a phrofwch hi drwy yr unig ffordd ddichonadwy, sef, drwy ei phrofi eich hunain yn amddifad o'r bendithion a addawwn, ac nid drwy haeriadau dibrawf a chwedlau anwireddus ein gelynion; y mae ein tystiolaeth o bwys digonol i deilyngu eich ymchwiliad iddi; canys, os gwir yw, genym ni y mae Unig Wir Eglwys Dduw, a bod allan o honi yw bod yn amddifad o wir grefydd, yr hyn a'ch amddifadai o fywyd tragywyddol. O'r ochr arall, os gau yw, y mae yn hawdd ei phrofi hi yn gau; ac eilly, nid oes achos dadleu dim o barthed i'n crefydd, ac nid oes

raid i neb yn y wlad aros mewn petrusder meddwl a'i gwir a'i gau yw hi, o herwydd prawf ei Hawdwr hi i'w ei hufyddion gwirioneddol mai dwyfol yw, ac ni all ei hanufyddion, pe meddent ddoethineb y byd i gyd, ei phrofi yn gau.

*(I'w barhau.)*

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MEHEFIN 10, 1854.

HANESION CARTREFOL.—Newyddion gorfoleddus a'n cyrhaeddant yn feunyddiol am lwyddiant Teyrnas Dduw, ac ymddengys oddiwrth yr oll, fod y byd yn ymddeffroi yn ganmoladwy iawn i wrandaw y genadwri ddwyfol a grasol a anfonodd Duw atynt,—heidiant ynghyd wrth y cannoedd, meddir i ni, nid i wawdio a diystyru fel yn yr amser ag y credid camgyhuddiadau gau grefyddwyr yn ein herbyn ni a'n crefydd; mae y noddfäau hyny wedi diflanu ymaith i raddau helaeth o flaen yr ail feddwl mwy rhesymol, ac yn profi nad oes anghen dim ond, i'r ymchwiliwr am y gwir, glywed ein hegwyddorion er deall mai o herwydd eu rhesymoldeb a'u Hysgrythyroldeb y mae gau grefyddwyr yn eu camddarlunio a'u goganu gymmaint, ac nid o herwydd y teilyngant hyny. Clywwn yn fynych am dorfeydd o wrandawwyr siriol lle y mae bedyddiadau cyhoeddus, ac y mae ymgasgliad cangenau cymmydogaethol i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn ddylanwadol iawn i ennill gwrandawiad ein cyfeillion o'r byd.

Yn mhlith yr ymdrechiadau canmoladwy ereill a wna y Saint i achub eu cymmydogion, nid y lleiaf eu heffaith yw Traethodu, yr hyn a brofir trwy fod y byd yn ymholi am danynt, yn diolch am danynt drwy dalu, ac yn rhyfeddu yn fawr pa le y bu y Saint er's llawer dydd bellach, heb ddyfod a'u Traethodau oddiamgylch. Er cymmaint o effeithiau daionus a welwn ni, etto nid oes neb ond yr Hollwybodol a ŵyr y lleshâd a wneir trwy ddosparthu yr *argraffedig air*. Gwed

pawb a'u profodd, ddigon o ffeithiau i'w eymhell i'r ymdrech, a gobeithiwn na fydd un Dosparthwr cyffredinol na Chynnorthwyol yn amddifad o'r amrywiaeth a'r llawnder a ystyrir yn alluog i'w dosparthu yn eu plith. Ni allwn gredu fod y Cangenau, a buom agos â dweyd y *Cynnadleddau* hyny, na anfonasant am nemawr neu ddim Traethodau eleni, yn deall y pwysigrwydd o'r peth, fel yr ymddengys i ni, neu nad oes ynddynt gymmaint awydd am achub dynion. Nid ymddengys fod cymmaint awydd chwaith yn y Dosparthwyr a'r Pregethwyr hyny a gerddant drwy y wlad a'u dwylaw yn weigion, yn nghanol pobl a orweddant yn y tywyllwch ag oedd genym ni a llawer o frodyr ffyddlon ereill, a fuom am flynyddau, ac a ddymunem fod etto, a thraethodau o dŷ i dŷ ar hyd yr heolydd lle y teithiem, o Gaergybi i Gaerdyf, fwy nag unwaith na dwywaith; ac hyd heddyw cawn bleser yn meddwl am yr ymdrechiadau—yn clywed llawer yn dweyd mai dyna ddechreuad eu troedigaeth, a mawr lawenhawn yn y gobaith o gael gyda hwynt, a phawb a wnaethant yr hyn a allasent, ein gwobrwyo o'r herwydd yn Nheyrnas Dduw.

---

Gogledd.—Ysgrifena yr Henuriaid J. Parry eu bod hwy yn cael Cymmanfaoedd blasus a lleisiol—bod yr Henuriad R. Parry ac R. Evans yn ddiwyd yn pregethu i dorfeydd lliosog bob dydd braidd drwy Sir Fflint a Sir Ddinbych, a bod gobeithion yr ufyddha llawer i'w cenadwri cyn hir. Dywed mai yn awr y mae y Gogledd oer a diweddar yn dechreu addfedu i'r cynheuaf mawr—chwedlau anwireddus wedi cael eu gwrthbrofi yn amlwg, a'r Saint yn ddiwyd yn dosbarthu Traethodau yn nhai eu cymmydogion. Ni oes a luddias fenditbion y nef i goroni y fath ffyddlondeb â llwyddiant: yr Hwn a bïa y gwaith a'u nertho i wneyd mwy-fwy o hono, yw ein gweddi barhaus.

*Gwirfoddiaid.*—Drwy lythyr dyddorol a diweddar oddiwrth yr Henuriad H. Parry a I. Rees, deallir eu bod hwy yn llafurio yn ddiwyd ac yn dderbyniol yn Llanidloes, Tref Newydd, a'r cylchoedd, yn cael gwrandawiad boneddigaidd, a'r wlad yn awyddus am draethodau ac yn addfed i'r efengyl. Aethdau Frawd arall o Sir Fynwy yno ar eu hôl yn ddiweddar.

Sir Fon.—Aeth yr Henuriad O. Thomas, a T. Bates o Tre-

degar, i lafurio yn yr ynys hyfryd hon; mawr lwyddiant a gaffont i achub miloedd o'i thrigolion.

Dyffryn Conwy.—Cynnaliwyd y Gymmanfa hon, Mai 28, yn Eglwys Fach;—Cang. 5, Hend. 18, Off. 10, Ath. 4, Dia. 4, Bed. 4, Cyfan 98. Cariodd pregethau hyawdl yr Henuriad rhag enwedig ddylanwad daionus ar dorfeydd lliosog o wrandawwyr, ac ar y Saint.

Prif Ddosparthwr Cynnadledd,—a ddylai fantoli ei gyfrifon gyda ei is-ddosparthwyr ar y dydd olaf o Fawrth, Mehefin, Medi, a Rhagfyr, ac yn ddioed anfon iddynt ddangoseg o swm eu dyledion i'r Gynnadledd.

Etholed pob Cynnadledd ddau Arolygwyr i edrych dros gyfrifon y Prif Ddosparthwr ar yr un pryd ag y mantolwn ni ein cyfrifon â hwynt. Gwneled yr Arolygwyr ddangoseg o'r arian a'r llyfrau ar law y Dosparthwr, yn ol y pris a ofynir gan y swyddfa hon, ynghyd ag o'r dyledion a fyddant ddyledus y pryd hyny oddiwrth yr is-ddosparthwyr.

Cadwed yr Arolygwyr eu danghoseg hyd oni welont swm y ddyled a ofynir oddiar eu Cynnadledd, yn gyhoeddedig yn y *Star* a'r Udgorn canlynol i hyny. Os cydunant, da; os na wnant, ymchwiliedLlywydd y Gynnadledd i'r achos o'r gwahaniaeth: nad pa fodd y bydd, rhodded yr Arolygwyr eu dangoseg i Lywydd y Gynnadledd, ac ymchwiliant gyda eu gilydd a gyduna y taliadau yn llyfr y Dosparthwr a'r derbyniadau a gyhoeddwyd; os na cheir gwall yno, cymharer cyfrif y Dosparthwr â'r cyfrif a anfonir gyda y llyfrau oddiyma, ac os methir gweled gwall yno, ysgrifener i'r Swyddfa lle y perthyn. Eithr os cyferbyna y cyfrifon, ac etto dim digon o arian, llyfrau, a dyledion yn llaw y Dosparthwr i ateb hyny, y mae efe yn ddiffygiol, a dylai y Llywydd amddiffyn y Gynnadledd rhag goddef cam oddiwrtho, drwy ofal prydlon. Os cyfaddefa y dosparthwr fod arian mewn llaw ar y pryd, dylai eu hanfon i'r Brif Swyddfa yn ddioed, yr hyn os gwna, gwelir cydnabyddiaeth o honynt yn yr Udgorn a'r *Star* ganlynol i'r rhifyn a gynnwys y dyledion chwarterol.

Os, wedi pob ymdrech ddyladwy, y bydd gweddill o Udgorn neu *Stars* yn sefyll ar law ar ol diweddu cyfrol, doeth fyddai i'r Gynnadledd eu rhwymo erbyn y dêl gwerthiad, drwy liosogiadau elodau.

Doeth a fyddai i bob Prif Dosparthwr gadw amrywiaeth, a digon o lyfrau yr Eglwys a Thraethodau ar law, fel y gall ddiwallu pob galwad. A'r Llywydd a wèl rai o'r *Gwirfoddiaid* ffyddlon yn llafurio yn ei Gynnadledd, mewn anghen, ac a'i diwallo â thraethodau, anfoned yma gyfrif o y rhai a roddo, ac ymdrechir ei ryddhau o'r ddyled am danynt, os bydd ei Gynnadledd yn analluog i hyny.

Dosparthwyr Cangenau.—Gosoder dau Arolygwyr yn mhob cangen i edrych dros gyfrifon y Dosparthwr mewn cyssylltiad ar Prif Dosparthwr, ar y dyddiau a rag nodwyd; cyfrifer y llyfrau ar law er pan yr Arolygwyd o'r blaen, eithr na chyfrifer y rhai oedd cyn hyny, ac ystyrier hwy yn ol prisiau y Prif Ddosparthwr. Cadwant y ddanghoseg hono hyd oni weloant ddyled y Gangen i'r Prif Ddosparthwr, os cydunant, da; ac os na wnant, erfynier ar Lywydd y Gangen eu cynnorthwyo i ymchwilio am y gwall gyda y Prif Ddosparthwr ar Llywydd, yn y modd y cyfarwyddwyd hwythau uchod, i ymholi a'r Brif Swyddfa. Os y Prif Ddosparthwr ni chydnabydda dderbyniad unrhyw daliad o'r Gangen, ymholed y Llywydd ag ef, ac yn mhellach â Llywydd y Gynnadledd ôni foddlonir. Dylai fod digon o amrywiaeth ar law yn mhob Cangen er diwallu pob galwad, a gofaled pob Llywydd fod digon ar law rhwng arian a llyfrau i fantoli gofyniad y Prif Ddosparthwr ar ddiwedd pob chwarter. Ystyrir Dosparthwr pob Cangen yn atebol i'r Gangen am bob llyfrau a werthant, os rhoddant goel byddant atebol eu hunain, oddieithr bod amgylchiad neillduol yn cyfiawnhau y Llywydd i orchymyn eithriad i'r rheol hon. Gweled fod yr arian ar law yn cael eu trosglwyddo yn brydlon i'r Prif Ddosparthwr.

Cynghorwn y Llywydd i weled bod gofal teilwng dros y llyfrau ar law, perthynol i'r Gangen, ac os na ellir gwerthu yr oll, rhwymer y cyfrolau fel y galler, er lleshâd y Gangen.

---

## EFFEITHIAU TYBACO.

[Parhad o dud. 329.]

Mae trwyth tybaco, wedi ei gymhwyso yn allanol at y cylla, yn achosi llewyg, pendro, cyfogiad, a chwys oer. Gwyddir i'r

trwyth, pan eu rhwbid ar friwiau, archollion, tân iddwf a rhanau a effeithid gan glafr, beri cyfogiad, llewygon, a dirgryniadau.

Dr. Eberle, yn ei Draethodau a'r Physygwriaeth a ddywed "Wrth arfer tafliad tybaco, y mae o'r pwys mwyaf i fyned yn mlaen gyda gofal mawr. Os bydd y swm a daflir yn rhy fawr, achosir yr argoelion mwyaf brawychus, megys cyfogiad, chwys oer, ymollyngiad cyffredinol, llewyg, ac hyd y nod angau. Adwaenwn goegfeddyg, yr hwn mewn llai nag ugain mynud, a ddistrywiodd fywyd bachgen bach anwylaidd,—mab i ŵr boneddig yn Lancaster, teulu yr hwn a wasanaethwn tra yn y lle hwnw—trwy dafliad anghymmedrol o sudd tybaco.

Dywedwyd wrthym gan rai a ymwelodd ag Ynysoedd Sandwich, yr arferir tybaco mor gyffredin yno fel y dysgir plant i' fygu cyn eu bod yn gallu cerdded; ac y dygant yr arferiad mor bell fel y cwympant i lawr yn ddideimlad a marw yn fyrbwyll.

Dywed Mr. Barrow, ymdeithydd yn Africa, "Cymhwysodd Hottentod ychydig o sudd tybaco o ben byr ei bibell bren, at safn neidr pan yn saethu ei thafod allan. Yr oedd yr effaith mor gyflym ag eiddo ergyd wefraidd. Gydag ychydig symudiad dirgrynol, haner ddadnyddodd y neidr ei hun, ac ni symudodd byth mwy; a'i holl gwynau oeddynt mor grybachlyd, y teimlid yr ymlusgiad mor galed a fferllyd, fel pe wedi ei sychu yngwres poeth yr haul."

Ymddengys fod yr Indiaid, yn rhai parthau o'r America, yn adnabyddus o effeithiau gwenwinig tybaco. Yr oeddynt yn arfer trochi blaen eu saethau mewn olew a gaid o ddail tybaco, y rhai wedi eu myned i'r cnawd a achosent glafychiad, a llewygon, ac hyd y nod ddirgryniad a marwolaeth.

Gwnaeth Dr. Massey, yn mhlith ereill, y profion canlynol. Mae dau ddyferyn o sudd tybaco, wedi ei ddodi ar y tafod, yn ddigon i ddistrywio bywyd cathod a ddygwyd i fyny megys yn nghanol mŵg tybaco, mewn tri neu bedwar myned. Tri dyferyn, wedi ei rwbio ar dafod cath wedi tyfu i'w llawn faintioli, a'i lladdodd mewn tri mynud. Lladdodd un dyferyn gath, wedi haner tyfu, mewn pum mynud. Dau ddyferyn ar dafod gwiwair goch a'i dinystriodd mewn un mynud. Twll bach, a wnaed gyda nydwydd meddyg, yn wlych gan sudd tybaco, a barodd farwolaeth mewn chwe mynud. Yr wyf yn

gwybod i drwyth a wnaed o ugain neu ddeg ar hugain gronyn o dybaco, a'i yfed i mewn i'r corff dynol i'r dyben o esmwytho gwlwm gwthi, beri dinystrio bywyd lawer gwaith.

Prawfiadau creulawn a wnaed ar lygod trwy leoli cyfran fechan o sudd tybaco ar nydwydd lliain main, a'i treiddio i drwyn yr anifail; canfyddir i hyn y ddwyn marwolaeth union-gyrchol braidd.

Dyru Dr. Clay. Manchester, Lloegr, a ganlyn, "Blinid bachgen bach, wyth mlwydd ei oedran, yn ddwys a pharhaus gan *tinea capitis* neu ben berwlosg, tra gwrthnysig. Cymhwysodd ei dad sudd a wasgid o tybaco dros ei ben, a gafwyd trwy wlych dail sychion tybaco, a'u dodi rhwng dau lafn o haiarn a'u gwasgu hwynt, trwy yr hyn foddion y tynir y sudd allan. Cymhwyswyd y gwlybyr oddeutu pum myned cyn dau o'r gloch y prydnhawn; cwynodd y plentyn yn ddi oedi braidd o bensyfrdandod, a cholli golwg, fel y bu i'r tad gan wenu sylwi fod y bachgen yn teddw; daeth yn fuan wedi hyn yn glaf, cyfogodd yn fynych, ac mewn maintioli mawr; yr oedd arno hefyd awydd i waghau ei goluddion, yr hyn beth nis gallai ei gyflawni: crynai ei aelodau, troes ei wyneb yn welw, a gordöwyd ef â chwys oer: cynnorthwyodd ei fam ef i'r gwely, i'r hwn nid cynt yr aeth nag y cafodd ollyngiad anwirfodd o'i goluddion; ymddangosai ei wynebpryd yn soddedig yn awr, yr oedd ei aelodau yn ddi gyffro, oddigerth pan yn awr ac eilwaith eu tynid at ei fogail yn ddirgrynol; achwynodd o syched tost, a phoen yn ei goluddion: yr oedd ei holl gorph yn wlithog gan chwys oer, ac am haner awr wedi pump trengodd, dim ond tair awr a haner wedi cymhwysiad o'r sudd tybaco. Wedi agor y corff ni chanfyddid unrhyw newidiad cyfansoddol."

Achoswyd clafychiad llym a marwolaeth yn fynych, trwy gymhwysiad allanol tybaco at afiechyd y croen. Gallwn ddifynu o weithydd meddygol, niferoedd o brofion o'r fath hyn.

*I'w barhau.)*

---

## ARWYDDION YR AMSERAU, &c.

[Parhad o dud. 321.]

Wedi y brâs olwg rhagarweiniol yna, cawn bellach fanylu, yn y modd a ganlyn:—sef,

Y Dadguddiodd Duw y daw amseroedd adferiad pob peth.

Y bod anghyfiawnder, sydd yn y byd, yn galw am adferiad pob peth.

Ac y ceir *Arwyddion* amlwg y bwriada Duw gyflawni ei air, mewn byr amser, trwy ddwyn oddiamgylch amseroedd adferiad pob peth.

Dadguddiodd Duw y daw amseroedd adferiad pob peth, yn yr addewid o Hâd y wraig i sigo siol y sarph; yn yr addewid o greu pob peth o newydd; yn y prophwydoliaethau na ddysg dynion ryfel mwyach; y daw y blaidd i drigo gyda yr oen; y llew, yr anifail bras, a'r ych i bori ynghyd, a'u llydnod i gydorwedd; y bydd gwybodaeth o'r Arglwydd yn llenwi y ddaear, o herwydd y tywallt Ef ei Ysbryd ar bob cnawd; ac y caiff y rhai addfwyn etifeddu y ddaear. Dadguddiodd yr Arglwydd hyn hefyd, yn ngweinidogaeth Crist; yn ei farwolaeth, yn ei fynediad i bregethu i'r ysbrydion yn ngharchar; yn ei adgyfodiad, ac yn ei esgyniad i'r uchelder a'i eisteddiad ar ddeheulaw y Mawredd, yn y goruwchleoedd, gan roddi yn hyny ernes i ddyn o adgyfodiad i fywyd ac anllygredigaeth, i deyrnasu gyda Crist fil o flynyddoedd, yn unol ag addewidion y Goruchaf, y rhai a lafarodd Efe trwy enau ei holl santaidd brophwydi erioed, trwy ragfynegi am yr amseroedd i orphwys, ac yr anfono Ef Iesu Grist, yr ail waith.

Cyflawn a sanctaidd yw yr Arglwydd; a'i drugaredd, llawn cariad, amynedd, tosturi, a daioni anfeidrol, sydd yn anfeidrol gyflawn, trwy haeddiant y cyflawn a aeth i le yr anghyfiawn: ac y mae yr anghyfiawnder, y gormes, a'r gorthrwm treisiol sydd ynghalonau dynion, ac yn tori allan trwy eu hymddygiadau tuag at eu gilydd, yn galw am i'r Arglwydd cyflawn egluro ei gyflawnder, yn adferiad pob peth i'w gyflwr cyntefig.

Pa le bynag y troer ein llygaid, anghyfiawnder a welir, yn waeth ac yn erchyllach ei olygon na'r *Hydra Seithben*, yn ein colynu bob ffordd y safom neu yr elom.

Y creaduriaid afresymol ydynt lawn cynddaredd, y naill at y llall; anniddigrwydd sydd yn anurddo tegwch y lluoedd plyfog: nid oes cydfod yn mysg yr anifeiliaid; pe ond ci a chath ar yr un aelwyd, ysleifia y naill yr asgwrn a rodder i'w grafu i'r llall; y pysg a draflyncant eu gilydd, a'r bwysfilod a ysglyfaethant eu rhywogaeth yn rheibus: brwydro a lladd sydd

yn ysgogi holl rym eu cedyrn ewynau, holl egni ei blaenfeinion ewinedd, ac holl nerthoedd eu hawchlymion ddannedd, hyd nes yw y môr yn ddienyddle arswydus, yr anialwch yn llofruddle creulawn, a'r holl ddaear megys yn un gigyddfa gelaineddog, o begwn i begwn byd.

Dynion hefyd a ymgrafangant mewn anghyfiawnder. Gonestrwydd sy reddf gynhenid mewn dyn, sc amlygir hyny gan blant, pan yn chwarae a'u gilydd; gwrandawer, a cheir eu clywed yn dywedyd eu bod yn hoffi un, ac yn eiddigeddus at un arall, heb ofalu am yr ennill na'r golled yn herwydd adrodd eu meddyliau; ond, wedi tyfu i oedran gwŷr, collir y gonestrwydd hwnw i raddau, trwy ollwng y tafod i fynegi pethau yn groes i'r gydwybod, gan wasgu y gwan, y tlawd, a'r gwasaidd, gyda y dyben o wenieithio i'r cryf, y cyfoethog, a meistrolgar. Lliwiodd un lun boneddiges: a chan yr haerai hi a'i chyfeillion nad oedd y llun yn debyg iddi, gofynodd y lluniedydd i'r foneddiges ddyfod tranoeth, a'i harffed-gi gyda hi: pan ddaethant, aeth y ci a llyfodd y darlun trosto, a phawb yn rhyfeddu na allent hwy weled rhyw debygoliaeth, tra y ci bach yn gallu gweled cymmaint hyd nes yn llyfu llun ei feistres. Erbyn edrych, yr oedd y lluniedydd wedi iro y darlun gyda bloneg, a llyfu y saim yr oedd y ci! Ceir rhai meibion a merched yn ein byd, yn llawer tebycach eu hymddygiadau i gythreuliaid, nag i ddynion geirwir, teg, a mawrfrydig; er hyny, gan yr îrwyd hwynt gydag aur, enw mawr, a swydd uchel mewn gwlad neu gymdeithas neillduol, canfyddir poblach yn eu llyfu a gweniaith tafodog a gwael, fel pe byddent angylion o'r nef! Yn y modd yma, gwna anghyfiawnder i'r naill ymddangos yn warthus mewn ymddarostyngiad, ac i'r llall ymddangos yn wrthun mewn coeg ddyrchafiad, tra y call a'r synwyrol yn ffieiddio y ddau, gyda dirmyg a thosturi.

*(I'w barhau.)*

---

## PE BYDDWN YN LLAIS.

Pe byddwn yn llais,—*cysurol* lais,
Ehedwn ar edyn hoen,
I drigle galar a gwarth yr awn,
I adrodd y gwir yn deg a llawn,
At achub dyn o boen:

Ehedwn, ehedwn dros gaddug mawr,
Disgynwn fel goleu yr haul i lawr,
Ynghanol rhai sydd yn ymbruddhau,
Y dysgwn hwy oll i lawenhau.

Pe byddwn yn llais. -*galluog* lais,
Ehedwn ar gorwynt cryf,
Os gwelwn yn unlle ddyn yn sarn
I drais a rhyfel a chaled farn,
Dadwreiddiwn ddrwg yn hyf:—
Ehedwn, ehedwn fel twrf a llam
Y daran fawr froch, a'i mellten yn fflam,
Rhwystrwn y llid, attaliwn y lladd,
A chariad a ddysgwn i bob gradd.

Pe byddwn yn llais,—*rhesymol* lais,
Ehedwn dros fôr a thir,
I holl gapeli y byd cawn droi,
Gwag dyb ac erlid creill wnai ffoi,
Ceid chwarae teg i'r gwir:
Ehedwn, ehedwn fel angel Duw.
Dangoswn y ffordd i santeiddiol fyw,
Gwybodaeth lawn a thystiolaeth bur,
A roddwn yn lle gwael ofn a chur.

Pe byddwn yn llais,—*anfarwol* lais,
Symudwn yr iau sy drom,
Os gwaeddid am ryddid teulu 'r ffydd,
Heb ddyfod at Grist i fod yn rhydd,
Gwnawn sibrwd maint y siom:—
Ehedwn, chedwn a'r edyn chwa.
Ceryddwn y drwg, canmolwn y da,
Llesoli pawb a fyddai fy nghais
Pe byddwn yn llais,— anfarwol lais. R. Ddu.

---

Derbyniadau am Lyfrau o Medi. 1 hyd 6.—Brycheiniog, £1 0s 0c; Sir Ddinbych, £1. *Cangenau Dwyr. Morganwg*—Georgetown, 5s 11c; Cefn, 14s 10c; Cwmbach, 7s.

☞ Cymmanfa Brycheiniog a gynnelir ar yr 2il o Orphenaf, a Chymmanfa Mynwy ar y 9fed yn lle ar yr 2il.

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Annerchiad, &c | 341 |
| Golygyddiaeth—Hanesion Cartrefol—Prif Ddosbarthwyr Cynnadledd—Dosparthwyr Cangenau | 348 |
| Effeithiau Tybaco | 351 |
| Arwyddion yr Amserau, &c | 353 |
| Pe byddwn yn Llais | 355 |


---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

Rhif. 23.] MEHEFIN 17, 1854. [Cyf. VII.


## ANNERCHIAD

AT OFFEIRIAID, PARCHEDIGION, PREGETHWYR, A HOLL ATHRAWON CREFYDD YN NGHYMRU.

[Parhad o dud. 348.]

Nid rhesymol a fyddai troi clust fyddar at y dystiolaeth hon, gan ddweyd mai haerllugrwydd a rhyfyg yw; rhyfygu a wnelem pe na thystiolaethem, yn sobr, yn eglur, ac yn bendant am yr hyn a *wyddom*, yr hyn a fwynhawn; rhyfyg a fyddai i ni beidio tystiolaethu yr hyn a orchymyna Duw i ni wneyd, a rhyfygu a wnelem pe yr elem allan yn enw yr Arglwydd, i ddysgu pobl i grefydda cyn i ni *wybod* ei fod Ef wedi ein danfon, yr hyn, *wedi ei wybod* a fyddai yn rhyfyg i beidio a'i ddweyd. Felly, y mae y rhyfyg tybiedig, yn yr iawn ystyriaeth o hono, yn rheswm annogaethol i'n credu, o herwydd mai gwybodaetho'r ffaith ag y tystiwn am dani a ddyry i ni y fath anymddibyniaeth,—y sicrwydd a feddwn o'n dwyfol ddanfoniad a'n cymhella i addaw y bendithion hyn, a'r mwynhâd o honynt a wnelai i chwithau dystiolaethu yn llawn mor bendant ag y gwnawn ninnau: wrth yr ammheuwr, os ceir un, dywedwn, "*Tyred, a gwel.*"

Nid rhesymol yw diystyru y dystiolaeth hon, gan ddweyd mai *cael* ein twyllo i gredu y pethau hyn yr ydym; o herwydd, nid ar *grediniaeth* y seilir ein tystiolaeth, ond ar *wybodaeth*, yr hyn a wnaed i ni wybod drwy ffeithiau hunan-eglur, nerthol, a

sylweddol, ac nid trwy fympwy na phenboethni. Nid oddiwrth ddynion na'r diafol y deilliasant, o herwydd y mae y naill a'r llall yn elyniaethus iddynt, ac yn gwadu yr anghen a'r defnyddioldeb o honynt. Mai bendithion o'r nef ydynt a brofir drwy eu bod yn deilliaw ar ol, ac nid cyn, nac heb, ond drwy ein hufydd-dod i orchymynion y nef; ni fwynhasom ni erioed mo honynt, na dim yn debyg, hyd nes *wedi* i ni ufyddhau i orchymynion y gyfyndrefn ag y galwn eich sylw ati. Mae y ffaith y collir y bendithion hyn pan y troseddir ei gorchymynion hi, hefyd yn profi mai mewn cyssylltiad â hi y mwynheir hwynt. Mae natur a dyben y bendithion yn profi eu dwyfoldeb, ac o ganlyniad, *os* ein twyllo a gawn, y nefoedd a'n twylla, a goreu po fwyaf o'r fath dwyll, hyd nes ein twyllir i fwynhau y cyflawnder o'i bendithion a'i gogoniant. Etto, mae y bendithion hyn yn deilliaw i ni drwy ufydd-dod i'r grefydd a ddarlunir yn yr ysgrythyrau, ac y maent mor debyg i'r bendithion a fwynhauai y Saint cyntefig yn ol yr hanes ysgrythyrol, fel nad allwn fod yn cael ein twyllo heb eu bod hwythau wedi cael eu twyllo, ac yn ein twyllo ninnau i'r unrhyw dwyll. Hefyd, y maent hwy yn proffesu eu bod wedi rhagweled yr anfonid cenadwri fel yr hon a draethwn ni.—wedi gweled eu hufyddion yn mwynhau y bendithion a fwynheir genym ni, ac wedi eu gweled, drwy yr hyn a broffesai fod yn Ysbryd y Brophwydoliaeth, yn cael eu diystyru, eu camddarlunio, a'u cenadwri yn cael ei hamharchu am dwyll, a hwythau yn cael eu difenwi â'r enwau drwg a elwir arnom ni, a hyny gan y rhai a broffesant fwyaf o barch i grefydd, a'r rhai a ddylent fod yn flaenaf a'r mwyaf awyddus i dderbyn y genadwri a anfonid; gwelsant hyn oll, a llawer mwy manwl y gwelsant, drwy yr Ysbryd a feddent, yr hyn bethau ag y tystiwn ni am eu cyflawniad yn awr; ac felly, rhaid mai â'r cyffelyb dwyll ein twyllwyd ni a hwythau, a'n bod mewn dosparth a ystyrir yn bobl eirwir a didwyll: diolchwn am y fath dwyllwyr yn gwmniaeth, a thwylledd i'n cysuro, ac hyderwn y cawn fwynhâd tragywyddol o'r cyflawnder o'r fath dwylledd gyda hwynt, lle na bydd neb yn tynnu yn groes. Gan mai credu y gau yn wir yw twyll, nid allwn ni fod yn cael ein twyllo, o herwydd nid *credu* yr hyn a ddywedwn yr ydym, ond ei *wybod*. ei *weled*, ei *glywed*, a'i *deimlo* drwy gyfrwng ein holl synwyrau, nes arddelwi ŷ ffaith ar ein henaid tu hwnt i'r

posibIrwydd o gamsyniad; ac felly, yn lle cael ein twyllo, os nad gwir ein *tystiolaeth*, rhaid mai twyllwyr ydym,—twyllwyr o'r fath waethaf.

Etto, *os* twyllwyr ydym, y twyllwyr ffolaf o bob twyllwyr ydym, o herwydd y gosodwn ein gwrandawwyr ar y ffordd i'n profi felly, rhoddwn y glorian yn eu dwylaw i'n pwyso, ac yr ydym ynddi o hyd, ac er's blynyddau, ac os cafwyd ni yn brin o bwysau y gwirionedd, yr ydym ni yn anwybodus o hyny hyd yn hyn. Nid allwn fod yn dwyllwyr heb fod yn gwybod hyny ein hunain; a phe byddem yn gwybod hyny, a roddem ni addewidion i'n hufyddion na ddichon arall ond Duw eu cyflawni; a'r rhai hyny yn gyfryw na ellir bod yn amddifad o honynt heb wybod hyny, ac oni rag-welsem y profasai yr amddifadrwydd o honynt mai gau oedd yr addewid, ac o ganlyniad, mai twyllwr a'u rhoddes? Onid canlyniad anocheladwy yw hwn, ag oni orfoda ein rheswm ninnau i ragweled mai felly y byddai; ac a ni yn rhag-weled hyny a addawsem ni y caffai ein hufyddion y cyfryw fendithion? Ni chredwn y cafwyd enghraifft o'r fath ffolineb mewn un twyllwr erioed oddieithr ei fod yn wallgof amlwg; ac felly, os twyllwyr ydym, yr ydym yn dwyllwyr gwyrthiol, o herwydd ein bod yn anghydmarol yn oesau y byd. Os twyllwyr ydym ag sydd wedi bod uwchben torfeydd lliosog o bobl ddoethion "yr oes oleu hon," o gŵr bwy gilydd i'r wlad, yn addaw iddynt ddoniau yr Ysbryd Glân, a miloedd yn ufyddhau ac yn aros gyda ni wedi hyny, yn colli eu henwau da, eu bywiolaethau, weithiau, yn dyoddef pob math o ŵg, gwawd, dirmyg a difenwad, pan y maent wedi bod, y naill neu y llall, yn dal pob swyddau, yn troi yn mhob cylchoedd, yn mhob crefydd arall ag sydd yn y wlad, ac etto, yn parhau i ddyoddef yr oll, er mwyn twyll gwybodus iddynt, tra y mae eich diwydrwydd chwi yn eich ymgeisiadau i'w troi yn ol, yn dangos mai er eich gwaethaf yr arosant, a ninnau yn parhau o hyd i'w herrio, un ac oll, i egluro y twyll i ni, ac yn methu cael ond ffeithiau i brofi ynddynt, eu bod yn cael eu boddloni, mai gwirionedd a addawsom, o herwydd y fod Duw wedi cyflawni ein haddewid drwy gyfrwyno iddynt hwythau yr hyn a addawsom. O, na, nid tebyg i iaith twyllwr yw yr hyn a ddywedwn, tebycach i dwyll a fuasai myned oddiamgylch i berswadio dynion, *nad* yw y bendithion hyn i'w cael, ac "*nad* oes eu heisieu;" tebycach a fuasem o

guddio twyll wrth ddweyd *nad oes* tystiolaeth o ddwyfol gymmeradwyaeth, *na sicrwydd* o wir grefydd i'w chael, mai ofer chwilio am dani; hawddach y gallasid twyllo drwy addysgu egwyddorion mwy poblogaidd a pheidio a rhoddi i'r bobl addewid o brawf hyd nes y byddont yn afon angeu; canys, ni byddai o les i ni roddi yr addewid, oddieithr iddynt gael y cyflawniad o honi, ond yn unig lles iddynt hwy ddeall y twyll, os twyll yw. Heblaw hyny, dibyna ar y rhai a haerant mai twyllwyr ydym, i brofi, oddiwrth ein gweithredoedd, y fod ein cyd-wybodau wedi eu serio i'r eithafion ag a fyddai yn ofynol er haeru y fath afresymoldeb, ac nad oes ynom ofn Duw na pharch i ddyn, na gofal am ein heneidiau ein hunain, yr hyn sydd orchwyl mor anmhosibl iddynt wneyd ag yw gwrthbrofi dwyfoldeb ein crefydd.

Etto, os twyllwyr ydym, rhaid fod genym rhyw ddybenion gau y rhai a gelwn o tan y ffŵg;—Beth ydynt? Pwy a'u hamlyga? A'i elwa? Ni feiddir meddwl ein bod am elwa tra y pregethwn yn rhâd heb ofyn dim, ond a ewyllysir roi, yr hyn ni fyddai ond rhy ychydig i'w ceisio oddiwrth rai a dwyllwyd genym! Dywedir mai tlodion y wlad yn unig a'n credant, nid allant hwy gyfoethogi mo honom lawer; ac os eu twyllo a gânt, paham y tystia nid yn unig ein pregethwyr. ond yr aelodau, gwryw a benyw, hen ac ieuanc, cyfoethog a thlawd yr un peth, a phaham y tystia y rhai mwyaf duwiolfrydig yn gadarnach na'r rhai mwy ffaeledig, na phaham y cyfranant eu harian i dystio eu cydwybodolrwydd yn y peth?

Nid poblogrwydd a chlôd a ddichon fod mewn golwg, onide argyhoeddasid ni er's blynyddau, drwy ŵg a gwawd y byd, ein bod wedi camsynied y ffordd i boblogrwydd yn hollol, ac ni fuasem mor ffol a dilyn yn mlaen, ac ni chlybuwyd am un erioed a ennillodd glod y byd wrth ddweyd a ddywedwn, ac wrth wneyd a wnawn, a rhyfedd os ystyrir ni oll yn rhy ffol i ragweled mai anmhoblogaidd a fuasem ninnau wrth bregethu yr hyn a ystyrid yn anmhoblogaidd yn mhob oes a gwlad! O, na, nid haeru twyll, ac nid twyllwyr ydym, ond y wybodaeth a feddwn o ddwyfoldeb ein crefydd a achosa i ni, ie, *a'n gorfoda* i dystiolaethu, *anghenrhaid* a osodwyd arnom, *a gwae ni oni wnawn hyn;* cariad atoch, ac awydd i chwi a'ch gwrandawwyr, drwyddoch chwi, gael y bendithion dwyfol a gynnygir i chwi, yw

ein dyben yn eich cymhell i'r ymchwiliad. Gwyddoch na buasem mor afresymol â dweyd hyn oddieithr ei fod yn wir, o herwydd os gau, y buasai yn anmhosibl ei guddio: ac felly, y mae y rhesymoldeb o'n tystiolaeth yn teilyngu ymddiried,—ei gwrthodiad a ddyry gondemniad.

Afresymol yw gofyn i *ni brofi* dwyfoldeb ein cenadwri, o herwydd nid dynol yw, ni allodd dynoliaeth erioed brofi dwyfoldeb; ni allodd neb ond Duw *brofi* dwyfoldeb unrhyw genadwri a anfonodd i'r byd; ac afresymol yw gofyn prawf ganddo Ef, ond yn y ffordd a drefnodd. Ni allwn ni, ni allodd un gwas i Dduw erioed *brofi* amgen nag ymresymu a thystiolaethu yr hyn a wyddai; hyn a wnaethom, ac a wnawn, a chyfarwyddwn chwithau i'r ffordd anffaeledig i gael gan Dduw *brofi* i chwithau mai gwir ein tystiolaeth, drwy roddi i chwithau yr un dystiolaeth. Afreidiol i ni ddyfynu ysgrythyrau ag sydd mor wybodus i chwi, er profi pa fodd i gael y dystiolaeth hon, o herwydd y mae y rhai hyny wedi cael eu gwyrdroi gymmaint drwy esponiadau a deongliadau priod, fel na therfynai dadleu, mwy nag y mae y ffordd yna wedi dwyn y croesbleidiau a'i dilynant i undeb y ffydd: gan na ddaethant, ofer dysgwyl y deuant yn y ffordd yna, etto, gwyddom am ffordd sicrach o lawer:—ar eirwiredd ein tystiolaeth, rhaid ein bod ni yn *gwybod* yn anymddibynol ar bob cyfarwyddyd a gawsom o'r ysgrythyrau. ac yn anymddibynol ar bob dyn byw, pa fodd, neu wrth wneyd pa bethau y cawsom ni hyn ein hunain, ac o ganlyniad nid gwiw dadleu ar hyn ychwaith. Gan y dyry Duw dystiolaeth i'r sawl a wnêl fel y dywedwn ni, ac na roddodd Efe yr un dystiolaeth i neb a ddysgant yn groes i ni, *rhesymol* yw credu yr hyn a ddywedwn, ac o herwydd hefyd na ddywedwn ond yr hyn a *wyddom*. Gwyddom fod hyn yn wahanol i'r ffyrdd a ddysgir gan ereill, eithr gwyddom hefyd mai dyma yr unig ffordd y dysgai holl genhadon Duw, ac os beïr ni am hyn, beïr ein Harglwydd hefyd drwy hyny am wneyd yr un fath: canys, Efe a roes y rheol hon i lawr:—"Os ewyllysia neb *wneuthur* ei ewyllys ef, efe a gaiff *wybod* am y ddysgeidiaeth, pa un ai o Dduw y mae hi, ai myfi o honof fy hun sydd yn llefaru."—Ioan vii. 17. Pa iaith mwy didwyll, mwy dwyfol brofedig na hon, a allasai, hyd y nod yr Iesu geirwir lefaru? Anmhosibl i dwyllwr, nac i un dyn o hono ei hun ddweyd y fath beth; ac etto,

twyllwr yw pob *pregethwr* na all ddweyd yr un peth, a rhoddi y cyffelyb addewid o'r cyffelyb *wybodaeth*. Yr hwn nid yw yn gwybod ddarfod i Dduw ei ddanfon, ni ryfyga ddweyd hyn; eithr yr hwn â wŷr ei ddanfoniad, ni ryfyga *beidio* a dweyd hyn er boddio byd, na chael ei olud; o herwydd i ddweyd hyn, ac i ddangos i'r byd pa fodd i gael y wybodaeth hon ei danfonwyd; a gwelir yma brawf o'r egwyddor a ddysgwyd yn flaenorol, sef, y fod *gwneuthur* yr hyn a orchymynir yn anhebgorol er cael y wybodaeth; ac nid oes addewid y rhoddai Duw wybodaeth yn mlaen, neu cyn *gwneuthur*, ac nid gwneuthur ein hewyllys ein hunain, ond Ei ewyllys Ef. A dyma yw yr hyn a ewyllysia i chwi wneuthur, a phawb yn mhob man, y galwir arnynt:—Credu yn nwyfol ddanfoniad, croeshoeliad ac adgyfodiad ei Fab Ef, Iesu Grist,—edifarhau am eich holl wrthryfel yn ei erbyn, gyda phenderfyniad i'w wasanaethu Ef o hyn allan,—cymmeryd eich bedyddio gan ei genhadon Ef mewn dwfr er maddeuant pechodau, ac wedi hyny, drwy arddodiad dwylaw Henuriaid Ei Eglwys, *chwi* a dderbyniwch *ddawn yr Ysbryd Glân!* Yn awr dywedwyd,—dyma ffordd a drefnodd Duw, anrhydedda Efe y ffordd hon drwy gyflwyno yr Ysbryd Glân o'r uchelder yn ei wahanol ddoniau, megys yr addawodd Iesu Grist, pan ar y ddaear. Nid gwiw gwrthod y ffordd hon heb ei phrofi, a hôni cred yn yr ysgrythyrau wed'yn, o herwydd y mwynhâd o'r Ysbryd hwn a brofai y ffaith, fel o'r ochr arall, yr amddifadrwydd o hono a brawf *nad* Eglwys Dduw yw y fan lle *ni* cheir Ef.

Foneddigion,—dyma dystiolaeth gywir i chwi, er eich mwyn eich hunain, er mwyn y rhai a wrandawant arnoch, ac er mwyn gogoniant y Duw sydd yn galw arnoch drwyddom ni, ufyddhewch, profwch a mwynhewch grefydd a grym ynddi,—crefydd a brawf eich mabwysiadu drwyddi yn blant i Dduw, a'r hon a leinw eich calonau a dengmil mwy o lawenydd, goleuni, a dedwyddwch nag a feddyliasoch erioed ei gael ar y ddaear, a'r hon a'ch cyfoethoga ag anchwiliadwy olud y nef yn dragywyddol. Gadawn y dystiolaeth sobr a'r addewid anmhrisiadwy yna gyda chwi, gwnewch y defnydd a fynoch o honi, delir chwi yn gyfrifol am y canlyniad, nid oes a esgusoda y gwrthodiad o honi, o flaen y frawdle lle y rhaid i ni gyfarfod wyneb yn wyneb, a llygad yn llygad.—*(I'w barhau.)*

## GWRTHWYNEBRWYDD INDIAIDD I'R CENHADON CRISTIONOGOL.

Eglurir dwfn ysbrydoliad yr Indiaid mewn atebiad, a roddodd y blaenor nodedig a elwir *Red Jacket* i ofyniad o eiddo yr Anrh. J. C. Spencer, diweddar Ysgrifenydd y Llynges. Cynnygiwyd *Red Jacket* yn dyst mewn prawf pwysig ar y cyhuddiad o lofruddiaeth. Eithr sisialwyd ynghlust yr Ysgrifenydd Anrhydeddus fod *Red Jacket* yn bagan, ac o ganlyniad yn anffyddiwr, na chredai yn modolaeth a llywodraeth Duw. Gofynai yr Anrh. Ysgrifenydd, a ydych chwi yn credu yn modolaeth Duw? Ac atebodd *Red Jacket* yn ebrwydd, gyda golwg sarug; "Yn fwy gwirioneddol felly nag un a *dll* ofyn i mi y fath holiad." Athroniaeth ddofn y Pagan, yr hwn a wyddai trwy amgyffrediad uniongyrchol y rhaid i bob dyn gredu yn modolaeth Duw a dywynodd yn fuddugoliaethus tros anwybodaeth yr Anrh. Ysgrifenydd.

Tra yr ymdrechai y siacedi duon neu y Cenhadon blanu eu hathrawiaethau yn mysg y genedl Senecaidd, yr oedd *Red Jacket* mor benderfynol i wrthwynebu eu dyfodiad ag a ydoedd o wrol yn ymladdfeydd gwaedlyd rhyfel. Gellir ystyried ei iaith wrth y llywodraethwr Clinton, o New York, mewn perthynas iddynt, oddiwrth un neu ddau ddyfyniad.

"Frawd, gwrandaw ar yr hyn a ddywedwn. Nid yw y dynion hyn yn gwneyd i ni un daioni. Y maent yn twyllo pawb. Y maent yn gwadu yr Ysbryd mawr, ar yr hwn, fel ein tadau o'n blaen, yr edrychasom ni fel ein Creawdwr. Terfysgant ni yn ein haddoliad. Dywedant wrth ein plant y rhaid iddynt beidio a chredu fel ein tadau a'n mamau, a dywedant wrthym lawer o bethau nad ydym yn eu deall, ac nas gallwn eu credu. Dywedant y rhaid i ni fod fel pobl wynion,—ond y maent hwy yn ddioglyd, ac ni weithiant, nid ydynt chwaith yn dysgu ein dynion ieuainc i wneyd felly. Mae arferion ein menywod yn waeth nag a oeddynt cyn i'r dynion hyn ddyfod i'n mysg; ac y mae ein gwyr ieuainc yn yfed mwy o *whisky*, yr ydym yn ewyllysgar i gael ein dysgu i ddarllen, ac i ysgrifenu, ac i weithio, ond nid gan ddynion a wnaethant i ni gymmaint niwed."

Ar amgylchiad arall traddodwyd ei wrthateb i'r gofyniad, pa

ham y gwrthwynebai ef y cenhadon, gyda y geiriau callweirgnöawl a ganlyn :—

"O herwydd nad ydynt yn gwneyd i ni un daioni. Os nad ydynt yn ddefnyddiol i'r bobl wynion, pa ham eu gỳrant i blith yr Indiaid? Os ydynt yn ddefnyddiol i'r bobl wynion, ac yn gwneyd daioni iddynt, pa ham na chadwant hwy gartref? Sicr yw eu bod yn ddigon drwg i fod eisiau llafur pob un a allo eu gwneyd yn well. Mae y dynion hyn yn gwybod nad ydym yn deall eu crefydd? Nis gallwn ddarllen eu llyfr, dywedant wrthym wahanol chwedlau am yr hyn a gynnwys, a chredwn y gwnant i'r llyfr siarad i gyfateb eu hunain. Pe na buasai genym nag arian, na thir, na gwlad i gael ein twyllo o honynt, ni byddai i'r siacedi duon hyn drafferthu eu hunain am ein lles ar ol hyn. Ni bydd i'r Ysbryd Mawr ein cospi am yr hyn nad ydym yn ei wybod. Gwna efe gyfiawnder i'w blant coch. Mae y siacedi duon hyn yn siarad wrth yr Ysbryd Mawr, ac yn gofyn goleuni, fel y gwelom ni megys hwythau, tra y maent yn ddeillion eu hunain, ac yn ffraeo ynghylch y goleuni sydd yn eu harwain. Nid ydym yn deall y pethau hyn, ac y mae y goleuni a roddant i ni yn gwneyd y llwybr uniawn ac amlwg a dramwyodd ein tadau yn dywyll ac yn ddychrynllyd. Dywed y siacedi duon wrthym am i ni weithio a chodi ŷd; ond ni wnant ddim eu hunain, a newynent i farwolaeth oni byddai i rhywun eu bwydo hwynt. Yr oll a wnant ydyw gweddio ar yr Ysbryd Mawr; ond ni wna hyny i ŷd neu gloron dyfu; os gwna, pa ham y gofynant gynnorthwy genym ni a chan y bobl wynion? Ni wyddai y dynion coch ddim am aflonyddwch hyd nes y daeth oddiwrth y bobl wynion; mor gynted ac y croesasant hwy y dyfroedd mawrion yr oedd arnynt eisiau ein gwlad; ac yn ad-daliad, buont bob amser yn barod i'n dysgu i ffraeo ynghylch eu crefydd. Ni all *Red Jacket* byth fod yn gyfaill i'r fath ddynion."

Gellir dysgu am ysbryd defosionol llawer o'r llwythau, a elwir gyda gwawdweniaith yn Baganiaid, oddiwrth ei leferydd ar amgylchiad arall.

"Am grefydd, nyni a ddylem i gyd ei chael. Dylem fawrhau ac addoli ein Creawdwr am ei ffafr arbenig yn ein gosod tros ei holl weithredoedd. Os na allwn addoli, gyda yr un ffraethder ymadrodd, ac yn yr un iaith hyawdl a chwi, y mae

genym ninnau ein dull o addoli, yr hyn a wnawn gyda chalon ddidwyll,—yna, a allwch chwi ddywedyd am ein gweddiau a'n diolchgarwch ni, yn tarddu oddiar galonau diolchgar o feddyliau didwyll, eu bod yn llai derbyniol gan Dduw Mawr y nefoedd a'r ddaear, er iddynt gael eu dangos naill ai trwy lefaru, trwy ddawnsio, neu trwy wledda, na'r eiddoch chwi, a draethir yn eich modd a'ch dullwedd eich hunain."

"Pwy yw yr hwn sydd yn achosi i'r afon hon i darddu yn y mynyddoedd uchel, ac i arllwys ei hun i'r môr? Pwy yw yr hwn sydd yn achosi yr ysgythrwyntoedd i chwythu y gauaf, ac yn eu tawelu drachefn yr hâf? Pwy yw yr hwn sydd yn codi cysgod y coedwigoedd uchelwych hyn i fyny, ac yn eu difrodi hwynt gyda mellt cyflym wrth ei hyfrydwch? Yr un Bôd a roddodd i chwi wlad ar yr ochr arall i'r dyfroedd a roddodd i ninnau yr eiddom: a thrwy y teitl hwn ni a'i hamddiffynwn." Ebe y rhyfelwr, gan daflu ei fwyall ymladd ar y ddaear, a chodi rhyfelsain ei genedl. *Cyf.* ROBYN DDU, ERYRI.

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, MEHEFIN 17, 1854.

MORMONIAETH.—Mae y gair bach diystyredig hwn wedi myned yn air mawr a phoblogaidd iawn drwy y byd yn awr, ac yn ol cyfartalwch cynnydd presennol ei boblogrwydd, ni bydd yn hir heb fod y gair mwyaf yn y byd, debygid; bu ei gylch oddiamgylch pwlpudau y byd; a'r gair a floeddid uwchaf, gyda y mwyaf o rincian dannedd a churo traed a dyrnau; o bob gair, oddieithr un, sef enw ei sefydlwr, nid oes un cryfach ei ddylanwad nâ'r gair "*Mormoniaeth.*" Gwelir mewn man arall o'r rhifyn hwn, ei bod hi yn ymddangos yn well yn y Senedd, nag y gallasid dysgwyl oddiwrth y camddarluniadau cyffredinol a roddir o honi; eithr nid ydynt wedi cael allan yr oll a gynnwys y gair etto o lawer. Doethach y gwnaeth y boneddigion hyn drwy ymofyn yn llygad y ffynnon, yn lle y ffordd a gymmer y

*Peirch* a'r *Golygyddion*, sef cyhoeddi ystoriau gelynion, ac nid ofnwn brophwydo y byddai Mormoniaeth mor ganmoladwy yn ngolwg holl resymol garwyr y gwir, pe'd arholent hi o flaen brawdlys lle y caffai ei charedigion ei hamddiffyn yn lle ei dienyddwyr i'w llofruddio, ag y mae felly yn y Senedd. Eithr gydag amynedd gweithia ei hun yn amlwg, canys y mae bywyd ynddi na ellir ei ladd, na'i guddio.

Mawr y difyrwch a gaiff teulu "Jonathan" ddoeth yr ochr draw i'r pysgodlyn, yn y senedd Americanaidd, yn chwerthin ac yn gwylltio, yn wban ac yn cynllunio pa beth yn y byd a wnant ag Amlwreigiaeth y Mormoniaid yn Utah! Mawr y dadleu y buont, ai ei chrogi, ei halltudio, ynte ei newynu a wnaent! Coffant ni am ddammeg y ci bach a'r ddraenog, felly hwythau wedi snapio at y ddraenog Formonaidd nes gwaedu eu cegau, a droesant ymaith o'r Senedd heb benderfynu beth i wneyd. Dymunai rhai anrhegu y sawl a beidiai gymmeryd mwy nag un wraig â 160 o erwau o dir yn Utah, yr hyn a fyddai yn werth tua £41 13s 4c. Cofus am eu brodyr gynt, am "ddeg ar hugain arian," yn prynu ei Feistr gan Judas, eithr nid er mwyn arian na thir na dim ond mewn ufydd dod i Dduw y cymmeradwya y Mormoniaid yr egwyddor, ac nid oes digon o arian na thir yn y byd er eu rhwystro hwy i ufyddhau i Dduw. Efallai mai £41 13s 4c yr un yr ystyria y deddf-wneuthurwyr hyn, werth eu gwragedd eu hunain, gellid meddwl hyny wrth eu gwaith yn ceisio gan y Mormoniaid werthu eu gwragedd hwy am y swm hwn. Rhyfedd y fath ysfa sydd yn eu gewinedd yn erbyn "Mormoniaeth" o hyd, gallesid meddwl y dylent gael llonydd bellach wedi ymneillduol i eithafion y byd braidd er mwyn heddwch; mor groes i Abraham "tad y ffyddloniaid" yw y Seneddwyr Americanaidd; lleiaf o wragedd mwyaf o dir ebe hwynt, tra mwy-fwy o dir yn gyferbyniol i liosogrwydd gwragedd oedd trefn Duw gynt; ac, a wyddys a ddadleua y Seneddwyr hyawdl hyn yn erbyn Abraham a'r holl lu o hen amlwreigwyr enwog a feddiannasant y wlad gynt, pan y dychwelant i'w hetifeddu hi etto! Pa un bynag am hyny, "y rhai sydd o ffydd Abraham, ydynt blant i Abraham, ac etifeddion yn ol yr addewid," sef, addewid i etifeddu y wlad, a'u gwragedd a'u plant ynddi yn dragywydd.

NEWYDDION CARTREFOL.—*Sir Ddinbych.*—Cynnaliwyd Cym-

manfa y Gynnadledd hon yn Newmarket, ar yr 22ain o Fai. Y Cynnrychioliad fel y canlyn:—5 o Gangenau, 17 o Henuriaid, 5 o Offeiriaid, 4 o Athrawon, 2 o Ddiaconiaid, 9 wedi eu bedyddio, a'r Cyfanswm yn 123. Cafwyd pregethau buddiol, a gwrandawwyr lliosog ac astud.

## EFFEITHIAU TYBACO.

[Parhad o dud. 351.]

Modd bynag, mae cymhwysiad mewnol tybaco yn fwy peryglus na'r allanol. Gwybyddir i ychydig o'i daflu i mewn beri marwolaeth yn aml. Gresynus yw canfod yngweithydd meddygol ar wenwyn y niferoedd profion sydd o hyn.

Dr. Grahl, Hamburgh, rai blwyddi yn ol, a gyhoeddodd achos y bu i goegfeddyges weinyddu tafliad i mewn i foneddiges, oddeutu wns o tybaco wedi ei ferwi mewn dwfr oddeutu pymtheg mynud. Y goddefydd a grafangwyd yn mhen y dau fynud gan gyfogiad, dirgryniadau ffyrnigwyllt, anadliad caethiwus, a bu farw mewn tri chwarter awr. Nid ystyrir dwy ddram, pedwerydd ran o wns, neu hyd y nod dram a hanner, mewn ffordd o dafliad i mewn, mewn un modd yn ddogn diogel. Gwyddir i un dram, mewn arllwysiad ladd y goddefydd. Mwy nag un o'r fath achosion a geir yn argraffedig. Crybwyllir achos o'r fath hyn gan y Dr. Christison, a gymmerodd le yn ddiweddar yn Guy's Hospital, Llundain, bu farw y goddefydd mewn pymtheg mynud ar hugain.

Dr. Paris, Ysgrifenydd meddygol tra enwog, a'n hysbysa iddo ef weled prawf galarus o effeithiau tybaco, lle y gwanhawyd y goddefydd gan ddyoddefiadau blaenorol. Meddyg, gwedi amryw gynnygion i leihau llindagol doriad llengig, a daflodd i mewn sudd tybaco, ac yn fuan gwedi, a ddanfonodd y goddefydd mewn cerbyd i Yspytty Westminster, i'r dyben o fyned dan y gweithrediad aaghenrheidiol, ond ni ddaeth y dyn drnan ond ychydig fynudau cyn trengu.

Ac ychwanega y Dr. Paris, nas gellir taflu i mewn unrhyw faintioli mwy na hanner dram o sudd tybaco, heb fawr berygl. Sylwn hefyd, "Cyfarwyddwyd arfer chwistrell feddyginiaeth i rai mewn gwewyr caled, ond bu i'r argoelion arswydus a ddilynodd yn yr unig achos ei harferwyd beri rhwystro ail gynnyg o'r prawf."

Côf ysgrifiodd Syr Astley Cooper, a Syr Charles Bell achosion tebyg i'r blaenorol. Dywed yr olaf, wrth adrodd am arferu tybaco mewn achos o doriad llengig tost. "Daliodd nerth y goddefydd i fyny hyd nes chwistrellu sudd tybaco, iddo ar ol hyny efe a syrthiodd yn isel, a bu farw yn ddisymmwth. Gellid nodi niferoedd o enghraifftiau cyffelyb allan o weithydd awdurdodau meddygol.

Ymddengys fod tybaco yn wenwyn cyfartal farwol pan ei trosglwyddir i'r cylla. Lladdwyd yr enwog fardd Ffrencig SANTEUIL ganddo yn ddamweiniol pan wrth fwrdd y Tywysog Condë. Rhoddwyd cyfran o drewlwch Yspaenaidd, gan un o'i gymdeithion, i'w wydriad gwin, mewn cellwair—yr oedd hyn wedi iddynt yfed o'r gostrel yn lled ehelaeth. Yn fuan wedi ei yfed, ymosodwyd ar y prydydd gan gyfogiad a ehlefyd, a bu farw yn mhen y deuddydd.

Gwyddir i fwg tybaco, fel ei cymmerir i'r cyfansoddiad wrth fygu, beri marwolaeth. Yn ddiweddar, yn Salem, Massachusetts, achoswyd marwolaeth bachgen a enwid James Barry, deuddeg mlwydd ei oedran, trwy fygu gwefuslys yn ormodol. Hysbysir ni gan Gruelin, awdwr meddygol Allmaenaidd, am ddau a laddwyd trwy fygu, un person wedi mygu dwy bibell ar bymtheg, a'r llall bedair ar bymtheg ar un eisteddiad.

Dywed Dr. Clay, Lloegr, fod oddeutu hanner y marwolaethau, a gymmerant le rhwng yr oedran, deunaw a phump ar hugain, yn cael eu hachosi gan yr arferiad o fygu a chnoi tybaco. I un a deithiodd y wlad hon, a bod yn dyst o'r lluoedd braidd anghredadwy a fygant y tybaco, agos yn mhob man, ni all y sicrhâd hyn ymddangos yn anhygoel.

Fel y caffom feddyliddrych eglurach am yr amryw effeithiau a ddwg tybaco ar y cyfansoddiad dynol, anghenrheidiol i'w gwneyd rhai nodiadau o natur meddyg-ddysg am ansawdd clefydau. *(I'w barhau.)*

---

## ARWYDDION YR AMSERAU, &c.

GAN ROBYN DDU, ERYRI.

[Parhad o dud. 353.]

Os edrycher ar fasgnaeh, canfyddir y naill yn twyllo y llall mewn cyfanwerthiad; ac wrth fânwerthu, mynych y ceir gwyneb

gan hired a chrwth, a mesur gan fyred â dwy fodfedd dan lathen; ac aml y ceir ochenaid mor fawr a cheudod crochan, a phwysau mor fach ag yw deg ceiniog yn fyr o fod yn swllt. Y gwir am lawer a ddywedodd *Twm o'r Nant*, eu bod "a smic yn eu bysedd, i wneyd i bethau bwyso"

Hyll yw adroddiad pob cyfeisteddfod seneddol, am y llwgr wobrwyon a ddeufyn i'r senedd, aelodau nad aethent yno byth yn herwydd galluoedd eu synwyr; a dengys aml i brawf ger bron llys barn, fod yno dderbyn wyneb, y ceir trymach cosp am niweidio milgi gwr cyfoethog, nag am faeddu pregethwr, a hwy carchariad yn herwydd cymmeryd ceiliog coed yn mharc y bonneddwr, nag o herwydd llatrata arian gweithiwr wrth y dydd.

Os anfoddlon yr Indiaid i golli eu tir, yn Hindoostan, lleddir hwy gan filwyr; a pha un bynag ai boddlon ai peidio cymmerir eu tir: ac am yr hauir pabi yn lle ŷd, gwasgir y brodorion gan eisiau bwyd. Anfonir y pabi hyd i China, i'w newid am y Tê; a phan rwgnachodd y gwladwyr hyny, gan geisio arian, yn lle pabi, yn gyfnewid am eu heiddo, anfonwyd milwyr i'w lladd.

Gartref etto, y gwarir mwy arian am feddwi nag a dalai holl ddyled y deyrnas, a chynnal yr holl deuluoedd mewn llawn gysur. Talwyd i Kean, y chwareuwr, saith gant o bunnau am chwarae un darn noswaith; talwyd i Jenny Lind, am ganu, ddeg mil ar hugain o bunnau, mewn naw mis; telir miloedd, yn flynyddol, i wahanol weithdai undebau plwyfol; heblaw am bob math o loddest a chyfeddach a phuteindra, heb braidd sylwi ar y lluoedd a ddirwasgir gan dlodi, afiechyd, ac anghen, tra llawer yn newynu, o eisiau bara beunyddiol.

Y Pabyddion ydynt yn bachu cyfoeth, trwy ddychrynu poblach ag ofn purdan:—yr Eglwys Loegr a grafanga nerth ei chyfoeth i bigion balchder, a'r sectau a bentyrant athrawon, gan grafangu arian i ddewisolion, a gadael eu cystadl am bregethu, yn llwm eu gwisgoedd, yn ddrylliog eu hesgidiau, ac yn lled weigion eu bwydgistau.

Coron Lloegr sy ben eglwysi, a ymgyfenwant eu hunain yn eglwysi Cristionogol; a thâl y llywodraeth wladol filoedd o bunnau, i gynnal esgobaeth yn Lloegr, Presbyteriaeth yn Alban, Pabyddiaeth yn Iwerddon, Lutheriaeth yn Hanover, a Braminiaeth yn India; a goddefir y mân sectau, o herwydd fod eu prysurdeb, yn ffraeo â'u gilydd, yn dangos nad oes perygl i'r llywodraeth gael

ei dwyn i degwch ganddynt hwy, fel yr ofnid gynt, yn amseroedd yr erlid, y carcharu, a'r merthyru.

Fel y gwrolwyd milwyr, ar ol eu marw, gan Baganiaid dysgedig Athen, felly y santyddir milwyr ac ereill gan Rufain Babaidd; ac felly hefyd y gwneir duwiau o'u blaenoriaid gan y sectau. Pe cymmerid enw yr Hallalluog yn ofer, ynghlyw proffeswr sectyddol, cynghorid yr euog i beidio, a hyny mewn tiriondeb; ond os meiddia un ddywedyd yn ddiystyrllyd am flaenor ei sect, megys Calfin, Knox, neu Wesley, yn ei glyw, efe a ffromai, digiai, a gyrai un allan o'i dŷ yn ddiymaros; yr hyn ymddygiad a brawf, y teimlant yn fwy dros eu duwiau marwol, nag a deimlant dros barch i enw y Bendigedig.

Dwfn iawn hefyd yw anwybodaeth grefyddol y rhai a ystyrir yn enwog mewn pethau gwladwriaethol. Pan ofynwyd, yn ddiweddar; am ddydd o ymostyngiad a gweddi, i ofyn i'r Arglwydd lwyddo arfau Prydain yn erbyn Rwssia, dywedai un arglwydd, yn ddyfrifol, yr ofnai ddarfod i Rwssia achub y blaen, a gweddio æm lwyddiant cyn i ni feddwl am hyny! A phe llwyddai Ffrainc a Rwssia, i gael gan Mair, a'r gwahanol seintiau eu gwrandaw a gwneyd eu cais; a phe llwyddai Twrci a Lloegr i gael gan wahanol wrthrychau eu gweddiau gyflawni eu heirchion, elai yn frwydr gan boethed yn y nef ag ar lanau yr afon Danube!

Truenus yw yr olwg ar y byd, yn ei fanau goreu. Trais, gorthrwm, a chain sydd yn ffynu; gwneir y werin yn farciau bwledi, at foddloni balchder ac uchelgais mawrion daear; gadawir gwragedd yn weddwon, cyn meirw o'u gwyr; a gwneir plant bychain yn amddifaid, cyn trengu o'u tadau. Y trechaf treisied, heb wrandaw gwaedd y gweiniaid; a'r meistrolgar gormesed, heb gydymdeimlo â chwyn y llesg a'r methiedig, yw arwyddeiriau y gwledydd: gyrrir y march i'r frwydr, lleddir eidionau i fwyda dialeddwyr, newynir gwerinos i fwdo ymladdwyr, a gwthir dynion i farwolaeth wrth y miloedd, i beri llawenydd y gwin a'r ddawns i ychydig hunanolion; ac o herwydd hyn, mae'r ddaear yn crynu, mae'r nef yn gwgu, mae'r greadigaeth yn ochneidio, a phob duwiol yn hiraethu am ddadguddiad meibion Duw, ac am amseroedd adferiad pob peth.

*(I'w barhau.)*

## MORMONIAETH YN Y SENEDD-DY.

*Allan o'r* "Silurian," *am Meh.* 3, 1854.

Un o'r ymofyniadau mwyaf dyddorol, yr wythnos ddiweddaf, oedd fod un o flaenoriaid y Mormoniaid, o flaen Pwyllgor neillduol ar Ymfudiad, yn y Tŷ Cyffredin. Gŵyr y darllenydd, mae yn debygol, fod gan y Mormoniaid sefydliad rheolaidd o'u heiddo eu hunain yn y Deyrnas Gyfunol. Y boneddwr holedig oedd un o'r awdurdodau uchaf yn eu plith hwynt. Ei anrhydeddus, y boneddwr cyfeiriedig, Mr. Samuel Richards, sydd ddyn canol oed, o ymddangosiad cydweddol, yn gwisgo yn dra thebyg i offeiriad, eilliad glân, a chyda gwallt crychiog, yn rhôlio dros goler ei *goat*. Yr oedd ganddo darawiad gwan o'r *Yankee* yn ei iaith. Ei sefyllfa yma sydd un gyfrifol: efe yw prif lywodraethwr y Mormoniaid yn y wlad hon, a chynnwysa yn mhlith ei ddyledswyddau arolygyddiaeth ymfudiad y Mormoniaid o Liverpool. Gosododd gerbron, fod yn y tri mis cyntaf o bob blwyddyn, tua 2,600 o ymfudwyr yn gadael Liverpool i Ddinas Utah, y Llyn Halen Fawr, mewn llongau a ddarparwyd iddynt gan Mr. Richards. Y trefniadau sydd yn gwilydd i lawer o berchenogion llongau a chwmnioedd o honiadau mwy. Mewn un llong nid oes byth fwy nâ phum cant o bersonau. Y lluniaeth rheolaidd i ymfudwyr cyffredin a gynnwys bob amser gig; a'r ymfudwyr, yn ystod eu holl fôrdaith, ydynt o dan ofal Llywydd, yr hwn a edrych fod eu hanghenrheidiau tymhorol yn cael eu diwallu. Pan gyrhaeddant New Orleans, derbynir yr ymfudwyr gan oruchwylydd arall, yr hwn a anfona hysbysiaeth i Mr. Richards o'r sefyllfa yn yr hon eu cafwyd. Y cyfartalwch o gost môr-daith pob ymfudwr i New Orleans yw £3 12s 6c: yna daw y daith i Utah, yr hon yn arferol a gostia £20 yn fwy. O'r 2,600 a ymfudodd y flwyddyn hon, dim ond ugain oedd o Wyddelod. Y llu oedd wedi eu troi o blith y sectau Ymneillduol yn Nghymru a Lloegr. Mewn atebiad i ofyniadau oddiwrth Mr. Frederick Peel, Mr. Richards a ddangosodd mai bwriad mawr y Mormoniaid yw i sefydlu teyrnas ddirfawr gerllaw y Llyn Halen Fawr, ac mai yno y mae dymuniad y Blaenoriaid i'r holl ffrydiau i gyd-ymgyfarfod. Utah yw eu Canaan—eu haddawedig wlad, yn llifeirio o laeth a mêl—eu dinas barhaus. Mr. Richards a

a dystiolaethodd yn athrylith ac eofn, efe a ennillodd ac a gafodd ddiolchgarwch y Pwyllgor mewn canlyniad. Yr argraff a ymddengys i fod, nad pa mor wrthwynebus y gall Mormoniaeth fod, etto yr oedd un peth a wnaethant yn brydferth a da, ac hyny yw, cario eu dyscyblion yn brydferth, yn briodol, ac yn iachusol dros y Môr-werydd. Mae yn drueni mai Mormoniaid yn unig gaiff fyned yn y llongau Mormonaidd. *Cyf.* T. H.

## AMRYWIAETHAU, &c.

NEWYDD DA.—Tiriodd yr Hen. F. D. Richards, a 6 o frodyr adnabyddus ereill o Seion i Lerpwl, ar y 4ydd o'r mis hwn yn iach a chalonog, a chalonoga eu dyfodiad ninnau i ddysgwyl cyfran helaeth o nerth y Goruchaf gyda hwynt, a'i fawr allu o'u plaid, hyd nes eu gwneuthur o fawr fendith i'r Saint, ac adeiladaeth i'w Deyrnas Ef; nid heb gofio defnyddioldeb a dewrder y brodyr hyn yn mhlith peryglon oddiwrth derfysgluoedd ac oddiwrth Indiaid, y gallwn lawenhau o'u cael megys wrth ein hochr etto, i ymladd â chleddyf yr Ysbryd yn y parthau pellenig hyn, erfyniwn Dduw o'n plaid a mawr fuddygoliaeth yma etto.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O MEH. 6 HYD 13.—Dyffryn Conwy, £1; Sir Feirionydd, £2.—*Cangenau Dwyr. Morganwg*—Pontypridd, 11s 10c; Aberdâr, 7s; Aberamman, 3s; Dowlais, 4s 2½c; Hirwain, 9s; Georgetown, 7s 6c; Pendaren, 10s; Ffynnon-Tydfil, 8s; Cwmbach, 10s.

☞ Wrth ein gohebydd o'r Llwyni dywedwn, nad felly ein dysgwyd ni—nid oes hawl i ymyraeth lle y bo unigolrwydd, eithr lle y bo amledd, gweled yr anghenrheidrwydd o'r ymyraeth a ystyria yn afreidiol, a rhesymau anwrthwynebol dros hyny yn y "*Seer.*"

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street*, *Merthyr-Tydfil.*

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Annerchiad, &c | 363 |
| Gwrthwynebrwydd Indiaidd i'r Cenhadon Cristionogol | 365 |
| Golygyddiaeth—Mormoniaeth—Newyddion Cartrefol | 365 |
| Effeithiau Tybaco | 367 |
| Arwyddion yr Amserau, &c | 368 |
| Mormoniaeth yn y Senedd-dŷ | 371 |
| Amrywiaethau, &c | 372 |


MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 24.] MEHEFIN 24, 1854. [CYF. VII.


### ETHOLIAD

YR HENURIAD FRANKLIN D. RICHARDS I LYWYDDIAETH EGLWYSU IESU GRIST, SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF YN YR YNYSOEDD PRYDEINIG, A'R GWLEDYDD CYFUNOL.

ANWYLAIDD SAINT.—Wedi bod yn absennol am ychydig dros ddwy flynedd, dychwelaf gyda mawr lawenydd a diolchgarwch am gael y fraint o gyd-lafurio â chwi yngwaith iachawdwriaeth yn y gwledydd hyn, ac am fy ngwaredigaeth mewn peryglon ar fy nhaith ar fôr a thir, tra y cyfarfu ereill â dwfrllyd feddau yn lluoedd, ac ag angau deisyfed.

Mawr yw trugaredd Duw tuag at ei blant teithiol, tra y mae dynolryw mor esgeulus o'r bywyd dynol, a thra y mae melldith a'r wyneb y dyfroedd, o herwydd yr hyn, mor anfynych y gelwir arnom i alaru o herwydd colli ein cyfeillion drwy yr heintiau erchryslon ag ydynt mor fuddugoliaethus ar ddwfr a thir. Eithr er ffyddloned yw yr angylion yn gofalu am fywyd ei bobl Ef, etto y mae genym fwy testunau o ddiolchgarwch a mawl nag yw gwaredigaeth ein bywydau dynol. Gwell fyddai cysgu gyda y meirw na ein cael yn ffyrdd anghyfiawnder, ac yn anghymmeradwyaeth Duw.

Testun penaf ein gorfoledd yw, ein cyfrifiad yn deilwng i gyfranogi o'r Efengyl fendigaid, yr Offeiriadaeth Santaidd, ac i gynnorthwyo i adeiladu teyrnas Dduw ar y ddaear yn yr amseroedd diweddaf hyn. Gan mai hyn yw prif amcan pob

Henuriad, ac yn enwedig y Deuddeg, dywenydd annhraethadwy i mi yw canfod cyflwr heinyf ac iachusol y Saint yn Ewrop yn gyffredinol, ac yn neillduol felly, y rhai a gyfaneddant yr Ynysoedd Prydeinig, manteision a phrofion y rhai ydynt lawer rhagorach.

Er pan ymadewais o'ch plith, mae dadguddiadau y gwirionedd a ddanfonwyd allan o Seion wedi achosi cynnydd dirfawr yn ffydd, cadarnhau gobeithion, ac wedi bywiogi ysbrydoedd y ffyddloniaid yn mhob man, gan ddechreu yn Ninas y Llyn Halen Mawr, congl faen Seion; felly mwynhâ y cyfiawn allu i ddyfod yn feibion ac yn ferched i Dduw, gan gynnyddu eu nherth i ddyoddef gwrthwynebiadau y byd a'r Diafol hyd oni ymgasglant i Seion, yno i dderbyn nerthoedd y byd a ddaw, drwy yr hyn ennillant y fuddugoliaeth, a choron y bywydau diderfyn, yn nheyrnas ein Duw.

Fel y caniatâ achlysuron, bwriadaf hysbysu, drwy golofnau y "*Star*" y cyfarwyddiadau a gymhellir gan yr Ysbryd Glân yn gyfaddasaf i anghenrheidiau y bobloedd, eithr dymunaf yn bresennol eich hysbysu o natur fy ngenadiaeth yn eich plith, yr hyn a ddeallir drwy ddarlleniad o'r canlynol Lythyr o Etholiad—

At y rhai y daw y llythyrau hyn, yn annerch:—

Wrth hyn deallweh y dirprwywyd yr Henuriad Franklin D. Richards, aelod o Gorwm y Deuddeg Apostolion, i fyned i Loegr i bregethu yr Efengyl, argraffu, cyhoeddi, arolygu yr Ymfudiad, ac i lywyddu ar holl Gynnadleddau Eglwys Iesu Grist, Saint y Dyddiau Diweddaf, yn yr Ynysoedd Prydeinig; a galwn ar yr holl Saint i sylwi yn fanwl ar ei ddysgeidiaeth ac i ddilyn ei gynghorion yn mhob peth, canys drwy wneuthur felly hwy a fendithir.

Gweithredwyd yn Ninas y Llyn Halen Mawr, Tiriogaeth Utah, Unol Daleithiau yr Amerig, ar y nawfed dydd ar hugain o Fawrth, 1854, arwyddwyd dros, ac yn enw yr Eglwys gyfenwol, gan ei Chynghor Llywyddol.

BRIGHAM YOUNG,
HEBER C. KIMBALL, } *Y Brif Lywyddiaeth.*

Er mawrogrwydd gwaith yr Arglwydd yn Mrydain, deallir wrth y rhagflaenol, fod maes fy llafur yn estyngedig i'r gwledydd cyfunol yn Ewrop.

Dymunir ar Lywyddion y gwahanol genhadiaethau cynnwysedig, fy hysbysu i, yn y Swyddfa hon, eu cyfleustra boreuaf, beth yw sefyllfa a gobeithion eu meusydd llafur yn dymhorol ac yn ysbrydol, ynghyd a'r cynnygiadau gwelliadol a ddymunant wneuthur ynddynt, fel ein galluogir i gydweithio yn fwy effeithiol er eu llesiant a'u cynnydd.

Mae y cyflwyniad o fwy galluoedd a nerth a roddwyd i'r Saint, a'r cyfryngau lliosog a ddefnyddir gan ddaionus law Duw er rhoddi ffafr i'r Gwirionedd, ac i'w Ei weision yngolwg y byd, hyd y nod mewn uchel leoedd, yn cymhell ei bobl i fwy o ddiwydrwydd yn y cyflawniad o'u dyledswyddau tuag at y byd ac at yr Eglwys.

"Lle y rhoddir llawer, gofynir llawer."

Coffawdwriaeth bleserus am y tymhorau hyfryd ac aml y mwynheais ddylanwadau yr Ysbryd Glân yn eich plith, a'r hyder ynof, arddangosiadol drwy eich ffydd a'ch gweddiau blaenorol a'm calonoga i hyderu y mwynhâf eilwaith eich cymorthwyadau a'ch cydweithrediad, yr hyn, dan fendith Duw, ac arddeliad Ei Ysbryd Glân, a santeiddia fy ymdrechiadau egwan i hwyluso Ei achos, a chysur Ei bobl drwy y gwledydd hyn. Eich gwas gwirioneddolaf, yngharlad yr efengyl,

FRANKLIN D. RICHARDS.

Swyddfa y "Seren Filflwyddiol," Llynlleifiaid, Meh. 8, 1854.

## ANNERCHIAD

AT OFFEIRIAID, PARCHEDIGION, PREGETHWYR, A HOLL ATHRAWON CREFYDD YN NGHYMRU.

[Parhad o dud. 362.]

NA wrthodwch ein cenadwri, o herwydd yr ymddengys i chwi rai o'i hathrawiaethau yn newydd neu yn groes i'ch meddyliau, o herwydd, felly yr ymddanghosodd pob athrawiaeth ddwyfol i'r meddwl dynol hyd oni chafwyd eglurhâd, a rhesymol i'r rhai a ddysgwyliant gyrhaedd hyd berffeithrwydd gwybodaeth i gael cyfraith Duw yn "llin ar lin," canys, heb hyny ni allant *gymmyddu*. Ac hefyd sicrhawn yr eglurhâ Ysbryd Duw i bob un a ufyddhâo i'r genadwri hon, mai dwyfol yw yr egwyddorion hyny a ymddangosant mor groes i ddoeth-

ineb ddynol, ac yna pa raid ofni? Pa reswm eu gwrthod heb eu profi.

Na chondemniwch ein cenadwri o herwydd yr ystoriau a draethir, a bregethir, a gyhoeddir, ac a ganir drwy ein gwlad, a'r byd, yn erbyn cymmeriadau y cyfryngau a ddewisodd Duw alw i'w thraddodi i'r byd; canys, nid yw yn rhesymol credu ystoriau gelynion am bersonau tra y mae Duw yn cynnyg profi yn groes i hyny drwy arddel eu cenadwri. Nid gwir y cyhuddiadau a ddygir yn erbyn y personau hyny; er nad oes neb o honynt yn proffesu bod, ond dynion ffaeledig, etto, y mae yn *wybodus* i ni mai anwireddau yw yr oll a ddarllenasom ac a glywsom yn ddrwg am Joseph Smith a blaenoriaid ereill yr Eglwys hon. Ein rheswm dros yr haeriad hwn yw, o herwydd i ni gael blynyddau o amser i chwilio i mewn i wreiddiau yr ystoriau hyny, gan mwyaf lle y tarddasant, a'u cael yn anwireddus; —o herwydd cael adnabyddiaeth bersonol a thrwyadl o'r person "dirmygiedig" hwnw, mewn gwahanol gylchoedd a than amrywiol amgylchiadau, yn deuluol, cyfrinachol a chyhoeddus, a chael digon o ffeithiau, drwy ei weithredoedd adnabyddus, i brofi mai dyn addfwyn, gostyngedig, bucheddol, a duwiol oedd efe; ac yn enwedig, ac fel *anffaeledig* brofion o hyn, tystiwn mai gwas i Dduw, yn bucheddu yn deilwng o'r cymmeriad anrhydeddus, ac yn ymgais at wasanaethu Duw ydoedd efe, o herwydd y fod Duw o'r nef, yn cyflawni ei addewidion ef i ni ac i'r oll a ufyddhasant i'r grefydd a ddysgai. Ni allwyd dweyd felly am un *twyllwr* erioed. Nid allwn ni gredu ei fod ef y dyn ag yr ymdrechir gael gan y byd gredu ei fod; ac ni allwn beidio a chredu yn groes i hyny, o herwydd Ysbryd Duw a'n gorfododd; a pheidio credu hyny a fuasai credu ei elynion yn hytrach na chredu Duw, yr hyn ni allwn wneyd, serch bod hyny, ar eirwiredd Duw, yn gwneyd ei holl gyhuddwyr yn gelwyddog.

Amlwg yw oddiwrth ydrechiadau diflino ein gelynion i chwilio y byd, a'i Newyddiaduron mwyaf llygredig, am gamgyhuddiadau yn erbyn personau, y credant y byddai hyny yn gwrthbrofi dwyfoldeb ein cenadwri; eithr, amheuwn ni gywirdeb y fath dystiolaeth: tra y caniatawn fod dynion yn ystyried grym tystiolaeth yn gyferbyniol i'w barn hwy am gymmeriad y tyst, etto, ni chaniateir na all tyst anghywir am *rai* pethau dystiolaethu yn gywir a chredadwy am bethau *ereill*, yr hyn, ynddo

ei hunan, a brawf dueddolrwydd cyfeiliornus, y rhesymeg. Ond, meddir, ar eirwiredd y cyhuddiadau gwarthus a draethir yn erbyn Joseph Smith ac ereill, seilir ein crediniaeth nad gweision Duw ydynt, o herwydd na arddelai Efe y fath ddynion llygredig. Ond, meddwn ninnau, gan ddyfod yn nes at wreiddyn y ddadl yna, y mae geirwiredd eich tystion chwithau yn ei erbyn yn dibynu ar eu cymmeriadau hwy, yn ogystal ag yw geirwiredd ei dystiolaeth yntau o ddwyfoldeb ei genadaeth yn dibynu ar ei gymmeriad, yr hyn a'n harweinia i chwilio pa fath rai yw ei gyhuddwyr, ai rhai anmhleidiol ydynt? Dywedir eu bod yn bobl grefyddol, duwiolfrydig, a santaidd iawn, ac y mae gan luoedd o honynt deitlau o uchelradd, o bob plaid ac enwad tu yma a thu draw i'r moroedd, megys,—Parchedigion, Esgobion, Offeiriaid, Vicariaid, Curadiaid, Athrawon, Pregethwyr lu, a rhestr o'r D. D's., A. B's., B. A's., &c. Ystyrir mai yn y teitlau hyny mae grym tystiolaeth; ond a wyddys, onid oedd byddin mor liosog, o rai mor dduwiol a selog, a chynnifer o deitlau mor anrhydeddus yn ardystio y cyffelyb gyhuddiadau yn erbyn pob gwâs a'anfonodd Duw i'r byd braidd, heb eithrio ei Unig-anedig Fab, na'i apostolion ar ei ol! Y mae lle i feddwl hyny yn yr ysgrythyrau, a sicr yw mai yn mhlith y dosparth yna yw y lle annhebycaf i gael y gwir am gymmeriad un o wahanol grêd; o herwydd, ennilla gwâs Duw ddigofaint yr anonestion o honynt trwy dystio yn erbyn eu twyll a'u cyfeiliornadau, ac wrth eu galw i edifarhau a dychwelyd i'r ffordd iawn; a'r rhai mwyaf rhith grefyddol a fyddant y mwyaf selog i ddinystrio cymmeriad y tyst a dystiai yn eu herbyn hwy, gan gredu y gallent felly rwystro y werin i'w gwrandaw yn dynoethi eu twyll hwynt.

Afresymol condemnio neb a broffesant fod yn genhadon Duw o herwydd cyhuddiadau eu gelynion yn erbyn eu cymmeriadau, canys, prawf yr hanesion ysgrythyrol mai felly y gwnelai y byd â chenhadon Duw yn mhob oes a gwlad o hono; ac felly, yn lle bod yn wrthbrofion, y mae y cyhuddiadau hyn, a'r sail rhesymeg gyffelybiaethol, yn profi mai yr un genadwri yw hon, sydd yn cynhyrfu y byd i'w difenwi a'i chamgyhuddo yn awr, ag oedd hono gynt a addefir yn ddwyfol serch ei bod yn cael ei gwrthwynebu yn yr un modd.

Yr ydym wedi ymdrechu yn ol ein gallu er's blynyddau i ar-

gyhoeddi y wlad o ddwyfoldeb ein Cenadwri, yr ydym wedi cyhoeddi gwrthbrofion i'r holl ystoriau anwireddus a'r camgyhuddiadau a glywsom yn erbyn y grefydd hon, a'r rhai a gamgyhuddir o'i herwydd, drwy resymau teg, tystiolaethau geirwir gan lygaid dystion dibroffes, ac y mae ein hamddiffyniadau yn awr a'r led y wlad hyd y gallwn eu dosparthu; eithr y mae pregethwyr a Golygyddion mor barod i gredu anwireddau, a'u sierhau yn wirionedd o'u pwlpudau a'u cyhoeddiadau, fel y mae braidd mor anhawdd cael gan y werin i wrandaw na darllen ein hamddiffyniadau ag oedd i Paul wneyd i'r Ephesiaid glywed ei lais ynghanol y fonllef hono,—"Mawr yw Diana yr Ephesiaid;" un peth a gwaeddi ar ruad cynddeiriog dònnau y mor i ddystewi,—neu ymresymu ynghanol rhuad magnelau a thrwst arfau tra yn gymmysgiedig a gryddfanau trancedigion yw ceisio gan y rhai a gredant yr ystoriau gwarthus a daenir am danom i chwilio i'n hanes a'n tystiolaethau ein hunain. Dysgir o bwlpudau i anfon plant a'r ein hol i wban a gwneyd sûn fel y bodder ein lleisiau lle y pregethir yn debyg fel y gwaeddai y plant gynt, "dôs i fynu moelyn" ar ol y Prophwyd pan yn traethu cenadwri, nid mwy dwyfol na'r eiddom ninnau. Rhybuddia pob enwad eu gwrandawwyr bod perygl dyfod i'n gwrandaw, a diarddelir am hyny weithiau; darlithir yma a thraw yn ein herbyn gan *elynion*, a phob amser camgyhuddir ni a'n crefydd, a gwrthodir caniatâd i ni amddiffyn. Chwychwi a ddylech fod y rhai blaenaf yn y wlad i chwilio i mewn i'r genadwri a broffesa ddyfod oddiwrth Dduw, yn gymmaint a'ch bod yn proffesu bod yn arweinyddion y bobloedd, rhag ofn y ceir chwi fel yr Ysgrifenyddion, neu Saul o Tarsus, drwy sêl gau yn gwrthwynebu Duw.

Na rwystred anmhoblogrwydd tybiedig yr enwad hwn i chwi dderbyn y genadwri ddwyfol hon; gwyddoch mai anmhoblogaidd yr ystyriai y byd a'i holl grefyddwyr cyfoesol bob cenadwri ddwyfol a ddaeth i'n daear. Gan fod crefydd yn boblogaidd, y grefydd oreu a ddylid ystyried yn fwyaf poblogaidd mewn gwirionedd; a chan fod y grefydd hon yn addaw mwy bendithion nag a addawa un arall paham nad hon yw y mwyaf poblogaidd? Gwyddom mai hon yw y fwyaf poblogaidd yn y nef, a'r grefydd a debygola ddyn i'w Dduw—*safon* anffaeledig *gwir* boblogrwydd, a ddylid ystyried yn fwyaf pob-

logaidd gan ei holl addolwyr Ei ar y ddaear: etto, cyd-ddyoddefyddion â'i Hawdwr yn ei gwarth daearol hi a goronir â gwir boblogrwydd gydag Ef. Gan eich bod chwi yn boblogaidd deuwch a'ch poblogrwydd gyda chwi ynte, er anrhydeddu gwir Eglwys Crist: *chwychwi, nid nyni*, a allwch, o herwydd diflanodd ein poblogrwydd ni drwy ei derbyn hi. Felly os beius ei hanmhoblogrwydd, arnoch chwi y mae y bai!

Nid awydd i brosolytio na chael yr *eiddych* a'n cymhell i'ch annerch fel hyn, bydded rhyngddoch chwi â'ch gilydd am eich *cyflogau*, eich *capeli*, a'r *eiddych*, nid ymofynwn hwynt; eithr yn enw, a thros y Duw a'n danfonodd, erfyniwn arnoch dderbyn y genadwri rasol hon a ddanfonodd Duw i chwi, a defnyddiwch y dylanwad a roddes Efe i chwi er argyhoeddi yr oll a allwch i'w derbyn, fel eich cymmoder chwi a'r eiddych â Duw, ac y mwynhaoch yr *undeb*, y *cariad*, y *llawenydd*, y *sicrwydd*, a'r *holl fendithion* a ddymuna eich calonau. *Taer* erfyniwn eich cynnorthwy *chwi* i hyn, o herwydd y fod yn eich dwylaw *chwi* allweddau calonau miloedd na allwn ni gael eu clustiau; o ganlyniad, wrth eich drysau *chwi* y gorphwys y cyfrifoldeb am eneidiau eich gwrandawwyr oni wnewch hyn! *Mae Duw yn gofyn hyn genych,—ac yr ydym ni yn* GWYBOD, *ac yn* TYSTIO *hyny!*

Bellach, terfynwn ein "Hannerchiad," gan ddyfal weddio ar fod Awdwr dwyfol y genadwri a draethwn, drwy Ysbryd y gwirionedd, yn agor eich llygaid i weled y pwysigrwydd o ufyddhau iddi, fel yr achuber eich eneidiau ac y gwneler chwithau yn genhadon dros Dduw, i achub ereill, hyd oni ddelo holl garwyr gwirionedd drwy ein gwlad yn blant i Dduw, ac yn etifeddion o sylweddoldeb crefydd Crist, yr hyn yw prif amcan yr ymdrech presennol a dymuniad enaid,

Eich gostyngedig was,

Y GOLYGYDD.

---

## CAIS I DDEHONGLI DAMMEG YR IUDDEWON A'R MOCHYN.

BARCHUS OLYGYDD,—Fy nyben yn ysgrifenu atoch yw i *geisio* dehongli "Dammeg yr Iuddewon a'r Mochyn," yr hon a ymddangosodd yn yr UDGORN yn ddiweddar.

*Y gofyniad cyntaf yw*,—Beth yw y Mochyn? Atebaf mai

Mormoniaeth yw; a'r Iuddewon yw y crefyddwyr a ddywedant na halogant eu hunain â'r fath halogrwydd â chrefydd yr "hen Seintiau," yr hon sydd wedi ac yn cael ei chynnyg yn rhâd i bawb; ac oddiar hyny y mae pregethwyr ac aelodau wedi myned bob un a darn o honi, a druain o'r Saint yn cael eu cyfrif yn y diwedd o fod yn feddiannol ar "fochyn aflan" na fwytauai neb mo hono, ac etto y mae mor felys fel y mae pob un wedi myned a'i ddarn o hono, heb un diolch i'r Saint yn y diwedd. Onid purion yw dweyd mai lladron ac yspeilwyr yw y fath ddynion, ag ydynt yn dringo i fewn ryw ffordd arall, neu mewn modd dirgelaidd yn llarpio y mochyn rhyngddynt, gan ofni rhag i neb wybod eu bod yn halogi eu hunain, gan wrthod dyfod yn y ffordd iawn, trwy ymwadu yn llwyr â'u hen draddodiadau, ac arddel yn gyhoeddus grefydd gyfan Saint y Dyddiau Diweddaf, y naill ran fel y llall, a pheidio gwneyd *sauce* o ffydd, edifeirwch, a bedydd i seimio eu hefengylau ereill ac anathemawl hwy, er i'w hudolion eu llyncu yn hawddach, sef "*ni* dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glân," oblegid "*bu* ein hefengyl ni mewn gair, gwendid ofn, a dychryn, nad ydym yn feddiannol ar yr Ysbryd Glân;" yn lle mewn nerth yr Ysbryd Glân, &c.; a Duw yn gwanhau y gair trwy ofnau o beidio bod yn iawn, pa rai sydd yn canlyn, heb un o ddoniau yr Ysbryd Glân, yn yr "arwyddion a'r rhyfeddodau, ac amryw ddoniau yr Ysbryd Glân." Yr hwn a gredo na feindiwch am saws bob amser, sef, nid oes gwahaniaeth mawr am ei fedyddio, fe fydd gadwedig; a'r hwn ni chredo, ond a gredo efengyl amgen, os bydd hi yn un barchus a phoblogaidd, a fydd cadwedig; a'r arwyddion hyn ni chanlynant, &c. Onid yw yn amlwg i bawb pwy sydd yn myned a phen y mochyn i wneyd saws i seimio fel y nodwyd. Y rhai hyn sydd a saws, neu nith duwioldeb, eithr gwadant ei grym, neu ei chig hi.

Iuddewon sectariaid pa'm byddwch mor draws
Wrth gigydd, a mochyn i chwi i wneyd saws;
Y naill aeth a'i gynffon, a'r lleill asth a'i draed,
Un arall a'i ystlys 'nol yfed ei waed.

Y cigydd, amddifad yw, rhyngoch i gyd,
O'i fochyn—y lladron a'i dygodd yn glud!
A phwy ond y lladron sydd uchaf eu cloch,
Yn dweyd wrth y bobl,—"Na fwytwch gig moch!"

WILLIAM LEWIS.

[O'r amrywiol ddeghongliadau a gawsom o'r Ddammeg rhoddwn yr uchod er denu y neb a allo i wella ei gwallau, os na cheir gwell *Bwtcher*, rhaid i ni chwilio i mewn i'r *mochyn* cyn hir, o herwydd mae mwy na hyna o frasder a mêr yn ei esgyrn goeliwn ni! Pwy a'i dangosa?—Gol.]

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MEHEFIN 24, 1854.

Dosparthu Traethodau.—I'r sawl a oleuwyd i ganfod y pwysigrwydd o achub eneidiau, amlwg yw eu dyledswydd i Dduw ac i ddynion, o ymroad yn y "llafur cariad," o ddosparthu traethodau yn mhlith eu cymmydogion; os oes a ammheua y defnyddioldeb o hyn aed a phrofed hyny; eithr i'r Saint ffyddlon hyny a fuont ddiwyd gyda y gorchwyl, profa ffrwythau eu llafur iddynt fod bendith y nef arno yn gymhelliadol i barhau. O'r Llywydd i'r aelod distadla, nid oes un, dan unrhyw amgylchiad, yn un man na alla weithio wrth y gwaith clodadwy hwn, ac wrth hyn, y mae talentau yr ieuengaf yn gyfartal i'r mwyaf; ac o herwydd y fod cyfleusterau gan y naill at bersonau na all arall eu cyrhaedd, gweler *cyffredinolrwydd* y ddyledswydd. Y mae llawer o drigolion ein gwlad yn troi mewn cylchoedd, o tan amgylchiadau na allant, neu na ddeuant i wrandaw pregethu, etto mor awyddus am gael y wir grefydd a'r rhai a wrandawant arnom, tra y darllenent ein traethodau pe y caffent hwynt; diwydrwydd selog y Saint i'w cynnyg iddynt a brofo ddwyfoldeb eu crefydd nes eu gwneuthur yn ddiesgus. Mawr y lleshâd a wnaed, ac a ellir wneyd etto drwy draethodu! Gwyddom am ambell gangen sydd yn ddiwyd yn dosparthu traethodau nes denu sylw a chyffroi y fath ymchwiliad yn eu cymmydogion, mewn ychydig wythnosau, nes y mai y canlyniad yw, bedyddiant o bedwar neu chwech yn yr wythnos, ac weithiau cadarnheir saith yn yr un cyfarfod, a'r gobeithion am ychwaneg yn gwellhâu o hyd yn gyferbyniol i'w diwydrwydd; tra y mae Cangenau ereill ar eu pwys—yn eu hymyl—

oddiamgylch iddynt; a chystal manteision a hwythau, heb fyned a nemawr neu ddim traethodau oddiamgylch eleni; a'r canlyniad yw nad ydynt byth, braidd, yn bedyddio neb nac yn agos mor ddedwydd a'r lleill! ! Onid yw yr enghraifft hon, ac ychwaneg a ellir enwi, ddigon eglur i brofi y lleshâd o draethodu? Pa fodd y dichon y nefoedd amlygu hyny yn blaenach na thrwy gymmeradwyaeth ac arddeliad y fath ag yw hyn?

Gan fod ein gwybodaeth o ddwyfoldeb ein cenadwri yn ein gorfodi i *unrhyw* ymdrechiadau i'w chyhoeddi i ereill, paham nad yw mor gymhellol *i bob* ymdrechiadau, ac yn enwedigol i ddosparthu, "yr argraffedig air?" Yn erbyn hwn ni allant gyndyn ddadleu, na'i wneyd yn ddau eiriog—yr un peth a ddywed o hyd, a dywed y gwir mor bwyllog a dealladwy ag y mŷnant eu hunain!

Nid i'r byd yn unig y mae traethodu yn llesiol, ond gwyddom fod Duw yn dedwyddoli, drwy ei Ysbryd Glân, y sawl a'i gwnel yn fwy nag y gwna â'r rhai a wrthodant ei wneuthur; dyma deimlad—dyma brofiad gwybodus i ni a'r hwn cyd-dystia profiadau yr oll a'i gwnaeth ac a'i gwna. Pwy a ddymuna deimlo yn ddedwydd, Frodyr? Dyma'r ffordd! Pwy o honoch chwi chwiorydd, a ddymunech fod o fawr fendith a chael eich mawr fendithio? Dyma'r ffordd? Rhybuddier,—rhybuddier eich cymmydogion drwy draethodau a thystiolaethu; canys, gorchymyna Duw hyn, ac nid oes ond byr amser i'w wneuthur cofier, cyn y del y blinfyd. *Prynwch* yr amser oblegid y dyddiau sydd ddrwg!!

---

Cymmanfa Meirionydd,—A gynnaliwyd yn Mlaenau, Ffestiniog Sul, Mehefin 4ydd. Cynnrychiolwyd Cangenau 6, Hend. 15, Off. 6, Ath. 2, Dia. 1, Bedyddiwyd 2, Cyfanrif 72, addunedwyd yn unfrydol i gynnal yr holl Lywyddiaethau Eglwysig drwy eu gweithredoedd a'u gweddiau ffyddiog; cafwyd addysgiadau gwerthfawr gan y Bugail J. Parry a phregethodd ef, y Llywydd R. Evans, a'r Henuriad R. Parry yn ddylanwadol ar y cynnulleidfaoedd gwyddfodol, y rhai a ddangosent argoelion eglur o'u crediniaeth yn y gwirioneddau a glywent; Ysbryd y gwirionedd a'u hargraffo ar eu calonau, a'u dygo yn mfyddion iddynt ac yn fwynhawyr o'u lles.

Dymuna y Llywydd a'r Bugail yn daer, gael brodyr i'w

cynnorthwyo yn Ffestiniog a'r cylchoedd: y mae anghen Henuriad gwrol yn Caernarfon, arall yn Bethesda, ac mewn amryw fanau cylchynol yn fawr iawn, gellir cael gwaith a phris da a lluoedd o wrandawwyr. Frodyr! Pwy a aiff? Nid yw ein byddin o *Wirfoddoliaid*, erbyn eu dosparthu i'r lleoedd mwyaf anghenog ond dangos llefydd ereill lle y mae braidd fwy anghen fyth. I'r maes ynte, Frodyr! y rhai a fynwch "goronau anniflanedig" dyma'r ffordd i'w hennill! Y rhai a fynwch fyned i Seion, dyma'r ffordd i gychwyn,—ewch mor belled y galloch dan rybuddio y fforddolion tua barn, mai fforddolion tua Seion ydych—mai yno y geilw Duw, ac mai yno yn unig y ceir diogelwch rhag y barnedigaethau ofnadwy sydd fel cymmylau beichiog gan ddigofus nwyd yn mron hollti ac arllwys ar eu gwarthaf. Ymrown, "wyliedyddion Seion" a osodwyd gan Dduw ar y caerau i rybuddio o'r blinfyd dyfodol; cofier mai y neb a wel y cleddyf yn dyfod ac ni rybuddio y wlad, a lladd o'r cleddyf hwynt, y byddant feirw yn eu pechodau, eithr y gofynir eu gwaed oddiar law y gwliedydd hwnw. I'yma ddiysgog gyfraith ein Duw, a'i cadwa, a geidw ei enaid ynghyd a'r rhai a wrandawant arno—a'i trosedda a ddelir yn gyfrifol gan ei Hawdwr a chan y colledigion a'i gwynebant am gyfiawnder dyladwy iddynt, o herwydd esgeuluso o hono eu rhybuddio yn brydlon o'r barnau a ragwelai! Cofier Jona, cofier gwraig Lot—cofier dydd y cyfrif, ac mewn pryd cyfrifer y gost o esgeuluso rhybuddio ein cyd-ddynion"

Hysbyser ni gan y brodyr a all fyned i winllan Duw ar ei alwad. mor brydlon ag y gallant, naill a'i drwy ymweliad neu lythyr, a'u hamgylchiadau, fel y gallom flaen drefnu ar eu cyfer. Yn awr yw yr amser goreu o'r flwyddyn i fyned, o herwydd addasrwydd y tywydd i bregethu allan ac i ddosparthu traethodau; pan ddel y cynheuaf ni fydd mor hawdd gan bobl y wlad ddyfod i wrandaw; yn *awr* yw yr amser cymmeradwy—yn *awr* gwneler ynte, Frodyr, a'r Hwn a'ch pia a dâl i chwi ar eich canfed!

*Penfro Ddeheuol.*—Mae y Llywydd Price a'r Saint yn bur ddiwyd yn pregethu a thraethodu tua Hwlffordd. &c., a'r pregethwyr fyth, fel yn mhob oes a gwlad, yn frain duon yn pigo yr hâd da cyn y caffo ddyfnder daear; rhyfedd na fyddai gan Wesleyaeth ddigon o waith i'w phregethwyr, yn lle eu hela i

bregethu Mormoniaeth; cywilyddia Mormoniaeth arddel y cenadon a anfonant i'r maes, o herwydd y maent wedi eu tyngu i ddweyd pob peth *ond y gwir*, tra y *gwir yn unig* yw Mormoniaeth. Gweff iddynt fyned a hwy i'w hysgol Sul yn nesaf i dynu *brwsh* arall drostynt i'w gloewi. Mae yr hen ffasiwn o dreio y "Jacks" a ddaw o'r Coleg yn erbyn Mormoniaeth, fel yr eir â cheiliogod weithiau i'w treio i ben tomen ddieithr, yn ffasiwn *newydd* yn Hwlffordd yn awr, a mawr y stripio ati y mae y "Jacks" diweddar hyn, fel pe'd anghofiasant eisoes, fod eu holl gewri pengaled a ymladdasant â hi, wedi curo eu hymenyddion allan yn erbyn ei thalcen caled hi. Ond pa wiw dysgwyl iddynt hwy gymmeryd rhybudd, "fel y ceir y tad y ceir y plant o dyfiant ac o dafod," hyd eu tranc, onide, nid geirwir mo Twm o'r Nant.

---

India Ddwyreiniol.—Dywed ein hybarch frawd N. V. Jones o Galcutta, fod yr Henuriaid yn ffyddlon iawn i bregethu drwy lawer o anfanteision, yn yr India ddwyreiniol a gogleddol. Y Newyddiaduron, ar ol chwydu eu haflendid afiachus, fel arfer, a gauasant eu penau rhag cyhoeddi amddiffyniadau; ar ol dweyd y cruglwyth ystoriau am yr "Hen Joe," y "Spalding Romance," a mil ond un o rai mor ddwl â hwythau, perswadiodd yr Offeiriaid hwynt nad lle gweddus oedd colofnau Newyddiadur i ddadleu am grefydd, eithr arosant i weled eu dadleuydd yn colli y dydd cyn dweyd hyn, bid siwr. Mae yr Offeiriaid wedi dangos mwy undeb ac ymdrech i rwystro i'r Saint gael gwrandawiad gan y werin, nac mewn dim arall yn y wlad; anfonasant lythyrau i'r holl amddiffynfeydd drwy yr India, i rybuddio y bobl i beidio gwrandaw ar "gabledd Mormonaidd," a rhybuddiant yr Indiaid hyd y nod i beidio eu derbyn i'w tai, eithr eu gorfodi i orwedd allan yn mhlith bwystfilod, neu stablau brwnt yr anifeiliaid, a dymuno eu newynu pe gallasent, tra eu hunain yn gloddesta ar gost ceiniogau a dimeuau y tlodion drwy Gymru. O ddydd y tâl, pa hyd yr oedi? Dychymmygwn glywed, "*Ychydig* bach etto." Fel hyn teithiodd rhai o'r brodyr am fwy na mil o filltiroedd drwy wlad afiachus, yn mhlith y fath bobl, a dychwelasant wedi cael profion digonol eu bod yn gwrthod yr efengyl. Cyhoedda yr Henuriad Findley draethodau ar yr egwyddorion cyntaf mewn manau

creill. Cyfieithir Llyfr Mormon i'r Bengalaeg yn Calcutta, lle y bedyddiwyd wyth yn ddiweddar. Bwriedir ymfudo y Saint oddiyno i Seion y tymhor nesaf. Cynnydda y gwaith yn Madras yn *ddiweddar*,—a gobeithion da, a'r Indiaid yn llawenhau yn mreintiau a doniau Eglwys Dduw.

---

## LLYTHYR ODDIWRTH YR HENURIAD DEWI ELFED JONES.

*Llanelli, Mehefin*, 12, 1854.

Mygedawg Lywydd Jones—Dywenydd genyf allu eich hysbysu y fod gwaith Duw ar gynnydd yn y Gynnadledd hon. Tystiolaethu o dŷ i dŷ, traethodu, pregethu ag sydd ar ymdaith hwylus trwy hyd a lled cylch ein llafur. Taer eiddunwn am ragor o'r *Gwirfoddiaid* i ymweled â ni; daeth dau attom—eu gwaith sydd o'u blaen. Cydweithir yma gyda bywiawgrwydd cynnyddol.

Y tystiolaethu, &c., a esyd y lleoedd hyn yn un cyffro byw o gŵr i gŵr; a theimla y swyddogion ag ydynt yn *ddiwyd* wrth hyn, fwy o nerth ynddynt nag a deimlasant erioed o'r blaen. Ac yn gymmaint a bod effaith daionus wedi, ac, yn canlyn y Cymmanfaoedd neu y Cyfarfodydd Cyhoeddus a gynnaliasom y llynedd, mewn amryw leoedd lle nad oedd Saint, yr ydym o ddifrif wrthi eleni drachefn. Hon yw y ffordd oreu a brofasom ni yma er darostwng rhwystrau, a chreu dylanwad dros y Saint. Dyma y dull yr awn yn mlaen, sef yw hyny. Pan fyddo gwrthwynebrwydd llidiog i'r swyddogion i bregethu mewn unrhyw le, ymdrechwn yn ddioed i gael caniatâd i godi *Stage* yn rhyw fan cyfreithlon a chyfleus yn y cyfryw le, yna nodwn y Sul y pregethir yno, gosodwn o chwech i naw o Henuriaid i bregethu, rhai am ddeg o'r gloch y boreu, dau prydnawn, ac am chwech yr hwyr. A buom yn llwyddiannus bob cynnyg. Cawn wahoddiad o bob lle y buom, i fyned yno drachefn.

Croesawir ni weithiau gan *rai Police*, trwy ein bygwth yn llym a chwerw, gyda llygaid pwmparla, a golwg ddigasog. Cymmerir ein henwau ganddynt dan grynu, a'u gwynebau fel yr eira neu'r calch. *Tools* ydynt y pryd hyn, yn nwylaw Parchedigion, stewardiaid *societies*, a Lordiaid y sectau. Ond ni'n dawr ni pwy fo yn

ein herbyn, tra Duw genym. Diolch iddo am ei nerth i ni yn ngwyneb gwrthwynebiadau gelynion llidus a chreulon.

Sul y 4ydd o'r mis hwn, cynnaliasom Gymmanfa bregethu yn y Fân Galch, mewn tŷ ardrethol genym at wasanaeth y Gangen yn y lle, yr hwn a agorwyd i'r perwyl y dydd uchod. Mae yn dŷ bach cyfleus dros ben, wedi ei lorio â main a chalch, ac ynddo esgynlawr a phwlpud hylaw a thwt anghyffredin. Yn ei ymyl y mae lle wedi ei wneyd mal yn bwrpasol at fedyddio, yr oll am resymol ardreth blynyddol. Pregethwyd yn y cyfarfod gan y brodyr canlynol:—D. Davies, John Edmunds, Morris Jenkins, Thos. Jones, Llywydd Cynnadledd Caerfyrddin, J. J. Phillips, Dewi Elfed Jones, a'r Llywydd Thomas Jeremy.

Wedi terfynu y cyfarfod, aethom i làn y llyn lle yr oedd amryw edrychwyr. Canodd y côr Ac wedi gweddio gan yr Henuriad D. Davies, galwasom ar y Llywydd Jeremy, yr hwn a bregethodd yn "*short and sweet*" ar fedydd. Yna yr Henuriad Thos. Rees a aeth i'r dwfr, a bedyddiodd un o aelodau y Bedyddwyr yn Pont Henry. Da genyf weled fy hen frodyr a'm chwiorydd yn dyfod ar fy ol i gael gafael ar y gwir fel y mae yn yr Iesu. Tystiodd ereill eu penderfyniad i ymuno yn fuan. Dranoeth, aeth tri o honom i Bontyberem, a chawsom gyfarfod adeiladol iawn yno. Yr hwyr canlynol, pregethodd y brawd D. Davies a minnau allan yn ymyl pentref bychan ar Fynydd y Cerrig, i gynnulleidfa o wrandawwyr astud a boddus. Yr hwyr canlynol mewn lle arall, o flaen tŷ cymmydog caruaidd, pregethodd J. J. Phillips, D. Davies, a minnau. Mae yn y lleoedd hyn amrai wedi addaw cymmeryd eu bedyddio yn fuan.

Cynnelir y Gymmanfa nesaf yn Porthyrhyd, Llanddarog, lle y dysgwylir y bydd *stage* mewn lle cyfleus i bregethu, ac i gannoedd o wrandawwyr glywed geiriau y bywyd.

Yr ydym wedi penderfynu bod yn rhydd a glân oddiwrth waed pawb oll o fewn y Gynnadledd hon. Byddwn daer yn nerth ein Duw i dystiolaethu, traethodu, a phregethu nes y byddo creigiau yn clecian, bronydd a gelltydd yn ymateb y naill y llall, cwmydd a dyffrynoedd yn diaspedain drwyddynt oll, gan sŵn pregethu efengyl ein Harglwydd Iesu Grist, o eneuau gweision awdurdodedig Duw Abraham, Isaac, Jacob, a Joseph. Offeiriaid a pharchedigion, pregethwyr a diaconiaid, aelodau a gwrandawwyr sectariaid a gyffroir genym trwy rym dwyfol wirionedd, fel y

byddom rydd oddiwrth eu gwaed, ac y byddont hwythau yn ddiesgus yn y dydd a ddaw.

Mewn gweddiau aml drosoch, a dymuniadau parhaus am nerth yr Ysbryd Glân, ynghyd a bendith Duw ar ein llafur,

Y gorphwys yr eiddoch yn ostyngedig,

DEWI ELFED JONES.

---

## NEWYDDION DIWEDDAR O DIRIOGAETH UTAH.

CAFWYD tymhor pur iachusol drwy yr holl sefydliadau, y mae ugain o ysgoldai mawrion a chyfleus yn Ninas y Llyn Halen eisoes, ac ereill yn cael eu hadeiladu, heblaw bod ymroadau teilwng ar y pen hwn yn cael eu gwneuthur yn yr holl sefydliadau; yn Lehi, Dinas y Llyn, Bryn hyfryd, Springville, Palmyra, Payson, ac mewn amrywiol ddinasoedd newydd ereill, cynhaliwyd ysgolion yn y gauaf diweddaf. Cyhoeddodd y Cyfieithydd D. B. Huntingdon, yr ail argraffedig o'i Ramadeg o iaith yr *Utahs* a'r *Shoshone*, arall a gyhoeddodd Ramadeg o iaith *Piedes*, a gwneir ymdrechiadau cyffredinol a selog gan y Saint i ddysgu ieithoedd yr Indiaid cylchynol, llawer o ba rai a ymbleserant yn eu hyfforddi yn hyny, hyd nes y gallant yn y sefydliadau deheuol bregethu yn ddealladwy i'r Indiaid. Daeth Walker a'i gedyrn i mewn yn ostyngedig i ymbil am heddwch â'r Saint, ac ymrwymodd hyd a allai i gadw heddwch yn mhlith yr Indiaid. Mae y gwaith haiarn yn bur llwyddiannus, a'r Indiaid cylchynol yn gyfeillachgar ac yn foddlon i weithio; mae pob argoelion yn dynodi y ceir cynheuaf toreithiog, ac y bydd llawnder o ymborth yn y Diriogaeth eleni, gyda diwydrwydd; mae y mûr cylchynol i'r Deml, wedi cynnyddu yn raddol drwy y gauaf, a chwblheir yn gynnar yn y gwanwyn. Ad-reoleiddiwyd y fyddin yn saith catrawd traed, ac un o wyr meirch. Yn Nyffryn Utah agora y gwanwyn yn gynt nag yn Nyffryn y Llyn Halen Mawr eleni, llafuriant y ddaear yn hwylus yn Mawrth. Yr oedd yr ymfudwyr i California, a arosasent yno dros y gauaf, eisoes wedi cychwyn eu taith. Dechreuwyd mûr o amgylch Dinas Provo yn bedair milltir ci hyd. Digon tebyg y costia y gwenith dri dolar y bwshel cyn y cynheuaf. Adeiladir mûr o gerrig oddiamgylch Dinas y Bryn hyfryd, o tan Lywyddiaeth yr Esgob John Banks. Adeilad-

wyd amryw felinau llafur yn y gauaf diweddaf. Mae y brodyr Danaidd yn gwladychu yn San Pete, cyfranir iddynt ymborth a llafur hâd ar yr ammod o eu bod yn gweithio ei werth wrth adeiladu ysgoldŷ iddynt eu hunain.

## AMRYWIAETHAU, &c.

### GWOBR AM WERTHU NEU DDOSPARTHU TRAETHODAU!

Gwobrwywn y sawl a *wertha* fwyaf o'n traethodau o hyn i ddiwedd y flwyddyn â chyfrol yn cynnwys yr oll a gyhoeddwn yn y flwyddyn hon, ynghyd a *darlun o'r awdwr*, wedi ei rhwymo gystal ag y gallwn gael ei rhwymo; y rhai a redant am y gamp hon, ymddiosgant atti hi, canys y mae rhai o redegwyr buan y Deau yma wedi cychwyn eisoes!

Etto.—Gwobrwyir hefyd â'r cyffelyb wobr y neb *a ddospartha* fwyaf o draethodau yn y cyfamser, anfoned i'n hysbysu o'r rhif. ag enw ei Lywydd wrth ei ddanghoseg, er sicrhau y wobr. Cerfir arno mewn *llythyrenau aur* am ba orchestwaith y ennillwyd ef, a bydd yn gofiawdwriaeth i gymhell eu hachau i efelychu y gwron a'i caiff. Gwell fyddai genym i un o'r chwiorydd ei ennill!! Pwy a'i caiff?

☞ Etto, coffhawn y Llywyddion y gofynir y cynnrychioliad hanner blynyddol, o bellaf, cyn pen y 4 diwrnod ar ol y dydd diweddaf o Mehefin yn cynnwys enw y Gynnadledd, rhif y Cangenau, Arch-Off. Hend. Off. Ath. Dia. Ysg. Bu farw, Ymf. Bed. er y cynnrychioliad blaenorol a'r y cyfanrif aelodau, yn cynnwys y Swyddwyr a'r rhai gwasgarcdig, ynghyd ag enwau y Bugail, Llywydd, ac Ysgrifenydd. Gwnaed pob un eu hunain yn hysbys o'r cyfarwyddiadau a welir yn y *Star*, Cyf. xv, tud 474.

Derbyniadau am Lyfrau o Meh. 13 hyd 21.—Sir Fynwy, £2; Gorll. Morganwg, £3 10s.—*Cangenau Dwyr. Morganwg*—Caerdydd, 17s; Dinas, 2s 6c; Pontypridd, 16s 6c; Cap Coch, £1; Georgetown, 9s 4c; Ffynnon-Tydfil, 2s 2c; Troedyrhiw, 10s.

CYNNWYSIAD.

TUD.
Etholiad yr Henuriad Franklin D. Richards ..... 373
Annerchiad. &c ..... 375
Cais i ddehongli Dammeg yr Inddewon a'r Mochyn ..... 376
Golygyddiaeth—Dosparthu Traethodau—Newyddion Cartrefol—India Ddwyreiniol ..... 381
Llythyr oddiwrth yr Henuriad Dewi Elfed Jones ..... 385
Newyddion Diweddar o Diriogaeth Utah ..... 387

MERTHYR-TYDFIL:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

RHIF. 25.] GORPHENAF 8, 1854. [CYF. VII.


## YR UNFED EPISTOL CYFFREDINOL AR DDEG PRIF LYWYDDIAETH EGLWYS IESU GRIST, SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF.

*At y Saint yn Nyffrynoedd y mynyddoedd, ac at y rhai sydd ar wasgar drwy y ddaear, yn annerch:—*

ANWYL FRODYR.—Y dwys a'r parhaus awydd a feddwn am lwyddiant Seion, a chynnyddiant Teyrnas y Gwaredwr ar y ddaear, ynghyd a'n dymuniad i lesoli, cysuro, a dyddanu y Saint yn eu brwydrau yn erbyn dichellion Satan a gallu y gwrthwynebydd a'n cymhell i gymmeryd ychydig amser i ddarlunio i chwi rai pethau yn hanesyddiaeth y mynedol, ein sefyllfa gyffredinol, ein bwriadau, dymuniadau, &c., er eich cysur a'ch hyfforddiant.

Er dyddiad ein Hepistol Cyffredinol blaenorol derbyniasom hysbysiadau am lwyddiant cyffredinol Efengyl Crist, oddieithr ychydig eithriadau, yn mhob man ei pregethwyd hi; yr hyn a gysura ein heneidiau, ac a achosa i'n calonau lawenhau yn naioni Duw i'n cyd-ddynion, drwy dueddu calonau y rhai gonest yn mhlith cenhedloedd y ddaear at y gwirionedd, megys y mae yn Nghrist Iesu.

Mae llwyddiant cyffredinol wedi coroni ein hymdrechiadau, gartref, ac oddicartref, ac y mae y gwaith yn cynnyddu yn gyflym drwy yr holl fyd. Agorodd yr Arglwydd y ffordd o flaen yr Henuriaid mewn gwledydd Tramor, ac ar Ynysoedd y Môr mewn modd rhyfeddol. Galluogwyd yr Henuriaid a anfonwyd i gyrhaedd yn brydlon i'r gwahanol orsafon a

appwyntiwyd iddynt, a chaniatawyd iddynt aros yno i bregethu yr Efengyl yn ei chyflawnder yn mhob man, oddieithr Prussia a'r India Orllewinol.

Dychwelodd y Brodyr Hosea Stout, James Lewis, a Chapman Duncan o'r genhadaeth Chiniaidd, wedi tirio yn Hong Kong, heb allu gwneuthur unrhyw ddylanwad, na sefydlu baniar y gwirionedd yn yr Amherodraeth alluog hono. Achoswyd hyn gan gyflwr cythryblus y wlad, yr hyn a'u lluddiodd i dreiddio i mewn iddi, ac i ymhysbysu eu hunain yn ei harferiadau, ac defodau, ac yn iaith y bobloedd.

Yn Ynysoedd Sandwich, dan arolygiaeth yr Henuriaid Philip B. Lewis, George D. Cannon, B. F. Johnson, ac ereill, mae y gwaith yn hynod o lwyddiannus. Drwy hysbysiadau oddiwrth y Brodyr Lewis a Cannon, dyddiedig Honolulu, Hydref 20, 1853, deallwn fod dros dair mil wedi cael eu bedyddio, a bod Henuriaid brodorol, a'u holl galon wrth y gwaith o gyhoeddi y newyddion da, y rhai sydd i'r holl bobloedd. Sefydla y genhadaeth Argraffwasg i argraffu Llyfr Mormon yn yr iaith frodorol, yr hwn sydd eisoes wedi cael ei gyfieithu yn barod i'w gyhoeddi.

Yn yr Ynysoedd Cymdeithasgar, mae erlidigaeth yn parhau mor arw yn erbyn y Saint, nes rhwystro cyfrinachau, a'r Henuriaid Americanaidd wedi gorfod ymadael: eithr parhant, serch hyny, yn eu hymdrechiadau i gyfeillachu a'r brodorion, llawer o y rhai, er gwaethaf erlidigaeth, a barhant, yn ol yr hysbysiadau diweddaraf, i ddysgu ac ymarferyd egwyddorion bywyd ac iachawdwriaeth, a dderbyniasent gan yr Henuriaid Pratt, Grouard, ac ereill, a fuasent yn eu plith. Ymchwilia y Brodyr am Ynys, ar yr hon y gallant ymgasglu mewn heddwch, a'u gwaredu odditan y dylanwad niweidiol a achosir drwy gyfeillachu ag estroniaid yn eu cyflwr presennol.

O Awstralia cawn newyddion pur ddyddorol. Tiriodd yr Henuriad Wandell yn San Bernardino, ac etholwyd yr Henuriad Augustus Farnham, o'r ddinas hon, i lywyddu ar y genhadaeth hono. Sefydlwyd cyhoeddiad o'r enw "Gwyliedydd Seion," yn Sydney, Deheudir Cymry Newydd, yr hwn a argoela gael cefnogaeth ddyladwy, a gwneuthur llawer o ddaioni. Cynnwysai y gwahanol Gynnadleddau hyny amryw gannoedd o Saint, ac y mae cynnyddiant beunyddiol. Yr oedd

yr Henuriad Burr Frost yn Melbourne, a'r Henuriaid ereill yn wasgaredig ar hyd y wlad. Bwriadai yr Henuriaid Farnham anfon genhadaeth o Sydney, i Hobart Town, Van Dieman's Land, ac i Zealand Newydd.

Gwaredwyd cenhadaeth Calcutta yn rhyfeddol o ddaionus rhag yr heintiau a'r tymhestloedd arferol i'r cylchoedd hyny, yn eu symmudiadau o fan bwy gilydd, yn y cyflawniad o'u hamrywiol ddyledswyddau. Ymwelodd yr Henuriaid oddiyma ag Ava, yn Ymherodraeth Burmah, Dinapore, Chinsurah, Madras, a Ceylon, a dysgwylir y fod y Brodyr Ludington a Savage eisoes yn Siam. Mae yr Henuriaid Findlay, West a Dewey yn Bombay, ac y mae yr Henuriad Willis wedi bod yn llafurio yn yr India Ogleddol.

Yr oedd yr Henuriad Jesse Haven yn Cape Town pan y clywsom ddiweddaf, wedi gwneuthur dechreuad a gobeithion daionus.

Mae holl genhadaethau Ewrop yn llwyddiannus, oddieithr Prussia. Mae y gwaith yn cynnyddu er yn arafaidd, etto yn sefydlog yn Germany, Fraine ac Italy. Cyfieithwyd Llyfr Mormon i'r iaith Gymraeg, Ellmynaeg, Ffrengaeg, Idalaeg, a'r Danaeg. Ni chlywsom am farwolaethau yn y cenhadaethau Tramor, oddieithr Willard Snow, yr hwn a fu farw a'r fwrdd llong tra yn hwylio o Copenhagen tua Hull, ar y 25 o Awst, 1853.

Ni arosodd yr Henuriaid a anfonwyd i Ynyosedd yr India Orllewinol yno yn hir, o herwydd y drwgdybiai yr awdurdodau amcan eu presennoldeb yn eu plith. Hwyliasant hwy ynghyd a'r rhai a anfonwyd i'r Guiana Frydeinig, i'r Unol Daleithiau lle y maent, oddieithr Elijah Thomas, yr hwn a ddychwelodd yr Hydref diweddaf, yn parhau i lafurio.

Mae yr Henuriad Orson Pratt yn Ninas Washington, yn cyhoeddi y *Seer*, eithr a ddychwelodd y tymhor hwn; fel y gwna hefyd yr Henuriad S. W. Richards ag sydd yn awr yn llywyddu yn Mrydain, a H. S. Eldridge, y Llywydd yn St. Louis.

Mae yr Henuriaid Lyman a Rich yn Llywyddu a'r sefydliad San Barnardino, yr hwn sydd mewn sefyllfa flodeuog. Llafuriodd y gweddill o'r Deuddeg Apostol, er dyddiad ein diweddaf, yngwahanol sefydliadau y Diriogaeth hon, yn ol y galwadau achlysurol.

Ar y 15 o Hydref, cychwynodd gorymdaith o tan arolygiaeth y brawd Orson Hyde tua Swydd yr Afon Werdd, a sefydlasant ar Aber Smith, a galwant y lle yn *Fort Supply*. Eu rhifedi sy tua chant o wyr nerthol.

Mae y sefydliadau deheuol wedi cynnyddu hefyd yn eu poblogaeth yn unol a'r cyfarwyddiadau a roddwyd yn y Gymmanfa ddiweddaraf.

Ar yr 16 o fis Tachwedd, tiriodd y brif osgordd o'r Saint a ymfudasent drwy gynnorthwy y Gymdeithas Ymfudol Barhaus, yn iach a chysurus, heb i unrhyw anffawd neilldnol ddygwydd iddynt ar eu taith, oddieithr mewn anifeiliaid.

Ar y 25 o'r un mis gorchuddiwyd wyneb Dyffryn y Llyn Halen Mawr ag eira, eithr parhaodd y tywydd yn dymherus o'r pryd hwnw hyd oddeutu y 10 o Ionawr, er pa amser, hyd oddeutu y 18 o Fawrth, cawsom dywydd go stormus yn lled gysson—yr hinfesurydd ar brydiau o gylch pedwar ar bymtheg o raddau islaw y pwynt rhewog.

Ar yr 8 o Hydref tiriodd Cadben Morrison, a'r gweddill o osgordd y diweddar Cadben Gunnison, y rhai a fuont yn chwilio am y lle goreu i gledr-ffordd i'r môr tawel, arosasant yma am gyfarwyddiadau, ac i'r tymhor feirioli; hyd Ebrill y 4ydd, pryd yr ail ymosodasant ar eu hymchwiliad.

Cynnaliwyd ysgolion cyffredinol mewn gwahanol fanau o'r ddinas, ynghyd ag ysgolion i ddarlithio ac i ddysgu ieithoedd drwy y ddinas. Yr Henuriad P. P. Pratt a ddysgai yn yr Ysbaenaeg, D. B. Huntington yn ieithoedd yr Utah a'r Shosone; efe a gyhoeddodd eiriadur hefyd yn yr ieithoedd hyny er addysg i'r ysgolor ieuanc. Cynnaliwyd cyfarfodydd yn gysson yn ngwahanol ysgoldai y ddinas, a chyfarfyddai y Corwmau yn gysson.

Cyfansoddwyd egwyddor newydd gan yr Athrofa, yr hon a ddysgwylir i fod yn bur llesiol er i estroniaid ddeall yr iaith Saesonaeg, yn ogystal ag i'r ieuenctyd yn ein gwlad. Cymhellwn hi i gymmeradwyaeth y bobl, gan ddymuno ar i ddysgawdwyr, ac ysgolfeistri ei hymarferyd yn eu hysgolion. Mae mawr anghen gwelliadau ar yr iaith Saesonaeg—*mae awgrymiad yn ddigon i'r doeth.*

Ar y 5 o Hydref agorwyd y "*Deseret Dramatic Association*," yn y *Social Hall*, er hyny, cafwyd difyrwch o amrywiol fathau

ganddynt yn yr adeilad hwnw yn wythnosol, gyda rhai eithriadau.

Ar y 5 o Chwefror, cynnaliodd y Degau a thrugeiniau eu Cymmanfa chwarterol, yn y *Social Hall*, am ddeuddydd, a chafwyd gwrandawiad lliosog. Yn y cyfamser rheoleiddiwyd tri o gorwmau yn ychwanegol, sef y 37, 38, a'r 39

Cynnyddodd y mur allanol oddiamgylch y Deml gryn lawer er dyddiad ein Hepistol blaenorol, mae y gwaith maen a phridd feini wedi eu gorphen ar ddwy ochr a hanner, oddieithr y grib.

Mae y mur o gylch y Ddinas yn cynnyddu yn gyflym hefyd, a bwriedir ei orphen yn y tymhor presennol. Mae amryw o'r sefydliadau wedi diogelu eu hunain, drwy adeiladu amddiffynfau, etto arosa llawer i'w ei wneuthur. Mae yn bur ddymunol, ac erfyniwn ar y Saint na laesant eu dwylaw, ac na ddiffygiant yn eu hymdrechiadau hyd oni chwblheir eu hamddiffynfeydd. Er fod yr Indiaid yn heddychol yn awr, ac wedi bod felly er's rhai misoedd, etto, nid oes sicrwydd y parhant felly; o ganlyniad, anghenrheidiol yw er ein iachawdwriaeth dymhorol a heddwch y Diriogaeth, ein bod ni yn barod i gyfarfod ag unrhyw ymosodiad a ddichon ein cyfarfod. Nac ewch i'r Kanyons nac i unrhyw leoedd anghyfanedd yn unigol, lle y gall Indiaid ymguddio yn anweledig i chwi, heb yn gyntaf ddeall, drwy ymchwiliad, eich bod yn ddiogel. Ewch yn gwmniodd digon lliosog a chryfion i arswydo eich gelynion, ac yna, bydd llai o berygl iddynt ymosod arnoch. Felly, yn eich holl barotoadau bydd llai o anghen i chwi ymladd, myned ar orymdeithiau na goddef colledigion, os byddwch eisoes yn barod, ac yn gwbl alluog i amddiffyn eich hunain ar fynud o rybudd. Mewn enyd o ddiogi, diofalwch, neu ddifaterwch, y daw dinystr arnoch; "allan o olwg, allan o berygl," sydd ddiareb rhy ymgynnefinol. Dywedwn wrth yr holl Saint yn nyffrynoedd y mynyddoedd, yn enw Duw Israel, os na ufyddhewch i'r cynghorion ydych yn gael, a chyd-ymffurfio â dymuniadau eich arweinwyr, chwychwi a ddyoddefwch golled, yr hyn yw canlyniad naturiol anufydd-dod. Mŷn yr Arglwydd bobl a wnant Ei ewyllys, y rhai a gyd-ymffurfiant a'i ddymuniadau rhesymol. Os yn ewyllysgar, goreu oll; os nad yn ewyllysgar, gallant ddysgwyl cael eu ceryddu; canys ni oddefa yr Arglwydd ei ddirmygu

wedi iddo arllwys Ei fendithion o wybodaeth, yn ddiluw o oleuni drwy ddadguddio egwyddorion pur a santaidd, gwaredigaeth o ormes, a therfysgluoedd, a llwyddiant, heddwch, a llonyddwch anghydmarol.

O hyn allan ymroweh yn unfrydol i adeiladu eich amddiffynfeydd, amgauwch eich dinasoedd a'ch trefi, gwarchauwch a gwyliwch eich anifeiliaid a'ch meddiannau, cadwch eich drylliau a'ch arfau yn loewon, ac yn gyfleus i ddefnydd ar eiliad o rybudd, ac yna, wedi ymbarótoi fel hyn i gyfarfod â pherygl o bob cŵr, i amddiffyn eich hunain, gan ddyfal wylio am ymosodiad, os cyfarfyddwch ag Indiaid, byddwch garuaidd a chyfeillgar wrthynt; siaradwch a masgnachwch yn gyfiawn a chymmydogol â hwynt; ymdrechwch ennill eu hewyllys da, eu hadferyd o'u tueddiadau rhyfelawg, creulon, a lladronaidd, a'u sychedd am waed, ac i ymblesera mewn galwedigaethau gwareiddiol. Maent hwy fel ninnau yn nwylaw Duw. Gwnawn ein dyledswyddau a bydd pob peth yn dda. Ymdrechwn hefyd i achub ac nid dystrywio Israel, canys cyflawnir y Prophwydoliaethau o barthed iddynt. (*I'w barhau.*)

---

## SYLL'DREM AR Y BYD A'I "GRISTIONOGAETH."

Mewn amseroedd enbyd yn ddiau y cylch-droa ein byd bach ni yn awr—enbydrwydd ei awyrgylch, fel gwirf, a effeithiau ar golyddion ei breswylwyr—crea y bendro, nes, yn bendrist neu yn waedwyllt curant eu penau yn eu gilydd, o gŵr i gŵr o hono, o'eithafion cyffiniau rhewog Kamskatka, hyd eiriawg fynyddau Terra del Fuego, ac o China, India, Persia, Affganistan, Groeg a Thwrci, ffaglant eu drain o tan y crochan, nes y berwa ei hylyf dros ei ymylon, a pha wlad ni feddwir gan ei angerdd wenwynig! Os yw heddwch heb ei gymmeryd oddiar ein daear, dyweder yn mha gonglau o hono, mor ddyogel yr ymguddia! Mor ofer ein gwaith yn chwilio cyhoeddiadau yr oes—oraclau cyfoesol, hyd yn hyn am hanes ei breswylfod yn mhlith cenhedloedd y byd, ag yw i'r golygon chwilio am ei argoelion;—rhyfel, rhyfeloedd, a son am ychwaneg o ryfeloedd a ddarllenir yn mhob Newyddiadur; lladd llosgi, a llofruddio, gwyr, gwragedd a phlant, a dyfeisiadau newyddion i ddifrodi y bywyd dynol gyda mwy o gyflymdra yw yr hyn a dyna ein

cyiw a'r hyd y waliau, o'r pwlpudau, esgynlawriau, a'r cyhoeddiadau drwy'r byd! Nid o dramor, eithr yn nes adref, y merwinir ein clustiau gan helyntion a thrallodion Cristionogion, dyoddefiadau newynaidd tlodion, cwynfanau trancedigion gormes, a rhieni a'u plant wrth yr hanner dwsin, gwelir, yn ymdrybaeddu mewn gwaed diniwed, gwaith eu dwylaw eu hunain! O Gristionogaeth! Beth a wnaethost ar ol cael hir chwarae teg;—ai cyflafan fel hyn yw effeithiau dy fawr ymffrost, a'th sêl frwdfrydig? Ai i ddysgu ein hoes yn y gorchestion hyn y cefaist gynnifer o filiynau o aur, ac arian i dreio'th law i lywodraethu byd? Ai at ddysgu ein gwlad y fath chwareuaeth yr adeiladwyd cynnifer miloedd o'th chwareudai, ac yr addurnir dydi a'th "Offeiriaid dyngarol" a goreuon gloddestion gwlad? Ai i'r dybenion hyn y cefaist ddylanwad fel ffrwd lifeiriol ar boblogrwydd dy ufyddion? Beth yw yr ateb? Pwy ai dywed? Beth! ai effeithiau eu hanufydd-dod iti yw hyn? Felly, ni rwystraist hwynt o leiaf, eithr cynnyddant gyda'th gynnyddiant, a lliosogant yn gyfartal i liosogiad dy offeiriaid a'th allorau! A'i ni elli eu rhwystro? Yna i ba beth yr ydwyt dda—y'th gynnelir ar y fath fawr gost, nac y'th addolir, ac yr ymffrostir ynot? Gan na wnaethost well trefn ar ol cael cannoedd o flynyddoedd o bob cymhorth a ofynit, beth a addawi wneuthur pe caffit einioes hwy? Os na elli ddwyn dy hudolion mwyaf penboethaidd i heddwch â'u gilydd, pa fodd yr heddychi elynion, teyrnasoedd, gwledydd—byd, i'r cyflwr ag y proffesi ei fod yn hanfodol i'th amcan?

Nid y'm yn dy gyhuddo o fod yn achosydd o'r gyflafan nac o'r dirywiad mewn moesoldeb a gynnydda gyda'th rwysg, digon drwg y cyhuddiad anwadadwy, na rwystri mo hono, ac nad wyt yn ei leihau. Os gelli, cyfranog o hono ydwyt am beidio! Os nad elli, ragrithreg wyt am broffesu y gelli tra heb ddechreu hyd yn hyn i ddwyn y ffrwythau! Beth pe buasai rhyw gelfyddyd, peiriant, neu gyfyndrefn arall, er yn llai ei hymffrost na thydi, wedi bod mor aflwyddiannus mor hir amser â thydi? Oni ddaroganid hi gan grytied ein heolydd er's llawer o amser bellach, am y ddyfais groesaf i'w phroffes a fu erioed, ac oni chywilyddiasai ei dyfeiswyr bellach, na'u hachau ar eu hol, ag addef y fod iddynt ran na chyfran yn y

fath ysgelerbeth? Diau mai felly y buasai,—ac wele yn wyrthiol, dan wadu gwyrthiau, dyrchafi di binaclau dy demlau i'r nef, yn gofadail o'th fodoldeb o hyd, yn ddigon digywilydd,—lliosogi dy allorau, a'th offeiriaid, a'th aberthau, fel pe byddit yn bwriadu byw yn hen ac yn frâs, ac i'th olaf ran fod y goreu o'th deyrnasiad; ond gwybydd hyn y fod gwaed dy ebyrth dynol yn rhuddio marmor loriau y llys a'th farna,—dy falchder a'th anymddibyniaeth ar ffynnonell darddiadol GWIR Gristionogaeth, a'th ymddiriediad yn dy egwan fraich ac awch dy hir-gledd a'th dwylla mewn awr o gyfyngder, ac ni'th waredir gan yr Hollalluog fraich a ddiystyri, griddfanau dy drancedigion nid esgynant i'w glustiau Ef yn hwy i deilyngu ei dosturi; canys cauaist, ïe, a *seliaist* y nefoedd â'th *gredöau* rhag iddo lefaru wrthyt; ni fyni ei gyfraith, eithr gwawdi ac erlidi ei genhadon hedd, gan drochi'th ddwylaw mewn cerwin lle y'th foddir yn eigion ei chrombil ddihysbydd, pan y rhoddir i ti yn ddogn, "waddod y cwpan erchyll" a'i lanwaist i ereill! O "Gristionogaeth!" er dy rwysg a'th fawredd, gostwng dy glust uchel yn îs a gwrandaw air o wirionedd, sef dy dynghed, gwna a fynnot â'r oll a'th addolant,—fel maen melin i'r môr y bydd dy angladd onid edifarhei, a'th garwyr cyfoethocaf, a'th foethasant fwyaf fydd dy gaseion, pan y dynoetha Duw, dy wrthwynebydd, dy noethni ac echryslonrwydd dy draws-weithredoedd, a'th elyniaeth yn erbyn y *wir* Gristionogaeth,—y Gristionogaeth wreiddiol a adferodd Efe i'n daear, yn halen i'w halltu lle y peraist ti ddrewdod, yn oleuni i'w oleuo rhag y dudew gaddug â'r hwn yr amdoaist ti ef, ac yn edfrydydd i'w hufyddion o'r truenusrwydd a ddygaist ti arnynt, ac yn rhagflaenol i'r tân a ddifa—i'r pläau a ysant,—y rhyfeloedd a laddant —yr heintiau a'r ffrewyllau a ysgubant dy addolwyr anedifeiriol di oddiar dy chwareulawr, i wneyd lle i'w gwell, ac i ddwyn heddwch o'r diwedd i'th druenus ddyoddefyddion a'i derbyniant.

Dyma'th olynydd—a gwblhâ dy ymffrostwaith, a dry y cleddyfau yn sychau, ac a ddwg heddwch fel yr afon, ac a wna y "mawr-waith yn fyr mewn cyfiawnder." Hon yw hi!

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

DYDD SADWRN, GORPHENAF 8, 1854.

Cynghor Cyffredinol yn Llundain.—Yr ydym newydd ddychwelyd o Gynghor a gynnaliwyd, o awdurdodau yr Eglwys yn Mrydain, a'r cenhadaethau cyfunol, a gynnaliwyd yn Llundain a'r y 26, 27, a'r 28 o Fehefin, yr Henuriad F. D. Richards, yr hwn sy newydd dirio o Ddinas y Llyn Halen Mawr, yn Llvwyddu. Ymgyfarfu yr holl Henuriaid American-aidd, Bugeiliaid a Llywyddion Cynnadleddau drwy Frydain, Ffrainc, &c., oddieithr Cymru, nid oedd ond pump oddiyma. Gan y cyhoeddir y mesurau a drefnwyd yno, cyn hir, ni raid i ni fanylu, a chan fod ein llawenydd o weled cynnifer o'n hen gyfoedion, yn gydweision. drwy bwys a gwres y dydd, yn orlawn o'r Ysbryd Glân, a'r fath lwyddiant ar eu llafur, yn annhraethadwy, nid anturiwn ei ddesgrifio yn awr; ond dywedwn, Anwyl Saint, ymgalonogwn, y mae Duw o blaid Ei waith ; y mae yn dadguddio Ei ewyllys i'w blant; ac y mae yn llenwi llestri Llywyddion Seion â doethineb oddifry. Prawf pob nodwedd o ysgogiad y deyrnas agosrwydd coroniad ei Brenin ; ac y mae dyddordeb yr egwyddorion mawreddog a ddadguddia Duw i'w Eglwys, megys hauliau drwy ei hawyr-gylch yn ddilynol i gysgodau eu gilydd yn profi mai rhagredegwyr ydynt i Haul mawr y Cyfiawnder,—mai "goleuni yn yr hwyr" ydynt i oleu Ei ffordd o'i flaen, i gynnyddu goleuni y cyfiawn fwy-fwy hyd ganol dydd, ac i amlygu trawster a thrythyllwch coel-grefyddol gwrthodwyr y gwir oleuni. O'r nefoedd dysgkaeria goleuni i Seion yn llin ar lin, gogyfer a'u hanghen, a'r olaf y w y melysaf o hyd genym ni. Ymbarotoed y Saint eu calonau i dderbyn baich yr Arglwydd iddynt yn yr Epistol Cyffredinol a ddechreuir yn y rhifyn hwn, ceir chwaneg o hono yn y nesaf. Ymadawa eindiweddar hybarchus Lywydd S. W. Richards tua Seion ynmhen ychydig ddyddiau, wedi ennill cymmeradwyaeth

glodadwy gan y nefoedd, a chan ei holl frodyr, drwy ei ffyddlondeb yn ngwaith yr Arglwydd; gwynt teg a byrdaith a gaffo, a phob croesaw i Seion. Cawsom orfoledd mawr yn y gwmniaeth rag-grybwylledig, a theimlwn ei rhinweddau yn symbylu ein hysbryd i ymdrechu yn ngwaith yr Arglwydd fwy-fwy, a dysgwylied y Saint yn hyderus weled gallu Duw yn amlycach o ddydd i ddydd ar ei hol, drwy y wlad, a dysgwylir miloedd cyn hir i deyrnas ein Duw yn adnewyddol.

Y "Star."—Hysbysa y Llywydd F. D. Richards, os oes gan Lywyddion Cynnadleddau fwy o gyfrolau cyfain o'r *Star* ar law nac a allant werthu, ar ol pob ymdrech ddyladwy, y pryna efe hwy ganddynt ar ddiwedd y gyfrol hon; nad dyben yr Eglwys yw cyhoeddi llyfrau i fod yn faich nac i orwedd yn segur.

Eithr sylwer, na chymmer yn ol ond cyfrolau cyfain, a'r rhai hyny, bob rhifyn o honynt yn lân, ac heb eu tori na'u darllen. Ac hydera na chymmer neb y fantais ar ei haelioni presennol drwy gasglu *odd* rifynau er mwyn gwneyd cyfrolau i'w trei yn ol; eithr ymdrecher i werthu yr *odd* rifynau, ac i dalu yr hen ddyled i'r swyddfa.

Hysbyser swyddfa y *Star* yn ddioed pa sawl cyfrol yn ormodol sydd yn dyfod iddynt, a chaffant gyfarwyddyd etto beth i wneuthur â hwynt.

Yr Udgorn.—Cynnydda ein hofnau na chaniatâ ein hiechyd i ni barhau i gyhoeddi yr Udgorn yn wythnosol, a chyflawni yr holl ddyledswyddau pwysig ereill sydd yn gorphwys ar ein hysgwyddau, lawer yn hwy, oddieithr i ni gael cynnorthwy ffydd ereill, heblaw ein hunain, a nerth yr Arglwydd yn helaethach i'n galluogi; os metha ymweled a'i ddarllenwyr bob wythnos, na ddigier wrtho, canys ei bleser fyddai dyfod; etto, daw mor fynych ag y gall. Mewn atebiad i ddymuniadau mynych ein derbynwyr, dywedwn ein bod yn cydsynied mai doethach fyddai cael traethodau i'r byd wrthynt eu hunain, nag yn yr Udgorn, yr hyn fydd ein hamcan, oddieithr ambell ddyfyniad. Dymunem gadw pris yr Udgorn i lawr hyd y gallwn, am hyny anfoner gwybodaeth, pa nifer yn chwaneg a gymmerir o hono pe a delai allan ond bob pythefnos?

Ein diolchgarwch gwresoccaf i'r holl Lywyddion Cynnadleddau, am yr atebiadau prydlon a roisant i'n galwadau am

gyfrifon y Cymdeithasau, a'r cynnrychioliad hanner blynyddol, —nodwedder ein holl lywodraethiad dyfodol a'r cyffelyb hefedredd!

*Dyledion am Lyfrau.*—Cyhmared pob Llywydd ei gyfrifon â'r daflen ganlynol o ddyledion, a mŷned weled fod gwerth yr arian hyn o lyfrau ar law. Os oes camsynied hysbyser ni yn ddioed. Ymdrecher troi y gweddill yn arian mor gynted y bo modd.

Hyderwn mai yr ymdrech clodadwy a wnaed yn ddiweddar i ddosparthu traethodau er goleuo y byd, ac nid unrhyw esgeulusdod i dalu, a achosa y cynnydd yn y ddyled y chwarter hwn ar y chwarter blaenorol. Da y fod,—*dylai* fod amrywiaeth ar law pob Cangen er diwallu pob galwad yn brydlon—gofal teilwng o honynt, ac ymroad unfrydol i'w dosparthu a goreuir â llwyddiant mawr ar achos y Gwaredwr yn ddiau. Esiamplau gofidus o'r hyn a ddygwyddasant yn ddiweddar a'n cymhellant i annog y Llywyddion i lygadgraffu ar fasnach y Llyfrau drwy eu holl ddosparthwyr! Awgrymiad i'r doeth sydd ddigonol!

Yr Ymfudiad.—Bydd yr hysbysiad am sefydliad ymgasglfanau yn y Taleithiau, o ddyddordeb mawr i'r Saint Cymreig yn ddiau, o herwydd yr hwylusa ymfudiad llaweroedd a allant fyned hyd yno, ag na allant fyned yn mhellach a'r unwaith; a dengys fawr ofal Llywyddion yr Eglwys am leshad y Saint, a'u hymdrechiadau diflino i'w casglu i ddiogelwch cyn dyfod y dyddiau blin. Pwy na ddiolchai am y fath dadau dyngarol i'w gyfarwyddo, ac i Dduw am gyflwyno iddynt y fath ddoethineb a rhagofal dros ei eiddo! Ein pleser a fo ufyddhau i'w cyfarwyddiadau.

Na feddylier fod y manau a nodwyd yn y Taleithiau, i fod yn "Ddinas barhaus" i'r Saint yn bresennol chwaith, nid yw yr amser dedwydd ag y caffant etifeddu swydd Jackson a'r gysegrfan addawedig i'r "ddinas nefol," &c., eisoes wedi dyfod, er ei fod wrth y drws, namyn rhoddi cyfleusterau i'r Saint i ennill modd yn gyflymach i ymgasglu i ddyffrynoedd y mynyddoedd. Nid yw y plân wedi puro, na'r ysgubellau dwyfol wedi glanhau y wlad hono yn ddigon santaidd iddynt etto, ac nid yw y Saint wedi dysgu ufyddhau i'r gyfraith nefol yn ddigon manwl i weled Seion wedi ei hadferyd yn ei phrydferth

wch a'i santeiddrwydd hanfodol hyd yn hyn; o ganlyniad, yr anghen iddynt ymgasglu i'r ysgol barotoadol i'r cyfnod anghydmarol hwnw, yn y fan lle y ceir y ddysgeidiaeth anhebgorol o'r nef yn llin ar lin, o ras i ras ac o nerth i nerth i deithio ffyrdd santeiddrwydd; o herwydd hysbys yw mai y pur ei ddwylaw ar glan ei galon yn unig, a breswyliant ar fynydd Seion, yr hwn a ddysgwyliwn.

Na fydded y brodyr a'r ormod o frys i ymfudo etto, canys nid ar frys cofiwn, eithr yn weddaidd ac mewn trefn y caria Duw y gyfran ymfudol o'i waith yn mlaen hyd yn hyn. Mae yn debyg y cyfnewidir y ffordd dros y môr yr ymfudiad nesaf, o leiaf i'r rhai a ddewisant fyned i'r sefydliad yn Ohio; nid yw y brodyr wedi cyrhaedd yno hyd yn hyn, a gofynir iddynt gael eryn amser i barotoi gogyfer a derbyn a llochesu yr ymfudwyr a'i cyrhaeddant, felly ymdaweler hyd oni chawn gyfarwyddiadau i hyny, yr hyn a addawir i ni yn brydlon oddiwrth y Lywyddiaeth Brydeinig, a throsglwyddir hyny drwy yr Udgorn yn ei bryd; hyd oni cheir y galwad, ymbarotoer drwy rybuddio, a thystiolaethu i'n cyd-genedl, drwy esiamplau teilwng, traethodu, pregethu, a phob modd a ellir.

Hefyd, ni ddylai neb ddysgwyl cymmeradwyaeth i ymfudo hyd oni fyddant wedi cyflawni eu haddunedau Eglwysig, am lyfrau, &c., a myned yn lân, fel na rwystrer gwaith ein Duw ar ol eu hymadawiad. Y rhai sydd ar frys i fyned a ddylent ddangos hyny drwy eu gweithredoedd ymbarotoadol!

---

## Y NEWYDDION DIWEDDARAF O UTAH.

Y 27ain o Ebrill yw dyddiad ein hyfforddiadau diweddaraf o Diriogaeth Utah; mwynheid iechyd da drwy y gwahanol sefydliadau, gyda ambell eithriad anfynych, megys ein hybarch Batriarch John Smith, yr hwn a deimlai bwys henafiaeth yn ei yru yn gyflym tua therfyn einioes hirfaith o ddefnyddioldeb a llawn o hynodrwydd y dyddiau diweddaf; ac fel Jacob gynt hiraethau ein hen Batriarch am gael huno gyda'i dadau, a gorphwys eu ben ar fynwes ei dad Abraham. Gwneir ymroadau nerthol i hau mwy o lafur nag erioed, ac i yru amaethyddiaeth yn ei holl ganghenau hyd gyffiniau dyffrynoedd breision Ephraim, a'i gorfodi i ddwyn lluniaeth i'r miloedd dyfodol, o blant Seion, y tymhor

hwn. Adeiladau a welid fel y *mushrooms*, o bob maintioli yn neidio o'u seiliau i fodoldeb yn mhob cŵr, hyd nes yr oedd nwyfau i adeiladu, ac adeiladwyr yn brin iawn, a'u cyflogau yn uchel. Yn gyferbyniol i gynnydd ffydd a duwioldeb y preswylwyr, y cynnydda y cawodydd ireiddlon o gynnar wlaw ar eu dolydd a'u gwinllanoedd, yr hyn sydd o fawr fendith i'r wlad oedd gynt yn grasdir o anghen gwlaw, a rhan fawr o'r hon ni ellid ei dyfrhau o'r afonydd. Prawf arall yw hyn o ofal Duw dros ei eiddo. Dechreuwyd adeiladu Cynghor-dŷ newydd ar gongl ogledd orllewinol rhandir y Deml. Mae y peiriant i wneyd siwgr yn bur lwyddiannus, o dan arolygiaeth yr Esgob A. O. Smoot; rheoleiddiwyd gwarcheidwadaeth newydd iddo, o'r enw Tŷ Siwgr.

Sefydlodd y Llywydd Young seiliau dinas newydd, a'r rhandir i adeiladu ynddi yn hanner erw yr un; gorwedd hon tua deg milltir i'r gogledd o ddinas y Llyn Halen Mawr, ond nid yw wedi ei henwi etto. Cychwynai y Llywydd ar ei ymweliad blynyddol â'r holl sefydliadau dehenol yn gynnar yn Mai. Bwriadai yr Henuriaid Woodruff, Smith, Benson, ac E. Snow, ynghyd, ag ni wyddys pwy arall, ei ganlyn ef. Penodwyd i P. P. Pratt i sefydlu ymgasgl-fan yn California Uchaf, yn, neu yn agos i St. Jose. Awdurdodwyd Orson Pratt ac Orson Spencer i sefydlu ymgasgl-fan i'r Saint yn Ohio, gerllaw i Cincinatti. Dysgwylid i'r Henuriad Spencer fyned yno, a dechreu ar ei orchwyl yn ddioed. Tebyg y treilia Orson Pratt y gauaf dyfodol yn Utah, ac ymuna ag Orson Spencer yn y gwanwyn. Anfonwyd Erastus Snow i sefydlu ymgasgl-fan arall gerllaw i St. Louis. Yr Henuriad Milo Andrews a lywydda yn St. Louis o dan arolygiaeth yr Henuriad Snow. Anfonwyd Cyrus H. Wheelock, James Ferguson, W. C. Dunbar, a naw ereill ar genadiaeth i'r Ynysoedd Prydeinig; deunaw ereill i'r Unol Daleithiau; ugain i ynysoedd y Môr Tawel, a thri i Ogledd Amerig.

Yn Manti, adeiladid amddiffynfa newydd yn amganad trugain erw ond un, o feini ac *adobies*, i fod yn 8 troedfedd o uchder. Yr oedd yr ochr ddwyreiniol wedi ei gorphen yn gynnar eleni, a chyfran helaeth o'r ochrau ereill. Yr oedd dwy felin, un i falu a'r llall i lifio coed oddifewn i'r ddinas. Bwriadai hanner cant o deuluoedd o Manti ymsefydlu mewn lle o'r newydd, a elwir Pine Creek, chwech milltir i'r deau; adeiladent amddiffynfa yno, a'r borfa yn rhagorol o dda.

Ymsefydlodd amryw deuluoedd yn y Cotton Wood, deg milltir i'r gogledd; yr oeddynt eisoes yn byw yn eu hamddiffynfa, ac yn llafurio y ddaear â'u holl egni. Ymddygai yr Indiaid yn bur gyfeillgar,—amryw o honynt yn ymweled â'r sefydliadau. Migo, un o brif flaenoriaid y tylwyth a laddasant y brodyr yno, a anfonodd bump o'i ryfelwyr i'r ddinas i geisio heddychu â hwynt ar y 5med o Chwefror; yn ganlynol i hyn daeth Migo a'i fyddin i Manti yn bur gariadus, a dywedai iddo gael breuddwyd, yn yr hwn dywedodd yr Arglwydd wrtho, am beidio ymladd yn erbyn y "Mormonis," eithr am iddo heddychu â hwynt; a dangosodd fodrwy a wnaethai ar ei fraich i'r dyben o'i goffhâu o'i freuddwyd.

---

## LLYTHYR YR HENURIAD ROBERT PARRY.

*Trevor, Mai* 20, 1854.

Anwyl Lywydd Jones.—Nis gallaf foddhau y bobl hyn heb ysgrifenu i'ch hysbysu eu bod oll yn cofio attoch, Griffiths, Llanfair, Talhaiarn, Brooks y Lighthouse, amrai o Mostyn, Edwin Price, ei wraig, a'i fam, ynghyd a'r cyfeillion yn Fflint a Bagillt, yr oll o honynt, fel y gwnaeth llawer, llawer, llawer ereill, ddweyd yn barchus iawn am danoch; ac yr wyf yn ymlawen hau mewn cael cyfleustra i ddweyd wrthynt y llawer, o bethau da a welais ynoch.

Yr oedd y gynnulleidfa prydnhawn ddoe yn fawr. Y mae un pregethwr perthynol i'r Annibynwyr wedi addaw cymmeryd ei fedyddio. Gan nad oes genyf ammheuaeth am eu cywirdeb, mentraf ddweyd, y bedyddir llawer yma. Dywedais wrthynt mewn atebiad i rai gofyniadau, bod ein heglwys ni yn rhagori ar bob un arall, nid yn unig yn yr amrywiol ddoniau ysbrydol, ond hefyd yn yr effeithiau a achosir ganddynt, megys dynion duwiol, undeb, cariad, a gwneyd daioni gyda baelioni, fy mod wedi gweled mwy o gariad brawdol yn yr eglwys hon, yn ystod chwe mis, nac yn y ddwy flynedd ar bymtheg a berthynais i'r Annibynwyr, a bod yr ychydig ddiffygiadau a welais mewn unrhyw o'r brodyr, ddim ond megys cysgod darlun enwog, yn dangos y llun gyda chynnorthwy mwy hy.

Myned yn mlaen y mae daioni gras; Ysbryd Duw sydd rymus ar yr ychydig Saint; ymddenys i mi mai dyn da yw John Parry.

mawr y cariad sydd rhwng y brodyr; a boddhaol hynod genyf finnau ydyw fy mod yn cael cystadl cyfleusdra i wneyd daioni i'm cyd-greaduriaid. Bendith y nefoedd fawr a selio ei gwaith ynom, a thrwyddom ni. Dyweded wrth y Gogledd na attal dy law.

Mae y Saint oll yn eich hoffi yma, ac yn dywedyd pethau da am danoch. * * * *

Yr Arglwydd a barhao i'ch cysuro; y cynnydd mawr ar achos y gwaredwr a fyddo eich gwledd a'ch gorfoledd, a llwydded yr oll a wneloch er gogoniant i Dduw. I lawr a'r gelyn, i fyny a Christ, troedigaeth i bechaduriaid, llawenydd i Cadben Jones, calondid i'n pregethwyr, a mawl i'n Duw!

Eich ffyddlon,

ROBYN DDU, ERYRI.

## MYNEGIAD CYFRIFIADOL.

O EGLWYS IESU GRIST O SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF YN NGHYMRU, AM YR HANNER BLWYDDYN YN TERFYNU MEHEFIN 30, 1854.

LLYWYDD.
Dan Jones.

CYNGHORWYR.
Thomas Jeremy, Daniel Daniels.

| | *Cynnadl.* | *Cang* | *A.* | *H.* | *O* | *Ath.* | *Di.Tor* | *Ma* | *Ym* | *Bed* | *Oll.* | *Llyw.* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Morganwg Ddwyr. | 32 | 2 | 266 | 94 | 103 | 65 | 136 | 32 | 98 | 160 | 1887 | D. Jones | |
| Sir Fynwy..... | 19 | 0 | 83 | 28 | 29 | 21 | 38 | 2 | 28 | 86 | 578 | T. D. Giles | |
| Morganwg Orllew. | 18 | 0 | 62 | 35 | 22 | 14 | 35 | 1 | 24 | 38 | 462 | R. Evans | |
| Llanelli..... | 10 | 0 | 58 | 16 | 7 | 15 | 12 | 4 | 42 | 24 | 288 | D. E. Jones | |
| Dean Penfro .... | 13 | 0 | 31 | 7 | 6 | 8 | 6 | 3 | 7 | 8 | 210 | John Price | |
| Sir Gaerfyrddin .. | 6 | 1 | 24 | 12 | 6 | 5 | 4 | 1 | 13 | 7 | 157 | Thos. Jones | |
| Sir Frycheiniog .. | 7 | 0 | 25 | 10 | 6 | 7 | 5 | 2 | 0 | 15 | 151 | T. Morgan | |
| Sir Ddinbych .... | 5 | 0 | 17 | 6 | 6 | 2 | 0 | 1 | 6 | 13 | 125 | John Parry | |
| Sir Fflint ..... | 5 | 0 | 19 | 5 | 5 | 2 | 5 | 0 | 6 | 8 | 115 | John Jones | |
| Sir Aberteifi ..... | 5 | 0 | 15 | 5 | 3 | 2 | 1 | 2 | 10 | 11 | 113 | J. Evans | |
| Dyffryn Conwy .. | 5 | 0 | 19 | 11 | 4 | 4 | 2 | 2 | 0 | 6 | 99 | R. Roberts | |
| Sir Feirionydd.... | 6 | 0 | 17 | 8 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 76 | J. Davies | |
| Gogledd Penfro .. | 4 | 0 | 14 | 5 | 2 | 2 | 4 | 0 | 2 | 0 | 57 | David Rees | |
| Cyfanswm.... | 135 | 3 | 652 | 242 | 201 | 148 | 218 | 50 | 236 | 378 | 4318 | | |

## AMRYWIAETHAU, &c.

MAE Cangen o Eglwys Iesu Grist, cynnwysedig o amryw Henuriaid, a phedwar o Offeiriaid, wedi cael ei sefydlu yn ddiweddar yn Scutari yn Twrci, canol maes y rhyfel presennol,

ar unig addoldy y gallai y brodyr ymgasglu iddo oedd un o Fonwentydd y Twrciaid! Mor bêr yr adleisiai iaith angylaidd a'r doniau ysbrydol, yngherrig beddau y Twrciaid Mahometanaidd! Cyfenwasant hi "Cangen y Gatrawd rhyfelgyrch." Cyffroisant cryn ymchwiliad i'r grefydd, a gobeithient fedyddio yn fuan. Duw y gwaith o'u plaid a fo ac a lwyddo eu hymdrechiadau.

---

DYLEDION AM LYFRAU ODDIWRTH Y CYNNADLEDDAU A'R CANG. ENAU, AM Y CHWARTER YN TERFYNU MEHEFIN 30, 1854.

*Cynnadleddau*—Sir Fynwy, £46 9s 11¾c; Sir Frycheiniog, £2 19s 11; Gorllewin Morganwg, £107 6s 9¼c; Llanelli, £33 0s 6c; Caerfyrddin, £12 16s 2½c; Sir Aberteifi, £13 15s 11c¾; Sir Feirionydd, £10 12s 9½c; Sir Ddinbych, £20 5s 2¾c; Gogledd Penfro, £4 13s 3¾c; Sir Fôn, £12 18s 9¾; Sir Fflint, £21 3s 6½c; Dyffryn Conwy, £10 14s 3¾c; Cangen Cymraeg Lerpwl, £1 19s 4¼c; Swyddfa Lerpwl, £1 2s 11¼c; *Cangenau Dwyr. Morganwg*, Pendeulwyn, 12s 8¾c; Twynyrodyn, 17s 0c; Eglwys Newydd, £2 1s 1½c: Pontfaen, £1 17s 0¾c; Caerdydd, £8 8s 10; Dinas, 16s 5; Pontypridd, £2 8s 10c; Llanelltid, 12s 9¼c; Llanfabon, £1 2s 10; Aberdâr, £16 3s 2c; Aberammon, £7 12s 1½c; Cap Coch, £2 8s 11c; Dowlais, £9 6s 4c; Hirwain, £2 0s 0½c; Cwmnedd, £2 2s 8½c; Rymni (Cymraeg), £1 18s 4½c; Georgetown, £2 2s 5¾c; Merthyr, 10 11s 3c; Pendaran, £7 7s 0c; Cefn, £5 13s 10½c; Gwernllwyn, £2 5c 11½c; Ffynon Tydfil, £6 12s 3½c; Troedyrhiw, £2 6s 10c; Cwmbach, £8 19s 7c; Twyn Carno, £1 6s 1½c; Trefforest, 6s 9c; Ynysgau. £1 7s 6½c; Llandaff, £1 14s 6¾c; Cog, 13s 7½c; Rymni (Saes.), 12s 11c; Gellyfaelog, £2 2s 2c; Aberdâr (Saes.), £1 13 5c; Personau, £2 3s 5¾c.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O MEH. 21 HYD 30.—Sir Fflint, £2 0s 0c; Gogledd Penfro, 9s oc; *Cangenau Dwyr. Morganwg*, Pendenlwyn, 6s 0c; Caerdydd, £1 10s 0s; Dinas, 3s 0c: Pontypridd, 10s 6c: Aberamman, 5s 0c; Rymni, 18s 9½c; Georgetown. 4s 4c; Merthyr £1 0s 4c; Cefn, 18s 6c; Gwernllwyn, 12s 0c; Troedyrhiw, 8s 1c; Cwmbach, 12s 11c.

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Yr Unfed Epistol Cyffredinol ar ddeg &c | 389 |
| Syllwtem ar y byd a'i Cristionogaeth | 364 |
| Golygyddiaeth—Cynghor Cyffredinol yn Llundain—Y Star—Yr Udgorn —Dyledion am Lyfrau—Yr Ymfudiad | 397 |
| Y Newyddion Diweddaraf o Utah | 400 |
| Llythyr yr Henuriad Robert Parry | 402 |
| Mynegiad Cyfrifiadol | 403 |
| Amrywiaethau, &c | 403 |


---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 26.] GORPHENAF 15, 1854. [CYF. VII.


## UNFED EPISTOL CYFFREDINOL AR DDEG PRIF LYWYDDIAETH EGLWYS IESU GRIST, SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF,

*At y Saint yn Nyffrynoedd y Mynyddoedd, ac at y rhai sydd ar wasgar drwy y ddaear.*

[Parhad o dud. 394.]

EISTEDDODD y Senedd Diriogaethol yn Nhaleith-dŷ y ddinas hon, ar y 12fed o Ragfyr; ac wedi treilio y cyfnod arferol, gwneuthur cyfreithiau perthynol i wahanol amgylchiadau, a mabwysiadu amryw ddeisebau a fwriedid anfon i'r Prif Senedd-dŷ, ymadawsant, wedi cwblhau yr oll a ddygwyd ger eu bron.

Yn mhlith y cyfreithiau pwysicaf a wnaethant, ceid y "Gyfraith a hyffordda o barthed i dir porfa a bugeiliaid," a'r gyfraith a awdurdodai i wneuthur camlas o arllwysiad Llyn Utah hyd i'r Llyn Halen Mawr, yr hyn bellder sydd tua 40 o filldiroedd, a'r hwn wedi cael ei gwblhau, a ddyfrha amryw filoedd o erwau o dir da, yr hwn a fuasai braidd yn ddiddefnydd heb hyny.

Anfonodd y Llywodraeth ddeiseb i'r Senedd hefyd, am gael cledrffordd wladwriaethol yn groes i'r cyfandir: ar yr 21ain o Ionawr, cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Tabarnacl; ymgasglodd lliaws, yn frwdfrydig a phenderfynol; cymmeradwywyd deiseb y llywodraeth, ynghyd ag amrywiol benderfyniadau ac erthyglau arddangosiadol o'u teimladau mewn cysylltiad â'r pwnc dyddorol hwnw.

Mae y gyfraith berthynol i fugeilio yn bwysicach i ni fel

pobl, o herwydd fod cyfoeth naturiol ein gwlad, yr hyn sydd yn gynnwysedig mewn porfäu, yn gymhelliadol i ymroadau mawrion i fagu anifeiliaid. Lleinw hyn ein dyffrynoedd â minteoedd ac â diadellau, y rhai wrth grwydro yn rhy fynych, heb ofal drostynt, ydynt yn agored i fyned ar goll, ac i gael eu lladrata gan Indiaid neu ladron gwynion; ac o ganlyniad, byddant, nid yn unig yn golledig i'w perchenogion, eithr hefyd, ffurfiant demtasiwnau i'r brodorion, y rhai ydynt yn hollol anwybodus, heb wybod gwell na chyflawni drwg-weithredoedd. Er ys oesoedd a chanrifoedd credasant hwy, a dysgasant i'w plant, mai bod yn llwyddiannus i yspeilio, lladrata, ac i ryfela yw y llwybr i ogoniant, a'r ffordd i enwogrwydd ac i allu. Pa fodd y gallwn ddysgwyl iddynt ymattal, pan y caffant gyfleusdra, rhag cymmeryd ein hanifeiliaid? Ymddygwn yn ddoeth, a gofalwn am ein hanifeiliaid a'n heiddo, ac na themtiwn hwynt i'w cymmeryd, drwy roddi iddynt gystal cyfleusterau, drwy beidio eu gwarchau na'u bugeilio. Canys yr ydym fel pe yn taflu temtasiwnau anorchfygol ar eu ffordd.

Ar y 9fed o Hydref, llosgodd yr Indiaid chwech o dai ar yr Aber Uchel; ar y 23ain cyrhaeddodd y newydd o eu bod wedi llosgi melin lifio gerllaw i Manti; ac ar y 6fed o Ionawr llosgwyd i'r llawr y lle a elwid sefydliad Allred, yr hwn a adewsid yn annhrigiannol.

Lladratawyd tua 80 o anifeiliaid o'r Spanish Fork ar y 26ain a Chwefror, ac o sefydliadau Springville.

Dyma y difrodiadau diweddaraf a glywsom am danynt. A dywedwn yn awr, mai esgeulusdod, anufydd-dod i orchymynion, diofalwch, neu ddifaterwch i'r cynghorion a roddwyd o bryd bwy gilydd, a achosodd bob difrodaeth Indiaidd yn ddieithriad. Frodyr, pa bryd y byddwch ddoeth, ac y rhodiwch lwybrau doethineb? A raid yn gyntaf eich dinystrio yn debyg i'r Nephiaid, neu ynte, a wrandewch ar gynghor mewn pryd i achub eich hunain a'ch teuluoedd, eich mintêoedd a'ch diadellau rhag dinystr?

O herwydd derbyn yr hysbysiad fod yr Indiad, Walker, yn teimlo yn bleidgar ac yn dymuno heddychu â ni, aeth yr Uch Gadben Bedell, Dirprwywr Tiriogaethol dros yr Indiaid, a'r Cyfleithwr Huntington, tua Fillmore, y fan a nodwyd ganddo ef a'i dylwyth i'w cyfarfod, ac a wnaethant gyfammod o hedd

â hwynt. Eithr na sïed hyny neb i gysgu mewn gau ddiogelwch, o'r hwn eu deffroir gan ryfel-ysgrech yr anwariaid.

Deallasom hefyd ddarfod i ryw Indiaid cyfeillgar o Pet-teetnete, lwyddo i adferyd yn ol 25 o benau o'r anifeiliaid a ladratesid o'r Spanish Fork ar yr 28ain o Chwefror; lladdesid y lleill.

Dyledus yw dweyd y cyflawnwyd llawer, mewn gair, braidd yr oll o'r ddifrodaeth hyn yn absennoldeb Walker ac Arrowpine, heb eu cenad, ac yn ddiarwybod iddynt. Hysbys fod ei deimladau ef yn rhyfelgar, eithr yr oedd llawer o'i wyr yn fwy felly, ac anmhosibl oedd iddo eu rhwystro yn hwy.

Nid Walker na'i wyr a laddasant y Cadfridog Gunnison a'i osgordd, eithr tylwyth arall o'r Utahs, a elwir y Pahvantes, â'r rhai nid oedd ganddynt gyfrinach y pryd hwnw, ac nid oeddynt wedi bod yn gyfeillgar â hwynt cyn hyny, er eu bod ar yr un amser ag y dygwyddodd y galanastra alaethus hwnw, yn ymgasglu ynghyd yn barotoadol i ymosodiad ar sefydliad Fillmore, mewn dialedd arnynt hwy, o herwydd i orymdaith o ymfudwyr a aethant drwy eu gwlad ychydig ddyddiau cyn hyny ar eu ffordd tua Chalifornia, ladd un o'u gwyr hwynt.

Bu yr Henuriad George A. Smith yn bur ymrous yn ystod y ddifrodaeth Indiaidd ddiweddar; ac i'w ddylanwad a'i ymdrechiadau diflino ef y cyfrifir y cyflawniad amserol a grymus o'r mesurau hyny a osodasant y sefydliadau mor fuan mewn diogelwch, mewn cyffelybiaeth. Yn awr, gobeithiwn yn ddiffuant, ac ymddiriedwn yr ennillant drwy wersi y tymhor mynedol, ac nad ymadawant etto, oddiwrth y cyfarwyddiadau ag y dysgodd eu profiadau iddynt mor eglur, eu bod yn gyflawn o ddoethineb, a'u bod er eu hamddiffyniad a'u diogelwch.

Cawsom gnydau da o ŷd ac o lysiau yn gyffredinol, ac fe'u diogelwyd yn weddol; a'r dybiaeth yw, er lliosoced yw yr ymfudiad yma, y bydd genym, gyda chynnildeb, ddigonedd i barhau i'n diwallu hyd y cynhauaf dyfodol. Mae yn wirionedd hunaneglur y dylid cynnyrchu mwy o lafur. Mae y dylïad cysson o bobloedd yma o bob cŵr,—galwadau y llwythau Indiaidd am fara; a'r sicrwydd braidd, a ymddengys o ddyfodiad miloedd i'n cyffiniau, yn ein cymhell i ddarparu gogyfer â'r dyfodol. Ymborth i ddyn ac i anifail yw y galwad; ymborth i filiynau dirif, y rhai a ymarllwysant arnom cyn hir, fel colom-

enod i'w ffenestri; ymborth i fyd newynog, yn ysbrydol ac yn dymhorol, ydyw y gofyniadau y gallwn ddysgwyl gorfod eu cyflawni.

Yna ymbarotown, llanwch eich meddyliau â gwybodaeth ac â doethineb, a'ch ysguboriau ag ŷd: magwch a gwarchaewch eich anifeiliaid; cynnyrchwch eich gwlan a'ch llin eich hunain; gwnewch eich lledr; gwnewch eich dillad eich hunain, eich sebon, eich canwyllau, olew, siwgr, triegl, glue, cribau, gwrychryglau, gwydr, haiarn, ynghyd a phob peth arall o fewn ein cyrhaedd, ac arbedwch eich arian. Wrth wneuthur fel hyn y rhwystrwch ddyhysbyddiad y mettel drudfawr o'n plith, ac eich galluogir i wneuthur mwy er lledaeniad yr efengyl, casgliad Israel, adeiladu Seion, ac i adeiladu Teml i Dduw Jacob.

Frodyr, talwch eich degwm; a thalwch hefyd mewn rhyw ffordd ag y gall fod o ryw ddefnydd; ac y bydd yn gynnorthwyol i hwyluso yn y blaen waith y dyddiau diweddaf. Wrth y rhai a feddyliant gael cyfrifiad ar y llyfrau, pa un a wnant werth hyny ai peidio; wrth y rhai a segurant eu hamser er mwyn cael eu talu, heb unrhyw ofal dros y gwaith; neu yn geintachaidd a gylafara a'i enaid cybyddlyd ei hun, ai gwell iddo dalu rhywfaint ai nad e,—wrth yr oll o'r cyfryw, dywedwn eich bod yn camsynied os dysgwyliwch y bydd y fath offrymau yn gymmeradwy yn ngolwg Duw; cystal, ïe, llawer gwell fyddai i chwi gadw ymaith, nag amlygu y fath ysbryd hanner calonog a hunanol. Mae yn rhy debyg i arferiadau rhagrithiol yr oes, i gael llawer o gyfrifiad am wneyd dim. Frodyr, ein cynghor i chwi ydyw, talwch eich degwm, talwch eich dyledion i'r Gymdeithas Ymfudol Barhaus, a gwnewch eich cyssegriadau mewn ysbryd haelionus ac â chalon ewyllysgar.

Esgobion, y mae genym air o gynghor i chwithau. Chwychwi ydych dadau y tlodion, a goruchwylwyr ydych yn Israel. Rhoddwch eich cymhorth egnïol i gasglu degwm a chyssegriadau y Saint; a gwelwch fod gofal dros yr oll, a'i fod yn cael ei ddiogel gyflwyno i ystordai yr Arglwydd, ac na fyddo yn cael ei gamddefnyddio yn groes i'r dybenion cyfreithlawn o hono. Gosod teulu neu berson mewn sefyllfa ag y gallant ofalu drostynt eu hunain a arddengys wir gariad. Ni raid fod neb yn y wlad hon, a fedd gynnefinol iechyd a nerth, heb allu ennill cyn-

naliaeth iddo ei hun a'i deulu. Eithr dygwyd i fyny lawer o'n brodyr yn yr ymarferiad â rhyw gelfyddyd neillduol yn yr hen wlad, ac ni feddant y gallu na'r cywreinrwydd i droi eu llaw at unrhyw beth, yr hyn a ffurfia nodwedd gref yn nghymmeriad yr Americaniaid. O ganlyniad, dyledus ydym o'u hyfforddi yn y modd goreu i fyw. Yn gyffredinol y maent yn ddinasyddion da, o dueddiadau gweithgar, a chydag ychydig gyfarwyddiadau deuant yn fuan yn alluog i gynnal eu hunain. Erfyniwn ar yr Esgobion roddi iddynt y gwaith a allant ei wneuthur, a bod yn amyneddgar yn eu haddysgu. ac felly deallir cyn hir na pharhant i fod yn faich ar y Trysorfau cyffredinol. Mynych y tiriant yma heb na bwyd na moddion o un math, ac anghenrheidiol iddynt gael cynnaliaeth am ysbaid; eithr os ymddygir yn unol â'r cyfarwyddiadau blaenorol, buan y gallant, nid yn unig gynnal eu hunain, ond hefyd dalu yn ol yr hyn gynnorthwy a gawsent.

Na ddyoddefed y tlodion gonest anghen, eithr cyfraner iddynt mewn doethineb. Felly yr ad-dala yr Arglwydd i chwithau, ac nid esgyn gwaedd y tlawd i glustiau yr Arglwydd Dduw yn dystiolaeth i'n herbyn.

Mae amryw filoedd o ddolars yn ddyledus yn awr i'r Gymdeithas Ymfudol Barhaus, oddiwrth y rhai a dderbyniasant gynnorthwy gan y Gymdeithas i Ymfudo i'r wlad hon. Pan yr Ystyriom y daioni mawr a wneir yn flynyddol drwy offerynoliaeth y Drysorfa hon, teimlwn y fod yn ddyledus ar yr holl Saint gynnorthwyo. a chyfranu o'u heiddo er cyflawni ymfudiad y Saint tlodion yma o blith y gwahanol genedloedd, lle y mae teyrnasiad gwaedlyd gormes, lle y mae newyn yn bygythio, a thywyllwch dudew a drygioni yn llanw meddyliau y bobloedd, gan eu cadwyno mewn rheffynau rhagfarn ac anwybodaeth.

Pan yr arllwysa Duw yr holl ddaear ei farnedigaethau ar y byd drygionus, yn gyflawnol o Ei air a lefarodd drwy eneuau ei Brophwydi yn yr oes bresennol, ac yn yr oesau mynedol, drwy heintiau, newynau, tymhestloedd, a'r flam angerddol, dynion a chenedloedd, yn feddw gan eu cynddaredd eu hunain, ydynt fel pe ar frys i brysuro tuag at eu diweddiad. Yn anochelgar dyfethant eu gilydd yn eu digofaint, ar yr afonydd, y cledrffyrdd, ar y llynoedd llydain, ac ar y moroedd mawrion, ymruthrant i'w dystryw eu hunain. Cenedl a gyfyd yn erbyn

cenedl; anghydfod cartrefol a genedla gynen, a'r rhyfel gerwinol ynghyd a'i ganlyniadau echryslon, a ddyry ei gynnorthwy andwyol i ddiboblogi y ddaear.

Fel hyn, yn mhlith pechadurusrwydd a rhyfel, heintiau a newyn, terfysgoedd cenedloedd, yn y ddaear ynghyd ag yn yr elfenau oddiamgylch y ddaear, cyfarchir efengyl yr iachawdwriaeth, gan bob meddwl gonest a deallus, fel testun o lawenydd, ac nid cynt ei derbynir nag y crea ddymuniad taer am waredigaeth allan o Babilon, fel yr elont trwy y diheur-brawf, ac y diangant gyda yr holl Saint yn Seion, rhag y fflangell a'r ddarfodedigaeth a benodwyd gan Dduw i wneuthur y ddaear yn wag, lle y gorphwysant hyd onid elo Ei ddigofaint tanllyd heibio.

Yna prysurwch, chwychwi Henuriaid, i gyflawni y gwaith o'ch blaen; ac ymbarotoed y Saint â'u holl nerth, gogyfer a dyfodiad dydd mawr Ei nerth a difrodaeth, yr hwn yn ddiau a ddaw ar yr holl ddaear, canys yn y dydd yr ymddengys Mab y Dyn, yr Hen-ddihenydd hefyd a eistedd mewn barn, a gofynir i bob un roddi cyfrif gwirioneddol a ffyddlon o'i oruchwyliaeth.

Ymostyngwch, O chwychwi Saint y Goruchaf! canys y mae y dydd yn agosâu! Darfydded eich ymbleidiau, anghydfod, cenfigen, a'ch drygioni o'ch plith; a thrigwch ynghyd mewn undeb a hedd. Ymroddwch eich calonau i Dduw, a'ch nerth, eich meddwl, a'ch holl alluoedd er cyflawni ei fwriadau yn y dyddiau diweddaf. Na adewch i unpeth eich gwyro oddiar lwybr eich dyledswydd. Ymddeffrowch i iawn ystyriaeth o bwysigrwydd eich galwedigaeth, a'r gwaith sydd i chwi i'w gyflawni. Ysgydwch o'r syrthni sydd yn eich amgylchynu fel cochl; ac ymddysglaeried eich gweithredoedd a'ch ffydd fel dysglaerdeb gogoniant haul canol ddydd i bawb oddiamgylch i chwi. Bydded gwaith yr Arglwydd beunydd yn eich meddyliau, ynghyd ag iachawdwriaeth Israel, gwaredigaeth y tlawd o grafangau y gorthrymwr, ac odditau wialen y gormeswr.

Ac wrth y tlawd dywedwn, byddwch ymrous a ffyddlon; ac mor gynted ag y caffoch foddion hebgorol yn eich dwylaw, talwch yn ol yr hyn a'ch cynnorthwyodd i ddyfod i'r wlad hon; cofiwch am y rhai sydd dan y cyfflelyb amgylchiadau ag oedd-

ech chwithau, ac a ddysgwyliant yn hiraethog am gymhorth o'r un fan ag y cawsoch chwithau.

Ein dyben yn casglu y Saint i'r dyffrynoedd heddychol hyn ydyw fel y mwynhaom freintiau ac iawnderau y Freintlen, a cmeddwyd i ni mewn manau ereill; fel y caffom y fraint o addoli Duw yn ol cymhelliadau ein cydwybodau ein hunain. Ymgasglwn fel y mwynhaom, nid yn unig iawnderau dinasyddion, eithr fel y gallom fyw yn heddychol a mwynhau y sirioldeb a'r parch a wrthodir i ni yn un man arall. Ymgasglwch fel yr ufyddhaom i ordinhadau ac y cadwom orchymynion Duw, ac yr ymgorffolwn ein holl alluoedd i gario yn mlaen mawr ein Duw yn y ddaear, sefydlu Ei deyrnas, adeiladu temlau, ac i barotoi ffordd dyfodiad Mab y Dyn. A phan yr ymgasgla y rhai a broffesant fod yn Saint, yma gyda ni, dysgwyliwn yn rhesymol y dylanwadir arnynt gan y cyffelyb ddybenion.

Nid ymgasglwn yma i'r dyben o ymwasgaru oddiamgylch, a myned i'r mŵn-gloddiau, nac i un man arall, eithr er adeiladu teyrnas Dduw. Ac er na ddymunem niwed i'r rhai a ymgasglant o dan ddybenion gwahanol, etto, nid allwn eu hystyried yn deilwng o aelodaeth. Nid oes i nê gyfeillach â neb a gofleidiant y gwaith hwn oddiar unrhyw ddybenion, ond o gariad at y gwirionedd, ac at dystiolaeth yr Iesu; y rhai nid ydynt yn foddlon i ddyoddef pob peth, i adael pob peth, ac i aberthu pob peth er mwyn efengyl Crist.

Dyledswydd y cyfoethogion yw cynnorthwyo y tlodion anghenog drwy weinyddu i'w hanghenrheidiau, ac i gyfranu o'u heiddo er casglu Israel, lledaeniad yr efengyl, ac er adeiladu y Deyrnas.

Ar y llaw arall dylai y tlodion fawrygu y bendithion a gyflwynir iddynt, a bod yn awyddus i ad-dalu cymmwynasgarwch, drwy weithio yn ffyddlon mor gyflym ag y gallant. Mae yn ofidus fod gormod o'r rhai a gynnorthwywyd gan gyfoethogion, mor gynted ag y sefydlant yn y wlad, a bod llawnder a heddwch yn gwenu arnynt, yn anghofio y llaw a ddygodd iddynt iachawdwriaeth a gwaredigaeth. Un o'r prif achosion o hyny yw anewyllysgarwch y cyfoethogion i gyfranu o'u meddiannau. Mae angharedigrwydd yn drosedd a wreiddia yn ddwfn yn nghalonau y rhai a'i hymarferant. Bod dyn yn troi a'ch rhwygo, ar ol i chwi wneuthur iddo garedigrwydd, a duedda i gau

fynu ymysgaroedd tosturi, ac i rwystro ereill rhag gwneyd y caredigrwydd a'r haelfrydedigrwydd a fuasai pe amgen, yn bleser ac yn llawenydd ganddynt eu gwneuthur.

Am hyny, rhybuddiwn y Saint tlodion a gynnorthwywyd i ddyfod i'r wlad hon o'r hen wlad, na phallont i ad-dalu, a chofio caredigrwydd y rhai a'u cynnorthwyasant, fel na ymddifader ereill a chwennychant waredigaeth, o'r bendithion a fwynhewch, drwy eich hunanoldeb a choffawdwriaeth o angharedigrwydd.

Mae yr Henuriaid yn Ynysoedd Sandwich yn chwilio allan ymgasgl-fan i Saint Ynysoedd y Môr Tawel, i'r lle y gallant ymgasglu am yr amser presennol er eu diogelwch rhag y dylanwadau niweidiol a effeithir arnynt i raddau, drwy ymgyfeillachu â'r bobl wynion, yr hyn yw rhag-arweinydd gwareiddiwch i arwain brodorion ein gwlad, a'r llwythau Indiaidd yn gyffredinol i'r anlladrwydd gwarthus a'r meddwdod sydd yn raddol yn eu dirywio; ac yn y diwedd a derfyna yn angeuol, yn hollol ddifodiad y llwythau brodorol. I'r dyben o attal, hyd y gellir, y fath ganlyniadau dinystriol, ystyrir mai doeth a fyddai eu casglu ar ryw ynys lle y gellir eu dysgu yn egwyddorion diweirdeb, ac mewn arferiadau moesol, a pharotoi eu meddyliau i dderbyn goleuni a gwybodaeth ddeilliedig oddiwrth Dduw, eu dyrchafiad a'u gogoneddiad. Gellir dwyn rhai i San Bernardino, y rhai wedi iddynt ddysgu celfyddydau a gwareiddiwch, a allant fod o fawr les i gario gwirionedd, iachawdwriaeth a'i bendithion cysylltiadol, i'w gwahanol lwythau. Os cydwedda yr hinsawdd â'u hiechyd, gellir cynnyddu eu hymfudiad, a bod eu sefydliadau ar yr ynys ond arosfan orphwysol, gyffelybi fanau ereill a fwriadwn sefydlu mewn gwahanol fanau ar y cyfandir.

Cynghorwn Saint Ewrop i ymgasglu i'r Unol Daleithiau yn ol cyfarwyddyd y Llywyddiaeth Brydeinig, i'r manau hyny a benodir i ymgasglu iddynt, a lle y gallant aros hyd oni agoro y ffordd iddynt ddyfod i Ddyffrynoedd y Mynyddoedd.

Dysgwylir y gwneir cledrffordd yn mhen ychydig flynyddau, o Missouri i'r wlad hon; pryd hyny bydd yn fanteisiol iawn i'r Saint a ddeuant o'r hen wlad, eu bod wedi croesi y môr, ac ymsefydlu yn y manau a nodir, lle y bydd yn hawdd cael gwaith a chyflogau da; ac wedi y cwblheir y gledrffordd, gal-

y Saint ymgasglu ar lawer llai o gost ac anhawsderau. Hyfforddia gyfleusdra uniongyrchol i filoedd o'r Saint ymfudo o'r hen wlad, ac i ymgasglu i'r lle y gallant gael dysgeidiaeth a mwynhau y fraint o Gymdeithas a'u gilydd.

Cynghorir y Saint sydd yn Awstralia, India, ac yn yr holl wledydd cyfunol i'r Môr Tawel, i ymfudo i Gallfornia, a chyfarwyddir hwy gan y Llywyddiaeth Eglwysig yn y wlad hono yn eu hymsymmudiadau dilynol.

Dymunwn hefyd ar y Saint a ddeuant o'r Unol Daleithiau ac o Ewrop i Ddyffrynoedd y Mynyddoedd, ddwyn pob amrywiaeth o hadau gyda hwynt, yn enwedig afalau, eirynen, breyllen, gellyg, eiryn, ceirios, rhyfion, quince, eiryn mai, mefus, ynghyd a phob amrywiaeth o hadau blodeu; hefyd hadau *teasle* a gwreiddrudd, indigo, a hadau ereill y defnyddir eu coed i liwio, cyn belled y tyfant yn yr hinsawdd hon; hefyd amryw fathau o wair, clover, a hadau cottwm o'n sefydliadau deheuol.

(*I'w barhau.*)

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, GORPHENAF 15, 1854.

Epistol Cyffredinol y Brif Lywyddiaeth—Yw prif gynnwysiad ein presennol rifyn, yr hyn a'i gwna o hyny gwell na dim a allwn ni ddweyd, i chwaeth ein holl ddarllenwyr a archwaethant ddirgeledigaethau gwlad eu serch—"dinas eu cyfarfod," lle y dysgwyliant fythol gyd fyw mewn gorlawnder a thragywyddol hedd. Mor hunan-eglur yr ymddengys i bob meddwl treiddgar, yr anghenrheidrwydd o hollol gydgordiad meddyliau, bwriadau, a holl ddirgelion calonau preswylwyr dedwyddol y nefol fro, er i bob un gyd-gyfranogi o'i danteithion dinam, heb unrhyw eiddigedd, na gormes, na châs! Mor amlwg â hyny yr ymddengys dyledswydd y "plant sydd etto dan eu hoed yn dysgwyl am eu 'stâd," i ymgorffoli eu trysorau

yn awr, i'r deyrnas lle y dysgwyliant fwynhau eu hystadau perffaith, ac felly i greu yr undeb calon sydd mor ddewisol, drwy ymgorffoliad o'u hunain a'r oll a feddant, er adeiladu teyrnas eu Tad. Tebyg i fympwyau y penboethiaid a ddysgwyliant fod marwolaeth yn puro ac yn addasu yr ysbryd ar eiliad i fyned i bresennoldeb tanbeidiol y Tad tragywyddol, yw yr hyder a fabwysiada rhai, o hyd y nod, efallai yn Saint, o gyrhaedd yr hollol undeb sydd anghenrheidiol er bod yn *un*, fel y mae y Tad yn y Mab a'r Mab yn y Tad, pan gyrhaeddir y "trigfanau tragywyddol," heb iddynt allu yn gyntaf feddu yr undeb gofynol o barthed i'r pethau sydd yn eu dwylaw yn awr. Y neb a ystyria y gall foddloni i'r undeb trwyadl hwnw y pryd hyny, yn *mhob peth* a ofyna ein Tad genym, ac ni allant gyd-synied ynghylch y pethau llai pwysig presennol a welant, a siomir; canys ni fyddant foddlonach i'r gyfundeb nefol, yn cynnwys yr *oll o bob peth*, nag ydynt i'r gyfundeb ddaearol a gynnwysa yr ychydig bethau darfodedig y gwnaeth eu Tad hwy yn oruchwylwyr arnynt.

Cyffelyb i gyfaill a guddiai ei gôd o tan garreg, rhag ein hofn, cyn meiddio dyfod i'n tŷ, yw y dyn a anturia ei hunan yn nheyrnas Dduw, eithr a ystyria ei drysor yn ddiogelach yn y byd anonest presennol; a chan fod y galon lle cuddiwyd y trysor, ni all fod y cyfryw ddyn ond rhagrithio ei fod ef yn Nheyrnas Dduw tra y mae ei galon allan o honi; a pha leshâd ddysgwylia y fath un gael yn y byd hwn na'r hwn a ddaw? Ni welir neb yn mhlith y teulu nefol, ond yr hwn a offrymodd ei hunan yn drwyadl, gorff ac ysbryd, a'r oll a feddai i Dduw, ac ymddiried y ddau i ofal Eglwys Dduw; a gomedd yr olaf yw ystyried yr olaf yn werth mwy na'r ddau flaenaf; yr hyn a brofai mai yn yr eiddo y mae y galon, er fod y broffes i'r gwrthwyneb. Eithr profodd yr Arglwydd yn ei ymddygiad at Ananias a Saphira na watworir mo hono gan y rhai a dderbyniasant oleuni nefol i'r graddau hyny.

I'r rhai y dichon eu chwydd-ddrychau arddangos iddynt yr aberth yn ormod i'w wneyd, rhoddwn gynghor ysgrythyrol, sy yn taro i'r amgylchiad, er ei fod yn Saesneg, sef "*Fret not thy gizard*," a chewch oleuni yn yr ysgrythyrau ol a blaen i hyny. Nid gorfodiaeth, ond ewyllys rydd yw y gyfraith hon etto sylwer; mae ystyr y gair *cyssegriad* a'r gair *gorfodiaeth* yn hollol

groes i'w gilydd,—dewiser a fyner, ynte, eithr na wrthwyneber yr egwyddor i ereill, onite bydd hyny yn wrthryfel annyoddefol yn Eglwys Dduw. "Caffed amynedd ei pherffaith waith," meddwn ninnau, fel y dywedai hen frawd o'n blaen; canys, y mae y nefoedd yn llawn o ddirgeledigaethau etto, a dihidlant i waered o un i un, i blant Duw, nes eu dysgir yn holl drefniadau y teulu nefol. A'u gwrthodant a fforffetiant aelodiaeth yn y teulu hwnw. Cofiwn hyn—cofiwn fod yr oll sydd yn werth ei gael, yn ymddibynu ar *fyw ar bob gair* A DDAW allan o enau yr Arglwydd, ac nid ar yr hyn a *ddaeth* yn unig! Y doeth a'i gwel ac a'i gwna, tra, y cybydd, fel Judas, a gâr y gôd yn fwy nâ gair, ac nâ bywyd ei Arglwydd. *Bywyd trag'wyddol* fyddo nôd Ei Saint ar gost pob peth.

Ceir y gweddill o'r Epistol yn ein nesaf.

Gellir cael y tablau i gasglu yn y dosparthiadau yr wythnos nesaf, anfoned pob dosparthwr am yr hyn a ddymuna. Cymhellwn y cynllun hwn ar bob dosparth yn mhob man.

---

## YR UNFED EPISTOL CYFFREDINOL AR DDEG.

[Parhad o dud. 413.]

HYFFORDDWN yr Henuriaid a anfonwyd allan o Seion at wahanol genedloedd y byd, i roddi ein cynghorion mewn gweithrediad, dan arolygiaeth Llywyddiaeth eu gwahanol feusydd llafur; ac annogwn yr holl Henuriaid i fod yn ffyddlon yn eu galwedigaeth, ac i gadw eu hunain yn bur ac yn santaidd i'r Arglwydd eu Duw. Os palla iechyd rhai o honynt, maent at eu rhyddid i ddychwelyd adref heb aros am alwad. Braint a dyledswydd yr Henuriaid, tra ar led y byd, yw ymgynghori yn fynych yn eu hamrywiol feusydd llafur, ac ymdrechu gwybod meddwl yr Arglwydd, drwy ympryd a gweddi ger bron Duw, penderfynu ynghylch y cynlluniau, a chyflawni y dyledswyddau perthynol i lesiant achos y gwirionedd, megys yr amlygir iddynt, fel na fyddo i farweiddra ac arosiad rwystro y gwaith, wrth ymofyn cynghor genym ni, y rhai ydym mor bell oddiwrthynt.

Mewn materion o ddyddordeb, a ystyrir o bwysigrwydd neilldnol, os na fydd i'r amser a gymmerir i gael atebiad, wrthweithio yn ormodol yn erbyn llwyddiant y gwaith, dymunem

iddynt ymgynghori â ni. Rhaid fod yn eglur i bawb, yr anghenrheidrwydd o ofalu am drefnusrwydd yn gyferbyniol i gynnydd y gwaith. Gan hyny, cynghorwn ein holl oruchwylwyr i fod yn brydlon a manwl yn eu Cyfrifon a'u Cyfraniadau i ni; ac hefyd i'n cadw yn hysbys o'r matterion pwysig a berthyn i'r achos yn y gwledydd y llafuriant ynddynt. Cyflwynasom, a bwriadwn gyflwyno yr hyfforddiadau hyny drwy y Wasg, o bryd i bryd, er cyfarwyddyd i'r Henuriaid a'r Goruchwylwyr, ar yr hyn bethau a ystyrir yn anghenrheidiol, a'r hyn ni allwn roi mewn Epistol Cyffredinol. Drwy ein profiad ein hunain, deallwn y teimla yr Henuriaid eu hunain, os byddant ffyddlon, yn hollol ymorphwysedig ar yr Arglwydd, nid am râs yn unig, eithr am foddion eu cynnaliaeth hefyd.

Mewn undeb y mae grym; eithr pa fodd y teimla dynion eu bod mewn undeb tra y mae eu meddiannau yn amrywiol? Pa fodd yr ymgyssylltant yn un mewn matterion ysbrydol, ac y gwelant lygad yn llygad, yr hyn ni allant eu ddeall ond mewn rhan, hyd oni ddeuant yn un mewn pethau tymhorol, yr hyn a ddeallant? Dadguddiwyd i Joseph Smith, yn nyddiau boreuol yr Eglwys, y dylai yr holl Saint gyssegru eu heiddo i'r Eglwys, a derbyn eu hetifeddiaethau trwy law yr Esgob Partridge, yr hwn oedd y pryd hwnw yn gweinyddu yn y swydd hono.

Yn mhen blynyddoedd wedi hyny, yr Arglwydd yn gweled fod y bobl wedi halogi eu hetifeddiaethau, ac na chyd-ymffurfient â'i orchymyn blaenorol, a gyfarwyddodd mewn Dadguddiad arall i'r brawd Joseph, y dylai y bobl gyssegru eu holl eiddo gweddilliol; yr hyn, mae yn debygol, na ddeallwyd yn drwyadl ac ni wnaed. Ar ol hyn rhoddwyd Cyfraith y Degwm, yr hyn a ofynai i bawb gyflwyno y ddegfed o'u meddiannau i'r Eglwys, ac o hyny allan eu bod i dalu y degfed o'u cynnydd yn flynyddol; dyben yr hyn oedd i'r tlodlion, ac er lledaenu yr efengyl yn mhlith cenedloedd y ddaear, cynnal y weinidogaeth, ac adeiladu Temlau i'r Goruchaf.

Dyna eglurhad byr o berthynas i feddiannau y rhai a ddeuant yn aelodau o Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf. Yr oedd llawer o rwystrau ar ffordd cario y gofyniadau hyn i weithrediad: yr oedd yr Eglwys yn ei babandod, a rhaid oedd iddi gyfarfod anwybodaeth, rhagfarn, a gwrthwynebrwydd byd

tywyll a drygionus. Nid oedd y brodyr eu hunain yn alluog i ddryllio eu traddodiadau: amryw brydiau, bu agos i wrthgiliad, ac erlidigaeth a goddiweddyd pobl Dduw, ac achosi iddynt gael eu gyru o fan i fan, nes iddynt o'r diwedd gael gorphwysfa yn mhlith dyffrynoedd y mynyddoedd hyn.

Yn ystod y Gymmanfa, rhoddwyd dysgeidiaeth ar y pwnc hwn, a'r athrawiaeth o undeb mewn pethau y gallai pawb eu deall, a chydgorffoli ein hamcanion mewn pethau y gallem weled llygad yn llygad o barthed iddynt, a ystyrid y cam cyntaf er dwyn yr undeb sydd mor ddymunol i'w gael; yr hyn a roddai i ni allu i ddarostwng drygioni, ac i yru pob drwg a dylanwad niweidiol o'n plith. Ymddangosodd yr egwyddor hon mor eglur i ddealltwriaeth y brodyr yn ei phlaender, ardderchogrwydd a'i symylrwydd. Dangosai y bobl awydd mawr i gydymffurfio â phob gorchymyn a gofyniad a roddwyd; ac ymddangosent fel pe yn teimlo nad oes yn arosol unrhyw rwystr digonol i gydymffurfiad cyflawn a diymwad â chyfraith y cyssegriad, megys ei rhoddwyd gyntaf i'r brawd Joseph.

Mae y diweddglo hyd yma yn profi eu diffuantrwydd yn y peth hwn; canys heidiant yn gannoedd ac yn filoedd i roddi eu henwau, gan gyssegru a chyflwyno pob peth a feddant i'r Eglwys, gan dderbyn eu hetifeddiaethau, a chymmaint o'u meddiannau ag sydd anghenrheidiol iddynt, o ddwylaw yr Esgob.

Chwefror 14eg, bu farw y Fam Smith, gwraig yr hen Batriarch John Smith, ac aeth i'w gorphwysfa yn mhlith y Saint ffyddlon. Hyhi yw mam y brawd George A. Smith, ac yr oedd yn un o'r rhai cyntaf i dderbyn cyflawnder yr efengyl dragywyddol.

*(I'w barhau.)*

---

## LLYTHYR Y LLYWYDD JEREMY.

*Llanelli, Mawrth* 22, 1854.

Anwyl Lywydd Jones,—Bum yn ymweled â'r Saint yn Nghaerfyrddin ac yn St. Clears, teimlant yno hefyd yn dda, a mynych yr holant pa bryd y daw y Captain ffordd hyn, ac felly yn mhob man; mae argoelion daionus am lwyddiant braidd yn mhob lle yr af, a da iawn genyf ddeall eich bod yn llwyddo ffordd

yna, a bod amryw ag oedd wedi gwrthgilio yn dyfod yn ol i'r gorlan etto.

Derbyniais lythyr caredig iawn oddiwrth y brawd Robert Parry, yn fy hysbysu am yr argoelion daionus sydd am lwyddiant ffordd yna, a mawr fel y mae yn eich canmol chwi a minnau yn ei lythyr, dyddiedig Mawrth 17, 1854, yr hwn a ysgrifenodd o Ferthyr. Yn Saesnig y mae wedi ei ysgrifenu fwyaf, cyfieithaf a ganlyn:—

"Anwyl Frawd Jeremy,—Aethym oddiyma dydd Sadwrn diweddaf, a phregethais yn Nghaerdyf drwy y dydd ar y Sul, a phrydnawn dydd Llun; nos Fawrth yn Nhrefforest, ac yn Llanilltyd prydnawn dydd Mercher, i gynnulleidfa fawr iawn, llawer o'r cyfryw a addawsant gymmeryd eu bedyddio, a dychwela y gwrthgilwyr braidd i gyd tuag adref, yn analluog, fel y mae yn rhaid eu bod i gael gwell lle. * * * *

Llawer o gysur yw i mi i wybod eich bod chwi y brawd Jeremy â'ch holl allu yn ymdrechu achub drwy yr efengyl, ac i ddiwygio y cyfryw ag sydd yn myned ar gyfeiliorn. O, bydded i'r Arglwydd eich bendithio chwi a'ch llafur o gariad, i iachawdwriaeth llaweroedd. * * * *

"Dywedaf i chwi *secret* fach,—Captain Jones sydd yn ddyn cydrywiol â fy nghalon i,—nid yn unig dyn *da*, ond ystyriaf ef yn un o'r dynion GOREU a gyfarfyddais erioed. Pe y buaswn yn ei ystyried ef yn annheilwng o'i barchu genyf, gallaswn ddiweddu y llinellau hyn heb gyfeirio at ei enw, yn fwy na dweyd ei fod yn anfon ei gofio atoch. Ond fel ag y dywedais i chwi ei fod yn un o'r *goreuon* a welais; nid yw yn anghenrheidiol i ddweyd fy mod yn ddidwyll yn fy ngosodiad,—gallaf dyngu a phrofi ei fod yn gyfryw, a chyda phleser, ymddiried, a chariad Cristion y gallaf roddi fy enw yn ysgrifenedig wrth y gosodiad hwn. * * * *

"Prydnhawn da i chwi y brawd mwyn, caredig, a thirion Jeremy." "ROBERT PARRY."

Da iawn genyf i fod y brawd Parry yn eich cael y fath ddyn; gallaf finnau ddywedyd fel Brenines y deheu, na fynegodd y brawd Parry yr hanner etto o'ch rhinweddau a'ch daioni, a welais innau ynoch am lawer o flynyddau tu yma a thu draw i'r Môr.

Terfynaf yn awr, gan ddymuno ar i'r Arglwydd eich bendithio

â llawer o'i Ysbryd Glân i gydawni eich swydd bwysig, er gogoniant i'w enw a lles mawr i laweroedd.

Eich brawd, &c.,

THOMAS JEREMY.

---

[Na ddigied yr awdwr o herwydd hir oediad ei lythyr, gan iddo ryw fodd allu ymguddio o'n gwydd hyd yn ddiweddar, fel y mae pob peth a'n canmola ni yn fwyaf chwanog o wneyd, nag yw yr hyn a ddywedir yn dda am ein brodyr, etto, gweli hwyr na hwyrach efallai, i ddeall meddyliau ein gilydd am ein gilydd, a gwnawn a allom i deilyngu parhâd o'r gair da sydd well nag enaint gwerthfawr, ac os methwn, crefwn ddeall hyny yn GYNTAF UN O BAWB, canys hyn yw hawl eich—GOL.]

---

## LLYTHYR O SWYDD HAIARN.

*Dinas Cedrwydd, Tachwedd* 30, 1853.

ANWYL FRAWD EPHRAIM,—Yr ydym fel teulu yn cymmeryd y cyfleusdra hwn i ddanfon atoch, gan obeithio eich bod chwi a'ch teulu yn iach fel ag yr ydym ni oll yn bresennol, diolch i Dduw am hyny. Derbyniasom eich llythyr y ddoe, sef y 29ain o'r mis hwn, dyddiedig Medi 28, 1853. Yn atebiad i'ch cais yn eich llythyr am ddyfod i ffwrdd yn y spring nesaf, dywedaf nad posibl i chwi allu dyfod, o herwydd ei bod yn rhy ddiweddar yn y flwyddyn; ond yr ydym mor dyner galon nes yr ydym yn penderfynu eich cael i ffwrdd yn spring 1855, gan hyny parotowch eich hun erbyn y pryd hwnw.

Efallai y carech glywed ein hamgylchiadau,—y mae genym dŷ braf wedi ei adeiladu yn werth tua 3 neu 4 cant o ddolars, dwy fuwch, dwy iau o ychain, dau ful, un ceffyl, tair waggen, tri mochyn, a 23 o erwau o dir; dyna ein cyfoeth yn bresen-

Yr ydwyf fi Job wedi priodi merch o'r enw Mary Parry o Sir Ddinbych yn y Gogledd, ac y mae argoelion am gynnyddiad yn y teulu.

Y mae y wlad hon yn iachus iawn, nid oes fawr yn glaf, na nemawr yn marw. Y mae yma waith haiarn wedi ei ddechreu, a thair gwythien o lo wedi eu darganfod, un yn 8 troedfedd, yr ail yn 4 a hanner, a'r llall yn 3 troedfedd, a phob argoelion y gweithiant yn llwyddiannus. Y mae yma fynyddau o fwyn haiarn hefyd.

Cofiwch ni at Morgan a Margret a'r teulu, a charem yn fawr i glywed oddiwrthynt, a pha fodd y maent yn teimlo at y Saint yn awr, a ydynt yn ffafriol ai peidio. Cofiwch ni at y Saint yn Dowlais, a phawb o'n cydnabod. Yr oedd yn ddrwg genym glywed fod ein ewythr Richard wedi ei gladdu. Carem glywed ychydig oddiwrth ein perthynasau. Y mae Phebe Bowen merch Dafydd Evans gynt o Pont y Yates yn byw yma, ac yn anfon ei chofio atoch chwi a'r wraig. Carem glywed pa fodd y mae llwyddiant y Saint yn Dowlais a'r gymmydogaeth yna. Yr ydym ni ein tri yn annerch y Brawd Capt. D. Jones yn barchus.

Cymmaint a hyna yn bresennol oddiwrth eich hanwyl frodyr,

JOB, THOMAS, A BENJAMIN ROWLANDS.

## AMRYWIAETHAU, &c.

Y RHYFELAWG FYD sydd yn ymeangu yn barhaus; fel gorlifiad eirias mynydd tanllyd, mae hylif rhyfel yn tagu y naill *grater* er rhwygo arall gêg anferth i ddihysbyddu drwyddi gynnwysiad ei wenwynol grombil,—ffynnonell "afon angau" ydyw hon. Mae chwyldroad enbyd a bygythiol wedi cyffroi Ysbaen —tymestl mewn dysgl! Dywedir fod Ymerawdwr China wedi cynnyg rhanu ei deyrnas â Blaenor y gwrthryfelwyr,—fod y Rwsiaid yn encilio o warchaed Silistria, a 12,000 wedi colli.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O MEH. 30 HYD GORPH. 13.—*Cangenau Dwyr. Morganwg*—Eglwys-newydd, 9s 6c; Pontfaen, 2s 2c; Dinas, 10s 5c; Llanilltyd, 7s 9½c; Llanfabon, 3s 6c; Pontypridd, 2s 6c; Aberdare, 6s; Cap Coch, 3s 9c; Hirwain. 16s; Rhymni, £1 10s 1c; Georgetown, 9s 2c; Cefn, 5s 11c, Ynysgau, 5s; Twyn Carno, 17s 11c; Cwmbach, 13s 1c; Cwmnedd, 13s 0½c; Aberamman, 7s.

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street, Merthyr-Tydfil.*

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Yr Unfed Epistol Cyffredinol ar Ddeg | 405 |
| Goiygyddiaeth—Epistol Cyffredinol y Brif Lywyddiaeth | 413 |
| Yr Unfed Epistol Cyffredinol ar Ddeg etto | 415 |
| Llythyr y Llywydd Jeremy | 417 |
| Llythyr o Swydd Hairn | 419 |
| Amrywiaethau, &c. | 420 |


MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION.

NEU

## Seren y Saint.

Rhif. 27.] GORPHENAF 22, 1854. [Cyf. VII.

### UNFED EPISTOL CYFFREDINOL AR DDEG PRIF LYWYDDIAETH EGLWYS IESU GRIST, SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF,

*At y Saint yn Nyffrynoedd y Mynyddcedd, ac at y rhai sydd ar wasgar drwy y ddaear.*

[Parhad o dud. 417.]

Ein hanwyl frawd Willard a aeth tu draw i'r llèn; i ni y mae wedi *myned*; i Joseph a Hyrum y mae wedi *dyfod*. Am ysbaid byr mae'n wir, y gorphwys ei gorff yn y bedd, er ei adnewyddu, ei fywhau, a'i ddarparu i yrfa anfarwol, tuhwnt i ddylanwad pechod, Satan, afiechyd, a marwolaeth. Yn nghyhyrdedd ei fywyd a'i ddefnyddioldeb y mae wedi ei gymmeryd, yn ymddangosiadol, ddim ond i'w waredu rhag trafferth, gofal, ac ysgatfydd rhag trallod ac erlidigaeth etto a ddaw, o'r hyn yr oedd wedi goddef ei gyflawn ran. Ni fydd ein gwasgariad ond byr, pe yr estynid ein heinioes cyhyd ag einioes y cyffredin o blant dynion. Cymmerwyd ef yn bur glaf ar yr 22ain o Ionawr, a pharhaodd trwy ddyoddefaint llymdost hyd yr 11eg o Fawrth, am hanner awr wedi naw yn y boreu, pan y syrthiodd i gysgu yn muddugoliaethau yr efengyl; yn yr efengyl a'r ffydd hono a'i cynnaliodd cyhyd, a roddodd iddo nerth a gallu yn ei gyfyngderau mwyaf, ac a weinyddodd iddo gysur yn yr helbul a'r cystudd llymaf. Nid ymchwyddai ei fynwes ond am ledaeniad yr efengyl, ac iachawdwriaeth ei rywiogaeth; ei

galon eang ni churai am ddim ond y gwirionedd, iachawdwr-iaeth Israel, a phrynedigaeth Seion.

Yn ystod yr ychydig flynyddau diweddaf o'i einioes, ymlynodd wrth fywyd trwy lawer o ddyoddefaint, fel y caffai y fraint, cyn y cyd-gysgai â'r Saint, o gyflawni ei ddyledswyddau fel chroniclwr, ac hanesydd eglwysig. Ei fawr ymgais oedd i fod yn ffyddlawn groniclwr o weithredoedd yr Arglwydd yn y dyddiau diweddaf. I gofnodi gwirionedd eglur, y golygfeydd yr aeth y Saint trwyddynt; eu profedigaethau a'u herlidigaethau, eu teithiau, gofidiau, trallodion, a marwolaeth; ac mor aml eu rhyfeddol gadwraeth, ail gasgliadau, gorfoleddau, a bendithion, a chofrestru yn nghofnodau yr eglwys, law-driniaeth Duw at ei bobl—diwallodd ni â thestun mor llawn o ddygwyddiadau, a gyd-blethwyd â'u dyddiol fywyd a'u profiadau hwy, mor ogoneddus a chyd-fynedol â'i deimladau, fel nad rhyfedd y cadwyd angeu i aros wrth y drws, tra yr achosodd ei fawr ymdrech a'i allu, a gefnogwyd gan Ysbryd yr Hollalluog Dduw, ef i yru ysgrifell ysgrifenydd parod, er portreadu mewn ardderchogrwydd a chywirdeb godidog, hanes y bobl hyn, ac amddiffyniad achos y gwirionedd, a chyflwyno i'r genedlaeth ddiweddaf hon, ddyoddefaint godidog, dybenion pur, a chymmeriad dynion ysbrydoledig—dynion Duw, y rhai y mae yr oes bresennol wedi waradwyddo, athrodi, anmharchu, ac o'r diwedd wedi eu bradychu a'u cigyddio, tra o dan lw o ffyddlondeb i'r lywodraeth a elwir yn un gywir a gwaraidd.

Yn ei gylch teuluaidd, cyfeillion, a chydnabyddiaeth, ei farwolaeth a achosodd lawer calon dost, ac yn y swyddi pwysig ac amrywiol, y rhai a lanwodd ag hynod alluogrwydd, anrhydedd, a ffyddlondeb, ei golled a deimlir yn arw.

Yn nghysuron ein crefydd santaidd, er y cawn mai ein *colled* ni ydyw, *ennill* iddo ef ydyw. Er cael ein hamddifadu, trwy ei golli, o'r uniondeb mwyaf diysgog—y gyfeillach fwyaf gwresog ac anwŷrol—y naturiol wresawgrwydd o gydymdeimlad, cynghor, gwir ymroddiad, a ffyddlondeb. a enwogodd ei gyfeillach â nyni, ac â'r bobl hyn, er hyny ni amddifadwyd ni o hono; canys, er fod ei gorff wedi cael ei ysgaru oddiwrthym, parhâ teimladau cydrywiol yn ein mynwesau, yr hyn ni ddileïr byth, ac ni luddir ei ddefnyddioldeb yntau, ond ei weithredoedd a'i canlynant ef.

Yn iach, ynte, ddysgawdwr anwylaidd, am enyd! Edef frau dy yrfa a dorrodd, cydymdeimlwn mewn galar yn amddifadrwydd dy deulu a'th gyfeillion, a'n hunain, eithr ni alarwn am dy golled di: tydi! yr hwn yn fuddugoliaethus a ennillaist yr yrfa, ac a ddiogel angoraist dy lestr yn mhorthladd bywyd tragywyddol.

Ar y 29ain o Fawrth, ymadawodd yr Henuriaid F. D. Richards, Joseph A. Young, Wm. H. Kimball, George D Grant, Edmund Ellsworth, William Young, a James A. Little ar genadiaeth i Loegr, ynghyd a Frederick Kesler a George Halliday, y rhai a'u canlynant hyd St Louis i fasnachu. Penodwyd y genadiaeth hon cyn y Gymmanfa, er eu gallnogi i gyrhaedd maes eu llafur mewn pryd i Samuel W. Richards i ddychwelyd adref y tymmor presennol.

Wrth y cofnodion dilynol, gwelir, y gohiriwyd y Gymmanfa flynyddol, nos Sul, y 9fed, ar ol pedwar diwrnod o eisteddiad, hyd y 27ain o Fehefin dyfodol; er fod y tywydd yn oeraidd a thymhestlog, nid oedd y Tabernael helaeth yn ddigon eang i gynnwys yr oll o'r gynnulleidfa.

Sadwrn a'r Sul, cynnyddasant hyd y fath liosogrwydd, nes, drwy fod y tywydd yn claearu, gorfodwyd i gynnal y cyfarfodydd yr ochr allanol, ac oddifewn i fur amgauol rhandir y Deml, ac ar gydiad ochr ogleddol y Tabarnael. Etholwyd George A. Smith yn hanesydd cyffredinol i'r Eglwys, a dewiswyd Jedediah M. Grant yn ail Gynghorydd i'r Prif Lywydd.

Cymmeradwywyd anfoniad Franklin D. Richards, a'r Henuriaid ereill a aethant gydag ef i Loegr, drwy bleidleisiad unfrydol y Gymmanfa, a phenodwyd y brodyr Orson Pratt, Erastus Snow, Orson Spencer, a llawer ereill ar genadiaeth i'r Unol Daleithiau. Penodwyd y brawd Parley P. Pratt i lywyddu yn California, ac efe a Lywydda y genadiaeth i'r Ynysoedd ac i'r gwledydd cyfunol i'r Môr Tawel.

Dewiswyd tuag ugain o Henuriaid ieuainc i fyned i Ynysoedd y Môr Tawel, yr hyn a wna y cyfanrif yn bump a thrugain, a apwyntiwyd yn y Gymmanfa hon, i fyned ar genadiaethau. Gallwn ddweyd mewn gwirionedd iddo fod yn dymhor adfywiadol, er yn gymmysedig â thrafferth ac a llafur i ni, etto daethom trwyddo heb niweidio ein hiechyd, ein teimladau wedi ymgryfhau, ac yn gorlifo o ddiolchgarwch i, ac o gariad at Dduw, ac

yn gyflawn o fendithion ar eu bobl. Teimlwyd rhwyddineb mawr i bregethu gan bawb a lefarasant wrth y Gymmanfa, a dilynodd Ysbryd Duw y geiriau gyda grym i feddyliau y miloedd a ddystaw wrandawent, ac a ymddangosent eu bod yn gwledda ar y danteithion egwyddorol perthynol i fywyd ac iachawdwriaeth, y rhai a ddeilliant o ffynnonell doethineb a gwybodaeth. Llawenhawyd ein calonau gan yr undeb a'r ysbryd daionus a ymddangosodd fod yn llywyddu drwy y Gymmanfa, a gobeithiwn y ceidw ein brodyr a'n chwiorydd yr un Ysbryd gyda hwynt yn eu holl weithredoedd a'u cymdeithasau, gartref ac yn mhlith eu cymmydogion, fel y byddo i undeb, cariad, a brawdgarwch ffynu yn gyffredinol drwy y wlad; fel na chlywer mwyach sôn am anghydfodau, ymrysonau, na chynenau oddi fewn iddi.

Ni allwn ymattal rhag ail annog ein brodyr, cyn diweddu ein Hepistol, o berthynas i weddillion Israel, yn mhlith y rhai yr ydym yn awr yn gwladychu. Cofiwn na ddylid esgeuluso Israel tra yr anfonwn Henuriaid at genedloedd pellenig; pregethwch yr efengyl i'r brodorion sydd yn ein plith, hyfforddwch hwynt yn y modd i ymfywiolaethu, dysgwch hwynt ynghelfyddydau gwareiddiwch, ymddygwch tuag atynt fel y dymunech iddynt hwy ymddwyn attoch chwithau, pe buasech chwi drwy droseddiadau eich henafiaid, wedi syrthio i'r unrhyw anwybodaeth, iselderau, a thruenusrwydd ag yw eu cyfran hwy i'w etifeddu. Cofiwch fod yr amser y tynir ymaith y felldith yn agoshau, ac er mai gweddill a adewir, fe achubir y gweddill hwnw. Os heddwch a ymofynwch, peidiwch ag ymladd yn eu herbyn, canys po fwyaf a ymladdwch, mwyaf a gewch ymladd; eithr cynghorwn chwi fel cynt, gofalwch drosoch eich hunain a'ch meddiannau; na wrthwynebwch eu cecraeth yn eu hanwybodaeth, nac ymddarostyngwch i'w hiselderau, eithr ymddyrchafwch ac ymroddwch i'w dyrchafu hwythau i'ch sefyllfa chwi. Gwna hyn ddaioni iddynt hwy heb wneuthur i chwi unrhyw niwed. Hyn yw Efengyl yr iachawdwriaeth iddynt hwy, y rhai sydd anghenrhaid iddynt drengu, er yn raddol, etto yn sicr, os na ellir drwy offerynoldeb y bobl hyn, eu dwyn i ddealltwriaeth o egwyddorion yr adenedigaeth a'r iachawdwriaeth a barha fodoldeb, a'r hyn a addawyd i'w Tad Abraham a'i fendithion.

Yn derfynol, frodyr, gwrandewch ar gymhelliadau Ysbryd yr Arglwydd eich Duw. Cyflawner chwi o'r Ysbryd Glân; llifed eich heddwch fel yr afon, heb oddefiad nac attaliad; byddwch garuaidd a thrugarog wrth estroniaid, ac yn ddyoddefgar wrth eich gilydd; byddwch ffyddlawn i'ch cyfammodau, dyoddefwch brofiad eich ffydd. Byddwch ostyngedig gerbron yr Arglwydd eich Duw, ufyddhewch i'w orchymynion, a dyrchefir llen y gorchudd, a gweledigaeth eich llygaid a agorir, a'ch calonau a lenwir o lawenydd a gorfoledd o ddydd i ddydd, megys y gwelwch yr amser yn agoshâu, ac y canfyddwch gamrau yr Hollalluog Dduw yn mhlith troediadau galluog y miliynau daearol yn eu brys i ddinystrio eu gilydd; i ddarostwng drygioni, anwiredd, adferyd Seion, heddwch Jerusalem, ac i ddwyn teyrnasiad buddugoliaethus a thrwyadl, a gwirioneddol a chyflawnder dros yr holl ddaear.

BRIGHAM YOUNG,
HEBER C. KIMBALL,
JEDEDIAH M. GRANT.

Dinas y Llyn Halen Mawr, Ebrill 10, 1854.

---

## EFFEITHIAU TYBACO.

[Parhad o dud. 367.]

GELLIR rhanu yr amryw sylweddau a gymmerir i'r cyfansoddiad dynol megys cynnaliaeth neu foddion cynhyrfiad, i dri dosparth; yn gyntaf, dwfr syml, gan a thrwy yr hwn y dygir yr holl fynediad bywiol yn mlaen, ac o'r hwn y cyfansoddwyd gan mwyaf o'r corff byw—mae ynddo 90 rhan yn y 100 wrth bwys o ddwfr syml; yn ail, sylweddau magwrol, megys llaeth y fam, y ffrwythau bwytaol, llysiau, ŷd, &c.—pethau ag ydynt yn fagwrol yn unig, heb gynnwys un egwyddor gynhyrfiol, gysglyd, neu feddygol; ac yn drydydd, y sylweddau a ddygant ar y cyfansoddiad bywiol effeithiau meddygol neu gynhyrfiadol, ac heb weini unrhyw feithriniaeth i'r cyfansoddiad. Y cyntaf o'r sylweddau hyn, a'r mwyaf cyffredinol a digonol o lawer yn natur, yw y ddiod oreu, y fwyaf naturiol, ac yn sefyllfa ddilygredd y reddf anifeilaidd, dwfr yw y fwyaf cyttunol o'r holl ddiodydd. Ac heblaw hyny, dwfr yw yr unig ddiod a ofynir gan natur. Ond ynddo ei hun, pan yn bur ac heb ei

lygru gan ddyfais ddynol, mae dwfr, o ran ei natur, yn sylwedd swrth. Ai cymhwyso mewn tymheredd briodol, y mae yn fuddiol i'r dyneraf o edafedd euraidd bywyd, am na ddwg unrhyw gynhyrfiad neu adweithrediad. Gweithreda, modd bynag, yn unol a'i dymheredd, gan oeri y corff, neu ei gynhesu yn ol fel y byddo yr achos. Gweithreda hefyd drwy leithio a llithrigo y gwahanol ranau, a gweinydda drwy yr holl gyfansoddiad y dogn o wlybyr sydd anhebgorol er bywyd ac iechyd, gan gyfansoddi, fel y crybwyllwyd eisoes, y gyfran fwyaf o lawer wrth bwysau o'r holl gorff.

Y sylweddau o'r ail ddosparth a nodwyd, a weithredant mewn rhyw ystyriaethau yn wahaniaethol i ddwfr syml, er y cynnwysant yn gyffredin gyfartalwch tra mawr o'r hylif hwnw yn eu cyfansoddiad. Llaeth sy fwy na 90 y cant o ddwfr. Darn o gig eidion, di floneg, heb ei goginio, a gynnwys rhwng 74 a 75 y cant o ddwfr, a bara y pobyddion cyffredin, o'r gwenith goreu, a gynnwys oddeutu 35 gradd y cant o ddwfr.

Pan fyddo yn y cyfansoddiad alwad naturiol ac iachus am feithriniaeth, derbynir y sylweddau a arferir yn gyffredin er magwraeth y corff, yn enwedig y rhai, hyny o'r deyrnas lysieuog, megys maeth gyfeillgar. Ni ddygant ar y llinynau bywiol unrhyw gynhyrfiad neu ymweithiad anmhriodol. Pan fyddo ar faban wrth y fron eisiau maeth, nid oes dim mor gyfeillgar a boddhaol i'w gyfansoddiad a llaeth pur o'r fron famogaidd.

Gwedi i'r dannedd ymddangos, efe a gymmer sylweddau o ffurf cadarnach yn rhwydd, megys ffrwythau a pharotöadau o fwydydd blawdiog. Yn raddol daw i hanfodi yn hollol ar y pethau cadarnach, gan adael yn hollol y bwyd a arferai ei gymmeryd ar y cyntaf.

Mewn perthynas i'r trydydd dosparth o sylweddau a grybwyllasom, y rhai hyny o ymweithiad, cynhyrfiadol, neu meddygol eu rhywogaeth, y mae yn wahanol. Nid oes un plentyn, ar y cyntaf yn caru physygwriaeth, gwirod, tybaco, tê, coffi, na sylweddau ereill o rywogaeth feddygol. Yr wyf yn gwybod y dywedir y dysg plant yn fuan i flasu tê a choffi, cymmysglyn, ac ar rhai achosion tybaco; y rhai ydynt sylweddau o'r dosparth ymweithiedig, neu feddygol. Mae yn wir, fod rhai o'r nwyddau hyn yn cael eu trosglwyddo i gyfansodd-

fiad plant y rhanau gwareiddiedig o'r byd, yn y dydd presennol, braidd o'r dechreu. Dichon y trosglwyddir y naill neu y llall o'r nwydd hyn yn y dafn cyntaf o laeth a dderbyn o fron ei fam, oblegid y mae rhidiad llaethog yn gyfrwng a mynediad allan mawr i bob nwyddau meddygol neu gyffyriol a gymmerir i'r cyfansoddiad. Mynych yn y modd hyn y syfrdanwyd ac y meddwyd babanod yn hollol trwy laeth y fam neu y famaeth a arfer yfed meddyglyn a gwirod. Mynych y gwenwyd plant gan physygwriaeth a dderbyniwyd yn y modd hyn, a chredir y dinystrwyd bywyd ei hunan fel yma. Dysgwyd rhai plant i fiasu hyd y nod tybaco, er mor ffiaidd ydyw i'r anarferol, trwy eu darostwng yn ddyddiol yn fwy i'r gwraidd atgas hwn. Yr wyf wybyddus i famau a hên neiniau doeth ddysgu babanod, cyn gadael o honynt y fron, i sugno o'r bibell, y rhai a fiasant gymmaint arni eu hunain yn eu harchwaeth lygredig, ac am yr hon y diolchant yn ddyddiol i Dduw yn eu calonau, fel am y bara a fwytânt. Ond ni phrawf hyn oll y blasa'r baban y pethau cynhyrfiol hyn yn naturiol, er eu harferir yn gyffredin. Prawf yr holl brofion cywir i'r gwrthwyneb. Ffieiddia pob person mewn oed bob un o'r nwyddau hyn, megys gwenwyn, y sydd a'u harchwaeth a'u greddf heb eu halogi. Pe na chawsem ein darostwng i'w dylanwad mewn unrhyw ffordd, felly y buasem i gyd yn eu ffieiddio Ymgilia greddf anifeilaidd cyfansoddiad na lygrwyd bob amser, oddiwrth wirf, tybaco, tê, coffi, a'r holl gymmysgfa o gyffyriau a chynhyrfiadau penfeddwol ereill.

Yngoleu yr egwyddorion anianyddol hyn, gallwn fyned yn mlaen i olrhain mewn manylrwydd effeithiau tybaco ar y cyfansoddiad dynol, yn yr amrywiol ddulliau ei harferir.

Pan gymmerer tybaco i'r cylla mewn maintioli digonol i beri effaith go fawr, gwrthwynebiad, arloesygiad, a ffieidd-dod mawr, ac ymollyngiad a ddilyn. Cynhyrfa hefyd ddirgryniadau tostlym yn y cylla a'r coluddion i fwrw allan y gwenwyn. Arllwysiad o faintiolaeth gan lleiad ag un dram i'r coluddion a ddinystriodd fywyd lawer tro. Felly hefyd yn y dull cyffredin o arfer y nwydd, megys mygu a chnoi, yr achoswyd arloesiad, clafychiad, ac weithiau gyfogiad. Yr wyf yn cofio yn burion am danaf fy hun, pan yn yr oedran y meddylia plant eu bod yn ddynion, ac y dymunant efelychu arferion ffol a ddilynir

mor gyffredin yn mhlith rhai dosparthiadau, y cymmerais i ddysgu cnoi. Ond cyn i'r ymdrech cyntaf gael ei hanner orphen, buom lwyddiannus i gael fy ngwneyd mor glaf, fel na ddymunais byth mwy wneyd y prawf. Dyna yw yr effaith ar bawb pan y dechreuont fygu neu gnoi, oddigerth eu dwyn yn raddol dan ddylanwad y cyffyr, trwy gael eu darostwng i'w fwg oddiwrth ereill fo yn mygu. Y tadau, y brodyr hynaf, neu famau, neu neiniau, a arferant fygu yn y tŷ, ac, fel y crybwyllwyd, dodir y bibell weithiau yn safn y plant, ac fel hyn gellir cyrhaedd yr arferiad yn raddol heb ddwyn, clafychiad fel yn yr engrhaifftiau ereill. Eithr gan amlaf o arferwyr tybaco a fedrant ein hysbysu am yr amseroedd pan eu harloeswyd, ac eu clafychwyd yn fawr wrth ddechreu ei arfer.

Ond yn raddol daw y cyfansoddiad yn gynnefin a'i effeithiau. Ac yma, mae genym brawf o olygfa hynod mewn anianyddiaeth anifeilaidd, y dichon sylwedd yr hwn ar y cyntaf a fyddo wrthwynebus, ffiaidd, atgas, gwrthun, ac yn alluog i ddinystrio bywyd, ddyfod trwy arferiad i'w flasu gan y cyfansoddiad megys ei gyfaill goreu. A mwy na hyn, daw y cyfansoddiad mor arferedig a'i effeithiau, fel yr ymddengys agos yn anmhosibl i'r person fodoli hebddo. Wele y wraig yr hon a yfodd gymmaint tê am mor hir o amser ag y teimla yn feunyddiol gur pen am dê. Hi a gymmer gwpaniad cryf, ac oll ar unwaith, fel pe trwy swyn, y cur pen a baid. Gan farnu oddiwrth brawf y mynud, arweinir hi i gredu fod tê yn feddyginiaeth anffaeledig rhag cur pen. Eithr pe gwyddai hi ddigon am y cyfansoddiad dynol i allu cymmeryd golygiad eangach o'r peth, hi a ganfyddai mai y peth pennodol a ymddengys am yr amser i fod yn feddygyniaeth mor dda, yw yr achos o'r anhawsdra a deimla hi. Felly, hefyd, y meddwyn gresynus, pan y cynhygio am ddiwygio ei arferion, y teimla ef "Y gwagder poenus" hwnw nad oes ai gŵyr ond y rhai a'i profodd, fel yr â drachefn at ei gwpanau, y mae pob syniad o'i gyfansoddiad yn dywedyd yn amlwg wrtho ef mai o bob peth daearol gwirod yw y goreu.

Deil yr unrhyw egwyddor mewn perthynas i'r tybaco, am fod ganddo gryfach dylanwad tros ddynion nag un o'r pethau ymweithiedeg a grybwyllwyd, ac yn eu caethiwo i fwy graddau efallai nag unrhyw sylwedd arall, heb eithrio pabi.

Dyma fel y mae yn anianyddiaeth y cyfansoddiad dynol; y sylwedd a fyddo ar y cyntaf, i'r archwaeth bur a dihalog, yn ffiaidd, atgas, a chlafychaidd, a ddaw o'r diwedd i'w blasu fel y nwyddau mwyaf cyfeillgar; ac, i arfer ffugyr, gewynau teimladrwydd a ddeuant yn angylion y tywyllwch, er y buont, yn eu cyflwr cyntefig a naturiol, yn angylion goleuni. Yr egwyddorion anianyddol hyn, o wyddoriaeth, ydynt o'r pwysigrwydd mwyaf, ac nis gellir eu dwys ystyried yn ormodol gan yr oll a ddymunont fyw, mor belled a byddo modd, yn y mwynhâd parhaus o nerth corfforol a meddyliol.

*(I'w barhau.)*

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, GORPHENAF 22, 1854.

Llwyddiant yr Efengyl.—Llwyddiant yr efengyl yw testun ein gorfoledd, a chyd-lawenhâ ein cyd-weithwyr o'i phlaid yn mhob arddangosiad o'i harwyddion hi; y mae llythyrau cysurol o wahanol fanau oddiwrth y gwirfoddoliaid, yn arddangos eu ffyddlondeb a'u penderfyniadau yn y gwaith, yn ngwyneb llawer o rwystrau a'u cyfarfyddant, a galwadau taerion am ychwaneg o weithwyr i'r winllan. Ebe y brawd Roberts o Bethesda,—"Na ofned brodyr y deau ddyfod i'r gogledd, canys nid yw yn le mor oeraidd ag y meddyliwch. Frodyr, atoch chwi y mae ein dymuniad, rhowch help eich llaw i ni. Chwi grefftwyr, y mae yma ddigon o waith i chwi, deuwch yma i'n cynnorthwyo; y mae lluoedd o bobl yn meirw yn Môn ac Arfon, heb braidd glywed gair o sôn am efengyl yr iachawdwriaeth, o herwydd nad oes neb i bregethu iddynt; clywwn fod cannoedd o honoch chwi yn sathru ar sodlau eich gilydd braidd yn y deau yna, deuwch y ffordd yma i'n helpio ni. Y mae yr Henuriad O. Thomas, wedi dechreu bloeddio am ffordd y cadw yn eu plith, ac yn cael gwrandawiad da!" Gallem ychwanegu llawer am alwadau taerion brodyr ereill am

help yn erbyn y cedyrn. Frodyr pwy a'u hettyb "Wele fi anfon fi?"

Clywir am effeithiau daionus *Traethodu* o bob cŵr lle y gwneir hyny, a gwneler goreu po fwyaf, ac ymdrecher yn mhob dull cyfreithlon i ddwyn dynion i'r Eglwys, ac i rwystro iddynt gael eu twyllo allan gan unrhyw ddylanwad.

*Cymmanfa Sir Fynwy*,—A gynnaliwyd Gorph. 16 a'r 17, yn Nhredegar. Gorlenwyd y Neuadd, a theimlai yr oll a gyfarchai y torfeydd, a nerth a hwylusdod rhyfeddol i lefaru, yn y ddwy iaith. Cafwyd llawer o addysgiadau buddiol gan yr Henuriaid E. Ellsworth, yn ddiweddar o'r Dyffryn, a'r Henuriad Galloway, Llywydd Cynnadledd Sir Henffordd, heblaw gan y Llywyddion Cymreig.

Mawr lawenhai y gwrandawwyr yn y ddysgeidiaeth, a chafwyd pleidleisiad unfrydol i'r holl benderfyniadau a wnaed drwy'r Gymmanfa. Cafwyd y cynnrychioliad fel y canlyn:—

Hen. 83, Off. 27, Ath. 29, Diac. 18, Bed. 30, ysg. 22, bu farw 2, ar wasgar 21, ymf. 4, cyfanswm 547.

---

## CYMMANFA DDWYREINIOL MORGANWG.

Cynnaliwyd y Gymmanfa hon ar yr 2il o Orphenaf, 1854, yn Neuadd y Cymreigyddion, Merthyr.

Am 11eg o'r gloch yn y boreu, galwyd y Gymmanfa i drefn gan y Llywydd Dan Jones. Canodd y côr, "Y gynnadledd hon genhedlo," &c. Gweddiodd y Llywydd Daniels, a chanodd y côr.

Y Llywydd—Frodyr, y mae yn debyg y fod pawb ag sydd yma heddyw yn gwybod mai Efengyl Iesu Grist yw yr hon a bregethir genym, ac mai teyrnas Dduw yw hon. Y wybodaeth hon sydd wedi dwyn pob un o'r Saint yma heddyw. Dwys ystyriaeth o'r ffaith hon a baro i bob gonest galon i sychedu am ychwaneg o hyny, gan ymorphwys ar Ysbryd Duw am dano o'r ffynnonell ddihysbydd o ba un y tardda pob daioni.

Y peth cyntaf yr ymwneir ag ef y boreu hwn yw busnes yr Eglwys. Hyderaf fod pob un yn deall fod y cyssylltiad sydd rhyngom yn gyfryw nas gallwn wneyd heb y naill y llall; ac o ganlyniad, mae yr anghenrheidrwydd o'n bod mewn undeb, a cholled pob un na theimla ei hun mewn undeb, o herwydd

ffaeleddau ei frawd. Cynnygiaf ger eich bron ynte, y Llywydd Brigham Young, er i chwi ddangos eich cymmeradwyaeth o hono. Nid o ran ymarferiad y gwneir hyn, ond o herwydd ein gwir deimlad o'r fraint anrhaethadwy o feddu y fath ddyr, mor gymmeradwy gan y nefoedd ag yw ef. O'r ochr arall, os oes rhai yn teimlo i'r gwrthwyneb am rai o weision Duw, dylent amlygu beth sydd yn eu calonau.

Hysbys i chwi yw marwolaeth ein hanwyl Frawd Willard Richards. Testun galar a cholled i'r eglwys yw, ar ol y fath wron. Er fod rhai o honoch heb ei weled, yr ydych yn ei garu. Y mae rhai o honom wedi cael y fraint o'i adnabod, a derbyn bendithion dwyfol trwy ei offerynoliaeth. Cefais i weled ei ddewrder yn Ngharchar Carthage, yn ceisio amddiffyn y diniwed rhag y *mobs* gwaedwyllt. Ffyddlon fu yn y carchar y noson olaf, tra y parhaodd un pelydr o oleuni, i ysgrifenu amddiffyniad i'r gwirion; a phan y gallasai ddianc rhag ofn colli ei einioes, nis gwnaeth, ond cymmysgodd un dyferyn o'i waed â gwaed merthyron duwiol. Sefyll yn ei ran a wnaeth yn erbyn anghyfiawnder a thrais, a'i lais oedd yn ddychryn i ddrwgweithredwyr. Ei goffadwriaeth a beru tra y perchir gwirionedd, ac y gwylia angylion dros y diniwed. Mae ef wedi ehedeg o'r diwedd at y merthyron hyny, a channoedd ereill, i blith Eglwys y cyntaf-anedig, gan adael ei goffadwriaeth yn argraffedig ar galonau miloedd fel na ddilëir mo hono byth.

Gan ei fod ef wedi myned, y mae arall etto yn ei le, sef Jedediah M. Grant, yr hwn hefyd a safodd yn y gigyddfa arswydus hono yn Carthage, yn uwch ei ysgwydd na nemawr un oedd yno. Gobeithiaf y bydd ei ddysgeidiaeth yntau yn felus i ni etto pan awn i Seion, fel y diliau mêl ar ein gwefusau. Yna cymmeradwywyd yn unfrydol y Brif Lywyddiaeth a'r Deuddeg Apostol, ynghyd a'r holl Gorwmau.

Y Llywydd a sylwodd fod arwyddo yn groes yn beth dyeithr braidd i'rSaint. Gofynir weithiau, pa beth yw y rheswm na bai holl lywyddion y byd yn un. Atebaf mai o herwydd nad oes ganddynt Ysbryd Duw. Rhyfeddant, ofnant, ac arswydant wrth weled undeb a chynnydd y Saint, y rhai a welant yn myned i lanw y byd, yn ol eu cynnydd presennol; ac yn eu syndod, gofynant, beth sydd genym i uno dynion â'u gilydd? Atebaf, mai dysgeidiaeth bur, a llywodraeth drefnus y nefoedd,

sef yr Offeiriadaeth Santaidd; pan ufyddhao dyn iddi efe a ufyddha i Dduw, cariad yr hwn a'n cylyma oll yn un, os derbyniwn ef, oblegid, "yr hwn sydd yn eich derbyn chwi, sydd yn fy nerbyn i," meddai Iesu Grist wrth ei weision. Gwneyd hyn yn awr ynte, a'n corona mewn goganiant etto, a *gwnawn* hyn am fod ein dedwyddwch tragywyddol yn ymddibynu ar ei wneyd. Pwy gan hyny fydd mor ffol a pheidio?

Hysbysodd am ryddhad y Llywydd S. W. Richards, o Lywyddiaeth yr Ynysoedd Prydeinig,—ei fod wedi ei foddloni yn ei weinyddiadau, a'i ysgrifeniadau trwy y *Star*. pan ystyrir ei ieuengtyd a'i anfanteision. Ymfudodd tua 6000, a bedyddiwyd tua 7000 yn amser ei lywyddiaeth; a dadguddiwyd egwyddorion mawrion, yn yr hyn y danghosodd ei fawr ddoethineb i drafod y pwnc o amlwreigiaeth, &c. Mae ei frawd F. D. Richards wedi dychwelyd o lygad y ffynnon, yn llawn doethineb, dysgeidiaeth, a nerth Seion, i gymmeryd ei le.

Y Brawd Spencer hefyd, dymunwn adgoffa am dano ef. Y mae ef yn gweddio o'i holl galon dros y Saint Cymreig, ac y mae effeithiau amlwg yma heddyw o'i weithredoedd a'i lafur yn yr ychydig amser y bu yma. Daw ei ddymuniadau i ben, os cyd-weithiwn ni, ac nid ei ddymuniad ef yn unig, ond dymuniadau y nefoedd hefyd, ar i ni lwyddo.

Yna arwyddwyd yn unfrydol dros Lywyddiaeth yr Ynysoedd Prydeinig.

Y Llywydd,—Bob tro y codwn ein dwylaw yn adnewyddol, y mae bendith adnewyddol hefyd, os gwnawn yn ol ein harddangosiadau.

Y Llywydd Jeremy—Anwyl frodyr a chwiorydd,—Y mae yn dda genyf weled yr undeb a'r cariad sydd yn ein plith. Diammheu genyf mai ewyllysgar a fyddwch i ddangos eich boddlonrwydd o, a'ch hymddiried yn y Llywydd Dan Jones. Ei ddysgeidiaeth heddyw, er yn fyr, a achosodd i'r dagrau i redeg o'm llygaid, ac Ysbryd Duw i dreiddio trwy fy ngwythienau, wrth ei glywed yn adgoffa y golygfeydd a welodd.

Cymmeradwywyd y brawd Dan Jones yn Llywydd ar yr Eglwys yn Nghymru, ac ar y Gynnadledd hon hefyd.

Y Llywydd,—Nid peth bychan yr ystyriaf yr ymddiried hwn ynof gan gymmaint â hyn o bobl; arddengys gariad a serch, yr hyn a'm gosoda o dan rwymedigaeth i beidio eu siomi yn

eu dysgwyliad hyd a allaf. Dymuniad fy nghalon yw eich llesoli, a dysgu ewyllys Duw i chwi, a chyhyd ag y gwnaf hyn, gofynaf eich ufydd-dod gwirfoddol i mi, a'ch ymddiried i'r un graddau ynof. Yr wyf fi yn teimlo, ac yn *gwybod* fod fy llywyddion yn dysgu ewyllys Duw i mi, a da genyf weled fod y Saint yn arddangos yr un grediniaeth ynof finnau. Nid yw hyn yn chwyddo dim arnaf, ond yn fy narostwng i weled fy ngwaeledd ger bron Duw, yr hwn sydd yn rhoddi dylanwad i ddyn trwy ei Ysbryd Glân, yn ol ei ostyngeiddrwydd.

Yna cymmeradwywyd y brodyr Jeremy a Daniels yn gynghorwyr i'r brif Lywyddiaeth.

Hysbyswyd fod John Jones, yr hwn a fu yn henuriad teithiol, wedi cael ei ryddhau o'r swydd hono, gan nad ystyriai ei hunan y gallai ymwneyd a'i fasgnach a theithio.

Yr Henuriad Robert Parry hefyd a ganiatawyd i fyned i Ogledd Cymry i bregethu yr efengyl, yn ol ei ddymuniad ei hun. Rhyddhawyd ef o'r Gynnadledd hon trwy gydsyniad unfrydol.

Cymmeradwywyd yr Henuriad Dafydd Williams yn Henuriad teithiol, llafur yr hwn sydd eisoes wedi ei goroni â llwyddiant yn y Gynnadledd hon, ac hefyd yr Ysgrifenydd a'r Prif Ddosparthwr William Sims.

Dymunai y Llywydd glywed teimlad a phenderfyniad llywyddion y Cangenau, a pha gyfarwyddiadau sydd yn eisieu arnynt, fel yr elont oddiyma yn galonog, ac yn llawn nerth i gyflawni ewyllys Duw, i'r hyn ni chaniatâ amser y boreu hwn.

Y Cynnrychioliad sydd fel y canlyn:—2 o Archoffeiriad, 266 o Henuriaid, 94 o Offeiriaid, 103 o Athrawon, 65 o Ddiaconiaid, 69 wedi eu tori allan, 12 wedi marw, 4 wedi ymfudo, 112 wedi eu bedyddio, 85 wedi eu gollwng trwy lythyr, 57 wedi eu derbyn trwy lythyr, 56 ar wasgar, a'r cyfanswm yw 1887.

Canodd y côr, a therfynwyd trwy weddi gan y Llywydd Thomas Jeremy.

(*I'w barhau.*)

---

## CYMMANFA SIR FRYCHEINIOG.

Cynnaliwyd Cymmanfa chwarterol y Gynnadledd hon yn Neuadd y Clarence, Wainhelygen, ar y 9fed o'r mis hwn. Cyn-

nrychiolwyd 7 o gangenau, a gynnwysent 28 o henuriaid, 10 o offeiriaid, 7 o athrawon, 7 o ddiaconiaid, 5 o Saint ar wasgar, 7 wedi eu bedyddio, y cyfanswm yn 154. Cafwyd y Neuadd yn orlawn o Saint a gwrandawwyr. Yr oedd y cyfarfodydd yn fywiog, a'r genadwri yn rymus. Yn mhlith ereill o frodyr cawsom y fraint o glywed ein parchus Lywydd Jones a'i Gynghorwyr yn annerch y cyfarfodydd, nes y meddyliem fod seiliau teyrnas y tywyllwch yn crynu. Teyrnasai undeb a chariad dros yr holl Saint, ac argoelion da am lwyddiant mawr ar achos y Gwaredwr, yr hyn yw taer ddymuniad yr oll o honom.

THOMAS MORGAN, *Llywydd.*
THOMAS GRIFFITHS, *Ysgrifenydd.*

---

## Y MORMONIAID YN SAN BERNARDINO.

Allan o'r "Daily Alta California"

Yn mhlith yr amrywiol olygfeydd neillduol yn California, un sydd yn deilwng o sylw neillduol ydyw sefydliad y Mormoniaid yn San Bernardino, Saint y Dyddiau Diweddaf, pa rai sydd yn credu mai Joe Smith (ac nid Ioan) gafodd y genadwri o'r nefoedd i argyhoeddi y byd, ac i bregethu yr unig wir athrawiaeth, cyfatebol i'r amser presennol, pa rai sydd yn canlyn ei efengyl, megys eu colofn o dân y nos, a'u cwmwl y dydd, trwy ddiffaethwch bywyd.

Gwnaeth erlidigaeth y Mormoniaid yn Ohio, Missouri, ac Illinois hwynt yn grwydriaid. Yn flaenorol i 1845 anfonasant genadon i chwilio am Ganaan, yn gymmaint a'i fod yn eglur na chawsent aros yn heddychol yn nyffryn Mississippi. Cafwyd hanes da iawn gan y cenadon a ddaeth i California. Yn 1847, daeth byddin o'r Mormoniaid gyda'r Milwriad Cook i làn y Môr Tawel, a llawer o honynt a arosasant yno. Mormon a gafodd o hyd i'r aur gyntaf yn Melin Sutter; ac agosrwydd eu sefydliad yn Utah a'u galluogodd hwynt i fod y rhai blaenaf i fedi o'r cynheuaf euraidd. Dychwelodd y teuluoedd i Ddyffryn y Llyn Halen, pa rai a ddaeth a hanes am y tir toreithiog, a'r heulog fro o'r Dyffryn ar lán California. Penderfynasant yn 1851 i wneuthr sefydliad ger San Diego, trwy ba un y mae y ffordd fyraf a'r goreu tua'r Môr Tawel.

Gyda chymmeradwyaeth Brigham Young, awdurdodwyd

Amasa Lyman, un o'r Deuddeg, a'r Henuriad C. C. Rich, i ddewis cartrefle newydd i bump cant o Ymfudwyr; a phrynasant Gaugen San Bernardino ar ffordd San Diego a'r Llyn Halen, ynghyd a da a cheffylau, &c., am 70,000 o ddolars. Tiriodd yr Ymfudwyr yn Hydref 1851. Amgaeiwyd 2000 o erwau o dir, adeiladwyd caer o amddiffynfa rhag yr Indiaid, hauwyd en ŷd, ac adeiladwyd tai. Nid oedd y gaead-le fawr yn eiddo cyffredinol, ond yr oedd gan bob person ei ran i'w hau a'i fedi. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, yr oedd yno rai anhawsderau,—amrafael yn mhlith y gynnulleidfa, yn ogystal ag angau a phrofedigaethau, ond llwyddodd y sefydliad, megys y mae pob sefydliad Mormonaidd wedi gwneyd. Gwnaethpwyd heolydd, adeiladwyd tai, melinau ŷd a llifio; daeth ymfudwyr newydd yno; ac yn 1852, cyn bod y drefedigaeth yn flwydd oed, yr oeddynt yn anfon blawd i farchnadfa San Francisco, ac yn prynu yn helaeth o'r nwyfau yno.

Y mae y boblogaeth bresennol yn dros fil o rifedi, ac argoelion cynnyddu. Nid oes yn un o'r Taleithiau sefydliad mwy diwyd a chynnyddfawr, neu un mewn cyfartalwch i'w rhifedi yn gweithio mor effeithiol.

Y maent yn addaw y bydd San Bernardino yn ddinas mwyaf hardd yn Nghalifornia, ac i farnu wrth eu dechreuad, a'r hyn y maent wedi ei wneyd mewn lleoedd ereill, hwy gadwant at eu haddewid.

Yn eisteddiad y Senedd ddiweddaf, sefydlwyd San Bernardino yn Swydd ymwahanol, ac felly y mae gan y Mormoniaid lywodraeth fechan o eiddo eu hunain. Etholwyd Jefferson i fod eu cynnrychiolwr yn yr eisteddiad nesaf. Eu hysbrydol arweinydd yw eu Hesgob, Crosby, ond Rich fedd fwy o ddylanwad.

Lle hardd yw eu Dyffryn, gyda mawr fanteision naturiol. Y mae yn 30 milltir o hyd wrth y dwyrain a'r gorllewin, a 15 milltir o led wrth y gogledd a'r deheu. Tua'r dwyrain y mae mynydd San Bernardino, codiad pa un sydd yn agos i'r awyr. Barth o eira tragywyddol; ac o waelod y bryniau hyn y tardda lliaws o ffrydiau haelionus. Y mae y Dyffryn yn cael ei ddyfrhau gan afon Santa Anna, heblaw lliaws o ffrydiau ereill. Tua 60 millrir i'r deheu-orllewin y mae'r lân. Los angelos yn 60 milltir, San Pedro yn 75 o filltiroedd, a San Diego yn 80 milltir o'r lle hwn.

Y maent yn bwriadu i San Diego fod yn brif fasnach-le i'r sefydliad. Y pellder sydd tua wyth can milltir i'r deau orllewin o Ddinas y Llyn Halen. Y mae y ffordd o Ddyffryn Bear River i'r Môr Tawel yn llawer gwell nag un arall. Digonedd o ddwfr a phorfa y rhan fwyaf o'r ffordd; a choed da mewn rhai lleoedd.

Y mae'r Saint eisoes wedi deffroi i weled y pwysigrwydd o gael cledrffordd, ac y mae y wlad yn ffafriol iawn i hyny, ac os unwaith y dywed eu blaenoriaid ei fod i'w wneyd, mae yn sicr o gael ei wneyd, ac y mae yn bur debygol mai hwn fydd y rhan gyntaf a orphenir o'r gledrffordd i'r Môr Tawel.

Y mae y Mormoniaid yn gymmydogion da, ac yn cael eu hystyried mor foesol ac uniawn a'r mwyafrif o ddinasyddion California. Ychydig sydd yn cael ei ddweyd am eu hathrawiaeth o aml wreigiaeth, ac er mwyn heddwch, nid yw debygol y gwnant ddwyn i mewn yr arferiad hwnw i'r dalaeth. Mae yn hoff genym nad oes yr un ragfarn a chasineb yn erbyn y Mormoniaid yma ag oedd yn Mississippi, ac y mae lle i obeithio y gwna barhau felly. Ni haedda eu hathrawiaeth nemawr barch; ond nid ydynt i'w gorchfygu trwy erlidigaeth a gwawd.

Y mae yn deilwng o sylw, fod y rhai a ddarganfuasant yr aur gyntaf, y ffermwr cyntaf, a'r dyn cyfoethocaf yn Nghalifornia, yn neu oeddent i gyd yn Formoniaid.

*Cyf.* Wm. Sims.

---

Derbyniadau am Lyfrau o Gorph. 13 hyd Gorph. 18.—Sir Fynwy, £7 10s.—*Cangenau Dwyr. Morganwg*—Pendeulwyn, 1s 6c; Twynyrodyn, 6s; Pontfaen, 1s 6c; Georgetown, 4s 4c; Troedyrhiw, 4s 6; Cwmbach, 6s.

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street, Merthyr-Tydfil.*

---

CYNNWYSIAD.

| | TUD. |
|---|---|
| Yr Unfed Epistol Cyffredinol ar Ddeg | 421 |
| Effeithiau Tybaco | 425 |
| Golygyddiaeth—Llwyddiant yr Efengyl—Cymmanfa Sir Fynwy | 429 |
| Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg | 430 |
| Cymmanfa Sir Frycheiniog | 433 |
| Y Mormoniaid yn San Bernardino | 434 |

---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 28.] GORPHENAF 29, 1854. [CYF. VII.


### CYMMANFA DDWYREINIOL MORGANWG.

[Parhad o dud. 433.]

SYLWADAU Y LLYWYDD JONES.

*Hanner awr wedi dau.*—Y Llywydd a lawenhäai wrth weled cynnifer wedi dyfod ynghyd. Gobeithiaf na siomir neb (meddai), ond y mwynheir Ysbryd Duw y prydnawn hwn etto, fel yn y boreu. Yr Arglwydd a'n harweinio i siarad o dan ddylanlanwad Ei Ysbryd Glân er gogoniant i'w enw.

Y mae cymmaint o bethau i'w dweyd, a chymmaint o awydd i chwithau i glywed yr oll, fel y mae yn gryn anhawsdra i ddewis y pethau goreu, a mwyaf anghenrheidiol i'w dweyd.

Dyben y dyn gonest wrth ymgrefydda yw cael gafael mewn nefoedd, a'i brif amcan yw mwynhau holl wrthrychau ei serch. Canol-bwynt sugndyniad holl grefyddau ein gwlad. yw y nefoedd. Mae gan y Saint amcan i fwynhau llawer nefoedd, ac ni chredant, fel rhai, mai un nefoedd yn unig sydd i'w chael, a hono yn un ysbrydol, heb un mwynhad o bethau sylweddol ynddi, ond i fath o nefoedd tu draw i'r môr yna y mae sugndynfa y Saint yn gyntaf. Mawr fel yr hoffa rhai glywed ani Seion, lle y preswyliant mewn heddwch, wrth ben eu digon. Llawer o ddysgwyliad sydd mewn Cymmanfa fel hon, i glywed am y mwyniant sydd yno, a'r ddysgeidiaeth werthfawr a geir yno, er eu cymhwyso i oddef presennoldeb Iesu Grist pan ddaw yn ei ogoniant, a pha fodd y deuant allan yn yr adgyf-

odiad cyntaf, i etifeddu gorseddau, llywodraethau, a choronau anniflanedig yn Nheyrnas Dduw, &c. Mae hyna yn dda i'r rhai sydd *yno* i feddwl am dano, ond y peth cyntaf i ni ystyried yw ein dyledswyddau yma, ac wrth wneyd hyny yr egyr y ffordd i ni fyned yno. Os na ystyriwn hyn yn gyntaf, tebyg fyddwn i'r sectariaid a soniant am fwyniant rhyw nefoedd fry, "tu hwnt i ororau'r eangder," ond ni ddangosant hyd y nod y cam cyntaf o'r ffordd tuag yno! Sôn am y ffordd i allu *dechreu* myned yno sydd beth difater ac anystyriol ganddynt hwy. Y Saint a soniant am Seion, ac am fyw yno, ac hiraethant am fod yno, yr hyn a arddengys i mi mai Ysbryd Duw yn unig a'u cynhyrfodd i'r fath deimladau da, ac a gododd eu meddyliau uwchlaw gormes a thrais, i'r breswylfa wynfydedig yn Seion, yn mhlith y Saint, i gael eu cynnysgaeddiadau, a'u dysgu yn ngbyfraith y teulu nefolaidd; ond gwell yn bresennol yw peidio myned mor uchel â'n hysbrydoedd, lle nad all ein cyrff fyned yr un pryd, eithr dyfod a'n hysbrydoedd i'r lle y mae ein cyrff, a'n calonau lle mae ein gwaith, sef yn y wlad lle yr ydym yn byw. Y ffordd oreu i ymgrefydda yw gwneyd y peth cyntaf ar ein pwys, ag sydd yn wir anghenrheidiol i'w wneyd, ac a allwn wneyd, yr hyn â'n galluoga i wneyd peth sydd fwy, fel y byddwn radd yn agosach i'r nefoedd nag o'r blaen. O dan yr ystyriaeth hon yr wyf yn bwriadu rhoddi dau destun i'm brodyr yma i sylwi arnynt yn y Gymmanfa hon, sef, *Beth ydym, a pheth a ddylem fod.*—Byr yw yr amser yn bresennol i ddweyd beth ydym, na pheth a ddylem fod ychwaith.

Beth ydym ni? Profwyd ini mai Saint y Goruchaf Dduw ydym, ac aelodau o eglwys Iesu Grist, y rhai sydd yn dysgwyl am fwynhâd o'i ogoniant, trwy fwynhâd o ernes o'r etifeddiaeth a dderbyniasom, ac er ein galar, rhai ydym yn byw tu yma i'r môr, yn Nghymru, ïe, ac i ddyfod yn nes i dref. yn Nghynnadledd Ddwyreiniol Morganwg; wrth y cyfryw y siaradaf yn bresennol, ac os derbynia rhywun arall leshâd, ac addysg, croesaw iddynt.

Y mae dyledswyddau yn orphwysedig ar Saint Cynnadledd Ddwyreiniol Morganwg, ac y mae Duw yn eu gofyn oddi ar eu llaw, o ganlyniad, bydd yn bechod yn erbyn Duw iddynt beidio eu gwneyd. Dyna resymeg deg, ac os ymresyma neb eu hunain allan o honi, gwnant fwy nag a allaf fi wneyd. Os

profant fod rhyw bethau gwell iddynt wneyd na'r hyn eu dysgir, carwn iddynt beidio eu cuddio, eithr eu hamlygu i ninnau. Nid oes yr un gorchymyn yn cael ei roddi i un llywydd, swyddog, teulu, na pherson o fewn y Gynnadledd hon, nad yw holl weision Duw oddiyma i Seion, a Duw ei hun yn eu cyd-orchymyn hefyd. Ar y sail hon y safaf fel ar gastell amddiffynfa, i gael genych wneyd yr hyn y mae Duw yn ei ofyn. Beth yw y canlyniad o beidio gwneyd yr hyn y mae Duw yn ei ofyn? Os ewyllys Duw yw ei gyfraith, ac os yw anghyfraith yn bechod, a bod neb yma heb wneyd pob rhan, mewn pob amgylchiad a ofynwyd ganddo, y mae yr anufydd-dod hwnw yn bechod arno. Daethym a chlorian yma heddyw, i bob un gael pwyso ei hun,—drych sydd genym i bob un edrych ei wedd,—edrych i groniclau y nefoedd, a gweled mewn llythyrenau euraidd, beth yw ei gymmeriad. Mae pob gweithred o'n heiddo yn argraffu ein hanes, fel nas gall amser na dim arall eu dileu yn dragywydd. Edryched pob un yn ol ar ei weithredoedd, a gweled pa fath ydynt.

Yr wyf fi yn foddlon gwneyd pob peth ag a allaf, meddai ambell un; nid yw Duw yn gofyn rhagor genyt, ynte. Os oes yma rywun nad all ddweyd hyny, a dweyd y gwir, deued i allu dweyd hyny. Llawer o sôn sydd am ymgrefydda; nid yw dyfod i Gymmanfa, a chael cyfarfodydd da, a myned i Seion, ond rhan o hyny, ac y mae yn gryn orchwyl i'n cael mor ddaearol â hyna. Ein ehedfan, yn ol dychymmygion crefydd ein hieuengtyd, sydd fry yn uchel tu hwnt i'r cymylau, ac o'r golwg; ond yn awr y mae ynwyf wresawgrwydd at y blaned fach hon, lle y bwriadaf osod fy nghorff i lawr i gysgu, a lle y daw fy ysbryd i'w gael drachefn, i fyw arni mewn dedwyddwch,—a mwynhâd o bethau anghenrheidiol, ac o holl wrthrychau fy serch, mewn nefoedd dymhorol, (os tymhorol y galwch hi) yn ogystal ag ysbrydol, a hyny trwy ymwneyd â'r grefydd sydd yr un mor dymhorol ag yw ysbrydol. Swm crefyddau yr oes yw dysgu dynion i ymwadu â'r ddaear hon, eithr ymdrechaf fi gael eich meddyliau ehedegog i'r ddaear hon lle yr y'm, a lle mae ein gwaith, a'n dyledswyddau crefyddol. Peth dyeithr iawn gan rai yw clywed fod rhoddi arian at y grefydd yn *rhan* o grefydd. Ystyriaf mai crefyddol a fyddaf wrth ofyn hyny genych,—y byddaf yn ymwneyd a'm crefydd. Mae casgliadau ar y Gyn-

nadledd hon, sef y Drysorfa Ymfudol Barhaus, y Deml, ac at gynnal y gweision sydd yn llafurio ynddi. Ystyriaf fod pob un o'r easgliadau hyn mor anhebgorol anghenrheidiol ag yw unrhyw ran arall o'n crefydd, o herwydd fod Duw yn eu gofyn yr un modd. Os yw Duw yn gofyn hyn, peth crefyddol yw, neu ynte y mae Duw yn gofyn peth anghrefyddol; ac os credwn nad yw yn gofyn peth anghrefyddol, nid oes genym le i syflyd o'r ffordd heb weled ein dyledswydd o gyfranu arian at yr achos, a bod hyny yn grefyddol hefyd. Beth yw y rheswm fod dynion yn gwrthod gwneyd hyny? O herwydd fod rhy fach o grefydd ganddynt, yw hyna, fel rhywbeth arall. Pa fodd y derbyniasom yr Ysbryd Glân? Trwy gredu, edifarhau, a chymmeryd ein bedyddio er maddeuant pechodau, heb weled hyny yn ormod; ac heb wneyd hyny buasem heb gymmaint o fendithion ag sydd genym yn bresennol. Gan mai trwy ufyddhau i'r rhan gyntaf o grefydd y derbyniasom y fendith o ddaon yr Ysbryd Glân, felly trwy wneyd pob rhan arall o'n crefydd y sicrhawn *holl* fendithion Duw. Fel mae y dyn a ofna niweidio ei ddillad pe caffai ei fedyddio, yn ei amddifadu ei hun o'r Ysbryd Glan, felly mae y dyn a ofna gyfranu o'i eiddo er cynnal ei grefydd yn amddifadu ei hun o fendithion gwir grefydd. Nid crefydd glytiog yw crefydd y Saint, ond un gyfan, ac ni achubir dyn wrth ymwneyd ag un rhan, a gadael y llall heb ei gwneyd.

Dosparth arall sydd yn foddlon rhoddi at y naill gasgliad, a dim at y llall, ac felly amddifadant eu hunain o'r bendithion addawedig wrth wneyd hyny.

Y mae genyf ffeithiau profedig, ac enwau rhai a wnaethant felly, o dan yr un ystyriaeth a'r dyn a ofnodd niweidio ei ddillad pe cymmerai ei fedyddio; a hwy sydd dlota a llyma eu cefnau yn y diwedd.

Os braint ydyw i wneyd un rhan o grefydd, braint ydyw gwneyd y cyfan. Os gadawn un ran o'n crefydd heb ei gwneyd, pa fodd y dysgwyliwn gymmeradwyaeth Duw drwy gondemnio y rhan arall o honi.

Mae y llyfrau sydd yma yn dangos eich bod wedi bod yn ffyddlon er ys amser yn ol, i gyfranu at y Gymdeithas Ymfudol, ond nid felly yn awr. Ystyriaf mai y peth mwyaf ei anghen a'i bwys yw dweyd hyn wrthych heddyw, yn hytrach na son

am Seion a'i mwyniant, fel sectariaid am y nefoedd,—soniwn *pa fodd y mae myned yno*. Yr un modd hefyd gyda phob casgliad arall. Dewis un casgliad a gwrthod y llall, sydd debyg i ddewis un ordinhad, a gwrthod y llall. Y mae Duw wedi bendithio y rhai a roddasant y ddegfed ran o'u heiddo, ac wedi gorlenwi eu hysguboriau. hyd nes nad oedd dim lle ganddynt i gynnwys eu cnydau, ac y mae y rhai a beidiasant a chyfranu wedi myned yn dlotach, a *thlotach* yr â pawb o'r fath, po leiaf a roddant, llwydach yr â y wisg; po dŷna ei galon, tŷna i gyd ei logell hefyd; ond paham y siaradwn fel hyn, ai ein heiddo ein hunain yr ydym yn gyfranu? Onid Duw a'n pïa ni â'n heiddo? Efe a roddodd fenthyg ei eiddo i ni er ein profi; arolygwyr ydym, ynte, ar eiddo arall, ac iddo Ef y rhaid i ni roddi cyfrif pa fodd y gwnaethom; ac os arolygwyr drwg ydym, lleiaf i gyd a gawn i arolygu arno.

Er ys blwyddyn a hanner yn ol, codwyd dwylaw yn y Gymmanfa hon i gynnorthwyo cenadon Duw i Benrhyn Gobaith Da, ar gyfandir Affrica; ond gofynaf, *pwy* sydd wedi sefyll at eu haddewid? Ychydig bach o gangenau o'r llawer sydd yma. Os mai rhan o grefydd oedd cynnorthwyo y dynion hyn i fyned i bregethu yr efengyl, pa ryfedd fod dynion a beidiasant wneyd hyny yn achwyn nad ydynt yn teimlo cystal ag arferol. "Yr oeddwn i yn meddwl mai ewyllys rydd oedd genyf," meddai y cyfryw. Ië, yn siwr, ond beth yw ewyllys rydd, ai caniatâd i roi neu beidio? Mae yn rhaid fod y dynion a ystyriant felly mewn tywyllwch. Ewyllys rydd fel yna a adawa i'r anffyddlon gael coron o ogoniant ar orsedd wrth ochr y ffyddlon,—i'r diogwr gael myned i fewn i orphwysfa yr Arglwydd, yn ogystal â'r hwn a oddefodd bwys a gwres y dydd,—un a'u hachuba i gyd! Dechreuwr yr ewyllys rydd yna oedd Lusiffer yn y nefoedd, a'i bleidwyr a'i pleidia. "Mi a'u hachubaf i gyd, anfon fi, cânt eu hewyllys rydd," ebe fe. Y rhai sydd a'r ewyllys rydd yna a orphenant eu gyrfa gyda Lusiffer, i gael mwyniant o'r un deyrnas. Ewyllys rydd y Saint, a'r angylion santaidd yn y nefoedd yw gwneyd ewyllys Duw ar ol ei gwybod. "Dy ewyllys di, O Dad, a wneler, ac nid fy ewyllys i." Dyna yr ewyllys rydd a gynnygiwyd i Gynnadledd Ddwyreiniol Morganwg, ac y mae rhai wedi ei derbyn, ac ereill yn gwneyd yn ol ewyllys yr hen Lusiffer. Pan oedd Israel yn dyfod i fyny

o'r Aifft, yr oedd Moses ganddynt i ddadguddio iddynt ewyllys Duw,—safon eu ffydd, a therfyn pob dadl. A iawn ddefnyddiasant yr ewyllys rydd hono, drwy ufyddhau i ewyllys Duw? O naddo, aethant yn rhy frâs, a blinasant ar fwyd y boddlonodd angylion Duw yn y nefoedd i fyw arno, a gwaeddasant am gig yn ol eu hewyllys eu hunain, ac ni chyfrifent Moses yn ddigon da iddynt yn hwy, nac yn werth gwrandaw arno; ac o'r diwedd gwnaethant lo o aur, yn ol eu hewyllys rydd eu hunain, ac a addolasant hwnw, yn hytrach nâ'r Duw a'u gwaredodd, ac a'u porthodd â bwyd angylion, o herwydd iddo roddi ewyllys rydd iddynt i wneyd fel y mynont. Pan welodd Duw eu cam-ddefnydd o ewyllys rydd, rhoddodd y gyfraith Foesenaidd iddynt, sef dant am ddant, llygad am lygad, a llabyddio â cherrig, yn ffrewyll i'w ffrewyllu am ei cham-ddefnyddio, ac am iddynt sathru bwyd y nefoedd dan draed. "Am ddiystyru fy ewyllys, a rhedeg yn mhell oddiwrthyf, mi a'u fflangellaf yn ol," meddai y Tad trugarog yn y diwedd. Dywed Paul mai o herwydd troseddiadau yr ychwanegwyd y gyfraith, sef am *gum*-ddefnydd o ewyllys rydd.

Y mae rhai aelodau gyda'r Saint, wedi myned yn rhy frâs, ac yn cam-ddefnyddio ewyllys rydd, yr hon a roddwyd iddynt gyda gwybodaeth o ewyllys Duw. Cofiweh am y gwas anfuddiol, yr hwn a wybu ewyllys yr Arglwydd ac nis gwna, o herwydd iddo gael rhyddid i wneyd nen beidio, a gurir â llawer o wialenodau. Pa fodd y mae bod yn weision buddiol ynte? Gwneyd mwy nag a ofynir ganddynt, o'r hyn y gwyddant sydd eisieu ei wneyd; os na wnant hyn, trefn Duw yw eu fflangellu hyd nes eu gwnant; megys dweyd fod hyn a hyn y pen arnoch i dalu o'r ddyled arosol yn ol eich cyfartaliwch, am sathru un o egwyddorion goreu y nefoedd, wedi ini hir geis'o genych i'w pharchu, neu ynte, amddifadu eich hunain o freintiau yr eglwys a gynnelir gan ereill.

A oes yma rai am barchu yr egwyddor hon? Os oes, yr wyf fi yn barod i godi fy nwylaw i fyny tua'r nef yn arwyddocâd o'n bod yn myned i gael treial teg tua arni etto. Mae yr amser wedi myned heibio i mi adael dynion i wneyd fel y mynont. Beth a wneir? Rhaid gwneyd rhywbeth. Y mae rhai Cangenau wedi talu, a phe byddai y papyr genyf, cyhoeddwn hwynt. Mi a wn fwy am anufydd-dod rhai nag a feddyliweh,

ac ni wyddoch lai nad yw eich cymmeriad yn Seion wedi ei groniclo i'ch ewrdd mewn dydd a ddaw. Mae rhai a'i cyfrifant yn ormod i roi 1s 6½c, at y Deml. Nid wyf fi am gadw dynion a wyddant ewyllys yr Arglwydd, a gallu ganddynt i'w gwneyd, ac nis gwnant, yn yr Eglwys. Yr wyf am i Lywyddion y Cangenau i edrych o hyn allan pwy sy'n cyflawni eu dyledswyddau mewn cyfranu, a phob dyledswydd arall, dweyd yn dda am eu gilydd, a byw mewn undeb a chariad. O herwydd fod rhai o'r pethau hyn yn cael eu hesgeuluso, y mae Glân Ysbryd yr Arglwydd yn cilio ymaith. Mae ei ddewis gan bob Llywydd i osod y rhan hon o'r gyfraith Foesenaidd ar bawb na iawn ddefnyddiant rydd ewyllys Duw. Dywedai Moses wrth Israel gynt, "*Rhaid* i chwi wneyd hyn os ydych am fod yn ddinasyddion yn Israel." Dywedwch chwithau wrth y rhai ag ydynt ar yr enw o Saint, fod yn *rhaid* iddynt fod yn Saint, os ydynt am aros yn yr Eglwys hon. Gwn fod cannoedd o ddynion ar hyd y mynyddau yma a amddiffynant ein crefydd, a rhwystrir hwy i fewn i deyrnas Dduw, o herwydd y cam-ddefnyddia'r Saint eu crefydd. Gofynir gwaed y cyfryw ddynion ar eu penau, pob un ag a ddemnir o honynt. a hyny, o herwydd anffyddlondeb Saint i'w hachub! Pan ddaethom yma yr oedd yma tua hanner dwsin o Hennriaid Llywyddol yn cael eu cynnal yn gyfurus, yn y Gynnadledd hon, ac yr oeddynt fel boneddigion eu golwg, ac achwynodd rhai fod gormod o faich arnynt, a thynais hwynt lawr i gyd, hyd at un heblaw fy hunan, ac ysgrifenydd; po cynnilaf i gyd yr ymdrechem fyw, lleiaf i gyd oedd y casgliadau i'n cynnal o hyd. a hyny o herwydd y cam-ddefnydd o'r egwyddor o ewyllys rydd. Pan aeth y brodyr Llywyddol ereill i ffwrdd, dywedais na wasgwn arnoch ond mor lleied ag a allwn, a llywyddais y Gynnadledd hon fy hun, rhag eich gwasgu, na chadw neb a allasem wneyd hebddynt, i fyw ar y Gynnadledd hon ; ac er cywilydd i agos i ddwy fil o Saint, dywedaf fod esgeulusdod mawr wedi ac yn bod, i ddiwallu anghenrheidiau y rhai a'ch gwasanaethant chwi n ffyddlon eu holl amser! A ydyw hyn yn gyfiawn? Heb i chwi wneyd yn gyfiawn ni fendithia Duw chwi. Ai gofyn mwy o arian genych yn afreidiol yr ydym? Nage ddim; eithr yn hytrach eich dysgu i iawn ddefnyddio yr egwyddor o ewyllys rydd, i fod yn weision buddiol, ac i ddianc rhag i'r Arglwydd

osod y ffrewyll arnoch, a rhag i'ch llywyddion eich gorfodi i wneyd, neu eich tori allan,—rhag i chwi sathru o dan eich traed egwyddor a'ch dyrchafa am bob tragywyddoldeb, os ufyddhewch iddi. Yr egwyddor hon a'n gorfododd ni i fyned i waered i ddyfroedd bedydd, ac a ddygodd i ni faddeuant pechodau, a dawn yr Ysbryd Glân, a gobaith am fwynhad tragywyddol o wynfyd a hedd; a'r egwyddor hon, os iawn ddefnyddiwch hi, a'ch dyrchafa i orseddau breiniol, ac yn etifeddion pob peth.

Mae arnaf drueni dros rai o lywyddion y cangenau, y rhai a weithiant ddydd a nos braidd i gynnal eu teuluoedd, ac a ânt dros fryn a phant tra y parbao eu clyniau i'w cario, ar ol rhai er eu hadferyd, gan golli eu cysgu'r nos, a niweidio eu hiechyd wedi gorfod gweithio y dydd, i gael gan ddynion i wneyd gofynion Duw, yr hyn a ddylent fod *wedi* ei wneyd o'u hewyllys rydd.

"Yr wyf fi wedi gwneyd fy ngoreu," meddai Llywydd y gangen, i gael gan ddynion i gyfranu at y Deml, neu ryw gasgliad arall. Cofied Llywyddion y Cangenau y gallant wneyd y naill beth neu'r llall o honynt.

Wedi iddo ddarllen y *list* o'r casgliadau am y chwarter a aeth heibio, yn cynnwys tua £6 8s at ddyled y Gynnadledd, ac nad oedd Cangen Merthyr wedi rhoi dim ond chwe' cheiniog at hyny, dywedodd,—Frodyr Merthyr,—Ni chaiff y fath wawd ei wneyd o Offeiriadaeth Duw, ac o egwyddorion ei deyrnas. A oes neb o honoch a ddigia pe rhoddwn gyfraith Moses arnoch? Gwell yw genyf gael gwared o ddynion na wnant ewyllys Duw, a chael dynion o'r byd yn eu lle, y rhai a wnant hyny; etto, y mae yma rai ffyddlon yn tristâu wrth weled diffyg o gydweithrediad. Dywedaf wrthych wirionedd, mai o herwydd hyn y mae dynion yn colli Ysbryd Duw, yn oeri, a myned i dafarndai i wario eu harian, ac a syrthiant yn ol i gaddug o dywyllwch. Yr wyf am i chwi o hyn allan i fynu gweled naill ai ewyllys rydd yn cael ei pharchu, neu y gyfraith Foesenaidd yn ffrewyllu ei hanmbarchwyr.

Yna edrychodd ar y *list* drachefn, a gwelodd fod £11 wedi eu casglu at y Deml, a dywedodd,—Faint o awydd, debygwch, y mae Duw y nefoedd yn weled mewn dwy fil o bobl i adeiladu Teml iddo? A fendithia Efe y rhai a wyddant eu bod yn es-

geuluso ei orchymynion pendant? I ba le y mae ystyriaeth y cyfryw wedi myned?

Anfoddlona rhai gyfranu at y Gymdeithas Ymfudol, o herwydd na chânt hwy ddefnyddio yr arian fel mynont, ac ymfudo y sawl a fynont.

Sefydlwyd y Gymdeithas hon gan y Llywydd Brigham Young, ac y mae y bobl hyn am ddwyn ei swydd, wedi codi cu deheulaw tùa'r nefoedd i'w gynnal i fyny fel Llywydd! Dangosant mai golwg fach iawn sydd ganddynt arno, o herwydd nad allant ymddiried ychydig bethau tymhorol i'w drefniant ef!

Hyderaf fod digon wedi ei ddweyd i osod awydd ynoch i wneyd yn iawn o hyn allan, ac os ydych am brofi eich Llywydd a ydyw yn dweyd y gwir ai peidio, gwnewch fel y mae yn dweyd, ac fe'ch bendithir ar eich canfed mewn pethau tymhorol, a dylifa bendithion Duw fel yr afon ar bob ymdrech o'ch eiddo, o herwydd Duw geirwir yw ein Duw ni.

Mae rhai yn symmud o'r Gynnadledd hon heb dalu y rhan a ddylent at Ddyled y Gynnadledd, &c., ac yr wyf wedi gosod y gyfraith Foesenaidd er cael hwn i fewn, gan fod fy Llywyddion wedi ei gosod arnaf finnau.

Gobeithiaf y cawn godi ein penau yn uwch nâ'r dòn, a chael ein Cynnadledd i fyny o'r pwll hwn.

WILLIAM LEWIS, *Ysgrifenydd.*

*(I'w barhau.)*

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, GORPHENAF 29, 1854.

YR YMFUDIAD.—Mae yr hysbysiad diweddar o fwriad y Brif Lywyddiaeth i gasglu y Saint Ewropaidd i'r Unol Daleithiau, wedi cynhyrfu anesmwythder cyffredinol drwy yr Eglwys yn Nghymru; a thra yr ymlawenhawn gyda hwynt yn y dylanwad hiraethog am Seion, ac yn y gobeithion adnewyddol a geir drwy y trefniad o ymgasgl-fanau yn y Talcithiau; etto,

mae y gofyniadau mynych am gynghor i fyned yn awr, a'r rhyddid a gymmer rhai i ymbarotoi i ymfudo, yn ein cymhell i ateb y cwestiwn hwn fel hyn, er arbed y drafferth o'i ateb bob dydd braidd; sef, mai y cyfarwyddyd a gawsom ni yw, aros yn amyneddgar, hyd oni hysbysir ni gan ein Llywyddiaeth fod y brodyr wedi cyrhaedd yno o Seion, gwneyd y darpariadau bwriadol, cytuno am y cludiad yr holl ffordd, ac anfon eu bod hwy yn barod. Dyma gynghor yr Eglwys, ac ni ddysgwylir i ni ddweyd yn amgen; ac felly, ni allwn ystyried y neb a elo cyn hyny, yn amgen nac anufyddhawr i gynghor; er hyny, dichon amgylchiadau rhai eu cyfiawnhau am wneyd eithriad,—hwy sydd i farnu hyny yn ol eu hamgylchiadau, a rhyngddynt hwy a'u Duw bydd y canlyniad o hyny; eithr hyn, meddwn, ofer-waith yw i neb ofyn i ni am gynghor i fyned, cyn y cawn y cynghor hwnw; ac ni oedwn ei wneyd yn hysbys, wedi cael yr amser i gychwyn.

Nid amser i segura yw y tymhor arosol hwnw chwaith, eithr dylai agoshâd y cyfnod ymadawol â'u gwlad, eu perthynasau, a'u cenedl, ddeffro y rhai a ragwelant y perygl o aros yn hwy yn Babilon, i ddiwydrwydd dyladwy i rybuddio ereill o'u deu tu.—o ddynesiad dydd mawr ac ofnadwy yr Arglwydd,—dydd cwymp Babel fawr, a'i holl au-grefyddau, a'i chymmysgedd annuwiol o bob trythyllwch. Dwys ystyriaeth o'u cyfrifoldeb yngwyneb y ffaith y rhaid iddynt etto, ryw ddydd, sefyll wyneb yngwyneb eu gilydd, a'u cymhello i roddi tystiolaeth eglur a dealladwy i'r rhai a adawant, am y tro diweddaf, efallai, yn y fuchedd hon, drwy eu bucheddau cyfiawn, caruaidd, a duwiolfrydig, eu hannogaethau taerion, a phob diwydrwydd i'w hargyhoeddi o'u perygl, ac o fendithion y waredigaeth. Dydd sobr a ddylai fod dydd y rhybuddio, canys sicr yw mai sobrwydd a lanwa bob mynwes ar ddydd y cyfrif. Dydd prysur yw dydd marchnad, a mwy cyfoeth na'r byd a'i olud a ennilla yr hwn a iawn ddefnyddia ddydd gras a thymmor iachawdwriaeth.

Doeth fyddai i'r ymfudwyr gofio hefyd cyn cychwyn, fod gwyntyllau cryfach, ac etto yn gryfach i'w cyfarfod fel yr agoshânt at yr ysgubor; anghenrhaid yw chwythu ymaith yr ûs, cyn y bydd y gwenith yn lân. Ymbarotoer i gyfarfod gwyntyllau yr ymgasgl-fanau cyfeiriedig, ynte; o herwydd

siomir rhai os na chodant gorwyntoedd digon cryfion i chwyrnellu rhai o'r ûs dros y môr yn ol, ac feallai y caffant eu ffordd i lygaid rhai i'w dolurio, os nad eu dallu. Megys y mae ymlyniad ambell wenithen wrth ei hûs, yn gofyn grymusach nithiad i'w hysgaru, y mae ymlyniad rhai dynion wrth eu pechodau yn gofyn ymdrech glewach i'w cael o'u gafaelion; ac fel yr â ambell wenithen gyda'r ûs yr aiff dynion gyda eu pechodau, gan feio ar yr hwn a geisio eu hysgaru. Ymdreched pob un ymlanhâu ei hun, ac yna ni fydd perygl i'r wyntyll ei chwythu gyda'r ûs.

APPWYNTIADAU.—Mae yr Henuriad Robert Evans wedi cael ei ryddhau o Lywyddiaeth Cynnadledd Orllewinol Morganwg, a'i osod yn Lywydd ar Gynnadledd Ddwyreiniol Morganwg, a'r Henuriad William Lewis yn Ysgrifenydd, a dymunir iddo ddechreu ar faes ei lafur yn ddioed.

Gosodwyd yr Henuriad Dewi Elfed Jones, o Lywyddiaeth Cynnadledd Llanelli, yn Lywydd ar Gynnadledd Orllewinol Morganwg, ac A. L. Jones yn Ysgrifenydd.

Mae y Llywydd Daniels yn y Gogledd er ys enyd, ac yn ysgrifenu newyddion cysurlawn am ansawdd yr Eglwysi yno, a llwyddiant yr efengyl.

---

## LLYTHYR Y LLYWYDD DEWI E. JONES.

*Llanelli, Gorph.* 19, 1854.

MYGEDAWG LYWYDD JONES,—Hoff i mi yw anfon atoch o bryd i bryd ein helynt a'n hamgylchiadau yn y Gynnadledd hon. Bu cyfarfod pregethu yn Porthyrhyd ychydig wythnosau yn ol. Traddodwyd deg o bregethau yno gan wyth o honom. Cawsom gymmwynasgarwch mawr iawn iawn, gan Mr. Thomas, prif Westywr y lle; rhoddodd i ni le cyfleus dros ben i bregethu, ac i ereill wrandaw. Taled yr Arglwydd iddo ef a'i wraig garuaidd yn rhagor nâ dau ddyblyg, am eu daioni a'u cynnysgaeth i weision y Duw byw.

Cynhyrfodd y sôn am y mawreddog BROPHWYD JOSEPH SMITH, rai dynsoddau traddodiadawl iawn, fel y dangosasant i ni eu cefnau ymadawedig, trwy ddodi o honynt y *droed olaf yn mlaenaf* mor sionc ag y gallent; a chan fod un o honynt dipyn yn fwy cnawdog nâ'r lleill, yr oedd ei gerddediad yn fwy

clymsi, hwyrdrwm, a phwfflyd. Pan oedd y cyfarfod boreuol drosodd anfonodd am danaf y tu arall i'r heol, a rhoes i mi groesaw, heb yngan gair am yr hyn a fu, tra y darllenai arall, yn y Newyddiadur, hanes marwolaeth gwraig ein hybarch Batriarch John Smith. Daethant drachefn i'r cyfarfod prydnawnol, pryd y cawsom bregethu a gwrandawiad rhagorol, oddieithr un fenyw hanner gwrachaidd a aflonyddai ryw ychydig arnom. Ar ddiwedd y cyfarfod rhoddwyd i mi rai gofyniadau, gan y dynsawd rhag soniedig, mewn perthynas i bregethu, sef "A oeddem yn galw yr hyn a siarademn yn bregethu yr efengyl?" Atebais ein bod. Gofynais iddo os oedd efe ei hun yn gwybod rhywbeth am bregethu, ac os oedd, iddo ddangos i mi, yngwydd y gynnulleidfa, y gwahaniaeth ag oedd, rhwng pregeth, araeth, a darlith, &c., a pha fodd i gyfansoddi pob un o honynt. Ar hyn aeth i *gonfusion* gwyllt. A gofynodd i mi, os mai rhyw arwr *(hero)* bach oeddwn, yn penderfynu trechu pawb, a gwneyd ffyliaid o ddynion, &c. Dywedais wrtho mai hero bach dros y gwirionedd oeddwn, ac y cawsai efe wybod hyny hefyd; ac mai fy mhrif ddyben oedd dwyn dynion o dywyllwch traddodiadol i oleuni a gwybodaeth syml o efengyl Crist. Y dyn hwn oedd yn dal swydd o dan un o foneddigion penaf yr ardal hono, a chanddo, fel y tybir, gryn dipyn o ddylanwad ar ryw fath o ddynion. Ac o herwydd fod ei leferydd yn ei gyhuddo, deallais fod traddodiadau yn gyd-blethiedig â'i gyffansoddiad palffog, a braidd yn cylchredeg gyda'i waed i ranau pellenig ei gorff. Trodd ymaith gyda chywilydd, ac ugeiniau yn llygadrythu arno gyda ffieidd dra, am ei anfoesgarwch mewn lle mor gyhoedd, a gwaeddodd un dyn allan o'r dorf, "dacw ef yn ffoi, —dyna *goward*, dewch yn ol a sefwch eich tir wr," &c. Ymaith yr aeth gan fwmial, a rhoddais iddo *good by*, ac nis gwelais ef mwyach. Hyderaf, er hyny, y daw yn fuan i edifeirwch, ac i gydnabod y gwirionedd. Effeithiodd hyn yn fawr ar y bobl oll, a pharodd ymgasgliad lliosocach o lawer yn yr hwyr. Pregethwyd gyda dylanwad nerthol, a chafwyd gwrandawiad rhagorol iawn. Cyd-ganai amryw yn soniarus gyda ni ar ddiwedd y cwrdd. Wrth fyned i'r tŷ, cyfarchid fi gyda llonder gan amryw o'r gwrandawwyr, gan ddywedyd, "*Wel done*, yr ydych yn fyw byth, ac wedi peri i'r cawr ffoi." Llawer ydynt yn credu yn y lle hwn.

Yr hwyr canlynol, pregethodd dau o honom yn ymyl y lle, a bedyddiwyd un. Wrth weled hyn, aeth yn dwrw mawr trwy yr holl le. Ymunodd y gwahanol sectau 'cristionogol' yn erbyn Saint y Goruchaf. Cynnaliasant bwyllgorau,—bygythiasant yr hwn a roddodd le i ni bregethu.—cynllunasant y llwybr goreu yn eu bryd hwy i ladd ein dylanwad, ac i attal ein hymgyrch. Galwasant ynghyd fiinteioedd yr ysgolion Sabothol, gan eu ffurfio yn gatrodau. Y Cadfridogion Revrendaidd a'u llywiasant i faes y frwydr. A'r Sul canlynol, clywid swn magnelau catechismau yn saethu bwledi traddodiadau yn erbyn y Saint, a hyny gyda y fath rymusder â phe gwelech gannoedd o fân blantos y trefydd yn saethu, neu chwythu bwmbwl neu ffroth o ben pibell, i attal hynt y corwynt. A merch Seion ar y bryn uwch ben, yn crechwenu ha, ha, ha!

Yr wythnos ganlynol, sefydlasom Gangen newydd yn ymyl y lle, yn cynnwys chwech o Saint, a bedyddiwyd un gwrol yno wedi hyny, yr hyn a wna y nifer yn saith, ac argoel cryf am fedyddio amrai yno yn ychwanegol. Yr ydym yn enw yr Arglwydd wedi gwersyllu ar gyfer y lle, ac y mae amddiffynfeydd y tair teyrnas sectarawl ar fyned yn chwilfriw mân. Mae y lle dan *bombardment* parhaus genym. Ein tân-belenau a ymdorant yn orwyllt am draws eu gwersylloedd, nes y maent yn aflonydd amrosgo, a'u Cadfridogion mal pe byddent wedi eu syfrdanu mewn terfysg dihafal ac aruthrol. Credwyf am y lle hwn y gellir dywedyd am dano fel hyn:—

Codir gwedd baniar heddwch,
I'r awelon ffloywon fflwch;
Ein Iôr gorchfygu a wnaeth,—
A gwelir buddugoliaeth.

Sul, yr 16eg o'r mis hwn, cynnaliasom Gymmanfa bregethu yn y Chwech Heol. Pregethodd naw o'r brodyr o dan ddylanwad Ysbryd y Gwirionedd, a chafwyd gwrandawiad rhagorol a channoedd yn wyddfodawl. Mae argoelion da iawn am fedyddio yn y lle hwn hefyd. Yr hwyr canlynol bedyddiwyd un gan y brawd David Davies, fy nghydweithiwr ymdrechol, diwyd a ffyddlon.

Corffolasom gangen newydd hefyd yn Trumsaran, a dywenydd genyf eich hysbysu fod bedyddio yn myned yn mlaen yn y cylchoedd hyn. Er nad yw y Phariseaid sectarawl yn parchu

cynghor Duw. y mae y cyfreithwyr yn gwneyd, bedyddiasom un cyfreithiwr yma, sef, Williams, Ysw., Pinged, ac y mae ef wrthi â'i holl galon yn cyflawni cyfraith Crist, a gwneuthur ewyllys ei Dad yr hwn sydd yn y nefoedd. Bedyddiasom rai yr wythnos ddiweddaf, a rhai yr wythnos hon. Y mae amrai etto yn barod ar fin y dwfr. O, na welwn gannoedd yn rhagor yn dyfod i fewn i'r eglwys hon, yr hon y gwn ei bod yn Eglwys Iesu Grist.

Buom yn chwynu yehydig yr amser a basiodd, a da iawn genym hyny, o herwydd tyfa y lleill yn fwy praff, rhonc, blagurog, a ffrwythlon, gan fwynhau Ysbryd Duw yn helaethach. Llwyddiant ar bregethiad efengyl y tangnefedd, yn mhob man trwy bedwar ban y byd. Yr ymgasgliad i Seion fyddo wrth y miloedd ar filoedd a llawer rhagor.

O doed, O doed y ddedwydd awr,
Caf fod yn rhydd o Babel fawr;
Ar Seion draw, a'i llwyddiant hi,
Mae tynfa serch fy nghalon i.

Gwrthrychau goreu'r ddae'r i gyd,
Ail dyddim ydynt yn fy mryd;
Tra curo calon dan fy mron,
Mi garaf lwyddiant heddweh hon.

Yn Seion caf, byth i barhau,
'Rhyn mae fy nghalon am fwynhau;
Mae meddwl am ogoniant hon,
Yn tanio beunydd serch fy mron.

Yr eiddoch yn serchus,

Dewi Elfed.

---

## IACHAD O'R CRYD.

*St. Stor, Gorph.* 9, 1854.

Mr. Gol.—Gan fod gallu Duw yn cael ei amlygu yn ein plith, ystyriwn yn ddyledus arnom ei wneuthur yn hysbys, er gogoniant i'w Enw, a chadernid ffydd ei bobl Ef. Yr oedd dwy o'r chwiorydd yn crynu o'r Cryd, sef Ann Parry, Park, a'i merch Leah, pa rai a berthynent i Gangen Abergele. Hwy a alwasant atynt Henuriaid yr Eglwys, sef John Parry, Edward Parry, a Rice Williams; a hwy a weinyddasant yr ordinhad o eneinio ag olew, ac arddodiad dwylaw arnynt yn enw yr

Arglwydd, a'r Cryd a'u gadawodd, ac ni chrynasant mwyach. Mae amryw yma yn, ac allan o'r Eglwys yn dystion o'r uchod.

Ydwyf eich brawd yn yr Efengyl,

EDWARD PARRY.

---

## CYFADDEFIAD THOMAS JOHN O'I GAM-GYHUDDIADAU YN ERBYN CAPT. D. JONES.

*Abertawy, Gorph.* 24, 1854.

BARCHUS SYR,—Methaf a chael esmwythder gan fy nghydwybod, heb gydnabod fy meiau wrthych, a chrefu am eich maddeuant. Er cymmaint o ddaioni a welais ynoch ar hyd y ffordd i California ac yno, ac er na welais ynoch drosedd o gyfraith Duw; etto, rhyw fodd, cafodd y gelyn y fâth ddylanwad arnaf, fel ag i'm dwyn i'r fath dywyllwch, nes myned allan o Eglwys Dduw, a dweyd pethau drwg am eich cymmeriad chwithau, ac er na fum euog o ddywedyd yr oll, na'r hanner, o'r hyn a dadogir arnaf, etto y mae yn edifar iawn genyf o herwydd i mi ddywedyd un drwg yn eich erbyn, ac yr wyf yn taer erfyn eich maddeuant chwi, maddeuant y Saint, a maddeuant Duw, fel y gallwyf ddyfod yn ol i'w Eglwys Ef, lle yn unig y ceir bywyd tragywyddol. Attebiad buan, da chwi.

Eich gostyngedig was, *ei*

THOMAS ⋈ JOHN.

*arwydd.*

---

TEIMLAD Y LLYWYDD JEREMY AT T. JOHN.

Anwyl Frawd Jones,—Gobeithiaf y maddeuwch i Thomas John yn ol ei ddymuniad, o herwydd ymddengys i mi yn *wir edifeiriol* am yr oll a wnaeth i'ch erbyn; gwerthfawr yw ei enaid yntau, ac hyderaf y byddwch mor barod i faddeu iddo ef ag y profasoch eich hun yn barod i faddeu i lawer a draethasant anwireddau arnoch, ac y caiff yntau faddeuant y nefoedd, yw dymuniad eich brawd,

THOMAS JEREMY.

---

## ATEBIAD I'R UCHOD.

DYWEDIR fod llawenydd yn mhlith angylion Duw am *bob* pechadur a edifarhao, a theimlwn ninnau lawenydd wrth hysbysu y

gallwn faddeu i Thomas John yngwyneb ei edifeirwch, *hyd y nod pe byddai* ei bechodau fel ysgarlad; eithr yn gymmaint ag na allodd efe bechu mor fawr â hyny wrth dduo cymmeriad un mor fychan â ni, hawdd yw maddeu iddo, a maddeued y rhai a rwystrwyd o herwydd credu cam-gyhuddiadau arnom; iddynt hwy y gwnaeth y drwg mwyaf; ni all efe, ni all arall ond ein hunan ein niweidio ni,—i ofal un galluocach y rhoddwyd ein cymmeriad i gadw, ac Efe a'i ceidw. Ceir gweled a fydd taenwyr yr ystoriau hyny mor barod â Thomas John i'w galw yn ol, ynte ai gofidio a wnant, o herwydd iddynt gael eu gwrthbrofi mor eglur a diymdrech i ni. Dysgwn oll ddwy wers oddiwrth hyn, sef i beidio rhoddi barn mor chud ar arall, a dysgwn beidio eu coelio chwaith; eithr pan difenwir yn ddiachos, aroswn amser Duw i amddiffyn, Efe a bïa dïal. Yn dawel aroswn iddo Ef roddi bach yn ffroenau ein diarhebwyr ereill a'u harwain, er mor uchel eu ffroen, i lyfu y llwch nes teilyngu maddeuant, fel yr asen wyllt,—yn eu mis y ceir hwynt. Hir-amynedd Duw a'u harweinio i edifeirwch, er achubiaeth eu heneidiau eu hunain, yw gweddi y

GOL.

## AMRYWIAETHAU, &c.

Y RHYFEL.—Nid yw y llynges yn y Baltic wedi cymmeryd Cronstadt hyd yn hyn, eithr gorchfygwyd y Rwsiaid gan y Twrciaid mewn amryw o frwydrau yn ddiweddar.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O GORPH. 18 HYD GORPH. 27.—Sir Ddinbych, £1.—*Cangenau Dwyr. Morganwg*—Georgetown, 4s 3c; Ffynnon-Tydfil, 3s 6c; Cwmbach, 9s 5½c.

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. D. Jones*, 14, *Castle Street, Merthyr-Tydfil.*

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg | 437 |
| Golygyddiaeth—Yr Ymfudiad—Appwyntiadau | 445 |
| Llythyr y Llywydd Dewi Elfed Jones | 447 |
| Iachâd o'r Cryd | 450 |
| Cyfaddefiad Thomas John o'i gam-gyhuddiadau yn erbyn Capt. Jones | 451 |
| Atebiad i'r uchod | 451 |
| Amrywiaethau, &c. | 442 |


MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

Rhif. 29.] AWST 12, 1854. [Cyf. VII.

## ARAETH Y LLYWYDD YOUNG YN Y GYMMANFA,

*A gynnaliwyd ar y 6fed o Ebrill*, 1854, *yn y Tabernacl, yn Ninas y Llyn Halen Mawr.*

Yn flaenaf, frodyr a chwiorydd, carwn ddeall yn eglur beth yw eich teimladau, a gwybod a ydyw pob person ag sydd yn proffesu ei hun yn Sant y Dyddiau Diweddaf, yn meddu sicrwydd y boreu heddyw, ei fod wedi ei heddychu â Duw,—fod ei heddwch megys afon ffrydiog dragywyddol, fel y byddo Ysbryd yr Arglwydd Iesu ynddo megys ffynnon o ddwfr bywiol. Os yw Ysbryd Duw ynoch fel hyn, yn tarddu i fywyd tragywyddol, y mae yn adnabyddus i chwi. Hyn yw y rhan bwysicaf o orchwyl ein Cymmanfa. Pe bai ein eisteddiad yn parhau am flynyddoedd, nis gwn am un neges a chymmaint o bwys i'w gosod ger bron ein Cymmanfa. Pedair blynedd ar hugain i heddyw y sefydlwyd ein Heglwys. Meddyliwn fod miliwnau o bobl yn perthyn iddi, neu meddyliwn fod ychydig, a hwy wedi ymadael ag Ysbryd yr Efengyl Santaidd, wedi gwrthgilio yn eu serchiadau, ffydd, ac ysbryd dadguddiad,—wedi ymadaw â'r Arglwydd eu Duw, ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glân, gweinidogaeth angylion,—y doniau a'r bendithion wedi eu gadael,—wedi ymgynnull mewn rhith, yn cydsynied ag arfer sefydledig, yn ymarfer ag ordinhadau teyrnas Dduw, yn canlyn rheolau a threfniadaeth iawn ffurfiad Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, a dim rhagor nâ rhith farwol ynddynt, nis gallant dderbyn un gronyn o leshâd wrth gyfarfod fel hyn. Yna,

yn gyntaf, gofynaf i'r brodyr ag sydd wedi bod yn y deyrnas am ugain, un ar hugain, dwy ar hugain, a thair ar hugain o flynyddoedd (oblegid y mae yn bresennol rai sydd wedi bod yn yr Eglwys o'r dechreuad), pa fodd y maent yn teimlo y boreu hwn? Beth yw cyflwr eich meddyliau? Pa fodd y mae eich ffydd? A ydych yn teimlo mor ddedwydd a phan ddarfu i chwi gofleidio yr Efengyl gyntaf? A yw ysbryd dadguddiad ynoch yn awr megys y pryd hwnw? Beth a ddylwn dderbyn yn ateb, pe atebid yn iawn? Gallaf roddi fy meddwl i,—credaf fod llawer a all ddweyd yn wirioneddol, fod Ysbryd yr Arglwydd wedi cymmeryd ei drigfa gyda hwynt, yn anneddu gyda hwynt yn barhaus o ddydd i ddydd, o wythnos i wythnos, o fis i fis, ac o flwyddyn i flwyddyn. Nid ydynt byth hebddo, o herwydd ei fod ynddynt, ac o amgylch iddynt yn wastadol, y maent yn llawn o hono o goryn eu pen hyd wadnau eu traed, ac y mae yn gydymaith parhaus iddynt. Gyda phob dyn a menyw a fydd yn ffyddlon i'w Duw, i'w crefydd, wedi eu cyflawn brofi, y gwna yr Arglwydd yn ddiau ei drigfa,—gyda hwy y preswylia Efe, ac nis gadawir hwy iddynt eu hunain, nag i allu y gelyn ddim mwy. Dichon y cânt eu profi a'u temtio, ond bydd arfau eu hamddiffynfa bob amser yn barod, eu tarian sydd wedi eu boglymu, yn wastadol wedi eu harfogi ag arfogaeth Crist, yn alluog i guro yn ol, i daflu ffwrdd, a dinystrio pob gallu o eiddo y gelyn a ymosodo arnynt.

Dyma yr awgrym cyntaf o'n Cymmanfa. Gofynaf etto i'r brodyr a'r chwiorydd a ddaethant i'r Eglwys yn ddiweddar, ac o fewn ychydig flynyddoedd wedi croesi y gwastadedd i'r llehwn, pa fodd yr ydych yn teimlo, a ydyw Ysbryd yr Arglwydd yn awr yn gorphwys arnoch? A ydyw gweledigaethau eich meddyliau yn agored i weled ac amgyffred y pethau perthynol i fywyd ac iachawdwriaeth? A ydych chwi yn caru yr ysgrythyr, gair y bywyd, fel yr Arglwydd, a'i bobl, a'i gyfiawnder, megys ag y gnaethoch y dydd pan y darfu i chwi gofleidio yr Efengyl hon gyntaf? Os nad ydych wedi gwir brofi ynoch gynnyrch o ddaioni nefol, wedi cynnyddu yr ydych yn ysgolheigion hurt. Pa sawl un a all ddweyd eu bod wedi gwir brofi cynnydd o'r Ysbryd yna, a dweyd, Yr wyf yn caru yr Arglwydd, yn caru ei bobl, a'i achos yn well, well, bob dydd o'm bywyd; fy nealltwriaeth sydd yn cael ei ymeangu, o herwydd

fy mod yn gweled ac yn deall llawer o bethau, pa rai nad oeddwn yn ddeall pan ddarfu i mi gofleidio yr Efengyl gyntaf. Gan mai ychydig yr oeddwn yn garu, yr wyf yn awr yn caru achos y gwirionedd yn helaeth; gan mai ychydig yr oeddwn yn wybod, yr wyf yn awr yn gwybod llawer mwy, ac felly, mewn cyferbyniad i'm cynnydd mewn gwybodaeth, y mae fy nghariad a'm hymddiried yn fy mrodyr. A ellwch ddywedyd hyn mewn gwirionedd? Os gellwch, y mae pob peth yn iawn.

Etto, apeliaf at y rhai hyny ag sydd yn euog o droseddiadau (os oes rhai yma), ac yn dilyn hyny. A ddaethoch chwi o'ch cartrefleoedd i'r Gymmanfa hon, cyn yn gyntaf edifarhau am eich pechodau, a chael maddeuant? Os felly, yr wyf am i chwi ymadael ar yr hamdden bresennol, a myned gartref etto, ac yno yr wyf am i chwi aros nes y bydd eich pechodau wedi eu dileu; neu ceisiwch gan Henuriad i'ch bedyddio yn afon y Ddinas, a golchi ymaith eich pechodau, fel na fyddwch yn rhwystr i'r rhai sydd yn bur, fel y byddo calonau pawb yn y Gymmanfa hon yn bur gerbron Duw, a chael ychydig i'w gyfranu i'r holl gorff, fel y byddo pob calon yn cael ei goleuo trwy allu Duw, a derbyn Ysbryd Santaidd yr Arglwydd Iesu Grist, a chynnyddu o'r amser presennol mewn pob cyflawnder, ac nid myned a dyfod fel drws ar ei fachau, heb un cyfnewidiad er gwell. Pan fyddo y bobl yn cwyno ar eu gilydd, ar yr Eglwys, ar galedi, ar amser caled, ar y peth hyn a pheth arall, o herwydd nad yw yr Arglwydd yn siarad o'r nefoedd â'i lais ei hun, o herwydd nad yw dadguddiadau Duw yn eglurhaol, megys yr oeddynt yn nyddiau Joseph Smith. Yr oll ag sydd genyf i ddweyd wrthych yw, parotowch eich calonau, o herwydd fod yr oll i chwi, a gellwch ei dderbyn, a llawer mwy nag yr ydych yn gwybod pa beth i wneyd o hono. Dyna gymmaint ag sydd yn anghenrheidiol i mi i ddweyd ar y pwnc yma.

Bydded i bob dyn a dynes ymddarostwng eu hunain gerbron yr Arglwydd, ac ymarferyd â ffydd nerthol. A ddaethoch chwi yma i gael eich bendithio gan y Brif Lywyddiaeth, a'r Deuddeg? Nid yw yn ein gallu ni eich bendithio, os nad ydych yn barod i dderbyn bendith gan ein Tad yn y nefoedd. Gallwn sefyll ger eich bron yma, a siarad â chwi, ond nis gallwn roddi Ysbryd yr Arglwydd, os nad ydych yn barod i'w dderbyn, trwy ein gweinyddiaeth ni, y mae yn dyfod oddiwrth yr Ar-

glwydd. Bydded pob calon, ynte, yn weddigar, yn wyliadwrus, gan ymarferyd ffydd, a cheisio yn ddiwyd am y bendithion i ni ein hunain, ac yna ni a gawn ein bendithio gyda ein gilydd.

Yr wyf yn gwylied y bobl hyn gyda phryder mawr, a theimladau am eu mawr leshâd. Yr wyf yn edrych ar eu hymarweddiad, ac y mae yn drist genyf ganfod llawer yn crwydro yn eu teimladau oddiwrth ffyrdd gwirionedd a chyfiawnder. Mynych y gofynir i mi, a yw yn iawn i ddynion a ddaethant i'r Dyffryn, wedi cael eu bendithio a'n hadfendithio, ac o'r diwedd i dderbyn eu cynnysgaeddiadau, ac yna myned i California; ac oni ddylid eu tori allan o'r Eglwys. Dylent gael eu tori allan oni bai un peth, y mae yr Arglwydd am iddynt gael digon o gyfleusderau, i gymmeryd llwybr i achub eu hunain. Nid meddwl yr Arglwydd yw eu tori allan, fel peth cyffredinol, o ganlyniad, y mae yn well i ninnau beidio. Pe byddai yn feddwl yr Arglwydd, ninnau a gydsyniem, ond yn gymmaint ag nad yw, byddem yn cyfeilliorni wrth wneuthur hyny. Pe bai pob dyn, dynes, a phlentyn yn y deyrnas hon yn byw yn ngoleuni, bendithion, a dadguddiadau yr Iesu, ai tybied yr ewyllysiai neb o honynt fyned tua Chalifornia? Atebech y gofyniad hwn yn nacäol, a gwaeddech allan am gael arbed y poen a'r dyoddefaint a gaffid trwy fyned yno, ac am ddianc rhag y gofid, cyfyngder, ac ing. trwy aros gyda phobl Dduw. Ië, frodyr, chwychwi ag sydd am fyned, ewch; ond y mae genyf rywbeth yn ychwaneg i ddywedyd wrthych, hyny yw, talwch eich cyfiawn ddyledion cyn yr eloch, a pheidiwch a chymmeryd eiddo pobl ereill.

Mynych y gofynir i mi, a achubir y rhai a ânt i Galifornia i chwilio am olud bydol. Atebaf, gwneir rai o honynt, ond megys trwy dân. Nid oes ganddynt ddigon o ddoethineb, pwyll, na gallu naturiol, a meddyliaf fod eu hysbrydoedd, cyn dyfod i'r byd, heb eu cynnysgaeddu â'r un cyfartalwch o reswm ac adfyfyriad ag ereill, fel nas gellir eu hachub ond trwy dân. Eled y rhai a ewyllysant i California, ac os yw y Saint yn ddyledus iddynt, talwch iddynt yn anrhydeddus; ac os ydynt hwy yn ddyledus i chwi, gorfoder hwynt i'ch talu. Fel peth cyffredinol, yr wyf wedi gorfodi brodyr i dalu i mi yr hyn sydd ddyledus. Yr wyf wedi penderfynu iddynt dalu eu dyled, ac hefyd na chaffont ladrata dim oddiwrth y bobl hyn, fel yr

elont i'w dyoddefaint mor gynted ag y bo modd, o herwydd po cyflymaf yr ânt yno, cyflymaf i gyd yr ânt trwyddynt. A achubir hwynt? Gwneir. Beth! a'u darparu i fyned i deyrnas nefol Duw? Ië, os edifarhant am eu pechodau, a throi at yr Arglwydd. A pha beth a wnant yno? Dywedwyd wrthynt er ys blynyddau, am beidio gwneuthur dim ag a fuasai yn cynnorthwyo ac yn adeiladu y cenedloedd. Ond hwy a wnant hyny, ac o anghenrhaid y mae yn rhaid iddynt fyned trwy y dyoddefaint sydd yn eu haros, er eu parotoi i fyned i'r deyrnas nefol. A goronir hwynt â choronau gogoniant, anfarwoldeb, a bywydau annherfynol? Na wneir, ond parotoir hwynt i fyned yno i wasanaethu ereill, a ddarparwyd i dderbyn teyrnasoedd, gorseddau. tywysogaethau, a galluoedd, yr hyn a ymddengys yn ddyeithr i rai o honoch chwi. Os ydych am ei wybod, dywedaf y gwirionedd, a galwch ef yn ddadguddiad neu unrhyw, beth arall a fynoch. Pan yr eloch i fewn i'r deyrnas nefol bydd eich cyrff adgyfodedig genych, eich teuluoedd, a'ch cyfeillion, wedi ymgasglu o'ch hamgylch, a chymdeithaswch â hwynt yno, megys yma. Yr ydym yma yn farwol, yno yn anfarwol, dyna'r unig wahaniaeth a fydd. Y mae marwoldeb yn gyffelybiaeth berffaith o gynllun neu arwyddlun y deyrnas nefol. ond yn unig fod un yn farwol, a'r llall yn fywyd mewn anfarwoldeb. A ellwch chwi ag sydd a ffermydd eang, eu gweithio a'ch dwylaw eich hunain? Na ellwch, heb gyflogi cynnorthwy. Gofynwch i'r ddynes a theulu o 30 i 40, o dan ei gofal, os gall hi wneuthur yr oll ag sydd yn anghenrheidiol i'w wneyd â'i dwylaw ei hunan? Nis gall ei wneyd heb gael gwasanaeth-ddynion i'w chynnorthwyo. Oddiamgylch i'r ffermwr mawr y mae ei gyfeillion, pa rai sydd yn alluog i gael eiddo, ac i fod yn anymddibynol, ac felly y maent yn ymddibynol ar y dyn a fedr hyfforddi, a chynnyddu o'r elfenau, olud y bywyd hwn, mae yn eu cyflogi, ac yn talu eu cyflog, er ei gynnorthwyo i wneuthur y gwaith anghenrheidiol, i wella pob troedfedd o'i fferm neu etifeddiaeth. Ceir yr un peth yn y byd nefol, yn mhlith teyrnasoedd ein Tad yn y nefoedd.

Ceir miliwnau o drigolion y ddaear yno, ag sydd yn analluog i gael eu coroni â gogoniant, anfarwoldeb, a bywydau annherfynol. Y rhai sydd yn ffyddlon yn gosod eu talentau allan er eu cynnyddu, a dderbyniant eu cynnydd yn ol eu diwydrwydd.

Er hyny, a ddywedwn y bydd pawb yn alluog i ddyfod yn arglwyddi, yn freninoedd, a chael eu coroni â choronau o ogoniant, yn derbyn teyrnasoedd, galluoedd, dyrchafiadau, a gorseddau? Na ddywedwn, o herwydd na fyddant yn fwy galluog i hyny yno, nag ydynt i fwynhau golud mawr yma, nac o'i iawn ddefnyddio (pe yn eu meddiant,) yn y cyflwr marwol hwn, yr hyn yn ddiau a fyddai eu dystryw. Ni fyddant yn gwybod pa beth i wneyd â'r fath olud mawr. Gellwch roddi hyn i lawr yn ddadguddiad, a gosod y brawd George i'w ysgrifenu.

Eled y brodyr hyny i Galifornia ag a ewyllysiant, ond dymunaf arnynt i fod yn onest. Y mae genyf un dymuniad arall, sef myned a'r holl rai anonest gyda hwynt, o herwydd nas gallwn gael eu gwared. Er hyny, y mae yn ffaith adnabyddus fod y gwenith a'r efrau i gyd-dyfu hyd y cynhauaf, a'r defaid a'r geifr i fod yn yr un gorlan hyd amser y didoliad. A oes defaid yn myned i Galifornia yn ogystal â geifr? Oes. A fydd rhai geifr yn aros yma?

Y mae hyn yn fy arwain at y peth sydd genyf i'w osod ger bron y Gymmanfa, a bydd yn destun godidog i'r brodyr i bregethu arno. Rhoddaf osodiad o flaen y Gymmanfa hon i chwi i benderfynu arno; h. y., i ddewis dyn a'i anfon i Galifornia Uchaf, dywedwn, er enghraifft, i sefydliad y brawd Horner, i osod lle er ymgasglu y Saint i'r rhan hono o'r byd. Y mae y brodyr Amasa a Rich eisoes wedi codi baner yn California ddeheuol. Anfonwn hefyd o'r lleoedd hyn ddynion i Oregon, i bregethu yr efengyl, o herwydd bydd llawer o'r rhai a fu yn hela yr eilier eurog, wedi rhedeg i'r tân a chael eu deifio, a bydd yn dda ganddynt gael cyfleustra i adael eu hynfydrwydd, ac ymgynnull etto gyda'r Saint. Sefydlwn le i ymgasglu yno hefyd. Dymunem hefyd anfon dynion i'r Unol Daleithiau, i sefydlu dau neu dri o leoedd er ymgasglu y Saint yno. Yna bydd y Saint o Loegr, Ysgotland, Cymru, a Germany, yn ogystal â'r Saint o blith cenedloedd ereill o'r hen fyd, pa rai sydd a'r anhawsdra mwyaf i gael pedrolfeini, gweddeuau, a lluniaeth i groesi y gwastadedd, wedi arbed ychydig sylltau. gallant groesi y dyfroedd i un o'r sefydliadau hyn, lle y byddant o dan nawdd Henuriaid da, a anfonir i gymmeryd gofal o honynt. Y mae genym gystal hawl i fyned i fyw i'r Unol Daleithiau ag un

dyn ag sydd yn byw yno. Dyma y peth sydd genyf i osod gerbron y Cymmanfa i fod yn destun am ychydig o bregethau byrion. Bwriadwn gael sefydliad yn Ohio, ac un arall yn Missouri, er ymgasglu y brodyr ag sydd ar wasgar yn y tiriogaethau hyny yn bresennol, a'r rhai a ddichon ddyfod etto yn yr amser dyfodol.

Yn flaenaf, dymunwn hysbysu y dichon y brodyr a sefydlir yno am ychydig, gael eu fflangellu a'u dyrnu, fel pan y deuant i'r lle hwn, ni fydd eisieu arnynt redeg i California, a gadael eu cludiad yma, dyledus i'r Drysorfa Ymfudol, heb ei dalu. Dymunwn eu gosod i lanhau parddu, nes glanhau y gwenith yn lân oddiwrth yr ûs, ac yna eu rhoddi yn y wyntyll, ac yna trwy y *screen*, cyn y byddont yn barod i ddyfod yma, a'u gosod yn hopran y felin i'w mhalu.

Y brawd Brigham, a ydych chwi yn wir yn credu y cawn ein ffrewyllu yno? Nid oes un perygl o hyny, beth bynag, o herwydd nad ydyw Crist a Belial wedi dyfod yn gyfeillion etto. Nac ofnwn hyna, ond casglwn y bobl yno, a gadawn y canlyniad gydag Arglwydd Dduw Israel, ac ymddiriedwn yn ddo Ef i gyfarwyddo yr oll er ein lles.

A bleidleisiwch i gael tri o leoedd ymgasglu yn yr Unol Daleithiau? Y mae genym un yn California, a gallwn sefydlu un arall yn Oregon, er yn newydd, cynllun rhagorol yw. Mi osodais y peth gerbron Franklin D. Richards cyn ei ymadawiad, a dywedodd y gallasai anfon deg cymmaint o Saint yn y ffordd yma na'r hen ffordd. Pan fyddo ffordd New Orleans wedi cauad, gall yr Ymfudiad gael ei gario yn mlaen trwy New York; ac wedi tirio yno am ychydig o sylltau, gallant sicrhau lle ar y gledrffordd, a thirio ar unwaith yn un o'r sefydliadau yn y Taleithiau, lle y cânt eu haddysgu er eu parotoi i fyned yn mlaen yn mhellach ar eu taith.

Danfonir deg i'r lle hwn mor hawdded ag un yn y ffordd arall. Os byddant am wrthgilio, yr ydym am iddynt wneyd hyny yno, ac nid dyfod yr holl ffordd hyd yma i wrthgilio. Yr ydym am iddynt gael digon o brofedigaethau, i'w boddloni hwy a ninnau, pa un a ewyllysiant fod yn Saint ai peidio, cyn y bydd iddynt hwy fyned trwy yr holl ludded, llafur, a chost i ddyfod i'r dyffryn pellenig hwn, ac yna i wrthgilio yma. Yr ydym am iddynt gael cyfle i wrthgilio heb gostio mor ddrud iddynt.

## MARWOLAETH Y PATRIARCH JOHN SMITH.

*(O'r "Deseret News.")*

O'r braidd y dystawa clul y naill berson mawreddog ar ein clustiau, cyn y gelwir arnom i gyhoeddi ymadawiad person galluog ac anrhydeddus arall o'n plith, i osod ei gorff i orphwys am enyd, ac i fyned tu draw i'r llen i siglo dwylaw, ac i gyd lawenhau a'i frodyr Joseph ac Asahel, ac a'i naiaid Joseph a Hyrym, a'r ffyddloniaid o bob oes fynedol.

Bu farw yn ei gartref yn y ddinas hon, am ddeg mynyd wedi unarddeg o'r gloch, ar y 23ain o Fai, John Smith, Patriarch Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, wedi mis o nychdod caled.

Ganwyd y Tad Smith yn Derryfield (yn awr Manchester), Swydd Rochingham, Hampshire newydd, ar y 14eg o Orphenaf, 1781, mabwysiadodd y ffydd, yr hon a gadwodd ei einioes am hir amser mewn defnyddioldeb, ar y 9fed o Ionawr 1832, ac ordeiniwyd ef yn Henuriad, wedi i'r meddygon ei roddi fyny i farw o ddarfodedigaeth; yr oedd y tywydd mor oer fel y gorfodwyd i dori yr iâ, ac o'r amser hyny cynnyddodd ei nerth a'i iechyd.

Symudodd i Kirtland, Ohio, yn 1833, ac oddiyno i Adamondi-Ahman, yn Swydd Daviess, a llywyddodd gangen o'r Eglwys yno, hyd nes ei gyrwyd ef allan gan derfysglu yn 1839, a chyrhaeddodd Illinois ar yr 28ain o Chwefror yn yr un flwyddyn. Sefydlodd yn Green Plains, chwech milltir o Warsaw, lle yr hanodd ŷd, yr amgauodd dyddyn, ac y cyflawnodd lawer o waith caled, ag oedd yn annghyfaddas â'i iechyd a'i oedran, a orfodwyd arno er cynnal ei deulu. Symudodd i Commerce (wedi hyny Nauvoo), yn Mehefin, a phenodwyd iddo lywyddu yr Eglwys yn Iowa, ar y 4ydd o Hydref, ac ar y 12fed symudodd i Swydd Lee i gyflawni cenadaeth yno.

Symudodd i Macedonia, Swydd Hancock, Illinois, yn Hydref 1843, yn ol ei appwyntiad blaenorol i lywyddu y Saint yn y lle hwnw. Ordeiniwyd ef yn Batriarch yn Ionawr, 1844, ac yn mis Tachwedd o'r un flwyddyn, gyrwyd ef gan y terfysgwyr o Macedonia i Nauvoo, lle y parhaodd i weinyddu bendithion patriarchaidd er llawenydd i filoedd, pryd y gorfodwyd ef drachefn gan ffyrnigrwydd terfysgwyr talaith rydd Illinois, i ym-

adael a'i gartref, ar y 9fed o Chwefror 1846, a chyda ei deulu i groesi y Mississippi, i chwilio am sefydliad heddychlon yn mhlith anwariaid ac anialwch pellenig dyffrynoedd y mynyddoedd.

Wedi treulio gauaf erchyll ar y geulan ddeheuol o'r Mississippi, mewn lle a elwir Winter Quarters, cychwynodd drachefn gyda'i fintai flinedig o ychain, ar y 9fed o Fehefin, 1847, a chyrhaeddodd y lle hwn ar y 23ain o Fedi. Llywyddodd ar yr Eglwys yn y Mynyddoedd hyd Ionawr 1, 1849, pan yr ordeiniwyd ef yn Batriarch ar yr Eglwys, o dan ddwylaw y Llywyddion Brigham Young a Heber C. Kimball.

Symudodd allan o'r Gaer i'w ddinas-ran, yn Chwefror, 1849, a dyma'r unig fan lle cafodd gyfle i wrteithio gardd am ddwy flynedd yn olynol, o'r tair blynedd ar hugain diweddaf.

Yn ychwanegiad i'r amryw, yr effeithiol, a'r dirfawr les i filoedd yn ffordd iachawdwriaeth, gweinyddodd 55600 o Fendithion Patriarchaidd, pa rai a gofnodwyd mewn saith o lyfrau mawrion, wedi eu hysgrifenu yn agos, ac wedi terfynu yr anhawdd ddyledswyddau, o'i dreuliedig brawf gyfiwr daionus, i fyned i sefyllfa o orphwysdra, lle yn foneddol y canlyna ac yr anrhydedda ei weithredoedd ef, ac a barhâ i roddi ei fedrus gynghorion er llwyddiant a dedwyddwch Seion.

*Cyf.* Wm. Sims.

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, AWST 12, 1854.

Gair at ein Darllenwyr.—Cynnwysa yr erthygl cyntaf yn y rhifyn hwn dameidiau melys i'r Saint, wedi eu harlwyo gan ein hybarchus Lywydd B. Young, gwledd i'n henaid ni yw ei holl ddysgeidiaeth ef, a'r gred y gwleddwch chwithau arnynt a'n cymhellodd i'w rhoddi o'ch blaen. Myfyrier yn weddigar nes y delo cylla yr enaid i frashau ar ymborth Seion tra yma, os dysgwylir cynnyddiant hyd fywyd diderfyn drwy-

ddynt ar ol myned yno. Mae yr ychydig feddyl-ddrychau a geir gan ein hanwyl Lywydd F. D. Richards yn niwedd y rhifyn hwn, yn deilwng o'u darllen fwy nag unwaith, a phob un glân ei galon a gnoa ei gil arnynt, ac a wna yn eu hol. Mor felys genym yw profion fel hyn ein bod ni o'r un ysbryd a'n Llywydd yn dysgu y Saint, fel y gwelir wrth gymharu y "Sylwadau" hyn o eiddo ein Llywydd â'r hyn a ysgrifenasom yn y rhifyn blaenorol o'r UDGORN! Mae yr ysbryd yn cymhell, nid y brodyr Seisnig yn unig, ond y Cymru hefyd a wahoddir drwy eu HUDGORN i ymbarotoi i'r ymfudiad, drwy fod wedi gwneyd eu rhan i argyhoeddi y byd, a'u gadael yn ddiesgus, drwy eu bucheddau difrycheulyd; a gwelir nad ystyria ein Llywydd fod neb yn barod, nac a ddylai gael ymfudo, hyd oni fyddo wedi talu ei gyfartalwch at gario y gwaith yn mlaen—na all fyned os gedy idd ei frodyr arosol dalu ei ddyled ef at rent eu capel, y Deml, nac at unrhyw ddyled arosol arall, nac yn enwedig os na fydd wedi talu am y llyfrau a gafodd; eithr beth a feddylid pe gwelid dosparthwr yn cychwyn ei ffordd i Seion ar ol camddefnyddio arian y llyfrau, a gadael y Saint i'w had-dalu drosto? Hyderwn na welir y fath beth yn ein heglwys. Hyderwn hefyd yr edrycha Llywyddion Cynnadleddau a Llywyddion Cangenau, na fyddo ceiniog o arian y llyfrau yn myned i un man, nac at un defnydd amgen nag i'r Swyddfa lle yn unig y perthynant yn onest. Ac etto, galwn sylw at osod arolygwyr ar bob dosparthwyr ar ddiwedd pob chwarter! *Rhag* camsynied, gofaler am wneyd hyn.

---

APPWYNTIADAU.—Appwyntiwyd yr Henuriad Benjamin Jones i Lywyddu Cynnadledd Llanelli, a'r Henuriaid Lewis a D. Davies yn Gynghorwyr, a J. J. Phillips yn ysgrifenydd a phrif ddosparthwr.

---

## CYMMANFA DDWYREINIOL MORGANWG.

[Parhad o dud. 445.]

### DIWEDD SYLWADAU Y LLYWYDD JONES.

BUM yn Llundain yn y Cynghor yn ddiweddar, ac O! na fuasai yr ysbryd oedd yno yn cael ei dywallt *ar led* yn

nghalonau Saint Dwyreiniol Morganwg. Yr oedd y rhai a ddaethant yno o'r dyffryn, yn llawn cariad a gwres gwaith Duw, yn meddwl mai hanner cysgu mae y Saint yn Babilon. Dynion oeddynt ag oedd wedi arfer *gwneyd peb rhan o'u crefydd*, a chwithig ganddynt oedd gweled neb yn peidio.

Mae cyfnewidiadau ereill yn Seion,—maent yn amcanu am sefydliad newydd yn y Taleithiau,—yn Cincinnatti Ohio, ac yn nghyffiniau St. Louis, a daw y Llywyddion o Seion, i ddarparu yno le i'r rhai a ânt oddiyma yno, fel y cant waith yr haf neu y gauaf, er ennill modd i fyned yn mhellach.

Cofiwch mai darparu am hyny y maent. Ni ddywedwn hyn pe niweidia y cyfraniadau at y Drysorfa Ymfudol; a chyn yr awn yno y mae genym i lanhau ein dwylaw oddiwrth waed ein cyd-ddynion, drwy eu rhybuddio a thystiolaethu iddynt yr hyn a wyddom.

Bydd y sefydliad hwn yn feddyginiaeth rhag i ddynion wrthgilio oddiamgylch St. Louis, a rhedeg i'r Taleithiau i weithio, &c. Cânt gyfle i gael rhagor yno atynt, a byddant barod i weithio eu ffordd i Seion, ar y gledr-ffordd a wneir i'r dyffryn, pan y caffont gyfle.

Mae llawer ffordd gan yr Arglwydd i ddwyn oddiamgylch yr ymgasgliad, a pharotoi lle dedwydd i'w blant,, ond iddynt wneyd iawn ddefnydd o'i egwyddorion.

Ein hufydd-dod, gostyngeiddrwydd, a'n hawydd i iawn ddefnyddio yr egwyddor o ewyllys rydd, a'n corona yn yr amser a ddaw Bendith yr Arglwydd a fyddo ar yr hyn a lefarwyd, i'ch dwyn i iawn ystyriaeth o'i bwysfawrogrwydd, yw dymuniad eich hanwyl Frawd, a'ch ufydd was yn Nghrist. Amen.

Terfynwyd trwy weddi gan yr Henuriad Thomas Jones o Gaerfyrddin.

*Hanner awr wedi chwech.*—Dechreuwyd trwy weddi gan T. Morgan, Brycheiniog. Canodd y côr.

Y Llywydd—Gwelaf nad ydwyf wedi eich dychrynu i ormodedd yn y cyfarfod prydnawnol i ddyfod ynghyd yn yr hwyr yma etto.

Mae tueddiad yn y natur ddynol i osod ei *hunan* yn safon i bob peth. Pan oeddem gyda'r gwahanol enwadau, meddyliem ein bod *ni* yn iawn, a phawb arall yn gyfeiliornus. Nid mewn

crefydd yn unig mae y duedd hon, ond mewn masnach hefyd. Mae y duedd yn naturiol iawn i'r natur ddynol. Dywed yr hen ddiareb, "Yn *mhob* gwlad y magir y *glew*;" a rhy barod ydym yn aml i ymollwng i'r tueddiad yna. Mae y Saint yn gwybod gwell na hyny yn awr, ac ymdrechant wneyd ewyllys Duw; ond rhai dynion a gymhwysant air Duw at eu mympwy eu hunain, trwy esbonio, a gwnant hyny yn safon eu ffydd. Nid felly mae y Saint, hwy a godant eu deheulaw i fyny i gynnal yr Offeiriadaeth sydd yn dysgu geiriau Duw, ac y mae genym i frwydro llawer yn erbyn y duedd hon. Y mae crefyddwyr wrth glywed gair Duw gan y Saint yn rhyfeddu, ac yn meddwl eu hunain yn iawn, ac y mae hyd y nod rai Saint, er yn *gwybod* gwell, yn ymollwng i'r nwyd hon. Ymollwng iddi a'i portha yn fwy nâ ni ein hunain. Os ydych am wybod beth yw, dywed Paul mai yr "hen ddyn" yw, a dylem ei groeshoelio, a gwrandaw ar y dyn newydd. Y mae Ysbryd Duw genym i'n harwain bob un; ein hymdrech fyddo i wrandaw arno. Pan glywsom sôn am y Saint gyntaf, dywedodd yr hen ddyn "twyll yw!" a chadwa gannoedd yn ol etto rhag cael gafael ar ddechreu y ffordd i gael bywyd tragywyddol. Gwyliwn rhagddo, ynte; rhyfelodd yn erbyn arddodiad dwylaw a dawn yr Ysbryd Glân. Er ys blwyddyn a hanner yn ol, wedi i chwi gael tamaid arall, bu yn gryf iawn yn ein herbyn, er ein bod wedi cael blas ar y grefydd ogoneddus hon, yr hyn sydd yn brawf i ni o ddwyfoldeb y drefn, gan mai rhyfela a wna yn ein herbyn, cyhyd ag y gall gael ymborth i fyw arno, croeshoeliwn ef. Trefn yw hon a rodda i ni Ysbryd Duw, a gobaith i deyrnasu mewn bywyd tragywyddol, ac i etifeddu gorseddau, llywodraethau, ac i gynnyddu ac eppilio yn dragywyddol; ac fel y dilyna y naill egwyddor o honi y llall, y parhâ yr hen ddyn i'w gwrthwynebu. Os methu wnawn a dyoddef y pethau sydd yma, heb allu a chroeshoelio yr hen ddyn, pa fodd y byddwn fyw yn y nefoedd, yn mhresennoldeb yr Arglwydd a'r angylion santaidd, yn gwrthwynebu pob peth, a'n teimladau yn groes bob amser, o herwydd yr *hen ddyn*. Cyn yr awn byth i'r nefoedd, y mae yn rhaid i ni ei gwneyd o'n *mewn ein hunain*.

Yr wyf yn bwriadu dweyd rhai dirgelion yma heno, ac os crafant rai o honoch, nis gallwn eich cynnorthwyo; a dyfod a wnant, hyd nes yr ymwaghà y ffynnonell ddihysbydd o

ddoethineb sydd fry, a chyhyd â hyny y bydd yr "hen ddyn" yn ein poeni.

WILLIAM LEWIS, *Ysgrifenydd.*

*(I'w barhau.)*

---

## GALARNAD

*Ar ol Ann Dibra Parry, gwraig Bernard Parry o St. George, yr hon a fu farw yn agos i Kansas, ar lan afon Missouri. Claddwyd hi ar yr 20fed o Ebrill,* 1854. *Hefyd Bernard Parry, yr hwn a fu farw ar y 4ydd o Fai, yn agos i'r un lle.*

MAE Duw y Duwiau yn mesur camrau
A byrion ddyddiau pob rhyw ddyn;
Rhai mewn hen-oed, rhai'n fabanod,—
Mae'n rhoi gollyngdod i bob un:
Rhai fel finnau yn mlodau amser,
Wrth alwad dyner Ner y Ne',—
Gorff ac enaid raid ymado
Y pryd a'r fan a fyno Efe.

Er imi yn glyd rodio gwledydd,
A'm dwylaw 'n rhydd o lawer rhwyd,
Ni threfnwyd terfyn i fy nghorffyn,
I farw yn Nyffryn claerwyn Clwyd.
Na wnewch alaru na hiraethu,—
'Rwyf yn deisyfu er lleshâd;
Daw galwad goleu i chwi ryw foreu
Yn wir i ddod i'r un wlad.

Ni chaf fi, gwyddoch, wel'd mo honoch,
Nes y deloch chwi ryw ddydd,
I'm cyfarfod ar y diwrnod,—
Y fawr ryfeddol farn a fydd;
Yn iach fy mrodyr a'm chwiorydd,—
Gwres a chynnydd gras i chwi;
Ni wyddoch, cofiwch, derfyn bywyd
O fewn y fynyd, fwy nâ mi.

*O'r Gwersyll.* ROBERT HUMPHREYS.

---

## DYFYNIAD O SYLWADAU Y LLYWYDD FRANKLIN D. RICHARDS.

*(Allan o'r "Millenial Star.")*

Fawn ystyriaeth o liosogrwydd a physigrwydd y dyledswyddau a orphwysant arnom, a ffurfia esgusawd ddigonol i'n darllenwyr ac i'n gohebwyr, paham na ddywedasom lawer wrthynt trwy golofnau y *Star*, nac ychwaith mewn atebiad trwy lythyrau i'w gohebiaethau lliosog a dyddorol, hyderwn y bydd yr ystyriaeth uchod yn esgusawd gyffredinol i'r rhai a dybiant ein bod wedi bod yn ddiffygiol yn hyn. Ni theimlwn ychwaith awydd neilldnol i wneuthur hyny, o herwydd yr addysgiadau pwysig a gynnwysir yn yr Epistol Cyffredinol; annerchiadau y Llywyddion Young a Kimball o flaen y Gymmanfa, ynghyd a'r cofnodau, yr oll o ba rai yr oeddem yn awyddus i'w cael yn brydlawn o flaen ein darllenwyr, ac annogwn bawb i ddwys ystyriaeth o'r cyfryw. Ni ystyrir un neu ddau darlleniad o honynt yn ddigonol, ond bydded i chwi fyfyrio arnynt, a'u dwys ystyried yn eich calonau; o herwydd effeithia cynghorion a phenderfyniadau y Gymmanfa hono ar gyflwr a gobeithion y Saint dros wyneb yr holl ddaear; yn neilldnol yn eu hymgasgliad, teimlant yn fwy ymddibynol ar eu hymdrechiadau eu hunain, ac ar eu ffydd yn Nuw, nag o'r blaen. Ni ddichon y rhieni a'r aelodau hynaf beunydd gario a magu yr aeloedau ieuengaf o'r teulu, ond gorphwysa y ddyledswydd hon ar y rhai sydd yn nes i'w hoedran, tra yr ymrodda y rhai hynaf at ddyledswyddau mwy dynol a berthyn i deulu Duw. Pwy, ynte, a dderbyniodd nerth gan Dduw i *sefyll?* Pwy a ddysgodd *rodio* o'i flaen yn santaidd a difeius? Pwy a ddichon wahaniaethu ysbrydoedd ac athrawiaethau, a dewis ysbryd â bara y bywyd, allan o ysbryd ac athrawiaeth dynion a chythreuliaid? Neu os yn abl i ddirnad a dewis, pwy a fedr ei archwaethu, ei dreulio, a'i ddarostwng i fywyd ymarferol? O herwydd, cofier, mai yr hwn a ymarfero â'i grefydd oreu, yw y mwyaf yn nheyrnas Dduw. Y mae rhai wedi cyrhaedd y gradd hyny o ddynoliaeth a medrusrwydd yn yr Eglwys, sef Brigham, Heber, a Jedediah, ac ereill a allwn enwi mewn cysylltiad â hwynt er adeiladu y deyrnas—dynion santaidd a chyfiawn yn eu dydd ac yn eu tymhor; eu llafur a gyfrifir iddynt er

iachawdwriaeth eu teuluoedd, y rhai ydynt yn drefnus o flaen yr Arglwydd, hyd y nod yn ol trefn santeiddiaf Duw; dynion ag sydd wedi myned trwy brofedigaethau tanbaid, erlidigaethau a themtasiwnau y dyddiau diweddaf, heb gymmaint ag arogl yr halogedig dân ar eu gwisgoedd; y rhai a dderbyniant ddadguddiadau parhaus er arwain yr Eglwys, eu teuluoedd, a hwynthwy eu hunain. Dyma y rhai ag sydd yn ardderchog wedi cyrhaedd urddas a mawredd y frawdoliaeth hynaf yn yr Eglwys. Dyledswydd neillduol y cyfryw yn bresennol ydyw santeiddio y bobl, dysgu iddynt ddeddfau, ordinhadau, a barnedigaethau yr Hollalluog; a gweinyddu i droseddwyr y gosp am dori y gyfraith, fel y byddo rhagrithwyr yn dychrynu, troseddwyr yn Seion yn ofni, ac felly mae drygioni yn cael ei fwrw ymaith.

Eisoes y mae y goleuni nefol a ddysclaeria o fynydd Seion, yn rhy danbaid i olygon llawer ag sydd yn canlyn o hirbell, gan rodio yn ngoleuni y sêr; ac a gaiff y rhai hyny sydd a'u synwyrau wedi cael eu profi, a'u cael yn abl i archwaethu bwyd cryf, ac i lafurio yn wrol dros Dduw,—a gaiff cynnyddiad y cyfryw eu rhwystro gan y rhai a feddant ond yr enw o fod yn fyw, eithr a hongiant yn bwysau marw? A gaiff eu hysbrydoedd eu gofidio gan waradwydd gwrthyn y rhai a gipiwyd, megys heb ofal ac ystyriaeth o'u rhan eu hunain, a'u cario i fynwes yr Eglwys? A ganiateir i'r grwgnachwyr wasgaru eu dylanwadau gwenwynllyd yn mhlith y bobl? Nid yw yn debygol; ceir gwelliant doeth a chyflawn i hyn yn sefydliad lleoedd newydd er ymgasglu yn y Taleithiau, fel y byddo i'r rhai a fedrant, ddyoddef goleuni y gyfraith nefol, a dderbyniasant ras i redeg heb ddiffygio, ac i rodio heb flino, gydag adnewyddol nerth nes cyrhaeddyd y nod, tra y caiff y rhai sydd o bymtheg i ugain mlynedd ar ol, yn eu ffydd a'u gwybodaeth am Dduw, rodio mewn goleuni cyferbyniol i'w deall, a phrofi eu teilyngdod drwy hyny i dderbyn pethau perffeithiach a berthynant i gyfraith Dduw.

Er y trefniadau hyn, bydd llawer ag oeddent yn arferol o rodio yn ei oleuni, ac yn sylwi ar ei rinweddau tanbeidiawl, yn canlyn y *Seren* yn y dwyrain, hyd nes, fel y bugeiliaid, y cyrhaeddant gyda eu rhoddion yn adgynnull-nod y cyflawn, lle y gallant, â'u holl galonau, anrhegu Arglwydd y lluoedd â'r

rhoddion hyny a fyddont yn gymmeradwy yn ngolwg yr Arwylyd, ac yn eu tro, mwynhant hwythau y gwych drysorau o fywyd tragywyddol. Mae yn ddiamheuol fod y Saint am wybod pa bryd y dechreuir ymfudo yn ol y drefn newydd. Atebwn, mai mor gynted ag y byddont hwy yn barod i ymroddi eu hunain i hyny; yna bydded diwydrwydd yn mhawb i dalu eu hen ddyled, pa un bynag ai rhenti eu neuadd, goruchwyliaeth llyfrau, neu unrhyw arian ereill sydd ddyledus arnynt, nid oes gwahaniaeth beth a fyddant. Bydded i bob rhwystrau gael eu symud o'r ffordd yn brydlawn, ac na choller yr un cyfleustra er danfon gwybodaeth o'r gwirionedd i'r rhai na chlywsant ef; a cheir yr ymfudiad wrth law mor gynted ag y byddwn yn barod i'w dderbyn mewn ysbryd doethineb a gallu. Yna bydded i bawb fawrhau eu galwedigaethau, a'u gwneyd yn anrhydeddus, o'r lleiaf hyd y mwyaf; fel, pan y byddo pobl Dduw yn cyfodi i fyned ymaith, y bydd eu hymfudiad yn brawf o'u gostyngeiddrwydd, a chywirdeb eu gweithredoedd yn ngolwg pawb; fel eu gadewir yn ddiesgus.

*Cyf.* Wm. Sims.

---

Cymmanfaoedd y Gogledd.—Cynnelir Cymmanfa Sir Fflint, ar y 13eg o Awst; Sir Ddinbych ar yr 20fed; Dyffryn Conwy ar y 27ain, a Sir Feirionydd ar y 30ain o Fedi.

Derbyniadau am Lyfrau o Gorph. 27 hyd Awst 10.—Gorllewin Morganwg, £4; Llauelli, £3 17s 4½c; Caerfyrddin, £1 8s 2c.—*Cangenau Dwyr. Morganwg*—Llanfabon, 3s; Pontypridd, 6s 6c; Aberdâr, 11s; Aberamman, 8s 6c; Hirwain, 9s 6c; Georgetown, 4s 3c.

☞ Gorfodwyd ni i adael hanes Cymmanfaoedd Abertawy, Llanelli, a Chaerfyrddin allan o'r Udgorn hyd yn hyn, ac un o'r achosion o hyny yw, o herwydd na chawsom yr un gair o honynt hyd yn hyn!

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Araeth y Llywydd B. Young | 453 |
| Marwolaeth y Patriarch John Smith | 460 |
| Golygyddiaeth—Gair at y Darllenwyr—Appwyntiadau | 461 |
| Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg | 462 |
| Galarnad | 465 |
| Dyfyniadau o Sylwadau y Llywydd F. D. Richards | 466 |


---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 30.] AWST 26, 1854. [CYF. VII.


### YSBRYD ANGHRIST.

TYBIAETH boblogaidd yw fod pob ysbryd a gyffesa ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, o Dduw, a seilir y dyb ar y ffaith o'r fod Ioan wedi dweyd fod pob ysbryd a gyffesai gnawdoliaeth Mab Duw yn ei amser ef yn gyfryw; a chan mai y brif nodwedd a ddyry efe o ysbryd Anghrist oedd gwadiad o ddwyfoldeb yr Iesu, meddylir fod y safon hono yn gywir i farnu ysbrydion yn awr. Eithr ceisiwn ddangos gwell nâ'r dybiaeth yna, fel y canlyn:—

Yr oedd crediniaeth yn nwyfoldeb yr Iesu mor anghyffredinol, a'r cyffesiad o hono mor anmhoblogaidd y pryd hyny, ac mor beryglus i'w heinioes, fel na chyffesid hyny gan neb oddieithr eu bod yn *wir* grediniol o hyny, os nad wedi derbyn o Ysbryd Duw mor helaeth nes cael *prawf* fod Iesu yn Fab Duw; canys, dywedir "na ddichon neb ddywedyd yr Arglwydd Iesu ond drwy yr Ysbryd Glân," ac felly yr oedd y perygl o gyffesu yr Iesu yn amgau digonol y pryd hyny i gadw rhagrithwyr o'r Eglwys; tra o'r ochr arall, y mae poblogrwydd yr Eglwys yn y canrifoedd dilynol yn temtio dynion o ddybenion drwg i broffesu eu crediniaeth yn nwyfoldeb yr Iesu, yr hyn a fyddai yn ysbryd Anghrist serch hyny. Ac er na fynem i neb feddwl ein bod yn anmheu cywirdeb y safon a roddai Ioan i'w gydoeswyr ef i farnu ysbryd Anghrist, etto, ni ddeallwn fod y safon hono yn ddigon cywir i ni farnu yr un peth yn awr, o herwydd y gwahaniaeth mawr sydd rhwng yr amgylch-

iadau a'n llywodraethant ni â'r rhai a'u llywodraethent hwynt. Mae y camsynied hwn yn niweidiol i'r graddau yr arweinia ddynion i gredu am danynt eu hunain, neu am ereill, fod eu cyffesiad o ddyfodiad Mab Duw yn y cnawd yn brawf eu bod hwy wedi eu geni o Dduw; yr hyn ni ddichon fod yn wir mewn gwlad lle y mae traddodiadau y tadau a'r ysgrythyrau wedi dysgu hyn i'r werin yn ddiwahan, a lle y mae miloedd o rai a ystyrir yn annuwiol, yn feddwon, lladron, godinebwyr, a phob drwgweithredwyr, yn cyffesu ar yr un pryd fod Iesu yn Fab Duw. Ni chredir fod y cablwr wedi ei eni o Dduw yn yr ystyr a ddywedai Ioan, tra yr halogir ei enau wrth gymmeryd enw yr Iesu yn ofer, etto, cyffesa efe ddyfod Iesu yn y cnawd. Hefyd os yw cyffesiad o'r Iesu yn ddigonol brawf fod y proffeswr wedi eu eni o Dduw, beth a ddywedir am y rhai a feddianir ac a feddianwyd gan y diafol, ac ar yr un pryd yn gwaeddi, "Beth sydd i ni a wnelom â thi, a ddaethost i'n poeni cyn yr amser?" Wele ysbryd yr Anghrist yn cyffesu yma, ac fel y clywsom ninnan droion, ddyfod Mab Duw yn y cnawd; os nad oedd eu cyffesiad hwy o hono yn profi eu bod wedi eu geni o Dduw, nid yw cyffesiad ereill yn brawf digonol o'u dwyfol enedigaeth hwythau, a hyny yw profi ein gosodiad cyntaf.

Dichell o eiddo yr Anghrist ei hun yw hudo i gredu nad Anghrist yw neb ond y rhai a wadant ddyfodiad Mab Duw, a'i ddybenion i'w twyllo i beidio ei adnabód ef yn ei wahanol ddylanwadau ereill.

Deonglir y gair ANG-hrist yn gyfystyr â *gwrth*-Grist, neu groes i Grist, ac, ar briodoldeb y deongliad yna, cyfaddas y gelwir pob ysbryd sydd yn gwrthwynebu cyfraith neu orchymynion Crist yn *Ang*-hrist. A chan fod y neb a wrthwynebo weision Crist yn cael eu hystyried ganddo yn wrthwynebwyr iddo Ef ei hun, y mae mwy o Anghristiau i'w cael, gweler, nag a feddylia y rhai na chredant fod yr un Anghrist ond a wadant ddyfodiad Crist yn y cnawd; a buddiol rhag twyllo ein hunain ganddo, fyddai cael iawn ddealltwriaeth o dueddiadau ysbryd yr Anghrist yn ein hoes a'n gwlad ni. O'r holl ddylanwadau a achosa Anghrist ar blant dynion yn y byd, ni ddichon ei fod mor niweidiol iddynt eu hunain, nac i ereill, ag yw ei ddylanwadau ar y rhai sydd neu a fuont yn Eglwys Dduw,—y rhai a fwynhasant o Ysbryd Crist; a pho fwyaf o hwnw a gawsent

os ufyddhant i'r Anghrist, mwyaf niweidiol y'nt, fel y dywed Crist, "Os y goleuni sydd ynoch a dry yn dywyllwch, pa faint fydd y tywyllwch hwnw? Nid yw cydwybodolrwydd dyn, hyd y nod yn Eglwys Dduw, yn ddigonol brawf nad Anghrist a'i harweinia, mwy nag yw cydwybodolrwydd y gau grefyddwr yn profi y gau yn wir; yr hyn a brawf yr anghen o iawn ddealltwriaeth o ddylanwad Anghrist hyd y nod *yn* yr Eglwys.

Heb olrhain yn awr, i'r lluoedd profion a feddwn o'r ffaith mai y diafol, neu Lusiffer, yw yr Anghrist a sonia yr ysgrythyrau am dano, haerwn hyny yn awr, a cheir cyfleu etto i brofi hyny, ond odid; ac er mwyn byrdra, crefwn ar y darllenydd ein credu hefyd o barthed i'r Anghrist hwnw mai bôd ysbrydol yw, o sylwedd ysbrydol a lleawl,—un a anwyd o Dduw yn y nefoedd cyn seiliad ein byd bach ni; ïe, a anwyd yn frawd i Iesu Grist ac i ninnau; a'r hwn yn y dechreuad oedd ddibechod, yn feddiannol ar fwy o ddoethineb a gallu na neb arall o "feibion Duw," oddieithr y "Cyntaf-anedig. Y "seren" ddysclaeriaf o "holl sêr y boreu" ond un, sef y "Seren foreu eglur"—ail "fab y wawr" y priodol elwir Lusiffer neu yr Anghrist; ac yn y nef gyda ei Dad a'i "frawd henaf" yr oedd ei gartrefle am oesoedd. "Pa bryd y dechreuodd Satan, ac o ba le y daeth ef," &c., sydd gwestiynau a ddrysant y byd am eu hatebion, eithr drwy Ysbryd Crist amlygir i ni ddechreuad Anghrist, ynghyd a llawer o'i gynllwynion a'i ddichellion. Nid oedd yr achos dechreuol o syrthiad y bôd dysclaer hwn amgen na meiddio gwrthwynebu cynllun ei Dad a'i Frawd henaf, y rhäi oedd ei gyfreithlon Lywyddion ef; a'r pechod peryglus o geisio ei ffordd ei hun yn hytrach nâ'r eiddynt hwy a'i halltudiodd ef allan o'r nefoedd, "A'r pryd hyny yr aeth efe yn Satan," ebe dadguddiad. Ni ymddangosodd Lusiffer ond gwahaniaeth barn ar y dechreu ynghylch y cynllun goreu i achub dyn, yr hyn pe cymmerasai ei argyhoeddi yn ostyngedig, ni fuasai amgen na ddangos ei anwybodaeth, debygwn, a thebyg iddo gael amser ac ymbiliau taerion i'w argyhoeddi; eithr yntau a falchiodd o herwydd gweled ereill yn ymdrechu gydag ef—a'u diystyrodd, ac a elai yn fwy ystyfnig yn ei bwnc, nes y digiodd wrth ei Lywyddion, ac yna efe a geisiodd godi plaid ddigon lliosog i ddial arnynt. Y ffordd gyfrwysaf a gymmerodd i hyny oedd, i godi tosturi mewn ereill tuag ato; un mor ddoeth

—mor uchel a chyfiawn ag ef yn cael ei iselhau, ac yntau yn cynnyg gwneyd cynllun i achub pawb yn ddiwahan, tra ei wrthwynebwyr mor anghyfiawn ac annhrugarog â gwneyd cynllun i achub yr edifeiriol yn unig, a'u bod yn bwriadu cospi yn dost y pechadur truan nad edifarhauai a gwneyd fel y ceisient hwy. Rhyfedd mor hyawdl y darlithiau dros ei system a'i ddoethineb ei hunan—syndod mor drugarog a duwiolfrydig oedd efe, ac mor annhrugarog yr oedd ei Dad a'i Frawd! Efe oedd ar y ffordd gywir, bid siwr—trugaredd yr oedd efe yn ei bleidio, ac amddiffyn cyfiawnder yr oedd. Ac y mae y ffaith o'i fod wedi proselytio un o bob tri o holl feibion Duw i'w ganlyn ef, yn profi ei fod yn gyfrwys, ac yn fedrus a diwyd: nid bodau anwybodus yn unig a dwyllai, ac nid ydym yn barod i addef eu bod hwythau yn fwriadol i ryfela yn erbyn eu Tad, eithr wrth godi trueni ynddynt drosto ef, dechreuasant gydymdeimlo ag ef, ac i'r grddau y credent ei gamgyhuddiadau ef yn erbyn eu Tad a'u Brawd henaf, hudid hwythau i gyd-weled, yr hyn a barai iddynt hwythau golli Ysbryd y goleuni yn raddol, ac i'r graddau y coelient ystoriau yr Anghrist. A thra thebyg y defnyddiau y ffaith o'i fod ef wedi bod yn eu cyfeillach yn fwy nag ereill, ei fod ef yn deall eu holl ddirgelion a'u bwriadau, gyda deheurwydd i beri i'w hudolion gredu fod ynddynt ryw anghyfiawnder gwrthun na wyddai y lleill am dano, eithr os dilynent hwy ef, y byddai efe yn *champion* rhyddid iddynt, ac y caffai pawb ei ffordd ei hun, &c.

Hawdd y gellir beio ysbrydion mor ddeallus am gymmeryd eu hudo i gredu y fath un â Lusiffer; eithr pan ystyrier y fath ddylanwad oedd ganddo, a'r gred a greodd, mai pleidio cyfiawnder yr oedd—na ddangosodd efe ei hunan yn ei liw priodol iddynt, hawddach yw cymmeryd rhybudd i beidio gwrando arno ef yn gyffelyb yn awr. Wrth roddi clust o wrandawiad arno y collasant hwy, canys arddangosai hyny ddrwg-dybiaeth, neu o leiaf ammheuaeth ei fod ef yn dweyd y gwir, a thrwy wrando arno mewn dim a ddywedai y digiasent hwy Ysbryd y gwirionedd oddiwrthynt, ac yna gogwyddasant eu barn o'i blaid ef, ac yn erbyn eu Tad a'i Unig-anedig. Ai tybied nad oeddynt hwy yn gydwybodol? Ar y dechreu credwn eu bod, eithr wedi gweled dyben eu blaenor i ryfela, dichon eu bod, neu lawer o honynt, yn rhy falch i blygu, ac y mynent weled y

gwaethaf. Lle y dylasent hwy ddeall, mai, os oedd ef yn cael cam, nad gwerin lywodraeth oedd yno, ac felly nad hwy, ond eu Llywyddion oedd i farnu y mater, a'i fod yntau yn dangos gwrthryfel yn eglur wrth ddweyd ei gwyn lle nad allasai wneyd un daioni, ond drwg dieithriad i bawb; ei fod wrth godi plaid yn dangos lid a dial, yr hyn, pe dim arall, a ddylasai eu rhybuddio i beidio rhoddi clust o wrandawiad i un gair a ddywedai—eu bod yn rhyfygu, ac mewn perygl drwy wrando o gydymdeimlo, yr hyn a fagai gydsyniad cyfartal i wrthryfel. Eithr amlwg yw i ni mai y pechod o eistedd mewn barn ar, a gwrthryfela yn erbyn ei Lywyddion oedd prif nodwedd Anghrist—ei bechod dechreuol—ffynnonell darddiol pob drwg arall a fu erioed—y llithrigfa i'r Jehenah—porth uffern, a'r wers olaf a gwaethaf a ddysgódd nac a ddysga yr Anghrist i greadur yn yr ysbryd nac yn y corff. Gwrthwynebu yr Offeiriadaeth a'i gyrodd ef a'i ganlynwyr "i dywyllwch o dan gadwynau hyd farn y dydd mawr;" ac i'r graddau ag yr ufyddheir i'r un ysbryd yr arweinia i'r un dynghed yn ol graddau gwybodaeth a manteision i ddeall gwell. Wedi colli yr amcan a chael ei alltudio o'r nef, digon tebyg y cysurai ei bleidwyr drwy ddweyd mai eu braint oedd cael gwared o le mor ddrwg â'r nefoedd, ac oddiwrth ormeswyr mor anghyfiawn â'r rhai a lywyddai yno; a rhyfedd fel y bygythiai i ymddial,—y mynai efe gael eu penau i lawr,—y dangosai efe nad yr Iesu, ond efe ei hun, oedd y teilwng Iachawdwr i fod, ac y mynai efe y deyrnas a'r llywodraeth ar y ddaear, &c. Ac ni synem chwaith os na thwyllai ei flaenoriaid i ddysgwyl llwyddiant a swyddau uchel o tan ei goron ef.

Onid gwers fuddiol i bob un o blant Duw ei dysgu yn awr yw ufydd-dod i Offeiriadaeth Crist, gan fod pob gwrthryfel yn ei herbyn yn tarddu oddiwrth Anghrist? Eglur yw yr arweinia y neb a'i gwna at yr Anghrist ei hunan. Nid yw cydwybodolrwydd y cyfryw, mai pleidio cyfiawnder yw eu dyben, yn esgus mwy digonol nag yr oedd cydwybodolrwydd yr ysbrydoedd a bleidiasant yr Anghrist yn eu gwaredu hwythau oddiwrth ei gospedigaeth yntau. I'r rhai a ddeallant mai ufydd-dod i'r Offeiriadaeth a'u ceidw i fywyd tragywyddol, dylai fod yn hunan-eglur o'r ochr arall mai gwrthryfel yn ei herbyn a'i gyra hwynt i'r farwolaeth dragywyddol. Dichon dyn syrthio

i aml bwll a chyfodi, a chael ei lithro i bechodau gwarthus ac edifarhau, eithr ni wyddom am bechod anhawddach i gael gwared o'i ddylanwad, na gwaeth nag yw gwrthryfel yn erbyn yr Offeiriadaeth. Hwn yw boncyff dechreuol y pechod anfaddeuol; gan mai am y pechod hwn y rhoddwyd y drydydd ran o angylion y nef dan ddedfryd o gospedigaeth dragywyddol, amlwg yw mai pechod anfaddeuol yw; a bydd y gosp am dano yn gyferbyniol i'r graddau o oleuni a feddai y troseddwr cyn hyny; a bydd dylanwad y rhywogaeth anghristaidd hyn arno yn gyfystyr o ran ei rym i hyny, a dengys ei hun yn ei ddigofaint a'i elyniaeth, nid at y rhai *gwaethaf*, ond at y rhai *goreu*, eithr a gam-fernir ganddo ef yn waethaf, o herwydd bydd efe fel dyn yn y clefyd melyn, am y bydd ei lygaid ei hun yn felyn, dywedir yr ymddengys pawb yn felyn iddo ef ond ei hunan, a rhyfedda pa fodd y gall neb ei ammheu yn yr hyn sydd mor eglur iddo ef. Felly ei dad anghristaidd a ryfeddai na fuasai y ddwy ran o'r tair ereill yn y nef yn cydweled ag ef mewn anghyfiawnder mor amlwg ag â wnelai Michael a'i lu ag ef! Dywedir mai tywallt gwaed gwirion yw y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân, beth ond awydd i dywallt gwaed, pe y gallasai, oedd dyben yr Anghrist yn codi rhyfel yn y nef? Onid yr un ysbryd ag a ddiorseddai Dduw, a wnelai hyny ar gost pob peth, a phe gallasai ladd yr oll, diau y gwnaethai hyny; felly y gwelir syched am waed y rhai a feddant yr Offeiriadaeth yn y rhai a lyngeant yr ysbryd hunan-gyfiawn hwn, yn eu digofaint atynt, eu cam-gyhuddiadau yn eu herbyn, a'u hawydd i godi plaid drwy dduo cymmeriadau eu gwell, a cheisio drwy hyny, Lusiffer debyg, i ennill dylanwad o'u plaid eu hunain, a'u hunig ddyben yw, gwadant a fynont, boddio ysbryd dialgar, costied a gostio, ac i'r graddau y byddo, sycheda am waed gwirion; nid gwaed yr enog na'r drwg-ddyn a'i boddia ef, eithr po dduwiolaf yr aberth melysaf oll i'w enau ef fydd dyferiad o waed ei galon. Ha wyr! ai llefaru ar antur yr ydym? A feddylir ein bod yn paentio llun creadur dychymygol? Sier ydym o'r hyn a ddywedwn, onid yw y lloriau a welsom wedi eu rhyddio â gwaed merthyron duwiol—onid yw archollion gwaedlyd a chelaneddau ei laddedigion ef o flaen llygaid ein meddwl, tra y ceisiwn ddynoethi peth o ysgelerdra yr ysbryd hwn! Ydyw, mae y dryeh fyth o flaen ein llygaid, lle y gwelwn etto fel y gwelsom, y rhai

mwyaf rhith-grefyddol a hunan-gyfiawn yn blaenori miloedd o bethau tebycach i Anghrist ei hun nag i ddynion, yn rhincian dannedd, ac yn ymgynddeiriogi am gael gwaed calon y dynion goreu a feddai ein byd! Ai tybied y gallwn gamsynied yr ysbryd hwn ar ol yr holl enghreifftiau hynod a welsom? O na, diolch i'r Duw a wrthwyneba efe, nid ydym ni heb adnabod ei ddichellion ef. Do, gwelsom lofruddio ein Prophwyd, tra â gwynebau hirion bloeddient yn uchel mai ymofyn cyfiawnder yn unig yr oeddent hwy, ac nid gwrthryfela yn erbyn yr Offeiriadaeth. O na, meddent, nid ydym yn awgrymu dim yn erbyn yr Eglwys, ond yn erbyn y cam a wneir â'r Eglwys. Bid siwr, eu bod hwy yn gymmaint amddiffynwyr i'r Eglwys ag oedd eu tad, sef yr Anghrist, yn bleidiwr i'r nefoedd tra yn gwrthryfela yn erbyn ei hawdurdodau goruchaf. Ond pwy yn ei bwyll byth a'i coeliai?

Un o brif nodau Anghrist yw ei broffes, nad yn erbyn yr Offeiriadaeth, eithr mai yn erbyn *personau* yr ymladda efe, a hyny, nid o herwydd eu daioni bid siwr, os coelir ef. Felly y deallir nodwedd eu tad yn ei blant yn awr, yn fwy duwiol frydig, ac yn meddu mwy o Ysbryd Duw nag erioed, meddant, tra yn gweled eu llywydd yn rhy annuwiol i fod yn yr Eglwys, chwaethach yu llywyddu—gwelant eu hunain yn addasach i'r swydd o lawer. Etto ni wrthryfelant yn erbyn yr Offeiriadaeth er dim, eithr proffesant drueni mawr fod y fath fodau yn gwarthruddo yr Eglwys, &c. O, adwaenom, ni a adwaenom ei ystranciau yn burion, heblaw yr hanesion a ddarllenwn yn yr ysgrythyrau am ei ddichellion hyn drwy yr oesau mynedol, y mae profiadau o'r hyn a welsom yn yr Eglwys hon yn profi yn ddiammheuol mai *ffaeleddau personau* yw prif faniar ryfelawg Anghrist yr oes hon. Pa ddyn gwell yn ei oes na'n diweddar Brophwyd duwiol, a'n Patriarch, etto pa ddynion er sefydliad y byd, oddieithr eu Mheistr ei hun, a fuont y fath graigrwystr a maen tramgwydd i ragrithwyr coel grefyddol? Onid oedd rhywrai beunyddiol yn estyn eu bysedd at eu ffaeleddau? Ac etto, oni churodd pob un ei ymenydd allan a ymgynnygiodd symmud y maen tramgwydd hwn? Do, ac aethant oll yn eu tro yn ysglyfaeth i'r Anghrist a'u harwainiai, a phrofasant mai rhith oedd eu proffes fawr i gyd.

Rhy buddied hyn oll ni i ofalu bod yn gyflawn o Ysbryd gos-

tyngedig Crist, fel na ymchwyddir ni gan yr Anghrist, i ryfela yn erbyn yr Offeiriadaeth.

Y Golygydd.

---

## NEWYDDION DIWEDDAR O WERSYLL Y SAINT.

*Kansas, Mehefin*, 13, 1854.

Anwyl Riaint,—Dichon fod amryw chwedlau anwireddus yn cael eu taenu am yr Ymfudiad presennol; felly, fel y byddo eich meddyliau yn dawel, cymmeraf fy ysgrifell i'ch hysbysu ychydig o'm helynt. * * * *

Yr ydym yn gwersyllu yn bresenol ar ran o'r gwastadedd a fwriadwn deithio drostynt, yn agos i sefydliad a elwir Westport. Dywedaf na fuom erioed mor ddedwydd, ac am y daith hon, pleser-daith ydyw hyd yma. Y mae Sarah a minnau a'r plant yn mwynhau gwell iechyd nag erioed. Y mae pawb yn y gwersyll yn mwynhau iechyd da, ac yn dra chysurus gyda'n gilydd. Y mae John a David Nicholas a'u tad, Joseph a Ruth Evans a'u plentyn, James Lewis a Betsy, Wm. Williams o'r Felinfoel a'i ferch, a David Lewis, Penbrey, a'i wraig, oll yn iach a chysurus, ac y mae Mrs. White wedi myned yn ferch ieuanc yn ein plith. Blin genyf yw eich hysbysu fod Henry Davies, Cook-shop, Caerfyrddin, a'i wraig wedi marw.

Clywsoch lawer am ymddygiad yr Indiaid tuag at y teithwyr, eu bod yn lladd a bwyta y Saint, ynghyd ac ereill sydd yn teithio dros y gwastadedd hyn; yr wyf wedi bod yn eu plith amryw weithiau, ac y mae yn dda genyf allu dweyd am danynt na chanfyddais erioed bobl mor ddiniwed ag yw yr Indiaid.

Gobeithiaf y bydd i'r llinellau hyn i'ch cael i gyd yn iach, ac y gwnewch brysuro i ddyfod ar ein hol. Fy nghofion at Lewis y Saddler, David Bowen, Wm. Thomas Penbrey, a'r Saint yn Llanelly. Hyderaf fod llawer o drigolion Llanelli wedi ufyddhau i'r efengyl cyn hyn, trwy ddyfod yn Saint.

Mi a derfynaf yn awr, ond carwn i chwi gofio ein bod ni, yn nghyd a phawb sydd yn y gwersyll yma, yn ddedwydd, yn gysurus, ac yn iach.

Ydwyf yr eiddoch yn garedig,

R. G. Evans.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

DYDD SADWRN, AWST 26, 1854.

YMWELIAD Y LLYWYDD D. SPENCER A CHYMRU.—Mae y gwaith dwyfol ar ei gynnydd yn y parthau hyn; cawsom y pleser, ynghyd a'n parchus Lywydd Spencer, o ymgyfarfod â thorf liosog o Saint, a thrigolion serchus Pontytypridd wrth y "Gareg Siglo," ar Sul y 13eg o'r mis hwn. Er fod y tywydd wedi troi yn fradwrus, cafwyd gwrandawiad parchus dieithriad trwy y dydd, a chafwyd hwylusdod da i draddodi y genadwri ddwyfol gan amrywiol o Henuriaid cartrefol a phellenig. Cafwyd caredigrwydd hir-gofus gan y Saint siriol yno, trwy eu haelioni i ddieithriaid. Hyderwn fod mawr les wedi cael ei wneuthur y tro hwn oddiar ben y 'gareg siglo;' o leiaf, cafwyd ei hadleisiadau hi o blaid gwirionedd, a gogwyddai ei phen o dan wadnau traed gweision Duw, fel i arwyddo ei llawenydd o fod Duw wedi danfon etto genadwri i'n gwlad, a bod y 'gareg siglo' yn cael yr anrhydedd o fod yn bwlpud i'w thraddodi. Wedi y cyfarfod dau o'r gloch, bedyddiwyd tri, a chafwyd gwrandawiad astud ar lán y dwfr; ac yn yr hwyr hefyd yn Trefforest, mwynheid helaethrwydd o Ysbryd yr Arglwydd gan y Saint, a sobrwydd gan yr oll.

Dydd Llun cyfarfu y Llywydd Spencer a ninnau â lloned Neuadd y Cwmbach, o bobl siriol yn cadw "Cariad Wledd," a mawr y llawenydd oedd genym o weled drwy eu gweddeidd-dra a'u gwynebau serchus, nad balchder na gwagedd, ond mai *cariad* calon at wirionedd oedd eu gwledda, a melys gyd-wledda a gawsom ar ddanteithion gwirioneddau y nef, a hyfryd beroriaeth a chaniadau Seion.

Mawrth, yn Aberavon, cawsom Neuadd yr Odyddion yn orlawn o wrandawwyr, hynod o foneddigaidd ar ddarlith, am awr a hanner, yn profi pwy yw Anghrist, ei enedigaeth, ei achau,

hynodion ei gymmeriad, rhyfelgarwch ei einioes, ei garchariad, ei ryddhâd, ei farwolaeth a'i gladdedigaeth olaf, &c. Ar ol hyny, cafwyd sylwadau dyddorol yn Saesnig gan y Llywydd Spencer, ac ymddangosai pawb fel pe wedi eu llwyr foddloni; cawsom y pleser hefyd o gyfeillach amryw frodyr Llywyddol ar y Gynnadledd, a hen gyfoedion yn y gwaith gogoneddus hwn. Boreu dranoeth dilynid ni gan rai a ddewisient i ni eu bedyddio, eithr ereill alwadau a'n gorfodent i roddi y fraint hono i ereill, ac i ymadael gyda y boreu gerbyd i Abertawy. Wedi treulio amser hyfryd yno, aethom dranoeth i Lanelli, lle yr oedd dysgwyliad am danom gan y Saint, a llawenydd gan yr oll ein gweled a'n clywed. Fel, ar ol cylchdro byr fel yna, y mae yn llawenydd genym fod ein Llywydd hynaws o'r un feddwl â ni yn mhob peth, ac yn gallu cyd-lawenhau yn llwyddiant achos Duw, ac yn ffyddlondeb a diwydrwydd y Saint i rybuddio y byd, i ymryddhau o bob dyledion, ac i wneuthur pob darpariadau ereill a allant erbyn amser yr ymfudiad. Yn y Dref hon y Sul hefyd, ymgrynhodd y cangenau cylchynol, ac fel calon un gwr gellid credu eu bod yn gwledda ar bob dysgeidiaeth a gawsant, ac mewn cariad, cyd-ymgymunodd cannoedd; ac ymgrynhodd braidd loned y Neuadd yn yr hwyr, i gael clywed, Pwy, a pha fath un yw Anghrist! ac hefyd i glywed darlith ddyddorol y Llywydd Spencer yn Saesnig yn olaf, ac hyderir y bydd ei addysgiadau gwerthfawr, yn enwedig yn erbyn athrodi ac ysbryd cyhuddiadol, yn cael eu priodol effaith, sef i alltudio y fath anghristiaeth allan o Eglwys Crist ar frys.

*Sir Fynwy.*—Cêr newyddion cysurol am lwyddiant yr efengyl gan y Llywydd Giles ac ereill, a chryn ymdrech i ddosparthu traethodau.

*Sir Gaerfyrddin.*—Gwneir ymdrech adnewyddol gan y brodyr ynghyd a'r gwirfoddiaid a acthant i'r Gynnadledd hon yn ddiweddar, a dysgwylir cynheuaf helaeth oddiwrth eu llafur, sef llu o eneidiau i addoli Duw, a chynnifer o berlau yn nghoron yr Iesu yn ychwanegol. Ffyddlondeb! wrol filwyr yn myddin yr Eneiniog, a grymusach weithredoedd gwir ffydd a faluria gestyll y bradwr, ac a ddiorsedda yr arch elyn cyn hir. Diwydrwydd! a fyddo yn brif nodwedd ein cymmeriad—yn ffaith i brofi nad oes ond byr amser i rybuddio, ac y fod dydd y dïal

wrth y drws. Uchel floeddier, ynte, gadfridogion byddin Iesu —yn onest rhybuddier ddeillion pob bro gan weledyddion y dydd, fel eu hachubwr.

*Meirionydd.*—Cynsurir ni trwy lythyrau y Llywydd J. Davies o'r Gynnadledd hon yn ddiweddar, yn hysbysu diwydrwydd y swyddogion a'r gobeithion a fedd am lwyddiant. Y mae yno amryw wirfoddoliaid ffyddlon yn ei gynnorthwyo, a mawr anghen am ychwaneg. Bu yr Henuriad Isaac Rees yn ddiwyd iawn yn Llanidloes, a phleser yw clywed ei fod wedi dechreu bedyddio yno, a chanddo addewidion am ychwaneg yn fuan. Mae y brodyr H. Parry, Ajax, a Lewis hefyd yn brysur yn hau yr hâd da yn y dolydd breision hyny, a gweddiwn ar i wlith y nef ei wlychu, fel yr egino yn fuan, ac y caffo y brodyr hynaws ag ydynt yn hau mewn dagrau yn awr, yn fuan ddyfod mewn gorfoledd gan gludo eu hysgubau i'r ysgubor, dan ganu caniadau Seion hoff. Dysgwyliwn glywed ychwaneg o newyddion da oddiyno cyn hir.

*Gogledd.*—Drwy lythyrau diweddar oddiwrth ein hanwyl Gynghorydd Daniels, y Bugail Parry, R. Roberts, &c., ceir tystiolaethau cyd gordiol am lwyddiant gwaith Duw yno, er gwaethaf pob gwrthwynebydd; ac megys yr ymgrafanga gwraidd y dderwen ddyfnach daear po ffyrnicaf yr ysgydwa y corwynt ei frig, felly y Saint a ymglymant yn dynach am eu crefydd a'u Duw po erchylla yr ymgeisia pob uffernol chwâ eu chwythu ymaith—gwyddant mai yn yr undeb y mae eu hywyd. Bedyddir yma a thraw, meddir, a gwellhâ yr argoelion, mwynha y Saint ddoniau yr efengyl yn nerthol mewn manau, ac y mae galwadau taer am gynnorthwy i bregethu mewn amryw fanau nad oes neb i'w hanfon yno. Mae galwad daer am Lywyddion mewn manau! Frodyr y deau yma, pwy a aiff etto i'r maes tua Siroedd Môn ac Arfon? A oes rhywun yn ammheu mai dyna y ffordd nesaf i Seion? Yna eled yno i dreio, a thorred y ddadl ei hunan!

*Newyddion o Siam.*—Ni a roddwn yn ein rhifyn nesaf lythyr ein hanwyl Frawd Ludington, yr hwn a grea gydymdeimlad yn mhob calon onest a dynol a'i darllena, a sugna ei gyflwr a'i sefyllfa unigol, amddifad a phellenig, ochenaid i'r nef ar ei rau, ar i'r Duw a'i danfonodd yno ei amddiffyn rhag pob peryglon, a'i nerthu ef i gyflawni ei waith. Y mae

ganddo un cysur yno ag sydd yn peri yr anghysur gwaethaf i ni braidd yn y wlad 'Gristionogol' hon, sef na fydd y Breninoedd a feddant gynnifer cannoedd o wragedd eu hunain, fel Dafydd, Solomon, ac ereill gynt, mor elyniaethus â cheisio ei ladd am bregethu athrawiaeth Abraham, megys y teimla y Zealots yma a honant fod yn blant i Abraham i wneuthur â ni. Esgyned gweddiau y Saint i'r nef at eu Tad bennydd ar ran ei weision a gymmerant, fel hwn, eu heinioes yn eu llaw, ac a droediant gonglau pella y byd i draddodi eu cenadwri. Duw y Ner o'u plaid a fo, ac a ad-dalo i'w cynnorthwywyr ar eu canfed.

*Yr 'Udgorn.*'—Diolchwn i'r brodyr sydd yn cynnyddu rhif eu HUDGORN, gwaith canmoladwy yw; eithr nyni a gawsom beth siom, o herwydd nad oes neb, hyd yn hyn, wedi dwblu eu rhif i'w gymmeryd *yn ddwy*-wythnosol! Hawdd y gellid gwneyd hyn am yr un arian ag a dalent am un pan yn wythnosol; lledaenu ei gylchrediad yw un o ddybenion y cyfnewidiad, ac hyderir yr ymegnia pawb i hyny. Esgusoda rhai eu hunain am eu bod yn awr yn ymdrechu talu yr hen ddyled, ac yna y cynnyddant eu rhifedi, da yw hyn, a gwell hwyr na hwyrach, etto na esgeuluser un cyfleusdra i'w ddosparthu.

Crefwn sylw llywyddion i weled na fyddont yn rhe leg i ddyled, eithr ar fod yr arian yn treigio i'w swyddfa berthynol yn fuan.

---

## ANNERCHIAD Y LLYWYDD SPENCER AT Y SAINT YN NGHYMRU.

A gyfieithiwyd gan Wm. Lewis

ANWYL FRODYR,—Wedi cyrhaedd i'ch plith, yn unol a dymuniad John Jones ac ereill, trwy y Llywydd Richards, i roddi iddynt ail-arholiad o amryw gyhuddiadau a ddygent yn erbyn y Llywydd D. Jones, achubaf y cyfleusdra presennol i gynnyg i chwi ychydig eiriau o'r fath gynghorion a ddadguddia Ysbryd y gwirionedd i mi, y rhai a fydd yn wasanaethyddol i'ch lleshâd a'ch cynnydd yn nheyrnas ein Duw ni. Gan fy mod yn caru eich lles ac yn dymuno eich llwyddiant, caniatewch i mi eich hadgoffa o'ch temtasiwnau a'ch deniadau oddiwrth y llwybrau a arweiniant i fywydau diderfyn,—i gyflawn fwynhad o ba rai y

mae cariad ac undeb yn briodoleddau anhebgorol; heb y cyntaf nis gall yr olaf fodoli, gan mai ei gyfreithlon gydymaith ydyw. Cariad Duw yn nghalonau pobl yw blaenaf, mwyaf, a goreuaf rodd y nef,—blas cyntaf yr hwn a lanwodd ein calonau â mawrygrwydd, ac a hyfryddwch a llesmair llawenydd,—annysgrifedig gorffolaeth o wynfydedigrwydd. A gawn ni y rhai a dderbyniasom flaenffrwyth cariad dwyfol, a'r nef yn ddechreuol eisoes yn ein mynwesau ein hunain, amddifadu ein hunain o'r nefol anedig briodoledd, trwy roddi ffordd i ddylanwad gwrthwynebol gelyn ein heneidiau? a gaiff ein galluoedd ni y rhai a fuom demlau neu breswylfod yr Ysbryd santaidd, eu gwneyd gan bechod a throsedd yn ffau ysbrydion gwrthryfelgar? Frodyr, ni ddylai hyn fod, nid felly y dysgasom ni Grist. Tra ar y naill law y tueddwyd fy nghalon i lawenhau yn fy ymweliadau yn mhlith rhai o honoch, wrth weled naturiol dywalltiadau Ysbryd y nefoedd i glymu eich calonau mewn cariad ac undeb, cefais ar y llaw arall achos i wylo, wrth ganfod hiliogaeth y gelyn, ysbryd gwrthryfel, yn rhy eglur i'w gam-ddeall; oddiwrth ddylanwadau dinystriol yr hwn y dymunwn eich gwaredu, fel oddiwrth hylif llosgfäol mynydd tanllyd. Yr ysbryd a wnai mewn unrhyw achos, o dan unrhyw amgylchiad, eich cynhyrfu i gasáu, ceisio gwallau, a gwrthwynebu unrhyw awdurdod yn nheyrnas Dduw, sydd yn effeithiol wrthryfel yn erbyn *pob* awdurdod, o herwydd anhebgorol unoliaeth yr Offeiriadaeth: ni ddichon y fath ysbryd fod o Dduw, ac ni wna un lleshâd i chwi pe gwrandawech arno holl ddyddiau eich heinioes; eithr i'r gwrthwyneb, ysbryd yr un drwg ydyw, ac arweinia i dywyllwch, ac i ddystryw os dilynir arno; am hyny, annogir chwi gan un a gara eich lleshâd mwyaf, i alltudio o'ch meddyliau, i sathru o dan eich traed, O chwi Saint Duw, bob ysbryd a godo ei ben yn erbyn yr awdurdodau, a wrthryfela yn erbyn yr Offeiriadaeth a osododd Duw i lywyddu arnoch; hunanles, heddwch presennol, a dedwyddwch tragywyddol a'ch cymhello i buro eich calonau oddiwrth bob rhywiogaeth o wrthgiliad, pa un bynag ai mewn enllibo, ceisio gwallau, cyhuddo, neu wrthwynebrwydd cyhoeddus, canys byddwch sier fod ymwneyd â hyny yn chwythu fflam ynoch, yr hon o'r diwedd a lwyr ysa y babell a'i maga.

Mae yn wir na fydd gau gyhuddiadau byth yn brin am ffug-

iadau ac esgusodion, ac ni fydd y rhai hyny yn erbyn yr Offeiriadaeth, meddant, eithr yn erbyn y person a'i medda; ei bleser yw pentyru, dyfeisio, a lledaenu rhyw ddrygau tybiedig yn yr Offeiriadaeth, yr hwn, fel yr ymblesera i dreiglo yn mlaen, fel pelen o eira dreigliedig, a ymgasgla ddigonol allu a sylwedd i lethu ei threiglwyr i farwolaeth. Dewisa y cyfryw ysbrydion un o oreuon eneiniedig yr Arglwydd yn nôd, ac ato ef yr ergydiant eu cyhuddiadau yn genfigenus, nes yn y diwedd y sychedant am waed gwirion, yr hyn a ddiwedda yn bechod yn erbyn yr Ysbryd Glân.

Frodyr, gwyliwch rhag y dylanwadau rhith-dduwiol a choelgrefyddol yna, eu tuedd yw dinystrio pawb a arweinir ganddynt. Dichon yr esgusoda rhai o honoch eich hunain, o herwydd i Pugh neu rywun gam-arfer y gallu uchel a santaidd a roddwyd iddynt. Ystyriwch fod i chwi nid yn unig oddefiad, eithr fod yn ddyledswydd arnoch i fod yn wyliadwrus, rhag y cam-arweinir chwi. Wrth y cyfryw dywedaf, ni osododd yr Arglwydd chwi yn farnwyr ar eich swyddogion Llywyddol. Ymddibyna eich iachawdwriaeth ar eich ymlyniad wrth eu dysgeidiaeth; gofynir eich cyflawn ymddiried ynddynt, a'ch ufydd-dod parotaf iddynt. Y cyfryw a chwilia am ddrwg, a fradycha ei dybiaeth o fodoldeb drwg, a pharotoa ei galon ddrwg i'w ddychymygu lle nad yw, tra y cuddia gwir gariad, sydd yn dylifo oddifry, liaws o bechodau. Cadwch drefn, canys nis gallwch wella trefn y nefoedd, yr hon a roddwyd er perffeithiad y Saint; pe troseddai eich swyddogion, darparodd y drefn hono feddyginiaeth,—brawdle wirioneddol, yr hon a gymhwysa gamweddau y cyfryw. At hono apeliwch, ac nid byth at dafod enllib na chydymdeimlad cyfaill, brawd, na neb arall.

Wrth ddadwreiddio y drwg felly, fe'ch bendithir; wrth waradwyddo neu hau hadau gwrthryfel yn erbyn yr Offeiriadaeth, eich meddyliau a dywyllir, cyfarfyddwch ag anghymmeradwyaeth y nefoedd, ei gŵg a ddua eich awyrgylch, ei tharanau a arteithia eich cydwybod euog, ac ni adnabyddwch heddwch a dedwyddwch

Ni chyfiawnhâ eich cydwybodolrwydd chwi yn hyn, mwy nag y darfu i gydwybodolrwydd Saul santeiddio erlidiad y Saint. Fod ereill yn dweyd y naill beth a'r llall, ni chyfiawnha chwi am ymuno â'r *hue and cry*, fwy nag yr esgusododd poblog-

rwydd y waedd "Ymaith ag Ef, croesholiwch Ef," yr Iuddewon rhag cospedigaeth llofruddiaeth. Gyda llawer o ofid yr wyf wedi gwylio llwyddiant yr anghenfil aml-benog hwn mewn rhai parthau o'ch gwlad chwi; anfoddlona yr Arglwydd wrth y rhai a'i llochesa. Gan hyny, frodyr, yn enw yr Arglwydd, deisyfaf arnoch i osod y drwg hwn ymaith o'ch plith, a'r cyfryw a lefaro yn anghyfraithlon am yr Offeiriadaeth. nid oes ganddo ran na chyfran yn y deyrnas, a dylid ei amddifadu o'i breintiau santaidd os parha felly.

Gan fod dyledswydd yn fy ngalw ymaith oddiwrthych etto, dymunaf adael yr anrheg hon gyda chwi. Ystyriwch hi yn ddwys, a chaffer chwi bob amser yn hoff o lefaru daioni, ac nid drwg, am eich brodyr, yn enwedig am yr Offeiriadaeth, y rhai ydynt yn gweinyddu bywyd ac iachawdwriaeth i chwi, ac yn y gwneuthuriad o hyny yr Arglwydd a'ch bendithia yn oludog.

Mewn perthynas ag ail-wrandawiad achos John Jones, ac ereill, a nodwyd yn flaenorol, dyledus yw i'r Llywydd D. Jones, a phawb o honoch, glywed genyf mai wedi gwrandawiad amyneddgar am lawer o oriau, o'r oll a allasai, neu a wnaeth ei gyhuddwyr, racanu yn ei erbyn, a dangos dymuniad awyddus i'w euogi, da yw genyf allu dweyd iddynt *lwyr* fethu a phrofi unrhyw gyhuddiad, na throsedd ynddo o un gyfraith i Dduw nac i ddyn; eithr drwy yr oll, ymddengys ymddygiad yr Henuriad D. Jones yn foddhaol iawn i mi ac yn ngolwg yr Arglwydd; etto dynion drwg-dybus, wedi eu dallu gan genfigen, a'i cam-gyhuddasant ef! Dywedaf yn mhellach wrth y Saint, pe buasai cymmaint diwydrwydd yn mhawb i ddwyn ei gynghorion i weithrediad, ag a amlygwyd gan rai i'w gwrthwynebu, buasai gwaith Duw yn lawer mwy llwyddiannus yn eich plith. Yr wyf yn hollol gymmeradwyo penderfyniadau y Llywydd Jones; edifeirwch un o'r gwrthwynebwyr a ennillodd iddo ganiatâd i adferyd trwy fedydd. Teimlaf i ddiolch i'r Arglwydd dros y Llywydd D. Jones, er ei fod yn amgylchynedig gan brofedigaethau; Ysbryd da a'i arweiniodd ar hyd ffyrdd gwirioned a chyflawnder, a theilwng yw o ymddiried Saint ei ofal; ymchwydda ei galon drostynt am eu bendithio, a gwneir ef yn fendith mewn cyssylltiad a'i Gynghorwyr teilwng,—gweision anfonedig Duw o Seion, i bawb a'u bendithio, ac a fendithiont eu hunain trwy ufydd-dod iddynt.

Yn mhellach, cyn y gadawaf chwi, caniatewch i mi alw eich sylw at y dyledswyddau pwysig a orphwysant arnoch, fel Saint y Goruchaf, yn yr amseroedd daroganus hyn. Mae y ddedfryd a gyhoeddwyd ar Babilon yn cael ei thywallt allan o phiolau digofaint yr Hollalluog. Seion yw eich unig noddfa, ac y mae y ffordd yn barod i chwi, a'r gair i bawb yw, "i'ch pebyll, O Israel." Am hyny, byddwch chwithau barod. Ymdrechwch dalu pob dyledion i'r Eglwys, am lyfrau, y trysorfeydd, neu y Deml, yn ogystal ag i'r *byd*; ac felly, ynghyd ag wrth rybuddio eich cymmydogion yn ffyddlon, a thrwy bob duwiol ymddygiad, parotowch eich hunain i adael yn fuan, ond yn anrhydeddus, ac yn y fath fodd ag y pregetha eich coffadwriaeth gyfiawnder, pan y byddoch chwi yn mhell, ac fel y gwnelo dylanwad annerchiadol eich esiamplau da chwi orfodi dynion i ddweyd, "Dilynwn hwynt i Seion, lle y preswylia cyfiawnder." Anwyl Saint, cyfodwch, a dygwch i weithrediad y cynghorion a dderbyniwch; cynnaliwch eich cyhoeddiad a'ch traethodau yn haelionus, gan beidio ag anghofio y Drysorfa Ymfudol, nac fod Teml ar waith i *chwi* yn awr yn Seion yn eich haros; cynnorthwywch i'w chwblhau er eich hunan-les. Yn olaf, byddwch ciddo i'r Arglwydd yn gyfan-gwbl, ac ymbleserwch i buro eich hunain fel y mae Efe yn bur, fel y byddom fythol fyw gydag Ef a'r rhai santaidd sydd fry, ein canol-bwynt cartrefol o gariad, o wirionedd, o santeiddrwydd, felly y byddo. Amen.

DANIEL SPENCER.

---

DERBYNIADAU AM LYFRAU O AWST 10 HYD 23.—Mynwy, £2 10s; Llanelli, £2 14s 6½c; Aberteifi, £1 15s; Penfro Ogleddol, £1 2s.—*Cang. Dwyr. Morganwg*—Pontfaen, 8c; Dinas, 9s 4½c; Llanfabon, 4s; Pontypridd, 11s 6c; Aberdâr, 7s 6c; Georgetown, 4s 3c; Troedyrhiw, 10s; Trefforest, 6c; Cwmbach, 9s 5½c.

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Ysbryd Anghrist | 469 |
| Newyddion diweddar o Wersyll y Saint | 476 |
| Golygyddiaeth—Ymweliad y Llywydd Spencer â Chymru—Hynt y Cynadleddau—Newyddion o Siam—Yr 'Udgorn' | 477 |
| Annerchiad y Llywydd Spencer at y Saint yn Nghymru | 483 |


---

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, 14, CASTLE STREET.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 31.] MEDI 9, 1854. [CYF. VII.


### CRYNHOAD O ARAETH Y LLYWYDD DAN JONES, AR Y GYMDEITHAS GENADOL, MEWN CARIAD WLEDD,

*Yr hon a gynnaliwyd yn Neuadd y Saint yn Merthyr, ar y 10fed o Orphenaf*, 1854.

DAETHYM yma heno i gymmal Cariad Wledd, neu i wledda ar gariad. Cariad sydd felysach nâ phob danteithion; hebddo nid oes melysder, a lle y byddo, gwna y chwerwder yn felysder, a sugna allan bob chwerwder ag sydd yn mhob peth ag yr ymgymmysga. Y cariad hwn sydd yn ymddangos yn eich gwynebau heno, cyn yr edrychech mor llawen, o herwydd lle y mae llawenydd, y mae yno gariad yn ei achosi. O'r ochr arall, lle y gwelir gwyneb trist, arwydda ofid, ofn, a braw yn y cyfryw galon; ond yn nedwydd breswylfa cariad, y gwelir gwyneb dysclaer, llygaid clir, a golwg llon.

*Rhaid* i gariad gael gwrthddrych, a'r gwrthddrych teilwng sydd ganddo heno yw y Gymdeithas Genadol, a'n hymgasgliad ynghyd a arddengys ein cariad atti, sef i gynnorthwyo ei chenadon, o wir gariad at y genadwri a draethant,—y genadwri ddwyfol ddanfonedig oddiwrth Dduw o'r nef at ddynion, a gefnogwn, ac hyderwn fod pawb a brynasant drwyddedi yn ystyried hyny, ac yn gwir ddymuno ei llwyddiant; ni ddymunant dros ddim sydd yn well.

Llawer o genadon a gynnelir, ac a ddanfonir allan gan ein

gwladwriaeth; gwarir amryw filoedd o bunnau tuag at eu cynnal ar faes y frwydr, i drochi eu cleddyfau yn ngwaed eu cyd-ddynion,—i roddi eu bywydau yn ebyrth i greulonder gelynion, er boddio chwantau, a chynnal balchder mawrion ein byd, ymgais pa rai yw sathru y gwan dan draed er eu codi eu hunain yn uchel! Ai dyna y fath genadwri yw hon? Diolchwn nade, ond un sydd yn hytrach na dwyn einioes, yn rhoddi bywyd tragywyddol i bawb a'i derbynia,—mabwysiada y sawl a'i derbynia yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd iachawdwriaeth; dyga i ddyn holl gysuron y bywyd presennol, a mwyniant diderfyn yn y byd a ddaw,—diwalla ef â holl anghenrheidiau tymhorol ac ysbrydol. Cynnwysa fywydau diderfyn a thragywyddol, a choronau anniflanedig yn nheyrnas Dduw mewn gogoniant; pa werth a ellir osod arni?

Y byd crefyddol, neu enwadau ein hoes, ydynt yn casglu cannoedd a miloedd o bunnau yn eu hamrywiol gymdeithasau hwy, i gynnal cenadon a ânt allan i bregethu cenadwri nawyddant a yw hi o Dduw ai peidio,—gobeithiant ei bod, ond ofnant nad yw, a chymmerant yr awdurdod i'w phregethu allan o'r llyfr hwn (y Beibl), heb ei derbyn gan Dduw, a phrofant eu sêl drosti drwy eu diwydrwydd i'w lledaenu ar led.

Nid yw y Saint yn cynnorthwyo cenadwri a gynlluniodd dyn, nac a ddyfeisiodd doethineb ddynol; nid un a ofnant ei bod yn gau, nac a obeithiant yn unig, ond un ag y *gwyddant* ddarfod i Dduw ei danfon gyda'i angel santaidd, i'w phregethu i bob llwyth, iaith, pobl, a chenedl, a gwyddant mai cenadon Duw sydd yn ei phregethu, ac mai y rhai hyny a gynnorthwyant ag elw eu Cariad Wledd heno. Mwyaf i gyd, ynte, fyddo ein sêl dros, ein gorfoledd yn, a'n cariad at y genadwri wirioneddol hon, gan y gwyddom yr effeithir bywyd tragywyddol dynion drwyddi, ac o herwydd nad oes arnom ofn y siomîr y neb a'i credo; gan y mentrwn hi yn hunan-brofiedydd i bawb.

Pe ystyriem bwysigrwydd ein cenadwri, gwelem yr anghenrheidrwydd anhebgorol ac hanfodol, y ddyledswydd a'r rhwymau ag sydd arnom i wneyd hyn heno, cyn y teilyngom yr un o'i bendithion rhagorol. Danfona ddynion allan, nid yn unig er i'w chredinwyr afaelyd yn yr anchwiliadwy olud sydd ynddi, ond hefyd er rhybuddio y byd am yr ysgubell ofnadwy a ysguba ei holl anghredinwyr, ac am y plaau ofnadwy a ddeu-

ant fel ffrewyll yn llaw Duw, i ffrewyllu ei holl elynion, y rhai a wrthodasant ei ddwyfol genadwri, – yr ammodau o heddwch a gynnygiwyd iddynt gan ei weision anfonedig,—i gyfeirio y rhai a'i derbynia i'r unig le o ddiogelwch, rhag y rhyfeloedd a'r dinystriadau a ddanfona i wneyd lle i'w Fab Iesu i ddyfod mewn gogoniant, a'i Saint addfwyn gydag Ef, i etifeddu y ddaear. Pwy gan hyny na wel yr anghenrheidrwydd o ddanfon cenadon? Heb genadon ni chyhoeddir y genadwri, ac heb genadwri ni achubir neb.

Os oes llawenydd yn y nef am un pechadur a dröa o gyfeiliorni ei ffordd, pa faint mwy yn mynwesau y Saint a bleidiant, a gefnogant, ac a gynnorthwyant genadon cymdeithas mor arderchog ag a achuba ei channoedd a'i miloedd? Pan ddanfona Duw bregethwyr allan, nid ei angylion santaidd a ddanfona at ddynion llygredig, ond ei weision dynol. Danfonodd ei anwylaf Fab i wisgo cnawd cyn iddo ddechreu traethu ei genadwri bwysig. Gan fod y genadwri bwysig hon mewn llestri pridd, parchwn, cynnaliwn, a gwerthfawrogwn y llestri. o herwydd y trysor gwerthfawr a gynnwysant. Gan nad yw Duw yn danfon ei angylion o'r nef i'w thraethu, ond yn unig at un neu ddau i ddechreu, a'u hawdurdodi a'u danfon hwy at ereill, gwelwn ein bod ni yn mhlith y cyfryw, ac mai cenadon yw pob un o honom ag sydd a'r trysor hwn yn ein llestri, a bod dysgwyliad i ni fyned allan ac arllwys o hono i bawb a'i derbynia. Heb i ni wneyd hyn, aiff y byd i ddinystr, a gofynir eu gwaed ar ein penau; o ganlyniad, ein dyledswydd yw gwneyd fel hyn heno, nid rhag ofn y canlyniad o beidio, ond o herwydd teilyngdod y genadwri, ac er mwyn ei theilwng Awdwr hefyd.

Gan mai dwyfol yw y genadwri, dwyfol yw y cenadon hefyd. Mae yn ofynol fod pob un o'r cenadon hyn wedi eu danfon gan Dduw megys Aaron; nid pawb sydd i fyned allan i bregethu. Pan elo cenadydd Duw allan, dylai brofi drwy ei weithredoedd da, a'i dduwiol ymddygiad, yn ogystal a thraethu ei genadwri, a'i hargraffu ar feddyliau ei wrandawyr, mai cenadydd dros Dduw ydyw.

Wedi gweled yr anghenrheidrwydd o genadon, gofyna rhai ar bwy y mae pwys y gwaith, a pha fodd y dylem weithio? pe gallwn i fyned allan i bregethu, mi a awn yn union, &c. Cenadon yw y Saint i fod, lle bynag y byddont, a hyny trwy

wneyd eu goreu yn mhob amgylchiad, ac yngwyneb pob rhwystr i ledaenu y genadwri. "Pa fodd y gallir gwneyd hyny?" meddwch. Os nad allwch fyned allan eich hun, gan wybod beth sydd eisieu i fyned, cynnorthwywch ereill ag sydd wedi myned, trwy roddi o'ch harian i'w cynnal, o herwydd nas gallant wneyd hebddynt. Gwn yn rhy dda fel y mae ar ein brodyr i fyw ar garedigrwydd y wlad, i fyned heb fwyd am ddiwrnodau, na gwelyau i gysgu am nosweithiau, a'u gwaed yn eu hesgidiau wrth drafaela, a dilyn ol traed pregethwyr hunan ddoethion, ac offeiriadon o'r colegau, ag ydynt wedi hudo y bobl â'u gwaeddiadau, a'u bygythion o anatheman ar y neb a dderbynio Sant i'w dŷ, gan daenu ar led bob ystoriau atgas a chelwyddog, pa rai a lyncwyd yn felys gan eu hudolion gwancus am danynt. Mae yr holl rai hyn ganddynt i'w gwrthbrofi yn ngwyneb gŵg a gwawd y byd, ac o waethaf doethineb ddynol, a'u rhag-rybuddio, a chael rhincian dannedd arnynt, a gwaeddi ar eu hol, eu herlid, a'u taflu allan yn y diwedd, fel y cafodd pob gwir genadydd i Dduw yn mhob oes o'r byd. Coeliwch fi nad gwirionedd yn eich meddiant yw y goreu er cael lle cysurus gan y byd. Aed dyn allan i ganu baledi, neu areithio yn erbyn y genadwri hon, gwir neu gelwydd, caiff dderbyniad da, chroesaw mawr, a digon o fwyd yn ei fol. Dywedai Iesu Grist, "Yr hwn sydd yn dyfod yn enw ei hun, hwnw a dderbyniwch, ond gan i'm Tad fy anfon i, ni'm derbyniwch." Pe buasai y Revrendiaid wedi rhoddi eu henwau wrth waelod dangosiadau ein brodyr, y cenadon, cawsent dderbyniad gwell; ond am y dywedant mai Duw a'u danfonodd, sathrant eu cenadwri bwysig dan draed, mor anystyriol â moch yn sathru perlau anmhrisiadwy, a dewisant yn hytrach fyw ar olchion drewllyd coegdyb. Fel yna, a gwaeth nag y desgrifiwyd, y mae ein brodyr anwyl yn cael dyoddef, wrth droi dynion o gyfeiliorni eu ffyrdd at Dduw.

Os oes teulnoedd mawr, neu ryw rwystrau annorchfygol yn ein hattal i fyned allan ein hunain, gallwn gymmeryd rhan o'r baich arnom drwy roddi arian i'r rhai sydd allan, i gael ymborth a dillad, at yr hyn y mae ein Cariad Wledd heno. Os na fyddwn yn gyd-gyfranogion â hwy, ni ddysclaeriwn fel sêr y nefoedd byth mewn gogoniant; ac os na chyd-ddyoddefwn, ni chawn ein cyd-ogoneddu chwaith. Pwy sydd dros ledaenu y genad-

wri? Pwy bynag ydynt, cymmerant ran o'r baich, trwy gyfranu o'u heiddo tuag atto. Felly gall y dosparth yna wneyd.

Wrth y rhai a allant fyned, dywedaf, dylai y ffaith o fod Duw wedi agor calonau i ddiwallu y rhai a aethant, fel na ddiffygient, eu cymhell hwythau i fyned hefyd, a phrofi Duw, a chânt weled mai fyddion a fydd Efe iddynt; er y dichon eu profi, ac y cânt aberthu, ond ar ol y treial mae y fendith yn dyfod; aberth a ddwg allan fendithion y nefoedd. Profiad sydd genyf fi am brodyr, mai yn gymmaint ag yr eweh allan mewn ffydd am gynnaliaeth, gan yr hwn sydd a chalonau pawb yn ei law, y eeweh eich diwallu.

Y mae clw ein Cariad Wledd, fel y dywedais, at gynnorthwyo y rhai a aethant allan, ac i lesoli y rhai a fyddant yn wirfoddoliaid i fyned allan ar eu hol Gwell fydd genym etto ein bod wedi myned ar gais Duw, na phe dringasem orseddau breninoedd daearol, a meddu holl drysorau ymerhawdwyr y byd, a bwyta ein digonedd o frasder y ddaear, trwy wneyd cais brenin neu frenines ddaearol. *Yn awr* y mae Duw yn galw am filwyr i fyned allan drosto, ac addawa i'r rhai a frwydrant yn ddewr, ac a lafuriant yn ddiflino, ddyrchafiad i fod yn Freninoedd ac yn Offeiriaid yn ei deyrnas. Beth pe gofynai Victoria i rai o honom ni fyned yn swyddogion uchel, i gael tâl mawr yn ei theyrnas, pwy a wrthodai fyned? Oni ystyriem hyny yn anrhydedd mawr? Ond y mae galwad Brenin y breninoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi yn fwy o anrhydedd nag y gall holl ymerhawdwyr a breninoedd y byd ei roddi. Y mae holl deyrnasoedd y byd i fyned yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist Ef, a'r freiniaeth, a *mawredd* y freiniaeth dan yr *holl nefoedd*, i'w rhoddi i bobl Saint y Goruchaf—i'r gwirfoddoliaid ffyddlonaf.

Frodyr, ag sydd heb denlnoedd trwm, a eweh clwi allan lle y mae dynion mewn siroedd yn newynu o eisieu yr ymborth ag sydd genych chwi i'w roddi iddynt? Pwy a aiff? Y mae Duw yn galw! Clwi chwiorydd, gwyliwch na rwystro teganau darfodedig bydol, a phleserau, chwi rhag gadael eich gwyr i fyned allan i gyflawni ewyllys Duw! Frodyr, ni chyrhaedda dyn a lywodraethir gan y wraig fywyd tragwyddol, heb i chwyldröad hollol o ddeddfau anian, a bwriadau anffaeledig, a rhag arfaeth y Duw anghyfnewidiol eyn bod y byd, gymmeryd lle. Gobeithiaf na chaiff unrhyw wagedd rwystro ieuenctyd Mer-

thyr i fyned allan dros eu Tad, ond y tyfant i fyny yn nheyrnas Dduw, wedi cynnyddu mewn doethineb a ffafr Duw a dynion, ac y cyfodant fel cewri i gwbllhau y gwaith a sylfaenodd eu tadau, tra yr â y cyfryw a'u penau llwydion i lawr i'r bedd mewn llawenydd o'u herwydd. Llawenhais, perswadiais a chysurais fy hun â'r meddwl hyn am lawer un, ond y peth nesaf a glywwn am danynt oedd eu bod wedi priodi a rhwymo eu hunain wrth wrthrych gwael ac annheilwng o'u sylw, ac yna, ffarwel i'r Arglwydd gael un defnydd o honynt! Nid wyf am ddweyd yn erbyn priodi yn ei amser, ond ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw, a phriodwch wed'yn pan y cewch amser a gorphwysfa i hyny. Hoffaf i glywed eich llais etto, o'ch maesydd llafur, yn sôn am y llwyddiant a gewch, ac ni fydd dim melysach i'm clustiau nâ chlywed fod sain yr efengyl yn treiddio trwy Gymru, a dynion wrth y miloedd yn ufyddhau, ac yn dwyn ffrwyth i fywyd tragywyddol, oddiar gynnyrch ein cariad ni at Dduw a'i deyrnas, am iddo Ef yn gyntaf ein caru ni.

Yna galwodd am enwau y gwirfoddoliaid.

WILLIAM LEWIS, *Ysgrifenydd.*

---

## LLYTHYR O DDINAS CEDRWYDD.

*Dinas Cedrwydd, Mai* 20, 1854.

ANWYL DAD A MAM,—Gyda'r cyfleusdra presennol cymmeraf yr adeg hon o ysgrifenu atoch, gan obeithio eich bod yn iach fel ag yr ydym ni yn bresennol,—diolch i Dduw.

Nis gwn pa beth i ysgrifenu, o herwydd fy mod wedi anfon cynnifer o lythyron atoch, ac heb gael yr un ateb iddynt hyd yn hyn. Nid wyf wedi clywed yr un gair oddiwrthych er y fl. 1851, a hyny yn St. Louis, cyn i mi gychwyn oddiyno; nis gwn beth yw y mater, yr oeddwn yn dysgwyl cael llythyr oddiwrthych gan John Roach neu Thomas Thomas, ond ni chefais glywed dim Os ydych yn meddwl fy mod islaw eich sylw i anfon ateb, gallaf oddiwrth hyny.

Yr ydych chwi fy nhad wedi gweithio yn galed holl ddyddiau eich bywyd, i gadw ereill yn gyfoethogion ac yn foethus, ac er eich holl ymdrech yr ydych yn y diwedd yn dlawd eich hunan, heb fod yn feddiannol ar droedfedd o dir yn eich bywyd, heb dalu

rhent fawr am dano, nac un creadur chwaith, oddieithr ambell i fochyn. Ar yr un pryd yr ydych yn credu fod eich sefyllfa yn well nâ'm heiddo i, a hyny yn tarddu oddiar y grefydd sydd genyf, a minnau, fel Abraham gynt, wedi gadael tŷ fy nhad a'm holl berthynasau a'm cyfeillion, i edrych am wlad well,—a dinas, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw. Yr ydych yn credu fy mod yn ffol am adael y fath le ag sydd yna gyda chwi yn Felin Foel, lle na feddwn yr un anifel, a dyfod i'r wlad hon lle mae pob llawnder i gael. Y mae genyf anifeiliaid o bob math, yn wartheg, ychain, moch, a gwyddau; hefyd y mae genyf dai a thiroedd &c., ac nid oes arnaf ddimau o rent i neb, a gallaf gael a fynwyf o dir yn rhad; felly gwelwch gymmaint gwell gwlad yw hon nâ'r hen wlad.

Nis gallaf ddesgrifio y llawenydd a fyddai genyf pe buasech yn ymuno â'r Saint, ac yn ymfudo i'r wlad hon. O! y fath lawenydd fuasai genyf pe byddai fy nhad a mam yn Saint. Mi a glywais fod John fy mrawd ar y ffordd yn dyfod tuag yma ond nis gwn pa un a yw yn dyfod ai peidio.

Y mae Phebe fy ngwraig, a Morgan bach fy mab yn cofio atoch yn fawr. Gall Morgan siarad tair iaith, sef y Gymraeg, y Saesneg, a iaith yr Indiaid, er nad yw ond saith mlwydd a chwe mis oed.

Hyn yn fyr oddiwrth eich mab,

DAVID D. BOWEN.

---

## DAMMEG Y MISOEDD.

AR ryw foreu dydd gwyl nodedig, pan yr oedd yr haul a'i oleuni tanbeidiol yn ymledaenu ei belydrau gwresog dros y maesydd, y gweir-gloddiau, a'r gerddi ffrwythlon, a minnau yn myfyrio ar yr amseroedd a'r tymhorau, ac ar hyny mi a glywais ymddyddan rhwng y misoedd Mai, Mehefin, Gorphenaf, ac Awst, pa rai oedd yn ymffrostio yn eu gwisgoedd tlws-wych,—"Edrychwch," meddai y naill wrth y llall, "ar y ffrwythydd pêr, y cnydiau toreithiog, ynghyd a'r danteithion dymunol o bob math ag yr ydym ni yn eu cario ar ein cefnau, nes y mae y boneddigion a boneddigesau yn ymhyfrydu yn yr olygfa wych sydd arnom. Ha, ha, pwy sydd fel nyni? Ni fyddai y

flwyddyn werth ond ychydig oni bai ni! Ond am Ionawr, Chwefror, Mawrth, a Rhagfyr, dyna rai diog! ni welir dim ffrwythydd ar y coed na'r maesydd o'u heiddo hwy, ond ein hôl ni wedi bod yn llafurio yn galed i ymbleseru trigolion y byd. Nid yw yn werth gan neb i fyned allan o'i dŷ i edrych arnynt, ac nid yw y lleill fawr gwell na hwythau, ond fe geir ambell i flodeuyn, etto nid ydynt yn haeddu i'w cyffelybu i ni."

Ond rhyw fodd neu gilydd cafodd Mawrth a'i frodyr amseroedd glywed am ymffrost mawr y brodyr ereill, ynghyd a'r diystyrwch mawr a daflent arnynt hwythau, tra yr oeddynt ar y pryd yn gweithio eu gorcu yn y *seler*. Yna ymgynghorodd Mawrth â'i frodyr, a phenderfynasant beidio gweithio y gauaf dyfodol, on'd i bawb gymmeryd *holyday*; a'r gauaf a aeth heibio yn gyffelyb i'r haf. Ni fu dim eira, rhew, nac oerfel, a'r coedydd yn deilio cyn yr amser arferol, &c. A phan ddaeth yr haf, yr oedd heintiau yn y wlad, y blodau a'r ffrwythau yn cael eu bwyta gan bryfed. Dim ond sŵn gofid a galar a glywid yma a thraw, a neb yn dyfod allan i weled y Meistri Mai, Mehefin, Gorphenaf, ac Awst. Yna y deallasant, ac a ddywedasant y naill wrth y llall yn brudd a thorcalonus, "Diau ddarfod i ni lefaru yn galed ac yn gableddus am y boneddigion Ionawr, Chwefror, Mawrth, Rhagfyr, a'u cyfeillion; oblegid erbyn i ni weled ac iawn ddeall, nid oeddem ni ond taflu yr hyn ag oeddent hwy wedi ei godi o'r seler, a'i roddi yn ein breichiau."

Yna canfyddasant fod y naill fis mor ymdrechgar a'r llall, ond fod gwaith y naill yn fwy amlwg na'r llall, ac ei fod yn anmhosibl i un weithio yn annibynol ar y llall. Am hyny fe anfonodd y pedwar eu teimladau o edifeirwch mewn gostyngeiddrwydd at y lleill, gan ofyn eu maddeuant.

O hyny allan, mae y deuddeg mis mewn undeb â'u gilydd, ac yn foddlon i gael eu galw i gyd yn flwyddyn.

Wele ddammeg, pa beth a ddysgwn oddiwrthi?

*Dyffryn Conwy.* RICHARD ROBERTS.

---

## IACHAD TRWY ALLU DUW.

*Cwm Ynys y Fuwch, Awst*, 9, 1854.

MR. GOL.,—Llawenydd yw genyf eich hysbysu fel yr amlygwyd gallu Duw yn ein plith.

Yr oedd yma wraig i frawd oedd newydd ei fedyddio, o'r enw William Richards. Methodd hi a chael iechyd gan y meddygon. Aethym i'w thŷ, a phregethais efengyl Iesu Grist iddi, hyd nes ei hargyhoeddi o fodoldeb y bendithion, a bod yr arwyddion yn canlyn yn awr fel gynt. Ar y 17eg o Orphenaf, gweinyddais i a'r Henuriad Richard Price yr ordinhad arni yn ol ei deisyfiad. Er bendith iddi hi, llawenydd i ninnau, a gogoniant i Dduw, derbyniodd y fendith o iachâd trwyadl. Tystiolaetha yn gadarn a diwyd o hyd mai pregethwyr gwirionedd ydyw gweinidogion y Saint, a bod Duw yn cadarnhau eu geiriau trwy arwyddion y rhai sydd yn canlyn.

Bedyddiwyd hi yn gyhoeddus ar y 30ain o Orphenaf. Ni a gawsom wrandawiad astud a lliosog, ac addewidion gan creill y cymmerent eu bedyddio.

Y mae yma alwad mawr am ein llyfrau; ond y mae yr enwadau a'u gweinidogion yn ein herbyn, ac er eu gwaethaf y mae gwaith Duw yn treiglo yn y blaen.

Eich brawd yn y ffydd,

J. D. Roberts.

---

Yr ydym ni, sydd a'n henwau isod, yn dystion o'r pethau uchod.

William R chards.
Gwenllian Richards.

---

# UDGORN SEION,

NEU

# Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, MEDI 9, 1854.

Wedi hir arfaethu, wele ni o'r diwedd yn alluog i ddyddio ein Hudgorn o Abertawy! A udgana yn uwch, neu yn glirach ei lais,—barned clyboedd ei ymarferwyr. O leiaf, hyderwn y bydd cynnefinol awyr glan y môr yn clirio llais ei *Udgarnwr*; a thebyg y cyd-ddymuna ei garedigion ag ef y bydd i gyfranwr

bywydau gyfnerthu ei gyfansoddiad, fel ag i ddeffroi trigolion cysglyd ein gwlad i ffoi rhag y dinystr ymhongianog, i'r ddiogelfan, cyn yr ymarllwysa arnynt. Nid heb deimladau heblaw a ddesgrifiwn—nid heb gofiant hoff, ac nid heb gnoi ein cil ar y gwleddoedd ymgrefyddol a fwynhasom yn Merthyr a'i chylchoedd y gallwn ymadael, nac ychwaith ni ollyngwn dros gof, ein hanwyl gyd-weithwyr yn ngwinllan ein Hiesu, nid llai ein hawydd fydd am eu lles, na'n *Hudganiad* i'w dyddanu, ac ni fydd yn hir, hyderwn, cyn y cawn y pleser mawr o gydblethu llaw a llais mewn un-côr i ddynodi clodydd ein Duw, nes adleisio o ororau hoff Seion.

Nad i ba le yr awn, credwn na ddichon amser nac amgylchiad, na dim arall wahanu ein serchiadau oddiwrth ein ffyddlon gydweithwyr yn Nheyrnas Dduw; ni fydd ein brwydrau a'n buddugoliaethau ond ail goffa ein dewrder, yr hyn a gynnydda ein cariad cyd-blethiog at Dduw a'i waith, ac yn mhen oesoedd, wedi dringo drwy yr erlidigaeth—cyrhaedd pen y bryniau tragywyddol tu hwnt i eithafion yr anialwch mawr, mor felys fydd edrych yn ol ac adgoffa ein ffyddlondeb i'n gilydd ac i'n Duw; mor hoff fydd swn lleisiau y nefolion yn swnio yn ein clustiau, "Y rhai hyn a ddaethant allan o'r cystudd mawr, ac a olchasant eu gynau yn ngwaed yr Oen!" O! mor dda fydd genym y pryd hyny, ein bod wedi bod o'r un galon â'n gilydd, ac am bob ymdrech a wnaethom! Mor groes i hyn fydd cofiant am y troseddwr,—fydd cofiant y rhai hyny a redasant yn dda am ennyd, ac a droisant eu cefnau yn nydd y frwydr! Etto, beth yw y rhai hyny wrth y bradwr! Tra ein tosturi a gynhyrfir at bob math o droseddwr a gwympodd o tan ei arfau yn ysglyfaeth i fagnelau y gelyn, digasedd calon a arllwysa anathemau ar ben y bradwr o ben y bryniau draw,—cludydd arfau i iselaf was Lusiffer yw—ysgubell pwll ei domen yn frwsh paentio a fedd, a'r goreu o ddynion o'i gylch a ddwbia â'i faw ei hun. O bob ffrewyll lem, a cherydd tost, barn a chosp a ollyngwyd o wlad anwn, ac o bob bytheuad a ollyngodd Belial yn rhydd o'i gadwyn, nid atgasach na ffieiddiach yr oll, nac un o gorgwn y fall, nag yw cyfarthiad y bradwr wrth sodlau gweision Duw. O Cain hyd Judas nid ymgnawdolodd neb tebycach i Lusiffer, ac oddiyno hyd hanes holl gau frodyr Iesu a Phaul, gwrthgilwyr yr eglwys gyntefig, a bradychwyr holl blant Duw,

ni bu gwaeth wed'yn yn mhlith holl greuloniaid daear, heb eithrio Nero, Maximus, Mari waedlyd, a phabau Rufain, na bradychwyr ein diweddar Brophwyd Joseph, o herwydd, yn gymmaint a bod gwaed ei eneiniog yn werthfawrocach yn ngolwg Duw na gwaed ereill, erchyllaf cosp yr hwn a'i tywallto. O bob gofid a gafodd Joseph, y Deuddeg, a gaiff Brigham ar eu hol, ac a gaiff pob dyn da yn yr Eglwys hon, ni chwynant yn dostach yn erbyn dim nag yn erbyn gwenwyn enllibaidd ac atgasrwydd bradwrus eu bradwyr. Ac o'u holl gasineb nid oes diflasach na'u mawr gwyn yn erbyn anghyfiawnder! Saint, ymwaredwch rhag y diafoliaid rhy grefyddol yma, a pheidiwch a rhyfygu benthyca eich clustiau i wrandaw cam-gyhuddiadau gan ddiafol rhith-dduwiol yn erbyn yr Offeiriadaeth, onite llyncir chwi ganddynt. Os unwaith y cyd-ymdeimlir â hwynt, ystyrir hwnw braidd yn anfeddyginiaethol, ac ymaith ag ef oni edifarha ar frys.

---

## LLYTHYR Y LLYWYDD DANIELS.

*St. Sior, Awst* 21, 1854.

Anwyl Lywydd Jones,—Y llythyr diweddaf a dderbyniais oddiwrthych oedd yr hwn a ysgrifenasoch ar y 5med o Awst, a daeth hwnw i'm llaw yn y Wyddgrug, trwy law y brawd Parry, a drwg iawn oedd genyf i weled ynddo fod eich iechyd yn pallu; ond hyderaf y caf glywed yn fuan fel arall, sef eich bod yn iach a chysurus,—dyna yw fy ngweddi barhaus i, a'r holl swyddogion a'r Saint trwy y Gogledd, bawb o honynt.

Cawsom Gymmanfa dda iawn yn y Wyddgrug, a lle cyfleus i'w chynnal, sef yn y Neuadd helaethaf yn y dref hon, ond ni ddaeth yno gymmaint o'n cyfeillion ag oeddem yn ddysgwyl, eithr ni a gawsom wrandawiad sobr gan gynnifer ag a ddaeth. O herwydd un amgylchiad penderfynasom newid y llywyddiaeth, a llawenydd oedd genym ddeall fod yr Ysbryd wedi dadguddio i chwi yr un peth. Cawsom ddigon o ddoethineb i egluro yr anghenrheidrwydd o'i wneyd i foddlonrwydd pawb o'r bron. Ni a osodasom John Jones yn Gynghorydd blaenaf, a Hughes Llangollen yn ail. Yr ydym yn credu yr ânt rhagddynt yn bresennol, ac y deuant yn rhydd o'r ddyled sydd arnynt yn mhen chwe' mis;

ac y maent yn addaw gwneyd yr iawn ddefnydd o'u hamser i bregethu a rhanu traethodau, gan gyfaddef wrth y brawd Parry a minnau, eu bod yn teimlo yn euog am iddynt fod mor ddiog yn yr amser a aeth heibio. Bum trwy y Gymmadledd, ac y mae gwrandawiad da yn mhob man, ac argoelion yn bresennol fod y Gogledd yn addfedu i dderbyn yr Efengyl.

Mae y brawd Richard Jones yn dymuno arnoch os gellwch, i anfon dyn da i'r Cefn, glowr neu weithiwr tân, ac y caiff gyflog da. Yr oedd yn ddrwg genyf glywed nas gallwch gael, yn mhlith holl frodyr y deau yna, ddyn da i ddyfod i Gaernarfon i lywyddu, oblegid y mae yno fawr anghen am dano. Y mae yma le i laweroedd pe byddai yn bosibl i chwi gael ganddynt ddyfod; mae y trefydd ag oeddent y llynedd yn erlidgar, yn gwrandaw yn astud eleni, sef Ffint, Bagillt, Maesglas, Tanlan, &c. Cawsom ein rhwysmo gan y gwlaw i bregethu yn Treffynon.

Cawsom Gymmanfa gysurus ddoe yn Abergele, lle yr oedd Ysbryd Duw yn helaeth o'r dechreu i'r diwedd, ac undeb a chydweithrediad ar bob peth Am 5 o'r gloch prydnawn, pregethodd y brodyr Richard Roberts, Richard Griffiths a minnau, allan ar yr heol i dyrfa liosog; yr oedd yma iawer o ddieithriaid wedi dyfod erbyn y ffair yr hon oedd drannoeth, a chawsom Ysbryd Duw yn helaeth yno.

Yr wyf fi a'r brawd Parry yn bwriadu mynod i Ruddlan nos y fory; mae y brodyr wedi cael eu baeddu gan y gelynion yno nos Fawrth diweddaf, trwy fod un o'r gwaethaf o dref Llanelwy wedi dyfod yn gymmorthwy iddynt. Yr ydym yn mynod i Lanelwy, Dinbych, ac i Ruthyn yr wythnos hon hefyd, ac i Gymmanfa Eglwys Fach dydd Sul.

Yr ydym yn cwbl gredu y bedyddir llawer yn y tri mis nesaf. Bu y brodyr G. Roberts a Williams yn pregethu am wythnosau tua'r Bala a'r cylchoedd a chael gwrandawiad da, a llawer yn credu. Mae y Llywydd Parry wedi cael ar ei feddwl anfon Hugh Evans o Lanfair gyda un o honynt, yr hwn sydd yn ddyn mewn oed ac yn bregethwr da i'wn, ac hyderwn y gwna y cynllyn atch y dyben er cael y rhai sydd yn credu i'r dwfr hellach.

Yr wyf fi, a Parry a'i wraig, a'r holl swyddogion a'r Saint yn mhob man lle yr wyf wedi bod, yn cofio atoch yn garedig.

Eich cyd filwr yn myddin Iesu,

D. Daniels.

## CYMMANFA SIR ABERTEIFI.

Cynnaliasom ein cymmanfa ar y 13eg o Awst, mewn Neuadd yn Aberystwyth, a chafwyd cyfarfodydd rhyfeddol o dda trwy y dydd, ac amryw o'r Saint wedi dyfod ynghyd o'r gwahanol Gangenau, a lliaws mawr o wrandawyr. Penderfynasom yn unfrydol i ddal i fyny awdurdodau yr Eglwys.

Am ddau ac am chwech bu amryw yn pregethu yn effeithiol, ac yn eu plith y Llywydd Jeremy, a chafwyd gwrandawiad astud. Yr oedd llawenydd mawr gan y Saint wrth glywed y brodyr yn profi gwahanol bynciau ein hathrawiaeth, ac ymddangosai y gwrandawyr oll yn siriol, fel pe buasent yn awyddus i gael gafael yn y wybodaeth sydd yn meddiant y Saint. Treuliasom y dydd yn gysurus iawn, a chawsom ein bendithio yn helaeth gan ein Tad â dylanwadau yr Ysbryd Glân.

Y cynnrychiolaid sydd fel hyn:—Cangenau 5, Hen. 17, Off. 4, Ath. 3, Dia. 1, Bed. 2, Goll. 3, a'r cyfanswm yn 105.

B. Evans, *Llywydd*,
J. Morgan, *Ysgrifenydd*.

---

## CYMMANFA SIR FFLINT.

Fe gynnaliwyd y Gymmanfa hon yn y *Market Hall*, Wyddgrug, Awst 13, 1854. Dechreuwyd trwy weddi gan y Llywydd J. N. Jones, ac wedi annerchiad byr ond cyfaddas, cynnrychiolwyd—5 Cang., 19 Hen., 5 Off., 5 Ath., 3 Dia., 1 wedi ei ysgymuno, 1 wedi ei fedyddio, a'r cyfanswm yn 114.

Yna pregethodd y Bugail Parry egwyddorion dechreuol yr efengyl yn eglur iawn, a thaer gymhelloid y gwrandawyr i'w chofleidio. Cafwyd cefnogrwydd unfrydol i holl Lywyddiaethau a Chorwmau yr Offeiriadaeth yn Seion, y Brydeinig, a'r Llywyddiaethau Cymreig.

O herwydd amgylchiadau rhyddhawyd J. N. Jones o Lywyddiaeth y Cymmadledd, a gosodwyd Lewis Davies yn ei le, a J. N. Jones a John Hughes yn Gynghorwyr, Jonathan Ellis i fod yn Brif-ddosparthwr, a Thomas Green yn Ysgrifenydd y Gymmadledd.

Cynghorodd y Llywydd Daniels y swyddwyr a'r Saint i fwy o ddiwydrwydd i rybuddio y byd, ac i ddosparthu tracthodau.

Cafwyd pregethau effeithiol a grymus yn y prydnawn, gan yr Henuriaid R. Griffiths, Rhoslanychrigog. ac R. Jones, Cefnmawr, ar sefydliad teyrnas Dduw ar y ddaear, a dilynwyd hwy gan J. N. Jones yn Saesneg, a chafwyd hwylusdod rhagorol.

Yn yr hwyr, yr Henuriad L. Davies a brofodd yn eglur fod dwyfol genadwri yn hawdd ei phrofi felly drwy ufydd dod iddi, a chael mwynhau ei bendithion addawedig. Dilynwyd ef gan y Llywydd Daniels yn fedrus iawn, dangosodd y gwahaniaeth sydd rhwng gwir a gau grefydd; mai yr olaf sydd yn erlid y flaenaf, a hyny o herwydd ei bod hi yn dynoethi twyll a noethni y llall. Dilynwyd yntau gan y Bugail Parry, drwy dystiolaethu yn eglur a phenderfynol mai hon yw Eglwys Dduw, mai cenadwri ddwyfol a draddodwn, ac mai hon yw yr unig ffordd i achub dyn, a'i fod ef yn gwybod hyny, a thaer gymhellodd ereill i ufyddhau iddi, ac y caffent hwythau wybod hyny gan Dduw fel y cafodd yntau. Mwynhawyd helaethrwydd o Ysbryd yr Arglwydd drwy y Gymmanfa, a theyrnasai undeb a chariad trwy yr oll, ac am gynnyddiad hwn y parha gweddi

Eich Brodyr yn y C. T.

J. N. Jones, *Llywydd*,
L. Davies, *Ysgrifenydd*.

---

## CYNNADLEDD OGLEDDOL PENFRO,

A gynnaliwyd yn Abergwaen, ar yr 20fed a'r 21ain o'r mis presennol, pryd y cynnrychiolwyd 4 Cang., 14 Hen., 5 Off, 2 Ath., 2 Ddiac., 2 wedi eu bedyddio, 3 wedi eu torri allan, a'r cyfanswm yn 56 Ymgasglodd y rhan fwyaf o'r Saint perthynol i'r Gynnadledd hon yno, a chafwyd dylanwadau Ysbryd Duw yn helaeth iawn yno.

Penderfynwyd yn unfrydol i ddal i fyny holl awdurdodau yr Eglwys, yr oedd pawb yn gwenu wrth gael y fraint o godi eu deheulaw o blaid cynnal a chadw i fyny, anfonedigion Duw, yn eu ffydd a'u gweddiau. Anerchwyd y gwahanol gyfarfodydd yn fywiog a gwresog drwy y dydd, gan amryw o Henuriaid.

David Rees, *Llywydd*.
T. Evans, *Ysgrifenydd*.

## HIRAETH AM SEION.

Ton—"Serchydol."

Draw, draw dros dònawg fôr yn mhell,
Edrychaf tua'r wlad sy'n well
Na gwledydd da'r yn nghyd;
Y wlad addawodd Duw i'r rhai
Adawai 'n llwyr y llwybrau gau,
Lle llifa heddwch pur di-drai,
Canys arni mae fy mryd.
Caf yno fyw yn helaeth rydd,
Ynghanol bro y ffigys-wydd;
Ac O! mor hyfryd imi fydd
I dreilio'r dydd ar dôn.
Bydd hyfryd gyda'r Saint gyd fyw,
Mewn nefol dir dan ofal Duw,
Lle na ddaw gelyn o un lliw,
I beri briw i'm bron.

Mae, mae ryw hiraeth dan fy mron,
Am fyn'd im' gwlad o Babilon,
A chroesi'r dôn o'i chri;
Ei mheibion dall sydd imi 'n gro's,
Fel bleiddiaid gwancus yn y nos,
A minnau ar lawr dan lawer lo's,
Yn wylo dagrau'n lli'.
Ti Dduw y duwiau nerthol mawr,
Galluog lywydd nef a llawr,
O gwared fi o'm cystudd 'nawr,
I'th Seion geinfawr gu;
Lle melys glywir sain pob sant,
Yn mhlith dy waredigol blant,
Dan wenau'r nef ar dônau gant,
Yn unaw moliant hy.

Gwel, gwel fy nhelyn 'nawr yn ngrôg,
Fy Nuw, a dyro im' fy llog
O ddiane rhag y llid.

Dan dromlwyth-ormes yma mae
Fy nghalon egwan yn pruddâu,
A'm hawen fâd yn llwyr lesgâu,—
O Dad, mor wael yw 'myd.
Tydi, fy Iôr, a rwydd fawrhaf,
Os yn dy Seion cyfrân gaf;
Ar ddolydd hon—werdd-ddelw haf
Y gwaeaf odlau gwiw;
Yn mhlith ei nhentydd croew glân,
Lle'r esgor myrdd o bysgod mân,
Ar awen dêr o rywiog dân,
'Rhof fawl a chân i'm Duw.

NATHAN DDU O LYWEL.

## AMRYWIAETHAU, &c.

Y RHYFEL.—Wedi ymosodiad creulon o bedwar diwrnod gan amryw agerfadau Brytanaidd a Ffrengaeg, dinystriwyd amddiffynfa Bomarsund, a dywedir fod tua 2000 o'r Rwsiaid wedi eu cymmeryd yn garcharorion. Dywedir fod y Rwsiaid wedi gorchfygu byddin gadarn o'r Twrciaid gerllaw Kars, a chymmerwyd 15 o fagnelau, llawer iawn o arfiaith rhyfel, 84 o swyddogion, 23,000 o wyr yn garcharorion, ac wedi gadael 2000 yn feirw ar y maes. Ennillodd y Rwsiaid fuddugoliaeth arall ar y Twrciaid ar uchel-dir Tchuilglyl ar y 29ain o Orph., cymmerasant tair o fagnelau pres, tair wagen lwythog o bylor a phlwm, 370 o garcharorion, a thros 2000 o feirwon ar y maes.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O AWST 23 HYD 31.—Morganwg Orllewinol, £3 4s 8c; Dyffryn Conwy. £1 10s.

☞ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. D. Jones*, 10, *College Street, Swansea.*

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Crynhoad o Araeth y Llywydd D. Jones, ar y Gymdeithas Genadol | 485 |
| Llythyr o Ddinas Cedar | 490 |
| Dammeg y Misoedd | 491 |
| Iachâd erwy allu Duw | 493 |
| Golygyddiaeth | 493 |
| Llythyr y Llywydd Daniels | 495 |
| Cymmanfa Sir Aberteifi | 497 |
| Cymmanfa Sir Fflint | 497 |
| Cymmanfa Ogleddol Penfro | 498 |
| Hiraeth am Seion | 499 |
| Amrywiaethau, &c. | 500 |


ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 32.] MEDI 23, 1854. [CYF. VII.


## GALLU A THRAGYWYDDOLDEB YR OFFEIRIADAETH.

*Allan o'r "Seer."*

OFFEIRIADAETH Duw yw yr awdurdod fawr, oruchaf a chyfreithlon ag sydd yn llywodraethu preswylwyr yr holl fydoedd adferedig a gogoneddedig. Ynddi y mae yn gynnwysedig bob gallu i greu bydoedd, i osod cyfreithiau sefydledig a pharhaus er rheoleiddiad y defnyddiau yn eu holl amrywiol weithrediadau, pa un bynag ai gweithrediadau fel mymrynau, fel pentyrau, fel bydoedd, neu fel tyroedd o fydoedd. Y gallu hwnw ydyw ag sydd yn llunio y mŵnau, y llysiau, a'r anifeiliaid yn eu holl amrywiaethau diderfyn ag sydd yn bodoli ar ein pellen ni. Yr awdurdod hono sydd yn dadgnddio cyfreithiau er llywodraethiad bodau deallawl—sydd yn gwobrwyo yr ufydd a chospi yr anufydd—sydd yn ordeinio tywysogaethau, galluoedd a theyrnasoedd, i ddwyn allan ei gweinyddiadau cyfiawn drwy bob llywodraeth. Yr awdurdod Freiniol hon nid yw yn neillduol neu ar wahan oddiwrth yr Offeiriadaeth, ond yn unig yn gangen neu gyfran o'r unrhyw. Yr awdurdod Offeiriadol sydd gyffredinol, yn meddu gallu dros bob peth; mae yr awdurdod Freninol, hyd nes ei pherffeithio, wedi ei chyfyngu i'r teyrnasoedd a osodwyd dan ei raglawiaeth: y blaenaf sydd yn penodi ac ordeinio yr olaf; ond nid yw yr olaf byth yn penodi ac ordeinio y flaenaf: y gyntaf sydd yn rheoli cyfreithiau natur, ac yn llywodraethu dros yr elfenau yn gystal a thros ddynion;

y ddiweddaf sydd yn rheoli dynion yn unig, a gweinyddu cyfreithiau cywir a chyfiawn er eu llywodraethiad. Lle y mae y ddwy yn unedig, a'r dyn wedi ei berffeithio, y mae ganddo allu hollalluog fel Brenin ac fel Offeiriad; yna pob un o'r swyddau ydynt wedi eu soddi yn un. Yna y gwahaniaeth fydd yn unig yn yr enw ac nid yn yr awdurdod, naill ai fel Brenin neu fel Offeiriad, yna caiff arglwyddiaeth dros bob peth, a theyrnasa dros y cwbl. Yna y teitlau, wedi eu hunaw, ni roddant iddo fwy o allu na'r naill un yn unigol. Mae yn amlwg nad yw rhagoriaethau teitl ond yn unig yn ddarluniadol o sefyllfa pethau yn flaenorol i ogoneddiad a pherffeithiad y dynsoddau ag sydd yn dal yr Offeiriadaeth; oblegid pan y maent wedi eu perffeithio, hwy a gânt allu i weithredu mewn pob cangen o awdurdod trwy rinwedd yr Offeiriadaeth fawr, hollalluog a thragywyddol, pa un a ddaliant; yna hwy a allant ysgwyd eu teyrnwialenau fel Breninoedd, llywodraethu fel Tywysogion, gweinyddu fel Apostolion, a gweinidogaethu fel Athrawon, neu weithredu yn y cyflwr gostyngeiddiaf a'r mwyaf dyrchafedig, Nid oes un gangen o'r Offeiriadaeth mor isel fel nas gallant ymddarostwng i weinyddu ynddi; dim un mor uchel fel nis gallant estyn allan y fraich o awdurdod a goruwch reoli yr unrhyw.

Fod nerth yr Offeiriadaeth yn hollalluog sydd amlwg oddi wrth y ffaith o fod Duw y Tad a'i Unig-anedig Fab yn dal yr Offeiriadaeth, Os nad oedd Duw y Tad mewn meddiant o'r Offeiriadaeth, ni allasai Efe byth alw, penodi, gwneuthur, a chyssegru Iesu yn Arch-offeiriad. Paul, wrth iefaru am Grist, a ddywed "Efe a wnaethpwyd yn awdwr Iachawdwriaeth dragywyddol i'r rhai oll a ufyddhânt iddo; wedi ei gyfenwi gan Dduw yn Arch-offeiriad yn ol urdd Melchisedec." Heb. vii, 9, 10. Etto efe a ddywed, "Crist nis gogoneddodd ei hun i fod yn Arch-offeiriad, ond yr hwn a ddywedodd wrtho, Tydi yw fy Mab, myfi heddyw a'th genedlais di." Fel y dywed hefyd mewn lle arall, "Offeiriad wyt ti yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec." (Heb. v, 5, 6.) Y ddwy adran hyn sydd yn profi fod y Tad wedi galw ei Fab i'r Offeiriadaeth.

Ni a brofwn yn nesaf fod Duw nid yn unig wedi galw ei Fab i fod yn Arch-offeiriad, ond ei benodi a'i wneuthur Ef felly trwy lw. Paul oedd yn cynghori yr Eglwys Hebreaidd fel y

canlyn:—"O herwydd paham, frodyr santaidd, cyfranogion o'r alwedigaeth nefol, ystyriwch Apostol ac Arch-offeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu, yr hwn oedd ffyddlon i'r hwn a'i *hordeiniodd* ef, megys ag y bu Moses yn ei holl dŷ ef." (Heb. iii, 1, 2.)

"Ac yn gymmaint nad heb lw y gwnaethpwyd ef yn Offeiriad: (canys y rhai hyny [yr offeiriaid Aaronaidd] yn wir ydynt wedi eu gwneuthur yn offeiriaid heb lw: ond hwn trwy lw, gan yr hwn a ddywedodd wrtho, Tyngodd yr Arglwydd, ac ni bydd edifar ganddo, Ti sydd Offeiriad yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec;) ar destament gwell o hyny y gwnaethpwyd Iesu yn Fachnïydd." (Heb. 7, 20—22.)

Ni chafodd yr Iesu yn unig ei alw, ei benodi, a'i wneuthur yn Arch-offeiriad â llw, ond hefyd cafodd ei gyssegru, "canys y gyfraith sydd yn gwneuthur dynion a gwendid ynddynt yn Arch-offeiriaid; eithr gair y llw yr hwn a fu wedi y gyfraith, sydd yn gwneuthr y Mab, yr hwn a berffeithiwyd yn dragywydd." (Heb. vii, 28.) I gyfansoddi Iesu yn Arch-offeiriad, ynte, sydd yn gofyn galwedigaeth, penodiad, llw, a chyssegriad. I ffaith o fod Duw y Tad wedi rhoddi yr awdurdod hon ar ei Fab, sydd yn dangos yn y modd mwyaf penderfynol ei fod Ef ei hun mewn meddiant o'r Offeiriadaeth fawr, oblegid nis gallwn amgyffred fod yn bosibl i fôd i roddi i arall yr hyn nad yw efe ei hun yn ei feddiannu.

Llawer sydd yn tybied na fu erioed neb ond dau ddynsawd yn dal yr Offeiriadaeth uchelaf hon, sef Iesu a Melchisedec. Os felly, pwy a roddodd yr Offeiriadaeth hon ar Melchisedec? A allasai taw Crist oedd? oblegid, yn ol Paul, yr oedd yn llawer o gannrifoedd ar ol dyddiau Melchisedec, ac hefyd hyd y nod ar ol y gyfraith a roddwyd gan Moses, cyn i Ddnw wneuthur a chyssegru trwy lw ei Fab yn Arch-offeiriad. A wnelai y Messiah alw, ordeinio, a chyssegru Melchisedec i swydd, cyn iddo Ef ei hun dderbyn yr ordinhad santaidd o gyssegriad? Os na wnelai pwy oedd a hawl i'w gyssegru ef i'r swydd hono? Attebwn na fuasai neb yn debyg o wneuthur hyn, heblaw ei fod ef ei hun yn dal y swydd.

Dywed Paul yn mhellach, fod yr Offeiriadaeth ag oedd Melchisedec wedi dderbyn, "heb dad, heb fam, heb achau, ac heb fod iddi na dechreu dyddiau, na diwedd einioes." (Heb. vii, 3.) Melchisedec, wedi derbyn y fath Offeiriadaeth, ac wedi ei

"wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw sydd yn aros yn Offeiriad yn dragywydd." Megys nad oedd gan yr Offeiriadaeth ddim "dechreu dyddiau," rhaid y bodolai cyn i ddyddiau ein daear ni gael dechreuad. Ond pwy oedd y pryd hwnw yn ei meddianu? Attebwn, mai Duw, Tad ein hysbrydoedd y pryd hyny a'i meddiannai, yn ei holl ardderchogrwydd, gallu, a chyfiawnder; oblegid os nad oedd Efe na neb arall yn dal yr Offeiriadaeth cyn dechreu dyddiau y greadigaeth, yna nis gallasai fod, fel yr eglura Paul, "heb ddechreu dyddiau."

Wedi prof fod Duw y Tad yn meddiannu yr Offeiriadaeth cyn dyddiau y greadigaeth, a bod Melchisedec yn nyddiau Abraham yn dal yr unrhyw Offeiriadaeth, a bod Iesu trwy "air y llw yr hyn oedd wedi y gyfraith," wedi ei "alw," ei "benodi," ei "wneuthur," a'i "gyssegru" yn Arch-offeiriad am byth mwy yn ol yr un urdd, fe fydd i'w weled yn hawdd, fod gallu yn wisgedig yn yr Offeiriadaeth. Trwy ymarferiad yr Offeiriadaeth hon, Duw y Tad a wnaeth y bydoedd trwy ei Fab. Trwyddi hi, y Mab a dderbyniodd bob gallu yn y nef ac ar y ddaear. Trwyddi hi, Efe a eistedd ar "orseddfa ei dad Dafydd, ac Efe a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd." (Luc i, 32, 33.) Trwyddi hi, Efe a "esgynodd goruwch yr holl nefoedd fel y cyflawnai bob peth." Trwyddi hi, Efe a gyrhaeddodd goronau fragywyddol, i deyrnasu fel Brenin breninoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi, dros bob teyrnas ac arglwyddiaeth, tywysogaeth a gallu, yn y byd hwn neu yn myd yr ysbrydoedd, neu yn arglwyddiaethau diderfyn ei Dad.

Er hyny, hysbysa Paul ni fod Iesu Grist wedi ei alw a'i wneuthur yn Archoffeiriad ganrifoedd wedi i'r gyfraith gael ei rhoddi; etto nid oes ammheuaeth ei fod Ef yn cael ei ystyried yn meddwl ei Dad yr un modd ag Arch-offeiriad cyn sylfaeniad y byd, ac mai trwy rinwedd yr Offeiriadaeth pa un a gaffai dderbyn mewn oes ddyfodol, y gallai ymgorffoli bydoedd, a dangos allan nerth Hollalluog. Duw, trwy ei rag-wybodaeth, a welodd y gwnelai ei Fab gadw ei holl eirchion, a benderfynodd ar amser penodol i'w alw a'i gyssegru Ef yn Arch-offeiriad; Efe hefyd a benderfynodd mai trwy rinwedd y cyssegriad dyfodol hwnw i'r Offeiriadaeth, y byddai iddo filoedd o flynyddoedd yn mlaen llaw, i gael gallu i greu bydoedd a'u llywodraethu hwynt, yr un modd â phe buasai Efe yn barod wedi derbyn y cyssegr-

iad. Ei holl weithredoedd a'i oruchwylion rhyfeddol, yn flaenorol i'w gyssegriad, oeddynt yn ogymmaint canlyniadau awdurdod yr Offeiriadaeth â'r rhai hyny a gyflawnwyd ganddo wedi yr amser hwnw.

*(I'w barhau.)*

*Cyf.* A. L. JONES.

---

## HYSBYSIAD I YMFUDWYR.

*Liverpool, Medi,* 14, 1854.

Y LLYWYDD JONES,—

Mewn canlyniad i'r hyn a amcanwyd yn yr Unfed Epistol ar ddeg o eiddo Prif-Lywyddiaeth yr Eglwys, hysbysaf chwi fy mod yn bwriadu danfon llongaid o Saint i'r Americ yn niwedd Hydref, neu yn gynnar yn nechreu Tachwedd, os ymofyna digon o nifer i'n galluogu i hyny erbyn yr amser.

Ni allaf eich hysbysu yn awr beth a fydd cost y cludiad, eithr y mae yn debygol y gahaniaetha ychydig o'r pris arferol, ond ni fydd yn mhell o £4 i rai mewn oed. O galyniad mi a ddymunaf arnoch i anfon i mi yn ddioed, enwau, galwadau, preswylfanau, ynghyd a thaliad o £1 y pen dros bob person a fydd dros flwydd oed, o'r cyfryw ag yr ystyriwch fod eu hamgylchiadau yn ea galluogi i fyned Hysbyswch hefyd yn mha wlad y ganwyd pob un o honynt

Nid yw y rhai hyny a allant ymfudo i Ddyffryn y Llyn Halen Mawr, nac ymfudwyr y Gymdeithas Ymfudol Barhaus, i fyned yn y llong hon, ond y rhai hyny yn unig na allant dalu eu cludiad yn mhellach nâ'r Unol Daleithiau.

Cyfarwyddeb Bugeiliaid, ynghyd â Llywyddion Cymmadleddau a Changenau, yn mhob matterion cyssylltiedig â busnes yr Hysbysiad hwn, oddieithr yr hyn yr ymhola Bugeiliaid â ni yn ei gylch.

Pan y caffwyf y rhyfedi gofynol o enwau, a phan y gwnaf gwblhau fy nhrefniadau ymfudol, anfonaf lythyrau hysbysiadol yn cynnwys pob hyfforddiadau angheneheidiol, ynghyd a phris y cludiad, &c

Eich cyd-was,

F. D. RICHARDS.

---

## GWAHODDIAD!

ANWYL DDARLLENYDD,—*Gwybydd* y *rhaid* i ti sefyll o flaen brawdlys ddwyfol! *Cofia* y sefydla dy weithredoedd dy dynged yn y byd a ddaw! *Coelia* gyfaill profiadol yn dweyd nad oes ond mwynhâd o grefydd *wirioneddol* a'th ddedwyddola yn y byd hwn nac i dragywyddoldeb; ac er mwyn dy enaid anfarwol, *crêd* dystiolaeth *tyst geirwireddus*, mai yr hyn a ganlyn yw egwyddorion yr *unig grefydd* ddwyfol a fu erioed nac y sydd yn awr yn y byd.

Na âd i ddylanwad gau grefydd gynhyrfu dy nwyd i daflu y 'Gwahoddiad' taer hwn o'th law; canys gwirionedd diwrthbrawf yw y fod Duw wedi llefaru o'r nefoedd yr hyn sydd yn *rhaid i ti* wneuthur er bod yn gadwedig. Pe y gwnelit bob peth arall a orchymyna pob enwad, a'r oll a feddyli yn ddyledus dy hunan, ac esgeuluso gwneuthur y pethau dwyfol orchymynedig canlynol, ni fyddi gadwedig. Ni bu, ac nid oes bywyd tragywyddol yn addawedig ond *yn unig* drwy ufyddhau i *bob gair a ddaw* o enau yr Arglwydd, boed y gair hwnw a fyddo. Rhaid iddo Ef gael ufydd-dod trwyadl, ac o galon, i *bob* gorchymyn a roddo Efe. Nid dwyfol y dichon fod crefydd y sawl a gyfnewidia un iot nac un teitl o orchymynion Iesu Grist pe eu proffesid, pe eu canmolid gan, na phe yr haerai holl ddoethineb ddynol y byd i'r gwrthwyneb; o ganlyniad er mwyn dy achubiaeth dragywyddol na huder di i'w coelio. Hefyd, pe eyd-haerai pob pregethwr, awdwr a golygydd, â'r anffyddiwr, y meddwyn, ïe, yr holl fyd mai twyll yw yr athrawiaethau canlynol, na chrèd hwynt, onide amddifadi dy hun o wir grefydd, gwrthryfeli yn erbyn Duw, a cholli dy enaid o herwydd gwneuthur hyny. Tyred ynte, i'r fan a nodir isod er gwaethaf pob gwrthwynebydd, a mŷn wrando drosot dy hun, canys am dy farn dy hun y'th fernir, a throsot dy hun y rhaid i ti farw, a byw neu farw drachefn yn dragywydd: tyred i wrando drosot dy hun, a chai glywed mai gwirioneddau ysgrythyrol, rhesymol, a dwyfol brofadwy i ti *dy hun* ydyw:—

I. Fod Angel o'r nef wedi dyfod i'r ddaear â chenadwri i'w holl drigolion, yr hon a gynnwysa gyfarwyddiadau eglur a chywir, pa fodd i gael maddeuant pechodau ac iachawdwriaeth.

II. Fod yn anmhosibl i unrhyw grefydd fod yn ddwyfol oddi eithr fod ei meddiannydd yn mwynhau *dadgudaiadau unionyrchol ei hunan*

III. *Ffydd* yn nhystiolaeth tystion *byw* i gredu yn modoldeb Duw Dad, yn nghroeshoeliad, adgyfodiad, ac esgyniad ei Fab Ef Iesu Grist i'r nef, yn ddigonol Waredwr, i gredu ac ufyddhau i'w holl orchymynion, ac i gredu hefyd yn nerthol weithrediadau ei Ysbryd Glân yn ol ei addewidion.

IV. *Edifeirwch* am bob drwg, a phenderfyniad i ymgadw oddiwrth bob peth sydd yn groes i gyfraith Duw.

V. *Bedydd mewn dwfr er maddeuant pechodau*, ac mai hon yw yr unig ordinhad a sefydlodd Crist er cael maddeuant.

VI. *Mwynhad presennol o dau rn yr Ysbryd Glân* trwy arddodiad dwylaw yr Henuriaid,—megys tystiolaeth yr Ysbryd o gymmeradwyaeth Duw,—prophwydoliaeth,—llefaru â thafodau dieithr,—cyfieithad tafodau,—cael gweledigaethau, ac iachâu cleifion crediniol trwy arddodiad dwylaw a gweddi y ffydd, a chael pob dadguddiadau anghenrheidiol er cadwedigaeth.

VII. *Dirywiad hollol yr holl fyd* oddiwrth burdeb yr efengyl, a'i amddifadrwydd o deyrnas Dduw er's oesoedd.

VIII. *Adferiad trwyadl Teyrnas Dduw i'r ddaear*, o ran ei swyddau, ordinhadau, athrawiaethau, dyscyblaeth a bendithion fel ei sefydlwyd gan Iesu Grist ei Phen, yr hyn a brofir gan gannoedd o filoedd o dystion cywir trwy y byd, gan amryw filoedd trwy Gymru, a rhai yn eich plith.

IX. *Ymgasgliad* plant Duw ynghyd i'r fan o'r ddaear a appwyntiwyd ganddo Ef, i gael eu dysgu yn fanylach yn nghyfraith yr Arglwydd, i adeiladu Seion, ac i gael gwaredigaeth rhag yr heintiau, y plâau, y rhyfeloedd sydd eisoes yn dechreu drwy'r byd, y newynau, daeargrynfäu, ymrysonau, a'r gyflafan erchyll sydd eisoes wrth y drws, ac a ddaw fel dialedd y Goruchaf ar warthaf gwrthodwyr yr efengyl hon.

X. Pregethau ar amrywiol athrawiaethau mawreddog, megys Adgyfodiad y corff i fywyd.—Adgyfodiad i'r ail farwolaeth.—Adferiad pob peth.—Teyrnasiad personol Crist ar y ddaear am fil o flwyddi.—Rhwymiad Satan.—ei ollyngiad, a'i dynged dragywyddol.—Diwedd yr annuwiolion.—Y Nef newydd a'r ddaear newydd, &c., &c.

Ddarllenydd! tyred, meddir etto, a gwrando drosot dy hun, fel y gelli iawn farnu y *gwirioneddau* hyn, eu deall, ufyddhau iddynt, a mwynhau eu haddewidion,

Yw taer ddymuniad,

————, Llywydd y Gangen.

---

D.S. Mae pregethu yn Neuadd y Saint yn ————, bob Sul am 11 o'r gloch y boreu, ac am 6 yn yr hwyr. Parod y'm bregethu yr amser a ddewiso y neb a'n gwahoddo i'w tai.

---

☞ Meddwn amrywiaeth o draethodau ar yr holl egwyddorion uchod, &c., y rhai geir hefyd yn Swyddfa "Udgorn Seion," Abertawy, am wahanol brisiau, ac hefyd gwrthhrofion a foddlona bob dyn gonest, i'r cam-gyhuddiadau a daenir am danom ni a'n crefydd, byd a welsom.

## LLYTHYR Y BUGAIL J. PARRY.

*St. Sior, Medi* 11, 185-.

Mr Gol.,—Yr wyf yn meddu gobaith clyf y cawn bob dyledion am lyfrau, &c., i mewn yn fuan trwy Gynnadleddau y Gogledd. Cymmerasom hyny dan sylw yn mhob Cymmanfa, a phawb o'r bron yn cymmeradwyo i osod cynllun i ryddhau y Cynnadleddau o bob dyledion.

Y mae yma yn y Gynnadledd hon lawer iawn o bregethu hyd y tymmor, a phawb yn teimlo yn dda a phenderfynol i beidio diffygio, gan hyderu y caiff pob un fedi o ffrwyth ei lafur Mae yma bawb o'r bron mor ymdrechgar ag y dymunech i'w gweled, ac y maent yn teilyngu cael eu canmol. Nid oes dynion mewn llan na lle am rai milltiroedd oddiamgylch y Cangenau, ar nad ydynt yn cael clywed yr Efengyl, ac y mae gwrandawiad da yn gyffredin, a llawer o bleidwyr ac amryw yn credu, a diau pan y clafycha Seion, yr esgorir arnynt i deyrnas Dduw, a hyny ydyw ein gweddi a'n dysgwyliad.

Y mae Cynnadledd Dyffryn Conwy yn gyffelyb yr un modd,—pob peth mewn trefn dda, a phawb yn ymdrechu cario gwaith Duw yn y blaen. Cawsom Gymmanfa dda iawn yno, ac y maent yn addaw gwneuthur ymdrech i ddyfod yn rhydd o bob hen ddyledion, &c.

Mae undeb da trwy y Gogledd yn gyffredinol, ond ychydig o fedyddio, etto y mae rhai wedi cael eu bedyddio yn mhob Cynnadledd y tri mis diweddaf. Yr wyf yn credu y bydd mawr lwyddiant ar waith yr Arglwydd yn Nghymru o hyn allan.

Ydwyf eich cyd-was yn Efengyl Crist,

John Parry.

---

## YR "EURGRAWN "YSGRYTHYROL!"

"Y *Llywydd Jones*,—Mae ymholi yma a thraw pa bryd y daw yr "Eurgrawn Ysgrythyrol" allan etto, os ydych am ddyfod ag ail argraffiad o hono ef hefyd, ac a werthwch chwi ef yn rhifynau fel ar y dechreu? Os gwnewch hyny, hysbyswch drwy yr Udgorn; canys credaf y byddai pawb yn falch o glywed fod y fath Lyfr i'w gael, a chwyna aml un ei golled na fuasai wedi sicrhau copi iddo ei hun, ac un i bob un o'i

deulu mewn pryd; ac nid rhyfedd hyny, canys dywed rhai fod yn hawddach bod heb feibl nag hebddo ef. "R. Evans."

---

Attebwn, y fod genym gannoedd o'r argraffiad bychan eyntaf ar law er's blynyddau, ac y gall pob dosparthwr gael hyny a fyno o honynt ond anfon yma, yn rhanau neu wedi eu rhwymo, a gwyn fyd pe byddent wedi eu chwalu hyd y wlad, ac yn cael eu manwl ddarllen, fel y teilyngant, gan fyd ac Eglwys, yn enwedig gan y pregethwyr a'r sawl a ddysgwylia fod yn bregethwr rywbryd.

Pleser ein calon yw cymhell y Llyfr hwn yn daer i sylw y Saint; ac etto gofynwn gan ein Llywyddion ei gymhell, a chael gan eu gwahanol Ddosparthwyr anfon am danynt, a'u cymhell i bawb, canys ni allant beidio a bod o fawr les a bendith i bob un a'u darllenont. Yr ydym wedi synu llawer beth a all fod yr achos na fuasai ychwaneg o brynu ar yr "*Eurgrawn!*" Dylasai yr argraffiad bychan a gyhoeddwyd fod wedi ei werthu er's blynyddau, os yw ein chwaeth ni yn unrhyw safon debyg i'w le; tra, yn lle hyny, nid y'm yn credu fod hanner, nac un o bob hanner dwsin o hyd y nod *Pregethwyr* y Saint yn ei feddu, a chanoedd o frodyr hebddo, lle, os caniateir i ni farnu, na ddylai fod un hebddo. Galwasom sylw ato ar ddechreu y flwyddyn hon, gostyngwyd ei bris; etto, meddwn, gellir ei gael wedi ei rwymo, neu yn rhanau yn ol y gostyngiad addawedig. Yn awr yw yr amser i sicrhau copi o hono, canys nid tebyg yr argraffir ef yn fuan. Na choller y cyfleusdra!

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, MEDI 23, 1854.

Newyddion Cartrefol.—*Dwyr. Morganwg.*—Mae y Llywydd Evans yn obeithiol iawn o faes newydd ei lafur, ac yn cael argoelion gobeithiol, ac undeb rhagorol yn y brodyr i dalu eu

hen ddyledion. Da iawn fyddai genym glywed fod pob Llywydd yn gallu dweyd yr un peth.

Ysgrifena yr Henuriad David Williams o Bontypridd, Medi 12, newyddion cysurlawn; dywed fod Saint y Fro a'r cylchoedd lle y teithia, yn cynnyddu mewn ffyddlondeb a phob duwioldeb; bedyddiwyd dau yn gyhoeddus dydd Sul diweddaf, a dau y Sul blaenorol, yn Ngwaenyrerw, yn ngwydd llawer o edrychwyr parchus. Bedyddiwyd 5 yn Pontypridd dydd Sadwrn, un y dydd hwnw, ac addawsai dau ufyddhau dranoeth. "Maent yn parhau i fedyddio yn Nghaerdydd a'r cylchoedd," ebe fe, "clywais yn y Cynghor diweddaf am bedwar a fedyddiasid. Aeth Henuriad allan o'r cwrdd ar gais un i'w fedyddio, ac yr oedd tri wedi cael eu bedyddio dydd Mercher. Mae y Saint yn gofyn yn barchus iawn am danoch, ac yn awyddus iawn am eich gweled yn mhob man lle yr âf, ac felly finnau eich anwyl Frawd." Onid ffrwyth yr ymdrech diweddar a wnaed i ddosparthu traethodau yn y manau hyny yw hwn? Diolchwn am deimladau caruaidd y Saint atom bob amser, ac ystyriwn ef yn werthfawrocach nag aur lawer, a melysach eu cwmniaeth nâ gwleddoedd mawrogion byd; er hyny, arall alwadau a'n hamddifadant am enyd o'u hoff gyfeillach. Ein Duw a'u llwyddo ar eu canfed.

*Sir Fynwy*, Ebe y Llywydd Giles. sydd ar gynnydd parhaus, undeb rhagorol i ddosparthu traethodau, arwydd sicr o lwyddiant buan yw hyny; ysbryd traethodu yw rhag-redegydd bedyddio genym ni. Argoel dda arall yw gweled awydd yn y Swyddogion am ddyfod i'r Cynghor, a bod mewn undeb a chariad yno, fel y dywed y Llywydd Giles eu bod acw wrth y 46 o Henuriaid, heblaw ereill; nid all y fath fintai mewn undeb llai nâ dwyn effaith ganfyddadwy, ond ymdrechu. Ceir addunedau siriol yma hefyd i dalu dyled y Gynnadledd, wrth wneuthur yr hyn sicrheir cymmeradwyaeth y nef a'i bendithion cyferbyniol. Henffych i'r Jubil ddydd pan y bydd pob Cangen o Eglwys ein Duw mor rhydd o ddyled ag yw rhai yn awr drwy ymdrech canmoladwy.

*Gorll. Morganwg.*—Mae ymroadau adnewyddol a sŵn llogi arfau at y cynheuaf mawr ac addfed yn mhob cŵr o'r Gynnadledd hon, a'r *Camp Meetings* yn llesiol iawn. Dyll effeithiol i gael gwrandawiad yw i nifer o Gangenau ymgyfarfod i fanau

apdedig, a phregethu allan; os mewn doethineb y perswadir mwy ar y bobl i ufyddhau, a pheidio bod yn rhy barod i'w rhoddi i fyny, a chyhoeddi y "*mene tekel.*"

*Llanelly.*—Mae ymroad canmoladwy iawn yn y brodyr hyn i ddosparthu traethodau; dywed y Llywydd eu bod wedi gwerthu eu hunain allan o *stock* yn llwyr, ac yn galw am amryw filoedd ereill gyda ffrwst mawr! Am y mwyaf, ynte! Pwy a enilla y "wobr," ac a wna fwyaf o les? Gyrfa i'w rhedeg yw yr eiddom, i *redeg* ac nid segura.

*Caerfyrddin.*—Yma hefyd mae yr hauwyr ar ddihun yn hau yr hâd da, a dysgwylir enwd toreithiog o bobl Sir Gaerfyrddin i ufyddhau i alwad olaf ein Duw cyn hir, ac y mae awydd lon'd ein bryd weled tyrfa o honynt ar Fynydd Seion, cyn y daw y dyddiau dialedd ar yr anufyddion.

Cysura y Llywydd Jeremy ni â newyddion am Gymmanfa ragorol a gynnaliwyd yn Llanymddyfri ar y 3ydd o'r mis hwn. "Yr oedd amryw gannoedd yn gwrando yn siriol, a'r Ysbryd Glân yn nerthol ar y brodyr wrth bregethu:" cynnyddu a wnelo.

*Sir Feirionydd.*—Cynnaliwyd Cymmanfa yn Nhowyn, Meirionydd, Sul y 3ydd, pryd y cynnrychiolwyd 6 cangen, 15 Henuriad, 8 Offeiriad, 3 Athraw, 1 Diacon, 3 wedi eu bedyddio, a'r cyfanrif yn 72. Hysbysir ni gan y Llywydd J. Davies:—"Ni a gawsom addysgiadau da gan y Llywydd Daniels, y Bugail John Parry, a'r Llywydd R. Roberts, ac amrywiol frodyr ereill. Cafwyd o ddylanwadau Ysbryd Duw yn helaeth, a gwrandawiad parchus iawn, ac undeb a chydweithrediad o blaid yr oll a wnaed, a phenderfyniad cadarn ac unfrydol i gael mwy o lwydd ar waith yr Arglwydd o hyn allan. Mae tri o'r gwirfoddoliaid, sef yr Henuriaid H. Parry, Ajax, a Lewis, yn ddiwyd a ffyddlon i bregethu y genadwri rasol i'r byd, gyda dylanwad eryf.

*Dyffryn Conwy.*—Cynnaliwyd Cymmanfa yn Eglwys Fach, Awst 27. Yn bresennol o ddyeithriaid y Llywydd Daniels, J. Parry, &c. Cynnrychiolwyd 5 Cangen, 19 Henuriad, 6 Offeiriad, 4 Athraw, 3 Diacon, 2 wedi eu bedyddio, a'r cyfanrif yn 92. Cymmeradwywyd yn ddieithriad holl swyddau yr Eglwys drwy y byd. Sefydlwyd Cangen yn Conwy yn cynnwys 10 o aelodau, ac etholwyd Wm. Davies, Ieu., i'w llywyddu. Gal-

wyd un Athraw, ac un Diacon. "Cafwyd cyfarfodydd da a phregethau llesiol gan y llywyddion a enwyd." ebe W. Davies, ysgrifenydd.

*Sir Ddinbych*,—A gynnaliodd ei Chymmanfa yn Newmarket, Awst 20,. Cynnrychiolwyd 16 Henuriad, 6 Offeiriad, 5 Athraw, 2 Diacon, 3 wedi eu bedyddio, 120 o gyfanrif. Dyna'r oll a glywsom, eithr deallir wrth lythyr dyddorol yr Henuriad J. Parry yn y rhifyn hwn pa fodd y teimla Saint y cylchoedd hyny.

---

*At Lywyddion y Cynnadleddau.*—Coffhawn chwi fod y chwarter hwn yn diweddu gyda y mis hwn, ac o ganlyniad, credwn eich sylw yn brydlon at yr hyfforddiadau a gyhoeddasom yn rhifyn 22, tud. 350, o'r UDGORN, yn y gyfrol hon, a thaer erfyniwn arnoch i efelychu eich prydlonrwydd a'ch manylrwydd ar ddiwedd y chwarter blaenorol, ac yn *fwy felly* os gellwch. Cofier fod y cyfan i fod yn Liverpool y dydd olaf o'r mis!

---

*Dyledion am Lyfrau*!—Drwg genym *orfod* galw sylw ein brodyr Llywyddol at y ddyledswydd bwysig ac arbenig o dalu mwy o sylw at ddosparth y llyfrau, a chrefu arnynt weled fod yr arian dyledus i'r ddwy Swyddfa yn treiglo yno dipyn cyflymach neu amlach, canys cynnyddu mae y ddyled o hyd ac yn gysson, yn enwedig ar rai Cynnadleddau, hyd nes y mae wedi *mygu* eleni yn agos i gant o bunnoedd eisoes! yn llc *lleihau* hyny o *teiaf.* neu ychwaneg, fel y gallesid ei resymol ddysgwyl! Mae yn rhaid fod bai yn rhywle, pan y mae Cynnadleddau heb dalu dim, neu nesaf peth i hyny, er's chwarteri yn olynol. Y mae y Llywydd a adawo i'r fath esgeulusdod barhau yn fyr iawn o lanw ei gylch Llywyddol, ac fe'i siomir os dysgwylia i ni ei esgusodi ar gost ei Ddosparthwr, o herwydd mai ag ef y mae a wnelom ni, cofier; ei waith ef yw edrych at ei Ddosparthwr, a gweled fod arolygwyr arno bob chwarter yn fanwl. Frodyr, a gaiff yr awgrymiad bach hwn ei effaith i beri i'r arian dyledus ddyfod yma erbyn diwedd y chwarter hwn? Beth meddych? Amser byr a ddengys! Credwn y gwnaiff y tro heb fod yn fwy personol yn bresennol.

---

CREULONDEB YR ELLMYNIAID.—*Carcharu am grefydd, &c.*—Deallwn drwy lythyrau diweddar fod y brodyr G. C. Riser, a

Nielson wedi cael eu carcharu, Awst 13, am bregethu yr efengyl yn nhref Hamburg, a chawsant eu cau mewn daear-dŷ brwnt am rai wythnosau; o'r diwedd galwyd yr holl Saint ag oedd yn yr holl gylchoedd hyny ynghyd i'r llys i glywed rhaith y Llys ar eu blaenoriaid, sef carchariad pedwar yn ychwanegol o'u swyddogion, a hyny yn unig o herwydd iddynt agor eu tai i bregethu ynddynt, a gorfuwyd y dyoddefyddion i dalu holl gostau eu cospi hefyd! Dygwyd eu llyfrau oddiwrthynt, ac alltudiwyd y Mormoniaid o'r wlad. "am eu bod yn beryglus i'r llywodraeth." Drwy ddylanwad y Meistri Morris, & Co., symudwyd y carcharorion cyntaf i garchar glânach, a dyblwyd eu hamser i fod yno. Er hyny oll, da genym ddeall fod y brawd Riser wedi dyfod yn rhydd o'u bachau hwy oll, a thirio yn Liverpool yn iach a chalonog. Da yw i'r Saint yn mhob gwlad mai y Duw Hollalluog yw eu Tad, onite difodasid hwy o'r byd hwn er's tro bellach; ei freichiau tragywyddol am danynt a fo nes achub yr holl oneetion.

---

*Y Taflenau Cyfrifiadol.*—Tebygwn fod pob Llywydd wedi gweled y Taflenau cyflens hyn a wnaethom, er cynnorthwyo i gasglu, a chadw cyfrifon y casgliadau at bob achos yn drefnus a chywir. Maent yn gyfaddas i bob Cynnadledd a phob Dosparth, ac y maent yn rhatach a gwell na dim arall a allwn lunio i'r perwyl hyny; ac felly cymhellwn hwynt i sylw pob Cynnadledd. Anfoner am danynt yn brydlon cyn bo eu heisieu, fel y caffom amser i'w gwneuthur. Parha yr un gyntaf am fis i gasgliadau wythnosol, yna adnewydder gan un arall, a throsglwydder y cyfanswm ar gyfer enw pob cyfranwr ar lyfr y Gangen. Mae y drydydd Daflen wedi ei gwneuthur i dderbyn casgliadau pump wythnos olaf y chwarter; ac felly, cedwir coffadwiaeth o weithredoedd personol pob un at bob cymdeithas a chasgliad ar lyfr y Gangen, a darllener hyny yn nghlwrdd Saint y Gangen, o leiaf unwaith bob chwarter, ac os bydd camsynied, yr hyn gyda gofal nid hawdd y bydd, gellir ei adgyweirio yn y fan. Eu pris yw 2s 9½c y cant, neu un geiniog i bob Dosparth o ugain o bobl, bob chwarter! I'r sawl a iawn ystyria y pwysigrwydd o groniclo ei weithredoedd i ddyfod i'w wyneb ef a'i achau ar ei ol yn "Llyfr cyfraith yr Arglwydd" yn Seion—ac a iawn ddeallo mai yn ol ei haelioni

at achos Duw y bydd haelioni Duw ato yntau, nid rhaid dweyd chwaneg ar hyn; nac wrth y Llywyddion a iawn ystyriant y pwysigrwydd o iawn drefn a manylrwydd, ac o wneuthur cyfiawnder â"r cyfranwr o bob achos nid rhaid i ni ymhelaethu er eu cael hwy oll i undeb a chydweithrediad yn y peth hyn hefyd, debygwn.

---

## NEWYDDION O UTAH.

Hysbysa y "*Deseret News*" am Gorphenaf y 6fed ni fod Cymmanfa wedi cael ei chynnal yn Ninas y Llyn Halen Mawr ar y 27 a'r 28 o Fehefin, eithr ni ddyry fanylrwydd o'i chofnodion, dysgwyliwn hyny cyn hir. Etholwyd y personau canlynol i genadiaethau; yr Henuriaid John Taylor i Gaerefrog Newydd, N. H. Felt, A. Robbins, J. Clinton, M. H. Peck, ac A. Lamb i fyned gydag ef. John Young i'r Taleithiau, L. Brunson i Dalaeth Michigan; Preston Thomas ac E. B. Trip i Texas; E. Whiting i Ohio, a James Craig i'r Iwerddon. Etholwyd John mab hynaf Hyrum Smith i fod yn Batriarch ar Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf. Cynghorodd y Llywydd B. Young yr Esgobion i ddarparu coed a defnyddiau ereill er adeiladu hâf-dŷ a gynnwysai o ddeg i ddeuddeg mil o bobl yn gysurus erbyn anrhydeddiad y 4ydd o Orphenaf.

Mae y "Deseret News" wedi dyfod allan mewn gwisg gartrefol —wedi ei wneuthur gartref, o ddefnyddiau hen ddillad a wisgasid yn garpiau rhwng y mynyddoedd creiglyd, ac wrth ystyried mai hwn yw y papyr cyntaf a wnaethpwyd yn y Dyffryn, ynghyd a'r anfanteision i'w wneuthur, ni ellir beio arno. Henffych i'r dydd y bydd Utah mor anymddibynol ar y byd am bob nwyfau ag y byddant am bapyr tra y gellir gwneyd cystal â hwn, a llwyddiant i'r anturwyr diwyd yn eu hymgeisiadau i hyny, meddwn ni. Yr Adrhyddeddus Elias Smith yw prif Swyddog y llythyr-doll, yn lle y diweddar drengiedig W. Richards. Mae y Llywydd Young wedi gwneuthur trowen fâd, yn 46 troedfedd o hyd, i drosglwyddo nwyfau ar hyd y Llyn Halen Mawr; gweithir ef gan beiriant ceffylau am yr amser presennol.

Dechreuodd y brawd Kennedy fedi ei wenith heddyw, y 6fed, ac y mae ganddo bump erw yn addfed, heblaw llawer chwaneg a

fydd yn aldfed yn fuan. Yr ymfudwyr i California, a'r dyeithriaid oedd yn y ddinas a synent yn fawr, wrth garedigrwydd y Saint yn eu gwahodd hwy oll i fwynhau o ddanteithion eu gwleddoedd ar y gwyl-ddydd, sef y 4ydd o Orphenaf.

Tiriasai pedwar o fasnachwyr yn y ddinas eisoes, ac wrth eu sodlau werth dros filiwn o ddolars o nwyfau a marsiandiaeth i'w gwerthu yn Utah.

---

## Y SAINT YN BABILON.

Pwy sy'n cael eu diystyru
Yn Babilon?
Neb yn fwy na Saint yr Iesu,
Yn Babilon:
Cael eu galw yn Sataniaid,
Twyllwyr drwg, a phechaduriaid!
Dyma ran yr Israeliaid
Yn Babilon.

O'r fath wawdio mawr sydd arnynt,
Yn Babilon,
Am fod y gwirionedd ganddynt,
Yn Babilon!
Dyma gyflog i bregethwyr,
Sydd yn credu'r holl ysgrythyr,—
Cael eu cablu gan grefyddwyr,
Yn Babilon.

Beth gan hyny ddaw i ddynion,
Yn Babilon,
Sydd yn cablu Duw a'i weision,
Yn Babilon?
Dwyn i gof o dan y gafod
Fydd i'r rhai sydd 'nawr yn gwrthod.
Pan fo Duw yn cospi pechod,
Yn Babilon.

E. SUMMERS.

---

## AMRYWIAETHAU, &c.

Yn awr yn y Wasg,—Y '*Gwahoddiad*' a welir yn y rhifyn hwn, ac sydd yn aros i Lywyddion y Cynnadleddau anfon i ni enwau y lleoedd pregethu, enwau Llywyddion Cangenau, a'r nifer a fynir i bob Cangen, yr hyn a erfyniwn gyda brys. Eu pris gwerthu fydd 2s y cant. Rhâd ydynt,—erfraner yn rhâd hyd nes y deallo pawb pa le y gallant glywed pregethu efengyl Crist yn ei phurdeb! Pa sawl mil a fynir?

Cymmanfaoedd.—Cynnelir Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg ar y 1af o Hydref, Brycheiniog ar yr 8fed, Mynwy ar y 15fed, Gorllewin Morganwg ar yr 22ain, Llanelli ar y 29ain, Caerfyrddin ar y 5med o Dachwedd, Aberteifi ar y 12fed, Penfro Ogleddol ar y 19eg, a Phenfro Ddeheuol ar y 26ain.

☞ Ein symudiad o Ferthyr i Abertawy a barodd i rai sypynau o'r *Star* a'r Udgorn fethu cyrhaedd pen eu taith yn brydlon i rai manau, eithr o hyn allan hyderir y byddant yn adnabod eu llwybr a'u hamser.

☞ Crefwn sylw at yr "Hysbysiad i Ymfudwyr," yr hwn a ddaeth ond braidd yn brydlon i'r rhifyn hwn; caiff ein sylw ond odid yn y nesaf, hyd hyny ymbarotoer!

Cyfarwyddyd.—Mr Dewi Elfed Jones, No. 12, Carmarthen Buildings, High Street, Swansea.

☞ Cofier mai George W. Davies yw Prif Ddosparthwr Cynnadledd Ddwyreiniol Morganwg.

Derbyniadau am Lyfrau o Awst 31 hyd Medi 13.—Morganwg Ddwyreiniol, £7 10s 5½c; Morganwg Orllewinol, £4; Sir Ddinbych, 7s; Cangen Gymraeg Liverpool, £1 10s.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones, "Udgorn Seion" Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.


| | Tud. |
|---|---|
| Gallu a thragywyddoldeb yr Offeiriadaeth | 501 |
| Hysbysiad i Ymfudwyr | 505 |
| Gwahoddiad | 506 |
| Llythyr y Bugail J. Parry | 508 |
| Yr "Eurgrawn Ysgrythyrol" | 508 |
| Golygyddiaeth—Newyddion Cartrefol—At Lywyddion y Cynnadleddau—Dyled am Lyfrau—Creulondeb yr Ellmyniaid—Y Taflenau Cyfrifiadol | 509 |
| Newyddion o Utah | 514 |
| Y Saint yn Babilon | 515 |
| Amrywiaethau, &c | 516 |


ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

Rhif. 33.] TACHWEDD 7, 1854. [Cyf. VII.


### LLYTHYR Y LLYWYDD KIMBALL AT EI FAB YN LLOEGR.

*(Allan o'r "Millenial Star.")*

*D. Ll. H. Mawr, Meh.* 29, 1854.

Fy anwyl Fab William,—Yr oedd ein Cymmanfa yn lled fawr, a'r gynnulleidfa yn gyffredin oeddynt o'r sefydliadau yn eithafion y Deau hyd eithafion y Gogledd, ac yn gyffredin, dygasant lawer o ddegwm o ymenyn, caws, a phethau ereill, mewn atebiad i'm galwad arnynt yn y Gymmanfa o'r blaen. Ni amlygwyd gwell teimladau, na gwell ysbryd, er pan y daethom rhwng y mynyddau. Ni pharhauodd y Gymmanfa ond dau-ddydd, o herwydd gwresawgrwydd y tymmor, ac am nad oedd y Tabernacl yn hanner digon eang i'w cynnwys. Fe dreuliwyd yr amser gan mwyaf mewn addysgu, pregethu, ac adrodd hynodion Joseph, a'i ymddygiadau hyd ei farwolaeth. Ni threfnwyd nemawr fusnes heblaw penodi deg neu bymtheg o bersonau i fyned ar genadiaethau

Cyn belled ag y perthyna i'n teulu ni, mwynhant iechyd ac ysbryd da, a digon i fwyta, yfed, a gwisgo.

Byddwch sier ein bod yn eich cofio yn ein gweddiau, ynghyd a'r holl ffyddloniaid yn mhlith pob cenedl, ac ar Ynysoedd y Mor; ac ymlawenhawn yn fawr yn eich ffyddlondeb chwi, a'r brodyr a aethant gyda chwi, ynghyd a'r rhai a'ch efelychant, y dangoswch eich cymmeradwyaeth fel dynion Duw, yn eich

dyfodiad i mewn a'ch mynediad allan, pan y gorphwysoch ar phan y cyfodoch, canys bydd hyn yn anrhydedd i'ch tad yn Israel, ac i'ch arweinyddion; canys ni adawsant hwy erioed yr un ystaen o'u hol, ac na ato Duw y gwna ein plant, na neb o'n hanwyl frodyr hyny. Anrhydeddwch eich Offeiriadaeth, a mawrygwch eich aelodiaeth, a'ch galwedigaeth yn Eglwys Iesu Grist, Saint y Dyddiau Diweddaf, ac yn nheyrnas ein Duw ni; a'r Offeiriadaeth a'r aelodiaeth yna a'ch anrhydedda. a'ch dyrchafa, ac a'ch gwna yn nerthol yn nhŷ Israel, ac yn ffynnonell cysur i'w bobl Ef. Byddwch ostyngedig, gweddigar, cymmwynasgar, cariadlawn, a thrugarog, a chewch drugaredd; a'r hyn a ddywedaf wrthych chwi, a ddywedaf hefyd wrth holl Henuriaid Israel yn yr hen fyd, a phawb a gredant eich geiriau, a'u heiddo; canys yr Arglwydd Dduw a'ch bendithia; a phawb a wnelont ei ewyllys Ef, a gadwant ei orchymynion, ac a wrandawant ar ei lais, a allant ymddibynu fod ei angylion o'u blaen ac o'u hol hwynt, ac na adewir hwynt yn y byd hwn, nac yn y byd a ddaw, ac ni fydd eisieu ar eu teuluoedd, eithr cysurir hwy nos a dydd. Yr Arglwydd a ddanfona ei angylion i wylied drostynt, cyhyd ag y gwnelont ei ewyllys, cyhoeddi ei air, a ‡thystiolaethu dros ei enw i genedloedd y ddaear am y pethau hyny a wyddant yn sier, a weisant, a drafodasant, a deimlasant, ac a brofasant drostynt eu hunain.

Bu ein tymmor yn oeraidd a gwlawiog, gydag ychydig eira a chawod o genllusg, yr hon a niweidodd lawer o lafur—gorlifodd y gwlaw a lifodd o'r mynyddau amryw erddi, a gwnaeth gryn niwed iddynt yn y Ddinas; boddwyd dau o blant ag oeddynt yn bugeilio, gan y llifogydd a ruthrasant allan o Bute Kanyon—dygwyddodd yr oll o fewn un awr. Ni wybuwyd y fath storom oddiar ein dyfodiad i'r mynyddau. Ni fu aber y Ddinas mor arw arnom y tymmor hwn ag o'r blaen; er hyny yr oedd yn arw ar ddydd y storom, sef dydd Mawrth, Mehefin 13, am hanner awr wedi tri y prydnawn.

Mewn perthynas i'r cnydau yn y wlad hon, y mae gwell argoelion am wenith a llafur, cloron a gwyrddlysiau ereill; y maent yn frasach nag yn un flwyddyn flaenorol. Y mae yn debyg y torrir peth gwenith mewn ystod pythefnos. Ni ragorwyd erioed ar y borfa sydd yn y dyffrynoedd ac ar y mynyddau.

Edrycha yr anifeiliaid yn dda, ac y mae pob peth yn ffynu. Y mae adeiladau yn myned rhag eu blaen yn llawer cyflymach nag yu unrhyw flwyddyn oddiar pan y daethom i'r mynyddau. Adeiladwyd amryw ystordai newydd, un gan yr Henuriad Hyde, ac amryw gan ereill. * * *

Gorphenir mur amgauol y Deml yn mhen tair wythnos neu ûs. oddeithr y pyrth. Dechreuasom ar yr 16eg o Fehefin i osod sylfaen y Deml, a gwnai i'ch calonau lanu o lawenydd, a'ch tafodau i floeddio, wrth weled y creigiau anferth yn treiglo i'w lle eu hun, gan fod genym 40 o weddeuau yn llusgo cerrig mawrion, ac yn cludo bob i ddau lwyth y dydd. Ymddengys fel pe yr ymsymmudai pob peth gyda grym daublyg i'r hyn a wybuwyd erioed yma; y mae pob dyn yn ddiwyd, ac yn teimlo ei gyfrifoldeb yn fwy nag yn un amser blaenorol. Yr ydym yn cael amser da, heb un segur-ddyn yn ein heolydd. ac yn y nos ni chlywir braidd gyfarthiad ci, ac y mae pob peth yn deg, sefydledig, a thawel, a gweddiau dyddiol y Saint dros lwyddiant achos Duw, a lleshâd ei weision ar wyneb yr holl ddaear.

Y mae iechyd ŷ Llywydd Young yn dda, ac y mae mewn ysbryd rhagorol, ynghyd a'i Gynghorwyr, y Deuddeg, a'r holl Offeiriadaeth. * * * *

Mae y Llywyddion Young, Grant, a minnau yn bwriadu myned i enau cwm Provo, a gwneyd heol newydd oddiyno i Fort Supply, ar hyd yr hon y tramwya ein hymfudiad presennol, yr hon a'u harweinia yn nes i ganol y wlad, lle cânt ddigon o borfa i'w hanifeiliaid, a lle y medrant ymledaenu i'r gogledd neu'r deau yn well.

Mae y Llyn Halen a'r Iorddonen yn uchel anarferol yn bresennol.

Yr ydym wedi parotoi i gadw gwyl ar y 4ydd o Orphenaf, nid dros y genedl hon, eithr i adgoffa am, ac i anrhydeddu ein cyn-deidau, y rhai a ennillasant annibynrwydd, i gyflawni y dybenion eu bwriadwyd gan yr Hollalluog.

Dywedwch wrth yr holl frodyr fod eu teuluoedd mewn iechyd ac ysbryd da. Gwelais y mwyafrif o honynt, a chlywais oddiwrth ereill. Cofiwch fi yn fwyn a charedig at yr holl gwmpeini, a'r holl Saint, yn frodyr a chwiorydd yn yr hen

Loegr; a dywedaf Duw a'ch bendithio oll, ynghyd a'r holl Saint yn y wlad yna. a thrwy y byd.

Ydwyf, fel arferol,

Eich caredig dad yn Nghrist,

HEBER C. KIMBALL.

---

## DESGRIFIAD O'R DEML.

Dinas y Llyn Halen Mawr, Gorph. 31, 1854.

ANWYL FRAWD FRANKLIN,—Yr oedd gwyl y 24ain o Orphenaf yn olygfa ardderchog anarferol; o'm rhan i, fy opiniwn milwraidd i yw, *na chafwyd erioed* dyrfa fwy golygus, llawen, a threfnus o fechgyn a merched, yr hon oedd agos a llenwi y Tabernacl ei hunan. Ar y diwedd cydsyniodd pawb yn unfrydol i adeiladu Tabernacl ddigon eang i gynnwys deuddeg mil o bobl.

Mae y tywydd wedi bod yn lled wresog, ac y mae y cynhauaf yn agoshau yn gyflym. Yr oedd y cnydau yn deg iawn yn sefydliadau Cedrwydd a Pharowan.

Gan ystyried y byddai desgrifiad byr o faintioli y Deml yn gymmeradwy, aethum i Swyddfa y Portreadydd, a chefais y brasluniad a ganlyn:—

Sylfaen y Deml sydd 193 troedfedd, o ddwyrain i orllewin drwy ganol yr adeilad, yn cynnwys sylfaen y muriau; 126 o'r gogledd i'r deau trwy ganol y tyrau, yn cynnwys sylfaen y muriau.

Mae yr ystafell isaf yn 119 troedfedd wrth 79, y mur yn yr ochrau gogleddol a deheuol yn wyth troedfedd o drwch, wedi eu cyfnerthu â nifer o golofnau; y ffenestri yn hanner cylch. Yn y canol gosodir y bedyddfan yr hon a fydd yn 58 o droedfeddi ysgwar, gyda Swyddfäau i'r Ysgrifenwyr, ac ystafelloedd cyfaddas i wisgo. Trwch y sylfaen-fur yn y gwaelod fydd 16 troedfedd, yn culhau yn raddol o bob ochr hyd 8 troedfedd ar gyfer y llawr isaf, 16 troedfedd islaw, ac 8 troedfedd yn uwch na gwyneb y ddaear, yr hyn a wna uchder y mur meini o'r gwaelod yn 24 troedfedd.

Mae yr ail lawr yn 120 ei hyd wrth 80 yn y gwagder, yn

fwauog uwchben, a'i uchder yn y canol yn 35 troedfedd, y waliau yn 7 troedfedd eu trwch, a dwy restr o Swyddfäau ar yr ochr ogleddol a deheuol, 16 o nifer ar ganol y nenfwd, ac wedi eu goleuo drwy ffenestri hanner cylchog.

Mae y trydydd lawr yn 121 troedfedd ei hyd, 81 ei led, 35 ei uchder, y waliau yn 6 troedfedd eu trwch, a 16 o Swyddfäau ar ganol y nenfwd.

Codir y tô yn 8 troedfedd yn y canol, a gorchuddir ef â mettel.

Yn gerfiedig ar golofnau y llawr isaf mae darlun o'r ddaear, ac yn cyfnewid ei olygfaau ddechreu yn y gongl dde-ddwyreiniol. Ar y pen uchaf i golofnau yr ystafell gyntaf, ac wedi ei cherfio mewn cerrig, cynnrychiolir y lloer yn ei gwahanol ymddangosiadau. Wedi ei gerfio mewn cerrig ar derfyniad colofnau yr ail lawr, gwelir yr haul yn ei holl ymddangosiadau, ac ar bob bonsang ar hyd ystlysau yr adeilad mae y blaned Sadwrn, ei modrwyau a'u lleuadau yn gerfiedig.

Esgynir i ben y pedwar tŵr ar hyd grisiau a droellant o amgylch colofn garreg yn 40 troedfedd o drwch; cynnelir pob tŵr gan bedair colofn wyth-onglog, y rhai a goronir â phinaclau; cefelycha coronau colofnau y tyrau gymylau, oddiwrth y rhai tardda adlewyrchiadau. Ar dŵr y gongl orllewinol cerfir yr Arth Fawr yn cyfeirio at, neu mor agos y gellir at y Seren begynol. Coronir y tyrau â phinaclau gyda mur-ganllawiau yn ddosparthiadau, ac yn terfynu yn dŵr cogyrnog; dysga cerfiadau pob carreg wers foesol, a'r oll yn cyfarwyddo at y byd nefol.

Addurnir y muriau ar yr ochr ogleddol â 9 o golofnau a 9 ar yr ochr ddeheuol, ac addurnir y tyrau â 32 o golofnau; bydd pob colofn ochrog yn 100 troedfedd yn uwch na gwaelod ei bonsang.

Eisoes tiriwyd 16 troedfedd o'r sylfaen, ac y mae cannoedd o feini anferth wedi eu sylfaenu: greuan cymmysgedig â chymrwd yw y ddaear o dan y sylfaen, ac yn agos mor galed â chreigiau y mynyddoedd, a'r hyn a'i gwna yn gyfartal braidd â'i seilio ar y graig.

O dan arolygiaeth y fath ddyn cywrain, deallus, ysbrydoledig, ac o'r fath gynneddfau anghymharol o odidog ag yw y Llywydd Young, ynghyd a chynnorthwy yr Henuriad Truman

O. Angel, un o brif gywreinrwyr cefyddydol adnabyddus y byd, o dan gyfarwyddyd goleuni ysbrydoliaeth, dysgwylir y bydd y Deml fynyddig hon yn enghraifft ardderchocaf o gywreinrwydd celfyddyd o fewn y byd, ac fel y cyfryw a ddena sylw y byd dysgedig fel enghraifft o "*drefnusrwydd* celfyddydawl Mormonaidd;" ac i'r Saint bydd yn ganolbwynt eu hymgasglfa, lle y mwynhant ordinhadau yr Offeiriadaeth, a'u bedyddiadau dros eu meirw; hyd y nod y meddylddrych am yr hyn egwyddor ogoneddus a braint, a achosa i galon pob Sant i lamu o lawenydd, am ei fod yn byw ar y ddaear yn y dydd ag yr adferodd Duw ordinhadau ac awdurdod ei deyrnas i blant dynion.

Mae ein heolydd wedi bod er's rhai dyddiau yn llawn o bedrolfeni ac anifeiliaid Ymfudwyr—ambell ddydd gynnifer â chwech gwersyll, er hyny dywedir i'r brif ymfudiaeth fyned heibio ar hyd y ffordd ogleddol. Tiriodd wyth o Farsiandwyr a'u nwyfau, etto nid yw y brif osgordd wedi cyrhaedd.

Ymwelodd y ceiliog y rhedyn â rhai sefydliadau yn lliosog arw, a chwynir rhag eu difrodaeth o'r cnydau diweddar a'r gerddi.

Tiriodd y Brawd Isaac C. Haight yma o Parowan. Dywed fod waliau y ffwrnes haiarn newydd wedi cyrhaedd yr uchder o 16 troedfedd.

Yr eiddoch yn ffyddlon,

GEORGE A. SMITH.

---

## CYMMANFA DDWYREINIOL MORGANWG,

A GYNNALIWYD yn Neuâdd y Llew Gwŷn, Merthyr, Sul, Hydref 1. Yr oedd yn bresennol Lywyddiaeth Cymru, yr Henuriaid C. G. Webb, a McAllister o Ddyffryn y Mynyddoedd ar ymweliad o Loegr, ynghyd ag amryw Lywyddion Cynnadleddau Cymreig, a llu o ddieithriaid.

Wedi dechreu fel arferol drwy ganu a gweddio, gwnaeth y Llywydd Robert Evans sylwadau yn debyg fel y canlyn:

Teimlaf i'ch hannerch fel ag y gwnaeth Paul i'r Corinithiaid gynt:—"Hefyd, yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, yr efengyl a bregethais i chwi, yr hon hefyd a dderbyniasoch, ac yn yr hon yr ydych yn sefyll; trwy yr hon y'ch cedwir hefyd, o

ydych yn dal yn eich cof â pha ymadrodd yr efengylais i chwi," &c.

Gwyr y Saint iddynt dderbyn efengyl Iesu Grist, a'u bod yn sefyll ynddi, ac eu cedwir hwynt trwyddi; ond y mae os yn hod; ar ammodau yn unig eich cedwir; os ydych yn dal yn eich cof. Pan orlwythir y cof â gormod o wahanol bethau, rhaid i'r naill neu'r llall fyned dros gof. Ni ddylai y Saint gadw malais na drygioni yn eu cof, ynte, rhag iddynt anghofio â pha ymadrodd yr efengylwyd iddynt, a methu cael eu cadw, gan yr ymddibyna eu cadwedigaeth ar gofio. "Y mae fy ngbof yn ddrwg iawn, nis gallaf gofio y cwbl!" Ni chedwir mo honot ynte. Pa un ai dy gof sydd yn gwneyd cam o honot ti, neu tydi o'th gof? Dylid ysgrifenu yn y cof yr ymadrodd a efengylir, fel na ddileir mo hono byth, ac nid ei daflu i fewn fel gwair o bigau. Llyfr yw y cof lle yr ysgrifenir dygwyddiadau, ac eu gwelir wed'yn. "Mi a ysgrifenaf er," neu "a ddilëaf o lyfr fy nghoffawdwriaeth," meddai Duw. "Mi a ysgrifenaf ar lechau eu calonau hwynt." Ysgrifener ar lechau ein calonau ninnau heddyw yr ymadrodd a efengylir, gan i ni ddyfod yma i glywed, clywed er cofio, a chofio er gweithredu, a gweithredu fel y gweithiom allan ein hiachawdwriaeth; ac ni weithredwn heb gofio, o ganlyniad, os ydych yn dal yn eich cof eich cedwir yn unig.

Cynnrychiolwyd y Cangenau, y rhai oedd ar gynnydd yn gyffredinol, y rhai llesg a difater yn ymfywhau, a theimlo eu cyfrifoldeb, ac ymdrech cyffredinol i bregethu, traethodu, a bedyddio. Bedyddiwyd rhai ganol nos yn Georgetown, a bedyddiwyd amryw yn nghylchoedd Pontypridd, lle y dosparthwyd llawer o draethodau, gerllaw yr hwn le, sefydlwyd Cangen.

Penderfynant adeiladu Capel yn Nghangen Cwmnedd! Talwyd £9 15s o ddyled y Gynnadledd yn Nghangen Caerdyf, a phrynwyd a dosparthwyd gwerth £5 o draethodau gan eu Cymdeithas, a choronodd yr Arglwydd eu llafur â llwyddiant; arllwysodd o'i ffynnonell ddihysbydd ei ddoniau yn helaeth i'w plith, er cadarnhad i'w credinwyr, llawenydd i'w calonau, a gogoniant i Dduw.

Amlygwyd drwy gynnrychioliad Llywyddion y Cangenau fod undeb a sel frwdfrydig trwy yr holl Gynnadledd, hyn hefyd a brofid drwy weithredoedd cyferbyniol, y rhai a darddasant trwy yr holl le, fel egin gwanwyn neu flodeu haf, fel blaenffrwyth yr

hâd da a hauwyd drwy ymdrechiadau diflino y Llywyddiaeth flaenorol, a'r rhai a ddwfrheir ac a faethir mor dadol gan y Llywiaeth olynol hyd yn hyn.

Y Llywydd Evans a sylwodd fod rhyw ragoriaeth yn mhob Cangen, ac am i'r naill Gangen ddewis rhagoriaethau y llall i lanw ei diffygiadau ei hun.

WILLIAM LEWIS, *Ysgrifenydd.*

*(I'w barhau.)*

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

DYDD SADWRN, TACHWEDD, 7, 1854.

YMFUDIAETH.—Dysgwylia y Saint drwy Gymru am y tymmor ymfudol presennol gyda dyddordeb mawr. Yn gyferbyniol i gyflymdra ehediad y tymmorau ymfudol heibio y naill flwyddyn ar ol y llall y prysur gyflyma cerddediad y cwmwl beichiogaidd o uthr ffrewyllau Duw drwy awyrgylch gymmysglyd anufyddion i'w genadwri, bygwthion brawychaidd pa rai sydd yn amlygu awydd cynnyddol "plant y goleuni" i ymgasglu "i'w hystafelloedd am enyd fechan hyd onid elo y llid a'r aflwydd heibio." Yr ymholiad mawr ei bwys gyda y mwyafrif yw, "Pa bryd y caf fi fyned adref?" Edrycha llawer o Philosophyddion a dysgedigion y gwledydd, y rhai a frawychir gan rwysg heintiau a chlefydau, terfysgiadau gwledydd a sigledig goronau, tua'r cyfandir gorllewinol am noddfa rhag y drygfyd a ofnant; eithr dyben tra uwch a mwy mawreddog a sugna fryd a serch y Saint i adael gwlad eu tadau—dim llai nag ufydd-dod i alwad eu Tad i ymgasglu adref gyda ei ffyddlon deulu i ymbarotoi i gydfwynhau gwleddoedd a danteithion eneidiol "Swper neithior yr Oen."

Nid yn ofer yn ddiau y dysgwylia llawer wrth haelioni eu perthynasau a'u cyfeillion yn Seion am gludiad tuag adref yn nghôl y Gymdeithas Ymfudol Barhaus; mae annogaethau

mawr a mynych ein Hathrawon yn Seion i bawb gofio am eu cyfeillion sydd etto mewn caethiwed, drwy eu cyfraniadau haelionus i'r Gymdeithas yno, ynghyd a'u holl ofal tadol dros wasgaredigion Seion yn cymbell mewn uwch llef nâ swn geiriau i ymgalonogi, nad ydynt yn anghof,—i barhau i ddysgwyl,—fod y waredigaeth yn dyfnesu, ac i ymbarotoi erbyn y dydd,—y dedwydd ddydd a hir ddysgwyliwyd; mae yn nes, yn nesâu, ydyw i gannoedd os nad i filoedd ond odid eleni, y mae eisoes wedi dyfod!

O holl hynodion rhagluniaethol eu Llywyddion dros y Saint nid y lleiaf dyddorol yw yr ymfudiad presennol i'r Taleithiau Unol: amlwg yw y gall llaweroedd fyned hyd yno nad allant fyned yn mhellach, ac na allant mewn blynyddau trwy gynildeb ac ymroad yma, gasglu digon i ymfudo i Seion, ac nid llai hysbys yw y gellir, gyda diwydrwydd, ac yn neillduol gyda chynnorthwy yr arweinyddion medrus a anfonwyd o Seion i'r ymgasgl-fanau newyddion, ennill digon i'w cludo y gweddill o'u ffordd i Seion mewn llai o amser nag y gallent pe yr arosent yn y wlad hon, yr hyn ffaith, ynghyd a'r ystyriaeth o werthfawrawgrwydd iawn gyfarwyddyd a'r mwynhâd o freintiau crefyddol yn y cyfamser, oll a arddangosant ddefnyddioldeb y mesurau newyddion hyn i'r rhai ydynt yn y goleuni. Y syllddrem hyn arnynt a barodd i'r llygad-craff yn awyddus ymholi "Pa bryd yr egyr y pyrth ymfudawl i'r Taleithiau? Pa bryd y daw y galwad?" Hawdd y gallwn ddirnad y llawenydd a lonai galonau y cyfryw pan yn darllen "Hysbysiad" ein Llywydd Richards yn y rhifyn blaenorol o'r UDGORN, wrth yr hwn deallant fod yr alwad wedi dyfod unwaith etto. "I'ch pebyll chwi o Israel,"—fod y llong a'u cluda tua eu hymgyrch fanau yn barod, ïe, yn *aros* am attebiad i'r gofyniad "Pwy sydd yn barod i adael ei wlad,—pwy a â?" Rhodder ei aden i'r meddwl am eiliad i ragweled yr olygfa a wel llawer ond odid mewn byr ddyddiau—un awyr lâs uwch ben a byd o ddwfr o amgylch; wrth lwybro'r deck dan oleu'r brith sêr a wyliant dynghed eu gwlad yn yr eigion dwyreiniol—pan arall beth o fwy pwys ni cheir i borthi y meddwl, ai wedi'r oll a dd'wed cydwybod "yr hyn oll a allais mi a'i gwnaethym," ynte ai sibrwd a wna fod ar ol rai a ofnir eu cyfarfod ar ddydd a man nodedig? I'r doeth nid ofer yr awgrymiad. I'r ystyriol brawychus yw yr ystyriaeth

—y diwyd yn unig a ymgysura. Wele yr alwad wedi dyfod! Pwy sydd barod i gychwyn? Nid yn unig pwy a fedd arian i dalu eu cludiad, ac nid pwy sydd awyddus i fyned yw'r gofyniad; mae chwaneg nâ hyny o barotoadau yn ofynol er ymfudo yn foddhaol i'r Hwn sydd yn ein galw! Cyn y dichon fod y Saint yn "arwyddion a rhyfeddodau" effeithiol i'r byd anghrediniol yn y dyddiau diweddaf, dylent fod yn lân oddiwrth eu gwaed drwy fod wedi gwneuthur cyfiawnder â hwynt, nid yn unig yn eu masnachau, eithr gwneuthur cyfiawnder â'u hencidiau anfarwol drwy eu rhybuddio yn garedig, yn sobr ac effeithiol o ddwyfoldeb eu crefydd, drwy eu tystiolaethau dyfrifol a'u hesiamplau duwiolfrydig: a'r neb a ymfuda heb wneuthur y parotoadau hyny, diau yr ymadawa cyn bod yn barod; ac fel y coda yr afalau gleision a yscythra y corwynt oddiar y coed cyn eu hamser, y dincod ar ddannedd a'u bwytao y coda y rhai hyn ddincod ar ddannedd hyd y nod drigolion Seion, ac ni archwaetha eu cylla eu hunain yr ymborth dwyfol a frashâ eneidiau y rhai pur o galon. Hunan-les a gymhellio bawb, yntê, i fod yn *barod* cyn ymfudo; a'r neb a ymfuda gan adael gwarth ar achos y Gwaredwr ar ei ol a ddelir yn gyfrifol am y drwg a wna. Efallai na'l esgusodir y Llywyddion a orgeulusant edrych i mewn i hyn, gymmaint ag a feddyliant chwaith.

Yn enwedigol, ystyrir y sawl sydd heb dalu ei ddyledion eglwysig, megys am lyfrau, dyled ei Gynnadledd, y Deml, y Drysorfa Ymfudol Barhaus, &c., yn anmharod i ymfudo! Ai rhesymol yw i'r rhai a ddysgwyliant fod yn golofnau yn yr eglwys yn Seion yspeilio yr eglwys yma, neu'r Swyddfäau cyn cychwyn! onid yr un eglwys yw hi yno, a'r un Duw a'u dalia yn gyfrifol yno ac yma? Nid rhesymol chwaith yw i'r cyfoethogion ymfudol ddysgwyl i'r gweddill ag ydynt rhy dlawd i ymfudo i dalu eu dyledion hwynt! Ac felly eglur yw nad *parod* i fyned i'r "wlad lle y mae cyfiawnder yn cartrefu" yw y sawl sydd heb wneuthur y *darpariadau* hyn.

Gosoda 'Hysbysiad' y Llywydd Richards gyfrifoldeb mawr ar y Llywyddion yn etholiad yr ymfudwyr yn ol y frawddeg ganlynol:—"Y rhai y bernwch chwi wrth eu *hamgylchiadau* y dylent fyned." Nid arian yn unig a gynnwysir yn y gair 'amgylchiadau, yma, eithr awgryma hefyd eu cyssylltiad â gwaith

yr Arglwydd, a chrefwn sylw manwl ein brodyr at lesiant a llwyddiant y gwaith dwyfol yn eu detholiad o'r mudolion eleni; canys nid yw yr alwad yn dynodi cymmaint brys etto, nac ar ffo fel ag i niweidio yr eglwys yma.

Craffer mai i'r Taleithiau Unol y mae yr ymfudiad hwn—i'r "llawr dyrnu" sydd ar y ffordd i Seion; i'r fan lle y mae gwyntyllau cryfach, eithr hyderir na chwythir yn ol atom ni namyn yr ûs! Ymbarotoed yr hiraethog rai a fwriadant ymfudo i Seion y tro nesaf, erbyn dechreu y flwyddyn, canys gelwir yn brydlon arnynt hwythau; a gwyn fyd yr hwn a geir yn barotach nâ'r morwynion ffol hyny, i fyned ar ol yr hir ddysgwyl.

Yn ol y sŵn a glywir nid ammheuwn na cheir llonaid llong o Gymru braidd. Mae enwau a thaliadau rhai eisoes wedi ein cyrhaedd, ac nid oes amser maith i'r lleill oedi.

Hyderwn y bydd pob un mor ystyriol o'n gwasanaeth ninnau ag anfon *Postage Stamps* o leiaf, y rhai amgen, a ânt a mwy nag a allwn ganiatâu o arian o'n llogell; costia i ni tua chwech cheiniog i anfon arian pob un i Liverpool, ynghyd a'r holl lythyrau ereill iddynt. *Craffer!*

---

Newyddion Tramor.—*Penrhyn Gobaith Da.*—Ysgrifena yr Henuriad J. Haven oddiyno, Gorph. 24, ei fod wedi bedyddio tri yn ddiweddar, ac addduneda chwaneg. Bedyddiodd y brawd Walker naw yn Fort Beaufort yn ddiweddar. Llafurial y brawd Smith yn Fort Elizabeth, a chafodd tua 500 o wrandawyr y tro cyntaf, y rhai a derfysgasant y cwrdd trwy wban a lluchio cerryg, &c., eithr un o Ynadon synwyrgall y dref a fwgythiodd gospi y sawl a'i haflonyddai, ac er hyny caiff wrandawiad parchus gan bob gradd yn y fan, ac wedi bedyddio tri, a llafuriai brawd brodorol o'r enw John Wesley gydag ef.

*Twrci.*—Ysgrifena Llywydd y Gangen filwraidd hon o fewn y rhyfel eu bod hwy oll yn mawr lawenhau yn mreintiau yr efengyl, tra yn cadw eu cyfarfodydd yn y coedwigoedd cyfleusynol i'r gwersyll, a bedyddiasai chwech er pan ddaethent i'r fan hono. Eu rhifedi presennol yw 20, 5 Henuriad, 4 Offeiriad, 1 Athraw. Addawai ereill gael eu bedyddio pan symmudent i fan y caffent ddwfr i hyny. Cwynai fod y Cholera wedi ac yn gwneuthur anrhaith fawr yn mhlith y byddinoedd Prydeinig,

ond nid oedd un o'r Saint yn ysglyfaeth iddo. Mae galwad mawr am draethodau yn egluro Mormoniaeth, a gwrthbrofion i'r camgyhuddiadau arni, y rhai ydynt fel y pla yno fel yn mhob rhan arall o'r byd, yn cael eu chwalu gan y pla gludwyr Revrendaidd ag sydd yn dinystrio ein byd â'u hanadl, fel gwenwynig chwâ y 'Pren Upas' marwol.

---

Newyddion o Utah.—Mae y genadiaeth Indiaidd ddeheuol o dan arolygiaeth P. P. Pratt yn llwyddiannus, yr Indiaid yn heddychol, ac yn teimlo mwy o awydd i weithio, eithr yn bur brin o offerynau a nwyfau amaethyddol.

---

O'r Gwersyll.—Ysgrifena Wm. Empy ei fod ef a'i osgordd yn iach a chysurus ar Kaw River yn Awst y 4ydd, hyd yma teimlasant fwy rhwyddineb nag arferol. Mae yn debyg mai hwnw oedd y gwersyll olaf. Ysgrifena Milo Andrus o St. Louis fod ein diweddar Lywydd S. W. Richards wedi cychwyn ar y *Plains*, Awst 4, ac nad oedd nemawr neu ddim afiechyd yn mhlith y Saint. Yr oedd gwersyll y Llywydd Eldrege o fewn 18 milltir i Fort Kearny, Gorphenaf 24ain. Y Saint oll yn iach ac yn teithio o 15 i 18 milltir y dydd. Bu ymrafael rhwng yr Indiaid a'r ymfudwyr i California, eithr buont yn hollol heddychol tuag at y Saint.

---

## CWYMP LUSIFFER.

I wir berwyl y cynghor boreu
A gyhoeddwyd, bwriadwyd ei brydiau,
A'i fan a wnelid drwy'r nef yn oleu,
Ac yn y lle wed'yn caed cynlluniadau;
Ac wele'r lon yn eglurhau—y modd
A oruwch benododd i achub eneidiau.

A Luciffer yn uchel ei lais ffronochodd,
A gwyn danawl diau'r ymgyndynodd,
At yr Eneiniog ei natur enynodd,
Ac aruthr ei falais y gwrthryfelodd,
'N elyn fe aeth, creulon ei fodd—i'w frad-waith
Llu ar unwaith a dwyll arweiniodd.

A rhif ei osgordd, hwy a arf wisgid,
A mynai ryfel mi wn er ei ofid ;
A y rhan arall, y rhai ni wŷrid,
I wall o'r eiddo o'u lle a'u rhyddid ;
A mintai lon er maint ei lid—a'i gorfu
'i fwrw gan hyny o'i fro gynhenid.

r hyny mae'n dra anhawdd—newidio
Hynodion ei ansawdd,
Addfwyn ei hwyl ni ddaw'n hawdd,
Er ei guro ni ragorawdd.

N oes y byd enbyd hwn,—ha ! ei ddirwyllt
Gynddaredd a welwn ;
Dihoenai y byd dan ei bwn,
A chan ei adwyth ocheneidiwn.

O'u holl allu cwymp ellyll cas,
I lawn wynias le yn annwn ;
Ha! awdwr y freg aed o'r fro,
I'w gadwyno ê gydunwn.

Arfau y nef fu'n 'i orfod—er gwaetha'r
Gethern a'i dihirod ;
Y'rhai'n fyth sydd a'u rhan i fod
Oll yn deulu y llyn diwaelod.

Prysured, dened y dydd—yw gaffael
I gyffion tragywydd ;
O ddal ei fath hawdd eilio fydd
I'r gain Awen ar gân newydd.

DAVID ROBERTS.

---

## Y RHYFEL FYD, &c.

Ar y 12fed o'r mis diweddaf, yr oedd y llynges Frydeinig a Frengaeg yn gwarchae Revel, ac yn aros tiriad y Llyngesydd Napier i'w barwain yn yr ymosodiad ar y lle yr hwn a anddiffynid gan 70,000 o Rwsiaid ar draed, ac 8,000 o wyr meirch. Annerchai Nicholas ei hun ei fyddinoedd, gan eu hannog i wrthsefyll tiriad eu gelynion hyd farw.

Ar y 27ain cyrhaeddasai y Tywysog Menschikoff a'i fyddin-

oedd hyd Burlink ar yr afon Alma, lle yr ymbarotoai i groesawu ei elyniou; ar yr ochr arall i'r afon, ac o fewn taith dau-ddydd, laniasai tua 60,000 o Saeson a Francod, a dysgwylid ychwanegiad o 14,000 yn fuan; meddai y byddinoedd unol tua 500 o faes fagnelau, a thua 1800 o geffylau i w llusgo. Fel hyn teithiai y Brytaniaid, y Francod a'r Twrciaid yn dair byddin gyfochrog i'r ymosodiad ar Sebastopol ar yr 20fed o'r mis diweddaf, a deallir drwy y newyddion diweddaraf fod Sebastopol wedi ei chymmeryd ar ol brwydr boeth, a cholled o tua 2800 o fywydau y byddinoedd unol, ac ni wyddys pa nifer a glwyfwyd o'r naill ochr na'r llall, ond hawdd y gellir dirnad nad yw y nifer yn fach, ac nid bach yw y fuddugoliaeth a ennillwyd. Mae llawer o ddychymmygu pa effeithiau a ddwg y galanastra hwn ar Ymerawdwr Rwsia, eithr hawdd credu fod ei ben rhy galed i ganfod ei leshad etto. Ceir manylrwydd dyddorol yn fuan am y frwydr hon, a'i chanlyniadau echrydus.

Mae y chwyldroad yn cynnyddu yn barhaus yn China, a dinas fawr Canton o dan warchae ganddynt, a dysgwyliad dyddiol o feddiant o honi.

Mae y Cholera ar ei gynnydd gan mwyaf drwy y byd, gwna y fflangell angeuol hon fwy rhwygiad yn ein byddinoedd yn Varna ac ar faesydd y rhyfel, nag a wna arfau ein gelynion; ysgubodd amryw filoedd ymaith heb nemawr rybudd ar ei ddyfodiad i'w plith. Hysbysir ei fod wedi lladd 88,626 o'r Francod, ac yn gwaeddi "Moes, moes" etto! Mae efe eisoes wedi ysgubo 8953 o bobl ein prif ddinas, ac heb ei ddigoni ar hyny! Yn nhref Messina, yn môr y canoldir, lladdodd 12,000 o'r trigolion o boblogaeth o 50,000; dychrynodd y gweddill a allasent i ffoi o'r dref,—oau eu siopiau, a gadael y tylodion i drengu o eisieu. Gorfuwyd i gludo y cyrff yn bentyrau allan o'r dref, a'u llosgi o ddiffyg lle i'w claddu, hyd nes methwyd cael neb i gyflawni y caled-waith hwnw. Rhy faith fyddai olrhain brenin y dychryniadau hwn yn ei orymdaith angeuol, na rhifo y miloedd a sarna o drigolion pob gwlad o dan ei garnau adamantaidd i'r byd arall—ei drigle ei hun; ond gwaith galarus yw gorfod cyfaddef ei fuddugoliaethau dychrynllyd ar ein cyd-genedl yn ngwahanol drefydd ein gwlad ein hunain. Ychydig ddyddiau yn ol clywsom y claddwr cyffredinol yn Nghaerdyf, pan yn dyfod allan o dŷ, yn ateb cyfaill fod pedwar yn gorwedd yn feirw o hono yno, yr olaf o 14 mewn

dau ddrws cyfunol mewn wythnos, ac yn cynnyddu er hyny. Un dydd yr wythnos hon pan yn sefyll gyda chyfaill ar heol yn Merthyr am ychydig amser, rhifasom ddim llai na naw o angladdau, a mawr alar trwy y lle. Dywedir ei fod yn waeth yn Dowlais. Eu Tad a waredo ei blant o'i grafangau.

---

## LLYTHYR Y LLYWYDD JEREMY.

*Brechfa, Awst* 28, 1854.

Anwyl Lywydd Jones,—Derbyniais eich caredig lythyr nos Sadwrn diweddaf, a mawr y llawenydd a achosodd i mi wrth ddarllen ei gynnwysiad. Da iawn genyf fod y gelyn wedi cael ei orchfygu unwaith etto, ac y mae hyny yn dystiolaeth adnewyddol i mi eich bod yn cael eich arwain gan Ysbryd y gwirionedd, ac wedi cael eich arwain ganddo yn eich ymddygiad tuag at Cora, Dathan, ac Abiram. Gobeithiaf y bydd y tro a'r amgylchiad mynedol yn rhybudd i ereill i beidio codi gwrthryfel yn erbyn y diniwed ac Eneiniog yr Arglwydd.

Mae yn gysur genyf fy mod wedi gwneuthur fy ngoreu genych, ac wedi cyd-weled â chwi yn mhob peth, a'm penderfyniad diysgog yw ymdrechu cario eich cynghorion i weithrediad, yn ol y gallu a'r ddoethineb a rodda yr Arglwydd i mi.

Bydd "Annerchiad" y Llywydd D. Spencer yn yr Udgorn o fawr les yn ddiau. O mor hyfryd yw ein bod oll yn cael ein harwain gan yr un Ysbryd. Gobeithiaf y gwna y gwrthryfelwyr edifarhau, a llwyr ffieiddio eu ffolineb mynedol, fel y caffont faddeuant Duw, a'r rhai y pechasant i'w herbyn.

Rhoddaf ychydig o hanes ein *Camp Meeting* yn Brechfa ddoe. Bu Cynghor genym yn y boreu yn nhŷ Dafydd fy mrawd. Yr oedd y Llywydd Thomas Jones a'i Gynghorwyr yn bresennol, a Llywyddion y Cangenau oll ond Llywydd St. Clears. Yr oedd yr Henuriad Isaac Jones yma hefyd, ac amryw swyddwyr ereill. Ni a gawsom amser da yn y Cynghor,—penderfyniad gwresog yr oll oedd i wneyd eu goreu i gario yn mlaen y gwaith pwysig sydd genym trwy bregethu a thraethodu, &c.

Am ddau o'r gloch dechreuwyd pregethu yn Brechfa,, gerllaw i dŷ Mr. Cneavers, mewn ysgubor fawr a gafwyd gan Mr. Thos. Andrews, Brynyfeliu. Yr oedd genym *Stage* dda wedi ei gwneyd

y dydd o'r blaen, a meiuciau i'r bobl at eisteddfa yn gysurus. Annerchwyd y gynnulleidfa liosog gan David Price, Llangadock, Thomas Jenkins, Llanddowror, a minnau. Cefais y fraint o ddal fy nhystiolaeth i lawer oedd, ac i amryw ag oeddwn wedi bod yn cyd chwaren â hwy pan nad oeddwn ond ieuanc iawn dyddiau. Credaf fod ein tystiolaethau wedi cael dylanwad da iawn ar y dorf, a barnu wrth yr olwg arnynt.

Am chwech, cafwyd cyfarfod rhagorol wed'yn, ac addawodd amryw gymmeryd eu bedyddio.

Eich brawd yn Nghrist,

T. JEREMY.

## AMRYWIAETHAU, &c.

### DYLEDION AM LYFRAU AR Y GWAHANOL GYNNADLEDDAU, Y CHWARTER YN TERFYNU, MEDI 30, 1854.

Dwyr. Morganwg, £132 8s 0¾c; Sir Fynwy, £46 11s 11¾c; Brycheiniog, £4 18s 5c; Gorll. Morganwg, £119 7s 3¾c; Llanelli, £35 5s 8c; Caerfyrddin, £15 16s 2¼c; Penfro Ogleddol, £4 10s 3¾c; Aberteifi, £14 1s 7½c; Meirionydd, £10 5s 1½c; Fflint, £21 11s 0¾c; Dyffryn Conwy, £9 13s 10½c; Sir Ddinbych, £19 3c 5¾c; Môn, £13 18s 0¾c; Cangen Gymraeg Liverpool, £1 7s 2½c; Swyddfa Liverpool, £1 10s 7½c.—Cyfanswm, £450 8s 11¼.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O MEDI 13 HYD TACH. 4.—Sir Ddinbych, £1 1s; Brycheiniog, £1 15s; Meirionydd, £2 3s; Penfro Ogleddol, £1; Llanelli, £1 10s; Dwyreiniol Morganwg, £10 3s 9½c; Fflint, £1 5s.

⁂ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Copt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Llythyr y Llywydd Kimball at ei fab yn Lloegr | 517 |
| Desgrifiad o'r Demi | 520 |
| Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg | 522 |
| Golygyddiaeth—Ymfudiaeth—Newyddion Tramor—Newyddion o Utah—O'r Gwersyll | 524 |
| Cwymp Lucifer | 528 |
| *Y* Rhyfel fyd, &c | 529 |
| Llythyr y Llywydd Jeremy | 434 |
| Amrywiaethau, &c | 532 |


ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 34.] HYDREF 21, 1854. [CYF. VII.


### Y GERI FARWOL A'I FEDDYGINIAETH!

NID newydd i neb, debygwn, fydd cyhoeddi dyfodiad y fflangell angeuol hon i'n gwlad etto. Mae gwehyriad y "march gwelwlas" hwn o'r newydd yn swnio yn nghlystiau gweledyddion Ewrop, yn syfrdanu y meddygwyr, ac ni ellir ei guddio o sylw y werin.

Arno, tarawn ein trem yn mlaenaf braidd yn y newyddiaduron. Tra nad oedd ond adsain ei wehyriad yn treiddio o bell ar adenydd yr awelon dwyreiniol, nid oedd a ofnai rhag ei alanastra, eithr nes- es fel y carlama, clywir lleisiau mawr a bach, boneddig a gwreng yn gwaeddi, parotowch, a glanhewch "ffyrdd brenin y dychryniadau" hwn. Nid oes cefnfor rhyngddo â ni yn hwy, breinioldeb na grym arfau nis gwyrant ef o'i gwrs, yn mlaen y rhuthra dros dalpiawg greigiau a'r dyffrynoedd gwycha—lle y triga dyn, ei ymgyrch sydd! Pa barotoadau a ellir wneyd? Pwy, neu beth a'i ffrwyna, a phwy a grafanga ei awenau? Methodd breninoedd ac amherawdwyr y dwyreinfyd a'i droi yn ol. Cyfaddefa ei Mhawrhydi a'i holl lŷs eu hanalluogrwydd, a gosodant eu hesgobion a'u hoffeiriadon ar waith i gyfansoddi a darllen gweddiau hirion a thaerion, ar i Dduw y nefoedd eu harbed rhag ei garnau heiarnaidd; a phwy a'u beia! Etto, "megys yr oedd yn y dechreu, felly y mae yr awr hon, ac y *bydd* yn oes oesoedd," er hyny oll o'u rhan hwy, os iawn ddeallwn ni. Y meddygwyr dyngarol, hwythau drwy'r wlad y'nt am yr amrywiaf eu dyfeisiadau

meddygol ; o'r *copr* hyd yr *olive oil*, cynghorant. Ond pa wiw, pa waeth, yn mlaen y daeth, ac yn mlaen yr aiff y *Cholera* erddynt oll! Y swyddogion gwladol o bob gradd yn ddiwyd a dyngarol iawn a gymhellant bawb i lanbau eu heolydd, a gwyn galchu eu tai oddi fewn ac oddi allan. Da iawn yw hyn, ac ettyb ei ddyben priodol, a gwneler, goreu po fwyaf; ond y mae hyn oll, yn ol ein tyb ni, tra y mae *calonau* y bobloedd yn llawn sugndynfa i'r Cholera, a'u bryntni mewnol yn ei lochesu. yn rhy debyg i "olchi y tŷ mewn i'r cwpan a'r ddysgl;" ac yn efelychu y Phariseaid hyny a "wyngalchasant y tŷ allan i'r beddau. tra oddi mewn yr oeddynt yn llawn o fudreddi ac esgyrn y meirw" i rwystro nac alltudio y geri o'r wlad. Nid y'm yn awgrymu dim yn erbyn yr ymdrechiadau daionus hyn, eithr os digonol y'nt, pa fodd y mae y Geri yn lladd boneddigion yn eu palasau gwychaf,—meddygwyr yn nghanol eu cyffeiriau, ac offeiriaid a'u gwnau yn eu cylch, fel na ddianga o'i afaelion, y rhai a *wnaethant* yr oll o'r uchod? Oni phrofa hyny aneffeithioldeb y feddyginiaeth ? Os felly, onid beius y sawl a berswadia ereill i wrthod meddyginiaeth anffaeledig,—ei "bod yn afreidiol," &c. Onid yw yr hwn a ddyry rwystr ar ffordd ei gyd-ddyn i'w chael yn gyfrifol am y canlyniad o'i wrth-ddylanwad? Os cydnabyddir pob ymdrechiadau o eiddo pob meddygwyr i wellhau eu cyd-ddynion yn rhinweddau dyngarol, pa reswm beio y rhai a gynygiant feddyginiaeth anffaeledig, yn rhâd i bawb a'i derbynia? Pa reswm gwrthod heb *brawf*, a choudemnio heb *arkoliad*, unrhyw feddyginiaeth a broffesa gyfranu y fath annhraethol les? Mewn syndod, efallai, ymholir a gynnygir y fath feddyginiaeth ar unrhyw ammodau cyrhaeddadwy ? Ac a geir creaduriaid rhesymol a wrthodant y fath gynnygiad? Yn ddibetruader atebwn yn gadarnhaol; y mae cyffeiriau i'w cael yn awr, oddiwrth feddyg anffaeledig, ac y mae efe yn anfon ei weision i gymhell y cyffeiriau hyny i bawb heb arian ac heb werth. Argrafia anffaeledigrwydd y Meddyg, hefyd anffaeledigrwydd ar *ei* feddyginiaeth. Wel, meddir, beth yw y cyfarwyddiadau meddygol hyny? Atebwn, mai anhebgorol yw fod ymddiried yn y meddyg hwn, fel y gofyna pob meddyg arall i *ufyddhau* i'w gyfarwyddiadau yn gywir, yn hollol fel y cyfarwydda. Cyfaddefir rhesymoldeb y gofyniad yna, drwy ufydd-dod trwyadl pob claf i gyfarwydd-

ladau ei feddyg. Ac yn wir nid byth y ceir neb mor ffol â dysgwyl lleshad oddiwrth un meddyg ond ar ufydd-dod hollol i'r oll a ddywed. Felly yma yn gywir. Ond gofynir rhyw adnabyddiaeth â'r meddyg, meddir, cyn y gellir ei gredu nac ufyddhau iddo. Rhesymol ddigon. Felly yma. Y meddyg ag y cyfarwyddir chwi ato yw'r teilyngaf oll o'ch crediniaeth, canys ni'ch cyfarwyddir at lai meddyg nâ eich Creawdwr, eich Cynnaliwr, ynghyd â Hollalluog Greawdwr y byd a'i gyflawnder. Pwy sydd yn addasach i wella nâ'r hwn a wnaeth? Pwy, ynte, a deilynga eich hymddiried fel Efe? Addefir nad oes ei gystal Ef i'w gael. Purion, ynte, dyna un cam yn nlaen i bawb. Yn nesaf, pwy a all gyflwyno ei gyffeiriau Ef i ni yn awr, ynghyd a'r cyfarwyddiadau yn gywir? Atebwn, nad neb a gyfnewidia ei gyffeiriau gwreiddiol Ef, oddieithr iddynt brofi eu hawl i hyny oddiwrtho Ef. Etto, meddwn, nid pawb, *o angheurhaid* a, hyd y nod, ddysgant yn gywir ei gyfarwyddiadau ef ychwaith; canys gyda hwn, fel gyda phob cyffeiriau llesiol ereill, dichon ffugiadau fod. Rhag hyny mae *licence*, trwydded, yn ofynol, yr hon ni ellir ei ffugio, ac ni ateba y cyffeiriau y dyben oddieithr eu gweinyddu dan nawdd y drwydded hon. Ymddygiadau cyfatebol y byd dan bob amgylchiadau a brofant resymoldeb ein gosodiad hwn hefyd. Yn nesaf, hysbyswn y cyfarwyddiadau gofynol, ac yna hawddach deall pwy yw eu teilwg weinyddwyr. Yn gyntaf, wedi credu yn y meddyg, gwelir effeithiau y ffydd hono, yn yr ymwrthodiad â phob peth cydd yn groes i'w ei ewyllys Ef, ac hefyd yn yr ufydd-dod cyflawn i'r oll a orchymyna, yr hyn yw, yn nesaf, esel eich claddu mewn dwfr er maddeuant o'ch pechodau, a thrwy hyny eich darparu a'ch addasu i dderbyn cyfran o ei Ysbryd Glân Ef, effeithiau iachusol yr hwn a ymlidia ymaith bob dylanwad croes i fywyd ac iechyd i'r graddau ei meddir, ac i'r dyben o gael ychwaneg o'i nerth dywedodd y Meddyg mawr am i'r claf ofyn, nid i'r Doctoriaid, eithr i'r Henuriaid hyny a hawliodd efe i wneyd hyny, ac i ba rai y rhoddes drwydded, i arddodi eu dwylaw ar ei ben, a gweddio am iddo gael ychwaneg o ddylanwad y Pen Meddyg. Os aflwyddiannus wed'yn, yna gorchymyna eneinnio y claf ag olew, nid â rhyw olew a wnaiff y tro yma mwy na chyda rhyw feddyg arall. Ond yr olew a ddywed y meddyg. Os na etyb hyny y dyben y tro cyntaf, cynghora i wneyd yr un modd hyd

nes y delo y claf yn iach. Ac fel y caffo y claf fwy-fwy fyth o'r Ysbryd bywhaol oddiuchod, ceisir gan ereill gyd-weddio ag ef drosto, ac yn yr ymarferiad â'r moddion, addawa y Meddyg digelwyddog hwn y byddant yn anffaeledig, oddieithr fod y cyfryw afiechyd yn fwriadol i derfynu einioes y claf. Yr hyn nid yw y Meddyg bob amser yn ei hysbysu; ac yn absennoldeb y fath ddealltwriaeth, dyledswydd y claf yw ymarferyd y moddion uchod yn gywir fel eu cyfarwyddir. Yn awr, dywedasom beth yw y feddyginiaeth anffaeledig ag y cyfeirir atti. Dyma hi! Pwy a ddichon ei gwrthwynebu heb fod drwy hyny yn gwrthwynebu ei Hawdwr hi? Pwy, wedi gwrthod hon, a ddysgwylia i'r Meddyg hwn ei iachâu? Pa'm nad yw gwrthod y feddyginiaeth hon yn rhoddi sarhad ar y Meddyg?

Mae miloedd lawer, debygwn, o wahanol gyffeiriau yn cael eu cymhell i'r byd rhag y gwahanol glefydau, heintiau, &c, a'u cystuddia. Ni welir nemawr newyddiadur ar nad yw ei golofnau yn llwythog o honynt, etto ni ddarllenwn byth y cyfarwyddiadau hyn yn un o honynt! Ar hyd parwydydd pob tref, a'u tai, darllenwn ryw addewidion mawrion am welliadau, ond neb yn *anffaeledig* ond hwn, etto nid oes neb o honynt byth yn dweyd gair o blaid hwn! Cyhoeddir llawer o lyfrau gan awduron doethion ar y peth hyn, ond addefir ein Hawdwr ni yn ddoethach nâ'r oll o honynt; er hyny nid oes neb yn cymhell ei gyffeiriau ef i'w cleifion! Beth a ddichon fod yn achosi hyn oll, tybied? Nid yw ein Meddyg ni mewn parch gyda neb o feddygon y byd hwn yn siwr, onide clywem ryw gymmeradwyaeth i'w gyffeiriau. Ni allant fod yn anwybodus o honynt, bid siwr, canys y mae ei lyfr meddygol yn barchus ac adnabyddus iawn am bethau ereill a gynnwysa; ïe, carant y Meddyg gymmaint nes darllen ei hanes a sôn am dano yn eu haddoldai a'u hannedd-dai, a phob man braidd, nid oes cymmaint canmoliaeth i unrhyw feddyg erioed a fu ag sydd i hwn, ac etto i gyd, nid yn unig canmola pawb ei feddyginiaeth ei hunan a chymhella gyffeiriau ei gyd-feddyg i'r byd yn hytrach nâ chyffeiriau y Meddyg anffaeledig hwn, ond gwaeth fyth, gwawdiant ac erlidiant y sawl a'i canmola, ac nid anfynych y bygythiant garcharu y sawl a'i gweinyddo. Ydyw, y mae eu casineb gymmaint at y cyffeiriau hyn, er nad faint eu canmoliaeth o'u Hawdwr, mes y ffurfiasant gyfraith yn cospi yn llym a'u rhoddo i arall!

Nid cymmaint syndod, fod y meddygon proffesedig hyn yn ofni amlygrwydd o rinweddau iachusol y ffordd hon i iechyd, gan mai o'r boncyff hwn y tyfa ffon cu bara; ond gwrthwynebrwydd, diystyrwch, a gwawd diattreg y rhai a broffesant fod yn weision anfonedig i'r prif feddyg hwn, at ei gyffeiriau meddygol ef, sydd yn destun syndod mawr i bob un ar nad yw yn deall mai ffugwyr y'nt, yn cymmeryd enw y prif feddyg yn unig er ennill dylanwad ar eu hudolwyr i werthu eu ffug eu hunain, gan nad oes rhinwedd na nerth yn eu ffugiau i enniil eu hunan-glod yn anymddibynol arno. Yma ysgyrnyga y ffugwyr eu dannedd arnom ond odid, am eu dynoethi; ond, pa wiw, y mae yn rhy eglur i'w guddio!

A gaiff y byd eu rhybuddio rhag eu twyllo gan ffugiadau a'r "*Parr's life Pills*," "*Morrison's Pills*," "*Worsdell's*," *&c.*, a rhifres hirfaith o'r cyffelyb a ellid enwi; ac oni rybuddir y byd rhag hudoliaeth swyngar y "Peireh," yr "offeiriaid," a'r "quacks" duwinyddol ag sydd yn proffesu eu hunain yn weision i'r meddyg ag y soniwn am dano, tra ar yr un pryd y maent yn syfrdanu clustiau eu hudolion â'u hysgrechfeydd yn erbyn cyffeiriau gorchymynedig eu mheistr proffesedig? Pa ddyngarwr a all attal ei bin na'i dafod rhag rhybuddio ei gyd-ddynion sydd ar dranc o anghen y feddyginiaeth hon? Yn enwedig yn yr amseroedd enbyd hyn,

Pan mae'r haint yn medi'r gwledydd,
Medi dyn fel gwellt y maes,

pa ddyn a ddymuna estyniad einioes i'w gyd-ddyn, ac a ddymuna ryddhau ei deulu • arteithiau dirdynawl Cholera ar na alwa ei sylw—a floed lia yn uchel, uchel, dyma'r ffordd i iechyd; fel hyn y darparid yn effeithiol erbyn dyfodiad y Cholera, a phob ffrewyll ac ysgorpion angeuol arall. Y "DDAWN IACHAU" a osodedd y prif feddyg yn ei Eglwys yw yr unig feddyginiaeth anffaeledig. Fod y fawr-fraint o estyniad bywyd ac iechyd tymmorol yn gystal a thragywyddol yn addewidion pendant, ac effeithiau daionus yr efengyl sydd rhy wybodus i'r Saint i fod eisieu ei gadarnhau yma; etto i'w hanghredinwyr *hi*, nad faint eu sêl dros draddodiadau Doctoriaid duwinyddol ereill, y mae y ddawn hon nid yn unig yn anwybodus, ond yn anghredadwy hefyd; er eu lles hwy ynte, dywedwn, y "*ddawn iachau*" yw meddyginiaeth ein Duw i'w blant yn wrthgyferbyn-

iol adferiadol i ddirywiedig effeithiau pechod, i farwoldeb. Olrheiniad yn ol i hanesyddiaeth ysgrythyrol ein rhywiogaeth a arddangosa mai troseddu cyfreithiau ein Crewr a blanodd hadau marwoldeb yn ein natur, "gan farw ti a fyddi farw" oedd y penyd. Anufydd-dod i ddeddfau dwyfol hefyd sydd wedi llygru y gwaed, a'n gwneyd yn fwy agored barhaus i afiechyd yn ei amrywiol ymosodiadau; ac er nad yw y ddedfryd o farwolaeth yn cael ei symud ymaith, o herwydd "gosodwyd i ddynion farw," etto y mae ei effeithiau a chanlyniadau y troseddu yn cael eu troi ymaith trwy ufydd-dod i'r gyfraith a droseddwyd. Gan fod colli bywydac iechyd yn gospau am droseddu'r gyfraith, paham nad yw yr ufydd-dod iddynt yn adferyd yr hyn a addawyd? O'r naill ochr "yn arogl bywyd i fywyd," ac o'r ochr arall "yn arogl marwolaeth i farwolaeth." Gan hyny, gwelir fod y "ddawn iachâu" yn fendith grefyddol, ac iddi ei chyfreithiau a'i hammodau priodol ei hun, a bod y derbyniad o honi yn dibynu, nid yn unig ar ufydd-dod y derbynydd i'r ammodau ond hefyd ar fod hawl gyfreithlon gan y gweinyddwr i weinyddu. Yr hawl hono yw yr Offeiriadaeth a gyflwynir i'w weision gan y prif Feddyg i weinyddu yn holl ordinhadau yr efengyl, yr hon sydd yn allu Duw er iachawdwriaeth dymhorol a thragywyddol i'w hufyddion, trwy yr hon y mae bywyd ac anllygredigaeth yn dyfod i oleuni. Clywir ei Hawdwr mawr yn dysgu ei weision yn ei efengyl yn Marc xvi. Wedi dangos pa fodd i gael eu dienogi oddiwrth effeithiau eu troseddiadau eu hunain a'u tadau o ran eu cymmeriadau; yna ebe fe "Ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant iach." Wele addewid bendant i'r sawl a ufyddha i'r ammodau,—"a fyddant iach;" nid efallai, nac un *os* arall! Gwelir mai yr un oedd y Physygwyr iachusol corfforol ac ysbrydol hyn; trwy yr un hawl y gwnaent y naill a'r llall, ac yr oedd yr addewid mor bendant am y fendith o *iechyd corfforol* ag yr oedd am faddeuant, a'r doniau ereill. Yn awr, gofynwn, pa bryd y rhanodd y Meddyg mawr hwn yr hawl rhwng y Doctoriaid physygwrol a'r Doctoriaid duwinyddol? Dangoser y gyfraith, y llyfr a'r tudalen, yn yr hwn y rhoes yr hawl i'r naill i fusnesa yn y cyffeiriau a addawant iechyd ysbrydol ac na wnelent dim â'r cyffeiriau physygol? a pha bryd y dywedodd wrth y physygwyr fod trwydded o sort arall yn anghenrheidiol er gweinyddu cyff-

eiriau ysbrydol? Pa bryd? Pwy a all ateb yn gadarnhaol? Neb o honoch! Wel, paham y rhanir y feddyginiaeth ddwyfol rhyngddoch? Beth, hyn oll er mwyn elw? Os nad gwneyd marsiandiaeth o ddynion gyrff ac eneidiau yw hyn, dywedwch beth yw y farsiandiaeth hono!

Mae genym wrth law, dystiolaeth hen Ddoctor profiadol a phoblogaidd iawn yn enwedig yn ngholegau y blaid D. D's., yr hwn oedd yn hen gampwr yn mhlith hen Ddoctoriaid yr hen goleg gwreiddiol, ei enw yw Paul, gynt Saul o Tarsus, yr hwn a dystia mai cyffeiriau y prif Feddyg oedd y goreu, a'r feddyginiaeth a roddid i'r cleifion yn ei amser ef; efe a ddywed yn 1 Cor. xii, 9, "Ac i arall ddawn iachau, drwy yr un Ysbryd;" sef i iachau o afiechyd corfforol yw hyn. A hwn cyddystia hen Ddoctor arall a gydoesai ag ef, a'r hwn, ebe hwy, a gafodd drwydded gan y prif feddyg, ar ol "*pasio examination*" o'i flaen ef, a gweler y *prescription* hwnw yn llyfr Iago i, 14, 15. Paham y mae y pethau hyn mor anmhoblogaidd yn yr oes oleu hon, yn neillduol gan y D. D's. a'r Revd's a broffesant eu bod yn aelodau o'r un tylwyth o Ddoctoriaid, yn weision i'r un Prif Feddyg, ac yn gwneyd ymffrost o'u hamcanion i lesoli dynion? Os creulondeb fyddai rhwystro claf i gymmeryd cyffeiriau meddyg dynol, pa faint creulonach—pwy a ddywed—yw rhwystro dynion i ddefnyddio cyffeiriau y Meddyg anfaeledig? Os diala dynion ar y sawl a gamddarluniant er niwed i'w creffit, neu a ffugiant eu cyffeiriau hwynt, pa faint llymach y diala Duw—y Pen Feddyg, ar y rhai a'i diystyrant, gan rwystro ereill i ddefnyddio cyffeiriau appwyntiedig ei Fab, o eisieu yr hwn y trengant wrth y miloedd yn barhaus?

Wrth ei ffyddlon blant a iawn brisiant gyffeiriau y Prif Feddyg, dywedwn,—ymroddwch yn ffyddlog i driniaeth y Meddyg anfaeledig; a bydded i echryslonrwydd y Cholera, a rhwysg pob haint arall, ddysgu i ni y wers bwysig o ffyddlondeb i'r alwedigaeth ddwyfol â'r hon ein galwyd i ryddid plant Duw; ymburwn ac ymsanteiddiwn fel y preswylio Ysbryd y bywyd yn fwy grymus ynom, ac y byddo fel mur o dân o'n hamgylch yn nghanol pob pläau; ein ffydd ddiysgog a fo yn dysgwyl wrth Dduw drwy ei ordinhadau, yn hytrach nag wrth ddoethineb ddynol.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

DYDD SADWRN, HYDREF, 21, 1854.

Traethodu.—Mae oerfel wedi terfynu y tymmor hau yr hâd da ar hyd y "ffyrdd a'r caeau" gan mwyaf, ac ni wyddom am un ffordd mwy effeithiol i'w ddwfrhau, fel yr egino, na thrwy ddosparthu traethodau o dŷ i dŷ. Pydd y nosweithiau hirion a geuafaidd dyfodol mor fanteisiol i ddarllen traethodau ag oedd hir ddyddiau haf i wrando pregethu, a dysgwylir i'r rhai a wyddant fod y cynheuaf mawr olaf gerllaw, i fod yn ddiwyd i osod yr argraffedig air o fewn cyrhaedd eu cymmydogion.

Yr ydym ni wedi ymddeffroi a gweled y lleshâd o draethodu, a'r pwysigrwydd o beidio yn fwy nag erioed; a theimlwn yn fwy awyddus nag oll i waeddi yn uwch—i grefu yn daerach am gynnorthwyo y Saint i ddosparthu, i werthu neu roddi, neu ryw fodd a ellir i chwalu y newyddion pwysig a daionus a gynnwysa ein cenadwri i'n cyd-ddynion! Pwy a gonnorthwya yn y gwaith dyngarol—haelionus a llwyddiannus hwn? Frodyr! nid swyddwyr yn unig, ond pob aelod, a geir eich gweled o dŷ i dŷ a'ch dwylaw yn llawn o draethodau? Dyry hyny gyfleusdra i dystiolaethu na cheir heb hyny, a dyry gyfleu i lawer o rai gonest a ewyllysiant ddeall ein crefydd i ymholi a chael y gwir. Wrth wneuthur felly byddwch o fawr fendith, ac fe fendithia Duw chwithau yn helaethach am bob ymdrech fel hyn a wnewch, tra y mae yr oriau gwerthfawr a dreilir yn ofer gan rai bob dydd yn digio Ysbryd Duw oddiwrthynt yn raddol, ac yn dwyn arnynt hwythau gyfrifoldeb am eu hesgeulusdod at yr eneidiau a ddiangant o'u deutu i'r byd arall yn feunyddiol heb ddeall am ffordd yr iachawdwriaeth. Nid ŷ pregethwr yn unig a raid roddi cyfrif am ei oruchwyliaeth, ond delir pob un yn gyfrifol yn ol ei allu i wneuthur.

Chwiorydd! a gawn ni eich help chwithau at y gwaith clod-

adwy o ddosparthu traethodau yn mhlith eich cymmydogion? Paham nad chwychwi? Mae y llwyddiant rhyfeddol sydd wedi dilyn ymdrechiadau daionus rhai o'n chwiorydd selog yn hyn, yn profi y gall pob chwaer fod o fendith wrth hyny—mae y ffaith o fod Duw yn bendithio eu llafur, ac yn llanw eu calonau o gariad, a'u geneuau â doethineb i allu atteb pob un fel y teilynga, ynghyd a'r ffaith o eneidiau a fuont yn foddion i achub yn gwaeddi yn uchel, ïe, yn uwch nâ llais dynol, arnoch chwi un ag oll i ymddeffroi o ddifrif, tra y gellir, i ddosparthu traethodau a thystiolaethu i'ch cymmydogion. Tystia y chwiorydd a draethodant eu bod yn ddedwyddach o lawer nâ chynt, ac y mae yn bleser clywed ambell un yn adrodd ei hymddyddanion a'i hatebion synwyrgall i'r byd. Gwyn fyd pe gwelem yr holl Saint yn efelychu yr ychydig wroniaid a wnant hyn; dylifai dynion i deyrnas Dduw yn fuan wrth y miloedd! Dyma'r ffordd a lwydda Duw i achub y rhai na ddeuant i wrando pregethu; mae y llwyddiant rhyfeddol a ddilynodd y traethodu yn Llundain, ac amryw fanau yn Lloegr yn ddiweddar, ïe, yn nes atom, yn Nghymru, lle ei gwnaethpwyd, yn profi ei effeithioldeb tu hwnt i ddadl.

Mae Llywyddion amryw Gymnadleddau wedi caniatau i ni anfon iddynt y nifer a ystyriwn yn anghenrheidiol o bob traethawd, ar yn ail wythnos a'r UDGORN; diolchwn am eu hymddiriied, ac ymdrechwn ei iawn ddefnyddio, canys, un yw ein dyben—un yw ein Mheistr, ac un ddylai fod ein golygon a'n hamcan yn y peth hyn fel yn mhob peth arall i achub dynion. Hyderwn y gwel Llywyddion Cangenau mai eu lles hefyd yw gosod eu holl aelodau ar waith i werthu yr oll a anfonir iddynt gan eu Llywyddion hwythau.

Ofna rhai gymmeryd gwerth mwy o draethodau nag a gymmerant o'r UDGORN rhag ofn cynnyddu eu dyled; eithr barnwn ni yn wahanol i'r cyfryw, a'n rheswm yw, o herwydd mai i'r byd yn benaf y bwriedir y traethodau; felly pe cymmerai y Saint gynnifer ag o'r UDGORN ni fyddai dim i'r byd gael, a chollid y prif amcan; pe o'r ochr arall yr ymdrechai pob un werthu a allai i'r byd, dygid lluoedd i'r Eglwys, ac ni fyddai y traethodau yn un toll ar goffers yr Eglwys. Os cedwir hwynt ar law, diau y cynnyddai y ddyled, eithr nid i hyny eu gwneir, ac yn hytrach na hyny, gwell genym ni arbed y gwaith a'r gost o'u

gwneuthur; etto mewn ufydd-dod i gymmeliadau Ysbryd y gwirionedd, ac ymddibyniad ar gyd-weithrediad ein cyd-weithwyr ffyddlon i'w lledaenu, yr hyn nid yw ychydig, fel y mae yn bleser dweyd, ymegnïwn i gyhoeddi a allwn o draethodau er goleuo ein gwlad yn y gwirionedd dwyfol a draddodwyd i ni, ac er amddiffyn ein cenadwri rasol a chymmeriadau ei phrif genadon, hyd y gallwn, rhag y cam-ddarluniadau gwarthus a niweidiol a ddyry gelynion Duw a dynion arnynt.

Dengys ein Dosparthwyr ffyddlon eu sel dros, a'u haelioni at achos Duw, drwy hwyluso yr ymdrech hwn, nid er mwyn elw, fel y gwna marsiandwyr y byd a'u nwyfau, ond o gariad at y gwaith; canys eglur iddynt na chaniatâ pris gwerthu rhyfeddol o râd y traethodau presennol iddynt hwy fwy nag i'w Cyhoeddwr nemawr elw; ein helw a fo yn well nag aur ac arian—dim llai nag anchwiliadwy olud Crist a'n boddlono. Cynnyddiant rhyfeddol eu cylchrediad o'r hyn yw, yn unig a'n galluega dan yr anfantoision a'n gormesant, i ddilyn yn mlaen yn galonog.

Gair at yr Ymfudwyr.—Hysbysir ni gan y Llywydd F. D. Richards y bwriedir i'r llong gyntaf hwylio yn y mis nesaf tua New Orleans. Os bydd mwy o ymfudwyr nag a gymmer un long, a nifer digonol o ymgeiswyr, anfonir llong arall; eithr ni anfonir chwaneg o Saint i New Orleans ar ol mis Tachwedd. Hysbysir yn brydlawn amseryddiad eu hwyliad o Liverpool.

Dymunir ar bawb a fwriadant ymfudo i'r Taleithiau Unol anfon eu henwau, oedran, galwedigaeth, gwlad eu genedigaeth, ynghyd â blaen dâl o £1 am bob un a fyddant dros un flwydd oed.

---

## CYMMANFA DDWYREINIOL MORGANWG.

[Parhad o dud. 324.]

Y Llywydd Dan Jones.—Gwrandawais arnoch gyda phleser yn rhoddi cyfrif o'ch goruchwylion, a pha mor ddiwyd y buoch, yr hyn, pan ystyriom fod ein lleshad personol a'n gogoniant tragywyddol yn dibynu ar lwyddiant yr achos yn ein plith, a bera lawenydd i'n calonau. Ymdrechasoch yn ganmoladwy, ac y mae eich sel frwdfrydig, eich penderfyniad diysgog, a'ch ymdrechiadau diflino yn gymmeradwy yn ngolwg Duw Israel.

Llawer sydd yn eistedd o'm blaen heddyw yn fwy rhydd a thawel eu cydwybodau, a gwell eu teimladau nag oeddynt yn y Gymmanfa flaenorol, a hyny yn unig o herwydd cynnyddiant eu hymddiried yn yr Offeiriadaeth Santaidd. Y mae yr Arglwydd wedi caniatâu profi y Gynnadledd hon i helaethder, fel na chamarweinier neb o honoch yn rhwydd. Mai y rhai parotaf o honoch i ufyddhau ydynt y rhai dedwyddaf a chyfoethocaf yw eich profiad yma heddyw.

Y mae arall yn eich llywyddu yn awr, yr hwn a osodais arnoch o herwydd fy mawr gariad atoch, a'm gofal drosoch. Tra y llywyddais eich Cynnadledd ni esgeulusais ddim a'a ystyriwn yn lles i chwi. Symudais i Abertawy er bod yn nes i'r canol rhwng y Cynnadleddau, ac er mwyn fy iechyd.

Llawenydd genyf yw eich bod yn adferyd y rhai llesg; cynnaliwch y gliniau gweinion; y mae eneidiau gwerthfawr ganddynt, ag ydynt yn werth eich hymdrech. Hefyd parhaed eich diwydrwydd mewn traethodu; nid yw yr ysbryd traethodu ond rhagredegydd bedyddio, fel yr oedd Ioan Fedyddiwr i Grist. Mae ugeiniau o ddynion yn ein heglwys yn awr a dystiant iddynt gael eu bargyhoeddi trwy ymdrechiadau y Saint i ddosparthu traethodau iddynt. Yn hollol gyferbyniol i ymdrechiadau swyddogion unrhyw Gangen i ddosparthu traethodau y llyfrau Duw hwynt; a ellir gwrthbrofi hyn? Ysgrifenir y traethodau yn ol y ddoethineb oreu a feddwn, i wrth-brofi camgyhuddiadau ein gwrthwynebwyr arnom ni a'n crefydd, a thaflu goleuni i leoedd tywyll lle y dallwyd dynion gonest gan eu hudolwyr.

Pleser o'r mwyaf i bawb o honom yw ymgyfeillachu a'n gilydd wrth feddwl y cyd-deithiwn, nid yn unig yn y byd hwn, yn Babilon, tros y môr, a'r mynyddau creiglyd i'n cartref dedwydd, eithr am bob tragywyddoldeb; ond pa le y mae y rhai y dysclaeriodd eu llygaid yn ein Cymmanfaoedd diweddar? Pa le y maent yn awr? Eu hymddangosiad rhith grefyddol, eu geiriau dengar, a'u dylanwad swynol a hudodd rai i'r fath ymddiried ynddynt ag yr ymddiriedasent eu bywyd iddynt, eithr hwy a syrthiasant fel sêr gwibiog, a'u hawyrgylch nid adnebydd hwynt! Pa beth a'n cadwodd ni, ai doethineb dâyno)? Dim ond nerth y Duw byw.

Llawer o awydd sydd am ymfudo i Seion; mae galwedau yr hoff berthynasau a'r cyfeillion draw fel peroriaeth yn swyno ein

clustiau i chwenychu myned yno ar eu hol hwynt, eithr nid cyn gwneyd ein dyledswyddau, a chyflawni gweithredoedd tuag ein cyd-genedl a'n teilynga i gymdeithasu â'r cyflawnion, a gorphwys gyda'r ffyddloniaid.

Cynnrychiolwyd, Hen. 254, Off. 90, Ath. 103, Dia. 53, Bed. 77, Trosglwyddwyd 93, Derbynwyd 62, ar wasgar 25, bu farw 6, Ymf. 5.—Cyfanrif 1709.

Canwyd, "Fe wawriodd hyfryd foreu," &c. Terfynodd y Llywydd Jeremy trwy weddi.

### MANNER AWR WEDI DAU.

Dechreuwyd trwy ganu, a gweddiwyd gan yr Henuriad Thos. Morgan, Brycheiniog. Canwyd.

Y Llywydd—Pan yr oedd dyscyblion Crist yn dra thrist ryw dro daeth y dystiolaeth i'w plith "Yr Arglwydd a gyfododd yn wir." Beth a allwn ni y Saint ddweyd y prydnawn yma? 'Yr Arglwydd a lefarodd yn wir,' ac ni a wyddom hyny; dysgodd ni, a gwyddom iddo ddadguddio i'w Brophwyd Joseph, beth sydd i wneyd er bod yn gadwedig, yr hyn a wnaethom hyd yma, a chawsom dystiolaeth o hyny, a'i fod ef yn parhau i'n dysgu trwy ein hathrawon, ac yn rhoddi gwybodaeth i ni o wirionedd y ddysgeidiaeth. Cawsom gyfartod da boreu heddyw, a dysgwyliwn hyny y prydnawn etto, fel tystiolaeth oddiwrth Dduw o dlwyfoldeb y ddysgeidiaeth a gawsom. Dau brif beth sydd genym i wneyd, sef gwrando pa beth a ddysgir, a gwneyd yr hyn a ddysgwyd. Wrth gyflawni hyn yn unig y gorlifa bendithion a trugareddau i ni yn barhaus. Ein harwydd-air yw, i bob un ofalu am ei fasnes ei hunan, a gwneyd ein goreu yw hyny, ac yn y gweuethuriad o hyny yn unig y derbyniwn Ysbryd Duw. Felly beth bynag a wnawn, gwnawn ef er gogoniant i Dduw. Pwy sydd yma heddyw yn bwyta ac yn yfed er gogoniant i Dduw? Y cyfryw ag sydd yn iawn barchu y corff a roddes Duw iddo. Nid bwyta sydd yn cadw dyn yn fyw; pa fodd y bydd dyn fyw, ynte? "Yr arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant." Pwy sydd yn credu; mae Duw yn gofalu am anifeiliaid y maes, adar y nefoedd, a physg y môr, ac yn rhoi digon o ymborth gerllaw iddynt i'w gasglu. Y mae gan y Saint i gasglu eu hanghenrheidiau hefyd, ac os parcha pob dyn y corff a roddes Duw iddo er gogoniant ei enw, gan gredu yn, ac ymddibynu ar Dduw, caiff

ddigon o fwyd a dillad gerllaw iddo i'w cael. Pan geisia Duw wasanaeth, rhodda ddigon at ei wneyd bob amser. Y peth goreu a dal ei ffordd yw gwneyd y peth y mae Duw yn ei geisio. "A bu wedi talm o ddyddiau i Cain ddwyn o ffrwyth y ddaear offrwm i'r Arglwydd. Ac Abel yntau a ddwg o flaenffrwyth ei ddefaid, ac o'u brasder hwynt." Ni ofyna Duw ond am beth a ellir gael, a rhodda nerth digonol i ddyn ei wneyd. Gofynodd am flaenffrwyth y gwenith, ond daeth Cain a rhyw fath o ysgub; eithr dygodd Abel o'r blaenffrwyth a'r brasder. "Ac edrychodd Duw ar Abel;" bendith dyn yw fod Duw yn edrych arno, a'i golled yw pan na wna; bendith dyn yw gwrando beth a geisir ganddo, a'i golled yw peidio. Y mae llawer o Saint wedi mwynhau yr Ysbryd Glân, a chael gwybod beth y mae Duw yn geisio ganddynt, yn achwyn ei fod yn ormod; gwneyd y pethau y mae Duw yn geisio sydd yn eisieu, a chwithau yn cael cynnyg gwybodaeth o byny trwy "Yr arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant." A Chain a ddigiodd wrth Dduw; gofalwch rhag hyn, o herwydd nid wyf fi am i neb wneuthur dim ond y peth a wn y mae Duw yn geisio. Y rhai a rwgnachant fod gormod yn ofynedig arnynt, ydynt euog o ddau drosedd mawr, sef anghrediniaeth ac anufydd-dod. "Edifarhewch a bedyddier chwi." Rhaid eich bedyddio, cais Duw yw; nid fel y mynoch y gwnewch. Y mae genyf adnabyddiaeth o'r efengyl hon, medd y Sant, yr hon a dderbyniais trwy glywed yn gyntaf bregethu, ac yna gwneyd yr hyn a bregethwyd. Ni allasent ei chael ar un ammod arall. "Eithr y Pharisead a'r Cyfreithwyr yn eu herbyn eu hunain a ddiystyrasant gynghor Duw, heb eu bedyddio ganddo." Gwn mai cynghor Duw yw yr hyn a orchymynir i chwi; caiff pawb a greda wybod byny. O'r ochr arall, os anghrbeda ac anufyddha swyddog, amddifada ei hun o ysbryd ei swydd wrth gwrs, ac o beb rhinwedd a dderbynia oddiwrth ei swydd. Wrth hyn, ynte, frodyr, dysgwn wers, a bydded i ni wrando a gwneyd, ac yna rhaid i'r nefoedd ein bendithio, a'r arwyddion ein canlyn, sef bwyd, dillad, arian, a digon o bob peth er cyflawni gwaith Duw.

Cydsyniwyd yn unfrydol i gydnabod a dal i fyny yr holl Offeiriadaeth, o'r Brif Lywyddiaeth yn Seion hyd at Lywyddiaeth Cymru.

Y Llywydd Jones,—Mawr yw ein braint o gael arddangos ein cymmeradwyaeth o awdurdod y nefoedd; y mae pob arddangos-

iad ychwanegol o'n heiddo yn dangos ychwanegiad o fendith ragoraf y nefoedd,—ei swyddogion. Cynnwysa ein Heglwys roddion harddach nâ'r perlau a addurnant goronau ymherawdwyr byd; mwy anrhydeddus a gwerthfawrocach na gogoniant darfodedig breninoedd daearol a'u holl olud bydol, yw y rhai yr esgynodd yr Iesu i'r uchelder am danynt, le, rhoddion pena'r nef ydynt i'n daear. Nis gellir ammheu; rhaid i bawb addef lliosogrwydd swyddi pwysig yr Eglwys hon, er ei llywodraeth a'i threfn, ac nad oes yr un gyfundrefn arall yn debyg iddi i'w chael. Y mae ymraniadau a sefyllfa groes bleidiol ein cythryblus fyd yn ddigonol brawf o'u hamddifadrwydd hwy o nohi, yn eu llywodraeth wladol a chrefyddol, ac yn eu holl fasnach. Diolch i Dduw, ynte, am gyfundrefn a'n dyga yn feddiannol ar Ysbryd a gylyma ein calonau oll yn un, a ddyga bawb a'i meddianna i gyd-weled, cyd-deimlo, a chydweithredu yn mhob peth. Teimladau o wir gariad at y Gymmadledd hon a barodd i mi osod y Llywydd R. Evans arnoch, credaf mai un o roddion goreu y nef i chwi yw, os gwnewch yn fawr o hono; canys ar wneyd hyn, ar eich gwrandawiad astud arno, a'ch ufydd-dod iddo yr ymddibyna eich lleshad a'ch dedwyddwch amserol a thragywyddol.

Cymmeradwywyd ef yn unfrydol.

WILLIAM LEWIS, *Ysgrifenydd.*

*(I'w barhau.)*

---

## RHAG-OFAL Y LLYWYDD B. YOUNG DROS YR YMFUDWYR.

AT YR ESGOBION.

*D. Ll. H. Mawr, Meh.* 28, 1854.

*At yr Esgob Edward Hunter, ac esgobion y gwahanol Ddosparthiadau yn y Dywysogaeth.*

HYSBYSED hyn ar i chwi fyned yn union, a dyfal ymholi, er deall pwy yn eich dosparthiadau a allant dderbyn i'w teuluoedd, neu i'w tai, rai o'r brodyr, neu aelodau o'u teuluoedd, ag ydynt ar eu taith tuag yma yn awr, a rhoddi gwaith ac ymborth iddynt hyd gynheuaf 1855, a chludo yr anghenus o'r Ddinas hon i'w gwahanol dynghedfanau.

Bydd anghen cynnorthwy yn ddiau ar ymfudwyr y Drysorfa Ymfudol, ac ereill, er cyrhaedd yma, am hyny, byddwch barod â gweddeuau i ddanfon i'w cynnorthwyo erbyn y 15fed o Awst. Gofynir i chwi weithredu, nid yn unig yn ddiwyd, ond yn union-gyrchol, ac i fynegi i Swyddfa y Llywydd heb oedi, eich gweithrediadau, a'ch gallu i wneyd mewn gweddeuau, gweddeuwyr, a phedrolfeni i ddanfon i'w cyfarfod.

Edryched y Llywydd Hunter y rhodda yr holl esgobion a nodwyd yr hysbysiadau gofynedig erbyn y 15fed o Awst, fel y deallwn pa faint o gynnorthwy a allwn roddi, a pha le y danfonwn yr ymfudwyr dyfodol.

Mewn hyder am weithrediad unionGyrchol genych,

Ydym fel erioed,

Eich brodyr,

BRIGHAM YOUNG.
H. C. KIMBALL.
J. M. GRANT.

A gyfieithiwyd gan Wm. Lewis

---

## AMRYWIAETHAU, &c.

YR "*Eurgrawn Ysgrythyrol.*"—Mewn atebiad i ofyniadau amryw, hysbyswn y ceir yr "*Eurgrawn*" heb ei rwymo am 2s 4c i'r dosparthwr, ei bris yw 2s 6c, a gellir cael y pedwar rhifyn olaf am 3½c yr un i'r prif ddosparthwyr, a 4½c i'r îs-ddosparthwyr, a'u gwerthu am 5 yn lle 6 cheiniog, os ymholir â'r Dosparthwyr yn fuan. Bydd yn fwy cyfleus felly i'r sawl a ddewiso eu cyd-rwymo â llyfrau ereill.

O'R WASG YN DDIWEDDAR,—"*Pa beth yw Mormoniaeth,*" traethawd o 4 tud., ei bris yw 3s y cant i'r prif ddosparthwyr, a 3s 9c i'r îs-ddosparthwyr, ac i'w werthu am ddimai.

*Hefyd*, daeth allan yn ddiweddar "*Peidiwch a'u gwrando,*" 8 tud. Ei bris yw 3s 4c i'r prif ddosparthwyr, a 3s 10c y cant i'r îs-ddosparthwyr, i'w werthu am ddimai! Hyderwn yr anrhega y Saint bob pregethwr a sectwr a fynych bregethant ar y testun hwn â'r bregeth ddidderbynwyneb hon, fel y deallont beth y maent yn wneuthur.

Yn y Wasg, ac a ddaw allan yr wythnos nesaf,—"*Profion anwrthwynebol nad o'r 'Spaulding Romance' y gwnaed Llyfr Mormon.*" Hen chwedl boblogaidd arw yw y cyhuddiad uchod, eithr dyry y traethawd bychan hwn farwol glwyf iddi lle bynag yr elo, a chrefwn ar garwyr y gwir ei chwalu ef ar ei hol i bob cwr o'n gwlad lle yr arogl'r ei sawyr andwyol hi.

---

Yr "*Arweinydd i Seion.*"—Yr oeddem wedi bwriadu oedi y traethawd hwn hyd oni chaffem hysbysiad diweddar o'r ffordd a fwriedir i'r Ymfudwyr deithio dros y *plains* yn y tymmor nesaf; eithr o herwydd nad oes sicrwydd am hyny,—gan na chyhoeddwn ddim ar antur, ac o herwydd fod yr ymfudwyr eleni yn dysgwyl wrtho am gyfarwyddiadau i ymbarotoi, barnwyd yn ddoethach ddyfod ag ef allan heb hyny, ac am hanner y pris a fuasai pe cynwysai hyny. Yn awr, dyry i bob dosparth o ymfudwyr bob cyfarwyddiadau i ymbarotoi gartref, ar y daith dros y môr, a'r ochr draw; pa bethau i gymmeryd gyda hwynt, a beth i beidio, yn gelfi, dilladau, bwydydd, &c. Mewn gair, ni ellir dweyd ei holl gyfarwyddiadau heb ei adrodd ef i gyd, ond fe fydd o elw mawr i bob ymfudwr ei gael! Yn ddo ceir ateb i bob gofyniad a ddaw i'r meddwl braidd, o leiaf, ateba bob peth a ddaeth i feddwl yr awdwr ar daith i California ac yn ol ar y testun a broffesa.

Ei bris i'r prif ddosparthwyr yw 11s y cant, a 12s i'r îs-ddosparthwyr, ac i gael ei werthu am geiniog a dimai yr un.

---

Derbyniadau am Lyfrau o Hyd. 4 hyd 19.—George W. Davies, £5; E. Middleton, £8; Griffith Roberts, £1 9s; A. L. Jones, £5.

---

☞ Gwelliant gwall.—Yn y rhifyn blaenorol diangodd y gair *Tachwedd* yn lle *Hydref*, eithr gobeithiwn na chreda neb y bwriadem ladrata Hydref oddiarnynt!

---

⁂ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Y Geri Farwol a'i Feddyginiaeth | 533 |
| Golygyddiaeth—Traethodau—Gair at yr Ymfudwyr | 540 |
| Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg | 542 |
| Rhag-olaf y Llywydd Young dros yr Ymfudwyr | 546 |
| Amrywiaethau, &c. | 547 |


---

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 35.] TACHWEDD 4, 1854. [CYF. VII.


### DARLITH AR YR ADGYFODIAD CYNTAF, GAN Y LLYWYDD B. YOUNG.

A *draddodwyd yn y Tabernacl, Dinas y Llyn Halen Mawr, Hyd-ref* 3, 1852, *wedi i'r Henuriad Orson Hyde lefaru.*

*(O'r "Deseret News.")*

TRWY ganiatâd, gwnaf ychydig o sylwadau ar yr egwyddorion a draddodwyd gan yr Henuriad Hyde.

Yn gyntaf,—llefaraf ychydig o eiriau perthynol i'r adgyfodiad. Mae yr egwyddorion hyn yn ddyddorol.—Iawn adnabyddiaeth, a chywir ddealltwriaeth o honynt ydynt ffynonnell o gysur a llawenydd mawr i Saint Duw. Mae y Brawd Hyde yn ei sylwadau yn lled wyliadwrus, ac yn awgrymu hyn a'r llall, yn unig fel y tybiai, eithr ein braint ydyw deall llawer o'r pethau hyn oddiwrth eglurhad yr Ysbryd Glân i ni ein hunain, drwy y dadguddiadau a roddwyd i ereill, ac oddiwrth addysgiadau y rhai a fuont gyda ni.

Wrth sôn am ddyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist fel lleidr yn y nos, neu fel y goleuni boreuol, fel y gwelo pob cnawd ynghyd ei ogoniant; a llawer o ddywediadau ereill o'r fath, os cyssylltwch hwynt oll yn un, crëant lawer o ddyryswch yn y meddwl.

Etto, os tybiwn fod yr Iachawdwr yn dyfod unwaith i bawb, ac yn ei ail ddyfodiad y dinystria yr holl rai drygionus, ac y glanhâ y ddaear oddiwrth ei gwaed a'i llygredigaeth, gwrth-

wynebai lawer o ddywediadau ereill yn yr ysgrythyrau santaidd.

Meddyliaf fod gan gryn nifer o'r bobl hyn feddylddrychau rhagorol, ac y mae gan lawer o honynt feddylddrychau cywir mewn perthynas i ddyfodiad Mab y Dyn.

Yn y man cyntaf, caniatewch i mi sylwi, fod yr Iesu at ei ryddid ; y mae ganddo y nerth, y gallu, a'r hawl, pryd bynag ei cyfrifa yn anghenrheidiol, i ddadguddio ei hun i un person, neu i werin, amlyga ei hun i'r gynnulleidfa pan yn ei haddoliad cyhoeddus os mŷn. Mewn gair, daw pan y mŷno.

Arddengys yr iawn syniaeth o gymmeriad yr Iachawdwr, fel y deallwn ni ei gymmeriad, fod ganddo hawl i ymddangos i unrhyw berson ganol dydd, ganol y nos, yn y boreu, neu yn yr hwyr ; y fan, y pryd, a'r modd a ddewiso. Hyn yw ei hawl diammheuol.

Wrth lefaru am yr adgyfodiad, neu ymddangosiad yr Iachawdwr, darllenwn ynghylch hyny yn yr hen lyfr da. Pa bryd mae yr adgyfodiad cyntaf? Pe atebai y gynnulleidfa y gofyniad hwn, pa beth a ddywedent? Nid yw yn mysg y pethau a fyddant ; y mae yn yr hyn a aeth heibio; yr oedd pan y disgynodd yr angylion, ac y treigliasant y maen yn ol o enau y bedd lle y gorweddai yr Iachawdwr; pan adgymmerodd yr Iesu ei gorff ; dyna adgyfodiad cyntaf bôd marwol i anfarwoldeb ar y ddaear hon ; a'r hyn a aeth heibio er ys amser hir.

Yr angylion hyny a aethant yno, i ba beth? I lefaru wrth lwch cysglyd, nid yn unig eiddo yr Iachawdwr, eithr Abraham yn un, ac wrth bob tebygolrwydd fod Lot yn un arall, Noah yn un arall, a Moses yn un arall, gan ddweyd cyfodwch oddiwrth y meirw ; y mae yn amser i'ch cyrff i ddihuno o'u cysgadrwydd oesawl, a gadael y bedd llychlyd; ac felly yr adgyfodwyd llawer o'r Saint wedi adgyfodiad Crist ; ond pwy a greddodd hyny? I'wy a wyddai am dano? Pwy a'i tystiolaethodd? Neb, ond y pleidiau perthynol. Ni roddodd un hanesydd erioed hanes am dano, oddieithr y rhai a ysgrifenasant y dystiolaeth gynnwysedig yn y llyfr hwn, y Testament Newydd, a Llyfr Mormon. Y tystion pleidiol hyn ydynt unig dystiolaethwyr y ffaith hon,—pwy a'u cred yn cin dyddiau ni? Y rhai hyny yn unig ag y dadguddiwyd y pethau hyn iddynt. Tystiodd cin tadau a'n mamau i'r athrawiaeth fel ei cynnwysir yn y Testa-

ment Newydd; dysgodd ein hoffeiriaid ni i'w chredu fel y mae yn ysgrifenedig yno; ond pwy a'i gwyr? Y rhai y dadguddiodd Duw hyny iddynt. Y rhai hyn, fy mrodyr, ydynt dystion mai hyn yw fy athrawiaeth innau.

Pa fodd yr adnabyddwn ac y deallwn bethau Duw? Wrth y goleuni a lefarodd y Brawd Hyde am dano; Crist yw goleuni y byd, a goleua bob dyn sydd yn dyfod i'r byd, Sant a phechadur; Efe yw ffynnonell gwirionedd a gwybodaeth i'r greadigaeth hon.

Dywedaf etto mewn perthynas i'r adgyfodiad, neu ddyfodiad Mab y Dyn, fel y dywedais eisoes; mae yr adgyfodiad wedi dechreu er ys hir amser; a beth a wn i nad oes llawer wedi eu hadgyfodi oddiar yr amser y treiglodd yr angylion y maen oddiwrth y bedd, ac y galwasant allan gorff yr Iachawdwr? Dywed yr ysgrythyrau i lawer o'r Saint gyfodi ac ymddangos i lawer: eithr pa nifer a adgyfodwyd wed'yn nis gwn. Pa hyd y bydd cyn y dechreua yr adgyfodiad etto nis gwn, eithr da genyf gredu na fydd yn faith; dedwydd ydwyf wrth gredu fod adgyfodiad y dydd diweddaf yn agos. Pwy a gyfodir? Y Saint.—y rhai sydd yn huno yn yr Iesu, y rhai a amlygasant i'r Tad, i'r Mab, i'r angylion santaidd, ac idd eu holl berthynasau ar y ddaear, eu bod yn credu yn Nuw, ac yn cydnabod ei law yn mhob peth, ac ydynt wedi ei wasanaethu goreu y gallasant. A ddaw yr Iesu? Daw.

Dychymygwn amgylchiad, gadewch i'r gynnulleidfa hon fod yn barod i dderbyn ymweliad gan Fab y Dyn; tybiwch fod eu calonau yn santeiddiedig gerbron yr Arglwydd, neu y santeiddiasant yr Arglwydd Dduw yn eu calonau, a'u bod yn ymgynnulliedig yma i'w wasanaethu, ei foli, lle y mwynhâwn gymdeithas ein gilydd, a dawn yr Ysbryd Glân, yn neillduedig oddiwrth holl drafodaeth fasnachol perthynol i'r bywyd dynol, a'r drysau yn nghau, a'r Iesu yn dyfod i'n plith. tafla ymaith y llèn oddiar ein llygaid, fel y gwnaeth oddiar lygaid y ddau ddyscybl a ymdeithiasant o Jerusalem, canys ni adnabuasant ef hyd nes y torrodd fara wrth swpera,—tybiwch yr ymddangosa yn ein canol, ac y rhwyga y llèn oddiar ein llygaid; chwi a'i hadnabyddech; dywedai, wele ôl yr hoelion yn fy nwylaw, wele y fan y gwanwyd fy ochr; edrychwch arnynt, frodyr a chwiorydd, canys Myfi yw. Byddai pob llygad arno, a charai

pob calon Ef. Pe yr arosai gyda ni am amser ac yr elai ymaith.

Pe y gwasgarem ar led ac ar hyd y ddaear, ac y tystiolaethem beth a welsom, gofynaf, pwy a gredai ein tystiolaeth? Neb, oddieithr y bwriadai yr Arglwydd ei ddadguddio iddynt, gan angel santaidd, neu amlygiad o'i berson ei hun. Gallem dystio i hyny hyd oni syrthiem i'r bedd, i ddim dyben, oddieithr i'r Ysbryd ei amlygu iddynt; ni fyddai yn bosibl i un person ei wybod oddieithr i Dduw ei hysbysu iddo.

Pwnc o athrawiaeth ydyw hwn a deimlaf ei argraffu ar feddyliau y bobl hyn yn barhaus, h.y., i fyw yn ngoleuni Ysbryd Duw, fel y caffo pob dyn a dynes ddadguddiadau iddynt eu hunain, canys gall Ysbryd yr Arglwydd eich haddysgu, fel y gwybyddoch drosoch eich hunain.

A adgyfoda y Saint oddiwrth y meirw? Gwnant. Pwy a wybyddant hyny? Neb ond ychydig. Pan ddechreuo yr adgyfodiad, dywedaf nad ond ychydig a wybyddant hyny; a chaniatewch i mi eich hysbysu, pan y gwelech Joseph, Hyrum, a'r Tad Smith, a llawer ereill wedi adgyfodi oddiwrth y meirw, a chwithau Henuriaid yn myned oddicartref i bregethu, ni ddywedwch wrth y byd am eu hadgyfodiad, canys ni chredant hyny. Gallwch dystiolaethu fod y Tad Smith wedi adgyfodi, a bod Joseph a Hyrum yn meddu eu cyrff etto, a'u bod yn byw etto yn y cnawd, a hwy a'ch gwatwarent chwi, ac a'ch erlidient i farwolaeth, pe byddai gallu ganddynt, o herwydd eich tystiolaeth.

A adgyfoda y Saint oddiwrth y meirw cyn yr argyhoeddir y byd? Gwnant. Gallwch anobeithio i weled yr holl greadigaeth byth wedi eu troi at yr Arglwydd Iesu, neu i ffydd yr efengyl santaidd. A welwch chwi yr adgyfodiad? Gwelwch, byddwch ynddo, a mwynhewch ef; byddwch yn yr adgyfodiad cyntaf.— A greda y byd hyny, neu a fyddant hwy yn ei wybod? Na fyddant. Gwaredir Seion, adeiladir Teml fawr yr Arglwydd, ar yr hon y gorphwysa gogoniant yr Arglwydd, a chwmwl y dydd, a cholofn o dân y nos; y Saint a ymgasglant o bob cenedl, a hwy a ânt i mewn i Demlau Duw, i wneyd gwaith y prynedigaeth dros eu mheirw, a bod yn iachawdwyr ar Fynydd Seion i achub tŷ Esau. Ond a wybydda y cenedloedd hyny. Na wybyddant. A phan y teyrnasa yr Arglwyddd yn Frenin

cenedloedd fel y mae yn Frenin y Saint, ni chred trigolion y ddaear nad gallu rhyw ddyn medrus ydyw, eithr tybiant mai cynlluniau dynion doeth wedi eu rhoddi mewn gweithrediad yw y cyfan.

Felly eu llywodraethir ac eu rheolir, eu tra arglwyddiaethir ac eu harweinir gan egwyddorion yr Offeiriadaeth santaidd, ac ni amheuant nad gwaith ydyw o ciddo dynion doethion wrth ben cenedl gref, rhai hyddysg mewn llywodraethu, yn medru lawn lywodraethu cenedl eu hunain, ac yna dwyn yn ddarostyngedig eu cenedloedd cymmydogaethol, hyd nes y daw yr holl ddaear yn ostyngedig iddynt. Ni adnabyddant mai yr Iachawdwr sydd yn teyrnasu yn frenhin cenedloedd fel y mae yn frenhin y Saint. Bydd rhan helaeth o drigolion y ddaear na amheuant nad effaith doethineb dynion ydyw.

Cyfarwyddir y Saint pa fodd i adeiladu Seion, pa fodd i adeiladu temlau, a gwneyd gwaith y brynedigaeth i'w mheirw, ac ni wybydda cenedloedd y ddaear ddim ynghylch hyny. Pan ddygir y milfiwyddiant i mewn, ni wybydda un dyn na dynes unpeth yn ei gylch, ond yn unig trwy allu Duw. Efe a lywodraetha ac a deyrnasa, a bydd ei ogoniant yn Seion, ac ni wyr y drygionus mai llaw ein Duw ni ydyw. Y Saint a fwynhânt ddyscluerdeb ei wynebpryd, rhodiant ynddo, a phreswyliant yn ei bresennoldeb.

Dealler y pethau hyn gan y bobl yma, ac os oes Henuriad yn Israel, neu bersonau yn yr ystafell yma, nad ydynt yn credu yr hyn a ddywedais wrthynt am yr adgyfodiad, aroswch hyd oni ddaw i ben, ac yna gwybyddwch hyny drosoch eich hunain. Nid wyf yn gofalu pa un a gredwch hyny ai peidio, eithr dywedaf wrthych pa beth a ofalaf fwyaf am dano, a'r unig beth ag wyf yn gofalu am dano yw, a fydd y bobl hyn yn barod i hyny. A garwch chwi yr Arglwydd Iesu Grist, a'i wasanaethu a'ch holl feddwl a'ch nerth.

Nid ydwyf yn gofalu pa beth ydych yn gredu, canys ni wna effeithio na chyfnewid yr hyn a fodola. A wna y bobl hyn wasanaethu Duw, gwneyd daioni, a byw yn gysurus gyda'u gilydd—lledaenu yr efengyl ar led, a chasglu y Saint? Ni phrisiaf ludw gwelltyn rhag pa un a gredwch yr hyn wyf yn ddweyd am yr adgyfodiad, ynte ei anghredu a wnewch, os carwch ac y gwasanaethwch Dduw a'ch holl galonau; credwch

beth a fynoch os gwnewch ddaioni yn barhaus a dim drwg; os peidiwch byth a chyflawni pechod arall yn erbyn Duw, neu eich cymmydog, eithr bod bob amser o'r boreu hwn yn llawn o weithredoedd da, yn gwasanaethu yr Arglwydd a'ch holl galonau.

Gofynaf i'r bobl y boreu hwn, cyn y cychwynaf ddim yn mhellach, os nad oes rhyw ychydig o ddynion yn y gynnulleidfa hon ag ydynt yn y sefyllfa ag y gallant amlygu eu cymmwynasgarwch trwy anfon allan ychydig rhagor o weddeuau i gyfarfod a'r ymfudwyr, canys y mae perygl fod dynion a benywod yn dyoddef yn yr eira.

Yr ydwyf am wybod os oes yma ddigon o gyflawnder i godi tua dwsin o weddeuau; os gwnewch, ni hidiaf pa beth a gredwch am yr adgyfodiad. Os caf ddigon o grefydd yn y bobl i gyflawni hyny, boddlona fi yn bresennol. Ar ddiwedd y cyfarfod dymunaf ar i'r rhai ag ydynt foddlawn i fyned a chynorthwyo y dyoddefyddion i ddyfod yn mlaen a dweyd yr anfonant weddeuau i'r dyben hyny.

*Cyf.* Wm. Lewis.

---

## NEWYDDION O'R DYFFRYN.

*D. Ll. H. Mawr, Awst* 2, 1854.

Yr Henuriad F. D. Richards,—Anwyl Frawd,—Yr ydych yn wybodus am y clefydau ag ydynt yn dueddol o ymosod arein brodyr anghyfarwydd â'r hinsawdd ar yr afon Mississippi, am byny, dymunaf na chludwch ychwaneg i Orleans Newydd, eithr yn hytrach danfonwch hwynt trwy Philadelphia, Boston, a Chaerefrog Newydd. Pan ymfudwch gwmpeini mawr neu fychan, gofalwch i rag anfon i'r Henuriad John Taylor, yn ninas Caerefrog Newydd, gofrestr gywir o enwau y personau yn mhob cwmpeini, ynghyd a'u galwedigaethau, a chyfrif agos pa faint o feddiannau a feddant. Gwneler hyny mewn amser prydlawn, fel ei derbynier yn brydlawn gan yr Henuriad John Taylor cyn y tiria y Cwmpeini, fel y cyfarwydder pa fodd yr ymbarotöa i'w cyfarfod, neu i osod rhyw berson addas i wneyd hyny, a'u cynghori yn union pan y tiriant pa lwybr fydd oreu i bob un yn mhob cwmpeini gymmeryd, h.y., pa un

ai aros am yspaid yn y lle neu y gymmydogaeth y tiriasant, neu gychwyn yn nlaen i Cincinnatti a'i chylchoedd, &c.

Os dewisa rhai etto ymfudo trwy New Orleans, na ddanfonwch hwynt o Loegr yn ddiweddarach nâ dechreu Rhagfyr, fel eu gallnoger i adael yr afonydd cyn y dechreuo y tymmor clefydog, canys bu farw llawer o'r Cholera a chlefydau ereill perthynol i'r tymmor afiachus ar yr afonydd, ac nid wyf am i'r brodyr gael cymmaint o'u peryglu ag a gawsant; a chynghorwch hwynt i brysuro i fyny i'r afonydd, a myned i ffwrdd i Missouri ac Iowa i weithio, neu yn nlaen i'r gwastadedd, fel bo'r amgylchiad, cyn y delo y tywydd twymn.

Oddiwrth y newyddion diweddaf, deallwn i'r holl Henuriaid sydd ar eu ffordd o'r dyffrynoedd hyn i gyflawni amrywiol genadiaethau gael eu bendithio mewn cyflawnder, a'u llwyddo ar eu taith, ac y cyrhaeddant i'w hamrywiol faesydd llafur yn fuan wrth bob tebygolrwydd. Sonir am beth clefyd, ac amryw o farwolaethau yn mhlith y brodyr sydd yn croesi y gwastadedd, eithr ni chyrhaeddodd un hysbysiad pendant ni etto, o'u sefyllfa a'u symudiadau, ac oddiwrth yr oll a allwn ddirnad, gyrant yn nlaen yn arferol o hwylus, ond bydd rhai yn lled hwyr yn cyrhaedd yma.

Cwblheir y gwaith *adobie* ar fur y Temple Block yn fuan, mae llawer o'r sylfaeni wedi eu nhaddu yn barod i'w gosod, ac y mae amryw weithwyr yn ymwneyd yn ddiwyd a gosod blockiau anferth o gerrig yn sylfaen gadarn y Deml. Mae argoelion yn parhau yn dda am gynheuaf toreithiog yn gyffredinol, er fod cenllusg a cheiliogod y rhedyn wedi niweidio mwy neu lai ar y cnydiau a'r gerddi. Mae hyn oll yn dda, ac achosa llawdriniaeth dyner a doeth yr Arglwydd i'r bobl i fod yn fwy diolchgar am, a gofalus o'r gweddill.

Mwynheir iechyd da yn barhaus yn ein holl sefydliadau, a pharha holl faterion busnesol a chyssylltiadau Indiaidd yn llwyddiannus a chyfeillgar.

Mae nwyfau yn dyfod mewn cyflawnder, ac y mae ychydig o ostyngiad yn eu prisiau, yr hyn sydd yn debyg o barhau hyd nes y prynir y mwyafrif o nwyfau marchnadol am brisiau rhesymol. Bydd hyn yn fanteisiol iawn i'r rhai na feddant ond ychydig foddion, ac y mae yn arddangosiad o dyner raglunaeth ein Tad nefol.

Mae eich teulu yn iach, hefyd teuluoedd yr holl Henuriaid tramor, cyn belled ag y gwn.

Gan weddio am eich llwyddiant a'ch lles yn lwybr pob gwirionedd a dyledswyddau,

Ydwyf, eich brawd yn y cyfammod,

BRIGHAM YOUNG.

A gyfieithiwyd gan Wm. Lewis.

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, TACHWEDD, 4, 1854.

NEWYDDION CARTREFOL.—Cawsom y mawr bleser o dreilio Cymmanfa berthynol i Gynnadledd Sir Henfforddd, a gynnaliwyd yn Pontypool, Sul yr 8fed o'r mis diweddaf, lle y cyfarfuom a'r hybeirch frodyr o Seion, C. G. Webb, E. Ellsworth, y Bugail Barker, y Llywydd Galloway, a llu o frodyr ffyddlon ereill, a Saint yn llawn sel a chariad at eu gilydd ac at achos Duw. Fe orlanwyd y Neuadd trwy y dydd, ac am 2 o'r gloch cawsom yr anrhydedd o bregethu gair y bywyd i'r dyrfa siriol yn Gymraeg, y rhai, os iawn barnu yn ol eu hymddangosiad astud a llawen, oeddynt yn ymborthi yn flasus ar yr oll a glywent. Cawsom addysgiadau dyddorol iawn gan yr Henuriaid ereill, a mawr roesawiad yn yr wyl nos Lun; a diau fod llawer o leshâd wedi ei wneuthur i'r gwrandawwyr parchus. Y mae yr efengyl ar ei chynnydd o'r newydd yn mhlith ein cymmydogion hyn, ac y mae y Saint wedi ymadnewyddu yn rhyfeddol. Mawr oedd ymholiad y brodyr Cymreig am draethodau Cymraeg! Anfonodd y Llywydd Galloway am werth dros bum punt o rai Cymraeg at eu gwasanaeth; a'r Arglwydd a fendithio eu hymdrechiadau yn helaeth.

Dywenydd genym allu canmol duwioldeb a sel Saint Sir Fynwy; cawsom bleser anhawdd ei draethu yn ein hymweliad ag amrywiol gangenau drwy yr wythnos ganlynol gyda y

Llywydd Giles, &c. Yn mhob man clywid sŵn bedyddio, a mwy na sôn am hyny mewn rhai manau, cawsom y pleser o bregethu ar lân y dwfr lle y gwelid y *ffaith*, ac y cafwyd gwrandawiad astud gan liaws; ac, ond i'r Saint gyflawni eu haddunedau i ffyddlondeb gyda'r gwaith, bydd llwyddiant mawr a buan yn eu dilyn. Boddhawyd ni yn fawr yn eu hundeb, eu cariad, eu parch i'r Offeiriadaeth, a'u hufydd-dod i'w dysgeidiaeth. Cynnyddu a wnelo dylanwad y Llywydd Giles a phob Llywydd arall a ymdrecho fel efe i adeiladu teyrnas ein Duw, hyd nes y caffont bob swyddog ac aelod i ufyddhau i bob cynghor o'u heiddo; a phe felly ni allent beidio a llwyddo; ac hyderwn y dyry cyfnerthiad grymus yr hen frodyr ffyddlon sydd gan y Llywydd Giles yn ddewiswyr drwy ei Gynnadledd. Sir Fynwy ar dân cyn hir, hyd nes y gwelo hyd y nod y deillion, y rheffynau sectyddol sydd yn caethiwo'u heneidiau, ac yr ymysgydwant o honynt.

Amlwg oedd dylanwadau Ysbryd Duw yn y Gymmanfa yn Tredegar y Sul canlynol hefyd, a chafwyd rhwyddineb mawr i lefaru gan y Llywyddion Daniels, Ellsworth, Evans, Galloway, Giles, &c., ac ymbleserai y gwrandawwyr yn yr hyn a glywent, serch fod y Neuadd yn orlawn a llawer allan yn y gwlaw. Yn y prydnawn, yn ddilynol i annogaethau gwresog yr Henuriad Ellsworth i gynnyddiant yn mhob duwioldeb a diwydrwydd i gario gwaith Duw yn mlaen, cawsom y cyfleustra i alw sylw y Saint at bwysigrwydd eu tystiolaeth a'u dyledswydd i'r byd yn ngwyneb hyny, o iawn gyfranu iddynt wybodaeth o'r gwirionedd drwy iawn fucheddu, tystiolaethu, a diwydrwydd i ddosparthu traethodau; ar ol yr hyn, ar gais y Llywydd Giles, arwyddodd y dorf eu penderfyniad i werthu yr oll a anfonid iddynt. Danghosodd cyfrifon y Gynnadledd ffyddlondeb canmoladwy yn y Saint i dalu eu dyledion i'r Gynnadledd, ac am eu llyfrau. Cynnaliwyd cwrdd y Gymdeithas Genadol nos Lun, lle y danghosodd yr areithwyr gwresog fawr sel dros yr achos daionus.

---

*Brycheiniog.*—Cynnaliwyd y Gymmanfa hon yn Brynmawr, ar yr 8fed o Hydref. Cynnrychiolwyd 7 o gangenau, yn cynnwys 25 Henuriad, 8 Offeiriad, 6 Athraw, 6 wedi eu bedyddio, a'r cyfanrif yn 141. Teimlwyd grymus weithrediadau yr Ys-

bryd Glân yn gydfynedol â'r ddysgeidiaeth ddwyfol a roddwyd gan y Llywydd Daniels ac ereill, ac ymddangosodd pawb wrth eu bodd. Hyderwn y corona Duw eu llafur â llwyddiant mawr, er lleshad dynion a gogoniant i'w enw.

---

## CYNNADLEDD ORLLEWINOL MORGANWG.

Mygedawg Lywydd Jones,—Gyda phleser anghyffredin y gallaf hysbysu darllenwyr yr Udgorn o hanes byr am ein Cymmanfa. Cynnaliwyd ein Cymmanfa, Hydref 22, yn y *Saint's Hall, Orange Street*, Abertawy.

Yr oedd yr ystafell yn orlawn, ac ymdyrodd y gwrandawwyr nes llanw y tu allan i'n cynteddau.

Aethpwyd yn mlaen fel arferol gyda phethau perthynol i waith dyddorol ein Cynnadledd. Dangoswyd unfrydoldeb trylwyr i ddal i fyny awdurdodau yr Eglwys hon. Yr oedd pawb yn foddus, a gwên yn chwarae ar wefusau, a sirioldeb yn dawnsio ar ruddiau yr holl Saint, a mwynhad o'r Ysbryd Glân yn gyffredinol, ac i raddau cynnyddol i'w weled yn amlwg ar wynebau pawb. Cynnaliwyd cyfarfodydd yn y boreu, prydnawn, a'r hwyr.

Addysgwyd a phregethwyd gan yr Henuriaid canlynol, sef Capt. Jones, T. Jeremy, R. Evans, J. Price, D. Rees, B. Jones, Thomas Jones, &c. Cawsont gymhorth i bregethu, cafodd y y Saint eu hadeiladu, a'r gwrandawwyr dystiolaethau cedyrn a diwrthbrawf.

Y cynnrychioliad sydd fel y canlyn:—Arch. 1, Hen. 65, Off 29, Ath. 25, Diac. 19, bu farw 1, Bed. 25,—Oll 463.

Mae gwaith Duw ar gynnydd buan yn y Gynnadledd hon. Cynnaliasom ddeg o Gymmanfaoedd pregethu, mewn gwahanol fanau yn y cylch hwn. Lliaws mawr a ymdyrant i'n gwrandaw. Yn Ystradgynlais yn ddiweddar cawsom tua dwy fil o wrandawwyr, ac arwydd y fod yno ugeiniau yn credu. Gwyr cyfrifol hefyd a ddeuant i'n gwrandaw, a chofnodir ein pregethau yn ofalus ganddynt.

Yr ydym wedi rhoddi heibio pregethu allan am ryw dymmor, gan benderfynu tystiolaethu o dŷ i dŷ, dosparthu traethodau trwy y trwch yn ein cyfer, fel y gallo y rhai hyn bregethu, lle

na fyddo amser genym ni i ymweled ond yn anaml. Dosparthasom tua *naw mil* o draethodau yn yr wythnosau a aethant heibio, a dosparthir miloedd etto yn yr wythnosau dyfodol. Ymddengys y swyddogion a'r Saint, fel pe byddent am dynu teyrnas y gelyn yn chwilfriw cyn pen bythefnos. "*Go a head.*"

Nid oes genym amser i geintach, athrodi, a chyhuddo y naill y llall gadawn hyny yn hollol i'r byd ag ydynt hoff o hono.

Yr eiddoch yn ddidwyll yn y C. T.,

Yn serchus fel arfer,

DEWI ELFED JONES.

---

## EISTEDDFOD CYNNADLEDD ABERTAWY.

CYNNELIR yr Eisteddfod uchod, yn Neuadd y Saint, *Orange Street*, Dydd Nadolig nesaf.

Cymmerir y gadair am 3 o'r gloch prydnawn. *Eiddunr* gyda thaerineb, *gydweithrediad* a *phresennoldeb* holl brydyddion a beirdd y Saint trwy Gymru benbaladr.

Hyderir y bydd i awen ffrochwyllt y beirdd daflu allan i ni gyfansoddiadau destlus a phenigamp.

### TESTUNAU A GWOBRWYON.

1. Am y gân oreu ar yr "Ymfudiad," ar y dôn "Boreu teg."—Llyfr Mormon yn Gymraeg.

2. Am y gân neu y cyfansoddiad goreu ar Wladgarwch, rhyddid, a gwirionedd.—Llyfr Mormon yn Saesneg.

3. Am y gân oreu ar Ymdrechion y Saint yn Nghynnadledd Orllewinol Morganwg, ar y dôn "Hedydd lon.—Llyfr Mormon yn Ffrengaeg, (*Le Livre de Mormon*).

4. Am y gân oreu ar Ymdrechion y Saint yn Nghymru, ar y dôn "Codiad yr Uchedydd."—Llyfr Mormon Ellmynaeg (*Das Buch Mormon*).

5. Am y gân oreu i ARGRAFF WASG Y SAINT yn Abertawy, ar y dôn "Merch Meigen."—Llyfr Mormon yn Italaeg (*Il Libro di Mormon*).

6. Am y gân oreu ar "Hiraeth am Seion," ar y dôn "Sweet Home."—Llyfr Mormon yn y Danaeg (*Mormon's Bog*).

7. Am y gân oreu i'r "Drysorfa Ymfudol Barhaus, ar y don "Aderyn pur."—Yr Eurgrawn Ysgrythyrol.

8. I'r dyn a wertho fwyaf o draethodau,—"Gweithiau awdurol Capt. Jones, am y fl. 1854." wedi ei rwymo yn hardd.

9. I'r chwaer a wertho fwyaf, etto.—Darlun o Brif Lywyddiaeth a Deuddeg Apostol Saint y Dyddiau Diweddaf.

10. I'r bachgenyn o dan 14eg oed, a edrydd fwyaf o Gatechism yr Henuriad J. Jaques.—Llyfr Hymnau o'r rhwymiad goreu yn Gymraeg a Saesneg.

11. I'r enethig o dan 12eg oed, etto.—Llyfr Hymnau Cymraeg o'r rhwymiad goreu, a'r Perl o Fawr Bris yn Saesneg.

12. I'r sawl a gasglo fwyaf o dderbynwyr newyddion i "Udgorn Seion" am y flwyddyn ddyfodol.—Cyfrol o "Udgorn Seion" am 1854, o'r rhwymiad goreu.

13. I'r sawl a wna fwyaf o ddaioni yn ol y feirniadaeth yn yr Eisteddfod ar y goreuon yn mhob Cangen.—Ath. a Chyf. o rwymiad hardd.

14. I'r sawl a fedyddio fwyaf o hyn hyd amser yr Eisteddfod.—"*Biographical Sketches of Joseph Smith the Prophet.*"

DADGEINIAID.

1. I'r Datganydd goreu o "*Joseph the Seer.*"—Llyfr Hymnau Cymraeg o rwymiad hardd.

2. I'r Dadganydd goreu o "Sectariaeth yn y Fagl," gan Dewi Elfed.—Ath. a Chyf. o rwymiad hardd.

3. I'r Dadganydd goreu o "Y Trysor o'r Mynydd," gan N. Ddu.—Yr Eurgrawn Ysgrythyrol.

4. I'r Dadganydd goreu o Gyflafan Nanvoo," gan Dewi Elfed.—"*Spencer's Letters*" o rwymiad hardd.

Y CÔR.

Bydd i amryw dônau o waith ŷr awduron goreu, i gael eu cann yn fedrus rhwng adroddiadau y gwahanol gyfansoddiadau, &c.

Bydd plant yr awen at eu rhyddid hefyd i ganu ar y testunau a fynont, a'r mesurau a ewyllysiont, caethion neu ryddion, heblaw y cyfryw a enwyd uchod.

Cynnelir cyfarfod tebyg yn Aberafon, Rhag. 26, ac yn Pontardawe ar y 27ain.

Dysgwylir i'r Cyfansoddiadau ac enwau yr holl ymgeiswyr i gael eu hanfon wythnos yn flaenorol i law "Dewi Elfed Jones, No. 12, Carmarthen Buildings, High Street, Swansea."

Y Cyfansoddiadau i fod yn eiddo yr Eisteddfod.

Yr eiddoch oll, ac oll yn eiddoch, wrth lai o rybudd nac "*un dydd a blwyddyn*,"

Yn serchus fel arfer.

DEWI ELFED JONES.
Llywydd y Gynnadledd.

---

D.S. Cynnelir yr Eisteddfod dan nawdd y Llywyddiaeth yn Nghymru.

CAPT. JONES.
THOS. JEREMY.
D. DANIELS.

---

## NEWYDDION TRAMOR.

YSGRIFENA yr Apostol Erastus Snow o St. Louis dyddiedig Medi 12, ei fod ef a nifer o genadon eraill i'r Taleithiau ac un i Loegr, wedi gadael Utah Gorph. yr 8fed a dyfod trwodd mewn daufis a hanner. Bu yr ymfudiad i California ac i Oregon yn lliosog iawn eleni, a mwy o anifeiliaid nag a aeth mewn unrhyw dymmor blaenorol; cyfarfuant â thua deng mil mewn un dydd. Cyfarfuant â chymmaint arall o farsiandiaeth yn myned i Utah ag a aeth mewn un flwyddyn flaenorol. Yr oedd y blaenaf o'r ymfudwyr i Utah ar y *Sweet Water*, ereill yn mhellach o lawer; yr oedd pump o wersylloedd mawrion, yn mhlith y rhai yr oedd Cymru o fewn tua chan milltir i Fort Laramie, neu hanner y ffordd; cynnnaliasant gyfarfodydd gyda'r mwyrif o honynt, a chawsant hwy yn llwyddiannus ac yn y mwynhâd o iechyd cyffredinol. Cystuddiwyd yr ymfudwyr yn drwm gan afiechyd ar hyd yr afonydd, ond gwaredwyd hwynt o hono fel y cyrhaeddasant y Plains; bwriedir eu cychwyn yn gynnarach o hyn allan. Dygwyddodd anffawd i un gwersyll, dychrynodd eu hanifeiliaid a rhuthrasant ymaith; dilynwyd hwy ar geffylau am bedwar diwrnod, ond diangodd 120 yn mhlith y gyroedd aneiryf o'r Buffaloes a grwydrant yn yr anialwch maith hwnw; bwriadent brynu ereill yn Fort Laramie. Am ran fawr o'r

daith yr oedd y sychder anarferol a fu wedi lladd y borfa, a'r tânau mawrion wedi difa y coedydd o'u blaen mewn parthau helaeth o'r wlad. O wahanol barthau y Taleithiau y cwynfan oedd "yr ydym braidd a chael ein llosgi i fynu yn fyw."

Aeth y Brawd Spencer i faes ei lafur i Cincinnatti.

Mae y Brawd Andrews wedi bod yn llafurus iawn yma i ail enyn bywiogrwydd yn y Saint, ac y mae yr Arglwydd yn bendithio ei lafur trwy dywallt ei Ysbryd yn helaeth arnynt. Maent wedi cael capel mawr a chyfleus a feddiannid gynt gan y Bedyddwyr; yr hwn ag y clywsom ddarlithio ynddo yn erbyn Mormoniaeth; eithr yn awr cyhoeddir llwyddiant Mormoniaeth o'r un pwlpud ag y clywsom brophwydo ei darfodedigaeth buan! Hysbysa y Llywydd Snow ei fod yn awr yn barod i dderbyn ac i wneyd yr hyn a allo er lleshâd y Saint a ddeuant yno. Bwriada gyhoeddi Newyddiadur yn wythnosol o'r enw "Freeman's Advocate." Amcana hefyd sefydlu trefedigaeth o Saint gerllaw i Kansas, ar ymyl ffordd y Llyn Halen Mawr, ar y tir a brynwyd oddiar yr Indiaid. Cynnalia Gymmanfa Gyffredinol yn St. Louis yn niwedd y mis hwn.

---

## I "UDGORN SEION."

Yr "Udgorn" mwynlon a mâd
Fo'n swnio 'n fwyn ei swniad,
A'i seinber hyd bellder byd
Fo'n chwalu a dymchwelyd.—
Pob traddodiad a brad bron,
A nodda awenyddion,
Ac araethwyr doethwyr dig
A'u 'ffernawl eiriau ffyrnig,
Sy'n adrodd ar g'oedd yn gas,
Er darnio y wir Deyrnas;
Syndod "mae'n darfod bob dydd!"
Ond cryfach yw ein crefydd.
Mewn ingloes am ein hanogladd,
Y mae llu am ein lladd.
Er hyny *canu* modd cu,
A seinio nes eu synu,

Mae'r "*Udgorn*" rhwyddlon a rhydd,—
A'i sainbleth sy'n ysblenydd ;'
Ei glaiwych sain a glywir
'N gywrain yn y dwyrain dir;
Gorllewin geir yn llawen,
Wrth ei sain heb warth îs nen ;
Ac hefyd seinia'n hyfach
Drwy y byd draw i bob âch.
Yr "*Udgorn*" fo i'r adgas
'Fodd grymus i feddu grâs,
Drwy oleuo draw i'w lys,
A'i dawel uniawn dywys,
At wirionedd rhyfedd rhâd,
O ddudwyll wael draddodiad.
Udgana, llwydda'n llon,
I ddenu amryw ddynion,
A seinia glir sain i'n gwlad,—
"Amen" yw fy nymuniad.

*Abergwaun.* GILBERT WILLIAMS.

---

## IACHAD O'R CHOLERA TRWY YR EFENGYL.

BARCHUS OLYGYDD,—Dyma i chwi brawf arall at y profion aneirif a gawsoch eisoes fod yr efengyl yn "allu Duw" yn awr yn mhlith y Saint, megys y tystiai Paul ei bod hi yn "allu Duw" i'w hufyddion yn ei amser yntau, a diau yr ymbleserai y Saint i glywed y testun canlynol i glodfori Duw am ei allu amlygadwy, a'r hwn a brawf hefyd gywirdeb eich cyfarwyddyd i wella y geri farwol yn y rhifyn blaenorol o'r "*Udgorn*" Mae fel y canlyn :

Hydref 12fed, tarawyd Wm. Rosser, Dowlais, gan y Cholera gyda y fath ffyrnigrwydd nes ei amddifadu o'i deimlad, ei olwg, glyw, a'i lefariad, ac mewn gair, amddifadodd ef o'i synwyrau, fel yr ofnai y rhai oeddynt yn bresennol ei fod ef ar farw. Wedi cael caniatâd, gweinyddasom yr ordinhâd o arddodiad dwylaw arno, gan weddio ar Dduw yn enw Iesu Grist ei iachâu, ac er ein mawr lawenydd dechreuodd glodfori Duw, am ei fendithio â rhydd-hâd o'i boenau, ac adferiad ei gynneddfau yn y fan, er fod ei gorff yn wanaidd o herwydd arteith-

iau yr erchyll glefyd. Er fod y Cholera yn poeni ac yn lladd ambell un o'r Saint yn mhlith lliaws o'n cymmydogion ereill, y mae testunau aml i ddiolch i Dduw am atebiad i'n gweddiau ar ran y ffyddloniaid, a phrofion fod efengyl sydd yn *allu Duw* yn werthfawrocach, yn yr amserau enbyd hyn, nag yw y byd a'i holl drysorau, pe hebddi.

Cyd-dystia y gwragedd canlynol, er nad ydynt yn Saint, wirionedd yr uchod, sef Ann Thomas, Ann Phillips, a Mary Hughes.

Eich brodyr yn Nghrist,

JOHN WALTERS.
JAMES PHILLIPS.

---

## AMRYWIAETHAU, &c.

TALODD y Senedd 20,940 o ddollars i Utah at draul y rhyfel yn erbyn yr Indiaid yn 1851 a 1852.—25,000 o ddollars at wneuthur heol filwraidd yn Utah.—500 o ddollars at gynnyddu llyfr-gell Utah.—2,428 o ddollars a 10 o cents at dalu traul y llywodraeth.—10,000 o ddollars at amddiffyn rhag yr Indiaid yn 1853.—20,000 o ddollars at wasanaeth Indiaidd yn 1855.—45,000 o ddollars am nwyfau 'a roddwyd i'r brodorion.—30,700 o ddollars at draul y llywodraeth am 1854.—Cyfanswm 154,569 o ddollars a 75 cents.

---

DERBYNIADAU AM LYFRAU O HYD. 20 HYD 27.—George W. Davies, £4 10s.

⁂ Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office*, *Swansea*.

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Darlith ar yr Adgyfodiad Cyntaf gan y Llywydd B. Young | 549 |
| Newyddion o'r Dyffryn | 554 |
| Golygyddiaeth—Newyddion Cartrefol | 556 |
| Cynnadledd Orllewinol Morganwg | 558 |
| Eisteddfod Cynnadledd Abertawy | 559 |
| Newyddion Tramor | 561 |
| I "Udgorn Seion" | 562 |
| Iachâd o'r Cholera llwy yr Efengyl | 563 |
| Amrywiaethau, &c. | 564 |


---

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 36.] TACHWEDD 18, 1854. [CYF. VII.

### "GRAS CADWEDIGOL."—PA BETH YDYW?

*(Dyfyniad o Draethawd yn y Wasg.)*

BOB amser braidd ag y ceisir gan grefyddwyr yr oes "dduwiolfrydig" hon ufyddhau i'r ordinhadau a orchymynodd Iesu Grist, yr ateb a geir yw, "Nid yw o nemawr bwys o barthed i ordinhadau ond cael grâs cadwedigol, pethau allanol a dibwys yw ordinhadau a defosiynau, gellir eu gwneyd neu beidio, eithr cael calon newydd,—delw Duw ar yr Ysbryd—adenedigaeth neu waith grâs ar y galon yw'r oll a ofyna Duw yn awr." Dyna ymguddfa miloedd o grefyddwyr, a'r hunan-gyfiawnder a wna orchymynion dwyfol yn ddiffudd. Tra y caniateir fod y pethau yna yn dda yn eu lle, goreu po fwyaf; etto ymresymwn —os yw poblogrwydd yr haeriad hwn yn ddigonol brawf o'i eirwiredd ni fydd waeth er ei chwilio; eithr, gan fod cadwedigaeth yn ymddibynu ar gael *gras yn y galon*, buddiol i'r goreu ymchwilio a yw yn bosibl fod grâs yn nghalon y sawl a grêd y gosodiad hwn!

Sylwn yn y lle cyntaf, fod "grâs," yn ol iaith yr ysgrythyrau yn gyfystyr â "rhodd," "dawn," neu gyflwyniad o unrhyw fendith o eiddo Duw i ddynion; ac felly rhaid ei fod, fel pob rhodd arall yn sylweddol, os nad *sylweddol* y rhodd, *diddim* yw, gan nad ellir dirnad ond sylwedd a diddimdra, ac felly ni all fod yn "rhodd." Dywedir mai "dawn Duw yw bywyd tragywyddol," felly rhaid fod bywyd tragywyddol yn sylweddol. Pan y dywedir fod yr Arglwydd yn rhoddi "grâs i'r gostyngedig,"

arwydda gyfraniad o ryw fendith mor sylweddol ag yw ei *holl drugareddau.*

Pan y mae Duw yn rhoddi "grâs yn y galon," rhaid ei fod yn rhoddi ei Ysbryd yn *sylweddol* i ddylanwadu ar y galon; a chan yr addefir nad yw y galon ond cnawd, eithr yn arwyddo dylanwad Ysbryd sylweddol Duw ar ysbryd dim llai sylweddol dyn, dengys hyny y rhaid fod y derbynydd yn cydsynied â'r ammodau a osododd Duw yn rheol i ddyn gael dylanwad ei Ysbryd Glân. Gwadu na roddodd Efe reol sydd gyfystyr á hòni fod dyn yn alluog i wneyd rheol ei hunan; a hyny fyddai gwadu gorchymynion Duw yn gyfangwbl. Cyfaddef ei fod Ef wedi rhoddi yr addewid o râs ei Ysbryd drwy ufydd-dod i'w orchymynion sydd gyfystyr ag addef na ellir bod grâs yn nghalon y neb na ufyddhaodd i'r gorchymynion dwyfol hyny, nad beth a dybia nac a haera dyn ei hun. Arweinia hyn ni at safon ysgrythyrol a chywir i brofi gan bwy y mae "grâs yn y galon," sef gan yr hwn a ufyddhaodd i drefn Duw. A chan nad oes addewid i neb drwy yr holl ysgrythyrau i gael Ysbryd Duw ond drwy yr iawn weinyddiad o'r ordinhad o "arddodiad dwylaw," gan bwy arall heb hyn y dichon fod "grâs yn y galon?"

A chan nad oes sail ysgrythyrol i arddodi dwylaw ar neb cyn iddynt gael eu bedyddio "er maddeuant pechodau," a chan fod edifeirwch a ffydd yn gymmwysderau anhebgorol i fedydd, pa fodd nad yw y rhai sydd yn perswadio eu hunain eu bod wedi derbyn "grâs yn y galon," tra heb wneuthur hyny yn twyllo eu hunain ac yn amddifad o hono?

Mae y pwysigrwydd a ddyry Iesu Grist a'i apostolion ar, a'r manylrwydd a ddysgant i ufyddhau i holl orchymynion Duw yn profi, yn ghyd a'u holl addewidion, mai drwy ufydd-dod hollol oedd yr unig ffordd a wyddent hwy am dani i gael "grâs yn y galon," ac yn profi unigolrwydd y ffordd i ninnau ei gael.

Nid yw yr ychydig eithriadau a wnaeth Duw i Cornelius ac ereill, yn awdurdodi neb i gyfnewid ac i esgeuluso ei *drefn ddwyfol* i hyny.

Eithr nid yw ordinhadau, megys bedydd ac arddodiad dwylaw, &c., yn anhebgorol er mwynhad o "râs yn y galon," ebe y sectwr selog, namyn pethau allanol ac anianol ydynt, canys oni

ddywed yr ysgrythyr "Trwy weithredoedd y ddeddf ni chyfiawnheir un cnawd."

Atebwn mai at y ddeddf seremoniol y cyfeiriai Paul yn yr adnod yna, etto dywed Paul fod bedydd ac arddodiad dwylaw yn ordinhadau yr efengyl, yn ddwyfol orchymynedig, ac yn anhebgorol er cael "grâs" gan Dduw. Ufyddhasai iddynt ei hunan, a'i brif waith oedd annog ereill i ufyddhau iddynt. Y mae yn wir na achubir neb trwy weithredoedd allanol oddieithr eu bod yn tarddu oddiar wir ffydd, ac o ddybenion cywir; etto nid yw y camddefnydd a wneir gan ragrithwyr o ordinhadau yn esgusodi arall rhag ufyddhau iddynt, eithr yn mhob oes a than bob amgylchiad gofynai Duw ufydd-dod i bob gorchymyn "allanol" fel eu gelwir, ac nid oes enghraifft o'i gymmeradwyaeth Ef heb hyny. Gorchymynai i Israel "rwygo eu calonau ac nid eu gwisgoedd," o herwydd fod rhai wedi gwneuthur yr ymddangosiad hyny yn rhagrithiol, a'r rhagrith a waharddai Efe, nid y weithred.

Ffaith arall a brawf nad yw y sefyllfa o santeiddrwydd a duwioldeb y medrylia llawer am dani i'w mwynhau heb ufydd-dod trwyadl y *corff* i weithredoedd "allanol," ïe, i bob gorchymyn dwyfol, pa un bynag ai am bethau 'tymmorol,' 'allanol,' neu 'ddaearol' fel eu gelwir, ynte pethau ysbrydol yw, y fod pob gweithred o eiddo dyn yn weithred ysbrydol, o herwydd nad yw ei gorff ond pabell yn yr hon y preswylia bod deallus, sef ei *ysbryd* ef. Nid oes dealltwriaeth yn y corff o hono ei hun, fel y profir drwy fynediad ei ysbryd o hono. Felly rhaid fod pob llefariad y genau, ysgogiad yr aelodau, a gweithredoedd y corff yn ufydd-dod i gymhelliadau yr ysbryd mewnol, ac o ganlyniad priodol eu gelwir yn weithredoedd yr ysbryd neu yn ysbrydol.

Prawf cyfrifoldeb dyn pan ei barnir "yn ol ei weithredoedd yn y corff, pa un bynag ai da ai drwg" mai yr ysbryd a ddalia Duw yn gyfrifol am yr hyn a wnaethpwyd yn y corff; ac felly y bydd hefyd am yr hyn a esgeulusodd wneuthur. Mae hyn yn rhy eglur i fod eisieu ei egluro; ac felly nid llai eglur yw mai ysbrydol yw ufyddhau i'r ordinhadau a ddiystyrir rhy fynych am bethau cnawdol a difudd. Mae pob gweithred yn profi mai eiddo bod deallus yw, felly rhaid fod pob ufydd-dod o eiddo dyn yn profi pa beth yw meddwl ei ysbryd ef. Os nad yw y

corff ynddo ei hunan yn ddeallus, paham y sonir am weithredoedd "corfforol" neu! "gnawdol?" A fwytawyd, a yfwyd, a garwyd, a gasawyd, neu a wnaethpwyd un weithred dda neu ddrwg heb ei bod yn tarddu o gymhelliad yr ysbryd i'r cyfansoddiad? Os do, y corff yn unig a gospir neu a wobrwyir am hyny! Os naddo, nid cnawdol yn unig yw.

Felly gwelir fod bedyddio yn weithred o eiddo yr ysbryd gymmaint ag yw ffydd ac edifeirwch. Yr ysbryd sydd yn clywed y gorchymyn, yr ysbryd oedd yn cydsynied ac yn penderfynu a ufyddha ynte a anufydda; mae y corff yn ufydd i'r naill neu y llall fel yr ewyllysia yr ysbryd: os ewyllysia fyned at làn y dwfr, mae y traed yn hollol ewyllysgar i gludo y corff yno; os dewisa yr ysbryd i'r corff gael ei gla ldu yn y dwfr, onid oes yno hollol gydgordiad yn mhob aelod? Yna gweithred ysbrydol yw bedyddio, ac nid yw y corff ond peiriant at wasanaeth yr ysbryd. Dichon yr egwyddor hon ymddangos yn hynod i'r darllenydd, etto nid mor hynod, debygwn, ag a fyddai clywed ei gyd-ddyn yn dweyd fod ei draed wedi cymmeryd y wîb i fyned a'i gorff i lawr i'r dwfr, a bod ei gorff wedi mŷnu cael ei fedyddio yn groes i'w ewyllys ef, a bod yn ddrwg ganddo na allasai ei rwystro! Onid testun gwawd fyddai y fath haeriad, ac oni ddywedech yn y fan na allasai ei gorff ymsymud troed na llaw, na'i hunan o'r fan heb i'w ysbryd ewyllysio hyny, dyna brawf o ein gosodiad ynte, sef nad yw holl weithredoedd dyn pan eu holreinir i'w hachos priodol fwy na llai na gweithredoedd ei ysbryd ef, yr hwn sydd yn preswylio yn, ac yn llanw ei babell hyd flaenau ei fysedd, bob cymal, migwrn, ac asgwrn o hono, gan eu defnyddio megys offerynau yn ei law i wneuthur ei ewyllys ei hun.

Yr unig wahaniaeth sydd rhwng ysgogiad priodoliaethau yr ysbryd, megys caru, casâu, myfyrio, neu gynllunio, â'r cyflawniad o'r cyfryw drwy weithrediad y corff yw y graddau o rym sydd ynddynt. Pan y crêd yr ysbryd fod yn ddyledswydd arno gymmeryd ei fedyddio, hyny yw ffydd, yr hon a ddengys ei grym yn unig drwy orfodi y corff i wneyd hyny; megys y dywedir am ffydd heb weithredoedd mai marw yw, o herwydd nad yw yn alluog i ddylanwadu ar y corff i weithredu ei hewyllys, felly o'r ochr arall dywedir fod ffydd yn cael ei pherffeithio drwy weithredoedd. O'r naill ochr fel y llall gweiir

mai yr ysbryd yw'r prif achos. "Heb ffydd anmhosibl yw rhyngu bodd Duw," a chan nad oes ffydd lle nad oes ufydd-dod i Dduw, amlwg yw na ddichon fod gan y sawl na fedd ddigon o ffydd i orfodi ei gorff i fyned i ddyfroedd bedydd ddigon o ffydd chwaith i deilyngu "grâs yn y galon," eithr mai twyllo ei hun y mae. Gan mai yn gyfesur i'w gweithredoedd y mae eu ffydd, y rhai a wnant y gweithredoedd mwyaf dros Dduw, yn unol a'i air, yw y rhai sydd yn rhyngu ei fodd fwyaf, ac o ganlyniad a dderbyniant fwyaf o "râs yn y galon," tra y mae anufydd-dod yr hwn a anufyddhao yn fforffetio ei hawl i'r "grâs" hwnw sydd yn addawedig yn unig i'r ffyddlog, a hyny yn gyfesur i'w ffydd, yr hon a brofir drwy ei weithredoedd.

---

## CREULONDEB ANYNOL AT WEISION DUW!

*Pontyfedwen, ger Brechfa, Hydref* 4, 1854.

Anwyl Lywydd Jones,—Wedi gwella ychydig o effeithiau y driniaeth greulon a gefais yn ddiweddar, hysbysaf chwi o'r helynt a'm cyfarfu. Y Sul diweddaf aethym i a'r Henuriad Daniel Thomas, mewn atebiad i wahoddiad taer a gawsom, gerllaw i Langeler i bregethu; pan ddechreuasom y cyfarfod trwy weddi daeth tyrfa fawr o gapel Saron (Independiaid) gerllaw, yn cael eu blaenori gan dafarnwr o'r enw John Davies y Groesffordd, yr hwn a ddaeth i'n hymyl, a chan ymffrostio y gallai efe waeddi yn uwch na ni efe a ddechreuodd leisio a dolefain fel gwallgof-ddyn, hyd nes y gorfod i mi, ar ol treio fy ngoreu i lefaru, orfod dystewi; erbyn hyn ergydid talpiau o bridd a cherrig atom yn chwyrn ac yn aml; tarawwyd y brawd D. Thomas yn ei wyneb nes y ffrydiodd ei waed yn llif i'r ddaear. Ymdrechais drachefn eu cyfarch ac ymresymu â hwynt, eithr gwaeth-waeth y chwibanai y cerryg o amgylch ein penau, nes wrth eu clywed hefyd yn bwgwth ac yn gwaeddi "ymaith a hwynt," ciliasom oddiyno heb allu credu y buasent mor greulawn a'n dilyn, eithr ein dilyn a wnaeth tua 30 neu 40 o honynt yn agos i'n sodlau, a lluchio cerryg atom fel pe am ein lladd o ddyfrif, a tharawai y cerryg ni mor drwm nes yr oeddem yn cael gwaith mawr i gadw ein traed danom a ffoi, a hwythau yn

wban ac yn ein dilyn fel gwaedgwn ar ol eu hysglyfaeth. Wedi dilyn fel hyn am ysbaid, gwaeddodd rhai o'r dorf am ddal a lladd Daniel, mai Daniel oeddynt yn ymofyn, yr hyn a barodd i mi arafu, a cheisio eu perswadio i beidio a'm lladd, tra y diangodd Daniel trwy y corsydd a rhan o'r terfysglu ar ei ol, ond methasant a'i ddal. Tarawodd un o'r dorf fi y pryd hyn yn fy mhen â charreg fawr gyda y fath nerth nes torri archoll hyd yr asgwrn oddeutu dwy fodfedd o hyd; tra y gorweddwn ar yr heol yn fy ngwaed troediwyd fi yn dost; gwnaeth eu bwgythion i mi gredu eu bod am fy lladd, a gwaeddais allan, Mwrdwr! mwrdwr!! Ar hyn gwaeddodd un "dyna chwi wedi ei ladd ef o'r diwedd, mae asgwrn ei ben wedi ei dorri." Ar hyn daeth un o'r enw Mr. Dafydd Evans yno, a chan waeddi "ni chewch ei ladd cyn fy lladd i, gadewch ef yn llonydd;" ac oni fuasai y cyfaill dyngarol hwn, nid oes yr of ammheuaeth ar na fuasai y lleill yn fy lladd yn y fan; eithr diolch iddo ac i'r Duw a'i danfonodd yno ar y pryd, efe a'i gyrodd hwynt ymaith, a thrwy gynnorthwy ymlusgais rywfodd i dŷ Mr. H. Howells, Treolmawr, yr hwn a'm hymgeleddodd ac a ddangosodd bob caredigrwydd a allasai. Drannoeth, am fy mod yn rhy wan i gerdded, gosododd Mr. Howells fi ar ei geffyl ei hun, ac aeth a mi yn ol i'r fan lle ein curwyd fel yr adwaenwn y rhai a'm curasent, a chawsom eu henwau gan mwyaf. Ymffrostiai John Davis y Groesffordd yn ei greulondeb, a bwgythiai yn ddiarswyd y defnyddiai efe ddryll y tro nesaf y deuem yn lle cerryg, ac y lladdai ni yn sicr pe caffai ei grogi yn y fan am hyny.

Eithr er y cyfan, drwy drugaredd ein Duw, cyrhaeddasom adref ein dau yn fyw, ac y mae ein clwyfau yn iachâu drwy yr ymarferiad â moddion ein Tad nefol; ac nid yw hyn yn ein digaloni rhag pregethu ei efengyl Ef yn ol ei orehymyn; eithr parod ydym pan y bydd raid, i farw er ei mwyn, gan y gwyddom ei fod Ef yn gwybod yr oll.

Ydym, gyda'n cofion caredig atoch,

Eich brodyr yn Nghrist,

DAVID JEREMY.
DANIEL THOMAS.

## SYLWAD AR Y LLYTHYR BLAENOROL.

Cronicl'wn yr hanes blaenorol fel enghraifft o effeithiau y rhywogaeth o "Gristionogaeth" ag yr ymffrostir ei bod yn "GOLEUO Cymru," ac fel y cyd-dystiolaethó ein cronicl bychan ni ar y ddaear â'r hyn a gronicl'wyd yn Llyfr y Ilyfrau yn y nef, ac y gwelo trigolion crynedig y farn pa dderbyniad a gafodd cenadwri Duw o'r nef atynt yn ngenau ei weision.

Oni chywilyddiai Paganiaid a Mahometaniaid pe clywent fod yr heolydd yn "ngwlad y Beiblau" wedi eu lliwio gan waed pregethwyr y Beibl! Ac onid arswyda y Cronicl'ydd dwyfol braidd, pan y cerfia mewn llythyrenau o olenni ar awyrgylch bwäog y nen, fod "Cristionogion" wedi rhuthro o Gapel "Cristionogol" ar ddydd yr Arglwydd, a chyda cynddeiriogrwydd gwaedgwn o wlad annwn wedi llarpio gweision Crist—sathru eu gwaed dieuog tan eu traed nes rhuddo y glaswellt ar bwys eu Capel—eu "magwrfa Gristionogaeth?" Ac oni arswyda gweinidog duwiolfrydig y lle rhag ofn y delir ef yn gyfrifol am y peth, o herwydd na ddysgodd well iddynt nac agor ei enau i amddiffyn bywydau Cenadon Duw! Am y byd, ni fynem ni fod yn lle un o honynt!

Deallwn fod y dyoddefyddion wedi ceisio amddiffyniad gan lŷs y wladwriaeth yn ofer hefyd, ac felly mae yn warthus meddwl fod y dyn creulon uchod yn cael ei gefnogi yn y fath ysgelerder gan y rhai a broffesant ac a ddylent fod y blaenaf i osod y fath ddyn peryglus lle nad all lofruddio y diniwed. Deallwn iddo ymffrostio yn y weithred uchod o flaen swyddwyr gwladol wedy'n yn wargaled, a bwgwth gwaeth etto pan y caffo gyfle! ac er hyn oll ei fod yn cael bod yn hollol rydd a digerydd ar ben yr heol fawr! Hawyr! bywyd pwy sydd ddiogel lle y caniateir hyn? Ystyrir bywyd y teithiwr dyeithr mewn cymmaint perygl os dygwydda efe ddychymygu mai un o'r Saint yw; canys syrthiodd ar foneddwr felly gan ei gyhuddo o fod yn Formoniad, ac ni allai dim llai na llwon a rhegfeydd hwnw ei argyhoeddi o'i gamsynied; ac y mae etto yn rhydd i fytheirio ei gelaneddau!

Y llynedd ymosododd y dyn hwn ar hên ŵr dros drugain oed pan ar yr heol, ac o'r tu ol tarawodd ef yn ei ben â charreg nes ei gwympo, ac yna ei faeddu nes ei adael yn ei waed am farw,

a rhedodd yn ol i'w dŷ lle y galwasid ar foneddwr o'r enw Mr. Martill i ddyfod i mewn ar fusnes, a chyda phastwn anferth, ar ol cloi ei ddrws arno, dechreuodd ar ei waith o'i fwrdro. ac oni buasai ereill ag oedd yn y tŷ ar y pryd ei achub o'i grafangau diau mai ei ladd a wnaethai. Aed ag ef o flaen Ynad am y tro cyntaf, eithr cymmaint oedd yr elyniaeth yn erbyn y grefydd nes mai yr hên ŵr druan er yn glwyfus ac yn goch gan ei waed ei hun a gafodd y gwaethaf! Gorfuwyd ef i dalu y costau, a gollyngwyd rhaff i'r llall fyned yn mlaen i dywallt gwaed ei gyd-ddyn!

Clywsom fod hyd y nod yr erlidiwr hwn yn cynnyg ymgyfiawnhau drwy feio y Saint am fedyddio ei wraig ef! Mor briodol a hyny yr ymesgusoda y llofrudd pen heol am ladd ei gyd-ddyn drwy ddweyd ei fod yn chwantu ei gôd; ac ni chrogasid un erioed pe buasai esgus yn ei ryddhau; etto crogwyd aml un a feddai well esgus nag a enwyd. Dywedwn fod rheolau Eglwys y Saint yn gwahardd bedyddio gwraig os gorchymyna y gwr i beidio; eithr nid felly yma; hysbysir ni na wyddid fod ganddo un gwrthwynebiad i hyny, ac yr anfonwyd yn bwrpasol am y pregethwr i ddyfod amryw filltiroedd o ffordd i'w bedyddio hi; a deallwn hefyd fod y Duw trugarog, adnabyddwr y calonau, wedi cyfranu iddi hithau dystiolaeth ei Ysbryd er pob peth; ac er na chafodd y fraint o un cwrdd eglwysig erioed, mawr-lawenha yn dyoddef er mwyn efengyl Crist. Er na chawsom y fraint erioed o weled y chwaer hon, gallwn gyd-ymdeimlo â hi yn ei chaethiwed, ac â'n holl galon gallwn a gwnawn weddio ar i Dduw ei Thad nefol ei bendithio yn fawr —dryllio ei chadwynau gormesol yn fuan, a'i hanrhegu â rhyddid i'w addoli. Pwy na weddia am hyny?

Am dano ef dywedwn, gan i'r swyddwyr gwladol wrthod nodded i'r Saint rhagddo—gan na wna ei gynnmydogion crefyddol attal ei rwysg—gan ei fod yn parhau i chwythu ei fygythion a'i gelaneddau,—yn peryglu bywydau ei well, ac yn rhwystro ereill i glywed yr efengyl—gan na ofna Dduw ac na pharcha ddyn—trosglwyddwn ef i ddwylaw yr Hwn a all roi bach yn ei ffroen er ucheled yw—yr hwn a all ffrwyno y gwylltfarch a'i farchogaeth; a gofynwn i'r Duw a wasanaethwn, yr hwn yr ymladda efe i'w erbyn, i amddiffyn bywydau ei blant rhagddo, ac i wneuthur ag ef fel y gwnaeth â Saul o Tarsus os

gwêl yn dda, neu gwnaed fel y mŷno ar frys, ïe, cyn y tywallto chwaneg o waed gwirion, yw ac a fydd ein taer weddi, a gofynwn i'r holl Saint gyd weddio â ni yn ffyddiog yn hyn—ein *hunig amddiffynfa;* a gweddiwn hefyd ar i'n Tad yr hwn sydd yn y nefoedd fendithio y boneddwyr a geisient weinyddu cyfiawnder i'w blant, a thalu ar eu canfed yn ol eu cyfiawnder i'r rhai a'u gwrthwynebasant hwynt. Ei ewyllys a wneler, ei fraich a amlyger, a'i enw a ogonedder, a dyweded pob un o'i blant *Amen* gyda eich

Golygydd.

---

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

---

### DYDD SADWRN, TACHWEDD, 18, 1854.

Llwyddiant yr Efengyl.—Parhâ Llywyddion y Cynnadleddau i'n cysuro â newyddion da am lwyddiant achos y Gwaredwr yn eu plith; mae bedyddiadau yn fwy mynych; y Saint yn fwy diwyd a ffyddlon, ac yn mwynhau mwy o ddoniau yr Ysbryd Glân. Da genym ddeall hefyd fod y Llywyddion yn ymddeffroi i weled y pwysigrwydd o ddosparthu traethodau, megys y maent mewn rhai manau; a phenderfyna rhai hefyd i ddilyn yn mlaen, ac i ymdrechu cael pob aelod, brawd a chwaer, hen ac ieuainc, yn draethodwyr selog. Penderfynwyd yn Nghynghor Cynnadledd Sir Gaerfyrddin, a gynnaliwyd y Sul a'r Llun wythnos i'r diweddaf, fod pob un oedd yno i wneyd a allent i gael gan yr holl Saint i werthu traethodau bob wythnos; a phaham nad *pob un?* Gan y dysgwylia yr oll gael y wobr ar ddiwedd yr yrfa, dylai pob un wneyd a allo i werthu traethodau fel pob dyledswydd arall. Pleser oedd genym i weled y sel a ddanghosai y brodyr yno i'r gwaith da hwn, a dysgwyliwn fawr a buan gynnydd drwy y cyflawniad o'u haddunedau.

---

*Llanelli.*—Cynnaliwyd y Gymmanfa hon Hydref 29, yn

Nghapel y Saint, Llanelli, pryd y cynnrychiolwyd Cangenau 11, Hen. 37, Off. 17, Ath. 8, Dia. 14, Bedyddiwyd 11, cyfan 155. Cafwyd addysgiadau da gan Brif Lywyddiaeth yr Eglwys Gymreig, ac amryw Lywyddion Cynnadleddau; amlygodd Duw ei fawr allu a'i ddoethineb drwy ei weision, a diau fod mawr les wedi ei wneuthur i'r gwrandawwyr siriol hefyd. Cafwyd undeb dieithriad yn yr oll a wnaethpwyd drwy'r Gymmanfa, yn enwedig o barthed i addunedau i ddiwydrwydd yn y gwaith o ddosparthu traethodau, a dysgwylir cynheuaf toreithiog i addfedu cyn hir.

*Nos Lun*, gorlenwyd y Capel i wrando Darlith ar Anghrist gan y Llywydd Jones. Gwrandawodd yr oll yn siriol ac awyddus ar ddirgeledigaethau yn cael eu hamlygu o barthed i Anghrist nes synu yn ddirfawr, debygid. Cododd y dyrfa eu deheulaw ar ddiwedd y ddarlith i arwyddo cymmeradwyaeth a diolchgarwch i'r darlithydd. Argoelion da iawn am lwyddiant ac amryw fedyddiadau drwy'r Gynnadledd er y Gymmanfa.—Ben. Jones, Llywydd; J. J. Phillips, Ysgrifenydd.

---

*Cwrfyrddin.*—Y Sul y 5med o Dachwedd, cynnaliwyd y Gymmanfa hon, ac er fod y tywydd yn wlybaidd crynhôdd y swyddogion a'r Saint yn brydlon, a chydunwyd yn yr oll a geisiwyd yn ddieithriad. Yn mhlith cyfnewidiadau ereill rhyddhawyd yr Henuriad Thomas Jones o Lywyddiaeth y Gynnadledd, a gosodwyd yr Henuriad T Jenkins i'w olynu a Dafydd Jeremy yn Gynghorydd iddo.

---

*Lywyddion Cynnadleddau* — A gawn ni gan yr holl Lywyddion i gymmeryd at y ddyledswydd o dalu eu dyledion am lyfrau erbyn diwedd y flwyddyn? Beth meddwch Frodyr! Oni ellir gwneuthur hyn? Os na ellir yr ydym ni yn hollol anwybodus o ba beth a ddichon fod yn rhwystr, o leiaf i dalu am yr oll a ddosparthwyd. A gynnygir yn esgus y fod cynnifer chwaneg o draethodau yn cael eu gwerthu yn ddiweddar? Esgus rhy wael yw hona, o herwydd mai i'r byd y bwriedir y traethodau, a phe gwnelai pob aelod ei ddyledswydd gwerthid hwy yn y fan y deuent, a thelid am danynt yn hollol anymddibynol ar y Saint; ac os cedwir hwynt ar law yn un man, mae bai yn bod yn y man hyny, a'r Llywydd yw y Meddygwr! Nid oes na

chrotyn na genethig wyth mlwydd oed yn analluog i werthu deg am un o'r cyfartalwch a werthir yn awr, a chael y tâl hefyd pe rhoddid hwynt ar waith. Mae cyfnewidiad yr Udgorn yn fwyaf i'r dyben o ennill yr amser a gollwyd yn hyn; ai parhau i gynnyddu yn hytrach a gaiff y ddyled hyd ddiwedd y flwyddyn, ynte, oni annoga pob Llywyddion bawb i dalu eu dimeuau a'u ceiniogau dyledus; ïe, y pethau bychain yna! yr hyn sydd rhy fach i sylwi arno, wedi eu pwnio yn un sydd yn gwneyd mynydd na allwn ni ddringo drosto! Pe talai yr oll yr ychydig doccyns sydd arnynt delai y mil punnau dyledus am lyfrau yn fuan i ddwylaw y rhai ag ydynt fwyaf anghenog am danynt! Ai digon yr *hint* yna ynte Frodyr? Amser hyr a ddengys.

---

*Y "Trysorfa Ymfudol Barhaus."*—Galwn sylw Llywyddion yn neillduol at hyn; canys mae ffeithiau yn profi fod esgeulusdod wedi bod yn rhy gyffredinol o'r Gymdeithas lesiol hon. Tra y mae canmoliaeth yn deilwng i ffyddloniaid y rhai y mae eu gweithredoedd yn eu mhawr ganmol, etto mae yn ffaith nad yw y Saint Cymreig oll wedi cyfranu ond y cyfartalwch o dair ceiniog a ffyrling yr un yn y deg mis a aethant heibio! Nid boddlon ydym i gredu fod lleihad cyfraniadau y Saint yn dynodi lleihad eu hawydd am ymgasglu i Seion; etto, fel i bob effaith arall, mae i hon ei hachos cynhyrfiol. Pwy a wyr ac a symud yr achos hwnw, Frodyr?

---

Newydd ddyfod allan o'r Wasg'—"*Tystiolaethau diwrthbrawf nad o'r 'Spaulding Romance' y gwnaed Llyfr Mormon*," yn 24 tud., ar bapyr da; ei brisiau yw 14s 2c a 15s 10c y cant, i'w werthu am ddwy geiniog yr un. Ymegnied pob un o'r Saint i werthu y traethawd buddiol hwn i'r byd.

---

*Y Gyfrol ddyfodol o* "Udgorn Seion."—Mae ein cyfrol hon yn dirwyn tua ei diwedd yn brysur, a gawn ni gynnorthwy ein darllenwyr i ledaenu cylchrediad yr un nesaf? Addawsom y cynnwys fwyfwy o hynodion a rhagoriaethau nag a gynnwys y gyfrol hon; ydyw, mae yr amseroedd enbyd hyn yn esgor ar ryfeddodau a gwyrthiau a deilyngant eu cronicio. eu darllen a'u trosglwyddo i'n heppil! Ymddibynwn yn bryderus iawn ar sêl

ac ymroad ein darllenwyr a'n dosparthwyr eleni, am liosogiad teilwng o dderbynwyr i'r gyfrol ddyfodol! Hysbysed y Llywyddiou yn brydlon pa uifer yn ychwaneg a gymmerant o'r gyfrol nesaf. Daw allan yn ddwywythnosol,

---

## BARNEDIGAETHAU DUW AR Y TALEITHIAU UNOL!

Cronicla newyddiadur New York, o'r enw "*Daily News*," am Hyd. 11, rif res o anffawdau dychrynllyd a ddygwyddasant i'r Taleithiau ar for a thir, er dechreu yr hâf diweddaf, a rhaid fod yr hwn na chydnabydda, fel y gwna yr ysgrifenydd, fod llaw ddialeddol Duw ynddynt yn teilyngu chwaneg o honynt am ei anghredinlaeth. Dyfynwn a ganlyn o lawer: —

"Gadawodd y flwyddyn 1853 ni mewn sefyllfa mwy llwyddiannus a gobeithiol yn wladwriaethol nag a welsom erioed. Meddai ein Trysorydd ddeg miliwn ar hugain o ddolars ar law na wyddai pa beth i wneuthur â hwynt; begiai y llywodraeth y ffafr o gael talu yn awr i'w dyledwyr dros bedwar swllt y bunt yn fwy na'r gofyniad, dyledus yn mhen 15 mlynedd. Cafwyd ffrwythlondeb anghydmarol o gynnyrch y ddaear; yr oedd ein gweithfaoedd a'n marsïandiaeth dramor yn llwyddiannus ddigyffelyb; ein Bankiau a'n cymmeriad oeddynt yn ennill ymddiried drwy'r byd, a gwnelid darpariadau prysur i ymhelaethu eiu mhasnach o bob natur —mewn gair, yr oeddem yn gyfoethog ac yn cyfoethogi, gan dosturio wrth gyflwr truenus Ewrop yn nghanol eu tlodi a'u rhyfel cyffredinol.

"Dyma oedd sefyllfa y wlad chwech neu wyth mis yn ol. Pa beth yw ei chyflwr yn awr? Ymwelwyd â'r Taleithiau Unol gan farnedigaethau dilynol na welwyd eu cyffelyb o'r blaen. Colledion hynod a ddilynasant sodlau eu gilydd ar garlam; fe ddystrywiwyd yr Argraff-dŷ mwyaf, y llong fwyaf, a'r gwesty ardderchocaf yn y byd. Llosgfeydd ofnadwy a ddifrodasant, braidd, ein prif ddinasoedd. Ein hagerfadau, naill ai a losgwyd neu a anafwyd ar y môr. Taenwyd llong-ddrylliadau ar hyd ein glenydd. Ein hoil longau goreu braidd a ddychwelasant mewn sefyllfa ddrylliedig; ac nid gormod yw dweyd fod y Taleithiau wedi teimlo colled o hanner can miliwn o ddollars oddiwrth y rhai hyn yn unig.

Yn nesaf sylwer ar y bywydau a gollwyd trwy glefydau, tân, a dwfr. Hwn oedd yr hâf mwyaf afiachus a welodd ein gwlad er ys canrif gyfan. Ysgubodd y Cholera dros yr holl wlad, gan ladd miloedd yn y manau iachusaf; tra y bu ei ddifrodaeth yn y prif drefydd yn ddychrynllyd; ac mor gyffredinol y bu ei ddylanwadau fel na ddiangodd nemawr ar y cyfandir rhagddo.

Yn nesaf daeth sychder ac a ddifâodd y wlad, oddieithr ambell lanerch, o fôr i fôr. Dyma'r hâf sychaf a welwyd erioed. Mae Talaithiau cyfain ochr yn ochr na welsant un gawod o wlaw o ddechreu Mehefin hyd ddiwedd Awst. Achosodd hyn i'r prif gynheuaf gwenith addfedu cyn ei amser. Mae y pytatws wedi eu torri ymaith, fel y maent yn gwerthu am ddollar a chwarter y bwshel yn New York yn awr. Bernir y syrthia y cynhaeaf cotwm amryw gannoedd o filoedd o ystwciau yn llai nag y bernid yn y gwanwyn.

Eithr y mae cymmeriad cartrefol a chyhoeddus y wlad, os nad llwyddiant y genedl hefyd, wedi dyoddef dyrnod trymach nâ'r oll a enwyd. Cyfeiriaf at yr ysbeiliadau a'r twyll ag sy wedi synu, gwaradwyddo a thristâu y genedl. Effeithiau unionsyrchol darganfyddiad dichell Schuler yn unig a siglodd farsiandiaeth hyd ei seiliau; a chrynai dynion gan arswyd. Mae ymddiried marsiandiol, yr hyn sydd anhebgorol i lwyddiant cyffredinol, wedi cael ei ladd drwy yr ymweliadau rhaglunaethol hyn. Galwaf hwynt felly o herwydd yr ymddangosant yn yr arswyd a achosant a'r gyflafan a wnaethant fel pe yn feichiog o nodweddau sobr farnau Duw."

Anhawdd i'r sawl a ddarllenodd brophwydoliaethau manwl yr Arglwydd drwy Joseph y Gweledydd, a gyhoeddwyd er ys blynyddau maith, a'r rhai a ddesgrifiant ddyfodiad y pethau hyn yn gywir, ynghyd a thynghed y Taleithiau, i beidio a dychryn pan ystyrionl mai "dechreuad eu gofidiau yw hyn oll;" canys mor sier ag y dechreuodd Duw y nefoedd ysgwyd ei wialen uwch eu penau ni pheidia nes eu fflangellu yn ol a deilyngant am dywallt gwaed Prophwydi santaidd a Saint; ac megys yr alltudiasant hwy Eglwys Dduw o'u plith; ac megys yr erlidiasant ei blant Eftrwy dânau, eu terfysglnoedd, eu drylliau a'u cleddyfau, ac yr heliasant hwynt fel yr helir helwriaeth yn yr anialwch; felly yr helant en gilydd â drylliau, cleddyfau a thânau, nes talu i'w gilydd y pwyth yn ol, a mesur i'w gilydd

yn ol mesur y mesurasant i'r Saint; a llaw yr Arglwydd a'i gleddyf ysgwydedig Ef a gwymp ar y gweddill, ac a fydd drwm arnynt, oni chydnabyddant eu bai a gwneuthur cyfiawnder; canys genau yr Arlwydd a'i llefarodd.

Nid yn gartrefol yn unig yr ymddua y cymmeriad Americanaidd, eithr hyd gyffiniau y ddaear ymbardduant eu gwisgoedd; ac nid yw prif wyliedyddion golygyddol ein gwlad ni, fwy na Ffrainc, yn rhy wylaidd i ddangos y parddu i'r byd, ac i ddarogan fod yr ymddiried yn nghryfder a chyflymdra yr "Eryr" orllewinol yn darfod pan y troa hi yn gigfran, ac yr ymbortha ar gelain. Llygadir hi yn graff gan bob "Argus" drwy'r byd, ei chywion sydd yn Spaen yn ceisio prynu Cuba, fel y lleill sydd yn Brussels ac yn y Mor Werydd. Nid cudd yw lledaeniad ei thraed fel hir goesau "Colossus" draws ein byd bach; ac wyddys, pa ateb a ddyry i Ffrainc a Lloegr yw eu dybeu yn ceisio prynu tiriogaeth o Rwsia, na pha beth fydd y canlyniad etto o ymuno Ynysoedd Sandwich a'i thiriogaethau; eithr mae llaw gryfach a llygad goruwch yr oll a nodwyd yn syllu ar ei hysgogiadau, ac amser byr a ddengys werthfawrogrwydd gwaed merthyron Iesu. Eu Duw a ofala fod i'r "Jonathan" Samsonaidd hwn loned ei freichiau o waith rhwng ei gaethfasnach a'i farnedigaethau cartrefol o fôr hyd fôr, a'i holl gyssylltiadau pellenig, pan y mae â'i Domahawk awchus, yn torri i fynu ein byd bach fel y torra y cigydd ei fochyn ac y tafla ef bob yn ddarn i'w ei ffetan fawr ddiwaelod ei hun, heb iddo orfod llosgi ei fysedd drwy ladrata afalau poethion o farwor Utah, ond odid.

---

## Y RHYFEL.

Dechrecodd y byddinoedd unol eu hymosodiad ar Sebastopol ar yr 17eg o Hydref; ac am amryw ddyddiau atebid cyfarthiad dros gant o fagnelau trymion gan y Rwsiaid gyda y fath gyflymdra a grym nes gorfodi y prif swyddwyr, Brytanaidd a Ffrengig i gyfaddef fod mwy o waith o'n blaen nag a feddyliasant o lawer; yr hyn a barodd iddynt gryfhau eu gwrthglawddfeydd a dwyn magnelau trymion o'r llongau. Yr oedd y Rwsiaid wedi saethu atynt tua phumtheg mil o beleni cyn cael un yn ol. Cafodd y Ffrancod golled fawr drwy ffyrnigrwydd y gelyn ar eu tyrau â-

magnelau hirach nâ'r eiddynt hwy hyd nes, i gwblhau y ddifrodaeth, pelen boeth a daniodd eu pylorđy ac a chwythodd fagnelau fel y dynion a phob peth yn gymmysg i'r awyr. Ar y pryd hyn yr holl longau Brytanaidd a Ffrengig a ymunasant yn eu rhuthr ofnadwy ar yr ochr forawl i'r dref, ac a ddechrenasant saethu pelenau a chragenau tanllyd nes y taenodd y ddu nos ei mhantell i guddio yr ymladdwyr o wydd eu gilydd; lladdwyd amryw ugeiniau, a chlwyfwyd amryw gannoedd o'r morwyr ar fwrddau y llongau, tra yr oedd marwolaeth yn marchog yn ei fawr rwysg yn mhlith y milwyr drwy'r nos a'r dydd braidd; ac ni wyddus eu rhif hyd yn hyn.

Ar y 25, rhuthrodd tua deng mil ar hugain o'r gelynion o'r tu ol i'r byddinoedd yn hollol ddiddysgwyl, ffôdd wyth mil o'r Twrciaid o'u blaen, meddiannwyd eu magnelau, o dan nodded y rhai rhuthrai y gelyn yn mlaen yn eofn yn ei ymosodiad ar y brif fyddin, drwy gatrawdau cyfain braidd o'n gwyr ceffylau, hyd nes y daeth y brif fyddin i'w cynnorthwyo; yr oedd rhan arall o fyddin y Rwsiaid wedi rhuthro allan o'u cestyll hefyd, fel yr oedd ein byddinoedd yn y canol braidd, o leiaf mewn cyflwr peryglus rhwng y ddau dân, eithr dewrder a grym arfau y Cadfridog Evans a'i fyddin a yrasant y gelynion hyny i ffoi gan adael tua mil yn feirw ar eu hol. Pe llwyddasent yn eu bymgyrch anturus hwn, buasent wedi cau rhwng ein byddinoedd a'u llongau a'u nwyfau rhyfel hefyd, a chanasent hwy rhwng dau dân poeth. Ail-sefydla y gelyn ei amddiffynfeydd bob nos y dystrywir yn y dydd, a dywedir fod y dref mewn cyflwr ofnadwy o druenus—y dramwyfeydd ar hyd yr heolydd wedi eu rhwystro gan gelaneddau pudredig,—y dwfr rhedegog wedi ei dori ymaith oddiwrthynt er ys amryw ddyddiau, na dim i'w gael ond yr hyn y caniateir i'r gwragedd a'r plant ei ymofyn cyn codiad haul; ac y mae llawer o arian yn cael eu cynnyg am wydraid o ddwfr glân. Cwympodd pump o'u prif gadfridogion yn y ddinas yn ddiweddar.

Ar y 26, ymosododd y Rwsiaid drachefn yn ffyrnig â'u gwyr traed a'u bidawgau, ond i gael eu gyru yn ol gyda lladdfa erchyll y tro hwn etto. Tafiir tua banner cant-o filoedd o gregyn tanllyd i'w plith yn ddyddiol. Egyr tyrau newyddion eu tânau dynystriol ar y byddinoedd unol yn barhaus lle na ddysgwyliasid fod dim yn debyg yn bod yno, ac hyd yn hyn ni welir tebyg i ddiwedd y rhyfel.

## AMRYWIAETHAU, &c.

I iachau iselder ysbryd. Ni niweidiwyd ysbryd neb drwy gyflawni ei ddyledswydd. I'r gwrthwyneb, prawf y cyflawniad o un weithred ddaionus, gorchfygiad temtasiynau, neu aberthiad o chwant neu hunan-les er mwyn cydwybod yn falm mwy iachusol rhag iselder ysbryd, nag a fyddai y mwynhâd o'r cyfryw, nag unrhyw ddifyrwch na chwmniaeth. A pharhâd o'r fath ymroddau ac aberthau oddiar ufydd-dod i Dduw yw y feddyginiaeth oreu oll rhag iselder ysbryd.

Cynnorthwy i'r Clwyfedigion.—Casglwyd yn agos i ddeng mil o bunnau yn ddiweddar i'r milwyr a orweddant dan eu clwyfau yn Scutari; ac mae y llwyddiaeth wedi cael gan Foneddiges enwog o Loegr fyned i Scutari i arolygu dosparth o feddygon benywaidd i gynnorthwyo y lleill, a diau y gwnant fawr les.

Aur! aur etto!!—Dywed Newydd adur o St. Louis fod y "Mormoniaid" wedi darganfod mŵn aur ar hyd glanau y Dyfroedd melys, o dri i bedwar cant o filltiroedd yr ochr hyn i Ddinas y Ll. H. Mawr, ac fod amryw yn ei grynhoi yn gyflym! "Mormoniaid" a ddarganfyddasent aur California, a dywedodd Mewyddiadur Penrhyn Gobaith Da, ar yr achlysur o fod y cenadon "Mormonaidd" yno wedi darganfod aur, "Fod y ddaear yn troi yn aur o dan wadnau traed y Mormoniaid ffordd y cerddant." Nid rhyfedd hyn gan mai eiddo eu Tad yw aur y byd!

---

Cymmanfaoedd y Gogledd. Cynnelir Cymmanfa Sir Fflint ar y 12fed o Dachwedd, Sir Ddinbych ar y 19eg, Dyffryn Conwy ar y 26ain, a Sir Feirionydd ar y 3ydd o Ragfyr.

Derbyniadau am Lyfrau o Hyd. 27 hyd Tach. 11.—Charles Harmon, £5 10s; Griffith Roberts, £1 1s.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office Swansea.*

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Gras cadwedigol.—Pa beth ydyw?..... | 565 |
| Crenlondeb anynol at weision Duw ..... | 570 |
| Golygyddiaeth—Llwyddiant yr efengyl—Llanelli—Caerfyrddin—Llywyddion Cynnadleddau—Y "D. Y. Bathaus"—Newydd ddyfod allan o'r Wâsg—Y Gyfrol ddyfodol o 'Udgorn Seion" ..... | 575 |
| Barnedigaethau Duw ar y Taleithiau..... | 576 |
| Y Rhyfel ..... | 578 |
| Amrywiaethau, &c..... | 580 |


---


ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 37.] RHAGFYR 2, 1854. [CYF. VII.


### SANTEIDDHAD.

GAN Y LLYWYDD F. D. RICHARDS.

NI ddysgir ni gan yr ysgrythyrau mai dylanwad ar yr Ysbryd yn anymddibynol ar y corff ydyw santeiddhâd. Eithr i'r gwrthwyneb, dysgir ni yn mhob man gan yr ysgrthyrau, rheswm, a dadguddiadau diweddar, na pherffeithir yr ysbryd heb y corff. Ni ddichon y naill fod yn bur a santaidd oddigerth fod y llall felly hefyd. Mae hwn yn bwnc pwysig ag y gwahaniaethwn yn fawr yn ein barn am dano oddiwrth amrywiol sectau Cristionogol ein hoes. Tra y credant hwy mai cyfnewid a santeiddio y galon yn unig sydd yn anghenrheidiol, gan ddibrisio ordinhadau puredigawl cyssylltiedig uniongyrchol â'r corff, credwn ninnau fod santeiddiad yr ysbryd a'r corff o gydbwys er mwynhau iachawdwriaeth. Credwn hefyd mewn cadw nid yn unig ein cyrff a'n hysbrydoedd yn bur a glân, eithr ein haneddau, ein dinasoedd, a'n tiroedd, a phob peth sydd o dan ein gofal. Cydnabydda y gonest galon, drwy gymhariaethau, y gwahaniaeth mawr a raid fod rhwng awyrgylch foesol dinasoedd y Saint yn Nyffrynoedd y mynyddoedd â dinasoedd y byd yn gyffredinol.

Mae trigolion y byd yn Gristionogion, Mahometaniaid a Phaganiaid gyda'u brenincedd, gwladwriaethwyr ac Offeiriaid wedi gwyro mor belled mewn natur, halogi mewn gwaed, ac ymgyndynu yn eu tymherau, ac mor ddrwg-liwiedig yw llygaid

eu meddyliau dan orchudd rhagrith a thwyll greddfol, fel y mae yn anhawdd iddynt ganfod un ardderchogrwydd yn egwyddorion gogoneddus yr iachawdwriaeth. Ymddengys y pur yn anmhur iddynt hwy, a'r llygredig a'r dilun yn lân a gweddaidd. Carant y tywyllwch oblegid mai cydrywiol yw â'u gweithredoedd, a phan yr ymddysclaeria y goleuni ni chanfyddant ef. Ofn sydd ar yr ychydig a ganfyddant gyflym ddirywiad eu rhywiogaeth drwy ben-rhyddid afreolus yr amseran, yr aml buteindra a fodola, yr aberth o filoedd o fenywod i Foloch nwydau annaturiol ac halogedig dynion, yr anallnogrwydd meddwl, y gwendid a'r anmhrydferthwch corfforol, a orfodir ar y genedlaeth bresennol, yr hwn, oddiwrth olwg presennol pethau, a gynnydda yn anocheladwy yn y nesaf, i ddweyd eu daliadau, rhag i rywun, dysgedig yn nhybiadau gau y dyddiau hyn o weddeidd-dra, waeddi allan "Cywilydd," tra y dichon na oddefai ei ddrwgarferion ei hun amlygrwydd i'r goleuni. Yn y ffordd hyn y gadawwyd i ddynolryw fyned yn mlaen yn eu llwybr gowared, hyd nes y mae yn ddiarebol mai ychydig a droant oddiwrth ddrygioni, ac a lynant wrth y gwirionedd o gariad tuag atto

I'r Saint, y mae pob peth yn dymmorol, a phob peth yn ysbrydol, neu mewn geiriau ereill, mae y tymmorol a'r ysbrydol yn gyssylltiedig a chydblethiedig, mor agos fel nas gellir tynu llinell ymraniadol rhyngddynt. Ceir maddeuant pechodau trwy fedydd, a dawn yr ysbryd Glân trwy arddodiad dwylaw. Ni dderbyniwn byth ordinhadau uchelach yr Offeiriadaeth, profi ei ddylanwadau santeiddiol, a chael ein haddasu i fod yn Iachawdwyr ar Fynydd Seion, oddieithr i ni foddloni i ymdeithio i'r ymgasgl-fan, a chymhwyso ein meddiannau a'n llafur er adeiladu Teml, yn mha un y derbyniwn y bendithion hyn. Ac yn y diwedd ni chawn fyned byth i bresennoldeb y Tad, a gallu hyw yn yr elfen hyny sydd fel tân ysol i bob peth anmhur ac ansantaidd, oddieithr i ni santeiddio yr Arglwydd yn ein calonau, ac ymwneyd ag egwyddorion y santeiddhâd hwnw, trwy ymgadw rhag, a gorchfygu pob mynwes ddrwg, gan buro ein cyrff oddiwrth bob aflendid, a rhoddi ein hunain yn weithredol, a'r oll ag y gosodlodd yr Arglwydd ni yn orucwylwyr arno, er adeiladaeth ei deyrnas Ef. Nid digon yw crefydd athrawiaethol heb ei hymarferyd. Y gorchymyn a

eth alian i ddynion —" Dewiswch heddyw pwy a wasanaethwch." I'r rhai a glywsant yr Efengyl, nid oes canol-dir, rhaid iddynt ddewis y goleuni ac aros ynddo, neu grwydro yn y tywyllwch hwnw a'u hamguddia mewn dystryw.

Y cyfryw ag sydd yn mhlith y Saint ag enw eu bod yn fyw, eithr ydynt feirw i ffydd a gweithredoedd da, y rhai unwaith a dderbyniasant dystiolaeth yr Ysbryd, eithr a gollasant ei allu, ydynt o hyd mewn perygl o gael eu hunain yn garcharorion wrth ewyllys y diafol, i'w dinystr eu hunain, oddieithr iddynt ymddeffroi i newydd-deb buchedd. a santeiddhâd corff ac ysbryd, a rhodio yn ddiwyd yn ordinhâdau yr efengyl.

Fel yr ymledaena y gwirionedd, ac y daw goleuni dadguddiad yn ddysglaeriach, dynoethir galluoedd y tywyllwch hefyd yn amlycach. Tra yr ymestyna yr Arglwydd iachawdwriaeth i'r rhai a'i derbynia, mae elfenau dystryw hefyd ar waith; a'r rhai hyny a allant weithredu ffydd, a hôni bendithion yr Offeiriadaeth, trwy ufydd-dod i'w gofyniadau, yn unig a allant erfyn am ddiogelwch rhag galluoedd y drwg.

*Cyf.* Wm. Lewis.

---

## DYFYNIAD O LYTHYR AT Y LLYWYDD BRIGHAM YOUNG.

" *Glan yr Afon Leidiog*, 200 *milltir o Parowan, Sul, Mai* 28, 1854.

" Yr wyf yn iach ac yn teimlo yn dda. Mae y cwmpeini yn iach ac wrth eu bodd. ac yn gytun.

" Bum am chwe milltir i fyny i'r cwm i bentref Indiaidd. Anrhegais yr hen Flaenor â chrys newydd, ac aeth y brawd White y cyfleithydd a minnau gydag ef heb arfau na gwyliadwriaeth. Canfyddasom tua 150 o Indiaid, yn wyr, gwragedd, a phlant, yn eu *wick-e-ups*, rhyw lun o gysgod o bolion a gwellt. Yr oedd ein gwersyll yn llawn ar yr un pryd, a gallasem eu gweled yn mhlith y dolydd a'r bryniau yn mhob pwynt. Ni a welsom oddeutu erw o wenith gan mwyaf yn un corff. Yr oedd llawer o hono yn addfed, a pheth o hono wedi ei dorri, a'i osod yn ystodau; yr oedd cyfuwch a'm ysgwyddau, a mesurodd peth o hono hyd fy nhrwyn. Gwelais hefyd erddi harddwych

o ffâ, pwmpiynau, llafur, &c., wedi eu gosod yn restri bach cryno, ac yr oedd cronfeydd bychain er dwfrhau rhwng pob rhestr, a chronfeydd mawrion yma ac acw er diwallu yr oll.

"Yr oedd y tir yn dda. Tyfa chwŷn ac ysgall yn y rhan ddiwrtaith cyfuwch a'm pen pan ar gefn ceffyl. Mae yma gannoedd os nad miloedd o erwau. Mae y dolydd yn llydain er torri a phori. *Wire grass, red top, canes, milk-weeds*, ysgall, helyg, &c., ydynt y prif wyrdd-lysiau. Mae y dwfr yn gyfleusneillduol er dyfrhau; nid yw byth yn brin nac yn ormodol o herwydd ei darddiad o ffynnonau. Y mae yn loyw a phur, ac yn dymherus i ymdrochi. Mae yno ddigon o bwer dwfr a chwarelau cerryg.

"Oddiamgylch ogylch i'r Eden hon y mae un eang ddiffaethwch. Dywed yr Indiaid am diroedd ereill mewn dyfiryoedd ereill a gynyrchant wenith. Tebygwn y cynnelid 2000 o eneidiau yma, pe gellid cael sefydliad, melin, a llythyr-gludiad."

"P. P. PRATT."

A gyfieithwyd gan Wm. Lewis

---

## TEML YR ARGLWYDD.

YN ngolwg yr oll ag yr adlewyrchodd pelydrau tanbeidiawl goleuni y nef ar amrantau eu golygon ysbrydol i ddangos iddynt yr unig ffordd i wynfyd a gogoniant—y darpariadau anhebgorol iddynt, ar eu rhan eu hunain, eu teuluoedd, a'u mheirw; i'r cyfryw a ddysgwyd gan y Pen saer celfydd ei hun, ni raid i ni argraffu ar eu dealltwriaeth pa ddefnyddioldeb yw Teml; ac fe ddylai dyledswydd y rhai a ddysgwyliant y fath fawrion ryfeddodau ynddi fod o flaen eu llygaid, a'r meddwl am y mwynhâd o honynt yn eu coffhâu mai gwaith perthynol i bob un yw ei hadeiladu. Etto, pleser genym goffhâu meddyliau puraidd y rhai difeddwl ar y mater hwn yn brydlon, fel y caffont gyfle i brofi erbyn terfyniad y chwarter a'r flwyddyn nad ydynt wedi anghofio Seion na'i harddwch a'i goldawgrwydd penaf.

Hyderwn nad anghofiodd neb o'r Saint, yn neillduol y Llywyddion, braint fwyaf y rhai yw amolygu llesiant Seion a chario ei hamcanion i ben, fod y Brif Lywyddiaeth wedi dymuno ar yr holl Saint Prydeinig, hyd y bo yn bosibl, i gyfranu deunaw ceiniog a dime i yr un yn y flwyddyn i gynnorthwyo i adeiladu

y Deml. Swm bychan, debygid, hawdd i bob un rifo drosto ei hun; etto, pe gofynem pa nifer a dalasant hyn, beth a atebid? Ai yr hanner? Naddo, nac un o bob pedwar chwaith hyd yn hyn! O'r oll a dderbyniwyd o ddechreu y flwyddyn hyd ddiwedd y trydydd chwarter nid yw gymmaint a phedair ceiniog gogyfer a phob un o'r Saint! A gawn ni sylw buan y rhai y perthyna at hyn? Tebygol fod llawer yn bwriadu talu y cyfan cyn diwedd y flwyddyn, eithr gwell talu bob tri mis: canys gellir defnyddio yr arian i brynu y nwyfau anghenrheidiol yn y wlad hon a'u danfon yno, ac felly gallant fod mewn gwasanaeth lawer iawn yn gynt.

Gan na ofynir gan neb o honom ond yr hyn a ofyna Duw genym, ac na ofyna Efe ond yr hyn y gellir ei gyflawni, nâ ddirnadwn ni pa fodd yr ymgysura Llywyddion Cynnadleddau eu bod wedi gwneyd yr oll a allent, tra y mae ffeithiau fel yr uchod yn sylfaen y n eu llygaid!

Ymbleserwn yn ein hymdrechiadau i adeiladu Teml Dduw, megys y dysgwyliwn ymbleseru—ymddigrifo, ac ymsanteiddio mewn nefolder llon drwy weinyddiad ei hordinhadau dwyfol hi.

---

## LLYTHYR J. RICHARDS.

*Mountain Ash, Hyd.* 29, 1854.

Anwyl Lywydd Jones,—Yr oeddwn er ys ychydig fisoedd wedi penderfynu ymlwybro dros y dyfnder y gwanwyn dyfodol, ond wedi myned yno yn fy meddwl, holais fy hun, pa mor ddedwydd y gallaf fod, a myned yr amser hwnw. Y mae fy nhylwyth a'm cydnabod yn eu sefyllfa amddifad o wir grefydd yn dyfod i'm meddwl, ac felly yn peri anesmwythder; gan hyny yr wyf yn penderfynu myned i odreu Sir Aberteifi tua mis Chwefror nesaf, i bregethu yno am flwyddyn, a gofalwch ar fod genych ddigon o Draethodau, yn enwedig y rhai dimeiau a cheiniogau; nid oes na phalas, tŷ na thwlc lle y triga dynion ar na chânt gynnyg arnynt gyda thystiolaeth yn y flwyddyn nesaf, o fewn i'r cwmpasoedd aew o leiaf. os yr Arglwydd a'i myn. Mi af a'm teulu gyda mi, ac y mae genyf *ddigon o ffydd* na chânt fod mewn anghen bwyd na dillad, am flwyddyn beth

bynag. Yr wyf fi yn myned i wneyd cymmaint, os nad mwy o waith nag un dwy ganghen sydd yn y cwm hwn yn ol y ffydd bresennol, ac os ydych chwi yn dweyd "felly bo," mi a âf, ac a argyhoeddaf, a bedyddiaf yr onestion trwy allu Duw. Yna byderaf am ddedwyddwch yr ochr draw.

Yr ydym yn myned yn y blaen yma trwy y cwm hwn yn awr yn well nag y buom er ys blynyddau. mwy o Ysbryd y bywyd yn ein plith, ac o ymdrech gyda phob rhan o'r gwaith.

Eich cyd-was,

J. RICHARDS.

---

[Darllener yr uchod ac efalycher ef gan yr oll a allo. yn neillduol na ymffrostied y swyddwyr dideulu. pan y teimla pen teulu mor liosog â'r uchod i fyned i'r winllan! Mawr lwyddiant a gaffo y Brawd Richards, a'r hwn a bia y winllan a'i diwallo efa'i deulu yw gweddi y—GOL.]

---

## TYNGHED SIR JOHN FRANKLIN.

HYSBYS i'n holl ddarllenwyr, ond odid, yw fod y boneddwr hwn wedi enwogi ei hun drwy fyned ar fordaith er ys blynyddau yn ol, i chwilio am agorfa rhwng' mynyddau rhewog yr eithafion gogleddol; fod ei ddystawrwydd hynod wedi creu ofnau am ei ddiogelwch; bod y llywodraeth wedi anfon cenadon i chwilio am dano, a bod ei wraig ef wedi myned gyda hwynt, a'r oll yn aflwyddiannus. O'r diwedd ceir yr hanes a ganlyn gan foneddwr o'r enw John Rae, yr hwn a enwogodd ei hun drwy deithio hyd gyffiniau y moroedd gogleddol, a'r hwn a geisiai yn ofer gan y llywodraeth a'r wlad, er's blynyddau ei goelio fod ei wybodaeth o ansawdd y wlad yn ei orfodi i gredu fod Sir J. wedi cael ei sugno gyda'r iâ i'r *Great Fish River*, a thaer erfyniai gynnorthwy i chwilio yno am dano, ond nid oedd neb a'i coeliai. Eithr yn awr, ar ei ddychweliad o'r wlad hono, prawf drwy ffeithiau fod ei syniadau blaenorol yn gywir; hysbyswyd ef gan drigolion yr eithafion hyny iddynt weled tua deugain o forwyr yn teithio yn lluddiedig, nid nepell o Fish River, lle y dywedasent i'w llongau gael eu dryllio rhwng mynyddau o rew; eu bod yn llusgo bâd gyda hwy, a'u bod yn brin o fwyd. Yn ddi-

weddarach, gwelodd amryw nwyfau gan y brodorion a berthynai i'r orymdaith hono, ac yn mhlith llawer o bethau ereill a ddygodd gydag ef yn ol, yr oedd llwyau arian ag enw Sir John Franklin arnynt, ac ar ereill enwau amryw o'i gyd-deithwyr. Trwy gyfarwyddyd y brodorion aeth Mr. Rae i'r lle y cyfeirient ef ato, a gofidus yw dweyd, cafodd yno ffeithiau galarus i brofi fod eu tynghed wedi ei sefydlu—eu bod wedi marw o newyn; neu o leiaf, gwelodd ddeg ar hugain yn gorwedd gyda'u gilydd, pa rai, a ddeallid wrth sefyllfa ddryllioq rhai o'r cyrff, a chynnwysiad y crochanau oedd ar eu pwys, oeddynt wedi bod yn bwyta y meirw cyn trengu! Cafodd bump ereill ar ynys gyfagos, ymddangosai un o honynt fel pe buasai Swyddog; meddai ei yspienddrych yn grogedig ar ei ysgwydd, a'i ddryll dau-faril odditano. Mae y cyssondeb hanesyddol o'r darganfyddiadau perthynol yn profi mai ofer dysgwyl un o'r osgordd anffortunus yn ol i ddweyd hanes mordaith na thynghed Syr John Franklin a'i ganlynwyr.

---

## ARDDANGHOSIAD BABANOD.

Yn mhlith hynodion ffeiriau y byd gorllewinol, eu mhamau a gasglasant gant a saith ar hugain o'r holl liaws o fabanod a ddygwyd o'r pedair talaeth cyfochrog i dref Springville, Ohio, i gael barn y beirniaid, a gwobrwyon i'r babanod glanaf, harddaf, mwyaf iachusol, a mwyaf prydweddol; ac yn mhlith y fath liaws o rai ag yr oedd mor naturiol i bob un weled ei "chyw ei hun yn wyn boed arno y lliw a fyddo;" gall pob un a fedd faban o un math gydymdeimlo â'r beirniaid! Cafodd y mamau a ystyrient ddoleiain eu babanod eu bunain y miwsig pereiddiaf i'w clustiau y wledd oreu o fiwsig; serch fod adnabyddiaeth o fagwriaeth wedi rhag-drefnu llawnder o offer cerdd i'r lle erbyn crynhoad y fyddin cantorion ieuainc; er hyny, gorchfygwyd hwynt oll—mynai yr American ieuanc glywed ei lais ei hun yn uchaf. Er gwaethaf pob ymdrech boddid llais y trwmboon a'r drwm ei hun fel lleisiau yr amrywiol offer ereill yn y ffonllef, tra yr oedd "gobaith eu gwlad" yn aros yr arholiad! Ni ddywedir pa wobr a gafodd yr uchaf ei lais, eithr ei bod yn nos braidd cyn penderfynu pa dri a gawsent y gwobrwyon; haerai y naill mai ei hail faban ar bym

theg hi, a'i ei harffed, a'i teilyngai, tra arall yn dangos aelodau hardd, arall bryd glanwaith, ac ereill lygaid, neu ranau ereill o'r hanwyliaid hwythau a ystyrient yn anghydmarol. Tra yr ewyllysiwn i'w rhieni fawr lawenydd gyda eu plant, ni chaniatawn, wrth gwrs, nad oes eu hanwylach yn mhellach i'r gorllewin.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

DYDD SADWRN, RHAGFYR, 2, 1854.

Y ffordd oreu i Draethodu!—Dywed ambell un wrthym ei fod yn bwriadu gwerthu yr "hen stock" cyn ymofyn ychwaneg o draethodau. I'r rhai cynnygiwn air o gynghor, a ddysgasom drwy brofiad, er y dylasem fel pawb weled y rhesymoldeb o'r peth; yr hyn yw, fod ein llwyddiant i werthu yr ail draethawd i ddyn yn dibynu ar natur y traethawd cyntaf a gafodd; os nad oedd yn deall ac yn hoffi hwnw nid hawdd fydd ganddo brynu yr ail; a chan mai yr egwyddorion cyntaf ydynt hawddaf i'r byd eu deall a mwyaf addas iddynt, dysga doethineb i beidio cynnyg iddynt yr hyn ni allant ei amgyffred hyd nes eu dysgir, fel y dysgasom oll pa fodd i gael meddiant o'r Dysgawdwr anffaeledig oddiffy—Ysbryd y gwirionedd, yr hwn yn unig a'n tywys i ddeall ac i iawn brisio y gwirioneddau a gynnwysir mewn traethodau ereill; dysgwyd i ni oll y wersodidog hon pan yn blant yn yr ysgol, a da fyddai cofio y gair a ddywed,—"y dyn anianol nid yw yn deall y pethau sydd o Ysbryd Duw, o herwydd yn ysbrydol y bernir hwynt;" ac y mae llwyddiant i werthu traethodau i raddau helaethach nac y meddylia llawer, yn dibynu ar gyfaddasu y cyfryw i chwaeth y prynwr; yr hwn, wedi cael yr un iawn i ddechreu a fyddai yn fwy awyddus am chwaneg, hyd nes y melys wleddai cyn hir ar yr hwn a wrthodasai yn gyntaf. Ffordd go chwith i werthu traethodau nac i lesoli dynion yw cymhell arnynt y nwyfau a feddir ar law er mwyn cael eu gwared; eithr y ffordd oreu, a

welsom i lwyddo yw rhoi llaeth i blentyn, yr hwn a'i galluoga i archwaethu bwyd cryf yn ei bryd; felly, dysgwn ninnau oll wersi pa fodd i werth traethodau i'r byd, a chofiwn mai yr hwn a hauo yn brin a feda hefyd yn brin.

Cymdeithasau traethodau ydynt o fawr les lle eu cynnelir, ac hyderwn y caffant gefnogaeth gryfach etto; adwaenom frawd a anrhegodd Gymdeithas ei Gangen â mil o wahanol draethodau i'w rhoddi yn nwylaw y Saint na allent brynu rhai; a mawr fel yr ymbleserant yn myned a hwy o dŷ i dŷ, gan eu newid bob Sul a gadael un newydd yn eu lle; a mawr yw y lles a'u dilyna! Efelycher hwynt yn fwy.

---

*Llywyddiaeth Utah.*—Ceir lle i feddwl wrth awydd Golygyddion Prydeinig ac Americanaidd i gyhoeddi dychymmygion, mai pleser mawr fyddai ganddynt gael y Llywydd B. Young o Lywyddiaeth Utah. Dywedant i'r byd fod y pedair blynedd ag yr oedd efe i Lywyddu wedi terfynu yn mis Medi diweddaf, ac fod ysgrifenydd y Diriogaeth yn Llywyddu yn ei le hyd oni etholir olynydd iddo. Ond dalier hyna yn ngwyneb drych breintlen sefydliad y Diriogaeth, yr hon sydd fel y canlyn:—"Dosran yr 2il. Cynnwysir gallu a hawl Tiriogaeth Utah mewn Llywydd, yr hwn a wasanaetha ei swydd am bedair blynedd, *ac hyd oni chaffo ei olynydd ei ethol a'i* GYMHWYSO *i'r swydd.*"

Cyhuddant y Llywydd Young hefyd o esgeuluso anfon adysgrifau o gyfreithiau Utah i'r Senedd Unol, ynghyd a gweithredoedd y Senedd Diriogaethol yn y ddwy flynedd fynedol. Eithr gwelir awydd y bobl hyn i'w euogfarnu yn amlycach na'u doethineb yngwyneb y dyfyniad canlynol etto. o gyfraith a wnaeth y Brif Seneld,—"Dosran 3ydd. Bydd hefyd ysgrifenydd i'r Diriogaeth ragenwol, yr hwn a breswylia ynddi, ac a wasanaetha yn ei swydd am bedair blynedd, oddieithr iddo gael ei symmud gan Lywydd y Taleithiau Unol; dyledus fydd arno ef i ysgrifenu holl weithredoedd y Senedd Diriogaethol gyfeiriedig, ynghyd â holl weithredoedd y Llywydd yn ei gylch Llywyddol yntau; *dibyna arno ef* [yr *ysgrifenydd*, gweler, ac nid y *Llywydd*!] i anfon un adysgrif o gyfreithian a gweithredoedd y Senedd i Lywydd y Taleithiau, a dau adysgrif i siaradydd tŷ y cynrychiolwyr, ac i'r Llywydd at wasanaeth y Senedd-dŷ, ar

neu cyn y dydd cyntaf o Ragfyr yn flynyddol." Felly mae y Llywydd Young yn ddiouog etto, ac fe Lywydda cyhyd ag y dewisa Duw iddo Lywyddu, er gwaethaf Golygyddion y byd!

---

Y *Cynrychioliad Hanner blynyddol*.—Gofynwn am y Cynrychioliad, mor *gyn ir ag y bo modd*, gan bob Llywydd Cynnadledd yn y Dywysogaeth, o rif y Cangenau, Archoffeiriaid, Henuriaid, Offeiriaid, Athrawon, a Diaconiaid; hefyd rhif y rhai a ysgymmunwyd, a farwasant, a ymfudasant, ac a fedyddiwyd yn yr hanner blwyddyn yn diweddu Rhagfyr 31ain, ynghyd a chyfanrif o'r aelodau a'r swyddwyr, yn cynnwys y gwasgaredigion hefyd wedi eu tanysgrifio gan y Llywydd a'r Ysgrifenydd. Crefwn am gael y cynrychioliad *i'r Swyddfa hon erbyn Ion. 4ydd o* BELLAF, SYLWER.

---

*Gulwn sylw neillduol*—Llywyddion, Dosparthwyr a Thrysorwyr, at yr hyfforddiadau a gyhoeddasom yn rhif. 22, tud. 350, o'r gyfrol hon o UNDORN SEION, a chydweithrediad â hwynt hyd y b'o yn eu gallu i wneuthur, ac fe all pob un wneuthur a wnelo erbyn yr 'amser nodedig' gystal ag erbyn deu-ddydd neu dri wedi hyny.

---

*Penfro Ogleddol*.—Cynnaliwyd y Gymanfa hon yn Abergwaun ar y 19eg a'r 20fed o'r mis hwn, a chynrychiolwyd fel y canlyn:—4 Cangen, 13 Henuriad, 4 Offeriad, 1 Athraw, 2 Ddiacon, 1 wedi ei fedyddio, 1 wedi marw, a'r cyntaf un er pan sefydlwyd y Gynnadledd. 5 wedi ymfudo, a'r cvfan yn 49.

Cafwyd undeb yn mhob peth, a llawer o gynghorion dyddorol gan y Llywydd Jeremy, ac ereill.

Rhaddhawyd y Llywydd David Rees fel y gall ymbarotoi i ymfudo, gyda chymmeradwyaeth ddieithriad ar ol rhoddi i fynu holl gyfrifon y Gynnadledd yn foddhaol, ac etholwyd yr Henuriad Thomas D. Evans i'r Llywyddiaeth yn ei le am yr amser presennol. Cafodd annogaethau y Llywydd Jeremy i draethodu a thystiolaethu effaith ar feddylian y Saint, fel ag i benderfynu ymroi yn ffyddlonach nag erioed.

T. D. EVANS, Llywydd,
T. EVANS, Ysgrifenydd.

---

*Brycheiniog.*—Hysbysa y Llywydd D. Daniels ei fod ef a'r Llywydd Morgans wedi llafurio yn ddiwyd trwy wahanol barthau o'r wlad hon, a chael maesydd eang heb lafurwyr, a threfydd amryw yn gwaeddi am air y bywyd, heb neb i'w diwallu. Ymfywiogodd amryw Saint gwasgaredig y rhai a addunedent fwy ffyddlondeb o hyn allan i draethodu ac i iawn gyfranu gair y gwirionedd i'r miloedd eneidiau anfarwol a ymdreiglant mewn caddug moesol i'r byd anadnabyddus o'u hymyl.

---

*Sir Aberteifi.*—Cynnaliwyd y Gymmanfa hon yn y Cwrt Newydd, ar y 12fed o'r mis hwn, pryd y cafwyd rhifedi y Cangenau yn 5; Henuriaid 15, Offeiriaid 4, Athrawon 3, Diaconiaid 1, bedyddiwyd 4, yr oll yn 108, a ewn penderfyniad i ymegnïo gyda gwaith yr Arglwydd.

Cafwyd gwrandawiad lliosog ac astud gan y cyfeillion o'r byd, a charedigrwydd haelionus iawn tuag at y Saint.

Dysgodd y Llywydd Jeremy yn eglur iawn y mawr les a all y Saint wneuthur i'w cymmydogion drwy ymegnïo i werthu a dosparthu traethodau iddynt er eu goleuo yn y ffordd a arwainia i Deyrnas Dduw—y cyfleusdra rhagorol a ddyry hyny iddynt i ddeall pwy sydd yn caru ac yn dymuno cael gwirionedd ac i dystiolaethu iddynt; ac addunedodd y Saint i ymroi i wneuthur felly.

Cafodd tystiolaethau y Llywyddion T. Jeremy, B. Evans, ac ereill effaith ddymunol ar y gwrandawyr, a chreodd adroddiad o hanes Seion gryn awydd am fyned yno. Addawodd yr holl Saint hefyd dalu yr oll sydd ddyledus am lyfrau erbyn diwedd y flwyddyn.

B. Evans, Llywydd,
J. Morgans, Ysgrifendd.

---

## ANSAWDD Y GOGLEDD, AC HANESION O'R DYFFRYN

*St. Sior, Tach.* 24, 1854.

Anwyl Lywydd Jones,—Defnyddiaf yr ychydig ymadau hyn i anfon gair atoch, gan eich hysbysu fod pob peth yn dda gyda ni

yn bresennol. Mae y Saint yn Sir Fflint yn myned rhagddynt yn weil nag y buont er ys tro,—pob peth mewn trefn dda,—undeb da yn mhlith y swyddogion, a phawb yn lled gadarn yn y ffydd; ond yr oedd Cangen y Cefn Mawr wedi dyoddef ychydig trwy fod nai i Brigham Young, yr hwn (ebe fe) sydd yn teithio yn y Gynnadledd nesaf, wedi bod yno y Sul, ac fe'i gwrthodwyd ef ganddynt am nad oedd ganddo drwydded; yna troes yn fradwr, ac a ddywedodd lawer o gelwyddau yno wrth y Saint a'r byd, gan ddweyd mai ymladd cŵn a cheiliogod yr oeddynt yn y Dyffryn ar y Sul, ac fod yn rhaid i bawb fod yn gaeth weision i gadw y penaethiaid, bod yno filoedd eisiau dod yn ol pe caffent, —fod ei dad wedi turri calon ei fam trwy fod yn well ganddo am wragedd ereill na hi, a lluoedd o bethau cyffelyb.

Mae yno fwy o werthu llyfrau nag a fu ers cryn amser. Cawsom Gymmanfa dda yn Newmarket hefyd y Sul diweddaf, gwell nag a gawsom er ys talm; pob peth yn dda a gwrandawiad astud gan y byd.

Yr ydym yn gwerthu llyfrau yn lled dda, ond y mae lle i ni weila. Darllenais eich annogaethau yn yr UDGORN, i glywedig aeth yr holl Saint, o berthynas i dalu am lyfrau, ac y mae pob arwyddion mai gwella a wnawn.

Cadarnhausom un o'r Wesleyaid yn y Gymmanfa; ac yr oedd un arall o'r Wesleyaid yn Nghymmanfa Sir Fflint yn tystio ar ol dyfod allan "ei fod yn meddwl ei fod yn y nefoedd."

Derbyniais lythyr oddiwrth fy nhad, dyddiedig Medi 29, yn hysbysu ei fod yn iach ynghyd a phawb o'm perthynasau, a phob un o'r Cymry mor belled ag yr oedd yn hysbys o honynt. Hefyd y fod John Roberts, Newmarket, ynghyd ag ereill o'r Cymry, yn dyfod i mewn i'r Ddinas draonoth, sef y 30ain o Fedi, ac fod John Williams o Dreffynon a'i deulu, ynghyd ag ereill o Gymru, i ddyfod y dydd Llun canlynol, ac fod llawer iawn o waggeni wedi myned yn mhell i'w cyfarfod. Dywedodd fod G. A. Smith wedi dyfod i'r Ddinas i ymofyn dynion i ddeheubarth y Diriogaeth i ddarostwng yr Indiaid ag oedd yn aflonyddu. Prydnawn yr un dydd daeth tua 500 o wyr meirch i'r Ddinas o'r Taleithiau, i fod at wasanaeth y Llywydd Young, wedi eu danfon i'r perwyl. Y mae pob peth yn myned yn mlaen yn rhagorol o dda. Bu farw yr hen frawd R. Humphreys (Garddwr y Garn, gynt,) bythefnos cyn cyrhaedd y ddinas.

Mae Cymro yma wedi bod yn yr America, yn perthyn i'r Annibynwyr, sef Dr. Thomas, yr hwn sydd yn areithio o dref i dref ar y rhesymoldeb a'r anghenrheidrwydd o ymfudo i'r America, &c. Y mae yn canmol preswylfa y Saint, ac yn dweyd os oes ar bobl eisieu myned i fyw i wlad dangnefeddus, ac iachus, am iddynt fyned i wlad y Saint, lle nad oes caniatâd i neb feddwi, na thyngu na rhegu; hefyd, lle nad oes na phutain na lladron! Mae hyny wedi cyfnewid teimladau llawer tnag at y Saint mewn rhai lleoedd yma.

Gwelwch yn dda fy nghoôo at y brodyr Thos Jeremy a D. Daniels.

Eich gostyngedig frawd yn y C. T.,

J. Parry.

---

[Mae yn dda genym glywed fod y Saint yn sylwi ar y cynghorion a gaffant mor fynych, pa fodd i ymddwyn tuag at grwydriaid a wibiant i'w plith heb drwyddedi; canys diau mai amlhau ei offerynau a wna y diafol, er y rhaid ei bod yn wael arno am weision pan y defnyn un fel yr hwn y cyfeirir atto. Ni raid i ni ddweyd mai anwiredd gwybodus i ni yw pob gair o'r hyn a ddywedodd; ond gwell i ni yw dweyd nad oes gan Brigham Young yr un nai o'r enw yna, rhag ofn y treia dwyllo ereill. Na rodder lle, meddwn etto, i neb heb drwydded, neu ei chyfartal drwy adnabyddiaeth bersonol.

Cyd'awenhawn â'r bugail Parry yn y gobaith y cyflawna y Saint yr addunedau a wnaethant, canys nid yr addunedau ond y cyflawniad a fendithia Duw â llwyddiant.

Ysbryd y gwirionedd a barhao i gyfarwyddo yr areithiwr, a mawr lwyddiant o'i lafur a gaffo. Er mai dyledswydd diddiolch pob dyn yw dweyd y gwir ar bawb, etto y mae dweyd gwirioneddau gwybodus am y Saint yn beth mor angbyffredin, fel y teimlwn chwant i ddangos ein cymmeradwyaeth o hono drwy ddiolch i'r ambell un a'i gwna, ac hyderwr y parha yntau mor annibynol, ar hyd y nod ei frodyr yr "Annibynwyr," a rhwyfo i fynu ffrydlif y gwirionedd, yn hytrach nag gyda'r lli i gerwin ddigofus rhagfarn. Pe dywedai pawb ond y gwir, gwyddom na chlywid un yn dweyd yn amgen am y Mormoniaid nag a ddywed y Dr. Thomas cyfeiriedig. Etto, gan na archwaetha pawb y gwir, rhaid i gylla y lleill gael rhywbeth arall.—Gol.]

## CASGLIAD Y SAINT.

GAN GWILYM DDU O SEION.

Y DYDD a ragwelwyd gan Santaiid brophwydi,
A phatrieirch wawriedd uwch gorer ein byd;
Allweidau'r or'chwyliaeth ddiweddaf a roddwyd,
Er casglu plant Israel o bob parth ynghyd.

Hiliogaeth hen Abraham, Isaac a Jacob,
A fuont ar wasgar am oesoedd yn byw;
"Dy had a adwaeni yn mhlith y Cenedloedd,"—
Medd hen brophwydoliaeth gan brophwyd i Dduw.

Yn awr mae cenadon Duw'r nef yn pregethu,
'R efengyl dragwyddol i bobloedd y byd,
Oll wedi eu hanfon mewn dwyfol awdurdod,
I bob parth o'r ddaear ar led ac ar hyd.

A dyma'r "presgodwyr" a'r "helwyr" ragwelwyd,
Gynt gan yr hen brophwyd drwy Ysbryd ei Dduw,—
Yn casglu y Saint yn y dyddiau diweddaf,
O blith y cenedloedd lle buont yn byw.

O Babilon fawr cyn ei chwymp deuant allan,
Yn lluoedd afrifed wrth alwad Duw'r nef;
Fel cwmwl,—fel nifwl, ac fel colomenod,
Yn glau i'w ffenestri ehedant tua thref.

Plant Ephraim i Seion, i wlad y gorllewin,
A'r deg llwyth o'r gogledd ddo'nt adref bob un;
Plant Juda a ddeuant i hen Balestina,
I godi eu Teml cyn dêl Mab y Dyn.

Hen Satan a rwymir, a'n Hiesu deyrnasa,
Dros fil o flynyddoedd yn nghanol ei Saint;
Gwna hwynt yn Offeiriaid i'w Dad a Breninoedd,
Yn uheyrnas y nefoedd,—O, freiniol wir fraint!

Hîi Abraham, Isaac, a Jacob bysh mwyach,
Ni chânt eu gwasgaru medd geiriau Duw îôr;
Ond gyda eu Brenin tragwyddol teyrnasant,
Dros bedwar ban daear ac o fôr hyd fôr.

## NEWYDDION O'R DYFFRYN.

Kyni a dderbyniasom y 'Deseret News' hyd Medi 28, yr hwn a'n hysbysa fod dau frawd wedi cyrhaedd yno ar y 26ain o'r Taleithiau, wedi gadael yr ymfudwyr yn gyffredinol mewn iechyd a hwylusdod, er eu bod gan mwyaf yn ddiweddarach nac arferol. Dysgwylid hwynt oll i ddiddosrwydd trwy gynnorthwy prydlon y gweddenau o'r Dyffryn cyn y geuaf. Ceir cawodydd o gynnar a diweddar wlaw yn fynychach yn flynyddol, a chynnydda ffydd rhai y caffant ddigoneld heb ddwfrhau cyn hir. Adeiladwyd pont dros afon fawr a elwir "Sevier," yr hon sydd dros 120 troedfedd rhwng ei cholofnau, tair o ba rai ydynt yn y ffrwd

Mwynheid iechyd da drwy y sefydliadau yn gyffredinol; cnydau toreithiog; pris y gwenith oedd 2 ddolar y bwshel, ceirch 1½ dolar, ymenyn yn hanner dolar y pwys, y gwair yn 15 dolar y dunell. Tiriasai dwy gatrawd o'r Taleithiau ar eu ffordd i Gallifornia, yn cynnwys 325 o wyr, 100 o waggeni, a thua 1000 o geffylau a mulod. Genafant yn y Dyffryn, a bwriadant fyned yn mlaen yn y gwanwyn.

Dychwelasai y Llywydd Young a'i osgordd o ymweliad a'r llwyth Indiaidd a elwir y "Shosonees," neu y "Snakes," y rhai a anfonasent yn flaenorol saith o'u blaenoriaid i ddeisyf ymweliad ag ef gerllaw i ddinas Ogden. Wedi chwedleua yn gymdeithasgar am ennyd, amhegwyd hwynt ag amryw roddion, pa rai a'u boddiodd yn fawr, a dywedasant eu bod yn teimlo yn bleserus ac yn dymuno byw yn heddychol; ac mewn gair felly y maent hwy wedi bod oddieithr ambell eithriad o ddïal ar yr ymfudwyr, drwy ladrata eu hanifeiliaid o herwydd i ymfudwyr cyn hyny ladrata eu hanifeiliaid hwynt; ac y mae yn ofidus na ellid rhwystro hyny bellach.

Mae chwyldroadau cartrefol yn Mexico ag sydd yn difrodi bywydau ei thrigolion yn gyffym a barbaraidd, ac heb nemawr argoel o'i derfyniad chwaith. Dygasid nwyfau marsiandïol mor amrywiol a helaeth i'r Diriogaeth, heblaw llaweroedd heb gyrhaedd, fel yr oedd eu prisiau wedi gostwng cryn lawer; a digon o ddewis gan y prynwr.

Yn San Bernardino, yr oedd cnydiau toreithiog iawn o ffrwyth y ddaear, eithr wedi goddef peth colledion oddiwrth wlawogydd

anarferol yn mis Awst, yr hyn oedd wedi chwyddo eu hafonydd yn uwch nag eu gweiwyd cynt. Yn San Francisco, prynasai y Llywydd P. P. Pratt long a garia 450 o dunelli i fordwyo rhwng y cyfandir ag ynysoedd Sandwich; yr oedd teimladau daionus tuag at y Saint yno. Prinder arian, er fod ychydig aur yn cael ei bela yno o hyd.

---

## AMRYWIAETHAU, &c.

*Amseroedd Cymmanfaoedd y Deheu.*—Cynnelir Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg, Sul y 24ain o Ragfyr, yn Aberthyr-Tydfil; Brycheiniog ar y 31ain, yn Brynmawr; Mynwy ar y 7fed o Ionawr, Gorllewin Morganwg ar y 14eg, Llanelly ar yr 21ain, Caerfyrddin ar yr 28ain, Sir Aberteifi ar y 4ydd o Chwefror, Gogledd Penfro ar yr 11eg, a Phenfro Ddeheuol ar y 18fed.

Dysgwylir i'r Arolygwyr ddarllen eu mantoliad eu hunain o gyfrifon y prif Ddosparthwr yn fanwl, yn ol y cynllun, yn mhob Cymanfa, ac anfon adysgrifeniad i'w groniclo yn y Swyddfa hon o fewn yr wythnos ganlynol i hyny.

---

Derbyniadau am Lyfrau o Tach. 12 hyd Tach. 29.—G. W. Davies, £8; Griffith Roberts, £1 10s; Jonathan Ellis, £1 3s; E. Middleton, £1; James Morgan, £1 2s 3c.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

---

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Santeiddhâd | 581 |
| Dyfyniad o Lythyr at y Llywydd Young | 583 |
| Teml yr Arglwydd | 584 |
| Llythyr John Richards | 585 |
| Tynghed Syr John Franklin | 586 |
| Arddangosiad Babanod | 587 |
| Golygyddiaeth—Y ffordd oreu i Draethodu—Llywyddiaeth Utah—Y Cynrychioliad Hanner Blwyddol—At y Llywyddion, &c.—Penfro Ogleddol—Brycheiniog—Sir Aberteifi | 588 |
| Ansawdd y Gogledd ac Haneston o'i Dyffryn | 591 |
| Casgliad y Saint | 584 |
| Newyddion o'r Dyffryn | 595 |
| Amrywiaethau, &c. | 596 |


---

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

Rhif. 38.] RHAGFYR 16, 1854. [Cyf. VII.


### ANNERCHIAD Y BRIF LYWYDDIAETH YN SEION AT Y CENADON O UTAH.

*(O'r "Deseret News.")*

Anwyl Frodyr,—Er y dichon i chwi gael eich temtio ar brydiau i dybied mai anghofiedig ydych gartref, tra yn ymdrechu ynghanol galluoedd drygioni a thywyllwch, ac yn mhlith dyeithriaid, heb bwrs nac ysgrepan, i gyhoeddi egwyddorion pur yr efengyl dragywyddol, ac i gasglu y gonestion eu calonau o bob cenedl dan y nef, etto cynnelir chwi yn gysson trwy ein ffydd, a chofir chwi yn ein gweddiau. Profiadol iawn ydym mewn treialon i'r natur ddynol ag ydynt i'w dyoddef gan bawb sydd yn mawrygu eu galwedigaeth yn yr Offeiriadaeth.

Mewn ufydd-dod i gynghor cefnasoch ar anwyldeb teuluaidd, cartrefol, ac ar gyfeillach hyfryd eich brodyr, ac aethoch allan yn llon i gyfarfod â sènau ysbrydion drwg, a gwawd a dirmyg y drygionus, a chalonau yn ymlosgi â iachawdwriaeth dros eich cyfeillion; ac mor galed yw y gwrthdarawiad, fel nad yn unig mai ymswyn a wnelai ysbryd annghynnorthwyol dyn rhag yr alwedigaeth, eithr ei gwrthod yn gyfangwbl, a bod yn hollol anaddas i'r gorchwyl.

I'ch cysuro a'ch cynnorthwyo yn eich gorchest, yr hyn yw y mwyaf boddhaol i Saint o bob gwaith, defnyddiwn rai o golofnau y *Deseret News* o bryd i bryd i'ch diwallu â newyddion cartrefol a fyddant o leshâd, i grybwyll y cyfryw bethau

ac i roldi y fath gynghorion ag a amlygir gan yr Ysbryd Glân.

Ar amserau profedigaethau a threialon celyd, chwanog yw y meddwl dynol i ammheuaeth ac annobaith, ac heb ostyngeiddrwydd, ffydd, ac ufydd-dod trwyadl, agored yw i wneyd llongddrylliad o'r argoelion tecaf, o ganlyniad, nid rhy aml eich hadgyfarwyddir pa fodd i dderbyn Ysbryd yr Arglwydd, os na fydd genych, pa fodd i'w gadw, ac i rodio ynddo yn barhaus, a'i ddefnyddio yn gynghorydd i chwi, nac yn rhy agos y glynir wrtho gan yr holl Saint, eithr yn fwy neillduol gan y rhai sydd yn traethu gwirionedd i genedloedd y ddaear.

Achosa eich sefyllfa bell a gwasgaredig yr anmhosiblrwydd i chwi dderbyn hysbysiad uniongyrchol oddiwrthym ar bob gofyniad a all gyfodi, hyd y nod pan y gellwch fod yn awyddus iawn i hyny. Doeth drefnwyd hyn er eich lleshâd yn ngweithredoedd rhagluniaethol trefn Duw i ni yn y sefyllfa hon o brawf, canys trwy y drefn hon gwneir pawb yn ddarostyngedig am oleuni, cyfarwyddyd, a gwir wybodaeth, iddo Ef yr hwn sydd yn llywodraethu ac yn Arglwyddiaethu ar bob peth mewn doethineb, ac yn goleuo "pob un ar y sydd yn dyfod i'r byd."

Wedi i ddyn gael gwir ffydd, edifeirwch, bedydd gan un awdurdodedig, a gosodiad dwylaw er derbyn yr Ysbryd Glân, nid yn unig braint, eithr dyledswydd pob person yw byw yn y fath fodd yn unol â goleuni a dadguddiadau yr efengyl ag i fod yn abl i ofyn a derbyn dadguddiadau oddiwrth yr Hollalluog bob amser a than bob amgylchiad, pryd bynag y byddo angen, i'w allnogi i fawrygu ei alwedigaeth, lledaenu iachawdwriaeth, ac anrhydeddu ein Tad yn y nefoedd.

Y Mae gwirioneddau eglur ag ydych gynnefin â hwynt, y rhai a wyddoch, neu a ddylech wybod, oll drosoch eich hunain, canys gwaith personol yw iachawdwriaeth – pob un drosto ei hun yn gyntaf, ac yn ail pob un dros yr oll i gynnorthwyo ei frodyr, a'r teulu dynol yn gyffredinol, cyn belled ag y bydd yn ei allu.

Mae y genadiaeth i'r Ynysoedd Prydeinig o dan arolygiaeth yr Henuriad Franklin D. Richards, o Gorwm y Deuddeg, a chaniatâ amgylchiadau iddo ein holi, ar brydiau, ar y gofyniadau amlaf sydd o ddwys bwysigrwydd. Nid yw gymmaint

felly gyda'r cenadiaethau Scandinafaidd, Ffrengaeg, ynysoedd y cyfyngfor, Swedaidd, Ellymynaidd, Italaidd, Hindwaidd, Awstralaidd, a Phenrhyn Gobaith Da. O herwydd hyn, cyssylltiadau swyddfâol, a ffeithiau ereill, fe'i ystyrir yn addas i'r Cenadon ar y Cyfandir Dwyreiniol edrych yn fwy neilluol at yr Henuriad Richards am gynghor ar y mesurau a'r amcanion hyny a ddichon iddynt betrysu yn fawr yn eu cylch; ar yr un pryd, boddhaol fydd genym bob amser i ddeall beth yw eich sefyllfa a'ch argoelion, a pharod yn wastad i roddi y cyfryw atebion i ofyniadau, a chynnyg y fath addysgiadau, fel y bydd anghen yr achos yn galw.

Mae yr Henuriaid o Utah sydd yn awr yn Awstralia, Hindwstan, a Phenrhyn Gobaith Da, at eu cyflawn ryddid, ar dderbyniad y llythyr hwn, i aros yn eu gwahanol faesydd cenadol, i ymestyn eu llafur i faesydd newyddion, neu i ddychwelyd adref, fel y dadguddio yr Ysbryd Glân yn eu cynghorau, mewn perthynas i'w gweithrediadau cymdeithasol neu bersonol, a bydd pob peth yn iawn.

Cynnydda ein gweithfeydd cyhoeddus yn ddiysgog, eithr nid bob amser gyda'r ymdrech a'r cyflymdra ag y dymunem; er hyny cynnyddu yn barhaus mae y Saint yn Utah mewn ffydd a gweithredoedd da.

Rhag ofn nad yw y "Deseret News" oll wedi eich cyrhaedd, yehwanegwn fod y sylfaen a rhan *adobie* y mur oddiamgylch Adran y Deml wedi eu gorphen, a gosoda y gweithwyr y crib gerrig yn awr, y rhai a ddarparant y mur i'r *reiling* haiarn.

Mae y gweithwyr yn ddiwyd yn gosod meini anferth o amryw natur yn sylfaeni mawrion y Deml.

Mae y brodorion yn heddychlawn â ni ac â'u gilydd, a pharhâ yr Arglwydd i'n bendithio a bendithion dewisaf nefoedd a daear, hyd nes ydym yn ymlawenhau yn yr Ysbryd, mewn undeb, ac iechyd da yn gyffredinol, gyda chyflawnder o angenrheidiau a llawer o foethau bywyd.

Oddiwrth eich brodyr yn yr efengyl,

BRIGHAM YOUNG,
H. C. KIMBALL,
J. M. GRANT.

## LLYTHYR O DIRIOGAETH UTAH.

*D. Ll. H. Mawr, Chwef.* 26, 1854.

Fy hen gyfaill Evan Roberts,—Meddyliais rai troion i ysgrifenu atoch, ac yn awr cefais ar fy meddwl i weithredu felly. Yr wyf yn iach, yn gryf, ac heinyf, ac yn gyflawn o lawenydd trwy fy mod wedi ufyddhau i'r wir Efengyl dragywyddol, ac nid i un gau fel yr eiddoch chwi ac ereill, sef yr holl sectariaid. Fy hen gyfaill E. R., gwnewch oddef i mi i ddywedyd y gwirionedd; nid oes dim yn fy mryd, nac un tuedd i'ch dirmygu fel dynion, ond cariad ac ewyllys da tuag atoch a'm cymhellodd i ysgrifenu yr Epistol hwn atoch. Yr wyf yn teimlo drosoch oblegid eich hanghrediniaeth a'ch cyndynrwydd i gredu y wir efengyl, canys mi a wn fel mai byw yr Arglwydd na ddichon eich athrawiaeth achub cymmaint ag nn enaid, canys nid yw eich bedydd chwi, sef y "Babtist bach," ac ereill, ddim gwell na bedydd babanod o ran ei ddyben; maent hwy yn bedyddio er ail eni, ac er maddeuant pechodau, ac er achubiaeth ac ail eni. Chwithau a ddywedwch fod yn rhaid i ddyn gael maddeuant cyn ei achub, a'i ail eni cyn ei fedyddio, beth! cyn ufyddhau i'r efengyl? Ië, medd y "Babtist bach!" a bod dyn yn cael ei gyflawnhau yn unig trwy ffydd!! Ond pa'm yr wyf yn sôn am y rhai'n yn fwy nag am ferched ereill yr hen Fam, ni fu erioed ar y ddaear ddim mwy na dwy Eglwys, un i Dduw ac un i'r diafol, a'r hen Eglwys Rufainig ydyw mam yr holl sectariaid. Ond gwybyddwch mae'r Saint yw Eglwys y Duw byw, a'r unig noddfa tan yr holl nefoedd; ac er gwaethaf y byd a'i holl weision sectaraidd, Mormoniaeth a lwydda nes y bydd yr holl fyd o dan ei Llywyddiaeth, ac os amgen, diorseddir y Goruchaf ei hun; er lladd y Prophwyd Joseph, er erlid y Saint a'u lladd, fe saif fel colofnau tragywyddol, ac hawddach chwythu i ddiffodd yr haul rhag llewyrchu, nag yw diffodd neu roddi Mormoniaeth i lawr. Beth bynag yw eich meddwl, felly y bydd, fe saif pan y bydd yr elfenau gan wir wres yn toddi, a phan blygir y nefoedd fel llyfr. Jehofa ydyw Mormoniaeth y bobl yma, eu Hoffeiriadaeth, a'u gallu, a phobpeth a lyn wrtho a ddaw i fyny yn y dydd apwyntiedig, ac a saif gerbron y Brenin tragywyddol, ac a dderbyn goron y bywyd.

Hefyd, dywedodd yr Iesu fod yr arwyddion i ganlyn y crediniwyr,—"Yn fy enw i y bwriant allan gythreuliaid, ac ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw a hwy a fyddant iach." &c. Ond dywed y diafol trwy ei weision nad yw yr arwyddion hyn i ganlyn y crediuwyr, na raid wrthynt ychwaith. Dywed Duw fod Apostolion a Phrophwydi, &c.; ond dywed y diafol trwy ei weision nad oes eisieu nac apostolion na phrophwydi yn yr Eglwys yn yr amser presennol, &c. Mewn difrif, fy nghyfaill, pa faint gwell yw yr athrawiaeth yma nâ'r hen athrawiaeth gythreulig hono, sef "gan farw ni fyddwch feirw ddim?" Nid yw o ran ei sylwedd ond yr un.

Mae yr Eglwys wedi bod yn hir yn yr anialwch, ynghyd a'r Offeiriadaeth a'r agoriadau. Pa beth a ddaw o ddynion heb yr Offeiriadaeth, a waredir hwynt? Na, yn sicr, ni waredir mo honynt, canys trwy yr Offeiriadaeth y gwaredwyd dynion yn mhob oes a chenedlaeth, a chyfundraeth heb yr Offeiriadaeth sydd megys corsen ysig, a'r hwn a bwysa arni a syrth ac ni chyfyd. Oni wyddoch chwi, fy nghyfaill, fod yr Offeiriadaeth, y "plentyn gwrryw," wedi ei gymmeryd ymaith? ac ni anfonwyd ef i'r ddaear drachefn hyd nes y derbyniodd y Prophwyd Joseph Smith. trwy i'r Dduw anfon Angel i roddi iddo yr Offeiriadaeth Aaronaidd yn y lle cyntaf, ac wedi hyny anfonodd Pedr, Iago, ac Ioan, i roddi iddo Offeiriadaeth Melchisedec, ac nid oes gan un dyn hawl i weinyddu un o ordinhadau yr efengyl heb yr Offeiriadaeth, a gwae y dyn hwnw ag a gyffyrddo ag un o ordinhadau Duw os na fydd ganddo yr Offeiriadaeth. Pa beth yw yr Offeiriadaeth? Wel, llywodraeth a rheol Duw ar y ddaear i bregethu ac i weinyddu ordinhadau yr efengyl. Yn awr, meddwch chwithau, yr ydych yn condemnio pawb ond chwi eich hunain. Ydym, ac y mae gair Duw yn condemnio pob enaid nad ydynt yn ufyddhau i efengyl y Saint wedi iddynt ei chlywed; oblegid gan y Saint y mae y wir Efengyl a ddichon achub, ac nid gan un sect arall dan y nefoedd. Ac am hyny, os mynwch chwi ac eiei l fod ar gael, rhaid i chwi ufyddhau i Efengyl y Saint a hyny ar frys, oblegid y mae prysurdeb mawr yn y nefoedd erbyn Priodas yr Oen; ac y mae yr Iesu megys ar ei daith, ac fe weddai i ninnau fod yn brysur iawn i ymbarotoi erbyn y delo, canys nid oes genym amser i'w golli. Wel, meddwch chwithau, pa beth a ddaw o'r rhai hyny

a fuont feirw heb glywed yr efengyl? Nid ydym ni na gafr Duw yn condemnio cymmaint ag un o'r rhai na chlywsant yr efengyl. Ar yr egwyddor hon y mae y ddamnedigaeth erioed, sef "ddyfod goleuni i'r byd a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni."

Mae dynion da wedi bod yn mhlith pob sect, y rhai a rodiasant yn ol y goleuni oedd ganddynt,—ni ofyn Duw ddim ychwaneg oddiar eu llaw, ac yn yr ystyr yma y maent mor berffaith â'r angylion, ni allant hwythau wneuthur dim chwaneg. Ond am y meirw y mae Duw wedi darparu ar eu cyfer, y mae yr efengyl yn cael ei phregethu iddynt yn awr gan y Saint sydd wedi marw, a phan yr adeiladir y Deml gall y byw gael eu bedyddio drostynt, a gwybyddwch yn sicr na adgyfodir mo honynt heb i ereill gael eu bedyddio drostynt gan un o Saint y Dyddiau Diweddaf; a thyna a wnewch yw nfyddhau heb golli dim amser; os yn amgen, fel mai byw fy enaid eich colledigaeth nid yw yn hepian. Am hyny, dywedaf wrthwch, "Deffro di yr hwn wyt yn cysgu, a chyfod oddiwrth y meirw;" yr ydych chwi wedi bod yn y tywyllwch sectaraidd ddigon o hyd, ond yn awr y mae y gwir oleuni yn llewyrchu fel y gellwch weled, ac na fydd genych un esgus dros eich pechodau; gan hyny, yn enw yr Arglwydd Iesu, deffrowch, a gwrandewch arnaf yn hyn o beth, ac na fyddweh yn anghredadyn yn hwy. Gwybyddwch hyn, fel mai byw yr Arglwydd, Brigham Young ydyw unig Gynnrychiolwr Duw ar y ddaear, ac na fu gan Dduw erioed Deyrnas ar y ddaear heb Gynnrychiolwr.

Am hyny, peidiwch a brenddwydio un fynud yn hwy am y nefoedd, oblegid nid oes gan Dduw un mold arall i'ch hachub. A gaf fi grefu arnoch er mwyn eich eneidiau, i fod fel dynion, sef peidio a thaflu y llythyr hwn o'r neilldu heb ei chwilio a'i bwyso yn fanwl, canys nid dim arall a'm cymhellodd neu a'm tueddodd i'w ysgrifenu, ond Ysbryd Duw yr hwn sydd ynof; ac os bydd anmheuaeth yn aros etc. gofynwch i Dduw mewn gweddi; canys os ydych yn onest fe ddwg Duw dystiolaeth o wirionedd y llythyr yma i chwi, ac i bob dyn gonest, mewn pethynas i'r doniau a grybwyllais, sef bwrw allan gythreuliaid, gwahaniaeth ysbrydoedd, iachâu y claf, &c. Nid oedd yn llawer o beth genych i ddweyd nad oes eu heisieu yn awr. &c., beth a wnewch pan ddaw yr ysbrydion sydd yn yr America

atoch, pa rai sydd yn sicr o ddyfod, oblegid y maent yn canlyn i bob man lle y mae yr Efengyl wedi bod, ac y maent yn twyllo dynion yn lluoedd, sef y rhai a wrthodasant Efengyl y Saint,—y maent o anfoniad Duw fel barn ar y bobl am na dderbyniasant yr Efengyl neu y gwirionedd. Mae yn ddiammheu genyf fi mai hyny yw yr "amryfusedd cadarn" a soniai Paul am dano,

Mae yn yr America filoedd o ddynion neu blant chwech neu saith mlwydd oed, pa rai a alwant yn *Fediums* neu gyfryngau, trwy ba rai mae'r ysbrydion yn dadguddio llawer o bethau trwy weithredu ar ddwylaw y plant, neu rai mewn oedran, i ysgrifenu atebiad i bob cwestiwnau. Er enghraifft, pe bae un eisieu clywed oddiwrth ei dad neu ei fam, caiff ateb yn union trwy y cyfryngau yma fel pe bae ei dad a'i fam yn y fan a'r lle, ac maent yn gallu dynwared llaw ysgrifen y meirw yn berffaith, ac ar rai prydiau yn ymddangos megys lwmp o dân o flaen torf ac a bregetha am awr neu ychwaneg fel dyn! Fe roddir ateb am bob peth a ofynir iddynt, a hyny yn gysson iawn!! Beth a ddaw o'r sectariaid yngwyneb y rhai'n? Diau y twyllant bob rhai o honynt oddi eithr iddynt gael eu llenwi o Ysbryd Duw, a chaiff cannoedd o honynt eu llanw o ysbrydion aflan, a phwy a wna eu bwrw allan? Ni fydd a wnelo y Saint â'r cyfryw,—y maent yn eiddo y diafol yn gyfreithlon.

Wel, dyma yw fy nhystiolaeth mai gwaith Duw sydd genym mewn llaw,—mae hon yw goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd,—mae genym ni mae'r Efengyl a ddichon achub, ac nid gan neb arall,—mai Joseph Smith yw y Prophwyd mwyaf a fu erioed ar y ddaear ond Mab Duw ei hun, ac yr â y nef a'r ddaear heibio cyn y palla y dystiolaeth yma.

Mae Ysbryd Duw yn dywedyd, digon bellach, os na chredwch i hyn, ni chredwch chwaith pe cyfodai un oddiwrth y meirw.

Yr wyf yn un sydd yn didwyll garu gweled pawb yn Nheyrnas Iesu.

Eich hen gyfaill,

JOHN PARRY.

## EFFEITHIAU TYBACO.

[Parhad o dud. 367.]

Fe adroddwyd gan Dr. Rach, yr adfydid Syr John Pringle gan grynfeydd yn ei ddwylaw, ac yr anmharwyd ei gof gan yr arferiad o gymmeryd trewlwch i'w ffroenau ; ond trwy adael yr arferiad ar gais Dr. Franklin, adferwyd galluoedd ei gof, a defnyddioldeb ei ddwylaw yr unrhyw amser.

Diffyg penderfyniad, cyfnewidiad meddwl, ac anfoddlonrwydd i ddilyn galwadau cyffredin bywyd, oll yn arwyddo anhrefniad gewynol, ydynt argoelion a ganfyddir yn mynych ganlyn arfer tybaco.

*Luegwch.*—Clefyd y Ddueg, tarthiad, neu bruddglwyf, sydd afiechyd tra neillduol. Ceir yn ein gwlad ni, fe ddichon, o fygwyr a chnowyr sefydlog tybaco, fwy nifer o rai pruddglwyfus nag yn un wlad arall trwy y byd. Achoswyd i lawer clefyd o'r natur hyn i raddau mawr gan tybaco. Profir hyn trwy beidiad y pruddglwyf pan beidir arfer tybaco. Afiechyd neillduol yw, a pherthyn yn fwyaf priodol i'r dosparth o afiechyd gewynol.

Addefaf fod achosion pruddglwyfau yn niferoedd. Unrhyw beth a dueddo yn gryf i atal ac anhwyluso yr iechyd cyffredin a all ddwyn yr afiechyd hwn oddiamgylch. Gormod meithrindod, gwirod, tê a choffi, cam-arfer physygwriaeth, diogi, arferion penrhydd, afradlonrwydd o bob rhyw fath, cadw oriau hwyrion afreolaidd, darllen newyddion lyfrynau galar, gormod llafur corff neu feddwl, a llawer o amrywiol achosion a allant gynnorthwyo mewn dwyn pruddglwyf. Yr oll gan hyny a ddywedaf am dybaco fel yr achos o'r clwyf ymayw hyn. Fe ddichon tybaco, gan ei fod yn un o'r suredd gwenwynig gallu ocaf a marwol a wyddir am dano, os ei arferir yn feunyddiol, ac i'r fath faint ag i ddrysu y cyfansoddiad gewynol, a thrwy hyny yr iechyd cyffredin, a all, a gwna yn fynych, ddyfod yn un achos o'r afiechyd mwyaf cythryblus ac anwelladwy hwnw. Ond nis gall tybaco, nac unrhyw nwydd arall, fod yn wahanredol i'r afiechyd hwn.

*Llewygfeydd*, neu y famwst, sydd o nwyd gewynol arbenigol, a gellir ei grybwyll hefyd yn un o effeithiau tybaco. Er fod llewygfeydd yn ei ystyr wreiddiol yn nwyd a berthyn i'r rhyw fenywaidd wrthi ei hunan, nid anfynych ei canfyddir yn ei

holl agweddau dadguddiol yn y rhyw arall. Fel y mae yn hysbys, mynych yr achosa y pang o chwerthin a llefain bob yn ail; ac ar yr un amser ymddengys y goddefydd gresynus fod a pnelen drom ar ei arfed, yr hon a gyfyd at y cylla, bron, a gwar, yn dwyn ar yr un amser deimlad o lindagiad. Y mae weithiau anymwybodolrwydd a chryniadau. Achosir hyn ynte, ag yntau yn ddolur gewynol, yn benodol weithiau gan arferiad o'r tybaco. Dealler, modd bynag, fy mod yn caniatâu fod llawer o achosion y famwst lle nad oes gan y cyffyr ddim i wneyd yn y peth, am nad arferwyd erioed. Yr oll a hawlir yw, fod tybaco yn un o'r llawer achosion i ddwyn yr afiechyd neillduol hwn.

Mewn rhai parthau o'r byd lle yr arfer menywod lawer o dybaco, canfyddir y famwst neu lewygfeydd, yr hwn sydd yn aflechyd gewynol, yn dra chyffredin. Dylid sylwi, modd bynag, fel ffaith gyffredin, fod y personau hyny a arferant dybaco, yn arfer hefyd ei gydrywiogaethol enyniadau, tê a choffi, un neu y ddau, fel mae y nwyddau, a'r naill neu y llall o honynt yn ddigon i achosi yr afiechyd, yn dwyn bob un ei gyfran o'r effaith a achoswyd.

---

# UDGORN SEION,

RHAN

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, RHAGFYR 16, 1854.

Annerchiad y Brif Lywyddiaeth at y Cenadon,—A arddengys y dyddordeb mawr a deimlant yn eu cenadiaethau hwynt—eu mawr awydd am lwyddiant teyrnas yr Iesu drwy'r byd, ynghyd a phrawfiadau mai drwy ddylanwad grymus Ysbryd y gwirionedd y purir ac y santeiddir eu hufyddion i gadwedigaeth; mor gysurol yw i'r cenadon hyny a beryglant eu bywydau i gludo gair y bywyd i genedloedd tywyll y ddaear, i ddeall fod y Llywyddion hyny a lysnafeiddir a phob cyhuddiadau, ac a geisir wneyd yn ddrwg-weithredwyr aflanaf o

bawb, i wybod meddir, mai dynion santaidd Duw ydynt drwy gyfiwyniad bendithion y nef ar eu penau mewn atebiad i'w gweddiau hwynt. Dyry dychlamiad bywiocaol yr Ysbryd a ddilyna yr ohebiaeth hon, ynghyd ag ysgrifau ereill ein parchus Lywyddiaeth gyfnerthiad i eneidiau y rhai a'u hiawn ddeallant i ymwroli yn y dewr-waith o sefydlu cyfiawnder ar y ddaear.

---

Yr Ymfudiad.—Ar y 24ain o'r mis blaenorol hwyliodd y llong "Clara Wheeler" o Liverpool tua New Orleans â 421 o Saint, tua chant o honynt yn Gymru, ar ei bwrdd; bwriadai y rhai hyn ymsefydlu yn ngwahanol orsafon y Saint yn y Taleithiau, nes ennill modd i fyned i Seion.

Deallwn fod ymbarotoadau i ymfudo tua Seion yn y gwanwyn yn cael eu gwneuthur mewn amryw Gynnadleddau Cymreig, ac er na hysbysir ni yn awr pa bryd y bydd y cyfnod hwnw, er hyny nid amser i segura yw, a diau y dalia aml un cyn y byddo wedi golchi ei ddwylaw oddiwrth ei gyfrifoldeb i'w gyddynion.

Ail gofiawn y Saint o'r annogaethau a roddasom iddynt er ys amser bellach i ymbarotoi trwy ddyfynu y cynghorion doeth canlynol o eiddo y Llywydd F. D. Richards drwy y *Star*, dymunem eu hargraffu ar feddyliau pob Saint, ac hyderwn eu gweled mewn gweithrediad buan ac effeithiol hyd nes y bo yr holl Gynnadleddau yn rhydd o bob dyledion, ac yn barod i gychwyn adref yn rheolaidd pe delai galwad ar un dydd o rybudd. Pe delai galwad dirybudd yn awr, hawdd canfod y gofid a fyddai yngwyneb yr anmharodrwydd presennol. ac nid ychydig na bychan fyddai y golled. Yn y Cynghor cyfeiriedig yn Llundain eglurhawyd drwy'r Ysbryd y pwysigrwydd o gydymffurfio â'r mesurau hyny, a chrefwn ar y Saint Cymreig wneuthur yr oll a allant i gwblhau eu holl ddyledion i'r Swyddfaâu o hyn i ddiwedd y flwyddyn os bydd modd. Wrth eu 'dyledion' awgrymwn yr hyn a werthwyd ac nid yr hyn a feddant ar law, oddieithr eu bod mor garedig a blaen-dalu am y rhai hyny, ond am y lleill a ddosparthwyd dylid trosglwyddo eu gwerth lle y perthynant yn brydlon. O barthed i'r mân draethodau a gyhoeddir, ni ddylai y rhai hyny chwyddo dyled unrhyw Gangen na pherson, oblegid dylid eu gwerthu i'r byd a dychwelyd yr arian am danynt. Ond rhoddwn y dyfyniad

rhag-grybwylledig o fiaen ein darllenwyr, yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Dechreuodd ymfudiad y Saint i'r Unol Daleithiau, ac hyderwn y parha heb fawr orphwysiad, hyd oni chesglir y Saint o'r gwledydd hyn i dir Seion,

"Rhybuddiwn y Saint yn eu mhawr awydd am ymfudo, na esgeulusont y dyledswyddau rhagrwymedig arnynt yma cyn ymadael. Y mae yn orchymynedig bendant ar Fugeiliaid a Llywyddion y Cynnadleddau, i gyflawni yr addysgiadau a gawsant yn y Cynghor Cyffredinol a gynnaliwyd yn Llundain, Mehefin diweddaf, mewn perthynas i gael gan y Cynnadleddau i dalu eu dyledion, a rhyddhau eu hunain o bob beichiau. Ni ddechreua yr ymfudiad i'r parthau gogleddol o'r Taleithiau am amryw wythnosau. Caniatâ y cyfamser hyn gyfleusdra rhagorol i'r Cynnadleddau nad ydynt wedi talu am eu llyfrau a'u *Stars*, eu hystafelloedd, &c., i wneyd hyny, fel pan ddechreuo ymfudiad etto y gall y rhai sydd yn barod ymadael â chydwybod dda ganddynt nad ydynt yn gadael baich ar ereill a ddylasent gario eu hunain

Hyderwn weled miloedd o Saint yn ymfudo yn ystod y flwyddyn ddyfodol, eithr ni ddysgwyliwn un lleihâd yn y gwaith yma o herwydd hyny, a rhybuddiwn yr Henuriaid Llywyddol na adawont i'r ymfudiad i fod yn achlysur i fyrhau unrhyw fesur gweithrediadol a gynlluniwyd, ond yn hytrach cofier fod yn rhaid i'r gwaith yma barhau i gynnyddu hyd nes cyflawni amcan ei anfoniad. Hyderwn y deffroa yr ymgasgliad y gweddill o'r Saint i weithrediad bywiocaeh o ffydd a gweithredoedd da, ac i fod yn dystiolaeth ychwanegol i'r byd, yr hyn a duedda i ail gynhyrfu y gwaith o'r newydd mewn amryw fanau. Gan hyny, dywedwn wrth y brodyr yn yr Offeiriadaeth, rhoddwch rydd weithrediad i gyfarwyddiadau yr Ysbryd Glân yn y materion hyn, ac ymchanged eich meddyliau yn gyfartal i gynnyddiant maintioli a gallu y deyrnas hon, a gweithiwch yn ol y gyfraith gynnyddol a'i llywodraetha."

---

Y Degwm.—Dichon ein bod wedi esgeuluso gormod i alw sylw at y testun pwysig hwn, drwy gymmeryd yn ganiatâol fod pawb yn deall eu dyledswyddau, ond dymunwn sylw ac ystyriaeth y Saint Cymreig at y ddysgeidiaeth ganlynol o eiddo

ein Llywydd F. D. Richards,—"Hyn yw cyfraith fanwl y Degwm, sef i roddi yn nghyntaf y ddegfed ran o'ch heiddo, ac o hyny allan y ddegfed o'ch cynnydd. Mae y gyfraith hon mewn cyflawn weithrediad yn Nyffrynoedd y Mynyddoedd, ac yn mhellach daeth amryw Saint yn mlaen yn ganmoladwy mewn ufydd-dod i'r addysgiadau a roddwyd yn Nghymmanfa Gyffredinol Ebrill diweddaf, ac a gyssegrasant eu hunain, eu gwragedd, eu plant, eu heiddo, mewn gair eu holl, i adeiladaeth teyrnas Dduw. Teilynga y ffyddlondeb canmoladwy hyn yn achos Seion gael ei efelychu gan y Saint Prydeinig, a diau genym y teimla y mwyrif o honynt ysbryd gwresog i gydymffurfio ag ymddygiad eu brodyr a'u chwiorydd yn y gorllewin. Am hyny, defnyddiwn yr adeg bresennol i adgoffa yr holl Saint a ddysgwyliant wrthym am gynghor, mai dyledswydd pawb sydd a modd yw i ddegymu eu hunain. Wrth y Saint ymfudol a feddant fwy na digon o fodd i'w cludo i'w llefydd bwriadol, pa un ai i St. Louis, Philadelphia, Caerefrog Newydd, Cincinnatti, neu unrhyw le arall yn yr Unol Daleithiau, neu i'r mynyddau, dywedwn mai eu dyledswydd arbenig yw degymu eu hunain o'u meddiannau cyn y cychwynont o'r tiroedd hyn."

---

*Cymmanfa Sir Fflint*,—A gynnaliwyd yn Neuadd y Saint Brynbo, Tach. 12fed, pryd y cynnrychiolwyd 5 Cangen, yn cynnwys 19 Henuriad, 5 Offeiriad, 5 Athraw, 3 Diacon, 2 wedi eu bedyddio, a'r oll yn 112, mewn teimladau daionus ac hyderus mewn argoelion cynnyddol. Cafwyd gwrandawiad astud yn ystod y dydd i bregethau dyddorol gan y Bugail Parry, y Llywydd Davies, ac amryw Henuriaid ereill, y rhai a fwynhaent nerth Ysbryd yr efengyl yn helaeth.

Mwynhaodd pawb eu hunain yn rhyfeddol o dda drwy y Gymmanfa, undeb hollol yn mhob peth, ac awydd am lwyddiant yr efengyl.

L. Davies, Llywydd,
Jos. Ellis, Ysgrifenydd.

---

*Sir Ddinbych*.—Cynnaliwyd y Gymmanfa hon yn Newmarket, Tach. 19eg, pryd y cynnrychiolwyd 5 Cangen, 17 Henuriad, 6 Offeiriad, 5 Athraw, 2 Ddiacon, 5 wedi eu derbyn trwy lythyr a 6 wedi symud, 2 wedi eu bedyddio, a'r cyfan yn 119.

Dangoswyd trwy bleidlais unfrydol y swyddogion a'r Saint, gymmeradwyaeth i awdurdodau yr Eglwys yn Seion, yn Lloegr, ac yn Nghymru. Cafwyd addysgiadau buddiol a dyddorol gan y Bugail John Parry. Tystiolaethodd amryw o'r Henuriaid gwyddfodol i'r gwrandawwyr lliosog a difrifol; yn eofn a chynnwysfawr yr eglurhasant egwyddorion yr efengyl hon am y deyrnas.

J. Parry, Llywydd,
W. Jones, Ysgrifenydd.

---

*Dyffryn Conwy*.—Cynnaliwyd y Gymmanfa hon yn Llanrwst, ar y 26ain o Tach., pryd y cynrychiolwyd 6 Cangen. 20 Henuriad, 7 Offeiriad, 5 Athraw, 4 Diacon, 4 wedi eu bedyddio, a'r cyfan yn 98.

Apwyntiwyd William Lewis i lywyddu Cangen Caernarvon, a John Ellis i lywyddu Cangen Llanddoged. Penderfynwyd dal i fyny mewn ffydd, ymddiried, a gweddiau, holl awdurdodau yr Eglwys.

Penderfynwyd i wneuthur ymdrechiadau adnewyddol er rhyddhau dyledion y llyfrau.

Cafwyd cyfarfodydd melysaidd, a chynghorion, addysgiadau, a phregethau gan y Llywydd, a'r Bugail J. Parry, ac ereill, a meddyliem wrth yr arwyddion arddangosiadol fod pawb wrth eu bodd.

R. Roberts, Llywydd,
W. Davies, Ysgrifenydd.

---

## HANES Y SAINT YN RHYFEL SEBASTOPOL.

*(Allan o'r "Millenial Star.")*

*Malta Florianna*, 55, *Strada Mercato*,
*Hyd.* 15, 1854.

Anwyl Frawd Richards,—Wedi derbyn sypyn o lythyrau oddiwrth y ddwy Gangen o'r Eglwys hon ag ydynt yn y dwyrain, sef y "Gangen Nofiadol," a "Changen y Byddinoedd Tiriogaethol," a chan fod eu cynnwysiad yn lled ddyddorol, mi a ddanfonaf i chwi y prif nodiadau, oddiwrth ba rai y cantyddwch tra y mae rhyfel a'i dychryniadau dilynol yn rhuo, fod yr

efengyl o hyd yn llwyddo trwy offerynoliaeth y brodyr hyn. Am drugareddau Duw yn cadw y brodyr hyn, ac yn chwanegu at eu rhifedi, teimlwn i dalu iddo Ef ein moliant o'n calonau, ac i alw ar bawb Saint i wneyd yr un modd, ac i gyd-weddio am eu diogelwch a'u llwyddiant parhaus.

Trwy lythyr oddiwrth yr Henuriad H. Russel, dyddiedig Medi 22. pedair milltir ar ddeg o Sebastopol, deallaf yr ymladdwyd brwydr mewn lle a elwir yr Alma (2000 wedi eu lladd) yn mha un yr ymladdodd rhai o'n brodyr, eithr ni chafodd un o honynt hyd y nod ei glwyfo. Bedyddiodd yr Henuriad West o gatrawd y 93rd (Highlanders) un. Trwy lythyron ereill yr wyf yn deall am fedydd dau arall, a dysgwylid amryw i'r Eglwys mor gynted ag yr elent i'w gauafol arosfan.

Oddiwrth yr Offeiriad S. Ballard *(Rifle Brigade)*, deallaf iddo gael ei wahodd gan ryw Fethodistiaid i lywyddu dros eu cyfarfodydd. Derbyniodd y gwahoddiad hyn, eithr wedi argyhoeddi un o honynt o wirionedd y gwaith, dadgyssylltodd y lleill, ac ni chyfarfyddant hyd y nod gyda eu gilydd mwyach. Parhâ yr un hwnw i chwilio i'r gwaith gyda mwy-fwy o foddlonrwydd, a dysgwyliwn y bedyddir ef ac un arall ar fyr. Crëa y brawd Ballard gryn gynhwrf yn y *Rifle brigade*. Cyfarfydda ef ac un brawd Paul, o'r *Royal Sappers*, bron bob nos i weddio Duw i'w harwain at y gonest galon. Os llwydda y gwaith yn y rhan hono o'r fyddin, gall ymestyn oddiyno i un arall, ac yn y blaen. Yn bresennol ni fedyddiwyd ond mewn un rhan.

Y mae gan yr Henuriad A. Downs, o'r Gangen Nofiadol, ddau ddyn yn barod i'w bedyddio y cyfleu cyntaf a gaffont. Danfonodd *order* i mi am lyfrau, &c. Yr oedd holl frodyr y Gangen hono, a Changen y milwyr mewn sefyllfa dda. Bu marwolaeth ofnadwy drwy y Cholera yn y fyddin a'r llynges. Yr oedd cant a hanner o farwolaethau wedi digwydd ar fwrdd y *Brittania*.

Gallaf ddweyd dros y Gangen yn Malta ein bod mewn undeb ac yn llawenhau yn y gwaith. Er fod y Cholera wedi rhuo ar bob llaw, a chymmeryd llawer ymaith, etto ni chaniatawyd iddo ond ymweliad byr â ni, gan y profodd yr ordinhad o eneinnio ynghyd â bendith Duw, yn effeithiol, mewn amrantiad, am yr hyn y teimlwn i foli Duw bob tro y meddyliwn am hyny.

Nis gallaf ysgrifenu am un gweithrediadau mawrion ar y

genadiaeth hon, canys treuliwyd rhan fawr o'm hamser mewn *dyoddef*, nid *gwneuthur*. Yr wyf wedi bod yn afiach yn ol ac yn mlaen er ys tua mis yn awr, er gwaethaf pob peth. Cyfrifaf ei ddechreuad i niwed a gefais yn nghylchoedd y galon, yr hwn a achoswyd wrth blygu i godi rhyw bwysau, canys oddiar hyny dyoddefais guro ofnadwy neu ddychlamiad y galon, dim ond sŵn yr hwn a'm rhwystra i gysgu yn y nos. Eithr nid yw cynddrwg yn awr, etto cymmeraf dwymyn bob dau neu dri diwrnod, yr hon a ddiwedda mewn chwys trwm yn y nos.

Gan nad oes genyf ychwaneg o newyddion i anfon, a braidd nerth i roddi yr ychydig linellau hyn at eu gilydd, terfynaf gyda'm cariad i chwi eich hun a'ch cynnorthwywyr, a thaer erfyniaf am ran yn eich gweddiau yn gysson, nid yn unig dros y Gangen hon, eithr dros y rhai sydd yn ymladd yn y rhyfel.

Yr eiddoch yn Nghyfammod yr Heddwch,

J. F. Bell.

[Mewn llythyr diweddarach hysbysa yr Henuriad Bell ni, ei fod trwy fendith Duw wedi llwyr iachâu.—Gol. y *Star*.]

---

## CARIAD BRAWDOL.

Fy Llywydd, gyda'ch cenad,
Mi roddaf i chwi ganiad,
A dyna'r testun ar ei hyd,
A fydd i gyd yn gariad.

Egwyddor dda ragorol
Yn wir yw cariad brawdol,
Nid oes i'r ddaear hon,
Yr un mor llon a siriol.

Gorch'mynodd Iesu tirion,
I'w Seintiau o un galon,
"O cerwch chwi fel cerais i,"
Ac yna i mi'n ddyscyblion.

Er prawf ein bod yn caru,
Rhaid i ni gyd-weithredu,
Yn ol addysg gweision Duw,
I ddynol ryw ei barchu.

Y lle mae Cariad Brawdol,
Sydd hyfryd a dymunol,
Am hyny frodyr ceisiwn o,
Bydd yn y fro dragywyddol.

Nid ydyw Cariad Brawdol,
Yn ddrwg a hunan lesiol;
Ond cara arall fel ei hun,
Ac fe wna hyn wrth reol.

Anrhydedd pob cymdeithas,
Cadernid mawr pob teyrnas,
Yw Cariad Brawd—anwyl yw,
I ddynolryw mae'n addas.

Dymunaf yn bresennol,
O! mynwn Gariad Brawdol;
A'r sawl a gaffo'r cariad hwn,
Fe fydd mi wn yn canmol

Am hyny frodyr hawddgar,
Tra byddom ar y ddaear,
O ceisiwn gariad gan ein Duw,
Ac felly 'n wiw cawn ffafr.

Yn awr mi wnaf ddiweddu,
Gan annog pawb i garu;
Oblegid dyna'r ffordd i'r nef,
A chydag Ef deyrnasu.

*Brynbo.* JONATHAN ELLIS.

## AMRYWIAETHAU, &c.

*Amseroedd Cymmanfaoedd y Deheu.*—Craffed ein darllenwyr ein bod ar ddymuniad taer amryw yn gohirio Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg hyd Rhagfyr 31, a'r Cymmanfaoedd dilynol wythnos yn mhellach.

☞ Hyderwn y trefna y Bugail Parry amseroedd Cymmanfaoedd y Gogledd i ddilyn, yn hytrach na bod ar yr un amser â'r rhai deheuol hyd y bo modd.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O TACH. 29 HYD RHAG. 8.—Isaac Jones, £1; E. Middleton, £3 10s.

CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Annerchiad y Brif Lywyddiaeth yn Seion at y Cenadon o Utah | 597 |
| Llythyr o Diriogaeth Utah | 600 |
| Effeithiau Tybaco | 604 |
| Golygyddiaeth—Annerchiad y Brif Lywyddiaeth yn Seion at y Cenadon o Utah—Ymfudiad—Y Degwm—Cymmanfaoedd | 605 |
| Hanes y Saint yn Rhyfel Sebastopol | 609 |
| Cariad Brawdol | 611 |
| Amrywiaethau, &c. | 612 |


ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

# UDGORN SEION,

NEU

## Seren y Saint.

RHIF. 39.] RHAGFYR 30, 1854. [CYF. VII.


### "MORMONIAETH" YN YR UNOL DALEITHIAU.

*(Allan o'r "Millennial Star.")*

MAE yr amser yn dynesu pan y bydd yn rhaid i deyrnas Dduw ymsefydlu yn fwy amlwg ynghanol y ddaear, ac i ddynion ddechreu gweled, profi, a theimlo ei bod hi yn wir yn deyrnas i bob bwriad a dyben, fod ei llywodraethwyr yn arweinedig gan ddadguddiadau y nef, a bod ganddi restr o gyfreithiau sefydledig ar egwyddorion gwirionedd tragywyddol. Rhaid i'r gallu sydd er gweinyddu y cyfreithiau hyn i gynyddu, er gwaethaf llygredigaethau dynion a gwrthwynebiadau galluoedd y tywyllwch.

Byddai yn dda i'n gelynion pe y dysgent, trwy brofiad, y ddoethineb o'n gadael yn llonydd. Danghosa ein hanes blaenorol yn sicr nad yw erlidigaeth ond wedi cynnyddu ein grym a'n dylanwad, ac yn eofn haerwn i'r byd mai felly y parha yn yr amser dyfodol.

Erfyniwn erlidigaeth, gan wybod y gwrthwyneba galluoedd drygionus waith yr adenedigaeth. Dywed Crist mai angenrhaid yw dyfod rhwystrau, eithr gwae y rhai hyny trwy ba rai y deuant. Fel pobl, nid oes genym ddim i ofni rhag erlidigaeth, canys gwyddom yn sicr yr adeilada ni, tra y terfyna yn nghwymp ein gelynion.

O sefydliadau bychain yn Missouri cynnyddasom yn Ddinas fawr a threfnus, a meddem y mantoliad boliticaidd swydd gyfan yn Illinois. Wedi ein gyriad allan oddiyno i'r anialwch, ciliasom i gadarnfanau y Mynyddoedd Creiglyd, lle yn unig y

gallem fwynhau y rhyddid a wrthodwyd i ni gan Offeiriaid ariangar, llywodraethwyr llygredig, a phobl halogedig. Yno, trwy fendithion yr Hollalluog, planasom eginin Amherodraeth ddyfodol. Y mae yno Diriogaeth o gorffoliad da, yn cyfodi i fod yn bwysig yn nghlorian dylanwad politicaidd. Y mae y trigolion yn egniol, nerthol, ac yn gynnefin â chaledi a pherygl. Y maent hyd yn hyn wedi amddiffyn eu hunain yn erbyn eu gelynion, ac wedi bod yn ddigon galluog i gynnal gweinidogaeth eu llywodraeth eu hunain, gan na dderbyniasant ond ychydig gynnorthwy gan yr Unol Daleithiau.

Os felly yr arddangosasant nodweddau dynoliaeth yn eu babandod boreuaf, beth fydd canlyniad blynyddoedd mwy profiadol? Pa beth fydd gorchestion cawraidd y gallu hwnw sydd yn cynnyddu yn gyflymach po fwyaf ei gwrthwynebir? Gadawn i'r dyfodol amlygu y gofyniadau hyn, ac i'n gelynion eu hateb os gallant. Gwyddom mai eiddo yr Arglwydd yw y deyrnas, y cynnydda hi tra y darfydda teyrnasoedd ereill, ac y terfyna pob ymdrech o eiddo eu gelynion i'w rhwystro yn eu cwymp eu hunain. I'r ffos a gloddiant i'r Saint y syrthiant eu hunain, a dyrchafa egwyddorion gwirionedd yn fuddugoliaethus dros bob gwrthwynebiad.

Dysgwyliasom gyda dyddordeb mawr er's blynyddau am y diweddglo agoshâol yn yr Unol Daleithiau o barthed i'n pobl a'n hathrawiaethau ni, ac y mae wedi bod yn destun dyddorol ar aelwydydd cannoedd o deuluoedd "Mormonaidd" er's amser maith. Y mae y cymmylau bygythiawl a ymddangosant i olygon pwllon cynhenwyr politicaidd a golygyddion llygredig, fel pe yn ymgasglu yn unig uwchben Utah yn orlawn o dynghed ddyfodol yr Undeb Americanaidd.

Y mae eryr rhyddid eisoes yn ewhwfan uwch cartrefleoedd y gorthrymedigion yn Nyffrynoedd y Mynyddoedd. Y mae ysbryd rhyddid yn ymadael oddiwrth y bobloedd Americanaidd. Y mae godrau y genedl wedi ei rhuddo gan waed gwirion. Un ymgais etto gan y llywodraeth at efelychu gweithredoedd ysgeler Missouri ac Illinois, a bydd eu gogoniant wedi ymadael. Y Gogledd a'r Deheu a gyfodant yn erbyn eu gilydd, talaeth yn erbyn talaeth, cymmydog yn erbyn cymmydog, eu heddwch a gymmerir ymaith, a rhyfel, difrodaeth, a galanastra a ymledaenant drwy ei holl ororau.

Nid y presennol yw yr unig ddwys gyfwng a ddysgwyliwn ni. Gyda buandra cyfodant yn ddilynol; canys teyrnasoedd y byd hwn a ruthrant yn erbyn teyrnas Dduw a'r galluoedd bywyd. Rhaid profi eu grym gwrth gyferbyniol yn y brwydrau mawrion ag ydynt i ennill y ddæear odditan lywodraeth Satan.

Tra y gwledda ein gelynion eu gwanc gwaedlyd ar ein dystryw a hir ddysgwyliwyd, edrychwn ni yn dawel ar yr ystormydd agoshâol gan wybod eu bod yn olynol yn rhagflaenu dydd mwy gogoneddus i bawb a arosant yn ffyddlon yn achos y gwirionedd.

---

## PA FODD I GYNNORTHWYO HENURIAID AR GENADIAETHAU TRAMOR.

*(Allan o'r "Star.")*

Yn y Cynghor Cyffredinol a gynnaliwyd yn Llundain yn mis Mehefin diweddaf, cynnygiasom fabwysiadu rhyw gynllun amgen er cynnorthwyo ein brodyr yn y weinidogaeth, a allant fod yn llafurio o dan amgylchiadau cyfyng, nâ'u danfon i blith y Cynnadleddau i bregethu a chasglu modd. Teimlwn mai amser manteisiol yw yn awr er gosod y pwnc hwn gerbron y Saint mewn dull ag y caiff pawb gyfleusdra i gyfranu at yr amcan canmoladwy a phwysig hwn, yn lle ei osod gan mwyaf ar y Cynnadleddau mwyaf cyfleus a chyrhaeddadwy.

Mae y ddyledswydd o bregethu yr Efengyl trwy ymdrech bersonol, ac o gyfranu modd i gyflawni hyny, yn rhwymedig ar bawb Saint cyn gynted ag eu gwneir eu hunain yn gyfranogion o'r goleuni gogoneddus o'r nefoedd. Defnyddio ein meddiannau er lledaeniad yr Efengyl sydd fel taflu ein bara ar y dyfroedd, y rhai a ddychwelant atom yn mhen dyddiau lawer wedi cynnyddu ar eu canfed.

Ymwela Henuriaid â ni yn achlusurol o genadiaethau ar y Cyfandir, mewn anghen, wedi eu gwanychu gan noethni, eisieu, ac erlidigaeth, ac a ddylent gael amgeledd a chynorthwy; ac weithiau y mae Henuriaid ar eu ffordd i faesydd llafur ereill yn tirio yma, ac yn gofyn cynnorthwy i gwblhau eu taith. Ymddibyna ar Saint y wlad hon i gynnorthwyo y cyfryw, fel na rwystrer gwaith yr Arglwydd gan eisieu y cynnorthwyadau gofynol.

Cynnygiwn, gan hyny, fod i'r Saint drwy'r Ynysoedd Prydeinig o dan gyfarwyddyd eu Bugeiliaid a'u Llywyddion, wneyd casgliadau anymddibynol i'r dyben hyn yn unig. Bydded i'r rhai ffyddlon o bobl Dduw, ynte, gyssegru eu helaethrwydd yn ystod y gwyliau dyfodol gyda chyfraniad unfrydol a chyd-ymdrechol i'r dyben hyny. Yn nghanol gwledda a llawenhau, nac anghofiwch lafurwyr anghenog y winllan. Rhoddwch gyda llaw agored a chalon haelionus, gan gyssegru y moddion i'r Arglwydd, a gofynwch iddo Ef ei fendithio er lledaeniad ei waith ac iachawdwriaeth eneidiau. Yna bydd eich gorfoledd yn Nuw, a bydd ei wenau bendigedig Ef arnoch. Gweled y Bugeiliad a'r Llywyddion fod yn dda i anfon i ni y casgliadau a godir felly, ac ymdrechwn ninnau eu defnyddio i'r dyben bwriadol gyda'r cynnildeb a'r ddoethineb a rodda yr Arglwydd i ni. F. D. RICHARDS.

A gyfeithwyd gan Wm. Lewis.

---

[Gyda phleser y galwn sylw a chydweithrediad Llywyddion y Cynnadleddau Cymreig at y cais uchod; a chredwn fod eu profiadau ynghyd a'r Ysbryd sydd ynddynt yn dangos iddynt anghen a defnyddioldeb y mesur hwn heb i ni ymhelaethu, ond ein dysgwyliad am eu cyfraniadau haelionus i'n cyrhaedd mor gynted y bo yn gyfleus ganddynt.—GOL. YR UDGORN.]

---

# UDGORN SEION,

AC

## Seren y Saint.

---

DYDD SADWRN, RHAGFYR 30, 1854.

Y FLWYDDYN FYNEDOL.—Wele freichiau tragywyddol wedi cludo ni yn mewn mynwes Dadol drwy faith a dyrus bererindod blwyddyn arall, yr hon ynghyd â chyfrol arall o'i helyntion yn UDGORN SEION sydd bron a dirwyn i ben; cyn sengu ar drothwy y ddyfodol, gwnawn droi ar ein sodlau a chymmerwn sylldrem ar hyd yr hon ni ddychwel byth yn ol, a

pha beth a welwn? Ni a welwn ysbryd rhyfel megys ar farch coch yn carlamu drwy deyrnasoedd y byd, ac yn sarnu ei gedyrn i'r ddaear yn lluoedd; gwelwn wrth ei sodlau farch gwelw-lâs a'i farchogion yn hau clefydau, plâ a heintiau, ar y ddê a'r aswy; ac o'u hol clywir, yn yr awel orllewinol, wehyriad y march du, yr hwn, tan ei garnau, a ddifroda gnydau ein daear! Gwelwn, fe welwn yn y mynedol, ymadawiad heddwch o'r byd, y "drygionus yn lladd y drygionus," a'r ddarfodedigaeth a benododd yr Arglwydd i fod ar yr holl ddaear i'w gwneuthur hi yn wâg o drigolion, yn cael ei gyflawni gyda buandra anghydmarol. Mewn gwrth-gyferbyniad i'r olygfa alarus, gwel y llygad-craff gynnyddiad "Y garreg a dorwyd o'r mynydd," teyrnas y Duw hwnw a ddarostynga bob teyrnfradwriaeth, ac a sefydla deyrnasiad o gyfiawnder a hedd yn mhlith y pur o galon ar eu dadfeiliadau hwynt; gyda gorfoledd gwelwn y fraich Hollalluog yn cael ei dynoethi yn llwyddiant a chadernid Seion, a gwelwn arswyd ei dwyfoldeb hi eisoes yn gwelwi wynebau cedyrn byd, a phurdeb ei chyfreithiau yn arswydo rhai drygionus y ddaear, ac yn llawenhau calonau plant Duw.

Sylldrem ar gynnwysiad ein cyfrol olaf hon a ffurfia destun llawenydd i'r rhai a ddysgwyliant ddyfodiad y "Priodfab," drwy fod arwyddion yr amserau enbyd hyn a gofrestra yn rhagredegwyr iddo Ef, ac yn annogaethol iddynt hwythau i "ddyrchafu eu penau fod amser eu hymwared yn agosâu;" a ffurfia annogaeth gref i'r rhai a feddant yr Offeiriadaeth ddwyfol,—y gallu achubol, i ymwroli i ledaenu egwyddorion bywyd a heddwch yn mhlith yr ychydig onestion a chwennychant hyny.

Anwyl Saint, gan mai nyni yw goleuni y byd, trwsiwn ein lampau, a dysgwn wersi i'w cyflawni yn y dyfodol wrth edrych ar ffaeleddau y flwyddyn fynedol; nid wrth edrych ar eiddo ereill gymmaint, eithr drych fo y mynedol i bob un weled ei wendidau ei hun, a'i bleser fo ei gwella. I'r sawl a all syllu yn dawel a chydwybodol ar ei hanes ei hun yn y flwyddyn hon ei fod wedi gwneuthur yr oll a allodd er lleshâd ei gyd-ddynion a gogoneddu Duw, y mae iddo bleser mawr o'i ffyddlondeb; ac i'r sawl a fethodd boed yr arholiad hwn yn gyfnod diwygiad a ddug y cyffelyb lawenydd iddo yntau; felly, darparwn oll i

roddi ein cyfrif olaf i fyny yn llawen i bwyswr yr ysbrydoedd a gwybyddwr ein calonau.

Cymhellwn ein derbynwyr i werthfawrogi y gyfrol hon o herwydd y ddysgeidiaeth a'r hanesyddiaeth a gynnwys o Seion, ynghyd ag o herwydd defnyddioldeb y gohebiaethau a'r newyddion cartrefol a gynnwys; a diau y bydd ymholi gan ein heppil am y pethau hyn pan y bydd y campwyr sydd ar chwareulawr ein teyrnas yn bresennol wedi myned tu draw i'r llen.

Teimlwn bleser annhraethol yn cyd-lafurio a'n brodyr ffyddlon yn y winllan Gymreig, a diolchwn iddynt ac i'n Duw am bob argoelion a gawn o'u diwydrwydd a'u llwyddiant. Dywenydd genym allu syllu yn ol ar sefyllfa heddychol gyffredinol, ac ar iachus gyflwr yr eglwys drwy yr holl Gynnadleddau, ac yr ydym yn mawr lawenhau yn nghynnyddiad ffydd y Saint i gredu y dirgeledigaethau nefolaidd a ddysgwyd i ni eleni; dysgwyliwn *weithredoedd* mawreddog yn ffeithiau mwy profadwy etto yn y dyfodol o eu bod yn cynnyddu ar gynnydd Duw. Yn mlaen, *yn mlaen* fyddo ein harwyddair ni oll, fel milwyr glew yn myddin ein Brenin, a nyni yn gwybod mai ein braint yw darparu ei ffordd i'w deyrnas ogoneddus. Hyn ydyw taeraf ddymuniad, uchaf, blaenaf, ac eleni, olaf lais eich

GOL.

---

## DYFYNIAD O LYTHYR Y CHWAER JONES.

AR ddymuniad amryw heblaw ein hanwyl briod, dyfynwn a ganlyn o'i llythyr, dyddiedig, D. Ll. H. Mawr, yn Medi diweddaf:—

"Yr wyf fi a'ch plant bychain yn fyw ac yn iach o ddaioni ein Tad nefol, ac yn ymgysuro ein goreu yn ein hamddifadrwydd o'ch cysuron a'ch cwmniaeth dan yr ystyriaeth o fod ein haberth yn gymmeradwy gan ein Duw, er mwyn teyrnas yr hwn yr ydych wedi ein gadael, a myned braidd drwch y ddaear oddiwrthym. Teimlaf fi yn foddhaol i drefniad yr Arglwydd i chwi ei wasanaethu Ef a'i waith yna yn hytrach na ein cysuro ni yma; etto, nid gwiw i mi ddweyd nad ywfy meddwl yn dianc yn mlaen i bortreadu golygfeydd eich dych-

weliad. Dywed Claudia fach wrth y plant fod ei thad wedi myned i Gymru i ymofyn y Saint adref. Am y rhosyn bach arall, nid yw yn dweyd nemawr etto, ond yn parablu am yr uchaf a'i chwaer fach enw y "*dada*" na chafodd erioed y fraint o'i weled; mae Ef yr un ddelw ac enw a'n Dan bach a foddodd cyn eich ymadawiad oddiyma. Byddwch siwr a thalu diolch droswyf o galon i'r chwiorydd anwyl a anfonasant yr anrheg o ddillad Cymru i mi a'm plant bach; maent o well defnydd na dim a brynir yma; talaf eu caredigrwydd yn ol pan y delont hwythau yma, hyd y gallaf, dywedwch.

Mae llawer o'r Saint wedi cyrhaedd yma, ac amryw Gymru yn mhlith ereill, mae y gweddill o'r ymfudwyr yn dyfod yn llwyddiannus meddir. Dangosir caredigrwydd cyffredinol i fyned â gweddeu i gyfarfod y rhai olaf. Un o brif wleddoedd y Saint yma yw y dysgedigaethau a geir yn y Tabernacl ar y Suliau gan ein Llywyddion ac ereill; cawn ryw oleuni adnewyddol yn barhaus ar bwysigrwydd a mawredd gwaith y dyddiau diweddaf. Pleser genych chwi fyddai gweled y dylanwad sydd gan y Llywyddion yma yn awr; gwna pawb braidd bob peth a geisiant yn ewyllysgar. Mwynheir heddwch cyffredinol yn mhlith y Saint, ac iechyd. Mae y mur mawr o amgylch y Deml wedi ei gwlhau, a phenderfyniad i fyned a'r Deml yn mlaen yn gyflym. . . . . Pe deuwn i Gymru etto tystiolaethwn yn gadarnach na phan yr oeddwn yna o'r blaen mai gwaith Duw yw y gwaith hwn, o herwydd yr wyf wedi ac yn cael prawfiadu ychwanegol o hyny yn barhaus; byddwch cystal a'm cofio i yn garedig at y Saint yna, yn enwedig y rhai a adwaenwn pan yna; hiraethaf am eu gweled yn y lle iach, heddychol, a dedwydd hwn; mae amryw o'm hen gydnabod wedi cyrhaedd, a chaf bleser yn eu cwmni yn fynych. Mae yr holl Gymru sydd yma yn iach ar a wn i. ac yn gwneyd yn dda yn gyffredinol; aeth y mwyrif o honynt i'r Box Elder. Y mae llawer o'ch hen gyfeillion, heblaw Cymry, yn holi yn fynych am danoch, ac yn dymuno eu cofio atoch yn neilldnol. Mae teuluoedd Jeremy a Daniels yn iach, cofiweh fi atynt hwy, at ein perthynasau, ac at y Saint, ond at neb yn fwy nag atoch eich hunan. Yr Arglwydd mawr a roddo i chwi lawer iawn o'i Ysbryd Glân yn barhaus, ei angylion a'ch cadwo rhag yr heintiau a'r peryglon sydd yn y byd, a lwyddo eich

cenadiaeth yn fawr iawn, ie, gymmaint ag a ddymunwch eich hunan, ac a'ch dychwelo chwi yn ol mewn gorfoledd, yw taer a pharhaus weddi

"Eich ffyddlon briod,

"JANE JONES."

---

## EMYN SEION.

Ruyw olwg hardd, pob hedd a dardd,
Dros wyneb daear,—byd a chwardd,
Pan fo Seion uwch gelyion,—
Galon creulon croes:
Fy nghalon sydd bob nos a dydd,
Yn hiraethu am fod yn rhydd,
Draw'n ddiangol, llon a siriol,
Mewn dewisol oes:
'Rwy'n llawenhau yn ngwaith fy Nuw;—
Mae heddwch dan fy mron;
Tra yn fy nghalon d'rawiad byw,
Mi garaf lwyddiant hon,—
Dyna'r fan y caraf fod,—
Hedd diddarfod yno fydd;
Poen ac wylo wedi cilio,
Gwawrio wnelo'r dedwydd ddydd.

DEWI ELFED.

---

DERBYNIADAU AM LYFRAU O RHAG. 9 HYD RHAG. 28.—A. L. Jones, £2 6s 2c; Thomas Evans, 15s; John Williams, £2 10s; G. W. Davies, £15.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

---

CYNNWYSIAD.

TUD.
Mormoniaeth yn yr Unol Daleithiau ..... 613
Pa fodd i Gynnorthwyo'r Henuriaid ar Genadiaethau Tramor ..... 615
Golygyddiaeth—Y Flwyddyn Fynedol ..... 616
Dyfyniad o Lythyr y Chwaer Jones ..... 618
Emyn Seion ..... 620

---

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.